



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

### **Usage guidelines**

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

### **About Google Book Search**

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>

Sept 14 21 50



Harvard College Library



FROM THE GIFT OF


ERNEST BLANEY DANE

(Class of 1892)

OF BOSTON

FOR ENGLISH LITERATURE





Y

# TRAETHODYDD.

AM Y FLWYDDYN 1852.

LLYFR VIII.

DINBYCH:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN THOMAS GEE.

LLUNDAIN:


HUGHES A BUTLER, ST. MARTIN'S LE GRAND.

MDCCLII.

~~Philol 867~~

Call 172450

\*



Gift of  
Ernest B. Lane  
of Boston.

## DANGOSEG.

### IONAWR.

	Tudal.
Llyfryddiaeth y Cymry, . . . . .	5
Llyfr Habacuc, . . . . .	32
Athrylith a Gweithion Dafydd Thomas, o'r Waun fawr, neu Dafydd Ddu o Eryri, . . . . .	37
Cysondeb yr Ysgrythyrau & Darganfyddiadau diweddar Gwyddiant, . . . . .	52
Pryddest ar Ddoethineb Duw. Gan y Parch. G. Edwards, M. A., . . . . .	76
Dafydd Ionawr, . . . . .	94
"Palestina," gan Iorwerth Glan Aled, . . . . .	103
Awdl ar Arddwriaeth, . . . . .	113
Pobl y Mawr Gam, . . . . .	117
"Llyfr Hanes y Ffydd," . . . . .	120
Nodiadau ar Lyfrau, . . . . .	126

### EBRILL.

Athrylith a Gweithion Thomas Edwards, o'r Nant, . . . . .	133
Llyfryddiaeth y Cymry, . . . . .	151
Salmyddiaeth Gymreig, . . . . .	175
Effeithian Pabyddiaeth ar Wledydd, . . . . .	182
Yr Aiph, . . . . .	188
Efelychiad, . . . . .	200
Pryddest ar Ddoethineb Duw. Gan y Parch. G. Edwards, M. A., . . . . .	213
Pobl y Dref, a Phobl y Wlad, . . . . .	233
Barddoniaeth Gwilym Hiraethog, . . . . .	237
Salmau Edward Kyffin, . . . . .	243
Cysondeb yr Ysgrythyrau, . . . . .	247
Y Pusaiaid Cymreig, . . . . .	254
Nodiadau ar Lyfrau, . . . . .	257

## GORPHENAF.

	Tudal.
Llyfr y Prophwyd Hosea, . . . . .	261
Y Pethau Daearyl, a'r Pethau Nefol, . . . . .	282
Hugh Owen, o Fron y Clydwr, . . . . .	290
Llyfryddiaeth y Cymry, . . . . .	298
Sabboth yn Meifod, . . . . .	322
Athryllth a Gweithian Mr. Robert Williams (Robert ab Gwilym Ddu, o Eifion), . . . . .	325
Addysg at y Weinidogaeth, . . . . .	346
Gweithian Rhyddiaithol Milton, . . . . .	359
Nodiadau ar yr Amserau, . . . . .	387

## HYDERF.

Llyfryddiaeth y Cymry, . . . . .	389
Yr Alphe, . . . . .	409
Taith fr Gogledd, . . . . .	424
Yr Ewyllys, . . . . .	433
Hector ac Andromache, . . . . .	448
Tafeni Achau Iesu Grist gan yr Efengylwyr, . . . . .	453
Gweithian Rhyddiaithol Milton, . . . . .	492
Nodiadau ar Lyfran, : . . . . .	510



# Y TRAETHODYDD.

## LLYFRYDDIAETH Y CYMRY.

**HÆRIAD** gwastadol rhyw fath o bobl yw, nad oes llyfrau yn yr iaith Gymraeg, na chan y Cymry;—mai cenedl anwybodus o farbariaid oedd ein cenedl ni hyd yn ddiweddar. Ond yr ydym yn barod i roi gwrtheb i'r haeriad, trwy rif o erthyglau a brofant fod mwy o lyfrau yn Nghymru nag un wlad arall o'i maint, a chymaint o hynafiaeth llyfrol yn perthyn i ni ag i genedloedd eraill, a llawer iawn mwy defnyddiol a sylweddol. Rhyfeddasom lawer gwaith mor anwybodus yw, nid estroniaid, ond llawer o ddyinion darllengar ein gwlad ein hunain, o lyfryddiaeth ein gwlad a'n cenedl—na fedrant roi dim hysbysiad i estron a deimlo ddyddordeb i ymholi beth yw ein sefyllfa o berthynas i gyhoeddiadau a lyfrau yn yr iaith Gymraeg. Yr ydym er's rhai blyneddau wedi cymeryd cryn ddyddordeb i chwilio i hyn; ac yn y llithoedd a roddwn, ca y darlennydd ffrwyth ein llafur. Ceisiasom hyd oedd yn bosibl weled y llyfrau yn ber-sonol, i'r hyn y mae genym, fe allai, fwy o fantais na'r cyffredin.

Mae yn briodol i'r ysgrifenydd gydnabod y cynnorthwy a gafodd gan ffrwyth llafur y rhai a aethant o'r blaen. Y cyntaf ydoedd y Parch. Moses Williams, ficer Defynog, yn sir Frycheiniog, yr hwn a gyhoeddodd "Cofrestr o'r holl Lyfrau Printiedig, gan mwyaf a Gyfansoddwyd yn yr Iaith Gymraeg, neu a Gyfieithiwyd iddi hyd y Flwyddyn 1717—*Pauperis est Numerare Pecus*. Printiedig yn Llundain, gan Brintwyr y Brenin. 1717." Yn ei blaenori y mae y llythyrau canlynol:—

### "Y CYFLWYNIAD.

*"At yr Anrhydeddus Richard Mostyn, o Penbedw, yn sir Ddinbych.*

"**STR,**

"Ni ryfygaswn i gyflwyno erthyl mor afuniaiidd ac amherffaith a hwn i'ch ffafwr chwi a'ch nodded, oni bai fod yn ddiammau gennyf fod eich cariad chwi at y Cymry mor fawr, nad oes le i betruso na chaiff y meredig hwn hefyd, er dielwed yw, ac yntau yn Gymro, ei gynnwys, a'i gyflawn groesawu, ym mhlas Penbedw.

Mi wn yn rhy dda fod gormod, ysywaeth, o'm Cydwladwyr wedi gorffwyllo cymhelled yn ddiweddar, nad yw 'n gywilydd yn y byd ganddynt gablu a dibrisio hynny y mae pawb eraill agos o holl drigolion Ewropa yn cynfigennu wrthym o'i achos; ac odid mawr nad edrych y cyfryw ddyinionach ar y gorchwyl bychanigyn ymma megis Gwrthwaith ac Anoberi: eithr nid wyf 'n ammau na bydd eich esampl haelionus chwi a'ch tylwyth, ynghyd â'r eiddo eraill o Gym-mwynaswyr ac Amgeleddwyr yr amcanion Cymreig sy'n awr ar droed, yn fodd yw denu hwynt, heb o hur, nid yn unig i faddeu i mi fy mhoen hwn, eithr hefyd i roddi ei dyledus parch i'r hynaf a'r odidocaf o'r ieithoedd yn y cwr ymma i'r ddaear, a'i chadw a'i choleddu hi yn dra gwrolwych, drwy annog gwyr da

IONAWR, 1852.]

poenus a chyfarwydd i grynhoi, a threfnu, a phrintio Gweddillion Ysgrifeniadau ein Hynafiaid sy a'r gyteiliorn, cyn o'i myned yn llwyr gwbl ar gyfngoll.

Mae Sais cynhwynol, gwr dysgedig dros ben, ac Athraw Difnyddiaeth, wedi myned yn gystal Cymreigydd, o fewn i'r ddwy flynedd ymma, a'i fod mor hyfedr a chymmeryd *coppi* o Gyfraith Hywel Dda yn llaw eisoes, yr hwn y mae yn addaw ei osod allan yn Gymraeg a Lladin ar fyr amser. Mae cynnifer o'r Cymry hwythau mor brysur yr awron ar waith, rhai yn taclu hen lyfrau Brythoneg, eraill yn cyfieithu rhai Seisnig newydd; a'm bod i yn gobeithio 'ch anrhegu chwi etto ar fyrder âg Argraffiad arall o'r Traethawd ymma, a chymmaint o anchwanegiadau ynddo ag a wnelo iawn am wallau hwn a luniaethwyd ar ffrwst gan, Syr, eich rhwymedcaf, a'ch gostyng-eiddiaf wasanaethwr,

MOSES WILLIAMS."

Nid ydym yn gwybod iddo fyth gwblhau ei fwrriad uchod. Fe allai i'w symudiad i wasanaethu yn yr efengyl i Loegr ei luddias, gan ei roddi mewn anghyfleusdra i gasglu y defnyddiau anghenrheidiol. Cyhoeddwyd y gofrestr yn y "Gwŷfiedydd," am Mawrth ac Ebrill, &c., 1832. Ei ail lythyr rhagymadroddol yw—

"AT Y CYMBRY.

"LLYMMA i chwi, fy Nghydwladwyr addfwyn, Gofrestr o'r holl Lyfrau Printiedig, gan mwyaf a Gyfansoddwyd yn y Iaith Gymraeg, neu a Gyfieithwyd iddi hyd y flwyddyn hon, a hysbysyd hefyd pa sawl gwaith y printiwyd hwynt. Mi a wn fod bagad yn ychwaneg ar gerdded yn y byd, na ellais i ddyfod o hyd iddynt; ac mi a welais lawer o rai candryll, heb na dechreu na diwedd iddynt, yn ddiymgeledd ar draws tai yn Nghymru, a diammau fod rhai hefyd na chlywais i etto son am danynt. Eithr os byddwch chwi morfwyn a rhoddi i mi hanes neb Llyfrau neu Argraffiadau ni chrybwyllir ymma, ond antur chwi gewch Gofrestr a fo perffeithiach a chyflawnach amser arall, gan eich Gwasanaethwr gostyng-eiddiaf yn y Iaith Gymraeg,

*Llundain, y 1fed o Fehefn, 1717.*

MOSES WILLIAMS."

Mab oedd Moses Williams i Samuel Williams, ficer Llandyfriog, yn sir Aberteifi, a Llangynllo, yn sir Faesyfed; ac efe a anwyd mewn lle a elwir Glaslwyn, yn y sir flaenaf. Ni bu yn Defynog ond o'r flwyddyn 1716 hyd y flwyddyn 1724, pan yr aeth i Bridgewater, lle y bu farw. Yr oedd yn Llundain yn golygu argraffiad o'r Bibl—y cyntaf yn Gymraeg, i wasanaeth y cyffredin, gan y Gymdeithas er Lledanu Gwybodaeth Gristionogol, ac a adnabyddir wrth ei enw. Cyhoeddodd hefyd, yn 1726, "*Glossary of Roman Antiquities*," o waith William Baxter, Cymro o Lanluggan, yn sir Drefaldwyn, o dan yr enw "*Reliquiae Baxterianae*," &c.

Y mae Syr Samuel R. Meyrick yn adrodd yr hanesyn canlynol am Moses Williams. Ymddengys fod Moses, druan, wedi bod mor anhapus a syrthio mewn cariad â boneddiges dlôs yn Llundain; a chan ei fod ei hun yn hynod o wylaidd ar achos felly, efe a geisiodd gan gyfaill iddo—un Mr. Alban Thomas, yr hwn a briododd, yn ail wraig, aeres Tyglyn, a'r hwn oedd yn pryd hyny yn astudio meddyginiaeth yn Llundain—i dori yr ia drosto, gan y gwyddai Moses yr arferai ymweled â'r teulu. Wedi peth hwyrfrydigrwydd, anturiodd y meddyg ieuanc ar y gorchwyl. Ond wrth siarad â'r foneddiges ar y mater, efe a ddeallodd na fynai hi ddim i'w ddyweyd wrth Moses Williams; ac wrth gael cymhell arni yn lled drwm gan y cenad cariad hwn tros ei gyfaill, hi, o'r diwedd, a ollyngodd awgrym, mai pe buasai efe yn ceisio drosto ei hun, y buasai yr ateb, fe allai, yn wahanol. Cymerodd Mr. Thomas yr awgrym, ac aeth ymaith. Wrth fynegu ei

helynt i'w gyfaill, ciliodd serch Moses oddiwrthi, a chymhellodd Alban i ysgrifenu ât y foneddiges drosto ei hun. Dadleuai y meddyg ieuanc ei ieuencid, a'i annigonolrwydd mewn moddion, i feddwl am briodi, ac amryw esgusodion eraill, ond y cwbl yn ofer. Pwysodd Moses ar ei gyfaill i wneyd y cynnyg drosto ei hun, fel prawf nad oedd ef yn gwneyd yn ffol pan y dymunasai ei chael. Ceisiodd, a llwyddodd Alban. Nid oedd gan y foneddiges ond un gwrthwynebiad—ei bod yn priodi dyn heb fod o âch boneddigion ac yn cadw *coat of arms*. Yr oedd hyn yn beth nad oedd Mr. Thomas wedi meddwl am dano, ac yr oedd ar y cyntaf mewn dyryswch pa fodd i ateb gwrthddadl y rian deg. Yr oedd wedi gadael ei wlad yn ieuanc, cyn ildio astudio dim ar athrawiaeth yr achau. Pa fodd bynag, efe a ysgrifennodd at ei dad, y Parch. Alban Thomas, a Rhos, yn mhlwyf Blaen Porth, yr hwn oedd dduwinydd a bardd o gryn enwogrwydd; a'i dad a olrheiniodd y Thomasiaid, mewn llinell gywir, o arglwyddi Tywyn i lawr hyd iddo ei hunan. Efe a anfonodd, gyd â'r ateb, i'w fab, y *coat of arms*, gyda choeden fawr o achau, wedi ei phaentio yn hardd. Bellach nid oedd dim rhwystr, a'r briodas a gymerodd le, a buont fyw yn ddedwydd hyd farwolaeth y foneddiges a'i mab.<sup>1</sup> Maddeuer i ni am droi ymaith am fynydd oddiwrth awduriaeth arosol yr hen frawd Moses Williams at ei garwriaeth fframserol.—Bellach, at ein pwnc.

Yn y flwyddyn 1840, darfu i olygydd y "Gwladgarwr" wahodd ei ohebwy'r i'w gynnorthwyo i gael "Rhestr o holl lyfrau Cymru: sef y rhai a gyfansoddwyd yn iaith y wlad hõno, neu a gyfieithwyd iddi, yn hollol neu mewn rhan, o iaithoedd eraill, ac a argraffwyd mewn gwahanol fanau o ddechreu yr arferiad o'r gelfyddyd ardderehog hõno hyd y pryd hwn." Llwyddodd y cais hwn i gael rhestr o chwe' chant ac ugain o argraffiadau, o'r flwyddyn 1546 hyd y flwyddyn 1799. Ar ddiwedd ei orchwyl, dywed, "Fe allai fod amryw lyfrau yn yohwaneg, na chawsom wybodaeth am danynt; eto, honwn ddarfod i ni wneuthur rhestr gyflawnach a rheoleidd-iach nag y darfu neb o'n blaenau; a gadawn i'r neb a fyno wneyd yn well, a dwyn yr unrhyw ymlaen o bryd i bryd hyd y lyfr Cymreig olaf a gyhoeddwyd ac a gyhoeddir rhagllaw." Gan fod y cais hwnw yn un ag oedd yn taro chwaeth yr ysgrifenydd yn dda, efe a ymoheodd gryn lawer â golygydd hybarch y "Gwladgarwr" y pryd hyny, gan drosglwyddo iddo, o fis i fis, restr o'r cyfryw lyfrau y caffai olwg a gafael arnynt yn ei deithiau gweinidogaethol. Er y pryd hyny, yr ydym wedi ymbleseru yn casglu, er diwygio a pherffeithio y rhestr hõno, ac wedi llwyddo i gael golwg ar rai ugeiniau nad ydynt yn y rhestr hõno. Mae yn briodol yma gydnabod y cynnorthwy a gafwyd yn y Gogledd gan fynedfa rydd i lyfrfa ragorol Mr. Rees Jones, Cwm, Llanymowddwy, yn sir Feirionydd, ac befyd yn y Deheudir gan yr un ffafr oddiar law y Parch. W. Roberts, gweinidog y Bedyddwyr, Blaenau, sir Fynwy. Pan gyfarfydder â'r nod hwn ¶, cofier ei fod yn arwyddo ansicrwydd am yr amser y cyhoeddwyd y cyfryw lyfr, ond ei fod wedi ei ddodi mor agosed ag y gallesid barnu oddiar wahanol amgylchiadau y dylai fod. Gyda hyn o "arweiniad i mewn," ni a ddechreuwn yn y flwyddyn

1546.

"**BEIBL.** Yn y Llyvyr hwn y Traethyr Gwyddor Kymraeg. Kalendyr. Y Gredo neu bynkey yr ffydd Gatholig. Y Pader neu Weddi yr Arglwydd. Y

<sup>1</sup> "*Meyrick's History of Cardiganshire*." tudal. 293, 294.

deng air Deddyf. Saith rinwedd yr Eglwys. Y Kampay arveradwy, a'r Gweddiau Gocheladwy ae Keingeu." Llundain: 4plyg.

Dywed yr Esgob Humphrey, gynt o Fangor, mai math o almanac oedd yr uchod, o ychydig ddalenau. Dodwyd "Beibl," mewn llythyrenau mawr, ar ben uchaf y ddalen gyntaf, i dynu sylw, mae yn debyg, gan fod rhanau o'r Bibl ynddo, yr hyn oedd yn ddyeithr iawn yn Nghymru yn y dyddiau hyny. Tybia rhai mai Syr John Price a gyhoeddodd y llyfr hwn. Brodor o sir Frycheiniog oedd Syr John, ac yr oedd yn byw yn y Priordŷ, Aberhonddu. Y mae yn dra thebyg ei fod mewn urddau, ac fel y cyfryw yn dwyn rhyw berthynas eglwysig â'r Priordŷ, yr hwn le oedd mewn bri yn yr oes hōno; ac y mae yn debyg hefyd mai oblegid hyny y gelwid ef yn "Syr John," am yr arferid yn yr oes hōno alw dysgedigion mewn urddau felly. Dywed Jones, yn ei "*History of Breconshire*," fod y Syr John hwn yn hynafiaethydd enwog, ac iddo hynodi ei hun trwy ei "Amddiffyniad o Hanesiaeth Frutanaidd," yn erbyn Polydore Virgil. Rhoddodd hefyd gynnorthwy i Leland yn ei "*Assertio Arturii*." Gall hefyd fod gan Dr. John Davydd Rhys law yn nghyhoeddiad y llyfryn hwn, gan ei fod yn byw ger Aberhonddu, ac felly yn adnabyddus â Syr John Price. Dyma y llyfr cyntaf Cymraeg; ond yr oedd un Salisbury wedi cyhoeddi "*Prymer*," yn y flwyddyn 1531, yr hwn oedd yn llyfr o un dalen ar hugain, ac wedi ei argraffu gan Robert Copeland, yr hwn a fuasai yn wasanaethydd gyda Caxton, yr argraffydd Seisnig cyntaf.<sup>1</sup> Ac un arall o'r enw "*Prymer of Salysbery*," yn 1535. Ond ni ddywedir mai Cymraeg oedd "*Prymer Salisbury*." Ymddengys fod gan y Salisburiad ryw-beth i'w wneyd âg argraffu yn foreu, fel y ceir gweled eto. Dyma yr amgylchiad cyntaf i ni gael yr enw Salisbury yn gysylltiedig â llyfryddiaeth, ac yr oedd hyn yn mhen ychydig flyneddau ar ol dwyn y gelfyddyd o argraffu i'r deyrnas hon. Yr oedd un John Byddell, neu Bedel, yn galw ei hun yn Salisbury, canys argraffwyd llyfr o'r enw "*Lyf of Hyldbbrand*" yn y flwyddyn 1533. *Imprinted by Wynkyn de Worde, for John Byddell, otherwise Salisbury.*<sup>2</sup>

1547.

"A Dictionary in Englyshe and Welsh, moche necessary to all such Welshmen as wil Spedy learne the Englyshe tongue, thought unto the Kynges majestie very mete to be sette forthe to the use of his Graces Subjects in Wales; Wherunto is prefixed a little treatyse of the Englyshe pronunciation of the Letters. Imprinted at London, in Foster lane, by me John Waley 1547. Cum privilegio ad imprimendum."

Y mae yn blaenori y geirlyfr hwn, "Johan Waley y prenter yn danfon anerch ar pobol Kymry." Yr oedd y Seisoneg ynddo o flaen y Cymraeg. Yr oedd wedi ei gyflwyno i'r brenin Harri VIII., a'i argraffu o dan ei nodded ef, fel y mynega ei wyneb-ddalen—"thought unto the Kynges majestie very mete to be sette forthe to the use of his Graces Subjects in Wales." Y mae Strype, yn ei "*Annals*," yn galw yr awdur yn "*Wyllyam Salesbury of Llanrwst, gent*," ac yn dyweyd ei fod yn "bartner" â "Johan Waley y prenter" yn y *patent* am saith mlynedd i argraffu y Bibl yn Gymraeg.<sup>3</sup> Y mae copi o'r argraffiad hwn yn y *British Museum*.

1548.

¶ "A Dictionary in Englyse and Welshe," &c.

<sup>1</sup> "*Dictionary of Printing and Printers*:" tudal. 801.

<sup>2</sup> Eto: tudal. 287.

<sup>3</sup> Eto: tudal. 297.

All argraffiad oedd hwn o'r "*Dictionary*" y flwyddyn arall, gan Edward Whitechurch, heb amseriad. Yr oedd ef yn un o argraffwyr "*Matthew's Bibl*," sef yr ail argraffiad o "Fibl Coverdale," gyda pheth gwelliadau.

1550.

1. "A Brief and Plain Introduction, teaching how to pronounce the Letters in the Brytysh Tongue."

All argraffiad ydoedd hwn o'r "*Little treatyse of the Englyshe pronunciation of the Letters*" oedd yn blaenori "*Dictionary*" 1547, gan "Wyllyam Salesbury," ac a argraffwyd fel hyn wrtho ei hun, yn Llundain, gan Robert Crowley.<sup>1</sup>

2. "Dymchweliad allor uchel y Pab, gan W. Salesbury, Llundain." 8plyg.
3. "Arweiniad hawdd ac eglur i'r iaith Gymraeg, gan W. Salesbury, Llundain." 1550. 4plyg.

Yr un oedd hwn a *rshif*. 1 y flwyddyn hon, ond ei fod yn Gymraeg.

1551.

1. "Kynnifer llŷth a Ban o'r Ysgrythur ac a Ddarlleir yr Eccleis pryd comun, Sulieu, a'r Gwiliu trwy'r Vlwyddyn. O Gambereicat William Salesbury, Llundain."
2. "A Dictionary in Englyshe and Welshe," &c.

Yr oedd hwn yn drydydd argraffiad o Eirlyfr "*Wyllyam Salesbury, of Llanrost, gent.*" Gwel 1547 a 1548. Yr argraffydd oedd Robert Crowley. Brodor ydoedd o sir Gaerwrangon. Y mae yn dra thebygol ei fod yn Gymro, gan fod yr iaith Gymraeg yn cael ei siarad yn gyffredin yn siroedd y terfynau y pryd hyn. Yr oedd yn pregethu, gan ei fod mewn urddau, ac yn ficer *St. Giles', Cripplegate*, lle y bu farw, Mehefin 18fed, 1588. Bu orfod iddo ffoi, fel llawer eraill, i Frankfort, ar ddyfodiad *Mary* i'r orsedd.<sup>2</sup>

Aeth deuddeng mlynedd heibio ar ol hyn cyn y cawn fod dim wedi ei wneyd gan y wasg er lles y Cymry, hyd y medrasom wybod. Ond yr "oedd yn Ipswich, yn amser Edward VI., argraffydd o'r enw John Oswen, yr hwn, yn y flwyddyn 1548, a symudodd i Gaerloew (*Worcester*); ac y mae yn *Roll's Chapel* drwydded (*licence*) a roddwyd gan Edward VI. i John Oswen, o ddinas Caerloew, a'i gynnrychiolwyr, i argraffu, ac ailargraffu, pob math o lyfr neu lyfrau, a osodir allan gan ei Fawrhydi, o berthynas i'r gwasanaeth a arferir yn yr eglwysi, a gweinyddiad y sacramentau, ac addysg i'w ddeiliad yn nhywysogaeth Cymru, a'r terfynau (*marches*) perthynol i'r unrhyw, &c., am saith mlynedd, gan wahardd pawb eraill, pwy bynag fyddont, i argraffu yr unrhyw. Efe a argraffodd hyd y flwyddyn 1553, yn yr hon flwyddyn, sef y 7fed o Edward VI., y cafodd ei benodi yn argraffydd i Dywysogaeth Cymru, a'r terfynau perthynol i'r unrhyw." Er yr cyfan, nid ydys yn deall i Oswen argraffu dim yn Gymraeg; ac aeth ei drwydded allan heb wneyd dim gwerth ei chael, pan y rhoddwyd trwydded arall i John Whaley. Heblaw hyn, bu farw y brenin Edward, a daeth *Mary Babaid* i'r orsedd, yr hyn a rydd reswm arall paham y mae cymaint o wagle a deuddeng mlynedd heb i Gymru gael dim trwy y wasg.<sup>3</sup>

<sup>1</sup> "*Dictionary of Printers and Printing*: tudal. 297.

<sup>2</sup> Eto: tudal. 398.

<sup>3</sup> Eto: dan y flwyddyn 1548, a John Oswen.

1564—65.

"The Lateny in Welshe."

Nis gwyddom ddim ychwaneg am yr uchod, na'i fod yn cael ei enwi ymhlith y llyfrau a argraffwyd gan John Whaley, yn y rhestr o honynt a roir gan Mr. C. H. Timperley, yn ei "*Dictionary of Printers and Printing*," i'r hwn yr ydys yn ddyledus am lawer cynnorthwy a gafwyd yn nghyfansoddiad yr erthyglau hyn.

Hwyrach y byddai yn briodol sylwi yn y lle hwn, mor wahanol oedd y llyfrau cyntaf a gyhoeddwyd yn Gymraeg i'r rhai cyntaf yn Seisoneg. Yr oedd y llyfrau cyntaf a argraffwyd yn Gymraeg yn llyfrau buddiol, crefyddol, ac anghenrheidiol—nid llyfrau o ddifyrwrch neu o duediadau ammhëus; ond nid felly yr oedd y llyfrau cyntaf a argraffwyd yn Seisoneg, sef y rhai a elwid, "*Recuyell of the Histories of Troy*,"—"Oration of John Russell, on Charles, duke of Burgundy, being created a knight of the garter,"—"A boke had my hostess at the George, of the Death of Arthur, beginning at Cassibelan,"—"Bartholomeus de Propriatibus Rerum,"—"The Boke of Chesse,"—"Legende of Sayntes,"—"The Hystorye of Jason,"<sup>1</sup> &c.;—llyfrau nad oeddynt fuddiol, crefyddol, nac anghenrheidiol, ac felly heb fod yn werth eu cymharu â'r "*Gredo neu bynkey yr ffydd Gatholig, y Pater neu Weddi yr Arglwydd, Y Deng air Daddys*," &c.,—"A Dictionary in Englyshe and Welshe,"—"Dymchweliad allor uchel y Pab,"—"Kynnifer Uğth a Ban o'r Ysgrhythyr ac a ddarllleir yr Eccleis," &c. Cafodd ein cenedl flas ar lyfrau crefyddol o'r dechreu, a'r blas hwnw a grewyd y pryd hwnw sydd wedi ei gadw yn ein plith hyd yn hyn, fel nad oes nemawr lyfr o werth yn ein plith, heb fod arogl crefyddol arno. Yn hyn y mae rhagoriaeth y Cymry ar bob cenedl arall: a hir, meddwn ni, y cadwont y neillduolrwydd hwn, er eu bod wedi cael eu dirmygu am hyny. Y mae dirmyg rhyw fath o bobl yn fwy o ogoniant nag o warth.

1567.

1. "Testament newydd ein arglwydd Iesu Christ. Gwedi ei dynnu, yd y gadei yr anghyfaeth 'air yn ei gyllydd o'r Groec a'r Llatin, gan newidio ffyrf llythren gairae-dodi. Eb law hyny y mae pop Gair a dybiwyt y vot yn andeallus, ai a ran Llediaeth y' wlat, ai o ran ancynfindery deunydd, wedi ei noti ai Eglurhau ar' ledymyl y tudalen gydrychiol."

Yn niwedd y llyfr y mae y geiriau hyn:—

"Imprinted at London, by Henry Denham, at the costes and charges of Humphrey Toy, dwelling in Paules Church yarde, at the sign of the Helmet. *Cum privilegio ad imprimendum solum. Anno 1567. Octob. 7.*"

Fe allai na byddai yn amhriodol yma wneyd rhai sylwadau arweinïol, cyn sylwi ar gyfieithiad a chyhoeddiad y Testament hwn. Y cyntaf, am a wyddom, a gyfieithodd ranau o'r Bibl i'n hiaith ni oedd TALIESIN—bardd enwog o ymyl Llanrwst, ac yn ei flodau oddeutu y fl. 540. Math o aralleiriad barddonol ydynt, o ranau o'r Bibl, sef "Deg pla poeni Pharo," "Llath Foesen," neu wialen Moses, ac yohydig am Dduw a Christ. Yr ail oedd DAFYDD DDU, o Hiraddug, bardd cyfrifol, ac yn ei flodau oddeutu y fl. 1349. Y mae ei waith ef yn cynnwys rhan fawr o'r Salmu, rhan o'r benod gyntaf o efengyl Luc, cân Zacharias, cyfarchiad Mair gan yr angel,<sup>2</sup>

<sup>1</sup> "*Dictionary of Printers*," &c., o'r ffwyddyn 1440 i 1550.

<sup>2</sup> Wedi i ni ysgrifenu y llinellau uchod, rhoddwyd yn ein llaw esiampl o gyfieithiad o gyfarchiad yr angel Gabriel i Fair, gan D. Ddu o Hiraddug, ac y mae fel hyn:—

cân y tri llanc, a chân Simeon. Aralleiriad barddonol, neu ar gynghanedd, yw ei waith yntau. Nid oedd yr ysgrifau hyn i'w cael ond yn llyfrgelloedd y cywrair a'r dysgedig hyd y flwyddyn 1801, pryd y casglwyd ac y cyhoeddwyd y cyfan yn yr "*Archæology of Wales*," trwy lafur yr enwogion, Owain Myfyr, sef Owen Jones, Ysw., Dr. W. Owain Pughe, LL.D., F.A.S., ac Edward Williams, neu Iolo Morganwg, "Bardd wrth fraint a defawd beirdd ynys Prydain." Nid oes amheuanid nad oedd rhanau eraill o'r Bibl yn Gymraeg trwy lafur rhai o'r mynachod, megys ag y cyfeithwyd yn aml gan fynachod gwledydd eraill. Dr. Richard Davies, Esgob Ty Ddewi, a dystiai iddo weled Pum Llyfr Moses yn Gymraeg yn nhŷ ewythr iddo, pan oedd y doctor yn fachgen. Fel hyn y dywed yr esgob dysgedig, yn ei lythyr argraffedig gyda y Testament cyntaf hwn:—

"Yn lle gwir, ni ffynodd genifi erioet gael gwelet y *Bibl* yn Gymraeg: eithr pan oeddwn fachcen, cof yw cennyf welet punip llyfr Moysen yn Gymraeg, o fewn tuyewythr ym' oedd wr dysgedig; ond nid doedd neb yn ystyr y llyfr nac yn prisio arno. Peth ammhëus ydiw (ir a wnni) a ellir gwelet yn oll Cymru un hên FIBL yn Gymraeg i'r penn golledwyt ac y speiliwyt y Cymry oy holl lyfrau. Eithr diemmay yw cennyf fot cyn hynny y Bibl yn ddigon cyffredin yn Gymraeg. Perfeithrwydd ffydd y Merthyrion, eglwyswyr a lleigion, sydd brawf fod yr Ysgrhythyr Lân cenddynt yn i iaith eu hunain.—Hefyd, y mae cenym ni yn Gymraeg amryw ymadroddion a diarhebion yn aros fyth mewn arfer a dynwyt o berffed yr Ysgrhythyr Lân, ac o ganol Efengyl Crist. Yr hyn sydd brofedigaeth ddigonawl fot yr ysgrhythyr Lân yn mhen pob bath ar ddynt, pan y dechreuwyt hwynt, a phan y dygwyt i arfer gyffredinawl: megis, A Dvww a digon, heb Ddvw heb ddim.—A gair Dvww yn uchaf,—y Map rhâd,—Ni lasar, ni wedia, nid teilwng iddo ei fara, Eglwys pawb yn ei galon, Cyn wired a'r efengyl, Pan nad oedd rhyfedd na thyf post aur trwy nen tŷ yr anwir, Drwg y ceidw diawl ei was, I Ddvw y diolchwn gael bwynt, a gallu ei fwyta, Rhad Dvww ar y gwaith; ac eraill o'r fath hyn. Y mae llawer o enwau arferedig gynt yn mhlith y Cymry yn brawf ychwanegol o hyny; megys, Abraham, Esgob Mynyw; Adda Fras, un o'r Beirdd; Aaron, un o benaethiaid gwlad Forgan; Asaph, Esgob Llanelwy; Daniel, yr Esgob cyntaf yn Bangor; Iago ab Idwal; Joseph, Esgob Mynyw; Samuel Beulan, offeiriad dysgedig; Samson, y chweched Esgob ar ugain, a'r diweddar yn Mynyw; a'r cyfryw eraill a goffeir yn fynyeh yn yr hen achau. Y mae hyn yn dangos fot yr Ysgrhythyr Lân yn wybodedic iawn gan ein hynafieit gynt. Y mae prydyddiaeth Taliesin ben-beirdd, yn gwiriaw yr un peth, yr hwn oedd yn byw yn amser Maelgrwn Gwynedd, yn y chweched ganrif."

Dengys y rhesymau uchod yn eithaf boddhaol fod y Bibl, neu ranau helaeth o hono, yn meddiant ein hynafiaid ni y Cymry yn foreuol iawn; a thebyg yw iddynt eu colli trwy erlidigaethau a rhyfeleoedd o'r chweched hyd y bymthegfed ganrif, pan yr ail lewyrchodd y goleuni dwyfol.

Y rhanau cyntaf a *argraffwyd* o'r Bibl yn Gymraeg oedd rhai darnau yn y llyfr bychan a enwasom fel y cyntaf a argraffwyd o gwbl yn ein hiaith, sef llyfr y flwyddyn 1546, yn cynnwys y "Pater, neu Weddi yr Arglwydd,

"Gabriel a anfoned yn gennad y gan Dduw i ddinas yn Galilea yr hwn a elwir Nasareth i briodi morwyn a gwr a elwid Joseph O lwyth Dafydd. Ac anw y forwyn oedd Mair. A phan ddaeth yr angel i mewyn attai y dywawd ef, hanffych gwell Fair gyflawn o rad Duw gyda thi bendigaidd ngyfrwng y gwagedd. A phan erglw Fair hyny cynhyrfu a wnaeth a meddyliaw pa ryw gyfarch oedd honna.

"A dywedyd a oryg yr angel wrthi nac ofnha Fair, canys ti a gefaist rad y gan Dduw ti a ymddygu feichiog i'th groth ac essgory ar fab a elwy ei enw Iesu a hwnw a fydd gwr mawr a mab y gelwir i'r Goruchaf ac efe a rydd yr Arglwydd Dduw iddaw esteddfa Dafydd ei Dad."

y deng Air Deddyf," &c. Y "Kynnifer llŷth a Ban," &c. yn 1551, a' "Latanye in Welshe," yn 1564—65. Dywed y diweddar Iolo Morganwg wrth Dr. Malkin, a dywed hwnw yn ei "*Scenery, Antiquities and Biography of South Wales*," ddarfod i un Thomas Llewelyn, Glyn Eithinog, yn Rhigos, yr hwn sydd ddosran, tref ddegwm, neu *township*, o blwyf Ystrad-dyfog, yn sir Forganwg, a'r hwn oedd fardd Cymraeg enwog, yn Brotestant o nodwedd uchel, duwioldeb mawr, a moesoldeb manwl, ac yn byw yn amser Edward VI., hyd Elizabeth, iddo gyfieithu y Bibl i Gymraeg da, o gyfieithiad Seisonig William Tyndal, tua'r flwyddyn 1540. Yr oedd ef yn meddu trwydded i bregethu o dan law yr Archesgob Grindal, fel y cafodd eraill y dyddiau hyny. Byddai yn aml yn darllen y gwasanaeth mewn annedd-dai—yn ysgrifenedig ganddo ei hun, canys hyd yn hyn nid oedd dim yn argraffedig, a phregethai yn boblogaidd, a ffurfiodd lawer o gymdeithasau bychain. Dywed hefyd fod llythyr mewn ysgrifen yn llyfrgell Syr Thomas Mostyn, yn sir Fflint, oddiwrth y dywededig Thomas Llewelyn, at Richard Davies, yr ail esgob Protestanaidd yn Nhy Ddewi, yn ei annog i gyfieithu y Bibl i'r iaith Gymraeg, ac yn rhoi rhyw hanes am yr hyn oedd ef ei hun wedi ei wneyd. Nid ydys yn sicr a ddefnyddiwyd yagrif Llewelyn gan y cyfieithwyr, ond y mae yn ddigon tebyg eu bod yn adnabyddus i Salisbury, yr hyn, ynghyd â rhesymau eraill, a brofant fod Salisbury, er ei fod yn Wyneddwr, wedi cymysgu llawer o briod-ddull y Deheudir yn ei gyfieithiad, fel y cawn ddangos eto.

Dywed y Parch. J. Jones (Tegid), yn ei ddarlith ragorol a elwir "Bedd Gwr Duw," y bu yn llyfrgell eglwys gadeiriol Llanelwy, hen gyfieithiad, yn un llyfr, o'r efengyl yn ol Sant Matthew, St. Marc, St. Luc, a St. Ioan; a chyfrifd ef yn gyfieithiad hen yn y flwyddyn 1282, mál y gellir gweled oddiwrth lythyr nodded a braint Archesgob Caergaint y flwyddyn hño, yn caniatáu i offeiriaid yn perthyn i Eglwys Llanelwy, y rhyddid i gariaw y darn hwn o'r Testament Newydd o amgylch y wlad, er mwyn ei ddangaws i bwy bynag a chwennychai gael golwg arno.

Y mae llythyr yr archesgob yn Lladin, meddai Mr. Jones, ac i'w gael yn "*Broune Willis' Survey of St. Asaph*:" Attodiad xxii. tudal. 54 a 55., ac a droir yma er mwyn y Cymro uniaith i'r Gymraeg.

"Cylch-lythyr Ioan, Archesgob Canterbury, yn caniatáu i Ganonwyr Llanelwy, yn Nghymru, i gariaw oddiamgylch yr Ysgrhythrau."

'Y Brawd Ioan, &c., i'r holl Offeiriaid, yn gystal ag i'r gwyr llëyg, yn Eagob-aethau Coventry, Lichfield, Henffordd, a'r holl Esgobaethau Cymreig, iechyd a thanghesfedd tragwyddawl yn yr Arglwydd. *Y llyfr neu eiriau yr Efyngylau yn perthyn i Eglwys Llanelwy, a elwir yn gyffredin wrth yr enw EUEGGELTHEN*, yr hwn sydd fal y deallasom mewn cyfrif mawr a pharch gan drigolion o bob gradd, yn mharthau Cymru a'r cyffiniau; ac, am fwy o resymau noc un, a gludir ar droion yn barchus o amgylch y wlad, fal yn beth sanctaidd, gan Offeiriad yn perthyn i'r Eglwys a enwyd uchod. Nyni gan hyny yn cael ein tueddu i gymmeradwyaw y cyfryw arferiad a ddymunem i chwi dalu pob anrhydedd i'r llyfr ac i'r personau, y rhaf a ddarlunir yma, y sydd yn ei ddwyn ef oddiamgylch, gan ddeisyfu anoch er mwyn y parch y sydd genych i Grist, yr hwn yw Awdur yr Efyngylau, i ganiatau i'r Offeiriaid y soniwn am danynt, ymdaith yn eich plith gyd a'r llyfr dywededig, ac iddynt allu llawenhau oblegid ddarfod iddynt hwy gael diogelwch a llonyddwch yn eu mynediad, eu hansawdd, ac yn eu dychweliad yn ol.

'Rhoddwyd o dan ein llaw, yn Lambeth, Gorphenaf y 14eg, o flwyddyn ein Harglwydd 1282.'



"Yr oedd y cyfieithiad uchod o'r Efyngylau yn Llanelwy hyd amser yr Esgob Goldwell, rhagflaenydd Richard Davies. Colodd yr egobaeth ar ddyfodiad Elizabeth i'r orsedd am na throai yn Brotestant; ac aeth i Rufain, lle y bu farw. Meddylir iddo ef gymeryd yr hen ysgrif gydag ef i Rufain, ac odid ei fod yno eto. Pa fodd bynag nid oedd yn Llanelwy yn amser yr Esgob Davies, y nesaf at Goldwell, canys nid yw ef yn crybwyll dim am dano, yr hyn a fuasai yn debygol, pe buasai yno, neu pe clywsai sôn am dano."

Daeth y Testament Newydd hwn o eiddo Salesbury allan mewn canlyniad i weithred seneddol a wnaed y bummed flwyddyn o deyrnasiad Elizabeth,—“fod i'r Bibl, cynnwysedig o'r Hen Destament a'r Newydd, ynghyd â “Llyfry Weddi Gyffredin” a “Gweinyddiad y Sacramentau,” gael ei gyfieithu i'r iaith Frutanaisid neu Gymraeg.” Yr oedd i gael ei gyhoeddi o dan olygiaeth esgobion Llanelwy, Bangor, Tŷ-Ddewi, Llandaf, a Henffordd, ac i gael ei argraffu a'i barotol i'w ddefnyddio yn yr Eglwysi ar y dydd cyntaf o Fawrth, yn y flwyddyn 1566; ac yr oedd pob un o'r esgobion i gael ei ddirwyo i ddeugain punt—swm mawr yn y dyddiau hyny—os na ddeuai y gwaith allan yn yr amser gosodedig. Yr oedd y weithred seneddol hon yn gofyn fod i ailun, neu un llyfr o leiaf, o'r cyfieithiad hwn, fod “yn mhob eglwys esgobawl, yn mhob eglwys blwyfawl, ac yn mhob capel eglwysig trwy holl Gymru, i'w ddarllen gan yr offeiriad pryd gwasanaeth dwyfol, ac amserau eraill, er lles pwy bynag a gai ar ei feddwl fyned i'r Eglwys i'r dyben hyny.” Ordeiniau y weithred hon hefyd fod i offeiriad Cymru ddarllen yr Efyngylau a'r Epistolau, Gweddi yr Arglwydd, Erthyglau a ffydd Gristionogol, y Litani, a'r cyfryw ranau eraill o Lyfr y Weddi Gyffredin yn yr iaith Gymraeg ag a gyfarwyddid ac a apwyntid gan yr esgobion a enwyd, hyd nes y deuai y Bibl allan.<sup>1</sup>

Ond yn lle yr holl Fibl, ni chafwyd ond y Testament Newydd yn unig, yn gyfrol o 399 o dudalennau, mewn llythyrenau Brutanaidd—y llythyren ddu, neu flewog, fel ei gelwir weithiau—wedi ei ranu yn llyfrau a phennodau, fel y mae yn awr; ac hefyd gynnwysiad o flaen pob llyfr a phennod, ac eglurhadau ar ymyl y ddalen ar rai geiriau, ond heb gyfeiriad at leoedd eraill; ac yn wir nid allasai fod, gan nad oedd wedi ei ranu yn adnodau ond ychydig tua'r diwedd. Yr oedd hwn yn gyfieithiad gan wahanol wŷr dysgedig. Cafodd llyfr y Dadguddiad ei gyfieithu gan T. H. C. M., fel y dengys nôd ar ymyl y ddalen, sef Thomas Huet, *Cantor* neu *Præcentor* Mynyw, hyny yw, Tŷ Ddewi. Ail epistol at Timotheus, yr epistol at yr Hebraeid, epistol Iago, a dau epistol Pedr, a gyfieithwyd gan D. R. M., fel y dengys nôd ar ymyl y ddalen yn nechreu yr epistol at yr Hebraeid. Y llythyrenau uchod ydoedd am Dr. Richard Davies, *Menevensis*, neu Esgob Tŷ Ddewi. Y cwbl, heblaw hyny, a gyfieithwyd gan William Salesbury, ac y mae y llythyrenau W. S. yn nechreu 1 *Ioan*, 2 *Tim*. a diwedd 2 *Thes.*, yn arwyddo hyny.<sup>2</sup> Y mae yn hawdd gweled paham y mae y cyfieithiad hwnw mor gymysgedig o ddull pob rhan o'r Dywysogaeth,

<sup>1</sup> “*Dr. Llewelyn's History of the British Versions.*”

<sup>2</sup> Ar ymyl y ddalen yn niwedd 2 *Thes.* y mae y geiriau hyn :—“O Lyver cenedleth oll yd y van hyn W. S., ar Epistol iso D. R. D. M. ei translatoedd.” Gyferbyn a dechreu 2 *Tim.*, dywedir, “W. S. yr vn hwn a ddau iso.” Gyferbyn â dechreu *Heb.* dywedir, “D. R. D. M. yr vn hwn at yr Ebreiet ac y ddau i Petr ac vn i Iaco.” Gyferbyn â epistol Iaf Pedr y mae “D. R. D. M.” Gyferbyn â 1 *Ioan* y mae “W. S. tri Ioan ac vn Judas.” A chyferbyn a dechreu y Dadguddiad y mae “T. H. C. M. a translatoedd oll text yr Apocalypsis yn iaith i wlat.”

hyd yn nod llygriaith y Deheudir hyd i Ben Dewi, a gadael na chymerodd ac na welodd y gwŷr hyn y cyfieithiad o eiddo Thomas Llewelyn y sonia Dr. Malkin am dano ar awdurdod Iolo Morganwg, fel y ceir gweled cyfaddefiad Salesbury ei hun am y "Llyfr Gweddi Cyffredin" a gyfieithwyd ganddo. Argraffwyd y Testament hwn yn Llundain, yn y flwyddyn uchod, sef 1567, gan Henry Denham, ar draul a chost Humphrey Toy. Y mae Calender yn gysylltiedig âg ef, a llythyr o gyflwyniad i'r frenines Elizabeth, gan W. S., prif gyfieithydd a golygydd y cyfan; a llythyr maith yn Gymraeg, gan Esgob Tŷ Ddewi, at ei gydwladwyr, o'r hwn y rhoddasom ddyfyniadau yn barod. Dywedir yn y deuddarn hyn y fod y cyfieithiad hwn wedi ei wneyd o'r Groeg, a'i gymharu â'r Lladin, ac mai Salesbury oedd yn golygu yr holl waith trwy benodiad yr esgobion. Felly nid ymddengys mai cymeryd gwaith Llewelyn o Rhigos a wnaethant, er y gallasant—os gwelsant hwnw—ddilyn peth ar ei orgraph. Ond os oedd Salesbury yn ymgynghori â Llewelyn wrth olygu, y mae yn sicr fod Llewelyn a'i waith yn ddyeithr i'r Esgob, pan ysgrifennodd ei lythyr, gan y dywed na welodd ddim o'r Bibl yn Gymraeg ond Pum Llyfr Moses yn nhŷ ei ewythr pan oedd "fachoen."

Buasem yn rhoddi esiampl o'r cyfieithiad hwn, oni b'ai ei fod eisoes o flaen y cyffredin—wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar, neu ran o hono, o leiaf ddigon er dangos y fath ydoedd, a bod Charles yn gwneud cymaint defnydd o hono, am bob gair ag y mae ef yn ei roddi yn wahanol i'r cyfieithiad awdurdodedig presennol, yn y geiriau ag sy'n dyfod dan ei sylw yn ei "Eiriadur Ysgrhythrol."

Dichon, cyn yr elom ymhellach, na byddai yn anmhrifodol rhoddi ychydig o hanes y gwŷr hyn a fuont mor gymwynasgar i'n cenedl. WILLIAM SALESBURY oedd yn deilliaw o hen deulu cyfrifolaf yn y Dywysogaeth. Ail fab ydoedd i Foulk Salesbury, Ysw., Plas isaf, Llanrwst, yn sir Ddinbych. Ei daid oedd Robert Salesbury, yr hwn oedd bedwerydd mab i Thomas Salesbury Hen, o Lleweni, ger Dinbych. Daethai i feddiant o etifeddiaeth y Plas isaf trwy ei briodas â Gwenhwyfar, unig ferch ac etifeddes i Rhys ab Einion Fychan, o'r lle hwnw. Wedi bod am beth amser yn Rhydychain, cafodd ei symud i efrynu y gyfraith i *Thavies' Inn*, Llundain. Yr oedd yn medru naw iaith, heblaw Cymraeg a Seisoneg. Pan gyfieithodd y Testament, yr oedd yn byw yn y Cae du, yn mhlwyf Llansannan, yn sir Ddinbych, yr hwn oedd le gwledig a mynyddig, a phell oddiwrth bob cyfneusdra gwybodaeth a thrafnidiaeth; ond hynod neillduedig oddiwrth bob achlysuron aflonyddwch, a lle y gallasai dyn fod ar hyd ei oes heb wybod nemawr am y byd, na'r byd am dano yntau. Dywedir fod yr ystafell lle yr arferai efrynu yn adnabyddus eto, ac un hynod o gyffredin a diaddurn ydyw. Cyhoeddodd amryw fân lyfrau o'r blaen, fel y gwelsom dan y blyneddau 1547, 1545, Rhif. 1, 2, a'r 3, 1550; Rhif. 1 a'r 2, 1551, a'r 1564—65, lle y gwelwn ei fod er's ugain mlynedd yn ymwneyd er lles ei genedl. Dywed Strype iddo uno â John Whaley, yr argraffydd yn Llundain, i gymeryd trwydded-lythyr (*patent*) am saith mlynedd i argraffu y Bibl yn Gymraeg. Yr oedd Henry Denham, argraffydd y gwaith hwn, wedi argraffu rhai llyfrau i Salesbury o'r blaen, sef Rhif. 1, 2, a'r 3, y flwyddyn 1550, mae'n debyg. Yr oedd Denham yn byw yn *White-cross-street*, yn y flwyddyn 1580; yn 1586, yr oedd wedi symud i *Aldersgate street*; ac yn y flwyddyn 1587, yr oedd yn byw yn arwydd y "Seren" yn

*Paternoster row*, yr hyn a ddengys hynafiaeth y *row fel exchange* fawr masnach y llyfrau; ac hyd y dydd hwn mae wedi cadw ei henw, ei gwaith, a'i henwogrwydd, fel y cyfryw, yn fwy nag un lle arall yn y byd. Yr oedd y llywodraeth erbyn hyn wedi rhoddi yr hawlfraint o argraffu Biblau Cymraeg iddo ef cyn bod yr un i'w hargraffu. Ymddengys mai y cyhoeddwr oedd Humphrey Toy, yr hwn oedd yn byw yn arwydd yr "*Helmet*," yn mynwent St. Paul; ac er fod Toy yn argraffydd ei hun, nis gallasai argraffu yr Ysgrythyrau, am fod y senedd wedi rhoddi yr hawlfraint i Denham. Yr oedd gan H. Toy y pryd hyny egwyddorwas o'r enw William Jones, yr hwn oedd Gymro, mae yn debygol; canys yr oedd, yn y flwyddyn 1597, yn gyhoeddwr ac yn argraffydd ei hun, ac yn rhoddi gwaith i un o'r enw Richard Jones, yr hwn a arferai roddi y ddiareb Gymreig, "*Heb Dduw heb ddim*," yn arwyddair ar y llyfrau a argreffid ganddo.<sup>1</sup> Y mae yn debyg i Salesbury ddwyn Cymry i Lundain i'w dysgu, fel y gallai gael argraffu ei Gymraeg yn rhwyddach. Yr oedd yr Humphrey Toy hwnw yn fab i Robert Toy. Yr oedd Walye a Toy yn *bartners*; a chan fod Salesbury wedi cael hawlfraint gyda Walye, a Walye yn *bartner* â Toy, a bod ganddynt Gymro yn eu gwasanaeth, yr oedd yn naturiol i Toy gael cyhoeddi y Testament, er ei fod yn gorfod rhoddi y gwaith o'i argraffu i Denham. Yr ydym yn cael fod y senedd wedi rhoddi yr hawlfraint i Salesbury a Walye am saith mlynedd, ac y mae yn dra thebyg fod yr amser hwnw wedi dyfod i ben cyn i Denham gael yr hawlfraint.

2. "Epistol at y Cymry. Gan Richard Davies, Eagob Mynyw."  
Llundain. 4plyg.

Nid ydys yn gwybod fod yr epistol uchod wedi ei gyhoeddi yn draethodyn wrtho ei hun—er y gallai hyny fod—ond yn gysylltiedig, a than yr un cloriau a'r Testament, er fod gwyneb-ddalen gwahanol iddo; canys byddid yn arferol a gwneyd felly y pryd hyny, ac yn hir o amser wedi hyny, pan y cyhoeddidd neu yr argreffid dau beth ar yr un pryd, i'w cydrwymo.

3. "Llyfr Gweddi Cyffredin." Llundain. Unplyg.

Yr oedd hwn yn llyfr gweddi mawr i'r eglwysi, mewn cydymffurfiad â'r weithred seneddol a grybwyllwyd yn barod. Dywed Moses Williams mai cyfieithiad William Salesbury ydoedd; ond dywed y Parch. R. Williams mai cyfieithiad yr Eagob Richard Davies ydoedd, ac iddynt dalu traul yr argraffu rhyngddynt. Y mae un gan yr Archddiacon Newcome, Llanrhaidr, ac un arall yn llyfrfa argraffdy Rhydychain.

Am Richard Davies, D.D., mab ydoedd ef i Dafydd ab Gronw, yr hwn oedd yn gurad Cyffin, ger Conwy, yn sir Gaernarfon, lle y ganwyd ef yn 1501, mewn lle a elwir hyd heddyw Plas-y-person, a derbyniodd ei ddysgeidiaeth yn Ngholeg *New Inn*, Rhydychain. Cafodd ficeriaeth Burnham gan Edward VI., a phersoniaeth Maidsmoreton, yn sir Bucks. Pan ddaeth Mary i'r orsedd cymerwyd ei fywioliaethau oddi arno, a rhag canlyniadau gwaeth, efe a ffôdd gyda'i wraig trosodd i Geneva, lle y dyoddefodd lawer o eisieu, gan ei fod yn ymddibynu ar elusen ei gyddfioedigion cyfoethocach; ond yn mhen tua thair blynedd efe a ddysgodd yr iaith Ffrencaidd cystal

<sup>1</sup> "*Dictionary of Printers and Printing*," dan yr enwau uchod yn ol yr *Index*.

fel y gallaf wefnidogaethu ynndi, a derbyniodd ofal gwelndogaethol, yr hyn a roddodd iddo gynnalïaeth lled gysurus; ac yno y ganwyd tri o'i feibion. Ar farwolaeth Mary, a dyfodiad Elizabeth i'r orsedd, cafodd adfeddiannu ei fywiolaethau, a'i ddyrchafu hefyd i esgobaeth Llanelwy, i'r hon yr ordeiniwyd ef, Ionawr 31, 1560. Tua phymtheng mis y bu yn Esgob Llanelwy, canys trosglwyddwyd ef i esgobaeth Ty Ddewi, Mai 21, 1560. Yr oedd yn un o ysgolëigion enwocaf ei oes. Bu ganddo y llaw benaf yn nghyhoeddiad "Llyfr Gweddi Cyffredin" (gwel Rhif. 3). Cyhoeddodd hefyd bregeth Seisnig ar farwolaeth Iarll Essex (gwel 1517). Bu farw Tach. 7, 1581, yn 80 mlwydd oed, yn y palas esgobawl yn Abergwili, ger Caerfyrddin, a chladdwyd ef yn yr eglwys hono. Wrth adgyweirio neu adeiladu eglwys newydd yn Abergwili, yn 1850, deuwyd ar draws bedd yr esgob. "Ar ei feddrod nid oedd dim ond llechfaen gyffredin y wlad, â'i enw ef arni, a dim ond ei enw, ynghyd â'r flwyddyn, sef 1581, y claddesid ef." "Canfyddwyd arch yn y beddrawd, ac ysgrifennwyd yn rhedeg ar hyd ei hymylau—darllenwyd enw yr esgob ar yr arch." Rhoddodd esgob presennol Ty Ddewi wyddfaen mynor, ar ei draul ei hun, ar fur y gangell uwch hen ei fedd, ac ar y gwyddfaen y mae yn ysgrifenedig, gwedi ei dori â chŷn, y beddargraff canlynol:—

"Er Coffaduriaeth am

Y GWIR BARCHEDIG DAD YN NUW

YR ESGOB RICHARD DAVIES, D.D.

Ganwyd ef yn mhlwyf Gyffin, ger Aber Conwy, yn Ngwynedd,

*Dywyd ef i fyny yn NEW INN HALL, Rhydychain,*

Codwyd ef i ESGOBAETH LLANELWY, Ionawr 21ain, 1559,

Ac i'r ESGOBAETH HON (TY DDEWI), Mai 29ain, 1561.

BU FARW Tachwedd 7ed, yn y fl. 1581,

Oddeutu LXXX oed:

AC A GLADDWYD YN YR EGLWYS HON.

Efe a gyfeithodd JESUA, BARNWYR, RUTH, 1 SAMUEL, a'r 2 SAMUEL

Yn y BIBL SAESONEG,

Pan y diwygiwyd yr hen gyfeithiadau o dan arolygiad

Yr ARCHESGOB PARKER yn y fl. 1668:

Ac Efe hefyd a gyfeithodd

1 TIMOTHEUS, YR HEBREAID, IAGO, 1 PETR, a'r 2 PETR,

Yn y TESTAMENT NEWYDD CYMRAEG,

A gyhoeddwyd, a chan mwyaf a gyfeithwyd

Gan WILLIAM SALESBURY, o'r Plas Isaf, ger Llanrwst.

Yn y fl. 1567.

ESGOB oedd ef o ddysg bur—a duwiol

A diwyd mewn llafur;

Gwelir byth tra'r YSERYTHUR,

Ol gwiw o'i ofal a'i gur.—TEGID."

Dechreuodd yr Esgob a Salesbury gyfeithu yr Hen Destament hefyd, a buasant wedi myned trwyddo, meddai Syr John Wynne, o Wydyr, oni buasai i ymrafael gymeryd lle rhyngddo ef (yr esgob) a William Salesbury, yr hwn a fu yn byw gydag ef agos ddwy flynedd yn y gorchwyl hwnw, am ystyr gyffredin a thadogaeth un gair, yr hwn a fynai yr esgob i fod un ffordd, a William Salesbury ffordd arall, er mawr golled i'r hen

Frytanaeg a'r famiaith; canys gan eu bod gyda'u gilydd, hwy a dynasant homiliau, llyfrau, ac amryw draethodau eraill yn yr iaith Frytanaidd, a buasant wedi gwneyd llawer mwy oni buasai i'r anghytundeb anffodus uchod ddygwydd, canys bu yr esgob fyw bump neu chwe' mlynedd wed'yn, a William Salesbury oddeutu pedair ar hugain; ond rhoes i fyny ysgrifenu, mwyaf y gresyn, oblegid yr oedd yn ysgolaig rhagorol, yn enwedig yn Hebrëwr, yr hyn nad oedd llawer yn y dyddiau hyny. O! fel y mae ein calon yn twymno wrth son am goffadwriaeth dyn mor deilwng!

4. "Dosparth byrr ar y rhan gyntaf i Ramadeg Cymraeg, lle ceir llawer o Byngciau anhepcor i un a chwennychau na Doedyd y Gymraeg yn ddilediaith na'i Scrifenu yn iawn. Gan Gryffythus Rubertius, h. y., Gr. ab Rhotbert. Medieliani." 8plyg.

Dyna fel y mae Mr. Moses Williams yn ysgrifenu yr enw. Buasem ni yn ei ysgrifenu yn yr oes hon, Griffith Roberts, Ysw., D. M., sef meddyg. Wrth "Medieleni," y deallwn Milan, yn yr Eidal, am mai yno yr argraffwyd ef. Y mae un amherffaith gan y Parch. John Jones, A. M. (*Ioan Tegid*), Ficer Nefern, yn sir Benfro, yr hwn y mae efe wedi ei ddarlunio fel hyn:—

"D. S.—Arferir ynddo *u* yn lle *w*; *l* yn lle *ll*; *d* yn lle *dd*; a *ph* yn lle *ff*."

Ond yn yr ailysgrifenu dilynodd Mr. Jones y dull cyffredin, gan roddi y siamplau hyn, a dechreu fel uchod.

"Dosparth Byrr ar y rhan gyntaf i ramadeg Cymraeg, lle ceir llawer o bynciau anhepcor i un a chwennychai na doedyd y Gymraeg yn ddilediaeth, na'i scrifenu'n iawn. A orchfygo yma, a goronir fry.

1567. Primo Martii."

"Cynnwysa hwn o dudalenu 95."

"Dosparth ar yr ail rann i ramadeg, a elwir Cyfiachyddiaeth. (Amherffaith). Tudal 112."

"Y rhan ddiweddaf i ramadeg, a elwir Tonyddiaeth. T. d. 72."

"Dosparth ar feaurau cerdd dafod, yn dangos beth yw mesur a phessawl rhywog-eth sydd o honynt. (Amherffaith): t. d. 56."

Yma y canlyn anghreiffiau barddonol, yn dechreu fel hyn:—

"Symlen yr abostolon, a eilw Cymru, y gredo, a deuddeg prifbwnc ynddi, wedi i cynnwys mewn deuddeng englyn. (Amherffaith): t. d. 54."

"Llyfr Marcws Twllius Sisero, a elwir Caton hynaf, ne, o henaint, at Titws Pomponius Atticus. (Amherffaith): t. d. 8."<sup>1</sup>

Gwelir ei fod yn lwmpyn o lyfr oddeutu 200 o dudalenu. Pe buasai wrth law genym, buasem yn rhoddi anghreiffiau helaeth o hono.

5. "Arweiniad hawdd i'r iaith Gymraeg. Gan W. Salesbury. Ailargraphiad diwygiedig."

Dyna fel y dywedir gan Mr. M. Williams. Dywedir mewn lle arall iddo gael ei argraffu yn Llundain, gan Henry Denham.<sup>2</sup> Gwel Rhif 3, y flwyddyn 1550.

1568.

"*The Breviary of Britain*, a ysgrifenydd yn y Gymraeg drwy Wmffreus Llŵyd, yn Ninbych, yng Wynedd, yn y Flwyddyn o oed Iesu, 1568; a chweddi hyny a gyfieithwyd i'r Saesoneg drwy Thomas Twyne."

Yn rhagymadrodd hen "Eirlyfr" Thomas Jones (o'r Mwythig), yn 1777, y mae crybwylliad am y llyfr uchod. Pa fodd bynag, ni ddywedir yn

<sup>1</sup> "Gwladgarwr" 1840: tudal. 205—6.

<sup>2</sup> "Dictionary of Printing and Printers:" tudal. 297.

mha flwyddyn yr argraffwyd y llyfr, ond ddarfod ei "*ysgrifenus yn Gymraeg yn y flwyddyn 1568.*" Dywed "Hanes y Bedyddwyr," mai "Mr. John Twine oedd Sais o sir Hamp. Efe a ysgrifennodd llyfr o'r enw '*De rebus Albionicus, Britannicus, atq' Anglicus Commentariorum libri duo.*' Argraffwyd y llyfr gan ei fab, Thomas, yr hwn hefyd a'i cyfieithodd i'r Seisoneg, dan yr enw '*Breviary of Britain.*'" Ond dywed Mr. D. Peter, yn ei "Hanes Crefydd yn Nghymru," mai cyfieithiad ydoedd o "*Commentarioli Britanniae Descriptionis Fragmentum.*" Seisoneg oedd y llyfr uchod.

1573.

"Prisei Historiæ Britannicæ Defensio, et Humfredi Llwydi De Moræ Insulæ Descriptio." 4 plyg.

1577.

"A Sermon on the Death of the Earl of Essex, preached on the occasion of his funeral, at Carmarthen. By Richard Davies, Lord Bishop of St. David's. London." 4 plyg.

Y mae yn ei rhagflaenu englynion yn Seisoneg, Lladin, Hebraeg, Groeg, a Chymraeg, ynghyd âg achau a chofiant bywyd yr Iarll.

1580.

"Rhetoreg neu Rheitheg, a ddechreuwyd gan Mr. William Salesbury, a angwanegwyd ac a orphenwyd gan Mr. Henri Perri, trwy draul Syr Sion Salesbury, o Leweni, sir Ddinbych."

Ysgrifennodd Henri Perri—neu Harri Perri, neu yn hytrach Henry Parry—Eirlyfr hefyd; ond ni chafodd ei argraffu. Yr oedd yn B. D., ac yn meddu amrai ddyrchafiaethau eglwysig—yn ganon Bangor, yn berson Llanfachreth, yn sir Fon, ac yn gapelwr, neu weinidog teuluaidd i Syr Richard Bulkeley, o'r Baron Hill, yn y wlad hño.<sup>1</sup>

1584.

1. "History of Wales, by Cradoc of Llancarfan, revised by Dr. David Powel, Ficar of Rhywabon."

Yr oedd Dr. Powel yn ŵr dysgedig a defnyddiol iawn i'r Cymry mewn amryw ffyrdd. Yr oedd yn cynnorthwyo i gyfieithu y Bibl i'r Gymraeg. Efe a ysgrifennodd hefyd "*Annotations in Itenerarium Cambriæ Script. per Silo. Giraldum Cambriensem—Annot. in Camb. script. per silo. Girald.—De Britannica Historia recte intelligenda.*" Diwygiodd ac argraffodd hefyd waith P. Virunnius, yr hwn oedd wedi ei ysgrifenu yn chwe' llyfr, o dan yr enw "*Historia Britanica.*" Casglodd ddefnyddiau lawer tuag at eirlyfr Cymraeg. Heblaw ficeriaeth "Rhywabon," cafodd hefyd ficeriaeth Meifod, yn 1579. Ac yr oedd gyda hynny yn dal personiaeth segurol Llansantffraid-yn-Mechain, a phrependeriaeth Llanfair Talhaiarn, yn eglwys esgobawl Llanelwy. Yr oedd yn byw fynychaf yn Rhiwabon. Bu iddo chwech o feibion a chwech o ferched. Yr oedd enwau pump o'i feibion hynaf yn diweddu âg *el*,—*Samuel, Daniel, Gabriel, Raphael, a Michael.*<sup>2</sup> Bu farw o gylch y flwyddyn 1598. Y mae enw Dr. Powell i'w weled fel diwygiwr gwaith Cradoc, ond yr hynafiaethydd Humphrey Llwyd oedd y cyfieithydd i'r Seisoneg. Rhydd awdur y "*Preface*" i argraffiad y flwyddyn 1774 yr hanes canlynol am y cwbl:—

<sup>1</sup>"*Jones' History of Breconshire.*"

<sup>2</sup>"*The Cambrian Quarterly Magazine.*" Cyf. i., tudal. 325.

"Yr oedd y Caradoc hwn o Llangarfan, awdur o gywirdeb diammheuol, yn gyd-oeswr â Geoffrey, yr hwn, trwy ddechreu lle yr oedd yr hanes Frytanaidd yn diweddu, a wnaeth barhad trwy deyrnasiad amryw o dywysogion Cymru, hyd y fl. 1157, oddeutu yr hwn amser yr oedd yn ei flodeu. Ar ei ol ef, cadwyd a chofnodwyd pob peth a ddygwyddodd yn Nghymru yn Mynachlogydd Conwy yn Ngogledd Cymru, ac Ystradflur yn Neheudir Cymru, lle y claddwyd tywysogion a phendefigion Cymru, fel yr ymddengys trwy dystiolaeth Gutun Owen, yr hwn oedd yn byw yn amser Edward VI., ac a ysgrifennodd yr ailun cywiraf a pherffeithiaf o'r unrhyw. Dyna y modd y cadwyd yr holl ddygwyddiadau hynotaf a gofnodwyd yn y Mynachlogydd hyn, pan oedd y Beirdd neu y Prydyddion a berthynent i'r ddau dŷ hyn yn myned ar eu hymweliadau arferol, yr hyn a elwid Clera. A pharhaodd hyn hyd y fl. 1270, ychydig cyn marwolaeth y Tywysog Llewelyn, yr hwn a laddwyd yn Mualht. Darfu i Humphrey Lloyd, Ysw., yr hwn oedd yn blodeuo yn nheurnasiad Harry VIII., ac un hyddysg iawn mewn hynafiaeth Frytanaidd, barhau yr hanes hon hyd farwolaeth y Tywysog Llewelyn; ac ar ol hyny, wedi cyfieithu y cwbl i'r iaith Seisonaeg, a fwrriadodd ei roddi yn y wasg, ond darfu i'w farwolaeth ei rwystro yn ei fwriad, ac atal cyhoeddiad yr hanes hon am hir amser wed'yn, hyd oni fu i David Powel, D. D., yn amser y frenines Elizabeth, gael gafael yn nghyfieithiad Humphrey Lloyd; ac wedi caelw yr hyn a allasai allan o hanesawyr Seisnig, yr hyn a chwangodd mewn dull o sylwadau, ac felly a'i cyhoeddodd yn y fl. 1584."

2. "Y Drych Cristianogawl, yn yr hwn y dichon pob Cristiawn ganfod gwreiddin a dechreuad pob dajoni sprydawl, sef gwybod modd i wasanaethu Duw, drwy ei garu ai ofni yn fwy na dim," &c.

Nid oes enw awdur i'r llyfr hwn.

1586.

1. "LLIVER GWEDDI GYFFREDIN, a Gweinidogaeth y Sacramentae, ac eraill gynneddfau a Ceremoniae yr Eccles Loecr: *Viewed, perused and allowed by the Bishops, according to the act established for the translation of the Bible and this Book into the British tongue.* At London imprinted by John Windet at the costes and charges of Thomas Chard. 1586.—Cum privilegio."

Y mae un o honynt yr awr hon ar fwrdd yr ysgrifenydd, wedi bod yn mberchenogaeth Iolo Morganwg, ond sydd bellach yn feddiant y Parch. W. Roberts, Blaenau, Gwent. Y mae yn llyfr pedwarplyg bychan, oddeutu modfedd a hanner o dewdwr. Yn ei ddechreu y mae y calendar am y llithiau. Y mae y geiriau ar ben uchaf y dalenau mewn argraff goch, ac yn gwahaniaethu rhywfaint bob mis, megys, "Mai ys ydd yddam. xxxj. die. Mehevin ys ydd yddaw. xxx. die. Gorphenaf ys ydd yddo. xxxj. die." Ar gongl aswy pob dalen, y mae arlun bychan yn cynnrychioli yr amser, ac o dan bob pennill diarebol, megys, ar Gorphenaf, y mae dyn yn tori gwair, menyw yn cribinio, a dyn yn mhen uchaf y maes yn yfed diod, a hanner dwsn o fydylau; ac o danodd y llinellau hyn:—

"I may tempestl gorhena  
Yn ddrwg arles cynhaia  
Cyweirioth wair achludwch  
Rbag ofyn glaw, nag oydwch."

Ar ddalen Awst y mae llun medelwyr—y meist'r gerllaw yn eu cyfarwyddo, a morwynig draw yn y pellder yn dal gwydryn diod bychan ar ei llaw, ac o danodd y llinellau hyn:—

"Mis Awst o byddi hyndda  
Niw na niwed yr cynhaia  
Ag yn ol cynhaia yd,  
Medwn lafur wydyna ibrid."

Ar y gongl uchaf ddeheuol i bob dalen y mae codiad a machludiad yr haul am y diwrnod hwnw; megys fel hyn am "Raofyr:"—

Haul yn	{	cyuodi ymachlyt	}	awr	{	vii. min. 34. iiij. min. 26.	}
---------	---	--------------------	---	-----	---	---------------------------------	---

Yna yn blaenori "Y drefn py wedd y gosotwyd darllen y Psaltwyr," y mae yr ymadroddion hyn:—

"Y TABVL A'R KALENDAR IN dangos trefn y Psalmae a'r Llithia e, y arferir ar Voreu a Phrydnawn weddi, trwy yr vlyyddyn, dycithr: ryw wiliae, megys y mae y Reoleu syn canlyn yn espeay yn eglurach."

Yn nesaf y mae yr "Act an vnfvrviat Gyffredin vveddi a gwasanaeth y Sacramentae." Yna y cawn y "Racymadrodd," yr hwn, gan ei fod yn ddernyn o hynafiaeth mor ddyceithr, a roddwn oll ger bron:—

"NY BU erioed, dim wedy ei ddychymygu mor ddiball gan synhwyr dyn, nei wedy ei ddysyly morgadarn, yr hwn trwy yspeit amser ny lygrwyt: megys ymplith pethae ereill y mae yn gwbl eglauer wrth y gweddieu cyfredin yn yr Eccles, yr ei a elwir yn sathredic Gwasanaeth Dew. Bonedd a' dechreat cysevin pa rei, ac chwiliid ymysc gwaith yr hen Dadae, e geffir gwelet nad ordeiniwyt y gwasanaeth hwnw namyn er purpos daonus, ac er mawr dderchaviat dywoldap. Can ys wynt wy a drefnesont y mater velly, yd pan byddei ir Bibl oll ai i'r part imwyaf o hanaw bod wedy ei ddarllen trostaw vnwaith yn y vlyyddyn: can amcanu wrth hyny, vod ir gwyr llen ac yn enwedic i'r sawl a vyddei weinidogion y Gynnylleidfa, [allu trwy vynesch ddarllen a' mefyriaw gair Dyw bod wed yrymddarpary ar ddwywoldap, a's bot hefyd yn ablach y annoc yr eill trwy ddyseid-iaeth iachus ir vn peth; ac y allu gorthrech dadyl yr ei a wrthwynepei y gwirionedd. Ac ym-pellach; allu o'r popul trwy glywet beunydd ddarllen yr Scrythur lan yn yr Eccles.] ymgynnyddu yn oystad vwyvwy am wybodaeth am Ddyw, a' dyuot y gary yn gynnesach ei wir greddyf ef. Eithyr ystalm o vlyyddynedd, y darvu newiduo, tori, ac esgeulusaw y ddywyl a'r weddus drefn hon yma o waith yr hen Dadae, can planny y mewn yn ei lle, Historiae amheus, Legendae, Atebion, Gwersi, Adwersi gweigion, Coffaduriaethae, ac Seneddolion, megis yn gyffredin pan ddechreuit vy llyfer o'r Bibl cyn darvod darllen tri n'ei pedwar Penn o hanaw, cwbyl anyd hyny byddei wedy ei ady eb ddarllen. Ac yn y sort hyn y dechreuit llyver Esai yn yr Aduent, ac y llyver Genesis in Septuagesima; eithyr ei dechry a wneit yn vnuc, eb' orphen ei ddarllen byth. A'r un ffynyt ydd arferet am lyfrae 'r eill o'r Scrythur lan. Ac gyd a hyny lle mynei Sanct Paul bod yn dywedyt cyfryw iaith wrth y pobul yn yr Eccles, ac a sillent wy ei ddyall, ac gaffael lleshat gan glywet. Y gwasanaeth yn yr eccles hon y Loecr es llawer o vlyyddynedd a ddarllewyd yn Llatin ir pobul, yr hyn nid oeddent wy yn yr ddyall: megis ac ydd oeddwynt yn clywet vnuc a ei clustiae, acei calonae, ei hyspriet, a' ei meddwl oedd yn ddiadeil o ywrthaw. Ac eb law hyny, cyd byddei i'r hen Dadae barthu y Psalmae yn saith ran, a phob vn o hanaddynt a elwyt Nocturu: yr owrhon yn hwyr o amser, cyfran bach o hanynt a ddywedyt beunydd, can ei mynych aldywedyt a' gady y ddarn arall heibiau eb yngan vngair. Gyd a hyny, nifeiri a' chaledrwydd y Reolon yr ei a elwyt y Pica, ac amrafaell gynewidiau y gwasanaeth oedd yr achos, pan yw troi at gyvnotae y llyvr yn vnuc, ytoedd beth mor galet ac mor rwystrya, ac vn vynesch o amser y byddei mwy o trallawt yn chwiliaw am y peth a ddarlleit, nac yn ei ddarllen wedy byddei ei gaffael.

Velly can syniaw ar yr ancymmessurwydd hyny, ef a osodir ymy gyfryw drefn, ac y cyweirir yr vnryhw pethae. Ac er mwyn parotrwydd yn y devnydd hyn y tynwyt Kalendar er yr vn purpos, yr hwn ys id eglauer, a hawdd ei ddeall, ympa vn (yd y galler) y darperir darllen yr scrythur' lan, yd pan yw gwneythur pob peth



mewn trefn eb' ohanu vn dryll o haneio ywrth y glyydd. Ac o bleit hyn y toret y vae, Anthemae, Respondae, Inuitatoriae, a' chyfryw wac pethae amperthynasawl ar oedd yn tori cwrs cyfan ddarlleniat yr Yscrythur. Eto can nad oes modd amgen amyn yn angenreidiawl bot embell reol erwydd paam y gosodit yma ryw Reolae, yr ei megis nad ynt anyt ychydigion o niuer, velly y maentyn rhwyddion ac yn hawd ei dyall. Wrth hyny y mae y chwi yma ffurf ar weddiaw (tu ag at am ddarllen yr Scrythur lan) yn gwbl gysson a meddwl a phurpos yr hen Dadae, ac o lawer mwy profitiol, a' chymwynasol, na'r vn yn hwy o amser y arverit. Y mae yn fwy profitiol achos bot yma yn gady allan llawer o bethe, o pa sawl ymae 'r' ei eb vot yn wir, 'r' ei yn ameus, rhei yn wac ac yn wan-gael nid ys yn ordino darllen dim, anyd gwirbur 'air Dyw, yr yscrythur lan, aei cyfryw ac a' sailir arnei yn eglur, a hyny yn-cyfyriaiath a' thrfn, ac ys id esmwythaf ac hawsaf, ei ddeall y gan y darlleodron ar gwrandaieit. Y mae e hefyd yn vwy commwynasol, yn gystal am ei vyvret, ac am eglurder ei drefn, ac am vot y reolae o ychydic niver ac yn hawdd. A' chyd a hyny, trwy waith y drefn hon, ny rait ir Curatieit vn llyver arall y ei gwasanaeth public anit y llyver hwn a'r Bibl. Erwydd paam, nit raid ir popul vynet mewn cymeint o' draul am lyfrae, ac y byddent amser a vu.

Ac lle bu ym-blaenllaw amrafael mawr wrth ddywedyt a' chany yn yr Ecclesidd o vewn y teyrnas hon, yr ei yn canlyn arver Salesbury, 'r' ei arver Henffordd, 'rei aruer Bangor, 'rei yr yddo York, ac rei eill aruer Lincoln: yr owrhon o hyn allan ny bydd i'r oll deyrnas anyd vn aruer. Ac a barn nep y ffordd hon yn fwy poenus, achos bot yn ddir darllen pop peth ar y llyuer lle o'r blaen o erwydd ryw vynyach atdywediat, y gwydynt lawer peth ar davot leferydd; eythyr a' scyfyryw 'r' ei a gytpwysant ei llafur, y gyd a'r budd a'r gwybodaeth a gaffant beunydd wrth ddarllen ar y llyver, ny wrthddodant wy y poen, wrth welet meint y budd a dyf o hyn yma.

Ac yn gyment na ellir gosot dim mor eglur ei draethiat, ac na choto petrutser wrth ymarver o hanaw. I oystegu oll cyfryw amrafael (a vydd ir vn gyvody) ac am ddoesparth pop ryw bedrufter, yneylech y devnydd, pa wedd y mae deall, gwneythy 'r' a' chwplau pop peth or sydd wedy'r gynwys yn y llyuer hwn: y partiae a vo yn pedruso velly, ai a bo yn cymeryd dim mewn amrafael vodian, vydd dir yddynt vynet at Episcop yr Episcopaeith, yr hwn wrth ei ddoethinap a rydd drefn er esmwytho ac heddychu y ddadyll, dyeithyr na bo y drefn hono yn wrthywep y ddim y sydd o fewn y' llyuer hwn. Ac a bydd Episcop yr Episcopawt mewn dim pedrufter, yna y gall ef anfon am yspyserydd ar yr Archepiscop.

Cyd bo wedy'r osot yn y racysgrifenedic Racymadrodd bot bop peth or a ddarlleir yn yr eccles yn iaith camberaeac, er mwyn adeilat yr Eccles: er hyny nid ys yn meddwl pan ddyweto nep blygain a' gosper', sef voreu a' phrydnawn weddi wrth o ehun na ddychon ef ei ddywedyt ym-pa iaith bynac ar a ddeallo.

Ac pop Offeiriat a' Diacon vydd rwymedic y ddywedyt beunydd y Boreol ar Prydnawnol weddi, yn aill ai yn ailltuol ai ar oystec, dyeithr bod rrwyster annadynt y gan precethy, studeo diuiniti, ai o ran achos arall tra angenreidiol.

A'r Curat sef y periglor a vo yn gwasanaethy ym-pob Eccles plwyf ai Capel ac efe gartref, eb luddias rhesymoll arnaw, raid iddo ddywedyt y gwasanaeth hwnw, yn yr Eccles plwyf ai 'r Capel lle bo ef yn gwasanaethu, a'bot cany cloch yddaw ar amser cymmesur cyn nac yddo ddechrey, modd y gallo y nep a vo ganto divossion ddyfot y wrando gair Dvw, ac y weddiaw gyd ac ef."

Yn nesaf yw yr "Or Ceremoniis, paam y dilewyt rei ac yn cynhalivyvt rei ereill." Yna ni a gawn—

"AN EXPLANATION of certain wordes, being quarrelled withall, by some, for that in this translation they be othervvise written, then either the vnlettered people, or some parts of the Countrie founde or speake them.

A signifying if, or whether, for o.

A being relative, or a voyce expletuic, for y, not vsed to them of Southwales.

1852.]

C

Anival for enivel.

Anid for onid, or ond.

Antempic anhymlie.

-awd

-awdd } in the end of a word, for -od, odd, or -oedd, and ol.

-awl

As for a ys or os.

Bwystifil (which radder would be written Bestvel) for corruptlye pronounced gwystvil.

C for K (because the printers haue not so many as the Welsh requireth) and in some words for g.

Cent, in one place for cant.

Dew, for Duw in Northwales speech, and for dyw as they of Southwales speake it.

Ef, for the Northern efo, or fo.

F, sometimes for ff.

F, for v.

Ei, for i, or y, to them of Southwales.

Eich, for ych.

Gestwng, for gistwng, or gostwng.

Hanwynt, hanynt, hanaddynt, for the corrupt honynt.

Ican for Ieuan, Iouan, Ievan, Ifan, or Iwon : euen for that it is so diuersly sounded in diuers partes of the country.

Iorddanen, for Irddonen.

Iuddew, for Iddew.

Megis, for the Southern meis.

Monyth for mynydd : so the pronouce it at Sanct Dauida.

Myvn for myhun or vyhun.

Nebun, for neb, or ryw vn.

O bleit, or o blait for o blegit.

P sometime remaining not turned into b, or ph.

Pemp for pypm or pump.

P'odd vœd *per syncopen* in Southwales for pa vodd.

Pobul for pobyl, or the Southern pybyl or gwerin.

Pleit for plait, or plaid.

Tragyvyth for tragwydd, or tragowydd; to keepe his orthographie, for it is compounded of tra cy and vyth : for hereby is it also more effectuell in signification.

Tangeddif for tangneuedd or heddwch.

Tuy, for the Northern ty, V, for F.

Vcain, vgain, ygain or igen.

Vi-car for vincar or vinghar : wherein n is receiued without good cause.

Vi-dew for vinuw, or viniw, wherein d is now retained, euen for the more significantie expressing of the grace of the woord.

Vi-popul for vimhobl, to saue the word the les maimed.

Vy-troed for vynhroed that the signification may be more apparant to the strange reader.

Y being relatiue, or a kind of expletive, for a, vnto the Northwales readers.

Yd for hyd, yddy duy, for y ew, or w dy in Northwales.

Yddwynt for yddynt, or vdunt.

Yr ei for rrei, or y rrai.

Ysy or 'sy *per synalepham*, for ysy or sy : comming before a vowel beginning another word *propter euphonian* ys ydd, for y sydd.

Ys ef, or 'sef.

Ys, is verie often vœd in the translation to expresse the emphaticall energie or notable vehemence, where the Latine hath *etiam*, and the English *yea*, or *euen*.

And beside these is verie little alteration either of the commune writing, or of straungenes of words, which be not opened by referring to like mark in the margent, as the word is marked in the text : as thus Dew\* cerych oll [\*y gyd a chwli.] And as for some of the faulces that escaped in printing, the meanlie learned reader may espie them and correct : as where three d d d or three l l l come together, or else where a letter is mis set, or one letter for an other, or a sillable both want, or is superfluous : euen as the Northen orthographie is to the Southern tongue, which onelie in

pronunciation would be reformed. The rest of the faults may the wellwilling learned find out himselfe and helpe to correct as occasion seruetth.

But let euerie such one as shall reade the seruice to the people, mark well the three pointes, or staies in reading, being these ; . . . Wherat namlie in roading the Psalmes except he staie and rest accordingly, he shal wooderfullie confound the matter and astonish the hearers. And for example hereof the first verse of the 30. Psalme maie serue ful wel. The verse that I meane is this.

Can na phery anyd enhyd bach yn ei lit : ac yn ei garenydd y mae bywyt : wylfain a all aros eros echwydd, anyd e ddaw goruoledd y borae.

Which verse being distinctlie read, is verie comfortable to the hearers soule otherwise it is a verie *Chaos*, or as it were, a commixtion of heauen and hell together.

As for these two half circles ( ) who is it but knoweth that they be taken a *Parenthesis*, or a clause inserted, which might be left out, and the sentence perfect, yea and for the most part more plaine and sensible to vnderstand."

Y mae y penau neu y cynnwysiadau ar ben uchaf y dalenau olynol yn rhedeg fel hyn trwy yr holl lyfr :—

" Y Letaniae—Y Colletae, yr Epistolae, ar Euangelon—Y Llundyn die Pasc—Die Mawrth kyn die Pasc—Die Iou cyn die Pasc—Pured gaeth y sanctes Vair vorwyn—Die natalic—Die gwyl y meibion gwirian—Die Kalan neu Enwaediat Christ—Sul y Trintot—Sanct Ioan varyddwr—Y Commun—Betydd public—Betydd priat—Confirmation—Y Catechism, sef yw hyny, athrawiaeth yw ddyscu gan bob plentyn, cyn ei ddwyn yw confirmo can yr Episcop—Y ffurf solempnization neu drefnit Priodas—Y drefn am visitation y claf, Neu ofw y clwyfus—Commun y claf—Trefn claddedigaeth y marw—Diolwch y gwragedd, neu eglwysa—Commination neu vygwrth yn erbyn pechaduriait."

Ac ar ei ddiwedd y mae

" Finis Tra Vo at London, Printed by John VVindet, for Thomas Chard. 1586."

Ond rhaid eto roddi yehydig o esiamplau o hono, fel y gweler pa fath gyfieithiad ydoedd. Derllyn "Y Collect" am ddydd "Sanct Ioanvatyddwr," fel hyn :—

" Oll-alluawc Duw, o racluniaeth pa vn y ganet yn ryvedd dy was Ioan vatyddwr, ac ydd anfonwyt i arlyyaw ffordd dy vab Iesu eyn iachawdyr gâ bregethu edifeirwch : gwna y ny velly ddilyn ei ddysceidiaeth ai sanctaidd vywydd ef, yd pan yw i ni wir edifarhau wrth y bregeth ef, ac ar ol ei esempl yn wastadol draethu y gwirionedd, ynhyderus geryddu y camwedd, ac yn vfydd ddiოდdef er mwyn y gwirionedd, trwy Iesu Christ eyn Arglwydd."

Gan fod yn debyg fod cyfieithiad y rhanau o'r Testament Newydd sydd yn dyfod i mewn yn y "Weddi Gyffredin," yn debyg i'r unrhyw yn y Testament ag oedd eisoes yn Gymraeg er's deunaw o flyneddau, ac nad oedd dim o'r Hen Destament wedi dyfod allan hyd yn mhen dwy flynedd wedi'n, rhoddir yma ddernyn sydd yn epistol am "Y xxv. Sul gwedi Trintot," gan ei fod o'r Hen Destament, ac felly yn gyfieithiad cynnarach na'r eiddo Dr. Morgan.

Jer. xxiii.

" Ny cha, y mae'r amser yn dyvot, medd yr Arglwydd, y cyvodaf o Ddauid \*vagliuryn cyfiawn, ac a deyrnas Brenin ac a lwydda, ac \*vliaguryn, gan a wna varn a' chyfiawnder ar y ddaear. Yn y ddyddiae ef \* ydd <sup>gen.</sup> iacheir Judah, ac Israel a breswilia yn \* ddioual, a hwnyw \* ei enw y \* <sup>yr.</sup> galwant Ef, yr Arglwydd eyn cyfiawnder. Am hyny \* nycha, y <sup>gobaith.</sup> mae dyddiae yn dyvot medd yr Arglwydd, pryd na ddywedant <sup>e wele.</sup> mwy [Ys byw yr Arglwydd, yr hwn a dduo blant yr Israel allan o tir yr \* Aipht, eithyr [ys] byw 'r Arglwydd yr hwn a dduo ac a \* <sup>Egypt</sup>

ddeuth a had tuy 'r Israel allan o'r Gogledd-dir, ac o'r oll tiredd ar y goyscereiswn wy, ac wy a drigiant yn ei tir ehunain."

Y mae y Salmau yn gysylltiol â'r "Llyfr Gweddi" hwn, & gwyneb ddalen iddynt wrthynt eu hunain, wedi ei ymylu âg amryw gerfiadluniau; ac y mae yn dra thebyg mai felly yr oedd dechreu y "Llyfr Gweddi" hefyd, yr hwn sydd ar goll yn yr un ger ein bron. Y geiriau ydynt fel hyn:—

"PSALLWYB neu Psalmæ David, wedi ei Gamberei—*gaw in nesaf ac a' ellit, a' chadw*, bwyll, i'r llythyr Ebrew: a'i ddosparth wrth y drefn y darlleir in yr *Eceles. Perused and allowed according to the queenes iniunctions. Anno Domini 1586.*"

Ni a roddwn i'n darllenwyr un esiampl o'r Salmau, ac yna goddefer rhai sylwadau ar y cwbl. Y mae yr holl esiamplau wedi eu hysgrifenu yn hollol ofalus—bob llythren, nodyn, a gwall.

"YR ARGVMENT NEU *ystyriaethy y Lliver hon.*

"Y Llywer Psalmæ hyn a estennir y ni gan yr yspryt glan yw gymeryd ai wawrhau mal treasawr or gwerthvawrocaf, yn yr hwn y cynysir pop ryw beth a perthyn y wir ddedwyddit: vn gystal yn y vuchedd gydrychiol hon, ac yn y vuchedd a ddaw. Can ys golud gwir wybodaeth, a nevawl ddoehinep y oodwyt yma yn agoret y ni, y gymryd o hanaw yn ddyandlawr. As mynem ad nabot arderchawcavawr orucheldap Dyw, yma y cawn weled ei lewyrch, yn tywynu yn gwpl ddysolaer. As ceisnem ei anveidrawl ddoethinep, yma y mae yscol yr athroeth hyny. Asmynem ddeall ei ancystal ddayoni ef, a dynesau ataw, a llanwy ein dwylaw ar tresawr hynny, yma y cawn y ddrychiolaf ar diddanusaf oreuchwaith o hanaw. As mynem ni gahel dyall hanvot ein iachawdwriaeth aph wedd y mae dyvot y fywyt tragvythawl, yma y mae Christ ein vnic brynawdr, an cyfryngwr wedy yscrythu yn dra eglur. Yma y gally goludawc ddyscuiawn arver ei olud. Y gal tlawd gael ei vodloni, Hwn a vyn ymlawenhau a gaiff ad nabot y gwir lawenydd, a pha mae cadw mesur ynto. Yr ei ys y mewn poen a gorthrymder a gâtym—pa beth y saif y dyhuddiant wy, a pha delw y dlyant volianu Dyw, pan ddanovono wared yddwynt. Yr anewolion ac erlidwyr plant Dyw a gant welet val y bydd llaw Ddyw byth yn y erbyn hwy: ac er yddo ddyoddef yddynt lwyddo dros encydic, eto y mae ef yn ei ffrwyno wy mor gath na allan wy yhwrd a blewyn pen nebun, dyeithr yddo ef eu goddef, ac val yn y dywedd y mae y destruwedigaeth wy yn ddigon truan, I vyrhau, yma y gallwn gael yr ym waredæ parotaf yn erbyn oll brouedigaetheu, a chynnwrf meddwl a chydwybot, ac velly gwedy i ni ymarver yn dda o hyn, byw yn gwir ofn a chariat Dyw, ac or dywedd vwynhau yr anllwgreddic goron gogoniant, yr hon ys ynghadw i'r sawl oll y garant dyuodiat ein Arglwydd Iesu Christ.

"Boreu Weddi.

Psal. i.

"Gwyn ei vyd y gwr ny rodiawdd yn cyceor yr andewiolion, ac ny savodd yn ffordd pechaturiei, ac nyd eiste ddawdd yn eisteddfa yr ei gwatworus.

Eithyr bot ei ewyllys yn \*Deddyf yr Arglwydd, ac yn \*Ddeddyf ef bot yn mevryio ddydd a' nos.

\* Camys ef vydd mal pren wedy'r blanny yn \*glan dyfredd yr hwn a dowc ei ffrwyth yn ei \*dempor: a' ei \*ddalen ny wywa, a' pha beth bynac y wnel ef, a lwydda.

Nyd velly [y \*bydd] y ei annuwioll, eithyr mal y \*man vs, yr hwn a chwal y gwynt ymaith.

Am hyny ny saif yr andewiolion\* nyny varn, na'r pechaturiait yn cynnulledfa yr ei cyfion.

Can ys yr Arglwydd a edwyn ffordd yr ei cyfion, a' ffordd yr andewiolion a gyfgerollir."

• ynghyfraith.  
• gyfraith.

• Ac ys.  
• avonydd.  
• amser.  
• ddail.

• mal.  
• gwan pelswyn  
llwch.

Dyna ni wedi rhoddi golwg agos cystal ar y llyfrau hynafol hyn a phe gwelsai ein darllenwyr hwy eu hunain. Buasai yn foddhaol genym pe gallasem roddi esiampl foreuach o'r "Kynnifer llêth a ban," yr 1551, ac eraill cyn hyny; ac ni roisom esiampl o "Destament Salisbury," am fod hwnw yn awr yn dra adnabyddus. Y mae yr esiamplau a roisom wedi peri i ni farnu yn iselach am chwaeth yr hen Salisbury nag yr arferem farnu. Nid oes ammhau nad oedd ei ddysgeidiaeth yn alluog i'r gwaith—nid ei fedr oedd ddiffygiol, ond ei chwaeth. Nid oedd ef yn dilyn unrhyw drefn i lynu wrthi. Weithiau defnyddiai air anghynnefn yn y Gogledd, am fod pobl y Deheudir yn ei arfer; a phryd arall ymwrthodai â'r un gair, gan ddefnyddio gair dyeithr i'r Deheuwy, am fod y Gogleddwyr yn ei arfer. Pryd arall defnyddiai air nad arferid ond mewn rhyw gwr bychan o'r Deheu neu y Gogledd, er y byddai yn arferedig yn mhob man arall, megys y gair "monyth" am fynydd, yn nghymydogaeithau Pen Dewi, yn sir Benfro. Pryd arall y mae wedi yspelio neu lythyrenu geiriau i ateb i'r modd llawn, byr, neu gwta yn ol arfer tafodiaith gwahanol leoedd o seinio y geiriau yn eu siarad cyffredin; a phryd arall gwnai y gair yn glogyrnaidd ac anystwyth, trwy gadw at ei wraidd a'i gyfansoddiad, er na byddai yn cael ei arfer felly yn un man, nac yn ddeallus felly i neb ond dysgedigion. Pryd arall y mae y geiriau wedi eu hanner gyfieithu—Cymraeg â therfyniad Lladinaeg neu Seisonaeg; fel nad oedd yn dilyn unrhyw gynllun rheolaidd, er y gallasai, fel y gwelwn wrth ei dafien o eglurhadau. Dylid dywedyd fod y cyfieithiad hwn yn cael ei briodoli i William Salisbury, ac y mae yn debyg i'w waith hefyd, er nad yw ei enw wrtho yn un man hyd y gallasom weled.

1587.

## 1. "Dadseiniad meibion y Daran, gan Morus Cyffin."

Morus, neu Morris Cyffin (neu Kyffin) oedd ail fab i Richard Kyffin, Ysw., o'r Glasgoed, yn mhlwyf Llausilin, yn sir Ddinbych. Yr oedd ef hefyd yn fardd o gryn enwogrwydd. Cyhoeddwyd gwaith Jewel yn llawn ganddo saith mlynedd neu wyth ar ol hyn—gwel Rhif. i. 1594; ac wedi hyny, yn 1671, gan Charles Edwards, awdur "Hanes y Ffydd;" ac hefyd yn 1808, gan y Parch. T. Charles.

## 2. "Worthics of Wales, &amp;c. By Churchyard."

1588.

## 1. "Y Bibl Cysegrlân, sef yr Hen Destament a'r Newydd. Llundain." Unplyg.

Hwn sydd o gyfieithiad William Morgan, Esgob Llanelwy. Y mae yr Apocrypha rhwng y ddau Destament. Yn mhen un mlynedd ar hugain ar ol cael y Testament Newydd, dyma yr holl Fibl i'r Cymry. Y mae yn hynod fod y gwaith hwn wedi ei oedi cyhyd dros yr amser a ofynid gan y weithred seneddol, yr hon oedd yn rhwymo yr esgobion i fynu gwleud y gwaith wedi ei ddwyn i ben erbyn y dydd cyntaf o Fawrth, 1556, o dan boen 40p. o ddirwy ar bob un o'r esgobion, os methent; ac eto dyma ddwy flynedd ar hugain wedi myned heibio, cyn i'r ammod gael ei chyflawni. Ond pa gyfrif neu reswm a allwn ei roddi am yr esgeulusdra neu y diffyg hwn? Nid o eisieu ewyllys, canys yr oedd y cynnorthwy a gafodd Salisbury i gyhoeddi y Testament yn profi hyn, ac nid o eisieu gwyr o ddysg digonol i'r gwaith. Tybygem fod rhesymau eraill am y gohiriad;

ac un ydoedd, eisieu amser digonol i'r gwaith; canys büwyd bedair neu bum mlynedd yn cael y *Testament* allan; ac er arfer pob diwydrwydd, aeth yn flwyddyn tros yr amser y gofynai y senedd i'r holl Fibl fod yn yr eglwysi. Yr oedd gwall arall hefyd yn y weithred seneddol hönö—nid oedd un ddarpariaeth gogyfer á'r draul—ni roddwyd *gorchymyn* breiniol—ni ofalwyd am wobrwyo y neb a wnai—ni ofalwyd am ddostranu y gwaith i bersonau cyfaddas. Mewn gair, ni roddwyd yr un cynllun i fyned ymlaen wrtho—ni apwyntiwyd neb i gymeryd y gwaith, na rhan o hono—dim ond awdurdodi ei fod i gael ei wneyd gan—*neb!*

Pan aed i gyhoeddi y Bibl Seisonig, yn amser Iago, ni adawyd pethau mor esgeulus a hyny; ond rhoddwyd cynllun cyson i fyned ymlaen wrtho—rhanwyd yr holl Fibl yn ddostrbarthiadau—neilldüwyd personau penodol, y rhai o ran eu rhifedi oeddynt agos yn *septuagint*, a'r rhai hyny y dynion mwyaf eu dysg a'u talentau a allesid gael trwy yr holl deyrnas—telid eu bwrdd a'u llety, a chostau anghenrheidiol eraill (yr hyn a gyfrifid uwchlaw mil o *farciâu*, neu agos saith gant o bunnau) gan y wladwriaeth; a rhoddwyd gorchymyn allan gan y brenin fod iddynt gael yn fuan eu gwobrwyo yn dda á'r phersoniaethau a'r bywioliaethau eglwysig eraill a ddeuai yn rhydd gyntaf. Ond pan aed i orchymyn cael y Bibl yn *Gymraeg*, ni threfnwyd y fath bethau—dim ond fod i'r esgobion fynu gwneyd y gwaith, a'u dirwyo i 40p. bob un, os na wnaent; ac eto buasai *gwneyd* yn eu taflu i fwy o draul na 100p. bob un, a hyny yn yr oes hönö. Ond pwy a gymerodd hyn mewn llaw? WILLIAM MORGAN, D. D., genedigol o Ewbrnant, yr hwn le sydd ar derfyn plwyfau Dolyddelen a Phenmachno, yn sir Gaernarfon. Yr oedd ef, pan gymerodd y gwaith mewn llaw, yn fioer Llanrhaidr-yn-Mochnant, ar derfynau siroedd Dinbych a Threfaldwyn. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Ngholeg St. Ioan, Caergrawnt; a'r lle cyntaf a gafodd oedd ficeriaeth y Trallwm coch, yr hon a gafodd Awst 8, 1575. Tair blynedd y bu yno, pan y symudodd i Lanrhaidr, a dechreuodd yn ebrwydd ar ei waith clodfawr, wrth yr hwn y bu yn llafurio yn ddyfal am ddeng mlynedd. Wedi ei orphen, gwobrwyd ef á phersoniaeth Llanfyllin, a phersoniaeth segurof Pennant-Melangell; ac yn 1594, á phersoniaeth segurof Dinbych, a dyrchafiaethau eraill. O'r diwedd, yn dra haeddiannol, dyrchafwyd ef yn esgob Llandaf yn 1595, a chafodd ei symud i esgobaeth Llanelwy, yn 1601, ar ddymuniad penodedig y frenines Elizabeth; ac yno y bu efe farw, Medi 10, 1604. Yr oedd ei waith yn gyfieithiad o'r oll, neu y rhan fwyaf, o'r Hen Destament a'r Apocrypha i'r Gymraeg, ac yn wellâd ar yr hen gyfieithiad o'r Testament Newydd; a mynodd ei argraffu ynghyd, yn un llyfr mawr unplyg, mewn llythyrenau duon, neu yr hen llythyrenau Brytanaidd. Y mae ynddo gynwysiad o bob pennod—wedi ei ranu oll yn adnodau—rhai cyfeiriadau ymyl-lenol—llythyr Lladin at y Frenines yn ei ddechreu—ac hefyd Galendar, a dwy o dafienau eraill; ac fel y Testament, y mae y *dalenau*, ac nid y *tudalenau*, wedi eu rhifodi, ac yn cyrhaedd i 555. Gwelir mai yn Llundain y cafodd ei argraffu, gan Christopher a Robert Barker, am y rhai, fe allai, na byddai yn anmhriodol gwneyd peth sylw yn y lle hwn. Yr oeddynt yn byw dan arwydd "Pen-y-Teigr," yn *Paternoster-row*, ac yn cadw maelfa yn Mynwent St. Paul, dan arwydd y "Ceiliog rhedyn." Yr oeddynt yn deilliaw o deulu cyfrifol, ac wedi cael yr hawlfraint i argraffu yr Ysgrythyrau gan y frenines Elizabeth. Adnewyddodd y brenin Iago yr hawlfraint i Christopher, mab Robert

Barker. Dywedir gan Ames, fod Robert Barker, yr ieuengaf, wedi talu 3,000p. am ddiwygio cyfieithiad Seisnig y brenin Iago, yr hyn oedd yn swm anferth yn yr oes hño, ac y mae yn rhaid ei fod yn talu i'r holl gyfieithwyr; ond er hyny, hynod o wallus y gwnaed y gwaith, canys yn y Bibl Seisnig a argraffwyd gan Robert Barker a Martin Lucas, yn y flwyddyn 1632, argraffwyd mil o honynt â'r gwall pwysaig hwn ynddynt, sef "*Thou shalt commit adultery,*" yn y seithfed gorchymyn, trwy adael allan y "*not;*" sef "*Gwna odineb,*" yn lle "*Na wna odineb!*" Pan ganfuwyd hyn, galwyd yr holl lyfrau i fyny, a dirwywyd yr argraffwyr i 3,000p., am yr hyn, yn ol gorchymyn y brenin Siarl I., y prynwyd tawddlestri i wneyd llythyr-ennau Groeg, i argraffu rhyw weithiau enwog a gafwyd yn llyfrgelloedd y brenin a'r ddwy brifysgol; a rhoddwyd y gwaith i Barker a Lucas, o dan y teimlad eu bod wedi cael eu mawr dlodi trwy y ddirwy fawr hño. Ond er y ddirwy uchel hño, gwallus yr oedd argraffwyr y brenin yn gwneyd eu gwaith ar y Biblau (Seisnig); canys yn y flwyddyn 1634, daeth Bibl allan â'r gwall hwn ynddo, yn *Salm* xiv. 1; "*The fool hath said in his heart there is a God!*"—"Yr ynfyd a ddywed yn ei galon y mae *Duo!*" yn lle "*Nid oes yr un Duo:*" am yr hyn eto y dirwywyd yr argraffwyr yn drwm, ac yr attaliwyd lledaniad y Biblau. Bu Christopher farw Tach. 29ain, 1599, a Robert a fu farw yn ngharchar y *King's Bench*, Ion. 10fed, 1645, wedi cael ei ddwyn i isekler amgylchiadau mewn rhan fawr trwy y dirwyon trymion hyny.

Wedi i ni encilio rywfaint fel yna oddiwrt h ein testun, ac eto o fewn cadw golwg arno, yr ydys yn troi cam yn ol i'n llwybr, at brif gyfieithydd y Bibl Cymraeg hwn—yr Esgob Morgan. Pa fodd y daeth ef i gymeryd y gwaith arno? Ymddengys nad oedd wedi cael ei roddi ar waith gan y frenines na'r esgobion, ond ei fod wedi cymeryd y gwaith o hono ei hun, oddiar deimlad o'r anghenrheidrwydd mawr oedd am yr holl Ysgrhythrau i'r Prydeiniaid. Yr oedd hefyd alw mawr, yma a thraw ar hyd y wlad, am y Bibl oll, er fod ysbryd Pabaidd yn gryf y pryd hyny yn erbyn i'r cyffredin gael y Bibl yn eu hiaith eu hunain; ac i'w attal, dyfeisiwyd celwyddau noethion yn erbyn y ficer, hyd yn nod gan ei blwyfolion ei hunan—trigolion Llanrhaidr yn Mochnant. Aethant mor bell ag achwyn ar ei anaddaarwydd i'r fath orchwyl, nid yn unig wrth esgob ei esgobaeth, ond hefyd wrth Archesgob Caergaint, o flaen yr hwn y gorfu i'r ficer nesau yn grynedig. Eithr wedi i'r archesgob ei holi, gwelodd yn eglur ei fod yn un o'r rhai medrusaf yn yr Hebraeg a'r Groeg, ac mor eglur dealodd anwiredd ei gyhuddwyr. Gofynodd yr archesgob iddo, "A fedrwrch chwi Gymraeg yn gystal a Hebraeg?" Y ficer a'i hatebodd yn ostyngedig, gan ddywedyd, "Gobeithio, fy Arglwydd, y goddefwch i mi eich siorhau y medraf iaith fy mam yn well nag un iaith arall." Gwedi hyn, cafodd bob annogaeth i fyned ymlaen yn ei orchwyl llafurus. Wedi y cyfan, ymddengys nad oedd amgylchiadau y ficer yn gyfryw ag a'i galluogai i ddwyn y gwaith ymlaen, heb lawer o gynnorthwy, yn enwedig cynnorthwy tymmorol, fel yr ymddengys oddiwrt h ei gyfaddeial ei hun, yn ei lythyr cyfiwynol o'r Bibl i'r frenines Elizabeth; canys ymadrodda yno fel y canlyn:—"Ac wedi ei ddechreu, diffygiaswn, o ran anhawsder y gwaith, a mawredd y gost, a dygaswn bum llyfr Moses yn unig at yr argraffwasg, oni buasai i'r Parchedig John Whitgift, archesgob Caergaint, achleswr dysgeidiaeth, amddiffynwr gwirionedd, a thirion wrth ein cenedl ni, fy

nghymhorth â'i haelioni, â'i awdurdod, ac â'i gynghor, i fyned ymlaen. Yn ol ei esiampl ef, daeth gwŷr da eraill (sef esgobion Llanelwŷ a Bangor; Dr. Dafydd Powell; Mr. Gabriel Goodman; Mr. Edmund Prys; Mr. Richard Vaughan, o Liverwerth; yn gynnorthwyol i mi), hyd oni chyfieithais yr Hen Destament i gyd, a diwygio y Testament Newydd." Bu cryn ymrafael rhwng yr esgob a Syr John Wynne, o Wydyr, ger Llanrwst, pan oedd yn esgob Llanelwŷ, oblegid na werthai ddegymau y plwyf hwnw iddo; ac y mae Syr John yn edliw iddo mai trwyddo ef yr oedd wedi ei ddyrchafu i'r esgobaeth, ac "mai, pan gyfieithodd yr Hen Destament i'r iaith Gymraeg, ei fod wedi cael maintais a chynnorthwy gweithiau yr Esgob Davies a William Salesbury, y rhai a wnaethant y rhan fawr o hono—eto ei fod ef yn cymeryd yr enw am y cwbl." Y mae hwn yn gyhuddiad heb nemawr o sail iddo, os dim; canys y mae yn amlwg wrth y cyfieithiad ei hun ei fod yn hollol newydd, neu, o leiaf, yn gymaint o ddiwygiad ar waith clogyrnog yr Esgob Davies a William Salesbury, fel y cafodd fwy o waith i'w ddiwygio na'i gyfieithu yn wreiddiol. Ar ol y gwaith clodfawr hwn, cafodd ei raddio yn ddoctor duwinyddiaeth, ac yn esgob, a hyny trwy orchymyn penodol y frenines, o dan ddylanwad Whitgift, yr archesgob. Bu Dr. Morgan farw yn 1604, yn mhen deunaw mlynedd ar ol cyhoeddi y Bibl cyntaf hwn.<sup>1</sup>

Bellach tefir golwg fanylach ar gefnogwyr a chynnorthwywyr yr esgob yn ei waith clodfawr o gael yr holl Fibl yn Gymraeg y waith gyntaf. Y cyntaf a enwir ganddo yw

JOHN WHITGIFT, archesgob Caergaint, yr hwn a anwyd yn *Great Grimsby*, yn sir Gaerefrog, yn y flwyddyn 1530, neu 1533. Yr oedd yn deilliaw o hen deulu cyfrifol—ei dad yn fasnachwr, a'i ewythr, Robert, yn abad i fynachdŷ o offeiriad duon, yn Wellow. Yr abad oedd y cyntaf o'r teulu i newid ei egwyddorion crefyddol, sef o Babyddiaeth i Brotestaniaeth. "Nis gall y grefydd yr ydym yn ei broffesu barhau yn hir," meddai efe wrth ei nai, John (yr archesgob); "mi a ddarllenais yr holl Ysgrhythyr trwodd, ac ni ellais fyth ei chael yno." I'r ewythr hwn y rhoddwyd gofal dysgeidiaeth y nai. Wedi cael dysgeidiaeth arweinol yn ysgol St. Anthony, yn Llundain, efe a symudwyd, yn 1548, i Neuadd y Frenines, Caergrawnt, ac wedi hyny i Neuadd Penfro, lle y mwynhaodd gyfarwyddiadau John Bradford, y merthyr. Fel ag yr oedd yn myned ymlaen, yr oedd dyrchafiaethau yn ei gyfarfod, nes o'r diwedd, yn y flwyddyn 1583, ei gyfodi yn archesgob Caergaint, ar farwolaeth Dr. Grindall. Cafodd gynnyg ar y lle hwnw hyd yn nod yn mywyd ei flaenorydd, gan fod hwnw wedi mawr anffodhau Elizabeth, oblegid bod yn rhy dyner wrth y Puritaniaid—bai na allesid condemnio Whitgift o hono. Yr oedd yn fawr yn ffafr y frenines, yr hon oedd yn meddu ysbryd mor erlidgar, a chreulonach, yn erbyn y rhai a feiddient ymneillduo oddiwrth Eglwys Loegr, nag oedd ei chwaer, Mari, yn erbyn y rhai a ymneillduent oddiwrth Eglwys Rhufain. Un chwerv iawn yn erbyn y Puritaniaid ydoedd Whitgift, a bu mewn dadl wresog âg un Thomas Cartwright. Efe, ar gais penodol y frenines, a wnaeth reolau er rheoleiddio yr argraffwasg. Yr oedd hyny yn y flwyddyn 1585, dair blynedd cyn cyhoeddi y Bibl Cymraeg. Yn y flwyddyn yr argraffwyd y Bibl, daeth allan lyfryn o'r enw "*Martin-Mar-Prelate*," yn cynnwys

<sup>1</sup> Gwel "*Dr. Llewelyn's British Versions*," a "*Timperley's Dictionary of Printing and Printers*."



sylwadau llymion ar y llywodraeth, y frenines, a'r esgobion, yn enwedig Archesgob Whitgift. Bernid mai yr awdur oedd Gymro o'r enw John Penry, neu ab Henry, yr hwn a gawsai ei ddysgediaeth yn yr un brifysgol a'r archesgob. Yr oedd yn amser Elizabeth a Whitgift un Thackwell yn argraffydd Cymreig, yr hwn oedd yn cyhoeddi llyfrau Pabyddol, ac y mae Martin Mar-Prelate, neu Penry, yn un o'r papyrâu yn erbyn Whitgift, yn ei gyhuddo fod Thackwell, y Pabydd, yn cael llonydd, tra y ceisid am fywyd Waldegrave, y Puritan, yr hwn a dybid oedd yn argraffu papyrâu Mar-prelate âg argraffwasg symudol yma a thraw ar hyd y wlad. Bydd genym fwy i ddyweyd eto am Penry mewn lle arall. Y mae yn briodol dyweyd hefyd fod yr archesgob yn fath o lywodraethwr dan y frenines ar Dywysogaeth Cymry, yr hyn a'i gwnaeth yn dra adnabyddus â'r esgobion. Cymreig, a gallasai fod hen adnabyddiaeth felly rhyngddo â Dr. Morgan. Yr oedd yr archesgob yn Galfiniad lled uchel yn ei olygiadau athrawiaethol; canys yn ei dŷ, a than ei olygiad ef, y gwnaed yr erthyglau, naw o rifedi, a elwir "Erthyglau Lambeth," a mynai eu corffori i mewn i'r "Namyn un Deugain," ac na ddysgid dim amgen yn yr Eglwys Wladol. Bu farw yn y flwyddyn 1603, yn tua 73 oed.

Y rhainesaf a enwir gan Dr. Morgan fel ei gynnorthwywyr, oeddynt esgobion Llanelwy a Bangor. Esgob Llanelwy ydoedd Dr. WILLIAM HUGHES. Yr oedd ef yn frodor o sir Gaernarfon, yn fab i Hugh ab Cynric, o Gwenllian, merch John Fychan ab John ab Gruffydd ab Owen Pygott. Ni ddywedir wrthym yn mha le yn y sir uchod yr oedd ei deulu. Cafodd ei ddysgediaeth mewn rhan yn y ddwy brifysgol—Rhydychain a Chaergrawnt. Bu yn offeiriad teuluaid neu gapelwr i Dduc o Norfolk. Gwnaed ef yn berson Llysaen, neu Llys-ifan-rhos, yn nghwmwd Creuddyn, yn sir Gaernarfon. Yn 1573, gwnaed ef yn esgob Llanelwy. Dywedir fod gan yr esgob hwn un ar bymtheg o blwyfydd neu fywioliaethau yn ei feddiant ei hun; a bu feieriaeth Meifod ganddo un flwyddyn. Darfu i Arglwydd Geidwad y Sel Fawr, Egerton, roddi dwy o honynt i eraill, a'r frenines ei ddfuddio o ddwy arall, ac angeu ei ddfuddio o'r cwbl yn 1600, wedi iddo gadw rhai o'r plwyfi hyn yn ei law am saith ar hugain o flyneddau.<sup>1</sup> Yn ei le ef y symudwyd Dr. Morgan i Lanelwy, o Landaf. Esgob Bangor oedd Dr. HUGH BELLOT. Cafodd ei ddwyn i fyny yn Nghaergrawnt. Gwnaed ef yn esgob Bangor yn y flwyddyn 1585; ac a symudwyd i Gaerlleon, ac a fu farw yn y flwyddyn 1595. Tybiem wrth ei enw, mai Sais oedd ef; ond fel T. Gouge, wedi hyn, yr oedd yn gymwynaswr i'r Cymry. Am Dr. DAFYDD POWELL, ficer Rhiwabon, gwelir yr hyn a ddywedwyd yn gysylltiedig â'r Rhif. i. 1584. Am hyny awn ymlaen at y nesaf, sef, Dr. GABRIEL GOODMAN. Dywed y Dr. Morgan am dano ef, iddo ei letya ar ei draul ei hun, tra yr oedd yn aros yn Llundain i olygu argraffu y Bibl. Yr oedd yn enedigol o Ruthyn. Ei dad oedd Edward Goodman, siopwr yn y dref hono. Gwnaed ef yn Ddeon Westminster yn 1561, a bu yno am oddeutu deugain mlynedd. Yr oedd tŷ y deon yn dra chyflëus i Dr. Morgan—yn fwy cyflëus na thŷ yr Archesgob Whitgift, yr hwn oedd yn Lambeth, onidê buasai Morgan wedi cymeryd cynnygiad Whitgift o letya gydag ef. Ymddengys mai y deon oedd un o'r cyntaf o'i deulu i gofleidio y grefydd Brotestanaidd. Ei waith ef oedd cyfleithiad

<sup>1</sup> Gwel "Llewelyn's British Versions," a'r "Cambrian Quarterly Magazine," cyf. i. tudal. 324.

yr epistol cyntaf at y Corinthiaid yn y Bibl Seisonig cyntaf. Yr oedd ei frawd, Edward Goodman, yn esgob Pabaidd Gloucester, yn amser y frenines Mari; a'i nai, Godfrey Goodman, wedi cael amryw fywioliaethau eglwysig olynol, a ddyrchafwyd i esgobaeth Brotestanaidd Gloucester, yn 1624, o'r hon y diswyddwyd ef am ryw dybiau Pabaidd a osododd allan mewn pregeth o flaen y teulu breninol, ac am naca rhoi ei law wrth ryw ganonau newyddion o eiddo Archesgob Laud. Enciliodd i fywyd anghyhoedd, a bu farw mewn undeb âg Eglwys Rhufain, yn 1655. Y mae Archddiacon Newcome, o Lanrhaidr, wedi cyhoeddi hanes helaeth am y deon a'i berthynasau.

Y nesaf yw EDMUND PRYS, archddiacon Meirionydd. Y mae ei enw ef yn eithaf adnabyddus, ac a "fydd tra haul yn troi," fel cyfansoddydd y Salmau ar gân i wasanaeth addoliad cyhoeddus. Dywedir iddo gael ei eni mewn lle a elwir Gerddi-bluog, yn mhlwyf Maentwrog, i'r hwn blwyf y gwnaed ef yn berson, yn 1582. Yr oedd ganddo hefyd ryw gysylltiad swyddogol âg Eglwys Gadeiriol Llanelwy. Yr oedd ef yn ŵr dysgedig mewn wyth o ieithoedd, ac ystyriai y Gymraeg yn rhagori arnynt oll. Yr oedd yn fardd enwog. Y mae yn eithaf adnabyddus mai efe a droes y Salmau ar gân; ond heblaw hyny, y mae pedwar ar ddeg a deugain o gywyddau o'i waith ar gael, y rhai ydynt fath o ymryson lled isel a choeglyd rhyngddo a William Cynwal, o Ddolyddelen, yn sir Gaernarfon. Yr oedd y ddadl hōno yn ddyddorol iawn ymhlith y beirdd y pryd hyny, am fod y ddau yn cael eu hystyried yn feirdd enwog; er mai rhyw fath o ganu cellweirus goganlyd ydoedd y ddadl, ac, o du yr Archddiacon, yn dra amhrifodol i un a gymerai arno ymdrin â phethau ysbrydol. Yr oedd Prys yn fardd Lladinaidd hefyd, ac y mae anghraifft o'i fedr yn nechreu Gramadeg Lladinaidd y Dr. Davies. Bu farw oddeutu y flwyddyn 1662, a chladdwyd ef yn mynwent Maentwrog; ond ni wŷr neb pa le y mae ei fedd ef hyd y dydd hwn. Yr olaf a enwir gan Dr. Morgan fel ei gynnorthwywr, yw Dr. RICHARD VAUGHAN, neu FYCHAN. Yr oedd ef yn enedigol o Nuffryn, lle rhwng Tydweiliog ac Edeyrn, yn Lleyn, sir Gaernarfon. Cafodd yntau ei ddysgeidiaeth yn Nghaergrawnt. Pan oedd yn oenog i gyfieithiad y Bibl, yr oedd yn berson "Liverwerth," meddai Dr. Morgan; y lle oedd Leiorwerth (*Lutterworth*). Yr oedd hefyd yn archddiacon Middlesex, â chanddo ganoniaeth yn eglwys gadeiriol Wells. Yn y flwyddyn 1595, efe a ddyrchafwyd i esgobaeth Bangor; ac yn mhen y ddwy flynedd, efe a symudodd i Gaerlleon, ac oddiyno i Lundain, lle y bu farw, yn y flwyddyn 1607. Yr oedd gan Dr. Davies, person Mallwyd, hefyd, ni a wyddom, law yn y gwaith, a diammhau eraill nad yw eu henwau wedi eu trosglwyddo i'r oes hon. Gadäwn y Dr. Davies ar hyna o grybwylliad am dano yn bresennol, gan y cawn achos i'w goffâu ef eto, yn gysylltiedig â "Llyfryddiaeth y Cymry."

Yr oedd y gwŷr dysgedig hyn yn adnabyddus â'u gilydd pan oeddynt yn y brifysgol, gan eu bod oll yn wŷr o Wynedd, ac felly yn cadw cyfeillach â'u gilydd mewn bro estronol. Hwy a gefnogasant ac a gynnorthwyasant y cyfieithydd, fel y dywed ef yn ei lythyr cyflwyniadol, *opem tulerent, non contemnendam*—rhoisant iddo rydd fynedfa i'w llyfrgelloedd; hwy a ddarllenasant ac a chwiliasant ei gyfieithiad, gan ei olygu a'i ddiwygio trosto. Diau fod y darlennydd yn dysgwyl gweled enw William Salesbury yn eu plith; ond digon yw dyweyd ei fod ef wedi marw er's deunaw

mlynedd: ond y mae Willis yn ychwanegu enw y Dr. John Salesbury, yr hwn oedd yn esgob Manaw (*Isle of Man*).<sup>1</sup>

Yn awr gwelwn, mai wedi hir oediad o agos i ddeng mlynedd ar hugain y cyfieithwyd yr holl Fibl i'r iaith Frytanaidd, ac y cwblhawyd gofyniad y gyfraith o'r diwedd. Eto rhaid addef mai prin oedd gair Duw yn ein gwlad er hyny, gan na argraffwyd ond prin ddigon i gyflenwi lleoedd addoliad yr Eglwys Sefydledig; ac felly nad oedd yma un ddarpariaeth ar gyfer rheidiau yr Anghydfurfurwyr, neu y Puritaniaid, y rhai oeddynt Ymneilldŵyr yr oes hŷno, o ba rai yr oedd cryn nifer yn Nghymru. Darpariaeth brin iawn yn wir—dim ond i un tŷ yn y plwyf, a'r tŷ hwnw yn cael cyrchu iddo yn anfynech gan yr holl blwyfolion, a dim ond unwaith yn yr wythnos gan neb o honynt. Yn wir, y mae yn ammhŷs iawn, fel y sylwa y Dr. Llewelyn, a oedd yr argraffiad hwn yn gyfartal i bob eglwys blwyf. Rhif yr eglwysi, medd Walker, oedd oddeutu wyth gant, a chwanegu at hyny yr eglwysi cadeiriol, a'r capeli esmwythder (*chapels of ease*), gellir golygu yr holl rif rhwng naw cant a mil. Yr oedd yr un rhywstr ag oedd yn attal ei ddygiad allan o gwbl yn attal hefyd i gyhoeddi rhifedi helaeth o'r argraffiad. Nid oedd y rhifedi a argreffid o unrhyw lyfrau mor liosog y pryd hyny ag yn awr. Ystyriwyd pymtheg cant o Fiblau Seisonig yn rhif mawr. Os oedd hyny o Fiblau Seisonig yn cael ei ystyried yn rhif mawr i Loegr, gallasai hanner, ie, chwarter hyny gael ei ystyried yn rhif mawr i Gymru: os felly, peth mawr yw os argraffwyd mwy na phump neu chwe' chant o'r Bibl y pryd hyny yn Gymraeg. Ond fe allai y dywedir fod y weithred seneddol yn gofyn cael nifer cyfartal i'r lleoedd addoliad perthynol i'r Eglwys Sefydledig yn y Dywysogaeth. I hyn gellir ateb, fod yr un ddeddf yn gofyn y cyfieithiad a'r argraffiad wedi ei orphen erbyn Mawrth 1af, 1566; ac os troseddwyd y ddeddf mewn un peth, pahan na ellid gwneyd felly mewn peth arall? Y mae yn deilwng o sylw yma, mai esgobion Cymreig a fuont yn offerynol yn y gwaith gorchestol hwn. Ond beth pe buasai ein Tywysogaeth fel y mae yn awr, yn llawn o esgobion Seisonig? pa beth a ddaethai o honom? Diau mai yn ein tywyllwch y buasem eto, o'u rhan hwy, gan na buasent yn alluog i gymeryd y gwaith arnynt—heb fedru ein hiaith, nac yn teimlo yn ein hachos—yn estroniaid i'n teimladau yn gystal ag i'n hiaith; ond tra yr oeddynt yn Gymry, yr oeddynt yn gallu cydymdeimlo âg anghen ein cenedl, a'i llesau.<sup>2</sup>

Yr ydys wedi bod yn fanylach yn yr erthygl hon nag y byddwn gydag erthyglau eraill; ond yr oedd cyhoeddiad llyfr Duw yn ein hiaith—oll, y tro cyntaf, yn galw, dybygem, am y manyldra hwn. Gallwn bellaach fyned ymlaen yn rhywddach. Pa fodd bynag, y mae genym i enwi y pethau eraill a gyhoeddwyd y flwyddyn hon:—

2. "A view of some parts of such public wants and disorders as are in the service of God within her Majesty's Country of Wales, with an humble Petition to the High Court of Parliament for their speedy redress."

"Exhortations unto the Governors and people of Wales to labor earnestly to have the preaching of the Gospel planted among them."

Y mae y ddau lyfr uchod yn cael eu priodoli gan haneswyr crefyddol ymreig i John Penry. Pa effaith a gawsant ar y llywodraeth nis gwyddom,

<sup>1</sup> *Temperley's "Dictionary of Printers and Printing,"* yn ol yr enwau yn y Cynnwysiad.

<sup>2</sup> Gwel "*Llewelyn's British Versions.*"

heblaw cael yr Ysgrythyrau yn ein hiaith, ac, fe allai, yr "Act o Unffurfiad," i ddiwygio y "*disorders in the service of God.*" Bernir mai un yn ceisio diwygiad yn yr Eglwys oedd Penry, ac nid Anghydfurfiwr hollol oddiworthi. Gan y cawn achos gwell i ymhelaethu arno, ni a roddwn heibio, ar hyn o bryd, hyd y chwarter nesaf.

## LLYFR HABACUC.

NIS gwyddir pwy oedd Habacuc: ond amlwg yw iddo brophwydo ychydig amser cyn caethgludiad Judah, ac, fel y tybir yn gyffredin, dan deyrnasiad Jehoiacim.

Yn y bennod *gyntaf*, achwyna ar ormes a thrawsder ei genedl, rhagfynega ei dinystr gan y Caldeaid; darlunia eu creulondeb, a gweddia ar Dduw i roddi terfyn ar eu gormes. Dysgwylia yn yr *ail* bennod am ateb; a rhoir ateb iddo, ond rhaid oedd aros cyn y deuai dinystr y Caldëaid; a rhoddir i ni ddarluniad o hono, a dangosir y byddent yn wawd i'r byd, ac na byddai eu duwiau yn un cymhorth iddynt. Y *drydedd* bennod sydd yn cynnwys gweddi Habacuc: cyfeiria at yr "ymadrodd" ynghylch y Caldëaid—darlunia yr hyn a wnaethai Duw gynt dros ei bobl trwy eu dwyn i feddiant o wlad Canaan, yna sonia am yr effaith a gafodd yr "ymadrodd" arno; a dybena, gan ddangos ei hyder yn Nuw yn wyneb yr adfyd oedd ar ddyfod.

### PENNOD I.

- 1 Y baich<sup>1</sup> a welodd Habacuc y prophwyd:—
- 2 Pa hyd, Arglwydd, y gwaeddaf, ac ni wrandewi?  
Y bloeddiaf arnat "Gormes," ac ni waredi!
- 3 Pam y dangosir i mi drawsder,  
Ac ar orthrymder yr edrychi?  
Iê, anrhaith a gormes ydynt ger fy mron,  
A dadl ac ymryson sy'n cyfodi!
- 4 Am hyn<sup>2</sup> y metha y gyfraith  
Ac nid â allan farn i fuddygoliaeth,  
Am fod y drygionus yn amgylchu y cyfiawn:  
Am hyn â allan farn gamweddus.
- 5 Gwelwch chwi ddirmygwyr,<sup>3</sup>  
Iê, edrychwch a synwch a rhyfeddwch;  
Canys gwaith a wnaaf yn eich dyddiau  
Na chredwch pan fyneger ef:

<sup>1</sup> "Baich" yw prophwydoliaeth. Ystyr y gair yw dwyn neu gario. Dynoda naill ai y genadwriaeth a *ddygir* oddiwirth Dduw, neu yr hyn a ddygir ac a osodir fel baich ar ddynion.

<sup>2</sup> Nid yw "am hyn" yn cyfeirio at ddim a ddywedwyd, ond at yr hyn a ddaw—sef at "am fod," yn y drydedd linell a ganlyn; a chadarnhêir yr un peth yn y llinell ddiweddfaf o'r adnod.

<sup>3</sup> Felly y cawn y geiriau yn *Actau* xiii. 41. Gadawyd un lythyren allan: dyma y camsyniad. Gwel sylwad yn ngwaith "Calfin ar y Prophwydi Lleiaf:" cyf. iv. tudal. 24, a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn yr iaith Seisnig.

- 6 Canys wele fi yn cyffröi y Caldëaid,  
Cenedl greulawn a byrbwyll,  
Yr hon a gerdd trwy amgylchoedd y wlad  
I feddiannu trigfanau nid ei heiddo.
- 7 Ofnadwy ac arswydus a fydd—  
O honi ei hun y daw ei hawl a'i huchelder :<sup>1</sup>
- 8 Buanach na llewpartiaid *fydd* ei mheirch,  
Ac awchlymach na bleiddiaid yr hwyr ;  
Ac ymdaena ei marchogion ;  
Ië, ei marchogion o bell y deuant,  
Ehedant fel eryr yn brysio i ddfirodi.
- 9 Yn gwbl er anrheithio y daw ;  
Gogwydd ei hwyneb fydd tua 'r dwyrain,  
A chasgla gaethion fel y tywod.
- 10 Breninoedd hefyd a wawdia,  
A *bydd* tywysogion yn watwar iddi ;  
A phob caer a ddirmyga,  
Ië, casgla lweh a goresgyna hi.
- 11 Yna adnewyddda ei hysbryd,  
Ac ä trwodd,<sup>2</sup> ac a drosedda :  
Hwn ei dewrder yn Dduw iddi!
- 12 Ond er cynt, Arglwydd, fy Nuw ydwyt ;<sup>3</sup>  
Fy sancteiddydd—ni byddwn feirw.  
Arglwydd, er barn y gosodaist hi,  
Ac yn gadarn er ein ceryddu y gwnaethost hi.
- 13 Glân dy lygaid, fel nad edrychi ar ddrwg,  
Ac edrych ar ofid nid elli :  
Pam yr edrychi ar y bradwrus,<sup>4</sup>  
Yr ymguddi pan mae'r annuwiol  
Yn traflyncu un cyflawnach nag ef ei hun ?
- 14 Ac y gwnai ddyn fel pysg y môr,  
Fel yr ymlusgiad nad oes iddo lywydd ?
- 15 Pob un<sup>5</sup> a dÿn allan â'i fach,  
Casgla hwynt â'i rwyd,

<sup>1</sup> Cymer hawl yn y wlad, a hōna ei goruchafiaeth trwy ei grymusder ei hun.

<sup>2</sup> Sef, trwy yr holl wlad ; " a throsedda," neu gwna ei hun yn euog, a hyny trwy wneuthur Duw o'i dewrder neu allu milwraidd. Y "genedl" a feddyllir yn yr holl linellau hyn : rhyw fenywaidd yw "cenedl" yn ein hiaith ni, er mai gwrywaidd yw yn yr Hebraeg.

<sup>3</sup> Yr honiad yw, fod Duw yn Dduw Israel er cynt, neu er hen amser. Geilw ef hefyd yn "Sancteiddydd," neu yn neillduolydd, gan i Dduw neillduoli Israel iddo ei hun : am hyny dywed y prophwyd, "Ni byddwn feirw." "Hi," yn yr adnod ganlynol, yw y genedl Galdeaid.

<sup>4</sup> Yr oedd y Caldead wedi bod mewn cynghrair âg Israel, ond aethai yn awr yn an-ddlawn—yn fradwrus.

<sup>5</sup> Sef, pob "ymlusgiad." "Hwynt," yn y llinell nesaf, oeddent y "pysg." Dyma y refn y gosodir pethau yn aml yn y prophwydi : enwant ddau beth ; dywedant yn yntaf am y peth diweddaf, ac yna am y peth cyntaf. "Bach" a arferent i ddal y rhai ddident yn ymlusgo yn agos i'r gwaelod ; a "rhwyl" i ddal y rhai a nofient yn agos wyneb.

Gosodir allan yma y Caldead fel pysgotwr, yn dal pysgod o bob math, ac yn cyfrif ei crynau fel yn achosi ei lwyddiant, ac felly yn gwneuthur Duw o'i fedr a'i rymusder. Ily y gwnaeth llawer yn mhob oes.

- Ië, cynnulla hwynt â'i fallegrwyd :  
 Am hyny llawenycha a gorfoledda.  
 16 O herwydd hyn abertha i'w rwyd,  
 Ac aroglartha i'w fallegrwyd ;  
 Am mai trwyddynt *bydd* ei ran yn fras,  
 A'i fwyd yn helaethlawn.—  
 17 A gaiff efe gan hyny estyn ei rwyd,  
 A pharhau i ladd cenedloedd heb arbed !

## PENNOD II.

- 1 Ar fy ngwylfa y safaf  
 Ac ymsefydlaf ar y tŵr ;  
 A gwyliaf i weled beth a ddywed wrthyf,  
 A pheth a atebaf pan y'm cerydder.—  
 2 Yna atebodd yr Arglwydd fi, a dywedodd,—  
 " Ysgrifena y weledigaeth,  
 A gwna hi yn eglur ar lechau,  
 Fel y gallo yr hwn a redo ei darllen ;  
 3 Canys y weledigaeth *sydd* eto dros amser,  
 Ond anadla<sup>1</sup> yn y diwedd, ac ni thwylla ;  
 Oes oeda, dysgwyl amdani,  
 O herwydd gan ddyfod y daw, nid ohiria ;<sup>2</sup>  
 Wele y diffygiol !<sup>3</sup> nid uniawn ei galon ynddo ;  
 4 Ond y cyflawn, trwy ei flydd y bydd byw."  
 5 A diau fod gwin<sup>4</sup> yn twyllo'r cadarn,  
 Trahaus yw, ac ni orphwysa ;  
 Ymhelaetha fel y bedd ei ddymuniaid,  
 Ac fel angeu, ac nis digonir ;  
 A chasgl ato ei hun yr holl genedloedd,  
 A chynnull ato ei hun yr holl bobloedd.  
 6 Oni wna y rhai'n, bob un o honynt,  
 Gyfodi am dano ddammeg a diareb,  
 Ië, gwawdeiriau amdano, a dywedyd,—  
 " Ho !<sup>5</sup> lliosoga yr ~~hyn~~ nad yw ei eiddo ! pa hyd !  
 A phentyra arno, ~~ni~~ hun glai lawer !  
 7 Onid yn sydyn y cyfyd dy frathwyr  
 Ac y deffry dy boenydwyr,  
 Ac y deui yn ysglyfaeth iddynt ?  
 8 Am i ti anrheithio cenedloedd lawer,  
 Anrheithia di holl weddill y bobloedd,  
 O herwydd gwaed dynion, a gormesu y wlad,  
 Y ddinas a phawb a drigent ynddi.

<sup>1</sup> Dywed am y weledigaeth fel yn farw dros amser, ond daw yn fyw, gan yr "anadla." dyma ystyr y gair.

<sup>2</sup> Er yr "oeda," eto nid "ohiria;" ni bydd tu hwnt i'r amser gosodedig.

<sup>3</sup> Dyma yr ystyr unol â'r dyfyniad a wna Paul o'r adnod, yn *Heb.* x. 38.

<sup>4</sup> Nid "gwin" cyffredin a feddylir, ond gwin goryngais a balchder. Gwel adn. 15. Brenin Babilon yw y "cadarn."

<sup>5</sup> Felly y dylai fod, gan mai gwawdiaith ydyw. Dywedir yn gyntaf am dano, yna cyfeirir yr ymadrodd ato.

- 9 "Ho! chwennycha chwant drwg i'w dŷ,  
Er gosod yn uchel ei nyth,  
Fel y gwaredo ei hun o law adfyd!—
- 10 Trefnaist waradwydd i'th dŷ,  
Trwy dori ymaith bobloedd lawer,  
A phechu yn erbyn dy hun :<sup>1</sup>
- 11 Canys y gareg o'r mur a lefa,  
A'r trawst o'r coedadail a'i hetyb,—
- 12 "Ho! adeilada dref â gwaed!  
A sefydla ddinas trwy ormes!"
- 13 Onid yw hyn oddiwrth Arglwydd y lluoedd—  
Yr ymboena'r bobloedd yn yr hyn a loagir,  
Ac yr ymfina y cenedloedd mewn peth ofer ?
- 14 Canys llenwir y ddaear  
A gwybodaeth o ogoniant yr Arglwydd,  
Fel y dyfroedd a ymdaeniant dros y môr.<sup>2</sup>
- 15 "Ho! gwna i'w gyfaill yfed!—  
Gan roddi *iddynt* dy gostrel, ac hefyd ddioid gadarn,  
Fel yr edrychit ar eu noethni,
- 16 Digonaiſt hwynt â gwarth yn lle gogoniant :  
Yf dithau fel y dynoether dy flaengroen ;  
Troir iti gwpan deheulaw yr Arglwydd,  
A chwydiad gwarthus *fydd* ar dy ogoniant :
- 17 Canys gormesu<sup>3</sup> Lebanon a'th ddadymchwel,  
Ac anrheithio anifeiliaid a'th ddryllia,—  
O herwydd gwaed dynion a gormesu y wlad,  
Y ddinas a phawb a drigent ynddi.
- 18 "Pa fudd a wna y gerfddelw ?  
O herwydd ei cherfwr a'i lluniodd ;  
Neu y dawdd-ddelw ac athraw celwydd ?  
O herwydd ymddiriedodd ynddi luniwr ei llun,  
Er *iddo* wneyd delwau mudion !
- 19 Ho! dywed wrth bren, 'Cyfod, deffro ;'  
Wrth faen mud, 'Efe a ddyg :'  
Wele, hi a wisgwyd âg aur ac arian ;  
Eto nid oes anadl o'i mewn :
- 20 Ond yr Arglwydd, yn ei deml santaidd y mae ;  
Tawed ger ei fron *Ef* yr holl ddaear."

PENNOD III.

- 1 Gweddi o eiddo Habacuc y prophwyd, ar fesur  
yr awdlau rhyddion :—<sup>4</sup>

<sup>1</sup>Sef, trwy wneuthur yr hyn a drôdd er niwed iddo : yn llythyrenol, "dy enaid dy  
a ; ond dynoda "enaid" yn aml ddyn ei han.

<sup>2</sup>Y gogoniant a feddylir yma oedd yr hyn a ddeilliai oddiwrth y dinystr a ddygai  
w ar ddinas Babilon.

<sup>3</sup>Arferir yn ein iaith ni, megys ag yn yr Hebraeg, barwyddiaid fel enwadau.

<sup>4</sup>Neu, direol. Meddylir yn gyffredin mai nodwedd mesuraa y gân a ddynodir :  
rydd yw, heb fod yn ol y rheolau cyffredia.

- 2 Arglwydd, clywais dy ymadrodd<sup>1</sup> ac ofnais ;  
 Arglwydd, dy waith !  
 Yn nghanol y blyneddau adfywia ef,  
 Yn nghanol y blyneddau gwna ef yn eglur ;  
 Mewn digofaint cofia drugaredd.
- 3 Duw, o Teman y daethai,  
 A'r Sancteiddlan o fynydd Paran : Selah :  
 Gorchuddiodd y nefoedd ei ogoniant,  
 A'i ddysgleirdeb a lanwodd y ddaear ;
- 4 A'r llewyrch, fel goleuni yr ydoedd ;  
 Pelydrau *oeddent* iddo oddiwrth ei law,  
 Ac yno yr *oedd* dirgelfan ei allu :
- 5 Oddi ger ei fron y daeth y gair,<sup>2</sup>  
 A daeth allan oleu tanllyd odditan ei draed :
- 6 Safodd, a mesurodd y ddaear ;  
 Edrychodd, a gwasgarodd genedloedd ;  
 Ymholltodd hefyd fynyddau parhaus,  
 Crymodd bryniau yr oesoedd :  
 Llwybrau 'r cynfyd *oeddent* iddo.<sup>3</sup>
- 7 Tan adfyd y gwelais bebyll Cusan,  
 Dychrynodd lleni gwlad Midian.
- 8 Ai yn erbyn afonydd, Arglwydd,  
 Ai yn erbyn afonydd, y cynneuoedd dy lid ?  
 Ai yn erbyn y môr dy ddigofaint,  
 Pan farchogaist ar dy feirch,  
 Yn dy gerbydau o waredigaeth ?
- 9 Gan ddynoethi dynoethaist dy fwa,  
 Llenwaist â saethau dy wregys ; Selah ;  
 A holltaist â ffrydiau y ddaear.
- 10 Gwelsant<sup>4</sup> di—crynodd y mynyddoedd,  
 Dylif dyfroedd a aeth heibio :  
 Dyrchafodd y dyfnder ei lef,  
 Yr uchelder, ei ddwylaw a gyfododd.
- 11 Yr haul ! y lleuad !  
 Hon a safodd, yntau a arosodd ;  
 Er goleu i'th saethau a ehedent,  
 Er llewyrch i'th waewffon ddysglær.
- 12 Mewn digofaint y cerddaist trwy y wlad,<sup>5</sup>  
 Mewn digder y dyrnaist genedloedd ;
- 13 Daethost allan i waredu dy bobl,  
 I waredu dy rai eneiniog :

<sup>1</sup> Sef, yr hyn a draethodd yn y bennod gyntaf am ddyfodiad y Caldead i ddinystrio y wlad.

<sup>2</sup> Sef y ddeddf : cyhoeddodd hi ar fynydd Sinai.

<sup>3</sup> Tebyg oedd ei waith i'r hyn a wnaethai wrth greu y byd.

<sup>4</sup> Sef y mynyddoedd a'r dylif, a enwir yn y geiriau a ganlynant.

<sup>5</sup> Cyfeiria at oresgyniad gwlad Canaan pan ddygwyd yr Israeliaid i feddiant o honi



- Tarawaist y pen o dŷ yr anwir,  
 Gan ddynoethi y sylfaen *oedd* hyd y gwddf;
- 14 Trywanaist â'i ffyn ei hun ben ei faesdrefydd:  
 Daethant fel corwynt i'm gwasgaru;  
 Eu llawenydd *oedd* megys i fwyta y tlawd yn y dirgel:
- 15 Rhodiaist trwy y môr â'th feirch,  
 Gan derfysgu dyfroedd cryfion.
- 16 Pan glywais,<sup>1</sup> dyohrynodd fy ymysgaroedd;  
 Wrth dy lef crynodd fy ngwefusau,  
 Pydredd a aeth trwy fy esgyrn;  
 Ac yn fy lle y crynaf,  
 O herwydd arosaf hyd ddydd yr adfyd,  
 Hyd esgyniad y bobl a ruthrant arnom.
- 17 Diau y ffigysbren ni flodeua,  
 Ac ni *bydd* cynnyrch ar y gwinwydd;  
 Palla ffrwyth yr olewydden,  
 A'r meusydd, nid un a rydd gnwd;  
 Torir ymaith o'r gorlan y praidd,  
 Ac ni bydd eidion yn y beudŷ;
- 18 Eto myfi—yn yr Arglwydd y llawenydachaf,  
 Gorfoleddaf yn Nuw fy Ngwaredwr;  
 Yr Arglwydd Dduw a *fydd* fy nerth,  
 A gwna fy nhraed fel eiddo'r ewigod,  
 Ac ar fy uchelderau y pâr i mi rodio.

I'r arweinydd ar y peiriannau tant.

## ATHRYLITH A GWEITHION DAFYDD THOMAS, O'R WAUN FAWR, NEU DDAFYDD DDU O ERYRI.

PAN glywom son am wr o athrylith, mawr fydd yr awydd ynom am wybod ei hanes, a'r anhawsderau oedd ar ei ffordd i gyrhaedd enwogrwydd; canys yn mysg y dosbarth o ddynion y mae mwyaf o attalfaoedd ar eu llwybrau y mae mwyaf o athrylith yn gyffredin. Nid llawer o wŷr y "gwaed uchel" sydd yn feibion athrylith. Y mae eithriadau anrhydeddus i hyn, y mae yn wir, ond eithriadau ydynt. Er profi y gosodiad hwn, ni raid i ni ond edrych i ddau dŷ seneddol Prydain Fawr; canys yn y lleoedd hyny, y mae yn debyg, y mae mwyaf o gyfleusdra i foneddigion, neu deulu y "gwaed," ymgyfarfod o un man yn y deyrnas:—ond yn mha le y mae yr athrylith? A geir ymhlith yr un nifer o gyfreithwyr, o ddadleuwyr, o feddygon, neu o bregethwyr, can lleied o ddynion o wir athrylith ag sydd yno? Neu a oes yn mysg ein beird a'n peroriaethwyr gynnifer o ddynion mor ddiarnacan i gyflawni y gwaith a gymerant arnynt ei wneuthur ag

<sup>1</sup> Yr un peth a feddyllir ag y cyfeiria ato yn yr ail adnod.

a geir yn senedd Prydain Fawr? Prin y mae yno un yn mhob hanner cant a all wneyd fawr fwy o orchest na thraddodi rhyw araeth ar ol ciniaw: y mae ymafyd mewn pwnc y bydd eisieu athrylith i'w drafod yn hollol o'u cyrhaedd. Os mynir cael rhywbeth â sylwedd ynddo, rhaid myned i chwilio am feibion athrylith, y rhai â geir agos bob amser wedi hanu o blith y canolradd a'r iselradd. Nid oedd gan Syr R. Peel fawr o "waed" i ymfrostio ynddo; a'r un peth ellir fynegu am Joseph Hume, John Bright, G. Thompson, Fox, a Richard Cobden: nid ar eu "gwaed," ond ar eu hathrylith, y mae y gwŷr hyn yn pwyso. Beth oedd gan Eldon, Lyndhurst, Denman, Campbell, ac eraill, i ymddiried ynddo ond eu hathrylith? Dichon fod doethineb Rhagluniaeth yn dyfod i'r golwg yn hyn; sef, ei bod yn rhoddi athrylith i ddynion sydd heb eu "geni â llwy arian yn eu geneuau," fel y dywedir. Fe allai pe cawsai pawb eu geni yn gyfoethogion, nad aethai dim cymaint ag sydd o waith meddwl ymlaen mwy nag o waith corff.

Y mae beirdd a phregethwyr Cymru oll'agos yn ddieithriad wedi hanu o'r canolradd, neu o blith y crefftwyr a'r gweithwyr. Nid llawer o fawrion a alwyd i unrhyw swydd y mae eisieu meddwl ynddi, yn y Dywysogaeth, mwy nag mewn unrhyw barthau eraill; ond, yn gyffredin, bechgyn o sefyllfaoedd canolig sydd yn gweithio eu ffordd i bob enwogrwydd drwy fyrrd o rwystrau. Ond y mae rhyw duedd mewn rhai o'r dosbarth y *dygwyddodd* i'w rhieni fod yn perchen ychydig mwy o dda y byd hwn na'u cymydogion, i edrych yn fach ar rai a ddaethant i fyny o sefyllfaoedd dinôd, fel pe byddent hwy (y mawrion) yn fwy *rhinoeddol* ac yn fwy *teihong*, am fod eu tadau neu eu mamau yn perchen tyddyn neu ddau o dir, na'r dyn sydd yn byw ar ei ddiwrnod gwaith. Y mae yn ddrwg genym weled yr enwog Ddafydd Ionawr yn y dosbarth hwn, pan yn cyfansoddi ei "Ateb i orchestion Dafydd Ddu o Eryri." Edliwia iddo yn y gân hönö y gelfyddyd y dygwyd Dafydd Ddu i fyny ynddi, fel pe buasai rhyw warth ynglŷn â bod yn grefftwr gonest. Dichon y buasai yn llawn cystal i Dafydd Ionawr ei hun fod yn meddu rhyw grefft, a bod yn myned o fan i fan wrth ddysgwyl am ei ystâd. Nid oedd dim mwy o rinwedd yn perthyn i Dafydd Ionawr, yn bersonol, am iddo *ddygwydd* cael ei eni yn fab Glanmorfa, a bod ei fam yn perchen y tyddyn hwnw, nag oedd yn perthyn i Ddafydd Ddu, yr hwn a anwyd o rieni gonest a chrefyddol yn y tŷ a elwir Penybont y Creunant, Waunfawr, ger Caernarfon. Dafydd Ddu a ymwithodd i'r goleu drwy fwyaf o anhawsderau; ac os oedd rhinwedd yn bod, efe biodd y dorch. Pa ddiolch i fechgyn sydd heb ddim arall i'w wneyd fod yn ysgolëigion? Eto llawer na wnaethant ddim erioed ond "bod â'u trwynau mewn rhyw lyfr" yw y rhai parotaf i feio ac i ddirmygu rhai a ddaethant i fyny yn wyneb rhwystrau. Cafodd Dafydd Thomas amryw elynion o'r dosbarth a nodwyd; ac nid rhy ddystaw a fu y dynion a gychwynent eu hoes yn yr un dosbarth ag yntau, wrth weled ei lwyddiant. Yr oedd cryn eiddigedd rhwng amryw o'i gydfeirdd ag ef hefyd; ond ymlaen yr aeth, heibio i enllib a chenfigen, nes cyrhaedd enwogrwydd mawr fel bardd, hynafiaethydd, a Chymreigydd rhagorol.

Gwelsom ddau fywgraffiad byr i Ddafydd Ddu, ond nid oes un o honynt yn dechreu lle y dylasai ddechreu. Dywed y ddau fod Dafydd Thomas yn fab i Thomas Gruffydd, gwëydd wrth ei gelfyddyd; ond gadâwyd allan bethau eraill, cysylltiedig â thad y gwrthdrych, a ddylent fod

ar gof a chadw. Yr oedd tad Dafydd Ddu yn ddyn nodedig yn yr oes hono, ac yn bregethwr cymeradwy yn mysg y Trefnyddion Calfinaidd. Yr oedd hyn yn fantais fawr i'r bardd yn moreu ei ddyddiau er cael addysg grefyddol o'r iawn ryw. Ystyrid Thomas Gruffydd yn wr o feddwl cryf, ac yn meddu ar graffder helaeth gyda golwg ar athrawiaeth yr efengyl;<sup>1</sup> a meddai duedd gref at farddoniaeth Gymreig.<sup>2</sup> Ië, yr oedd Thomas Gruffydd yn ddigon enwog yn ei oes i gymhell awen Sion Lley'n i gyfansoddi awdl marwnad iddo, yn yr hon y dywedir—

“Thomas bu graffwas ab Gruffydd—p'le'r aeth

Wr ethol o'r Gweunydd?

Mewn monwent yn min mynydd,

Llwch y sant yn llechu sydd.

Llech yna mewn llwch enyd—i'th gastell

O'th gystudd a'th adfyd;

Darfu y boen—o dwrf byd,

Yna gorwedd mewn gweryd.

Angou oer syn fy ngwers yw,

Oll a droedia lleidr ydyw;

Dwyn yr hael a'r gwael gwelaſ,

Dwyn cawr o dano y caf;

Dwyn oesoedd—a'u dynesu

Yn fyddar i'r ddaiar ddu:

A dwyn o'r Waun, dyner wedd,

Wr enwog i'w oer anedd;

Y Waun sy lom am Domas,

Llai yw ei ched gred a gras:

Ni bu 'n ddoeth neb yn ei ddydd

Graffach na Thomas Gruffydd:

Ei ofal oedd ddyfal ddwys,

Mawr wiwglwm am yr eglwys;

Hi oedd ei fam hoewaidd swyn,

Wych ryddfodd a'i chwaer addfwyn,

Gwynfyd ei fywyd a fu,—

Dewisol adfyd Iesu.

Dibaid i'w rhaid bu 'n rhydd

A chwanog am ei chynydd;

Er maeth mwy helaeth i hon

Dygodd wir weinidogion,

Trwy lafur, mewn traul hefyd

Bu ffyddlon i hon o hyd;

Ymgeleddodd, hoffodd hi,

Ei wres addysg roes iddi.

Aeth un dwys i'r gwys o'r gwŷr,

Daiarwyd llygaid eryr;

Llygaid oedd ddibaid i ddall,

Llaw 'n wir yn lloni arall;

Traed i gloff, bu hoff o hyd,—

Eithr y gwr aeth i'r gweryd.”<sup>3</sup>

Cyfeirir yn y darn a ddifynwyd at gymhwysderau Thomas Gruffydd—ei ddylanwad fel blaenor a phregethwr, a'i ffyddlondeb yn y gorohwyl o gyrehu pregethwyr o bell ac o agos i weini mewn pethau sanctaidd, yr hyn oedd yn peri cryn draul a llafur yn ei ddyddiau ef. Yr oedd i'r bardd

<sup>1</sup> Gwel “Drych yr Amseroedd.” tadal. 189.

<sup>2</sup> “Buchedd-draith D. Ddu.” tadal. 11.

<sup>3</sup> “Corff y Gaine.” tadal. 94—97, 98.

gael ei fagu ar aelwyd grefyddol, o dan addysg gwr mor enwog a chydwybodol a'i dad, yn fantais fawr iddo gael ei wreiddio yn athrawiaeth yr efengyl, oddiwrth yr hon ni chilioedd ddyddiau ei oes. Y mae eglurder, prydfwerthwch, a destlusrwydd uwchlaw cyffredin yn rhedeg drwy ei holl ganiadau moesol a chrefyddol.

Dilynodd Dafydd Thomas yr un gelfyddyd a'i dad nes yr oedd yn ddwy ar bymtheg oed; aeth wedi hyny i'r ysgol at y Parch. John Morgan, offeiriad Llanberis, gyd â'r hwn yr arosodd am wyth mis. Yr oedd efe wedi cael hyfforddiadau gan ei dad, cyn hyny, i ddarllen ac ysgrifenu Cymraeg a Seisneg, ac mewn rheolau barddoniaeth; ac ymddengys fod awydd yn y bardd ieuanc am hyfforddiadau pellach yn y gelfyddyd farddonawl; a thra yr oedd yn yr ysgol, daeth yn gydnabyddus â Mr. Abraham Williams, o'r Cwm Glas, Llanberis, gŵr ieuanc tuag ugain oed, yr hwn oedd yn yr ysgol gyda Dafydd Thomas. Deallai Mr. A. Williams reolau cerdd dafod, ac yr oedd yn bur barod i gynnorthwyo eraill. Bu yn help mawr i Gutyn Peris a Gwilym Peris, fel athraw barddonawl. Ato ef y cyfeirir yn y llinellau canlynol o gywydd anerchiad Gutyn Peris i Gwilym Peris:—

“Dan oeddym un dueddiad  
At gan fwyn teg awen fad;  
Ein hathraw, hylaw helynt,  
Fu'r dewrwas o Gwmglas gynt.”

Daeth Dafydd Thomas yn gydnabyddus wedi hyny â Mr. Robert Hughes, Caint Bach, neu, Robin Ddu o Fon, yr hwn a ddaethai adref o Lundain o herwydd gwaeledd ei iechyd. Cyfeillachodd y ddau lawer â'u gilydd yn Nghaernarfon, ac nid hir y bu ein bardd heb ddyfod yn drech na'i athraw. Ar ol dyfod o'r ysgol, dilynodd Dafydd Thomas y gelfyddyd o wëyddiaeth hyd farwolaeth ei dad, a gwellai ei hun mewn addysg gymaint ag a allai ar yr un pryd; ac wedi hyny aeth yn ysgolfeistr. Bu yn cadw ysgol yn y Bettws bach, Llanddeiniolen, a Llanystumdwy; a daeth yn y cyfamser yn gydnabyddus â R. ab Gwilym Ddu; R. Williams, Llŷs Padrig; Ieuanc Lleyl; a Sion Lleyl. Yr oedd ei enw erbyn hyn yn dechreu dyfod yn adnabyddus drwy y wlad oll. Clywodd Paul Panton, Yswain, o'r Plas gwyn, Pentraeth, Mon, am dano; ac fe wahoddodd y bardd i gadw ysgol yn Mhentraeth, a chafodd ei ymborth a'i lety gan Mr. Panton am ddeongli y “Gododin” iddo ef. Ni arosodd yn Mhentraeth yn hir; ond, drwy ddylanwad y gŵr boneddig a enwyd, cafodd Dafydd Thomas le i fod yn ló-fesurydd yn Amlwch; eithr ni thrigodd yno fawr, ond dychwelodd at ei hen waith o gadw ysgol, gyd â'r hwn orchwyll yr arosodd rhwng y Waunfawr, Llanrug, Llanberis, a Llandwrog, hyd ddiwedd ei oes. Nid ydoedd efe yn ddyng iach; nid allai oddef na thwymno nac oeri; yr oedd poen yn ei ochr yn fynych. Buyn briod âg Elinor Thomas, yr hon a fu yn gymhars serchog ac yn gynnorthwy iddo gael bywioliaeth gysurus drwy gadw masnachdŷ am flnyeddau; ond ni fu efe yn berchenog ar lawer o bethau y bywyd hwn yn ei amser goreu. Ni chyrrhaeddodd yr esmwythder a ddylasai gwr o'i alluoedd ef gael. Y mae llawer, yn bresennol, yn ddigon parod i wyngalchu bedd y bardd y buasai yn fliin ganddynt roi ychydig o gynnorthwy iddo tra yr oedd byw. Mynega ei brofiad yn yr englyn canlynol gyda golwg ar ei swydd:—

“Gweini y' myag eginau mân—yr ydwyf,  
Yn greadur egwan;  
Deg wyth—dim dŷogi weithian,  
Dim eilio, dim ceinclo cân.”

Ar ei ddychweliad o Fangor, Mawrth 30, 1822, boddodd yn afon Cegin, yn nhir Braich Riffri, Llanddeiniolen. Yr oedd efe ar ei gefn pan gafwyd ef, ac oddeutu modfedd neu ragor o ddwfr dros ei wyneb. Llamau ac nid pont oedd ganddo i'w chroesi. Meddylir mai syrthio mewn llewyg a wnaeth. Claddwyd ef yn mynwent Llanrug, a dodwyd gwyddfa hardd uwch ben ei fedd, ar yr hon y mae amryw englynion wedi eu tori. Nid oedd efe ond tair a thriugain oed pan fu farw. Brawd i'r bardd oedd Mr. John Thomas, Llanberis, yr hwn a fu yn pregethu gyda'r Methodistiaid Calinaidd am ddwy a thriugain o flyneddau. Bu brawd iddo hefyd, o'r enw Humphrey Thomas, yn swyddog yn nholddŷ (*custom-house*) Caernarfon, ac yn ysgolfeistr. Nid ydoedd Dafydd Thomas mewn undeb âg un enwad o Gristionogion ymneillduol; hōna yr Eglwyswyr ei fod ef yn aelod cyson o'r Eglwys Sefydledig. Dengys ei waith, pa fodd bynag, ei fod ef wedi cael gwell magwraeth grefyddol nag a allasai yr Eglwys Wladol roi iddo y dyddiau hyny. Y mae blas pregethau melus a gwllithog a glywsai gan yr hen Fethodistiaid yn dilyn ei gyfansoddiadau godidog hyd y dydd hwn. Nid ydoedd y manteision a gafodd mewn pethau eraill ond prin; a phan gofiom hyny, y mae yn syndod iddo ddyfod ymlaen yn fardd a hynafiaethydd, ac yn ysgollâig, mor ragorol. Yr oedd barddoniaeth bur wedi myned yn dra isel cyn cyfodiad Dafydd Thomas. Nid oedd y rhan fwyaf o'r darnau oeddynt yn cael eu cyfansoddi yn dyfod yn agos i reolau cerdd dafod. Yr oedd Thomas Edwards, Jonathan Hughes, John Thomas, Ellis Roberts, ac eraill, yn rhy barod i ddirmygu pob rheol osodedig, ac i ystyried y cymeradwyid eu gwaith hwy er iddynt gymeryd y rheol a fynent. Yr oedd llawer iawn o ganeuon anfoesol o ran eu tuedd hefyd yn cael eu cyhoeddi y pryd hwnw gan feirdd ac eraill; ond yn nyddiau Dafydd Thomas, dechreuwyd math o gyfnod newydd yn y byd barddonol. Daeth y beirdd nid yn unig i gyfansoddi yn fwy destlus a rheolaidd, ond yn fwy moesgar a syberw. Ysgythridd pob barddoniaeth wael yn ddiarbed. Yr oedd ein bardd yn un o'r rhai llymaf yn erbyn goaddef i gyfansoddiadau aiferw ac annheilwng gael diano yn ddigerydd; ac nid rhyfedd iddo dynu pastynfeirdd a chlerfeirdd yn ei ben fel cawen. Y mae yn hawdd barnu wrth ei "Gywydd Adgyfodiad Awen," mai nid rhyw lwybrau meillionog iawn a dramwyodd; ac ni wyddom beth a allasai fod ynddo ef i gynhyrfu bustl neb ond ei onestrwydd yn sefyll dros farddoniaeth bur a ddaliai i'r oesoedd dyfodol. Dywed yn y cywydd y cyfeiriwyd ato—

"Diau o fardd od wyf fi,  
 Wr o oror Eryri,  
 Gwenwyn sy gan oganwr,  
 O'm canfod fel gormod gwr;  
 Da fyddai i ddiwai ddyn  
 Gloi barddas ffol gleberddyn;  
 Ban'd ffol yw ei glolfol glebr,  
 A'i ynfyd goeglyd geuglebr;  
 Cobleriaid cabl a yrant  
 Bob dydd fel y cenfydd cant;  
 Ni feddant dyciant i'w dawn,  
 Byr o ddyg yw beirdd yagawn,  
 Diystyr yw bardd distadl,  
 Rhy fas yw ei ddiwas ddadl,  
 Ni haedd ei gân druan a drwg  
 Sylwad nac un dwys olwg;

Anafodd heb iawn ofeg  
 Reolaeth prydyddiaeth deg,  
 Ac anaddas y gwneddyw  
 Gam a'r iaith digymhar yw."

Nid llawer o feirdd addas i ymgystadlu yn mhob peth â Dafydd Ddu oedd i'w cael yn ei oes ef. Y mae yn debygol fod un Richard Powel, gwr a fu yn cadw ysgol yn Yspty Ifan, yr hwn a gollodd ei ffordd yn y niwl ar y mynyddoedd wrth ddychwelyd o Ffestiniog, ac a fu farw, yn un o'r rhai goreu oedd yn fyw y pryd hwnw. Cyfansoddodd R. Powel awdl ragorol ar "Dymmorau y Flwyddyn," yr hon a ennillodd dlws y Gwyneddigion, ac a ystyrir yn gampus; ac yr oedd efe yn gydymgeisydd â Dafydd Ddu ar un o destunau y Gwyneddigion. Aferw dros ben y gollyngai y rhan fwyaf o'r beirdd bob peth trwy eu dwylaw ar ol dyddiau Goronwy, Gwilym Wyn, a Lewis Morris, hyd gyfodiad Dafydd Ddu. Cyrhaeddodd ei ddylanwad ef ymbell; ond bu mewn amryw frwydrau barddonol; megys, yr un gyda Dafydd Ionawr, Thomas Edwards, a Iolo Morganwg. Dafydd Thomas hefyd a gyhoeddodd yr englynion brathog o eiddo Goronwy yn erbyn Ellis Roberts, y cowper. Cymerodd un peth arall le yn nyddiau Dafydd Ddu na ddylid edrych drosto. Cyn iddo ef ddyfod i sylw ac enwogrwydd, byddai dychangerddi i wŷr Eglwysig yn bethau cyffredin. Ni fyddai nemawr ffair na marchnad yn cael pasio na fyddai rhyw "offeiriodyn," chwedl y "Bardd Cwsg," neu beriglor, yn cael ei osod yn y rhigawd (*pillory*), a thrinid y cyfryw yn greulawn hefyd, gan eu gwneyd hwy yn destunau gwawd yr holl gymydogathau; ond yn fuan wedi i Dafydd Ddu ddyfod i sylw, ni chlywid son am y pethau hyn. Y mae yn debyg i'r cyfnewidiad hwn gael ei ddwyn oddiamgylch drwy i'r gwŷr Eglwysig noddi mwy ar y beirdd. Gwnaeth amryw Eglwyswyr dylanwadol, a boneddigion, sylw o Dafydd Thomas a'i waith; a chafodd yntau ymgymysgu cryn lawer â hwy yn eu tai, a rhyddid i ddefnyddio eu llyfrgelloedd, yr hyn a fu o fawr wasanaeth iddo mewn llawer o ystiriaethau. Rhoddwyd cefnogaeth gan sawrion ac eraill i gael gweithion barddonol drwy y wasg: ac fe allai fod pethau fel hyn wedi dylanwadu ar y beirdd i beri iddynt dynu eu colynau atynt, ac i adael llonydd i Eglwyswyr yn eu caneuon. Y mae llai o ddychangerddi o bob math, yn bresennol nag a fu, a mwy o ddiwyllio chwaeth yr oes. Y mae "y tlawd a'r cyfoethog yn cydymgyfarfod" yn fynychach nag y gwelwyd hwynt; yr hyn, yn ddiâu, sydd yn arwydd er daioni, tra nad oes eisieu i neb wadu ei egwyddorion.

Llafuriodd Dafydd Thomas lawer gyda barddoniaeth am dros ddeugain mlynedd; ac y mae ei ganeuon, braidd yn ddiethriad, ymhlith y cyfansoddiadau rhagoraf a feddwn yn yr iaith Gymraeg. Cyfansoddodd wyth o Awdlau, ac amryw o'r rhai hyny yn fuddugol; pedwar o Gywyddau; lliaws mawr o Englynion; deuddeg o Garolau; deuddeg a deugain o "Ganiadau duwiol;" a deuddeg ar hugain o "Ganiadau moesol a difyr."

Bardd gwastadlyfn ydoedd Dafydd Ddu, ac ieithwr da. Y mae ei gynganodd yn llefn, ei iaith yn llefn, a'i feddyliau yn llyfnion. Nid ymddengys ei farddoniaeth, yn gyffredin, fel effaith teimlad cryf. Nid ydym yn cael ein cipio ymaith gan ryferthwy, fel yn "Nghywydd y Dylif," gan Ddafydd Ionawr, na'n dyrchafu i daleithiau goruwchddaeorol, fel y cawn gan rai o'n beirdd Seisnig;—yr ydym yn ngolwg y tir yn barhaus, ac nid ydyw y gwrthddrychau yn lleihau nac yn myned o'r golwg. Y mae y

meddylddrychau yn fynych yn ddysglaer, ond nid bob amser yn aruchel; y maent yn gywir yn wastadol, ond gellid tybio fod hir waith wedi bod yn eu gosod wrth eu gilydd. Ni feddyliai neb a ddarlleno waith Dafydd Ddu ei fod ef yn ddeieithr i natur, yn enwedig pan yr amlygo ei deimladau ei hun, neu y tyno ddarlun i gyfarfod â theimlad arall. Yr oedd ganddo fedr mor neillduol i osod pethau ynghyd yn brydferth, fel yr ydym yn fynych yn gorfod anghofio cyffredinwch y meddyliau, a'n cydnabyddiaeth â'i ddelweddau, o herwydd y dillynder sydd yn y wisg. Y mae chwaeth goethedig ymron yn mhob llinell o'i waith; ac fe wnaeth lawer iawn o waith. Anfynych y gwelwn grynoded o gyfansoddiadau mor addas ar gyfer pob dosbeirth. Y mae gan Dafydd Thomas rywbeth i bob chwaeth grefyddol a moesol. Yr oedd efe yn ysgrifenu i'r oesau; ac nid i wrth-ddrychau neillduol, nac ar destunau neillduol, yn ei oes ei hun. Yr oedd yn well ganddo gyfranau addysg i'r cyffredin, na chael ei restru ymhlith yr awduron penaf a dramwyant y bydoedd fry. Y mae efe bob amser yn sylfaenu ei syniadau ar ffeithiau; ond ychydig o ddychymyg y mae efe yn ei alw i gynnorthwyo rheswm. Gallem feddwl ar naddiad ei gynghaneddion ei fod ef wedi tyngu llŵ o ffyddlondeb i'r farddoniaeth gaeth; ac fod "Bwyall Llawdden" mewn bri mawr yn ei olwg. Y mae Dafydd Ddu yn fwy uchelddysg na'r rhan fwyaf o'i gydoeswyr; ond y mae ei farddoniaeth mwyaf caeth, bob amser, yn ddarllenadwy ac yn ddealladwy; nid ydyw y darlennydd yn colli ei ffordd wrth ei darllen fel pe byddai ar y mynydd ar dywydd niwlog, nac yn gorfod petruso uwch ben y llinellau, oddigerth i ofyn ystyr gair weithiau, gan ofyn beth a olyga y bardd? Nid ydyw ychwaith yn amddifad o gyfunedd, nac yn gwylltio ymhell oddiwrth ei destun, gan ddwyn pethau amherthynasol i fewn. Y mae ambell awdl na waeth yn mha ben y dechreuoch ddarllen; ni fedd arweiniad i fewn, na chanol, na diwedd; ond nid felly awdlau Dafydd Ddu. Ceir ynddynt addysg a hyfrydwch. Ond yr oedd ein bardd yn fwy o ddyn o wyddoniaeth (*science*) nag o wresogfryd tanbaid. Nid oedd ei athrylith yn ymhyfrydu cymaint mewn llosgfalau (*volcanoes*) ag yn sŷ yr afon. Nid oedd creigiau diphwys, ac ogofâu y clogwyni, yn llenwi cymaint ar ei feddwl a'r tymmor haf, a cherdd yr adar. Y mae yn ei awdl ar "Oes Dyn" yn dangos llawer o gydnabyddiaeth â'r darluniadau a roir o oes dyn, ac â'r pethau y cyffelybir yr oes iddynt o ran ei breuolder. Cawn yn hon y "niwlen," y "gwyfyn," y "rhos," y "ffugadail," yr "irddail," y "breuddwyd," a'r "blodeuyn."

"O b'le daw y blodeuyn?  
O'r ddaear—daear yw dyn;  
Daear yw lle'r blodeuyn,—i'r ddaear  
Od esgar y diagyn."

Yn ei awdl ar "Ryddid," teifi olwg ar ryddid y credadyn—rhyddid gwladol yn "firwyno trais a gormes"—ei llesiant i bob dosbeirth ar dir a môr, ac mai o achos yr amddifadrwydd o ryddid y

"Lloegwyd, neu yswyd dinasoedd—hirion  
O herwydd terfysgoedd;  
Dyrchafu ymranu 'r oedd  
Dân ufel hyd y nefoedd."

"Lle bu gwenwyn a hyll baganiaeth,  
I bawb oddef o dan Babyddiaeth,

Llaw goleuni yn lle gelyniaeth,  
Diryma'r chwil-lys drom oruchwyliaeth."

"Heb ryddid hybereiddia—a hoewfrait  
Ei hyfryd fwynsidd-dra;  
Cysur i natur ni wna  
Dwy randir daiar India."

Yr oedd Ewrop yn bleidiol i'r gaethfasnach pan gyfansoddodd yr awdur ei awdl ar "Ryddid;" megys y gwelir oddiwrth y pennill a ganlyn:—

"Bai ar wŷr Ewrop bér yr awrhen  
Yw eu mordwyaeth am wŷr duon;  
Dwyn o India ar deneu wendon,  
Aneirif gaith dan arw fygythion,  
Hirddrwg rhyw olwg greulon—dwyn heddwch  
A mawr ddyddanwch myrdd o ddyznon."

Ymddengys oddiwrth y dyfyniadau blaenorol fod teimlad yr awdur o'r iawn ryw, a'i fod yn deall ei destun yn rhagorol.

Y mae yn ei awdl ar "Wirionedd" lawer o ragoriaethau. Y mae rhai darnau o honi yn arderchog iawn. Cymer y bardd olwg ar fawredd gwirionedd—ffynnonell gwirionedd, ei fod "Yn Nuw yn ddigyfnewid"—mai

"Duw Ior ei hun, awdur hedd,  
Yw yr unig Wirionedd."

Mai drwy y Gwirionedd y gwnaed y bydoedd:—

"Gair Duw Iago yn greadigol,  
A Iuniai fyd i'w le hanfodol."

Gair o enau'r Gwirionedd,  
Nerth Ion, dyg bydron o'r bedd;  
Ca'dd meirwon, ar dirion daith,  
Fyw eilwaith mewn gorfoledd.

Gair da yr Iesu yw'r gwir drysor,  
Gair ei efengyl yw'r gref angor;  
Cywir rhag angen, ceir ei gyngor,  
I filwrio am nefol oror.

Ni châr yr Ion, union wr,  
Enaid un anudonwr;  
Cyn hir e lyncir i lyn  
Y gelyn a'r gwrthgiliwr.

Y gwir ei iawn agoryd—a ddylid,  
A'i ddilyn bob enyd;  
Yn mhob masnach bach o'r byd,  
Uchel fodd a chelfyddyd.

Gwelir rhwng y gwir a'r gau—fawr ragor  
Fe rwygir mynwentau;  
Daw'r cyrff o'r iseldir cau,  
Rif erec, ar ryw forau.

Ger bron yr union arweinydd,—Ior anwyl,  
A'r Ynad tragwydd;  
Mil myrddiwn ar fyrddiwn fydd,  
Fel manod ar fol mynydd.

Dau deulu'r byd didolir,—gelynyon  
Y gloew-Naf a gosbir;  
Ei blant a garant y gwir—  
Gwerth ei waed nis gwrthodir."



Y mae ei awdl ar "Forfur Madog" yn dra gwreiddiol. Ei awdl ar "Farwol-aeth y Parch. R. Davies," sydd yn llawn o gywreinrwydd, yn nygiad i fewn ac yn mhlethiad enwau yr hen feirdd; y mae y nodau eglurhaol sydd yn canlyn yr awdl hõno yn werthfawr dros ben. Y mae yn ei awdl ar "Agoriad Eisteddfod Caernarfon," Medi 12, 1821, yn dra tharawiadol tua'r diwedd. Y mae yr ysgrifenydd yn cofio yr effeithiau a ddilynai ei hadroddiad ar y pryd. Diwedda yr awdl fel hyn :—

"Wel, bellach, mewn hoewach hwyl,  
Dirionwch frodyr anwyl,  
Cenwch eich gwaith mewn cynydd,  
A mwynlan diddan fo'r dydd;  
Minau 'n hen, mewn anhunedd,  
Yma 'n byw yn min y bedd,  
Gwyro mae fy moel goryn  
At lawr allt dan y gwallt gwyn:  
Daw ereill feirdd awdurol  
Yn fuan—fuan ar f'ol."

Y mae llawer iawn o athrylith yn nghwyddau Dafydd Thomas; y mae ynei "Gywydd Adgyfodiad Awen" linellau teilwng o Oronwy Owain; megys,

"Mae i'r lleog pe b'ai mwy 'r lliid,  
Ran ddu o'r hen addewid;  
Rhedaſ, os ymdeithiaſ dir,  
I'm nawdd-dŷ i'r mynydd-dir;  
O'r grogliath flin i'r greigle,  
A'm pen dan aden Duw ne'.  
Mae lluoedd dorfoedd dirfawr,  
Yn dychwel o Fabel fawr  
I Salem, gaer is heulwawr,  
Minau 'n un, Amen yn awr.  
Ewyf eto 'n gobeithio bydd  
Yn llys Ion llais awenydd,  
Ac enynu cãn anwyl  
Anniwedd oes newydd wyl,  
Cõr sereiff cywir, siriawl,  
Sy'n tania, yn melltio mawl,  
Cãn hirfaith, berffaith ddi-baid,  
Gwir aberth, gan gerubiad;  
Torfoedd o saint—rhyfedd son,  
Teulu Ner telynorion;  
Ac ehedlais—cyhydlef  
Yn gwaſu drwy fynyddau 'r nef;  
Pêr Awen gan lawen lu,  
Ac odlais bendigeidlu;  
Adeiliant gerddi dilyth;  
Heb orphen, heb orphen byth,  
Iach leisiant uwch y laswybr,  
Canant taranant trwy 'r wybr;  
Yn digilwg deg eilio,  
Minau fardd, Amen a fo;  
Duw i'm enaid dymunawl  
Diddarfod a fo dy fawl."

Os tynir rhyw ychydig eiriau anmhriodol a arferwyd er mwyn cynghan-ld, megys, "melltio mawl," a "mynyddau 'r nef," gellir doddi y dernyn aenorol yn ymyl Goronwy neu William Wyn, o ran nerth a thãn awen-ldol.

Wrth edrych dros "Gorff y Gaine" yn lled fanwl, ni synodd nemawr iim fwy arnom na chanfod gwallau yn ngwaith Dafydd Ddu! Os edrycha

y darlennydd yn graff gwel y gwallau canlynol:—"Dynu'r gwr dan y gweryd"—"Marwnad y Parch. Rhys Jones;" coll r. "A chael peth toreth o'r tir"—"Adgyfodiad Awen;" toreth yn lle toraeth. "Ar diroedd y wlad arall"—yr un; coll r. Y mae ganddo "gyrdeddwyr," yn lle "cyfrodeddwyr"—mewn englynion a wnaeth i anerch "Cymreigyddion Bangor." "Byd a'mhur boed imi"—yn "Myfyrdod y Bardd dan gystudd;" coll n: a "Ddoeth reol athrawiaeth"—yn englynion y "Parch. G. Evans," sef coll dd. "Drwy'r lliid a'r holl drallodion." Y mae amryw o wallau eraill wedi dianc drwy fai neu anwybodaeth y cysodydd neu y golygydd; megys, "Yn llys Ion llais llawenydd," yn lle "Yn llys Ion llais awenydd." "Snowdonia sydd enw dawnwych," yn lle "Snowdonia sy enw dawnwych." "Sydd ar fur yn sir Feirion," yn lle, "Sy ar fur yn sir Feirion."

Y mae englynion Dafydd Thomas yn brydferth ac yn gynnwysfawr ar y cyfan; nid oes dim modd darllen ei gyfansoddiadau arno ei hun heb deimlo, yn enwedig ei englynion wrth glywed yr adar yn canu, sef

"MYFYRDOD Y BARDD YN EI WELY WRTH GLYWED YR ADAR YN CANU."

"Mae'r adar cynar yn canu—felus

Wiw foliant i'r Iesu;  
Galwant, adeiniog wiwlu,  
Foreuddydd ar Ddafydd Ddu.

Dyma'r gân hoewlan yw hi,—gu lawen

A glywaf o'r llwyni;  
'Clyw ein llais, a'n adlais ni;—  
Y cysgadur cais godi.

Clyw ddatgan un rhan yn rhwydd—iaith gofus

O'th gyfiawn ddyledswydd;  
Dyro fawl rausawl swydd,  
Diweirglod i dy Arglwydd.'

Yn mangoed glasgoed y glyn,—pregethwr

Pur goeth yw'r aderyn;  
Fe gân glod, hynod yw hyn,  
Boreugerdd ar y brigyn.

Minau a'm trom awenydd—ffaeledig,

Ffol ydwyf o brydydd;  
Rhy sych yn fynych a fydd  
Fy enaid yn Eifionydd.

Erfyniaf ar Naf, yn fy nydd,—gu nerth

Ei gynnorthwy beunydd;  
I dreulio'n iawn, radlawn, rydd,  
Fy einioes yn Eifionydd.

Pan ddel oea, byroes i ben—o dynir

Danedd y genfigen;  
Caf orwedd dan lygredd len,  
Mor dawel a mrawd Owen.

Af i orwedd at feirwon—i gaerau

O gyraedd gelynyon;  
Tyf uwch priddlyd, fraenllyd fron  
Flodau gwiw lysiau gleision.

Ar ben yr ywen tr werdd—o gariad

Agorir hiraethgerdd;  
Yr adar, ar gynar gerdd,  
Dyagant fy mhriodaagerdd.

Daw 'n rhydd ddystawrwydd ystyriawl—i'r bod  
 Neu 'r abwydyn marwawl;  
 Pa ddaiar fud!—pw y ddyry fawl  
 Yn eigion bedd unigawl?  
 Fy enaid, O Dduw cyfiawnaf,—cymer  
 O'm camwedd aſanaf;  
 Wyt nawddfawr, wyt nerthfawr Naf,  
 I dy ddwylaw 'r dydd olaf."

Yn ei fyfyrdod o dan gystudd, dywed,—

"Aml groes i'm heinioes o hyd—trwy alar  
 Treuliais ran o'm bywyd;  
 Myfi'n ymboeni mewn byd,  
 Sy lwch mewn isel iechyd.  
 Gan oerfel yn ymgynyrfu,—ganaaf  
 Mae gwewyr i'm gwasgu;  
 Gwael iechyd, herwydd gwlychu,  
 Nos a dydd i Ddafydd Ddu.  
 I'm hoes mae chwerwloes uwch oerlawr—boenus  
 Maith benyd sy ddirfawr;  
 Methais mewn aml drom wythawr,  
 Huno yr un haner awr."

Er dangos ei fedr mewn bedd-argraff, gwasanaethed a ganlyn:—

AR FEDD T. EVANS, PREGETHWE, O'R WAUNFAW.

"Ar fŷr da egyr Duw Iago—y pyrth  
 Sef parthau tir ango';  
 Fe gyfyd, o gryd y gro,  
 Gorff ei was sy'n gorphwyso."

Y mae yn ngharolau Dafydd Thomas athrawiaeth ddysglaer a melus. Y mae y farddoniaeth yn bur ac yn naturiol; nid rhyfedd fod cymaint o alw am waith o'r fath oddiwrtho. Dodwn yn bresennol rai engraffau ger bron y darlennydd. Mewn carol ar y mesur "Hyfrydwch y Brenin Sior," fe ddywed,

"Rhyfedd degwch a hawddgarwch  
 Gras a heddwch Iesu hael,  
 Yn wyneb angau borth  
 Mae'n gymorth hawdd ei gael;  
 Tad goleuni wedi profi  
 Noethni—pob trueni trist,  
 Yn isel, isel ŵr  
 Yw ein Creadwr—Crist!  
 Dros bechod bu'n hoeliedig,  
 Guredig ar y groes;  
 Gan ofid mawr, rhwng nef a llawr  
 Terfynai werthfawr oes:  
 Pwys belau 'r byd, ar hyny o bryd  
 Yn adfyd drosom ni,  
 A wthiai 'r waew ffon  
 I'w fron ar Galfari;  
 O achos ein halogrwydd  
 A'n dwfn euogrwydd du,  
 Wrth'ddyoddef brad gelydol had  
 Heb wedd ei Dad y bu;  
 Dan galed gur yr hoelion dur,  
 Rhoes yn ei lafur lef;—  
 Fe siglodd daiar fawr,  
 Newidiodd gwawr y nef!"

## Arall ar yr un mesur—

“ Y rhai a gredant Dduw 'r gogoniant,  
 Ar Grist gorphwysant yn ddi ffael;  
 I bawb sy 'n perchen ffydd  
 Anfeidrol fydd y fael :  
 Mawr, anfeidrol, a rhyfeddol,  
 Ei dadol ofal didawl ef,  
 Ei roddion ddaeth i ran  
 Dyn anmhur dan y nef :  
 Gorphenwyd agor ffynnon  
 Is dwyfron Iesu doeth,  
 Mae 'n ffrwd ddi drai i buro bai  
 Eneidiau rhai sy 'n noeth ;  
 Gwir Had y Wraig a sigai 'r ddraig,  
 Ar graig mae syfaisn gras ;  
 Gorchfygodd angau cryf  
 A'i farwol gleddyf glas.  
 Mae 'r Iesu mawr bendigaid  
 Am gynnal enaid gwan ;  
 Un dawn nid oes ond gwaed y groes  
 I'n dwyn o'r loes i'r lan ;  
 Trugaredd Iôr sy fel y môr  
 A'i drysor yn ddi drai,  
 Er cymaint<sup>1</sup> aeth i'r Ne',  
 Nid ydyw 'r lle ddim llai.”

## Wele anghraifft ar fesur arall :—

“ Rhyfeddol weithredoedd trugaredd,  
 Sef, prif briodoedd ein Duw ;  
 Trugaredd a garodd dros fesur  
 Bechadur llwyr anmhur ei ryw ;  
 Trugaredd o'i blaid sydd yn eiriol,  
 Trugaredd anfeidrol sy 'n fwyn ;  
 Pan lefo fe 'ngolwg ei waeledd  
 Fe wrendy trugaredd ei gwyn.  
 Mae achos o syndod annhraethol  
 Yn nghariad arfaethol Nef wen ;  
 Doethineb a gallu tragwyddol  
 A ddaeth â'r gwaith bywiol i ben :  
 Trugaredd i'r eiddil bechadur  
 Bydd gysur yn wyneb ei gas ;  
 Gogoniant tragwyddol i'r Iesu  
 Am drefnu cyfamod o raa.”

## Dodwn anghraifft eto ar fesur arall :—

“ Rhyfeddod ar ryfeddod yw  
 Gwel'd Duw yn ddyn a dyn yn Dduw ;  
 Gwel'd Iesu 'n marw yn ein lle,  
 Tragwyddol foliant iddo fe,  
 Iachawdwr gwych pechadur gwael,  
 Nid oedd ond gofid iddo i'w gael,  
 Er rhanu 'n hael ei ddiwael ddawn :  
 Rhoi'r caeth yn rhydd yn ufydd wnaeth,  
 I'r lan o'r dyfnedd daeth,  
 Er llid gelyniaeth llawn.  
 Ystyriwch oil—tosturi a chur  
 Fu 'n pwyso ar ein Iesu pur,  
 Dan hoelion dur a dolur dwys,  
 Mab rhad wrth dalu iawn i'w Dad,  
 A brofodd lid a brad  
 Nes myn'd i'r ganad gwys.

<sup>1</sup> Buasai cynnifer yn well na cymaint am llaws.

Yr Iesu hael o'i ras a'i hedd  
 Sydd wedi perarogli 'r bedd.  
 Llychwino ei wiag mewn gwaed a wnaeth,  
 Dan bwysau 'r dydd o Bozrah daeth :  
 Mae wedi dod o Edom dir,  
 Yn llawn prydferthwch harddwch hir,  
 Yn wir fe'i mollir am ei waith ;  
 Ei wedd, dawn hyfryd sy'n dwyn hedd ;  
 Gan buro ofn y bedd,  
 Cyn diwedd marwol daith :  
 Mae cariad rhad fel môr di drai  
 • O gylch y byd yn golchi bai,  
 Nid yw ei rinwedd ronyn llai ;  
 I'r lan daw pob credadyn gwan,  
 O ! rhyfedd fyth fod rhan  
 Yn Nghrist i'r egwan rai."

Yr oedd Dafydd Thomas yn fedrus yn mhob math o farddoniaeth. Y mae llawer o feirdd, o ddiffyg arferiad, y mae yn debygol, yn bur gyffredin pan ddisgynant oddiwrth awdl, neu gywydd, neu englyn, at bennill o emyn ; ond nid felly ein hawdur. Y mae efe yn ymddangos yn hollol rydd gyda phob math o ganiadau. Nid ydyw fel pe byddai oddicartref mewn dim. Gall ddisgyn oddiwrth yr awdl gadeiriog at bennillion yn cynnwys addysg i blant. Y mae yn gof genym gael dyddordeb mawr oddiwrth bennillion o'i waith, a ymddangosasant yn "Sillydd" Mr. Charles, er ys tros ddeu-gain mlynedd yn ol. Nid anghofiwn byth yr argraff a wnaed ar ein meddwl ddyddiau ein maboed gan y pennillion canlynol:—

" Pa nifer sydd o dan y ser  
 A blinder i'w hamgylchu ?  
 Heb fwyd na dlod ar eu taith  
 Na gwely chwaith i gyagu !  
 Ond wrthyf fi mae Duw yn hael  
 O'i law rwy'n cael trugaredd ;  
 Cael bwyd a dillad yn eu pryd  
 A gwely clyd i orwedd.  
 Mae rhai yn tyngu a rhegu 'n rhydd,  
 Ar hyd heolydd Cymru ;  
 Addysger fi tra byddwyf byw  
 I ofni Duw a'i garu.  
 Ac er nad wyf ond plentyn gwan  
 Dymunwn ran o rinwedd,  
 I garu Llywydd nef a llawr  
 A seinio 'i fawr glodforedd.  
 Nid allaf adrodd unrhyw dro  
 Na phrofais o'i ddaioni ;  
 Ond nid fy haeddiant ydoedd hyn,  
 Ond bod mewn llyn yn poeni.  
 Penodwyd cyn llewyrchiad gwawr,  
 O ryfedd fawr ddaioni,  
 Dros feiau mawrion rif y dail  
 I Adda 'r ail eirioli."

Y mae yr holl "Ganiadau Duwiol, ar ystyr rhai Isaac Watts, D.D." o fansoddiad Dafydd Ddu, yn deilwng o fod yn llaw pob plentyn. Pa th mwy priodol i'w dysgu i blant na'r pennillion "Yn erbyn Creulondeb Anfocsoldeb;" y rhai a ddechreuant fel hyn :—

" Na foed ! neb yn ddiriaid  
 Gystuddio anifeiliaid ;  
 Sef, rhai wrth reol anian gro'  
 A wnaeth y Ne 'n ddiniwaid.  
 Y pryfyn sal ei sylwedd,  
 A sethrir heb drugaredd,  
 A deimla 'r loes mor flin ar lawr  
 A phe b'ai gawr yn gorwedd.  
 Dim arfer llwon atgas,  
 Neu daeru 'n groes a diras,  
 Arferu 'n dirion ar y daith  
 Feunyddiol waith fo 'n addas."

Pwy a all anghofio ei " Ganiadau moesol a difyr ;" ac yn eu plith yr  
 " Angel Gwarcheidwadol," a " Fy anwyl Fam fy hunan ?"—

" FY ANWYL FAM FY HUNAN."

" Pwy a'm hymddygodd, yn ddi lys,  
 O dan ei gwregys mwynlan ?  
 Pwy roes im' faeth a lluniaeth llon,  
 O laeth ei bron bêr anian !  
 A phwy a'm cadwai rhag pob cam ?  
 Fy anwyl Fam fy hunan.  
 Pwy im' a stal, uwch fy nghryd,  
 Pan oeddwn wanlyd faban ?  
 A phwy fu 'n effro lawer gwaith,  
 Drwy 'r hirnos faith annyddan :  
 Pwy a'm gwarchodai rhag pob cam ?  
 Fy anwyl Fam fy hunan.  
 Pwy a'm dilladai er fy llwydd,  
 Bryd diniweidrwydd oedran !  
 Rhag i mi fawr beryglu f' oes,  
 Ysigo einioes egwan ?  
 A phwy a'm noddai rhag drwg nam ?  
 Fy anwyl Fam fy hunan.  
 Er blino 'm mam garuaidd lawn,  
 A digio—na chawn degan,  
 Hi 'n fynych, wedi im' syrthio yn groes,  
 Iachies fy loes a chusan :  
 Pwy ni chwenychai i mi gam ?  
 Fy anwyl Fam fy hunan.  
 A phwy a'm gwyliai ddydd a nos  
 Rhag syrthio dres y geulan ?  
 Neu gwympo ar yr aelwyd boeth,  
 Mewn cyfiwr noeth a thrwstan :  
 Pwy a'm golygai rhag drwg lam ?  
 Fy anwyl Fam fy hunan.  
 Pwy, ond fy mam, dirionaf merch,  
 O eithaf traserch gwiwlan,  
 A wylai drosaf waelaf drych,  
 Pan oeddwn wrthdrys truan ?  
 A pheth ond llaw Rhagluniaeth lon  
 A ddaliai hon ei hunan ?  
 Pwy a'm cynghorai, bob rhyw bryd  
 Rhag arwain bywyd arian ?  
 Ond parchu enw Duw drwy ffydd,  
 A chadw ei ddydd sancteiddlan,  
 Heb wneuthur unrhyw dwyll na cham ?  
 Fy anwyl Fam fy hunan.

Er mwyn i'm hawddgar fam, heb groes,  
 Ddiweddu oes yn ddyddan,  
 Wrth iddi blygu bob yn bwyth  
 Dan ddirfawr lwyth o oedran ;  
 Rhag suddo i'r bedd dan ofal bwn,  
 Cymeraf hwn fy hunan.

Pan fyddo angau llym ger llaw,  
 Ei phen â'm dwylaw daliaf ;  
 A thrwyddi gras yn fendith gref,  
 Fy lôn o'r nef erfyniaf !  
 A'm serch yn rhaffau heilltion rhed,  
 Wrth dalu 'r ddyled olaf.

Oblegid credu 'r wyf fod Duw  
 A wel, a glyw y cyfan ;  
 Ei lid o entrych wybren fawr  
 Melltenai i lawr drwy f' anian.  
 Pe meiddiwn oddef cynnyg cam  
 I'm hanwyl Fam fy hunan."

Gellid cyhoeddi casgliad o hymnau Dafydd Thomas, i'w canu mewn cynulleidfa. Y mae amryw o honynt yn cael eu harfer eisoes. Y mae yn debyg na anghofir yr emyn felus a ganlyn, tra byddo cristion Cymreig i'w gael yn nhaith yr anialwch :—

"MYFYRDOD Y BARDD PAN YN GLAF."

"Er cael mewn rhan wybodaeth ber  
 Am gylch yr haul a llwybrau 'r ser,  
 Ni wn i fawr am fyd sydd well  
 Tu hwnt i gaerau rhai 'n yn mhell.  
 Mae meddwl am y nefol fro  
 I mi 'n hyfrydwch lawer tro ;  
 O na b'ai 'r mynyd o fwynhad  
 Yn oesoedd mewn tragwyddol wlad !

'Rwyf am gael profi dan fy mron  
 Dystiolaeth o fy hawl yn hon ;  
 Cael profi 'r gwynfyd pur di lyth,  
 Digonedd heb ddigoni byth !

Rhifedi 'r gwllith, neu ser y nen,  
 Rhif gwellt y maes, rhif gwallt fy mhen,  
 Pe lluosogid oll yn nghyd  
 Ynt ddim at oesoedd bythol fyd !

Nid yw y rhai 'n mo 'r mynyd awr  
 Wrth oesoedd tragwyddoldeb mawr ;  
 O fewn i'r diderfynol dir  
 Bydd cartref f' enaid cyn bo hir."

Y mae rhagoroldeb ei emynau y fath fel y mae yn anhawdd gwybod pa rai i'w dethol i'w gosod ger bron y darlennydd.

Y mae difyrwrch mawr i'w gael yn ei ganiadau. Y maent agos bob un — cyfateb i'r oes hon. Nid allwn lai nag amlygu fod yn ddrwg genym eled "Awen rydd Dafydd fardd du," yn cael ei throï i ganu clod *iddoer dynion*, yn y gân "Ar y fuddugoliaeth ar fyddinoedd y Ffrancod r Ysopaeniaid ; a marwolaeth y pen-llyngeswr digymhar Nelson ;" ond sham y cwynwn o herwydd i Ddafydd Ddu wneyd hyny ? Onid oedd y 'd oll, y pryd hyny, yn tybio mai gwasanaeth i Dduw oedd i ddynion id eu gilydd ? Onid oedd gweddïau taerion yn cael eu hoffrwm yn Sab-  
 tholac yn wythnosol, drwy y deyrnas oll, yn mhob eglwys a phob capel,

am gymhorth i'n byddinoedd i dori gyddfau y Ffrancod a'r Ysperiaid?  
A pha ryfedd i'n bardd gyflwyno ffrwyth ei awen wrth droed yr un allor,  
a gwaeddi allan yn groch—

“ Bu Nelson ddewr ryfelwr bentrechwr lawer tro;  
Enillodd fawredd dibrin i frenin Brydain fro;  
Wrth gofio 'i waith yn gwyro rhai fyddai 'n rhwystro 'r hedd,  
Cynyddai cwynion canoedd yn filoedd wrth ei fedd.

Drylliedig gyrff y meirwon, gwyr ÷on o bob gradd,  
Sydd agos yn aneiri', rhwng boddi, lloegi, a lladd;  
Diffygiodd nerth y gelyn y dydd i'w erbyn aeth;  
Gorchfygodd Lloegr dirion, ond Nelson—trefnu wnaeth.”

Dyna ddigon, medd pob un sydd yn caru i'r cleddyfau gael eu troi yn  
sychau a'r gwaewffyn yn bladuriau, ac am i ddyinion beidio a dysgu rhyfel  
mwyach.

Rhywbeth fel dygwyddiad oedd i Ddafydd Ddu droi ei awen y ffordd  
yma; oblegid yr oedd efe yn un o'r rhai mwyaf gofalus yn ei oes am  
beidio cyfansoddi dim ar yr *erchyll*. Yr oedd ef yn fardd moesgar dros  
ben, fel yr awgrymwyd eisoes: y mae gwythien o foesgarwch a difrifoldeb  
i'w gweled yn rhedeg hyd yn nod drwy ei anerchiadau i'r rhywogaeth  
hawddgar, braidd yn ddiethriad, yr hyn oedd yn wahanol iawn i'r can-  
iadau a gyhoeddidd yn ei oes ef ar destunau o'r fath. Ni wyddom am  
nemawr farddoniaeth a allid ei doddi yn nwyllaw pawb yn gystal a'i fardd-  
oniaeth ef.

---

## CYSONDEB YR YSGRYTHYRAU A DARGANFYDD- IADAU DIWEDDAR GWYDDIANT.

O HERWYDD yr anghysonderau ymddangosiadol a ganfyddid rhwng yr  
Ysgrythyrau Sanctaidd a rhai o ddarganfyddiadau diweddar gwyddiant  
(*science*), dadleuai athronwyr anfydddaidd yn erbyn gwiredd y dadguddiad  
dwyfol. Cymerasant yn ganiataol mai gwyddiant a ddylasai fod yn safon  
prawf, a barnasant Air Duw wrth y cyfryw safon; a chan na chanfyddent  
y cysondeb cywraïn hwnw ag a farnent hwy a ddylasai fod rhyngddynt,  
penderfynasant mai y Bibl oedd i syrthio, a'u hathrawiaeth hwy i sefyll.  
Canfyddodd y cristion hyn, ac ymofidiodd yn ei ysbryd, am fod gair ei  
Dduw yn cael ei gymeryd yn sathrfa; canys yr oedd efe yn sicr, gan nad  
beth a ddarganfyddid mewn gwyddiant—gan nad beth a wyddid am gys-  
odau amrywiog ac ardderchog y nefoedd uchod—gan nad beth a geid allan  
am gyfansoddiad y ddaear isod—a chan nad pa mor liosog oedd y deddfau  
bodolaeth, cyffuniol ac anghyffuniol, a ddeuent i eglurder yn barhaus, ac  
a ddeallid gyda hyrwydd-der mwy yn feunyddiol;—yr oedd efe yn sicr,  
meddwn, fod “yr holl Ysgrythyr wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw;”  
fod “cadarn sail Duw” i sefyll yn ddiysgog pan y byddai y creigiau oesol  
yn chwilfriwio; ac er y gallai y daearegwr â'i drosol ddryllio a chwalu  
creigiau y greadigaeth, a'r seryddwr â'i syllddrych ganfod brychau ar



wyneb haul natur, eto nas gallai y blaenaf syfydd y tipyn lleiaf ar "Graig yr oesoedd," na'r olaf lwyddo i ganfod y brycheuyn lleiaf ar wyneb dysglair "Haul Cyflawnder" am dragywyddoldeb: ac, o ganlyniad, daeth y crïstion i'r penderfyniad mai gwyddiant oedd yn gyfeiliornus. Felly, gwadai yr athronydd y Bibl, am na chydweddaï, yn ol ei dyb ef, âg athroniaeth; ac arswydai y crïstion rhag darganfyddiadau gwyddiant, am na chydweddent, yn ol ei dyb yntau, â'i Fibl.

Y cyfryw oedd, ac yw, i raddau, y ffaith gyffredinol am ymddygiadau y ddau ddoesbarth a nodwyd, at eu gilydd. Eithr ni ddylai y pethau hyn fod felly. Dylesid ystyried, o'r naill du, mai llais Duw yn natur yw gwyddiant, ac o'r tu arall, mai ei eiriau a'i ddeddfau mwy digyfrwng yw y Bibl; ac os ceir un iota yn y naill yn croesi y llall, y profa hyny anghysondeb yn yr Awdur dwyfol. Dysga ein synwyrâu ni mai anmhosibl yw i ddau wirionedd fod yn anghyson â'u gilydd. Mae yn wir fod y cyfryw bethau a gwirioneddau gwrthgyferbyniol, y rhai nas gall y meddwl mwyaf cawraidd weled eu cydweddiad a'u cysondeb; ond nid teg cymeryd eiddilwch meddwl i brofi egwyddorion wrtho. Ffydd, meddai un, yw dechreuad gwybodaeth; gellid ychwanegu, mai ffydd yw ei diwedd a'i pherffeithiad hefyd. "Trwy ffydd" y mae y doethawr dysgedig wedi cyrhaedd i ben bryn gwyddiant, yn ogystal a'r hwn sy'n eistedd wrth ei draed i dderbyn ei addysg, ac i'r hwn y mae ei eiriau yn ddeddfau. Gan hyny, y mae a fynd darganfyddiadau gwyddoniaeth â'r Bibl. Os ymddangosant fel yn ei groesi, dyledswydd y duwiolfrydig a'r anghredadyn yw ymchwilio yn ddyfal i'r pwnc, ac arfer ffydd ac amynedd hyd oni throir pob cared ac y trychwilir pob ffaith i'w gwreiddyn a'i chysylltiadau. Ond cofier eilwaith, er mai buddiol a dyddorol yw caffael athroniaeth i gyd-dystio â'r Bibl, na ddylid ystyried yr Ysgrythyrau yn ddarostyngedig i gael eu gwrthbrofi gan athroniaeth; canys y mae y profion sicraf o'u dwyfoldeb yn seiliedig ar dir arall, cadarn a safadwy. Mae y Bibl wedi myned trwy brofiad tanllyd yn mhob oes, ond wedi dyfod allan o'r oll "fel aur wedi ei buro trwy dân." Mae hynafiaeth y llyfr hwn, a'i gadernid yn ngwyneb yr holl ymosodiadau a wnaed arno, yn rhyglyddu iddo y sylw penaf ar bob pwnc y llefara arno. O'r ochr arall, nid oes dim yn amlycach nag mai yn raddol, raddol, y dygir gwyddoniaeth i berffeithrwydd, os, yn wir, ei dygir byth yn y byd yma. Gan mai "o ran y gwyddom" ymron bob peth yn y fuchedd bresennol, yn ogystal yn wyddorol a chrefyddol, onid annhegwch â'r pwnc, ac angharedigrwydd mawr tuag at y Bibl, yw chwilio am ryw-beth oddiar faes gwyddiant i'w ddwyn ymlaen fel gwrthebiad o'i ddwyfoldeb? Felly y gwneir yn fynych; ammheuir y Bibl cyn bod y wyddor prin wedi ei darganfod, ac ymhell cyn sicrhau a oedd yn wir neu beidio. Llauer gwaith y ceisiwyd gwrthbrofi hysbysiadau y Bibl yn mherthynas i darddiad dynolryw o'r un cyff cynhenid, oddiwrth wahanol liwiau a chyfansoddiadau plant dynion; ond erbyn i ymchwiliadau priodol gael eu gwneyd i'r pwnc, fe'n dysgir gan genedlwydd (*ethnology*), yn gydunol â'r Ysgrythyr, fod dynolryw oll wedi tarddu o'r un cyff gwreiddiol, ac y gellir ateb am y gwahaniaeth dan sylw drwy gyfeirio at yr hinsawdd a drigant, yr ymborth a fwynt, &c., fel, erbyn hyn, y mae y wyddon hon yn cadarnhau yr Ysgrythyr, yn hytrach na'i gwrthbrofi. Yn gyfelyb hefyd y mae gyda gwyddiannau eraill, nes y mae erbyn heddyw hyd yn nod amryw o wrthreysymau Voltaire, ac eraill, i'r Bibl, yn cael eu dirymu gan oleuni gwyddiant.

Ond fe ddichon y dylal crefyddwyr symud eu tir. Mae gormod o duedd mewn llawer i edrych ar gyfundraethau duwinyddol fel pethau anffaeledig, ac i ystyried tybiau dynion penodol yn rheol crediniaeth. Nid yw ein golygiadau mewn duwinyddiaeth, mwy nag mewn daeareg a seryddiaeth, ond lled amherffaith eto; ac fel y cyfryw, gallem ddysgu rhywbeth oddi-wrth bob gwelliant mewn athroniaeth yn gyffredinol. "Gelynydion gwaethaf y gwirionedd yw y rhai a ymosodant yn erbyn y cyfnewidiadau hyn. Hwy a ymgeisiant at amhosiblwrwydd. Rhaid i ddynion fod ar i fyny ac ymlaen am byth; ac os attelir hwy mewn cyrhaedd golygiadau ac amlygiadau newydd ac ïangach o wirionedd, cyrhaeddant amgyffredion ac amlygiadau newydd a niweidiol o anwiredd, y rhai a fyddant yn fwy niweidiol o herwydd eu camgymeryd am wirionedd."<sup>1</sup> Na fydded Cymru, ynte, yn euog o attal y gwirionedd mewn anghyflawnder. Crefyddwyr a ddylent fod ymlaen gyda phob gwybodaeth, am mai "Duw gwybodaeth" yw eu Duw; ac hyd oni chyflawnir hyna yn lled gyffredinol, ofer dysgwyl gweled byd amddifad o anffyddwyr.

Y wyddiant y bwriedir sylwi arni yn bresennol yn ei chysylltiad â'r Ysgrythyrau Sanctaidd—ac yn y cysylltiad hwn yn unig—yw Daeareg (*Geology*), yr hon sydd, yn ei pherthynas â'r Bibl, y fwyaf pwysig, o bosibl, o'r holl wyddiannau.

Dygyddda fod anghydgordiad ymddangosiadol rhwng Daeareg a'r Ysgrythyr ar ddyw athrawiaeth bwysig, sef *creadigaeth y byd*, a'i *foddiad gan ddyfroedd y diluno*. Iaith y Bibl am y cread yw, "Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear" (*Gen.* i. 1). "Mewn chwe' diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd y nefoedd a'r ddaear, y môr a'r hyn oll sydd ynddynt" (*Exod.* xx. 11). Ond os trown at y wyddiant dan sylw, cawn mai nid chwe' diwrnod—hyny yw, diwrnodau yn cael eu cyfansoddi o bedair awr ar hugain—a aethant heibio o amser cread y sylwedd cyntaf yn *Gen.* i. 1, hyd creadigaeth dyn yn *Gen.* 1. 27; yn hytrach, fod oesoedd annifeiriol, ymron, wedi eu treulio gan y Crëwr holldoeth i gyflawni y campwaith ardderchog o gyflunio y ddaearen yn drigfa priodol i ddyn. Cymer y daearegwr ni at ei brofion o hyn, y rhai a ymorweddant yn nghrystyn y ddaear. Dengys fod islaw y gweryd arwynebol wahanol fathau o greigiau am oddeutu deng milltir o ddyfnder; a dosrana hwy i ddaur brif ddoesbarth—*haenenol* ac *anhaenenol*. Y blaenaf a ffurfiwyd drwy weithrediad dwfr, a'r olaf drwy weithrediad tân. Wrth chwilio y dosbarth haenenol, ar ol ymdreiddio drwy yr arwyneb, deawn at y gyfres creigiau a elwir yn gyfres *trydeddol*. Dyry yr athronydd ar ddeall i ni ein bod, y foment yr ymsangwn ar haen uchaf y gyfres hon, â'n traed ar "Iwch byd ymadawedig—byd nad oes olion dynoliaeth o'i fewn."<sup>2</sup> Yma y cawn ffurfiadau ar

<sup>1</sup> "Eclectic Review," am Ionawr, 1851: tudal. 8.

<sup>2</sup> Dadleua Dr. Hitchcock, o'r America, gan nad oes olion dynoliaeth yn y creigiau trydeddol; eu bod, er hyny, yn dryfrith o weddillion creaduriaid eraill: a chan nad ydyw eogyrn dynol yn fwy tueddol i ddadfeilio na'r eiddo y creaduriaid hyny—y rhaid na *fodolai dyn ar y ddaear yn y cyfamser*, sef, pan ffurfiwyd y creigiau. (*The "Connexion between Geology and the Mosaic account of the Creation."* tudal. 14). Eithr gwrthwynebir y dyb yma gan Dr. Stuart, o'r America; ac efe a esyd ger bron amryw ffeithiau dyddorol am gaffaeliad eogyrn dynol, yn gystal a gweddillion creaduriaid eraill, yn y creigiau eilyddol, pa ral, yn ol damcaniaethau daearegwydd, sydd yn hynach fyth na'r gyfres drydeddol; a chasglia, gan hyny, y *bodolai dyn* yn amser ffurfiad y dosbarth yma o greigiau; ac o ganlyniad, fod holl adeilad daearegwydd yn owympo i'r llawr. (*"Philological View of the Modern Doctrines of Geology."* tudal. 65). Mewn atebiad i'r wrthddadl yna, sylwya Dr. Hitchcock mewn adar-

ffurfiadau, a haenau ar haenau, o glai, tywod, a chalch—pob un dros fil o droedfeddi o drwch. Disgyner yn is, a denir y sylw gan ryfeddodau ardderchocach fyth. Gwelir fod cyfandiroedd mawrion wedi eu ffurfio unwaith yn monwes y weilgi; wedi eu dyrchafu oddiyno, o bosibl, gan nerth daeargryn; wedi bod yn gyfandiroedd am dymmor, ond o'r diwedd wedi eu dymchwel yn ol i'r weilgi drachefn. Canfyddir gweddillion rhai o'r creaduriaid a fodolant yn bresennol ar ein daear: ond cawn ein bod yn ymgilio o'u tiriogaeth gyda phob cam a roddwn i waered; canys y mae y gweddillion hyn yn lleihau yn raddol, a'u lle yn cael ei gyflenwi gan greaduriaid dyeithrach, fel nad oes yn ffurfiad isaf y dosbarth hwn ond ychydig iawn o olion creaduriaid adnabyddus i ni yn bresennol. Yn gyffelyb y mae hefyd oes treiddir i lawr i'r dosbarth eilyddol a throxyddol. Yn y naill haen, ceir gweddillion anifeiliaid a ofynent nwyfre wresog i anadlu ynddi; yn y nesaf, ceir rhywiau a ofynent nwyfre oer i fyw ynddi. Tryfrithir un ffurfiad gan greaduriaid y dwfr, a'r llall gan greaduriaid y tir. Yn y naill, fe'n dychrynrir gan ysgerbydau cawrflod, na fodola eu cyffelyb yn awr; ond yn y llall, fe'n synir gan gyfansoddiad sylm trychflod bychain. Ac felly ymlaen, po pellaf yr ymdeithiwn i waered, cyfiwynir i'n sylw olygfeydd newydd a dyeithrach, gyda phob cam, hyd oni chyrrhaeddwn y dosbarth cyntefig neu anhaenenol o greigiau, lle nad oes nid yn unig unrhyw weddillion o'r âlau creaduriaid a breswylant y ddaear yn bresennol, nac o'r coedydd a lanwant y coedwigoedd, a'r llysiâu a delediant natur yn awr; ond lle hefyd nad oes olion un math o fywyd anifeilig na llysiâuol, i.e., "lle nad oes *elfenau* bywyd ynddo."

Yn awr, pe dychymygem ein bod wedi cymeryd ein safle ddeng milltir dan y ddaear, ar waelod creigiau anhaenenol y greadigaeth, "a yw yn bosibl i ni (i arfer geiriau Dr. Harris) edrych yn ol ac i fyny o'n sefyllfa ddychymygol i uchder y deng milltir—yn tybio fod yr haenau yn cael eu toi yn rheolaidd—o ba un y disgy nasom, heb deimlo ein bod wedi cyrrhaedd lle o bellder anfesuradwy mewn hynafiaeth daearol? A allwn ni feddwl am weryd teneu ychydig filoedd flyneddau dyn, mewn cyferbyniad i'r olyniaid o fydoedd yr aethom drwyddynt; am ffurfiad araf pob un o'r bydoedd ar fydoedd hyn trwy ddadgyfuniad sylweddau hynach, a'u soddiad mewn dwfr; am deneuder deiliog cyfran fawr o'r haenau; am yr yspaid hirfaith o amser oedd yn ofynol i ffurfio ond ychydig droedfeddi unionsyth o'r holl filltiroedd hyn; neu am y cyfnodau meithion o ddyrchasaad ac israddiad cychlynol, gweithrediad a llynyddwch, ag sy'n nodi eu ffurfiad;—heb gdnabod fod dyddiau a blyneddau daearog yn oesau a chylchrau o oesau! Dychymygnw, os gallwn, fod gronynau un o'r haenau hyn wedi ffurfio tywod awr-wydr, a bod pob gronyn yn cyfrif mynydyn, ac yna gallwn wneyd rhyw ddynesiad at gyfnodau mynedol Daearog—cyfnodau, yn nghyfrif pa rai ni ffurfiar y freinlinach ddynol hwyaf, a hyd yn nod dyddiau y pigdyrau, ond y tipyn lleiaf. Neu—gan gofio nad oes ond dau neu dri o rywiau o greaduriaid, can bellad ag y gwyddom, wedi llwyr farw yn ystod

graffiad o'i draethodyn (*tudal*. 14), nad yw yr anghreiffitiau *Gaudaloupe* yn y cywreinfâu Seisonig a Ffrengig prin yn eithriad i'r hyn a ddywedodd. "Canys," medd efe, "er y ceir hwy mewn craig fyrff, craig yw ag sy'n cael ei ffurfio yn barhaus yn ngwaelod y moroedd Carribeaidd, ac y mae yn ddiagramheuol fod yr anghreiffitiau hyn (sef y rhai a ddygir ymlaen gan Dr. Stuart), o ddechreuad ol-ddiluwial." Felly hefyd sylwa Dr. Buckland, "nad oes un ffaith wedi ei sefydlu yn well na'r ffaith bwysig o absenoldeb pob olion o'r rhyw ddynol drwy holl gyfresi y ffurfiadau daearogol." (*"Bridgewater Treatise:" tudal*. 103.)

y triugain neu driugain a deg o ganrifoedd bodolaeth hanesiol dyn ar y ddaear—a allwn ni feddwl am y miloedd—nid o *anifeiliaid*—ond o *rynciau*, o *dlaw*, ag yr aethom heibio iddynt yn ein gyrfa i waered, y rhai sydd oll wedi rhedeg drwy eu hoesoedd o fodoliad, ac wedi peidio; am ddygwyddiad y cyfnewidiad hwn drosodd a throsodd yn yr un haen; ac am y cynnifer gwaith y rhaid i'r haenau hyn gael eu hadroddi mewn trefn i gyfar-talu yr holl gyfresau;—heb deimlo ein bod yn sefyll, mewn dychymyg, ar dir mor belled yn ol yn nos amser, nes gorlenwi y meddwl âg arswyd? 'Mor ofnadwy yw y lle hwn!' Yma, yn y fath bellder oesol anghyfrifadwy, mae yn debyg, oddiwrth gread cyntaf bywyd cyfluniol, ag ydyw hwnw oddiwrth y greadigaeth olaf—yma, teyrnasai dystawrwydd unwaith; yr unig swm ag a dorai yn achlysurol y dystawrwydd dirfawr hwn ydoedd taranau tan-ddaearol; yr unig weithrediad (heb ei deimlo, canys nid ydoedd neb i'w deimlo) ydoedd daeargryn; yr unig olygfa ydoedd fôr toddedig wedi ymsaethu i fyny o'r llynclyn tanlyd islaw, i ffurfio fframwaith rhyw gyfandir dyfodol. Ac eto, ymddengys y dystawrwydd hynafol hwn fel yn arddodi ei ddylanwad darostyngol, ac yn goddef yn ei wyddfod weithrediad dim ond meddwl. A'r meddwl hwnw, pa gyfeiriad mwy naturiol iddo gymeryd nag ymsoddi ymhellach fyth yn ol i gaddugfa dywell amser ymadawedig, hyd nes y cyrhaedda y cyntaf neu yr effeithiol Achos?"

Er mor arddunol yw desgrifiadau grymus yr ysgrifenydd medrus yna, ac er mor gydweiddol & chyfansoddiad y meddwl dynol yw cyrhaedd cywrain a dyeithr bethau, eto y mae un holiad bychan yn teilyngu ein sylw dwysaf—*Pa fodd y cydweidda y desgrifiad o'r dadguddiad dwyfol?* Hwn yna yw y prif bwnc ar hyn o bryd. Wrth ymgeisio at ateb y gofyniad, cymerir yn ganiataol fod y wyddon hon yn un wirioneddol yn ei phrif athrawiaethau, megys hynafiaeth y ddaear (ond nid ei hoedran), y diluw, &c. Nid amcenir dyweyd fod daeareg a'r Bibl yn cydgorodio, neu yn cyd-ddyweyd ar aml bwnc ddaw dan sylw: fe allai y byddai haeru hyny yn fwy nag a ellid ei brofi; eto, os gellir dangos nad oes dim yn y naill yn *gwrth-ddyweyd* y llall, odid na fydd hyny yn ddigon i gau safn pob anghredwr a fyn wadu y Bibl am na chydgorodia & daeareg, ac i foddloni y cristion gwan a fyn gollfarnu daeareg am na chydweidda, yn ol ei dyb ef, a'r Bibl. Y mae yr Ysbryd Glan yn y Bibl wedi dewis bod yn ddystaw ar liaws o bynciau a ystyrir yn bwysig gan ddynion; ond, cofier, lle bo Duw yn ddystaw, mai rhyfyg mewn dyn yw penderfynu pa beth yw ei feddwl.

Mae llawer ymgais wedi ei gwneyd er cysoni yr hanes Moesenaidd am greadigaeth y byd & darganfyddiadau daeareg; a llawer damcaniaeth, o ganlyniad, wedi ei ffurfio, a hyny yn fynych gan ddynion a feddent zel dros y gwirionedd, a chydwybod i Air Duw. Amcana rhai eu cysoni drwy ddyweyd mai dyben rhoddiad yr Ysgrythyrau oedd ein gwneuthur yn ddoeth i iachawdwriaeth, yn hytrach na'n hyfforddi mewn gwyddoniaeth nac amseriadaeth; a chan hyny, nad ydym i sylwi ar bethau na ddygant berthynas uniongyrchol â'n iachawdwriaeth, megys ffeithiau hanesiol ac amgylchiadol, fel wedi eu rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw; y dylid, yn hytrach, eu hystyried yn dybiau yr ysgrifenwyr, neu yr oes yn mha un yr

oeddent yn byw. Eraill a ddywedant fod y creigiau ffosylaidd wedi eu creu gan Dduw mewn moment o amser, yn hollol fel eu gwelir yn bresennol. Dosbarth arall a ddywed, fod ein daear yn cymeryd amser moithach i gyflawni ei chylchdro dyddiol y pryd hwnw nag yn awr—fod mil o flyneddau gyda'r Arglwydd megys un dydd, ac un dydd megys mil o flyneddau—ac felly, fod gwahanol ffurfiadau y creigiau cyfeiriedig wedi eu dwyn i fodolaeth yn y chwe' diwrnod mewn cyfeiriad yn *Gen. i.* Eraill a ddychymyngant fod Adda wedi trigo yn ngardd Eden am adeg hirfaith yn blaenorol i'w gwmp—sef cyfnod digonol i ddwyn oddiamgylch y ffurfiadau daearegol. Lliaws o ddyonion dysgedig a sylwiant nad yw y gwreiddair a gyfieithir *creu*, yn *Gen. i. 1*, yn anghenrheidiol gyfleu y drychfeddwl o ddygiad sylwedd i fodolaeth o ddyddim defnydd; eithr mai yr ystyr yw, adnewyddiad neu adffurfiad sylweddau blaenorol; ac felly, fod y creigiau a nodwyd wedi eu ffurfio cyn y chwe' diwrnod. Tybia dosbarth lluosog fod y creigiau hyn wedi eu ffurfio gan weithrediadau grymus y diluw. Mae rhai duwinyddion enwog yn meddwl fod y creigiau ffosylaidd wedi eu cyfansoddi yn yr un cant ar bymtheg o flyneddau a aethant heibio rhwng creadigaeth y byd a'r diluw; a'r creigiau anffosylaidd wedi eu creu mewn eiliad drwy allu Duw. Dewisa eraill farnu fod ein byd ni yn gyfansoddedig o adfeilion byd dystrywiedig, a bod y cloddion cyffuniol (*organic remains*) a dryfrithant y creigiau ffosylaidd wedi preswlyio y byd hwnw. A'r dosbarth olaf a nodwn a ddywed, nad yw yr hanesydd ysbrydoledig, yn *Gen. i.*, yn dynodi *amser* creadigaeth sylwedd cyntaf y bydysawd defnyddiol, ond ei fod yn unig yn cyflwyno i ni y ffaith mai Duw a'i gwnaeth; ac yna, gan neidio mewn dystawrwydd dros dymmor anadnabyddus, ei fod yn dechreu desgrifio, yn *Gen. i. 2*, waith yr Hollalluog yn trefnu yr oll o'r sylweddau hyn, ac yn creu creaduriaid amryfath i drigiannu y ddaear, yr hyn a wnaeth mewn chwe' diwrnod, ac a gymerodd le er's tua chwe' mil o flyneddau yn ol.<sup>1</sup> Yr olaf o'r tybiau hyn yw yr un a fabwysiadir yn bresennol i gysoni y wyddon a nodwyd yn ei damcaniaeth o greadigaeth y byd a'r hanes Moesenaidd. Ymddengys mai prif achos yr anghydgordiad yw deongliadau anghywir o *Gen. i. 1, 2*: pa beth, gan hyny, yw y deongliad cywir?

“*Yn y dechreuad.*” Er y bernir yn fynych mai dechreuad chwe' diwrnod y cread sydd mewn cyfeiriad yn yr adnod yma, eto nid oes sail digonol i dybio felly; canys y mae yn anmhosibl fod dim yn fwy annhenderfynol o ran amser, ac y mae y gair yn cael ei arferyd mewn ystyr annherfynol mewn manau eraill yn y Bibl, megys, er anghraifft, yn *Diar. viii. 22, 23*; “Yr Arglwydd a'm meddiannodd yn *dechreuad* ei ffordd, *cyn* ei weithrededd erioed. Er *tragnwyddoldeb* y'm heneiniwyd; er y *dechreuad*, cyn bod y byd.” Nid oes dim eglurach na bod y gair *dechreuad*, yn y ddyw adnod yna, yn golygu adeg amhenodedig, ac yn hollol gyfystyr a'r gair *tragnwyddoldeb*. “Wrth yr ymadrodd *dechreuad*, yn *Gen. i. 1* (medd

<sup>1</sup> Gan y tybir nad ydyw gwrthddadleu y naill na'r llall o'r golygiadau yna yn dwyn perthynas uniongyrchol & thestatun yr ysgrif hon, cyfeirir y neb a garai weled hyny i droi i “*Kitto's Journal of Sacred Literature*,” erthygl ar Genesis a Daeareg. “*The Connexion between Geology and the Mosaic History of Creation*,” gan Dr. Hitchcock, America. “*The Pre-Adamic Earth*,” gan Dr. Harris, nodyn B. A Dr. Stuart's “*Hebrew Chresomathy*,” a i “*Philological View of the Modern Doctrines of Geology*.” Rhwng y naill a'r llall o'r cyfrolau yna, cyfarfyddir & gwrthddadleuon nerthol i'r oll o'r tybiau rhagroddedig; eithr Dr. Stuart yn unig sy'n gwrthddadleu yr olaf, sef yr un a fabwysiedir yn y papyryn hwn; ac amcenir dwyn ei wrthddadleuon pwysicaf ymlaen yn eu lleoedd priodol.

Daederlein), golygir yr amser pan ddechreuodd rhywbeth fodoli. Ond *pa bryd* y cynnyrchodd Duw y gwaith rhyfeddol hwn, ni ddarnodir yn hollol gan Moses, naill ai am na fedd amgylchiadau amseryddol ein byd ond ychydig i wneyd gyda chrefydd, neu am fod ein moddau o gyfrif yn dros-glwyddedig gydag anhawsder neillduol i'r cylchoedd nefol."<sup>1</sup>

Yn gyfelyb hefyd y llefara Dr. Harris:—"Yn adnodau blaenaf efengyl Ioan (medd efe) darllenwn, 'Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyda Duw, a Duw oedd y Gair. \* \* \* Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth.' Y mae yn amlwg mai amcan yr ysgrifenydd yma yw sicrhau fod, cyn i unrhyw beth fodoli *ad extra*, y *Logos* yn bodoli; canys ei amcan yw profi fod pob peth wedi ei ddwyn i fodolaeth gan y *Logos*. Os ydyw yr Ysgrythyr, ynte, i'w deongli ei hun, rhaid i ni gasglu fod yr ymadrodd, '*Yn y dechreuad*,' fel ei defnyddir yn llyfr *Genesis*, yn ein dwyn yn ol i'r unrhyw gyfnod. Ac y mae y casgliad yma yn un anocheladwy, os sylwn fod yr efengyl, pan yr arfer yr ymadrodd hwn, yn fwrriadol ac am resymau eglur, yn efelychu yr hanes. Os nad yw yr arferiad 'Moesenaidd o'r ymadrodd, gan hyny, yn ein dwyn yn ol at gyfnod blaenorol i fodoliad sylwedd, nis gellir casglu yn deg fod ystyr apostolaidd yr ymadrodd yn gwneyd; ond fod y 'pob peth a wnaethpwyd trwyddo ef,' yn eithrio sylwedd—*h. y.*, na wnaed sylwedd ganddo Ef, ac nad oedd Efe yn bodoli o'i flaen.'" Ymddengys, gan hyny, fod yr ymadrodd dan sylw yn eang iawn ei ystyr mewn rhai amgylchiadau, ac yn debyg o fod yn cyfeirio, yn yr adnod gyntaf o *Genesis*, at gyfnod pellach yn ol na dechreuad y "ohwe' diwrnod."

"*Nefoedd a daear*," sydd Hebrëigiaith, yn dynodi yr holl fydysawd defnyddiol. Gweler *Gen.* xiv. 19, 22; 1 *Chron.* xxix. 11; *Salm* lxxxix. 11; *Esay* xlv. 24; *Mat.* xi. 25; *Col.* i. 16; yn mha fanau y ceir fod yr ymadroddion yn arferedig i ddynodi yr holl fydysawd. Darllener hefyd *Deut.* iv. 19; xvii. 3; *Salm* viii. 3; lle y cyfeirir at yr haul, y lloer, a'r ser, fel llun y nefoedd, a'i chyfansoddion.<sup>3</sup> "Os nad yw yr ymadroddion [*nefoedd a daear*] yn arwyddo mwy na'r bydysawd defnyddiol," medd Dr. Harris, "nis gallant fod yn dynodi llai. Y cyfryw hefyd yw deongliad yr awdur ysbrydoledig o'r ymadrodd yn *Salm* cii. 25; 'Yn y dechreuad y seiliaist y *ddaear*, a'r nefoedd ydynt waith dy ddwyllaw.'"<sup>4</sup> Dr. Stuart hefyd a sylwa fod yr ymadroddion "nefoedd" a "daear," yn yr adnod gyfeiriedig, yn Hebrëigiaith i ddynodi yr holl fydysawd. "Y mae hyn yn eglur (medd efe) oddiwrth yr *usus loquendi* cyffredin, ac yn neillduol felly oddiwrth y cyd-destunau yn *Gen.* i.<sup>5</sup> Hyderir fod hyn yna yn ddiagonol er dangos beth yw ystyr *nefoedd a daear* yn *Gen.* i. 1; ac y bydd, fel y ceisir dangos ymlaen, yn wasanaethol er cysoni yr Ysgrythyr â daear yw yn pwnc tra phwysfawr a dyddorol hwn.

"*A'r ddaear oedd afuniciadd a gwag.*" Pa beth yw gwir ystyr yr ymadroddion yna, sydd bwnc tra anhawdd ei benderfynu, am fod y beirniaid ysgrythyrol campusaf yn gwahaniaethu yn ddirfawr o barth iddo. Tybia Dr. Hitchcock fod yr un deddfau natur mewn gweithrediad y pryd hwnw

<sup>1</sup> "*Daederlinii Theologia*:" tudal. 447, dyfynedig gan Dr. Hitchcock: tudal. 80.

<sup>2</sup> "*Pre-Adamite Earth*:" tudal. 386.

<sup>3</sup> "*Kittó's Journal*," am Hydref: tudal. 267 a 288.

<sup>4</sup> "*Pre-Adamite Earth*:" tudal. 382, 383.

<sup>5</sup> "*Philological View of the Modern Doctrines of Geology*:" tudal. 20.

ag yn bresennol, ac mai yr unig wahaniaeth rhwng sefyllfa foreuol, neu dryblithol, ein byd â'i gyflwr presennol, oedd, fod y grym perthynasol yn ngweithrediadau gwahanol achosion wedi cyfnewid; neu fod rhyw achosion ag oeddynt gynt yn bur rymus yn awr yn weiniaid iawn, ac achosion ag oeddynt gynt yn weiniaid iawn yn bresennol yn rymus. A sylwa, mai y canlyniad oedd cyfnewidiad yn sefyllfa y belen, a newidiad cyferbyniol o fodau cyfluniol ar ei harwyneb.<sup>1</sup> Eithr tueddir y dysgedig Dr. Stuart i wrthwynebu y golygiad blaenorol, a seilia ei ddatl ar ystyr y gwreiddair a gyfeithir *gwag*. Ar ol beirniadu cryn lawer ar arferiad y gair yn y Bibl, â ymlaen i sylwi ar yr ymadroddion *afuniaiidd a gwag*, fel eu cysylltir yn *Gen. i. 2*;—"Os oes unrhyw eiriau yn yr iaith Hebraeg yn alluog i osod allan sefyllfa hollol ofer a gwag, amddifad o unrhyw gynnyrch, addurn, ffrwyth, adeiladau, trigolion, bodau cyfluniol, neu fywydol, &c., y geiriau hyn ydynt. Yr oedd yn anhosiibl i Moses ddesgrifio yn rymusach y sefyllfa dryblithol ac anghyfannedd a ddilynodd y greadigaeth wreiddiol, ac a ragflaenodd flurfiad ac adffurfiad y sylwedd elfenol mewn amrywiol ffyrdd, a chyflenwad y ddaear â bodau cyfluniol a bywydol."<sup>2</sup>

Fe welir fod Dr. Hitchcock yn golygu fod y greadigaeth y pryd hwnw yn llawn bywyd neu weithrediad, tra y dywed Dr. Stuart mai marwolaeth a diffwrthdra cyffredinol a deyrnasai dros yr oll o honi. Boed y naill neu y llall o'r golygiadau yna yn gywir, a ydyw yn anhosiibl fod ystad o drefn wedi rhagflaenu y tryblith? neu a ydyw hyn yn anhwybygol? ac a ydyw yr arferiad ysgrythyrol o'r ymadrodd yn ein rhwymo i greu fod y tryblith yn gyfoesol â'r byd? Nac ydyw, yn y gradd lleiaf; y mae yr arferiad o'r gair yn ein dysgu, yn hytrach, ei fod yn golygu peth wedi ei ddarostwng o drefn i anhrefn—wedi bod yn hardd a threfnus unwaith, ond wedi dyfod drachefn yn afuniaiidd ac anhrefnus. Tair gwaith yn unig yr arferir y gair yn y Bibl, a'r prydiau hyn yn gysylltiol â'r gair a gyfeithir *afuniaiidd* yn *Gen. i. 2*, i'r dyben, se allai, i nertholi yr ystyr, ac i arddangos grymusder yr hyn y cyfeirir ato. *Esay xxxiv. 11*; "Y pelican hefyd a'r draenog a'i meddianna," medd y prophwyd, am Idumea, "y dylluan a'r gigfran a drigant ynddi; ac efe [yr Arglwydd] a estyn arni linyr *anhrefn*, a meini *gwagedd*." Gwyddys yn dda fod Idumea cyn hyn wedi bod yn blodeuo fel y rhosyn, ac yn ffrwytho fel gardd yr Arglwydd, a bod ei phreswylwyr wedi bod yn aml a gwynfydedig; ac eto y mae y prophwyd yn arfer yr un geiriau yn hollol i ddynodi yr anhrefn a gymerai le ynddi hi, ag a arferir gan yr ysgrifenydd dwyfol yn *Gen. i. 2*, i osod allan sefyllfa dryblithol y byd yn flaenorol i waith y chwe' diwrnod. Yr anghraifft arall yw *Jer. iv. 23*, lle y rhagfynega y prophwyd y trallodion a oddiweddent y wlad drwy ruthriad dynesaol y Caldeaid, ac yr eheda ymlaen yn ei wel-edigaeth brophwydol at gyfnod yn y dyfodol pell, o ba le yr adolygai, megys oddiar ben bryn gweledigaeth, yr hyn oedd ar ddygwydd, yn y geiriau tarawiadol a grymus, "Mi a edrychais ar y ddaear, ac wele *afuniaiidd a gwag* oedd; ac ar y nefoedd, a goleuni nid oedd ganddynt." Barna un ysgrifenydd call<sup>3</sup> fod y darluniad bywiog a gynnwysa yr adnod yna yn fenthyciol o *Gen. i. 2*, a bod y prophwyd yn ei ddefnyddio yn yr amgylchiad

<sup>1</sup> Gwel "*Cabinet Library of Useful Knowledge*:" rhif. 2.

<sup>2</sup> "*Philological View*," &c.: tudal. 24.

<sup>3</sup> Gwel "*Kitto's Journal*," am Hydref, 1850: tudal. 275.

dan sylw i osod allan gyflwr anrheithiedig Palestina ar ol ei gorchfygiad a'i darostyngiad, gan y Babiloniaid, o'i chyflwr trefnus blaenorol.<sup>1</sup>

Ymddengys, ynte, nad ydyw yr ymadroddion *afuniaidd* a *gwag* o anghenrheidrwydd yn dynodi annhrefn heb erioed ei ragflaenu gan drefn, na gwagder heb erioed ei ragflaenu gan lawnder. A chan mai mewn tri lle yn unig y ceir y geiriau yn y Bibl, a'u bod mewn dau o'r tri lle yn eglur olygu annhrefn a gwagder yn dilyn trefnusrwydd a llawnder blaenorol, ac felly yn y trydydd amgylchiad hefyd, *Gen.* i. 2, o ran dim a wrthwyneba y cyfymadroddion ar hyny,—credir fod lle digonol i gaaglu fod mwy o debygolrwydd cywirdeb yn nhyb Dr. Hitchcock na'r eiddo Dr. Stuart.

"*A thywyllwch oedd ar wyneb y dyfneder.*" Gweler ymlaen, lle y ceisir dangos nad oes anghenrheidrwydd i ni olygu y tywyllwch hwn yn gyfoesol â'r byd, ond fod tebygolrwydd mai tywyllwch amserol ydoedd, wedi ei ragflaenu rywbryd gan oleuni.

Canfyddir fod yr ysgrifenydd yn y sylwadau rhagflaenol wedi amcanu dangos nad oes dim yn y Bibl yn dirymu y dyb fod y "*dechreuad*," yn *Gen.* i. 1, yn ymgyrhaedd yn ol i gyfnod anadnabyddus, ymhell cyn creadigaeth dyn a gwaith y chwe' diwrnod; ac mai tebygol yw fod y sefyllfa "*afuniaidd a gwag*" yr ydoedd y ddaear ynddi, yn ol yr ail adnod, wedi ei ragflaenu rywbryd gan drefn a llawnder. Canlyna, effely, fod yr hyn y cyfeiria y ddwy adnod ato wedi cymeryd lle, yn ol pob tebyg, oesoedd aneirif yn flaenorol i'r dydd cyntaf y sonir am dano yn *adn.* 2. Eithr cyfyd gwrthddadl lled bwysig yn y fan yma. Dywed Dr. Stuart fod y geiryn neu y cysylltair *vau* ag sy'n cysylltu y ddwy adnod, yn ymddangos "yn debyg iawn i ddynodiad fod yr hanes yn unig yn cael ei barhau, a bod yr oll yn berthynu i'r un a'r unrhyw gyfnod." Mae y pwnc i'w benderfynu ar pa un ai geiryn cysylltiol yn unig yw *vau*, neu ynte a oes iddo ystyrion gwahanol? Dywed Penn ei fod yn "cyflawni swyddogaeth yr holl gysyllteiriau, yn gyflysol a dadgysylltiol;—ei ystyr yn cael ei benderfynu, yn unig yn y gwahanol amgylchiadau neillduol, trwy berthynas y cyd-destun, ac arferiad a phriod-ddull yr iaith."<sup>2</sup> "Nid yw y geiryn yma (medd Dr. Harris) yn rheoli y frawddeg, ond y frawddeg yn ei reoli ef, ac yn penderfynu pa beth ydoedd yr ystyr a fwriedid iddo gan yr ysgrifenydd. A hyd yn nod yn y cyfieithiadau Seisnig a Chymreig, fe'i cyfieithir drwy gysyllteiriau eraill, megys *ond* neu *eithr*. Weithiau dechreua lyfrau cyfain; brydiau eraill, fel yn *Num.* xx. 1, ymgrafanga am gyfnod amseryddol hir-faith. Yn wir, fel geiryn cysylltiol cyffredin yr iaith Hebraeg, defnyddir ef yn gysylltiol, parhaol, eithriadol, a dadgysylltiol (*copulative, continuative, adversative, and disjunctive*), ac i ddybenion eraill, yr amcan neillduol yn cael ei benderfynu yn mhob amgylchiad drwy ystyriaeth o'r cyd-destun yn unig."<sup>3</sup>

Priodola Michaelis, yr hynaf, ddau ar bymtheg ar hugain o wahanol ystyrion, a Noldius, ddeg a thriugain, i'r geiryn hwn. Yn y nifer fwyaf o

<sup>1</sup> "*Stuart's View*," &c. : tudal. 23, 24.

<sup>2</sup> "*Philological View*," &c. : tudal. 21.

<sup>3</sup> "*Penn's Comparative Estimate of the Mineral and Metrical Geologies*:" cyf. i., tudal. 166.

<sup>4</sup> "*Genesis*," *sub. voce*. Cyfeiria y geiriadurwr at y geiryn yn *Gen.* i. 2, fel anghraiffit o'i allu parhaol yn unig : *A. y.*, fel yn cael ei ddefnyddio i'r dyben syml o gyflysu un rhan o'r pwnc â'r rhan arall a'i dilyna yn nhrefn bwriad yr ysgrifenydd, heb unrhyw gyfeiriad at barhad yr amser cyfryngol."



gyfieithiadau diweddar yr Hen Destament, cyfieithir ef yn *a'r*, neu *ac*, drwy yr holl bennod gyntaf o *Genesis*. Eithr dyry y Deg a Thriugain iddo, mewn rhai manau, yr ystyr a roddwn ni i *ond*. Felly hefyd Josephus. Eanga Rosenmüller ei ystyr yn fwy fyth; a thybia y gellir ei gyfieithu yn rhagferfol, ac y gellir golygu y tair adnod flaenaf o lyfr *Genesis* yn y naill neu y llall o'r ystyrion hyn:—"Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear. *Ar ol hyny* y ddaear oedd affuniaidd a gwag." Neu, "oedd affuniaidd, a thywyllwch oedd ar wyneb y dyfnder. *Ar ol hyny*, Ysbryd Duw," &c. Neu, "Ysbryd Duw a chwythodd ar wyneb y dyfroedd. *Ar ol hyny*, Duw a ddywedodd, Bydded goleuni."

Ceir anghreiffiau o'r geiryn hwn yn cael ei gyfieithu yn *eithriadol* yn *Gen.* xvii. 21; *Zeph.* i. 13; *Salm* xlv. 17; "*Eithr* fy nghyfiammod a gadarnhaf âg Isaac," mewn cyferbyniaeth i hwnw âg Ismael. "Adeiladant hefyd dai, *ond* nis preswylant; a phlanant winllanoedd, *ond* nid yfant o'u gwin." "Hyn a ddaeth arnom; *eto* ni'th anghofiasom di."

Modd bynag, dadleua Dr. Stuart yn gadarn yn erbyn yr eangiad yma o'i ystyr, a myn ei fod yn drosedd ar egwyddorion syml ac eglur gramadeg a geiryddiaeth Hebrëig. Addefa, yr un pryd, na wirioneddol niweidiai ystyr gyffredinol yr adnod pe'i cyfieithid fel y gwna Rosenmüller, am ei bod yn perthynu, wrth gwrs, i'r hyn a gymerodd le *ar ol* yr hyn y cyfeirir ato yn yr adnod gyntaf. Eithr ni foddona i neb wneyd yr ystyr yna o'r geiryn *a'r* yn nechreu yr ail adnod, am ei fod yn *eiry* *cyfylliol yn unig*.<sup>1</sup>

Anhawdd iawn yw cyrhaedd penderfyniad ar bwnc fel hwn, pan y bo Hebreigwyr mor ddysgedig yn anghytuno. Gwelir fod Gesenius (y prif eiriadurwr Hebrëig) yn gwahaniaethu oddiwrth Dr. Stuart, ac yn eangu yr ystyr yn ddirfawr. Ond, a chaniatäu mai deongliad y beirniad olaf yw y cywiraf, ni chanlyna, eilwaith, fod yr adnod yn rhwym o olygu fod ei hamgylchiadau hi wedi dilyn yn *amiongyrchol* yr hyn a gymerodd le yn *adm.* 1; canys dywed rhai esbonwyr fod gwagle neu gyfrwng wedi ei adael gan yr ysgrifenydd ysbrydoledig rhwng yr adnod gyntaf a'r ail o *Genesis*, a barnant ei fod wedi ei adael felly yn fwriadol, er dangos fod cyfnod o amser—nas gwyddis pa faint—wedi myned heibio rhwng yr amgylchiadau a hanesir yn y naill a'r llall. Os gwir hyn yna, tra hawdd yw cyfarfod â Stuart ar ei dir dewisol ei hun, sef tir beirniadaeth geiryddol. Ond y mae gohebydd dysgedig yn "*Kitto's Journal*," yn sylwi fel y canlyn:—"Yn awr, gan nad yw yr ymchwiliad yn mherthynas i'r pwnc hwn, o nifer mawr o ysgriflyfrau Hebreig y Pum Llyfr, yn ogystal a'r hynaf yn Lladin a Groeg, yn llyfrgell yr Amgueddfa Frytanaidd, yr Ambrosian yn Milan, y Laurentian yn Florence, a'r Vatican yn Rhufain, wedi fy nghyflwyno âg un anghraifft o wagle neu gyfrwng rhwng yr adnod gyntaf a'r ail o *Genesis*, yr wyf yn meddwl nad ellir dibynu ar y rhesymiad hwn. Cyfarfyddais âg un ysgriflyfr Hebrëig, yn mha un y gellid ammheu a fodolodd y cyfryw gyfrwng." Boed felly, ynte. A ydyw hyny yn brawf digonol nad aeth cyfnod hirfaith heibio rhwng yr hyn y sonir am dano yn y ddwy adnod? Nac ydyw, yn y gradd lleiaf; o herwydd cyfarfyddwn âg adnodau mewn rhanau eraill o'r Bibl, rhwng pa rai a'u gilydd y mae blyneddau lawer wedi myned heibio, ac *eto* nid oes un gwagle yn eu dilyn. Ceir anghreiffiau o hyn yn *Salm* civ; *Dan.* vi; *Act.* xxii. Wrth ddarllen y *Salm*, canfyddir fod y bummed

<sup>1</sup> "*Philological View of the Modern Doctrines of Geology*:" tudal. 21, 22.

<sup>2</sup> Am Hydref, 1850: tudal. 269.

adnod yn cyfeirio yn eglur at greadigaeth y byd,—“Yr hwn a seiliaist y ddaear ar ei sylfeini, fel na symudo byth yn dragywydd.” Ond darlener *ada.* 6, ac oddiyno hyd ddiwedd y *Salm*, a cheir fod yr ysgrifenydd yn cyfeirio ynddynt yn eglur at foddiaid yr hen fyd gan y dylif; eithr ni fodola un gwagle rhyngddynt. Efelly, dyna gyfnod o *un cant ar bymtheg* o flyneddau wedi cael myned heibio iddo mewn dystawrwydd. Yn gyffelyb hefyd y mae *Dan.* xi. 2, 3; “Wele tri brenin eto a safant o fewn Persia, a’r pedwerydd a fydd cyfoethocach na hwynt oll; ac fel yr ymgadarnhao efe yn ei gyfoeth, y cyfyd efe bawb yn erbyn teyrnas Groeg. A brenin arall a gyfyd, ac a lywodraetha & llywodraeth fawr, ac a wna fel y myno.” Y farn gyffredin yw, fod *ada.* 2 yn cyfeirio at Xerxes, a’r drydedd at Alecsander Fawr, eto nid oes un sylw, pa bynag, o unrhyw weithred o eiddo Xerxes yn flaenorol i’w ruthriad ar Groeg, nac am unrhyw un o chwech brenin Persia ag a gyfryngasant rhyngddo ef ac Alecsander; o ganlyniad, mae yma gyfnod o amser cyfartal i’r tymmor rhwng rhuthriad Xerxes a dyfodiad Alecsander i orsedd Persia, yn cynnwys oddeutu *cant a naw a deugain* o flwyddi, yn cael myned heibio iddo mewn dystawrwydd, rhwng yr ail a’r drydedd adnod, ac heb unrhyw hysbysiaeth yn cael ei roi o hyny.” Y gyfran arall y cyfeiriwyd ati yw *Act.* xxii. 16, 17; “Ac yr awr hon, beth yr wyt ti yn ei aros? cyfod, bedyddier di, a golch ymaith dy bechodau, gan alw ar enw yr Arglwydd.” Yr adnod yna yw iaith Ananias wrth apostol mawr y cenedloedd ar ol ei dröedigaeth. Wele Paul ei hun yn llefaru, yn yr adnod nesaf, gan ddywedyd, “A darfu, wedi i mi ddyfod yn fy ol i Jerusalem, fel yr ouddwn yn gweddio yn y deml, i mi syrthio mewn llewyg.” Sonia yma am ei ddychweliad yn ol i Jerusalem ar ol ei dröedigaeth; ac o sylwi ar gysylltiad yr adnodau, gallesid meddwl eu bod yn hanesu am yr un a’r unrhyw gyfnod; ond yn *Gal.* i. 15—19, ceir ddarfod i’r apostol gymeryd taith i Arabia, dychwelyd drachefn i Damascus, ac “yna, ar ol *tair blynedd*,” y daeth i Jerusalem. Dyma gyfnod o dair blynedd yn cael myned heibio iddo yn ddisywl rhwng y ddwy adnod yna, heb na gwagle na chyfrwng yn dynodi hyny.

Yn bresennol, caniatawn nad yw y geiryn arferedig yn *Gen.* i. 2, namyn cysylltair cyffredin, yn ol tyb Dr. Stuart, ac nad oes un cyfrwng neu wagle wedi ei adael rhwng *ada.* 1, 2, fel y dywed y gohebydd yn “*Kitto’s Journal*,”—pa ddadl a gollwn? A raid golygu, o ganlyniad, fod amgylchiadau yr adnod wedi uniongyrchol ddilyn amgylchiadau y gyntaf yn hanes ein byd? Na raid; canys y mae anghreiffitiau cyffelyb yn y Bibl o gyfnodau meithion yn cael eu haredrych gan yr ysgrifenydd, rhwng yr hanes y cyfeirir ato mewn un adnod a’r hyn y cyfeiria yr adnod nesaf ato, heb un gwagle neu gyfrwng rhyngddynt, nac ynganiad o eiddo yr ysgrifenydd mai felly yr oedd. Ac yn awr, os gellir profi fod amgylchiadau yr achos yn gofyn hyny, paham na allasai fod felly yn *Gen.* i. 1, 2? Os cyson âg egwyddorion deonglaeth ysgrythyrol yw tybio fod *tair blynedd* wedi myned heibio yn *ddisylw* yn yr hanes yn *Act.* xxii. 16, 17, am y dysgir ni yn *Gal.* i. 15—18, mai felly yr oedd; onid ydyw yn gydweiddol a’r un rheolau deongliadol i olygu fod cyfnod hirfaith wedi ei aredrych yn ddisywl rhwng y ddwy adnod flaenaf yn *Genesis*, os gellir dangos fod ffeithiau gwyddiant yn tueddu i brofi hyny? Wel, gwneir hyny gan Ddaearag. Fe allai y

<sup>1</sup> “*Journal of Sacred Literature* :” Hydref, 1850, tudal. 272.

dadleuir yrŵan nad teg dwyn Daeareg, nac un wyddor arall, i lefaru am yr hyn a berthyn i ddeonglaeth ysgrythyrol. Purion: eithr sylwer, fod rhyddid i godi dadl oddiwrth ffeithiau Daeareg, ar ol cael yr oll a all geiryddiaeth ysgrythyrol ddyweyd ar y mater, a thra na byddo yn croesi ei rheolau.

Er y credir fod y geiryn a gyfeithir *a'r*, yn *Gen.* i. 2, yn ōngach ei ystyr nag y dywed Stuart, canys ymddengys hyny yn fwy na thebyg oddi wrth ei arferiad ysgrythyrol; eto caniatāwyd, er mwyn yr ymresymiad, y gallasai yr ystyr fod mor gyfyng ag y sylwa y Doctor; a hyderir y dangoswyd, eilwaith, fod yn bosibl i'r deongliad a ddwy ar ddeall i dymmor maith fyned heibio rhwng y ddwy adnod, fod yn gywir, am fod anghreiffitiau yn y Bibl o gyfnodau hirfaith wedi myned heibio rhwng adnodau, heb un ynganiad o eiddo yr ysgrifenydd am y peth, na'r nod arferol i ddynodi hyny. Ac yn un o'r anghreiffitiau hyny, sef *Dan.* xi. 3, ceir fod yr un geiryn yn arferedig yn nechreu yr adnod ag yn nechreu *Gen.* i. 2, yr hyn a esyd y ddwy dan yr un amgylchiadau yn hollol; sef, y mae y geiryn *vau* yn dechreu *Gen.* i. 2, felly hefyd *Dan.* xi. 3; y mae yr ysgrifenydd dwyfol heb arwyddo, drwy adael gwagle, yn *Gen.* i. 2, fod un cyfnod wedi myned heibio rhwng amgylchiadau y ddwy adnod, felly hefyd yn *Dan.* xi. 3; y mae yn eglur, er hyny, fod oddeutu *cant a hammer* o flyneddau wedi myned heibio rhwng yr hyn y cyfeirir ato yn *Dan.* xi. 2, 3: a chan hyny, os yw amgylchiadau yr achos yn gofyn, pahan na ddichon fod felly yn *Gen.* i. 1, 2?

Ymddengys fod y ddwy adnod flaenaf o *Genesis* yn son am rywbeth a gymerodd le yn flaenorol i waith y chwe' diwrnod, os sylwir ar ymadroddion dechreuol a diweddol gwaith y naill a'r llall o'r diwrnodau. Dechreuir gwaith y dydd cyntaf, yr ail, y trydydd, y pedwerydd, y pummed, a'r chweched, efo y geiriau, "A Duw a ddywedodd;" a diweddir gwaith pob un gydâ'r ymadroddion, "A'r hwyr a fu, a'r bore a fu," y dydd cyntaf, yr ail, y trydydd, y pedwerydd, y pummed, a'r chweched.<sup>1</sup> Mae y ffaith seml hon yn gyfryw ag y dichon i'r darlennydd lleiaf ei amgyffrediad ei chanfod. Os yw yn eglur fod gwaith pum niwrnod olaf y cread yn cael ei ddechreu gydâ'r un geiriau, a'r chweched yn cael ei ddiweddu yn gyffelyb, ac os ceir hefyd fod y geiriau a ragflaenant waith pum diwrnod olaf y cread yn cael eu gosod yn nechreu y drydedd adnod, oni ellir casglu, a dadleu oddiar gyferbyniaeth, gan nad oes dim yn y ddwy adnod flaenaf yn groes i hyny, ond yn hytrach yn gefnogol, mai yn y drydedd adnod y dechreua yr hanesydd sanctaidd son am waith y "chwe' diwrnod?" Ymgeidw Moses mor drylwyr at yr un dull o ymadroddi yn nechreu a diwedd gwaith y gwahanol ddiwrnodiau, fel mai annhegwch nid bychan â'r pwnc, a throsedd ar reolau syml beirniadaeth, fyddai peidio a'u golygu yn y modd a nodwyd.

Yn bresennol, os ydyw yr hyn a ysgrifenydd fel deongliad o'r adnodau yna yn gywir, fe allai y goddefir i ni dynu casgliad neu ddau ar ei draul; sef, laf, Yr ymddengys fod *Gen.* i. 1, yn sefyll yn annibynol hollol ar waith y "chwe' diwrnod," ac mai tebygol yw fod y "dechreuad" y sonia un dano yn cyfeirio at gyfnod pell-bell yn ol, "cyn bod Eden ardd na hodwm," ac nid at ddechreuad y chwe' diwrnod. 2il, Mai tebygol yw 'od yr ail adnod yn cyfeirio at weithrediad arbenig o eiddo Ysbryd Duw ar tryblith didrefn, ychydig yn flaenorol i waith y chwe' diwrnod; ac o ran

<sup>1</sup> "Pre-Adamite Earth:" tudal. 389. "Kitto's Journal," am Hydref, 1850: tudal. 278.

dim a wrthwyneba yr adnod, fod y tryblith hwnw wedi ei ragflaenu ryw-bryd gan drefn, ac wedi ei achosi gan chwyldroadau echrslawn ar, a chyfnewidiadau ofnadwy yn, y ddaear. 3ydd, A bod y dduw adnod, felly, yn sefyll fel arweiniad i mewn i waith y chwe' diwrnod, heb fod yn rhan na chyfran o'r hanes, er, ar yr un pryd, y dichon fod yr hyn y traetha y gyntaf am dano wedi dygwydd floedd o oesau yn flaenorol i'r hyn y cyfeirir ato yn yr ail.

Mae tair gwrthddadl lled bwysig yn cael eu dwyn ymlaen yn fynych yn erbyn y ddamcaniaeth yma o gysoni yr Ysgrythyr â Ddaear, y rhai y dylid sylwi arnynt yma, sef,

*Yn gyntaf*, Pa fodd y cysonir hi â'r hyn a ddywed *Exod. xx. 11*; "O herwydd mewn chwe' diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd y nefoedd a'r ddaear, y môr, a'r hyn oll sydd ynddynt." *Yn ail*, Os oes pwys i'w roi ar ddarganfyddiadau Ddaear yn mherthynas i'r cloddion cyfluniol a dryfrithant ffurfiadau a haenau y greadigaeth; os bodolodd y creaduriaid hyny, yn ol fel y barna Ddaeargwyr, cyn y chwe' diwrnod mewn cyfeiriad yn *Gen. i*, yna, pa fodd y cysonir hyny â'r rhanau o'r Bibl a ddywedant mai trwy ddynt y daeth pechod i'r byd, a *marwoleath drwy bechod*? *Yn drydydd*, Pa fodd yr oedd yn bosibl i greaduriaid fodoli cyn cread yr haul, tra y mae yn ffaith amlwg yn bresennol fod goleuni a gwres yn anhegorol er cynnaliad y bywyd anifeilig a llysieul, a thra y dywed *Gen. i. 14—18*, mai ar y pedwerydd dydd y creodd Duw ffynnonell fawr goleuni a gwres, sef yr haul?

Yn mherthynas i'r wrthddadl gyntaf, dylid sylwi mai nid yr un ferf a arferir, yn *Gen. i. 1*, i ddyndodi creadigaeth cyntaf y bydysawd, ag a arferir yn *Exod. xx. 11*. Cyfleithir y gyntaf yn *grew*, a'r llall *gwneyd*. Gellid nodi rhai anghreiffiau yn mha rai y maent yn gyfystyr; ond nid ydynt felly bob amser. Ymddengys fod *Exod. xx. 11* yn anghraifft o'r gwahaniaeth hwn yn yr ystyr; canys os creffir ar yr ymadroddion yn *Gen. i*, ceir na ddygwyd y dyfroedd i fod fel moroedd ar y cyntaf, ond mai eu cydgasglu at eu gilydd a gawsant, i gyfansoddi moroedd; ac y mae yn debyg iawn mai cyfeiriad at ardrefniad y dyfroedd yn foroedd, ac at adffurfiad gwahanol sylweddau eraill, y cyfeirir yn *Exod. xx. 11*, yn hytrach nag at eu dygiad cyntaf i fodolaeth.

Ond y modd mwyaf dewisol genym gyfarfod â'r wrthddadl yna yw, drwx ddyweyd, gyda *Drd. Harris a Hitchcock*, y dylai hysbysiadau lleiaf awdur am unrhyw beth gael eu hesbonio yn gydweddol â'i hysbysiadau helaethach am y cyfryw beth—*h. y.*, y dylai yr adnod fechan sydd, yn *Exod. xx*, yn cyfeirio at greadigaeth y byd, gael ei hesbonio mewn cydffurfiad â'r bennod gyfan sy'n traethu ar hyny yn *Genesis*. Cyfarfyddir âg amryw esiamplau yn yr Ysgrythyrau, at ba rai y mae y rheol flaenorol yn gymhwysiadol; un o ba rai a nodir, sef *Gen. ii. 4*; "Dyma genedlaethau nefoedd a daear, pan grewyd hwynt, yn y dydd y gwnaeth yr Arglwydd Dduw ddaear a nefoedd." Yn awr, ai mewn un dydd y gwnaeth Duw y ddaear a'r nefoedd? Oni ddywed y bennod flaenorol yn amgen? Ac eto, wele yr adnod a ddyfynwyd yn son am *un dydd* fel yr holl amser ag y bu yr Arglwydd yn gwneyd y nefoedd a'r ddaear. Dichon yr etyb beirniaid ysgrythyrol fod y gair dydd yn yr adran yna, fel mewn manau eraill, yn golygu tymmor neu gyfnod. Bydded felly. Felly hefyd y mae y gair a gyfleithir *gwnaeth* yn *Exod. xx. 11*, yn arwyddo, mewn amryw

fanau yn y Bibl, ffurfio ac adffurfio o sylweddau blaenorol. Ond pa fodd y gellir cyrhaedd sicrwydd am ystyr briodol *dydd*, yn *Gen. ii. 4*, a *gwnaeth*, yn *Exod. xx. 11*? Tybiwn mai trwy droi i'r bennod gyntaf o *Genesis*, lle y ceir yr hanes cyflawnaf yn y Bibl am greadigaeth y byd. Canfyddir yno mai nid mewn *un dydd*, boed hwnw can hired ag y bo, y gwnaeth Duw y bydysawd, ond mewn chwech o ddyddiau; ac hefyd, fod creadigaeth gyntaf y bydysawd o ddyddim defnydd wedi cymeryd lle *cyn dechreuad gwaith y chws' diwrnod*.

*Yr ail wrthddadl*.—Pa fodd y cysonir fod creaduriaid yn marw cyn y cwmp, â'r hyn a ddywed y Bibl, mai canlyniwyd pechod yw marwolaeth? Yr oll a ellir ddywedyd am hyn yw, nad yw y Bibl, yn y lleoedd y dywedir fod marwolaeth wedi dyfod i'r byd trwy bechod, ond yn cyfeirio at ddynolryw yn unig, ac nid at y milfodog mewn un modd. O ran dim a ddywed yr Ysgrythyr i'r gwrthwyneb, yr oedd marwolaeth yn y byd cyn i ddyn erioed anadlu ynddo.

Mae y dyb a goleddir gan lawer am anfarwoldeb creaduriaid direswm, yn ymddangos yn dra gwrthun pan ystyrir y rhesymau canlynol:—1. Os nad oedd y milfodog yn ddarostyngedig i farwolaeth cyn cwmp dyn, y mae yn canlyn fod adar, anifeiliaid, ac ymlusgiaid yn anfarwol. Pa fodd y cysonir hyny â'u cyfansoddiad naturiol? canys fe'n dysgir gan wyddiant fod dadfeiliad yn hanfodol iddynt; a gwyddys fod anghyfadwasder yn natur ac eangder eu galluoedd i etifeddu anfarwoldeb. 2. Mae tybio fod creaduriaid amddifaid o gyfrifoldeb, a dibechod o ganlyniad, wedi eu darostwng i farwam bechod dyn, yn ein dwyn i gyffyrddiad â gwrthddadl bwysicach fyth; sef, Pa fodd y cysonir hyny â nodweddiad cyfiawn y Duwdo? 3. Nid yw bod dyn yn unig wedi ei greu yn anfarwol, yn ddim rhyfeddach nag mai dyn yn unig a grewyd yn rhesymol. 4. A oes sicrwydd fod anfarwoldeb yn wreiddiol berthynu i gyfansoddiad anianol dyn? Mae yn wir ei fod yn hanfodol i'r meddwl a'r enaid; ond ai nid corff dadfeiliedig oedd corff Adda, fel eiddo ei blant yn awr? Dywed Anianeg Ddynol (*Human Physiology*) fod marwolaeth yn rhan hanfodol o'n cyfansoddiad presennol; ac nis gellir golygu yn briodol fod dim yn *hanfodol* i ddyn yn bresennol, *h. y.*, o ran ei gorff, a'r nad oedd felly cyn y cwmp. Ymddengys mai "corff marwol" oedd corff y dyn cyntaf yn ei berffeithrwydd mwyaf, ond fod iddo addewid o anfarwoldeb ar yr ammod o ufuddhau i Dduw. Pa fodd y gallesid cyfnewid y corff marwol hwn heb iddo farw, fel y gwna yn awr, nis gwyddom; eithr gwyddys i Enoc ac Elias gael eu cyfnewid mewn modd hynod cyn eu cymeryd i ogoniant. 5. A chan nad yw creaduriaid direswm yn ymdebygu i ddyn mewn dim ond yn ei gyfansoddiad anianol neu gorfforol, y mae yn canlyn y rhaid eu bod hwythau yn farwol.

*Y drydedd wrthddadl* a nodwyd, oedd, Pa fodd y gallai bywyd anifeilaidd a llysieuol gael ei gynnal cyn creadigaeth yr haul, gan y dywed gwyddiant fod goleuni a gwres yn anhebgorol er eu cynnaliad; ac y dywed *Gen. i. 14—18*, mai ar y pedwerydd dydd y crewyd yr haul? Mae Daearegwr wedi darganfod gweddillion creaduriaid bychain, hyd yn nod yn y creigiau *trosgyddlol*, y rhai sydd feddiannol ar beiriannau golwg cyffelyb i greaduriaid presennol; a chasglant oddiwrth y ffaith yna, fod yr awyr a anadlent, a'r goleuni wrth yr hwn y gwelent, yr un y pryd hwnw ag yn awr. Cyfarfyddir â'r wrthddadl hon drwy ragosod,

1. Mai *tywyllwch amserol* yw y tywyllwch mewn cyfeiriad yn *Gen. i. 2*.

Gan na ddywed yr adnod, ond yn unig fod y tywyllwch ar wyneb y dyfnder, heb awgrymu pa cyhyd y bu felly, tybir mai nid annhegwch â'r pwnc fydd cymharu ysgrythyr âg ysgrythyr, i edrych a deifl hyny radd o oleuni arno. Yn *Job xxxviii.* 9, ceir y geiriau hyn, "A phwy a gauodd y môr â dorau, pan ruthrodd efe allan megys pe deuai allan o'r groth? Pan osodais i y cwmwl yn wisg iddo?" Yn y cyd-destunau, cawn fod yr Holl-alluog yn son am "sylfeini y ddaear," am "osod ei mesurau hi," ac am "gydganiad ser y boreu," &c., yr hyn a ddengys ei fod yn llefaru am waith y greadigaeth.<sup>1</sup> Nid ymddengys yn annhebyg mai cyfeiriad at y tywyllwch yn *Gen.* i. 2, sydd yn yr adnod ddyfynedig o *Job*; ac os felly, tywyllwch wedi ei osod ydoedd—"pan osodais i y cwmwl yn wisg iddo," yw iaith yr adnod. Os oedd y tywyllwch ar wyneb y dyfnder o'r blaen, paham y sonir am ei osod yno? A chan mai peth wedi ei osod yno oedd, yr unig sylwedd gwrthgyferbyniol a'i rhagflaenai ydoedd goleuni. Er na ystyriwn y ddadl hon yn nerthol iawn, eto fe ddichon fod gradd o debygolrwydd ynddi.

2. *Nid yw Gen.* i. 14—18 yn golygu mai ar y pedwerydd dydd y crewyd y cyrff nefol. Wrth draethu am yr ymadroddion "nefoedd a daear," mewn rhan flaenorol o'r ysgrif hon, amcanwyd profi eu bod yn golygu yr holl fydysawd defnyddiol, am yr arferir hwy felly mewn amryfal ranau o'r Ysgrythyrau. Cymharer *Deut.* iv. 19; xvii. 3; *Salm* viii. 3; pa rai a ddangosant yn eglur, tybygid, mai dyna ystyr yr ymadroddion ynddynt hwy. Ac, i arfer iaith Dr. Buckland ar hyn—"Os tybiwn fod yr holl gyrff nefol a'r ddaear wedi eu creu mewn cyfnod amhenodol, dynodedig â'r gair *dechreuad*, a bod y tywyllwch a ddesgrifir ar brydnawn y dydd cyntaf yn dywyllwch amserol, cynnyrchedig gan gydymgasgliad nwyau dwys ar wyneb y dyfnder, gallasai y gwasgariad dechreuol o'r nwyau hyn ail ddwyn goleuni i'r ddaear ar y dydd cyntaf, tra yr oedd achos cynnyrchiol goleuni yn aros yn guddiedig yn barhaus; a gallasai puriad pellach o'r nwyfre ar y pedwerydd dydd achosi i'r haul, y lloer, a'r ser, ailymddangos yn ffurfafen y nefoedd, i ymgymeryd â'u perthynas newydd â'r ddaear gyfluniedig newydd, ac â'r hil ddynol."<sup>2</sup>

*Eilwaith*, nid yw y ferf a gyfieithir yn *groneyd* neu *gronaeth*, yn *Gen.* i. 14, yn anghenrheidiol olygu mwy nag *apwyntio*, ac nid creu o ddim, na ffurfio o sylweddau blaenorol. O'r hyn lleiaf, ni awgrymir hyny yn yr adnod. Y cyfieithiad a ddyry Hensler o'r adnodau dan sylw yw y canlynol:—"Duw a ddywedodd, Yn awr, bydded i'r goleuadau yn ffurfafen y nefoedd, wahaniaethu rhwng dydd a nos, a chânt nodi amserau nodedig, dyddiau, blyneddau; cânt oleuo ffurfafen y nefoedd i lewyrechu ar y ddaear; a bu felly. O'r ddau oleuad, Duw a osododd y mwyaf i reoli y dydd, a'r lleuad, ynghyd â'r ser, i reoli y nos."<sup>3</sup> Granville Penn a'u cyfieitha fel hyn:—"Bydded fod i'r goleuadau yn ffurfafen y nefoedd, i wahanu rhwng dydd a nos, fod am arwyddion, ac am dymmorau, ac am ddyddiau, ac am flyneddau."<sup>4</sup> Yn gyffelyb hefyd y cyfieitha Rosenmüller yr adnodau:—"Os darllena rhywun (modd efe) sy'n gydnabyddus â phriod-ddull yr Hebraeg, ac yn rhydd oddiwrth unrhyw ogwyddiad blaenorol o'i farn, ciriau yr erthygl hon yn eu cysylltiad naturiol, cenfydd yn uniongyrohol

<sup>1</sup> "Journal of Sacred Literature," am Hydref 1850: tudal. 276.

<sup>2</sup> "Bridgewater Treatise:" tudal. 29.

<sup>3</sup> "Hutchcock's Connexion," &c.: tudal. 92, 93.

eu bod yn golygu *penodiad* neu *benderfyniad* o'r cyrff nefol i ddybenion neillduol ag yr oeddynt i wasanaethu i'r ddaear. Nid yw y geiriau Hebrëig a gyfieithir, "Bydded goleuadau," yn *adn.* 14, i'w gwahanu oddiwrth y lleill, neu i'w deall fel *fiant luminaria*, bydded goleuadau, *h. y.*, bydded i oleuadau gael eu gwneyd; ond yn hytrach, *Bydded goleuadau, h. y.* (bydded iddynt) *wasanaethu yn ffurfafen y nefoedd*, i wahanu rhwng dydd a nos; a bydded iddynt fod, neu wasanaethu, am arwyddion, ac am dymmorau, ac am ddyddiau, a blyneddau. Canys yr ydym i sylwi, fod y *ferf bod* (Seisoneg, *to be*) mewn cystrawiad â'r blaendod *am* (Seisoneg, *for*) yn cael ei harferyd yn gyffredin i arddangos penodiad neu benderfyniad peth i ddyben, ac nid cynnyriachd y peth—er anghraifft, darllener *Num.* x. 31; *Zach.* viii. 19, a lliaws o fanau eraill.<sup>1</sup>

Modd bynag, dadleua Dr. Stuart<sup>2</sup> yn erbyn cywirdeb y cyfryw ddeongliadau, a sylwa na ddylid, ac nas gellir deongli y geiriau yn y wedd yna, mwy nag y gellir deongli y geiriau a gyfieithir yn *Gen.* i. 3, "bydded goleuni," yn y cyfryw fodd. Myn mai yr unig ddeongliad cywir yw, "Bydded goleuadau," *h. y.*, bydded iddynt fod. Dyfyna Rosenmüller, [y mab], fel yn cydfarnu âg ef yn hyn, "tyb yr hwn ar fater o ieithwedd Hebrëig (modd y Dr.) sydd bob amser â hawl i ystyriaeth dyladwy; a barn yr hwn ar bwnc fel yr un o'n blaen, ydoedd prin yn agored i gyfeiliornad pwysig. Nis gallaf ammheu nad yw efo yma yn iawn, ac na feddyliasid am un cyfieithiad arall o *Gen.* i. 16, oni b'ai am anghenrheidiau gwirioneddol neu dybiol Daeareg."

Caniatâwn, am fynyd, gywirdeb tybiau y ddaeu feirniad dysgedig, Stuart a Rosenmüller, ni chanlyna mai anmhosibl cysoni yr Ysgrythyr â Daeareg yn y pwnc yma. Os ystyr y gair *gonaeth*, yn *adn.* 16, yw rhoi bod i ryw beth, fel y sylwant hwy; os ar y pedwerydd dydd y gosododd Duw y cyrff nefol yn y ffurfafen, fel y sylwa Dr. Stuart; ac os rhan o swyddogaeth y bodau hyn oedd "gwahanu rhwng dydd a nos," fel y dywed yr adnod—yna, *Pa fodd y cyfansoddid ac y rheolid dydd a nos am dridiau cyn hyn?* Aunigonol yw dyweyd, gyda Dr. Stuart, fod y goleuni y sonir am dano yn *Gen.* i. 3, yn beth ag oedd yn bodoli mewn sefyllfa guddiedig yn mhob sylwedd ymron, a bod llawer o oleuni yn awr yn y byd, nad ellir golygu ei fod yn deilliaw oddiwrth yr haul. Rhaid i ni yn hytrach, ystyried y goleuni a gyfansoddai y dydd cyntaf yn oleuni gweledig yn cyfansoddi dydd, a thywyllwch cyferbyniol yn cyfansoddi nos, cyffelyb i'r dyddiau a'r nosweithiau dilynol a phresennol, dygiad pa rai o amgylch a ddibyna yn bollol ar fodoliad a phelydriad yr haul, a chylchdroad y ddaear ar ei hechel. Yn awr, os gallodd dydd a nos fodoli cyn y pedwerydd dydd, tra yr hysbysa yr hanesydd mai rhan o swyddogaeth y goleuadau hyn oedd gwahanu rhyngddynt, pwy a ddichon brofi nad allasai "tymmorau a blyneddau" fodoli hefyd? canys nid oedd ffurfio a chyfansoddi y rhai hyn ond rhan o swyddogaeth y "goleuadau," yn gystal a threfniad dydd a nos; ac os dichonadwy oedd i dymmorau a blyneddau fodoli, pwy all sicrhau na fodolodd oesoedd aneirif, yn y rhai y bu y Crëwr hollddoeth yn gweithredu ei allu anfeidrol drwy ffurfio creaduriaid amryfath, ac ardrefnu a chyffunio y ddaear yn artrefle dedwydd i'r hwn a wnaeth yn arglwydd y cyfan? Tra hawdd fyddai cyfarfod â'r wrthddadl ar y tir yna, a difodi yr anghydgordiad; ond mwy dewisol genym ei hateb trwy gymharu ysgrythyr âg ysgrythyr.

<sup>1</sup> Gwel "Stuart's View of the Modern Doctrines of Geology :—" tudal. 27.

Yn *gyntaf*, Mae y ferf a gyfieithir, yn *Gen. i. 16*, yn *gwneyd* neu *gwnaeth*, yn gyfystyr, mewn amryw ranau o'r Ysgrythyr, âg ordeinio neu apwyntio. Wele rai anghreiffiau:—1 *Sam. xii. 6*; "Yr Arglwydd yw yr hwn a *fauerhaodd* Moses ac Aaron." 1 *Bren. xii. 31, 32*; "Ac efe a *wnaeth* dŷ uchelfeydd, ac a wnaeth offeiriaid o'r rhai gwaelaf o'r bobl, y rhai nid oedd o feibion Lefi. A Jeroboam a *wnaeth* [neu yn ol y cyfieithiad Seisonig, a *ordeiniodd*] uchel-wyl yn yr wythfed mis," &c. 2 *Cron. xiii. 9*; "Oni yrasoch ymaith offeiriaid yr Arglwydd, meibion Aaron a'r Lefiaid? ac oni *wnaethoch* i chwi offeiriaid fel pobl y gwledydd eraill?" *Salm civ. 19*; "Efe a *wnaeth* y lleuad i amserau nodedig; yr haul a edwyn ei fachludiad." *Jer. xxxvii. 15*; "Am hyny, y tywysogion a ddigiasant wrth Jeremia, ac a'i tarawsant, ac a'i rhoddasant yn y carchardŷ yn nhŷ Jonathan yr ysgrifenydd; o herwydd hwnw a *wnaethant* hwy yn garchardŷ." O sylwi ar y testunau yna, canfyddir fod i'r ferf a gyfieithir yn *gwnaeth*, yn *Gen. i.*, yr ystyr o apwyntio, mewn rhanau eraill o'r gyfrol sanctaidd. Ac er na phrofa hyna mai dyna yr ystyr yn *Gen. i.*, eto dengys fod hyny yn bosibl yn unol â rheolau beirniadaeth ysgrythyrol. Gwelir fod yr adnod ddyfynedig o *Salm civ.*, yn cyfeirio yn benodol at yr amser mewn cyfeiriad yn *Gen. i. 14—16*; a defnyddir y ferf *gwnaeth* yn y naill fel y llall. Ond darfu i'r cyfieithwyr Seisonig o'r Bibl, yn yr ail ganrif ar bymtheg, pan nad oedd modd eu bod yn ogwyddedig gan ddarganfyddiadau diweddar Daearreg, gyfieithu y gwreiddair yn y *Salm*, yn *apwyntio*; gan olygu wrth hyny, y mae yn debyg, mai dyna yr ystyr ddylesid ei roddi i'r gwreiddair yn *Gen. i. 14—16*.

Yn *ail*, Mae yr ysgrifenywyr ysbrydoledig, pan yn cyfeirio at waith y pedwerydd dydd, mewn rhanau eraill o'r Ysgrythyr, yn ymochel rhag defnyddio y ferf a gyfieithir *creu*; ac yn hytrach na hyny, wedi arferyd yr un a arwydda yn aml *ordeinio* neu *apwyntio*. Wele rai anghreiffiau o hyn eto:—*Salm viii. 3*; "Pan edrychwyf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd, y lloer a'r ser, y rhai a *ordeiniaist*." *Salm lxxiv. 16*; "Y dydd sydd eiddot ti, a'r nos hefyd sydd eiddot ti; ti a *barotoaist* oleuni a haul." *Salm cxxxvi. 7, 9*; "Yr hwn a wnaeth oleuadau mawrion, yr haul i lywodraethu y dydd, y lleuad a'r ser i lywodraethu y nos."<sup>1</sup> Syllwr hefyd ar *Deut. iv. 19*; *Salm civ. 19*; a *Jer. xxxi. 35*, yn ychwanegol at y rhai a ddyfynwyd, a cheir fod yr awdwyr santaidd yn cyfeirio yn eglur at waith y pedwerydd dydd, ond heb arferyd y gwreiddair a gyfieithir *creu* gymaint ag unwaith. A chan y cyflwynir i ni y cyfryw ffeithiau, gellir dadlu dros *bosiblwydd* cywirdeb y deongliad yna o *Gen. i. 14—16*; i.e., gellir myned ymhellach, a gofyn, onid oes yma radd o *debygolrwydd* cywirdeb hefyd?

Mae yn canlyn, bellach, os yw yn debyg, fel y sylwyd, fod "nefoedd a daear," yn *Gen. i. 1*, yn dynodi yr haul, y lloer, y planedau, a'r holl fydysawd; os yw y gair *gwnaeth*, a'i wreiddair Hebrëig, ar brydiau yn golygu *apwyntio* yn yr Ysgrythyrau; ac os nad yw yr ysgrifenywyr ysbrydoledig un amser yn cyfeirio at waith y pedwerydd dydd drwy arfer y ferf a gyfieithir *creu*; mae yn canlyn, tybygid, fod mwy o debygolrwydd cywirdeb yn nghyfieithiad Rosenmüller, yr hynaf, Hensler, Hitchcock, a Penn, o'r adnodaau hyn, nag yn eiddo Dr. Stuart, a Rosenmüller, yr ieuangaf,

<sup>1</sup> Gwelir "*Journal of Sacred Literature*," am Hydref: tudal. 283.



heblaw y rhaid iddynt hwy eilwaith ymateb i'r wrthddadl, pa fodd y bodolai dydd a nos cyn yr haul, pan y gwyddom yn sicr mai yr haul a'u cyfansodda yn bresennol?

Mae rhai duwinyddion yn methu canfod pa beth a wnaeth Duw ar y pedwerydd dydd, os oedd yr haul, y lloer, a'r ser, wedi eu gwneyd yn flaenorol. Craffer ychydig ar y cyd-destunau yn *Gen. i.*, a hyderwn y ceir ateb boddhaol. Yn *adm. 6.*, ceir fod Duw wedi gwneyd ffurfafen yn nghanol y dyfroedd, i'r dyben i wahanu rhwng y dyfroedd odditan y ffurfafen, a'r dyfroedd oddiarni; ac yn *adm. 9.*, ei fod yn casglu y dyfroedd odditan y nefoedd i'r un lle, gan beri i'r sychdir ymddangos. Ond ni feddwn un crybwylliad am gasgliad a threfniad y dyfroedd oddiar y ffurfafen. Gan hyny, a ydyw yn annhebygol y gallasai gwaith y pedwerydd dydd gynnwys trefniad y dyfroedd hyny? Sicr yw fod hyny yn rheidiol cyn y gallasai yr haul belydru ei oleuni i'r ddaear; a sicr yw hefyd, na feddwn hanes am hyn mewn un lle arall: o ganlyniad, golyga rhai beirniaid dysgedig mai gwaith y pedwerydd dydd oedd gwasgaru y cymylau, a phuro yr awyrgylch, fel y caffai yr haul gyfieusdra i belydru ei oleuni i'r ddaear. Mae yn wir mai tybiaeth yw hyn oll; ond ymddengys ei bod yn seiliedig ar radd o debygolrwydd. Fe allai yr ymholir, Pa fodd na ddywedasai yr hanesydd ysbrydoledig mai yn hyna y cynnwysid gwaith y pedwerydd dydd? Nis medrwn ateb am hyn, mwy nag am y pa fodd na roddasai hanes cyflawnach a manylach am liaws o bethau eraill, megys ffurfiad dyn o bridd y ddaear, &c. Dadl wan, ar y goreu, yw yr un a gesglir oddiar *ddystawrwydd* yr hanes.

Hyderir, bellach, y canfyddir fod modd cysoni Daeareg, yn ei damcaniaeth am greadigaeth y byd, & hanes Moses am hyny. Ni fedr yr ysgrifenydd benderfynu a ydyw Daeareg yn wyddiant ag y gellir dibynu ar gywirdeb llawer o'i hathrawiaethau; fe allai y ceir profion digonol, yn mhen amser, i ddangos y gallasai y gwahanol greigiau, â'u gweddillion cloddianol, gael eu cyflunio yn y *caed mil* o flyneddau a dybir yn gyffredin fel oedran y byd. Modd bynag am hyny, y mae yn llawen gan bob cyfaill i'r Bibl y gellir eu cysoni yn ei sefyllfa *bresennol*, heb ddirdynu geiriau Duw o'u hystyrion priodol, ac heb ddifodi ffieithiau pwysig Daeareg. Tybir na wnaed un cam âg ystyr yr ymadroddion a fuont dan sylw, megys gosod y "dechreuad" i olygu cyfnod amhenedol; "nefoedd a daear" i ddy-nodi yr holl fydysawd; a'r ferf "gwnaeth," yn *Gen. i. 14, 16.*, i olygu apwyntio neu ordeinio, ac yn *Ewod. xx. 11.*, i olygu ffurfio o sylweddau blaenorol. Gellid nodi lliaws mawr o dduwinyddion enwog a bleidiant y cyfryw ddeongliad, ymhlith pa rai y ceir y *Drd. Chalmers, Buckland, McCulloch, Hitchcock, Harris, a King*;—dynion na fynt ar un cyfrif ysepeilio un sill o'r Ysgrythyrau o'i hystyr briodol a chysefin, er ei chysoni âg unrhyw wyddiant pa bynag. Y ffaith yw hyn,—os mynir cysoni yr Ysgrythyrau Sanctaidd & Daeareg, ni wneir hyny wrth wadu cywirdeb y wyddiant, canys y mae llawer o'r ffieithiau a gyflwyna i'n sylw yn anwrthwynebol; ac yn ol pob tebyg, y mae yr athrawiaeth hon am ein daear yn dwyn cyferbyniaeth i'r hyn sy'n cymeryd lle mewn bydoedd eraill yn awr. Dywedir fod rhai o'r cyrff nefol megys yn cael eu parotöi yn bresennol i fod yn drigfal bodau bywydol; a thybir fod y lleuad mewn sefyllfa llosg-falus yn awr, yn cael ei pharotöi, o ran dim a wyddys, yn breswylfa bodau rhesymol; ac ymddengys Jupiter fel wedi ei gordöi & dwfr, ac yn cael ei phreswyllo, fe allai, fel ein daear ni unwaith, âg ymlusgiaid hyl a dyeithr.

Mae yn wir fod rhai gwŷr enwog, megys Dr. Stuart, o'r America, yn ffoi rhag y dryohfeddwl fod y byd wedi ei breswyllo am gyfnodau meithion gan greaduriaid erchyll a hagr felly yn unig, ac yn barnu fod hyny yn tasfu an-fri ar ddoethineb y Crêwr mawr. Ond fe allai y dylid teui, a myned yn fud, am y cyfryw bethau, gan goslo fod dybenion y Goruchaf yn rhy uchel a chysegredig yn aml i feddyliau dynion cnawdol a llygredig ganfod eu cysondeb; ac yn wir, fod ei weithredoedd yn cael eu hamgylchynu yn fynyeh gan y fath gymylau a thywyllwch fel nas gall y meddwl mwyaf treiddgraff ganfod eu dybenion. Mae yn debyg fod yr amrywiol greaduriaid erchyll a gyn-breswylent y ddaear, yn ol athrawiaethau Ddaear, yn ateb yn hollol ddyben eu creadigaeth, ac felly yn dwyn gohoniaid i allu a doethineb eu Creawdwr, ie, mwy o lawer iawn nag a wna y peohadur anedifeiriol.

II. *Boddiad y byd gan ddyfroedd y dylif* yw y pwnc arall ar ba un y bodola anghydgordiad ymddangosiadol rhwng Ddaear a'r Ysgrythyr. Ni chynnwysir y ddadl yma mewn pa un a fu y fath beth a dylif erioed; canys y mae yn addefedig gan ddaeargwyr yn gyffredin fod olion gweithrediadau dyfrol yn aros ar y ddaear hyd heddyw, a bod y chwyldroadau mawrion olaf a gymerasant le yn sefyllfa y belen wedi eu hachosi gan yr elfen ddwfr, yr hyn a gasglant oddiwrth ymddangosiad dylif-bridd (*diluvium*), talpiau disberod, a threigifeini (*erratic blocks, and boulders*), gweddillion gwahanol greaduriaid a ganfŵyd mewn ogofâu ac agenau, &c. Yr un pryd, nid oes anghenrheidrwydd i ni olygu fod olion dylif Noa yn aros ar y ddaear hyd heddyw. Gwir y gellir casglu oddiwrth yr hanes ysgrythrol ei fod yn dra nerthol ei weithrediadau, ac wedi effeithio yn ddwfn ar wyneb y ddaear; eto ni chanlyna fod ei olion yn ganfyddadwy yn bresennol—yn mhen pedair mil o flyneddau ar ol dygwyddiad yr amgylchiad. Arwynebedd y ddaear yn unig a effeithid gan orlifiad dyfroedd yn amser Noa, megys yn bresennol, ac y mae yn amlwg fod gorlifiadau afonydd a dyfroedd eraill wedi cymeryd lle yn barhaus yn y naill wlad a'r llall ar ol hyny; “a pha un a fyddem yn alluog, ar ol cynnifer o ganrifoedd, i wahaniaethu rhwng gweithrediad dylifaidd (*diluvial*), a marianol (*alluvial*), y mae yn anmhosibl dyweyd. Fe allai fod olion dylif Noa wedi eu dilëu yn hollol.” Modd bynag am hyny, y mae arddigonedd o brofion ar wyneb y glôb yn dangos fod dylifau mawrion wedi dygwydd rywbrwyd—pa un bynag a oes rhai o honynt yn perthynu i'r dylif ysgrythrol ai peidio. Tybygid mai y ddwy wrthddadl bwysicaf a gyfodir o Ddaear i'r dylif ysgrythrol, yw y rhai a gyfeiriant at ei *amser* a'i *gyffredinolrwydd*.

1. *Ei amser*. Cynnwysir yr wrthddadl hon yn yr hon a ganlyn:—“Os oedd gweithrediad y dylif ysgrythrol yn nerthol, fel y gellir casglu oddiwrth yr hanes, pa fodd y cyfrifir am flurfiad y saith gwely o lasa ag sydd o amgylch mynydd Etna? a'r haenau o weryd a gyfrynga rhwng y rhai hyny a'u gilydd? Dywed un, Rucipero, fod pob un o'r haenau hyn yn gofyn o leiaf ddwy fil o flyneddau o ddynoethiad i'r awyr er eu flurfio a'u dadgyfansoddi; ac felly fod y saith haen yn gofyn pedair mil ar ddeg (14,000) o flyneddau i'w dwyn i'w sefyllfa bresennol, a'u bod wedi eu dechreu oddeutu deng mil (10,000), o flyneddau yn flaenorol i'r cyfnod y dengys y Bibl i'r dylif orlifo y ddaear, a thuaug wyth mil (8,000) o flyneddau cyn creadigaeth dyn. A pha fodd y cyfrifir am y cornant hwnw rhwng rhaiadrau Niagara a Llyn Ontario, yr hwn sy'n ddau cant o droedfeddi o ddyfnder, ac a ofynai, fel y tybia llawer, o leiaf ddeng mil (10,000) o flyneddau at ei

gafniad?" Rhaid cyfaddef fod a fyno y gwrthddadleuon hyn â'r pwnc mewn rhyw fodd, er mai o bell; canys os yw y gweithrediadau nerthol a nodwyd yn cael eu dwyn ymlaen er's cynnifer o oesoedd, pa fodd na effeithiasid arnynt gan ddyfroedd y dylif, gan eu bod hwythau hefyd yn weithredyddion grymus? Atebir yr wrthddadl gyntaf drwy ddyweyd fod ymchwil-iadau dynion gwyddorol wedi gwasanaethu i brofi nad yw y gweryd a geir rhwng y saith gwely cyfeiriedig namyn "rhyw dwff haiarnaidd (*ferruginous stuff*), tebyg i'r hyn a gynnrychid gan gawod o ludw llosg-fynyddol, y fath ag a ragflaena neu a ddilyna yn gyffredin chwyrndarldiad lafa wedi ei gymysgu â llaid, neu ei gydgyssylltu gan wlaw."<sup>1</sup> Ac os cywir hyn yna, mae yr wrthddadl wedi ei hateb yn dra hawdd. Mae yr atebydd wedi canfod y fan, ac felly yn barnu oddiwrth yr hyn a welodd ei lygaid ei hun. Gellid ateb i'r wrthddadl arall, drwy sylwi fod y mwyafrif o'r daearegwyr yn awr yn dal fod ein cyfandiroedd presennol yn parhau yn hollol yr un fath ag yr oeddynt cyn y dylif; ac, o ganlyniad, y gallai y cafniad dan sylw fod wedi ei ddechreu ganuoedd o flyneddau cyn yr amgylchiad hwnw, a pharhau ar ei ol hyd heddyw, heb ei ddilëu. Eithr y mae rhai gwŷr dysgedig yn dewis ffordd arall o gyfarfod â'r wrthddadl. Tybia *Professor Rogers*, fod "y cafn oddidan y cwympiadau wedi ei ddechreu drwy orchwyliaeth ddylifol, ac nad yw dyfroedd y llyn namyn yn ei ddullwedd, ac yn ei eangu yn ddeheuol."<sup>2</sup> Gan hyny, eglur yw, na ffurfia y ddwy wrthddadl yna un anhawser ar ffordd dygwyddiad y dylif y sonia Moses am dano, yn yr amser y sonia am dano hefyd.

Ystyriwch gan ddaearegwyr hyfedr mai gorchwyl anmhosibl ymron yw cyrhaedd un math o sicrwydd, drwy gyfrif, am amser dygwyddiad unrhyw amgylchiad daearegol. Yr oll a ellir ei wneyd yw, nid nodi y flwyddyn y cymerodd y peth le, ond cael allan hynafiaeth y naill ffurfiad drwy ei gymharu â'r nesaf ato. Mae yr anhawser hwn i gyrhaedd sicrwydd am amser dygwyddiad rhai o olygfeydd Daeareg, wedi bod yn rhwystr dirfawr ar ffordd penderfynu unoliaeth dylif Daeareg a dylif Moses. Ond y mae y dysgedig Barwn Cuvier wedi ymdrechu symud yr anhawser hwn, drwy ddangos nad yw yr olion dylifol a ganfyddir yn bresennol ar wyneb y ddaear yn cyrhaedd ddim pellach yn ol nag oddeutu yr amser y cymerodd y dylif y sonia y Bibl am dano le. Yn ol amseryddiaeth Blair, fe fu y dylif Biblaidd yn y flwyddyn 1656 o oed y byd, a'r flwyddyn 2348 cyn Crist. Dywed Cuvier, os oes unrhyw ffaith wedi ei sefydlu mewn Daeareg, mai hon yw—bod arwyneb ein daear wedi dyoddef ohwyldroad mawr a disymwth drwy weithrediad dwfr, amser yr hwn nis gellir ei ddyddio ymbellach yn ol na phum mil (5,000) neu chwe' mil (6,000) o flyneddau. Nid cyfrifad wedi ei wneyd ar antur yw hwn; ond y mae wedi costio llafur dirfawr i'r athronydd. Hysbys yw fod dwfr, awyr, gwres, &c., yn effeithio yn ddirfawr ar wyneb y glôb yn barhaus, yn gymaint felly nes y mae yn anhawdd gwahaniaethu rhwng cynnulliadau marianol a dylifol, fel y sylwyd yn barod. Eithr y mae y Barwn hwn wedi bod mor fanwl a ohyfrif, oddiwrth y modd y gweithreda yr achosion hyn yn awr, pa bryd y dechreuasant, a pha faint o amser a ofyrent i gyrhaedd eu sefyllfa bresennol. "Mae y cynnulliadau hyn" (sef y cynnulliadau o weryd marianol), medd Cuvier, "yn derbyn cynnyddiad blyneddol, yr hwn y mae yn bosibl

<sup>1</sup> Dr. Daubney, "Edinburgh Philosophical Journal," cyf. xiii., tudal. 266.

<sup>2</sup> "Historical and Geological Deluges compared." Gan Dr. Hitchcock: tudal 145.

ei fesur. Nid oes dim yn haws, gan hyny, na chyfrif yr amser a gymerasant i gyrhaedd eu maintioli presennol. Mae y cyfrif hwn wedi ei wneyd gyda chyfeiriad at falurion mynyddoedd; ac y mae, yn mhob amgylchiad, wedi arddangos cyfnod o tua phedair mil (4,000) o flyneddau. Yn fyr, pa fath bynag oedd yr ymddangosiadau naturiol a ddarchwiliid, maent wedi tystiolaethu bob amser yn gyson â thraddodiad," fod dylif wedi bod oddeutu yr amser y dywed y Bibl i ddylif Noa ddygwydd. O ganlyniad, canfyddwn nad yw mynydd Etna, na chornant America, yn gwrthbrofi yr hanes Moesenaidd o'r dylif; yn hytrach, fod profion o *debygolrwydd* ar wyneb y greadigaeth, mai amser dylif Noa oedd amser dylif Ddaear.

2. *Cyffredinolrwydd y dylif.* Y pwnc mewn dadl yw, A orlifodd y dylif y sonia Moses am dano, dros yr holl ddaear, neu ynte dros y rhanau hyny yn unig ag a breswyliid gan ddyn? Fel y sylwyd yn barod, nid oes *anghenrheidrwydd* i ni dybied fod olion y dylif yn aros ar y ddaear hyd heddyw, tuag at gysoni Ddaearg â'r Ysgrythyr; eto, ymddengys yn dra *thebygol* fod ei olion heb eu hollol ddilëu. Eithr y mae yr ymddangosiadau a dderbynir gan Ddaeargwyr fel profion o arosiad ei olion ar y ddaear wedi eu cyfyngu i ranau neillduol o honi; ac y mae rhanau eraill yn hollol amddifaid o'r ymddangosiadau dylifol hyn. Dywedir gan Chaubard,<sup>1</sup> fod y talpiau disberod neu dreiglfeini yn eisieu yn y *Pyrenees*, yr *Appennines*, y *Carpathians*, ynghyd â mynyddoedd Bohemia. Lyell a ddywed na chafodd yr olion hyn yn Sicily, na'r Eidal, hyd nes y dynesaodd at droed yr Alps. Sylwa Humboldt hefyd, nad oes y fath beth oddeutu troed dwyreiniol yr Andes. Nid yw yr olion hyn o ddylif yn ymeangu ond yn unig dros *ranau* o'r hanner-bel ogleddol o'r ddaear; o'r hyn lleiaf, felly yr ymddengys yn bresennol, canys nid oes ymchwiliad yn mherthynas i'r pwnc wedi ei wneyd yn rhanau trofegol a deheul y glôb. Mae yn wir na ddygwyd tystiolaeth ddigonol ar hyn i brofi i bob ddaeargwyr fod y dylif wedi ei gyfyngu i ran neillduol o'r ddaear; ond y mae rhai yn dewis meddwl felly, hyd nes y ceir profion eglur i'r gwrthwyneb. "Mae yn amlwg," medd Esgob Stillingfleet, "fod y dylif mor gyffredinol a dynolryw; ond ni chanlyn am hyny fod yn anghenrheidiol i ni haeru ei fod yn gyffredinol dros glôb y ddaear, oni ellir profi fod yr holl ddaear wedi ei phoblogi gan ddynion cyn y dylif." Eithr pa fodd y cydsaif y dybiaeth yna â dadganiadau yr Ysgrythyr? yr hon a ddywed, "A gorchuddiwyd yr holl fynyddoedd uchel oedd tan yr holl nefoedd. Pymtheg cufydd yr ymgryfhaodd y dyfroedd tuag i fyny: a'r mynyddoedd a orchuddiwyd. A bu farw pob cnawd a ymlusgai ar y ddaear, yn ehediaid, ac yn anifeiliaid, ac yn fwystflod, ac yn bob rhyw ymlusgiad a ymlusgai ar y ddaear, a phob dyn hefyd. Yr hyn oll yr oedd ffyn anadl einioes yn ei ffroenau, a'r hyn oll oedd ar y sychdir, a fuant feirw;" *Gen.* vii. 19—22.

Naturiol iawn, ar yr olwg gyntaf, yw casglu oddiwrth y geiriau blaenorol fod y dylif y soniant am dano yn gyffredinol, ac wedi ymgyrhaedd dros yr "holl ddaear;" a bod "pob cnawd" oddiallan i'r arch wedi eu dystyrio ganddo. Ond dyliid sylwi fod yr ymadroddion, "*y ddaear*," a'r "*holl ddaear*," yn arferedig yn fynych mewn rhanau eraill o'r Ysgrythyr i ddynodi dim mwy na chyfran neillduol o honi. Gosodir i lawr rai anghreiffiau:—*Deut.* ii. 25; "Y dydd hwn y dechreuaf roddi dy arswyd a'th ofn di

<sup>1</sup> Gwel "*Hutchcock's Historical and Geological Deluges compared.*" tadal. 106.

ar y bobloedd dan yr *holl nefoedd*," medd yr Arglwydd wrth feibion Israel. Eithr os cymherir yr adnod yna âg *adn. 25, o pen. xi.* o'r un llyfr, ceir mai y cyfan a olygir yw, gosod eu hofn ar drigolion gwlad Canaan; canys fel hyn y dywed hōno:—"Eich arswyd a'ch ofn a rydd yr Arglwydd eich Daw ar wyneb yr holl dir yr hwn y sathroch arno, megys y llefarodd wrthyhych:" sef yn *pen. ii. 25.*

*Actau ii. 5;* "Ac yr oedd yn trigo yn Jerusalem, Iuddewon, gwŷr bucheddol o *bob cenedl dan y nef.*" Hyny yw, yr oeddynt wedi ymgynnull yno i'r wyl. Enwir y cenedloedd hyn yn yr adnodau dilynol, a cheir nad oeddynt ond cyfran fechan o'r holl genedloedd dan "*y nef,*" yn ystyr eangaf y gair.

*Col. i. 23;* "Os ydych yn parhau yn y ffydd, wedi eich seilio a'ch sicrhau, ac heb eich symud oddiwrth obaith yr efengyl, yr hon a glywsoch, *ac a bregethwyd yn mysg pob creadur a'r sydd dan y nef.*" Afresymol yw i ni dybied fod yr ymadroddion yn yr adnod flaenorol, yn golygu *pob creadur dan y nefoedd;* canys felly, pregethasid yr efengyl i anifeiliaid. Ac nid ymddengys yn debygol y gellir ei chymeryd yn wirionedd llythyrenol am *bob dyn* dan y nef ychwaith, os, yn wir, y gellir ei golygu yn cyfeirio hyd yn nod at *bob cenedl.* Modd bynag, sicr yw na ddynoda *bob creadur.*

Darlener hefyd, *Esay vii. 24; x. 14; Jer. i. 18; iv. 20; xii. 12; xl. 4; Joel. i. 2; Seph. i. 18; a Sech. xiv. 10.* Yr un gwreiddair Hebrëig a arferir yn yr adnodau yna, ag yn y rhai a ddygir ymlaen gan rai i brofi cyffredinolrwydd y dylif; ond yn yr adnodau hyn, nid oes dim yn amlycach na'i fod yn cyfeirio yn unig at wlad Canaan. Cymhwysir yr un gwreiddair yn *Jer. li. 7, 25, 49,* at yr ymherodraeth Fabilonaid, ac yn *Dan. ii. 39,* yn ei ffurf Galdeaid, at ymherodraeth Alecsander Fawr.

"Ond os bu farw pob cnawd a ymlusgai ar wyneb y ddaear, ac os Noa a'r rhai oedd gydag ef yn yr arch, yn unig a adawyd yn fyw, yna yr oedd y dylif yn rhwym o fod yn gyffredinol." Fel yr ymadroddion "*pob creadur,*" yr "*holl nefoedd,*" &c., dichon fod y geiriau "*pob cnawd,*" yn derfynol yn eu hystyr. Am brawf o hyn, cyfeirir at *Exod. ix. 6,* lle y dywedir, "A bu feirw *holl anifeiliaid* yr Aiphtiaid;" tra y sonia y nawfed adnod am y cornwyd llinorog yn dyfod ar ddyn ac ar anifel; ac y dywed *adn. 25,* fod pla y cenllysg wedi curu ar y cwbl "a'r a oedd yn y maes, yn ddyn ac anifel." Yn awr, os esbonir yr adnod a ddywed fod holl anifeiliaid yr Aiphtiaid wedi meirw, yn gyffredinol, neu yn yr ystyr helaethaf, o ba le y ceid yr anifeiliaid a boenydiwyd gan y cornwyd llinorog, a'r rhai a laddwyd yn y maes gan y cenllysg? Rhaid, ynte, esbonio yr adnod mewn ystyr gyfyngedig, yn gyffelyb i fel y gwnaed eisoes â *Col. i. 23.* Ac "y mae yr Iuddewon wedi sylwi yn briodol (medd Michaelis), nad yw'r gair Hebrëig a gyfeithir *oll,* neu *pob,* i'w ddeall yn mhob amgylehiad gyda'r ystyr rifyddol o *oll;* o herwydd ei fod yn cael ei arfer hefyd i ddynodi llawer."

Sylwer, ni ddywedir nad oedd y dylif yn gyffredinol, ac na orlifodd ei ddyfroedd dros yr *holl ddaear,* yn ystyr helaethaf y gair. Yr hyn yr amcanasom ddangos oedd, os ceir allan ryw bryd i sicrwydd—yr hyn sy'n awr yn amhenderfynol ymhlith Daearegwyr—na orlifodd y dylif ond yn unig dros y rhanau o'r ddaear a breswylid gan ddyn y pryd hwnw, *nad oes dim yn y Bibl yn gorthwyoebu hyny.* Ac eilwaith, os oedd dylif Noa yn un

<sup>1</sup> Dr. J. P. Smith's "*Scripture and Geology*:" y seithfed ddarlith.

cyffredinol, eglur yw nad oes dim yn y Bibl yn gwrthbrofi hyny; canys, er fod yr ymadroddion a fuont dan ein sylw, mewn llawer amgylchiad, i'w deongli yn derfynol, eto, y maent, mewn lliaws o fanau eraill, i'w deongli yn eu hystyr eangaf, neu yn gyffredinol. Dichon y dywedir nad yw hyn amgen na dysgwyl i wyddoriaeth ddeongli yr Ysgrythyrau. Gwir; eithr os cyfarfyddir â'r *un geiriau* yn cael eu harferyd gan yr ysgrifenyddys ysbrydoledig i ddynodi *gwahanol bethau*; os cawn, weithiau, fod ystyr y gair yn ei gysylltiad yn yr adnod yn anmhenderfynol, fel y ceir y geiriau "*daear, holl ddaear, holl nefoedd,*" a "*phob creadur,*" ac os cawn fod llyfr natur, yn llaw gwyddiant, yn gallu ein goleuo ar hyny;—onid priodol i ni gymeryd ein harwain ganddo, cyd na bo yn croesi yr Ysgrythyrau? Yr un Duw a roes y ddau; gan hyny, rhaid eu bod yn berffaith gyson â'u gilydd. Ac os oes *goleuni* yn llyfr natur ar ryw bwno sy'n *dywyll* yn yr Ysgrythyr, a ydym i wrthod y goleuni hwn, am mai yn llyfr natur ei cafwyd? Ymddengys fod yr athrawiaeth o *gyffredinolrwydd* neu *neillduolrwydd* y dylif, yn gorphwys yn hollol am ei phroffion ar ddarganfyddiadau Daeareg, am fod yr ymadroddion a ddefnyddia yr Ysgrythyr ar hyn i'w deall weithiau yn gyffredinol, a phrydiau eraill yn neillduol.

Dyna yr oll a ddywedir yn bresennol ar gysonedd darganfyddiadau diweddar Daeareg â'r Ysgrythyr. Fel y rhagddywedwyd, cymerwyd yn *ganiataol* fod y wyddiant ardderchog yn seiliedig ar wirionedd; er, ar yr un pryd, y dygir llawer o wrthddadleuon gan ddynion gwir ddysgedig yn erbyn damcanion rhai o'i phleidyddwyr. Ac, yn wir, mewn byd ag y mae mor yohydig yn gweled dim "wyneb yn wyneb," ac un o elfenau priodol yr hwn yw cynnydd, pa fodd y gall fod yn amgen? Tystiolaeth Humboldt, yr hwn a ystyrir yn un o'r daearegwyr goreu, yw, fod bostio o sefydlogrwydd barn mewn Daeareg yn arwydd o segurddod meddwl mawr; "sefyll yn llonydd yw, pan y mae pawb arall yn myned ymlaen." Mae ffeithiau adnewyddol yn tueddu i gadarnhau rhai rhanau o honi, ac eraill, fe allai, yn gwasanaethu i wanychu rhanau eraill. Nid yw eto, fel y dywedodd un o'i phleidyddwyr gwresocaf, Higgins, ond "megys yn ei chryd, ac nid yw ei mammaethod ond prin wedi adnabod teithi ei gwynebpryd." Dichon hefyd fod beirniadaeth ysgrythyrol heb gyrhaedd cyflawnder ei hoedran. Eglur yw, fod yr oes olaf a'r bresennol wedi diwygio llawer ar reolau deongliadol oesau blaenorol; gan hyny, dichon i'r nesaf ddarganfod rhywbeth eto ag a wasanaetha fel cyfarwyddyd ychwanegol i ddeall y Bibl. Modd bynag, teimlwn yn ddedwydd yn y grediniaeth ddiysgog y gellir eu cysoni yn eu sefyllfa bresennol, a hyny heb amheue ffeithiau y naill, nac anfrio dywediadau ysbrydoledig y llall. Nid oes dim yn sicrach nag mai yr un fydd y Bibl yn yr oes nesaf ag yn hon, onid nid llyfr y Duw digyfnawid mohono; eithr dichon i'r ddwy wyddiant mewn cyfeiriad gael eu cyfnawid yn ddirfawr, ac i'r cydweddiad rhyngddynt gael ei amlygu yn well fyth; er ei fod yn gyfryw yn awr ag i gau genau yr anffyddiwr, ac i liniaru ofnau a phryder y cristion egwan. Ac os goddefir i ni gasglu beth a fydd oddiwrth a fu, naturiol ydyw i ni benderfynu y *bydd* i ddarganfyddiadau newyddion Daeareg wasanaethu i symud yr anghysondeb ymddangosiadol a fodola rhyngddi a'r Ysgrythyr; canys felly y mae wedi bod—mae llawer anghysondeb tybiol wedi ei ddifodi gan y darganfyddiadau diweddar; a hyderir y bydd y rhai dyfodol yn foddion i arddangos y cydweddiad, nid ar dir *posibl* na *thebygol*, ond ar dir *sicr* goleuni haul banner dydd.

Wrth adael y testun yma, dymunem gyflwyno tair ffaith arbenig i sylw y darlennydd, y rhai a ddangosant gydweddiad eglur rhwng Daeareg a'r Ysgrythyr. Cyddefarant—

1. *Fod y ddaear wedi ei chreu.* Mae yn wir fod llawer Daearegwyr, o herwydd nas gallai gael allan, drwy ei ymchwiliadau, pa pryd y dechreuwyd ffurfiad cyntaf haenau y ddaear, wedi cymeryd y rhyddid anfyddaidd i haeru fod y ddaear yn dragywyddol yn ei helfenau. Eithr gwrthbrofir hyn gan wir athroniaeth y pwnc. “Yn y dechreuad y *creodd* Duw y nefoedd a'r ddaear;” medd y Bibl. Felly hefyd y dengys Daeareg. Mae pob craig o fewn cylch ein hymchwiliad yn ein cyfeirio at yr un a'i cynnyrchodd, neu ei gwreiddyn; ac felly, fe'n harweinir gan y creigiau haenenol, o ffurfiad i ffurfiad, ac o doad i doad, i lawr at y creigiau anhaenenol neu gyntefig, trwy drychwaliad o ba rai y ceir eu bod yn gyfansoddedig o dri sylwedd mwnawl tra gwahanol. Profa Crysialeg fod pob un o'r sylweddau yna yn gyfansoddedig o ronynau bychain annirnadwy, a phob un o'r rhai hyny drachefn o rai eraill llai fyth; ac yna daw fferylliaeth ymlaen, gan drychwalu y gronynau bychain yna eilwaith, a myn afael yn eu helfenau cysefin, pa rai ydynt calchid (*calcium*), ulwyn (*carbon*), ac ufelai (*oxygen*). Yr elfenau hyn nis gellir eu dadgysodi—o'r hyn lleiaf, ni allwyd hyd yn hyn. Gan hyny, y mae yn naturiol ymholi, *o ba le y daethant ar y cyntaf?* Ni feddwn un man i edrych iddo am atebiad ond i'r gyfrol ysbrydoledig, ac i'r bennod gyntaf, a'r adnod gyntaf, yn llyfr *Genesis*, lle y dywedir, “Yn y dechreuad y *creodd* Duw y nefoedd a'r ddaear.” Nis gall Daeareg lefaru fel yna; ond cyfeiria ni, drwy ei dystawrwydd, at y llyfr a wna.

2. *Mai yn ddiweddar, mewn cymhariaeth, y crewyd dyn, ac mai efe oedd y creadur olaf a grewyd.* Rhydd y Bibl ar ddeall i ni i Dduw ddyweyd, ar ol creu nefoedd a daear, gwelld y maes, ac anifeiliaid i'w bori, a gosod yr holl gyfundrefn i droi yn rheolaidd olwyn mewn olwyn, “Gwnawn ddy.” Felly, yn ol yr Ysgrythyr, *dyn* oedd yr hyn a grewyd olaf yn y chwe' diwrnod; ac yn ol amseriadaeth y Bibl, nis gellir casglu fod mwy na chwe' mil o flyneddau er hyny. Gwirir yr un peth gan ddarganfyddiadau Daeareg; canys er fod gweddillion creaduriaid amryfath yn tryfritho yr holl greigiau haenenol, ni cheir gweddillion y corff dynol ond yn unig yn yr haenau uchaf a diweddaraf eu ffurfiad—mor ddiweddar, fel nas gellir golygu yn briodol eu bod dros ddwy neu dair mil o flwyddi o oedran.

3. *Fod y ddaear wedi ei gorlifo gan ddylif nerthol.* Mae yn ffaith awdadwy ymhlith Daearegwyr, fel y sylwyd yn barod, fod y ddaear wedi ei gorlifo gan ddyfroedd amryw weithiau; ac os oedd dylif Noa yn un cyffredinol, ac yn toi yr holl ddaear, nis gellir cael dim mewn Daeareg i sicrhau na allasai fod felly. Modd bynag, y mae y ddau dyst yn llefaru yn bendant am y ffaith ynddi ei hun, sef fod y cyfryw beth wedi cymeryd lle.

Mae y wyddiant yma yn deilwng, gan hyny, i gael ei ddiwyllio a'i noddi gan holl gyfeillion dwyfol ddadguddiad. “Tybier am eiliad,” medd *Professor Sedgwick*, “fod rhai anhawsderau crefyddol yn nghasgliadau Daeareg. Pa fodd yr ydym i'w cysoni? nid drwy wneyd byd yn ol cynllun o'n heiddo ein hunain—nid drwy symud a throi haenau y ddaear, ac yna ymddwyn tuag atynt yn y fath foddag i chwareu camp damcaniaeth anwybodus neu anonest—nid wrth gau ein llygaid yn erbyn fleithiau, neu wadu tystiolaeth ein synwyrâu;

ond drwy ymchwiliad amyneddgar, yn cael ei ddwyn ymlaen yn nghariad didwyll y gwirionedd, a thrwy ddysgu ymwrthod â phob casgliad na chadarnhêir gan dystiolaeth uniongyrchol. Tra yn cael ei herlyn yn yr ysbryd yma, nis gall Daeareg arwain i unrhyw gasgliadau gau, na throseddu yn erbyn unrhyw wirionedd crefyddol."<sup>1</sup>

---

## PRYDDEST AR DDOETHINEB DUW.

GAN Y PARCH. G. EDWARDS, M. A., MINERA, GER GWRECSAM.

### RHAN I.

Doethineb Duw yn ngwaith y greadigaeth, ac yn nhrefn a llywodraeth y byd naturiol.

Duw Ior Hollalluog, rho nerth i wael bryfyn  
 I draethu mawreddau 'th ddoethineb ddiderfyn,  
 A'i holrhain a'i dilyn trwy ïang lywodraeth  
 Y byd mawr naturiol, a llwybrau rhagluniaeth.  
 Fel môr heb làn iddo y gwelaf fy nhestun,  
 I faith dragwyddoldeb, o'm deutu 'n ymestyn !  
 Cynnorthwy 'r Glân Ysbryd fo 'n llyw ac yn angor  
 I'm meddwl pryderus, wrth droi i'r maith gefnfor ;  
 Awelon gwlad gwynfyd a ledont fy hwyliau  
 Wrth groesi 'r fath ddyfnder, a marchog ei donau.

Fel adail odidog, mae 'r byd mawr o'm cwmpas  
 Yn dadgan doethineb ei Frenin, a'i urddas :  
 Y ser, tra 'n pelydru trwy 'r pell ïangderau,  
 A bydoedd olwynog trwy 'r asur ororau,  
 Yr haul, tra 'n dwyn allan neu 'n attal y wawrddydd,  
 A'r gwagle amgylchir gan oleu ysblenydd,  
 Y lleuad, wrth arwain côr dysglær yr wybren,  
 A'r gwyntoedd, wrth symud o gylch y ffurfafen,  
 Y môr mawr aflonydd, a chynhwrf ei donau,  
 Afonydd, dyffrnoedd, a chribawg fynyddau,  
 Plant dynion—bwystfild ar diroedd a moroedd  
 Tra 'n gwau dan y tdnau neu 'n llwybro 'r mynyddoedd,  
 Ac adar yr awyr, rhai eiliant ganiadau  
 Yn neildai y goedwig, y'nt oll yn eu graddau,  
 Yn dadgan doethineb ddiderfyn yr Arglwydd,  
 Eu Brenin tragwyddol, eu Crêwr a'u Llywydd.

Hon oedd priodoledd yr Ior a fu gyntaf  
 Yn llunio a threfnu y cyfan a welaf ;  
 A hon fu 'n arfaethu, yn mhell cyn bod amser,  
 I greu nef a daear, a bodau 'r uchelder ;

<sup>1</sup> " *Geology and Religion* ." gan Dr. King.



Cyn gosod y tywod yn wregys i'r eigion,  
 Cyn trefnu lle 'r ddaear, na graddau 'r angylion ;  
 Y pryd yr hanfodai y Duw mawr ei hunan,  
 Yn sylwedd pob sylwedd, ac enaid holl anian,  
 Yn llenwi meithderau 'r éangder tragwyddol,  
 Heb ddim yn gyfranog o'i fawredd anfeidrol!  
 Un Duw yn Dri Pherson, gogyfuwch, cyfartal,  
 Yn treiddio trwy 'r gwagle, i'w lanw a'i gynnal,  
 Yn ffynnon pob elfen, ac enaid pob ysbryd,  
 A chorff y gre'digaeth, dechreuad pob bywyd.  
 Can's pan yn y dechreu, Personau y Drindod  
 A gydymgyng'horent yn llŷs y nef uchod,  
 Wrth ddadgan y bwriad, a ffurfio y cynllun,  
 I ddwyn o ddyddymdra 'r gre'digaeth ddiderfyn,  
 Uwch pob priodoledd pryd hwn, mewn mawrhydi,  
 Canfyddid doethineb yr Ior yn blaenori.

Y llengoedd angylaidd sy'n llanw 'r fro nefol,  
 Gan blygu o amgylch yr orsedd dragwyddol,  
 A'r tanllyd genadau, wrth amnaid Jehofah,  
 Sy'n cyrchu o amgylch ardaloedd pell Gwynfa,  
 Y lluoedd banerawg a'r corau angylaidd,  
 A lanwant heirddlenyrech y wlad baradwysaidd,  
 Cerubiaid, seraphiaid, a'r bodau ysbrydol  
 Sy'n trigo 'n mhalasau y Ganaan dragwyddol,  
 Ddadganant ddoethineb Duw 'r nef trwy 'u holl raddau,  
 Yr hwn i'w ogoniant a'u gwnaeth yn y dechrau.  
 A thra am faith oesoedd, yn nedwydd fro gwynfyd  
 Yn nghyd y preswylient, mewn hedd a dedwyddydd,  
 Gan fyned a dychwel, yn ufudd genadon,  
 Neu felus gydunaw 'n nghaniadau 'r nefolion,  
 A'r bryniau tragwyddol yn adsain heb orphwys,  
 Gan euraidd delynnau trigolion paradwys,—  
 Doethineb eu Crëwr, ei ras, a'i ogoniant,  
 Oedd testun myfyrfod y rhai hyn, a'u moliant.  
 Ond annhrefn a darddodd, a dechreu anghydfod,  
 Pan gyntaf at fodau gogoniant daeth *pechod* ;  
 A'r archangel Satan a gasglai 'i fyddinoedd,  
 Gan wneyd ymosodiad ar orsedd Duw 'r lluoedd,  
 A mynai, mewn balchder a thrwy drawsawdurdod,  
 Gael meddiant, os gallai, ar goron y Duwdod.  
 Ond llid a digofaint angerddol Uchelne  
 A'i hyrddiodd, â'i giwdawd, i lawr trwy y gwagle,  
 I'r dudew dywyllwch, a dyfnion garcharau,  
 Lle 'u rhwymwyd, i ddyoddef arteithion a phoenau,  
 Ar danllyd faith gefnfor heb baid yn cynhyrfu,  
 Dan 'stormydd digofaint a nos fel y fagddu ;  
 Yn rhwym draed a dwylaw mewn presaidd gadwynau,  
 A dôr tragwyddoldeb dan gloion o'u holau.

Ond pan y dirwynodd y cyfnod i fynu  
 I greu nef a daear, a'u holl ddirfawr deulu,

Daeth Ysbryd Duw 'r lluoedd i lawr o'r uchelder,  
 Mewn nefawl ddoethineb, gan nofiaw y dyfnder,  
 Lle 'r ydoedd tywyllwch a nos yn teyrnasu,  
 A'r gwagle diderfyn i'r tryblith yn wely.  
 Ond hwn, pan ddisgynodd, dawelai y terfysg ;  
 Llonyddai pob elfen gynhyrfiol o'r cymysg !  
 Mesurodd le 'r ddaear, a nododd ei llwybrau,  
 A gorsaf a chylchoedd yr haul a'r planedau ;  
 I'r haul y darparodd ganolbwnc y cysawd,  
 A ser yn fil miloedd gylch ogyrch yr heulrawd :  
 A thrwy 'r tywyll wagle y galwai 'r goleuni,  
 A'r wawr wrth ei alwad ddechreuai ymdori ;  
 Yn ardal y dwyrain yn orwyn dechreuai,  
 Ac fel maes arianaidd trwy 'r nefoedd ymledai,  
 A'r dudew dywyllwch wasgarai heb oediad,  
 A'r ddunos ddiiflanai o flaen ei dyfodiad.

Mor ddoeth a rhyfeddol y gwnaed y goleuni !  
 Ar bob peth gweledig mae 'n dirfawr ragori ;  
 Pwy ddeall ei ansawdd, pa beth yw ei ddefnydd,  
 Ac o ba le tarddodd ar air y Creawdydd ?  
 Pa fodd yr ymdaena trwy wagle 'r ffurfafen,  
 Gan ymlid y t'wllwch a dda 'r ddaearen ?  
 Yr hylif dysgleiriawl sy'n teithiau trwy 'r awyr  
 Ar wawriad y boreu, pwy ddeall ei natur ?  
 Pwy ond y Jehofah, yr hwn ar y cyntaf  
 A'i lluniodd, fel eilun o'i burdeb hawddgaraf ?

Ac yn ei ddoethineb gwahanodd Duw 'r dyfroedd,  
 A rhyngddynt gosododd ffurfafen y nefoedd ;  
 A manol gydbwysodd ronynau 'r awyrgylch,  
 A lledodd hi i wisgo y ddaear o amgylch ;  
 Ac hefyd gosododd hi 'n dô i'r eangder,  
 Lle 'r esgyn y dyfroedd pan godant o'r dyfnder ;  
 Ac yma trysorir y tareth a'r cymylau,  
 A ffyrdd a ddarparwyd i fellt y taranau ;  
 Aneddle i'r gwyntoedd, trysordy i'r eira,  
 A lle i'r gwlawogydd a'r dymhestl yn drigfa.

Y belen ddaearol i'w lle a gymhwysodd,  
 Ac yn y maith wagle ar ddyddim ei crogodd ;  
 Ei ffurf a addasodd i'w lle yn yr wybren,  
 I droi ac i deithiau hyd rodau 'r ffurfafen.  
 Y dwfr a'i gorchuddiai i'r unman a gasglodd,  
 A'i wely â chaerau o dywod amgylchodd,  
 A gwyneb y ddaear gan gribawg fynyddoedd  
 Amrywid, a thanynt y llechai dyffrynoedd ;  
 A'r creigiau osodwyd i'r eigion yn ddorau,  
 Er attal rhuthrgyrochodd cynhyrfus ei ddonau.  
 Y ddaear gwmpasog amgylchwyd â moroedd,  
 I uno 'i phell wledydd â'i ffrwythlawn ynnysoedd ;

A'r rhai 'n a lanwasant y dwfn dduon gellau,  
 Lle chwery y morfeirch dan fyrddiwn o donau.  
 A thrwy gorff y ddaear darparwyd gwythenau,  
 I'r dyfroedd ddychwelyd, nes treiddio 'i phell ranau;  
 Ac yna 'n afonydd yn ol y prysurant  
 Trwy wledydd meillionog, i'r fan a adawsant;  
 A'r byd a amgylchwyd â gwregys o ddyfroedd,  
 Yn gyfwng i unaw y sychdir â'r nefoedd.  
 Y sychdir oedd noethlwm â gwyrdd-ddail ddilladwyd,  
 Mewn harddwisg amryliw y meusydd addurnwyd;  
 A meithion ddyffirnoedd, dan goron o fiodau,  
 A chwarddent dan gysgod y llwydion fynyddau,  
 A hwythau ddyrchafent ei deiliawg goedwigoedd,  
 A'u bronau gwyrddleision, i gyfarch y nefoedd.

Yna 'r ser tanbaid, yr haul, a'r planedau,  
 Y lloer, a llu 'r nefoedd, wnaeth Duw, a'u cylchro dau;  
 Lle gwelir doethineb, uwch doniau angelion,  
 I allu iawn draethu ei dyfnion ddirgelion.  
 Trwy feithdra 'r ffurfafen y treigla 'r pell fydoedd,  
 Yn nghrog ar ddyddymdra yn uchder y nefoedd;  
 A phob un sy'n symud drwy gylchdaith ei yrfa,  
 Heb orphwys na seibiant o'r dechreu hyd yma.  
 Pwy ddeall effeithiau 'r dylanwad anfeidrol,  
 A roed i'w hysgogi, gan Allu tragwyddol,  
 Pan welwyd eu lluoedd yn cychwyn tro cyntaf,  
 I deithio heb flino i'r orig ddiweddaf?  
 A nerthol ddyllanwad y fraich anweledig,  
 Sy'n cyrhaedd cylchro dau y bydoedd pellenig,  
 Gan ffrwyno a thywys pob planed a seren,  
 Heb grwydro o'u rhodau wrth groesi 'r ffurfafen!  
 Fel dolen yn nolen mewn undeb â'u gilydd,  
 Trwy 'u hirfaith drogylchoedd, heb dd'rysu, 'r ânt beunydd;  
 Tra 'n cyrchu trwy 'r gwagle 'n gyflymach na'r fellten,  
 A'u ffordd ar hyd cyfwng disylwedd yr wybren,  
 Pe unwaith gadawent eu llwybrau arferol,  
 Hwyl droent y bydysawd yn garnedd ddinystriol;  
 Ymdd'ryesai y ddaear yn nghanol ei gyrfa,  
 A'r faith greadigaeth hyd orsedd Jehofah!

Ni chodwyd y nefoedd ar gedyrn golofnau,  
 I ddal yr holl fydoedd, er cymaint eu pwysau;  
 Nid ydynt yn gorphwys ar greigiau o farmor,  
 Neu balmant o haiarn, uwchlaw y gagedor,  
 Ond cadwant eu llwybrau, a theithiant eu cylchoedd,  
 Heb ddim yn eu cynnal, trwy 'r meithion ganrifoedd;  
 Doethineb Duw 'r lluoedd, a'i grymus ddyllanwad,  
 A fu 'n eu cydbwyso wrth ddeddfau attyniad,  
 Hyd nes yr effeithiant bob un ar eu gilydd,  
 Fel byddin reolaidd wrth alwad ei llywydd.

Gwel mor ogoneddus yw 'r huan tanbeidiawl,  
 Ar euraidd orseddfainc, mewn gwisg o dân ysawl;  
 Ffynnonell goleuni, lamp dysglaer y nefoedd,  
 A'i wawl yn cyrhaeddyd at fyrddiwn o fydoedd.  
 O dan ei ddylanwad, yn rhwym fel wrth gadwyn,  
 Mae 'r mawrion blanedau o'i amgylch yn dirwyn,  
 O Neptune a Sadwrn, hyd Mercher sy'n colli  
 O'r golwg yn mhelydr ei danllyd oleuni.  
 Pan ddaw mewn mawrhydi o 'stafell y dwyrain,  
 Gan ddeffro 'r boreuddydd â'i wenau anwylgain,  
 Cynhyrfa i fywyd y byd oedd yn huno,  
 A dettyd gadwynau y nos oddiam dano.  
 Ei lwybr yn y nefoedd sy'n creu y tymmorau,  
 Wrth esgyn i'r gogledd neu ddisgyn i'r deau,  
 Nes dwyn haf a gauaf i mewn yn olynol,  
 I ddilyn eu gilydd wrth reol dragwyddol.  
 O'i wydd y diflana y rhewllyd fynyddau,  
 A'r palmant iâ durol a gloa 'r pegynau;  
 A'r nos hir amgylcha bell diroedd y gogledd,  
 A droir yn oleuni gan lusern trugaredd.  
 Yr oriau a ddawnsiant o amgylch ei gerbyd,  
 Pan fyddo 'r tymmorau i'w ddilyn yn symud,  
 A than ei ddylanwad y deftry y gwyntoedd,  
 Gostega a chyffry y gorwyllt dymhestloedd,  
 Ac yn ei sefyllfa mae 'n enaid a bywyd,  
 Y bydoedd lliosog o'i amgylch sy'n symud;  
 Gwir ddelw 'i Greawdwr, ei oleu a'i burdeb,  
 Sy'n ail i oleuni gordanbaid ei wyneb;  
 A thano y llywia elfenau 'r byd isod,  
 A'r ddaear a'r wybren ynt dan ei awdurdod.

A phan draw o'r golwg diflana yr huan,  
 Y loer wnaed i'w ddilyn mewn mantell o arian;  
 Brenines yr wybren, yn lloni y ddunos,  
 A'r ser iddi 'n osgordd yn mhell ac yn agos.  
 Ar brydiau daw allan mewn gorwych fawrhydi,  
 Bryd arall o'r golwg yn llwyr bydd yn colli;  
 Mewn dudew dywyllwch o'r golwg ymguddia,  
 Ac yn y ffurfafen attelir ei gyrfa;  
 O dan ei dylanwad bydd tonau yr eigion,  
 Mewn cynhwrf diorphwys drwy deyrnas faith Neiflon,  
 Oddiar y traethellau y sugna ei ddyfroedd,  
 Gan attal eu rhediad i'r lân o'r dyfnderoedd;  
 Ac yna i'w lenydd try eilwaith ei ffrydlif,  
 Gan ollwng o'u rhwymau fyddinoedd ei gefnllif;  
 A'r cynhwrf a dreiddia drwy feithder y moroedd,  
 I'w cadw rhag llygru trwy 'r dyfnion ddirgelgoed.  
 Y modd yr effeithia trwy 'r gwagle difesur,  
 Ar wyneb y ddaear, a phob peth yn natur,  
 I ni sy'n ddirgelwch, a dyfnder heb waelod,  
 Yn dangos doethineb rhyfeddol y Duwdod.

Trwy'r wybr mae pell heuliau a bydoedd yn treiglo,  
 I'w canfod fel gemau dirif yn dysgleirio ;  
 Holl lwybrau Caergwydion gan ddyaglaer wregysau  
 O ser yn fil myrddiwn a welir yn olau ;  
 A'r rhai 'n sydd yn heuliau i fydoedd pellenig,  
 Trwy 'r dirfawr eangder i ni 'n anweledig.  
 Pob seren sefydlog sy'n dyaglaer belydru  
 I lawr o'r ffurfafen, gan danlyd lewyrchu,  
 Sy'n heulaidd ganolbwnc i liaws o fydoedd,  
 O'i hamgylch yn symud, trwy 'u rhodau a'u cylchoedd.  
 Trwy 'r gwagle difesur mae Duw yn teyrnasu,  
 A'i ddoethion weithredoedd yn cael eu hamlygu  
 I fydoedd aneirif, yn llawn o drigolion,  
 O gyrhaedd goleuni yr haul a'i belydron !  
 Pe syrthiai y ddaear yn ol i ddyddyndra,  
 Pe 'n llwyr y diflanai o deyrnas Jehofah,  
 Pe heibio 'r ai 'r nefoedd fel llyfr wedi blygu,  
 A'r oll sy'n weledig trwy 'r nen, gan ddiflanu,  
 Yn nghyrau pellenig llywodraeth Duw 'r lluoedd,  
 Ni wyddid eu colli dros fyrddiwn o oesoedd !

Y ser ynt arwyddion i ni a thymmorau,  
 I fesur ein hamser a nodi 'n blyneddau ;  
 Arweiniant y morwr dros donau yr eigion,  
 O'i wlad enedigol at ddeieithr drigolion ;  
 A phan yn ol eilwaith i'w gartref y dychwel  
 Dros wyneb y cefnfor, a'i ffordd yn yr awel.  
 Mae Duw yn eu gwysio hwynt oll wrth eu henwau,  
 Gan arwain eu lluoedd, a nodi eu llwybrau.  
 Ar alwad ei Llywydd daw Hesperus allan,  
 Yn flaenaf o'r fyddin, mewn gemwisg fel arian,  
 A seren y gogledd fel gwyliwr a sefyll,  
 Drwy 'r oesoedd heb fino, yn nyfnder nos dywyll.  
 Y Pleiades egwr ei ddorau i'r gwanwyn,  
 A dwg y llwm auaf tymhestlog i'w derfyn ;  
 A chyfyd Orion i gludo 'r ystormydd,  
 A chloi gyda 'i rwymau y tir a'r afonydd.  
 Y gyfraith a'r rheol o'r dechreu a gawsant,  
 Heb ball, trwy 'r holl oesoedd, yn wastad a gadwant,  
 Y cyrff tanlyd mawrion, trwy 'r wybren wrth gyrchu,  
 Addefant awdurdod yr Arglwydd, a'i allu ;  
 Ei firwyn sy'n eu harwain, a'i fraich yn eu cynnal,  
 A'i ddeddf, rhag troi allan o'u ffyrdd, yn eu hattal.

Comedau llosgyrnog, o'r meithion bellderau,  
 Heibio y ser deithiant, a chrocsant eu llwybrau ;  
 A thrwy 'r entrych llusgant o'u hol ufel tanlyd,  
 Gan fwgwth troi 'r nefoedd yn wenfflam wrth symud ;  
 Ond eilwaith dychwelant i'r gwagle, nes colli  
 O olwg y ddaear, a ffyrdd y goleuni.

Fel rhyfedd genadon, cyflawnant orchymyn  
 Eu Brenin, a chyrehant i'w taith pan eu henfyn ;  
 A'r haul yn eu gyrfa, â'i fydoedd, ymwelant,  
 Ac yna am oesoedd o'r golwg diflanant.

Mor gyson a chywir ceir gwel'd y planedau  
 Drwy 'r asur ffurfafen yn dilyn eu llwybrau !  
 Daw Mercher a Gwener i derfyn eu gyrfa  
 I'r mynyd heb fethu, trwy nerthol gyflymdra,  
 A Mawrth â'i gwedd danllyd, a'r ddaear i'w dilyn,  
 Fel rhyfedd ddolenau yn ffurfio y gadwyn,  
 Sy'n uno 'r planedau yn mhellder y cysawd,  
 Trwy ddirgel-ddylanwad, â'r lleill yn yr heulrawd.  
 Rhodod gwregys arianaidd i Iau i'w oleuo,  
 A dysglaer leuadau o'i amgylch i dreiglo ;  
 A Sadwrn amgylchwyd â modrwy ysblynydd,  
 Nes gwisga 'i nos dduaf hardd wenau 'r boreuddydd ;  
 Ac arni seiriana dysgleirdeb heb beidio,  
 Pan fyddo pell oleu yr haul yn diffygio ;  
 Doethineb Duw 'r lluoedd fel hyn fu 'n addasu  
 Sefyllfa pob planed, a'i gorsaf yn trefnu.

Y moroedd, oedd unwaith yn wag heb breswlydd,  
 A dirif fywiolion a lanwodd Duw Ddofydd ;  
 A holl ffyrdd yr eigion â heigiau o bysgod,  
 Yn chwareu trwy 'i ddonau, neu 'n trigo yn ei waelod,  
 Ac yn ei ddoethineb addasodd bob cyrion,  
 O'i ddyfrllyd freniniaeth yn lle i'w drigolion.  
 Rhai lwybrant dan ymchwydd y brigwynion ddonau,  
 A rhai y'nt hyd feusydd o dywod yn chwarau ;  
 Mae rhai yn ymborthi dan fryniau o gwrel,  
 Heb wel'd y goleuni, na theimlo yr awel ;  
 Ac eraill ar wyneb y dyfnor yn teithio,  
 A'u cenau amryliw yn prydferth ddysgleirio.  
 Ac yma mae 'r morfarch fel ynys fyw 'n symud,  
 A'r eigion o'i amgylch yn ferw trochionllyd ;  
 Ymddengys fel brenin ar deyrnas y dyfnder,  
 Gan heriau ergydion y bicell a'r dryfer !  
 Anoddyn anmhlymiol Môr Tawel y deau,  
 Yw man ei breswylfod, neu rew y pegynau ;  
 Lle symud o amgylch trosolion y ddaear,  
 A rhwyga trwy ddorau rhewedig ei garchar.  
 Ymlusgiaid cragenog orweddant ar greigiau ;  
 Rhai hunant mewn gwmon ar leidiog welyau.  
 Y dolphin ar ddonau symudol a chwery,  
 A'r *tortoise* dan gysgod ei darian sy'n llechu.  
 Cre'duriaid amrosgo o anferth faintioli,  
 Ymlusgant yn araf dan ddyfnffyrdd y weilgi ;  
 Ac eraill a barthant y dyfrllyd ororau,  
 Fel adar yn hofran yn wybr y cymylau,  
 A'r cwbl yn eu graddau, yn fychain a mawrion,  
 A lanwant eu cylchau yn nheyrnas yr eigion ;

Wrth ddoddf eu Penllywydd gadawant eu trigfod,  
Symudant a heigiant oll dan ei awdurdod.

O fôr y pegynau y bydd yr ysgadan,  
Ar amser penodol, fil myrdd yn troi allan,  
A'r dyfnder maith groesant yn fyddin aruthol,  
Gan gychwyn i'r deau ar yrfa flyneddol.  
Ymwelant â gwledydd y byd a'i ynnysoedd,  
Gan lanw cilfachau y môr, a'i aberoedd,  
O benrhyn rhew *Greenland*, a thiroedd y gogledd,  
Hyd bell arfordiroedd dan haul y cyhydedd.  
A'r eog sy'n gadael dyfnderau'r môr heli,  
Pan ddel ei amserau, a chyroha o'r weilgi,  
I fyny'r afonydd a'r llynoedd y treiddia,  
Ac eilwaith i'r dyfnder yn ol y dychwela.  
Holl bysgod yr eigion, â'u greddfau anianol,  
Gyhoeddant ddoethineb eu Brenin tragwyddol;  
Eu ffurf, a'u maintioli, a'u rhyfedd agweddau,  
A wnaeth oll i ateb ei ddoethion fwriadau;  
A rhai a gymhwysodd i fyw yn y poethgylchoedd,  
A'r lleill o dan seiliau y rhewlyd fynyddoedd;  
Ac beunydd rheola eu holl symudiadau,  
Eu hymborth a ddarpar, a'noda'u trigfanau.—  
Y *crocodile* nofia dros donau'r gwyrdd heli,  
A llecha bryd arall dan gysgod y llwyni;  
A'r morlo a ddisgyn i lawr i'r dyfnderoedd,  
A rhodia hyd wyneb nofiadwy ynnysoedd.

Yr wybren i'r adar roes Duw yn breswylfa,  
(Lle'r esgyn yr eryr, lle teithia'r ciconia)  
Ac yma esgynant i fro y cymylau,  
A llonant y ddaear â'u péraidd ganiadau.  
Rhai ddawnsiant yn hoenus rhwng dail y coedwigoedd,  
Ac eraill lochesant yn nghreigiau'r mynyddoedd;  
Mae rhai ar hyd wyneb y dyfnder yn noffo,  
Dros gesig ei donau, gan araf ymdeithio;  
A'r lleill yn marchogaeth ar gefn yr awelon,  
A'u ffyrdd trwy'r Æangder, uwch trigfa dynolion.  
Yn nghrasboeth dir Affrig mae'r estrys yn trigo,  
A meusydd o dywod yw'r fan mae'n ymdeithio;  
Ei thraed, a gwneuthuriad celfyddgar ei hesgyll,  
Sy'n gymhwys i deithio'r anialwch gwag erchyll.  
Yn uchel glogwyni yr Andes mae'r condor  
Yn hollti'r wybrenau fel llong ar y cefnfor;  
A lifrai y nefoedd fu'n gwisgo'r siedydd,  
Yn neuau'r Amerig, lle chwery trwy'r dolydd.  
Y gwalch a'r barcutan breswylant y bryniau,  
A chasglant eu hymborth hyd ddiffaith fynyddau,  
Yn nghestyll y creigiau y nytha yr eryr,  
A'i nerthol adenydd a'i cludant trwy'r awyr,

A chyda 'i graff lygaid, a'i geinion grafangau,  
 Y gwylia 'i ysglyfaeth yn mro y cymylau.  
 Yr alarch ar wyneb y llynoedd a driga,  
 Heb gyffro trwy 'r dyfrllyd wastadedd yr hwylia ;  
 A'r dwfr yn ddefnydd arianaidd a ddisgyn  
 Ar hyd ei gefn llathraidd, a gwenwisg ei edyn.  
 Rhoed awen nefolaidd i ran yr ehedydd,  
 Pan esgyn i'r wybren i gyfwrdd y wawrddydd ;  
 A'r eos, tra 'n arllwys ei melus ganiadau,  
 Trwy 'r ddunos gymylog, wrth ddysgwyl y borau.  
 Ar frig y llwyn didryf, pan orphwys heb gyffro,  
 A'r byd mewn tawelwch o'i hamgylch yn huno,  
 Y gwasgar trwy'r goedwig ei miwsig a'i chwynion,  
 A thywallt i'r gwyntoedd ei melus alawon.  
 Y ceiliog a edwyn nesâd y boreuddydd,  
 Cyn egyr amrantau y wawr ar y mynydd ;  
 A'r paun yn ei wisgoedd angylaidd sy'n rhodio,  
 A'i gynffon fel enfys y nef yn dysgleirio.  
 Y fronfraith â'i thônau a lona 'r dyffrynoedd,  
 A cherdd y fwyalchen a esgyn i'r nefoedd.

Holl ddeiliaid adeiniawg yr wybr a'r coedwigoedd,  
 A doniau gwahanol ehediaid y nefoedd ;  
 Eu medr a'u cywreinerwydd, a'u harddwch ysblenydd,  
 Ddadganant ddoethineb eu nefol Greawdydd ;  
 A cherddi llawenydd bu 'n donio eu llwythau,  
 Gan wisgo 'u hadenydd mor brydferth eu lliwiau ;  
 Efe a roes ddeall i'r wenol a'r aran,  
 A darpar eu hymborth i gywion y gigfran.  
 Mae rhai yn ymsymud wrth drefn y tymmorau,  
 I wledydd y gogledd, neu hinsawdd y deau ;  
 A theithiant trwy 'r wybren ar gyflym adenydd,  
 Gan groesi 'r ffurfafen heb ganddynt arweinydd.  
 Y gog, y ciconia, yr aran, a'r wenol  
 Adwaenant eu misoedd a'u hamser penodol ;  
 Pan ddelo awelon yr hydref i ddeifio  
 Hawddgarwch y fiwyddyn—maent oll yn ymado ;  
 Ac eilwaith, y gwanwyn—yn ol y dychwelant,  
 A'u llwybr dros faith diroedd a moroedd ganfyddant.  
 Cyn cychwyn i'w siwrnai yn fintai ymgasglant,  
 Ac ar y gwastadedd ynghyd ymgynghorant ;  
 Ac yna dyrchafant i'r wybren yn lluoedd,  
 Gan deithiau y gwagle 'n rheolaidd fyddinoedd.  
 I'w mordaith bell hwyliant heb gompawd nac arlun,  
 Trwy niwl a thywyllwch, dros fynydd a dyffryn,  
 A'r rhai a fo 'n olaf â'r blaenaf newidiant,  
 Wrth iddynt ddiffygio—eu lle a gymerant.  
 A phan ddelo 'r gauaf â rhew i gadwyno  
 Ein tir, a'r llym oerwynt o'r gogledd yn rhuthro,  
 Bydd adar dyeithrol, i'n gwlad yn ymgasglu,  
 A brochus gorwyntoedd i'r dehau 'n eu gyru.



O Norway a Lapland y croesant yr eigion,  
 A'r gwledydd amgylchir gan fferllyd awelon ;  
 A thrwy 'u symudiadau mae 'r rhai 'n yn amlygu  
 Doethineb a roddwyd yn reddf i'w haddysgu.

Y sychdir gymhwysodd Duw i'r anifeiliaid  
 A alwodd i fywyd, a phob rhyw ymlusgiaid,  
 O'r gwaelaf gynrhonyn, trwy 'r llwch sy 'n ymdreiglo,  
 Hyd at y march cyflym, a'r cawrfil amrosgo.  
 O groth y ddaearen ar alwad Duw 'r nefoedd,  
 Gan lanw y meusydd, y daethant yn lluoedd.  
 Y march a gyfodai o dywyrch y ddaear  
 Yn gyflawn a lluniaidd, gan rodio 'r werdd dalar,  
 A'r gwartheg a'r defaid a anwyd, dan frefu,  
 A'r holl anifeiliaid o'r llwch ddoent i fynu ;  
 A phob un ymlwybrai gan ddilyn ei elfen,  
 Nes llenwi maith wyneb yr eang ddaearen.  
 Rhai deithiant hyd lwybrau disathr yr anialwch,  
 Trwy ddyfnion goedwigoedd, a ffyrdd y diffeithwch,  
 Lle 'n mhell oddiwrth ddynion, yn llwythau gwahanol,  
 Ar wasgar preswylant, wrth gyfraith a rheol ;  
 Ac eraill a grwydrant dros lethrau 'r mynyddoedd,  
 Mewn undeb â'u gilydd, fel arfog fyddinoedd.

Yn nhir crasboeth Lybia, a gwledydd pell Affrig,  
 Mae 'r llew yn preswyllo yn frenin y goedwig ;  
 Mewn digder angerddol o'i loches try allan,  
 A'i ruad arswydus fel treigladd y daran !  
 Dros dywod yr anial yr aiff gan grychneidio,  
 A'i fwng yn ymgodi, a'i lygaid yn fflamio ;  
 A'r holl anifeiliaid o'i wyddfod a ffoant,  
 Mewn arswyd i'w dirgel lochesau prysurant ;  
 Cynniwair trwy 'r anial i geisio 'i ysglyfaeth,  
 Fel archdeyrn gormesol ei ddirfawr lywodraeth.  
 Ac yma mae 'r llewpard a'r creulawn ddywalgi,  
 Yn llechu o'r golwg yn nghudd dan y llwyni ;  
 A'r sarff anferth dorchog hyd lawr yn ymlusgo,  
 A'r asp o dan gamrau 'r ymdeithydd yn deffro.

Y camel a luniwyd i fyw 'n y diffeithwch,  
 Dan boethion hinsoddau, a gwynt yr anialwch ;  
 Lle croesa 'r crasdiroedd, fel llong ar y dyfnder,  
 Dan danllyd belydrau yr haul o'r uchelder.  
 Mewn syched a newyn, trwy boethion gorwyntoedd,  
 Rhai godant y tywod fel niwl hyd y nefoedd,  
 Ymlaen yn ei yrfa y bydd yn ymdynu,  
 A *simoon* yr anial yn rhuo o'i ddeutu ;  
 A'r teithwyr blinedig yn trengu gan syched,  
 Pan na bydd glaswelltyn na deilen i'w gweled ;  
 A'r wybren fel palmant o bres uwch eu penau,  
 A'r ddaear yn agor yn fyrrd o agebau.

Addaswyd ei gylla a'i draed, mewn modd rhyfedd,  
 Gan Dduw, i ymdeithio trwy 'r tir anghyfannedd.  
 Y cawrfil grymusol breswylia fro 'r India,  
 A'r ceirw chwimdroediog ardaloedd yr eira ;  
 Y gwartheg ymborthant ar wellt y dyffrnoedd,  
 A'r defaid a borant serth lethri 'r mynyddoedd ;  
 Yr afr wnaed i drigo 'n mysg serthaidd glogwyni,  
 A'r march ar y dolydd meillionog i bori ;  
 A dyn wasanaethant yn mhob gwlad o'r ddaear,  
 At ddynol anghenion y cawsant eu darpar.

A Duw fu 'n arlwyo i'r rhai hyn eu porthiant,  
 Ei law a attalia, a hwythau a drengant ;  
 A chyda doethineb, addasodd eu gwisgoedd,  
 F'r holl anifeiliaid, yn mhob rhyw ardaloedd,  
 O banflew 'r eirth gwylltion, yn ngwledydd y gogledd,  
 Hyd noethion fwystfilod tir poeth y cyhydedd ;  
 Ac iddynt rhoes ddeall i ddewis eu porthiant,  
 Y llysiâu gwenwynig, niweidiol, ni phrofant.

Pwy roddes ddoethineb a deall i'r gwenyn,  
 Pan gasglant eu lluniaeth dros fynydd a dyffryn ;  
 A phan yn yr hafddydd y codant anneddau,  
 Gan lenwi 'r 'stafelloedd â gwerthfawr drysorau ?  
 Mor ddiwyd y ffurfiant liosog fân gelloedd,  
 Mwy cywrain na chreffftwaith pen seiri yr oesoedd !  
 Amgylchant bob annedd â muriau o gwmpas,  
 A grymus gaer hefyd amgylchant eu dinas ;  
 A phob cell a lanwant â mel yn bentyrau,  
 Cyn dyfod y gauaf i grino 'r gwyrdd lysiau.  
 Fel teyrnas reolaidd mae ganddynt swyddogion,  
 A'u gorchwyl priodol i bawb o'r trigolion ;  
 Wrth gyfraith a rheol ânt allan i'r meusydd,  
 I gasglu eu hymborth, a ffurfiant eu trefydd.  
 Y borau i'w gorchwyl arferol dihunant,  
 A'r nos i'w gorphwysfa 'n rheolaidd dychwelant.

Yn olaf, a phenaf, o'i fawrion weithredoedd,  
 Fel brenin ar bob peth o dan y faith nefoedd,  
 Y lluniodd yr Arglwydd ddyn yn ei ddoethineb,  
 Ac ar ei hardd ddelw yn ddwyfol mewn purdeb.  
 O bridd y ddaearen ei gorff a gymerodd,  
 A'i ysbryd ei hunan i'w ffroenau anadlodd,  
 A'r priddyn a unodd â'r enaid anfarwol,  
 A'r corff wnaeth yn gartref i'r hedyd ysbrydol.  
 Ofnadwy a rhyfedd y gwnaeth ei holl ranau !  
 Eisteddfod y deall, a phyrth y synwyrâu ;  
 A'r cyfwng sy'n uno y corff gyda 'r ysbryd,  
 Y gwaed, a'i gylchrediad, fflynonell y bywyd.  
 Y llygaid clai ffurfiodd mor gywrain i weled,  
 Y dwylaw i deimlo, a'r clustiau i glywed ;

A'r gwaed i ddychwelyd trwy gelloedd y galon,  
 A thrwy y corff eilwaith trwy rym ei hergydion ;  
 Pob gwythen osododd ei swydd i gyflawni,  
 A dirgel gysylltodd hwynt wrth y gwaed lestri ;  
 Rhoi 'r anadl trwy 'r ddwyfron i gerdded heb beidio,  
 A'r synwyr trwy gellau 'r ymenydd i weithio ;  
 Gewynau mân dreiddiant bob rhan o'r aelodau,  
 A chywrain gydwëad arianaidd llynau ;  
 A'r esgyrn lliosog â giau amgylchwyd,  
 Pob cymmal a mortais i'w lle a gymhwyswyd.  
 Y meddwl a ffurfia wir ddelw gwrthddrychau,  
 A'r tafod a wisga y meddwl â geiriau ;  
 Y golwg, y teimlad, clyw, chwaeth, ac aroglïad,  
 A gadwant y deall mewn grymus weithrediad,  
 Trwy gludo i'r meddwl allanol wrthddrychau,  
 A gosod i weithio 'r eneidïol beiriannau.  
 Tu mewn a thu allan y gwnaed y corff dynol,  
 Yn adail berffeithïaf y Pen Saer tragwyddol ;  
 Y meddwl i ddyfnïon ddirgelïon a dreiddia,  
 Gan brysur gynniwair trwy deyrnas Jehofah ;  
 O'r bydoedd sy'n llanw pell gylchau 'r ãangder,  
 Hyd grombil y ddaear, a llwybrau y dyfnder.  
 A'r deall addaswyd i olrhain a chwilio  
 Holl ffyrdd y Creawdwr, a'r llwybrau mae 'n teithio ;  
 Gan ddilyn ei gamrau o seren i seren,  
 Dadlenu dirgelïon llyfr natur, a'u darllen,  
 A thalu ei deyrnged o fawl i'r Bod nefol,  
 Wrth wel'd ei ogoniant a'i allu tragwyddol.  
 A dyn yw y cyfwng rhwng bodau ysbrydol,  
 A'r holl greaduriaid o anïan ddaearol ;  
 Y ddolen sy'n uno y ddaear â'r nefoedd,  
 Gan asio 'r byd isod â thrigfa Duw 'r lluoedd.

A Duw Ior a blanodd ardd lawn o hyfrydwch,  
 Lle rhoes y dyn cyntaf i fyw mewn dedwyddwch ;  
 Ei gorff ef a'i enaid, ill dau, yn anfarwol,  
 Gymhwyswyd i bara dros oesoedd tragwyddol.  
 Nid oedd, y pryd hwnw, na phecod na galar,  
 Na chlefyd, nac angeu, yn tramwy trwy 'r ddaear ;  
 Ond engyl gogoniant ganfyddid, heb orphwys,  
 Yn myned a dychwel trwy ddrysau paradwys ;  
 A dyn a'i Greawdwr mewn hedd gyfeillachent,  
 Dan wlith y boreuddydd trwy 'r ardd y cydrodient,  
 Ac nid oedd mellteniad gwedd wyneb Jehofah,  
 Yn peri na dychryn nac arswyd i Adda.

A rhag bod ein cyndad yn unig ei hunan,  
 Heb gymhwys ymgeledd i'w gael iddo 'n unman,  
 Yr Arglwydd gymerodd un asen oddiarno ;  
 A hon, mewn modd gwyrthïol, a wnaeth yn wraig iddo,

A hi oedd angyles a gem y byd isod,  
 Mor brydferth a seraff yn nhrigfa nef uchod ;  
 A delw ei phriod, a'i argraff oedd arni,  
 Ond yn ei phrydferthwch 'r oedd arno 'n rhagori.  
 Ei gwallt euraidd chwifai islaw ei hysgwyddau,  
 Fel pelydr haul gyntaf ar gwmwl y borau ;  
 A blodau gwlad gwynfyd oedd ar ei phryd hawddgar,  
 Tra rhodiai ardd Eden yn dduwies y ddaear.

A Duw a'u bendigodd, ill dau, gan ddywedyd,  
 "Amlhewch a ffrwythlonwch, gan lenwi daearfyd ;"  
 Ac iddynt y rhoddes oruchel awdurdod,  
 Ar fwystfil y ddaear, ar adar a physgod ;  
 A cheinion paradwys, a'i ffrwythlawn goedwigoedd,  
 Holl gynnyrch y sychdir, a chyfoeth y moroedd,  
 A rodde yn gyflawn i fod yn dreftadaeth,  
 Ar ddydd eu priodas, i ben y ddynoliaeth.  
 O'u hamgylch chwareuai bwystfilod y goedwig,  
 Yn waraidd, cyn newid eu hanian gyntefig ;  
 Y llew a'r dywalgi gydborent â'r ddafad,  
 Dan lwyni cysgodlawn, neu ar y ddôl wastad ;  
 A'r sarff oedd ddiniwed, a'r wiber heb wenwyn,  
 Na loesion marwolaeth yn mrathiad ei cholyn.  
 Oes euraidd dedwyddwch a wisgai 'r ddaeaeren,  
 Nes troes anufudd-dod ddynoliaeth o Eden.

A dwyfol ddoethineb, er dyddiau y cread,  
 A welir trwy 'r oesoedd, o hyd mewn gweithrediad,  
 Yn llywio a chynnal y faith greadigaeth,  
 Gan gyrhaedd pob sylwedd hyd derfyn bodoliaeth.  
 Y dydd a'r nos beunydd ddechwelant heb fethu,  
 A'u hystod i'r mynyd a ddirwyn i fynu ;  
 Eu ffordd trwy 'r wybrenau a edwyn y gwyntoedd,  
 Ac nid oes attalfa ar luon y nefoedd.  
 Yr haul yn ei yrfa arferol sy'n teithio,  
 A'r môr yn ddiorphwys yn llenwi a threio ;  
 A'r ddaear goronir â chnydau toreithiog,  
 I gynnal a meithrin ei theulu lliosog.  
 Gwahanol hinsoddau pob lledred o'r ddaear,  
 I gynnyrch gwahanol a gawsant eu darpar ;  
 A phob gwlad gymhwyswyd yn lle i'w thrigolion,  
 O'r rhewllyd begynau, hyd dir India ffrwythlon.  
 Dyffrynoedd bythddeiliog cyfandir maith Asia,  
 A'r llenyrch blodeuog y poethgylch wregysa,  
 Fel gerddi paradwys, â'u ceinion ardderchog,  
 Sy'n dadgan cywreinrwydd y llaw Hollalluog.  
 Ac yma doethineb yr Ior, a'i haelioni,  
 Fu 'n paentio rhos Saron, a gwisgo y lili,  
 A gwneyd i'r praff goedydd eu nodd gwerthfawr wyllo,  
 A ffrydiau 'r mynyddoedd dros dywod aur dreiglo.  
 O rew oesol *Greenland*, a'r hinsawdd ogleddol,  
 Hyd bellaf eithafion y gwledydd deheuol,

Y gwelir darpariaeth at ddynol anghenion,  
 Yn ffrwythau y ddaear, a chynnyrch yr eigion.  
 Y moroedd gyflenwant y diffyg i fynu,  
 Lle byddo 'r llym auaf heb baid yn teyrnasu ;  
 A meib y pegynau ddigonir â lluniaeth,  
 Gan gynnyrch afrifed o'r ddyfrllyd lywodraeth.  
 Trwy 'r anial tywodlyd ceir ffrwythlawn lanerchau,  
 Lle gorphwys ymdeithwyr blinedig eu camrau ;  
 A'r coedydd gynnyrchant i ddyn ddwfr a bara,  
 Lle na chaiff rhag syched a newyn un noddfa.

Rhoed trumau mynyddig ar gyrau 'r gwastadedd,  
 Fel cawri grymusol, rhwng gwledydd i orwedd ;  
 A gwisg o iâ oesol amgylchir eu penau,  
 A niwl a du gwmwl yw gwregys eu lwynau.  
 Y gw lithoedd a sugnant i lawr o'r ffurfafen,  
 A'r gwlaw a drysorir yn nghelloedd yr wybren ;  
 Ac yna yn ffrydiau i'r crinllyd ddyffrynoedd,  
 O'u dirgel lochesau, arllwysant y dyfroedd.  
 O honynt y tardda gorenwog afonydd,  
 Rhai dreiglant i wared a throellant trwy 'r meusydd ;  
 A'u glenydd amgylchir gan ffrwythlawn ddyffrynoedd,  
 A maethant o'u hamgylch holl gynnyrch y tiroedd.  
 Mewn poethion hinsoddau lle nad oes gwlawogydd,  
 Yn disgyn o'r wybren o'r tymmor bwygilydd,  
 Eu terfyn adawant ar brydiau penodol,  
 A throant y crasdir fel môr yn flyneddol,  
 A'r frodir ganfyddir ar ol iddynt dreio,  
 Mewn dillad paradwys yn hyfryd flodeuo.

Yr aur coeth, a'r arian, a'r gwerthfawr fetteloedd,  
 Dan gudd a ddirgelwyd yn nghreigiau'r mynyddoedd ;  
 A'u trysor ddadguddir i oesau olynol,  
 Fe 'i rhenir, heb wastraff, i lwythau 'r hil ddynol.  
 Gwythenau yr arian, yr alcan, a'r efydd,  
 A gerddant trwy 'r ddaear, llinellant y creigydd ;  
 A'r aur a wasgarwyd yn fychain ronynau  
 Yn nhywod afonydd, a llaid y mynyddau ;  
 A llafur dynolryw, a dyfais celfyddyd,  
 Fw ganfod a'i gasglu a gedwir yn ddiwyd.  
 Y perlau, addurnant goronau breninoedd,  
 A fegir gan bysgod afluniaidd y moroedd ;  
 Y saphir, yr onix, y jaspis, a'r topaz,  
 A'r amethyst gwerthfawr, sail feini 'r nef ddinas,  
 Gyhoeddant ddoethineb y Duw fu 'n eu llunio,  
 Yn nhir y paganiaid na chlywsant am dano.

Tymmorau y flwyddyn mewn amser priodol,  
 A phryd hau a medi, ddychwelant wrth reol ;  
 Daw 'r haul yn y gwanwyn o bellder y deau,  
 Ac esgyn yn raddol, gwasgara 'r cymylau ;

A'r ddaear a ddeffry o'i thrymgwsg gauafol,  
 Gan ddechreu ymbincio yn brydferth a siriol.  
 Y dydd a ymestyn, a cherbyd y ddunos,  
 Ar hynt trwy 'r äangder, yn hwy fydd yn aros;  
 Mewn gorchudd gwyrdd-ddeiliog ail wisgir y goedwig,  
 A dechreu yr adar ail ennyn eu miwsig ;  
 A'r eira ddiffana oddiar y ban lethrau,  
 Gan dyner awelon dattodir ei rwymau.  
 Cawodydd meithrinawl y meusydd adfywiant,  
 A'r blodau 'n flil myrddiwn o'r ddaear a darddant,  
 I gyfarch y flwyddyn yn lluoedd do'nt allan,  
 Mewn gwisgoedd amryliw o borphor ac arian,  
 A dawnsiant yn hoenus dan awel y borau,  
 Fel prydfferth wryfon, a'r gwllith ar eu gruddiau.  
 Y llysiau aneirif o'r ddaear a darddant,  
 A'r blodau mor brydferth mewn gwisgoedd gogoniant,  
 A ffurfiwyd i yfed yr awyr a'r gwllithoedd,  
 Trwy liaws afrifed o gywrain fân gelloedd ;  
 A'u gwreiddiau 'n ymestyn i'r llawr y'nt yn sugno  
 Y maeth a'r gwlybyroedd a darddant oddiyno ;  
 A'r haul, â'i wres tanbaid, eu nodd trwy gynhyrfu,  
 A yr ei ddylanwad i wneyd iddynt dyfu,  
 A bywyd dirgelaidd a gyrhaedd bob deilen,  
 O'r gwraidd yr ymloda hyd frigau y goeden.  
 Cynhyrfa holl anian trwy 'r ddaear a'r awyr,  
 A dirgel ddylanwad a weithia yn brysur,  
 Gan roddi ail fywyd i'r byd yn y gwanwyn ;  
 A gwneyd i droell amser o'r newydd ail gychwyn.

A'r haf ddaw i'w ddilyn mewn tegwch ysplenydd,  
 A gwisgir y ddaear yn fwy prydfferth beunydd ;  
 Cynhyrfa 'r byd ogylech â'i anadl tanbeidiol,  
 A natur a deimla ei rym adnewyddol.  
 Trwy 'r dyffryn y merchyg awelon y borau,  
 Cenadau y wawrddydd, pan egyr ei dorau ;  
 A'r wybren, heb gwmwl i guddio ei thegwch,  
 Na chwa annymunol i dori 'i thawelwch,  
 O'i 'stafell a dderbyn ymherawdwr goruchel  
 Y dydd, pan ymddengys uwch terfyn y gorwel,  
 Mewn aur gerbyd dysglaer, a chantau 'i olwynion  
 Yn lluchio 'u pelydrau dros wyneb yr eigion,  
 Yr esgyn i non-bwnc yr asur ffurfafen,  
 Gan dywallt tês goleu yn ddylif trwy 'r wybren.  
 Ei rymus ddylanwad a ddwg i berffeithrwydd  
 Holl gnydau y ddaear, a ffrwythau y coedydd ;  
 A'r tyner gorsenau trwy 'r meusydd a blygant  
 I'r llawr, a than lwythog fendithion ymgrymant ;  
 A Duw a gorona y gwledydd â llawnder,  
 A'i lwybrau trwy 'r ddaear ddyferant gan fraser.  
 A phan ddelo 'r tymmor mewn agwedd fygythiol  
 Ymlaen, gyda syohder a phoethwynt angerddol,

A'r nef oddiuchod yn troi fel ffwrn bresaidd,  
 A'r ddaear yn newid yn balmant haiarnaidd ;  
 Pan sycho 'r afonydd, pan drengo y blodau,  
 Pan losgir y meusydd, a glaswellt y bryniau,  
 A'r gwâr anifeiliaid yn ffoi i'r cysgodion,  
 Mewn syched angerddol, gan edrych yn bruddion,  
 Ymlusga du gwmwl drwy 'r wybren o'r deau,  
 Gordda yr huan â'i rymus belydrau ;  
 A sugna 'r gwlawogydd o'r môr i'r ffurfafen,  
 O'r lle y disgynant nes mwydo 'r ddaecaren.  
 A'r fellten trwy 'r duon gymylau ymwibia,  
 A'r daran trwy gronglwyd y nef a ymdreigla ;  
 A seiliau 'r bydysawd gan ddychryn a siglant,  
 Wrth glywed trwst cerbyd mawr Frenin Gogoniant!  
 A duon gymylau trwy 'r wybr yn cyfarfod  
 Ar edyn y gwyntoedd, ddechreuant ymddattod ;  
 A disgyn gwlawogydd i'r llawr yn gefallifoedd,  
 Ac egyr y terfysg ffenestri y nefoedd.  
 Adseinia 'r terfysgoedd trwy 'r oesol fynyddau,  
 Ar gopa 'r Eryri y syrth taranfoltau ;  
 A rhuthra 'r croch ddylif dros elltydd a chymoedd,  
 Gan noethi y creigiau, a boddi 'r dyffrynoedd.  
 Daw eilwaith dawelwch, a'r cynnwrf aiff heibio,  
 TARTH heintus yr wybren wasgarwyd i'w buro ;  
 A'r meusydd edwinent gan sychder a phoethwynt,  
 A'r olwg grynedig a phruddaidd oedd arnynt,  
 Yn awr a ganfyddir mewn gwedd adnewyddol,  
 A gwena y ddaear gan edrych yn ariol.

Wrth ini droi allan i'r gerddi blodeuog,  
 A gweled prydferthwch eu ceinion lliosog,  
 Canfyddir doethineb Duw Ior fu 'n addurno  
 Y blodau amryliw, yn gorwych ddysgleirio.  
 Pa beth yw cywreinwaith celfyddgar plant dynion,  
 A manwl gynlluniau eu penaf wehyddion,  
 Wrth gael eu cymharu â'r myrdd ryfeddodau  
 Yn ngwaith y Goruchaf yn ffurfiad y blodau !  
 Mae rhai yn eu diwyg o borphor breninol,  
 A rhai yn glaerwynion mewn addurn gwryryfol ;  
 Ceir eraill yn lliwiau yr enfys ysplenydd,  
 Neu degwch arianaidd amrantau 'r boreuddydd.  
 A phwyntel doethineb fu 'n tynu 'r llinellau,  
 Wrth ffurfio eu gwisgoedd yn llawn addurniadau ;  
 A gwllith y ffurfafen eneniwyd pob llygaid,  
 Wrth agor i gyfarch pelydrau 'r dydd canaid.  
 Pan drostynt y dawnsia yr hwyraidd awelon,  
 Per arogl eu hedyn a leinw 'r fro dirion ;  
 Nes troi y bras ddyffryn yn eilun o Wynfa,  
 Neu erddi 'r pêrlysiau, a gwigoedd Sabæa.

A phan ddaw 'r cynauaf, canfyddwn y fwyddyn  
 Yn dwyn i ni 'i rhoddion cyn dyfod i'w therfyn ;

Holl gynnyrch y gwanwyn a'r haf a addfedant,  
 A'u ffrwythau toreithiog y ddaear goronant.  
 A Duw rydd amlygrwydd i ddynion o'i gariad,  
 A'i ryfedd ddoethineb yn mhob cyfnewidiad.  
 Trwy dês y canolddydd ac oerni 'r nosweithiau,  
 Cyn daw y tymhestloedd, addfedir yr ydau.  
 A'r egin a welwyd yn nechreu y flwyddyn,  
 Mor dyner yr olwg, yn hulio y dyffryn ;  
 Gan lygaid yr Arglwydd a gawsant eu gwyllo,  
 Rhag dyfod llym oerwynt trwy 'r gwanwyn i'w deifio;  
 Y gwres, a'r gwlaw hefyd, fu 'n rhoi iddynt gynnydd,  
 Nes hulio â llawnder holl wyneb y meusydd,  
 A phlygant eu penau, yn barod i'r cryman,  
 Dan awel y boreu, a phelydr yr huan.  
 A phan fyddo 'r gweithwyr trwy 'r wlad oll yn brysur,  
 I mewn i'r 'sguboriau yn cludo eu llafur,  
 Yr haul wrth encilio, a'r lloer â'i phelydron,  
 Y dydd a'r nos wenant ar ymdrech plant dynion.

Yna daw 'r gauaf â'i oerion gorwyntoedd,  
 A'r nos hir i'w ddilyn, a brochus dymhestloedd ;  
 Y ddaear a orphwys yn rhwym o dan gloiau,  
 A'r wybren orchuddir â tharth a chymylau.  
 Cynhyrfa gwanegau yr eigion aflonydd,  
 A throstynt y treigla cerbydau 'r ystormydd ;  
 Ac iâ a gadwyna chwyrnrediad y dyfroedd,  
 A llen oer o eira orchuddia 'r dyffrinoedd.  
 Gollyngir y gwyntoedd yn rhydd o'u trysorau,  
 I ruthro 'n ffyrnigwyllt o'r dwyrain â'r deheu,  
 Gan dorchi maith oror yr heli chwyddedig,  
 A threiglaw ei donau fel trumau mynyddig.  
 Ymrua 'r dyfnderoedd fel myrdd o daranau,  
 A'u hewyn wreichionant yn lluwch i'r cymylau ;  
 A'r coedydd uchelfrig ddiwreiddir gan wyntoedd,  
 Pan ferchyg trwy 'r wybren eu grymus fyddinoedd.

Ond Duw sydd yn marchog y gorwyllt ryferthwy,  
 A'i air y gostega 'r dyfnderoedd rhuadwy ;  
 Llonydda â'i amnaid y dyfnor cynhyrfus,  
 A gostwng wanegau yr eigion cythryblus ;  
 A chasgl yn ei ddyrnau 'r crwydredig gorwyntoedd,  
 Gan adfer tawelwch trwy 'r ddaear a'r nefoedd.  
 A gemau serenog trwy 'r laswybr ymddengys,  
 Yn nysglaer addurniant eu tegwch conedus ;  
 A thrwy yr awyrgylch, mil fyrdd o ronynau  
 O lwydrew ganfyddir o amgylch yn chwarau ;  
 A phurdeb bywydol o honynt a wasgar  
 Y niwl a'r tarth heintus gyfodant o'r ddaear,  
 A natur a deimla ddyllanwad y tymmor  
 Yn cyrhaedd pob elfen, a threiddio pob goror ;



A'r ddaear adferir â nerth adnewyddol,  
I wisgo ail fywyd y flwyddyn ddyfodol.

Fel hyn mae holl natur yn uchel gyhoeddi  
Doethineb Duw 'r lluoedd, ac yn ei glodfori,  
Yn mhob cyfnewidiad trwy 'r ddaear a'r nefoedd,  
O'r ser yn eu graddau hyd loches y gwyntoedd.  
Bwystflod yr anial, ymlusgiaid ac adar,  
Y blodau a'r llysiau a darddant o'r ddaear,  
Fawrygant ei enw, datganant ei foliant,  
Lle nad oes bod dynol i daenu 'i ogoniant.  
Trwy ffyrdd dirgeledig, ac anhawdd eu dirnad,  
Y dwg i berffeithrwydd ei ddyben a'i fwriad ;  
Parhâ i ysgogi peiriannau 'r bydysawd,  
Trwy bob peth bywydol y gŷr ddirgel gyffrawd !  
Ac beunydd o'n hamgylch trwy pobpeth mae'n treiddio,  
A'i ddwyfol ddylanwad heb orphwys yn gweithio.  
Pan symud cwrs natur trwy gyfnewidiadau,  
O lawnder i brinder, o fywyd i angau,  
Ac yna 'n ol eilwaith i'r man y dechreuodd,  
Gan deithio 'n rheolaidd ei ffordd eilwaith drosodd,  
Pwy sydd nad all ganfod doethineb yn arwain,  
Pob tro a newidiad, mewn cylch sydd mor gywrain ?  
Y ddaear yw'mammaeth pob peth a fedd fywyd,  
Ac hefyd y beddrod lle maent yn dychwelyd ;  
Ei phrydferth ogoniant un tymmor edwina,  
A'r nesaf mor brydferth a chynt y dychwela.  
A bywyd dirgelaidd, ac enaid byw anian,  
I ni 'n anweledig, yw 'r Arglwydd ei hunan !  
A'r cyffro bywydawl fel trydan sy 'n cerdded,  
Meithderau 'r bydysawd i fyny ac i wared,  
Y nerthol ddylanwad rydd gynhwrf trwy 'r eigion,  
Gan daenu 'r cymylau, a chreu yr awelon,  
I'r haul yn oleuni, a greddf i'r bwystflod,  
A gwregys o arian trwy feithdra 'r nef uchod,  
Nid ynt ond arwyddion gweledig o'i Ysbryd  
Sy trwy 'r greadigaeth, o hyd yn ymsymud.  
Fy mywyd, fy neall, a'm nerth ddaw oddiwrtho,  
A'i lygaid a'm gwylia yn nghwsg ac yn effro ;  
A'i law yn y cyfnos mae 'n cau fy amrantau,  
Ac yn eu hagoryd ar wawriad y borau !  
A saethau marwolaeth dry draw rhag fy nharo,  
A'r haint sydd dan gysgod y dduos yn rhodio.  
Efe fu 'n cyfranu i'm holl anghenrheidiau,  
Pan oeddwn yn egwan yn sugno y bronau ;  
A chadwodd fy mywyd trwy ffyrdd o beryglon,  
Pan syrthiai o'm hamgylch fy hoffaf gyfeillion.  
Gan hyny, fy enaid, molianna ei enw,  
Boed hyn dy brif destun nes delo i'th alw ;

Ac yna cei ddechreu y gorchwyl o newydd,  
 Ar danau melusach yn ngwyddfod dy Arglwydd ;  
 Mewn gwlad uwchlaw gofid a marwol drallodion,  
 Ger bron yr orseddfainc ar ddysglaer fryn Sion.

Yr ail ran, yn cynnwys "Doethineb Duw yn ei lywodraeth foesol ar y byd, a'i ymddygiadau at yr hil ddynol," a gyhoeddir mewn rhifyn dyfodol.

---

## DAFYDD IONAWR.

[*Gwaith Dafydd Ionawr.* Dan olygiad y Parch. MORRIS WILLIAMS, M. A., Amlwch.]

Yn y dyddiau hyn o gyffrôad llênnyddol, pan y mae y wasg Gymreig yn fwy cynnyrchiol nag erioed,—pan y mae ein heisteddfodau wedi adgyfodi gyda nerth newydd, ac yn debyg o ateb dybenion daionus os parhânt i ddiwygio fel y maent wedi gwneuthur yn ddiweddar,—a phan y mae cyfansoddiadau barddonol yn ymddangos bob blwyddyn, y rhai ni fuasant yn annheilwng o'r beirdd enwocaf o amser Taliesin i lawr hyd Dewi Wyn ;— y mae yn rhaid i bawb addef nad oes y tebygolrwydd lleiaf fod yr iaith Gymraeg mewn perygl o farw yn fuan, nac ychwaith fod athrylith y Cymry wedi gwanhau. Gwyddom fod tuedd gyffredin mewn ysgrifenywyr i osod gormod o bwys ar yr hyn sydd yn dygwydd yn eu hoes hwy eu hunain, ac yn enwedig yn y cylch y maent hwy yn troi ynddo, pa un bynag ai da ai drwg a fyddo ; oblegid y mae yn naturiol i bawb feddwl eu bod hwy yn sefyll ar y rhan uchaf i'r ddaear, a bod eu gwrthdroedwyr yn gorfod cerdded â'u penau yn isaf : ac nid ydym yn hōni ein bod ni, mwy nag eraill, yn medru ymryddhau yn hollol oddiwrth effeithiau yr amgylchiadau yr ydym yn byw ynddynt. Ond yr ydym wedi ymdrechu, hyd y gallwn, i godi ein meddwl uwchlaw amser a lle ; a'n barn ddiuedd ydyw, fod y cyfnod hwn yn rhagori ar bob un a fu o'i flaen yn hanes y genedl, ac yn rhagarwyddo oes euraidd mewn llênnyddiaeth Gymreig. Yr ydym ar y ffordd i gyrhaedd gwir enwogrwydd ; ac os na orphwyswn ar yr hyn sydd genym, y mae lle i ddysgwyl na dderfydd am y Cymry heb iddynt wneyd rhywbeth y bydd y byd yn ei gyfrif yn werth ei gadw yn etifeddiaeth hyd byth. I'r perwyl hwn, y mae yn rhaid i olygwyr yr holl gyhoeddiadau cyfnodol ymosod o ddirif i godi archwaeth y wlad, a chadw gwell gwyl-iadwriaeth yn y cyflawniad o'u swydd, fel na roddont le i'r rhai sydd am fod yn awdwyr cyn dyagu ysgrifenu, ac am fod yn feirdd mor fuan ag y medront rifo eu bysedd. Y mae yn rhaid iddynt hefyd fod yn fwy ffyddlawn a dihoced yn eu hymddygiad at wir feibion yr awen, a dwyn ar gof iddynt hwythau yn aml fod ganddynt dir lawer eto i'w feddiannu. Oddiar y cyfryw deimlad, a chydâ'r cyfryw ddyben, y dymunem wneuthur ychydig sylwadau yn yr ysgrif hon o barth y beirdd yn gyffredinol, a Dafydd Ionawr yn neillduol ; ac os dywedwn fwy yn gyffredinol nag ar destun ein traethawd yn neillduol, ni fydd hyn am unwaith ond yr hyn a wneir yn yr holl gyhoeddiadau Seisnig yn barhaus.

Ar ol yr holl floeddio mewn eisteddfodau, yr holl ddadleu mewn papyr-  
 au, a'r holl foli ar ddoniau awenyddol y Cymry, a oes genym yn y diwedd

rai beirdd wedi cyrhaedd y fainc uchaf yn llenyddiaeth yr oesoedd? A oes genym gymaint ag un bardd yn haeddu ei gysdadlu am fynyd â Shakspeare neu Milton? Ynfyd fyddai y dyn a atebai yn gadarnhaol. Gellid dywedyd am dano ar unwaith ei fod, o ran ei farn a'i chwaeth, mewn cyfwr anobeithiol. Deuwn i lawr eto amryw risiau, nid mewn amser yn unig, ond hefyd mewn teilyngdod; a gofynwn, A oes genym ryw fardd yn yr iaith Gymraeg i'w ddangos yn ogyfuchwch a Wordsworth? Byddai yn dda genym pe gellid dywedyd fod; ac nid ydym yn ammheu na cheir rhai meddyliau mewn ychydig o feirdd Cymru mor odidog a dim yn holl farddoniaeth Wordsworth: er hyny pe dywedem eu bod ar y cyfan yn sefyll ar yr un tir ag ef, ofnwn y byddai hyny yn dangos mwy o gariad at ein gwlad nag at y gwirionedd. Beth yw Goronwy Owen a Dafydd Ionawr? Beirdd mawr yn ddiâu; ond nid digon mawr i'r lle hwn. Beth yw Dafydd Ddu a Dewi Wyn? Beirdd penigamp yw y ddau; ond nid hwn yw eu lle hwythau. Beth yw Thomas Edwards o'r Nant, yr hwn a elwir weithiau yn "*Welsh Shakspeare*?" "*Welsh Shakspeare*" yn wir! Rhodder pob parch dyledus i awen wreiddiol Thomas o'r Nant, ac nid ychydig sydd yn ddyledus iddo: ond rhy brin y gellir ei gymharu, ar dir cyfiawnder, i Burns, na Cowper, na Wordsworth, chwaithach i Shakspeare. Yr arferiad yma o gymeryd pob dyn o athrylith fel cynllun perffaith a wnaeth fwy i gadw y Cymry yn ol na dim arall. Gadwch i ni ddisgyn gris neu ddwy eto, a chwilio am fardd i'w osod ar gyfer Tennyson. Meddyliem ein bod yn awr yn agos at y marc. Fe allai y bydd rhai yn tybied fod gwladgarwch wedi ein dallu: ond nid ydym yn foddolawn i fyned yn is na hyn, doed a ddelo. Heb son am Goronwy fawr o Fon, a'r tri Dafydd a enwyd eisoes, y mae genym rai beirdd yn awr yn fyw, na raid iddynt gywilyddio eistedd yn lled agos at Tennyson, er ei fod yn *Poet Laureate*; ac, fe allai, y deuent mewn amser yn rhagorach nag ef, pe meddent yr un hamdden, a phe caent yr un cefnogaeth, i roddi eu holl enaid at y gwaith.

Y mae un fantais gan y beirdd Seisnig nad yw gan y Cymry, trwy fod cylch y darllenwyr coethedig gymaint yn eangach, a nifer y rhai sydd yn alluog i weled a gwerthfawrogi gwir fawredd o ganlyniad yn llawer lliosocach. Y mae yn ffaith am y gweithiau mwyaf mawr, heb un eithriad, a ymddangosodd yn Seisneg, pa un ai mewn iaith rydd ai mewn barddoniaeth, nad ydynt, ac nas gallant fod, yn boblogaidd yn mysygr anwybodus. Y mae yn wir y gall dynion gwir athrylithgar fod yn boblogaidd, megys John Bunyan a Defoe. Yr oedd ganddynt hwy athrylith mor wirioneddol a neb fu ar y ddaear erioed: ond nid oeddynt er hyny o ran mawredd meddwl yn perthyn i'r dosbarth uchaf; onidê, buasant yn llai poblogaidd. Yr hwn a fyno fod yn fardd poblogaidd, rhaid iddo roddi i fyny bob gobaith am fod yn fardd uchel. Dichon fod yr athrawiaeth hon yn newydd i lawer; ond nid yw oblegid hyny yn llai safadwy. Os oes ar neb eisieu prawf, bydded iddo roddi cyfleithiad teg a hawdd ei ddeall o'r darnau goreu yn Shakspeare, neu Milton, neu Goethe, a gofyned i ddyn anwybadus beth yw ei farn am danynt. Caiff glywed yn fuan nad yw y cwbl ond filoreg, neu rywbeth gwaeth. Neu aed i dai y bobl gyffredin yn Lloegr, ac edryched pa beth a ddarllenir ganddynt: ai "*Hamlet*" a "*Coll Gwynfa*;" neu ynte hanes rhyw lofruddiaeth ysgeler, ynghyd âg araeth y llofruddiwr ar y crogbren. Nid ar dlodi yr ydym yn beio, oblegid nid tlodi ynddo ei hun yw yr achos o hyn, ond diffyg meddwl coethedig. Y

mae rhai eithriadau anrhydeddus i'w cael ymhlith y tlodion o'r fath dlotaf. Nid yw ddim gwahaniaeth pa un ai tlawd ai cyfoethog, os dysgyblir y meddwl: ond y mae yn amlwg mai chwaeth lygredig, a barn anghywir, sydd hyd yn hyn, ac a fydd am ryw amser eto, gan y nifer mwyaf yn Lloegr a Chymru. Y mae llais y lliaws yn burion yn ei le, ac yn nes i'w le ar lawer o faterion na llais eu llywodraethwyr; ond pan ddygir eu barn ymlaen mewn cysylltiad â llên yddiaeth, fel pe byddent yn meddu cymhwys-derau gwyrthiol i roddi deddfryd ar bob achos heb gymeryd trafferth i'w ddeall, yna y mae yn rhaid i ni ddywedyd yn ngeiriau Dr. Johnson, "*My dear sir, clear your mind of cant.*" Na, y mae yn rhaid i'r meddyliau mwyaf yn mhob oes ymfoddloni ar "*audience fit, though few.*" Y mae yn rhaid iddynt gyfeirio eu hunain at yr *ychedig*, a gadael i eraill fod yn *fân-werthwyr i'r lliaws*. Ac os hyn yw cyflwr y beirdd mwyaf yn Lloegr, pa faint mwy anhawdd yw i neb goleddu y meddwl am fod yn fardd o'r fath oreu yn Nghymru! Heblaw yr athrylith anghenrheidiol, y mae yn rhaid iddo feddu ar yni a hunanymwadiad digyffelyb. Y mae yn rhaid iddo roddi ei holl fryd—oblegid ni wna neb waith mawr heb roddi ei holl fryd at hyny—i gyflawni gorchwyl, yr hwn nad yw yn debyg o ddyfod dan sylw neb byth ond y Cymry, a'r hwn y bydd naw o bob deg o honynt hwythau, un ai yn rhy ddfater i'w ddarllen, neu yn analluog i wled ei werth er ei ddarllen; a hyny pan y gallasai gyda llawer llai o drafferth gyfansoddi rhigymau a fuasent yn fwy derbynol i'r cyffredin, ac yn fwy ennillfawr iddo yntau.

Er hyny, na lwfrhaed ac na ddigaloned y beirdd Cymreig. Y rhai sydd yn arwain yr ychedig yw y rhai sydd mewn gwirionedd yn arwain y byd i gyd. Ac os yw eu hanfanteision hwy yn nhalaeth fechan Cymru yn fwy na chyffredin, nid ydynt yn anorfod. Lle y byddo awen bur, hi a ddaw allan trwy bob rhwystrau, ac a wna ei hol hefyd ar feddyliau dynion. Y rhai a lafuriasant trwy fwyaf o anhawsderau yw y rhai a wnaethant fwyaf yn mhob oes, a'r rhai a fethasant yn ol pob ymddangosiad ar y pryd, yw y rhai a fu yn fwyaf llwyddiannus. Nid ydym yn deall fod beirdd llawer rhagorach *yn awr yn fyny* mewn un rhan o'r byd nag sydd yn Nghymru. Ond dymunol fyddai iddynt edrych ar ryw nôd uwch na bod yn feirdd goreu yn Nghymru, nac yn yr holl fyd yn y dyddiau anianyddol hyn. Bydded iddynt gadw eu golwg ar gedyrn yr hen oesoedd, y rhai y mae llifeiriant amser wedi methu eu hysgubo ymaith na 'u gorchuddio. Ond nid ydym am eu cymhell i'w dilyn hwythau yn gaethwasaid; oblegid ni ddaeth neb erioed yn fawr mewn dim wrth ddynwared dyn mawr. Peth rhyfedd na welai y beirdd ieuainc y pwnc yma; ac nid hwy yn unig, ond y pregethwyr ieuainc hefyd. Y mae y ffaith fod rhyw neillduolrwydd dullwedd yn perthyn i ryw ddyn mawr yn ddigon o brawf nad yw rhyw un arall sydd yn dangos dullwedd cyffelyb ddim yn ddyn mawr. Ond y rhai mwyaf oll yw y rhai sydd yn fwyaf rhydd oddiwrth bob neillduolrwydd, y rhai sydd wedi cyrhaedd agosaf at yr hyn yw dyn yn syml—nid y fath yma neu y fath arall o ddyn, ond dyn. Perfeithrwydd dullwedd mewn gwsg, mewn ymddyddan, mewn ymddygiad yn y cylch cymdeithasol, mewn areithyddiaeth, neu mewn cyfansoddiad, ydyw fod y dullwedd yn peidio tynu sylw. Dyma un achos fod yr ysgrifenywyr mwyaf yn llai derbynol gan y werin: ond o gymaint a hyny y maent yn fwy diogel i'w dilyn. Heblaw eu bod yn gosod nôd digon uchel o'n blaen i gyrechu ato, nid ydynt mor debyg o

dynu y meddwl at ryw hynodion o'r eiddynt hwy eu hunain, oddiwrth yr hanfodion sy'n perthyn i wir farddoniaeth yn mhob oes a gwlad. I'r graddau y bydd y dysgybl yn feddiannol ar y rhai hyn, y mae yn deilwng o gael ei alw yn fardd. Er iddo ddynewared hwn ac arall yn y modd mwyaf campus, er iddo roddi y cydseiniad i gleician yn erbyn eu gilydd mor gywrain a neb erioed er pan adeiladwyd tŵr Babel, er iddo argraffu ei waith, a chael eraill i'w ganmawl, er iddo fod yn "fardd wrth fraint a defawd beirdd ynys Prydain," ni fydd byth yn fardd wrth fraint a defawd yr Awen nes iddo gael gafael yn yr hanfodion. Fel cynnorthwy i'r dysgybl ieuanc, ni a geisiwn ymofyn yn fŷr pa bethau sydd yn hanfodol i farddoniaeth, ac i ba raddau y mae y pethau hyny yn feddiannol gan feirdd Cymru, yn enwedig gan Dafydd Ionawr.

Yr elfen gyntaf sydd yn anheggorol mewn barddoniaeth yw *bywyd*. Dyma sydd yn gwneyd caniadau Homer mor swynol: nid oes ynddynt ond ychydig o'r hyn a feddylir yn y dyddiau hyn wrth y gair "arddunawl;" ond y maent oll yn llawn bywyd. Yn yr ystyr y deallid y gair gan Longinus, y maent yn dra arddunawl, oblegid y maent yn cynhyrfu ac yn tanio y meddwl wrth eu darllen. Ni fu neb yn meddu mwy o'r elfen hon na Williams, Pant-y-celyn. Hyn a barodd i hen bererin ddywedyd unwaith yn ein clywedigaeth, fod emynau Williams fel y *marbles*, pan y mae llawer o emynau eraill, mwy rheolaidd, yn disgyn fel tameidiau o glai. Nis gwyddom pa gyfrif i'w roddi am y bywyd hwn yn enaid y bardd ymhellach na'i fod yn deimlad cryfach na chyffredin—teimlad o brydfyrthwech anian, teimlad sydd yn myned i mewn i helynt dynoliaeth, yn ei mawredd a'i thrueni, ei llawenydd a'i galar, ei chariad a'i chas, ei daioni a'i drygioni. Yr oedd llawer o faen Dewi Wyn wedi gweled y dyn tlawd yn

"Dwyn ei geiniog dan gwynaw,  
Rhoi anghen un rhwng y naw."

Ond fe deimlodd Dewi wrth ei weled, nes y rheddodd ei deimlad allan yn ffrwd angerddol o farddoniaeth mor nerthol a dim yn yr iaith Gymraeg. Os bydd dyn yn meddu "llygad i weled anian, calon i deimlo anian, a dewrder i gydfyned âg anian," y mae yn rhwym o fod i ryw fesur yn fardd, pa un a fydd ef ei hun yn deall hyny ai peidio. Beth all fod yn fwy naturiol na'r ddau ddyfyniad a ganlyn o "Gywydd y Diluw," gan Dafydd Ionawr? Nid ydynt ond darluniad dysymll o anian; ac eto y maent yn berffaith farddonol. Yn y cyntaf, y mae yn dangos yr olwg oedd ar y byd cyn i'r dyfroedd orphen treio.

"Yn diriawn wedi araf,  
Drwy ffydd, ddeugain nydd a nos,  
I'r moroedd o rym marwol  
Dreio 'n lân weithian yn ol,  
Agorodd Noa 'n gywrain  
Ffenestr fad y caud cain:  
I Noa, fwynaf enaid,  
Golwg yn llawn gwg a gaid;  
Tra thew y nofodd tarth hyll  
A duoc drwy'r wybr dywyll;

Hyll nifwl drwy'r holl nefoedd,  
Terfysgawg, bygythiawg oedd;  
Haul agwrdd ar lewygu  
Yn dystaw deithiaw mewn du:  
Y lloer dynner a'r ser sydd,  
Lu gwelwon, fal eu gilydd,  
Yn liwyr brudd, dan gudd yn gaeth,  
Yn wylaw mewn dwnf alaeth.  
Un wyneb drwy'r ddu nennawr  
I ddydd a nos oedd yn awr.

Tra gwahanol, ond nid llai naturiol, yw y dyfyniad a ganlyn:—

"Dysgwylodd am dês golau  
Yn eurdda hin i'w ryddhau:

Am nwyfus drum y nefoedd  
Y gwr cu, hiræthu 'r oedd.

I Noa, oedd lawn awydd  
Ymado, a rhodio 'n rhydd,  
Calan yn ddyddan a ddaeth  
A dedwydd ryddid odiaeth :  
Y caudad mad gymudodd,  
Rhan o honaw draw e drodd ;  
Fe welodd y nef wiwlon,  
A'r haul yn uchelder hon ;

Gwenu 'r oedd y nef geinwawr  
Yn ei phrydferth nerth yn awr ;  
Dacar anwyl dirionwych  
O'i gwmpas yn werddlas wych :  
Blwyddyn newydd ddedwydd dda,  
A newydd fyd i Noa !"

Cymerer y disgrifiad a ganlyn eto o fachludiad yr haul yn nechreu y  
"Barddoniaeth Cristionogol :"—

"Adda a'i wraig ddiwair wên,  
Y'nghoedwig eang Eden,  
Ar ael glasfryn areulwawr  
Safasant; mewn mwyniant mawr  
Gwelent yr huan gwilwys  
Drwy nifwl dyfnddwl a dwys ;  
Drwy ddwl nifwl y ncofoedd  
Yn geinwawr iawn gwenu 'r oedd :  
Ymlont, gwelent yn gwau  
Lawer o ddysglaer liwiau,  
Y porphor a'r aur perffaith  
Am gyrau 'r cymylau maith.  
Mynydd mawr is heulwawr sydd,  
Wych olwg, llawn uchelwydd ;  
Cyn mud, cyn cain ymadael,  
Y wyneblan huan hael

Saethodd hydr belydr uwch ben  
Fwyfwy, drwy 'r las ffurafalen,  
A'r caerawg belydr cywraïn  
Yn fyw i gyd drwy nef gain :  
Goleuodd ei gu lewyrch  
Ardd Eden a'r wybren wych ;  
Hir bu 'n gwych edrych o'i ol  
A seirïan olwg siiriol :  
Yn raddol hoff wawl a fodd,  
E felynwawr ddfïanodd ;  
Yn llwyr o'r awyr yr aeth  
Yr haul dros y môr helaeth,  
A'i loywdes hafwres hyfryd,  
O'i ddeutu 'n gwenu i gyd."

Dygasom yr anghreiffïau hyn ymlaen i ddangos fel y mae dyn yn  
myned yn fardd wrth deimlo yr hyn sy'n weledig i bawb. Ond dylem  
sylwi hefyd fod teimlad cryf yn ei alluogi ef i weled mwy nag eraill.  
Dichon fod y rhan fwyaf wedi profi hyn i ryw raddau yn achlysurol ; ac  
i'r graddau hynny yr oeddynt ar y cyfryw amserau o ran teimlad yn feirdd.  
Gallwn dybied nad oes ond ychydig na wyddant am ryw deimladau sydd  
yn agor byd newydd o flaen eu meddwl, pan y maent yn cael eu gorlenwi  
â hyfrydwch wrth edrych o'u hamgylch, a gwrandaw ar fwsig y greadig-  
aeth, pan y maent yn teimlo fod pob peth yn cynnwys rhyw ddirgelwch  
mwy nag a welir â llygad y corff, a mwy nag a fedr athroniaeth ei esbonio ;  
pan y maent yn teimlo yn arbenig fod dyn yn rhywbeth mwy na pheiriant,  
a bod rhyw lais ato ef yn mhob deilen a blodeuyn. Y mae yn wir fod  
Wordsworth yn dyweyd am Peter Bell, ei fod, wrth edrych ar y briallu ar  
lân yr afon, yn gweled briallu melyn, *a dim ond hynny*.

"The primrose by the river's brim,  
A yellow primrose was to him,  
And it was nothing more."

Ond yr oedd hyn cyniddo gael ei ddeffro i deimlo. Wedi i'r corff marw hwnw  
yn y dwfr gyffwrdd â'i galon, y mae o hynny allan yn gweled ac yn clywed  
pethau nad oedd o'r blaen wedi breuddwydio am danynt. "Nid oes neb,"  
meddau yn ysgrifenydd, "yn gweled mwy mewn gwrthddrych nag y mae efe  
ei hun yn ei ddwyn gydag ef at y gwrthddrych." I'r graddau y byddo  
dyn yn meddu calon gydnaws, a chwaeth bur, a chydymdeimlad dwfn,  
ynddo ef ei hun, i'r graddau hynny y mae yn alluog i ddeall pob byw a  
bod. Ond dylai y bardd fod yn meddu teimlad cryfach na chyffredin,  
oblegid y mae efe wrth ei swydd i roddi iaith i holl deimladau y natur  
ddynol, ac fel offeiriad i gyflwyno mawl y greadigaeth i'w Chreawdwr.

Edryched ef na fyddo efe ei hun yn halogedig wrth wneuthur hyny. Os yw yn deilwng o gael ei alw yn fardd, dylai parch i'r hyn sydd fawr, a chariad at yr hyn sydd brydferth, fod yn ei galon ef yn anad neb; yna bydd yn medru cymdeithasu âg ysbryd dynoliaeth, a dirnad lleferydd y greadigaeth; bydd yn gweled pethau pell yn agos, ac yn gweled yn y pethau agosaf ryw arwyddocâd ac ardderchawgrwydd nad yw y cyffredin yn meddwl am danynt. Gellir cymeryd y dyfyniad cyntaf a roddwyd o waith Dafydd Ionawr fel anghraifft. Ni fuasai dyn cyffredin wrth edrych ar yr olygfa a ddarlunir gan y bardd yn gweled dim ond yr haul yn llwyd ei wedd; ond yr oedd athrylith farddonol yn ei weled *ar lowygu*. Ni fuasai llygad y corff yn gweled y lloer a'r ser o gwbl, oblegid yr oeddynt "dan gudd;" ac nid yw y bardd yn eu dwyn i'r golwg, oblegid buasai hyny yn groes i natur; ond y mae yn eu gweled, er eu bod dan gudd, "yn wylaw mewn dwfn alaeth." A phrin y gallasai yntau eu gweled ar yr un pryd a'r haul, oni buasai mai

"Un wyneb drwy'r ddu nennaw  
I ddydd a nos oedd yn awr."

Yn "Nghywydd y Farn," y mae Goronwy Owain yn darlunio dychryn y diafol ar ddyfodiad Mab y Dyn yn y dydd olaf. Buasai meddwl heb ddim awen yn alluog i weled y diafol yn ceisio dianc o'r golwg, a llechu yn nyfnderoedd uffern; ond y mae y bardd yn ei weled yn *cydfod* â'i garchar, ac yn *caru* aros yno.

"Cydfydd y fall â'i gallawr,  
Câr lechu yn y fagddu fawr."

Dwy linell Filtonaidd yw y rhai hyn: pe buasai Goronwy yn ysgrifenu fel hyn o hyd, buasai yn un o'r prif-feirdd, nid yn Nghymru yn unig, ond yn yr holl fyd. Yr ydym yn cofio fod "Iwan," yr hwn a barodd gryn gyffro yn y "Seren Gomer," unwaith yn amser Joseph Harris, yn beirniadu ar y ddwy linell hyny yn "Nghywydd y Farn,"

"Syrth nifer y ser, arw son  
Drwy'r wagwybr draw i'r eigion."

Os nad ydym yn camgofio, yr oedd yn collfarnu y gair "draw," yn y llinell olaf, fel gair afreidiol. Dyma un prawf o'r perygl i wŷr dysgedig mewn gwaed oer, fyned i farnu gwaith a gyfansoddwyd yn ngrym cynhyrfiad awenyddol. Nid darlunio yr hyn a glywodd y mae y bardd; nac ychwaith yr hyn y mae yn ei weled o bell. Y mae ei deimlad barddonol yn ei godi mor uchel nes y mae yn gweled y cwbl yn eglur, ac yn cyfeirio ato "draw" â'i fys i'w ddangos i ninnau. Er hyny, mwy syml a mwy ardderchog yw y meddylddrych gwreiddiol fel y mae ar lawr yn llyfr y Dadguddiad. Gall y ser fod yn fydoedd mawrion a nerthol, er iddynt syrthio ar draws eu gilydd i'r eigion. Ond y mae Ioan yn eu gweled yn syrthio mor ddirym a ffigys yn cael eu hysgwyd gan wynt, ac yn gweled llen y ffurfafen yn cael ei dyrwyn i fyny mewn amrantiad, fel rhol ysgrifenedig ar ol gorphen ei darllen. "A ser y nef a syrthiasant ar y ddaear fel y mae y ffigysbren yn bwrw ei ffigys gleision pan eu hysgydwer gan wynt mawr. A'r nef a aeth heibio fel llyfr wedi ei blygu ynghyd."

Y mae pob bywyd yn gwneyd cyfnewidiad ar yr hyn a ddaw o fewn ei ddylanwad. Y mae yn tynu o bob peth yr hyn sydd yn gydnaws â'i ansawdd, ac yn ei uno âg ef ei hun. Gellir rhoddi trysorau i gadw mewn

blwch; ond nid ydynt drwy hyny yn cael eu newid, ac yn myned yn rhan o'r blwch. Rhagoriaeth bywyd yw ei allu i gyfranu ei hun i'r defnyddiau a ddaw o fewn ei gyrhaedd, a'u tebygoli iddo ei hun. Felly y mae teimlad barddonol yn tynu cyffelybiaethau o bob elfen, ac oddiwrth bob gwrth-ddrych a fyddo yn debyg o ateb ei ddyben, yn y nefoedd uchod neu ar y ddaear isod; ond yn lle eu gadael yn gyffelybiaethau meirwon, y mae yn cyfranu ei fywyd ei hun iddynt hwythau; ac i'r graddau y bydd y teimlad barddonol yn meddwl y bardd ar y pryd, ac i'r graddau hefyd y bydd y gyffelybiaeth yn cyfateb i ansawdd y teimlad hwnw, i'r graddau hyny y bydd y gyffelybiaeth yn colli ei nodwedd fel cyffelybiaeth. Y mae yr egwyddor o fywyd awenyddol sydd yn meddwl y bardd yn troi y cwbl i'w ddelw ei hun, ac yn ei wneyd yn rhan hanfodol o hono ei hun. Nid oes dim barddoniaeth mewn dyweyd fod y ser yn debyg i lusernau; ond pan ddywedir eu bod hwy eu hunain yn llusernau y nef, y mae yn rwy wreichionen fechan o farddoniaeth. Addefwn fod yn iawn i'r bardd ddefnyddio cyffelybiaethau, oblegid nis gall y teimlad weithredu o hyd yn ei lawn rym. Y mae yn rhaid iddo roddi gorphwysdra weithiau i'w awen ei hun ac i feddwl y darlennydd. Addefwn hefyd fod rhai cyffelybiaethau yn wir farddonol: ond y mae y rhai hyny bob amser yn cynnwys rhywbeth mwy na chyffelybiaeth. Y maent nid yn unig yn dangos tebygolrwydd, ond yn tafu mawredd neu brydferthwch ar y meddylddrych. Y mae hefyd i'w ystyried fod gwahanol diriogaethau y meddwl yn rhedeg i'w gilydd, fel nas gellir penderfynu yn fanwl pa le y mae y naill yn diweddu a'r llall yn dechreu. Ond *nod anghen* bardd yw y gallu i *uno*. Dichon iddo fod, a dylai fod hefyd, ar rai amserau yn ymfoddloni i edrych ar y gyffelybiaeth oddi draw, ac yn ymloni yn yr olwg arni, fel y llew gyda'i ysglyfaeth; a dylai adael llawer un i aros yn ei chyflwr cyffelybiaethol; ond pan ymgynhyrfo y gallu bywydol o'i fewn, y mae yn rhaid iddo ei chael yn rhan o hono ei hun. Gyda golwg ar y rhagoriaeth hwn y mae amryw o feirdd Cymru yn sefyll yn uwch na Dafydd Ionawr. Er hyny ni fyddai yn anhawdd cael lliaws o anghreiffitiai i'r perwyl yn ei weithiau yntau. Fe allai mai y ffordd fwyaf addysgiadol fyddai cymeryd yr un sydd wedi bod dan ein sylw ddwywaith yn barod, fel y gwelo y dysgybl ieuanc, er mwyn yr hwn yn benaf yr ydym yn ysgrifenu hyn o sylwadau, fod mwy mewn llawer desgriafiad dysymml nag a ellir dybied ar yr olwg gyntaf. Y mae agwedd yr haul yn peri i'r bardd feddwl am ddyn ymron llewygu. Yn awr, pe buasai yn dyweyd fod yr haul yn ymddangos fel dyn ar lewygu, buasai y gyffelybiaeth yn aros, ond buasai y farddoniaeth yn cael ei cholli, neu o leiaf buasai yn hynod o wan. Ond yn lle hyny, y mae yn uno yr haul a'r dyn a'u gilydd, nes y maent yn un gwrthddrych, trwy ddyweyd fod yr haul ei hun ar lewygu. Neu mewn geiriau eraill, yn lle dal yr "haul agwrdd," a dyn ar lewygu, y naill ar gyfer y llall, y mae yn cymeryd y tebygolrwydd sydd mewn dyn yn yr amgylehiad hwnw, ac yn ei wisgo am yr haul. Ond yn y Bibl y ceir yr anghreiffitiau goreu ar y mater hwn eto. Fel un allan o lawer, cymerer y darluniad o'r march yn llyfr Job. Y mae Goronwy Owain wedi ei fenthycu; ond y mae wedi gwanhau y meddylddrych trwy wahanu y gyffelybiaeth oddiwrth ei gwrthddrych.

"A'i wddf anwar fal taran,  
A'i ffoenau dig fal ffrwn dân."

Ond llesgach fyth yw y cyfeithiad yn y Bibl Cymraeg, "A addysgaist



iddo weryru?" Y mae y Seisneg yn gywir, "*Hast thou clothed his neck with thunder?*" Nid ei wddf yn debyg i daran a ddangosir; ond y daran a gwddf y march wedi eu huno yn un meddylddrych. "A wisgaist ti ei wddf ef â tharan?" Drachefn, nid ffwrn dân, na thebyg i ffwrn, yw ei ffroenau, ond rhywbeth mwy dychrynlyd; ac nid dychrynlyd yn unig, fely mae yn y cyfieithiad Seisneg, ond dychryn ei hunan wedi ei bersonoli. "Dychryn ydyw ardderohawgrwydd ei ffroen ef." A thrachefn, ymhellach ymlaen, "Efe a lwnc y ddaear;" nid y mae fel un yn ceisio ei llyncu; ond "efe a lwnc y ddaear gan greulondeb a chynddaredd."

Ond wrth adael y dull cyffredin o draethu ei feddwl, ac wrth ymdrechgu i fod yn awenyddol, nid oes modd i'r bardd ieuanc fod yn rhy ochelgar rhag myned i eithafion. Os yw am anturio ymhell oddiwrth y lân, mwyaf i gyd yw yr anghenrheidrwydd iddo forio wrth reol. Y mae hyn wedi ei argraffu ar farddoniaeth pob cenedl yn yr arferiad o osod rheolau caethach mewn rhyw ddull neu gilydd i'r bardd nag i'r sawl a fyddo yn ysgrifenu mewn iaith rydd. Ai nid yw rheolau y Cymry yn rhy gaeth sydd bwnc arall. Ond y mae fod rhyw reolau yn arferedig yn mhob gwlad yn arwydd gweledig oddiallan o'r gwirionedd pwysfawr, nad oes dim rhyddid i fod ar wahan oddiwrth rwymau, a bod nerth a chyflymdra mwy na chyffredin yn gofyn rheolau manylach na chyffredin. Nid yw yn debyg y llwyddir byth i wneyd i'r agerdd-gerbyd fyned yn ddiberygl ar hyd y ffordd fawr. Pan geisiasant hyny yn agos i Birmingham dro yn ol, prin y cychwynwyd y cerbyd nad oedd yn taraw fel hwrdd-beiriant yn erbyn un o'r tai oedd wrth ochr y ffordd. Neu os mwy addas fyddai cymharu y ddawn awenyddol i delyn fwyn felyslais, dylid gofalu rhag, wrth geisio ei chwareu yn zhy nerthol, i'r tannau gael eu dryllio. Nid bywyd yw pob bywiogrwydd, nid grym yw pob egni, ac nid barddoniaeth yw pob peth anghyffredin. Y rheol anfaeledig yw, "cydfyned ág anian;" oblegid pa beth bynag sydd annaturiol, y mae hefyd yn anawenyddol. Dylai cefnllif cryfaf yr awen ymgadw o fewn y terfynau a osodwyd iddi gan ddeddfau anian. Y mae yn wir fod y lardd, fel y dywedwyd, yn medru esgyn uwchlaw cyffelybiaethau, trwy gymeryd rhyw ansawdd o eiddo y gyffelybiaeth, a'i gymhwyso yn ddiogyfrwng at y gwrthddrych a ddarlunir; ond nis gellir cael ansawdd i'w gymhwyso heb fod yno ryw gyffelybrwydd i ddechreu. Barddonol i'r graddau uchaf yw y dywediad fod y march yn llyncu y ddaear, oblegid y mae cyffelybrwydd yn wreiddyn iddo; ond annaturiol, ac am hyny anawenyddol, fyddai son am iddo llyncu y lleuad. Yn y pwnc hwn y mae William Wynne yn ddiffygiol. Y mae yn dangos mwy o egni, ond llai o rym, na Goronwy Owain; mwy o drydaniaeth, ond llai o oleuni a gwres. Er anghraifft, pan y mae yn dywedyd fod yr haul yn hollti "yn friwsion o'i fro asur," yr ydym yn gorfod teimlo fod yma ryw ymdrech annaturiol. Gyda phob parch i Dewi Wyn, nis gallwn lai na meddwl ei fod yntau yn euog o'r bai hwn mewn ychydig fanau. Ond nid oes dim o hyn yn perthyn i Dafydd Ionawr. Ei berygl mwyaf ef oedd bod yn rhy farwaidd; ac nis gellir gwadu ei fod felly weithiau mewn gwirionedd. Ar yr un pryd, os ydyw ambell waith yn rhy ddigynhwrff, ac os anfynych y mae yn dangos nerthoedd anarferol, dylem gofio mai nid marweidd-dra yw pob tawelwch, a bod cysondeb o feddyliau da yn myned mor bell, os nid ymhellach, i brofi dyn mawr, ag ychydig o feddyliau mwy godidog.

Ond y mae geuym un peth i'w enwi eto, sydd yn hanfodol i fardd uchel, 1851.]

sef *crebwyll*. Dyma gymhwysder nad oes ond ychydig o feirdd Cymru wedi ei gyrhaedd, ac nad oes ond ychydig o ddarlennwyr yn alluog i'w amgyffred. Er hyny, os nad ydym yn camsynied, y mae mwy o ymestyniad ato i'w weled er yn ddiweddar nag a fu; a gobeithiwn nad yw hyn ond gwawr o gyfnod gwell. Nid llawer o hono oedd gan Dafydd Ionawr. Yr oedd yn medru rhoddi darluniadau trefnus o'r dygwyddiadau y sonir am danynt yn y Bibl, ac yn "Ngholl Gwynfa," ynghyd â sylwadau buddiol o'i eiddo ei hun; ond nid gallu cryf oedd ganddo i greu. "Crebwyll," medd y "Barddas," "a elwir felly am waith awen yn creu pethau a fydd iddynt hanfod a dygwydd, herwydd ansawdd anian a phwyll, cyd na bo iddynt hanfod o ddir a gorfod." Hyny yw, y mae yn rhaid i'r crebwyll ddilyn anian; oblegid nid yw yn perthyn i'r bardd, na neb arall, ffurfio deddfau newyddion na newid yr un o'r hen ddeddfau; ond o fewn y terfynau hyn y mae ganddo ryw fath o allu i greu. Er nad yw yn medru creu deddfau, y mae yn creu bydoedd newyddion. Mewn ychydig feddyliau er dechreu amser y bu y gallu hwn yn nerthol weithio. Dyma ymherawdwr y byd; oblegid ymherawdwr, medd Dr. Pughe, yw *rhai yn achori o honynt eu hunain*; ac y mae cymaint o bellder rhwng y beirdd cyffredin a'r dynion mawrion hyn, ag sydd rhwng y creaduriaid bychain anweledig sydd yn gwau trwy eu gilydd yn y dyferyn dwf a'r morfil sydd yn chwareu yn y cefnfor. Eu helyntion bychain eu hunain yn dragywydd sydd gan rai beirdd, neu rai a alwant eu hunain yn feirdd. Y mae yn rhaid iddynt hwy gael ymrithio i'r golwg yn mhob peth a ysgrifenant. Nid yw eu holl gyfansoddiadau ddim yn amgen na hwy eu hunain mewn gwahanol wisgoedd. Y gwaith uchaf y mae eraill yn amcanu ato yw molli eu cyd-ddynion, a chofnodi ffeithiau hanesyddol. Ni fynem ddywedyd dim yn ddiystyrlyd am unrhyw fynegiad diragrith o deimlad, nac unrhyw beth sydd yn ffaith, pa mor isel bynag y byddo. Rhodd werthfawr yw medr i ddarlunio, pe na b'ai yn cyrhaedd yn uwch na ni ein hunain a'r pethau sydd o'n hamgylch. Ond gellir meddu y ddawn hon yn helaeth heb un wreichionen o grebwyll. Y mae crebwyll yn esgyn uwchlaw pob teimladau personol, ac uwchlaw pob gwrthddrychau neillduol sydd mewn bod, i dir gwirionedd cyffredinol. Y mae yn myned trwy yr ymddangosiadau allanol yn eu gwahanol ddulliau i gymdeithasu âg enaid dynoliaeth. Y mae yn myned heibio i bethau prydferth i edrych ar brydferthwch ei hun yn ddigyfrwng a digymysg. Y mae yn codi dyn mor uchel nes y mae yn colli golwg ar bob gwahaniaeth dibwys, ac yn gweled y cwbl yn eu perthynas â'u gilydd fel un cyfanswm. Y mae llawer wedi sylwi fod rheswm yn anmheronol; ac y mae rhai wedi sylwi fod crebwyll yn anmheronol: ond nid ydym yn cofio fod neb wedi eu dwyn at eu gilydd i ddangos y tebygolrwydd sydd rhyngddynt yn yr ystyr yma. Y mae y naill fel y llall yn codi y meddwl uwchlaw gwrthddrychau y synwrau. Y mae y naill fel y llall yn ei ddyrchafu uwchlaw pob syniadau a theimladau personol, i ymwneyd â deddfau cyffredinol. Ond gwaith y rheswm, yn benaf, yw cael allan y deddfau hyny; a gwaith y crebwyll yw eu cymhwyso i ffurfio bydoedd newyddion. I'r graddau y byddo y bardd yn deall ac yn teimlo y deddfau hyn, i'r graddau hyny y bydd ei greadigaeth yn drefnus. Nid pentwr o ddychymygion "afuniadd a gwag" a foddlon a crebwyll; ond bydoedd yn llawn o brydferthwch a bywyd. Yr oedd tuedd farddonol y Groegiaid yn peri iddynt boblogi pob mynydd a choed-

wig, pob afon a llyn, pob dyffryn a dôl, â rhyw fodau byw : ac yn ddiau y mae yn well genym baganiaeth y dyddiau hyny na'r athroniaeth atheist-aidd sydd yn gwneyd yr holl greadigaeth yn esgyrnedd o ddeddfau. Nid ydym am dryblith heb ddeddfau, nac ychwaith am ddeddfau heb fywyd. A chofier fod pob peth byw yn gyfanwaith. Nid casgliad o wahanol ddarnau wedi eu rhoddi at eu gilydd yn gelyfddydol ; ond un cyfanwaith perffaith. Dichon iddo gynnyddu mewn maint ; ond y mae o'r dechreu yn meddu rhyw argraff o berffeithrwydd. Y mae llawer o'r un nodwedd yn perthyn i bob peth sydd yn tarddu o wir athrylith. Y mae pob cyfansoddiad athrylithgar, pa un bynag ai mawr ai bychan, yn un cyfanwaith ; y mae pob rhan yn wasanaethgar i'r cwbl, ac y mae delw yr oll ar bob rhan.

Dyma olwg frysiog ar y tir sydd gan fardd i ymgyrhaedd ato. Ac yn awr ni a derfynwn yr ysgrif hon gyd âg un sylw, a dim ond un. Pe b'ai y beirdd yn ystyried mawredd eu swydd, a'r cyfrifoldeb sydd yn perthyn iddi, hwy a arswydent rhag camddeffnyddio eu talentau ; a byddai eu cais am gymhorth o'r uchelder wrth ddechreu pob gorchwyl yn rhywbeth mwy na defod.

## PALESTINA: GAN IORWERTH GLAN ALED.

Y MAE pob peth sydd yn dal perthynas â Phalestina, sef gwlad Canaan, yn ddyddorol i bob un sy ganddo barch i'w Fibl. Bu y wlad hon yn drigle Iuddewaeth a Christianogaeth. Yma y dadorchuddiwyd bwriadau Jehofah, ac yr amlygwyd ei ewyllys o dan ddwy oruchwyliaeth wahanol. Yma y mynegodd Duw y rhan fwyaf o'i feddwl i feibion dynion, oblegid nid ydyw yr hyn a amlygwyd cyn i Israel fyned i Ganaan ond yn gwneyd rhan fach iawn o'r gyfrol ddwyfol. Yr oedd Palestina yn rhagori yn ddirfawr ar wlad yr Aipht. Dywed Moses am dani:—"Oblegid y mae yr Arglwydd dy Dduw yn dy ddwyn i mewn i wlad dda, i wlad afonydd dyfroedd, ffynnonau, a dyfinderau yn tarddu allan yn y dyffryn, ac yn y mynydd ; gwlad gwenith, haid, a gwinwydd, a ffigyswydd, a phomgranadau ; gwlad olew olewydden, a mêl ; gwlad yr hon y bwyti fara ynddi heb brinder, ac ni fydd eisieu dim arnat ynddi ; gwlad yr hon y mae ei cheryg yn haiarn, ac o'i mynyddoedd y cloddi bres." (*Deut.* viii. 7—11).

Yr oedd yn rhagori ar yr Aipht yn rhywogaeth ei hanifeiliaid a'u lliosogrwydd ; ac yn ei gwin a'i holew. Nid ydoedd yn cael ei "dyfrhau â throed ;" ond yr oedd ganddi ei chynnarwlaw a'i diweddarwlaw, megys y dywed Moses yn *Deut.* xi. 10.—"O herwydd y tir yr wyt yn myned iddo i'w feddiannu, nid fel tir yr Aipht y mae, yr hwn y daethost allan o hono, lle yr hauaist dy hâd, ac y dyfrhaist â'th droed, fel gardd lysiau : ond y tir yr ydych yn myned trosodd i'w feddiannu, sydd fynydd-dir a dyffryn-dir, yn yfed o wlaw y nefoedd ; tir yw, yr hwn y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei ymgeleddu : llygaid yr Arglwydd dy Dduw sydd arno, o ddechreuad y fwyddyn hyd ddiwedd y fwyddyn hefyd."

Nid oedd anghen gwrteithio tir gwlad Canaan gan mor fras ydoedd. Dywedir fod ei hyd yn rhagori ar bob yd. Yr oedd ynddi bob math o ffrwythau dymunol ; ei llysiau oeddynt beraroglus, a'i phlanigion oeddynt

o duedd iachäol. Yr oedd ei grawnwin yn fawr, a'u sypiau yn drymion; eu blas yn beraidd i'r archwaeth, a'u lliwiau yn hyfryd i'r golwg. Canmolir ei balm fel meddyginiaeth ragorol. Dygai ei gwinwydd ffrwythau ddwywaith neu dair yn y flwyddyn. Ni chollai y coedydd, nemawr gwaith, eu gwyrddlesni; ymddangosai blagur newyddion cyn i'r ffrwyth gael ei gasglu. Yr oedd y creigiau a'r coedydd, gan amlder y gwenyn oedd yn wlad, yn dyferu mêl. Yr oedd y tir yn gysegredig bob modfedd o hono; oblegid nid oedd nemawr lanerch o hono na fu rhyw angel â'i droed arni; neu heb i ryw ddygwyddiad gymeryd lle a gofnodir yn hanesion patrieirch, prophwydi, apostolion, offeiriaid, a breninoedd, enwau pa rai sydd yn adnabyddus i ni. Y mae y wlad hon yn gryno ynddi ei hun; nid ydyw yn ymddangos fel rhan o wlad ängach, fel y mae llawer o wledydd; ond y mae ar ei phen ei hun yn hollol. Y mae ganddi ei mynyddoedd uchel, a'i hanialwch creigiog, ei brynau awynol a dyrchafedig, a'i dyffrynoedd dymunol, a'i gwastad-diroedd äng. Y mae ganddi ei harfordir gyd â'i longbyrth, ei glogwyni, a'i benrhynoedd ar un ochr, ac y mae ganddi ei hanialwch ar yr ochr arall. Yn ngwlad Canaan y claddwyd y patrieirch a'r prophwydi, ac yma y gorphwys eu llwch yn dawel hyd foreu caniad yr udgorn. Yma y bu Duw y nefoedd yn cael ei addoli. Tra yr oedd yr holl genedloedd o amgylch Palestina yn suddo mewn barbariaeth ac eilun-addoliaeth, yr oedd y wlad hon yn lanerch gysegredig. Yma yr oedd y beirdd ysbrydoledig a'r cantorion yn preswylio; ac yma y ganwyd Ceidwad dyn; y bu yn trigo, yn gwneyd ei wyrthiau, yn marw; ac y claddwyd Iachawdwr y byd; ac oddiar un o fynyddoedd cysegredig Palestina yr esgynodd mewn cwmwl i wlad y gogoniant. Yn Jerusalem y cafwyd y tywalltiod o'r uchelder, ac oddiyma yr anfonwyd y cenadau y tro cyntaf i bregethu "edifeirwch a maddeuant pechodau, yn ei enw ef, yn mysg yr holl genedloedd." Nid oes fodd i'r fath wlad a hon beidio a bod yn anwyl genym. Yr ydym yn croesawu prydddest ardderchog Iorwerth Glan Aled ar y testun dyddorol hwn o waelod ein calonau. Y mae efe wedi gwneyd cyfiawnder äg ef i raddau pell iawn. Yr oedd yn anhawdd cadw dyddordeb i fyny ar y fath destun a hwn. Yr oedd perygl i'r defnyddiau waethygu yn nwyllaw yr ysgrifenydd, oblegid y mae pob peth yn Mhalestina yn darawiadol, o'r llyisiau mwyaf dinod hyd ei chedrwydd yn Libanus; o'i dyffrynoedd isaf hyd ei mynyddoedd uchaf; o'i haberoedd bach hyd ei Hiorddonen fawr; ac nid yw y gân ger ein bron yn ol o ddangos hyny yn effeithiol. Nid ystyriwn ddim a wnaeth Iorwerth o'r blaen, ac fe wnaeth amryw bethau godidog, yn ymyl y gân hon, ond fel chwareu diniwed. Y mae efe megys pe byddai wedi bwrw ei holl feddwl i'w Balestina. Y mae darlun braidd yn mhob llinell, ac esgyneb (*climax*) yn mhob gwahanran. Nid ydyw y darllynydd mewn brys am i'r golygfaoedd ddarfod; nid ydyw yn rhifo pa sawl tudalen sy rhyngddo a diwedd y llyfr; ond y mae yn gweled y darluniadau yn pasio yn rhy gyflym; hoffai aros i graffu yn hwy ar y fath gylch-arluniad (*panorama*) godidog. Y mae y lliwiau yn gryfion ond yn naturiol, ac wedi eu cymysgu gan law gywrain celfyddydwr. Y mae lliaws o bryddestau yn y Gymraeg yn bresennol, ond cyfredin dros ben yw y nifer fwyaf o honynt o ran eu syniadau. Oni b'ai fod y llinellau yn odli yn y penau, ni feddylid byth fod yr awdwr mor ffol a meddwl i neb eu derbyn fel prydyddiaeth. Nid ydyw llawer o honynt, mewn gwirionedd, ond traethodau hirion, sychlyd, a llac

eu cymalau. Baich yw meddwl eu darllen o'r naill ben i'r llall, oblegid nid oes ynddynt ddim i ddenu y sylw, nac i swyno y teimlad; ac ni fyddis ddim doethach wedi eu darllen. Ond nid felly prydddest Iorwerth. Y mae yn hon hyfforddiad, tlysni, a nerth awenyddol. Y mae ei hamrywiaethau hefyd yn lliosog dros ben. Y mae y naill ddelw yn dilyn y llall yn naturiol. Y mae yr awdur yn esgyn i gopa y bryn, ac yn disgyn i lawr y dyffryn, gan roi golwg ar ei wrthddrychau o bob safle. Y mae rhai pryddestau mor lyfn ac mor ddigynhwrf a chamlas (*canal*), ond y mae hon yn debycach i ryferthwy yn tori dros y glenydd. Twrf rhaiadr geiriau yw holl ogoniant pryddestau eraill a adwaenom, heb ddim mwy o deimlad ynddynt nag sydd ar glogwyni y Wyddfa; ond y mae yn hon deimlad a nerth. Yr ydys yn myned yn nghymdeithas y bardd drwy y wlad oll, ac y mae yntau yn parhau i bwyntio allan bethau tlyson yn ddiwedd. Braidd na ddychymygem glywed rhu ei chorneint, bwrlymiad ei hafonydd, a siad y don ar lan Môr Tiberias. Braidd na ddychymygem weled yr Iorddonen yn ymchwyddo dros ei glenydd. Braidd na ddychymygem weled gwenith melynawr Palestina yn chwareu o dan yr awelon, a'i chedrwydd nerthol yn pengrymu i'r gwynt ystormus. Braidd na thaerem ein bod yn gweled blodau y wlad—ei hafalau, ei grawnsypiau, a'i phomgranadau, yn hongian ar ochrau y ffyrdd, ac yn gwenu arnom wrth i ni fyned heibio. Dangosir i ni ei meirch yn carlamu—ei heidionau yn enoi eu cil ar y ddol—ei defaid yn gorwedd ganol dydd dan gysgod coed caudfrig—a'i geifr yn dringo copoed y clogwyni

“Tan yfed gwynt y nefoedd.”

Portrëadir o flaen ein llygaid ei heira a'i tharth, ei mell t a'i chenllysg. Ei maedrefi a'i dinasoedd, ei llysoedd a'i synagogau, ei theml “o liw eira” a ddangosir ger ein bron heb un llen. Yr ydym yn nghymdeithas patrieirch, prophwydi, apostolion, offeiriad, a breninoedd, o ddyddiau Samuel hyd y nos y cychwynai Arglwydd y bywyd o'r ystafell wedi ei thaenu, dros afon Cedron, wrth oleu y lloer, i ardd Gethsemane; ac hyd nes yr aeth drwy lysoedd Herod a Philat i fryn y groes, i'r bedd newydd, ac i gopa mynydd yr Olewydd, lle yr esgynodd, ac uwch ben yr hwn y cauodd dorau yr awyrlen ar ol yr orymdaith a ddaethai i'w gyrchu adref. Pwy a all aros yn y fath gwmmi a hwn heb deimlo ei galon yn llosgi ynddo?

Y mae yn anhawdd gwybod o ba le i ddifynu o waith sy mor ragorol drwyddo oll. Yr ydym yn doddi y darnau canlynol ger bron, nid o herwydd ein bod yn barnu mai hwyntwy yw y rhai goreu, ond yn unig o achos i ni gael ein taraw ganddynt yn rymus wrth ddarllen y bryddest. Yn ei arweiniad i fewn, pan y sonia yr awdur am y gwahanol enwau a roddir i Ganaan, dywed,

“— Zechariah y prophwyd ardderchog  
A nodai'r dyfodol mewn dulliau gorenwog,  
A'i galwai'n Dir santiaidd, lle tafai Caersalem  
Ei gwên oddiamgylch yn gain o'i goleudrem;  
Un enw rhagorach erioed ni roed arni  
Er dangos i'r oesoedd ei nodwedd uchelfri;  
Tir santiaidd nodedig oedd—gwlad neillduolion  
Y Duwdod ei hunan—ei benaf angelion;  
Gwlad gu y profwydi, geneau y nefoedd,  
Oraclau y Drindod er dysgu y bobloedd;  
Gwlad fras archoffeiriad, offeiriad ac ebyrth,  
Yn ol y cylch dwyfol a lanwent eu heurbyrth;

Gwlad lle y safai cysegrfan addoliad,  
 Trwy'r hwn y dysgleiriai y dwyfol amlygiad,—  
 A'r lle santeiddiolaf a lenwid yn buraf  
 Gan ffiam y Shecinah o'i wedd ardderchocaf;  
 Y wlad lle y ganwyd yr Iesu anwylgu,  
 Er achub pechadur pan ydoedd ar drengu;  
 Ei meusydd a'i chreigiau a dyner santeiddiwyd  
 Gan wadnau'r Gwardedwr pan arnynt eu gwelwyd;  
 A'r tŷonau brigwynion gysegrywyd i huno  
 O dan ei lws gamrau, pan arnynt gwnai rodio;  
 Ac oni santeiddiwyd llaith bridd Gethsemane,  
 A'i ddafnau porphoraidd, fel blaenbrawf o'i ange' ?  
 Hen glogwyn Calfaris, lle teimlwyd y locaion,  
 Myrdd myrddiwn ar unwaith o gosbau euogion,  
 Ei graig o dan gochwaed yn goron fferedig,  
 A dgenai santeiddrwydd o'i threm gysegredig !  
 Ac wedi ei farw, santeiddiodd y beddrod,  
 Pereiddiodd ef drwydde hyd eithaf ei waelod !  
 Ar ol adgyfodi, santeiddiodd y mynydd  
 Pan gyda'i ddyagyblion ar derfyn y nawnddydd  
 Y bu'n cymdeithasu, gan ddangos ei glwyfau,  
 Nes llanw a'i gariad eu tyner fonwesau !  
 Fel hyn, onid santeidd yw pob mân o'r hoffwlad,  
 Lle ganwyd—y claddwyd—a chodwyd ein Ceidwad !  
 O ! wlad PALESTINA—wyt brif berl y gwledydd,  
 Pob llwchyn o'r eiddot sydd hoff gan awenydd !"

Yn ei ddarlun o Fynydd Carmel, fe ddywed :—

" Awn eto, fy Awen, i gribyn uchelach,  
 Fel caffom oddarno un olwg ÷angach—  
 Ni awn y ffordd hon drwy y gornant ddolenog,  
 Hyd lân y ffrwd yma sy'n treiglo 'n drochionog,—  
 A wedi in' eagyn i'r uchaf a welwn  
 Yn graff oddiamgylch awyddus edrychwn :—  
 Wi ! Wele olygfa ! o derfyn y gogledd,  
 I barthau'r gorllewin, mae'n llawn o arioledd ;  
 Yr ÷ang Ganolfwr ger bron sy'n ardderchog  
 A'i fonwes gan beriau yr haul yn gyfoethog—  
 Tra teifi ei ffiam-wrid wrth ymgillo i'w wely,  
 Nes gwneyd y cymylau yn borphor i'w gylchu ;  
 Prin iawn y symuda yr awel ei haden,  
 Prin ddigon i chwalo arogllion pob dellen—  
 Ond lleinw'r awyrgylch a pheraswr diguro,  
 Nes taenu balm cwsg dros amrantau yr harddfro.  
 Am fynyd, O Awen ! rho drem ar y mynydd,  
 Cyn cuddia'r nosfantell ei degwech yablenydd ;  
 Llaw anian fu'n ddiwyd yn trwsio ei griboedd,  
 A thylaton amryliw o lewyrch y nefoedd ;  
 Ni th'wynodd un enfys mewn seithliw mwy siriol,  
 Na blodion gadwyni brig Carmel addurnol ;  
 Gwel, gwel yr holl fryniau yn frith gan winllanoedd,  
 A llwyni o olewydd, a figys berlanoedd—  
 A choedydd goriwythog o addfed almonau,  
 Fel gardd yn grogedig yn mro'r ÷angderau !  
 Mor hawdd y pryd hyn yw ymguddio'n dawellog,  
 Rhwng gwinwydd plethedig yn gelloedd gwyrd-ffrigog."

Y mae darlun o'r gweddnewidiad yn aruchel :—

" Nid rhyfedd i Pedr awgrymu yn dirion  
 Am bebyll i drigo ar Tabor yr awrthon—  
 Myrdd gwell a fuasai bod yma yn ddiau,  
 Na'n brudd yn y gal mewn Rhufeinig gadwynau.

Tra ef yn llefaru—ymffurfiodd o'u hamgylch  
 Un babelll yspenydd o swyn yr awyrgylch,  
 Yn gwmwl fe'i gelwid—ond t'wynai mor olau,  
 Fel pe y crynhŷid holl flambryd yr heuliau ;  
 Mae 'n debyg ei ddisgyn gan engyl o wybren  
 Y wlad bur nefolaidd, fel mantell ddyagleirwen—  
 Heb arwydd dyferyn o ddwfr erioed arni,  
 Ond tyner santeiddrwydd a'i waw! yn ei llenwi.  
 Fel cwmwl fe'i cylchodd—O gysegr siriol !  
 Crynhŷad bach hyfryd o'r nefoedd danbeidiol ;  
 Areithfan y Dwyfol hyawdledd ei hunan,  
 Yr hwn ag un gair a esgorodd ar anian :  
 Ef oedd y lleferydd ! bër, bër oedd yr araeth,  
 Ond llyncai i'w chynwys holl leisiau 'r gre'digaeth,  
 Un tant ydoedd hon yn nhelynu'r gogoniant,  
 A lynca bob eurdant &u' sain i'w phêr foliant,  
 Un gair yn amgylchu pob meddwl anfeidrol  
 A darddodd erioed o'r ddofn fonwes dragwyddol !  
 Canolbwynt yn sugno pob pelydr mewn purdeb,  
 O dragwyddoldeb i dragwyddoldeb !  
 " *Y Mab*," " *Yr Awyl-fab* " yn cael prif arddeliad,  
 Ger bydoedd ar fydoedd, mewn dwyfol gyhoeddiad !  
 A thystion o'r ddaear i'w gario i ddynion,  
 Ac ereill o'r nefoedd i'w dd'weyd wrth angelion !"

Y mae yn anhawdd darllen y deryn canlynol, ynghylch Mynydd  
 Gilboa, heb deimlo nerth athrylith ein bardd :—

" Mae genym adgofion galarus am dano,  
 A'i gwna yn hynodol drwy 'r oesau fydd eto ;  
 Ar ochrau Gilboa ca'dd Israel archollion,  
 Pan gwmpent gerbron y Philistiaid yn feirwon ;  
 A Saul a'i ddewr feibion dan deimlad anobaith,  
 Gyd-gwmpent ar ffiniog gleddyfau yn anrhaith !  
 Trwy 'r nos y gorweddent yn oer ar y mynydd,  
 Yn farwol fferedig hyd doriad borenddydd—  
 Heb neb i wneyd trefn ar eu pryd archolledig,  
 A dodi eu holion mewn beddau 'n garedig !  
 Fel hyn y caid hwynt gan y gerwin Philistiaid,  
 Ac arnynt syrthiasant fel erchyll anwariaid—  
 Gan ddarnio eu cyrff &u' cleddyfau tryloewon,  
 A'u gwneithur yn destun gwatwargerdd gelynyon !  
 Rhyw waedlyd farwlaeth fu yma i lawer,  
 A crys mewn cofnod ar ddalen werdd amser ;  
 O ! fynydd Gilboa, rhudd-liwiwyd dy ddaear,  
 A gwaed lladdedigion mewn rhyfel croch anwar—  
 Dy ochrau gwyrdd-leision a wrident yn borphor,  
 Gan dafu adlewyrch creuloni drwy 'r oror ;  
 Anadliad rhyfelwyr wywasant dy fiodau,  
 A thristwech dihafal y gwisgwyd dy fronau !  
 Bu 'n rhodio dy lethri un borau mewn balchder  
 Yr ieuainc, a'u gwaed yn melltenu gan ddewrder—  
 Ond mantell y nos a'u gorchuddient yn feirwon—  
 Ac archoll y cleddyf yn pydru pob calon !  
 Y wefus oedd gynau yn gwrido gan dlyani,  
 Oedd erbyn y nos dan ewyn creuloni !  
 O amgylch dy odrau bu 'r weddw 'n galaru—  
 A thyner amddifaid yn unfryd gwynfanu !

Y mae y darlun o fynyddoedd Ephraim a'r ffynnon yn dlws :—

" O dan y ffigyswydd mae heiddau addfedol,  
 Yn chwyfio 'n arafaidd fel môr-dônau chwyddol ;  
 Ac amryw frith fiodion mewn gwedd arderchoca',  
 Fel periau awyrol i harddu 'r olygfa.

O blith yr olew-wydd wrth odrau y bryniau  
 Ceir clywed y durtur yn odli caniadau,  
 Fel pe clywid angel yn chwarau aur delyn,  
 Rhwng cangau Paradwys ar ddwyfron rhyw ddyffryn ;  
 Yr odl-felusber sy 'n llawn o swyn heddwch—  
 Nes peri im' wylo hael ddeigrion hyfrydwch !  
 Mân hyfryd yw hwn idd yr Awen gywreingraff,  
 Yn swyn y fwyn ddurtur hi gana fel Seraff.

Eisteddwn am enyd mewn mangre mor dirion,  
 Gan gwbl ymollwng i bur adfeddylion ;  
 Tyr'd, hwyllia dy delyn, rho'wn gainc i'r ffynonig,  
 Sy'n llechu fan yma dan gysgod y gwyddfrig ;  
 O ! blentyn hoff Anian, gwir ddelw o burdeb,  
 Dy ffrydlif sy'n sisial chwedleuon arioldeb—  
 Gad imi, fel bardd, dan arweiniad y nefoedd,  
 Wneud cerdd i'th adgoftio, a bery drwy 'r oesoedd.

O loew berl, mewn modrwy werdd  
 O fiodion giwys, plethedig gan  
 Law anian hoff, dan swyn y gerdd

Ar unig fan :

Ffynonig bach, mor gain yw'th wedd  
 Fel llygad Seraff llawn o hedd.

Arianaidd lif drwy raian mân,  
 Yn tarddu o lygeidyn byw—  
 Rhwng aelau gloewon meillion glân,  
 Nefolaidd ryw !

Gwir ddelw y ffynonig hardd,  
 Addurnai fonwes Eden ardd.

Mor dlos yw'th fron dan nawnl fri,  
 Tra ynddi chwery bywyd clir ;  
 Yn chwyddo yn arianaidd li'

Fal awen wir :

Pelydron haul yn ddysglauer lu,  
 A ddawnsiant ar dy berlau cu.

Wyt yma'n llon mewn gwely brith,  
 Yn monwes blodau'r llawr—

A'th wên gusanir gan y gwlith,  
 Sef gwin y wawr !

Am oesau maith addurnaist di,  
 Yr Eden hon a'th arian li'.

Efallai bu Jonathan chweg  
 A Dafydd, ar eu didrain hynt—

Yn eistedd ar dy erchwyn deg,  
 Yr amser gynt—

Gan yfed o dy ddyfrawl swyn,  
 Fywiogrwydd eu hawenau mwyn.

Maent hwy yn huno yn y bedd,  
 Er's llawer dydd, mewn llonydd fan—

Ond wele di yn llon dy wedd  
 Fel pelydr cân ;

O ! sisial i fy enaid mwy,  
 Athrylith eu hawenydd hwy.

Praff yw y dderwen uwch dy ben,  
 A'i cheinciau fel cerdd-danau'r gwynt,

Tra arnynt mae awelon non  
 Ar gorawl hynt—

Cymysgant â dy si eu cân,  
 Nes lloni calon anian lân.

O ! dlos ffynonig—hed fy mryd  
 Wrth edrych ar dy berlawg li'—



At goch ffynonell wycha'r byd,  
Wrth Galfari !  
Ygarlad lif fel gwythen fyw,  
Rhwing gwyrddion fiodau nefol ryw.

Llygeidyn bywyd yw i fyrdd,  
A'i rhinwedd o anfeidrol faint—  
Mewn modrwy o anfarwol wyrdd  
Er lloni'r saint—

Ni cheir yn nghoron Duw un gem,  
Mwy tlws na ffynon Bethlehem."

Fe allai y dadleua yr uchel feirniaid fod amhriodoldeb mewn dyweyd fod ffynnon yn "em yn nghoron Duw."

Y mae y darlun o Grist uwch ben Jerusalem yn dra effeithiol :—

"Hardd fynydd Olew-wydd ! mae'th wedd yn dawelog,  
A'th dremlad yn dryfrith gan lwyson dihalog !  
Dy erddi ynt lawnlion o rawnwin dyferol,  
A myrdd o afalau eurliwog, ymchwyddol ;  
Gobalwydd a'u ffrwythau yn gwyr'o'r cangenau,  
At ereill goed prydferth y melus almonau,  
A'r figys ireiddiol yn cwmpo 'n addfedlawn,  
I lawr i'r llanerchau lle tyf y melynrawn !  
Pa wlad all gynyrchu rhagorach defnyddiau,  
Er taenu pereiddffas ar wridog wefusau ?

Ond pa'm y darluniai y ffrwythau ddarfyddant,  
Tra arnat yr erys adgofion na wywant—  
Un diwrnod, fe welwyd ar d' ochr ddeheuol  
Yr Iesu yn sefyll mewn agwedd ddifrifol,  
Gan edrych ar ddinas Caersalem—a wylu  
Wrth feddwl am adeg y cai ei chwilfriwio.  
Odd' arnat canfyddai y ddinas amgaerog,  
A'i thyrau yn esgyn i'r nef yn odidog—  
A'i theml fel mynydd o berlau 'n dysgleirio,  
A'r haul a'i belydron i'w thanbaid oreuro,  
Fel pe mewn cadernid a thegwch parhaol,  
Y safai heb ysgog drwy'r ocsau tragwyddol.

Ond gwelodd yr Iesu y cwmwl yn esgyn  
O fôr y dyfodol, a'i llanwai & dychryn—  
Fe glywodd weryriad y march coch Rhufeinig  
Yn adsain yn raddol trwy wyrdd-ddail y goedwig—  
Canfyddodd yr adeg pan suddai ei garnau  
I fraser ymdoddol y brwd gelaneddau !  
Mewn man, lle'r pryd hyny y seiniau yr organ  
Fawl-ganiad llawenydd rhwng muriau eglurlan—  
A lluoedd yn rhodio hyd belmynt marmorawl,  
A d'wynent drwy'r deml eu gwynder dysgleiriawl.

Ond adsain y rhyfel, y megnyl, a'r arfau,  
Dymchweliad rhagfuriau gan groch hwrdd-beirianau,  
A thwrff y marwllion yn rhoch ru marwoldeb,  
A chrechwen y gelyn uwch ben y trychineb—  
Y tryblith cymysglyd—yr Iesu a'i gwelodd,  
A'i law ar ei aelau yn hidl y wylodd !  
O ddagrau ! O ddagrau ! pe dafn a lifasai  
O honoch ar Salem pan yn y crochfflammau,  
'Ew'n tybied y gwelsid pob fflam yn gwyleiddio,  
A'r golosg ofnadwy mewn mynydd yn peidio !  
Mae'r dagrau tosturiol o fri mwy i'r mynydd  
Na holl ber ddyferion y figys a'r gwinwydd ;  
Mewn teimlad 'toddedig, fe u cofir gan filoedd,  
Tra saif yr hen fynydd rhwng trumau'r amgylchoedd."

Y mae yr awdur yn ddyddorol iawn tua glan Môr Tiberias, pan y darlunia Grist a'i apostolion :—

“ Ond O fôr Tiberias ! hardd ddrych Galilea,  
 Fe fu ar dy dônnau bwysicach golygfa  
 Na welwyd ei thebyg yn mri y dinasoedd,  
 Na gerddi ffrwythlonfawr dy fang amgylchoedd—  
 Pan welwyd yn nofio yn hael ar dy dônnau,  
 Y truaïn bysgodwyr mewn gorlong un borau,  
 A'r Iesu o'u blaen ar dy lânau gyferbyn,  
 Yn galw yr oll fel dysgyblion i'w ddilyn—  
 Y rhai fydd a'u henwau am hynyn ddysgleiriol,  
 Pan leibir dy ddyfroedd gan fflamau golosgol.  
 Pwy fydd yn fwy dyglaer yn awyr nef burlan,  
 Na Phedr, Andréas, ac Iago, ac Ioan ?  
 Mewn cylchau o asphir, dŵn wyrdd anfarwoldeb,  
 Pelydrant fel heuliau, gan fflamio mewn purdeb.

Oddiar dy lwys dônnau, y galwyd hwy 'n dyner  
 I'w rhodau o amgylch Haul mawr y Cyfiawnder ;  
 Uwch gwaith i'w galluoedd yw tremio i'w wyrthiau,  
 Na dâl y mân bysgod yn llif dy ddyfnderau.

Ond paid a gwyleiddio—oddia'r dy deg wyneb,  
 Yr unol gychwynent i fri anfarwoldeb—  
 A thi a adgofiant drwy'r oesau tragwyddol,  
 Fel man lle clywasant yr alwad achubol.

Tyr'd, Awen, symudwn ar ol y pump acw,  
 Am fynyd 'nol gadsel y fafnach a'i thwrw—  
 Maent oll yn cydeistedd ar lawnt gwyrd d o'r neilldu,  
 A Christ yn y canol, yn awr yn eu dyagu ;  
 Dan gysgod cangenau plethedig gorphwysant,  
 Er clywed esboniad am gywir addoliant—  
 A'r wlad lle mae heddwch byth, byth ar yr orsedd,  
 A'r fonwes helbulus ga'i llon'd o dangnefedd :  
 Tra'r araeth fwyneiddiol ddyferai o'i enau,  
 Ymdaenai dystawrwydd er clywed ei eiriau—  
 Ni chlywid un ddeilen yn sibrd yn dawel  
 Ei thynner chwedleuon yn awr idd yr avel ;  
 Na thônau y glaefor yn murmur i'w lânau  
 Bleserau'r ysbrydion a drig ei ddyfnderau ;  
 Telynau yr adar o'ent fudion yr awrhon,  
 Tra Iesu hyfforddial ei newydd ddyagyblion ;—  
 O ! ieithwedd swynhudol—fel sain arian danau.  
 Dyferai per fwsig o bob un o'i eiriau—  
 A diwedd pob dosran o honynt hwy ydoedd,  
 Addewid o gyflawn ddedwyddwch y nefoedd.”

Y mae yr ymddyddan rhwng Crist a'i apostolion—y darluniad o afon Cison—ardderchawgrwydd y deml—gwisgoedd yr offeiraid Iuddewig—y fam yn myned gyda'i chyntafanedig i'r deml—yn odidog :—

“ Ond cafwyd un,  
 Yn Dduw a dyn—  
 Y Duw mewn cnawd i ddyoddef gwawd,  
 Fel brawd pechadur gwan—  
 Offrymwyd ef ar groesbren gref  
 Mewn erchyll fan—  
 Ac mwyach ni raid dryllio 'n teimlad ni,  
 Mae rhyddid mwy drwy aberth Calvari.”

Yna rhydd y bardd ddarluniad cryf o ymgynnulliad y lluoedd Rhufeinig ; ac

“ Ofnadwy ergydion y trwm hwrdd beirianau  
 Watwarant gleciadau cwynfanol y muriau.”

Y mae efe hefyd yn gweled

“——yr haul fel yn plethu 'r cymylau  
Yn orchudd i'w wyneb, rhag gweled y muriau,  
Yn cael eu dymchwelyd yn garnedd ar garnedd.”

A'r milwyr,

“Oddiyno yn mlaen trwy y ddinas prysurant,  
Gan wisgo 'r heolydd ag ebyrth eu trachwant,  
Cleddyfau, tarianau, rhegfeydd, a chreuloni,  
Ymbiliau, och'neidiau, a lleisiau trueni,  
Yn adsain y broydd & chrochder ofnadwy,  
Nes llenwi 'r amgylchoedd & marwol ryferthwy.”

A'r Iuddewon yn ffoi i'r deml am nodded, ond y cwbl yn ofer :—

“O bob-man o'r ddinas prysura'r Iuddewon  
I'r deml brydferthwych am nodded yr awrhon—  
Unigfan eu gobaith yn nghanol pob adfyd,  
Canolbwynt perffeithiaf eu nodded a'u gwynfyd—  
Fel plant yn cydredeg o ganol pob gofid  
I fonwes mam dirion am nodded rhag erlid,—  
Och ! olwg ofnadwy ! yn mhorth yr adeilad,  
Gwanc erchyll y milwyr ni thorid gan oerfrad ;  
Melltenai adlewyrch y gloewon gleddyfau,  
Trwy gymyl pygdduawl creuloudeb ac angau.

Y meirwon a fethrid yn ddiofal a ffyrnig  
Cymysgid eu cnawd & u tarianau drylliedig.”

Y mae y darlun o'r Iuddew yn eistedd ar Fynydd yr Olewydd, i gwynfan, yn effeithiol iawn ; fe ddywed :—

“Yr adelladau cain  
A chwalwyd oll i'r llawr,  
Y gwynt & i alarnadol sain  
Sy'n cwynfan yno 'n awr ;  
Palasau teg fu gynt mor gu  
Fel gwael furddunod yno sy.

\* \* \* \* \*  
Marmorawl deml Dduw,  
Fel mynydd eira gwyn  
Yn tremio rhwng ei haellau aur  
Oddiar y bryn—  
Cartrefe delw 'r seirian Iôr,  
Noddfa gogoniant mawr—  
O gylch yr hon y molai côr  
Angelaidd wawr—  
Nid oes i'w gael un rhith o'i sail,  
Y man lle bu  
Yn gwenu 'n gu  
Sy'n awr dan orchudd crinion ddail ;  
Prif em celfyddyd gaed tan draed  
Y meirch rhyfelawg  
A'r gwyr dialawg,  
Yn gél dan orchudd ceulawg waed !”  
\* \* \* \* \*

Buasai yn dda genym pe cawsai sylw helaeth ar y croeshoeliad, cladded-igaeth ein Hiachawdwr a'i adgyfodiad ei wneyd. Os daw ail argraffiad allan, hyderwn y gwrendy yr awdur yr awgrym.

Y mae y cynllun mor naturiol ag y galleid ei ddysgwyl, y farddoniaeth yn llithrig, a'r meddyliau, mewn rhai darnau, o'r radd uchaf. Nid ydym yn ammheu pe buasai gan yr awdur ychwaneg o amser, na allasai efe gryfhau ambell linell. Yr ydym yn ofni ei fod ef wedi arfer rhai geiriau y chwennychai efe eu newid, os daw ail argraffiad o'r gân ar wasg; megys y gair *golog*; ystyr yr hwn yw llosgi mewn rhan; a *megnyl*, sef, offer nad oeddynt mewn arferiad pan oedd Titus Vespasian yn dinystrio Jerusalem. Nid ydym yohwaith yn credu yr hoffai y bardd arfer y geiriau canlynol eto; sef, *ymloewawl*, *hyfrydawol*, *hyfrydlon*, *anwylgu*, *gorhalltaidd*, *dysgleiriol*, *nefolaid*, *larieiddiol*, *odiaethol*, *ireiddiol*, *diniweidiol*, *goleulwys*, *goleulon*, *nawseiddiol*, *gwyleiddiol*, *halltaog*, ac "uffern gynddeiriawol," yn lle uffern gynddeiriawg. Y mae gwahaniaeth rhwng y terfyniadau *awg* ac *awl*; y mae y cyntaf yn arwyddo, *abounding with*, a'r olaf yn arwyddo, *relating to*. Fe wol pob un a sylwo nad oes unrhyw anghen am y cyffonau wrth y geiriau blaenorol eraill, ond y buasant yn gryfach hebddynt. Beth a all *awl* wella ar loew, neu *ol* ar ddysglaer? Y mae *aidd* ynglŷn â nefol yn gwneyd nefol yn llai; ac yn gwneyd yr un peth yn gorhalltaidd. Os yw peth yn hyfryd, beth a wellai arno wrth ddyweyd *hyfrydol*, neu *hyfrydlon*? Pa les i anwyl mae *gu* yn ei gynffon yn ei wneyd? Y mae *iol* yn hollol ddianghenrhaid yn *larieiddiol*, *odiaethol*, *diniweidiol*, ac *ireiddiol*. Y mae dau derfyniad yn cael eu harfer gyda'r diweddfaf, *oblegid* y mae *ir* yn ansoddair ei hunan, heb yr *aidd*, yr hyn a ddengys y gwrthuni o arfer *iol* hefyd yn fwy fyth. Nid ydyw *goleulwys* na *goleulon*, na *nawseiddiol*, *gwyleiddiol*, na *halltaog*, yn seinio mewn un modd yn gymeradwy, yn enwedig mewn pryddest, yr hon yr haerir cymaint drosti ei bod yn gymaint rhagorach nag awdl. Nid ydym yn enwi y pethau uchod ond yn unig er doddi ein beirdd ieuainc ar eu gocheliad rhagllaw. Nid ydynt yn tyngu ond y nesaf peth i ddim oddiwrth ragoroldeb pryddest Iorwerth. Y mae hon, gydag ychydig iawn o eithriadau, yn orchestgamp drwyddi. Ni theimlasom fwy o hyfrydwch wrth ddarllen pryddest erioed, nag wrth ddarllen y bryddest yma; nid o herwydd gwreiddiolder y meddyliau, canys ni ddysgwylid hynny ar destun fel hyn; ac nid am ein bod yn cael ein cipio i rywle na wyddom yn y byd i ba le; ond o herwydd naturioldeb, cyflawnder, a newydddeb y dull o osod allan yr hyn a wyddem o'r blaen am Balestina. Cynghorem y bardd i gymeryd mwy o amser y tro nesaf i goethi ac i berffeithio; canys y mae yn naturiol i awdur o'i athrylith lawn ef groesawu meddylddrych yn ormod ar ei ymddangosiad cyntaf, heb brofi digon arno; ac y mae efe mewn perygl wrth gyflymu ymlaen, rhag colli meddylddrych, o gymeryd geiriau mewn ystyr anmhrïodol. Y mae pob bardd sydd yn trafaelu at *railway speed* yn fwy agored i hyn na'r hen feirdd a rifent eu bysedd wrth chwilio i gywirdeb cynghanedd. Nid ydym yn anghymeradwyo yr amrywiaeth yn y mesur a ddefnyddir gan ein hawdur; y mae hyn yn caniatâu gorphwysiad iddo ef ac i'r darlennydd. Yr unig bethau a anghymeradwywn yn y bardd yw, ei fod yn cyfansoddi ar ormod o frys, ac yn rhy ddiöfal. Y mae ganddo ddigon o athrylith ac o farn; gan hynny, dylai goethi mwy ar ambell linell; ac yn enwedig, dalu sylw manylach i ystyr geiriau. Gofynid i baentiwr unwaith, Paham yr oedd efe yn cymeryd cymaint o drafferth gyda rhyw ddarlun oedd ef yn ei wneyd? a'r ateb a gafwyd oedd, "*I paint for eternity.*" Byddai yn dda i bob awdur gofio mai nid i'r oes y mae efe a'i gyfeillion yn byw ynddi yn unig y mae efe yn ysgrifenu, ond i'r oesau dyfodol hefyd.

Dymunem hir oes i Iorwerth Glan Aled i ddwyn allan lawer o gyn-nyrchion cyffelyb i "Baestina."

## AWDL AR ARDDWRIAETH:<sup>1</sup>

(GARDWRIAETH YNYS FON YN FWYAF KWEDDIGOL),

WEDI EI CHRFLWYNO I FONEDDIGION MON,

GAN DDAFYDD THOMAS, O'R WAUNFAWR, YN ARFON.—1812.

"Ardd cyd bych; ardd cyn ni bych."—DIABER.

Duw, er lles daear a llu  
O ddynion i'w meddiannu,  
Ordeiniodd, o fodd Nef wên,<sup>2</sup>  
Arddwriaeth i'r ddaearen;  
Ordeiniodd Naf i'r dynion  
Fwrw had a llafurio hon.  
Gyru dyn, newyn a wnaeth,  
At yr aradr—Tirwriaeth.

Cwmp mawr, achos haeddfawr sen,  
Ofnadwy fu yn Eden:  
Ow! hyll foreu!—Llafurwr  
Ydoedd Addaf, gyntaf gwr:  
A'i gynfab, dan wg anfad,  
A bechodd, digiodd Dduw Dad!  
Trwy bob llwyth, nid tylwyth teg,  
Rhyw adwyth sydd yn rhedeg.  
Galar, o'r oes bwy gilydd,  
A chwys hallt o'r achos sydd;  
Galar yn troi 'n gywilydd  
Ar hyd croes feroes a fydd.

Cymerwyd, ordeiniwyd dyn,  
Brau, eiddil, o'r gwael briddyn;  
Yn ol i'r priddyn eilwaith  
Y disgyn dyn wedi 'r daith:  
Ond tra bo yn teithio tir,  
Wedi irdwf daeardir,  
Rhaid arfer dwysder a dal  
Llafur a diball ofal.

Yn nes y daw, nos a dydd,  
Yr eginyn ar gynnnydd:  
Hoff faeth mae i'w effeithiaw  
Aweloedd, gwlihoedd a gwlaw,  
A goleu nef,—gwiwlan yw,  
Lleshad y llysiaw ydyw.

Newid lliwiau llysiaw llon,<sup>3</sup>  
Amrywlys, mae 'r awelon:  
Gwrryw a benyw beunydd,<sup>4</sup>  
Ar frigyn llysiuyn sydd:  
O thery yn wrth arall,  
Ffrwythlonir, llenwir y llall.

Neud rhyfelwyr yn trafaelio,—gantoedd  
Oedd gynt yn ymrwysgo;  
Gwaelaidd, troe i fugeilio,  
Ei holl braidd, a'u llwybreiddio;  
Tra gwrol troi i guro  
Ei wanach, a'i ferwino;  
Bywoliaeth rhai ysbeilio,  
Ar helyddiaeth hir lwyddo:  
Nes dod yn iawn dawn a dysg  
Wir addysg i'w gwareiddio.

Fe yrwyd i lafurio  
Lawer er cyn amser No:  
Peru darparu puryd  
Mewn tir, nes bernir y byd.

Moesen, yn rhodio meusydd,  
Neb ail yn fugail ni bydd:  
Dyrnwr gwenith cadarnwych,  
Oedd Gideon, y gwron gwych;  
Ca'dd yn hael hen Israel nawdd,  
Gwae Fidian pan gyfodawdd;  
A Dafydd, mewn oed iefanc,  
Ydoedd landeg, liwdeg lanc:  
Pwy yn ail i'r bugail bach,  
Sy areilydd siriolach?

Garddwr breninol gwirddoeth  
Ydoedd Selyf<sup>5</sup> ddawngryf ddoeth;  
Rhyfedd—tra rhyfedd oedd rhi'  
Ei goedydd yn Engedi:

<sup>1</sup> Teimlwn yn ddiolchgar i Gwilym Caledfryn am ei garedigrwydd yn ein hanrhegu & r awdl hon. Dyma y tro cyntaf iddi ymddangos yn argraffedig.

<sup>2</sup> Genesis i. 17.

<sup>3</sup> "Fructification and Variegation of Flowers," &c.

<sup>4</sup> "The Sexual System."

<sup>5</sup> Solomon.

Ac o Liban, lawn gwlybwr,  
Ei goed oedd barod i'r gŵr.  
Bu son am un gwron gwâr  
Breninol yn hollti braenar;  
Gado 'r gadeir ddysgleirwych  
I agor rhagor o'r rhych.<sup>1</sup>

Pob rhyfedd waith, pe profwn,  
Ar ol amser hoewber hwn,  
Rhy faith oferwaith di fawl  
A fyddai,—ac anfuddiawl:  
Ar waelod beddrod, oer bant,  
Hen oeswyr a hunasant,  
Heb gael i'w gafael yn gu  
Gywirddysg am deg arddu.

Gwybodaeth, nid helaeth oedd;  
Llyswyd trwy 'r tywyll oesoedd;  
Nes i'r byd (nid trymllyd dro)  
O radd i radd wareiddio.

Aml haid o baganiaid gynt,  
Diddysg, diwybod oeddynt;  
Llefent, eiriolent ar lau,  
A Seres, am drysorau.  
Iachach, glanach goleuni,  
A roes Ner i'n hamser ni;  
Ymryddhau mae dorau 'r dydd,  
Mawl iddo am oleuddyd!

Beirdorion, bu arddwriaeth,  
Cyn hyn, yn gofyn eu gwaith.  
Hen feibion glewion y glod,  
Canasant hwy cyn Hesiod:  
Gwell na mil oedd Fyrsil fardd;  
O wir ddirfawr arddwrfardd;<sup>2</sup>  
Hen Iolo Goch,<sup>3</sup> awwlyd,  
A ganodd—boddiodd y byd.

Gwelwn waith rhai gwiwlan wŷr  
Yn nhraethawd hen areithwyr:  
Cato, Farro, un fwriad,  
Eu h'wyllys oedd er lleshad:  
Enwogion tra gwychion gynt,  
Gwyllyddion gwlad oeddynt.  
Awduron gwychion ac iach  
Ydoedd wŷr diweddarach.

I wŷr yr oes rhoes yn rhydd  
Linnæus oleu newydd;  
Ef am lysiau gorau gŵr,  
Am ddail goreu meddyliwr:

Gorau ei ddoniau i'w ddydd;  
Os cryf iawn ysgrifenydd.

Cirwan ddoeth, cywrain i'w ddydd,  
Am feini ymofynydd:  
Agorodd ef yn gywrain  
Naturiaethau, rhywiau rhai'n.

Hen Gymro, wrth rwygo 'r ar,  
Helbulus hwyliai balar,  
Nes tynu, 'n ol penu 'r pall,  
Drwy oror aradr arall;  
A dyfeisio, ceisio cwltr,  
Diwyrgamp swch a durgwlltr:  
O dan y bai,—dwyn y byd  
I feddu gwel celfyddyd.

Rhwygiedig, er Hu Gadarn,  
Tir Cymru—felly mae 'r farn;  
Peidiwyd, ac nis gyrwyd gwydd,  
Ac arsang ddur drwy gorsydd.<sup>4</sup>

Ion a roes yn ein hoes ni  
Gynnyrch byd i'n digoni;  
Mae 'n amlhau llyisiau er llwydd,  
Teilwng o'i fawrglwyd hylwydd.

Rhai er maeth, drwy Benaeth byd,  
O'r tuchan, rhai at iechyd;  
Rhai at glydwch, degwch da,  
Beunyddiol meibion Adda.

Hadau, gwreiddiau, gwiw roddion,  
O'i fodd a ranodd yr Ion;  
Pob peth, o'i nerth a berthyn  
O'i wyllys da er lles dyn.

Rhoddion ein tirion Dad da  
Yw 'r sinnamwn a'r senna;  
Aml friglwyth, gnydlwyth o gnau,  
Coco mawr—cucumerau;

Y lili a'r pabi pur,  
Y siensien wraidd a'r sunsur:  
Llyisiau, prenau pur hynod  
Tuwlip hardd a'r talipod.

Pur aloes, sarsaparila—y manna  
Dymunol a'r cassia;  
Neud rhiaglyn i ddyn sy dda,  
E brofir o Beruwfa:

Ond ni roed colli-goed cas,  
Neu 'r uwpas<sup>5</sup> yn Ewropa.

<sup>1</sup> "Great Cincinnatus at the plough  
With greater lustre shone,  
Than guilty Caesar e'er could do  
Though seated on a throne."

<sup>2</sup> "Virgil's Georgics."

<sup>3</sup> Iolo i'r Aradr.

<sup>4</sup> Gwydd arsang.

<sup>5</sup> Dywed y Dr. Darwin, ac eraill, fod hyd yn nod arogl oddiwrth y pren uwpas yn wenwyn marwol. Gwel "Darwin's Lover of Plants:" note. "New Review," &c.

Llesol ryfeddol a fydd  
Y llin, a hair llawenydd ;  
Rhag byd llwm, rhoi 'r cotwm eu  
Ynysodd i'n cynefu.

Rhodd werthfawr anwylfawr Nef  
Yw 'r ydrawn, pan geir adref ;  
Bara iach, heb oer ochi  
Ydyw 'n porth, a'n ymborth ni :  
Grawn yd yn ddigronadwy,  
Boed ganwaith, boed milwaith mwy.  
Boed helaeth toraeth ein tud,  
A llawnder drwy holl Wyndud ;  
Lleshâd ein anwylwlad ni  
Droi 'r arad drwy Eryri ;  
Ymherodres mawrhydri,  
Bob gauaf a haf, yw hi ;  
Nid iachach haiach na hon  
Bro Carmel na brig Hermon.  
Arferir ar dir dyrys  
Er gwellhâd gwlad a theg lys,  
Dŵr a than daear a'i tho,  
A'i phriddoedd i'w phureiddio ;  
A'i cheryg o'u carcharau  
Codir a chyrcbir i'w chau.

Dygymydd yd a gwymon  
A fwrir ar dir o'r dôn ;  
Da tywod glas detyd glo  
Daear, cyn ei blodeno :  
Gweddillion sebon y sydd,  
A thail o ffrwyth heolydd,  
Lleisw,<sup>1</sup> huddygl, arllwysion,  
Maeth i'r ddaear hyar hon ;  
Lludw mawn a laid y môr  
I'r ydfaes o ruadfor.

Llesol yw pob arlloesion  
O halltrwydd, dyfnchwydd y dôn ;  
Rhinweddol yw 'r anoddyn,  
A'r lli, a'i stôr, er lles dyn :  
Rhyfedd, goris tuedd tôn  
Yw mân wigoedd mewn eigion ;  
Aml berllan o dan y dŵr,  
A mân erddi mewn oerddwr,  
Daw wellwell wedd diwyllwaith  
Ar y morlan llydan laith.  
Tirion uwch ymylon môr  
Arddwriaeth y werdd oror.

Claddu marl—cywilydd Môn,  
O'r golwg mewn dirgelion,  
Allan yn gyfan âg e,  
O'r geulan i'r tir gole',  
Ac o Fôn cyfion yw cael  
Mynorau—meini urael.<sup>2</sup>

Di-eiddil weithred addas  
Yw tori croen y tir cras ;  
Troï a thrin, ys eithin sydd,  
Y tir gwyllt—torau gellydd :  
Agor ffos o gw'r ei phen,  
I dynu dŵr o donen ;  
Mynu agor mawnogydd,  
Yn dir anmhur, segur sydd :  
Tynu 'n glir o dyndir du,  
Grugwellt, a digaregu ;  
Diwreiddio mewn bydro bach,  
Danadl, a phob rhedynach :  
Tra llesol fuddiol i faes,  
Yru tafol o'r tewfaes ;  
Dryllo, gŵyro 'r droellgoryn ;  
Dyfrhau tir, nid afraid hyn ;  
Daw irddail lle rhed oerddwr,  
Rhad a dail lle rhedo dŵr :  
Gwaith teg ydyw gwthio tir  
Afrywiog, welltog, wylltdir ;  
Danfon calch i redynfaes,  
I freuo, cymhwyso maes :  
Llosgi, nid lle i ysgall,  
Dewgroen nid yw hagr wall :  
Palu ac aru gorallt,  
Tir yd a fyddo to 'r allt :  
Gwneyd cloddiau, caerau cywrain ;  
Aml wrŷch yn drefnwych o'r drain :  
Gweler hir brinder o'r brwyn,  
Llai o efrau a llafrwyn :  
Llosgi amherchi y marchwellt,  
A digroeni lle b'ai dew grinwellt,  
Amseru, diwedd trwm surwellt—tir iach  
Bellach yn dynerach—yn dwyn irwellt.

Rhy hir bu 'r mordir maith  
Is gorllif yn segurllaith ;  
Bellach, tewach y tywyn,  
Brasdir megys glasdir glŷn.  
Brau diredd rhwng brodorion  
A lle ffaeth<sup>3</sup> fo malltraeth Môn :  
Gwigoedd mewn lleoedd gweigion,  
Rhwng creigiau yn manau Môn :  
Pob pryd, mwy o yd yn Môn ;  
Llafur, tra rhedo Llifon.

Parhau bo 'r trysorau sydd  
O fewn i Baris fynydd,  
A bwrier glo Aberwy  
I'r maes—yno tyller mwy.

Os dyn sy 'n derbyn rhad oes  
Trined waith teg trwy einioes.  
Dim blino yn telo tir,  
Mwy o wyndwn na mawndir :  
Dyrnu yd efo dŵr nant  
A phuro grawn â pheiriant.<sup>4</sup>

<sup>1</sup> *Lixivium.*<sup>2</sup> Gwel "ffaeth," yn "Dr. Davies."<sup>3</sup> *Marble and asbestos.*<sup>4</sup> *Threshing-machine.*

Gwae arddwr fo segurddyn,  
Ond lawnfyd i ddiwyd ddyn.

Hau cloron, moron, a maip,  
Mwy o erfin a mawrfaip;  
Rhywiau da o ffa a phys,  
Tironwch yn toi 'r ynys.

Hau gwygbyys, ffacbyys, nid ffol;  
Luwsern, medd rhai, sydd lesol;  
A hau bwrnet, heb oerni,  
Os tâl yn ein hardal ni.

Gwelyfon maethlawn glofer  
Sy 'n darbob parod gnwd per,  
A thyf y gwenith o'i ol,  
Toraeth yn dra naturiol.

Triner yn mhob tironwedd—daear  
Blodeued pob rhinwedd;  
O hen drigle Wynn,<sup>1</sup> drwy Ogledd,  
Draw i Nannau, drwy hen Wynedd:  
Llawn o doraeth fo Lley'n diredd,  
A thir Eifon o waith rhyfedd:  
Hen Gonwy, mwyfwy bo 'r mawl,  
Lle iachawl—dan Arllechwedd.<sup>2</sup>

O ydau teg hyd y tir  
Gwelwn, hyn a ddysgwylir;  
Fwy o Idris i Fadryn:  
Carnedd fawr goruwch llawr Ll'yn.

Pob dynion lawnion mewn llwydd,  
Rhywiogrwydd—heb ddim rhagrith:  
Pob gly'n, pob penrhyn, pob pant,  
A Gwynant yn dwyn gwenith.

Holl Ferwyn, os llafurir,  
Tirionach, tecach y tir;  
Hiraethog, neilltu Ruthyn,  
Dan wlith yn dwyn gwenith gwyn;  
Mwy o egni gwneyd Migneint<sup>3</sup>  
Yn rhywiog—yn ydog neint.

Wele dirfiog wlad Arfon,  
Lle llawn lles, cymhares Môn:  
Tirion pob goleufon glau,  
Ei llynoedd a'i pherllanau;  
Ei goror a'i theg irwydd,  
Yn hyfryd is haulfyd sydd.

Mw'n addas ein mynyddau  
Barhao 'n hir heb brinhau;  
Boed creigiau 'n mynyddau 'n aur;  
Meini 'n cynnyrchu manaur.

Bellach, dedwyddach y dôn,  
Esmwythach oes amaethon;  
Gwerthir o'r sir, mawr y sôn,  
Dorfoedd o ddefaid Arfon;

Rhif odiaeth anmhrofadwy,  
Ychain a moch—dri chan' mwy;  
A chynnydd fyth yn chwannog,  
Rhad, rhad i'r arad a'r ôg.  
Pob union foddion o faeth,  
O rodd lôr i arddwriaeth:  
Bo 'n gwlad yn wastad dan Nêr,  
Bro wendeg yn ddibrinder:  
Moesau teg yn mhob mesur,  
A chrefydd beunydd yn bur;  
Pob ffol, masweddol yn sobr,  
Dan arswyd Duw yn wirsobr.  
Natur yn ddiniweitiach,  
Bob pryd yn y bywyd bach;  
A'n teiau, dan nôd duwawl,  
Duw Amen, yn deiau mawl;  
Mwy o wir o Amerig,  
Heb un achos dangos dig;  
Heddwch, harddwch drwy 'r Werddon  
A fo, na siglo 'r oes hon.

Yr eglwys, dan beryglon,  
Bydded llwydd hylwydd i hon.

Ein tirion, radlon, hirhoedlawg—frenin  
A'n gwiw freiniol D'wysawg;  
Wedi eagyn—diysgawg,  
Y bo'nt,—rheolont yr hawg.

Deled, er lles aml dylwyth,  
B'onapart i ben y pwyth;  
Twrf rhyfel fo 'n dychwelyd  
Draw o Ysbaen—dros y byd:—  
Rwsia fawr dan ras a fo,  
A da hedd a'i dyhuddo;  
Da lwydder duwiol addysg,  
A'r Bibl mwy i'r bobl i'w mysg.

Bo drwy 'n mād anwytlwad ni  
Wyr haelion yn rheoli;  
Rhaned yr hael o'r heiniar,  
I dlawd, i weddwadwd, i wâr:  
Rhoed i w'r mewn cyflwr caeth,  
Fyddo gwan, feddyginiaeth;  
Da estyn cêd yn dostur,  
Esmwythâu picellau cur;  
Rhoi yn deg, a rhanu dysg,  
I'r diweddar a'r diddysg:  
Lle anwyl, iach a llonydd,  
Yn mysg Cymry felly fydd;  
I Frydain na fo w'radwydd,  
Ond amser llawnder a llwydd:  
A theyrnas—bendith arni;  
Heddwch, tawelwch, boed hi:  
Lluddias un amcan llwyddawl  
Na allo dyn, na llu diawl:

<sup>1</sup> *Wynnstay.*

<sup>2</sup> *Isaf ac uchaf.*

<sup>3</sup> *Vulgo mynynt, in Meirion.*



Hoff rawn a firwyth,  
Bwyd heb adwyth:  
I dylwyth di-hudolion  
Amryw lwyth—yn Nghymru lon:

Rhif y gwllith o fendithion  
O law hael Ion:  
Rhanwr union;  
A digon,—rhodd Duw Iago,  
I bawb,—a phoed felly bo.

---



---

POBL Y MAWR GAM.

Y MAE rhyw gynnifer o blant dynion, yn mhob gwlad ac oes, yn tybied o leiaf eu bod yn cael y dirfawr gam, a hyny yn fwy na'u cymydogion yn gyffredinol. Gwir yw fod yn rhaid i bawb ddyoddef rhyw gymaint o gamwri tra y byddont yn y byd hwn, pa un bynag ai saint ai pechaduriaid fyddont. Cyfraith Duw a wahardd bob cam ac a orchymyn bob uniondeb, eto amlwg yw fod rhagluniaeth Duw yn goddef i'r naill o feibion dynion orthrymu y llall. "Gwelais ddagrau y rhai gorthrymedig," medd y gŵr doeth, "a hwythau heb neb i'w cysuro, ac ar law eu treiswyr yr oedd gallu, a hwythau heb neb i'w cysuro"—"Edrych ar orchwyl Duw, canys pwy a all uniawni y peth a gamodd efe?" Nid oes dim yn wirioneddol gam yn ngoruchwyliaethau Duw, eto y mae llawer yn ymddangos i ni felly. Yr annhrefn a ymddengys i ni yn rhagluniaeth y Duw mawr—nid yw ond trefn allan o'n cyrhaedd ni. Ond i ddyfod at y pwnc, sef achos *pobl y mawr gam*. Y rhai hyn a dybiant eu bod yn cael cam beunydd: pan y mae y byd yn ymddwyn yn weddol tuag at eraill, ni chânt hwy ond ei waethaf. Tybiant fod y pen trymaf i'r ferfa arnynt hwy yn wastad, a bod eu gwaith yn galetach a'r gwobr yn llai na'r eiddo eraill. Os byddant ymhlith llawer o weithwyr, byddant yn sicr o gael mwy na'u rhan o'r gwaith. Yr oedd gynt gan Mr. Fychan, o Gorsygedol, hen weithiwr a elwid Huw Cefn-y-dre, ac yr oedd yn un o'r dosbarth sydd yn cael y mawr gam. Cwynai o herwydd amlfath o gamwri, megys yn ei swydd; ond yn y cynauaf medi, byddai Huw yn cael y grwn lletaf bob amser, nes ei fyned yn ddiareb, os cwynai rhywun wrth fedi fod ei rwn yn llydan, dywedid ei fod fel Huw Cefn-y-dre. Y mae cryn lawer o'r tuchanwyr hyn yn barod i gyhuddo y crydd, y gwēydd, a'r panwr, ac ni ddiane neb ganddynt—siopwr na chrefftwr o ba gelfyddyd bynag y bo; neu os masnachwr neu grefftwr fydd y tuchanwr, bydd ei gwsmeriaid yn saith waeth na'r eiddo neb arall. Yr oedd hen glochydd unwaith yn dygwydd bod o'r dosbarth cwynfanus. Ar gladdedigaeth y marw, cwynai ei fod yn cael llawer llai o offwm ar yr achlysuron na pherson y plwyf, a bod ei lafur ef yn llawer mwy yn tori y bedd na llafur ei feistr yn darllen uwch ei ben, a bod cau y bedd yn fwy o ffwdan o gryn lawer na chau y llyfr. Un tro aeth yr hen frawd hwn a'r caip a'r trosol i'r efel i'w blaenllymu, a dywed wrth y gof, "A wnewch chwi drwsio y rhai hyn (arfa'u y plwyf ydynt), fel y byddont yn barod i dori bedd os daw arnaf byth eu heisieu, oblegid ni fu dim achosion o'r fath yn y plwyf er ys llawer dydd bellach." Y mae yn anhawdd rhoddi ar bapwr y dymlher gwynfanus yn yr hon y dywedai y clochydd ei neges wrth y gof, ond amlwg yw ei fod yn cwyno na buasai angeu yn llithricach 1851.]

ei law yn danfon hen bobl a phlant i dragywyddoldeb (parod neu anmharod), fel y caffai efe rywbeth i'w wneyd, er lleied oedd ei dâl—

“A'i gaib a'i raw fe geibiai rych.”

Darparai y tŷ rhagderfynedig i bob dyn byw, heb feddwl fawr fod y dyn yn fyw a ddefnyddiai yr un arfau i dori bedd iddo yntau.

Y mae aml un hefyd yn teimlo nad ydynt yn cael eu caru na'u parohu fel yr haeddant. Cwynant fod eu brodyr heb eu gweled, a bod hyn yn brofedigaeth iddynt gydol eu hoes. Os dygwydd fod pregethwr o'r dymher hon, cwyna fod ei wrandawyr yn oerlyd, yn gysglyd, ac yn anaml; fod bydolrwydd wedi ymdaenu dros wlad ac eglwys, ac nad oes bris gan y naill na'r llall ar weinidogaeth yr efengyl. Tebyg yw fod aml un yn yr Ysgol Sabbothol yn teimlo ei fod yn cael cam na buasai yn arolygwr arni er's llawer dydd, a bod aelodau cyffredin yn yr eglwys weithiau i'w cael yn teimlo pe cawsent gyfiawnder y buasant yn flaenoriaid er's rhai blyneddau. Gall fod eraill hefyd yn teimlo mai rhagfarn, gorthrymder, a cham, yw yr achos na buasant hwythau yn y pulpud ymhell cyn hyn. Ymddengys fod ambell un yn teimlo yn dost, ac yn achwyn ar eu cydgreaduriaid yn galed, am nad ydynt yn foddolawn i gymeryd eu golygiadau hwy fel rheol anffaelledig i'w ffydd a'u hymarferiad yn mhob dim. Teimlant eu hunain yn goddef cam, am na osodai dynolryw hwynt yn nghader anffaeledigrwydd yn Rhufain, y naill ar ol y llall. Yn awr, gan fod yn eglur mai yn ansawdd y meddwl y mae prif achos y duchanfa hon, a'i bod yn anffawd y dynion hyn yn gystal a'u bai, ni a gynnygiwn at y feddyginiaeth; ac,

*Yn gyntaf*, Gocheled y cyfryw ysbryd hunanol y rhai sydd â'u serch arnynt eu hunain, gan hōni hawl i fwy nag sydd ddyledus oddiwrth Dduw na dynion, ac yn barod i gondemnio pawb am na chydabyddent eu hawl; oblegid ped ai yr ysbryd hunanol a thuchanllyd hwn i'r nef ei hun, i blith y cyfiawnon eu hunain, gellid dysgwyl ei glywed yn cyhuddo Noah, Daniel, a Job, o wneyd rhyw gam âg ef; ac ni ddiangai Moses a'r prophwydi rhagddo—barnai yr hwn sydd gyfiawn odiaeth yn annuwiol.

*Yn ail*, Ystyrier nad yw y cam yn wirioneddol oddieithr yn anfynech iawn. Nis gallai fod grwn Huw y lletaf bob tro, ac nid oedd rheswm i'r hen glochudd ddysgwyl cymaint tâl a'i feistr, am nad oedd ei ddygiad i fyny wedi costio ond tipyn mewn cymhariaeth i weinidog y plwyf. Anwybodaeth ac anystyriaeth a barant i ddynion dybied eu bod yn cael cam pryd na byddont. Clywsom am deiliwr, yr hwn oedd yn byw yn swydd Caredigion, er's yn agos i gan' mlynedd yn ol—yr oedd y tē y pryd hyn yn bur anghyffredin—clywsai Jack (oblegid felly y gelwid y teiliwr) son am y tē er's cryn dro, ond nid oedd erioed wedi gweled nac archwaethu dim o hono; ond am fod Jack yn arfer cael bara can, a chroesaw yn mhob tŷ, aeth yn hoff o ddanteithion, a charai amrywiaeth ac ammheuthyn; ond yr oedd y tē o hyd yn ddeythr iddo. Ac wedi hir ddysgwyl, cafodd ei wahodd i dŷ gwraig barchus, o fewn cylch ei gydnabyddiaeth, i weithio iddi ar ei grefft fuddiol a pharchus fel teiliwr. “Wel, hon a hon,” ebe fe wrth ei wraig, “fe gaf finnau dē: yr wyf yn myned i weithio at Mrs. hon a hon, o'r fan a'r fan, ac y mae hi yn yfed tē.” “Cawn glywed,” ebe y wraig. Pa fodd bynag, daeth yr amser i Jack fyned at ei job; ac wedi darford, dychwelai at ei wraig. “Wel, Jack, a gefaist ti dē?” ebe hi. “Do,” meddai Jack, yn edrych yn lled siomedig, “mi gefais dipyn o ddwr oddiarno; ond mi gymerodd y wraig dda ddigon o ofal am gadw y dail iddi ei hunan.”

Ac, meddwch chwî, wŷr a gwragedd Cymru, onid oedd y teiliwr yn achwyn heb achos? Oni wŷr holl wragedd y Dywysogaeth erbyn hyn mai yn y drwyth y mae y boddhâd, ac nid yn y dail; ond ohwaredu teg i'r hen deiliwr, yr oedd tywyllwch yr oes yr oedd yn byw ynnddi yn ei esgusodi i raddau mawr, pan y mae goleuni yr oes hon yn condemnio y rhai sydd yn cwyno heb achos, oblegid eto

"Rhyw bwnio mae rhai beunydd,  
A llunio bai lle na bydd."

Cofied pawb, gan hyny, wrth achwyn ei gam, rhag ei fod yn gyffelyb i'r teiliwr o swydd Caredigion.

*Yn drydydd*, Cofier yn wastad mai y cam mwyaf a ga dyn ydyw y cam a wnelo âg ef ei hun. Enaid pob cam yw gwneuthur cam âg enaid. Meddai Doethineb, "Y neb a becho yn fy erbyn, a wna gam â'i enaid ei hun." Y mae yn llawer gwell dyoddef cam na'i wneuthur. O! mor ofnadwy yw y cam a wna rhai dysgawdwyr âg eneidiau eu gwrandawyr, y rhai a ddysgant orchymynion a dychymyigion dynion iddynt yn lle dysgeidiaeth Duw; ac nid llai arswydus ydyw y cam a wna gwrandawyr yr efengyl â'u heneidiau wrth wrthod ac esgeuluso unig iachawdwriaeth yr unig enaid sy ganddynt. Dyma gam a wneir gan ddynion â hwy eu hunain—cam na ddichon neb arall wneyd ei fath. O ddyn! na wna i ti dy hun ddim niwed.

*Yn bedwerydd*, Gyd âg ychydig wyladwriaeth gellir gochel cam oddiar law ein cydgreaduraid mewn pethau tymmorol yn lled weddol. Ac er fod ein gair da a'n talentau yn agored i gam oddiar law ein cymydogion, ymhlith y rhai y cenfigena ambell un wrth ein lwyddiant, ac y byddwn yn wrthddrychau rhagfarn rhai eraill; eto ar y cyfan, ni a gawn ein hawl gan y corff cyffredin o'r ddynoliaeth. Os bydd rhai yn adgas tuag atom, bydd y lleill yn dirionach tuag atom na'n haeddiant; os bydd rhai am ein gor-thrymu, bydd eraill yn barod i'n hamddiffyn; os bydd rhai yn ein beio pryd na bydd bai, bydd eraill yn ein canmawl yn uwch na'n teilyngdod; os cyhuddir ni weithiau o ffolineb, priodolir i ni bryd arall fwy o ddoethineb nag a feddiannwn. Felly, wrth fwrw ol a blaen, nid oes nemawr berygl y cawn lawer o gam. Yn gyffredinol, os bydd ffordd gŵr yn rhyngu bodd i'r Arglwydd yn dda, fe bair i'w elynion, bob yn dipyn, fod yn heddychol âg ef. Yn ddrwg, fel y mae y byd, eto fe gydnabyddir "rhai llariaidd y ddaear, a rhai llednais y tir," â pharchediggaeth, y rhai geirwir a gonest âg ymddiried, a'r doeth a'r gwybodus âg ymostyngiad. Y mae rhyw gyfiawnder ofnadwy a thragywyddol yn bod, yr hwn y mae dynolryw mewn rhyw fodd a rhyw raddau yn ei deimlo yn eu gorfodogi i dystiolaethu y gwir. Cafodd Cromwell gam dirfawr gan lawer o'i gydoeswyr, a'r oesoedd canlynol;—cyfrifid ef yn ormeswr mewn llywodraeth, ac yn rhagrithiwr mewn crefydd; ond yn ein dyddiau ni y mae haneswyr o'r talentau dysgleiriaf yn rhoddi iddo ei wir gymeriad—talant iddo yr eiddo ei hun gyda llôg. Yr Arglwydd Iesu hefyd, pentywysog a pherffeithydd ein fydd, cafodd yntau ei gamgyhuddo, ond ni lynai ei gamgyhuddiadau wrtho; y mae ei *garacter* nid yn unig yn uchel, ond yn berffaith, a bydded ei elynion yn farnwyr. Yn fuan, fuan, fu ddaw y Barnwr cyfiawn i sefyll uwch ben ein hachos, a gallwn fod yn berffaith ddiofal na chawn gam oddiar ei law ef—bydd barn wrth linynt, a chyfiawnder wrth bwys. "Yr hwn sydd yn gwneuthur cam, a dderbyn am y cam a wnaeth, ac nid oes derbyn

wyneb. Canys cyfiawn yw ger bron Duw dalu cystudd i'r rhai sydd yn eich cystuddio chwi; ac i chwithau, y rhai a gystuddir, esmwythdra gyda ni yn ymddangosiad yr Arglwydd Iesu o'r nef gydâ'i angelion nerthol."

---

### "LLYFR HANES Y FFYDD."

UWCH ben yr ysgrif hon galleid ysgrifenu yr enw Charles Edwards, heb ddim ychwaneg: ond gwyddom y byddai hyny yn achos i lawer un ei gadael heb ei darllen, gan ryfeddu ein bod yn rhoddi lle i hanes dyn mor anenwog. Nid hwyrach hefyd y gofynid, gyda gradd o ddirmyg, Pwy oedd Charles Edwards? A phaham y rhaid i ni ddarllen am un na chlywsom erioed son am dano, yn lle am awdwyr dysgedig a doniol? Wel, ddarllenydd mwyn, yr oedd Charles Edwards yn awdur—nid awdur Seisnig mae yn wir, onidê mae yn debyg y buasai yn fwy hysbys i'r Cymry—ond awdur Cymreig: ac nid yw yn ormod dyweyd ei fod yn rhagori ar hanner yr ysgrifenywyr a gyfieithwyd i'r Gymraeg gyda mawr ddiwydrwydd, o'i amser ef hyd yn awr. Mae yn ymddangos hefyd ei fod unwaith yn awdur lled boblogaidd; oblegid cyhoeddwyd y chweched argraffiad o'i waith ar "Hanes a Rhinwedd y Ffydd Gristionogol," gan Dr. Williams, o Lanbedrog, yn y flwyddyn 1822.

Rheswm arall paham na roddwyd enw yr awdur yn unig uwch ben yr ysgrif hon ydyw, diffyg defnyddiau i ysgrifenu hanes cyfiawn am dano. Am ba beth yr oedd ysgrifenywyr y dyddiau hyny yn meddwl, nis gwyddom: ond meddwl am gadw coffadwriaeth y dynion goreu heb ei golli oddiar y ddaear *nid oeddynt*. Os rhoddwyd cymaint a gair o hanes Charles Edwards ar lawr gan ei gydoeswyr, ar bapyr neu ar gareg fedd, y mae rhyw gaddug wedi ei guddio er ys talm. Gwelsom ofyniad yn y "*Cambro-Briton*," oddiwrth un "Chwyllydydd," yr hwn, dybygem, oedd Dr. Williams, o Lanbedrog, yn holi am ryw hysbysrwydd mewn perthynas iddo: ond er i'r golygydd ei hun gyfeirio sylw at y gofyniad, nid ydym yn deall iddo byth dderbyn atebiad. Y mae yr holl hanes a roddir gan Dr. Williams yn nechreu yr argraffiad diweddaf, yn gynnwysedig mewn dau lythyr; un oddiwrth y Parch. Walter Davies, a'r llall oddiwrth John Edwards, Ysw., o *Great Ness*. Yn y cyntaf, dywedir i Charles Edwards gael ei eni yn Rhyd-y-croesau, yn mhlwyf Llansilin, yn swydd Dinbych, ar derfynau plwyfau Croesoswallt a Sylattyn: ac i'w frawd hynaf, Robert Edwards, briodi Anne Kyffin, merch ac etifeddes Robert Kyffin, o Garth Eryr yn Mochnant. Yn y llall, dywedir nad oedd ond un Charles wedi bod yn y teulu; a bod hwnw yn fab i Robert Edwards, o Cynlleth, yn swydd Dinbych. Hyd yma y mae yr hysbysiaidau am dano yn cyrhaedd; ac y mae yn rhaid addef nad yw y ddau hanes uchod yn ymddangos ar yr olwg gyntaf yn hollol gyson. Dichon er hyny nad oes ynddynt ddim anghysondeb gwirioneddol. Ond os na ellir credu y ddau, diau y dylid rhoddi y flaenoriaeth i'r Parch. Walter Davies.

Ychydig sydd i'w gael ymhellach na hyn heblaw tybiaeth. Barna rhai ei fod yn offeiriad: ond y cwbl a ellir ei ddyweyd yn benderfynol yw, ei fod yn aelod o'r Eglwys Sefydledig, o'r un ddelw ac ysbryd a Leighton neu

Gurnall. Yn 1671, cyhoeddwyd ganddo, yn Rhydychain, argraffiad newydd o'r "Deffyniad Ffydd Eglwys Loegr," o waith Esgob Jewel, wedi ei gyfieithu gan Morus Kyffin.<sup>1</sup>

Yn y flwyddyn 1675, cyhoeddwyd llyfr buddiol o'r enw "Hyfforddiadau Christianogol, yn dangos Pa fodd i rodio gyda Duw ar hyd y dydd. A osodwyd allan yn Saesonaec gan Tho. Gouge, gweinidog yr efengyl, ac yn Gamberaean gan Richard Jones o Ddinbech. Printiedig yn Llundain gan A. Maxwell i'r awdwr, 1675." Yn niwedd y llyfr hwn y mae yr anerchiad a ganlyn, gan Charles Edwards:—

“DIWYGIWR Y PRINT-WASC AT Y DARLLEYDD.

“WELH Rhagluniaeth y Goruchaf yn porthi dy enaid ti yr awrhon, yn y fath ryfeddol fodd ac y llonodd ef gorph Samson gynt, pan ddarparodd iddo fel ynghorff llew; gan beri i Sais o'i lawn wirfodd cariadus wneuthur lleshad i Gymro; a chynhyrfu yr Awdwr parchedig, er ei fod yn ŵr o Loegr, i ofalu am br-intio tair mill, a phumcant o'r llyfrau hyn, i'w cyfrannu yn rhad ymysc ein gwladwyr ni. Pe buasai rhyw brophwyd ychydig wedi amser Owen Glyn-dwr yn cyssuro ein henaflaid ni a'r cyffelyb eiriau ac yr adroddwyd y ddychymmyg wrth y Philistiaid, y digwyddai iw heppil hwynt gael bwyd allan o'r bwyttawr, a melustra allan o'r cryf, Barn. 14. Anhawdd y deallasant wrth hynny y troeu y Saeson fyth mor dirion, ac hyfforddi iechydwrïeth y cymru. Etto heddyw y cyflawnir hynny yn dy olwg di; fel y rhyddech ogoniant i Dduw, a ddichon wneuthur trugaredd uwchlaw pob disgwiliad. Wedi yr arferer y llyfrau hyn annyd, yr wyf ar fedr Preintio Hanes y Ffydd beth yn helaethach nag o'r blaen, os yr Arglwydd a'i mynn.

Yr wyf yn deall fod cryn nifer o eiriau cymraeg yn ddiethrol i'r naill ran o Gymru, er eu bod yn gydnabyddus yn y llall. A bod amryw o'r geiriau sy mewn hên lyfrau Cymraeg yn anhyspys i ni o'r oes hon, eisiau ymarfer â hwynt. O herwydd hynny fe fyddai'n ddymunol i rai o Wynedd a Deheubarth gyttuno i gydwneuthur Dicisionari Cymraeg bychan, sef Gair-lyfr cryno i'r Gwerin, yn dangos arwyddocâd yr holl eiriau Cymreig, mai y deallir llyfrau yn hawsach, ac y deuer o hyd eilwaith i lawer o'r iaith a'r fydd ar y goll. Yr hyn a fyddam ni ewyllysgarach iw wneuthur pe gwyddem faint sydd ymddi o'r fam-iaith baradwysaidd, er mwyn hynodi hynny mewn rhan, mi a geclais fagad o ymmodrion allan o'r Bibl Hebraeg a ellir eu deall yn Ghyrnur gyd ag ychydig hyfforddiad.

C. E.”

Er mai Sais oedd Thomas Gouge, ni wnaeth neb yn yr oes hōno fwy o les i'r Cymry. Hyfryd i'n teimlad ni yw gwelod cydweithrediad mor gyfeillgar rhyngddo ef ac awdur “Hanes y Ffydd.” Nid rhinwedd fechan hefyd yn Charles Edwards oedd cadw ei gariad at ei genedl, a llafurio cymaint drostynt, er ei fod yn byw y rhan fwyaf o'i oes, fel y mae lle i gasglu, ymhlith y Seison. Y mae rhai yn debyg iddo yn ein dyddiau ninnau; a gobeithiwn y bydd i'w nifer fyned ar gynnydd.

Ond i ddychweylod at “Hanes y Ffydd.” Y mae Moses Williams yn dyweyd yn ei “Gofrestr” i Charles Edwards brintio “Hanes y Ffydd” y tro cyntaf yn Llundain, yn 1671, a thrachefn yn Rhydychain, yn 1677. Y mae Dr. Williams yn tybied fod dau argraffiad wedi ymddangos yn Llundain, gan mai y trydydd yw argraffiad Rhydychain, yn 1677. Yn 1722, cyhoeddodd John Rogers argraffiad arall yn yr Amwythig, yr hwn a elwir ganddo “*The Fourth Edition.*” Yn 1811, cyhoeddodd R. Jones, Dolgelle, argraffiad arall, yr hwn a elwir hefyd “Y Pedwerydd Argraffiad, wedi ei adgyweirio a'i ddiwygio yn ofalus.” Cyhoeddwyd un arall yn Dolgelle, yn 1822, fel y crybwyllwyd eisoes, dan arolygiad Dr. Williams o Lanbedrog. Rhoddwn yma yr oll o'r Rhagymadrodd fel y mae yn y trydydd argraffiad:—

“*At y Darlleydd.*

“GRAB, trugaredd, a thangneddyf a liofego i ti trwy Grist Iesu. Wrth ystyried mor gyn-northwyawl i'm gwladwyr a fyddai hyspyrwydd o'r pethau a ganlynant, ac nad adwaenwn

<sup>1</sup> Cyhoeddwyd argraffiad wedi hynny gan Mr. Charles o'r Bala, ac un arall yn ddiweddar yn Llundain.

i un llyfr i'w gyfeithu ydoedd yn wahanredol yn amgyffred y cwbl o honynt, ymosodais i'w pigo allan o amryw lyfrau: a chymerais gwrs y wenyen i sugno llawer llysiuyn i wneuthur hyn o ddilyn. Cyd-ddwg ditheu â'r fath grwybyr ac fydd ynddo.

Cawn weled yma siamplau pobl Dduw, a'r môdd y carasant ei ewyllis ef, ac y cadwasant ei orohymynion ef; fel y bo i ni ganlyn y briso a dorrasont hwy drwy lyohfeydd profedig-aethau r' byd dryc-hi-nog hwn: a cherdded *Llywybr Cŵl sydd yn arwain* i orphwystra tragwyddol. Amlhâodd defaid Jacob wrth gyfebru o flaen gwiall brithion, a dwyn \*yn o'r un lliw â'r hyn o osodid iddynt i edrych arno *yn y cwtterydd o fewn y cafnau dyfroedd lle y deuant i yfed*, Gen. 30, 37, 38, 39. Bydded i ninnau wrth geisio ymddiwallu â gwybodaeth, iawn graffu ar Grist, a'i ferthyrion Sanctaidd, y rhai y dirisclwyd pob pechod, a mwyniant bydol oddiam danynt; mal y tebygom i'r *gwyn oedd yddynt*, ac y chwano go gwir Cristianogion tebyg iddynt yn ein plith. Ni a ddeuwn i borfeydd gleision, os awn rhagom ar *hyd ôl praidd y gwir fygail*. Can. Sol. i. *Na fyddom fucrell eithyr dilymwyr i'r rhai drwy fydd ac amymedd y'n eifeddau yr addeuidom*. Heb. 6. 12 yn enwedig byddom dilymwyr i'n henafiaid megis y buont hwythau i Grist. 1 Cor. xi. 1. dodwn hawl i fraint a bonedd ein hên deidiau, ser purdeb fydd efangyliaid, a grym dduwioleb. Er mwyn hyny fy 'ngwladwyr anwyl, y rhoddais hyn o ddiwydrydded ar yscrifenu atoch am yr *iechydwrtaeth gyffredinol, gan eich annog y ymdrech yn mhlaidd y fydd, yr hon a roddwyd unwaith i'r Sainct*, ie yn mhliith y Britanniaid. Jud. 3. yr oedd Paul yn hoffi Timotheus yn hytrach wrth alw i'w *gof y fydd ddi-fuant ydoedd ynddo ef, yr hon a drigodd yn gyntaf yn ei nain Lois, ac yn ei fam Eunice*. 2 Tim. i. 5. eled y Cymro yn hoff gan Dduw yn yr unrhyw fôdd. Ac fel y dylem ddilyn rhinweddau yr ychydig o rai da yn mysc ein henafiaid, felly hefyd gochelyd pechodau y llaweroedd o honynt ydoedd ddrgw, a ddug arnynt ddaledol dwys, ac a wnaethom na bu *Duw foddlon i'r rhan fwyaf o honynt; Cansy cwympwyd hwynt yn nhr eu ganedigaeth. A'r pethau hyn a wnaed yn Siamplau i ni, fel na chwennechem ddrwgion, megis ag y chwennechasant hwy, ac aa odnebon fel y godinebodd rhai o honynt hwy, ac y syrthiodd miloedd o honynt. Ac na themtison Grist, megis ac y temtiodd rhai o honynt hwy, ac a' destrywiwyd. A'r pethau hyn oll a ddigwyddasant yn siamplau iddynt hwy, ac a scrifwyd yn rhybydd i ninnau, ar y rhai y daeth terfynau yr oesoedd*. 1 Cor. x. 5, 6, 8, 9, 11. *Na fyddoch fel eich tadaw, y rhai y galwodd y prophwydi arnynt, gan ddywedyd, dychwethoch oddiwrth eich fyrrd drwg, ond ni chlyw-ent, ac ni urandawent, nes i fwgthion Duw eu goddiwes hwynt*. Zech. i. 4, 6.

Darllen yn astud, a chydabyddi nad yw fydd beth newydd, eithr hên; na pheth dychymygod, eithr sylweddol; a sicrwydd y pethau nid ydis yn eu gwedd. Heb. xi. 1. Y rhai sydd ystyriol ar eiriau, a gweithredoedd Duw, ac yn byw yn rasol, a dderbyniant gyflawn hyder yn ei fyrrd ef. Arferia sanctaidd *ddiwydrydded yr mwyn llawn sicrwydd gobauith hyd y diwedd*. Heb. vi. 11. I'w blant uffudd, ac nid i'w elynion anghymmodol y mae'r Duw doeth yn adrodd ei gyfrinach.

Gwelodd Duw yn dda roddi i mi amser i orphen yr hyn a ragfwridaswn ei yscrifennu ynghylch Rhinwedd y fydd, ac i ddatcan ei helynt hi beth yn helaethach nag o'r blaen, gan roddi ar lawr fwy o reymau'r prif Cristianogion nag a welaisi gynt. Ac o'i ddoeth ragluniaeth a'i ddaionni gwnaeth y Mawrhiadi Nefol i mi drwy brofiad go-hir yn fy nghyflwr fy hun wybod sicrwydd am y prif bethau yr wyf yma yn eu cyfranu i eraill. Cansy ar bôb rhyw achosion ceffais fy Arglwydd grasusol yn gyfryw i mi, ac y mae'r yscrifthyrau yn mynegi ei fod ef. Iw enw ef y byddo gogoniant, ac ith enaid titheu y byddo adeiladaeth mal y byddech Gristion mewn gwirionedd ac nid mewn lliw yn unig.

Ym mysc rhai pethau anarferol a ddigwyddodd i mi oesais ganfod llawer o'r Gymraeg yn y Bibl Hebraeg, a thybais na ddyiwn i gelu hyny oddiwrth fy ngwlad, na gosod y ganwyll dan lestr a oleuwyd yn fy llaw i oddiuchod heb gynnorthwy dŷn; a diammau y gellir gwled rhyw beth wrthi. Yn ddiau ni ddeallais i erioed o'r blaen arwyddocâd llawer o eiriau ac enwau arferedig yn ein plith ni, nes i mi eu cael hwy yn yr iaith honno yn mha un yr yscrifwyd yr yscrifthyrau sanctaidd gyntaf. A chan fod genym etto beth o iaith y Prophwydi, ymagnwn i fod yn berchenogion o'u graeau hwynt hefyd, ac wneuthur ar ôl yr hyn a draethant hwy.

Di a gel yn y llyfr hwn wrth o ddaennau â lluniau arnynt, y rhai ni fwriedais it tuag at addoliad, megis y gelli ddeall wrthynt; na thrwy'r un awurdod ac y *Unwryd Jerusalem ar bridd-tech*, Eze. iv. 1. ond er arfer naturiol, fel y mae'n gynnefn yn mysc Cenedloedd eraill.

Lle trawodd rhyw gwrr neu'i gilfedd o'r groes wrth fy ngwaith a gwneuthur tippin o anaf arno, bydd mor dirion a'i feddigniaethu drwy yscrifennu neu ddeleu ymbell llythren, a gwneuthur y nod hwn—o gysylltiad, lle bo'r naill ran o'r gair yn rhybell oddiwrth y llall.

Y mae i mi achos arbennig i glodfori enw yr Hollalluog am ddwyn fy ngorchwyli i hyn o byd. Ac i'w alw *Eben-Ezer, a dywedyd, hyd ymma y cynnorthwydd yr Arglwydd* fl. 1 Sam. vii. 12. Adolwg na ddigio neb wrth hyn o lyfran, eithr ei dderbyn â'r un ewyllis ac yr wyf inneu yn ei ddanfon. Na friwa'r llaw a estynno it arwydd o garedigrwydd, er gwaeled fyddo. Nid yw ddiarwybod i mi fod eraill yn y wlad a fedrasent wneuthur y rhan fwyaf o hyn yn well. Ond ni redif y sŷg o'r aeron (er perseiddiaid a chyflawnedd fyddont) nes eu dryllio a'u gwascu. Os digwydd i'r cyfryw, a *nhwy yn gwybod ofn yr Arglwydd*,

ymosod i *berwadio dynion*, y mae iddynt er hyn ddigon o waith, a llé i'w wneuthur. Ac ni hwyrach i ryw un o gariad iti, neu o genfigen i mi, yscrifennu ychwaneg ynghylch yr unrhwy bethau : pa fodd bynag, gwna'r defnydd goreu o bôb cynnorthwy. Yr oedd yn o-anhydyn genif fyned drwy'r daith hon, i geisio it hyn o hanes am beth gwerthfawr a fu ar y goll, ac i hel ynghyd hyn o dystion yn achos Duw, nes iw wialen of fy ngyrru, ac iw raglunioeth ef oedd *anghenrhaid arnaft* : ac i *gariad Crist fy nghymell*. ð cofiw yr hwn a fu farw tros banob, fel na byddet i'r rhai byw fyw mwyach iddynt eu hunain, ond i'r hwn a fu farw trostymt, ac y gyfodwyd. 2 Cor. v. 11. 14. 15. Bu ffrion gan Baganaiad wasanaethu eu pobl trwy ddirfawr boen, a chaledi ; ac os bu i'r cyfryw chwysu a gwaedu dros eu gwlad, nid yw ond peth bychan i Gristianogion yscrifenu er ei mwyn. Y Cymro caredig o chei llesâd wrth ddarilain, treulia ymbell ddeigryn mewn gweddi dros un a dreuliodd lawer munudyn mewn rhyw fath a'r orchwyllion er dy fwyn di, ac felly tâl y pwyth ith

gydwladwr anwiw

CHARLES EDWARDS.

Llundain, mts Ebr. 1677.

Y bennod gyntaf yn y llyfr sydd yn rhoddi hanes am bedwar parth y byd. Yn y pennodau nesaf, o hyny hyd yr ugeinfed, ceir Hanes y Ffydd er dechreu y byd mewn gwahanol wledydd, ac yn fwy neillduol ymhlith y Cymry. Y mae rhai o'r hanesion, fel y gwelir yn llyfrau yr oes hōno yn gyffredin, yn dangos gormod o hygoledd ; er hyny, nid tro iawn yn Dr. Williams oedd eu gadael allan. Gallasai wneyd nodiadau arnynt yn ngwaelod y ddalen ; ac yna cawsai y darlennydd farnu drosto ei hun. Ond y mae yr holl bennodau hyn ar y cyfan yn hanes cywir a chryno. Nid oes dim a ddymunem ei gymhell ar ddynion ieuaine i'w ddarllen yn fwy na hanes y byd, ac yn enwedig hanes crefydd yn y byd : ac wrth ddechreu, byddai yn anhawdd iddynt gael llyfr mwy buddiol na “Hanes y Ffydd.” Tueddir ni i roddi dau ddyfyniad o'r bedwaredd bennod ar bymtheg. Y cyntaf sydd fel hyn :—

“Gweddiwn ar Dduw am roddi Ysbryd ei ras i bob gradd o ddynion yn ein mysg ; fel yr adeiladont yr hen ddiffaethfa, ac y cyfodont anghyfanedd-dra llawer oes ; sef tabernac Dafydd yr hwn a syrthiodd,” yn ein gwlad ni yn amser ein hen dadau : ac yr adeiladur ei fylchan drachefn ; fel y byddo i'r hyn a weddillwyd o honom geisio yr Arglwydd, yr hwn sydd yn gwneuthur yr holl bethau hyn :” ac a'n gwaredodd o dŷ caethiwed bydol ac ysbrydol, yn yr hwn y mae'r Gwyddelod yn nychu. Gwllia arnat yn ddyfal, O Gymro, rhag i ti rwystro a digalonu adferiad at y Ffydd yn dy fro ; canys ‘yr Arglwydd, yr hwn a ddewisodd y gweddill, a gerydda bob gwrthwynebw.’ ‘Onid pentewyn yw hwn wedi ei achub o'r tân ?’ Yn hytrach gwnaed yr oes hon ei rhan yn adeiladu ar y sail ysgrythyrol a osododd yr oes ddiweddaf, ac yn cynyddu'r gwaith a ddechreuwyd trwy gymaint o anhawsdra fel y toro goleuni Cymru allan fel y wawr, ac na ddiffodder ei phentewyn.’

Byddai yn gymhorth nid bychan i'n gwlad pe cyfodai ei blaenoriaid COLLEGE neu ddau ynddi, i ddwyn gwŷr ieuaine gobeithiol i fynu mewn dysgeidiaeth a moesau da, tuag at eu cymhwyso, gyda bendith y Goruchaf, i weinidogaeth efengylaidd, a swyddogaeth wladwriaethol.”

Caniataer i ni alw sylw pawb at y rhan olaf o'r dyfyniad hwn. Dyma un o brif anghenion y Cymry yn ein dyddiau ninnau. Y mae genym ryw fath o golegau, ond y maent oll yn perthyn i ryw blaidd grefyddol. Yr hyn sydd eisieu yw un Brif-ysgol gyffredinol i'r Cymry. Y mae enw Charles Edwards yn haeddu ei gadw mewn cofawriaeth, pe na buasai wedi gwneyd dim ond rhoddi y cynnygiad hwn ger bron ei gydwladwyr. Ar yr un mater y mae y dyfyniad arall, yr hwn sydd fel y canlyn :—

“Ni bydd y nef yn nyled y ddaear. Yr hyn a wyddai Solomon yn dda wrth ei brawf a'i lwyddiant rhyfeddol, wedi iddo adeiladu'r deml. Am hyny, yn ei ddoethineb a'i serch, cynhorodd ei fab, gan ddywedyd, “Anrhydedda yr Arglwydd a'th gyfoeth, ac a'r peth penaf o'th holl ffirwyth ; felly y llenwir dy ysgeburiau a digonoldeb,

a'th winwryfoedd a dorant gan win newydd.' Ac nid yn y byd yma yn unig y ceir tâl am yr hyn a dreulir ar wasanaeth Duw, eithryn y byd arall hefyd. Pan gipio marwolaeth y rhai didda at benyd a phrinder tragwyddol, caiff y goruchwylwyr ffyddlon a arferant eu talentau yn ngwasanaeth eu Harglwydd, drysor yn y nefoedd, yr hwn ni dderfydd, a chynnalïaeth ogoneddus byth. Ynte masnach ynnillfawr yw rhoddi echwyn i'r Arglwydd, a goreu hwamonaeth yw llafurio i danu yr hâd y tyf ei gnawd yn uwch na'r cymylau. 'Oblegid yr hwn sydd yn hau i'w gnawd ei hun, o'r enawd a fed lygredigaeth; eithr yr hwn sydd yn hau i'r Ysbryd, o'r Ysbryd a fed fywyd tragwyddol.'

O nad ymgeniai 'n cenedl i fod mor fywiog ac mor wresog yn y grefydd Gristionogol ag a fu rhai o'n hen deidiau ni gynt. Troesant hwy Scotiaid, a Phictiaid, a Germaniaid, a chenedloedd eraill at ffydd Crist; ac a esguluswn ni hi yn ein cartref ein hunain? Yr oeddynt hwy yn flaenaf; ac a fyddwn ninnau yn olaf yn achosion teyrnas nef? Na ddirywiwn; eithr fel Naboth, glynwn yn y winllan efengylaidd sydd Dref-tadaeth ein hynafiaid; a rhodiwn fel plant y goleuni, ac ymddygnwn yn ddyladwy wrth fodd Duw, megys y mae hi yn bryd i ni bellach; 'nid mewn cyfeddach a meddwod, nid mewn cyderwedd ac anlladrwydd, nid mewn cynen a chenfigen: fel y gallo ein gwlad, a fu cyhyd dan waradwydd, fyned yn enwog am rinwedd."

Testun yr ugeinfed bennod yw "Sier wirionedd y Ffydd Gristionogol." Nid ydym yn cofio i ni erioed weled y gwahaniaeth rhwng y profïan allanol a'r rhai trefnwol yn cael ei osod allan yn well mewn ychydig eiriau nag yn nechreu y bennod hon. "Er fod achau 'r ffydd a argraffwyd eisoes yn gwirio Duw yn dad iddi; eto, gellir cael ychwaneg o hysbysrwydd am hynny wrth ei phryd a'i gwedd, y rhai sydd yn tebygu iddo." Ar ol dwyn ymlaen liaws o resymau nerthol a goleu i brofi gwirionedd y ffydd Gristionogol, y mae yn sylwi fel y canlyn:—

"Os ammheui eto, dywedaf wrthyf, fel y dywedodd Philip wrth Nathaniel, 'Tyred a gwel.' Fel yr argyhoedda'r creadigaeth a rhagluniaeth dy reswm di, gwaith yr 'ad-enedigaeth ac adnewyddiad yr Ysbryd Glân,' a lwyr argyhoedda dy galon, ac a ysgrifena'r gyfraith ynddi, oni's gwrthodi hi. Oni choeli fod athrawiaeth y ffydd yn win melus ac iachus, wrth weled eraill yn ei ddymuno, ac yn siriol ar ei ol ef, prawf ef dy hun, a dywedi yr un peth. Golch lygaid gwëiniaid dy feddwl & dagrau edifeiriol, a gloywach fyddant, a chanfyddi ewyllys Duw yn graffach; a gweli'r Haul cyfiawnder wrth ei oleuni ei hun. Oddiwrth darth enawdoliaeth y cyfyd niwl yn y meddwl, Bydd pob dyn & deall wedi ei dywyllu, tra fyddo wedi ymddieithrio oddiwrth fuchedd Dduw. Ond y meddwl newydd a gaiff 'brofi beth yw daionus, a chymeradwy, a pherffaith ewyllys Duw.' A'r hwn sydd yn credu yn Mab Duw, sydd ganddo y dystiolaeth hon ynddo ei hun. Derbyn Ysbryd Duw i sancteiddio dy enaid, yr hwn a dystiolaetha mai ei ysgrifen ef yw'r ysgrythyrau. Yna y gelli ddywedyd wrth yr eglwys fel y Samariaid wrth y wraig, 'Nid ydwyf fi weithian yn credu oblegid dy ymadrodd di: canys mi a'i clywais ef fy hun a gwn yn ddïau mai efe yw y Crist, iachawdwr y byd.' 'Yr hwn a ewyllysia wneuthur ewyllys Duw a gaiff wybod am y ddygeidiaeth, ai o Dduw y mae hi.' Defaid ufudd Crist a adnabyddant ei lais ef, rhagor llais dieithriaid.

Oni bydd dyn yn yr un elfen a'r peth yr edrycho efe arno, nis gwel yn iawn. Pan edrycho un oddiar y lân ar bren yn y dwfr, efe a'i gwel yn gam, er ei fod yn union. Felly ni ddichon yr hwn sydd mewn cyffwr cnawdol iawn ddirnad y gwirionedd graol; 'oblegid yn ysbrydol y bernir ef.' Meibion Duw sydd gynefin â'i bresennoldeb ef, ac arferol o drin ei negesau, a adwaenant ysgrifen-law eu Tad nefol. Cais burdeb calon, a chei weled Duw, a'i ewyllys hefyd."

Yn awr, ddarllenwydd, onid yw y dyfyniad hwn yn profi mai nid dyn cyffredin oedd Charles Edwards? Nid ydym yn tybied fod un sylw mwy dwfn-dreiddiol, na chyffelybiaeth brydferthach yn holl waith Bacon. Byddai yn hawdd i ni gael nifer mawr o ddywediadau tebyg yn y llyfr hwn; ond cymerer yr ychydig a ganlyn fel anghreiffiau:—

"Ffyrdia dwfr edifeirwch o'r calonau creigiog pan eu tarawer & gwialen Moysen. Ac o herwydd bod y rhan fwyaf yn eu hawddfyd yn ysmala ganddynt glywed



cynghorion gair Duw, a'i weision, a'u cydwybodau eu hunain, gan fod eu braeder yn cadw'r pigau rhag dyfod at y byw, a'u pethau esmwyth hwy yn rhwystro'r ergydion i guro eu rhyfgy hwy i lawr, rhydd yr Arglwydd bwys ei law ar y rhai a fo ysgafn ganddynt ei air ef. A phryd na ddysger er mwynder, caiff llais y wialen ddwyn y wera ar gof, a throir llawenydd yn dristwch i'r rhai a dront ras yn drythyllwch.

Tywredd caled oddiallan a chwanega boethni euogrydd oddifewn; a thra fo'r cyflwr bydel yn gymylog y saetha mell't drwy'r meddwl yn aml. Y pechodau ni chanfyddid yn y cynhearwydd llwyddiannus, a'r maswedd mwll, a ymddangosent cyn amlod a'r ser pan ddel oerni calon.

Ac nid heb achos y mae'r Arglwydd yn gosod ar y pechadur yn neillduol drwy'r cyfryw ddwys argyhoeddiad. Canys tra fyddo ef yn galw pobl i edifarhau drwy gyffredin weinidogaeth y gair; ac megys ar ben yr heolydd yn llefain ar gynnulleidfau lluosog i ddiwygio eu ffydd, ni thyrir fod ei rybudd ef yn perthyn i'r naill mwy nag i'r llall, am hyny, ysywaeth, cydesgeulusant ef. Ond pan yw yn neillduol drwy ddwys gerydd yn curo wrth ddrws y galon gystuddiol, cydnabyddir y pryd hyny pwy y mae ef yn ei geisio; a'r hwn mae y fath ymofyn am dano, a ymrodda iddo ef. Ac fel Moeses cennydd Dduw yn y berth bigog, er iddo ei ddigio fel Adda yn yr ardd lysieuog.

Er hyny i gyd y mae'r llanc grasol [sef Joseph] drwy ystyriaeth duwiol yn curo'r gof uffernol yn ei efel. Er maint oedd mantais ei elyn aeth a'r maes oddiarno, a chadwdd ei onestrwydd er colli ei wisg, ac ni wnaeth ddrwg yn erbyn Duw da.

Gwraig Job a lefarodd wrtho ef fel un o'r ymfydion, er hyny ni phechoedd ef a'i wefusan. Cawsai ddigon o rybudd oddiwrth Adda fal y medrai Satan wneuthur bwa croes o'i asen ef i saethu atto ef ac i'w archolli, am hyny gwlliodd ac ymgadwodd. Mor iachus ydoedd tymher ei ysbryd ef, nad allai'r haint oedd cyn nesed at ei fynwes ef mo'i amharu.

Ac os yw amser y byd agos i ddarford, a chwedi rhedeg hyd at y gwaddod isaf (fel y tybia rhai) nid rhyfedd ei fod wedi egru a chwerwi cymaint. Canys tebyg y gwya daioni, ac y crina'r byd cyn llosgi pob peth; ac mai'r drygioni erchyllaf a brysura'r farn fawr: a dirmygu llais peraidd yr efengylwyr a bair glywed udgorn dychrynall y Barnwr. Daw'r *ecclipse* du ar y byd pan fo ei anwreidd yn ei lawn lloned.

Dir yw fod pobl Dduw y pryd hyn yn cael sylwedd yr unrhyw rasan ag a gafodd y Cristionogion cyntaf, er bod rhagoriaeth rhwng eu doniau. Yr un yw daioni Duw i ddyddion pa un bynag a fo'r moddion drwy ba rai y gweithier ef, ai arferol ai rhyfeddol. Y mae'r bara beunyddiol a gawn ni o'r ddaear drwy fendith Duw ar ein llafur, yn tori ein newyn ni, ac yn adferu ein nerth ni yn gystal ag y gwnai'r manna a ddiagynai o'r wybr i'r Israeliaid.

Un go wan, wrth gyfarwyddyd a pheiriannau, a ddichon wneuthur pethau nad allo y cryfaf hebbdynt: a'r hwn gan hyny a fyno'r maes oddiar elynion ei enaid, a ddylai yn gyntaf fedri iawn drin arfau ei filwriaeth ysbrydol.

Gyda gwllith y nefoedd, rhaid wrth ddefnyddio o chwys y corff i beri i'r maes ffrwythloni. Ac ni wasanaetha i ni dybied am natur dyn fyddo wedi llygru a phechodau ffiaidd, y daw hi yn ddiboen i ddwyn ffrwyth da.

Cynhyriad a gwaith sydd fuddiol i'r bywyd hwn a'r llall hefyd. Y dwfr rhedegog sydd loywaf, a'r awyr gwyntog sydd iachaf, a'r crision bywiog sydd ysbrydolaf.

Medr y cythraul chwythu'r tân uffernol o'r cynnud crinion i'r coed fr, gan geisio llygru y rhai da drwy y rhai drwg. Yr hwn a gynmero ofal am iechyd ei enaid, ymgadwed yn mhellaf ag a allo oddiwrth y cyfryw ag sydd gleifion o haint anwreidd.

Rhwystra ddechrenad pechod. Pan glywech ddeisyfiad afreolus yn cyfodi ynot, brawycha a gweddia, a dyro dy fryd ar ei ladd ef cyn iddo ymgadarnhau mewn gweithrediadau atgas. Hawdd i wendid dynu eginyn derwen o'r gwraidd cyn gynted ag y toro trwy'r ddaear. Llauer tân wrth ei ganfod mewn pryd a ddiffoddwyd yn ddiboen, yr hwn, ped esgeulusaid, a gynyddasai i ddifrodi dinas.

Rhoddi cyfarwyddyd i'r enbydus a'r cyfeiliornus, ac elusen i'r truennus, sydd yn eysuro y sawl a'u gwnelo cymaint a'r rhai a'u derbynio. 'Dedwydd yw rhoddi yn hytrach na derbyn.' A phan ddel dyn hyd at y cnewyllyn blasus sydd o'r tu fewn i weithredoedd crefyddol, ni fyn fod hebbdynt mwy; ac y mae dyn yn myued yn aplach i bob gwaith da wrth ei arfer. A bendith y Goruchaf rydd ychwaneg i'r hwn a fyddo 'ffyddlon ar ychydig.'"

## NODIADAU AR LYFRAU.

*Drych y Prif Oesoedd.* Gan y Parch. THEOPHILUS EVANS, gynt Ficer Llangamarch. *Ynghyd â Rhagaraieth,* gan yr Hybarch JOHN WILLIAMS, A. C., Archddiacon Ceredigion.

NID oes dim yn fwy difyr i'w ddarllen na hanesyddiaeth; ac nid oes dim yn fwy addysgiadol. Yn daer yr annogwn bob Cymro ieuanc i fod yn gyfarwydd yn hanes Groeg a Rhufain, ynghyd â hanesiaeth ddiweddar holl wledydd y byd. Ond na fydded iddo anghofio ei wlad ei hun. Dylai pob Cymro feddu gwybod-aeth fanwl am hanes y Cymry. I'r rhai sydd, o ddiffyg modd, neu ddiffyg amser, yn analluog i ddarllen gwaith Carnhuanawc, dyma argraffiad newydd, hardd, o "Ddrych y Prif Oesoedd;" hen lyfr a fu yn enwog gynt, ac a ddylai fod felly eto, pe na b'ai un rheswm dros hyn ond tlysi yr iaith. Rhoddodd gynhesurwydd yn ein gwaed lawer tro yn nyddiau ein ieuencid, pan, fe allai, y dylasem fod gyda gorchwylion mwy anhwyfryd. I ni, yn y tymmor hwnw, yr oedd pob gair cyn wired a'r pader—brad y cyllyll hirion a'r cwbl. Ac er ein bod ar ol hyny wedi dysgu amheheu rhai pethau a adroddir gan Ficer Llangamarch, nid ydym byth wedi colli ein parch i'r hen lyfr: ond dymunem ei gymhell i bawb, yn hen ac yn ieuanc, ag sydd yn ewyllysio cyfarfod ag arweinydd dyddan ar hyd llwybrau yr hen oesoedd.

"Indocti discant; ament meminisse periti."

Oddiwrth y bywgraffiad yn nechreu yr argraffiad hwn, yr ydym yn cael mai un o sir Aberteifi o enedigaeth oedd Theophilus Evans. Yr oedd yn hanu o deulu cymeradwy yn byw yn Penywenallt, yn agos i Gastell Newydd-yn-Emlyn. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1694, ynghylch naw mlynedd ar ol genedigaeth Griffith Jones, Llanddowror. Wedi myned trwy y parotoadau anghenrheidiol, urddwyd ef yn ddiagon, yn 1718, ac yn offeiriad mewn llawn urddau, yn 1719, gan Esgob Tyddewi. Yn 1728, rhoddodd Esgob Tyddewi iddo rectoriaeth fechan Llanynys, yr hon a fu yn ei ddwyllaw am ddeng mlynedd, sef hyd nes y cafodd Llangamarch. Merch iddo ef a briododd y Parch. Hugh Jones, i'r hwn y rhoddodd ei dad-yn-nyghyfraith Llangamarch i fyny. Mab i'r Hugh Jones hwn, ac w'yr i Theophilus Evans, oedd Theophilus Jones, yr hynafiaethydd, awdur "Hanes sir Frycheiniog."

"Drych y Prif Oesoedd" a ymddangosodd gyntaf yn 1716, pan nad oedd eiddan yr awdur ond dwy ar hugain. Cyhoeddwyd ail argraffiad, gyda llawer o ychwanegiadau, yn 1740. Tua'r un amser, cyhoeddodd esboniad ar Weddi yr Arglwydd, mewn amryw bregethau, dan yr enw "Pwyll y Pader." Oddeutu pymtheg mlynedd cyn ei farwolaeth, cyhoeddodd ei "*History of Modern Enthusiasm.*" Y mae yn ymddangos oddiwrth y llyfr hwn ei fod yn elyn anghymmodlon i'r sectariaid. Ond hen Gymro gwych oedd Theophilus Evans wedi y cwbl.

Y mae awdur y bywgraffiad, i'r hwn yr ydym yn ddyledus am y fleithiau uchod, wedi cyflawni ei waith yn ddestlus; a'r argraffydd yr un modd ei waith yntau. Yr ydym yn ddiolchgar iddo am gadw cofrestr y tanyagrifwyr i'r ail-argraffiad yn 1740. Dylai hyn gael ei wneyd wrth ail-argraffu pob hen lyfrau. Mewn hen gofrestrau o'r fath hyn y ceir bron yr holl hanes sydd i'w gael am rai o'r awduron Cymreig. Ac nid annifyr yw cymharu yr enwau, a sylwi mor ychydig o honynt sydd wedi dyfod i lawr hyd y dyddiau hyn. Digon tebyg mai yr "Anrhydeddusion," a'r "Gwir Barchedigion," oedd yn fwyaf derbyniol gan Theophilus Evans; ond y rhai mwyaf adnabyddus yn awr yw y Parch Mr. Rowlands, *Curate* Llangeitho; y Parch. Edward Samuel, *Rector* Llangar; a'r Parch. William Wynn.

*Education in Wales.* A Lecture by the Rev. J. R. JONES, Kilsby.

NID ydym yn sier am bob gair o enw y ddarlith hon; oblegid yn fuan wedi i ni gael yr hyfrydwch o'i darllen, aeth i dalu ymweliad i eraill, ac anghofiodd ddychwelyd. Ond dyma amcan a sylwedd ei chynnwysiad; ac, fel y dywedodd y diweddar Barch. Simon Lloyd o'r Bala ar achlysur cyffelyb, nad ydym yn cofio geiriau y testun, yr ydym yn cofio ein bod yn barnu ar y pryd fod y bregeth yn dda rhagorol. Am ddawn Mr. Jones o Kilsby i yagrifenu ar unrhyw fater, yn Gymraeg neu Seianeg, nid oes neb ond eipaod a feiddiant awgrymu y gradd lleiaf o ammheuaeth. Yr unig beth yr oeddym yn teimlo pryder yn ei gylch wrth ddechreu darllen y ddarlith oedd uniondeb ei farn o berthynas i gyflwr a nodwedd ei gydwladwyr Cymreig. Wrth fod ei safon mor uchel, y mae yn ddigon naturiol iddo ystyried ein diffygion yn fwy nag ydynt. Ac heblaw hyn, y mae tuedd gyffredin mewn Cymry yn Lloegr i gymharu dosbarth canolradd y Seison â'r dosbarth tlotafl yn Nghymru; yn lle cymharu y tlodion â'r tlodion. Rhaid i ni addef hefyd nad ydym yn hoffi clywed neb yn traethu yr *oll sydd yn wir* am danom wrth ein cymydogion. Dyweder ein beiau wrthym ni ein hunain yn ddiarbed; ond na fyneger hwynt yn Gath, ac na chvhoedder hwynt yn heol-ydd Ascelon. Pa fodd bynag, cawsom ein siomi yn y ddarlith hon yr ochr oreu. Y mae y darlithydd yn dalunio ein sefyllfa mewn ysbryd caredig. Y mae yn rhoddi llawn digon o glod i bawb, a mwy i rai nag a haeddent. Traddodwyd y ddarlith yn Manchester; a diau iddi argyhoeddi llawer o'r Seison yn y dref hõno fod mwy o ddaioni yn Nghymru nag yr oeddynt hwy wedi ei feddwl.

*Twor y Praidd. Dwy Ddarlith; un ar Ardderchawgrywydd y Bibl, a'r llall ar Ffydd Moses.* Gan y Parch. E. MORGAN, Caerdydd.

YR ydym yn cydymdeimlo o galon â Mr. Morgan, wrth ddeall ei fod wedi ei gaethiwo gan afiechyd hirfaith: er hyny nis gallwn lai na llawenhau ei fod wedi ei arwain i wneuthur defnydd o'i gystudd trwy anrhegu ei gydwladwyr â'r darlithoedd hyn; ac nid ydym yn gweled y dylai ei anallu i lefaru yn gyhoeddus fod yn gymaint profedigaeth i'w feddwl, pan y mae ganddo gyfleusdra i anerch drwy y wasg holl drigolion Cymru, o Gaerdydd i Gaerdybi. Nid oes neb ond yr anwybodus a feddylia ei fod yn llai defnyddiol am ei fod yn methu teithio. Ond y gwirionedd yw, nad oes ond ychydig o'r Cymry hyd yma wedi ffurfio am-gyffred cywir am y dylanwad sydd yn perthyn i'r argraffwasg. Yn Lloegr, y mae gwahanol bleidiau yn myned i gost fawr i sefydlu cyhoeddiadau i daenu ac amddiffyn eu hegwyddorion. Ond yn Nghymru, y mae llawer o grefyddwyr yn edrych yn gilwgus ar bawb a geisiant wneuthur lles drwy yr argraffwasg, ac fel wedi eu tynghedu y gwnant a allont i'w rhwystro. Ond mor sier a bod haul yn y ffurfafen, y wasg a garia'r dydd, un ai er da neu er drwg: a'r unig ffordd i ragflaenu y drwg yw cynnal a chynnorthwyo yn egniol yr hyn sydd dda. Dylai yr holl bleidiau crefyddol roddi pob annogaeth a help i'w dynion blaenaf, i gael ffurwyth eu myfyrodau ger bron y wlad drwy yr argraffwasg. Dylent ystyried hyn yn un o brif amcanion eu cymanfaoedd. Y mae cyfarfod misol sir Forganwg wedi rhoddi cynllun da, drwy annog Mr. Morgan, fel y dywed yn y rhagym- adrodd, "i hwylio ei gerddediad tua'r meusydd llênnyddol, a chymeradwyo yr amcan hwnw i sylw yr eglwysi a'r Ysgolion Sabbothol." Nis gallasai yr awdur ddechreu gyda phynciau mwy cyfaddas. Y mae ei ddull o yagrifenu hefyd yn cyfateb i ansawdd ei feddylddrychau, y rhai ydynt yn rymus a chynnwysafawr. A diammhau y bydd yn para i lefaru yn effeithiol trwy gyfrwng y darlithoedd hyn wrth feddwl llawer Cymro am oesoedd eto i ddyfod.

*Themes for Meditation: consisting of Religious Exercises, suitable for the Closet and the Family.* By the Rev. R. BROWN, Superintendent of the Liverpool Town Mission.

CYHOEDDWDYD llyfr arall dro yn ol gan yr un awdur, dan yr enw, "The

*Christian Faith no Fable.*" Ysgrifenasom ychydig nodiadau arno i ymddangos yn y "Traethodydd; ond gadawyd hwynt allan gan yr argraffydd o ddiffyg lle. Cymernw yn cyfle hwn, modd bynag, i'w gymhell yn daer i sylw ein darllenwyr. Y mae anffyddiaeth a didduwiaeth, yn y gwisgoedd mwyaf deniadol, yn gwneyd drygau alaethus yn Lloegr; ac o Loegr yn debyg o gyrhaedd Cymru. Dan yr esgus o wneyd pob peth yn ddadguddiad, y maent yn gwadu pob dadguddiad. Dan liw o barch i bob math o grefydd, y maent yn taenu yr egwyddorion mwyaf anghrefyddol. Y mae plaid gref a gweithgar o honynt, i'r hon y perthyn Mr. Newman, brawd i Newman y Pabydd, Miss Martineau, a golygwyr y "*Leader.*" Nid trwy gadw y bobl mewn anwybodaeth y mae gwrthwynebu yr ysgrifenywyr hyn; ond trwy daenu llyfrau o blaid y fydd Gristionogol, fel yr eiddo Mr. Brown. Y mae efe wedi cael mantais i weled gweithrediadau anffyddiaeth, yn y cyflawniad o'i swydd, fel arolygydd y Genadiaeth Drefol yn Liverpool; ac o gymaint a hyny y mae yn fwy addas i gyfarfod â rhesymau yr anffyddwyr.

Y mae y llyfr a enwyd uchod yn ganlyniedydd naturiol i'r llall. Os yw y llall yn ein harwain at borth y grefydd Gristionogol, ac yn dangos cadernid yr adeilad, y mae hwn yn ein cymeryd at gynnwys a sylwedd yr efengyl. Casglid ydyw o bregethau byrion, i gyd yn bedair ar ddeg ar hugain. Os argreffir pregethau, fel hyn yn gyffredin y dylid eu hargraffu. Nid oes ond ychydig iawn o bregethau yn werth eu darllen yn eu llawn hyd. Rhodder o'n blaen yn y ffordd fyraf hyny o sylwedd sydd ynddynt; ac ni a ymdarawn yn lew heb yr addurniadau. Ceir gweled yn fuan, fel y bydd llyfrau yn lliosogi, y bydd yn rhaid i awdwr ddefnyddio *hydrostatic press*, i wasgu eu meddyliau i ychydig iawn o le, neu ynte gadewir hwynt heb eu darllen.

*Blodau Glyn Dyfi: sef, Cyfansoddiadau Barddonol Lewis Glyn Dyfi.*

Y LLYFR hwn sydd i fod yn ddetholiad o gyfansoddiadau pryddestol Lewis Meredith, bardd ieuanc athrylithgar o'r Cemmaes, yn sir Drefaldwyn. Fel y canlyn y dywed am dano ei hun yn yr hysbysiad:—"Y mae bellach dros wyth mis er pan y mae Lewys Glyn Dyfi wedi ei gau 'o wydd terfysgaidd fyd,' ac wedi ei gyfyngu yn llwyr i'w orweddle. Aeth dyddiau lawer heibio er y tro diweddar y gallodd oddef cael ei symud mor bell ag o'r gwely i'r aelwyd. Ond megys haul-dwyyniad ar ddydd cymylog, felly y mae yntau yn nghanol ei afiechyd yn gallu cael ambell hamdden i ddarllen ac ysgrifenu. A phe na bae cyhoeddiad y llyfr yn dwyn dim ond digon i dalu i'r argraffydd, gwnelai hyd yn nod hyny lawer o lea iddo ef, gan y byddai iddo roi gwaith i'w feddwl ymweyd âg ef, yn hytrach na'i fod yn gorfod ei droi yn ormodol arno ei hun. Ond os ceir chwaneu na hyny, goraf oll."

Bydd y dyfyniad hwn yn ddigon er peri i bob dyn teimladwy ei gynnorthwyo yn ei gynnygiad i ddwyn allan ei gyfansoddiadau barddonol drwy y wasg. Ond nid ydym yn ei gyflwyno i sylw ar antur. Y mae eisoes wedi cyhoeddi dwy bryddest yn llyfryn bychan, yr hwn a gafodd dderbyniad gwresog; ond nid mwy nag oedd yn ei haeddu. Y mae ei holl waith yn dangos ei fod yn fardd yn ngwir ystyr y gair. Y mae ganddo feddwl, a hwnnw yn feddwl o radd uwch na chyffredin. Y mae pob llinell yn profi ei fod yn meddu chwaeth bur, ac wedi arfer cymdeithasu â'r hyn oll sydd brydferth. Diau y bydd ei lyfr yn un addas i'w gymeradwyo fel cynllun i feirdd ieuaine Cymru.

*Education in Wales. Memorial to the Committee of Council on Education in reference to their proposed exclusion of British Schools at Llangefni and Menai Bridge, Anglesea, from participation in the Parliamentary Grant.*

DYMA y Gofeb y cytunwyd arni yn ddiweddar mewn cyfarfod cyhoeddus yn Llangefni. Yr achos o honi oedd gwaith Cyfeisteddfod y Cynghor Addysg yn gwrthod rhoddi cynnorthwy ar dir cyfiawn a theg i sefydlu Ysgolion Brytanaidd

yn Llangefni a Phont Menai. Nid ydyw yr ymddygiad hwn o eiddo y Cynghor Addysg wedi ein somi, nac wedi peri i ni newid ein barn yn y mesur lleiaf. Traethasom ein syniadau yn y "Traethodydd," tua dechreu y cynhwrf addysgiadol; ac nid ydym wedi gweled achos i'w newid. Nid ydym erioed wedi dysgwyl llawer o ddaioni oddiwrth dywysogion. Yr hyn a wna y bobl o honynt eu hunain, ac iddynt eu hunain, yw yr hyn a wneir oreu. Oddiar y teimlad hwn yr ydym yn annog pawb i fyned ymlaen yn eu nerth eu hunain *o gallant*. Ond ar yr un pryd ni fedrasom erioed weied fod yn well iddynt fod heb addysg na derbyn cymhorth y llywodraeth. Y mae yn ymddangos i ni nad oes un berthynas rhwng y mater hwn a'n hegwyddorion fel Ymneilldŵyr; ond fod addysg *cyffredinol* yn sefyll ar yr un tir ag achosion cyffredinol eraill, megys deddf y tlodion a'r cyffelyb. Nid ydym yn rhyfeddu gan hyny at ein cyfeillion yn Môn, nac yn beio arnynt, eu bod yn grwgnach yn erbyn ymddygiad unochrog y Cynghor Addysg.

Y mae y Gofeb hon yn un o'r cyfansoddiadau mwyaf grymus a ddaeth dan ein sylw er ys llawer dydd. Nid yw ond adroddiad pwylllog o ffeithiau; ac yn hyny y mae ei chryfder yn gynnwysedig. Gobeithiwn y rhoddir hi yn llaw pob seneddwr. Dengys fod rhyw fan pwdr yn y Cynghor Addysg; a dengys hefyd mai nid pabwyr ydyw pawb o'r Cymry.

*Gwaith Prydyddau Edward Richard, o Ystradmeurig, yn sir Aberteifi.*

NID ydym yn foddolawn i un rhifyn o'r "Traethodydd" fyned heibio heb ryw air o blaid addysg; ac fe allai mai y llwybr mwyaf effeithiol i ddwyn yr achos hwn at feddwl y darllenydd yw galw ei sylw at goffawriaeth y rhai hyny a fuant yn llafurus i godi a chynnal ysgolion yn Nghymru. Un o honynt oedd Edward Richard. Trwy ei anturiaeth a'i ymroddiad ef yn benaf y sefydlwyd ysgol Ystradmeurig, yr hon a fu yn ffynnonell dysgeidiaeth, nid i sir Aberteifi yn unig, ond i'r holl Dywysogaeth, ac i lawer rhan o Loegr. Ei ddysgybl ef oedd Dafydd Ionawr; ac nid ydym yn credu y camsyniem pe dywedem mai o Ystradmeurig y daeth rhai o'r offeiriaid goreu sydd yn Nghymru y dyddiau hyn, yn y Gogledd yn gystal a'r Deheudir. Sonir llawer am yr "oes oleuedig hon;" ond y mae lle i ofni mai nid lliosog iawn yw y rhai sydd yn debyg i Edward Richard. Pe ceid ugain, Ie, pe ceid deg, yn meddu yr un ysbryd ag ef, byddai yn hawdd sylfaenu *Prif-ysgol i'r Cymry*, yr hyn a wna'i fwy na nemawr ddim arall at godi y genedl.

Yr oedd Edward Richard hefyd yn brydydd rhagorol. Er nad oes llawer o awen wreiddiol yn ei gyfansoddiadau, y mae chwaeth ysgoleigaidd yn y cwbl. Nid anghofiwn yn fuan y pennill canlynol o'i eiddo:—

"Fy nydd sydd yn nyddu yn fanwl i fynu,  
A'r nos sydd yn nesu, i roi 'n isel fy mhen;  
Ac un nid oes geny', er wylu ar oer wely,  
Pan b'o im' glafychu, glyw f' ochain."

Y mae hanes yr awdur yn nechreu y llyfr; ac nis gallwn ei adael heb fenthyca yr hyn a ganlyn am un a wnaeth gymaint o les yn ei ddydd.

"Edward Richard a anwyd yn mhentref Ystradmeurig, Ceredigion, mis Mawrth, 1714. Yr oedd ei rieni yn lled isel yn y byd: dilledydd oedd ei dad; a'i wraig, mam Edward, a gadwal dafarndy bychan, lle yr oedd hi yn adnabyddus dan yr enw 'Hen Wenllian,' neu 'Modryb Gwen,' fel ei gelwid gan ysgolheigion Ystradmeurig.

Yr oedd ganddynt fab arall, a'i enw Abraham, yr hwn ar ol treulio ychydig amser yn athrofa Henffordd, ac ysgol rammadegol Caerfyrddin, a aeth i Rydychain, fel y gwelir oddiwrth ei lawysgrif mewn llyfr yn llyfrgell Ystradmeurig, 'Abraham Richards, Jesus College, Oxford.' Pryd hyn yr oedd yn 19 oed. Cyfranodd lawer ei hunan at ei draul yn y Brifysgol, trwy ddsygu ychydig efrydwy'r yn eglwys Ystradmeurig, pan nad oedd ei ddyledwyddau yn ei alw i Rydychain.

Dan ofal ac hyfforddiad ei frawd yn ddiammhau y gosododd Edward sylfaen y wybod-aeth helaeth yn yr ieithoedd dysgedig, yr hon a barodd iddo ddsygleirio mor hynod yn nghanolddydd ei fywyd; er rhaid cyfaddef fod ei chwaeth a'i deimladau yn ei dywys i gapau y maes yn hytrach nag i orchwylion llényddol. Pan geisai efe yr awen, nid

ymgyfarfyddai & hi ar lethrau breision Parnassus a Pindus, ond ar gopa uchel Pihlwm neu fanau ysgythrog Cader Idris; canys ymddangosodd ynddo yn foreu ddawn tra hynodol am brydyddiaeth Gymreig, ac fe ddywedir fod y fath swyn yn nghynnyrchion cyntaf ei awen, fel yr arferai yr hen bobl ddifyru eu gilydd wrth eu hadrodd a'u canu, er, yn ei hensaint ni fynai efe eu cyfaddef, ac ni welwyd mo honynt ymlith yr ysgrifeniadau a adawyd ganddo.

Ar ol marwolaeth ei frawd, yr hwn a gollodd ei fywyd trwy gwmpo yn ddamweiniol oddiar graig a elwid 'Craig Colomenod,' danfonwyd Edward i ysgol rammadegol Caerfyrddin, yr hon oedd pryd hyn dan arolygiaeth y Parch. Mr. Maddox. Oddiyno fe'i symudwyd i Bontygiddo, yn mhlywyl Llanarth, Ceredigion, lle y bu am ryw amser dan ofal y Parch. Mr. Fugh, boneddwr ag oedd yn enwog am ei wybodaeth o'r iaith Roeg. Ni wyddys pa hyd y cafodd Edward y fraint o efrydu dan y boneddigion uchod.

Ar ol hyn fe'i gwelir yn cael ei roessau gan deuluocdd John Lloyd, Ysw., o Ffosybleiddied, a Richard Stedman, Yaw., o Fonachlog Ystrad Fflur, y rhai oeddynt bob amser yn barod i'w dderbyn yn garedig. Mrs. Stedman, merch i William Powell, Ysw., Nanteos, yr hon a silbriododd & Syr Herbert Lloyd, o Ffynnonbedr, ger Llanbedr, boneddiges synwrol, ac athrylithgar, a roddodd iddo bob cefnogaeth, ac felly dechreuodd cyfeillach, yr hon a fwyhaodd hyd ddiwedd ei oes.

Yn y flwyddyn 1734, neu o bellaf yn 1735, yr agorodd Edward Richard yr gyntaf yr ysgol yn Ystradmeurig, yr hon yn raddol a gyrhaeddodd ychydig enwogrwydd. Ond tra yn gwled cynnydd beunyddiol yn rhif ei ysgolheigion, ac helaethiad cyson o'i fri ei hunan, gwnaeth benderfyniad, yr hwn nis gallasai dim ond meddwl cyflawn ei annog, a dim ond ysbryd eoffn beri iddo ei gyfaddef a'i ddilyn. Gollyngodd ymaith ei holl ysgolheigion yn ddisymmwth, gan ddywedyd yn agored nad oedd ei wybodaeth yn ddigonol i'w addasu i wneyd cyfawnder & hwyt, a rhaid iddo helaethu ei ddysgaethiaeth ei hunan cyn cynny i hyfforddi eraill.

Wedi gwneyd y penderfyniad hwn, ymroddodd i efrydu yr uchel awduron Groeg a Lladin; ac am yspaid dwy flynedd cyhwynai am bedwar o'r gloch yn y boreu i eglwys Ystradmeurig, heb gyfaill na chydymaith ond y Parch. Evan Evans (Ieuan Brydydd Hir), bardd ac henafiaethwr, yr hwn a fu unwaith yn ysgolhaig iddo.

Parodd yr ymddygiad cyflawn a chydwybodus hwn deimlad dwys o'i blaidd; a phan ail-agorodd ei ysgol, tua 1746, y fath oedd ei enwogrwydd fel y derbyniodd lawer o efrydwyr o holl barthau y Dywysogaeth.

Yn y flwyddyn 1746, y Parch. Thomas Oliver, perigol Dudley, gwr o Ledrod, plwyf cyfagos i Ystradmeurig, a adawodd mewn ewyllys dyddyn a elwid Ynysygar, ynghyd & phedwar cant o bunnau i gynnal ysgol yn swydd ei enedigaeth, er mwyn addysgu nifer bennodol o fechgyn tlodion. Rhoddwyd i John Lloyd, Yswain, Ffosybleiddied, a'i etifeddion, yr hawl i bennodi meistri'r ysgol. Diddymwyd y rhodd hwn o achos rhyw bynciau cyfreithiol; ond Mrs. Dorothea Oliver, ei weddw, a gyflawnodd fwrdd ei gwr; a thrwy ei rhadlonrwydd neilldúwyd y tai a'r tiroedd a ganlyn at y perwyl hwnw:—Briwfoeydd a Ffoeyllcoron, yn mhlywyl Llanrhystid; Pantyscuthan a Blaeniago, yn mhlywyl Llandysail; Dol, bwthyn a gardd yn nhref Tregaron; a Swyddyffynnon, tŷ a chae bychan yn mhlywyl Lledrod; yn nghyd âg Ynysygar, y tyddyn a grybwyllwyd, yn yr un plwyf.

Y meistri cyntaf a bennodwyd i'r ysgol newydd oedd Edward Richard, a hyny trwy gymwynas ei noddwr a'i gyfaill, Mr. Lloyd. Wedi derbyn hyn o gefnogaeth, aeth yn mlaen gydag awydd newydd a llwyddiant ychwanegol. Parhaodd i fyw yn yr un dull dirodres a chynil ag o'r blaen; ac o radd i radd daeth yn feddianol ar ychydig arian.

Yn y sefyllfa hon, ffurfiodd y bwriad gwladgarol o sefydlu ysgol rammadegol arall, er llesoli plant ei gymydogion tlodion ei hunan, a'u holafiaid; ac, yn y flwyddyn 1754, neillduodd dyddyn at waddolli ysgol trwy weithred yn Llys y Canghellwr. Yn 1771, trwy weithred cyffelyb, neilldúodd amryw diroedd eraill at yr un achos; ac yn 1774, gwnaeth weithred newydd, yn cynnwys darpariadau er mwyn gochelyd camddefnyddiad o'i haelioni. Enwau y tiroedd y rhai a roddodd yn y modd crybwylliedig sydd fel y canlyn:—Brynperfedd, yn mhlywyl Ystradmeurig; Ty mawr, Penygwrdwn, a Bryn-garw, yn mhlywyl Lledrod; a Phryguant, yn mhlywyl Llanmihangel-y-Croyddin. Pennododd Esgob Tyddewi, Iarll Lisburne, Dr. William Powell, Nanteos; James Lloyd, Ysw., Mabwys; a Thomas Hughes, Ysw., Hendrefelen; a'u hetifeddion, i fod yn ymddiriedolwyr.

Trwy ei ewyllys, dyddiedig Chwefror 28, 1777, cadarnhaodd yr holl roddion uchod, ac ychwanegodd atynt ei lyfrau a'i lyfrgell, y rhai a roddodd i'r ysgolfeistr am yr amser, a thrwy ei ganlatâd ef, i'r ysgolheigion. Yn yr ysgrif hon y ceir yn ddamweiniol brawf o'i deimladau cariadus tuag at drigolion pentref ei enedigaeth: wrth roddi melin a brynnael yn ddiweddar i'w gyfaill James Lloyd, Ysw., Mabws, gorchymynodd iddynt gael hawl wastadol i wneyd defnydd o honi heb dalu mwy na hanner y doll gyffredin.

Ychwanegwyd yr atodiadau canlynol at ewyllys Mr. Richard, ac y mae yn lled debyg mai efe ei hunan a'i hysgrifenoedd:—

'At fy Nghymynweinyddion.—Fy ewyllys yw i lesoli yr oes bröennol yn gystal a'r cenedlaethau dyfodol. Gadawer i gariad orthrechu ar hunanlesâd. Gwerthar fy meddianau personol yn y dull mwyaf manteisiol, a phriodolwr yr arian i brynu llyfrau i'r

**Llyfrgell.** Rhoddwch fy nillad a'r bwydydd a fyddont yn y tŷ i'r tlodion. Gwneler hyn gyda phwyll.

'At fy Ofaflaid yn yr Ygol.—Nid ydyw yr ygol i fod yn segurswydd; rhaid i ohwi weini yn gyson, ac ennill eich bara trwy lafur a diwydrwydd. Hyn yw fy ewyllys; gob-eithiaf y caiff ei hufuddhau. Gan hyny, cyflawnwch eich swydd yn fyddlawn, gan wybod eich bod yn atebol am eich ymddygiad, nid yn unig i'w ymddiriedolwyr, ond hefyd i'r HOLLALLUOG. Cadwyr yr ygol a'r llyfrgell mewn cyflwr da, a gwellhâer hwynt hyd eithaf eich gallu.—EDWARD RICHARD.

Bu Edward Richard farw ar y pedwerydd o Fawrth 1777. Claddwyd ef yn eglwys Ystradmeurig, ar ochr orllewinol y pulpud, yn agos i'r mur gogleddol. Gosodwyd careg f'w goffiadwriaeth ar fur y llyfrgell, ar yr hon y mae y geiriau canlynol yn gerffedig:—

'Hanc Bibliothecam fundavit, librisque completavit

EDVARDUS RICHARD;

Vir eximii ingenii, eruditionis ac diligentiss;

Qui arduo ludimagistri munere per 45 annos summa cum laude perfunctus est.

Hanc insuper scholam annuis donavit reeditibus in pauperum puerorum institutionem:

Quae, inter illustrissimos illos viros, qui humani generis fuerunt

EYEPIETAI,

Nomen ejus merito collocabunt.

Quarto nonas Martii anno setatis 68, Christi 1777, obiit."

*Existoddod Wyddgrug: sef Hanes Cychwyl Cymdeithas Cymreigyddion Wyddgrug, a gynnalwyd ar hen wyl Dewi Sant, 1851. Y cyfansoddiadau buddugol a wobruwyd, ynghyd â beirniadaeth Caledfryn a Nicander ar yr holl Weithiau ymgystaddeuol.*

NID ydym yn gwybod llawer am y dull o ddwyn ymlaen y Cymdeithasau Cymreigyddol yn y dyddiau hyn; ond mor bell ag y maent yn ymgadw at yr amcan a arddelir ganddynt, dymunem iddynt rwydd hynt. Y mae cynnal a choleddu llényddiaeth Gymreig yn ddyben da: y mae llafurio am wybodaeth gyffredinol yn ddyben da: y mae cadw cyfarfodydd i ddynion ieuainc arfer eu galluoedd areithyddol yn ddyben da: y mae meithrin ysbryd gwladgarol yn ddyben da. Os ydynt weithiau yn colli golwg ar y dybenion hyn, hyderwn y gwrandawant ar gynghor, ac y diwygiant. Y mae Cymdeithas Cymreigyddion Wyddgrug yn ymddangos i ni yn awyddus i wneuthur daioni, ac wedi rhoddi prawf o hyny trwy gyhoeddi hanes ei gweithrediadau mewn llyfr rhadlawn a buddiol.

#### *Ysgrifon Iolo Morganwg.*

UN o ddau beth, lle ei ceffir, a wna gyfansoddiadau llényddol yn werthfawr. Yn y lle cyntaf, dichon eu bod yn meddu teilyngod ynddynt eu hunain, yn an-nibynol ar amgylchiadau. Dichon eu bod yn arddangos y fath gyflawnder o athrylith, y fath gadernid ymresymiad, neu brydferthwch meddyldrychau, ag a'u gwna yn gynlluniau i oesoedd dyfodol. Dyma y gradd uchaf, i'r hwn nid oes ond ychydig mewn cymhariaeth yn perthyn: ac y mae yn rhaid cyfaddef, er mor groes yw hyny i feddwl llawer un o'n cyfeillion twym-galon, nad yw y Cymry yn yr ystyr yma yn sefyll mor uchel a rhai cenedloedd eraill. Nis gall pob dyn darllengar lai na gwenu wrth glywed ambell areithiwr Cymreig yn cael ei gymharu i Demosthenes neu Cicero; a llawer bardd, mor fuan ag y daw yn alluog i dincian y cydnesiaid, yn cael ei osod i fyny yn y fan fel cystadlydd â Homer neu Milton. Nid oes lle i amhheu nad yw y Cymry yn meddu doniau naturiol fel pobl eraill; ac na chyrrhaeddent y gradd uchaf mewn llényddiaeth, pe gwnaent gyflawnder â hwynt eu hunain. Y rhwystr mwyaf sydd ar eu ffordd yw eu hun-anoldeb. Cyn y rhagorant, y mae yn anheggorol anghenrheidiol iddynt deimlo eu hanmberffeithrwydd. Ond y mae math arall o gyfansoddiadau, y rhai ni feddant lawer o deilyngod ynddynt eu hunain, ac ydynt er hyny yn wir werth-fawr, am eu bod yn taflu goleuni ar hanesion ac arferion yr amseroedd. Hyn a barodd i Porson ddywedyd mai yr anrheg oreu a allasai efe ddymuno, fel rhan o weddillion yr hynafiaid, fuasai newyddiadur wedi ei gyhoeddi yn Athen yn am-

ser Pericles. I'r dobarth olaf hwn y perthyn y rhan fwyaf o "Ysgrifon Iolo Morganwg." Er hyn, y mae ynddynt rai darnau sydd yn meddu gwir deilyngdod ynddynt eu hunain, yn enwedig y Dammegion. Nid ydym yn gwybod fod dim wedi ymddangos mewn un iaith yn fwy tlws ac yn fwy addysgiadol.

*Report from the Select Committee on Church Rates.* Ordered by the House of Commons to be printed. 1851.

Y MAE yn argoel lled sicr nad oes i ormes a chamlywodraeth ond byr amser i deyrnasu, os yw sylw y wlad yn dechreu llygadu o ddifrif arnynt, ac ymchwiliad trwyadl yn cael ei wneuthur i'w hansawdd a'u hamgylchiadau. Y mae gwirionedd a chyfiawnder yn dâl allan yn dda, i.e. ac yn ymddangos yn well, wrth eu trafodi; ond gwae i bddy ffug pan ei chwilier. Er nad oes genym ni ffydd fawr mewn cyfeisteddfodau seneddol, y maent yn gyffredin yn cael eu hachlysuero gan lais y wlad, ac felly yn gwneuthur i'fny ran o arwyddion pwysig yr amserau. Yn hyn y mae ffurlywodraeth Prydain yn dra rhagorol: caiff y bobl adrodd eu syniadau yn ddisoflegni ar faterion gwladol; ac os siaradant yn uchel, nis gall ein llywodraeth lai na rhoddi clust-ymwrandawiad iddynt, a cheisio cyfarfod â'u dymuniadau. Tra mae y Ffrancod, druain, wedi eu holl ddadwrdd am "Ryddid, Cydraddoliaeth, a Brawdoliaeth," yn cael eu cicio yn bêl droed gan ddyhiryn diegwyddor o fath Louis Napoleon, mae y Prydeiniaid yn cael eu parchu fel dynion, ac nid yn cael eu trin fel anifeiliaid. Os oes rhyw faich gwladwriaethol yn gwasgu arnynt, dim ond iddynt gytuno i fod yn ffyddlawn i'w hiawnderau cyfansoddiadol, ac ni byddant yn hir cyn cael rhyddhad oddiwрто. Dyma y "Dreth-Eglwys" yn awr yn dechreu cael ei chwalu a'i chwilio: os ydyw yn arddodiad cyfiawn ac esmwyth, teg yw ei chyfiawnhau; ond os yw, fel y dywedai un, "yn ddi fêth yn dreth draws," yna collfarnar a dirymer hi.

Pwy bynag a gymero drafferth i ddarllen y Llyfr Glas tew sydd ger ein bron, a gaiff holl hanes y Dreth-Eglwys, fel y mae yn cael ei adrodd gan ei phleidwyr a chan ei gwrthwynebwyr; ac yn gysylltiol â hyny, ceir yma, mewn modd cyffredinol, lawer o addysg dyddorol ynghylch Eglwys Wladol ac Ymneillduaeith. Mae y rhai oedd yn rhoddi eu tystiolaethau o blaid y Dreth-Eglwys, yn dadleu dros ei pharhâd am ei bod yn hen arferiad, wedi ei sefydlu gan hen gyfreithiau, ac yn anghenrheidiol er cynnal defodau yr Eglwys, ac yn arbenig er mwyn amddiffyn yr egwyddor o sefydliad gwladol o grefydd. Cawn un offeiriad gonest, y Parch. Charles Burney, o Braintree, mân lle bu ac y mae cyfreithio mawr ynghylch y dreth hon, yn dywedyd, pe buasai cyfundeb y Wesleyaid, neu enwad y Bedyddwyr, yn sefydledig trwy gyfraith, y buasai efe yn bur barod i dalu yr hyn a ofynasid gan y gyfraith tuag ati; neu pe buasai efe yn byw yn Nhwrci, lle y gofynasid iddo dalu treth tuag at gynnal Mahometaniaeth, neu mewn unrhyw wiad arall lle y mae gau-grefydd yn sefydledig, y buasai yn ei ystyried ei hun dan rwymau i gydsynio âg arddodiad cyfraith y wlad i gynnal y grefydd hono. Cawn offeiriadau eraill yn siarad yn groew yn erbyn y Dreth-Eglwys, ac yn addef ei bod yn orthwrw ar Ymneilldwyyr. Cyflwynodd Mr. Edward Baines, o Leeds, ffethiau pwysig o flaen y Cyfeisteddfod Seneddol, i brofi fod nifer capeli a chynulleidfaoedd Ymneillduol yn fwy na nifer yr eglwysi yn Lloegr a Chymru; ac oddiwrt hyny yr oedd yn casglu, yn gyntaf, fod yn alluadwy i gyfundebau crefyddol gynnal eu haddoliadau oddiar yr egwyddor wirfoddol; ac yn ail, fod yn galed i'r rhai oedd yn myned dan draul eu capeli a'u gweinidogion eu hunain dalu hefyd at ddwyn ymlaen wasanaeth Eglwys nad oeddynt yn perthyn iddi. Rhydd ef nifer capeli yr Annibynwyr yn Nghymru yn 607, a chapeli y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig yn 778, heblaw fod gan y diweddar 110 o leoedd pregethu yn chwanebol. Ni ddyry nifer capeli y Bedyddwyr a'r Wesleyaid yn Nghymru ar wahân, ond mewn undeb â'u brodyr yn Lloegr. Nifer capeli Cyfundeb yr Arglwyddes Huntingdon, trwy Loegr a Chymru, a roddir yn ddim ond 30. Gellid cael llawer o addysg wrth chwilio i achosion adfeiliad y cyfundeb hwn. Mae pob peth yn y dyddiau hyn yn dyweyd mai "Ysbryd y peth byw," ac nid un math o rywmynuau ffurfiol, a all gadw crefydd mewn grym a harddwch.



# Y TRAETHODYDD.

ATHRYLITH A GWEITHION THOMAS EDWARDS,  
O'R NANT.

GANWYD Thomas Edwards, o'r Nant, yn Mhen porchell isaf, Llannefydd, swydd Dinbych, a bu ei rieni yn byw yn y lle a elwir Coed Siencyn. Ymddengys iddynt symud oddiyno yn fuan i le a elwir y Nant, ger Nantglyn. Ni chafodd efe fawr o ysgol yn ei faboed; ond drwy fod ynddo awydd am lyfrau, dysgodd ddarllen ac ysgrifenu Cymraeg heb lawer o gynnorthwy. Ysgrifennodd amryw gerddi a chwârëyddiaethau cyn cyrhaedd ei naw mlwydd oed. Sylwai rhai o'r cymydogion fod ynddo athrylith i ddysgu, ac annogent ei rieni i'w anfon i'r ysgol i ddysgu Seisoneg; ac yn unol â'r cais hwn, cafodd fyned i'r ysgol i Ddinbych, y mae yn debyg, am bymthengnos. Nid ymddengys fod ei rieni ef, mwy na llaweroedd eraill oedd yn fyw y pryd hwnw, yn awyddus iawn am i'w plant drin llyfrau na phapyrâu; ond ymwithio ymlaen a ddarfu iddo ef yn wyneb pob rhwystr. Daeth yn fuan yn gydnabyddus â dynion o'r un awydd ag yntau am brydyddiaeth, a bu yn ysgrifenydd achlysurol i un o'r cyfryw, oedd yn byw yn Mhentrefoelas, am yr hyn y derbyniodd englyn o waith hwnw fel cydnabyddiaeth am ei lafur. Byddai y gwr hwnw yn cyfansoddi cân, ac yn ei ehofio nes y delai Thomas Edwards yno i'w hysgrifenu.

Cyn cyrhaedd deuddeg oed, fe'i cymhellwyd gan lanciau o Nantglyn i fyned gyda hwynt i chwareu, canys yr oedd ganddo lais da i ganu. Yn fuan wedi hyn cyfansoddodd chwârëyddiaeth ei hun, wedi ei sylfaenu ar "Briodas Ysbrydol" John Bunyan; ond darfu i ryw lanc o sir Fon ladrata y gwaith hwnw oddiarno, yr hyn a fu agos a'i ddigaloni, a'i attal i gynnyg prydyddu drachefn.

Bu yn chwareu gyda lanciau eraill o gyleh Nantglyn, pan oedd tua thair ar ddeg oed. Yr oedd y son am dano, fel prydydd, yn dechreu cael ei daenu erbyn hyn, a'i dad a'i fam yn dychrynu rhag iddo wneyd ei hun yn destun gwawd yr holl gymydogiaeth; ond nid allai dim ei luddias ef. Yr oedd wedi gwneyd chwârëyddiaeth o ben bwygilydd cyn bod yn bedair blwydd ar ddeg oed. Mynai ei rieni iddo ei llosgi, ond gallodd ef gael rhyw ffordd i'w rhoddi i Hugh Jones, o Langwm, yr hwn a'i gwerthodd am ddeg swllt; eithr ni chafodd Thomas Edwards ddim am dani, ond dyferyn o ddiod pan gyfarfyddai â'r chwârëyddion, weithiau. Nid oedd pethau fel hyn yn annogaethol iawn iddo i ddal i brydyddu; ond ymlaen yr oedd yn myned er pob digalondid. Yr oedd efe wedi cyfansoddi amryw chwârëyddiaethau cyn bod yn ugain mlwydd oed. Teimlai, yn ol ei gyfaddefiad ef ei hun, gryn euogrwydd cydwybod tua'r amser yma, a thafodd gap y cybydd oedd ganddo dros ochr yr ysgraff i afon Gonwy. Yr oedd

efe cyn hyn wedi dechreu cyfeillachu â merch ieuanc ag oedd yn tueddu at grefydd; a phan oedd efe tua 24 mlwydd oed, priododd hi, Chwefror 19, 1763; a ganwyd iddynt ferch, Rhagfyr 26, yn yr un flwyddyn. Ar ol priodi, dechreuodd T. Edwards drin y ddaear mewn tyddyn a elwir Y Bylchau, ar fin y ffordd o Nantglyn i Lansannan; ond nid hir y bu yno. Cymerodd le a elwir Yr Alefolio, ger Dinbych, lle y bu yn cadw ceffylau a buchod; a'i orchwyl penaf, y pryd hwnw, oedd cario coed. Yn mhen dwy flynedd, daeth i Ddinbych i fyw, gan ddilyn y gorchwyl o gario coed yn barhaus. Cafodd gryn ofid tua'r amser yma, drwy gael colledion am geffylau, a dynion oedd yn ei ddyled yn nacâu talu iddo. Aeth i'r fath gyfyngder nes y gorfuwyd gwerthu y cyfan. Yn y cyfamser, fe'i deñwyd gan fwnwyr o sir Ffaint at yr hen orchwyl o gyfansoddi chwaryddiaethau. Cydsyniodd â'u cais, a gwnaeth chwaryddiaeth ar "Weledigaeth Cwrs y Byd," o'r "Bardd Cwsg." Cadwai bedrolfen, gydag un ceffyl, a chwareuai ar yr un pryd. Yn fuan, gwnaeth ei "Gyfoeth a'i Diodi;" "Byd, Natur, a Chydwylbod;" a'i "Bedwar Penaeth." Ar ol blino yn chwareu, cododd wedd eilwaith, i gario o Gaer i Ddinbych. Bu gyda'r gorchwyl hwn am tua deuddeug mlynedd. Blinodd ar y gorchwyl yma, ac aeth i gario coed eilwaith. Yr oedd efe wedi dyfod yn werth rhai cannoedd o bunnau erbyn hyn; ond aeth cario yn waeth yn y gymydogeaeth hño o'r diwedd. Cafodd, oddeutu yr amser yma, gryn ofid o herwydd myned yn feichiari dros ewythr iddo. Symudodd i sir Drefaldwyn, ac oddiyno i sir Gaerfyrddin, lle y bu yn dilyn ei hoff orchwyl o gario coed; ac yr oedd hefyd wedi cymeryd tollborth yno yn agos i Landilo Fawr. Gwnaeth lawer o orohestion yn sir Gaerfyrddin, fel cariwr; canys yr oedd yn ddyn cryf a medrus: ond ni chafodd lonydd yn y fan yma gan dwrnai o'r Gogledd; ond daeth yn rhydd o'i grafangau. Cymerodd le, ar amodrwym, i adeiladu tŷ, yn Llandilo Fawr, lle y bu y merched yn cadw tafarn, ac yntau yn cario coed; ond cafodd golledion yn y wlad yma drachefn. Bu farw iddo, yn Ninbych, tua hanner cant o geffylau, a saith ar hugain yn sir Gaerfyrddin. Bu ef gyda y gwaith o gario yn Nhaliaris, Galt y Cadno, Cil y Cwm, Myddfai, Llangenyrch, Gwâl yr Hwch, a Llanedi; a byddai yn myned gyda'r un gorchwyl i Llanddyfnan, i Bont ar Ddulas, i Abertawy, ac o Aberafon i Gastell Nedd. Collodd oddiar law marsiandiwr coed 54l. 6s. gyda'u gilydd. Daeth Thomas Edwards yn ei ol o'r Deheubarth heb na cheffyl na phedrolfen; ac nid oedd ganddo ddim i droi ato yn bresennol, meddai ef, ond chwaryddiaeth. Argraffodd ei "Bedwar Penaeth; sef, Brenin, Ustus, Esgob, a Hwsmon." Daeth "Gardd o Gerddi," sef, casgliad o ganiadau amrywiaethol, allan yn fuan wedi hyny; a chyhoeddodd ei "Bleser a Gofid," a'i "Dri Chryfion Byd; sef, Tylodi, Cariad, ac Angau." Yr oedd efe yn canlyn y rhai hyny, tra yr oedd ei deulu yn gorphen cadw tafarn yn Llandilo. Dychwelodd y wraig a'r ddwy ferch gyda'u gilydd o Landilo: yr oedd y llall wedi dyfod gyda ei thad cyn hyny i Gaer. Cymerasant dŷ yn Ninbych, ac yno y bu y bardd fyw yn gysurus hyd ddiwedd ei oes. Yn fuan wedi dyfod i Ddinbych, cafodd dyddyn ar ol ei dad, a phrynodd ddarn o dir ato. Yr oedd ei wraig a'i ferched yn aelodau o eglwys y Methodistiaid Calnaidd yn y dref hño: byddai yntau yn arfer gwrando yn y Capel Canol. Y mae yn gof genym ei weled yno, a'i glywed yn canu carol, yn y gwyliau, ychydig cyn ei farwolaeth.

Bu farw 1810, yn 71 mlwydd oed. Y mae cof-faen hardd wedi cael ei

godi ar fur yr Eglwys wen, ger Dinbych, ac yn gerfiedig arno yr englynion a ganlyn :—

“Geirada roi i gywirdeb,—yn benaf,  
Ni dderbynai awyneb;  
A rhoi sen i drawsineb  
A'i ganiad yn anad neb.

Er cymaint oedd braint a bri—ei aniaa  
Am enwog farddoni,  
Mae'r awen, a'i hacen hi,  
Man tawel, yma 'n tewi.”

Cyfarfu Thomas Edwards â llawer o ofidiau ac â llawer o waredigaethau yn ystod ei oes : yr oedd ei iechyd yn dal yn dda er holl gyfnewidiadau ei fywyd. Aeth y bedrolfen dros ei goesau, ar bont Rhuddlan, heb dori un o'i esgyrn ! Cafodd waredigaeth fawr wrth lwytho coed mewn lle a elwir Maes y plwm.

Gan mai â'i athrylith a'i waith y mae a wnelom yn benaf, ni chaniatâ ein gofod ini ddodi ond rhyw fraslun fel hyn o hanes ei fywyd ger bron y darlennydd. Yr oedd llawer iawn o fân-hanesion difyrus yn nglŷn â'i fywyd, a llawer o atebion ffraeth a chyrrhaeddgar, y buasai yn ddymunol eu cofnodi pe buasai genym gyffeusdra. Hoffem weled rhywun yn cymeryd y gwaith hwn mewn llaw cyn i bethau gael eu he bargofi.

Wrth ysgrifenu ar athrylith a chyfansoddiadau gwr a fu o fawr enwogrwydd yn ei ddydd, y mae yn gofyn ymchwil, gochelgarwch, a gonestrwydd. Ymchwil, fel y gweler pa fath oedd y dyn drwyddo, wrth osod y naill beth ar gyfer y llall; canys y mae llawer un nad yw yn rhagori ond mewn un peth; ac y mae gan bob awdur, o'r bron, ei brif gampwaith. “*Riad*” Homer, “*Coll Gwynfa*” Milton, a “*Chywydd y Farn*” gan Goronwy, a ganmolir fel prif orchestion yr awdwyr hyny. Y mae ambell awdur yn gwneyd llawer iawn yn ei oes, ac un arall yn brin. Y mae un awdur nad oes ond un dosbarth yn unig a all werthfawrogi ei gynnyrchion; y mae y llall yn fwy cyffredinol.

Y mae gochelgarwch yn rheidiol fel na chymero dyn ei gludo yn ngrym mympwy y lliaws, nac ar gefn barn cyfeillion mynwesol y byddo ganddynt ryw ddybenion hunanol i'w hateb wrth ddyrchafu olodydd un a fawrygant. A dylid bod yn onest, oblegid y mae tuedd mewn anonestrwydd a gweniaith i gamarwain cannoedd a miloedd o'n cyd-ddynion, nad allant farnu unrhyw bwnc heb gyfarwyddyd a hyfforddiad. Ni fyddai dim haws i ni na dyrchafu clod Thomas Edwards, o'r Nant, hyd y cymylau; ei alw y prydydd goreu yn ei oes, a'i deitlo yn “Shakspeare Cymreig;” ond a fyddai hyny yn briodol? A ddaliai canmoliaeth o'r fath oleuni dydd? Nid ydym heb wybod mai fel y crybwyllwyd y llefarid am dano hyd yn ddiweddar. Fel y mae ei hen gyfeillion yn cilio o'r golwg, y mae yr awydd mawr oedd am ddarllen ei gyfansoddiadau yn diflanu i raddau. Ni chai cerdd, neu garol, o waith Thomas Edwards, o'r Nant, neu Ellis Roberts, y cowper, ond ychydig o ddylanwad yn bresennol yn ein feiriau a'n marchnadoedd wrth yr hyn a fuont yn ei gael. Nid ydym yn dyweyd fel hyn am nad ydym yn golygu fod yn ngwaith Thomas Edwards rai pethau teilwng; ond yn unig er dangos fod pethau neu amgylechiadau eraill, heblaw teilyngdod, ac, weithiau, yn annibynol ar deilyngdod, yn dwyn dynion i sylw ac i enwogrwydd. Ond nid allwn edrych ar beth yn meddu ar *enwogrwydd* os na fydd ynddo elfenau a orosant genedlaethau lawer; i.e. os na fydd ynddo ddefnyddiau a barhânt hyd yr oddaith ddiweddar. Dyna y pethau a hoffem gael yn nghyfansoddiadau ein bardd. Yr ydym ni, fel cenedl, wedi bod yn destun gwawd cyn hyn, am ein brwdan-

iaeth yn canmol pregethwyr a beirdd fyddai yn hoff genym, heb ystyried mai yn eu cylchoedd eu hunain yn unig, yn Nghymru, yr oeddynt yn enwog. Mynem fod llawer un y pregethwr goreu yn yr holl fyd, pan nad oedd sylw llawer o honom wedi cyrhaedd dros Glawdd Offa; a mynem fod amryw o'n prydyddion yn fodau goruwch y cyffredin, o ran eu hathrylith, pan na wyddem pa beth oedd elfenau awen, na pha fodd i roi darluniad amgyffrodadwy o'r peth yw *gwir* farddoniaeth.

Y mae llawer math o enwogrwydd ymhlith beirdd ac ysgrifenydd, ond nid ydyw pob un yn gyfartal o ran ei werth. Cipia y werin, weithiau, ddyn ar eu hysgwyddau, a cherddant drwy yr heolydd dan waeddi "*Abrec!*" pan fydd y synwrol a'r pwylllog yn chwethrin yn ei lewis, ac yn cilio o'r neilldu rhag cael ei sathru gan y dorf. Y mae enwogrwydd arall na wŷr y werinos pa fodd i roi pris arno, ond fel y clywant wŷr o farn ac o ddylanwad yn son am dano: gwell fyddai genym y diweddfaf na'r cyntaf.

Y mae gwahanol ddulliau gan ddynton i gyrhaedd enwogrwydd. Daw rhai i fyny yn wyneb llawer iawn o rwystrau ac o attalfaedd, er i'r byd, a'r cnawd, a'r diafol, fod yn eu herbyn. Y mae eraill yn cael eu gwthio i sylw gydag anadl eu cyfeillion; a thra dalio y cyfeillion i chwythu, fe ddaliant hwythau i hofian uwch ben y byd fel barcutan bapyr; ond pe blinai y caredigion yn chwythu, disgynent i lawr bendramwnngl, a mawr fyddai eu cwmp. Ond deil y cyntaf mor ddiogel a'r pegwn gogleddol, gan nad faint o gynhwrf fyddo yn yr elfenau yn ein byd bach ni. Drwy fod cymaint o dwyll a gweniaith yn bod, gwnaed llawer un yn enwog heb ynddo ddim yn rhagori ar y cyffredin, a pharhaes enwogrwydd o'r fath, weithiau, cyhyd ag oes y cyfryw; ond, wedi ei symud ymaith, aeth y chwilgar i ymofyn yn mha beth yr oedd yr holl fawredd a briodolid i'r orael yn gynnwysedig; a chan iddo ei chael yn brin, a chyhoeddi hyn y'r byd, tynodd y byd am ei ben: ond y gwir a saif, er pob peth a ddyweder yn ei erbyn.

Y mae rhai wedi dyfod i ryw fath o enwogrwydd, er na feddent ond ychydig o athrylith, drwy gael gwŷr o athrylith i roi gair o'u tu, a'u canmol; ond y mae y gwir athrylithgar yn gweithio ei ffordd ei hun yn ddiwyd a thawel, heb farchogaeth wrth ysgil neb, na chael fawr o annogaeth i fyned ymlaen. Soniwyd llawer am Domas Edwards gan filoedd yn ei oes, a sonir llawer eto gan yr oesau dyfodol; ond ni fydd son y rhai diweddfaf yr un fath yn hollol a'r hyn a ddywedid am dano gan y rhai cyntaf, canys yr oedd y bobl a gydoesent âg ef dan ddylanwad ei ganiadau, a'r ofn oedd yn cydfyned â'r cyhoeddiad o honynt ymhlith y werin. Effeithiai cân o waith "*Thomas o'r Nant*" fwy ar ddynt na'i roi yn Ffynnon Elian, neu ei fwrw ar drugaredd gwrach y rhibyn. Y mae y dylanwad yma wedi colli yn llwyr erbyn heddyw. Yr oedd gan Thomas Edwards ei gyfeillion hefyd pan oedd byw, y rhai a ddefnyddient bob cyfleusdra ac amgylchiad i gynnal ei enwogrwydd i fyny, ac i daenu ei glod. Y mae cynnorthwy y rhai hyn wedi colli er's talm; a gorfydd i'w gyfansoddiadau, yn yr oesau dyfodol, ac, yn wir, yn yr oes hon, fyned dan farn cyflawnder noeth. Ni roddir iddynt ond y clod a haeddant yn llygad haul. Ni chaiff efe mwyach ei farnu heb ei brofi, na rhyddid i wisgo ond y llawryf a wir deilyngodd ei gynnyrchion awenyddol.

Dyweyd nad oedd Thomas Edwards yn ddynt o athrylith, fyddai dyweyd ffolineb; a dyweyd na fu un dyn marwol o'i gyffelyb, fyddai yn

llawn cymaint o ffolineb. Yr oedd ganddo ei athrylith, ac yr oedd ganddo ei gylch penodol. Y mae yn debygol na fu nemawr un tudraw iddo, yn Nghymru, am ddeall arferion pob dosbarth o'i gydwladwyr, a throi pethau na chymeradwyai i wawd. Yr oedd yn gydnabyddus iawn â dicheillion y galon, a'i hoced. Darluniai yr hyn a gymerai mewn llaw i'r byw, yn yr ystyr yma; ond nid llawer o deimlad tyneraf yr awen sydd yn ei waith. Nid oedd ei nwydau ychwaith yn fflamio; ni roddai fyd ar dân. Tueddai ei ddullwedd at y sych yn gyffredin. Nid yw ei ddychan-gerddi, fel y fflam, yn cyffwrdd â'r rhanau tyneraf; ond rhuthrad nerthol a diarbod ydynt am ben ei wrthwynebwr. Llabyddio â meini, nes tori yr esgyrn yn chwilfriw, yr ydoedd, yn hytrach na gwaedu. Grym yw ei brif ragoroldeb yn y gangen yma. Yr oedd ei alluoedd i adolygu yn gryfion. Nid ydyw ei gymeriadau menywaidd ef yn meddu ar dynerwch menywod Shakspeare—math o rai gwerinaidd (*rustic*) ydynt. Dengys y bardd gryn lawer o ddichell y rhyw. Ond nid y swyn sydd yn gallu toddi y graig. Y mae ei frenin yn ei gorrffolaeth y peth ydyw brenin. Y mae ei esgob yn meddu ar holl drahausder ffughoniadau a choegrodres chwyddedig y dosbarth y perthyna iddo. Y mae ei gybydd hefyd, bob awser, yn wir ddelw yr anghenfil brwnt hwnw sydd yn anurddo dynoliaeth mor dost. Pan ddaw rhagrith dan grafangau y bardd, ni ollyngir mohono heb rwygo ei hugan yn gareiau. Y mae T. Edwards yn rhoddi eu teyrnged briodol i gyfreithwyr twyllodrus, dewiniaid, a phersoniaid. Tyn ragrith, gormes, dideimlad-rwydd, a thwyll, o'u ffauu tywyll, gan eu dynoethi yn llygad haul. Nid oes ond ychydig o greadigaeth yn ei waith; ac ni chlywir twrf y rhaiadr croch, ac ni welir goleuder y fellten fforchog; ni ddychrynr ni â daear-gryn, ac ni swynir ni â pheroriaeth y llwyni. Y mae prydyddiaeth gyflawn yn cenedlu y teimladau mwyaf dyfnddwys o ddychryn a gresyndod, o gasineb a chariad. Nid ydym ar ol darllen ei waith ef, yn gyffredin, yn teimlo y gwaed yn fferu, na'r gwallt yn codi; ni fydd y galon yn tanio, na'r llygaid yn colli dagrau. Gosod dyn mewn tymher chwerthin y mae y rhan fwyaf o'i ganeuon. Ychydig o ddylanwad oedd gan ei awen ar ysbrydion y dyfnder, ac ychydig oedd a wnelai âg anweledigion byd arall. Nid ydyw efe yn dyfod yn agos i drothwy "*Hamlet*." Y mae iaith Thomas Edwards yn erchyll, ar rai prydiau, o ran ei hanghywirdeb ac o ran ei hanfoeagarwch. Nid o ddifyrwrch y gall unrhyw ddyn o chwaeth ddarllen holl gynyrechion y bardd, ond yn unig er gweled pa beth sydd ynddynt; ac nid oes ond yr ystyriaeth mai dangos y byd fel yr oedd yn ei gael, o ran ei iaith, a'i foesau, a all gyfiawnhau dyn am ddefnyddio y rhan fwyaf o'i chwaryddiaethau. Gan mai isel, difoes, a halogedig oedd y dosbeirth a ddarluniai, yr oedd yntau yn ceisio myned i'w hysbryd, fel, os bydd arnom eisieu gwybod pa sut yr oedd y byd Cymreig yn ei oes ef, a chyn iddo gael ei eni, y gallom gael hyny wrth ddarllen ei waith ef. Yr oedd parch mawr i'r fath brydyddiaeth erwin yn more ei oes ef, ond byddai yn anhawdd cael derbyniad i'r pethau mwyaf hagr o honi yn yr oes hon, er nad yw yr holl baganiaid Cymreig wedi marw eto. Paentio y byd fel yr oedd yn ei gael yr oedd Thomas Edwards, ac yr oedd yr olwg arno yn erchyll. Y mae yn debyg na fu neb erioed yn byw ac yn ymsymud mwy, o ran ei ganiadau, yn mysg pob dosbarth o'r werin ag ydoedd ef. An-foddlonir i'r teitl o "*Cambrian Shakspeare*" a roddwyd i'r bardd o'r Nant. Dywed un awdur, "Rhaid i mi ardstio yma yn gadarn yn erbyn yr enwad

o'r "*Cambrian Shakspeare*" a roddir i Dwm o'r Nant, oddieithr bod y ddau yn brydyddion. Nid oeddynt yn debyg i'w gilydd mewn dim arall. \* \* \* Shakspeare oedd y bardd penaf a fu erioed ymhlith y Seison; ac ni fu ei gyffelyb chwaith yn un wlad, yn deall mor hynod bob cynhwrf a ddichon gyfodi mewn enaid dyn, ac mor alluog i'w fynegu mewn awen-iaeth ardderchog: ond nodeb penaf Thomas Edwards oedd gosod gwrth-ddrychau cyffredin ac ysmaldod mewn prydyddiaeth rwydd a hawdd i'w deall gan y mwyaf anllythyrenog."<sup>1</sup> Barna yr ysgrifenydd hwn fod ein bardd yn fwy tebyg i Aristophanes y Groegiaid nag i Shakspeare y Seison. Pa fodd bynag, gellir dyweyd fod caniadau Thomas Edwards, yn mysig y bobl gyffredin yn ei oes ef, mor "*familiar in their mouths as household words.*"

Y mae efe yn tynu darlun o "Bleser a Gofid" mor naturiol nes y mae yr amgylchiadau yn fyw o flaen ein llygaid. Y mae y cybydd wedi cael gwraig na fu ei bath. Yr oedd yn grefyddwraig, yn wraig arafaid, addfwyn, a llonydd; ond yn ddigon dichellgar i dwyllo y llwynog. Dywed am dani,—

"Mae hi yn wraig arafaidd addfwyn rywiog,  
Ac yn wdrych yn llonydd, ond hi gogiff y llwynog,  
Os caiff hi ymgais ar fantais fywn  
Hi a ddirwyn yn gyuddeiriog.

'Bydw' i 'n lew erwin am hel arian,  
Ond mae hi 'n well o'r hanner am dynu ati 'i hunan;  
O rhyfedd mor gyfrwys bydd hi yn gwneyd gwên  
Wrth fachu rhyw fargen fechan.

Hi dd'wed cyn deced, os bydd un ffordd a dycia,  
Ac a ddeniff i'w gwinedd y cryf fel y gwana;  
O mor wyllyadwrus y bydd hi o hyd  
A'i gofal am y byd yn gyfa.

Hi hidlai wybedyn, mae 'n rhy onest i beldio,  
Ac a lyncal gamel'r un pryd dan ymgomio;  
Ni choellai neb, wrth weled ei ffull,  
Bod hi gystal ei dull am dwyllo."

Yr oedd hi yn myned i wrando pregeth rhyw dro, a galesid yn hawdd weled ar ei hymddygiad faint o'r bregeth oedd wedi glynu yn ei meddwl. Son am y gwyddau yn mhorda y gwartheg; ac am y forwyn yn segura gyda'r gwas; a holi oedd y gwr wedi cymeryd gofal am fynu arian am y gwlan oedd efe newydd werthu, oedd yn cael y lle penaf. Soniai am ryw borthmon ymron a thori i fyny:—

"*Siân.*—'Roedd rhywun wrthf heddyw 'n traethu  
Fod eich ffrynd o Gaerfownog yn mron tori fyny.

*Rondol.*—'Rwy'i 'n ammheu 'n wir fod y gwalch yn wan,  
Mi greda fy hunan hyny,  
O ran fe fu'n ceisio prynu dau eidion  
Geni am ddeg punt onid coron;  
Ac yn crefu arna'i yn nghysgod perth  
Am ei goellio fo nerth ei galon.

*Siân.*—'Ie, eu coello nhw'n aiwr, 'rwy'n gweled  
Nad oes i fawr ymddiried;  
Mae'r ffermwyr a'r porthmyn yr un peth,  
Yn ddidoreth am gastiau diried.

<sup>1</sup>"Gwladgarwr," am 1838: tudal. 144.

*Rondol.*—Y porthmyn, mae'r d—l yn rheini,  
 Ni byddant hwy dro'n gwneyd mil gwerth eu crogi;  
 Wrth goelio eu celwydd hwy a'u brad  
 O faint gadd y wlad ei thlodi!  
 Fe doriff chwilgi o borthmon diffaeth  
 Am dair neu bedair mil ar unwaith,  
 'Nol hyny'n pwnio am wneyd *compound*  
 A dyna i chwi *sound* farsiantiaeth."

Y mae Siân byth heb ddyfod at destun y bregeth:—

"*Siân.*—Wel d'wedwch imi eto, Rondol,  
 Pa fodd mae nhw'n tori mor annaturiol!  
 Ac yn colli cymaint mewn cyn lleied amser,  
 A glywch chwi? mae rhyw ddrwg yn Lloegr."

*Rondol.*—Oes, mae yn Lloegr laweroedd o ddrygau,  
 Ond ni fyddai dim cymaint pe rhosent hwy gartre."

Cawn yma ddarlun garw o ddull y porthmyn, a hyny mewn iaith arw dros ben; ac arwydda Siân gryn ofid o herwydd y drafferth a geir i fagu lloi, a'r porthmyn yn myned â'r fael. Ond nid oes air o son am y bregeth eto: â Rondol yn ei flaen i ddangos pa sut y gwneir llawer o borthmyn.

"*Rondol.*—Dyna ddysgu rhai goelio rociach dig'wilydd,  
 Pac o wag ladron yn twyllo'r gwledydd,  
 Ni feddant hwy ddim at fyn'd yn borthmyn  
 Ond rhywfaint o Seisneg, a thipyn am dany'n',  
 Os ceir botas a 'spardunau a cheffyl dano,  
 A chob, het, a bwawl, dyna'r porthmon yn picio;  
 Ac yn clecian y chwip i fyny ac i lawr,  
 Fe wnaiff yst'wr mawr nes toro."

Yr oedd Siân o'r un farn am dwyll y porthmyn, y *jockeys*, &c., ac er mwyn rhoi tipyn o glwt ar bethau, y mae hi o'r diwedd yn dechreu son ychydig am y bregeth; ond yr oedd ei meddwl wedi ei dynu drwy lawer o ffosydd cyn hyny. Am gariad yr oedd y pregethwr yn son, ond nid oedd gan yr hen Rondol fawr o flas ar garu tlodion—

"Ni charwn i yn fy nghalon,  
 Yn fy myw, mo'r bobl dlodion,  
 Nac un o'r rhai gwanlyd haerllug hil  
 Anghynnul sy mewn anghenion."

Canmolai yr hen wr gryn lawer ar ei wraig, ond cyn pen hir y mae hi yn marw. Pan aeth yn wr gweddw y mae dewines yn cael ei hanes, ac y mae yn myned i gynnyg adrodd ei dynged. Ar y cyntaf, y mae efe yn wrthwynebus iawn iddi; ond o ychydig i ychydig y mae hi yn ei ddenu ef i'w rhwyd, y mae yn addaw iddo wraig gyfoethog o fasnachyddes. Y mae yn priodi, yn gwerthu cynnyrch y tyddyn a'r anifeiliaid, gan droi pob peth yn arian—yn myned gyda'r wraig i ffair Gaer—y wraig heb ddyweyd wrtho ei bod hi mewn dyled. Y mae yn cael ei wahodd at y trafaelwyr lle yr oedd lleiaf i dalu; y rhai hyny yn yfed ei iechyd da dan ddymuno llwydd i'r fasnach; o'r diwedd y mae yn meddwi ac yn syrthio ar draws y bwrdd a'r gwydrau; y rhei'ny yn myned i'w ddwyllaw. Y mae yn cael ei lusgo i'r gwely; y wraig, yn y nos, yn lladrata y pwrs a'r arian; yntau, pan ddeffroes, yn gwisgo am dano ac yn rhedeg ar hyd yr heolydd i chwilio am y wraig; y mae yn cael ei gymeryd i fyny fel dyn wedi colli ei synwyrâu, ac yn cael ei osod mewn dalfa. Y mae efe yn dyfod adref

o'r diwedd, ei holl eiddo yn cael ei werthu, yntau yn myned i anobaith ac yn marw. Yna y mae y cyfan yn diweddu mewn chwerthin mawr. Yr oedd Thomas Edwards yn ei chwaryddiaethau oll fel yn troi y byd y tu gwrthwyneb allan, ac yn ei adael fel yr oedd yn ei gael, ond ei fod wedi rhoi tipyn o baent ar ei amgylchiadau. Yr oedd llawer o gellwair-gnoad yn rhedeg drwy y chwaryddiaethau yma. Deuai yr Eglwys Sefydledig, a chrefyddwyr y capeli, dan y fflangell yn eu tro, o enau rhywrai o'r chwareuwyr. Y mae ei "Gyfoeth a'i Dlodï" yn cynnwys llawer o ffeithiau gweladwy y dyddiau yma. Portreadir yr ysbryd mawr sydd yn llenwi yr anwybodus a feddo fwy o dda y byd hwn na'i gymydogion; ei galedwch at rai fyddo mewn eisieu. Dangosir yn amlwg fel y mae ysbryd y byd yn gwneyd dynion yn fwy syohedig am y byd. Tynir darlun fel y mae menywod yn lithio ac yn colli eu diweirdeb drwy gellwair â phrofedigaethau; ond nid oedd y bardd yn un o'r rhai mwyaf gofalus am iaith briodol, nac am ymadroddion destlus, wrth ymdrin â'r mater yma. Gan mai yn mysg amaethwyr yr oedd efe yn troi, yn benaf, arferion y rhai hynny a eglurir ganddo yn fwyaf. Dengys yr awydd a'r wanc sy mewn gwŷr ariangar am gael prisiau gormodol am eu cynnyrch; na feddant deimlad mwy na *chrocodil* at rai fyddont mewn gwasgfeuon a chyfyngderau. Ac fel y maent yn cymeryd pob mantais i gael y geiniog uchaf oddiar y gwan a orfyddo fyned i'w llyfrau am damaid o fara. Daw balchder i fewn am ergyd. Gosodir allan ddull meistri a meistresi di-deimlad at y rhai fyddo yn gweini iddynt; na waeth ganddynt yn y byd beth a roddant yn ymborth i'w gwasanaethyddion. Nid drwg yw y darlun o'r segurwyr hanner boneddig sydd yn cael bywioliaethau bras wrth ymwithio i'r fyddin. Y mae y darlun o ddiogi yn dra naturiol, ynghyd â'r effeithiau blinïon sydd yn ei ddilyn. Cawn ddarlun rhagorol o esgusion y cybydd rhag rhoi dim help i'r tlawd:—

*Lowri.*—Ow! rhowch imi gerdod heno

Mewn mwyniant rwy'n dymuno.

*Hywel.*—Nid ydyw'r wraig ddim yn ty,

Mae'r agoriad ganddi'n ei garlo.

*Lowri.*—Gobeithio heb ddigio'n ddygyn

Y rhowch imi ryw ronyn.

*Hywel.*—Mae yma foch o gwmpas y ty,

Nid alla' i mo rannu'r enwyn.

*Lowri.*—Ni feddai ddim bara er doe'r borau.

*Hywel.*—Wel mac digon o newid ar hwnw er's dyddiau,

Pam nad allwch weithio yn lle gwneyd cwyn,

A'i ennill e'n fwyn fel finnau!"

Y mae y cybydd yn troi yn gas at y ddyne, cyn y diwedd, gan arfer geiriau rhy hyllion i'w gosod ger bron. Y mae ysbryd caled, ffyrnig, bydolddyn diofal am bob un ond am dano ei hun drwy y darlun o'r dechreu i'r diwedd.

Cyn gorphen, yr ydys yn cael gweled fel y rhoes y cybydd ei fys yn y post wrth goelïo tafarnwr am frag, y golled a gafodd, ac mor dlawd oedd y cybydd o ran ei gyflwr yn marw. Y mae ei ddarlun o'r cybydd a'i wraig yn y cyfansoddiad hwn yn debyg i'r un oedd yn yr un o'r blaen:— y ddau yn ymwneyd ati i grafangu, drwy bob llwybr, heb feddwl dim am gyflwr neb arall; ond nid oes yn yr holl ddarlun ddim i greu dychryn



rhag dilyn y llwybrau pechadurus hyny a ddilynid ganddynt hwy. Y mae y cyfan yn diweddu yn nghanol chwerrhin mawr. Y mae Shakspeare yn mawr ragori yn hyn; oblegid, wedi iddo ef ddangos twyll, neu greulondeb, yr ydych yn teimlo casineb angerddol yn eich mynwes at y neb a'i harferodd. Go debyg y dygir pethau ymlaen gan Thomas Edwards, yn ei "Dri chryfion Byd" gyda'i gybydd a'i dlodi. Y mae yn y chwareu yma wraig a chanddi ddau fab, un yn gybydd a'r llall yn cael ei ddwyn i fyny yn offeiriad. Y fam a'r cybydd yn syrthio allan â'u gilydd, o achos pethau y byd; yr hen wreigan yn myned at ei mab oedd yn offeiriad i fyw; newidiad ei byd yn effeithio ar ei chyfansoddiad nes ei marw. Ei hewylls yn groes iawn i feddwl y cybydd; yntau yn barod i felldithio ei fam; ac aeth i gyfraith am yr eiddo gyda ei frawd, ond fe gollodd.

Darlunir y twyll sydd yn perthyn i gyfreithwyr, ac fel y maent yn byw yn fras wrth annog ffyliaid i fyned i benau eu gilydd ac i ymgyfreithio.

Gwelwn yn y cyfansoddiad hwn y llwybr y gwneir y rhan fwyaf o offeiriad y wlad hefyd; mai nerth y gist yw y teithi anheborol anghenrheidiol, braidd, yn mhob amgylchiad. Y mae y cybydd yma, fel y lleill, yn teimlo at y diwedd, ac yn marw fel ynyd.

Un gwall mawr y sylwasom arno yn yr holl chwârëyddiaethau hyn, yw llusgo crefydd i blith yr ysgarthion gwaelaf. Rhoddi cymborth i chwerrhin oedd un o'r amcanion professedig mewn golwg yn y chwârëyddiaethau: gan hyny, dylesid gadael crefydd allan yn lân. Y mae yn rhy gysegredig i gael ei gosod ar yr un tir a'r iaith isel a difoes a'rferid yn fynych. Yr oedd dwyn pethau crefydd i blith sothach yn gymaint allan o'i le ag ydyw dwyn ysgarthion i'r pulpud i blith pethau cysegredig. Gellid, wrth wrando ar rai yn pregethu, farnu mai chwârëyddiaeth fydd ganddynt, gyda'r gwahaniaeth yma;—cellwair oedd yr amcan mewn golwg gan Thomas Edwards, ac nid ydoedd crefydd ond yn cael ei dwyn ymlaen i gynnorthwyo y peth rhag iddo ddiweddu yn lol i gyd; pregethu yr efengyl yw yr amcan professedig, yn bresennol, yn y capeli, ac nid yw y cymhorth i chwerrhin ond peth i gynnorthwyo rhag iddo ddiweddu yn ddirifoldeb i gyd. Gadäwn i'r darllenydd farnu pa un waethaf o'r ddau.

Yr oedd effeithiau dirfawr yn dilyn y chwârëyddiaethau hyn, o'r fath ag oeddynt, ond y mae gormod o debygolrwydd rhwng y cymeriadau (*characters*). Yr oedd mwy o gymeriadau yn y byd bach Cymreig nag a ddefnyddiwyd gan ein bardd, a'r rhai hyny yn ddigon adnabyddus i'r werinos a anerchid ganddo. Yr ydym yn ystyried hyn yn ddiffyg mawr, ac yn gwneyd yr awdur yn annebyg iawn i'r bardd o *Stratford-upon-Avon*, yr hwn oedd mor fawr fel nad oes dim mewn natur, celfyddyd, na chymdeithas, heb dynu ei sylw; ac y mae efe wedi llefaru mor gyflawn, ac mor effeithiol, ar bob peth, fel nad ydyw wedi gadael dim heb ei grybwyll. Dywed Dr. Johnson, y byddai yr hwn a geisiai gymeradwyo Shakspeare, drwy ddyfynu darnau o'i waith, mor afwyddiannus a'r dyn oedd ganddo dŷ priddfeini (*bricks*) ar werth, ac a gariai briddfaen yn ei boced fel anghraifft o hono. Yr oedd Shakspeare yn agor pethau i'r gwaelod, a Thomas Edwards yn paentio pethau fel yr oedd yn eu cael.

Ychydig o sylw a dalodd Thomas Edwards i reol Cerdd Dafod a iaith, megys y crybwyllwyd mewn rhifyn o'r blaen o'r "Traethodydd," a dichon fod hyny wedi tarddu yn fwy o ddiolfalwch a balchder nag o ddiffyg chwaeth a gwybodaeth, megys y dywed un o fywgraffwyr Byron am y dyn

rhyfeddol hwnw. Gwelsom rai llinellau rheolaidd a chryfion mewn ychydig o gyfansoddiadau T. Edwards ar y gynghanedd gaeth. Dywed yn "Awdl marwnad Peter Williams,"—

"Yngwlad Deheudir angel Duw hedodd,  
O wawr ei lewyrch awyr oleuodd."

Ac yn "Marwnad Goronwy,"—

"Cadd awen burwen yn berwi,—a than  
Doethineb Duw ynddi,  
Seraffim roes, er hoffi,  
Farworyn i'w henyn hi."

Nid oedd anghen am *er hoffi*, ond er cadw y gynghanedd.  
Eto,—

"Er y cafodd ryw arwa' cofion,  
Rhuthrau lliidiog hir a thrallodion;  
Ef a dynai fywyd union—mawl mydr,  
Wir haul belydr o'r heibulon."

Eto,—

"Afaeth goleddwr, Ow ! Ow ! fe'th gladdwyd  
Piler iaith wreiddiol, O ! pa le'th roddwyd !  
I fwth ogof angau, fe'th gyfyngwyd,  
Dan do dir estron d'awen di rywstrwyd,  
Och ! fwyn Ronwy na chyfranwyd—i't' fedd  
Ryw fyawent Gwynedd ar faint a ganwyd."

Bu agos iawn i'r Hir a Thoddaid uchod ddianc heb wall ynddo, fel y gwel y deallus. Cawn yn "Nghywydd Marwnad Mr. Edward Jones, Cil llwyn, Bodfari,"—

"Beth i'w ddiddadl gystadlu  
A gwaith hen heirdd feirdd a fu !  
Cân cynnydd awenydd win  
Union araith Aneurin.  
A diddarfod y clod clau  
I Dalicain a'i dlysau."

Eto,—

"Chwith fod gwreng yma 'n sengu  
Troed ar ei fedd tra dewr fu,  
O ! byd<sup>1</sup> fawrion Bodfari  
Ddel uwch hwn meddyliwch chwi,  
Rhoed yna wr hoew danoch,  
Tad cerdd, yn y tywod coch."

Mewn cywydd a wnaethpwyd wrth ddyfod o Ddublin ar ystorm dywed—

"Gwel'd y môr yn egori  
Yn bantlau, brynian, heb ri,  
Donau dig fileinig floedd,—  
Anoddyfa fel mynydd oedd ;  
A'i ymchwydd, arwydd erwin,  
Yn dolciog blyciog a blin ;  
Myag y rhal'n, oer lain ar led,  
Picio mae'r *Hilebroo* Packed,  
Och ! o'i golwg uwch genlan  
Yn waeth ei bri na nyth bran."

Ond nid oedd un mymryn o ymddiried i'r bardd. Fe allai mai yn ymyl y deryn prydfferthaf o ran syniad, iaith, a chynghanedd, y ceid y diddelwant

<sup>1</sup> Nid oes eisieu *byd* ond er mwyn cynghanedd.

penaf; ac, weithiau, dodai efe y syniadau mwyaf barddonol yn y wiag mwyaf carpiog. Y mae yr englyn tlws canlynol, o ran ei syniad, ymhlith "Englynion ar fin Llyn y Fan," am yr hwn y sonir gan John Dafydd Rhys yn ei "Ramadeg"—1592:—

"Swn y llyn sy'n fy lloni—mewn awen,  
Er newyn ac oerni;  
Mae 'n gynnes yma geni  
Fin y dwfr er dy fwyn di."

Nid oes dim llai na thri gwall cynganeddol ynddo, er holl brydferthwob ei syniad. Gwnaeth Thomas Edwards lawer o garolau yn ei oes, ond nid ydynt yn cynnwys fawr o ragoroldeb. Y mae cryn duedd ysbrydoli a phregethu ynddynt; megys y gwelir yn y pennillion a ganlyn:—

"Nid wele yma iawna' enw,  
Yn oleu lwc, neu wele acw,  
Mae croew deyrnas Crist:  
Ond yn y galon, mewn dawn gwiwlwys,  
Y mae 'r eglwys, gardd paradwys,  
Ystad ei gymhwys dyst:  
Ond eto rhaid i'r famaeth gu,  
A'r plentyn Iesu isod,  
Ffoi i'r Aiphit, wrth oleu aer,  
O herwydd blinder Herod;  
Sef, yr hunan mawr hynod,  
Hen Herod sy' ynom ni,  
Yn erbyn gwir feithrin  
Un brenin uwchlaw 'n bri.

A Herod oerddu pan mae 'n trengu  
Y plentyn Iesu sy'n cynnyddu,  
Gan dyfu fyny 'n fawr.  
Mae 'i ddoethl ymddygiad uwch doctoriaid,  
Mae ynddo wyrthiau golau i'w gweled,  
Yn yr enaid gywir wawr.

Efe yw 'r cynnyrch, llewyrch llawen,  
Ond gwyllwn heno 'n twyllo 'n hunain,  
Cyn cael y bachgen cu:  
Ni thal chwilena draw ac yma  
Yn mhlasau pena' Bethle'm Juda,  
Na'r ddinas hardda' sy."

Y mae yr awdur yn anfoddog iawn mewn amryw o'i garolau; ychydig o athrawiaeth felus, adeiladol, a goleu, a geir ynddynt. Y mae yn son mwy pa sut y dylasai dynion fod na pha sut drefn oedd gan Dduw i ymgeleddu y byd. Y mae Dafydd Ddu yn rhagori yn ddirfawr ar ein bardd yn ei garolau. Meddyliem mai math o gân yn cynnwys syniadau priodol i'r amgylchiad o enedigaeth Ceidwad y dylai carol fod, ac nid pregeth ar ddyledswyddau; ac ni fyddai crynodeb o drefn iachawdwriaeth yn amherthynasol i'r testun, gan mai "i geisio ac i gadw yr hyn a gollasid" y ganwyd y Gwardedwr. Ond dylai fod yn mhob carol arwyddion o lawenydd; ac onidê bydd ymhell iawn o gyfateb i garol yr angelion uwch ben meusydd y wlad hòno lle yr oedd y "bugeiliaid yn gwylied eu praidd liw nos." Y mae ein hawdur yn euog o un peth anfaddeuadwy, hyd yn nod yn ei garolau, a'i ganiadau rhyddion eraill, sef o ddwyn geiriau llanw i fewn er mwyn y gynganedd, megys y gwelir yn y pennill cyntaf a ddyfynwyd. Y fath drafferth y mae efe yn ei gymeryd arno ei hun i adrodd yr adnod, "Wele yma, neu wele acw;" sef,

"Nid wele yma, iawna' enw,  
Yn oleu lwc, neu wele acw."

Y mae y geiriau afreidiol wedi cael eu doddi mewn llythyrenau Italaidd. Nid oes dim a all gyflawnhau peth fel hyn. Gwell fyddai gadael cân neu garol heb sill o gynganedd na llusgo geiriau heb un mymryn o'u heisieu i gyfansoddiad.

Nid ydoedd awen ein bardd yn cael ei hynodi, megys yr awgrymwyd eisoes, â thynerwch athrist, nac â chalon yn teimlo yn ngwyneb cyfnewidiadau bywyd; nac â chyfeiriadau dwys at natur, yr hyn a fuasai yn ei gymhell i resynu dros ysgyfarnog glwyfedig, neu dros flodau llygaid y

dydd yn cael eu mathru gan droed y gwlad-ddyn, fel yr oedd Burns.<sup>1</sup> Ac nid ydyw yn ymddangos y cynhyrfd ynddo deimladau uchel, ar fore o wanwyn, wrth wrando ar gri haid o chwilgorniaid y waen (*grey plover*), neu lais unig chwibanogl y mynydd (*curlew*); ond ymddengys mai mewn dychan yr oedd ei brif elfen. Gallai wawdio a dirmygu i'r graddau eithaf. Gosodai farc am byth ar ei elyn; a thra y byddai mewn ymryson, yr un peth a fuasai ceisio tawelu tonau cynddeiriog y môr, ar y dymhestrl fwyaf ofnadwy a wnaeth erioed, a dysgwyl cael y gair diweddfan gan y bardd o'r Nant. Yr oedd ei ddialedd yn angerddol fel tân, a thywalltai ffiolau ei ddigofaint am ben ei wrthwynebwyd hyd angeu, os nad ar eu coffadwriaeth ar ol angeu. Nid rhyfedd, gan hyny, fod ei arswyd ar foneddig a gwreng drwy y wlad oll. Byddai personiaid yn barod i fyned i lewyg wrth glywed son am ei enw; a dychrynai stiwardiaid anghyfiawn a gorthrymus nes y byddent yn ymyl myned yn wallgof wrth ei gyfarfod ar yr heol: ond dylid cofio mai i weithredwyr drwg yr oedd efe yn ddychryn. Yr oedd T. Edwards yn meddu ar deimladau tyner a charuaidd fel cymydog a gwladwr. Bu yn ffrewyll gylmog ar gefnau stiwardiaid anghyfiawn a chreulawn, megys y gwelir wrth y dyfyniadau canlynol:—

“ Hai how hawyr, beth yw'r hewian  
A'r clebran canu ciod  
I stiwardiaid weilch ystordyn  
Na ddylai fyfryn fod;

Can's pwy dostach, anonestach,  
Ffroenau hocoed sy'n ffynicach,  
Ddull ecrach yn mhob llu,  
Am un gonest sy'n ymgynnal  
Mae mor anamal yn yr ardal  
A dal myharen du.

Lle codo penau drain tin cseau  
Hwy wnant rwygiadau noeth;  
Eu rhodres brysur gyda 'n meistryr  
Sydd fel y pupyr poeth;  
Ar ol cael unwaith ystiwardiaeth,  
Dyma furgyn drwg rywogaeth  
Yn benaeth mawr ei barch;  
Hen scip lleuog bimpwr castiog  
Mewn rhwyg wrol mor ysgwarog  
Yn foliog ar ei farch.

Y siarpyr siopau neu ryw garpiau  
Ond pens' darn fydd paun o dwnai  
I fod mewn barnau o bwys;  
Ond ffals gymysgiad crach stiwardiaid  
Rhwyg cnafs o ladron a choeg ffyliaid  
Yw'r diaffiaid mwyaf dwys:  
Os dont a digio wrth denant egwan  
Hawdd y brathan iddo broc,  
A'r ffarmwr mawr yn llawr y dyffryn  
Fydd pia'r tyddyn toc.

Bydd hithau, gwraig y stiward hawddgar,  
Yn y bar mewn gwyn ei byd,  
Ac yntau'r perlyn yn y partiur  
Yn mlaena' gwr i gyd:  
A'i draed ar led yn eiste'n lordedd,  
A'i dura yn agor mor Seisnigedd  
Wr doethed ar ei d—n;

A hwythau'r ffarmwyr a gonffiriant  
Bob peth ddywedo, i wirio'r warant—  
Rhyfeddant eirian' i fin.

Ac felly ffarmwyr, draws-rodreswyr,  
Sy'n ffalwyr a'u swn ffeet,  
Yn gwneyd stiwardiaid mor ystwrddi  
I ymgodi'n uchel gest;  
Wrth roi presantiau i'r wraig ac yntau—  
Ieir a gwyddau a chant o bethan,  
Cymorthau glo a mawn,  
Nes gyru'r stiward mewn gwres taieg  
Rhwyg y cwbl yn wr cobog,  
Fel llwynog yn fol llawn.

A mwy na gwobrau, breibiau bribis,  
Yn yr office mae'r holl rym,  
Wrth gaelernessau wrth ddwyn tyddynau,  
A thrin y llyfrau'n llym;  
Cadw'n lewfyrd ddau bâr o lyfrau—  
Llyfr i'w feistr a'i lyfr yntau,  
A dau swm rhentiau'n rhai'n;  
Fel hyn mae stiward yn ei ffalder  
Yn myn'd yn godog yn ei gader,  
A'i feister weithiau'n fain.

Mae gwaith stiwardiaid caeth ystwrddi  
Yn llwyr dori llawer dyn,  
O ysu i osod mân dyddynod  
Yn ormod i'r un un;  
Pa sawl lle bychan aydd yrwan  
Gan yr un lleidr mawr corn llydan,  
I beri cwynfan caeth;  
A phlantus gweiniaid hen denantiaid,  
Cant hir gerdded cyn cael tamaid,  
Neu lymaid bach o laeth.

Mae digio stiward cill gystwyo  
Dynton dylion, dan ei dwylo,  
Yn fwy na digio Duw.”

<sup>1</sup> “Tuckerman.”

Maddeuir i ni am ddyfynu mor helaeth pan gofir fod y "Gân i'r Stiwardiaid" mor anhawdd ei chael yn y dyddiau yma; yr hon rydd ini yr olwg eehrydus ar y byd yn nyddiau Thomas Edwards, ac yn wir yn ein dyddiau ninnau i raddau gormodol. Y mae yr iaith yn hon yn ddrwg iawn.

Yn ngwyneb y rhuthr mileinig fu ar y Methodistiaid yn Môn, a manau eraill, pan oedd Meistri Elias a Lloyd yn lled ieuainc, cymerodd ef eu plaid, a chauodd safn llawer ci cyfarthog. Er holl wrthwynebiad ein bardd i wŷr Eglwysig anfucheddol, fe 'i perchid gan amryw o foneddigion o'i ardal ei hun, a'r wlad yn gyffredin. Gwelir hyny wrth ei lyfr: y mae efe braidd wedi llenwi ei "Ardd o Gerddi" â gormod o ganeuon i foneddigion ac eraill; yr hyn sydd yn peri fod ei waith yn llai dyddorol na chyfansoddiadau Dafydd Ddu. Ceisiai Thomas Edwards osod pethau ar gof a chadw, nad oedd ynddynt ond defnyddiau i beri difyrwch mynyd awr yn mysig cymydogion. Eto yr ydym yn cael mantais i weled pa fath dderbyniad oedd i'r dyn yn ei wlad, ac yn mysig ei gydnabyddiaeth, trwy y pethau yma.

Y mae rhai o argraffwyr ei gyfansoddiadau wedi dwyn darnau i'r goleu, mewn argraffladau diweddar, y buasai yn drugaredd â'i goffadwriaeth pe buasent wedi eu bwrw i lwch anghof am byth; megys ei "Gywydd i Glochydd Llanfihangel y Gwynt," yn yr hwn y mae y pethau mwyaf diynwyr y dygwyddodd i'n llygaid edrych arnynt erioed. Nid ydyw yr awdur, yn y cywydd hwn, yn ymddangos fel pe buasai efe wedi bod erioed yn dychanu o'r blaen. Y mae efe allan o bob rheswm yn ei gymhariaethau. Gesyd y clochydd allan yn bob peth mwyaf erchyll a allasai efe ddyfeisio. Yr oedd Thomas Edwards dan lywodraeth tymherau drwg, pan gyfansoddiodd efe y cywydd hwn; ac o ganlyniad y mae ei ergydion yn diagyn yn hynod ddiëffaith. Y mae y cywydd drwyddo yn ddernyn annheilwng o athrylith ein bardd. Y mae y iaith a'r gynghanedd yn wallus dros ben yn fynych; y mae efe yn galw y clochydd, ymhlith pethau eraill, yn

"Aderyn y corff, â'i drwyn ei,  
A'r meirwon yr ymyri."

Gwelir yn ngwyneb yr anghraifft uchod fod y bardd wedi dyrysu yn hollol, pan y soniai am *drwyn ci gan aderyn!*

Bu ymrysonau mawr rhyngddo ag amryw o'i gydbrydyddion; a mynai ef y gair diweddar, braidd bob amser.

Cwynem, wrth sylwi ar rai o'i chwaraëyddiaethau, mai ychydig o gymeriadau a drinid ganddo, ac fod pob un o honynt yn diweddu agos yr un fath. Er gwneyd i fyny y diffyg hwn, i raddau, cyhoeddodd yr awdur tua diwedd ei oes, y llyfr a elwir "Banau y Byd," yn yr hwn y portreadir pob cymeriad oedd o fewn cylch ei sylw. Y mae yn ddarlun nodedig o ddull y byd a'r gwahanol ddosbarthiadau sydd yn y byd. Y mae y darlun canlynol o gyfarfod llygredig yn bur gywir:—

"Erbyn edrych o'i ddeutu ar rai wedi methu,  
Ni welwn ddeg neu ddeuddeg, beth bynag ychwaneg,  
O wyr Eglwysig, wedi meddwi yn hyllig,  
Yn methu myn'd adre' gan ormod yn eu boliau,  
Ac yn aros yn benboeth yn y dref hyd drancoeth;  
Wedi diwyno yn greulon eu dillad duon,  
A'r gweision mewn llafur, yn eu brwsio 'n brysur,  
Ac yn rhegu eu meistriaid fod eu dillad gan futred.  
Ond wedi pob gloddest, 'roedd galw i /frecwest,

A hwythau 'r bon'ddigion & 'u cegau 'n boethion,  
 Yn gwaeddi yn eger am lowcio rhyw licer,  
 A'u calonau 'n rhy weiniaid i fwyta tamaid,  
 Oddieithr ambell un bollog oedd yn bur dda 'i 'stumog,  
 Yn llyneu yn erwin, fel ci neu fochyn;  
 A rhai eraill yn yfed i fwrw eu lludded,  
 Ac i ddechreu *contrifio* cyfarfod da eto!  
 A threfnwyd gor'chafiaeth am *hunt*, neu helwriaeth,  
 Yn godiad gadarn ar les rhyw dafarn,  
 A rhoi offeiriad cryno 'n *gontrooler* ar hono,  
 I wneyd y mater yn grwn a phob math o helgwn.  
 A segur ddynion a phastynau hirion  
 A gwyr ar geffylau, o'u hwyl ar eu holau,  
 A bloeddio a chadw swm, rhwng y cythraul a'r own.  
 Ac yna troi adre' i stwffio yn eu boliau;  
 Ac ar ol tori 'r wanc—yn hen ac yn ieuane,  
 Dechreu yfed eu goreu ac agor eu cegau,  
 I frolio 'n anaely y cwn a'r ceffylau."

Ceir yn y llyfr hwn lawer iawn o gymeriadau gwahanol, ond nid ydyw y mesur sy gan y bardd yn un dymunol; ac nid ydyw yr ymdrin â chrefydd sy ganddo yn ei le priodol. Yr oedd rhyw ysfa ryfeddol yn meirdd y dyddiau hyny am ddwyn son am grefydd i'r caneuon mwyaf halogedig. Ar ol bod yn rhegu ac yn melldithio eu gilydd, ceid, ond odid fawr, eu clywed yn diweddu eu cyfansoddiadau gyda rhyw gyfeiriad at y Duwod, ac yr oedd ein hawdur yn un o'r rhai penaf am hyn.

Wrth ystyried llygredigaeth personiaid, ac afesoldeb yr Eglwys Wladol, yn nyddiau Thomas Edwards, ar un ochr, a diwydrwydd, ffyddlondeb, a hunanymwadiad y Methodistiaid ac eraill, wrth geisio goleuo y wlad am ei thrueni, a chael dynion i adael eu ffyrdd drygionus, ar yr ochr arall, nid ydyw yn rhyfedd i ysbryd dyn o athrylith a gonestrwydd ein hawdur gael ei gynhyrfu i ddyfod allan i amddiffyn y blaid wanaf, yr hyn a wnaeth efe yn dra effeithiol; ac os ydyw efe yn rhagori mewn dim, yn hyn y mae efe yn rhagori; canys y mae mwy o gyfunedd yn ei waith yn y gangen yma nag mewn unrhyw beth arall a wnaeth erioed; ac y mae nerth digon i siglo y graig mewn llawer o'i bennillion. Yr oedd yn y fan hyn, ddefnyddiau wrth fodd ei galon; ac y mae yn amlwg ei fod yn teimlo yn gryf ar yr achos. A pha fodd y gallasai beidio, tra y canfyddai segurwyr diofal yn lleibio hufen a brasder y wlad, heb wneyd mewn cydnabyddiaeth am yr hyn a dderbynient ond erlid a baeddu y rhai oedd am wneuthur daioni i'w cyd-ddynion, heb ddim i'w cynhyrfu i hyny ond cariad at eneidiau? Ni chafodd Thomas Edwards y diolchgarwch a haeddasai gan bob un o'r frawdoliaeth Methodistiaid y pryd hwnw. Clywsom am un, yn lle danfon swm a dderbyniasai o ganiadau Thomas Edwards yn eu hol, yn tafu sypyn o honynt i'r tân yn ei zel. Barnai Mr. Charles, a Mr. Jones o Ddinbych, arfogaeth o'r natur brydyddol yn fuddiol, megys y gwelir yn y dyfyniadau o waith Mr. Jones, yn y "*Vindication to the Welsh Methodists.*" Yr oedd ein bardd yn amddiffynwr cryf i egwyddorion rhyddid orefyddol, a chanddo fantais fawr, o herwydd ei ddylanwad blaenorol, i effeithio ar y lliaws, drwy roddi ei fach yn ffroen ambell Senacherib Eglwysig, a chau genau ambell "Dobiah y gwas." Nid ydym yn credu y daethai pethau oddiamgylch gystal yn Nghymru, mor fuan, gyda golwg ar ryddid i addoli, oni buasai i ambell *elephant* cadarn fel Thomas Edwards roi ei ysgwydd gref dan ran o'r baich mewn pethau allanol. Gan fod crefyddwyr mewn llawer man yn rhy

ddiniweid, ac anwybodus, i gymeryd nawdd Gweithred y Goddeſiad, a chan na fuasai ond cryn anhawder i werinwyr gael chwareu teg, o flaen ynadon eglwysig y dyddiau hyny, yr oedd nerth moesol fel hyn yn anghenrheidiol i chwilfriwio yr hualau a geisid eu doddi am draed crefydd. Y mae yn ddiambhau pe buasai efe byw yn y dyddiau presennol, y buasai ar bersoniaid Puseyaidd, llawer o ba rai sydd wedi encilio o wersylloedd yr Ymneillduwyr, am na allent weithio eu ffordd yn eu mysg, arswyd drwy eu calonau rhag chwareu eu hystranciau ynfyd, megys eu gwelir hwy yn ngolwg haul; ac ni chwynem ni un mymryn pe byddai i ddeuparth o ysbryd "Thomas o'r Nant," yn yr ystyr yma, ddiagn yn ar feirdd Cymru, nes yr ymdeiont ymaith ysgarthion Puseyaidd a Mormonaid o Walia wen. Y mae pleidwyr y fath amryfuseddau yn rhy ynfyd i neb ymresymu â hwynt. Gwawd a dychan fyddai y moddion teilyngaf a mwyaf priodol i gael gwared o'r fath wallgofrwydd digyffelyb. Pa dwyllwr na ddiflana yn ngwyneb y fath ddarlun a'r un canlynol:—

"Ond hwn wrth wynt hunan  
Fel cigfran fol cas,  
A wnaed yn offeiriad  
Heb rwywiad o ras;  
Pan dyngodd am urddas,  
Yn adgas ei nerth,  
Fe lyncodd saith gythraul,  
Mewn gafael yn gerth;  
D'weyd ar ei lw fod Ysbryd  
Duw hyfryd yn ei hawl:  
Ni feddai yntau yswaeth,  
Ond ysbrydoliaeth d—l,  
Wrth fysio 'i gawl, fel Esay gynt,  
Mi si'n feiddigedig mewn rhyfygar bynt.  
A ph'le ceir dyn & doniau,  
Drwy fawr o lanau 'r wlad?

Os oedd pechod Suddas,  
Yn gas am roi gwerth,  
Ar Iesu santeiddlan,  
A'i gusan yn gerth,  
A chusan bu yntau 'n  
Rhoi llyfau yn y llan,  
Ger bron offeiriadau  
Am ryddid i'w ran;  
Rhoi enw Crist am urddas  
Fel hen farchgynfas gul,  
Heb hidio un mynyd mo'no,  
Ond son am dano 'r Sul;  
Fe welai ful Balaam fwy  
Nag ef o ran gofid,  
Ob'egid ei blwy'.  
Waeth ganddo os caiff y degwm,  
A'r offrwyn yn ei ran,  
Pa beth a fo anghenrhaid,  
Un corff nag enaid gwan,  
Fe wnaeth y llan yn nyth y llid,  
O herwydd dyhirwch ac ecrwch i gyd.

'Roedd Pharao 'n offeryn  
Tra gerwin trwy gas,  
Mae fo yn waeth na hwnw,  
O daer enw di rai;  
Ci llwydwyn colledig,  
A'i ddiwyg yn ddall,  
Yn cyfarth y defaid  
Heb weled ei wall.  
Yn chwervw, 'n falch, yn ddfog,  
Yn wancus lidiog wyn,  
Yn chwyrnlyd, ac yn gyglyd,  
Yn ddrewllyd, lydyld lun,  
Yn llofrudd dyn wrth lyfrau Duw,  
Heb ddim ond y rhagrith a'r fellidith yn fyw.  
Fe ddywed gredo a phader,  
O ddefod arfer deg,  
A hwnw 'n gelwydd creulon  
O'i galon ac o'i geg,  
'Run peth yw rhag rhan pwyth yr hawl,  
A gweddi ben rheffyn gan ddyn a fo 'n dd—l.

I 'ffeiriad oer fferyll  
Mae 'r ffirewyll yn ffrom,  
Am gysegr yspeiliwr  
Lladratwr llaw drom;  
Caiff, er ei dderchafu,  
Ei sathru fel sarn,  
Sodomah a Gomorah  
Gymerant lai barn.  
Mae achwyn mawr diochel,  
Dy fod ar drafael drist,  
Yn cynllwyn i'r Eglwysydd  
I watwor crefydd Crist;  
Gwall ateb dyst, gwell iti heb dor,  
Faen melin wrth d'wddw  
A marw yn y môr."

Nid darlun dychymygol yw yr un uchod, yn ddiâu; ond yr oedd gan y bardd rywun yn neillduol mewn golwg ag oedd yn cyfateb yn hollol i'r ardeb; ac nid oedd anghen myned i chwilio am y cyfryw yn y dyddiau

hyny â llusernau; fe'u gwelid yn ymrithio yn mhob ffair a marchnad, yn mhob dawnsgymanfa, ac yn mhob gwledd, ac yn mhob helyddiaeth, o Gaer-gybi i Gaerdydd: gan hyny, paentio pethau oedd o flaen ei lygaid yr oedd y bardd yn hyn eto. Fe allai yr haera rhywrai fod y lliwiau yn rhy gryfion, ac y dylasai yr iaith fod yn fwy destlius. Yr oedd hyny yn lled anhawdd i'w gael y dyddiau hyny, pan oedd gwŷr eglwysig mor hynod o anfucheddol ac annuwiol. Dichon y gallasai y bardd goethi llawer o'i linellau, a pheidio gollwng cynnifer o eiriau llanw mewn cân rydd. Ein dyben yn dyfynu y darnau blaenorol yw, er eglurhau, mewn rhan, yr hyn a fynegasom am athrylith y bardd; sef, mai mewn dychan yr oedd efe yn rhagori, a'i fod yn arfer mwy ar yr ordd nag ar y fflaim yn ei ganiadau difriol.

Goddefer i ni eto, cyn diweddu yr erthygl, ddodi engraff neu ddau o natur arall ger bron y darlennydd, er dangos nad oedd Thomas Edwards yn hollol amddifad o deimlad; gwelir hyny yn amlwg iawn yn y gân ar ol y waredigaeth a gafodd yn Rhuddlan. Gwasanaethed y darnau canlynol i ddangos hyny:—

“Cydnesed po' dyn isel,  
I wrando llafar chwedel—  
Llef hen bechadur;  
Gŵyr llawer dyn am danaf  
Fy mod yn un hynotaf  
Dan wyniau natur:  
Drwy'r byd fy hanes aeth o hyd,  
Am bob ynfydrwydd a sur wagaawrwydd:  
Bum fel yn arglwydd neu frenin ebrwydd fryd,  
Nes imi hau â'm gwagedd  
Dir Gwynedd draw i gyd—  
Swydd syn, bum felly'n chwalu chwŷn,  
Hyd feusydd trachwant, mewn ofer nwyfiant  
Gan chwydu nrygchwant fel llyffant ar fol llyn,  
Dangosodd Duw drngaredd  
Yn rhyfedd imi er hyn.

Ces lawer galwad golau,  
Trwy nerth a rhagluniaethau  
Duw cyfiawn ethol;  
Gorchymyn ar orchymyn,  
A llin ar lin wir linyn,  
O'i air olynol;  
Uwch ben fy egraidd lygredd len  
Bu ganwaith gynnyg, marwolaeth beryg,  
Gan goed a cheryg; ond er pob sarug sen,  
Nid oeddwn o'm trueni  
Yn profi mwy na'r pren.

Ces faith—lwyrâ' gofid lawer gwaith,  
Trwy ffalsder dynion, a llid colledion,  
'Nifelliad meirwon, ac amryw greulon graith;  
Gollyngais oll yn angô'  
Heb deimlo f' ofer daith.

• • • • •  
Mi ges—fy ngollwng yn fy ngwres,  
Ar ol fy chwantau, a'm cnawdol nwydau,  
Nes i'm serchiadau fyn'd fel peiriannau prae.  
Oni wneir fi gan yr Arglwydd  
O newydd, nid wyf nes.

• • • • •  
'Mhob llun—darostwng di fy ngwŷn,  
Na ad fi drydar am Abna a Pharphar,  
Afonydd siomgar fy hagar wlad fy hun;



Tro fi i'r Iorddonen gyboedd,  
 Sef dyfroedd Mab y Dyn.  
 Nid oes all olchi brynti f' oes,  
 Ond gwaed yr Iesu, yr hwn a ddarfu.  
 Drwy anghu drengu, gan grymu ar y groes,  
 Ow ! gad, er imi bechu,  
 Duw, lechu er mwyn dy loes."

Y mae iaith dyn edifeiriol yn y darnau uchod. Anhawdd genym gredu i'r bardd allu doddi y fath ymadroddion dwys wrth eu gilydd heb fod ei galon yn teimlo. Trueni na fuasai athrylith fawr Thomas Edwards mor deilwng o honi ei hun bob amser ag ydoedd yn y pennillion yma.

Y mae yn ei gân a wnaeth yn amser drudaniaeth a newyn, yn y flwyddyn 1799, rai pennillion gwerth eu hadgoffa; ond y mae yn pregethu gormod yn hõno. Ar y cyfan, y mae y gân grybwylledig yn un dda. Dodwn engraff neu ddwy ger bron y darlennydd:—

"Nid son am farwolaeth i bechod  
 Sy'n ddigon i ddyfod at Dduw,  
 Ni saif bywyd Crist mewn awdurdod,  
 Lle byddo 'r hen bechod yn byw;  
 Sef hyn ydyw 'r ddiig ddamnedigaeth,  
 Dd'od goleuni Duw 'n berffaith i'r byd,  
 A dynion yn caru 'r tywyllwch  
 Yn llwybrau gau heddwch o hyd.

Anghredu 'n Nghreawdwr y bydoedd  
 Oedd gwraidd pob terfysgoedd a fu,  
 A dyna 'r holl achos rhyfeloedd,  
 A'r drygau 'r amseroedd hyn sy;

Ni wyddom faint o sylw, ac o grediniaeth, a gaiff barn ein hawdur, yn yr oes hon, ynghylch y goleuni yn yr wybren; ond y mae yn debyg fod y pennill uchod yn peri cryn gyffro y pryd y cyfansoddiwyd ef. Welc yn canlyn bennill ar y "seliau" a'r "meirch," &c.:—

"Mae 'r seliau mawr, sylw dychrynllyd,  
 Yn cael eu hagoryd ar g'oeedd,  
 A'r meirch, a thywalltiad phfolau,  
 A'r udgyrn o'u blaenau 'n rhoi bloedd:  
 March gwyn yr efengyl, fyw angel,  
 A march coch y rhyfel sy ar hyd;  
 A march du y newyn aeth allan,<sup>1</sup>  
 Wrth glorian, er arian, mae'r yd.

O! ffown, cyn y delo 'r dtalydd,  
 I'r noddfa sy'n rhydd ac yn rhad,  
 Cusanwn y Mab, rhag ei ddigio,  
 Afradlon doed eto i dy 'i Dad:  
 Mae heddyw faddeuant cyhoeddus  
 I'r brawd edifarus a fydd; [waith  
 Hyd ddengwaith a thri'gain gwaith seith-  
 Maddenant sy'n daerfaith bob dydd."

Un bregeth glybwyd gan Jonah,  
 A drõdd Ninesef 'r dref fawr,  
 Ac O! na wnai miloedd 'r un arwydd,  
 Trwy 'n trefydd anafydd ni 'n awr:

Oddiwrth felus chwantau naturiaeth  
 Mae pob troiau bariaeth trwy 'r byd;  
 O eisieu gwir nabod yr Iesu  
 Mae 'r feildith i'n hysu ni o hyd.

O gymaint o gymaint yn gymysg  
 O rybudd ac addysg a gaed;  
 Bu g'leuni yn yr wybr flyneddoedd  
 Yn rhedeg yn gylchoedd fel gwaed,  
 Ac felly mae 'r rhyfel presennol  
 Yn troi 'n amgylchiadol o hyd;  
 Rhyfeddwn, drwy Loegr a Chymru,  
 Fod Iesu 'n ein caru ni cy'd."

Mae'n gwledydd a'n trefydd mewn trafael  
 Yn dysgu trin rhyfel ar hyd,  
 A medd'dod, godineb, a llwon,  
 A ddysgant hwy 'n gyson i gyd.

Dewch, anwyl blant bychain yr Arglwydd,  
 Er maint yr holl aifwydd a'r llid,  
 Y praidd y tu cefn i'r anialwch  
 Sydd mewn diogelwch i gyd;  
 Ni ddichon Môr Coch, na ffwrn danbaid  
 Na llewod, na diaffiaid, na dim,  
 Na chleddyf, na newyn, wneyd niwaid,  
 A Christ yn yr enaid yn rym.

Er bod y meirch creulawn o'n deutu,  
 Yn bwgwth ein sathru ni 'n sarn,  
 Mae march yr efengyl yn mlaena,  
 Sef galwad yn bens' cyn barn;  
 Iechyd wriaeth sy'n rhedeg fel afon,  
 O'r sferau 'n ffor neifion fawr nerth,  
 O'r preeb i ben croes Calafia,  
 Cyflawnwyd yr yrfa bob gwerth."

Y mae yn ddiau fod y pennillion blaenorol yn cario dylanwad mawr ymhlith y Cymry yn amser drudaniaeth a newyn. Yr oedd Thomas

<sup>1</sup> Dad. vi.

Edwards yn gryn sylwedydd ar arwyddion yr amserau: ond ni pherthyn i ni, yn y lle hwn, fyned i ddadleu dim ynghylch cywirdeb ei gasgliadau oddiwrth y pethau a welai. Y cwbl sydd genym ni i'w ddyweyd yw, ei fod ef wedi ei gynnysgaethu âg athrylith fawr, ac y gallasai ei throï i well cyfrif nag y gwnaeth lawer tro, er iddo yn ddiâu rhywyd llawer o ddaïoni yn ei ddydd. Ymddengys ei fod yn cymwynasu rhywrai o'i gymydogion yn barhaus, drwy ofyn rhoddion drostynt, er helpu gweinïaid. Gwnaeth lawer cân i "erchi cymydogawl gynnorthwy," ac i ddiolch am gynnorthwy; ond nid ydym yn cofio i ni erioed glywed pennill o emyn o waith Thomas Edwards, nac am ei waith yn anerech plant bach yn un o'i ganeuon. Fe allai i'r pethau hyn ddiānc heb gael ei sylw, o herwydd nad oedd cynnifer o blant yn gallu darllen y pryd hwnw ag oedd yn nyddiau Dafydd Thomas, ac hefyd am ei fod yn gweled digon o emynau wedi eu cyfansoddi eisoes. Gwelsom mewn hen lyfr, yn ei ysgrifen law ef ei hun, rai sylwadau ar lun pregeth o'i waith, ond go sych a diawch ydynt; yr hyn a ddengys yn eglur mai yn brydydd yr oedd efe wedi ei eni, neu o'r hyn lleiaf, mai y ddawn hōno a gafodd fwyaf o'i sylw ar hyd ei oes.

Ysgrifennodd y bardd, tua'r flwyddyn 1777, gân o ymddyddan rhwng y Siopwraig a Gwraig yr Hwsmon, yr hon sydd allan o argraff yn bresennol, yn yr hon y dangosir dull y byd y pryd hwnw, a'r gwyn fawr oedd yn bod o achos prisiau bychain; a chan fod y fath debygoliaeth rhwng amgylchiadau y byd pan ysgrifennwyd y gân hōno a'r dyddiau presennol, maddeuir i ni am roi ychydig o'r pennillion ar gof, rhag i bobl yr oes hon feddwl mai yn eu cwpanau hwy yn unig y mae yr holl chwerwder, ac na wybu oesau o'r blaen am ofid "fel ein gofid ni."

"GWRAIG YR HWSMON.

"A gwraig yr hwsmon rhydd,  
 (Gwan ei ffydd, a gwynai 'i ffair,  
 Y farchnad sydd yn waeth—  
 Mae 'n gaeth y galr:  
 Lle byddai brisian braf  
 Aus' a haf ini o hyd,  
 Yrwan 'r ym ar ol am yr yd;  
 Mi welais lawer marchnad,  
 Y cawn ar 'chydig siarad,  
 Yn fanwl fy ngofyniad,  
 Ond 'rwan mae'r fath ruad  
 Oera' brad, ar ei bris,  
 A'r meistar tir mor hynod,  
 Yn codi yn ddiagydybod,  
 A'r farchnad wedi darfod,  
 Fe doriff hylldod, hylldod—  
 Mae 'n saff y nod, os eiff yn is.

SIOPWRAIG.

Fe aeth y byd yn dŷn,  
 A drwg yw hyn os trig yn hir,  
 Ac anhawdd fydd yn gu  
 Dalu am dir;  
 Mae 'n golled ac yn stop  
 Yn ein siop i ninnau 'n siwr.  
 Gwerth punnau ddarfu 'ch gael,  
 Y chwi a'ch gwr;  
 A llawer darn o frethyn,  
 A ffws a llian purwyn,

A hetiau drud i'w canlyn;  
 Ces aml gini melyn  
 Yn ddewr eich llun oddiar eich llaw:  
 Prynasoch i'ch merchedau  
 Gottons, Camrigs, a sidanau,  
 A macaroni capiau,  
 A bonets a ribanau,  
 Hardda 'n dre' oddiyma draw.

GWRAIG YR HWSMON.

Diameu 'n myn'd i gost,  
 Mater tost cadw ty,  
 Er nad oedd yn bod fawr  
 Y byd a fu;  
 Mae balchder, uchder wyn,  
 Amryw lun yn y wlad,  
 'Roedd rhatach cadw ty  
 Gyda 'n tad.  
 Nid oedd y nhad yn hidio  
 Pa beth a wisgai am dano;  
 Y clos a'r dillad gweithio,  
 A'r bara llaeth i ginio,  
 I'w foddio fo a fyddai 'i fwyd;  
 Ond 'rwan rhaid mawrhydi,  
 A barus rostio a berwi,  
 Ran balchder drwg a diogi;  
 Dyludo i dylodi,  
 Fwy na rhi, ddarfu y rhwyd.

## GWRAIG YR HWSMON.

Os edrych pob rhyw un  
Arno 'i hun er mawrhad,  
Dyna 'r ffordd yn siwr  
I gael llesad;  
'Does oddid hwsmon sydd  
A chanddo 'n rhydd fawr i'w rhoi,  
Mae 'r byd mewn moddion trist  
Wedi troi:  
Sw'n rhyfel sy'n rhyw ofid,

Yn rhwystro pob celfyddyd,  
A gwaeth na'r cwbl hefyd,  
Nid ydyw 'r *merchants* hyfydd  
Dim am yd oddiyma i'r môr;  
Diareb wir sy bema',  
Mae Lloegr hen ymlygra  
Ei hunan dyna i' hana',  
Rhy foethus pair ddyfetha  
Ei heiddo da yn ddi dor."

Busai yn hawdd ychwanegu darnau eraill o waith Thomas Edwards, megys o'r gân a wnaeth yn erbyn yr erlidigaeth yn Môn, yn yr hon y dywedir—

"Offeiriad sy'n offeryn  
Yn erbyn dyn a Duw,  
Blaidd rheibus, dyrus, diriaid,  
Yn tarfu y defaid yw;  
Ci prysur yn y presab  
A'i anfoddlondeb lan,  
Ni âd i'r ych mo'r pori,  
Ac ef ni's pawr ei hun.  
Darllenwyr anystyriol,  
Pregethwyr ffurfiol gwan,  
Rhyw gleber haner Seisnig,  
Sw'n llymrig sy 'n y llan;  
Cyfarthiad cwn cysgadur,  
Heb lafur, llais, na bloedd,  
Na chynhwrf corff na genau  
I draethu geiriau ar g'oeedd.  
Mae cyfraith brenin Lloegr,  
A llygaid gwir ger bron,  
Yn crogi am filiau ffelision,  
Rai Saeson yr oes hon;

Pe crogid offeiriadan  
Ac athrawiaethau gau,  
Fe fyddai mwy o grogi  
Yleni yn amlhau.

Mae amryw ladron taclus  
Yn barchus iawn yn byw,  
Gan fraeser yn ymfrostio,  
Wrth dwyllo dyn a Duw;  
Nid oes na gwin na gwenith  
I'w gynal yn y plwy'  
Nad ydyw fel ysglyfaeth  
Led helaeth ganddynt hwy.

Os trowyd rhai am grefydd,  
O greigydd mynydd Môn,  
I'wy gawsant graig amgenach  
Sydd iawnach gan Dduw Ion;  
Craig eglwys caerog oglud  
Pan elo 'r byd yn boeth,  
Cant weled annuwilion  
Yn weigion ac yn noeth."

Meddyliasom lawer gwaith y gallasai llyfr, cymedrol o ran ei faintioli, yn cynnwys pigion o bethau mwyaf prydfferth a dyddorawl Thomas Edwards, wedi eu diwygio o ran eu gwisg, fod yn wasanaethgar. Y mae ganddo ef ystyr o wirioneddau; ac y mae yn resyn eu gadael yn y tomenydd sydd yn eu cychynu. Nid ydym yn credu y cymerai ei holl waith, fel y mae yn ei gyflwr gwreiddiol; ond meddwl yr ydym y gellid cyhoeddi cyfrol o'i bethau goreu a fyddai yn anrhydedd i goffadwriaeth Thomas Edwards o'r Nant.

## LLYFRYDDIAETH Y CYMRY.

YN ein herthygl o'r blaen, cymerasom olwg ar lyfrau y Cymry, o'r flwyddyn 1546 hyd 1588, yn cynnwys y ddwy. Cyfnod arbenigol oedd hwnw—o'r wawrddydd hyd godiad yr haul. Bechan a gwelw iawn oedd y wawr hño—dim ond "Gwyddor Kymraeg," "Y Gredo neu Bynkey yr ffydd Gatholig," "Y Pader neu Weddi yr Arglwydd," "Y deng air Deddyf," &c.; a'r wawr hño, er bychaned ydoedd, yn cael ei chymylu gan "Y Kampay arveradwy," &c., yr hyn a dywyllai y goleuni gwanaidd hwnw rhag llewyrchu i'r fantais oreu. Er hyny gwawrio yn oleuach a

wnaeth, pan y gwthiodd allan y "Kynnifer llŷth a ban o'r Ysgrythyr ac a ddarlleir yr Ecceis pryd Cymmyn, Sulieu, a'r Gwiliu trwy'r Vlwyddyn," megys oddi rhwng y cymylau. Yr oedd fel pe dywedai, "Mi a fynaf air Duw—faint bynag a fydd o hono heb y 'Kampay'—pe na byddai ond y 'Kynnifer llŷth a ban o'r Ysgrythyr ac a ddarlleir yr Ecceis pryd Cymmyn,' &c." Ar hyna o lewyrch y safodd am ddeuddeng mlynedd, pryd y ciliodd y tywyllwch ac y goleuodd yn gryn ddydd—pan y caed yr holl "*Litanye in Welshe*," yr hyn a arweiniodd i gael y "Testament Newydd," a "Llyfr Gweddî Gyffredin," yr hwn a gynnwysai ran o'r Hen Destament, y Salmu o leiaf; ac os nad gyda y "Llyfr Gweddî" yna, gwelsom eu bod gyda y "Liver Gweddî," yn mhen pedair blynedd ar bymtheg. Ar hyn, dyma yr haul mawr ei hun yn dangos ei belydrau yn ddigymylau, wedi bod yn gwneyd ei ffordd ymlaen er's dwy flynedd a deugain. Pan ddechreuodd wawrio, yr oedd y gwammal Harri VIII. yn teyrnasu. Cyhoedd- asid y "Gwyddor Kymraeg" y flwyddyn cyn ei farwolaeth ef; ac yr oedd amgylchiadau crefyddol yn ymddangos yn lled dywyll tua'r amser hwnw, fel ag yr oedd yn ammhëus iawn pa fodd y troai y dafol. Ychydig fisoedd yn unig cyn marwolaeth Harri yr oedd Protestaniaid, yn gystal a Phabyddion, wedi eu llosgi yn Smithfield. Gyda'i farwolaeth ef, a dyfodiad ei fab ieuanc, Edward VI., i'r orsedd, goleuodd gryn lawer; ond aeth yn dywyllwch fel y fagddu ar farwolaeth hwnw, pan ddaeth ei chwaer undad, Mari, i'r orsedd. Da na pharhaodd ei theyrnasiad hi yn faith—llai na chwe' blynedd—yn yr hwn dymhor ni chawsom gymaint a "llŷth" na "ban" o fath yn y byd trwy y wasg. Y mae yn hynod i'w sylwi, mai yn nheyrn- asiad Harri ac Elizabeth y gwnaed mwyaf tuag at wasgaru tywyllwch Rhufain o'n gwlad, er nad oedd yr un o'r ddau yn debyg o fod yn gwybod dim am ddylanwad crefydd mewnol. Uchelgais oedd yr egwyddor lywodr- aethol yn meddyliau y ddau: ond goruwchreolodd Duw yr hyn oedd ddrwg ynddynt hwy i ddwyn ei amcanion daionus ei hun i ben—i gael ei air oll i'n cenedl yn eu hiaith eu hunain. Blwyddyn i'w chofio oedd 1588. Yr oedd rhai pethau eraill yn gwneyd y flwyddyn hõno yn nodedig; megys cyfodi y felin bapyr gyntaf yn y deyrnas hon, sef yn Dartford, yn Kent, trwy drwydded-lythyr y frenines i John Spilman, o Germany, er fod rhai yn gwneyd papyr yn ddirgelaidd cyn hyny. Yn yr un flwyddyn hefyd y cyhoeddwyd y papyr newydd cyntaf yn y deyrnas hon, o dan yr enw "*English Mercurie*."<sup>1</sup>

Wedi gwneyd cymaint a hyna o sylwadau, ni a symudwn heibio i dair blynedd—1589, 1590, a 1591, yn y rhai nid ydym yn cael fod dim wedi ei gyhoeddi er lles y Cymry, a throsodd i'r flwyddyn ganlynol.

1592.

"*Linguae Cymraecae Institutiones accuratae. Cambro-Brytannicae Cymraecaeve linguae Institutiones et Rudimenta, accurate, et compediose conscripta, cum exacta carmina Cymraeca condendi ratione. Joannes David Rhaesus Monensis Lanvaethaeus Cambrobutanus Medicus Senentis.*"<sup>2</sup>

Llyfr unplyg bychan ydyw, yn cynnwys tri chant a dwy o dudalenau, heblaw tuag ugain tudalen o ragymadrodd. Y mae epistol Lladinaeg yn ei ddechreu, o gyflwyniad i'w gefnogwr—" *Illustri Viro, Eruditione et*

<sup>1</sup> "*Timperley's Dictionary of Printers and Printing.*"

<sup>2</sup> Yn Gymraeg yn debyg i hyn:—"Gosodiadau ac Egwyddorion y Gymreigiaith Frydein- aidd, wedi ei gosod allan yn ofalus, ac, hyd y gellid, yn ddichlynaidd a chryno, ymghyd a rheolau cywir fydryddiaeth (tymreig, &c.)

*Prudentia Præstantis, æzimioque literarum et Literatorum Patrono, Edouardo Stradlingo Cambrobrytanno, Equiti aurato S. P. 1590.* Yncanlyn yr "*Epistle Dedicatory*," y mae englynion Lladin o ganmoliaeth i'r gwaith a'r awdur—y cyntaf gan Camden. Yna y mae rhagymadrodd Lladin, gan "*Hemphreos Prichardos Venedotos Bangoriensis*." Canlynir hyna gan gyfarchiad yn Gymraeg—"At Bendebhigion a Bonedhigion, a' Phrydydhion, a' Chymreigydhion, ac at eraill o m' annwyliaid o Genedl Gymry, ac eraill amgen no'r hain annerch a' Lloydhiant." Y mae y llythyr annerch hwn yn grynfaith, yn cymeryd dros saith tudalen o argraff fân, mewn llythyr-enau Italaidd, a'r hwn, oni buasai ei feithder, a fuasem yn ei ddodi oll ger bron ein darllenwyr; ond rhaid ymattal, gan ei fod yn ddigon maith i wneyd erthygl helaeth ei hunan, gydag yn unig roddi y dosran terfynol, fel y canlyn:—

"A mwyabh parth o'r Llybhr yma a bhybhyriwyd ac a bhedhlywyd, ynn Nhy y Pendëbhc M. Morgan Merëdyd o ymyl y bugeildy yn Nyphryn Tabhtda o bhywn Swydh Bhaesybhed: ynn y lhw gwaith y bú bhawr bhy ghhroeso, a' m' hansawdh o bhwynt a' lhynt gann y gwrda a'r wreiodha. Eithr diwedhbarth y llybhr hynn, a bhybhyriwyd dann berthi a' dail gleision mywn gronyn o Bhangre i mí bhyhúnan a élwir y Clún Hír; ym mla'en Cwmm y Lhwch, a' thann 'Odreuon Mynydh Bannwchdëni. Rhai a' eilw y Mynydh hynn, [Bann Arthur,] eraill [Móel Arthur.] Dann gríb y Bhóel honn, ac yn ei harphet, y mae Lhynt digon i bheint, ac yn abhríthed ei dhybnder, ac yn rhybedh ei ansawdh; o ethryb [mal y cerdiant chwedleu] ny 'wellpwynt eirióet edëryn o'r byd yn cyrchu nac idho, nac atto, nac yn nobhiaw arno; onyd yn holholh ynn ymwrthod ac ébho: a' rhai a dhywedant, na's gnotáynt nag anibheilleid na milod o vnhryw ybhed dhim dwbhr o hono. A' lhawer o enrhybhedhódeu eraill, (ac o rann canbhod arr brydieu betheu dieithr dros benn yn ghylch y Lhwch yma) a yds ynn eu hadrodd gann gyphrédin y 'Wlad honno; ac yn enwédio gan y sawl a arbherynt o ymgyrchu i'r Moelydh á'r Banneu hynny er mwyn bugeila. A'r Lhynt neu'r Lhwch hyn, a' elwir Lhynt Cwmm y Lhwch. Eithr ymchwélwn belhach i adrodd i chwí, taw yn mha le bynnac y mybhyriwyd vn dim arno, i chwí, ac er eych mwyn chwí y gwnaethpwynt hynn oll. Ac o ethryb hynny odd oes dim yndho a bhó tebyc i 'wneuthur dim lhës nag i'r laith, nag i chwítheu y Pendebhigion a' Bonedhigion Gwlad Gymry, y mae yn dhá iawn gann bhy ghhallon: onyd ébh, gadáwer heibio mal diphrwythbeth, a dechymgyer ryw béth aralh a bhó gwelth nag ebh, a' charer bhi (os mynner) am bhy ewyllys da, er imi o dhamchwain bhód (a' hynny o eisieu galhu) yn dhyphygiol (scatbhdyd) o barth perpheithio bhy ngorchwyl. A' hynn a dhywédabh wrthych cynn ymádo o honobh á chwí, na 'wnaethpwynt ermóed dhim ynn y byd yma yn gyn gystadled, nac yn gyn berpheithied, na's galhei ryw dhyn cynbhigennus, a' drwc ei ewyllys, oi dhrwc' dabhawt, gymryt arno anurdo y péth da hynny á'i 'eirieu dñon marwáraidh, o damchweiníe idho arr adégu ymgybharbhod ac vndyn aralh annealhus a bhwríe ei góel arno, ac a gredeí i'r péth a dhywetei. Weithion rhac tra gormodh blino arnoch, yma y cymhêrabh bhy ghennad ganweh', gan dheisybh ynn bhy ghwedhi rhât y Tâd, a'r Mâb, á'r Yspryt Glân i'ch plith oll yn 'wastad. Amen.

"O'r Clun Hír y chweched dydh o bhís Tachwedh, oedran eyn Harglwydh Iesu Grist, mil a' phymcant a' deudhec a' phedwar vgeint.

Yr eidhoch' oll, ac yn holh yr eidhoch',

I. D. R."

Yn niwedd ei "*Epistola Dedicatoria*" y mae "*Brychanij prid. Non. Iulias, 1590. Ex animo tui amantissimus, &c., obseruantissimus, Ioannes Dauides Rhæssus*;" ac yn gysylltiedig á'r heading yn nechreu corff y llyfr y mae enw yr awdur drachefn yn "*Ioanne Davide Rheasso Cambrobrytanno Authore*." Gwelir mai y peth hynotaf yn y llyfr hwn yw ei ddull yn



Fel hyn y mae yr holl lyfr yn llawn o gromfachau, ymsangau, a chysylltiadau, pa le bynag y mae yr awdur yn dosbarthu ei esiamplau gramadegol.

Yn Lladin, y mae yr addysg gan mwyaf, a'r esiamplau, neu y gwersi, yn Gymraeg : ond y mae weithiau yn chwanegu cyfleithiad o'r addysg, neu ei gyfarwyddiadau, yn Gymraeg; megys ei "*Methodus cognoscendi syllabas numero syllabarum dubias*;" pryd yr ychwanega yr un peth yn Gymraeg fel hyn :—

"Modhion i adnabod, bêth yw sylhabh betrus ai vn sylhabh, ai ynteu mwy,—

"1. Y môdh cyntabb yw, sebh: Pann liossoccer gair ag [y] bhydharsain yndhò, herwydh rhibb ei sylhâbeu, ag nyd herwydh synwyr y gair o rann vnig a lhiossog: edrycher arr y lhiossog o sylhâbheu; ac yna wrth bhall y bo ynn y gair lhiossog o sylhâbheu, bhelhy y bydh yn herwydh ei bhòd ynn yr vnig a'r odidog o sylhâbheu, cyn ei liossogi. Canys ony wydhys bêth yw [*Bagl*] ai vn sylhabh ai dwy, na pha bhòdh yr Scribhenner ynn y mydr: lhiossoccer [*Bagl*] herwydh rhibb sylhâbheu, a dywetter [*Bagleu*.] ag yna dwysylhâbhog a bydh [*Bagleu*.] Ag am hynny vn sylhâbhog oedh [*Bagl*] mywn cerdh dabhod a mytr. A phan liossoccer bhelhy, yna y tawdh yr [y] rhwgh y lythyren bhùd a'r lhythyren dawdh, am bhod [y] a sain bydhar neu sain dywyll arnei. Ac o'r achos hynny, ny scribhennir dhim o honei mywn cerdh dabhod, nag ynn yr vnig, nag ynn y lhiossog, onyd mall hynn: [*Bagl, bagleu*.] Eithr mywn rhydhiaith bhall hynn ydh arbhèrynt 'scribhennu, [*Bagyl a Bagyleu*.] yr vn yn dheusylhâbhog, a'r lhalh yn drisylhâbhog. Ac ynn yr vn modh, dwysylhâbhog yw [*Bagyl*] ynn yr vnig; ag am hynny trisylhâbhog a bydh [*Bygyleu*] ynn y lhiossoc. Canys sylhabh rhagor a dhyl bod ynn y lhiossog, nag ynn yr vnig; na rhannédig na chybhansodédig bho y gair. Rhannédig, megys y clywsoch vchod, a' Chybhansodédig: megys [*Eurhwiw ac eurhwiwieu*.] Ag ynn yr vn wedh y bernir am y cyphelyb.

#### "NÔT

"O's herwydh synwyr y gair yn unig, y lhiossoccer y gair, ynn llawer lle ny bydh mwy o sylhâbheu ynn y lhiossog, nag ynn yr vnig neu'r odidog, megys ynn yr hain: sebh, [*Clerwr, clerwyr, March, meirch*] &c.

A chydboent rhai o'r geirieu a synwyr lhiossog yndhynt ynn yr vnig neu'r odidog: etto rhaid yw bôd y lhiossog yn bhwy o sylhâbheu no'r odidog. Canys ny elhir [*clêr*] onyd o lawer, na [*choed*] o vn prenn; eissoes lhiossoccer y geiriau mall hyn:—[*Cleroedh, coedydh*.] y lhiossoc hynny yssydh yn bhwy o ribh sylhâbheu no'r vnig, er bôd synnwyr ylh iossoc a'r odidoc ynn myned mywn rhywbhodh yn vnparth.

2. Yr ail pêth i adnabod sylhabh betrus, yw cybhansodhiad y gair. Canys wrth bhall y bo ynn y gair cybhansodhédic, bhelhy y bydh ynn y rhannédic, nag odidog na lhiossog bho y gair. Ag am hynny o's dausylhâboc yw [*Lleidr-dhyn*.] vnsylhâboc oedh [*lheidr*] &c.

3. Y trydydh pêth i adnabod petrusder sylhabh, yw Ardhiisgynnaiad y gair. Canys wrth bhall y bo ynn y gair ardisgynnédig, bhelhy y bydh ynn y gair cyssebhin. Ac am hynny, o's pedwarsylhâbhoc yw [*Dynioneu*] trisylhâbhoc yw [*dynion*.] Ac o's dwysylhâbhoc yw [*Lheidraidh*.] vnsylhâbhoc yw [*lheidr*.] Ag bhelhy y bernir am [*Aur ac euraidh*] a'r cyphelyb." Tudal. 135.

Yr ydys yn ofni mai prin y medr ein darllenwyr wneyd rheswm o'r esiamplau, gan mor estronol yr ymddengys, er ei fod yn Gymraeg glân gloew yn ngwisg yr ieithydd hynafol hwn; gan hynny ni a roddwn ychydig o linellau eto yn yr hen ddull hwn, ac yn y dull cyffredin, bob yn ail linell :—

"Hyd neu gyhydedd y sylhâbheu, a bhydh herwydh messur o lythyr ag Hyd neu gyhydedd y syllâfau, a fydd herwydd mesur o lythyr ag

amséroedh gossodiâu deu a bho yndhynt. A lhiaws amser a bhyd i sylhabh hîr, amseroedd a gosodiadau a fo ynddynt. A lliaws amser a fydd i sillaf hîr, ag vn i sylhabh bherr. Canys hwy o amser y bydhir ynn dywedud sylhabh hîr, ag un i sillaf fer. Canys hwy o amser y byddir yn dywedyd sillaf hîr, nog yn adrodd vn bherr. Hîr yw pòb lhedhÿbh, a' byrr pòb talgrwnn : ac etto nag yn adrodd un fer. Hîr yw pob lleddyf, a' byr pob talgrwn : ag etto hwy yw diphthogh dalgronn, no sylhabh aralh dalgronn. A' rhai o'r sylhabheu hwy yw diphthong dalgron, no sillaf arall dalgron. A' rhai o'r sillafau lhedbhon, a bhydhant hwy no rhyw ledhbhon eraill, o herwydh mesur o lythyr lleddfôn, a fyddant hwy no rhyw leddfôn eraill, o herwydd mesur o lythyr ag amséroedh a bhônt yndhynt." Tudal. 144. ag amseroedd a fônt ynddynt."

Y mae rhan fawr o'r llyfr hynod hwn yn cynnwys, "*De Poemate metrico*," h.y., Am Fesurau Cerdd; lle y rhoddir llawer o esiamplau o hen englynion, cywyddau, awdlau, wedi eu gosod yn yr un dull cwplysog, tafolog, ymsangog, a chromfachog ag yw y gwersi mewn rhyddiaeth. Ni a anturiwn un esiampl, er ein bod yn ammheu a all yr argraffydd ei gysodi yn ddealladwy o ddiffyg cromfachau tafolog priodol:—

"Awdl gywydh a bheasŵr o bedair sylhabh arr dhêg, saith ym mhôb Bann o'r dhau Bhann; a'r Gair cyrch ynn nechreu yr ail Bann, ynn ateb i'r Awdl gyntab; a'r Awdl dhiwedhabh yn ymrabhael; a' honno ynn vnawdl drwy y Cowydh, bhall hynn:—


"Exemplum Recentiorum.

Carmen { Vn a dâl y nydôlig, obr didhig i Brydydhion;  
Ag a bryn dhêg o baei raid, lhonghaid bhal y golhyngon.  
Scribitur & ita.


Vn a dâl y nydôlig,  
Obr didhig i Brydydhion;  
Ag a bryn dhêg o bei raid,  
Lhonghaid bhal y golhyngon.  
Atque etiam hoc modo.

Vn a dâl y nydôlig,  
Obr didhig,  
J Brydydhion:  
Ag a bryn dhêg o bei raid  
Lhonghaid  
Bhal y golhyngon.

Scansio { Vn-a . dâl-y . ny-do . lig.  
Obr-di . dhig-i . bry-dy . dhion.  
Ag-a . bryn-dhêg . o-baei . raid.  
Lhon-ghaid . bhal-y . go-lhyn . ghon.







Y mae y "Gramadeg" hwn yn diweddgu gydag "*Appendix*" maith yn cynnwys llawer o ddarnau barddonol helaeth, "O'r oes gyntabh," megys, "Owdl Bhair a gânt Gwilym Tew, i dhyscu llawer o'r hen Blessúrau gorchestawl, ac nyd ydynt y'w cael ond ynti hi am Bhardhoniaeth; ond am Dhewiniaeth, gochelwch y surdoes, medh William Midelton;" "Owdl a gânt Lewys Morrgannwg wrth Leision Abad Glynn Nedh, a'r pedwar messur ar hugein yndhi, arr dhuilh yr oes honno," &c., &c., a'r oll yn y ffurf uchod o lythyrenu a sillebu.

Y mae yn briodol, cyn y diweddod a'r hen lyfr gwerthfawr hwn, ddyweyd rhywfaint am yr awdur. Y mae cofiant lled helaeth am dano yn Seisoneg yn y "*Cambrian Plutarch*;" ac yn Gymraeg yn y "Gwladgarwr," am Mehefn, 1839; ond y mae rhywfaint o hysbysiadau gwahanol a chwanegol am dano yn gysylltiedig âg achau teulu y Stradlings, o Gastell St. Donats, yn Morganwg, allan o lythyr oddiwrth y Parch. Edward Gamage, person St. Athan, yn Morganwg, at Llewelyn ab Ifan, Tachwedd 23, 1726, ac a gyhoeddwyd gan "Taliessin ab Iolo," mab "Iolo Morganwg," yn gysylltiedig â'i farddoniaeth Seisonig a elwir, "*The Doom of Colyn Dolphyn*." Yno dywedir i "Jane, merch Thomas Stradling, Ysw., briodi Syr William Griffith, o sir Gaernarfon, yn Ngwynedd; ac yn eglwys St. Donats y priodwyd hwynt. Ar eu dychweliad i Wynedd, cymerodd Syr William gydag ef un Dafydd Rhys, i fod yn arddwr iddo; a chymerodd ei wraig Jane hefyd, ei morwyn gyda hi. Yr oedd y Dafydd Rhys hwn yn frawd i Richard ab Rhys, y bardd o Merthyr Mawr, ger Pen-y-bont-ar-Ogwy, yr hwn oedd athraw Iorwerth Fynglwyd, y bardd, o Graig-yr-Eos, yn mhlwyf St. Bride; ac un o feirdd teuluaidd castell St. Donats. Darfu i'r Dafydd Rhys hwn, a gwasanaethyddes boneddiges Syr William Griffith, briodi. Ei henw oedd Annes, neu Agnes; cawsant fab, enw yr hwn oedd Siôn Dafydd Rhys. Bu farw Dafydd ab Rhys; ac yn fuan wed'yn bu farw Syr William Griffith, a'i foneddiges. Bu orfod i Agnes a'i mab bychan ddychwelyd i St. Donats, gan gerdded yr holl ffordd o sir Fon i sir Forganwg. Yr oedd hi a'i gwr wedi cael tir tuag at eu cynnal-iaeth yn Llanfaethlu, yn sir Fon; ond bu orfod iddynt droi allan o hono, ar farwolaeth Syr William Griffith. Yr oedd y bachgen bychan, Siôn Dafydd Rhys, yn rhy ieuanc i gerdded, o ganlyniad bu raid i'w fam ei gario yn ei breichiau, ac ar ei chefn, y rhan fwyaf o'r ffordd. Erbyn iddi gyrrhaeddyd St. Donats, yr oedd yn glaf iawn, a bu farw o'r cystudd hwnw. Cymerodd Syr Edward Stradling y bachgen bach ato ef i'r castell; ac a'i

<sup>1</sup> Tudal. 192-3.

rhoddodd dan ofal yr un athrawon a'i fab ei hun, Thomas. Daeth y ddau fachgen yn gydgysylltu hoffus iawn o'u gilydd, ac yn anwyllysgar i ymwahanu, na bod oddiwrth eu gilydd. Wedi cael addysg deuluaidd yn y castell, anfonwyd y ddau wŷr ieuanc i Goleg Sienna, yn yr Ital, lle y dygwyd hwynt i fyny yn dda, yn holl ddysgeidiaeth y lle a'r oes. Wedi eu dychweliad adref, priododd Syr Thomas, cafodd fab a elwid Edward, a phenodwyd Siôn Dafydd Rhys i fod yn athraw iddo, yn y castell. Rywbryd, fel yr oedd yr aer ieuanc yn rhodio ar hyd traeth y môr sy'n terfynu ar y castell, efe, yn ddifeddwl, a arosodd ar le oedd yn uwch na'r lle arall, hyd nes oedd y llanw wedi ei amgylchynu yn rhy ddwfn i gerdded trwyddo. Efe a waeddodd am gynnorthwy, a chlywyd ei lais yn y castell; aeth dynion ar geffylau yn ebrwydd i geisio ei waredu; ond nid ellid llwyddo i gael yr un oeffyl i gymeryd y dwfr, yn erbyn y tonau ewynawg. Ar hyn tafiodd Siôn Dafydd Rhys ei ddillad uchaf, ac aeth yn hyf i'r dwfr, yn erbyn yr holl ddnau, a dygodd yr aer ieuanc i dir yn ddiangol. Os oedd ei barch yn y tŷ yn fawr gynt, yr oedd yn filwaith mwy bellach, am hyny. Pan ddaeth yr amser priodol, anfonwyd yr aer ieuanc i'r un ysgol, i'r Ital, ag y buasai ei dad o'i flaen ynddi, a Siôn Dafydd Rhys gydag ef, i fod yn brif athraw iddo. Arosasant yno rai blyneddau; a daeth Siôn Dafydd Rhys mor glodfawr am ei helaeth wybodaeth, fel y cafodd ei raddio yn Ddoethor Meddyginiaeth. Yn mhen amser, efe a ddychwelodd i Gymru, yn Babydd o ran dygiad i fyny, ond yn awr yn fynach; ac oblegid fod yr holl fynachlogydd wedi eu dyddymu, efe, fel y gwelwyd, a brynodd etifeddiaeth fechan mewn lle a elwir Clun hir, ar derfyn Cwm llwch, wrth droed mynydd Ban-uwch-denni, neu Banau Brycheiniog. Am y rheswm iddo ddewis sir Frycheiniog i anneddu ynddi, efe ei hun a ddywed fel hyn:—

“Ac er imi 'alhu o gybbiawnder, teu ac o bêth haedhiad arr bhy Ghwlad, ardhelw y man cyphrêdin a bhynnwn yndhi i drigiaw, a' mawr groeso i m' ynn y lle y dalwn am dhybhod: eisoes mybhi (ac nyd amgen nog o ewyls da parth ac at 'wlad) a dhewisais bhy mhreswylbhod ynn Swydh Brycheinawc; a' hynny nyd yn vníc o achaws bhy môd bhyhun yn Gymru; onyd hebhyd (o 's bhi a gaphwybh bharnu) o ethryb bhy môd ynn tybied ynn bhy ghhallon, nadd oedh vnwlad ynn Ghymru o rann Pendebhigion, a' bonhedhigion, a' Chyphrêdin 'welh ei phobl, 'lansch eu cynhedhbeu, syberwach eu moeseu na hawdhach cœl cymwynas dhâ gyndhynt, ym mhôb môdh ac y ceisiyd na gleindid, na hawdhgarwch, na chymwynas, na syberwyd, na dim dá aralh mywn vndyn; no phobl 'Wlad Brycheinioc.”<sup>1</sup>

Yn y lle hwnw yr efrydodd ac yr ysgrifennodd ei “Ramadeg” meistrolgar; ac yr oedd Syr Edward Stradling, bywyd yr hwn a achubodd, yn ei gynnorthwyo âg arian, ac anghenrheidiau eraill; gan ddangos iddo gyda hyny barch diderfyn. Yn ei hen ddyddiau, a hen iawn ydoedd, efe a symudodd i dref Aberhonddu, lle y diweddodd ei ddyddiau, oddeutu pedwar ugain mlwydd oed, yn amser y Brenin Iago y Cyntaf, 1617. Dywed rhai iddo fodd yn ddyn sengl; ond dywed Jones, yn ei “*History of Breconshire*,”<sup>2</sup> fod bedd ei wraig yn Aberhonddu, ac arno y cerfiad hwn “*Uzor Joh's David*.” Dywed hefyd fod ei fab, Walter, yn Brotestant, ac yn Ficer Aberhonddu.<sup>3</sup>

Nid y “Gramadeg” hwn oedd ei unig waith. Cyfansoddodd, yn yr Italaeg, “Gynnulliad o Reolau, i ddechreu dysgu y Lladinaeg,” yr hwn a gyhoeddwyd yn Venice. Ysgrifennodd hefyd “Draethawd Lladin ar Lafaredigaeth

<sup>1</sup> “At y Cymru.”

<sup>2</sup> “Colyn Dolphyn :” tudal. 91—95.

<sup>3</sup> Gwel oyf. ii. tudal. 51.

yr Italaeg," yr hwn a argraffwyd yn Padua.<sup>1</sup> Ond ei orchestwaith yw y "Gramadeg Cymraeg" hwn yn Lladin. Gellir dyweyd yn benderfynol mai dyma y gramadeg goreu o'r iaith Gymraeg a ysgrifenydd eto.<sup>2</sup>

Am Humphrey Prichard, yr hwn a ysgrifennodd arweiniad i'r gramadeg, dywedir mai brodor o Fangor, sir Gaerynarnon ydoedd. Dywedir mai cfe a olygodd yr argraffiad pan ydoedd yn dyfod trwy y wasg yn Llundain. Dywed rhai iddo gymeryd gryn hyfdra trwy roddi ei ragymadrodd ei hun i mewn, a rhyw eiriau ychwanegol yn y gwyneb-ddalen, heb wybod i'r awdur; ond y mae llythyr ar gael, wedi ei ysgrifenu gan yr awdur ei hun, ar ei ddyfodiad adref o Lundain, wedi bod yno yn golygu yr argraffu, lle y dywed ei fod wedi ei ddarllen, "llen am len," ei hunan. Ymddengys hefyd mai 1250 a argraffwyd o honynt, a'r cwbl ar draul Syr Edward, i'r hwn y mae yn rhoddi cyfrif cywir. Gan fod y llythyr yn Seisoneg, ni a'i rhoddwn isod.<sup>3</sup> Yr oedd y llyfrau yn mberchenogaeth Syr Edward pan y bu farw, ac yn cael eu trefnu ganddo yn fanwl yn ei lythyr cymun; onid hanner cant i'r awdur.<sup>4</sup>

Dywed Prichard mai prif amcan yr awdur oedd rhwyddhau y bobl gyffredin i ddeall yr ysgrythyrau, y rhai a gyfieithasid yn ddiweddar i'r iaith Gymraeg. Y mae rhai wedi casglu oddiwrth y dywediad yma o eiddo Mr. Prichard, fod Dr. Rhys wedi cofleidio crefydd y diwygiad, sef Protestaniaeth; ond y mae Charles Dodd, yn ei "*Church History of England*," o'r fl. 1500 i 1688, ac a gyhoeddwyd yn Brussels, yn 1742, yn ei gyfrif ymhlith y Pabyddion Seisoneg. Yn wir, y mae y llyfr ei hun yr un aamhriodolaf i'w roddi yn

<sup>1</sup> "Gwladgarwr," 1839: tudal. 161—168.

<sup>2</sup> "Colyn Dolphin," tudal. 95.

<sup>3</sup> "To the r. wor. Sr Edwards Stradlinge, Knights.

My duty remembered to your wor. You shall understande that I am come home; but noe sooner come but that Mr. Justice Walter, hearing that shortlie I was to departe from London, and leavinge one att Brecknooke to solicit my hastie repayre to him to Ludlowe: upon this occasion, and for that hee is the Justice of Assise in this circuytt, and to be kept in hand for manye purposes, I am going this daie to Ludlowe, havinge a farr greater desire (as God knoweth) to restore to my M<sup>scenas</sup>. But after my return from Ludlowe I will (through God's grace) be shortlie there. The cause of my longe tarynge in London was for the sure settinge and placinge of the booke, and pusinge every one of them, sheete by sheete, that noe impfection might be founde in them; which sheete in xii hundredth and odd booke growe to a greate number and a tedious puzell. Of these booke the Queen Ma<sup>tie</sup> hadd one, my Lorde Treasurer \* an other, and my L: of Essex the thirde, for that these three hadd juste cause to have a consideraon of this excellent language. From the Queen I knowe not what answer was hadd, for that I came away before I spake with Mrs. Skudamore, whoe did deliver the booke; but at the cominge of Mr. Skudamore † to Home-Lasye I shall knowe. There is more worshipfull speeches concerninge your selfe about the settinge foorth of that booke then about any one thinge that ever you dyd in all your life. And thus, with my humble dutye to yo<sup>r</sup> selfe and to singular good ladye, and hartye comendacons to Mr. John Stradlinge, I beseeche God to blesse and save you all. Brecknocke, this xiith of Julye 1592.

Yo<sup>r</sup> wo<sup>r</sup> to comaunde duringe liffe,

JOHN DAVYS."

Gwel "*Stradling's Correspondence*," gan y Paroh. J. M. Trahern.

<sup>4</sup> Ewyllys Syr Edward, yr hwn a amserwyd y 10fed o Fai, 1610, sy'n cyfeirio fel hyn at y llyfr hwn:—"Item, whereas there were printed at my expence twelve hundred and fifty British Grammars, I do give fifty of them ready bound to my friend Mr. Doctor Davys, the author of them; and my will is that the rest of them shall be given and bestowed from time to time by my cousin, Sir John Stradling, upon such gentlemen and others as he shall think fit, for the advancement of the British tongue."—*Trahern's Stradling's Letters Temp. Qu. Eliz.*

\* Lord Burleigh.

† Yr oedd John Skudamore, o Ham-Lacy, yn *gentleman-usher* i'r frenines Elizabeth, a gwnaed ef yn *sarchof*, ac yr oedd yn un o'r aelodau dros sir Henffordd mewn pump cisteidial seneddol gwahanol yn y teyrnasiad hwnw. Yr oedd y foneddiges Skudamore yn un o ffafriaid y frenines Elizabeth.

nwylaw y cyffredin, er hyrwyddo deall yr Ysgrythyrau, o bob un a ellid meddwl am dano, fel y dywed H. Prichard; canys pa rwyddineb i'r cyffredin a wnai llyfr sydd gan mwyaf o lawer yn Lladin? Gall, ar yr un pryd, ei fod yn Babydd lled gymedrol. Er fod rhai pethau yn peri i ni dybio mai Dr. Prichard sydd gywir, canys yr oedd mewn parch mawr gan deuluoedd gwir Brotestanaidd Cymru, megys Gwilym Canoldref, am yr hwn y dywed yn ol-ysgrif rhyw eisamplau o englynion:—"Yr Eghlynion vchot a dherbynnais gann bhy hên Annwylad a'm' Cybhwladwr Gwylim Genoldrevh [Captain Middleton] o swydh Dhimbych." Yr oedd hefyd ei noddwr, o gastell St. Donata, wedi cofseidio Protestaniaeth, ac yn amddiffynwr a noddwr galluog i blaid y brenin Siarl yn y rhyfel gwladol. Ymddengys mai dyben Dr. Rhys oedd dwyn rhagorolion yr iaith Gymraeg i sylw dysgedigion, trwy gyfrwng yr iaith Lladin, yr hon a ddeallid gan agos bawb y pryd hyny a hōnent ryw hawl o gael eu hystyried yn fedrus ar lyfrau. Yr oedd Syr Edward Stradling, noddwr diweddaf Dr. Rhys, yn ysgolor enwog, ac yn fardd. Y mae llinellau Lladin o'i waith yn gysylltiedig â'r "Gramadeg;" a chyhoeddwyd cyfrol o'i "*Epigrams*" yn y flwyddyn 1607, lle y mae un Lladinaeg o ganmoliaeth i Dr. Rhys a'i waith. Yr oedd Syr Edward o'r blaen—ewythr i'r uchod—yn enwog fel ysgolor Cymraeg, a dywedir iddo yntau ysgrifenu gramadeg. Teulu Normanaidd ydoedd y Stradlings, yn deilliaw o William de Esterling, un o'r deuddeg marchogion Normanaidd, i ba rai y rhanwyd sir Forganwg yn y gwrthryfel â Rhys ab Tewdwr; ond yr oedd-ynt wedi ymgymysgu cymaint â theluloedd Cymreig y Dywysogaeth nes eu bod wedi eu naturiol i'r wlad a'r genedl. Y maent yn awr wedi hollol ddiffianu, oddieithr y waedoliaeth a hōnir gan y teuluoedd a briodasant ferched y Stradlings.<sup>1</sup>

1593.

1. "Egluryn Phraethineb, sef Dosparth ar Retoreg, un o'r saith gelbhydhyd yn dyscu lhuniaiath ymadrodd a'i pherthynasau." Llundain: 4plyg.

Fe allai mai ailargraffiad ydoedd hwn o "Rhetoreg" yr 1550: gwel yno. Y mae yn y dechreu enwad deuddeg, neu chwaneig, o wŷr enwog, yn gosod allan ei glod, mewn ffordd o englynion a llinellau canmoliaethol—rhai yn Seisoneg, rhai yn Lladin, a rhai yn Gymraeg.

2. "Barddoniaeth neu Brydyddiaeth, y Llyfr Kyntaf. Gan Capten William Middleton. . Thomas Orwin a'i Printiawdh yn Llundain." 8plyg.

Mab ydoedd "William Middleton" i Richard Middleton, o Ddinbych, a brawd i Syr Hugh. Efe a ymgymerodd â morwriaeth, ac a wasanaethodd yn llynges y frenines yn erbyn yr Yspañiaid. Y mae yr uchod yn cael ei alw, "y Llyfr Kyntaf," fel pe buasai ei fryd ar gyhoeddi ychwaneg. Dywedir mai efe, gyda Chadben Thomas Price, o Blas Iolyn, ac un Cadben Koet, a fygasant *tobacco* gyntaf yn gyhoeddus yn Llundain. Yr oedd y Llundainwyr yn ymdyru o bob parth i'w gweled.<sup>2</sup> Nid oedd pibellau i'r pwrpas hwnw wedi eu dyfeisio eto; felly yn ddail wedi eu cordeddu yr arferent hwy ef, yn debyg i *cigars* yr oes hon.

3. "Grammatica Britannica in usum ejus linquæ studiosorum succincta methodo, et perspicuitate, facili conscripta, et nunc primum in lucem edita. Henrico Salesburico, Denbighiensi, autore."

<sup>1</sup> "*Cambrian Plutarch*," tudal. 310: a "*Colyn Dolphyn*:" tudal. 99—104.

<sup>2</sup> "*Pennant's Tours in Wales*."

Nid yw y llyfr hwn wedi ei rifo yn dudalenau, ond arwyddion papyrleri yn unig, yn cyrhaedd i *sheet* κ. Argraffwyd hwn yn Llundain, gan "Thomas Salesbury," er mai "Henry Salesbury," o Ddinbych, oedd yr awdur. Yn ei lythyr at y darlennydd, yr hwn sydd yn Seisoneg, y mae yr argraffydd yn dywedyd, fod "amrai bethau da eraill yn barod i'r wasg, megys y *Testament Brutanaidd*, wedi ei ddiwygio yn ddiweddar gan Esgob Llan-elwy." Y mae Aimes, yn ei "*Topographical Antiquities*," yn mynegu ddarfod i Morgan edrych dros, a diwygio "*Testament Salesbury*" ymhellach, a'i fod yn barod i'r wasg pan fu farw. Mae yn debyg mai at hwnw y cyfeiria yr argraffydd uchod; ond gan i Dr. Morgan farw yn 1604, ni chyhoeddwyd y *Testament*, yr hyn a ddifuddiodd ein gwlad o argraffiad arall, hyd 1620, fel y ceir gweled eto. Gan ein bod wedi dyfod eto ar draws y Salesburiaid, gallwn hysbysu yma ddarfod, yn amser y cythrwfl rhwng y frenines Elizabeth a Mari o Scotland, i un Thomas Salesbury ac Edward Jones, gyda phump eraill, gael eu profi am deyrnfradwriaeth, sef pleidio Mari fel yn meddu hawl i'r orsedd yn lle Elizabeth. Crogwyd hwy yn Meusydd St. Giles, Llundain, Medi 21ain, 1586. Bu un John Salesbury hefyd yn Esgob Manaw (*Isle of Man*). Yn Mai 10fed, 1644, y dechreuwyd cyhoeddi papyr *Whigaid*, o'r enw "*Flying Post*," a'r argraffydd oedd John Salesbury, yr hwn a elwir gan Dutton, y "*desperate hypergergonic Welshman*."<sup>1</sup>

1594.

1. "Diffyniad Ffydd Eglwys Loegr. Gan Esgob Jewel, wedi ei gyfieithu o Ladin, yn Gymraeg, drwy waith M. Kyffin, o'r Glasgoed, Llansilin."

Dyma fel y dyru y Parch. M. Williams enw y llyfr hwn. Gellir tybio mai ailargraffiad ydoedd, gyda chwanegiad, o Rhif. 1, 1587. Am y cyfieithydd, Morris Kyffin, yr oedd yn ail fab i Richard Kyffin, Ysw., o'r lle uchod. Yr oedd yn fardd o gryn enwogrwydd, ac y mae rhai esiamplau o'i waith ar gael. Dywed, yn ei ragymadrodd i'r llyfr hwn, fod yn ei fwrriad droi y Salmau ar gân, yr hyn na chyflawnwyd er hyny.<sup>2</sup>

2. "Perl mewn adfyd, Neu, Perl Ysbrydawl, gwerthfawroccaf, yn dysgu i bob dyn garu a Chofleidio y Groes, &c. A ysgrifenydd yn gyntaf mewn Dwitich, gan Bregethwr dysgedig, Otho Wermulerus, ac a droed i'r Saesonaeg, gan D. Miles Coverdal, ac yr awr hon yn Gymraeg gan Hugh Lewis. Rhydychen y printiwyd."

Dyma wagle o chwe' blynedd eto heb genym ddim o'r wasg hyd y flwyddyn 1600. Yr oedd yr holl lyfrau a ddaethant allan, er lles y Cymry, yn Gymraeg—Seisoneg a Chymraeg, Lladin a Chymraeg, a Lladin ei hun, yn traethu am Gymry a Chymraeg—yn cynnwys rhai ailargraffiadau, yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg, yn dri ar ddeg ar hugain. Y cyntaf yn y ganrif nesaf yw, yn

1600.

"Darmerth, neu Argwyd Gweddi, a ddychymygydd er mawr dderchafiad Duw-ioldeb, ac i chwanegu Gwybodaeth ac Awydd yr annysgedig ewyllysgar i iawn wasanaethu'r gwir Dduw. Gan Robert Holland, gweinidog gair Duw, a Pherson Llanddeferowg, yn sir Gaerfyrddin," &c.

Dywedir mai llyfr pedwarplyg ydoedd hwn, ac iddo gael ei argraffu yn Rhydechain.

<sup>1</sup> "*Timperley's Dictionary of Printing and Printers*."

<sup>2</sup> "*Williams' Dictionary of Eminent Welshmen*."

1603.

1. "Paalmæ y brenhinol brophuyd Dafydd, gwedi i cyghanedhu mewn mesurau cymreig. Gan Cadben William Middleton, yn nesaf y gallodd at feddwl yr yspryd Glân. Simon Stafford, a Thomas Salisbury a'i printiodh yn Llundun."

Am "Thomas Salisbury," gweler dan rhif 2, 1593, gan fod yr hyn a ddywedir yno yn gyfeiriol at ragymadrodd y llyfr hwn; ac am Cadben Middleton, gwel rhif 1, yr un flwyddyn, ac mewn erthygl arall yn y llyfr hwn o'r "Traethodydd." Mewn ysgriflyfr o farddoniaeth, o gasgliad y Parch. Mr. Bulkeley, o'r Bryn du, yn Môn, y mae cân o "Hanes Bagad o Gymry, a aethant yn amser y frenines Elizabeth, drwy ei gorchymyn hi, i'r Gorllewin India, i ddial ar, ac i anrheithio'r Hispaenwyr." Golygiedig gan *Lieutenant* Peilyn, 1570. Enwau y Cymry yw, "Captain Bilings, Captain Roberts, a Lieutenant *Salisbury*, a Peilyn, Sergeant Hughes, Hugh Middleton."

2. "Rhann o Psalmae Dafydd Brophwyd, i'w canu ar ol y dôn arferedig yn Eglwys Loegr. Simon Stafford a'i Printiodd yn Llundain dros T. S. 1603."

Am y llyfr hwn eto, gwelir hysbysiad pellach mewn erthygl arall yn y rhifyn hwn o'r "Traethodydd."

1604.

"The Genealogy of the High and Mighty Monarch, JAMES, by the grace of God, King of Great Brittain, &c, with his lineal Descent from North, by divers' direct lines to Brutus, first inhabiter of this Ile of Brittain; and from him to Cadwalader, the last King of the Brittain Bloud; and from thence Sundry wayes to his Majesty; wherein is playnly shewed his right-full Title, by lawfull Descent from the said Cadwalader, as well to the Kingdoms of Brittain, as to the Principalities of North-wales and South-wales; together with a briefe Cronologie of the memorable Acts of the Famosse men touched in this Genealogy, &c., what time they were. Where also is handled the worthy descent of his Majestices ancestour Owen Tudyr, and his Affinity with most of the Greatest Princes of Christendome. With many other maters worthy of Note. By George Owen Hari, Parson of Whit Church, in Kemeis."

Y mae y *Whitchurch* uchod, a elwir yn Gymraeg Llan-tre-Howell, yr y'm yn meddwl, ger Solfach, yn eithaf gorllewin sir Benfro. Y mae Mr. Theo. Jones, yn ei "*History of Breconshire*," a Fenton, yn ei "*History of Pembrokeshire*," yn gwneyd defnydd mawr o'r awdur hwn.

1606.

"Pregethau a osodwyd allan trwy awdurdod i'w darllein ym mhob Eglwys Plwyf a phob Capel, er adeiladaeth i'r bobl annysgedig. Gwedi ei droi i'r Gymraeg drwy waith Edward James, Robert Barker, printiwr i odidowgaf fawrhydi y Brenin, ai Printiodd yn Llundain. Anno Dom. 1606."

Llyfr yr Homiliau yw yr uchod, yr hwn a ystyrir fel safon athrawiaethau Eglwys Loegr yn amser y Diwygiad. Gan fod yr hen argraffiad hwn yn brin iawn, a bod cryn gyfnewidiad wedi ei wneyd, yn y sillebiaeth, yn yr argraffiad a roddwyd allan o Ddolgellau—yr unig un ar ol yr un hynafol hwn—byddai yn briodol roddi esiampl o hono yn ei hen ddiwyg, yr hyn a wnawn o ddiwedd yr ail ran o'r bregeth am gadwedigaeth dyn:—

"Megis nad hyn yw gwir ystyr yr athrawaeth ymma: yr ydys yn ein cyflawnhau ni yn rhâd, heb weithredoedd, neu fe'n cyflawnhau'r ni trwy ffydd ynghrist yn vnig: nid yw yr ystyr, meddaf, mai'n gorchwyl ni yn credu ynghrist, neu ffydd

<sup>1</sup> Llythyr H. Thomas at y Parch. P. B. Williams, yn y "*Cumb. Quar. Mag.*." cyf. ii. tudal. 356.

Grist yr hon sydd ynom ni, sydd yn ein cyfiawnhau ni, ac yn haeddu i ni gyfiawnhâd (o herwydd ni byddai hynny onid ein cyfrif ein hunain yn gyfiawndrwy ryw weithred neu rinwedd ynom ni ein hunain. Ond gwir ystyr a meddwl yr athrawiaeth hon, yw, er ein bod ni'n gwrandio gwir air Duw, ac yn ei gredu, er bod ynom fydd, gobaith, cariad, etifeirwech, ac o'n Duw, ac er ein bod ni yn gwneuthur llawer o weithredoedd da, etto rhaid ini ymwrthod a holl haeddiant y rhinweddau ymma, fydd, gobaith, a chariad, a phob rhinweddau a daionus weithredoedd eraill ar a wnauthom, a wnawn, neu a allom eu gwneuthur, megis pethau o lawer yn rhy weinion, yn rhy analluog, ac yn rhy anghyflawn i haeddu i ni ollyngdod o'n pechodau, a chyfiawnhâd, ac am hynny rhaid ini ymddiried, yn vnig yn nhrugaredd Duw, a'r aberth a wnaeth ein Archoffeiriad, a'n ceidwad Christ Iesu mab Duw a offrymmodd ef vnwaith drosom ni ar y groes, i hebrwng ini drwy hynny rád Duw a gollyngdod, cystadl o'n dechreuol bechodau, cyn bedydd, ac o'n pechodau gweithredol, y rhai a wnaethom ar ol bedydd, os ni a wir etifarhawn, ac a drown yn ddiragrith atto fe. Fal er rhinweddoledd, ac er duwioled oedd Ioan Fedyddiwr, etto yn hyn o beth, am faddeuant pechodau, fe ddanfonodd y bobl oddiwrtho ei hun, ac âu danfonodd hwy at Grist, gan ddywedyd, wele oen Duw yr hwn sydd yn tynnu ymmaith bechodau'r byd; (Ioan 1. 29.) Felly er maint ac er duwioled rhinwedd yw bywiol fydd, etto y mae hi yn ein danfon oddiwrthem ein hunain, ac yn ein gollwng, ac yn ein gyrrwng ni at Grist, i gael yn vnig gantho fe ollyngdod o'n pechodau neu gyfiawnhâd; fal y mae ein fydd ni ynghrist, megis yn dywedyd wrthym ni fal hyn, Nid myfi sydd yn tynnu eich pechodau chwi ymmaith, onid Christ yn vnig ac atto ef yn vnig y danfonaf chwi er mwyn hynny, gan ymwrthod mewn hyn o beth â'ch holl rhinweddau da, gairiau, meddyliau, gweithredoedd, a chan osod a doddi eich ymddiried ynghrist vn unig."

1607.

"Yr Athrawiaeth am Weddi, Gan John Prideaux, Esgob Caerwrangon." Dywedir mai "William Salbri, Esc., a barai y llyfr hwn ym rint."

Y mae yn gysylltiol âg ef "Englynion o fawl i'r Awdur" &c., gan Gr. a Wi. Philip.

## 2. "Epigrams. By Sir John Stradling."

Yr oedd y Syr John hwn yn fab Francis, ac wŷr i Harri Stradling, ac yn hen ewythr i Syr Edward, noddwr Dr. John Davys Rhys.

1609.

"Crynhodeb o addysg Cristionogawl, a Dosparth Catholic ar ddeuddeg pwnc y Phydd a elwir y Gredo, hefyd ar weddi yr Arglwydd, sef yw y Pader ar Gyfarchiad yr Angel, a elwir Ave Maria, yn ddiweddaf ar y Deg gair Deddf a elwir y deg gorchymyn. Gwedi i gyfieithu o'r Lladin i'r Gymerasg, drwy ddyfal astudiaeth a llafur D. Rosier Smith, o dref Llan Elwy, Athraw o Theologyddiaeth, megis ymddiddan ne ddialogiaith rhwng y discibwl a'r athraw."

Y mae y D. o flaen enw y cyfieithydd yn lle Dr. am Ddoctor; ac felly am Dr. Miles Coverdale, yn rhif 2. 1594. Nid ydym yn cael dim trwy y wasg yn y pum mlynedd nesaf—hyd y cawn yn

1615.

"Gorsedd y Byd. O gyfieithiad Dr. Roger Smith o Dref Llan Elwy."

1616.

1. "A Display of Heraldry of most particular Coat Armours, now at use in the six Counties of North-Wales, viz. of the 15 tribes, &c. Salop." 12plyg.
2. "The Second Booke, containing the Principality of Wales—Topographie of the Counties—the Divisions of the Cantrefs and Description of the Cities and Touns, with six large and Curious Maps: By John Speede." Unplyg. 1616.

Er fod y llyfrau hyn yn Seisoneg, ac wedi cael eu cyfaddasu i'r dysgedig a'r boneddigion yn benaf, ac nid i'r werin, y maent yn dwyn mor agos berthynas â Chymru a Chymry, fel y gwelsom yn addas ddilyn y Paroh. Moses Williams, a'u cyflëu yn ein cofrestr, fel y gwnaeth yntau yn yr eiddo ef. Y mae tair blynedd eto yn myned heibio, heb ddim trwy y wasg i'r Cymry, mewn unrhyw iaith, am a welsom ni: ond dyma oleuni tanbaid gyda y flwyddyn

1620.

"Yr Hen Destament, a'r Apocrypha, a'r Testament Newydd. O gyfieithiad William Morgan, Esgob Llanelwy. A chwedi eu gwellhau gan Richard Parry, Esgob Llanelwy. Argraphwyd yn Llundain, gan Norton a Bill, argraphwyr i'w Fawrhydi, yn y flwyddyn 1620."

Yr oedd y Testament Newydd a argraffwyd yn yr argraffiad cyntaf hwnw o'r Bibl, yn 1588, wedi ei wneyd gan Salesbury a Davies, a'i ddiwygio yn unig gan Morgan. Oblegid rhyw reswm anhysbys yn bresennol, darfu i'r esgob (Dr. Morgan) ei adchwilio, a gwelsom ei fod yn barod i'r wasg, pan y bu farw yn 1604. Ond ni wnaed un defnydd o hono; eithr yn nheyrnasiad Iago I., gwnaed adchwiliad a diwygiad yn nghyfieithiad yr holl Fibl, gan Richard Parry, canlyniedydd Morgan yn esgobaeth Llanelwy. Gwr o enedigaeth o Ruthyn ydoedd Parry, a ganwyd ef oddeutu y flwyddyn 1578. Cafodd ei ddysg yn ysgol Westminster, o dan yr enwog W. Camden, un o ysgolëigion penaf yr oes, ac awdur gwaith canmoladwy, o hanes Brydain, a elwir "*Britannia*;" ac y mae yn dra thebyg iddo gael llawer o gynnorthwy gan ei ysgolor Cymreig. Etholwyd Parry i fyned i Rydychain pan yn 16eg oed. Wedi hyny, aeth yn ganghellydd, a deon Bangor, ac yn berson Gresford, yn sir Ddinbych; a phan ddaeth Iago i'r orsedd, yr oedd ei dyb mor uchel am dano, fel yr enwodd ef i esgobaeth Llanelwy. Yr oedd yn dal bywioliaeth Dyserth, yn sir Ffiint, gyda 'i esgobaeth; a byddai yn anneddu yno ar brydiau. Y mae yno faes o'r enw "Cae yr esgob;" ac yn y persondy hwnw y bu farw, yn 1623, yn mhen dwy flynedd ar ol cyhoeddi y Bibl, a dwy flynedd o flaen y brenin, yn oddeutu 45 mlwydd oed, wedi bod yn esgob am bedair blynedd ar bymtheg; ac os yw amser ei enedigaeth yn gywir, nid oedd ond 26ain oed pan ddyrchafwyd ef i'r esgobaeth.

Yr oedd anghen am Fiblau bellach, gan y rhaid fod Fiblau Dr. Morgan yn dra phrinion, ac nad oedd prin ddigon wedi eu hargraffu ar gyfer pob eglwys a chapel plwyfol yn y Dywysogaeth; a lle yr oeddynt, yr oedd arferiad o honynt am ddwy flynedd a deugain, a'u cadwraeth mewn eglwysi lleithion, heb gynhesrwydd ynddynt o'r naill ben o'r flwyddyn i'r llall, wedi eu gwneyd yn ddrylliau. Y mae yr esgob, yn ei lythyr Lladin at y brenin, yr hwn sydd fel rhagymadrodd i'r Bibl hwn, yn cwyno fod mawr eisieu am air Duw yn y wlad—fod llawer llan, ac, o ganlyniad, llawer plwyf, naill ai "heb un Bibl, neu ynte fod y Bibl sydd yno yn hen lyfr drylliedig, a rhan o hono yn eisieu." Dywed hefyd, mai hyna oedd cyflwr, nid yn unig *rhai*, ond y *rhan fwyaf* o Eglwysi, ac yn ganlynol, y rhan fwyaf o'r wlad. Yr oedd y cyfnewidiadau a wnaed yn yr argraffiad hwn yn gyfryw fel y gallesid braidd ei alw yn gyfieithiad newydd hollol; ac yn ol barn llawer, yn waethgiad. Y cyfieithiad hwn yw ein cyfieithiad awdurdodedig ni yn bresennol. Anrhegwyd y brenin âg un o honynt; ac y mae hwnw i'w weled yn awr yn y *British Museum*, yn Llundain.<sup>1</sup>

<sup>1</sup> "Dr. Llewelyn's British Versions."



Fe allai na byddai cael tafien fechan o gymhariaeth rhwng y tri chyfieithiad ddim yn annyddorol, fel y gweler ar un olwg y cyfnewidiad a wnaeth Dr. Morgan ar gyfieithiad Salisbury; a'r cyfnewidiad a wnaeth Dr. Parry ar gyfieithiad Morgan.

W. SALESBURY.	DR. MORGAN.	DR. PARRY.
<i>Ezra</i> vi. 2.	A chafwyd mewn cist.	A chafwyd yn Achmetha.
<i>Jer.</i> xxvii. 9.	Gofidus yw, pwy a'i hedwyn.	Drwg diobaith ydyw.
<i>Ezec.</i> xvi. 12.	Rhosaïs hefyd fiswrn ar dy wyneb.	Rhoddais hefyd dlws ar dy dalcen.
<i>Math.</i> iii. 8. Teilwng i welliant buchedd.		Addas i edifeirwch.
— xxiv. 15. Ffieidd-dra y diffeithwch.	Ffieidd-dra anrheithiol.	Ffieidd-dra anghyfannedd-ol.
<i>Marc</i> xiv. 22. Ao wedi iddaw verdithiaw y tores.	Ao wedi iddo roi diolch efe a'i torès.	Ao a'i bendithiodd ac a'i torodd.
<i>Luc</i> viii. 27. Er ys hir amser.		Er ys talm o amser.
— xix. 4. Ffisibren gwyllt.	Ffigyswydd gwylltion.	Sycomorwydden.
— xx. 9. Amser mawr.		Dros dalm o amser.
<i>Joan</i> xvii. 3.	Dy adnabod ti yn unig wir Dduw.	Dy adnabod di yr unig wir wir Dduw.
<i>Act.</i> iii. 21. Yr un vydd i'r nev ei dderbyn, yd yr amser yr adverir yr oll bethae, ry ddewisai Dew trwy enae ei oll saint brophwyti er yn oes oes- oedd.	Yr adnewyddir pob peth.	Yr hwn sydd raid i'r nef ei dderbyn, hyd amseroedd adferiad pob peth.
— xxvii. 9. Wedi cerdded llawer amser.	Yn ol hir amser.	Ac wedi i dalm o amser fnyed heibio.
<i>Rthuf.</i> xii. 3. Na bo i neb ddyall uwchlaw y dylor dyall.	(Yr un modd.)	Na byddo i neb uchel-synied yn amgen nag y dylid synied.
— xiii. 6, 7. Ys synwyr y cnawt, angeu yw.	Canys y mae synwyr y cnawd yn farwolaeth.	Syniad y cnawd, marwolaeth yw.
<i>1 Cor.</i> iv. 4.	Ni wn i fy mod yn euog o ddim.	Ni wn i ddim arnaf fy hun.
— xiv. 16. Lle yr andysg- edig.	(yr un modd.)	Lle yr anghyfarwydd.
<i>2 Cor.</i> xii. 20.	Terfysg.	Anghydfyddiaethau.
<i>Col.</i> i. 10. Val y rotioch yn deilwng gan yr Arglwydd, a'i foddhau ev yn pop dim.	Gan ryglyddu bod yn mhob dim.	Gan ddwyn firwyth ym mhob gweithred dda.
<i>Heb.</i> xii. 5. Nac eskeulua.		Na ddirmyga.
<i>Phil.</i> i. 21. Canys yr Christ ys ydd un ym bywyth, ac yn angeu yn ennill- iath.	Canys byw i mi (yw) Crist, ac elw yw marw.	Canys byw i mi yw Crist, a marw sydd elw.
<i>2 Pedr</i> ii. 18. Brychay yntyt, a thrisclynay.	Brychau ydynt a tharys- clynau.	Brychau a meflau ydynt.

Ond y cyfnewidiad hynotaf yw *Dad.* v. 8, lle y cyfieitha Dr. Morgan, "Yr oedd gan bob un o honynt delynau a chrythau aur yn llawn o arogl-darth;" ond yn niwygiad Dr. Parry, tröwyd y *crythau* yn *phiolau* aur, gan feddwl fod Dr. Morgan wedi cyfieithu o'r Seisoneg y gair sydd yno yn *vials* yn grythau, trwy ei gangymeryd am y gair *vials*. Ond gwall mawr yw hyn yn syniad y neb a dybio felly; canys o'r Groeg yr oedd yr esgob yn cyfieithu, a chyfieithodd y gair Groeg *φιάλα*, yn *grythau*, yr hyn yw ei briodol ystyr, sef *cist*, *box*, neu gwpan; ac nid yw y gair *phiol*, *phial*, a *phialou*, ond llygriad oddiwrth *vial*, a *vials*. Felly, syrthiodd y diwygiwr

ei hunan, wrth geisio diwygio ar Dr. Morgan, i'r un gwall ag y tybiodd fod ei ragflaenydd wedi syrthio, wrth geisio ei osgöi.

Gwelir bellach mai gwir yw, nad oedd llawer o'r cyfnewidiadau a wnaed yn ddiwygiadau. Y mae y Bibl hwn yn llyfr mawr, hardd, unplyg, wedi ei argraffu â hen lythrenau duon, wedi ei ddosbarthu fel yr argraffiad arall. Y mae cynnwysiad i'r pennodau, a chyfeiriadau ymyl-lenol y Bibl Seisoneg a elwir Bibl y Brenin Iago. Y mae llenau yr hen Destament a'r Apocrypha yn cyrhaedd i E E E E 3; y mae llenau y Testament Newydd yn cyrhaedd i Y 2. Y mae yn ei ragflaenu, galendar, a chyflwyniad Lladin. Am yr argraffwyr, Norton a Bill—mab oedd Norton, Bonham Norton, i William Norton, *stationer* yn Llundain. Yr oedd Bonham hefyd yn *stationer*, ac un o henaduriaid dinas Llundain. Priododd Jane, merch Thomas Owen, Ysw., un o farnwyr y Dadleuon Cyffredin; a bu fyw am beth amser yn Church Stretton, yn sir Amwythig, lle y bu farw Ebrill 5ed, 1635, yn 70 mlwydd oed. Mae yn debyg mai ei *bartner*, John Bill, oedd yn edrych ar ol ei fasnach yn Llundain. Yr oeddynt hefyd yn argraffyddion i'r brenin dros yr Iwerddon. Pan argraffwyd araeth y Siarl I., ar ollyngiad y senedd yn 1628, darfu i Bill argraffu araeth y Frenines Elizabeth yn gydiol, ac anfon y ddwy yn un llyfryn yn anrheg i'r brenin, yr hyn a an-foddlonodd ei fawrhydi yn anghyffredin.<sup>1</sup>

Ond i ddyohwelyd: ymddengys i'r argraffiad hwn eto gael ei ddwyn ymlaen gan zel gwirfoddol a phersonol yn unig, heb gefnogaeth y brenin na'r llywodraeth: nid felly y bu i gael y Bibl Seisoneg y flwyddyn cyn hyny. Yr oedd yr enwog a'r dysgedig Dr. John Davies, person Mallwyd, am yr hwn y cawn grybwyll eto, yn gynnorthwy mawr i'r esgob yn y gwaith canmoladwy hwn, gan ei fod hefyd yn gapelwr i'r esgob. Y mae, yn ei lythyr Lladin, cyflwyniadol i'r esgob, sydd yn rhagflaenu ei "Eirlyfr," yn cydnabod yn wylaidd fod ganddo ryw law yn y ddau gyfieithiad; ac yn ei ragymadrodd Lladin i'r un llyfr y dywed,—

"Byddwn yn arferol o ddychwelyd oddiwrth y gorchwyl ysafn hwn (fel ei gelwir) efo mwy o awydd, a chydag astudrwydd, a diwydrwydd newydd dau-ddyblyg, at y pethau pwysafawr hyny (*sef pregethu yr efengyl, a chyfieithu yr ysgrhythrau santaidd i'r iaith Gymraeg*)."<sup>2</sup>

Dylai y gwŷr da hyn fod mewn coffadwriaeth dragywyddol gan y Cymry, gan fod yr holl wlad o hyny hyd yn hyn wedi myned i mewn i'w llafur hwy, fel nad oes nemawr o gyfnewidiadau o bwys yn y cyfieithiad Cymreig wedi hyny; dim ond newid y sillebiaeth weithiau, neu lythrenau yn dechreu gair; megys, rhoddi priflythrenau yn nechreu enwau Duw, &c.; ychydig o wellhad yn y cyfeiriadau, neu yn y dosraniadau a elwir *paragraphs*; rhoi blwyddyn oed y byd ar ben uchaf, neu ymyl y ddalen; taffeni, mesurau a phwysau; y dydd o'r mis wrth y Salmau, i gyfneusdra yr Eglwys Sefydledig. Yn y pethau hyn, a'u cyffelyb, gall fod peth gwahan-iaeth; ond yn mhob peth arall, y cyfieithiad hwn o'r flwyddyn 1620, yw ein cyfieithiad awdurdodedig presennol. Y mae yn neillduol deilwng o sylw, mai gwŷr Gwynedd, neu Ogledd Cymru, oedd y rhan fwyaf, os nad pob un o'r cyfieithwyr. Yr oedd y rhan fwyaf o honynt wedi cael dysgeidiaeth yn Nghaergrawnt, a'r lleill yn Rhydychain; ac yr oeddynt mor ddysgedig yn

<sup>1</sup> "Dictionary of Printers and Printing."

<sup>2</sup> "Llewelyn on the British Versions."

yr Hebraeg a'r Groeg, fel o bosibl nad oes cyfieithiad yn y byd o'r Ysgrythyrau yn well na'r un Cymraeg; ond y mae llawer yn waeth nag ef.

1621.

*"Antiqua Linguae Britannicae Rudimenta Sive Wallice Grammatica."*

Llundain: unplyg.

Gramadeg o'r iaith Gymraeg yn Lladin yw y llyfr hwn; a chan ei fod wedi ei ailgyhoeddi yn y ganrif hon, nid yw yn gofyn darluniad manwl o hono. Ei awdur ydoedd Dr. John Davies, o Fallwyd. Llyfr i'r dysgedig ydyw—yn gwbl y peth y mae yn profesu ei fod—yn draethawd ar neillduolion elfenau yr iaith Gymraeg; ac y mae wedi bod yn gryn gymborth dilynol ar y gangen hōno o wybodaeth. Y mae llythyr cyflwyniadol i'r Esgob Parry, a rhagymadrodd, o waith a chyfieithiad Dr. Davies, mewn ffurf o lythyr at Dr. Edmund Prys, yn ei ragflaenu.

Gan y ceir achos i enwi amryw o'i lyfrau eto, fe allai mai yma y byddai oreu i ni roddi ychydig gofiant am dano.

John Davies ydoedd fab i Ddafydd ab Sion ab Rhys, gwehydd, yn Llanferes, yn sir Ddinbych; ond er hyny mewn sefyllfa gysurus, ac yn hanu o waedoliaeth y boneddigion penaf yn y wlad. O du ei dad, yr oedd o lwyth Marchydd ab Cynar, ac o du ei fam, o Ednyfed Fychan; ac yn un o'i lythyrau, dyddiedig Awst 26, 1623, y mae yn galw Rowland Fychan (*Vaughan*), o Hengwrt, yr enwog hynafiaethydd, yn gefnder.<sup>1</sup> Cafodd ei ddysgeidiaeth boreuol yn ysgol Rhuthyn, yr hon oedd wedi ei sefydlu ychydig flyneddau cyn hyny, gan Dr. Gabriel Goodman. Ei athraw yno ydoedd y Dr. Richard Parry, fu wedi hyny yn Esgob Llanelwy, ac efe yn dra ieuanc. Ganwyd ef oddeutu y flwyddyn 1570.<sup>2</sup> Bu yr athraw yn gyfeillgar iddo ar hyd ei oes, gan ei lwytho â bywioliaethau eglwysig, a'i gymeryd yn gapelwr iddo. Cafodd berffeithiad ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain, yn Ngholeg yr Iesu, ac wedi hyny yn Ngholeg Lincoln. Yr oedd wedi bod bymtheng mlynedd yn weinidog pan yr aeth i'r olaf. Yn y cyntaf, graddiwyd ef yn B. A., ac yn yr olaf yn D. D., neu fel y byddid yn ei roddi y pryd hyny, S. T. D.—canyys felly y cerfiwyd ar ei feidd, ac hefyd ganddo ef ei hun yn gydiol â'i enw wrth rai o'i weithiau. Cafodd bersoniaeth Mallwyd, yn siroedd Trefaldwyn a Meirionydd, gan y llywodraeth; ond pan ddyrchafwyd Dr. Parry, ei athraw, yn esgob, cafodd ganoniaeth yn Llanelwy, yr hon a gyfnewidiodd am brebendiaeth Llanefydd a Llanymowddwy; hefyd Darowen, yr hon a gyfnewidiodd am Lanfawr, ger Bala; a dywed rhai fod Garthbeibio ganddo. Ymddengys fod Mallwyd, Llanymowddwy, Llanfawr, a Llanefydd, ganddo ar yr un pryd. Ar hyn, cyfarchai Risiart Cynwal ef, mewn cywydd a wnaeth iddo, i ofyn Bibl dros Robert ab Heilyn:—

"Mae iti renti drwy rās,  
Mab dewrddoeth, mwy bo d' urddas,  
Mallwyd sydd am wellhād sant,  
A Mowddwy yn eich meddiant,  
A Llanfawr blaenfawr heb ludd,  
Llawn afael, a Llan-Nefydd."

<sup>1</sup> "*York's Royal Tribes*," a "*Cambrian Register*." Cyf. i. tudal. 168; a chyf. ii. tudal. 470.

<sup>2</sup> Y mae yn rhaid fod genedigaeth Dr. Davies neu yr esgob yn wallus; canys dywedir i'r esgob gael ei eni oddeutu 1578, yr hyn a wna ei fod yn ieuangach na'i ysgolor. Ond mae yn dra thebyg mai hynach oedd yr esgob; oblegid prin y gallasai gyfodi i'r fath fri a bod yn esgob yn 28ain oed, ac yn athraw ysgol ramadegol cyn hyny.

Ei wraig ydoedd Siân, merch i Rhys (John medd rhai) Wynn, Ysw., o'r Llwyn Onn, a chwaer i wraig yr Esgob Parry. Ni bu iddynt blentyn; ac ar ol ei farwolaeth, dywedir iddi hi briodi ei *gurate*, a dywedir hefyd mai priodas annedwydd iawn a fu hono. Gan fod ganddo gynnifer o fywiolaethau eglwysig, efe a gasglodd gryn lawer o gyfoeth. Adeiladodd bont geryg, o'r enw "Pont y Cleifion," a rhyw ddwy arall, meddir. Yr oedd llythyrenau ei enw wedi eu palmantu â cheryg gwynion, mewn dau fan, ar y bont. Y mae pont newydd wedi cael ei gwneyd yn ddiweddar yn uwch na'r hen; ond y mae yr hen i'w gweled wrth edrych dros ganllaw y newydd, heb ei hollol falurio eto. Efe hefyd a ail-adeiladodd gangell a chlochdŷ yr eglwys, gan roddi ceiliog gwynt ar ei ben, yr un llythyrenau islaw iddo, a'r fwyddyn 1640 ar ystyllen ar ochr y clochdŷ; ac felly hefyd ar y palmant o flaen drws y persondŷ, ac yn un o'i ystafelloedd. Dywedir iddo gwbl adeiladu y tŷ.

Yn ei ewyllys, efe a adawodd ardreth maes o'r enw "Dôl-Dyfi," i dlodion y plwyf tra y rhedo dwfr. Y mae yr afon wedi treulio cryn lawer o hono ymaith, ond er hyny y mae yn cynnyrchu o saith i ddeg punt y fwyddyn. Y gweddill o'i diroedd a adawodd rhwng dau nai—ei nai ei hun, a nai ei wraig, mab yr Esgob Parry, medd rhai; ond eraill, mai nai arall i'w wraig, o'r enw Wynn. Y mae y tiroedd yn awr yn werth 300p. yn y fwyddyn. Y mae rhan nai y wraig, sef y Plas-uchaf, a lleoedd eraill perthynol, wedi ei werthu er's deugain mlynedd; ond dywedir bod rhan ei nai ei hun yn meddiant ei deulu hyd yn hyn.

Ychydig a wyddys am ei fuchedd gartrefol. Dywedir iddo ef a'i was wneyd y llinellau canlynol ar ddau o Eglwyswyr oedd yn myned heibio iddynt ar y pryd:—

*Dr. Davies.*—"Dacw ddau offeiriad ffol,  
Yn myn'd ar ol eu gilydd;"

*Y Gwas.*—"Ond bod yn well ei ddysg a'i ddawn,  
Mae 'n agos iawn y trydydd."

Y mae hefyd ar gof iddo anfon y gwas hwn i ddegymu rhŷg yn mhlwyf Llanymowddwy, ac i berchenogwr yr ŷd achwyn wrtho ar y gwas am gymeryd mwy o'r rhŷg nag oedd yn ddyledus iddo ddegymu. Cymerodd y Dr. Davies y cyfleusdra cyntaf i ymresymu â'r gwas ynghylch y cwyn hwn, ac atebodd yntau iddo allan o law:—

"Ei ran ei hunan, a'i hawl—fe gafodd  
Y cyfaill uffernawl,  
O'r rhŷg iraidd, rhagorawl—  
Ai rhan Dduw fynai 'r hen ddiawl?"

Am ei weithiau, ni a gawn wneyd rhai sylwadau arnynt, fel y delom at flyneddau eu cyhoeddiad, o un i un. Yr oedd amser yn ol bregethau o'i eiddo, mewn llawysgrifen, yn llyfrfa Ystrad Meuric, yn sir Aberteifi. Ei lyfrau a ddaethant, meddir, i feddiant gwr o'r enw — Kenrick, yr hwn a fu fyw lawer o flyneddau yn ol, yn weinidog yr Ymneillduwyr (Henaduriaid), yn Ngwrecsam, a'r hwn a symudodd oddiyno i Gaerwysg, a'r llyfrau gydag ef, mae 'n debyg. Am ei ddysgeidiaeth, y mae ei waith yn eithaf digon i brofi ei fod yn ysgoläig mawr, yn y Lladin, Groeg, a Hebraeg, yn gystal a Chymraeg, yr hyn na ellir ei ddyweyd am ysgolëigion mawr o Gymry yn y dyddiau hyn. Gellir yn gyfiawn gymhwyso iddo y llinellau a wnaeth Sion Tudur i'w gyd-ddiwygiwr, y Dr. Morgan:—

"Cei glod o fyfyrddod fawr,  
A da dylch hyd elawr,  
Tra gwnair tai, tra caner tant,  
Tra fo Cymro 'n cau amrant."

Bu farw y 15fed o Fai, 1644, yn oddeutu 74ain oed; a chladdwyd ef y 19eg, yn nghanell yr eglwys. Cerfiwyd y geiriau canlynol ar gareg ei fedd, y rhai, trwy fod y gareg yn llawr i'r lle, ac felly dan draed yr addolwyr, sydd wedi treulio yn hollol:—

"JOHANNES DAVIES, S.T.D.

RECTOR ECCLESIE PAROCHIALIS DE MALLWYD,

OBIIT 15 DIE MAII,

ET SEPULTUS FUIT 19, A. D. 1644, IN VIRTUTIS,

POTIUS QUAM NOMINIS MEMORIA."

Hyn yw—"John Davies, dysgawdwr duwinyddiaeth gysegredig, periglor eglwys blwyfol Mallwyd, a fu farw y 15fed dydd o Fai, ac a gladdwyd ar y 19eg, yn mlwyddyn ein Harglwydd 1644. Mwy er coffadwriaeth am ei rinwedd nag am ei enw."<sup>1</sup>

Aeth wyth mlynedd ar ol hyn heibio, o gyhoeddiad "Gramadeg Lladin" Dr. Davies, a naw ar ol cyhoeddiad y Bibl, cyn y cawn ddim er lles ein cenedl ni; ond yr oedd Mr. Rowland Vaughan yn effro iawn i'r diffyg hwn, ac wedi parotïi yr "Ymarfer o Dduwioldeb" er y flwyddyn 1620; ond gan i'r Bibl mawr ddyfod allan y flwyddyn hono, efe a oedodd; a chyr iddo gwblhau, dyma, yn

1623.

"Beati Pacifici, by Sir John Stradling."

Am Syr John, gwel y flwyddyn 1607.

"Divine Poems, by Sir John Stradling."

Gwel y flwyddyn 1607 a 1623. Bu y Stradlings, yn nghastell St. Donats, yn noddedu yr Archesgob Usher, yn amser Siarl I., a llawer eraill o gyfeillion y brenin.

1629.

1. "Pregeth ynghylch Edifeirwch, gan Arthyr Dent. O gyfieithiad Mr. Robert Llwyd, gynt Ficar y Waun, yn Sir Ddinbych, Llundain." 12plyg.
2. "Llwybr Hyffordd i'r Nefoedd."

Cyfieithiad "Robert Llwyd" yw hwn hefyd. Yr oedd pregeth Arthur Dent yn cael ei chyhoeddi gyda'r "Llwybr Hyffordd," ac ar wahan hefyd, yr hon sy'n fer iawn—dwy tudalen, a dau ddarn tudalen. Yn niwedd ei "At y Darllenydd," dywed y cyfieithydd—"O'm stafell yn Ffoster-lân yn Llundain yr Vgeinfed dydd o fis Medi, 1629. Yr eiddot yn yr Arglwydd R. Ll." Wrth ymresymu â'i "Ddarllenydd," efe a ddywed—"Ai anhawdd genit dreulio amser yn y gorchwyl hwn, nid rhaid i ti gollu dim amser a waethygo arnat, neu a rwystro dy orchwylion bydol yn eu pryd: y mae'r nos yn hir yn y gaiaf, a'r Suliau, a'r gwiliau yn hir yn yr haf; gad ymmaith y twmpath chwareu, a'r bowliau, a'r tafarnau, a'r bêl-droed, a'r denis, a'th negeseuau; gwna y pethau hyn yn weddol ar dy ddiwrnodau dy hân, o bydd achos: eithr gwasanaetha Dduw ar ei ddydd ei hân; ac onidê, efe

<sup>1</sup> "Williams's Dictionary." "Cambrian Plutarch;" "Gwladgarwr," Medi, 1837; "Eurgrawu Wesleyaidd," Mehefin, 1813;" a "Cambrian Quarterly Magazine." cyf. ii., tudal. 97.

ddigia wrthyt, ac i ba le y ffoi di rhagddo.” \* \* \* “Ai ni fedri di ddarllain Cymraec, na neb o’th dy chwaith? O, beth â ddywedaf wrthyt, ond Duw a’th helpio druan; pa fodd y gwasanaethi di Dduw, gan na fedri ddarllain ei air ef. Dysc yn gyntaf y gelych, a dysced y lleill gan hwnw: Mi a gymmeraf arnaf osod y dyn ieuange a fynnych (yn enwedig o bydd efe hyddysc) ar sfordd gymmwys i ddyfod i ddarllain o honaw ei hûn yn adrybelydr, yn ol cymmeryd o honof ychydig boen gyd ag ef tros vn wythnos. A pha beth yw hyny wrth y llesâd a ddichon dyfu oddiwrho.”

Gallem dybied mai gweinidog ffyddlawn yn ei ddydd oedd Robert Llwyd, gan ei fod yn llefaru mor eglur yn erbyn y chwârëyddiaethau. Yr oedd hefyd yn fardd o gryn fedrusrwydd.

1630.

1. “Yr Ymarfer o Ddwioldeb: YN CYFAR-wyddo dÿn i ryngu bodd Duw: Yr hwn llyfr â osodwyd allan yn saeson-aec o waith y gwir barchedig dad *Levis Escob* Bangor, ac a gyfieithwyd yn Gamber-aec o waith *Row. Vaughan*, o Gaergai, o Sir Feirion, wr bonheddig. Printiedig gan Felix Kyngton tros Robert Allot, ac ydynt i’w cael tan lun yr Arth, y monwent St. Paul, Llundain. 1630.”

Yr oedd Row. Vaughan, o Gaergai—un o hynafiaid Syr R. Williams Vaughan—wedi cyfieithu y llyfr uchod er y flwyddyn 1620, fel y dywedir ar wynebddalen yr argraffiad diweddf; ac yr oedd yn y wasg yn gynnar y flwyddyn flaenorol, canys dywedir yn “At y darllennudd o Gymro vni-iaith” i’r “Llywyr Hyffordd,” a enwasom o’r blaen—“Mi â amcanaswn chwaneu at ddiwedd y llyfr yma fagad o weddïau i’w harfer ar amryw fath ar achlysur ac achosion; eithr y mae yr *Ymarfer o Ddwioldeb* yntau tan y Print-wasc, ac yn brysio i ddyfod i wlad Cymru cyn y gaiaf; oddi-yno y gelli di gael beth bynnag a ddymunech. Dyma wr boneddig yn treulio ei amser yn weddol, ac yn ganmoladwy, gan wneuthur gwasanaeth i Dduw, daioni i’w wlad, a llesâd mawr iddo ei hûn drwy gyfieithu y llyfr godidog hwnnw. Pe cymmerai foneddigion ieuainge ein gwlad ni ryw gyffelyb orchwyl-waith duwiol, a buddiol, i dreulio eu hamser arno, ni byddei anllywodraeth, a rhysedd yn cael cymmaint rhwyse: Na gwir grefydd vniawn-grêd yn cael cyn lleied bri, a chymmeriad; ac ni byddei occraeth yn yssu, ac yn bwytta y naill ddarn o’u tiroedd na thafarndai a mwg Tobacco yn yfed y darn arall.” Os oedd achos achwyn gan weinidog yr efengyl fel yna yn y flwyddyn 1629—dau cant a thair ar hugain o flyneddau yn ol—pa faint mwy yw yr achos yn bresennol! Er fod dysgwyliad i’r llyfr hwn fod allan “cyn y gaiaf y llynedd,” ni ddaeth hyd nes oedd y flwyddyn hon—1630—wedi dyfod i mewn. Y mae yn ei rag-fiacon anerchiad o eiddo yr awdur, “Levis Bayly,” yr hwn oedd esgob Bangor, ac yn un o hynafiaid yr Ardalydd Môn—“AT YR VCHEL ALLVOCAF *Dynysog*, CHARLES, *Tynysog Cymbrâ*.” Hefyd anerchiad y cyfieithydd “I’R ANNWYL VRDDASOL WRAIG, *Margred* vnig etifeddes Syr *John Lloyd*, marchog a sersiant o’r gyfraith, a chywely *John Lloyd*, o *Riwaedag* Esq. grâs a thangneddyf yn y byd hwn, a gorfoledd tragywyddol yn y byd a ddaw a ddeisyf, R. V. Y mae yn diweddu—“*Eich câr âch, câr, gorchymynwoch o mynwoch*, ROVV. VAUGHAN.” Yn yr anerch “At y darllydd,” y mae yn gwneyd gwawd duchanllyd yn erbyn y Cymry ag oedd yn ei oes ef yn dibrisio eu hiaith:—

“Yr ydwyf fi yn gweled cymmaint o ragor rhyngddi ac iaith y Saeson, ac sydd rhwng cochol newydd a chaberden glytiog: ac etto nid oes vn sail o athrawiaeth yn y saith gelfyddyd, nad yw wedi ei addurno yn eu hiaith hwy. Oh Frutan-

iaid gwaedol, cymmerwch chwithau beth poen a thraul, i osod allan eich tafodiaith gyfoethog: oddieithr i chwi fod o vn feddwl a'r cymru seisnigaidd, y rhai sydd yn tybied yn oreu ddeleu a diffoddi ein hiaith ni. \* \* \* Mwyaf peth sydd yn dyfod yn erbyn ein hiaith ni ydyw, anhawsed gan y cymru roddi eu plant i ddyscu, fel y mae 'n well gan lawer dŷn fod ei etifedd yn fuwch yn ei fyw, na threilio gwerth buwch i ddyscu iddo ddarllain; ac ni cheir yn Lloegr nemmawr o eurych, neu scubwr sinneiau na fedro ddarllain, ac na byddo a'i lyfr tan ei gessel yn yr Eglwys, neu yn ei ddarllain pan fyddo'r achos. \* \* \* Ac nid oes gennyf fi ond hyn i ddywedyd wrthit, i gloi ar y cwbl. Edrych a ddichon y llyfr hwn roddi meddyginiaeth i'th enaid, neu lyfrau eraill o'i gyfelyb: megis y llyfr odiaethol a gyfenwir *Lhwyr Hyffordd i'r Nefoedd* o gyfieithiad y llen dyscedig, am hanwyl athro Mr. Ro. lloyd Ficar y waen, neu bregeth am edifeirwch o waith yr vnryhw gymreugydd rhagorol: ac oni ddichon hynny beri i ti wellhau dy fuchedd, ni byddit ti ddim gwell *pe cyfodas vn oddiworth y meirw* i'th athrawiaethu, eithr os cei di ddaioni oddiworth y llyfr hwn, meddwl yn dy weddi am vn a fydd yn rhwym i wneuthur i'w iaith a'i wlad y gwasanaeth a'r vfydd-dod gorau ar a fedro, tra byddo ei enw *Row. Vaughan*."

Gan fod llawer wedi ei ddywedyd o'r blaen yn y "Traethodydd" am Rowland Vaughan, ni raid ond ychwanegu ychydig esiamplau o'i weithiau eraill, pan ddelom hyd atynt.

2. "BIBL CYSEGR-LAN, sef yr HEN DESTAMENT a'r Newydd. Printiedig yn LLVNDAIN, gan Robert Barker, Printiwr i Ardderchoccaf fawrhydi y Brenin: a chan Assignes JOHN BILL. Anno Dom. 1630."

Y mae yn ofidus meddwl i'r Cymry fod uwchlaw *deng mlynedd a thri-ugain* ar ol sefydliad Protestaniaeth gan y frenines Elizabeth, ac agos i *gan' mlynedd* ar ol gwahanu Prydain oddiworth Eglwys Rhufain, nad oedd dim Biblau yn Nghymru, ond yn yr Eglwysi, y capeli plwyfol, a'r mynachlogydd esgobawl. Nid oedd darpariaeth wedi ei wneyd i'r werin hyd yr argraffiad hwn, fel pe na buasai ganddynt hwy ddim i'w wneyd â gair Dduw ond ei wrando unwaith yn yr wythnos. Yr oedd yr argraffiadau o'r blaen yn unplyg, ac felly yn ddrud, yn fawr, yn drwm, ac anghyflëus i'w trin, hyd yn nod yn yr Eglwysi. Yr oedd, gan hyny, eisieu Biblau bychain, hwylus, at wasanaeth teuluaidd a chyffredin. Yr oedd yr argraffiad hwn yn wythplyg, neu bedwar-plyg bychan o'r hen ddull.

Yr anrhydedd o ddarparu Bibl fel hyn, y waith gyntaf, i wasanaeth trigolion Cymry, sydd ddyledus i hiliogaeth y Cymry, y rhai oeddynt y pryd hyny yn henuriaid dinas Llundain, sef Rowland Heylyn, a Syr Thomas Myddleton. Heylyn oedd un o dylwyth Pentre Heylyn, yn sir Drefaldwyn. Am Syr Thomas—mab ydoedd i Richard Myddleton, o Waenynog, ger Dinbych, a'r hwn oedd wedi meddiannu Castell y Waen, trwy bryniad, a brawd i Syr Hugh Myddleton, y mwnwr, yr hwn a ddygodd yr Afon Newydd o Ware i Lundain, a Chadben William Myddleton, yr hwn a drôdd y Salmu ar gân.

1631.

"Carwr y Cymro."

1632.

1. "Dictionarium Britannico-latinum, & Latino-Britannicum. Accesserunt Adagia Britannica. Llundain." Unplyg.

Dywedir mai gwaith un Dr. Tomas ab Wiliam, o Drefryw, yn sir Gaernarfon, ydoedd hwn, ac ei fod wedi ei ysgrifenu tua'r flwyddyn 1600, a'i adael ar ei ol mewn ysgrif a ddaeth i law Dr. John Davies, o Fallwyd, yr

hwn, wedi edrych drosto a gwneyd rhai gwelliadau, a'i cyhoeddodd gydag ailargraffiad o'i waith ei hun: gwel 1621. Y mae yn gydrwymedig a'r "Geirlyfr" dyblig uchod restru o enwau awdwyr a beirdd, ynghyd â hysbysiaeth am yr amser yr oeddynt yn oesi; ac hefyd gasgliad helaeth o ddiarebion Cymreig, ac o enwau llysiâu, &c. Oddiwrth lythyr Lladinaidd a ysgrifenyd gan Dr. Davies at un Syr Simonds D' Ewes, ymddengys ddarfod i'r Doctor ysgrifenu deongliad o'r diarebion hyny; a dywedir fod yr ysgrif yn nghadw yn y *British Museum*, Llundain, hyd heddyw, ac yn gwneuthur casglfa dra helaeth. Mae y llythyr crybwylledig wedi ei amseru o Fallwyd, Chwefror 2il, 1640; ac yn dechreu fel y canlyn:—

"Pan ddaeth eich llythyr i'm llaw, nid oedd genyf gyfieithiad o'r Diarebion Prydeinaidd o'r fath a ddeisyfych. Ond cyn gynted ag y derbyniais ef, dechreuais ar y gorchwyl o'u deongli; ac yr wyf yma yn anfon i chwi ychydig lëni, a thrwy ganiatâd Duw, mi a yraf i chwi y gweddill ar fyrder."

Y mae efe yn myned ymlaen i ddangos natur a threfn y diarebion hyn, a'u tebygolrwydd, ar amryw ystyriaethau, i ddiarebion cenedloedd eraill. Mewn perthynas i'w lafur yn nghyfansoddiad y "Geirlyfr" hwn, y mae efe yn ei ragymadrodd yn dywedyd—

"Fel y byddai i'r gwaith hwn fod yn fwy perffaith a chyflawn, myfi a ddarllenais agos yr holl lyfrau sydd yn yr iaith Gymraeg, yn gystal a rhai o waith llaw neu ysgrifenedig, a'r rhai argraphedig; yn enwedig gwaith y Beirdd a'r Prydyddion, y rhai ydynt yn mhob iaith, agos, yn sefydlu ystyr geiriau, ac yn fynych yn rhoddi iddynt arwyddocâd neillduol: hyn a fu er mawr les a budd i mi i'r dyben o sefydlu ystyr geiriau, a'u 'scrifenu yn iawn. Ond er fod gwaith y Beirdd o bob gwlad yn dywyll, ac yn anhawdd eu hamgyffred, eto nid ydwyf yn meddwl fod 'sgrifeniadau' r Beirdd mewn un iaith yn fwy tywyll a dyrus, ac anealladwy, nag yn y Frutaniaeth. O herwydd paham, poenus a thrafferthus iawn a fu'r gwaith o'u darllen hwynt i mi, o achos fy mod wedi methu a gweled un dyn ag oedd yn eu deall yn y mesur lleiaf, fel y byddai i mi ddadgan fy meddyliau yn eu cylch wrtho, ac fel y cydymgyngorem ynghyd o'u plegyd."

Yn un o'i lythyrâu, efe a sylwa ddarfod iddo dreulio oriau hamdden ynghylch deugain o flyneddau i gyflawni y gorchwyl hwn.

Mewn perthynas i waith y Doethor Thomas Williams, y mae efe yn sylwi fel y canlyn:—

"Na fydded i ti feddwl na chymerais i ddim ychwaneg o drafferth ynghylch Geirlyfr Lladin a Chymraeg y Dr. T. Williams na'i ailysgrifenu allan o'i 'sgriflenlaw ef ei hun; ond gwybydd fy mod i wedi chwanegu amryw eiriau Cymreig, i'r dyben o eglurhau yn fwy cyflawn ystyr ac arwyddocâd y geiriau Lladin. Yr ydwyf hefyd wedi ei ddiwygio o'r aneirif feiau a'r gwallau hyny y rhai oeddynt yn dra aml yn rhedeg trwy gorff yr holl lyfr; ac fel y byddai yn fwy perffaith, ac yr un pryd yn llai ei faintioli, mi a adewais allan yr holl eiriau Hebraeg a Groeg, ac amryw eraill ag oeddynt ynddo, gan fy mod i yn barnu y geill y rhai hyny ag sy'n ewyllysio gwybod y cyfryw eiriau, eu chwilio hwy allan yn ngeirlyfrau y rhagdywededig ieithoedd. \* \* \* Mewn byr eiriau, yr ydwyf wedi cyfnewid, adferyd, difeio, a iachâu, pa le bynag yr oedd eisieu llaw'r meddyg; yr hyn sydd wedi rhoddi gwedd newydd ac arall oddiwrth yr un gysefin, fel ag y gellir ei alw yr awr hon yn waith i mi fy hun, yn hytrach na gorchwyl y Meddyg Thomas Williams, er fy mod wedi sylfaenu hwn megys ar hwnw," &c. &c.

Y mae llythyr rhagymadroddol y Dr. Davies oll mewn cyfieithiad Cymreig da yn "Y Cylchgrawn; neu Drysorfa gwybodaeth," am y flwyddyn 1796," ac oni buasai meithder, buasem yn rhoddi esiamplau helaethach o hono. Cafodd y rhan olaf, sef Cymraeg a Lladin, ei ailgyhoeddi yn



Amsterdam, yn Holland, yn llyfr pedwarplyg, yn 1654, gan wr o'r enw Boxhorn, oddiar ei grediniaeth fod llawer o'r geiriau *Dutch* yn tarddu o wreiddiolaeth Celtaeg, ac i'r dyben, pe cawsai hoedl, o wneyd ymofyniad pellach i'r mater hwnw, a hynafiaethau derwyddol eraill. Gadawyd allan y cyfeiriadau Hebrëig, &c., yn yr argraffiad hwnw. Yr oedd awdur gwreiddiol y rhan olaf hwn o'r "Geirlyfr" yn arfer cael ei alw yn Syr Thomas Williams; canys byddid yn yr oesoedd gynt yn galw dysgedigion felly. Y mae yn y "*Cambrian Register*"<sup>1</sup> lythyrau rhwng y Dr. Davies a Syr John Wynne, o Wydyr, a'i fab, Mr. Owen Wynne, yn rhoddi cryn hanes am ymdrafodiaeth Dr. Davies â'r geirlyfrau hyn. Y mae y gwaith wedi ei gyflwyno i Siarl II., y pryd hyny yn "Vchel Allvocaf Dywysog Cymbrû," ys dywed Row. Vaughan; ond nid ydys yn deall iddo erioed dderbyn dim budd oddiwrth y gwarogaeth hwn i'r llys.<sup>2</sup>

Gan nad oes, o bosibl, un o gant o ddarllenwyr y "Traethodydd" wedi gwelod yr hen "Eirlyfr" hwn, byddai yn briodol i ni derfynu yr erthygl hon âg esiampl o hono, yr hyn, er mwyn arbed lle, a roddwn yn ddwy golofn; y gyntaf o'r Cymraeg a'r Lladin, a'r ail o'r Lladin a'r Cymraeg.

D.S. Wrth *Arm.* y deallir *Armorica*, neu Llydaw.

- |                                                                                               |                                                                                               |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------|
| Dwbl, <i>Dublex</i> . Gr. διπλῆς. <i>Item duplicatum.</i>                                     | Muccinium, ii. <i>Lliain woyneb, llawlian.</i>                                                |
| Dwbled, <i>Diplois</i> . <i>Habet</i> D. G.                                                   | Muccus, vid Mucus.                                                                            |
| Dwbler, <i>Patina</i> , <i>discus</i> : Ζυβλιον.                                              | Müceo, ère, & Mucesco, ère, <i>Bod yn fudr, myned yn ffront, llwydo, egru, methu, dïcyno.</i> |
| Dwfn, <i>Profundus</i> . <i>Arm.</i> Doun. Gr. δῖναι, <i>aquarum vortices, Σύζοc, fundum.</i> | Mücius, a, um: <i>Budr, llwyd, wedi llwydo, mw's.</i>                                         |
| Dynder, <i>Profunditas</i> .                                                                  | Mücor, ôris, <i>Brynti, llwydni, mallder.</i>                                                 |
| Dwfr, <i>Aqua, unda, lymphæ, latex</i> . <i>Arm.</i>                                          | Mücösus, a, um, <i>Llysnafeddog, llawon llysnafedd fel y daw o'r trwyn.</i>                   |
| Dour. Gr. ἰδῶρ.                                                                               | Mucro, ônis, <i>Blaen arf, aïflaen arf, blaenfeindedd llysiuyn neu'r cyffelyb. Cleddyf.</i>   |
| Dyfrgi, <i>Lutra</i> , q. d. <i>Canis aquaticus.</i>                                          | Mucronätus, a, um, <i>Blaenllym, a blaen iddo.</i>                                            |
| *Dyfrgymmlawdd, vid. Blawdd.                                                                  | Mücus, i, <i>Llysnafedd y ffroenau, budreddi'r trwyn.</i>                                     |
| Dyfrdwy, <i>Dea, ß.</i>                                                                       | Mügil, ilia, <i>Rhyw forbysg, penfras.</i>                                                    |
| Dyfriar, <i>Corvus aquaticus, fulix, fulica, larus</i> . <i>Arm.</i> Douryar.                 | Muginor, âris, <i>Murmur, manson, ofera, myned yn ara 'ddifrys ynghylch peth.</i>             |
| Dyfrllyd, <i>Aquosus</i> .                                                                    | Mügio, ire, <i>Brefu fel cidion, breferad, bugunad, crochleisio, gwichleisio, erthychain.</i> |
| Dyfrlle, <i>Alveus fluvij, locus aquæ-fluentis proprius.</i>                                  | Mulcêdo, inis, <i>Llawech, gorllusfniad.</i>                                                  |
| Dwl, Hebes, obtusus, vid an hinc. Afr-ddwl. Meddwl rhy ddwl a ddaliaf. <i>I. Deul.</i>        |                                                                                               |
| Dwnn, <i>Subfuscus, aquilus. habet Gwalch.</i>                                                |                                                                                               |

Digonedd hyn yna er dangos y fath yw, i'r rhai na's gwelsant erioed. Y mae "*Botanologium*," neu lysiulelyfr helaeth, rhwng y ddau ddsbarth, yn Gymraeg a Lladin.

2 "Llyfr y Resolution; yr hwn sydd yn dysgu i ni bawb wneuthur ein goren, a rhoi cwbl o'n bryd a'n meddwl ar fod yn wir Gristionogion, hyny ydyw ar ymadael â'n drwg fuchedd, a throi ar ddaioni a duwioldeb; wedi ei gyfieithu

<sup>1</sup> Cyf. ii., tudal. 473.

<sup>2</sup> "*Cambrian Plutarch*," "Gwladgarwr," 1837; "Cylchgrawn," 1796; a "*Williams' Dictionary of Eminent Welshmen*."

yn Gymraeg y gan J. D. er lles ei blwyfolion ; a'i brintio yn Llundain yn nhŷ John Beale, tros yr un J. D. 1632."

Dywed argraffiadau eraill—o ba rai y daeth tri ar ol hwn, a'r olaf yn 1802, ar draul y gwladgarol Owain Myfyr—mai Dr. Davies yw y J. D. uchod. Dywedir mai gwaith un Robert Parsons oedd y llyfr, yr hwn oedd yn "Jesuad," neu yn un o'r Jesuitiaid, ac felly yn Babydd; ond nid ydys wedi gweled dim yn y llyfr yn tueddu at hynodion Eglwys Rhufain. Y mae yn niwedd y llyfr hwn esiampl o Weddi yr Arglwydd yn ieithoedd Llydaw, a hen iaith Cernyw, gyda deongliad o'r unrhyw yn Gymraeg, a'r Credo yn yr un ieithoedd, ond heb y deongliad. Buasen yn rhoddi yr esiamplau hyn, oni buasai fod y llyfr hwn wedi ei gyhoeddi yn y ganrif bresennol, a bod yr esiamplau hyn wedi eu cyhoeddi rai gweithiau wed'yn yn ein cyhoeddiadau cyfnodol. Y mae yn briodol sylwi fod enwad y llyfr wedi ei droi yn yr argraffiad diweddfaf, o fod yn "Llyfr y Resolution," yn "Dyhewyd y Cristion," a'r geiriau blaenaf ar ddalen flaenorol i'r *prif*-wyneb-ddalen.

1632.

"Yr Hen Lyfr Plygain a'r Gwir Gatechism," &c. Llundain, 24plyg.

.1634.

"Llyfr Gweddi Cyffredin. O gyfieithiad W. Salesbury, wedi ei adgyweirio."

Yr oedd hwn yn llyfr pedwarplyg, ac wedi ei argraffu yn Llundain, meddai M. Williams.

1639.

"De Primordiis Ecclesiarum Britannicarum. Dublin Printed, 1639."

Gwaith canmoladwy yr Archesgob Usher ydyw, yn cynnwys hynafiaeth yr Eglwys Frytanaidd, o'i dechreuad hyd ddiwedd y seithfed ganrif. Oblegid erledigaeth yn yr Iwerddon, daeth yr archesgob drosodd i Gymru, a chafodd nodded gan y Syr Edward Stradling, oedd y pryd hyn yn byw yn Nghastell St. Donats. Yr oedd y llyfrfa gynnwysfawr oedd yno y pryd hyn, a chwaeth goethedig ei noddwr, yn ddiâu yn llawer o fantais i Usher yn nghyfansoddiad ei hanesiaeth ragorol. Ond y mae y llyfrau hyn oll wedi eu chwalu yn awr, megys gyda phedwar gwynt y nefoedd, yn chwalfa yr etifeddiaethau, a dyddymiant y teulu, pan fu farw Syr Thomas Stradling, yn Ffrainc, yn 1738, yr hwn oedd y trydydd ar hugain mewn llinell o ddisgyniad uniongyrchol o Syr William Esterling, i'r hwn y rhoddwyd castell a maenoriaeth St. Donats, yn ngwrthryfel Rhys ab Tewdwr, tua'r flwyddyn 1090.

Yr ydys yn tybied fod hyn yna yn eithaf digon yn bresennol ; ac yma yr ydys yn terfynu ein hail lith ar "Lyfryddiaeth y Cymry." Yr ydys yn diweddu yn awr yn y fan hon, yn benaf, am fod y llyfrau nesaf a ddaw dan sylw yn gyfres o rai perthynol i'w gilydd, ac yn wahanol i'r rhai a roddwyd hyd yn hyn; a'r hanes cysylltiedig â hwy yn gwneyd cyfnod newydd ar fasnach, gwladyddiaeth, a chrefydd. Ychydig iawn oedd eto o lyfrau cyfaddas er addysg i'r cyffredin yn ein gwlad a'n hiaith. Yr oedd y llyfrau goreu, ac o gryn faint, yn fawrion ac uchel eu prisiau, yr hyn oedd yn eu caethiwo i'r mawrion a'r dysgedigion yn unig; ac oblegid yr un rheswm y cyhoeddid hwynt yn iaith y dysgedigion, fel y byddent yn wasanaethgar i ddysgedigion y Cyfandir yn gystal a'r cyfryw yn y wlad hon. Dyma y rheswm hefyd eu bod mor anhawdd cael gafael ynddynt,

oddieithr yn yr hen lyfrfaeod; a llawer o'r rhai hyny sydd wedi eu ohwalu yn chwalfa y teuluoedd yn amser rhyfeloedd, a thrwy ymgyfathrach priodasol. Tybygem y byddai yn orchwyl canmoladwy ail gyhoeddi rhai o hon- ynt, yr hyn a ellid ei wneyd yn hawdd, pe byddai chwaeth wladgarol yn moneddigion ein gwlad. Pe byddent mor awyddus a pharod i gefnogi y cyfryw anturiaethau ag ydynt i gefnogi telyn-ganu mewn eisteddfodau, deuai y gorchwyl i ben yn eithaf rhwydd, yr hyn, yn rhyb yr ysgrifenydd, a fyddai yn llawer buddiolach i'n cenedl, ac yn anrhydeddusach iddynt hwythau.

---

## SALMYDDIAETH GYMREIG.

- I. [*Psalmes y Brenhinol Brophwyd Dafydd, gwedi ei cynghanedhu mewn mesurau Cymreig.* Gan W. MIDDLETON, a H. SALESBURY. 4plyg. Llundain. 1603.]
- II. [*Psalmu Dafydd; wedi eu cyfansoddi ar amryniol fesurau cerdd.* Gan y Cadben WILLIAM MIDDLETON, yr hwn a'u gorphenodd yn yr India Orllewinol, ar y 24ain o Ionawr, 1595, ac a gyhoeddwyd wedi marwolaeth yr awdwr, gan THOMAS SALISBURY, yn mlwyddyn ein Harglwydd M,DC,III. Ail argraffiad. Llanfair-Caereinion, 1827.]

BETH ydoedd ansawdd caniadaeth grefyddol ymhlith ein hynafiaid gynt, yn mhrif oesoedd Cristionogaeth, mae yn awr yn anhawdd dyfalu. Nid oes nifer digonol o gofion ar gael ymhlith gweddillion yr hen amseroedd, i'n galluogi i fwrto barn benderfynol ar y mater. Cydnabyddir y rhwym- edigaeth i foli Duw ar gân yn ysgrifeniadau yr hen feirdd, megys y dywedai Taliesin:—

“Nid cerddor celfydd,  
Ni molwy Dafydd;  
Nid cywir ceiniad,  
Ni molwy y Tad.”

Ac am genedl y Cymry y rhagddywedai,

“Eu Nêr a folant,  
Eu hiaith a gadwant,  
Eu tir a gollant,  
Ond Gwyllt *Walia.*”

Ond a oedd ganddynt farddoniaeth grefyddol briodol, yn cynnwys “salm- au, a hymnau, ac odlau ysbrydol,” at wasanaeth y cysegr, sydd fwy nag a allwn ei ddywedyd.

Wrth graffu ar farddoniaeth y cynfeirdd, ymddengys fod eu dullwedd yn anfanteisiol i ganiadaeth gynnulleidfaol. Mae hen gyfieithiad eto ar gael o ryw nifer o'r Salmau, gan Dafydd Ddu Hiraddug, oedd yn byw tua'r flwyddyn 1330, ac yn berson Llanfair-Dyffryn-Clwyd. Pabyddiaeth oedd yn ei rhwysg y pryd hyny; a pha fodd yr oedd efe yn meiddio troi un ran o air y bywyd i'r iaith gyffredin, nis gwyddom. Fe allai nad oedd yn ei fwiad ei wneuthur yn gyhoeddus, ond ei arferyd ymhlith ychydig gyfeillion, ac felly nad oedd yn rhoi ei hun yn agored i gymaint perygl. Pa fodd bynag am hyny, oni buasai coelgrefydd yr amseroedd, a chaethder y farddoniaeth a ystyrir yn gyfreithlawn gan y beirdd, gellid tybied ei fod ef, o ran dawn ac athrylith, yn alluog i gyfansoddi yr hyn a fuasai yn

fuddiol. Cymerer y llinellau canlynol o ddechreu *Salm* cxlviii. yn ddangosiad :—

“Molwch yr Arglwydd o'r nefoedd,  
Molwch ef uchelion leoedd,  
Molwch ef ei holl engylion,  
Molwch ef ei nerthoedd gleinion.”

Ond yr oedd llyfetheiriau y grefydd Babaidd yn caethiwo yr awen, fel nas meiddiai ehedeg yn ei helpen naturiol. Pa beth bynag a ellir ei ddywedyd am Rufain Babaidd yn noddi y celfyddydau, ni bu hi erioed yn feithringar i brydyddiaeth. Nid yw coel-grefydd yn fanteisiol i awenyddiaeth. Nid oes ganddi ymborth i'r meddwl ;—mae yn ei lwytho â sothach, ac yn ei wanbau â chwedlau. Yn brawf o hyn, dyma gân i Fair Forwyn allan o hen lyfr Cymraeg argraffedig :—

“Henffych well Frenines nefoedd,  
Henffych Arglwyddes 'r Angelion,  
Mawl fo i'r gwreiddyn, mawl i'r porth,  
Trwy 'r hwn 'daeth goleuni 'ddynion.

Llawenha, Ogoneddus ferch,  
Vwch ben oll y Forwyn lana,  
Bydd wych yr hon wyt deg anfeidrol,  
A throsom at Grist gweddia.

*Vers.*—Teilynga foliannu o honof  
di, O Forwyn sacredic.

*Resp.*—Dyro imi nerth yn erbyn  
dy elynion.

Cynnwysa yr hen lyfr crybwylledig lawer o'r cyffelyb bethau ; a gwelsom mewn llyfrau Pabyddol diweddar, yn yr iaith Gymraeg, gathlau i Mair yn dwyn yn union yr un ddelw. Y casgliad naturiol oddiwrth hyn yw, nad oedd gan y Cymry farddoniaeth grefyddol o ddim gwerth yn eu hiaith eu hunain, er pan y daethai Pabyddiaeth i ormesu arnynt, pa beth bynag a allasai fod ganddynt yn flaenorol i hyny : ac, o ran Rhufain, felly y byddai eto.

Yn amser y Diwygiad Protestanaidd, pryd yr oedd gwŷr dysgedig yn mysg cenedloedd eraill, megys yr Ellmyn, y Ffrancod, y Seison, a'r Ysgotiaid, yn troi y Salmau ar gân, ac yn cyfansoddi emynau ysgrhythrol, yn eu gwahanol a'u priod-ieithoedd, at wasanaeth crefydd, yr oedd ein tadau ninnau yn teimlo eu hanghen, dybygid, ond am hir amser nid oedd fawr debyg iddo gael ei ddiwallu.

Y cyntaf a ymosododd o ddirif ar y gorchwyl pwysig o gyfieithu y “Salmau ar Fesur Cerdd,” yn Gymraeg, ydoedd Gwilym Ganoldref, wrth ei enw barddawl, sef y Cadben William Middleton, swyddog yn y llynges freninol. Mae yn rhaid fod sefyllfa yr Eglwys yn isel pan nad oedd yn mysg ei gweinidogion un duwinydd digon cymhwys o ran dysg a duwioldeb i gyfansoddi caniadau crefyddol addas i'w hamgylchiadau ; na neb ond swyddog milwraidd a deimlai ar ei feddwl i ymgymeryd â'r gwaith. Pa mor ddiffygiol bynag oedd y cyflawniad o ateb y dyben er adeiladaeth gyffredinol, gan fod yr awdur yn amcanu yn dda, mae ei goffadwriaeth yn haeddiannol o sylw. Fe allai mai bai yr oes, yn hytrach na'r awdur, ydoedd na fuasai y gwaith yn fwy buddiol.

Hanai Gwilym Ganoldref<sup>1</sup> o hiliogaeth Rhirid Flaidd, un o bymtheg

<sup>1</sup> Gwel y “Gwyllydydd” am 1827 : tudal. 83—86, a 65—67.

llwyth Gwynedd. Y trydydd mab ydoedd i Richard Miltwn, ceidwad castell Dinbych, o'i wraig Jane; ac yr oedd yn un o un ar bymtheg o blant. Bu i dri o'r nifer mawr hwn ragori ar y lleill, ac yr oedd efe yn un o'r tri hyny. Y pedwerydd mab ydoedd Syr Thomas Middleton; wedi bod yn fasnachydd llwyddiannus yn Llundain, a fu yn sirydd dan y frenines Elizabeth, ac yn arglwydd faer yn nheyrnasiad Iago I. Efe a brynodd Gastell y Waen, yn swydd Dinbych, ac ydoedd sylfaenydd y gangen hðno o'r teulu, sef Miltwniaid Castell y Waen. Brawd arall, y chweched mab, oedd Syr Huw Middleton, Barwnig, yr hwn a ddygodd yr Afon Newydd i Llundain, er diwallu y ddinas â dwfr isachus allan o ffynnonau deugain milltir o bell-der;—gorchestwaith er lles a chysur i filiynau am oesoedd, ac a bår fod ei enw mewn teilwng goffadwriaeth.

Ac ni bu yntau, Gwilym Miltwn, heb ei ragoriaethau. Cafodd ei ddysg yn mhrifysgol Rhydychain, gyda bwriad i'w ddwyn i fyny i ryw swydd gartrefol, yn y gyfraith neu yn yr Eglwys; ond fel y dywedodd y bardd am Fadog ab Owain Gwynedd,—

“Ni fynai dir, fwyned oedd,  
Na da mawr, ond y moroedd”—

felly yntau, a aeth yn ieuanc i wasanaethu yn y fyddin, ac oddiyno i'r llynges freninol. Yr oedd efe yn gadben yn y llynges yn y rhyfel rhwng Lloegr ac Ysbaen, yn amser y frenines Elizabeth; ac ymddengys ei fod yn ddoeth yn gystal ag yn wrol.

Er hyny, yn ei gymeriad llényddol y mae a fynom ni ág ef, ac yn benaf fel cyfansoddydd y Salmu ar gynghanedd Gymreig. Anrhydedd ambell un yw bod yn “fardd ac offeiriad;” ond anrhydedd Gwilym Ganoldref oedd bod yn filwr a bardd. Y Dr. Ioan Dafydd Rhys, yn ei “Ramadeg Cerdd Dafod,” a ddyry barch mawr iddo, gan ei alw, “Fy hen gyfaill car-edig, y milwr calonocaf ar fôr ac ar dir, a'r mwyaf cyfarwydd mewn barddoniaeth Gymraeg.”

Wrth fod gramadeg y dysgawdwr, J. D. Rhys, a gyhoeddwyd yn Llundain yn y flwyddyn 1592, gan mwyaf yn Lladin, yn y flwyddyn gan-lynol, er mwyn addysgu y Cymry yn eu hiaith eu hunain, y Cadben Mil-twn hefyd a gyhoeddodd ramadeg barddonol, dan yr enw “Llyfr Bardd-oniaeth;” yn yr hwn yr eglurir “pedwar perthynasau cerdd, sef cymhar-iaid, odl, cynghanedd, a mesur.” Fel yr eiddo ei gyfaill, y Dr. J. D. Rhys, y mae yn gwbl yn ol dosbarth gaeth Caerfyddin. Adargraffwyd y gwaith hwn amryw weithiau, a dyma ddeddflyfr y mesurau caethion hyd heddyw.

Ar y mesurau hyn, ynghyd â rhyw nifer o rai mwy hynafiaethol, y cyfansoddodd efe Lyfr y Salmu yn Gymraeg, yr hwn a gyhoeddwyd gan Thomas Salisbury, yn 1603, ar ol marwolaeth yr awdur.

“Yr oedd Edmund Prys,” meddai y dysgedig Garmon, “yn offeiriad sefydlog, wedi cyfannedu y parth hwyaf o'i hir oes yn nhawelwch Maen-twrog; nid oedd gan hyny gymaint rhyfeddod iddo ef gyfansoddi Salmu Dafydd ar ddau neu dri o fesurau rhyddion, ag oedd i Wilym Ganoldref, yn nghanol prysurdeb a bloddest byddin ryfelawg, neu ymhlith tân a mwg a tharandrwt brwydrau y weilgi, gyfansoddi yr holl Salmu hyny ar y caethion fesurau, yn bencerddaidd ac yn orchestol. Diau ei fod yn un o ryfeddodau yr oes, ac yn addurn teleidwïw yn nodweddiad rhyfelwr. Pa bryd y dechreuodd ar ei faith orchwyl, ni wyddys; ond tystiodd â'i law ei hun, ar ddiwedd y Salm olaf, iddo ei orphen y 24ain o Ionawr, 1955,

mewn ynysig yn yr India Orllewinol." "Tra y treuliodd yr awdwr cof-wiw ei fywyd yn ngwasanaeth y frenines, yn mhlaid y Diwygiad Protestanaidd, ac yn erbyn ymgyrchiadau y Pabyddion, yr oedd ei awen, fel yr eiddo pŕ ganiedydd Israel, yn myfyrio yn neddf ei Dduw. Yr oedd deddfau yr Arglwydd yn gân iddo yn nhŷ ei bererindod. Achubai flawn y cyffdydd, ei lygaid a achubent flawn gwyliadwriaethau y nos, yn y cylchau llosg, ac ar y weilgi chwyddedig, i fyfyrio ac i farddoni ar destunau uchelryw."

Mae yr un ysgrifenydd hyglod yn sylwi ymhellach, "Pe buasai yr awdwr byw i gyhoeddi ei Psalmu ei hun, y mae sail i goelio yr ymddangosasant mewn amgenach diwyg, o barth geiriau anghyfaith; ac fe allai y buasai i rai Psalmu gael eu cynghaneddu ar fesurau *Dyri*, ac am hyny yn fwy addas a defnyddiol i'w canu mewn addoliad crefyddol."—*Rhagymadrodd i'r ailargrafiad.*

Annheg fyddai beirniadu yn fanwl ar waith fel hwn, a gwblhawyd dan y fath anteision; onide hawdd fyddai dangos anghreiffitiau lawer o eiriau ac ymadroddion anmhrïodol i ystyr y gair dwyfol yn cael eu harferyd, a lliosogrwydd o eiriau llanw, yn cael eu dwyn i mewn yn unig er mwyn y gynghanedd. Yn lle hyny, dodir ger bron rai dyfyniadau o'r rhanau ystythaf o hono, ynghyd â chynlluniau o'r hen fesurau, er mwyn dangos natur y gwaith, a rhai o'i hynodion.

## ENGLYN UNODL UNION.

"Pob ryw nerth, rwyddwerth, a roddwyd—ein Tad  
Genyt ti dderbyniwyd;  
Arnat gwyliaf, Naf in' wyd,  
I'n tir wedi, 'n tŵr ydwyd." *Salm lix. 9.*

AWDL GWYDD O'R HEN GANIAD. *Fal cedar, bren ysplenydd.*  
"Duw uwch duwiau, gorau gwir, *Ar fron Lebanon y bydd."*  
E genir ei ogonedd: *Salm xcii. 1, 8, 13.*  
Pery byth, pur yw heb wâd,  
Drwy gariad ei drugaredd." *Salm cxxxvi. 2.*

## ENGLYN MILWR.

CYWYDD DEUAIR HIRION.  
"Melus yw canu moliant,  
Moli 'r Arglwydd yw swydd sant.  
Mae 'n uchel dy wehelyth,  
Yn oruchaf, benaf, byth.  
Y cyfiawn doeth, cofion da,  
Fawl duwiau!, a fiodeua: *Salm cxix. 169, 174.*

## ENGLYN PENDEWRN.

"Clodforwch, molwch Dduw mad—dywedwch  
Mai da ydyw 'n wastad;  
Can's pery 'n faith, hoewaith hedd,  
Ei drugaredd drwy gariad." *Salm cvi. 1.*

## UN O'R OFER FESURAU, "ENGLYN CILDWRN," EI GELWIR.

"Duw, brysis, iachâ fi 'n chwytrn—o'm penyid;  
Y mae poenau cedyrn  
I'm heagytrn." *Salm vi. 2.*

## GORCHEST Y BEIRDD.

"I'r drwg ward rydd,  
Oer wâg a rydd,  
A dwg y dydd dig i'w dal." *Salm vii. 11.* *Salm v. 4.*

## GWAWDODYN BYR.

"Pâr d'ofni, Geli, i wŷr gwaelion:  
 Dychrynant, crynant, y rhai criniau:  
 Gwybyddant, gwelant gwaelion—nad ydynt,  
 Ammau yw 'r helynt, ond marwollon." *Salm ix. 20.*

Ynghylch *pymtheg* o bedwar mesur ar hugain Dafydd ab Edmund, a elwir Dosbarth Caerfyrddin, a ddefnyddiodd yr awdur ar y Salmiau, ac ynghylch *tri ar ddeg* o rai eraill, a eilw efe yn *ofer fesurau*; ac ni allasid doddi arnynt enw cymhwysach. Mae ei gynghaneddion yn fynych yn wael ac anamlwg; ac am aceniad reolaidd, ni wiw braidd edrych am dani. Er hyny, mae y dull yn gaeth ac afrwydd yn gyffredinol, a'r caethder hwnw yn cael ei chwaneu rai gweithiau drwy gadw at yr un brifodl drwy y Salm i gyd; megys yn *Salm ix, xx, xlvii, xlviij, lxiii, &c.*; yr hyn, er ei fod yn mwyhau yr orchest, sydd yn peri fod y gân yn unfurf a diflas, ac nad yw yr orchest o ddim gwerth. Eto, nis dywedwn nad yw yn rhagori, ie gryn lawer hefyd, ac ystyried yr anfanteision y llafuriai danynt, ar rai pethau a gyhoeddir yn ein dyddiau ni, dan enw barddoniaeth, ac fel cynnyrch eisteddfodau.

Wrth fwrw golwg dros y gwaith, nis gallwn lai na rhyfeddu wrth y dylanwad y mae hen arfer yn ei gael ar blant dynion. Heb y cyfryw ddylanwad, meddyliem na fuasai ddichonadwy i'r mesurau hyn gael eu hystyried, drwy gynnifer o oesoedd, a hyny gan y doeth a'r dysgedig, fel yr unig furf o farddoniaeth gyfreithlawn yn yr iaith Gymraeg; ac o ganlyniad, nad oedd yr hyn a gyfansoddid ar fesur rhydd, er cystled y byddai, ddim amgen na rhigwm, ac felly yn annheilwng o sylw; a bod defnyddio mesurau o'r fath yn iselhad ar gymeriad bardd celfydd. Ni fu erioed yn-fytach ffoledd, na hurtrwydd mwy amryfus, yn gysylltiedig â'r gelfyddyd farddonol. Yn ein barn ni, nid yw y rhan fwyaf o'r farddoniaeth hon ond o ychydig iawn o adeiladaeth. Nid ydym yn gwadu nad oes cywreinrwydd yn lluniad amryw o'r mesurau caethion, ac nas gall bardd o athrylith dda drechu i ryw raddau yr anhawsdra sydd ynddynt, fel ag i roddi synwyr a gradd o fywiogrwydd a thlynsni, yn yr hyn a ysgrifeno arnynt; er yn ddiu nid i'r un graddau a phe defnyddiasai ddull rhyddach ac ystwythach, y fath a fyddai ddealladwy i ddarllenwyr a gwrandawyr cyffredin, y rhai a deimlant rymusder a phrydferthwech mewn canyddiaeth o'r fath yma, pryd nas gallant mewn barddoniaeth gaeth, na chanfod rhagoriaeth lle y byddo, nac ychwaith ddarllen y fath ganiad er eu haddysg eu hunain na neb arall. Mae y cyfryw gyfansoddiadau gan mwyaf—o herwydd heneidd-dra eu dull, a'u bod wedi eu britho â geiriau ansathredig a gwneuthuredig, diweddar, anhysain, a diystyr, nas buont erioed, ac nas byddant byth yn Gymraeg—y lliaws o eiriau llanw a lusgir iddynt i gyflawni y cynghaneddion, ac anystwythdra o ddiffyg aceniad rheolaidd,—y maent, meddwn, yn ddiflas dros ben, ac mor sych a mynyddoedd Gilboa, heb na gwllith na gwllaw arnynt. Y cywreinrwydd sydd ynddynt yw eu caethder, a'r hyn a'u gwna yn anghymhwys i farddoniaeth bwysig a thestunau difrifol. Un o addurniadau ymadrodd yw cynghanedd, ac ni ddylai yr arferiad o hono wrth drin testunau pwysig fod ond damweiniol. Mae rhedeg ar ol cynghanedd ar draws bobpeth, ac aberthu synwyr a phob addurn arall er ei mwyn, yn ei gwneuthur y prif beth yn y ganyddiaeth, gan osod y testun yn wasanaethgar i'r gynghanedd, ac nid y gynghanedd i'r testun; a pheth yw hyn ond

gwneuthur gormod o un addurn areithyddol, ar gôst llwyr esgeuluso rhai eraill, llawn mor brydf berth, a mwy hanfodol i farddoniaeth dda? Addefwn nad yw y mesurau dan sylw o werth dim heb y gynghanedd, ond dadleuwn nad ydynt gyda hi ond o ychydig iawn o werth, o leiaf y nifer liosocaf o honynt. Y lle mwyaf cyfaddas iddynt, yw ar destunau ysgeifn, lle y byddo ffraethineb difyr y prif amcan yn ngolwg y prydydd, ac mewn pennillion byrion o natur yr *epigram*, i osod allan ryw syniad tlws, coethedig, mewn dull cryno, tarawiadol, â chyn lleied o eiriau ag y byddo modd. Defnyddir hwy weithiau yn fanteisiol mewn bedd-ergreiff. Ond ar destunau arbenig, ac mewn barddoniaeth arddunedig, yr ydym yn gorfod barnu, ac yn rhwym o ddywedyd, mai anfantais yw y mesurau a'r gynghanedd gaeth.

Buom yn synu lawer gwaith wrth yr eiddgedd a deimla ein beirdd urddedig (o'r olyniaeth dderwyddol), "wrth fraint a defod beirdd Ynys Prydain," dros y gweddillion hyn o drais, gormes, a barbariaeth y canol-oesoedd, pan ganfyddem yn eu plith wŷr a fuont trwy eu hoes yn areithio, yn ysgrifenu, yn dadleu, ac yn prydyddu, yn mhlaidd rhyddid, o'u gwirfodd yn cymeryd eu llyffetheirio, draed a dwylaw, meddwl ac ymadrodd, yn yr hualau caethion hyn, a ddyfeisiwyd gan fynachod Pabaidd yr oesoedd tywyll, er caethiwo gwybodaeth, a'i chyfyngu i gylch bychan eu hurdd eu hunain, a'r ychydig ddewisolion y gwelent yn dda eu derbyn i'r gyfrinach, er mwyn eu mantais eu hunain, ac i gadw y gwerinos druaidd, ddigon tanodd yn nhywyllwch anwybodaeth. Onid yw yn llawn bryd bellach i osod y fath farddoniaeth a hon o fewn ei therfynau priodol ei hun? Meddyliem fod eisteddfod diweddar Rhuddlan, er cymaint o rwysg, rhodres, a gorwagedd, oedd yn gysylltiol â hi, wedi rhoddi un cam da yn yr iawn gyfeiriad at gael diwygiad yn hyn.

Ffloreg wag yw haeru fod pob peth a ddodir ar odl a chynghanedd yn rhwym, oblegid hyny, o fod yn meddu ansoddau gwir farddoniaeth; a bod pob dim a ysgrifenis ar fesurau rhyddion o anghenrheidrwydd yn rhigwm. Y gwir yw, fod crug anferth o'r hyn a elwir barddoniaeth gaeth, er meddu odl a chynghanedd, cymeriad a mesur, yn ddim amgen na rhigymau, heb synwyr na theimlad ynddynt, pryd y mae gwir farddoniaeth i'w chael fynychaf ar fesurau dyri, ac yn aml yn ddiold, arwrawl; ac weithiau hyd yn nod mewn rhyddiaith. Yma nis gallwn lai na galw sylw, wrth fyned heibio, at yr erthyl annelwig, yr ysbrych o beth, a elwir, "Englyn Seisonig." Pa hudoliaeth a allai lithro dros feddwl neb i dybied bod yn ddichonadwy cyflêu dim yn y byd tebyg i brydyddiaeth dan y fath ffurf annaturlol! Ni fyddai gwaeth cymeryd odau wlan, neu reffyn pil brwyn, yn gyfarwedd i'r hylif trydanawl, yn lle gwyfrau yn yr hysbysai gwefrol, na cheisio trosglwyddo y tân awenyddol ar hyd corfanau englyn unodl union Seisoneg. Peidied y beirdd a dwyn ein cenedl, ein hiaith, a'n barddoniaeth, yn destun gwawd i'n cymydogion, trwy y fath ymgais ofer.

Ond yr ydym wedi crwydro yn lled bell oddiwrth ein testun; ac y mae yn bryd dychwelyd at y Salmuau. Pe buasai yr ystyriaethau uchod yn dygwydd i feddwl y Cadben Miltwn, tebygol yw y dewisasai ddull tra gwahanol i'r un a gymerodd i osod allan y caniaidau dwyfol yn Gymraeg—dull a fuasai yn llawer mwy hyfryd a bendithiol iddo ef ei hun, a mwy blasus ac adeiladol i'w ddarllenwyr. Gresyn fod talent mor werthfawr



wedi ei gwastraffu ar ddim amgenach na rhyw chwareuaeth ar y cydseiniaid, ac ymgais i osod allan air Duw mewn hen "ofer fesurau," ac odlau mynachaid, anghymhwys i weinyddu er llesâd ac ymgeledd i eneidiau, yr hyn yn ddiau, a ddylasai fod yn benaf peth mewn golwg mewn gwaith o'r natur yma.

Fe allai y byddai yn ddifyrwrch gan rai wybod fod Syr Philip Sidney, awdur y "*Defence of Poesy*," yn cydoesi â Gwilym Ganoldref, ond ei fod wedi marw yn lled ieuanc, rai blyneddau yn gynt, mewn canlyniad i arohll a dderbyniasai yn mrwydr Zutphen, 1586; canys yr oedd yntau hefyd yn filwr dan yr un frenines, Elizabeth. Pa un a oedd y ddau hyn yn adnabyddus o'u gilydd, ni wyddys; ond y mae yn amlwg eu bod yn cyfranogi o'r un duedd awenyddgar a chrefyddol. Milwr oedd Dafydd frenin; ac yn nghanol helyntion milwraidd y canodd efe lawer o'r Salmau; a dichon fod yr amgylchiad hwn wedi peri fod Llyfr y Salmau er cysur a chynnaluaeth i feddwl llawer milwr o dueddfryd grefyddol fel y ddau hyn. Cyfansoddodd Syr Philip a'i chwaer, *Countess Pembroke*, y Salmau mewn mydryddiaeth Seisoneg: amryw o honynt yn dra rhagorol, er nad ymddengys eu bwriadu at wasanaeth y cysegr, ond i ymarferiad neilltuedig yn unig.<sup>1</sup> Gosodwn yma un o'r Salmau byraf, yn Gymraeg a Seisoneg, fel dangosiad o'r gweithiau uchod:—

## SALM CXXXIV.

URDOL GYRCH, YN OL YR HEN DDULL.

"Moliennwch yr Arglwydd,  
Holl weision yr Arglwydd,  
Y sawl a wylia nos a dydd,  
Ynghaerydd yr Arglwydd.

Eich dwylaw a godwch,  
I'w seintwar<sup>1</sup> a nodwch,  
A hir foliant yn gyfarwydd,  
Yr Arglwydd addolwch.

Duw a wnaeth eithafion,  
Dacar, nef, ac eigion;  
Denfyn iti lwy'r fendith,  
Ddichwith o Gaer Seion."

## SALM CXXXIV.

BOON NUNC.

"You that Jehova's servants are,  
Whose carefull watch, whose watchfull care,  
Within his house are spent;  
Say thus, with one assent,  
Jehova's name be praised.

Then let your handes be raised  
To holliest place,  
Where holliest grace  
Doth ay

Remaine;  
And say

Againe,  
Jehova's name be praised,  
Say last unto the company,  
Who tarrying make,  
Their leave to take  
All blessings you accompany,  
From him in plenty showered,  
Whom Sion holds embowered,  
Who heav'n and earth of nought  
hath raised."

Gwelir mai y Gymraeg yw y byraf o wyth linell.

<sup>1</sup>"The Psalmes of David, translated into divers and sundry Kindes of verse, &c. Begun by the noble and learned Gent. Syr Philip Sidney, Knt., and finished by the Right Honorable The Countess of Pembroke, his Sister." Chiswick, 1823.

<sup>2</sup>Cysegr—sanctuary.

## EFFEITHIAU PABYDDIAETH AR WLEDYDD.

YMDYDDAN BEWNG IWAN, ARTHUR, AC IDWAL.

[Iwan Protestant, Arthur Glaiar, ac Idwal Ddarllengar, yn cyfarfod ar fin Nant Chwyrnddwr, yn Nghwngarmon, ac yn chwedleus ynghylch effeithiau Pabyddiaeth ar Wledydd yn gyffredinol.]

*Iwan.* MAE yn dda genyf dy weled, Idwal; yr wyf yma er's hanner awr mewn dadl frwd âg Arthur ynghylch yr hen bwnc o hyd, sef Pabyddiaeth.

*Idwal.* Wel, yr oeddwn i yn lled ddychymygu, wrth ddyfod i lawr ar hyd lethr y Garnedd goch, dy fod mewn cryn drafferth; o herwydd yr oeddit yn troi yn ol ac ymlaen, a'th freichiau yn cael eu chwyrndafu i bob ystum, fel nas gallaswn lai na gwenu yn yr olwg arnat o bell; ac yr oeddwn yn dra sicr hefyd mai Pabyddiaeth oedd y testun.

*Iwan.* A dyweyd i ti y gwir, yr oedd Arthur yma bron a'm gwylltio i.

*Arthur.* Ni wnei di, Iwan, byth wrandaw ar reswm; ond rhaid i ti gael dyweyd rhyw anferth bethau, yn enwedig os äi i son am Babyddiaeth.

*Idwal.* Heddwch rhyngoch chwi eich dau! Moeswch i mi glywed beth yw y pwnc, a pha fath yw yr ymadroddion yr ymddangoswch mor gyffrös yn eu cylch.

*Iwan.* Dyma hwy. Aethom i son am Bābyddiaeth, a pha fodd yr oedd yn ymledu dros y gwledydd, a'i effeithiau difaol a dinystriol ar foesau a chysuron y trigolion.

*Arthur.* Iä, dywed di y cwbl, Iwan. Fe eist ti mor bell a dyweyd fod Pabyddiaeth yn effeithio ar y tir hefyd, heblaw y trigolion, a'i bod eisoes wedi newid y gwledydd mwyaf toreithiog yn lluestai slafiaid a lladron; ac, yn dy zel danllyd, dywedaist am offeiriadau Eglwys Rhufain, mai priodol fyddai dyweyd am danynt hwy, fel y dywed y prophwyd Joel am y locust-iaid, "Mae'r wlad o'u blaen fel gardd baradwys, ac ar eu hol yn ddiifeithwch anrheithiedig."

*Iwan.* At y Jesuitiaid yr oeddwn i yn cyfeirio yn benaf y pryd hyny: ac yr oeddwn yn cynhyrfu trwy fy enaid wrth glywed Arthur yn dyweyd mai "ysgolëigion da, gwŷr hynod o ymroddgar, ac na fyddai eu hymsefydliad yn Nghymru mor niweidiol ag y mynwn i, a llawer o rai penboeth eraill, i'r wlad goelio," ydyw y gwŷr hyny.

*Arthur.* Wel, yn wir, nid wyf fi ymhell oddiwrth berffaith gredu yr hyn oeddwn yn ei siarad. Fy marn i ydyw, fod cymaint o eisieu addysg ar blant y Cymry, fel na byddai o niwed yn y byd pe deuai ysgolfeistr da—bydded ef *Jesuit* Pabaidd neu beidio—i ymsefydlu yn rhai o fân-drefydd y Dywysogaeth; canys yr wyf yn lled sicr fod Protestaniaeth y Cymry mor bur a chadarn, fel na byddai raid i ni byth ofni eu gweled yn llyncu dim o ddefodau yr Eglwys Babaidd.

*Idwal.* Na, na, fy nghyfaill Arthur! ni chydysaif hyn yna byth â ffeithiau hanesyddol, hen a diweddar. Ond mi a feddyliwn mai nid *addysgiaeth y Cymry* oedd prif bwnc eich dadl, ond "*effeithiau Pabyddiaeth ar wledydd*," nid yn unig yn moesau y trigolion, ond ar ansawdd y tir.

*Arthur.* Iä: wel beth yw dy farn di, Idwal? A fyddai gwedd arall ar Gymru pe deuai Pabyddiaeth yn grefydd gyffredinol?

*Idwal.* Byddai, yn ddiammhau. Elai y gwŷr mawrion yn orthrymwyrr coelgrefyddol, darfyddai y canolradd gweithgar a llafurus, a dirwasgid y tlodion i'r iselder mwyaf o gaethwasanaeth a thlodi. Buan y ceid gweled tiroedd cynnyrchiol yn cael eu hesgeuluso, dyffrynoedd breision yn wyllt-dir anffrwythlawn, a dolydd teg yn anniwylliedig.

*Iwan.* Dyna i ti, Arthur.

*Arthur.* Ni choelias fi byth mo hyna, os na ellir ei brofi am wledydd eraill.

*Idwal.* O'r goreu, Arthur! Mi a'th arweiniaf di y mynyd yma dros dair o'r gwledydd mwyaf Pabaidd yn y byd; ac os gall Pabyddiaeth ganmawl ei hun yn unman, dyna lle y gall; sef yr Ysbaen, Itali, a'r Iwerddon.

*Arthur.* Cymer bwyll, Idwal, a mi a'th ganlynaf. Tyr'd, Iwan, i'n dilyn.

*Idwal.* Mi a'th osodaf i sefyll ar glogwyn o'r *Pyrenees*—y gadwen fynyddig sydd yn ei gwahanu oddiwrth Ffrainc. A weli di y dyffrynoedd llydain sydd yn ymledu islaw i ti, ac yn ymāngu o hyd nes cyrhaedd iseldiroedd ffrwythlawn Arragon a Navarre? Edrych o dy flaen i'r deheu, dacw Fôr y Canoldir—prif-ffordd lydan masnach y byd; ac os troi i'r gorllewin, dacw dōnau Môr y Werydd yn curo y tywod ar y lân. Dyma y wlad fu gynt yn cael ei galw yn "Ardd Ewrop." Yr oedd, ac yn wir y mae, yn gorwedd o dan bob graddau o hinsoddau. Yr oedd yn ei chrombil welyau ēang o fōnau; ac ar ei meusydd yr oedd yr awelon yn chwareu â'r cottwm, a'r *rice*, a'r gwinwydd; a phrenau ffrwythlawn yn llwyni.

*Iwan.* Wel, dyna wlad braf; gallai hon fod yn frenines y teyrnasoedd.

*Idwal.* Ah, Iwan! y mae hanes arall i'w ddyweyd am dani. Y mae oesoedd o ddallbleidiaeth crefyddol, ac ystranciau cigyddlyd y chwil-lys, wedi lladd ysbyrd ei thrigolion; ac erbyn heddyw, y mae Ysbaen yn is na'r isaf o wledydd y ddaear o'r bron. Nid yw o gyfrif na dylanwad yn y byd ymhlith teyrnasoedd eraill. Ni welir na gwenith, na gwlan, na sidan, o honi hi byth yn y marchnadoedd. Mewn gwledydd eraill, ni enwir hi gyda pharch; ac o'i mewn ei hunan ni welir ynnddi ond arwyddion o adfeiliad a darfodedigaeth gwladol—ei thrysorau yn weigion, ei thir ar hanner ei drin, ei phorthladdoedd heb longau, ei ffyrdd heb deithwyr, a'i threfi a'i phen-trefi yn adfeilio heb drigiannwyr.

*Arthur.* Wel, a wyt ti yn credu mai crefydd a fu yn anrheithio fel yna?

*Idwal.* Nid crefydd, yn ol union ystyr y gair; ond yr wyf yn hyf yn dywedyd mai y gyfundraeth Babaidd a achlysuroidd y cwbl: o herwydd yr wyf fi o'r un farn a'r enwog D'Aubigné, yn un o'i ysgrifeniadau, mai nid ceisio cysylltu crefydd â gwladwriaeth y mae y Pabyddion yn eu hymdrechiadau presennol, ond llunio ffurfiywodraeth o fewn ffurfiywodraeth, gwladwriaeth o fewn gwladwriaeth (*state within a state*)—eu hamcan yw cyrhaedd gallu, awdurdod, ac uchafiaeth, ac aed moesau a chrefydd y wlad lle yr elont.

*Iwan.* Ychwaneg o hanes Ysbaen, Idwal.

*Idwal.* Sylwch eich dau ar y ffugyrau a enwaf; y maent o bwys i chwi. Yn nechreu y ganrif bresennol, cyfrifid poblogaeth yr Ysbaen yn ddeng mil-iwn, pedwar cant a naw o filoedd, wyth gant a saith deg a naw (10,409,879); ac fel hyn y rhenid hwy:—cant ac wyth mil a deugain, dau cant a dau a deugain (148,242) o offeiriadau a mynaohod, a deuddeng mil ar hugain (32,000) o fynachoesau; heblaw un ran o bedair o'r trigolion yn byw ar eu

heiddo heb wneyd dim ; yr oedd yno hefyd gan' mil (100,000) o yspeilwyr, môrladron, a mwrddwyr ; ac oddeutu deugain mil (40,000) o swyddogion i ddal y rhai hyny ; oddeutu tri chan' mil (300,000) o wasanaethyddion, ac oddeutu can' mil (100,000) o'r rhai hyny allan o le, yn ymguro oreu y gallent ; triugain mil (60,000) o fyfyrwyr (*students*) yn cardota, neu yn mynu eu cynnalïaeth trwy drais yn y nos ; ac oddeutu can' mil (100,000) o gardotwyr truenus, yn erwydro oddeutu pyrth a drysau y mynachdai a'r lleiandai ; a'rgweddill o'r boblogaeth oeddynt grefftwyr, gwladwyr, llafurwyr, a marsiandwyr. Felly yr oedd yno filoedd lawer, ti a weli—oddeutu chwe' chan' mil (600,000)—nid heb fod o gynnorthwy mewn llafur a masnach, ond yn bwysau ac yn berygl i gymdeithas yn gyffredinol.

*Arthur.* Ië, fel yna yr oedd yr Ysopaen yn *neckrou y ganrif* ; beth yw hi yrŵan ?

*Idwal.* Wel, dyma y geiriau a ddywedir ar hyny gan haneswyr poblog-aidd diweddar,—“ Mae yr hyn a ddywedwyd mor wir am y wlad hon heddyw, pan y mae ei phoblogaeth uwchlaw pedair miliwn ar ddeg (14,000,000), ag 'oedd y pryd hyny ; ac y mae yn dangos ac yn profi fod ei chyflwr a'i sefyllfa gymdeithasol a gwladol mor isel a llygredig, hyd nes yw pob gobaith am ei hadferiad wedi llwyr ddfïanau er's talm.”<sup>1</sup>

*Arthur.* Yn wir, rhaid i mi gyfaddef ei bod hi yn ofnadwy yno hefyd. Beth am Itali ?

*Idwal.* Wel, dyma ni yn awr yn ngârdd Pabyddiaeth ei hun ; ac yn wir, po nesaf y delom at ganolbwynt a gorsedd y Babaeth, mae y tywyllwch yn tewhau ; a'r dinystr a'r anhraith gwladol a moesol yn myned fwyfwy o hyd. Dywedir mai hon yw y wlad fwyaf hafaidd yn Ewrop, os nad yn y byd ; mae ei golygfeydd yn ysplenydd, a'i ffurfafen yn ddiarebol. Yr oedd un ymdeithydd unwaith yn croesi mynyddau yr Alps tuag ati, a phan y daeth i fwloch lle y cafodd olwg ar Itali o'i flaen, efe a ddywedai,—“ Ah ! ymwithiodd y cythraul i baradwys eto !”

*Arthur.* Beth oedd efe yn ei feddwl wrth hyny ?

*Idwal.* Hyn ; yr oedd yn canfod yno wlad braf o'i flaen, yn llawn trueni ac anhapusrwydd. Mi a ofynaf i ti, neu i ryw hanesydd neu ymdeithydd celfydd, Yn mha le y mae ymherodraeth, llényddiaeth, trafndiaeth, a bywiogrwydd Itali ? Yr hyn sydd o honynt mewn bod, maent yn gaeth yn nghadwynau a llyffetheiriau yr Eglwys Babaid. Dacw Lombardi, a'i dyffrynoedd heulog yn dwyn gwin a gwenith yn ddi-ddr ; ond oddigerth marsiandwyr a chrefftwyr Milan, mae y Lombardiad eu hunain yn gaethion ac yn fegeriaid. Yn mha le mae marsiandiaeth Venice ? Yn y manau lle yr oedd ei marsiandwyr yn marchnata â'r byd i gyd o'r bron, nid oes ond sypiau o fegeriaid yn cardota eu tamaid, ac ocheneidiau pedair miliwn o *slafiaid* yn ymgymysgu â murmur tdnau Môr Adria.

*Iwan.* A ydyw hyn yna yn ddigon i ti, Arthur ?

*Idwal.* Aros, Iwan, nid hyn yna yw y cyfan. Y mae hyn yn wir bob gair ;—y mae marchnadoedd ei dinasoedd bron wedi darfod, a'i threfi yn heidio gan segurwyr a chardotwyr yn methu cael gwaith na thamaid. Y mae amaethyddiaeth yr un mor isel—y ffermydd, mewn rhai manau, yn wyltldir, a'r ffermdai yn garneddi. O amgylch Rhufain, y mae y ffermydd yn fawrion iawn ; ac ar amser y cynauaf, pan y mae y gwres boethaf, y mae pobl y mynyddoedd yn dyfod i lawr i fedi, y rhai y mae y newyn

<sup>1</sup> “ *Chambers' Information for the People* :” cyf. i, tudal. 89.

gartref yn eu gyru i ddannedd y clefyd (*malaria*) yn yr iseldiroedd; ac y mae y cynauaf, fel hyn, yn costio bywydau hanner y medelwyr yn aml. Y mae llawer deryn o dir, a fu unwaith yn dda a chynnyrchol, wedi myned yn anial diffaeth; ac awyr iachusol Itali trwy hyny wedi ei niweidio gymaint nes ei gwneud yn awelon clefydau, marwolaeth, a dinystr, fel y mae pobl Itali yn marw yn gynt o lawer nag ydyw oes dynion yn gyffredin. Yr oedd y gorsle a adnabyddir yn awr wrth yr enw *Pontine Marshes*, yn llawn trefi unwaith; a cheg yr afon Tiber, lle yr anfonir drwg-weithredwyr i farw, yn dryfrith o fân-balasu Rhufeinig; a'r *Pastum*, y pentref sydd wedi ei feldithio â'r clefyd mwyaf marwol yn Itali, gynt yn ddinas boblog a chyfoethog.

*Arthur.* Beth sydd a fyno y grefydd Babaidd â hyn oll?

*Idwal.* Dyma y dirgelwch. Mae rhyw gylich didor o wyliau a dyddiau seintiau yn rhwystr i lafur y trigolion, ac yn peri nad oes bosibl byth ffurfio yn eu mysg arferion gwastad a sefydlog. Mae yr almanac Rhufeinig yn gosod naill ai ymryd ai gwledd ar bob dydd yn y flwyddyn. Mae yn wir fod y rhan fwyaf o'r rhai hyn yn rhydd i ddynion i'w cadw neu beidio; ond y mae deg a thriugain o wyliau, heblaw Sabbothau, ag y mae yn *rhaid* eu cadw. Mae y rhan fwyaf o'r tir yn eiddo yr Eglwys; ac y mae nifer y rhai sydd mewn swyddau eglwysig mor anghyfartal i'r boblogaeth, nes yw y wlad, yn ei masnach a'i hamaethyddiaeth, yn suddo o danynt.

*Iwan.* Gad i minnau ddyweyd gair. Yr wyf yn cofio fod *Father Gavazzi* yn dyweyd fel hyn ryw dro:—"Y mae yn ninas Rhufain oddeutu cant a deg a thriugain o filoedd (170,000) o drigolion (o ba rai y mae oddeutu chwe' mil o Iuddewon yn preswyllo ynddi, ac oddeutu yr un nifer o ddyeithriaid yn myned ac yn dyfod), o'r rhai hyny yr oedd yno bedwar cant ar ddeg (1,400) o fynachesau, a thair mil a thriugain a naw (3,069) o eglwyswyr yn gŵr milwraidd, sef un ar gyfer pob hanner cant o'r trigolion, neu un ar gyfer pob pump ar hugain o wrywiaid mewn maint ac oed; tra yr oedd trefi yn y taleithiau, ag yr oedd mwy o lawer o honynt, sef un am bob ugain. Y mae cyfoeth yr eglwys yn ffurfio cyfanswm o bedwar can' miliwn o *francs*,<sup>1</sup> yr hyn sydd yn dwyn i mewn oddeutu ugain miliwn yn flyneddol: pan nad oedd holl gyllidaeth y dalaeth ddim oddiar wyth neu naw miliwn o *ddollars*—swm yn cael ei lyncu i fyny yn gywilyddus i gynnal rhwysg gwag-fawreddig y cardinaliaid, a llys dyhir a drwg-fucheddol, neu i gynnyrchu *brandi* i'r cieiddwyr Awstriaidd."

*Arthur.* Hawyr bach, pwy yw y *Father Gavazzi* yna, Iwan?

*Iwan.* Gŵr o Itali yw efe, wedi ei eni a'i fagu yn Eglwys Rhufain, ac y mae yn awr yn teithio y tair teyrnas gyfunol, Lloegr, Scotland, a'r Iwerddon, i roi hanesion cyffelyb i hyn.

*Idwal.* Iê, hawdd yw ychwanegu eto, fod yma, fel yn mhob gwlad Babaidd arall, agos i'r drydedd ran o'r flwyddyn yn cael ei threulio i addoli meibion a merched meirwon. Y mae y trigolion yn cael eu denu oddiwrth eu gorchwylion, ac yn ymollwng i foddwdd ac afradlonedd. Mae gan yr offeriadau, o herwydd eu bod yn rhydd oddi wrth bob swydd milwraidd a dinasaid, ddigon o amser i ffurfio a chynllunio pob dyfais a brad. Maent yn gormesu ar y tlawd, yn cneifio y cyfoethog, ac yn gyru masnach ymaith. Mae symiau mawrion o aur ac arian dan gloiau yn eu heglwysi cadeiriol,

<sup>1</sup> Deg ceiniog o'n harian ni.

yn addurniadau i ddelwau, yn lle bod yn ddefnyddiol yn y wlad. A dyma i ti y prif reswm am y trychineb yma i gyd, yn ngeiriau hanesydd diweddar;—"Y mae y BIBL, y ffynnonell hon o bob peth hardd a mawreddig, yn gystal ag o foesoledb, yn llyfr *anadnabyddus* yn Itali; a llényddiaeth y trigolion sydd yn gynnwysedig mewn hen chwedlau am gampau gorchestol rhyw yspeilwyr a lladron, neu wyrthiau rhyw seintiau, a hyny mewn pryd-ddiaeth a rhyddiaith."

*Arthur.* Ti a addewaist, ar y cychwyn, ddyweyd rhywbeth am yr Iwerddon. Moes glywed gair am dani hithau.

*Idwal.* Hwyrach na fu i ti erioed feddwl fod yr Iwerddon yn wlad mor braf, pe cai hi chwareu teg. Mae hi yn sefyll yn hwylus, o ran lle, at draf-nidiaeth yn gyffredinol. Mae ynddi fônau ddigonedd, a dyffrnoedd breision i'w rhyfeddu. Y mae anwybodaeth a Phabyddiaeth, diogi a throeddau, fel y derw a'r eiddew, yn plethu am eu gilydd, a chreaduriaid ysglyfaethus yn cynniwair dan eu dail. Ac, fel y gweli bob dydd, y mae y wlad hon yn arllwys o'i mynwes yn flyneddol filoedd lawer o'r creaduriaid mwyaf truenus yr olwg arnynt i'n trefydd ni yn Lloegr, yn gystal ag i wledydd eraill. A dyma fel y dywedai un dyn mawr am dani. "Pe cymerech ddarlunlen (*map*) o'r byd yn eich llaw, a chwilio o begwn i begwn, ac o gylch i gylch, nis gellwch byth ddyfod o hyd i wlad mor druenus a'r Iwerddon."

*Arthur.* Ië; o'r goreu: ond pwy yw y "dyn mawr" sydd yn dyweyd fel yna?

*Idwal.* Dr. Ryan, esgob Pabaidd Limerick.<sup>2</sup>

*Iwan.* Dos ymlaen.

*Idwal.* Y mae holl drueni yr Iwerddon, meddaf, yn deilliaw o'i Phabyddiaeth. Am y culfôr â sir Fôn, y mae haenau eto o dywyllwch y canol oesoedd, a'r meddwl dynol mor farwaidd bron ag oedd cyn toriad gwawr y Diwygiad Protestanaidd. Anhawdd yw dywedyd pa un ai ei llygredigaethau ai ei hoffeiriadau sydd yn ei hysglyfaethu fwyaf. Lle mae y meistr tir yn methu cael ei *rent*, a'r casglydd trethi y dreth, y mae yr offeiriad yn medru cael arian yn burion. Medrodd Pabyddiaeth loffa lloffion yn yr Iwerddon ar ol newyn a marwolaeth. Ni fedd hi lygad i wylo, na chalon i dosturio, ond llaw haiarnaidd i gipio y briwsion y mynai y weddw a'r amddifaid ymborthi arnynt. Edrych ar Scotland a'r Iwerddon yn myl, eu gilydd, a barna drosot dy hunan. Dyma Babyddiaeth wedi gwneyd yr Iwerddon, er ei holl fanteision, yn anialwch llawn o anwybodaeth, tlodion begeraidd segurlyd, a gofer ei thrueni yn rhedeg i bob gwlad. Dacw Protestaniaeth yn harddu mynyddau Scotland, ac yn gwneyd ei choryydd yn ddolydd, a'i thiroedd lleidiog yn feusydd firwythlawn; a'i thrigolion yn ddiwyd a gweithgar, a llawer o honynt yn ymwithio i swyddau o ymddiried ac urddas. Ha, Arthur, Arthur, paid a siarad mwy am gael Jesuitiaid yn ysgolfeistriaid i Gymru, os nad wyt am weled dy wlad yn anrheithiedig dan dywyllwch yr Ysopaen, gorthrwm Itali, a thrueni yr Iwerddon. A gad i mi ddyweyd gair pellach wrthynt; y mae genyt ti bleidlais yn etholiad aelod seneddol, onid oes?

*Arthur.* Oes; beth am hyny?

*Idwal.* Na "fydd yn fraich i blant Lot;" hyny yw, na fydd yn gyfnerth

<sup>1</sup> "Wylie on the Papacy."

<sup>2</sup> Dyfynedig gan Wylie, yn y "Christian Treasury." Rhagfyr, 1851, tudal. 425.

i'r rhai sydd am waddoli ac ymgymodi â Phabyddiaeth; ond cofia, pan eli i fyny i bleidleisio, yr hen eiriau gwerthfawr hyny, "Gan hyny, yr awr hon, freninoedd, byddwch synwrol; barnwyr y ddaear, cymerwch ddysg" (*Salm* ii. 10); "oblegid cryf yw yr Arglwydd Dduw, yr hwn sydd yn ei barnu hi" (*Dad.* xviii. 8).

*Arthur.* Beth a awgrymi ato? a wyt ti yn meddwl dyweyd y daw barnau Duw ar drigolion y gwledydd hyny y bydd i'w phenaethiaid roi pwys eu dylanwad o blaid Pabyddiaeth?

*Ithwal.* Ydwyf yn barod i ddyweyd hyn yna; ac nid anhawdd fyddai profi hyn allan o hanes ein gwlad ein hunain, heb yngan gair am amseroedd *Mari* Waedlyd, na therfysgoedd breniniaethau diweddarach, ond yr hyn a ddygwyddodd o fewn ein hoes a'n cof ni ein hunain.

Ond odid nad ydych yn cofio eich dau am yr hyn a ddywed Paul, yn ei ail lythyr at y *Thessalonians*, "Canys y mae dirgelwch yr anwiredd yn gweithio eisoes; yn unig yr hwn sydd yn attal, a ettyl nes ei dynu ymaith;" neu, mewn geiriau eraill, pan y diflanodd gallu ymherodrol Rhufain, "yna y dadguddiwyd yr Anwir hwnw,—y dyn pechod, mab y golledigaeth, yr anghrist, sydd yn eistedd yn nheml Dduw," *h. y.*, yn llywyddu yn yr eglwys weledig.

Yn awr, y mae y gallu, neu yr awdurdod ymherodrol hwnw, wedi ei symud er's mwy na thair canrif ar ddeg, ac y mae *Anghrist* bellach yn eistedd yn nghanol yr eglwys sydd yn dwyn yr enw, "Eglwys Crist;" ond yn ddiau y gelyn mwyaf i Dduw a'i eglwys ar y ddaear. Y mae hyn oll yn cael ei gadarnhau trwy hanesyddiaeth, pan y gwelom y gallu hwn a ddilynodd ymherawdwr Rhufain, yn eistedd ar ei gorseddfaine, yn mhob oes yn erlid saint y Goruchaf, megys yr Albigeniaid, y Waldensiaid, y Lolardiaid, y Wicliffiaid, a'r Hussiaid, ac eraill, a fwrient ymaith eu coelgrefydd hwy, ac a addolent Dduw.

Mae yn ddiau fod yr awdurdod neu y gallu hwn yn ffaidd gan Dduw, ac y mae yn dysgwyl i'w bobl ryfela yn ei erbyn. Ond y mae efe yn dysgwyl mwy o hyn oddiwrthym ni, yn Lloegr, nag oddiwrth eraill, gan iddo roi i ni y Bibl sanctaidd mor helaeth, a'n gosod megys yn y rhes filwraidd flaenaf i ymladd yn erbyn Anghrist a'i ganlynwyr; canys "i bwy bynag y rhoddir llawer, llawer a ofynir ganddo;" ac nid oes dim a ennyn lidiogrwydd a dialedd yn gynt nag anffyddlondeb ac anniolohgarwch o du y rhai a dderbyniaint garedigrwydd.

Dichon fod, ymhlith dynion synwrol a da, wahanol farnau mewn perthynas i'r priodoldeb o osod Pabyddion mewn swyddau o awdurdod a dylanwad yn y senedd a'r llywodraeth; ond y mae yn wirionedd diammheuol fod y nodded a roddwyd i Babyddiaeth trwy ddeddfau seneddol, ac yn enwedig trwy waddoliad ychwanegol athrofa Maynooth, yn yr Iwerddon, wedi bod yn wanhâd i Brotestaniaeth, ac yn gryfder nid bychan i deyrnas Anghrist. "Lle y byddo y gelain, yno yr ymgasgl yr eryrod." Mae y cyffelyb achosion yn cynnyrchu y cyffelyb effeithiau mewn gwahanol gwledydd, ac yn yr un gwledydd ar wahanol amserau. Nid wyf yn cymeryd arnaf fod yn ddoeth uwchlaw yr hyn a ysgrifenywyd; ac ni ryfygaf esbonio a chymhwyso rhagluniaethau Jehofa. Ac eto rhaid i mi gyfaddef argyhoeddiad dwys fy meddwl, fod y newyn, yr haint, a'r trallodau sydd wedi dirwasgu yr Iwerddon (ynghyd â Lloegr a Chymru hefyd mewn rhan), o fewn yr ugain mlynedd diweddaf, i'w hystyried yn amlygiadau o anfoddlonrwydd

yr Arglwydd tuag atom, oblegid rhoddi o honom ein gallu i'r bwystfil Rhufeinig. Pell oddiwrthyf fo coleddu teimladau o annyoddefgarwch tuag at broffeswyr unrhyw grefydd; ond gan fod yn ddigon amlwg oddiwrth hanesiaeth fod y gyfundraeth Babyddol yn effeithio yn ddrwg ar achos masnach a llwyddiant gwladol, heb son am yr hyn sydd yn annhraethol fwy pwysig, ei drwg moesol, nis gallaf lai na meddwl mai dyledswydd pob Cristion a gwladwr ydyw gwneyd eu goreu, yn mhob ffordd, i attal ei chynnydd a'i lledaniad. Gad i mi dy gynghori ymbellach i geisio gwybodaeth ychwanegol ar y pwnc hwn, trwy ddarllen y llyfr nodedig hwnw, o eiddo yr enwog Dr. Cumming, "*God in History*"—Duw mewn Hanesiaeth.

*Arthur.* Ai tybed mewn difrif, fod barnau Duw yn cael eu tywallt ar ddyinion, ac ar wledydd, yn y dyddiau hyn?

*Ioan.* Nid oes dim dadl yn fy meddwl i am hyny. Mae yn ddigon amlwg fod y farn yn dilyn y trosedd weithiau yn y byd yma. Ystyria y pethau hyn, Arthur, cyn y delo yr etholiad nesaf; ac er mwyn pob daioni, paid a rhoddi dy bleidlais i'r hwn a fyddo yn ffafriol i Rufain a'i chyfeil-iornadau.

*Arthur.* Wel, mi a wnaif hyny, bid a fyny.

*Idwal.* Ond a wyddoch ohwi, gyfeillion, y mae hi yn prydawnnu—aiff yr haul i ymweled â thrigolion y gorllewin cyn bo hir, ac a'n gedy ninnau yn y tywyllwch, oni wnawn y goreu o'n ffordd tuag adref. Prydnawn da i chwi, gyfeillion!

*Ioan ac Arthur.* Ac i tithau!

#### Y BIBL A PHABYDDIAETH.

O werthfawr air yr Arglwydd,  
O gyfraith sanctaidd glir!  
Boed iti rediad hylwydd,  
I bob rhyw wlad a thir!  
Daw 'r meusydd a'u cynnyrchion,  
Y llwyni 'n dew eu dail,  
A'r gwladwyr i'th groesawu,  
Mewn llonder bob yn ail.

O sanctaidd air yr Arglwydd,  
Arweinydd goreu dyn!  
A'i dwg drwy 'r byd yn ddedwydd,  
I'r nefoedd fawr ei hun;  
Chwilfriwier y cadwynau  
Sy 'n rhwystro 'n awr i ti  
Gynniwair i gyfranu  
Bendithion nef heb ri'!

---

#### YR AIPHT.

**RHYFEDD** y fath syniadau hynod a dyeithr sydd yn meddwl y plentyn am hyn ac arall! Pe caid adysgrif o feddylddrychau llawer un cyn i'w farn addfedu, ac i'w reswm gymeryd y llyw, meddyliem nas gallai lai na bod yn ddyddorol; a byddai yn bur hawdd yn yr olwg arnynt i unrhyw un goffeidio cyfundraith yr anfarwol Locke. Pâ fodd bynag, yr ydym ni yn cofio yn dda



y drychfeddyliau digrif a phlentynaidd a gysylltem â lliaws o enwau, yn enwedig rhai ysgrythyrol, megys Jerusalem, Tyrus, y Môr Heli, ac, yn neillduol, yr Aipht. Rhyw bellder rhyfeddol fyddai yn gysylltiol â hi yn wastad. Byddai llinell fesur ein dychymyg yn ei hyd eithaf bob amser pan gyrhaeddi yno; a digon tebyg y buasem yn coelio yn llawn can gynted fod rhywun wedi bod yn y lleuad ag ynddi hithau yn yr oesoedd yma o'r byd. Ond y mae natur ac amgylchiadau wedi ymuno i yru rhithiau felly ar ffo, mewn rhan, o leiaf, erbyn hyn. Eto, y mae rywfodd yn aruthr genym feddwl y gallem ni, mewn rhyw ddwy neu dair o wythnosau, o ran dim attalfeuon anianyddol, gael golwg ar y "tir da odiaeth" hwnw a breswylid gan Abraham gynt, a rhoddi ein troed ar y llanerchau a sangwyd gan angelion, a rhodio y llwybrau a gerddodd Emmanuel, a syllu yn weithredol ar y llecyn hwnw, ar yr hwn y bu ef, yn nghysgod tewfrigau Gethsemane, yn crymu dan "ofidiau angeu;" a hefyd sefyll wrth ymyl claddfa "dinasoedd y gwastadedd," i glustfeinio ar ddystawrwydd sarug y Môr Marw; neu eistedd yn nghysgod copa eiryog Libanus, i wrando ar acenion cwynfanus tônau y Môr Mawr wrth ymddryllio ar draws carneddau "Tyros goronog!" Ond fel yna y mae hi yn bod; ac nid yw yr Aipht mwy, megys yr ydoedd ryw ddeugain mlynedd yn ol, yn wlad anhydraidd y dirgeledigaethau. Y mae llythyr-gludai Prydain Fawr i'r India Ddwyreiniol yn bresennol yn pasio yn fisol trwy hen ddinas Alexandria, heibio "tŷ Pharao," ac ar hyd yr un llwybr ymron ag y brys-yrai yntau ei gerbydau a'i farchogion ar ol plant Israel gynt. Eir bellach o Lundain i Alexandria mewn deuddeng niwrnod: ac nid yw yn beth anfynych i daro wrth un wedi bod ar ben *pyramid* Cheops, ac yn sefyll yn llysoedd Carnac, neu yn crwydro ymblith beddrodau Thebes.

Gan fod hanes yr Aipht mor hollol gymhlethedig a'r gyfrol sanctaidd, meddyliasom na byddai rhoi tro bach ynddi yn annymunol: ac os ymfodloni i ddyfod gyda ni, ddarllenlydd, gwnawn ein goreu i dy wneuthur yn gysurus. Mae rhywun beunydd ymblith y Seison yn arwain myntai o ddarllenwyr i olwg rhyw ryfeddod neu gilydd ynddi; a phaham lai ninnau y Cymry? Y mae hi yn dal perthynas mor agos â ni a hwythau. O ran dim hynod na swynol sydd yn yr Aipht na'r Aiphtiaid presennol, ni chymerai neb y boen o groesi y Canolfor; ond yn ei chysylltiadau hanesyddol y mae yr Aipht yn ddyddorol—dyma y swyn hudol sydd yn tynu cymaint o ymwelwyr iddi bob blwyddyn. Ac yn y cysylltiad hwn, y mae ei thrueni dwfn presennol yn ddyddorol i'r teithydd Cristionogol, fel y cawn weled yn y man. I'w hen breswylwyr y mae hi yn ddyledus am ei holl ogoniant. Gan hyny, wrth lewyrch egwan *lamp* hanesyddiaeth, ni a drow'n ychydig, wrth fyned heibio, ar ddalena'u cyfrolau yr oesoedd y buont byw ynddynt; ni a geisiwn "allan o lyfr yr Arglwydd" hefyd: mae rhyw ymdrafod sobr wedi bod rhyngddo ef a'r Aipht.

Nid yw, ac ni bu yr Aipht erioed, yn wlad eang. Megys gardd fechan ydyw, wedi ei chau i mewn gan natur o ganol moroedd ac anialdiroedd yn nghongl gogledd-ddwyrain Affrica, a'r Môr Coch ac Anialwch Arabia o du y dwyrain iddi, Môr y Canoldir o du y gogledd, diffeithwch Lybia o du y gorllewin, ac Ethiopia anffrwythlon ar y tu deheuol. Mae ei hyd oddeutu pum can' milltir o'r gogledd i'r deheu; a'i lled eithaf, ar draws y Delta, oddeutu cant a hanner. Yr oedd yr Aipht, er yn foreu iawn, yn wlad enwog am ei ffrwythlondeb, a'i llawnder mewn yd, a ffrwythau, a phlanigion

o bob math. "Tir yr Aipht," oddieithr ũangdiroedd toreithiog Caldea, oedd y cyntaf wedi y dylif i feithrin cenedlaeth o bobl alluog a chyfoethog. Canfyddwn hyn oddiwrth rai o dudalenua cyntaf y Bibl. Y tro cyntaf yr aeth Abraham "i waered i'r Aipht," myned yno am nawddle rhag y newyn yr ydoedd. A phan grybwyllir am yr ymrafael rhwng Lot ac yntau, gosodir "tir yr Aipht" yn gyfochrog hyd yn nod ũ "gardd yr Arglwydd," er dangos ffirwythlondeb "gwastadedd yr Iorddonen" (*Gen. xiii. 10*). Yr oedd rhifedi dinasoedd y wlad hon, yn yr amser yr ymwelodd Herodotus ũ hi, yn ddim llai nag ugain mil, medd ef; ac yr oedd rhifedi poblogaeth rhai o'r rhai hyn yn aruthrol. Yr oedd un o honynt, sef Thebes, yn alluog i anfon allan ddau can' cerbyd, a deng mil o wŕ traed parod i ryfel, trwy bob un o'i "chan' porth." Dyma y "No dylwythog" y sonia Nahum am dani (*pen. iii*). Ac eto bu y wlad fechan hon, nid yn unig yn cynnyrchu digonedd o gynnalïaeth i'w miliynau ei hun, ond hefyd yn foddion lawer gwaith, heblaw yn amser Joseph, i gynnysgaethu "yr holl wledydd" ũ moddion cynnalïaeth; canys, ar ol i'r Rhufeiniaid roddi yr iau ar ei gwar, dywedir ei bod yn cyflenwi mam-ddinas y byd ũg ugain mil-iwn o lestreidiau o yd, yn ffyneddol. A bu cweryl tost unwaith rhwng Cystenyn Fawr ac Athanasius, esgob Alexandria, am i'r olaf fwgwth na chai dim yd mwy ei drosglwyddo o borthladd y ddinas hõno i Gaercystenyn; canys gwyddai yr ymherawdwr yn dda nas gallai ei brifddinas ef ymgynnal yn annibynol ar yr Aipht. Yr oeddnt yn cael dau gynauaf yn y ffwyddyn. Y mae gwlaw, cenllysg, ac eira, yn bethau dycieithr iawn yn yr Aipht: yr haul yn tywynu yn ddirwyr, o ganol ffurfafen las a chllir, yn wastadol. Yr oedd syndod yr Aiphtiaid yn fwy o herwydd hyn, pan welsant "ddystrywio eu gwinwydd ũ *chenllysg*, a'u sycamorwydd ũ *rhew*." Y mae yn gwlawio unwaith neu ddwy yn y ffwyddyn yn yr Aipht Uchaf, a dyna y cwbl o'r wybrenydd, oddieithr y gwllith, yn hon sydd yn lled helaeth yn y parthau agosaf i'r môr. Dywed Volney am dano fel hyn:—"Yn Alexandria, ar ol machlud haul, yn mis Ebrill, y mae y dillad a adewir yn yr awyr agored, &c., yn cael eu gwlychu fel pe buasai wedi gwlawio." Ond y mae y gwres angerddol yn lladrata y gronynau grisiaid-aidd o fynwos y llysiau a'r blodau mewn byr amser. Ni ddisgyna gwresurydd Fahrenheit ddim islaw 52° neu 50° yn yr amser oeraf yn mis Chwefror. Mae yn amlwg, gan hyny, fod y wlad hon yn ddyledus am ei holl ffirwythlondeb i rywbeth gwahanol i wledydd yn gyffredin. Y ffynonell o'r cwbl ydoedd ei *hafon*, y Nilus, yr hon y gellir ei hystyried megys yn dal y fath berthynas bwysig ũ hi ag ydyw y gwaed ũ'r cyfansoddïad corfforol. Lle bynag y gwasgerid ei dyfroedd, byddai bywyd a thyfiant. Yr oedd un o'r Pharaoid mor gydnabyddus ũ'i gwerth anmhrisiaidwy, nes y teimlodd awydd cryf am gael ei gydnabod yn grŕwr iddi; canys, tra yn sefyll ar ei glan, un diwrnod, aeth mor bell a chyhoeddi—"Eiddof fi yw *fy afon*; a mi a'i *gonaethum* hi i mi fy hun" (*Exec. xxix. 3*). Y mae cymaint o hynodion hanesyddïaeth gysegredig yn gysylltiedig ũ'r afon hon, fel y tailynga sylw neillduol. Ar ei glan hi y safai y deddf-roddwr Hebraidd, gan gyfrif "trysorau yr Aipht" "fel mân lwch y clorianau" mewn cymhariaeth i "ddirmyg Crist;" ac ar ei glan hi hefyd y bu yr ymdrech sawr rhwng Jehofa ac eilunod yr Aipht, &c., &c. A lliosog a hynod ydyw y golygfŕydd a'r gweithrediadau, y rhai y bu yr afon hon yn dyst o honynt mewn oesoedd diweddarach. Gelwir hi yn *Nilus*, ar gyfrif y

cyflawnder o laid sydd yn wastad yn ei dyfroedd. Ni elwir hi wrth ei henw priodol hwn ond unwaith yn yr holl Fibl (*Jer.* ii. 18); ond gelwir hi, mewn ffordd o arbenigrwydd, "yr afon," dros ugain o weithiau ynddo. Hi ydyw yr afon hwaf yn Affrica. Mae ei hyd oddeutu tair mil o filltir-oedd. Mae ei changen ddwyreiniol, yr hon- a elwir yr Afon Las (*Blue River*), yn cyfodi yn Abyssinia, yn lledred 11<sup>o</sup> gogleddol. Tybygir fod yr Afon Wen, yr hon yw ei changen orllewinol, yn meddu ei ffynnonell yn Mynyddoedd y Lleuad; ond ni ymwelwyd â hi gan unrhyw Ewropead hyd yn hyn. Darganfuwyd y llall gan Bruce. Y mae y ddwy gangen yma yn ymuno yn nhiriogaeth Senaar; ac o'r pwynt hwn hyd ei hymarllwysiad i Fôr y Canoldir, nid yw yn derbyn un firwd deyrngedol o bwys ond Tacazze. Attelir ei chwrs, pan y mae ar fynydd i mewn i'r Aipht, gan resi o greigiau, y rhai y mae y dwfr yn ymarllwys drostynt, a gelwir hwy y *Cataracts*, neu raiadrau. Y mae yr hen feirdd a'r haneswyr wedi gwisgo y rhai hyn â lliaws o hynodion breuddwydiol, nes gwneyd i bob teithydd i'r Aipht fod yn awyddus am gael golwg arnynt. Ond nid ydyw y mwaf o honynt, mewn gwirionedd, ond oddeutu dwy droedfedd o ddisgyniad; a mynai Mr. Stephens, yr hwn oedd yn gydnabyddus â disgyniadau y Niagara, eu galw yn *rapids*, yn hytrach na *cataracts*. Y mae yr afon yn ymledu yn y fan hon, ac yn gadael lliaws o ynysoedd bychain, heirdd, yn ei chanol. Yna y mae yn ymdeithio ymlaen yn ddirwysr, hyd nes cyrhaedd wyth milltir islaw Cairo, lle y mae yn ymwahanu yn ddwy gangen, un yn cymeryd cwrs gogledd-ddwyreiniol, ac yn ymarllwys i'r môr yn Damietta; a'r llall yn cyfeirio tua'r gogledd-orllewin, ac yn cael y môr yn Rosetta, gan adael cyfandir helaeth o dir trionglog rhyngddynt, yr hwn a elwir *Delta*, am ei fod yn tebygu i'r llythren Roegaid  $\Delta$ . Y modd trwy yr hwn y gwasgarai firwythlondeb dros yr holl wlad, ydoedd ei bod unwaith yn y flwyddyn yn gorlifo ei glanau. Mae yn debyg na chyfododd o'i gwely gymaint ag unwaith yn ystod y "saith mlynedd newyn." Yr achos o'r llif ydyw y gwlaw a syrth yn Abyssinia. Yr oedd yr hynafiaid mewn penbleth dost ynghylch achos y gorlifant, fel y gellir gweld yn Strabo, Seneca, &c.; ond penderfynodd Ptolemy Philadelphus yr ymrafael, trwy anfon ymchwilyr penodol, y rhai a fuont yn dystion o'r gwlawogydd yn Abyssinia. Dechreuwa chwyddo oddeutu canol Mehefin, a chyrrhaedda ei huchder mwaf yn Medi. Yr oedd gan yr hynafiaid golofn, ac arni raddau i fesur uchder y llif, yr hon a gedwid yn ofalus yn nheml y duw Serapis, i ddaioni a gofal yr hwn y priodolent y gorlifant; ac y mae i'w gweld eto, neu yr oedd yn ddiweddar, mewn teml Fahometanaidd yn Cairo. Un cyfydd ar bymtheg, yn ol Pliny, fyddai uchder boddhaol y dyfroedd: os byddai dipyn lew yn llai, ofnid newyn; ac os llawer yn fwy, dyna ddinysr yn tremio, megys golchi ymaith dai, &c. Cedwid sylw manwl ar gynnydd y dwfr yn Memphis, yn yr Aipht ganol; ac oddiyno cyhoeddidd trwy yr holl wlad pan gyrhaeddai uchder ffafriol, yr hyn a ddilynid gan orfoledd cyffredinol. Byddai yr holl ddyffryn yn gyffredin dan ddwfr am ddeufis —at yr hyn y cyfeiria Amos (*pen.* viii. 8) pan y dywed, "A hi a foddir megys gan afon yr Aipht;" canys byddai y Nile y pryd hwnw fel môr yn ymledu dros y wlad; a'r dinasoedd, y pentrefydd, a'r llwyni coed, fel ynys-oedd bychain, yn britho gwyneb y llifeiriant. Yr oedd y dinasoedd wedi eu codi ar ucheldir, a'u cysylltu â'u gilydd â math o sarnau cedyrn. Gan fod y tir yn naturiol anwastad, anmhosibl oedd i'r afon orlifo y cwbl; o

herwydd hyn, cymerodd yr hen Aiphtiaid lafur anghredadwy bron i dori rhifedi dirfawr o gamlesydd, neu ddyfrffosydd, y rhai a gludent y dyfroedd i bob parth, ac a'u cadwent at anghen, ar ol i'r afon ostwng. Yr oedd ganddynt hefyd beiriannau hynod, o ddyfeisiad Archimedes, pan oedd ryw-bryd ar ei daith yno, i gyfodi y dwfr a'i wasgaru ar hyd y lleoedd uchel. Y dyfr-ffosydd hyn, dybygem, oedd y "ffrydiau amddiffyn" yn *Essay* xix. 6. Yr oeddynt felly yn llythyrenol yn amser rhyfel. Lle drwg iawn, yn enwedig i feirchlu y gelynyion, oedd yma, gan fod y wlad yn un rhwyd-waith o gamlesydd, a'r rhai hyny yn llydain a dyfnion, ac yn llawn dwfr.

Ar ol i'r dwfr gilio, ac i'r tir sychu yn ddigonol, dechreuai yr Aiphtiad ar ei waith, trwy dori y ddaear i fyny, a'i thymheru âg ychydig o dywod, am fod y tir yn rhy fras heb hyny, ar gyfrif y llaid gwerthfawr a ddygir i lawr gan yr afon, ar ei hynt trwy wledydd eraill, yn enwedig Ethiopia, "yr hon yr yspeiliodd yr afonydd ei thir"—a'r "afonydd" yma ydoedd y Nilus, gan ei bod yn teithio trwy Ethiopia i'r Aipht. Wedi hyny, byddai yn hau gyda rhwyddineb, a chydag ychydig neu ddim traul, gan fod y llaid ei hun yn fwy toreithiog nag y gallai dim llafur dynol ei wneyd. Yn mhen deuffs ar ol hyn, gwelid yr holl dir yn crymu dan gnydau toreithiog o yd, llin, papyrfrwyn, a firwythau o bob math, a hyny mewn helaeth-rwydd difesur;—y wlad yn un olygfa ângfaith o ddolydd prydferth, a'u gwyrddlesni amlwiedig â blodau heirdd yn swyno y llygad. Gwelid ar bob llaw yroedd o ddeallau, a lliaws aneirif o "anifeiliaid yn pori wrth ddyfroedd lawr" (*Ezec.* xxxii. 13), a thorfeydd o amaethwyr a garddwyr, y naill yn "dyfrhau & i droed" (*Deut.* xi. 10), a'r llall yn gwneyd i'w afonydd bychain [y camlesydd] gerdded o amgylch y blafsa, ac yn cynnorthwyo i fwrw "ei ffrydiau at holl goed y maes" (*Ezec.* xxxi. 4). Byddai yr awyr mor odiaethol o hyfryd yn yr amser hwn, gan y cyflawnder o ehedion pêr oddiar fiodau yr eurafal (*orange*), y *lemon*, a phrenau eraill, fel na ellid profi ei hiachach na'i dymunolach yn y byd.

"Hoff beraroglaui lanwai 'r dyffryn mawr;  
A throis y moroedd treiddiai peraidd sawr,  
Nes gwneyd i bell ardaloedd deimlo mai  
Rhyw Eden oedd, a'i chlod i hir barhau."

Yr oedd yr afon hon, nid yn unig yn foddion i gynnyrchu pob math o ymborth llysieuol; ond hefyd meithrinai bysgod yn ddirifedi—ymborth danteithiol iawn gan yr Aiphtiaid. Cwynai yr Israeliaid, a'r "lliaws cymysg" oedd yn eu mysg, yn dost, wrth gosio am'danynt yn yr aialwch: "Cof yw genym," meddent, "y pysgod yr oeddym yn eu bwyta yn yr Aipht yn rhad" (*Nwm.* xi. 5). Gan nad yw tir yr Aipht yn "yfed dwfr o wlaw y nefoedd," mae ffynnonau yn brinion iawn ynddi; ac o'r afon yr yfant; ac ni bu yn "flin" gan yr Aiphtiaid wneyd hyn, ond yn yr amser yr oedd yn treiglo ymlaen yn firwd fflaidd a drewedig o waed; canys y mae ei dyfroedd mor hyfryd i'r archwaeth, fel y dywed y Tyrciaid, pe buasai Mahomet yn eu profi, y buasai yn gweddio am gael anfarwoldeb daearol, fel y gallasai eu mwynhau am byth. A dyna ydyw prif ddirfyrwch y pererinion ar eu taith i Mecca—son am yr hyfrydwch mawr a gânt wrth yfed dwfr y Nile ar ol dyfod adref. Arferir ei hyfed wrth bleser, yr hyn a ffynai mor foreu a dyddiau y prophwyd Jeremia (*pen* ii. 18). Ond meddylodd yr Arglwydd am roddi tir yr Aipht yn anrhaith, ac anrheithio y wlad o'i llawnder (*Ezec.* xxxii. 15); a gwyddai mai un o'r moddion mwyaf effeithiol

i hyn oedd "codi ei law ar yr afon." Ac fel hyn y dywed y prophwyd Esay: "A'r dyfroedd a ddarfyddant o'r môr, yr afon hefyd a ã yn hesp ac yn sech. A hwy a droant yr afonydd ymhell; y ffrydiau amddiffyn a ddyhysbyddir, ac a sychant: torir ymaith bob corsen a hesgen. Y papyr-frwyn wrth yr afon, ar fin yr afon, a phob peth a hauwyd wrth yr afon, a wywa, a chwelir, ac ni bydd mwy" (*pen. xix. 5—10*). Ac mor gryfion yw geiriau y brophwydoliaeth uchod, a lliaws a ellid nodi, wrth eu dal yn ngwyneb agwedd bresennol gwlad yr Aipht! Yr afon, yr hon, yn nyddiau Esay, oedd yn ymwahanu islaw Memphis yn "saith ffrwd," nid ydyw yn awr ond dwy. Ac y mae hi, fel y dywed Arglwydd Lindsay, "yn llifo trwy ddiffeithwch ãngfaith," ac megys yn cydymdrechu â'r anialwch cymydog-aethol i gadw meddiant o'i dyffryn hynafol ac anwyl; ond yn gorfod encilio ychydig bob blwyddyn o flaen y tywod trawsymwthiol, yr hwn sydd megys wedi penderfynu claddu pob troedfedd o dir diwylliedig yn y fro. Ac y mae y llaid a ddygir i lawr ganddi yn flyneddol wedi codi ei glanau i'r fath uchder, nes yn ofer yr ymdrecha i anfon ei dyfroedd i ond ychydig o ffordd, yn ol rhagfynegiad Ezeziel (*pen. xxxii. 14*), pan y gwedodd, yn enw yr Arglwydd, "Gwnaf yn ddyfnion eu dyfroedd hwynt." Mae y camlesydd ardderchog gynt, wedi eu cau i fyny, a'u colli o'r golwg; a'r meusydd ãng a frwythlawn a brynodd Joseph i Pharao,<sup>1</sup> ydynt wedi eu hawlio gan y diffeithwch er's llawer oes. Dim—dim diwylliant ond yn nyffryn cul yr afon; a'r darnau hyny o dir a adawyd, ac a ddyfrh ir, ydynt eto yn rhai o'r manau frwythlonaf yn y byd. Ar du gorllewinol yr Aipht, fel y gwelir yn "*Heath's Plan of Egypt*," medd Dr. Keith, "hen wely i'r afon Nile, yr hwn sydd yn awr yn sych, ac a elwir gan y brodorion yn Bellomah, sydd bedwar ugain milltir o bellder oddiwrth y gangen nesaf o'r afon h no. Y tir sydd rhyngddynt, yr hwn sydd fwy o hyd nag o led, a ddynodir fel 'gwastadion aruthrol o dywod;' a chamlas hir, yr hwn mewn rhan a'i croesai, sydd yn awr yn sych, oddigerth yn amser y gorllifant. Ac ar du dwyreiniol yr Aipht, y mae y gangen Belusaidd o'r Nile wedi ei thagu i fyny; a'r gwastadedd trwy yr hwn y llifai, sydd, oddieithr mewn ychydig o lynau llonydd, yn anwahanol oddiwrth y diffeithwch tywodlyd sydd yn ei amgylchu ar bob tu. Yn y lle a gyfryngai rhwng ei ffrydiau gynt, ac hyd yn nod o fewn y terfynau culach o lawer a gedwir yn awr gan ffrydiau y Nile, gwelir llinellau sychion o afonydd a chamlesydd, a'r diffeithwch yn gorchuddio llawer o ardaloedd helaeth, y rhai unwaith a ddyrchafent yr Aipht yn benaf ymhlith y teyrnasoedd. A chyda yr eithriad o amgylchoedd Rosetta a Damietta, ac ychydig o bentrefi truenus, y mae y teithydd wrth drawsgroesi yr unwaith gyfoethog Ddelta o un ochr i'r llall, fel y bu yr ysgrifenydd yn dyst, yn myned trwy anialdir; a'r lle yr oedd unwaith ffrydiau yn rhedeg ymhlith y planigion, a'r afonydd bychain yn cael eu hanfon allan i blith coed y maes. Y mae costrelau crwyn (*water skins*) yn rhan anghenrheidiol o offer y teithydd; a gellir eu llenwi o'r newydd yn unig ar ol wyth neu ddeg awr o deithio, neu hirach cyfnod, a hyny weithiau o bydew ariach ac arian."<sup>2</sup>

A thra yr ydoedd yr Aipht yn gallu rhifo ei dinasoedd wrth y miloedd, a phoblogaeth y rhai hyny wrth y miliynau, gall y teithydd yn awr gerdded ugeiniau o filltiroedd, ar hyd a lled y wlad, heb gyfarfod â chymaint ag

<sup>1</sup> Gen. xlvii. 20.<sup>2</sup> "*Evidence of Prophecy*:" tudal. 376.

un : mewn gair, nid oes o'i mewn ond rhyw hanner dwsin o ddim sylw, megys Cairo, Alexandria, Siout, ac un neu ddwy eraill. Nid ydynt ar y goreu ond megys "cysgod yr Aipht" (*Esac.* xxx. 2); ac y mae adfeilion rhai o'r hen ddinasoedd yn gwenu mewn dirnyg uwch ben eu gwycheder penaf. "A bydd tir yr Aipht yn ddinystyr ac yn anrhaith," medd Duw, "a chânt wybod mai myfi yw yr Arglwydd" (*Esay* xxix. 9). Ac nid oes ynddi yn awr ond oddeutu dwy filiwn a hanner o bob math o boblogaeth. Daeth hyn hefyd dan sylw Hollwybodaeth, ac amlygwyd ef gan y prophwyd Esay (*pen.* xxx. 12), pan y dywedodd, "Gwnaf hefyd i *liases* yr Aipht ddarfod."

Poblogwyd yr Aipht ar ol y dylif gan ddisgynyddion uniongyrchol Ham, y Pathrusim, y Casluhim, a'r Caphtorium (*Gen.* x. 13, 14). Mae yr enw Caphtor wedi ei gadw yn eu plith hyd heddyw, yn enw hen ddinas a elwir Coptus. Coptiaid hefyd y gelwir hiliogaeth yr hen Aiphtiaid; a'r hen iaith, yr hon sydd wedi darfod, oddigerth ychydig eiriau a arferir yn ddifeddwl gan y trigolion oddeutu y *cataracts*, a elwir yn Goptaeg. Mae hanes foreuol y wlad hon yn guddiedig gan dywyllwch; ac yr ydym dan anghenhreidrwydd i ymddried gan mwyaf i ddarnau damweiniol, yn hytrach na hanesiaeth wedi ei chadw yn fwriadol.<sup>1</sup> Y mae yn wir, fel y crybwyllwyd eisoes, ei bod yn un o'r teyrnasoedd hynaf: sylfaenwyd hi oddeutu 2188 c.c. Yr ydym yn cael fod ynddi dywysogion a brenin mor foreu ag amser Abraham (*Gen.* xii. 15). Ond y maent yn hōni hynafiaeth afresymol—o ugain neu hanner can' mil o flyneddau; a'u bod yn cael eu llywodraethu ar y cyntaf gan y duwiau. Y mae yr estyniad hirfaith hwn at oes y byd, wedi peri gorfoledd i elynion dadguddiad, amser a aeth heibio. Mae yn well gan rhai dynion, call mewn rhyw ystyron, ymddried eu gwadnau ar siglenydd corsog chwedlëyddiaeth, nag ar dir cadarn gwirionedd. A rhai athronwyr Ffrancaidd, a ganlynent Napoleon ar ei hynt trwy yr Aipht, a gawsant afael ar ryw arwyddnodau athronaidd ymhlith adfeilion teml Denderah, ar y Nile; a thybient eu bod yn agoriad i'r dirgelion Aiphtiaidd, a chlodwyd hwy i'r llyfrfa freninol i Paris. Tynwyd oddiwrthynt athrawiaeth gywraint i wrthbrofi hanes Moses o'r crëad. Ond yn y gors yr oedd y sail, a daeth yr adeilad i lawr. Y mae rhywbeth yn hynod yn hyn hefyd —y mae y gorgyfrif hwn wedi ymlusgo i mewn i dafneuau amseryddol y rhan fwyaf o'r hen genedloedd; sef y Caldeaid, y Chineaid, a'r Hindwaid. Ond y mae ein cydwladwr, Syr William Jones, yn ei "*Asiatic Researches*," wedi dangos yn eglur dwyll y cyfrifon Indiaidd. Ar ol tynu ei gyfrifon rhesymegol ef i lawr i ffugyrau, y maent oll, sylwer, yn terfynu mewn gwagnodau ar y llaw ddeha; a'r egwyddor gymhwysedig atynt ydyw, tori y gwagnodau ymaith: fel hyn, "*Vaiasarwata* (Noah) oedd yn teyrnasu 3,892,000 o flyneddau yn ol."<sup>2</sup> Torer allan y tair *cypher*, a dyna y cyfrif yn 3,892. Ac y mae y dybiaeth fod llywodraeth wedi ei sefydlu gyntaf yn India, gan Rama, oddeutu 3,800 o flyneddau yn ol, yn cytuno â'r hanes ysgrythyrol am farwolaeth Noah, a rhagymsefyddiad uniongyrchol ei ddisgynyddion. Cymhwyswyd yr unrhyw egwyddor at Herodotus; a hi a

<sup>1</sup> Y mae y ffaith mai gan offeirïad eilun dduwiau yr Aipht y derbyniodd Herodotus ddefnyddiau ei hanesyddiaeth, yn rhoddi rheswm boddhaol am ei ddystawrwydd ynghylch y dygwyddiadau hynod ysgrythyrol; canys y mae yn amlwg na chrybwyllent hwy am ddim a warthruddai eu duwiau.

<sup>2</sup> "*Asiatic Researches*:" tudal. 126.

ddeil hefyd yn wyneb Diodorus Siculus, yr hwn a ddywed fel hyn, "Y gweddill o 15,000 o flyneddau a lauwyd gan freninoedd Aiphtaid, mewn rhif yn 470." Ond mewn man arall, dywed, "Mae yr offeiriaid yn dyweyd fod eu llyfrau yn crybwyll saith a deugain o feddrodau breninoedd." Mae hyn yn hynod braidd, ac yn ymddangos fod rhyw gamwri yn rhywle. Mae yn fwy na thebyg fod gan bob un o'r breninoedd feddrod iddo ei hun; ond yma saith a deugain o feddrodau i bedwar cant deg a thriugain o freninoedd! Torer allan y gwagnod, a dyna y cyfrif yn ei le. Mae yn ymddangos hefyd fod yr hen ddull Aiphtaid o gyfrif eu blyneddau, yn cyfranogi i chwyddo eu tafienau mor aruthrol. Dywed Palephatus eu bod mewn oesoedd pellenig, yn cyfrif ystod teyrnasiad eu breninoedd wrth y diwrnodau; a phwy a'n sicrha na roddodd adysgrifwyr y rhai hyn flyneddau i lawr yn lle dyddiau? Dywedir fod Helios, mab Vulcan, wedi teyrnasu 44,770 o flyneddau; ond wrth olygu y rhai yna yn ddyddiau, ni theyrnasodd ond y nifer rhesymol o ddeuddeng mlynedd, tri mis, a phedwar o ddyddiau. A Diodorus Siculus a ddywed iddo glywed nad oedd eu blwyddyn ond mis o ddyddiau; felly y mae 1200 mlynedd o deyrnasiad pob un o'r duwiau yn cael ei dynu i lawr i gynnifer a hyny o fisoedd, neu gan' mlynedd. Mae hyn yn tynu i lawr hynafiaeth aruthrol eu llinachau (*dynasties*) i ystod rhesymol, ac yn rhoddi taw ar ddadwrdd anffyddiaid.

Y mae haneswyr yn cytuno yn unfrydol, modd bynag, mai brenin cyntaf yr Aipht oedd Menes, neu Mizraim, mab Cham. Oddiwtho ef deilliodd llinach o freninoedd, y rhai a deyrnasasant mewn doethineb a llwyddiant hyd nes eu gorchfygu gan y Bugail Freninoedd, y rhai a drawsfeddiannasant yr orsedd am ychwaneg na dau can' mlynedd. Y rhai hyn oeddynt o Arabia neu Phoenicia; ac yn amser un o honynt y daeth Abraham i'r Aipht gyntaf,<sup>1</sup> ac y dygwyd Sara oddiarno (*Gen.* xii. 14—20). Gyrwyd allan y rhai hyn gan un Amosis, ac adferwyd y llywyddiaeth i'r brodorion. Ar ol teyrnasiad hwn y rhaid i ni leoli yr holl ddygwyddiadau ysgrhythrol am Joseph, Jacob, a'r Israeliaid, hyd eu mynediad trwy y môr. *Amenophis* y geilw yr haneswyr Groegaidd y "Iefiathan" ysgrhythrol (*Salm* xxv. 14), yr hwn y drylliodd yr Arglwydd ei ben yn y Môr Coch. Ei ganlyniedd ef ydoedd *Sesostris*. Yn ei ddyddiau ef yr ymddyrfhafodd yr Aipht i fawredd ac enwogrwydd nad adnabu o'r blaen, nac ar ol hyny. Ffurfiodd ei dad, *Amenophis*, y bwriad o'i ddwyn i fyny yn goncwerwr; ac felly mewn gwirionedd y daeth yn un o'r rhai hynotaf a gynnrychodd y byd erioed. Yr holl fechgyn a anwyd ar yr un dydd ag ef a ddygwyd i'r llys breninol, i gael eu cyd-ddwyn i fyny âg ef, fel y byddent yn brifweinidogion ei deyrnas. Dechreuodd ei ryfelgyrhoedd trwy oresgyn Ethiopia, a dygodd ei chenedlaethau dan dreth: cariodd ei arfau i Ewrop, a threiddiodd yn bellach i India nac Alexander ei hun; a gorchfygodd y brÿdd tuhwnt i'r Ganges. Ar ol poeni y byd â dinystr am naw mlynedd, dychwelodd adref yn llwythog o anrhaith y cenedlaethau, a dragio ar ei ol aneirif lu o gaethion. Bu fyw ar ol hyn mewn llonyddwch, gan droi ei feddwl i lesoli ei ddeiliaid—adeiladu temlau a chofgolofnau, a'u gorchuddio âg arwyddion o'i fuddygoliaethau, &c. Collodd ei olwg yn ei hen ddyddiau, ac ymneillduodd o'r cyhoedd, a gadawodd ei deyrnas yn aruthrol gyfoethog i'w ddi-lynydd Pheron. Yn mhen ychydig wedi hyn, cawn Cheopis a Cephrenes

<sup>1</sup> Gwel "*Rollin's Ancient History*:" tudal. 34.

yn teyrnasu, i'r rhai y priodolir adeiladaeth y ddau *pyramid* a änt ar eu henw. Penderfynodd y ddau yma adael eu hol ar y byd ; a chyda chosbi eu deiliaid a'r fath lafurwaith diddefnydd ag ydyw y *pyramids*, oodasant eu llaw yn erbyn y duwiau, a chauasant bob teml yn y wlad yn ystod eu teyrnasiad, yr hyn a barhaodd, rhyngddynt, dros gan' mlynedd ; a gwarddasant bob math o aberthau, dan boen y gosb lemaf. Treisiwyd y lwyddiaeth mewn rhyw gymaint o amser wedi hyn gan freninoedd Ethiopia. Bu gan yr hanesydd sanctaidd achlysur i grybwyll rhai o honynt ; sef Terah, So, a Tirhacah ; yr olaf hwn a aeth allan a'i luoedd yn erbyn brenin Assyria, o blaid Israel (2 *Bren.* xix. 9). Collodd Tirhacah ei afael ar yr Aipht, ac adgymerwyd y llywodraeth gan ddeuddeg o arglwyddi brodorol ; ond gorchfygodd Psammettucus, un o'r deuddeg, y lleill oll, a chymerodd y deyrnwialen yn gwbl i'w law ei hun. Dyma yr hwn a fu yn gwarchae ar Asdod, un o bum dinas y Philistiaid, am naw mlynedd ar hugain cyn gallu ei chymeryd. Ei dad ef ydoedd y Pharao-Necho a laddodd Josia, brenin Israel, yn Megido (2 *Bren.* xxiii. 29). Y mae gan Herodotus ryw hanes cymysglyd o'r frwydr hon. Magdolo y geilw ef faes yr ymdrech : mae tebygrwydd y ddau air i'w gilydd yn profi mai yr un ydyw. Ac yn erbyn hwn a'i lu y bu yr hen Jeremia, er's llawer dydd (*pen.* xlvi.), yn canu udgorn yr Arglwydd, gan waeddi, "O feirch, deuwch i fyny ; a chwithau gerbydau, ymgynddeiriogwch ; deuwch allan, y cedyrn ; canys aberth sydd i Arglwydd Dduw y lluoedd yn nhir y gogledd wrth afon Euphrates." Hwn oedd yr un a gafodd allan y fynedfa o amgylch y Penrhyn Gobaith Da gyntaf o neb. Anfonodd longau o'r Môr Coch, trwy Babelmandel, gan amgylchu Affrica a dyfod yn ol i Fôr y Canoldir trwy gyfyngor Gibraltar. Yr oedd hyn lawer canrif maith o flaen y Portugäid. Wyr iddo ef ydoedd Pharao Hophra—cymeriad pur hynod ar y dalenau cysegredig. Geilw Ezeciel ef, "Y ddraig fawr yr hon sydd yn gorwedd yn nghanol ei afonydd (*pen.* xxix. 3)." Yr oedd yr Aipht, yn ei ddyddiau ef, wedi cyfodi i'r fath raddfa uchel fel nad oedd "un pren yn ngardd yr Arglwydd yn debyg iddi hi yn ei thegwch." Daeth Hophra, yn fwy arbenig na neb o'i berthynasau breninol, o dan sylw gwsg hen brophwydi Juda. Efe yn bersonol ydyw gwrthddrych cyfarchiadau arswydus Ezeciel yn y pennodau canlynol, sef y xxix—xxxii. Yn fuan ar ol hyn, anhreithiwyd y wlad gan Nebuchodonosor, yn wobr am ei wasanaeth dros Dduw yn erbyn Tyrus (*Ezec.* xxix. 17—20). Dau yn unig, wedi Hophra, a deyrnasasant o hyny hyd heddyw yn yr Aipht o hiliogaeth naturiol y wlad. Gwrthryfelwr yn erbyn Pharao Hophra a gawn ar yr orsedd ar ei ol, o'r enw Amasis. Un o ddechreuad isel ydoedd, a diystyr- id ef gan ei ddeiliaid, yn nechreu ei deyrnasiad, ar y cyfrif hwn. Ond nid ydoedd un gronyn llai yn ei ymenydd er hyny ; a'r cast a gymerodd i geisio ennill serchiadau a pharch ei ddeiliaid oedd hwn :—Yr oedd ganddo badell aur, yn yr hon y byddai ef, a'r personau a dderbynid at ei fwrdd, yn arfer golchi eu traed ; efe a'i toddodd, ac a'i gwnaeth yn ddelw, ac yna gosododd y duw newydd i fyny i gael ei addoli. Ymdyrai y bobl yn lluoedd i dalu eu paroh i'r ddelw. Yntau, ar ol casglu y bobl fel hyn, a'u hysbysodd yn y fath wasanaeth gwael ac isel yr oedd y ddelw unwaith wedi bod, i'r hon, er hyny, ar ol ei bwrw yn ddelw, yr oeddent yn talu eu hymostyngiadau crefyddol. Yr oedd y cymhwysiad yn hawdd, ac atebodd y dyben ; a'r bobl, o hyny allan, a dalasant i'w brenin yr holl barch dyledus



i fawrhydi.<sup>1</sup> Darostyngodd Cambyses, y Persiad, mab Cyrus, y wlad yn llwyr yn y flwyddyn 525 cyn y cytrif Cristionogol. Anrheithiodd y tywysog creulawn hwn hi yn ddychrynlyd, a chariodd ryw floedd o'i duwiau i Persia. Parhaodd o dan iau y Persiaid am ddau can' mlynedd, pryd yr ymostyngodd yn ewyllysgar i Alecsander Fawr. Yr oedd yn dda ganddynt gael cyfle i ymlithro oddidan fraich haiarnaidd y Persiaid, a llongyfarchent y gorchfygrwr. Estynodd yntau iddynt freintiau helaeth, a gadawodd iddynt gael eu llywio gan eu cyfreithiau a'u defodau cynhenid: adeiladodd Alecsandria, a symudwyd yr orsedd yno. Ar ol ei farwolaeth, rhanodd ei bedwar prif gadben yr ymherodraeth fawr rhyngddynt, "tua phedwar gwynt y nefoedd," a disgynodd y "deheu" (*Dan. xi. 5*), sef yr Aipht, am ei bod yn gorwedd yn union i'r deheu o Ganaan, i feddiant Ptolemy Soter. Llywyddwyd y wlad wedi hyn gan linach o freninoedd Groegaidd, gan mwyaf o'r enw Ptolemy, am dri chan' mlynedd. Bu yn flodeuog iawn o dan deyrnasiad rhai o'r breninoedd hyn. Yn y cyfnod hwn y mudodd llawer iawn o'r Iuddewon iddi, gan eu bod yn cael caniatâd i arddel eu crefydd ac ymarfer eu defodau eu hunain. Trosglwyddodd Alecsander liaws mawr o honynt i'w ddinas newydd ef, gan eu rhoddi ar yr un tir breintiol a'r Macedoniaid eu hunain. Ac yr oedd Ptolemy Philadelphus mor dyner o'r Iuddewon nes y prynodd yr holl rai caethion yn y wlad er mwyn eu gosod mewn rhyddid. I hwn y priodolid cyfieithiad y Deg a Thyrugain gan y rhan fwyaf o'r hen ysgrifenywr. Adeiladwyd teml i Arglwydd y Lluoedd yn yr Aipht yn yr amser hwn ar gyllun y deml yn Jerusalem: cysegrwyd un Onias yn archoffeiriad, ac aberthid a chynnelid gwasanaeth dwyfol ynddi yr un modd ag yn Jerusalem, hyd oni orchymynodd Vespasian ei dinystrio yr un amser a "chysegr Duw." Yr olaf o olynyddion Alecsander oedd yr hynod Cleopatra, prydferthwch hudol yr hon a swynodd yn olynol galonau y gwroniaid dewrwyh hyny, Julius Cæsar a Marc Antony. Mae y frenines brydferth hon yn un o'r cymeriadau hynotaf ar faes hanesyddiaeth.<sup>2</sup> Ymwadodd Antony â'i holl ofalon pwysig yn yr ymherodraeth Rufeinaidd, ac ymroddodd i aros yn yr Aipht i fwynhau ei chyfeillach. Ymlidiodd Augustus Cæsar ar ei ol i'r Aipht, a chauwyd arnynt eu dau yn Alecsandria. Ar ol gwneyd gwrthwynebiad ysgafn am dro, dygodd rhywun air o anwiredd i Antony, sef fod ei anwylyd wedi marw; ar hyn, efe a syrthiodd ar ei gleddyf ac a drengodd. Pan glywodd hi hyny, trefnodd hithau lwybr i farw. Dododd ei llaw yn nghanol basgedaid o fligys, o fewn cyrhaedd colyn yr asp y gwyddai hi ei bod yno, a threngodd. Dyma y wlad yn awr yn gwbl yn nwyllaw Augustus, ac efe a'i gwnaeth yn dalaeth o'r ymherodraeth Rufeinaidd. Yr oedd hyn oddeutu 30 o flyneddau cyn Crist. Parhaodd o dan iau Rhufain, ac yn cael ei llywodraethu gan raglaw a anfonid oddi yno yn flyneddol, hyd y seithfed ganrif, pryd y dechreuodd y dylif Saracenaidd dasfu ei donau gorwyllt dros y byd gwareiddiedig. Arabiaid oedd y bobl hyn, a dilynwyd Mahomet. Yr oeddynt yn fwy hylaw mewn goresgyn cenedlaethau na dal y deyrnwialen lywyddol uwch eu penau ar ol eu goresgyn: ac i'w cynnorthwyo yn hyn, neu yn hytrach i gadw yr Aipht mewn uffuddod, daethant â lliaws o gaethion ieuaine o Circassia, ac a'u dysgasant mewn ymarferion milwraidd. Gelwir hwy Mameluciaid—enw yn arwyddo,

<sup>1</sup> "*Herod.*" llyfr ii., pen. 172.

<sup>2</sup> "*Rollin's Ancient History.*" cyf. iii.

*caethion prymedig.* “*Men of real genius are rare,*” meddai un ysgrifenydd; felly yr oedd yr ychydig gaethion Circasiaidd hyn yn meddu llawn cymaint yn eu penglogau a'r holl hil Saracenaidd ynghyd: ac, mewn gwirionedd, deallodd y Caliphiaid hyny eu hunain, a chodasant hwy i afael y prif swyddau yn y wlad; a thrwyddant hwy yn gwbl, o'r diwedd, y gweinyddid y llywodraeth. Wrth gael eu gwisgo fel hyn a'r fath urddas ac awdurdod, nid oeddynt yn annheimladwy nac yn anwybodus o'r lle pwysig a lanwent yn y wladwriaeth; ac, yn y drydedd ganrif ar ddeg, bradfwriasant yn erbyn eu harglwyddi, a rhoddasant hwy i farwolaeth, a threisiasant orsedd alludog y Caliphiaid yn yr Aipht yn gwbl i'w dwylaw eu hunain. Llywodraethwyd yr Aipht am y tri chan' mlynedd canlynol yn llythyrenol gan *gaethion*. Gosodwyd i fyny y dull rhyfeddaf o lywodraeth a glywyd erioed son. Ar ol marw un teyrn, yr oedd ei olynydd i gael ei ddewis yn wastad o gwmpeni o gaethion newydd eu prynu. Darostyngwyd y wlad yn nesaf gan y Tyrciaid—dyeithriaid eto, fel y rhai a'u blaenorent. Llywodraethai y rhai hyn hi trwy fath o raglaw a elwir *pasha*, a phedwar ar hugain o dywysogion dano a elwir *bey*s. Y person a ddewisid yn *basha* a fyddai bob amser yn un wedi gwneud ei ymddangosiad cyntaf yn y wlad naill ai yn gaethwas neu anturiwr masnachol. Marsiandwr *tobacco* oedd y diweddar Mehemed Ali yn ei ieuentid. “Y cyfryw,” medd Volney, y teithydd enwog, ond anffyddiwr professedig, “ydw cyflwr yr Aipht. Wedi ei hamddifadu er tri chanrif ar hugain o flyneddau yn ol o'i meddiannwyr naturiol, gwelodd ei meusydd ffrwythlon yn ysglyfaeth olynol i'r Persiaid, Macedoniaid, Rhufeiniaid, Groegiaid, Arabiaid, y Georgiaid, ac o'r diwedd, i hil o Dartariaid yn cael eu gwahaniaethu wrth yr enw Tyrciaid Ottomanaid.” A dyma eiriau Gibbon, gwawdiwr arall o ddwyfol ddadguddiad:—“Nis gellid dyfeisio cyfansoddiad (*constitution*) mwy gwrthun ac anghyfiawn na hwnw a gondemnia frodorion gwlad i gaethwasiaeth parhaus, o dan lywyddiaeth ormesol *dyeithriaid* a *caethion*. Eto fel yna y mae cyflwr yr Aipht wedi bod am fwy na phum' cant o flyneddau. Y sultaniaid enwocaf o'r llinachau Borgit a Baharit oeddent eu hunain wedi dyfod allan o'r rhencau milwraidd Tartaraidd a Circasiaidd; a'r pedwar *bey* a'r hugain, ni ddilynid byth yn eu swyddau gan eu meibion, ond gan eu gweision.” Yn sicr, foneddigion, y mae croncl amgylchiadau y wlad hon yn rhyw ddarn hynod a dyrys ymhlith cyfrolau hanesiaeth; ac oddiar y tir y sefwch chwi arno, y mae yn ymddangos yn dywyll a hollol annealladwy; ond y mae ein gwadnau ni yn sefyll ar safle uwch, ac y mae y cwbl yn oleu odidyma: y mae y *landscape* ysbrydoledig yn ymagor mewn mawredd o flaen ein golygon; ac ymhlith ei gwrthdrysychau nef-liwiedig yr ydym yn canfod “ysbryd y brophwydoliaeth” yn sisial yn nghlust yr hen brophwyd Ezeiel, yn mysg cysgod-lwyni afon Chebar, ryw eiriau fel fel hyn: “Gosod dy wyneb, fab dyn, yn erbyn Pharao, brenin yr Aipht, ac yn erbyn tir yr Aipht oll. Llefara a dywed, “Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw;” a dyma rai o'r geiriau—“Ni bydd tywysog mwyach o dir yr Aipht.” “Isaf fydd o'r breniniaethau; ac nid ymddyrrhaif mwy oddiar y cenedloedd” (*pen. xxix. a xxx*). Ac yn nghŵr eithaf y ddarlunlen, wele Zecharia, un arall o blant caethglud Babel, tra newydd ddychwelyd i'w wlad, ac yn cael ei amgylchynu gan ei hadfeilion; dacw yntau,

<sup>1</sup> “*Travels*.” cyf. i., tudal. 74, &c.

<sup>2</sup> “*History*.” cyf. iv., pen. lix., tudal. 74, 75.

megys yn ddifeddwl, ar ganol dyweyd rhywbeth arall, yn cyduno âg Ezeziel i sicrhau tynged y wlad annedwydd hono—"A theyrnwialen yr Aipht a gilia ymaith," meddai (*pen. x. 11*). Llefharwyd y geiriau yna pan oedd yr Aipht yn ei gogoniant, er's agos i ddwy fil a hanner o flyneddau yn ol. Yn wir, nis gallwn braidd lai na gwelwi mewn arswyd wrth ddal y prophwydoliaethau uchod, ac eraill, yn wyneb hanesiaeth y wlad hon; a gweled gyda pha fath gywirdeb manylaidd y mae hyd yn nod eu cyflawniad llythyrenol wedi, ac yn cael, ei wneyd! "Nac ymddyrechafed y rhai anufudd." Y mae Duw y farn heb adael y ddaear: nid yw y tew gymylau yn lloches iddo—y mae yn barnu trwyddynt.

Y mae yr Aipht, yn y blyneddau diweddaf, o dan lywyddiaeth Mehemet Ali, a'i fab Ibrahim, wedi ymddyrechafu i ryw uchder na welodd er's blyneddau o'r blaen; ac, ar un olwg, ymddengys yn ymddattod oddiwrth rwymau tynion eu gwddf. Ond nid ydyw felly. Os ydyw arfau milwrol Ibrahim Pasha yn dysgleirio gan ogoniant eu llwyddiant, y mae ei ddeiliaid gartref yn gruddfan dan bwys y geiriau, "Gwerthaf y wlad i law y drygonus" (*Esac. xxx. 12*); ac nid ydyw y gwaed Ewropaidd a wthir i'w gwythienau ond yn cynnyrchu effeithiau tebyg i'r rhai hyny o eiddo corff marw o dan weithrediad y gwyfr Galfanaidd. "Mae dy ddoethion?" meddai Duw wrth Pharao: ac felly yr oedd doethineb, uniondeb, a chyfiawnder yn briodolledau hanfodol i'r Aipht yr amser yr ydoedd yn eistedd tan ei gwinwydden a than ei ffigysbren ei hun. Cyrchai dysgedigion penaf gwledydd eraill yn lluoedd i'w hysgolion hi. Derbyniodd Solon lawer o gyfarwyddiadau i lunio ei ddeddfau rhagorol yma. Ond yn awr "ynfydion yw tywysogion Soan; cynghor doethion gynghorwyr Pharao a aeth yn ynyd" (*Esay xix. 11*). Buasai yn dda genym allu rhoddi anghreiffiau o hyn; ond rhaid ymattal—y mae ein hysgrif wedi myned yn rhy hir o lawer eisoes.

Y mae yn syn meddwl gymaint y mae y Bibl wedi ei ddyoddef oddiwrth blant dynion. Ond y mae gogoniant ei wirioneddau yn dadblygu o hyd fel y mae yn heneiddio. Nid oes arno eisieu cael ei gadw mewn congï o olwg goleuni cynnyddol gwybodaeth yr oes; na, y mae yn derbyn dysgleirdeb ychwanegol oddiwrth y goleuni hwn. Taerid yn ffoenfalch, rai blyneddau yn ol, nad oedd yn bosibl fod cyfandir America wedi cael ei boblogi o'r hen fyd, gan fod cynnifer o filoedd o filltiroedd o ddwfr rhyngddynt; ond dyma Cadben Cook yn cael allan *Behring's Straits*, ac yn rhoddi terfyn ar yr ymrafael. Nid oedd y fath le a Ninife wedi bod erioed, ychydig iawn o amser yn ol; ond pa beth a ddywedir yn awr, pan y mae Ninife ei hun wedi anfon ei delwau a'i cherfluniau, megys o "fol uffern," i brif ddinasoedd y byd, i ddadleu hawl ei bodolaeth? Soniai yr hen brophwydi lawer am Esau a'i amddiffynfeydd, a thywalltasant arno eu phiolau, ond nid oedd y cyfan ond chwedl, gan y methid cael gafael ar ddim o olion dinasoedd Edom; ond, deugain mlynedd i eleni, agorodd yr Arglwydd ddorau mynydd Seir, ac wele Petra, prif ddinas enwog Edom, yn cyfodi o'i bedd, ac yn ymddangos, yn gyntaf, i Burekhardt: ac y mae hi yn eistedd y mynyd hwn wrth odre mynydd Hor, mewn sachlian a lludw, yn barod i ateb pob ymfynion. Ac, yn niwedd y ganrif ddiweddaf, dyna Voltaire yn haeru fod Aipht y Bibl yn gamgymeriad: er yr amser hwnw, y mae yr Aipht ei hun wedi ei dadgladdu—yr Aipht o bedair mil o flyn-

eddau yn ol. Ger bron y pregethwyr dychrynlyd hyn oddiwrth y meirw, y mae yr anffyddiwr yn sefyll yn fud a chythryblus.

Wel, ddarllenydd, dyma yr ysgrifell yn cael ei rhoddi heibio; ond arweiniwyd hi y tro hwn ar hyd llwybr na feddylodd. Bwriadem, wrth ddechreu ysgrifenu, sefyll yn benaf ar gelfyddydau ac adfeilion yr Aipht. Deuwn o amgylch y pwnc yn iawn mewn rhifyn dyfodol.

Orian 'r bore dreiglodd ymaith,  
 A daeth atom hwyr brydnawn:  
 Tyred, weithian, fwyn gydymaith,  
 Twsag adref bellach awn:  
 "Tir yr Aipht" adawn am enyd,  
 A'i hynodion, mawr a bach;  
 Hyd nes cawn gyfarfod eto  
 Yn eu plith—bydd iach, bydd iach!"

## EFELYCHIAD.

FEL yr ydym yn heneiddio mewn dyddiau, yr ydym yn gorfod teimlo yn fwy wirionedd geiriau y Pregethwr—"Nid oes dim newydd dan yr haul." Fe fu y byd yn newydd i bawb unwaith; ond nid oes neb wedi byw ynddo hanner can' mlynedd heb ddechreu edrych o'i gwmpas yn bryderus, gyda'r Atheniaid, am rywbeth newydd: ie, y mae llai o amser o lawer na hyn y ddigon i'w yspellio o'i holl newydd-deb—i wneuthur ei holl lyfrau (ond un) yn hen,—ei areithwyr, ei feirdd, a'i bregethwyr, yn hen; ie, ei bobl a'i bobpeth yn hen. Wedi darllen un neu ddau o'r prif lyfrau ar y gwahanol wyddoregau a'r celfyddydau, cyfarfyddwn â'u delw byth a hefyd yn mhob llyfr a ddarllenwn drachefn ar yr un pynciau. Wedi darllen gweithiau ychydig o'r beirdd ac o'r athronwyr goreu, y mae yn rhaid i ni, os meddylw'n am ddarllen ychwaneg o farddoniaeth ac athroniaeth, foddloni i gyfarfod â delw yr ychydig hyn yn mhob llyfr a ddarllenwn: a mynych y bydd eu meddyliau wedi eu dwyn, a'u harddull wedi ei ddynwared, fel mai nid anmhriodol a fyddai galw llawer llyfr yn ail argraffiad o waith hwn a hwn, wedi ei olygu a'i waethygu gan hwn a hwn. Wrth agor llyfr newydd, neu wrth wrandaw pregethwr newydd, yr ydym yn dysgwyl cael yr hyfrydwch o gyfarfod â dyn newydd; ond mynych, bydd yn rhaid i ni, yn siomedig, ddywedyd, gyd â'r hen Isaac—"Dwylaw Esau, a llais Jacob." Y mae gwisg Milton neu Shakspeare gan y bardd—ond pa le y mae eu llais hwy? Y mae tŷn ac ystum y pregethwr mawr gan y dyn, ond, Ow! pa le y mae y bregeth?

Y mae y byd yn llawn o efelychwyr—pob cenedl yn efelychu eu gilydd—pob aelod o sect grefyddol yn gwneuthur yr un peth—felly hefyd y mae pob aelod o wahanol ddogarthiadau y gymdeithas ddynol yn gofalu am fod fel ei ddogarth. Y mae y Twrc yn gwisgo ei *durban*, ac yn ysmocio, am fod pob Twrc arall yn gwneuthur hyn. Y mae y Chinëad yn eillio ei ben am fod pob Chinëad arall yn gwneuthur yr un peth. Y mae y Ffrancwr yn llawen, ac yn siarad mwy nag y mae yn ei feddwl, am fod ei genedl felly. Y mae y Sais yn ddystaw yn mysg dycethriaid, ac yn gofalu cadw ei hun rhag i neb fyned yn hyf arno, am mai hyn ydyw arfer ei genedl. Y mae y Cymro yn wladaidd a diaddurn, am fod ei gydnabod a'i gymydogion

felly. Wrth rodio heolydd rhai o'n dinasoedd mawrion, yr ydym o dan demtasiwn i feddwl mai yr un un a gyfarfyddir genym o hyd. Y mae gwisgoedd pob mab o'r un lliw ac o'r un llun—y cerddediad yn debyg—pob ystum yn cyfateb; ac oni b'ai am y wyneb, credem yn sicr mai yr un a'r unrhyw berson a welwn yn barhaus: ac fe ymdrechir gwneyd y wyneb mor debyg i wynebau eraill ag y byddo modd. Os bydd rhyw un o fawrion y byd wedi dynwared gweision Dafydd, trwy adael hanner ei farf heb ei heillio, ceir gweled pob mab (bu agos i ni ddywedyd pob eppa), o ddeunaw oed ac uchod, wedi llwyddo i gael yohydig flewach o rywle i roddi o dan ei ffroen. Os ydyw y llestri cryfaf fel hyn, ni ddigia y rhai gwanaf ddim wrthym am ddywedyd mai nid bychan ydyw y drafferth a gymerant hwythau i geisio dynwared eu gilydd. Fe ddywedir—ond nis gallwn ateb am wirionedd hyny—mai, iddynt hwy, mwy goddefol ydyw bod allan o'r wlad, na bod yn groes i arferion y wlad. Er bod dulliau eu gwisgoedd yn newid yn barhaus—yr hyn, ar yr olwg gyntaf, sydd yn ymddangos fel pe byddent am fod yn wahanol i bawb—eto, os edrychir ychydig yn fanylach ar hyn, fe welir fod y rhai sydd ar y blaen yn hyn yn ofni bod yn hynod gymaint a neb sydd yn eu canlyn; a phe na ddilynid hwy gan eraill, buan y tefid y dull newydd o'r neilldu, er mwyn bod yn debyg i'w dosbarth drachefn. Oni b'ai ein bod wedi penderfynu bod yn fyr, buasai yn ddifyr genym olrhain y gwahanol efelychiadau sydd yn mysb pob dosbarth, yn ol i'w gwreiddyn. Pa sawl arferiad, sydd yn awr yn gysegredig yn ein golwg, a welem yn cychwyn mewn peth mor ffol a gwaith mawrion llŷs Alecsander yn camu eu penau am fod anaf naturiol felly arno ef? Pe buasai genym ddesgrifad cywir o ansawdd meddyliol sefydlwyr gwahanol sectau crefyddol y byd, galleid, oddiwrth hyny, ynglŷn â'u credo, ddywedyd yn lled gywir pa ystum gorfforol oedd arnynt: ac y mae eu canlynwyr byth yn dynwared hŷno fel pe byddent wedi eu hystrydebu. Y mae gan un galon lawen yn ei dueddu i obeithio pob dim, am hyny y mae yn edrych ar ochr oleu pob gwirionedd. Y mae y llall yn dywedyd "am chwerthin, ynfyd yw: ac am lawenydd, pa beth a wna?" am hyny y mae yn cymeryd yr olwg dywyll ar bob gwirionedd, ac yn ofni pob dim. Y mae cred y galon i'w darllen yn ffurf wyneb y naill a'r llall. Y mae canlynwyr yr olaf yn plygu eu penau fel brwynen,—pob ystum o'r eiddynt yn dangos fod gan ofn fwy o le o lawer yn eu mynwes na gobaith: tra y mae canlynwyr y cyntaf yn gwybod am y wledd wastadol o galon lawen. Ac y mae holl ystumiau eu corff yn dangos mai iddynt hwy—"Darfu ofn, daeth llawenydd yn ei le." Ond gan na oddef ein terfynau i ni wneyd hyn, ac mai amcan arall oedd yn ein golwg wrth ysgrifenu, ni gyfyngwn ein sylwadau at efelychiad yn ei ystyr lēnyddol—neu fel y mae yn amlygu ei hun yn y bardd, yr arcithiwr, a'r ysgrifenydd.

Gellir rhanu oes lēnyddol pob cenedl yn dair rhan, sef y cyfnod barddonol, yr areithyddol, a chyfnod yr argraffwasg. Dysegawdwyr cyntaf pob cenedl ydyw y beirdd; yna y mae y bardd yn rhoddi lle i'r areithiwr; ac y mae yr areithiwr drachefn yn gorfod cilio i roddi lle i'r argraffwasg. Y mae yn debyg ein bod ni fel cenedl yn awr yn yr ail gyfnod. Er fod barddoniaeth lawer genym, a beirdd nid ychydig yn ein plith, ai nid yw eu nerth i raddau mawr wedi cilio? Pa bryd yn y blyneddau diweddaf y clybŷwyd fod nac englyn nac awdl, pryddest na chywydd, wedi peri i ran ehelaeth o wlad wynfydu? Onid oes dyddiau lawer wedi myned heibio er pan y canwyd

arferiad llygredig o'r byd, neu offeiriad anfoesol i'w fedd? Na feddylied y beirdd ein bod o herwydd hyn am alltudio barddoniaeth o'r byd. Y mae barddoniaeth Gymreig yn awr yn dwyn llawer o ddellw campau gorchestol Olympus. Nid oedd y rhai hyny yn uniongyrchol yn ateb yr un dyben da—ymgystadleuaeth am ogoniant yn unig oeddynt: ond yn anuniongyrchol yr oeddynt yn gwneuthur llawer o ddaioni; a diau ydyw na buasai y Groegiaid ddim yr hyn oeddynt mewn rhyfel, ac mewn celfyddyd a dyag, oni b'ai am danynt. Felly mewn oes anianyddol fel hon, pan y cysylltir y gair gwerth yn unig âg arian, ac y prisir cynnyrchion meddyliol fel nwyddau i'w gwerthu wrth y llath neu wrth y pwys, y mae perygl i ni wneuthur cam â barddoniaeth, a dibrisio y dylanwad sydd ganddo arnom, am nad ydyw y dylanwad hwnw yn un a ellir ei weled yn hawdd, ac yn un y gellir dywedyd pa faint o aur, arian, a phres, a dâl. Ni buasai ein llênnyddiaeth yr hyn ydyw heddyw, oni b'ai am farddoniaeth. Y mae yn sicr nad all neb dd'od yn draethodwr dillynaidd os na bydd ychydig farddoniaeth yn ei natur. Gellir dywedyd fod barddoniaeth mewn modd anuniongyrchol yn coethi chwaeth, ac yn gwellhau moes y genedl oll. Yr ydym yn credu mai hyn yna ydyw y gwirionedd am farddoniaeth. Eto goddefer i ni gyfaddef y syndod a'r siomedigaeth sydd yn ein meddiannu wrth ddarllen traethodau nifer liosog o'n beirdd, wrth eu canfod mor rhydd oddiworth ddim tebyg i farddoniaeth. Y mae hyn yn ein temtio i ofyn beth ydyw barddoniaeth? Ai gosod geiriau i gynghaneddu ac odli ydyw? Ai nid yn y meddwl, yn annibynol ar ei wisg, y mae y farddoniaeth? Ai ynte gwisg ydyw i guddio noethder meddwl cyffredin? Os llygad i ganfod y berthynas ddirgeledig a phrydferth sydd rhwng pob peth ydyw barddoniaeth; os clust i glywed y miwaig y mae y greadigaeth yn ei wneuthur ydyw—paham nad ellir trosglwyddo graddau o hono i draethawd neu i bregeth, fel i awdl neu i gywydd? Ond rhag ein bod yn gwneuthur cam â'r dosbarth hwn—oblegid gŵyr pawb mai gwae y neb a gwel—gwell genym feddwl mai oddiar y dyben anrhydeddus o beidio digaloni dynion cyffredin rhag ymafïyd yn y pin ysgrifenu y maent hwythau yn ymostwng i ysgrifenu rhyddiaith fel dynion cyffredin eraill—y maent yn dyfod i lawr oddiar y bryn i'r dyffryn, ac os bydd yno bantle is na'r cyffredin, ond odid na ddewisir hwnw ganddynt. Nid ydyw yn hawdd dywedyd i ba raddau y mae efelychu yn perthyn i'r beirdd, ond gwyddom y cyhuddir hwynt o fod yn fwy beius o hyn o lawer nag ydynt; ac nid ydyw pob math o efelychu ddim yn fai, fel y ceisiwn ddangos eto: a phe y buasai, y mae ein cymydogion, y Seison, lawn mor euog o'r bai a ninnau. Os ydyw ein beirdd ni yn efelychu Milton, ac yn dwyn oddiarno, fe ddywedir ei fod yntau weithiau yn gollwng yr wythfed gorchymyn dros gof. Ac am Shakspeare, fe ddywedir y gellir olrhain cynllun aml un o'i orchestion ef i *novels* rhyw Cinthio; ac mai nid anfynych y mae wedi cael defnyddiau yr areithiau gwych y mae yn eu rhoddi yn ngenau y gwahanol bersonau yn ngwaith Plutarch. Y mae yr un peth yn wirionedd am Scott, Byron, Coleridge, Southey, a Wordsworth. Y mae y rhai hyn yn dywysogion, am hyny gallant ladrata yn fwy diberygl o lawer na dynion cyffredin. Y maent mor gyfoethog eu hunain fel na wna ond ychydig eu drwgdygio o fod yn euog o'r bai; a phan y cyhuddir hwynt o hono, y mae yn dygwyydd yn hyn, fel mewn llawer peth arall, fod mawredd y troseddwr yn lleihau y trosedd; fel ag y mae yr hyn a fyddai yn fai mawr mewn dyn cyffredin yn ymylu ar fod yn rhinwedd ynddynt hwy.

Onid os ydyw ein beirdd mor ddifai a'r cyffredinolrwydd o'u dosbarth yn hyn, y maent yn euog o fai mwy o lawer, sef cyfnewid gwaith eu brodyr, ar ol eu marwolaeth, o dan yr enw o'i ddiwygio. Y mae peraidd ganiedydd Pant-y-celyn wedi cael mwy o gam yn yr ystyr hwn na neb. Y mae fel gwinwydden y Salmydd, pawb a'el heibio yn cymeryd eu cenad i dynu ei flagur. Weithiau cymerir dwy linell nawsaidd fywiog o'i eiddo ef i'w cysylltu wrth bedair neu chwech o rai oerion celfyddydol, nid yn unig a'u barddoniaeth yn gwahaniaethu cymaint ag y mae gwaith creawdwr a chelfyddydwr yn gwahaniaethu, ond hefyd a'u syniadau mor groes i eiddo yr hen ganiedydd ag y gallant fod. Bryd arall cymysgir hwynt blith draphlith a gwaith y dyn ei hun, yn gyffelyb fel ag y mae yr aur yn California wedi ei gymysgu a'r llaid. Ac am y rhai sydd yn ceisio ei ddiwygio oddiwrth yr hyn a ystyriant yn wallau geiryddol, nid ydym yn gwbl sicr mai cyfreithlawn ydyw eu gwaith. Y mae ynddo wallau fel ag y mae ysmotiau yn yr haul; ond wrth ddarllen y diwygiadau, y mae paentwr yn ymrithio i'n meddwl yn crogi wrth raff o dan wyneb yr haul, yn brysur yn paentio yr ysmotiau yn wynion. Buasai yn well genym ei weled yn arfer ei ddawn ar rywbeth arall; oblegid yr ydym yn caru yr hen haul, yr ysmotiau, a'r cwbl gyda'u gilydd. Os eir ymlaen lawer eto yn y dull hwn, bydd yn anhawdd gwybod beth a ysgrifennodd yr hen fardd ei hun. Beth pe buasai yr arlunwyr o ddyddiau Raffaele a Michael Angelo yn cymeryd eu cenad i gyfnewid yr hyn a ystyriant hwy yn wallau yn arluniau yr enwogion hyn,—pwy erbyn heddyw a allasai eu hadwaen hwynt ynddynt? Y mae yn bur debyg yr a trwsio hymnau yn gelfyddyd yn Nghymru a Lloegr, ac, yn ngeiriau Dr. Cheever, o America, y cawn ni weled rhai yn myned ar hyd y wlad, yn debyg i broffeswyr celfyddyd arall, a gaiff fod yn ddiennw yn awr, dan waeddi ar hyd ein prif-fyrrdd a'n heolydd, "Hen hymnau i'w trwsio," "Hen hymnau i'w trwsio." Ond na feddylied neb ein bod yn dywedyd dim yn erbyn gwneuthur detholiadau o'i waith at wasanaeth yr addoliad cyhoeddus: y mae gwneuthur hyn yn ddoeth, fel ag y mae amryw wedi gwneuthur, yn hyrwyddo gwaith y pregethwr yn fawr.

Yr ail gyfnod ar ein hoes lényddol, yn yr hon yr ydym yn bresennol, ydyw yr areithyddol. Y mae yr areithiwr a'r pregethwr er's talm bellach wedi gwthio y bardd o'r neilldu. Yr ydym yn bresennol fel cenedl yn un glust fawr, na ddigonir a' chlywed. Ni a wrandawn o ddechreu y fiwyddyn hyd ei diwedd heb ddywedyd byth "digon." Areithiau, pregethau, a darlithoedd—nid yw o gymaint pwys gan lawer pa beth, ond iddynt fod yn rhywbeth i'w gwrandaw. Byddai rhoddi tair ceiniog am lyfr yn wastraff yn ngolwg llawer un a rydd swlth heb rwgnach am glywed darlith. Ein hunig adeilad gyhoeddus ni, gydag ychydig iawn o eithriadau, ydyw y capel. Nid ydyw y chwareudŷ a'i gymdeithion ddim yn perthyn i'n mynyddoedd ni; ac y mae y Cymro yn dyfod i'r capel i chwilio am yr hyn yr a y Sais i'r ohwareudŷ i'w geisio. Yn y bregeth, y ddarlith, a'r araeth, y ceisiwn ni y cynhyrriad boddhaol hwnw i'n natur a gais ein cymydogion yn y chwareudŷ a'r *opera*. Ac y mae ein bod yn myned i'r capel i chwilio am gynhyrriad, yn lle am addysg, yn effeithio ar ein dysgawdwr, ac yn peri eu bod hwythau yn fynych yn amcanu mwy at gynhyrfu y gyanulleidfa nag at eu haddysgu. Y mae rhyw nifer o'n dysgawdwr wedi cael y ddawn i wneyd y ddau beth—y mae eu gwefusau yn cadw gwybodaeth, ac y mae eu geiriau yn ennyn tân yn y gynnulleidfa. Y mae yr oll o ddyn o dan eu

llywodraeth—ei ddeall, a'i serch. Nid goleu heb wres sydd ganddynt, ac nid gwres heb oleu; ond y mae eu pregethau fel yr haul—yn gwresogi wrth oleuo. Y mae yn ein gwlad nifer liosog o ddysgawdwyr amddifad o'r gallu sydd yn y dosbarth yna, a chamsyniol am ei natur hefyd. Tybiant mai yr hyn sydd weledig yn y dyn oddiallan ydyw, ac nad oes dim yn anghenrheidiol ond gwneuthur yr un dôn, yr un edrychiad, a'r un ystum ag yntau, i gael yr un dylanwad ar y bobl; am hyny efelychant ef yn hyn. Felly, wrth geisio myned yn fwy na hwy eu hunain, y maent yn myned yn anhraethol lai.

Ond y mae yn rhyfedd pa fodd na ddeallai yr efelychwyr mai nid dim y tuallan i'r dyn ydyw yr achos o'r nerth sydd ganddo, a hwythau yn gweled rhai mor wahanol i'w gilydd yn dylanwadu ar y bobl. Dyna un tal, teneu: y mae gwylder yn ei wedd, a difrifwch yn nhôn ei lais. Y mae yn y dechreu yn siarad yn araf, fel pe byddai yn llusgo ei frawddegau hirion allan yn erbyn eu hewyllys, ac wedi iddynt ddyfod, ni welwch chwi ddim anghyffredin ynddynt; ond fel y mae y pwnc yn lefeinio ei feddwl, ac yn meddiannu ei enaid, gwelir ei law yn dechreu llifio yr awyr, a'i gorff yn ymddolenu fel cedrwydden o flaen yr awel, ac y mae gwres ei deimlad yn peri iddo ymhyfhau nes yr anturia edrych yn awr ac eilwaith yn wyneb y gynulleidfa; ac y maent oll yn teimlo golwg ei lygad fel tywyniad mellen. Nid oes gyffro mawr i'w ganfod ynddo; ni waedda ac ni ddyrohada ei lef; ond rywsut, yn ddiarwybod i chwi eich hun, y mae wedi myned i'r ystafell bellaf yn eich calon, ac y mae yn darllen dirgeloedd hðno—yn eich dangos i chwi eich hun, yn difynio egwyddorion mwyaf cuddiedig y meddwl, nes peri i chwi newid eich barn am lawer o'ch gweithredoedd; ac os oedd ffynnon o ddagrau yn eich mynwes, ond odid, wrth fyned heibio, na thorodd efe y sêl oedd ar hðno, nes peri iddynt fwrlymu allan yn llif. Y mae rhyw gynnifer o'i frodyr, wrth ei wrandaw, yn tybied pe medrent wneuthur yr un fath, y gallent hwythau fod o ryw ddefnydd yn eu dydd; am hyny, pan esgynant i'r areithfa drachefn, edrychant yn ddirifol, crychant eu haeliau, anffuriant eu hwynebau, tynant eu geiriau yn hirllais, lifiant yr awyr â'u llaw, a cheisiant wneuthur i'w llygaid felltenu; ond ni ddaw yr un fellten o honynt, am nad oes yr un ynddynt. Y mae eu holl ysgogiadau mor annaturiol nes y cofiwch chwi yn y fan am Ddafydd yn ceisio cerdded yn arfogaeth Saul. Ac yn lle cymeryd y galon yn ddystaw a digynhwrf, y maent yn peri i'r gwrandawyr roddi bwr newydd ar y ddor.

Wele un arall o feistri y gynulleidfa; ac y mae yr olwg gyntaf arno yn ennill eich ewyllys da iddo; ac er nad yw lliw myfyrgell ar ei ruddiau, eto y mae y tân sydd yn ei lygaid yn addaw rhywbeth anghyffredin i chwi oddiwrtho. Y mae yn sefyll yn syth, heb edrych ar y dde nac ar yr aswy, fel pe na byddai yn ymwybodol o bresenoldeb y gynulleidfa; a chydag i chwi glywed ei lais, yr hwn sydd fel "swn dyfroedd lawer," chwi feddyliech, os oes dim miwsig yn eich enaid, y buasech chwi yn gwrandaw yn ddifyr arno drwy'r dydd, hyd yn nod pe buasai yn llefaru iaith anghyfaith. Y mae yntau yn y dechreu yn ymadroddi yn ddystaw ac yn araf, gan ofalu rhoddi sain gwir Gymreig i bobllythyren, a mynych y bydd am beth amser yn lled drafferthus i gael ei beiriannau ymadroddi i drefn; ond fel y mae yn myned ymlaen, y mae ambell wreichionen yn dianc fel ogeg y mynydd tanlyd, yn arwydd fod y tân sydd yn ei grombiloedd bron yn addfed i ymdori allan; ac nid hir y cewch ddysgwyl cyn i'r ymdoriad gymeryd lle. Neu, i newid ein



cyffelybiaeth, yn mhen ychydig, y mae yn deffro fel cadarn wedi gwin, a pha beth na wna yn awr? Lleinw y ffurfafen â ser, nes y bydd eu dysgleirdeb a'u prydfferthwch yn peri i chwi lawenyachu gan syndod yn y pethau a greodd; neu ynte fe'i gorchuddia hi â thywyllwch mor ddudew nes y teimlwch ei fod yn dywyllwch ofnadwy. Daw i mewn i'r ddinas, nid mewn ffordd nas gwyddoch, ond trwy hyrddio ei muriau hi i lawr, a chwala ei thyllau hi; ac ni feddylia neb am ofyn iddo, Pwy a roddes i ti yr awdurdod hon? Dyna rywun fydd yn arfer dysgu eraill wedi anghosio ei hun wrth ei wrandaw; ac y mae yn penderfynu nad gwiw iddo ymddangos mewn pulpud byth eto os nad all wneuthur yr un fath ag yntau. Am hyny fe saif mor ddiysagog a'r dderwen, gan edrych i lawr, heb sylwi dim pwy fydd o'i flaen nac ar bob llaw iddo. Seinia ei eiriau i lawr yn rhywle tua gwaelod ei wddf, nes yr ofnwch iddo eu llyncu yn lle eu tafu allan. Y mae yn pesychu ar ddiwedd pob brawddeg, fel pe buasai newydd gael anwyd tost. Cyn hir, ceir gweled rhywbeth tebyg i wreichionen, yn arwydd fod yr ym-doriad yn agosáu; ond pan y cymer hwnw le, mawr fydd eich siomedig-aeth, wrth weled mai ychydig danwaith (*fire works*) ydyw, ac nid mynydd tanllyd yn bwrlymu allan ei gynddaredd. Ond odid na ofynir i'r gynnulleidfa cyn hir, ai ni fyddant yn arfer dywedyd, "Amen?" Y mae eu hagwedd hwythau yn ateb, "Os byddwn, ni a ymddygw'n yn groes i'n harfer heddyw." Neu ynte, gofynir iddynt, wrth eu bod mor hwyrfydig i blygu i'w Creawdwr, "Ai nid oes ganddynt gymalau?" ac y mae aml un o honynt yn ateb yn ddystaw, "Oes; ac y mae arnom flys rhoddi prawf o hyny mewn modd a'ch gwna chwi yn bur hwyrfydig i ofyn y fath gwestiwn i ni eto." Y mae yr un geiriau ag oedd yn peri i'r bobl grynu pan oedd y meist'r yn eu llefaru, yn eu gwneuthur yn barod i ruthro ar y gwas pan ddefnyddia efe hwynt, fel y rhuthrodd yr ysbrydion aflan ar feibion Seefa, er eu bod yn arfer yr un ymadroddion ag oedd yn peri iddynt grynu o enau yr apostol Paul. Y mae y dosbarth hwn yn gollwng dros gof nad ydyw iaith tywysog ddim yn gweddu i was, ac mai gwae y dyn cyffredin a ruthra ar y gelynlion â gen asyn, er i Samson gawr ladd mil o wŷr â hōno.

Wele un eto o feistri y gynnulleidfa. Y mae ei edrychiad a'i ymadroddion yn peri i chwi gosio am y graig ysgythrog, a'r cefnllif gorwyllt. Y graig nerthol arddunol ydyw, ac nid y dyffryn meillionog prydfferth. Y nant orwyllt yn rhuthro i lawr o'r mynydd ydyw, ac nid yr afon yn ymddolenu yn hardd yn y ddôl. Y mae yr olwg wyllt, gynhyrfus, sydd arno, yn peri i chwi feddwl am rai o brophwydi Israel. Teimlwch yn fynych yn ei ŵydd eich bod ger bron un ysbrydoledig; un a anwyd yn freiniol, ac nid un a gafodd hyny am swm mawr. Y mae holl gynnrychion ei feddwl yn cyfateb i'w wedd. Erys mor hir yn nghanol ambell frawddeg nes yr ofnech iddo fethu cael diwedd iddi hi, fel y bydd y nant yn cael ei hattal yn ei rhediad gan y graig, ond ni bydd yr attalfa ond yn ei gwylltio hi yn fwy; felly yntau—nid yw yr adeg ddystaw ddim ond y tawelwch sydd yn rhagflaenu yr ysturm. Tery ei droed nes y dychrynwch chwi, nid o herwydd maint y sŵn, ond o herwydd y neb sydd yn ei wneuthur. Dyna ryw un wedi bod yn ei wrandaw; oddiwrth deimlo ei ddylanwad ei hun, a gweled eraill yn teimlo cymaint, y mae yn penderfynu mai pregethu iawn a fyddai gwneuthur yr un fath ag yntau. Am hyny gesyd ei ddwyllaw ynghyd, gan ddyrchafu ei wyneb tua'r nef. Llefaru fel

un âg awdardod ganddo; ond nid oes neb o'r gwrandawyr yn ei theimlo nac yn ei chydabod: ac y mae ambell un o honynt yn sibrd, "Pan welais i y wedd yna o'r blaen, yr oedd mawredd ac aruchledd ynddi; ond y mae yn ymylu ar fod yn ddirmygus ynoch chwi. Mi glywais i eiriau gerwin, a fyddai yn peri i'm calon doddi gan fraw; ond cyffrôi ei digofaint hi y mae eich geiriau garw chwi: ni waeth i chwi heb daro eich traed, ni ddychrynaf fi ddim, gan mai *chwi* sydd yn gwneuthur hyny."

Ond ni oddef ein terfynau i ni son am bob *model*, onidê gallasem son am un sydd â phob peth o'i amgylch yn eich parotôï i'w wrandaw; ond wedi gwneuthur hyny bydd yn rhy anhawdd dywedyd beth sydd yn nodwedd o hono. Nid ei feddyliau yn unig, er nad yw heb feddyliau; nid ei lais, er nad oes ynddo ddim yn affafar; nid ei ystum, nid oes dim yn hwnw yn peri i chwi ei gofio: eto, â'i gymeryd drwodd a thro, y mae y cyfan gyda'u gilydd yn rhoddi dylanwad iddo arnoch. Gallasem son am un arall nad ydyw ei bregeth ond un frawddeg o'r testun hyd yr amen; ac os byddwch am gysylltu yr ansoddair hir â hi, y mae yn rhy anhawdd gwneuthur hyny heb roddi yr enw olaf arni. Sieryd yn fân ac yn fuan, heb nac *w* nac *y* yn perthyn i wyddor ei iaith. Buasai ei ddull yn fursen-aidd mewn rhai; ond nid oes neb yn ei feddwl felly iddo ef. Am un arall sydd â'i eiriau mor hirion a'r eiddo Dr. Johnson, y mae rhywbeth ffrostiol o'i amgylch ar yr olwg gyntaf, ond wedi i chwi ei wrandaw, mae arnoch ofn dywedyd mai hyn ydyw. Y mae ei ragoriaethau lliosog yn eich hudo chwi i roddi enw arall arno, pe medrech gofio pa air sydd gymhwys. Am un arall, yn yr eithafion gwrthwyneb, nid yn unig heb eiriau hirion, ond y mae fel wedi cymeryd ei lŵ na orphena yr un o'r rhai byrion; eto, os ydyw ei iaith yn doredig, y mae ei bregeth yn gyfanwaith. Gwna bob hen wirionedd yn newydd ar y pryd, ac â'i firaethineb, ceidw chwi yn ddifyr heb eich gwneyd yn ysgafn. Ni oddef ein terfynau ychwaith i ni son am yr efelychwyr bob yn un ac un; am rai sydd wedi cael geneuau gwir Gynareig Meirionydd a Chaernarfon, sydd yn eu cyfyngu, trwy drafferth flin, i siarad iaith y Deheudir; yn gwneyd y *dy* yn *dî*, &c.—am eraill, sydd yn arfer geiriau mor hirion fel y mae y rhai anllythrenog o'r gynulleidfa yn anghofio dechreu y gair cyn clywed ei ddiwedd, ac na ddylai y dysgedigion ddim myned i'w clywed, os ydynt am ddeall, heb "Dr. Owen Pughe" a "Chae-fallwch" gyda hwynt. A gwyddom am rai yn uno ynddynt eu hun, fel delw Nebuchodonosor, y pethau mwyaf gwrthwyneb: y maent bob amser yn peri i chwi gofio am y *ventriloquist*; y mae gan y dyn lais pawb ond ei lais ei hun—dim ond i chwi wybod pwy a glywodd ddiweddfaf, gellwch, gyda sicrwydd, ddywedyd pwy fydd yn cael mwyaf o le yn ei ymddangosiad cyhoeddus nesaf. Y mae yn sefyll fel —, yn dechreu fel —, yn lleisio fel —, yn diweddu fel —, ac yn myned ymaith heb fod fel ef ei hun gymaint ag unwaith. Ac onid yr hyn a ystyrir yn gyffredin yn wallau yn ein dynion mawrion sydd yn cael ei ddynwared amlaf? Ond y mae yn llawer haws efelychu ysmotiau duon yr haul na'i oleuni tanbeidiol.

Nid ydyw yr argraffwasg eto ddim wedi dyfod i'w lle ei hun yn Nghymru, ac felly mae yn rhy fuan i ddywedyd nemawr am ei chynnyrhion hi; ond y mae hi mewn ystâd na bu hi erioed o'r blaen ynddi yn ein gwlad; a dysgwyl yr ydym y gofala golygwyr y gwahanol gyhoeddiadau cyfnodol am ei chadw hi i fod yn rhywbeth amgen nag adsain llef o bell.

Onid pell ydym oddiwrth feddwl y bydd cynnyrohion yr argraffwaag, pan wedi cyrhaedd yr hyn a ystyrir yn berffeithrwydd, yn gwahaniaethu llawer oddiwrth eu gilydd mewn unrhyw wlad. Os pethau sylfaenedig mewn natur ydyw egwyddorion gwir chwaeth, ac nid pethau yn gorphwys ar opiniwn, y mae yn rhaid i ni gredu y daw ysgrifenywyr pob gwlad, yn ol y graddau y byddant yn cael eu coethi, yn debycach i'w gilydd: ac onid am fod y Groegiaid a'r Rhufeiniaid wedi cyrhaedd mor agos at berffeithrwydd natur y maent yn cael eu cymeryd yn gynlluniau gan yr holl fyd? ac y mae yr un mor afresymol gyhuddo Cymro o ysgrifenu yn debyg i awdur Seisneg da, ag a fyddai cyhuddo y Sais o fod yn debyg i Roegwr neu Rufeinwr, yr hyn na fyddai mewn gwirionedd ond eu cyhuddo oll o fod yn debyg i natur.

Onid a ydyw pob efelychiad yn ddrwg? I hyn yr ydym wedi ateb eisoes, mewn rhan, nad ydyw. Nid ydyw dyn, o ddechreu ei oes i'w diwedd, ond creadur dynwaredol mewn llawer o bethau. Onid trwy efelychu y mae yn dysgu iaith, a phob arferion? eto, fel yr heneiddia mewn dyddiau y maent yn dyfod oll yn eiddo personol iddo ef ei hun: ac er fod y nodweddiadau gwreiddiol, fel y gelwir hwynt, sef y dynion hyny sydd heb fod yr un fath a neb yn eu harferion, yn dda i chwaneu amrywiaeth y ddaear, ac i ddangos gwerth y mesur o gydymffurfiaid sydd rhwng trigolion y byd, eto da ydyw fod eu nifer mor ychydig; oblegid beth a ddaethai o'r byd pe buasai pawb am "ei *hymod* ffordd ei hunan?" Y mae ystad blentynnaidd, mewn ystyr lénnyddol, yn perthyn i bob dyn, ac i bob cenedl hefyd; a thra y byddont yn hono, y mae efelychu, nid yn unig yn oddefol iddynt, ond y mae yr unig ffordd iddynt gyrhaedd ystad uwch. Bu y Groegiaid yn efelychu yr Aiphtiaid, ac erail, am amser maith cyn cynnyg gwneyd dim eu hunain. Efelychu y Groegiaid y bu y Rhufeiniaid tra yn eu babandod: cyfieithu hanesyddiaeth, athroniaeth, a barddoniaeth Groeg i iaith Rhufeinaid, yn lle cyfansoddi eu hunain. Ond cyrhaeddodd y ddwy genedl gymaint o berffeithrwydd fel y mae yr holl fyd gwareiddiedig, am y rheswm a enwyd eisoes, yn eu hefelychu hwynt. Ac onid oes rai o ddynion mwyaf ein teyrnas wedi dechreu eu hoes yn efelychwyr? Onid fel cyfieithwyr o waith yr Ellmyn y daeth Coleridge a Carlyle ger bron y byd gyntaf? Fe ddywedir am y cyntaf ei fod yn lladrata oddiar yr Ellmyn trwy ei oes; ond os ydoedd yn dwyn y fettel, yr oedd yn Besaleel mor gywrain—yn medru gwneyd cymaint o bethau prydfferth â hi fel nad oedd neb yn digio wrtho am ei waith. Ac am yr olaf, os ydyw wedi peidio efelychu yr Ellmyn, y mae hyn yn bod am fod yr hyn oedd yn efelychiad annaturiol yn y dechreu, wedi dyfod, trwy hir ymarferiad, yn ail natur iddo.

Yr ydym ni, y Cymry, yn awr, yn yr un sefyllfa a'r Rhufeiniaid pan oeddynt yn cyfieithu llénnyddiaeth Groeg, yn lle cynnyrchu un o'r eiddynt eu hun. Y mae arnom ofn gwneyd dim, os na fydd ein cymydogion wedi gwneuthur rhywbeth cyffelyb o'r blaen. Yr ydym yn amddifad o hyder ynom ein hunain, ac yn ein gilydd. Os cyfieithir gwaith Seisneg ar unrhyw bwnc i'r Gymraeg, fe'i derbynir gydâg awyddfryd; ond os cyfansoddir gan Gymro ar yr un testun waith llawn cystled, ie, gwell, caiff y gwyfyn ysu hwnw yn swyddfa yr argraffydd. Yr ydym yn beio gweinidogion y llywodraeth am eu bod, pan yn gwneuthur esgobion, yn esgeuluso y Cymry, i roddi y flaenoriaeth i'r Seison; ond yr ydym ni, fel cenedl, yn gwneuthur yr un peth. Lle bynag y bydd Sais a Chymro ar ein dewisiad

ni, onid ydym, bron yn ddiethriad, yn rhoddi y flaenoriaeth i Sais yn ysgolfeistr, yn awdur, ac yn bregethwr? Ond y mae hyn i'w ddywedyd yn egsusawd drosom, fod ein sefyllfa fel cenedl, sef o dan lywodraeth y Seison, yn ein rhoddi mewn tentasiwn gref i ymddwyn fel hyn; gan mai hwy yw ein deddfroddwyr, yr ydym yn cymeryd yn ganiataol mai eu dilyn hwynt a ddylem mewn pob peth; ac y mae rhai wedi myned mor bell yn y teimlad hwn nes y ceryddant yn gyhoeddus rai o athrawon y Cymry am feiddio dywedyd dim wrth y bobl na fyddant wedi ei weled mewn llyfr, gan feddwl llyfr Seisoneg, neu gyfieithiad Cymreig o hono. Ond gwna eraill o'r Cymry, trwy fyned i eithafion croes i hyn yna, gam mawr â rhai o'u cenedl. Os dygwyddant weled mewn llyfr Seisoneg feddwl, yn dwyn y graddau lleiaf o debygolrwydd i feddwl a glywyd gan Gymro, cyhuddant eu brawd o efelychiad neu ladrad, er na welodd y Cymro mo'r llyfr erioed, a bod y meddwl mor wirioneddol eiddo iddo ef ag ydoedd i awdur y llyfr. Y mae y dosbarth hwn o ddoethion ein gwlad yn gwybod y dirgelion oll; gwyddant o ba le y bydd y pregethwr, yr areithiwr, a'r bardd, yn cael y cwbl; fel y *detective police*, medrant ddal y lladron mwyaf cyfrwys. Y mae gwaith y bardd yma wedi ei gymeryd o Milton, Cowper, neu Pollok. Y mae y bregeth arall yn gyfieithiad rhydd o waith Masillon, Saurin, Owen, neu Howe. Yr oedd un o'r doethion hyn wedi ei wahodd unwaith i wrandaw un o bregethwyr mwyaf gwreiddiol Cymru. Pan ofynwyd iddo beth a dybiai am y bregeth? "Pregeth dda ydoedd," meddai, "ond y mae hi genyf yn Seisneg, air yn air, yn ngwaith Beddome;" ond ni wyddai y Cymro cyn hyn fod y fath waith yn y byd. Os oedd rhyw debygolrwydd, yr oedd i'w briodoli i debygolrwydd oedd yn nghyfansoddiad meddwl y ddau bregethwr. A phe dywedid yr holl wirionedd, nid yw y Seison ddim o'n blaen yn hyn. Nid ydynt yn ein hefelychu ni, y Cymry, nac yn dwyn oddiarnom; ond eu hanwybodaeth o'n hiaith sydd yn glo ar ein trysorau rhagddynt; ond y mae y rhai goreu o honynt mor fedrus a lladron heol-ydd Llundain mewn dwyn oddiar eu gilydd. Yr oedd gweinidog Cymreig yn pregethu un Sabboth mewn ardall bell o'i gartref. Yn y tŷ y daeth i letya iddo, yr oedd boneddiges grefyddol o Loegr yn aros; gofynai i'r teulu, yn ngŵydd y pregethwr, am y testun a'r bregeth: a phan adroddwyd hwynt iddi, "Mor ddyeithr," meddai, "yr ydwyf wedi bod yn darllen yr un pethau, tra buoch chwi yn yr addoliad, yn ngwaith Mr. J., o B——;" ac erbyn i'r pregethwr edrych, nid oedd gwiw gwadu nad yr un pethau oedd-ynt: "ond," meddai, "ni welais i ddim o'r gwaith hwn erioed o'r blaen; ond y mae yn rhaid i mi gyfaddef mai yn ngwaith hwn a hwn," gan enwi hen awdur Puritanaidd, "y cefais y meddyliau a draethais i chwi heno." A'r tro nesaf y daeth i'r ardal, daeth â'r hen lyfr gydag ef, i roddi sicrwydd i'w gyfeillion mai felly yr ydoedd. Ac nid oes amhheuaeth nad yn yr un lle yr oedd y cyfaill o B—— hefyd wedi cael y meddyliau. A pha un ai y Cymro ai y Sais, dybygech chwi, oedd y pechadur mwyaf? Ond dylid ocof y gall tebygolrwydd mawr fod yn nghynnyrchion un meddwl i gynnyrchion meddwl arall, heb fod yno ddim efelychiad. Yr ydym yn gweled cyrff tebyg i'w gilydd, a phaham nad all meddyliau hefyd fod felly? A phan fydd y meddyliau hyn yn gweithredu ar yr un pethau, y mae yr hyn a gynnyrchant yn rhwym o fod i ryw fesur yn debyg. Pan ymedy y dosbarth hwn â Chymru, y maent yn gyffredin yn ymadael â phob peth Cymraeg ar unwaith, gan benderfynu nad arosant gyda'r efel-

yehwyr mwy, ond yr änt at y gwreiddiol. Y mae yn rhaid iddynt gael cymdeithion Seisneg, llyfrau Seisneg, a gweinidog Seisneg; ac os bydd arnoch eisieu cymhorth i chwerrhin, y mae i'w gael wrth eu clywed yn son am yr iaith ysplenydd (*beautiful language*) sydd gan y pregethwr, fel pe buasai rhyw brydferthwch yn perthyn i iaith, yn annibynol ar ei dyben hi o drosglwyddo meddwl.

Y mae y dyn hwnw, bydded fardd, ysgrifenydd, neu bregethwr, sydd yn byw ynddo ac arno ei hun, yn mesur ei hun wrtho ei hun, heb fod yn gwybod: a mawr ydyw hunan-hyder y dosbarth hwn. Rhuthrant, fel meirch i'r frwydr, at bethau y crynai angel gerllaw iddynt. Gwnai ychydig gydnabyddiaeth a'r byd dynu llawer oddiwrth eu gwybodaeth hwynt, a chwaneu nid ychydig at wybodaeth y rhai y maent yn profesu eu dysgu. Y mae cydnabyddiaeth ehelaeth â ffirwyth meddyliau eraill, mor bell oddiwrth ein rhwystro i fod yn wreiddiol ein hunain, fel mai y dyn mwyaf gwreiddiol ydyw yr hwn sydd fwyaf cydnabyddus a'r hyn a feddylodd eraill ar yr un pwnac ag ef. Nid all meddwl, mwy na chorff, ddim byw arno ei hun; a'r meddwl mwyaf gwreiddiol ydyw yr un sydd yn meddu ar fwyaf o allu i sugno iddo ei hun, fel ag i'w gwneyd yn rhan hanfodol o hono ei hun, bob gwybodaeth sydd bosibl iddo ei chyrrhaedd; a byddai dyweyd, fod un yn fwy gwreiddiol am nad yw yn darllen, nac yn gydnabyddus â syniadau neb ond ei rai ei hun, yr un mor afresymol a dywedyd, fod dyn yn gryfach o ran ei gorff am nad ydyw yn ymborthi. Y mae i efelychiad ei arferiad cyfreithlawn: nid yn erbyn hwnw yr ydym yn ysgrifenu. Nid astudio ac efelychu y pregethwr mawr ydyw bai y rhai ieuainc, ond efelychu eu dull yn eu lle hwynt eu hunain, sydd yn feius—camgymeryd y wisg am y dyn. Gall fod y wisg yn ddigon prydferth, ond nid ynddi hi yr oedd y swyn oedd yn rhwymo y gynnulleidfa i wrandaw: rhywbeth yn y dyn, yn annibynol ar y wisg, oedd hwnw, ac a fuasai ynddo mewn gwisg arall; ond y mae yn debyg na buasai yr un arall yn gwbl naturiol iddo ef. Y mae efelychu pa beth bynag sydd yn rhoddi nerth, dylanwad, a rhagoriaeth, yn ganmoladwy; a dylai y pregethwr, y bardd, a'r ysgrifenydd, os ydynt am fod o ryw ddefnydd yn eu hoes, efelychu pawb sydd wedi cyrrhaedd enwogrwydd. Yr oedd Raffael, y paentiwr, yn efelychu pob lluniedydd, ac er hyny yn wreiddiol. Yr oedd wedi astudio beth oedd yn rhagorol ynddynt oll, a thrwy hyny wedi cael allan "guddiad eu cryfder;" ac fe'u hefelychodd oll yn eu rhagoriaeth. Yr oedd darfelydd y darlun yn enwogi un; efelychai ef, mewn ceisio cael darfelydd da i'w ddarluniau yntau. Yr oedd y goleu a'r cysgod wedi eu cyfleu mor fedrus yn y llall, fel nad anghofiai yr edrychwyr byth mo'r olwg arnynt; gofalai yntau dalu sylw mawr i'r un peth yn ei ddarluniau. Lliwiau y trydydd oedd yn rhoddi enwogrwydd iddo; ceisiai yntau hefyd liwio yn dda. Nid oedd yn dilyn neb, er ei fod yn efelychu pob rhagoriaeth. Ac nid oedd ei waith ef yn efelychu cymaint, ddim ond yn ei wneuthur ef ei hun yn fwy gwreiddiol. Diwrnod llawen i Gymru fydd hwnw, pan fydd ei llênnyddion oll yn efelychwyr o'r fath hyn: pan y bydd ei phregethwyr yn efelychu, nid y dôn hirllais a'r ystum ddolenog; ond y llafur diflin a fu yn y fyfyrgerll i gael rhywbeth i'w ddywedyd, a'r ymdrech a fu yn y dirgel i gael yr ysbyrd i dymher y gwirionedd fydd i'w draethu;—yn efelychu, nid y llais soniarus a'r *apostrophe* mawreddus, ond y meddyliau nerthol—y prydferthwch dysymml sydd yn yr oll, yn gofalu am gadw eu calon yn fflam, ac yn gochel

ceisio nofio yn y rhyd, neu adael y glanau os na fedrant nofio—yn efelychu, nid yr edrychiad dirodres a'r cwtamiau dirdynol, ond yn plymio, os yw yn bosibl, i waelodion yr hyn a ellir ei wybod, a chyfaddef yn onest am y dirgelion mai hyny ydynt—yn dwyn allan o'u trysorau bethau newydd a hen; ond yn gwneuthur hyny â dyben mawr pregethu yn y golwg yn y cwbl, sef, argyhoeddi, ceryddu, hyfforddi. Yr hwn a all efelychu y nifer fwyaf yn yr ystyr hon a fydd yn fwyaf gwreiddiol. Yr oedd enwogion pob gwlad yn efelychwyr o'r fath hyn; ac heb hyn, byddai pob gwybodaeth a chelfyddyd yn ei mabandod am byth. Y mae y meddwl hefyd, wrth arfer syllu llawer ar ragoriaeth, yn cael ei ddwyn i ysbryd yr hyn sydd yn cael ei sylw; a thrwy hyny yn cael ei alluogi i ryw fesur i gynnrychu peth cyffelyb. Nid ydym yn meddwl y gwna unrhyw ddylanwad allanol roddi y gallu gwreiddiol i un; ond, a chymeryd yn ganiatol fod mesur o hwnw yno eisoes, y mae cymdeithasu â rhagoriaeth rhai eraill yn ei gynyddu—yn peri i'r wreichionen gynneu yn fflam. Y mae darllen llawer o waith meddylwyr galluog yn rhoddi gallu i ni feddwl yn well ein hunain; ac y mae gan hyn gymaint o ddylanwad ar y meddwl, fel ag y bydd ei nerth ef yn dwyn cyfartalwch i nerth y neb y mae yn cymdeithasu âg ef: os bydd hwnw yn 10, bydd ef yn 5; ond os bydd hwnw yn 20, odid na bydd yntau yn 10. Y cam cyntaf tuag at ragori, ydyw dysgu canfod rhagoriaethau eraill; ac ni ddylai yr un dyn ieuanc anghofio, mai peth mewn rhan i'w ddyngu ydyw hyn. Y mae yn rhaid fod cymhwysder gwreiddiol yn y meddwl i gymeryd dysg o'r fath; heb hwnw, bydd pob addysg yn gwbl ofer. Ac y mae rhai mor amddifad o hyn, fel ag y mae yn waith mor ofer disgrifio rhagoriaethau iddynt, ag a fyddai disgrifio lliwiau i un heb lygaid: ond os ydyw y gallu i ganfod rhagoriaeth yn y meddwl, y mae addysg yn ei gryfhau a'i goethi. Panaeth Syr Joshua Reynolds i Itali i astudio gwaith arlunwyr y cynoesoedd, yr oedd olywed a darllen cymaint am danynt wedi peri fod ei awydd am eu gweled yn gryf iawn; ond pan welodd hwynt, methai ganfod dim rhagoriaeth ynddynt. Wylodd fel plentyn oblegid hyny; nid o herwydd y siomedigaeth a gafodd, ond o herwydd gweled ei hun mor farbaraid—heb lygaid i ganfod yr hyn yr oedd pob dyn o chwaeth yn ei ystyried yn rhagoriaeth. Eto, am fod y gallu i weled yn ei feddwl, trwy i athraw gyfeirio at y rhagoriaethau bob yn un ac un, buan y daeth i'w canfod ac i'w gwerthfawrogi; a'r canlyniad a fu, iddo ddyfod yn rhagorol mewn llawer o'r un pethau. Y mae y modd yr ydym i ymdebygoli i'r Arglwydd Iesu yn cynnwys gwir egwyddorion efelychiad o bawb. Pwy, yn ei synwyr, a feddyliai ei fod yn ei efelychu, trwy wneuthur yr un fath ag ef? Onid peri i ni ammheu ei byyll a wnai y dyn hwnw a gyhoeddai waeau a mell-dithion uwch ben ei gyd-ddynion, cyffelyb i'r rhai a gyhoeddodd yr Iesu uwch ben y Phariseaid a'r Saduceaid? Onid gwneuthur ei hun yn wawd a wna y pab trwy olchi traed deuddeg o'i ganlynwyr ar ôyl y pasg, fel y gwnaeth Iesu Grist? Gwir efelychiad o hŏno, ydyw ymostwng i lywodraeth yr un egwyddorion ag ef—ymddwyn at bob peth yn ol ei wir deilyngdod, fel efe—meddiannu yr ysbryd yn mhob temtasiwn fel ef—deall, fel efe, pa bryd i dewi a pha bryd i lefaru, a gofalu am lefaru fel y gweddai i'n sefyllfa. Ei efelychu ef yn y pethau hyn a barai i ni arswydo rhag defnyddio ei eiriau.

Ond y mae i ni air cyn terfynu â'r dosbarth hwnw o athrawon y Cymry sydd yn camarfer efelychu: y rhai sydd yn efelychu y wisg yn lle y dyn, yn ceisio gwisgo eu hunain yn mantell Elias, yn lle ymofyn am ddeuparth

o'i ysbryd. Dynion ieuaine o ran oedran, gan mwyaf, ydyw y dosbarth hwn, er fod ambell un ynddo heb fod felly; ond y mae y rhai hyny yn gyfryw na wna blyneddau byth mohonynt yn hen—bechgyn a fyddant yn meddwl pawb, pe byddent fyw cyhyd a Methusalem. Y mae yr ychydig hyn yn anfddyginiaethol. Nid ydyw o bwys i'r dosbarth pwy ydyw yr ysgrifenydd; y mae hawlfreintiau y "Traethodydd" yn ei alluogi i ddefnyddio y *nynt*, fel pe buasai esgob, ac y mae yn dirgel obeithio y rhydd y gair bychan, ond pwysig yna, nerth i'w holl eiriau. Pell oddiwrthym a fyddo dywedyd ungairgarw wrth y dosbarth hwn. Yr ydym hefyd yn bell oddiwrth gydymdeimlo â'r rhai a broffesant barch mawr i grefydd, eto a wnant eu goreu i arwain pawb i feddwl mai un o leoedd mwyaf llygredig ein gwlad ydyw y pulpud; mai rhai digrefydd a disynwyr hefyd, gan mwyaf, ydyw y rhai sydd yn arfer eu cyfarch o hono. Cymerant yn ganiataol fod crefydd ddysglaer iawn odditano, ond dim ynddo, gan anghofio dangos pa fodd y gallai yr afon fod mor risialaidd, os ydoedd y ffynnon o ba un y tarddodd mor llawn o fudreddi? pa fodd y gallai y firwyth fod mor dda, a'r pren mor wenwynig? Os ydyw y rhai sydd yn y pulpud mor ddrwg, a'r rhai sydd odditano mor dda, pa fodd y mae y rhai da yn goddef y rhai drwg, pan nad oes dim yn eisieu i'w symud i ffordd ond ewyllysio? Y mae ya rhaid fod tafod geneu yr eglwys heb ddeall cam flas, neu ynte ei bod yn ddifffgiol mewn ffyddlondeb i ymateb cydwybod dda? Ond ni chyd-saif y meddwl yna ddim â'r grefydd fawr a dybir sydd ganddi. Na, na, y mae yn rhaid i'r pulpud a'r eglwys sefyll neu syrthio gyda'u gilydd. Os ydyw hi yn sanctaidd iawn, nis gall y pulpud fod yn halogedig iawn. Y mae Cymru yn rhy ddyledus i'r pulpud i roddi cred rwydd i neb o'i enllibwyr. Nid ydym yn hŏni perffeithrwydd i bulpud Cymru, nac yn cydymdeimlo ychwaith â'r dosbarth a enwyd, eto yr ydym yn ymofddio yn aml fod un sydd â chymaint o ragoriaethau ynddo yn cael ei ddiwyno mor fawr gan y camarferiad o efelychu; er ein bod yn bell oddiwrth feddwl fod efelychu yn fai yn mhawb. Credu yr ydym mai plentynrwydd meddwl, ac awydd cywir am wneuthur lles i'w cyd-ddynion, ydyw yr achos o hono mewn llawer. Y maent yn gweled hwn a hwn yn llwyddiannus iawn. Carent hwythau hefyd wasanaethu eu cenedlaeth, a thybiant mai yr unig ffordd iddynt lwyddo ydyw gwneuthur y cwbl yr un fath a'r person hwnw. Ond y mae efelychu o'r fath hyn yn ymddygiad ffol yn mhawb, ac mewn llawer yn ymddygiad beius iawn. Y mae yr hwn sydd yn ei ddefnyddio tuag at gyrhaedd safie manteisiol i wneuthur lles i'w gyd-ddynion yn ei ddisodli ei hun. Yn lle tueddu y bobl i'w wrandaw drwy hyny, cwyd yn hytrach ragfarn cryf yn ei erbyn ei hun; oblegid y mae ei ymddygiad yn dangos ei fod yn coelio eu bod yn gymaint ffyllaidd ag y meddyliant mai ei ddillid ei hun ydyw y wisg sydd am dano, a hwythau yn eu hadwaen er's blyneddau cyn ei weled ef. Er y gall fod ambell gynnulleidfaf, fel rhai personau, yn ymylu ar fod yn perthyn i ddosbarth y ffolion, eto nid buan y maddeuir i'r dyn a ddywed hyny wrthynt mewn gair neu ymddygiad. Nid oes neb yn beio ar y chwarydd am ddynwared; i weled hyny yr aeth pawb i'r chwareudŷ; ond daethant i'r addoldŷ gan ddysgwyl na byddai na rhagrith na rhodres yno; ac os siomir hwynt yn eu dysgwyliaid, fe galedir y galon, nid yn unig yn erbyn y pregethwr, ond hefyd yn erbyn yr efengyl ei hun.

Y mae llawer o "guddiad cryfder" pregethwr yn gynnwysedig mewn

gallu cadwyno sylw cynnulleidfa mor llwyr at yr hyn y mae yn ei draethu, fel na chofiant ar y pryd fod neb na dim yn bod ond hyny; ac os bydd rhywbeth o'i amgylch ef yn dwyn un arall i'w meddwl, yn enwedig os bydd hwnw yn un enwog, y mae hyny yn anfantais dirfawr iddo ef ei hun. Ei gymharu a'i wrthgyferbynu ef â hwnw y bydd y gwrandawyr, yn lle dal ar y pethau a lefarir ganddo. Dywedodd un o'i wrandawyr wrth Robert Hall, "Yr oedd difrifwch a dwysder y rhan olaf o'ch pregeth heddyw, yn adgoffâu Bossuet yn dra grymus i fy meddwl." Atebodd yntau, "Y mae yn ddrwg genyf hyny. Nid oes yr un pregethwr y byddwn yn fwy anmharod i'w ddwyn i feddwl fy nghynulleidfa na Bossuet, am y byddwn fy hun yn druenus o wael o'm cymharu âg ef." Eto, fe wna pob efelychwr beth cyffelyb i hyn bob Sabboth, ac nid rhyfedd ydyw eu bob, yn fynych, "mor druenus o wael," gan eu bod yn gosod un mor enwog gyferbyn â hwynt. Y mae *Primrose Hill* yn cael ei ystyried yn uchel yn Llundain, am nad oes yr un mynydd arall yn agos; ond pe buasai Plinlimon neu Gader Idris yn y gymydogoeth, prin y cawsai *Primrose Hill* gred am fod mor uchel ag ydyw. Y mae yr efelychwyr, trwy ddwyn y dynion mawr gyda hwynt i bob cynnulleidfa, yn peri i bobl edrych arnynt hwy eu hunain yn gorachod, ac felly y maent yn ymyl y cewri; ond pe daethent yno heb y cawr gyda hwynt, cawsent eu hystyried o'r maintioli cyffredin.

Prin y gallwn gredu fod neb yn cymeryd y pulpud yn lle i gyrhaedd enwogrwydd er ei fwyn ei hun; ond os oes, nid oes ffordd sicrach nag efelychu, iddynt fethu yn eu hamcan. Cedwir hwynt, gan hyny, drwy eu hoes yn blantos, fel na ddeuant byth yn ddigon cryfion i sefyll a cherdded eu hunain. Yr oedd Robert Hall, yn moreu ei oes, yn efelychu Johnson, ond meddai, "Ffolineb plentyniaidd ydoedd, ac yr ydoedd hefyd yn ffolineb mawr iawn. Buasai mor resymol i mi geisio dawnsio cornddawns yn ngwisgoedd Gog a Magog. Nid allasai fy meddyliau bychain gweiniaid i ddim ymgynnal o dan y llwyth o eiriau, â pha rai yr oeddwn yn ceisio eu gwisgo." Gwelodd ef ei ffolineb mewn pryd, onidê buasai ei enw yn awr, fel ei gorff, yn nhir anghof. Nid yw gwir enwogrwydd a defnyddioldeb byth yn groes i'w gilydd. Y mae yr un peth ag sydd yn attal yr ail yn sicr o attal y cyntaf hefyd. Ac mae ymlyniad hir wrth yr efelychiad beius hwn yn ddigon i brofi na ddylai y neb a wna hyn ddim bod yn athraw i'r bobl. Y mae yn profi yn sicr ei fod naill ai heb nodweddiad fel dyn, neu ynte fod rhyw wall yn ei egwyddor fel crïstion. Nid oedd neb âg anaf corfforol arno yn myned yn offeiriad yn Israel gynt. Ac y mae yr anaf o fod heb nodweddiad fel dyn, ar rai dynion da eto—y mae yn eglur eu bod oll yn methu eu lle, pan y ceisiant am le athraw. Ac onid buddiol a fyddai cael swyddog newydd yn addoldai ein gwlad, ond ei gael yn un gonest, cariadlawn, i sefyll wrth risiau y pulpud, ac i sibrd yn nghlustiau yr efelychwyr, pan yn disgyn oddiyno, fel y gwnaeth un unwaith wrth gyfaill iddo oedd wedi ei orchfygu, am y tro hwnw, gan y demtasiwn o efelychu, "Bydded i bob aderyn ei lais ei hun;" ac os na wrendy yr euog, ar ol ail a thrydydd rhybudd, yna penderfynfer na fedd yr un llais o'i eiddo ei hun; a rhodder ei le ef i rywun sydd yn meddu un. Hefyd, nid oes dim yn myned ymhellach tuag at beri ammeuaeth ynghylch cywirdeb pregethwr na'i waith yn efelychu. Er y dymunem ni gario barn cariad am danynt oll, y maent hwy wedi rhoddi lle cyfreithlawn i fynwesu un arall. Os ydynt o ddirif gyd â'u gwaith, pa fodd na ddeuai y difrifwch naturiol hyny i'r



golwg yn y pulpud, a welir ynddynt gydag achosion eraill pan allan o hono? Pe byddai yr hyn sydd ganddynt i'w ddywedyd yn llosgi megys tân yn eu calon, y mae yn anhawdd meddwl nad anghofient y dull o'i ddywedyd. Mewn oes fel hon, pan y mae pawb yn galw am ddirifwch, ai ni ddylai pob peth a rydd y sail wanaf i ammheu fod y pregethwr yn amddifad o hono, gael ei alltudio o'r pulpud? Gadawer y cymeriad o chwarydd i'r offeiriad Pabaidd a'r offeiriad Puseyaidd; ac ymdrechel ieuencyd Cymru, sydd eisoes yn y swydd anrhydeddus, neu â'u hwyneb arni, am fod yn rhywbeth yn amgen—am fod yn gyfryw y bydd pob ystum o'u heiddo yn dangos nad allant lai na dywedyd y pethau a welsant ac a glywsant. Byddai eu cael felly yn fywyd o feirw i bulpud ein gwlad eto. Ac nis gallwn ddiweddu yn well nag yn ngeiriau Cowper :—

“In man or woman, but far most in man,  
And most of all in man that ministers  
And serves the altar, in my soul I loathe  
All affectation. 'Tis my perfect scorn;  
Object of my implacable disgust.

For ghostly counsel, if it either fall  
Below the exigence, or be not back'd  
With show of love; at least with hopeful proof  
Of some sincerity on the giver's part;  
Or be dishonoured in the exterior form  
And mode of its conveyance by such tricks  
As move derision, or by foppish airs,  
And histrionic mummery, that let down  
The pulpit to the level of the stage;  
Drops from the lips a disregarded thing.  
The weak perhaps are moved, but are not taught,  
While prejudice in men of stronger minds  
Takes deeper root, confirmed by what they see.”

---

PRYDDEST AR DDOETHINEB DUW.

GAN Y PARCH. G. EDWARDS, M.A., MINERA, GER GWRECSAM.

RHAN II.

Doethineb Duw yn llywodraeth y byd moesol, a'i ymddygiadau at yr hill ddynol.

PAN grewyd dyn gyntaf ar ddelw ei Arglwydd,  
A'i gorff ef a'i enaid yn ddwyfol a dedwydd;  
Nid hir yr arosodd mewn bri ac anrhydedd  
Yn ngwynfyd paradwys, dan wenau trugaredd;  
Ond Satan gyrhaeddodd o'i garchar uffernol  
I'r ddaear, tros wagle y tryblith tragwyddol,  
A denodd i bechod ein dedwydd rieni,  
Nes syrthio o'u gwynfyd i ddyfnder trueni.  
Trwy wrando hudoliaeth a swynion y gelyn,  
Hwy anufuddhasant y dwyfol orchymyn;  
O firwyth pren gwybodaeth a blanyd yn Ngwynfa,  
Yn groes i orchymyn yr Arglwydd, gwnaent fwyta.  
A Satan ddilynwyd gan bechod ac angau,  
Rhai gludent i'r ddaear drallodion a gwacau;

A mellidith Jehofa a grogai uwch Eden,  
 A llwybrai digofaint nes duo 'r ffurfafen !  
 A dyn a ymguddiodd o wyddfod ei Arglwydd,  
 A'i fynwes yn llosgi gan danllyd euogrwydd.

Ond pan oedd cyflawnder yn barod i ddisgyn,  
 Oddiwrth yr orseddfainc, gan drwaio ei edyn,  
 I ddial y camwedd, a chosbi 'r troseddïad,  
 A dinystr yn tramwy i'r ddaear heb oediad,—  
 Doethineb Jehofa o'r nef ymddyagleiriai,  
 A ffordd i'w drugaredd weithredu agorai.  
 Ar hyn yr arafodd dialedd ei gerbyd,  
 A chleddyf cyflawnder i'r wain a ddychwelwyd ;  
 Ar ddyn yn ei adfyd y gwawriodd trugaredd,  
 Ei fywyd achubwyd, pardynwyd ei drosedd.  
 Can's Ior yr uchelnef, pan ganfu y gelyn,  
 Ar antur elynol i'r ddaear yn cychwyn,  
 Ragwelodd ei lwyddiant ar ben y ddynoliaeth,  
 A'r anffawd ddilynai i'r deg greadigaeth,  
 Ac achos dyn roddes i'w Fab, a'i etifedd,  
 Yr hwn a eisteddai ar ddeheu ei orsedd.  
 Ac yn yr awr bwysig pan gwypai 'r pen dynol,  
 A thynged dynolryw ar droi yn y fantol ;  
 Pan ydoedd digofaint angerddol Jehofa,  
 Ar fin gyru 'r ddaear yn ol i ddyddyndra,  
 Mab Duw a ddywedai—" Dros ddyn am ei bechod,  
 Rho'f gyflawn foddlonrwydd i'r nefawl awdurdod ;  
 Ior, wele fi 'n barod i wneyd dy ewyllys,  
 Cyflawni 'th fwriadau i'm henaid sydd felus ;  
 Disgynaf i'r ddaear, diosgaf fy mawredd,  
 Gan adael o'r neilldu goronau 'm hanrhydedd,  
 Ac âf o dan felldith y dyn a droseddodd,  
 Trwy uno fy Nuwdod â'r natur a bechodd.  
 Cyflawnder foddlonaf, a'r ddeddf a'i gofynion,  
 Gostegaf daranau eu tanllyd felldithion ;  
 A dyn a heddychaf â'r priodoliaethau,  
 Sy'n bwgwth ei fywyd â dinystr ac angau.  
 Disgynaf fy hunan i deyrnas marwolaeth,  
 Ennillaf ar angeu a'r bedd fuddygoliaeth ;  
 A gelyn dynoliaeth mewn bythawl gadwynau  
 A rwymaf, gan ollwng fy mhlant o'i garcharau.  
 A thrwy dd'od yn bridwerth yn neddfle pechadur,  
 Dirgelu fy Nuwdod, trwy wisgo ei natur,  
 Adferaf i ddynion fwy bendith na'r Wynfa,  
 A gollwyd trwy gamwedd a phechod gan Adda."

Pan wnaed y dadganiad trwy 'r nefawl drigfanau,  
 Seraphiaid ac engyl, â'u heuraidd delynau,  
 Ddechreuent gyd-daro yr anthem dragyyddol,  
 Mewn mawl ac anrhydedd i'w Brenin anfarwol.

Peroriaeth mil myrddiwn, â'u dwyfol ganiadau,  
 A lanwent faith oror y bythawl drigfanau ;  
 O flaen yr orseddfaine ymrestrent yn lluoedd,  
 Gan symud dros balmant grisialaidd y nefoedd.  
 A grasol addewid Duw Ior a gyhoeddwyd  
 Uwch Eden, a chynllun doethineb amlygwyd,  
 Mai Had y Wraig ddygai i'r byd waredigaeth,  
 Sef Mab y Goruchaf, mewn gwisg o ddynoliaeth.  
 A chenad angelaidd, yn wyn fel yr eira,  
 Trwy lwybrau 'r goleuni, ddisgynodd i Wynfa,  
 I droi ein cynriaint o Eden i'r ddaear ;  
 Trwy ddrysau paradwys arweinïa i'r ddau gymhar.  
 A thanllyd gerubiaid osodwyd i wyllo  
 O gylch pren y bywyd, a'r ffordd tuag ato ;  
 A'u fflamlyd gleddyfau, fel mellt uwch ben Eden,  
 A'u llafnau rhuddgochion chwareuent trwy 'r wybren.

Ond trefn ddoeth y nefoedd yn fuan, trwy wawrio  
 Ar ddyn mewn alltudiaeth, ddechreuai 'i gysuro ;  
 O'i amgylch canfyddai arwyddion o fendith,  
 Yn attal effeithiau difaol y felldith,  
 Yr hon ar hyd wyneb y byd halogedig  
 A droes yr elfenau o'u cyfiwr cyntefig.  
 Ei lafur goronid â llwyddiant beunyddiol,  
 A'r anial o'i amgylch a wenai yn siriol ;  
 Yn lle drain ac ysgall, a chrinllyd dwmpathau,  
 Y ddaear addurnid yn brydferth â blodau ;  
 A Mab Duw 'n feunyddiol oedd drosto yn eiriol,  
 Gan ennill bendithion i'w drigfa ddaearol ;  
 A hedd a thawelwch i'w fynwes ddychwelent,  
 A llymion bigiadau cydwybod a beidient.

A phan un prydawnnddydd eisteddai i orphwyso,  
 A'r haul tua chaerau 'r gorllewin yn brysio,  
 Dan orchudd pren brigog, â'i ddeiliog gangenau  
 Yn taenu 'u cysgodion dros gwrlid o flodau,  
 Canfyddai negesydd nefolaidd yn nesu  
 I'w wydd, a'r wedd arno yn fuan adnabu ;  
 A cher ei fron safai, fel gynt yn mharadwys,  
 A chwmwl gogoniant uwchlaw iddo 'n gorphwys ;  
 A chyda llais dynol dechreuai lefaru,  
 Ac Adda mewn gwyllder o'i flaen yn ymgrymu.

"O lys y nef," meddai, "y cefais fy anfon,  
 I ddweyd i ti dynged y hyd a'i helyntion,  
 A threfn ddirgeledig yr Ior, a'i ragluniaeth,  
 Fel cânt eu hamlygu i ti a'th hiliogaeth.  
 Adroddaf ddirgelion cuddiedig Duw 'r nefoedd,  
 Yn hanes y ddacar, hyd ddiwedd yr oesoedd ;  
 Dyfnderoedd doethineb y Brenin Goruchaf,  
 Wrth ymddwyn at ddyunion, o'th flaen a ddadlenaf.

I ti a dy briod bydd merched a meibion,  
 A'r holl fyd a lenwir cyn hir â thrigolion ;  
 Dy hil änt o wledydd i wledydd ar wasgar,  
 A llwythau o'th feibion a ranant y ddaear.  
 Ond effaith dy drosedd, a'i drist ganlyniadau,  
 Fel pla trwy 'r holl oesoedd a ddilyn eu camrau ;  
 At bechod bydd tynfa pob dyn yn naturiol,  
 At Dduw bydd pob calon yn llogfa elynol.  
 Cynnydda pechodau, ac angeu deyrnasa,  
 A'i äang lywodraeth trwy 'r byd a gyrhaedda ;  
 Yr uchel a'r isel a gluda yn gaethion,  
 Gan dramwy y ddaear, lle bynag bydd dynion.  
 Pob dolur a chlefyd, a heintiau y nodau,  
 Yn fyddin liosog, ddilynant ei sodlau ;  
 Ac Efa a thithau raid fyn'd tan y ddedfryd,  
 I'r llwch, o'r lle daethoch, rhaid i chwi ddychwelyd.  
 Ond ffordd a agorwyd i ti a'th hiliogaeth  
 I wynfyd y nefoedd, trwy ddyffryn marwolaeth ;  
 Er dichell y gelyn, a'i thrist ganlyniadau,  
 Er colli paradwys a'i dedwydd drigfanau,  
 Bu dwyfol ddoethineb yn drech na'th elynion,  
 A dyn a ddyrchefir i gwmni nefolion.  
 Mab Duw a wnaeth gymmod ac iawn am dy drosedd,  
 I fyd condemniedig y dygodd drugaredd ;  
 A disgyn i'r ddaear, preswylia yn mysg dynion,  
 Pan ddaw 'r pryd nodedig benodwyd i'w anfon.  
 Trwy 'i fywyd o lafur, gwaradwydd a phoenau,  
 A thrwy ymddarostwng i ddyoddef loes angau,  
 Rhydd iawn i gyfiawnder y Nef am dy bechod,  
 A'i aberth tawela ddigllonedd y Duwdod.  
 A thrwy edifeirwch, a ffydd yn ei enw,  
 Daw bywyd tragwyddol i ddyn er ei farw ;  
 A'r corff, er am dymmor i'r llwch ei ddychwelyd,  
 I'r lan mewn gogoniant o'r bedd a adgyfyd ;  
 A chaiff ei ail uno ä'r enaid anfarwol,  
 I fyw mewn dedwyddyd dros oesoedd tragwyddol.  
 Ond rhan pechaduriaid barhänt mewn gwrthryfel,  
 Yn erbyn yr Arglwydd a'i deyrnas oruchel,  
 Fydd dinystr tragwyddol, yn uffern a'i phoenau,  
 Yn nghwmni cythreuliaid hyd byth o dan waeau.  
 Os Satan was'naethant dros ystod eu bywyd,  
 Rhaid iddynt o'r ddaear at Satan ddychwelyd ;  
 Os Duw wrthwynebant, a nerthoedd ei allu,  
 Ei lid a'i ddigofaint a yr i'w gwasgaru."

Ar hyn yr ymholai Adda, yn bryderus,  
 Am amser dyfodiad Mab Duw, os oedd hysbys,  
 A pha fodd y byddai hyd nes iddo ddyfod  
 I ddattod gweithredoedd y diafol a phechod ?  
 "Llawn dair mil o flyyddi," medd yntau, "änt heibio,  
 Cyn daw y Gwaredwr at ddyn i breswyllo ;

A'r byd a aiff rhagddo trwy y maith gyfnod  
 Ar bwys yr addewid, gan ddysgwyl ei ddyfod.  
 Ond deiliaid Jehofa, a'i bobl etholedig,  
 Yn mysg yr hil ddynol a fyddant ychydig.  
 Cynnydda pechodau yn nhreflad yr oesoedd,  
 A Satan fydd frenin dros äang deyrnasoedd;  
 A deiliaid Duw 'r lluoedd yn mysg y myrddiynau,  
 Fel dyrnaid yd welir ar ben y mynyddau.  
 Yr hynaf o'th feibion, ei frawd a lofruddia,  
 A'i waed, mewn digllonedd, i'r ddaear dywallta,  
 Ac ymaith ymedy i wlad bell i drigo,  
 Ac euog gydwylbod o'i fewn yn ei flino.  
 Ac yma yn gyflym cynnydda 'i hiliogaeth;  
 A chawri gorthrymus mewn awydd a bariaeth,  
 A thrais a galanas a lanwant y gwledydd,  
 Gan fathru, mewn dirmyg, orch'mynion yr Arglwydd;  
 A'r ddaear yn gyflym i farn a addfeda,  
 A'r dinystr ddaw arni am gamwedd a thraha;  
 Can's Duw a attalia dueddiad anianol,  
 A llygredd calonau, a nwydau 'r hil ddynol,  
 Rhag iddynt droi 'r ddaear yn feusydd celanedd,  
 A drych o drueni yn ngwyn eu cynddaredd!  
 Os pechod gynnydda, a gwaeddfawr gamweddau,  
 I'w hattal o'r nefoedd yr enfyn ei farnau;  
 A dynion gwargaled, ddirmygant bob rhybudd,  
 O'r diwedd ddinystrir fel na bo gwaredydd!  
 Yn hir, mewn amynedd, yr attal ei ddyrnod  
 Pryd hwn, gan ymdrechu troi 'r byd oddiwrth bechod;  
 A'i was cyfiawn Noa yn genad fydd drosto,  
 Yn hwyr ac yn foreu parhâ i rybuddio;  
 Gan ddiwyd gyhoeddi bod diluw o ddyfroedd,  
 Yn d'od i orchuddio pob gwlad dan y nefoedd.  
 Ac arch adeilada wrth ddwyfol bortrëad,  
 I achub ei fywyd, pan ddel yr ymweliad;  
 Ac adsain pob dyrnod â'i forthwyl rydd arni,  
 Y dinystr sy'n dyfod barhâ i gyhoeddi;  
 Ond trwy yr holl amser, gwatwarwyr ystyfnig,  
 Ddirmygant gynghorion y sant bendigedig,  
 A gwawdiant bob rhybudd, gan feiddio y nefoedd,  
 A herio, mewn dirmyg, orseddfaine Duw 'r lluoëdd.  
 O fysg y cre'duriaid, rhifedi penodol,  
 I'w cadw rhag dinystr, gan Dduw gânt eu hethol,  
 A'u hanfon at Noa, ac yntau a'i deulu,  
 Tumewn i'r arch wyrthiol a gaur i fyny.  
 Ar hyn, dua 'r wybren, a rhua 'r corwyntoedd,  
 A'r gwlaw o'r ffurfafen bistyllia 'n gefnllifoedd;  
 A'r dyfroedd gynhyrfant trwy gelloedd y dyfnder,  
 A'r ddaear i grombil y moroedd a ddadmer.  
 I'r cedyrn ddinasoedd y rhuthra y tonau,  
 A throstynt ymdreigla y môr yn fynyddau,

A miloedd a gleddir yn annysgwyliadwy,  
 Mewn dawnsiau a gwleddoedd, dan gyrc y rhyferthwy.  
 Dros ddeugain o ddyddiau disgyna 'r gwlawogydd,  
 A'r dyfroedd cynhyrfus o hyd änt ar gynnydd ;  
 A môr, heb lan iddo, amgylcha 'r ddaearen,  
 Ac esgyn y dyfnder ymchwyddawl i'r wybren,  
 A physgod y moroedd uwchlaw y mynyddau  
 A nofiant, dan gefnllif rhuadwy y tonau !  
 A phob cnawd a drenga fo 'n berchen ar fywyd,  
 A'r byd i'w breswylwyr dry yr Arglwydd yn weryd,  
 Ond Noa a'i deulu yn unig achubir,  
 Y rhelyw â dinystr tragwyddol ddymchwelir.

A Duw 'n awr gyhoedda 'i ddigllonedd at bechod,  
 O'r hyn dwg y ddaear arwyddion diddarfod,  
 Ac ymaith ysguba ei hanfad drigolion,  
 Gan gladdu myrddiynau yn meddrod yr eigion ;  
 Ac yn yr ymweliad rhydd rybudd tragwyddol,  
 A gwers na's anghofir i'r oesoedd dyfodol.  
 Ond cofia 'i was Noa, a rhwyma 'r dyfnderoedd,  
 Yn ol i'w terfynau y geilw y dyfroedd,  
 A'r sychdir ymddengys, a'r arch a orphwysa,  
 Ar gopa 'r Ararat, yn nghanol tir Asia.  
 Y patriarch a'i deulu i'r ddaear ddychwelant,  
 Yr hon yn ddiffieithwch llawn dinystr ganfyddant ;  
 Ac arni penliniant, gan ddiolch i'r Nefoedd,  
 Am achub eu heinioes o'r echrys ddyfnderoedd :  
 A bwa amryliw, uwch ben o'r ffurfafen,  
 Yn disgyn o'r cwmwl, gofleidia 'r ddaearen,  
 Yn arwydd o heddwech, a bythawl gyfammod,  
 Rhwng byd gwrthryfelgar a Brenin nef uchod.

Fel hyn, mewn doethineb, trwy farn a thrugaredd,  
 Y llywia yr Arglwydd y byd hyd y diwedd ;  
 Ymwêl mewn digofaint â chenedl annuwiol,  
 A'u cosb fydd yn rhybudd i'r byd yn dragwyddol ;  
 Ond yn ei drugaredd dyrchafa ei weision,  
 A gwna iddynt farchog ar warau 'u gelynyon,  
 Ac er eu mwyn hefyd, dros lawer cenedlaeth,  
 Y disgyn ei fendith i lawr i'w hiliogaeth.

Wyth enaid yn unig a gânt eu gwaredu,  
 O'r lluoedd breswylant y ddaear pryd hyny :  
 A hyn fydd y gweddill o'i halog drigolion,  
 Pan ddisgyn cyflawnder i ysu 'r euogion.  
 Ond buan cynnyddant gan lenwi 'r byd eilwaith,  
 O'r dwyrain i Sinar cyrhaeddant, gan ymdaith,  
 Ac yma, mewn rhyfyg, dechreuant sylfaenu  
 Tŵr cadarn a dinas, rhag cael eu gwasgaru ;  
 Ond Duw a ganfydda drahausder eu dyben,  
 A'r gwaith a attalia cyn iddynt ei orphen ;

Cymysga eu hieithoedd rhag deall eu gilydd,  
 A'r antur ryfygus ar unwaith a dderfydd.  
 Ac yma gwasgara holl lwythau 'r hil ddynol,  
 A gyr hwynt trwy 'r ddaear i wledydd gwahanol,  
 I ddechreu sylfaenu blodeuog deyrnasoedd,  
 Nes iddynt boblogi pob gwlad dan y nefoedd.  
 Ond eilun-addoliaeth a pechod yn fuan  
 A ail ymddangosant, gan lenwi 'r byd llydan ;  
 A Duw, yn ei soriant, a äd ei drigolion,  
 I ddilyn gau lwybrau a gwarthus arferion,  
 Gan ethol un genedl o'u mysg iddo 'i hunan ;  
 Y lleill a adewir yn ddeiliaid i Satan.  
 A thad a sylfeinydd y genedl ddewisol,  
 Sef Abraham ffyddlon, o'u mysg gaiff ei ddeol ;  
 A'i alw i adael ei wlad a'i breswylfa,  
 Gan ddilyn yr Arglwydd o oror Caldea.  
 Efe fydd ddechreuad i genedl liosog,  
 Yr hon ddaw yn fuan yn rymus ac enwog ;  
 A phobl ddewisedig i Arglwydd y lluoedd,  
 I'r rhai 'r ymddiriedir oraclau y nefoedd.  
 A'r nefawl addewid gyhoeddwyd yn Eden,  
 Nes attal cyflawnder ddinystrio 'r ddaeaeren,  
 Bod Mab y Goruchaf at ddynion i ddyfod,  
 I roddi llawn daliad i Dduw am dy bechod,  
 I Abraham eilwaith a gaiff ei chyhoeddi ;  
 Ac mai o'i hiliogaeth, pan ddaw, caiff ei eni.  
 A thir ffrwythlawn Canaan, yn fythawl dreftadaeth,  
 A rydd yr Ior hefyd i hwn a'i hiliogaeth ;  
 O'r lle yr amlyga 'i ogoniant i'r ddaear,  
 A'i ddwyfol oleuni trwy 'r gwledydd a wasgar.  
 Yn ffyrdd ei ddoethineb parha i ddyrchafu,  
 Y genedl ddewisol, trwy wyrthiau a gallu ;  
 I Isaac a Jacob drachefn adnewyddda  
 Ei rasol addewid, a'i gynghor amlyga.  
 A Joseph, mab Jacob, a werthir yn gaethwas  
 I'r Aipht gan ei frodyr, wna 'n llywydd y deyrnas :  
 Try lid a chenfigen yn fendith i'w deulu,  
 Mewn dull na ragwela y rhai wnant ei werthu :  
 Can's newyn a gerdda mewn rhwysg trwy 'r holl wledydd,  
 Ni welir na ohnydau na grawn ar y meusydd ;  
 Ond Joseph a ddysgir gan ddoniau nef uchod,  
 I wneuthur darpariaeth rhag prinder i ddyfod ;  
 A lleinw ystordai yr Aipht gydag ydau,  
 Cyn dyfod y newyn, dros saith o flyneddau ;  
 A gwledydd y ddaear änt ato i gael ymborth,  
 I'w deulu yn Nghanaan mewn anghen rhydd gynhorth ;  
 Can's Jacob a'i feibion o'u gwlad ymadawnt,  
 I'r Aipht, o dir Canaan, at Joseph symudant ;  
 A Duw hefyd fuda 'i winwydden ysbrydol,  
 O'r tir lle ei planodd, at genedl estronol.

Ac yma cynnydda hil Jacob yn ddirfawr,  
 Nes taro â dychryn yr Aipht, a'i phrif flaenawr,  
 Ond hwn a'u gorthryma, a gwna hwy 'n gaethweision,  
 Ac attal eu cynnydd trwy ddeddfau tost creulon ;  
 A llafur trwm caled, a gerwin gyfreithiau,  
 Y gwna i'r holl genedl hiraethu am angau ;  
 A'u llef yn eu hadfyd a esgyn i'r nefoedd,  
 A chyrhaedd eu cwynion i glustiau Duw 'r lluoedd ;  
 Ac ef a ddarpara i'w blant waredigaeth,  
 Ond ar eu gorthrymwyr y myn oruchafiaeth ;  
 Ac enfyn ddau frodyr, sef Moses ac Aaron,  
 I'w harwain hwynt allan o dir eu gelynon.  
 Maluria gadwynau yr hil etholedig ;  
 Trwy rymus arwyddion a braich estynedig,  
 A dofa wrhydri 'r gormeswr ffroen uchel,  
 Cyn dwyn ei blant allan o'i dir yn ddiogel.  
 Ac ar yr Aipht tywallt ddeg phiol ei ddigter,  
 I gosbi 'i thrigolion am drais a gorthrymder.  
 Ei dwfr dry yn gochwaed, a threigla yr afon  
 Yn gefnllif arswydus, fel gwaed lladdedigion ;  
 A llyffaint y lleinw bob palas a bwthyn,  
 O'r ïang freninllys hyd fwth y cardotyn ;  
 A thry lwch y ddaear i lau yn afrifed,  
 A'r wybren orchuddia â heidiau o wibed !  
 Y mud anifeiliaid gan haint farwol drengant,  
 A dynion gam gornwyd llinorog ddihoenant ;  
 Mellt tanbaid a chenllysg a rwyga 'r wybrenau,  
 Nes ysu y gwinwydd, a churo yr ydau ;  
 A heidiawg locustiaid y dymhestl ddilynant,  
 A'r gweddill o gynnyrch y ddaear a lyfant ;  
 Y tir gydâ th'wllwch arswydlawn orchuddir,  
 A nos ellir deimlo o'r wybren anfonir ;  
 Ac angel marwolaeth o'i fangre dry allan,  
 Un noswaith, gan beri wylofain a gruddfan ;  
 A'r cyntafanedig ymwêl yn mhob teulu,  
 Un marw 'n mhob annedd trwy 'r Aipht o'i ol edy.  
 Ar hyn y cydsynia y gormesdeyrn creulon,  
 I ollwng y genedl yn rhydd o'i afaelion ;  
 Trwy 'r môr cânt eu harwain, a'i ddyfroedd a giliant,  
 Fel muriau tryloewon o'u deutu y safant ;  
 A'r brenin a'i filwyr ddilynant o'u lledol,  
 Nes cyrhaedd rhwng deufur y brif-ffordd ryfeddol ;  
 Ond yma y dyfnder rhuadwy 'n ol ddychwel,  
 Gan gladdu 'r gelynon, a plant Duw 'n ddiogel !

Ymlaen eu harweinir gan Dduw trwy 'r anialwch,  
 At wlad yr addewid, hyd ffyrdd y diffeithwch ;  
 Mewn colofn niwl tywyll y dydd eu rhagflaena,  
 A'r nos y tywyllwch yn dân a oleua ;  
 O amgylch y crwydrant dros ddeugain o flwyddi :  
 Fel hyn y dewisa yr Arglywydd eu profi ;



A phar iddynt ddeall ei farnedigaethau,  
 A ffyrdd ei ragluniaeth, a'i ddyfnion fwriadau!  
 A bara o'r nefoedd eu portha rhag newyn,  
 A chig yn gawodydd i'w gwerysll a enfyn;  
 A'u dillad am danynt trwy 'u taith ni heneiddiant,  
 Ni wisga 'u hesgidiau, a'u traed ohwaith ni chwyddant.  
 A'i sanctaidd gyfreithiau, o'i enau ei hunan,  
 I'r bobl a gyhoedda, yn ngherbyd y daran;  
 A dyn marwol wrendy leferydd Duw uchod,  
 O uchel fryn Sinai mewn grymus awdurdod;  
 A than draed eu Lluniwr ei greigydd a grynant,  
 A mellt a du gwmwl ei ben a amgylchant!  
 Ar lechau o geryg â'i fys ysgrifena,  
 Holl eiriau 'r ddeddf foesol—rhyfeddol olygfa!  
 I ddysgu 'u dyledswydd at Dduw i blant dynion,  
 A'u dyled at eraill, wrth fyw fel cym'dogion.  
 I'r genedl rhydd hefyd liosog ddefodau,  
 Aberthau aneirif a seremoniau,  
 Oll i ragddangos y dwyfol Waredwr,  
 A rhagbortrëadu 'r hwn ddaw yn Iachawdwr.  
 Cysgodau 'n rhagflaenu y sylwedd i ddyfod,  
 Y rhai a ddifanant eu hunain, gan ddarfod,  
 A fydd am hir oesoedd i uno dynoliaeth  
 A Duw, pan sefydla ei ddwyfol orchwyliaeth.  
 A phan i dir Canaan o'r diwedd cyrhaeddant,  
 Y genedl annuwiol o'i fewn a ddifodant;  
 A Duw ymladd drostynt, ac yn eu rhyfeloedd  
 I fuddygoliaethu arweinia 'u byddinoedd,  
 Ac yno, dan wenau y dwyfol ogoniant,  
 Am oesoedd, mewn llawnder a hawddfyd preswylant,  
 Nes syrthio i bechod ac eilun-addoliaeth,  
 A dechreu anghofio Duw Ior a'i wasanaeth.  
 I'w oosbi y cyfyd o'u hamgylch elynion,  
 Fel drain i'w hystlysau, o fysg eu cym'dogion;—  
 Ond dan ei geryddon gadawant ffyrdd pechod;  
 Ac Arglwydd y lluoedd ddechreuant gydnabod;  
 A'u camwedd anghofr, a Duw Ior a'u derbyn,  
 A'i weision dewisol i'w gwared a enfyn;  
 O'r 'sgubor i'r rhyfel yr arwain Gideon,  
 Yn erbyn gwŷr Midian—eu marwol elynion;  
 A Dafydd a eilw o gorlan y defaid,  
 I'w gwared rhag gormes a thrais y Philistiaid;  
 A Cyrus a dywys o eithaf gwlad Persia,  
 I ddryllio 'u cadwynau dan ormes Caldea.  
 Ond pob rhyw ddygwyddiad at ddydd y Messia,  
 Ymhlith pobl ddewisol yr Arglwydd, gyfeiria;  
 Prophwydi gyfodant, a thrwy ysbrydoliaeth  
 Duw Ior rhagddywedant nesâd ei freniniaeth;  
 Ac eglur ddadganant holl hanes ei fywyd,  
 Ei loesau, a'i angeu, a'i godiad o'r gweryd;

A'r modd y sefydla ei deyrnas ysbrydol,  
 Cyn iddo ddychwelyd i'w gartref tragwyddol.  
 Seren ar ol seren i'r byd rydd oleuni,  
 O flaen Haul Cyflawnder, cyn iddo gyfodi;  
 A'i ffordd wneir yn barod gan ddwyfol ddoethineb,  
 Cyn iddo droi allan o lys tragwyddoldeb!  
 Rhyfeloedd a therfysg trwy 'r ddaear a beidiant,  
 A rhodau 'r amseroedd yn llonydd a safant;  
 A'r holl greadigaeth a welir mewn pryder,  
 Wrth ddysgwyl y Ceidwad i lawr o'r uchelder.  
 A dygir o amgylch ddybenion Duw 'r lluoedd,  
 Yn nghwmp a chyfodiad, a dinystr teyrnasoedd;  
 Rhyfelwyr galluog, a phenau coronog,  
 Balmantant ei lwybrau trwy'r ddaear gwmpasog,  
 Ac fel offerynau yn llaw eu Penllywydd,  
 Y byd barotoant i'r nefol Waredydd.

O forwyn ddiinodded yn dlawd caiff ei eni,  
 Heb fawredd daearol, na bri i'w hynodi;  
 Ond engyl bro gwynfyd i lawr a ddisgynant,  
 I'w arwain i'r ddaear o lys ei ogoniant;  
 A seren na welwyd o'r blaen a ymddengys,  
 I wneyd ei ddyfodiad at ddynion yn hysbys.  
 Etifedd bro 'r gwynfyd, a'i heuraidd balasau,  
 A'r hwn sydd yn galw llu 'r nef wrth eu henwau,  
 A welir pryd hwn heb le i breswyllo;  
 A dynion wrthodant eu Harglwydd, pan ddelo!  
 Amlygir dyfnderau doethineb Duw 'r nefoedd,  
 Wrth ddwyn i blith dynion Iachawdwr y bydoedd;  
 A'i arwain o'r beudy, lle 'i genir, i'w orsedd,  
 A'i ïang lywodraeth heb ddechreu na diwedd.  
 Ac unir dynoliaeth yn awr gyda 'r Duwdod,  
 Mewn dull fydd i fodau gogoniant yn syndod!  
 Ar liniau 'i greadur ei hun yn wan faban,  
 Y gwelir y Brenin anfarwol ei hunan;  
 A'r Bod sydd yn llenwi 'r meithderau tragwyddol,  
 Babella am amser tumewn i gorff dynol!  
 Bydd hwn yn ddirgelwch nad all un creadur,  
 Amgyffred ei ddyfnder, na dirnad ei natur.  
 Y Duw Hollalluog amgylchir â gwendid,  
 A'r hwn sydd anfeidrol, ac nad all gyfnewid,  
 A una ei natur â natur newidiol  
 Dynoliaeth lygredig, sydd egwan a marwol.  
 Gogoniant a gwarthrudd, cyflawnder ac eisiau,  
 Y bywyd ei hunan, a deiliad i angau,  
 A welir mewn undeb yn mherson Crist Iesu,  
 Pan ddaw yn orchfygwr ar d'wysog y fagddu.  
 A'r natur anurddwyd trwy ddiche'll y gelyn,  
 A dery 'i lywodraeth yn awr gyda dychryn;  
 Y wraig ga'dd ei thwylo gan ddiafol yn Eden,  
 A ddaw eto 'n fendith i lwythau 'r ddaearen.

Dynoliaeth a Duwdod mewn undeb â'u gilydd,  
 A lanwant y cyfwng rhwng dyn a'i Greawdydd;  
 A gwnant Grist yn gymhwys i sefyll ac eiriol,  
 Rhwng marwol droseddwr a'i Farnwr tragwyddol!  
 Yn ufudd i gyfraith yr Ior trwy ei fywyd,  
 Heb le i breswyllo, heb fawredd na golud,  
 Y cerdda o amgylch, gan wneuthur daioni,  
 A chodi dynoliaeth o warth a thrueni.  
 Rhydd dafod i'r mudan, a chlyw i'r byddarion,  
 I'r meirwon rhydd fywyd, a golwg i'r deillion,  
 Ac yn ei athrawiaeth, i'r byd yr eglura  
 Ddirgelion tragwyddol, a chynghor Jehofa.  
 Trwy len ei ddynoliaeth pelydra ei Dduwdod,  
 Nes gwneyd i bob llygad yn hawdd ei adnabod;  
 A dwyfol acenion, llawn gwllith anfarwoldeb,  
 Oddiar ei wefusau, a ddysgant ddoethineb.

Trwy fyned dan felldith a gwarthrudd dros ddynion,  
 Rhydd iawn i gyfiawnder, y ddeddf, a'i gofynion;  
 A thrwy ei farwolaeth i'r byd bydd yn fywyd,  
 Ei ofid a'i drallod i filoedd dry 'n wynfyd!  
 Daw Satan i'w erbyn, a chyfyd elynion  
 O'i genedl ei hunan, i'w erlid yn greulon;  
 Ac fel drwgweithredwr, o'r diwedd croeshoeliant  
 Eu dwyfol Wareddydd a Brenin gogoniant!  
 Ger bron mainc cyfiawnder a barnwr daearol;  
 Mewn dirmyg y dygant y Perydd tragwyddol,  
 Dan farnol ddallineb, cydunant i'w wawdio,  
 Wrth iddynt ei arwain i gael ei groeshoelio.  
 A drain ei coronant, a phoerant i'w wyneb,  
 Nes syna holl natur wrth wel'd y trychineb;  
 A thystia 'r gre'digaeth mai Mab Duw a ddyoddef,  
 A'i hagwedd a newid wrth glywed ei ddolef;  
 Y creigiau a holltant, cynhyrfa 'r dyfnderoedd,  
 A'r haul a ddiflana yn nghanol y nefoedd.  
 Gruddfanau 'i Chreawdwr rydd gryndod trwy 'r ddaear,  
 A'r byd a ymwiaga mewn du-nos o alar!  
 Ond yn ei farwolaeth y maedda 'i elynion,  
 Gorchfyga deyrn uffern, dinystria 'i gynllwynion,  
 Ac egyr i ddynion holl ddrysau gogoniant,  
 A nefoedd a daear mewn hedd gyfarfyddant.  
 Dros dridiau a theirnos y gorwedd mewn beddrod,  
 A maen mawr, a rhingyll o filwyr i'w warchod;  
 Ond ni fydd gan angeu awdurdod na gallu  
 I'w ddal, pan ddaw 'r amser penodol i fyny;  
 A chyn gwawria 'r boreu y trydydd diwrnod,  
 Cadwynau marwolaeth, a rhwymau 'r bedd ddattod,  
 A'r ser, cyn machludo, a'i gwelant yn codi,  
 O deyrnas marwoldeb mor deg a'r goleuni.  
 Ac erys i drefnu ei ddwyfol fwriadau,  
 Ar ol ei gyfodiad, dros ddeugain o ddyddiau;

A chyn ei ddychwelyd yn ol i'w ogoniant,  
 Ei ffyddlawn ganlynwyr o'i amgylch ddynesant,  
 I dderbyn commisiwn a bendith eu Hathraw,  
 A gofal ei eglwys ar ol iddo 'u gadaw.  
 F'r ddaear eu henfyn i ddysgu 'i athrawiaeth,  
 Ymhell ac yn agos—i bawb heb wahaniaeth,  
 Gan wahodd pob cenedl, lle bynag y byddo,  
 A chynnyg maddeuant i bob un a gredo.  
 Estynir terfynau y nefawl freniniaeth,  
 Yn awr, trwy 'r holl ddaear, a'i dwyfol lywodraeth,  
 A threfn iachawdwriaeth yn hwy ni chyfyngir  
 I un wlad o'r ddaear—ond pawb a wahoddir.  
 Yn ol i'w ogoniant mewn cwmwl yr esgyn,  
 A llygaid ei weision trwy 'r wybr yn ei ddilyn ;  
 Ac yno 'r eistedda ar ddeheu y Mawredd,  
 Gan godi dynoliaeth at Dduw ar ei orsedd.  
 Ei ddeuddeg apostol, cyn iddynt droi allan,  
 I fyd a feddiennir gan bechod a Satan,  
 Ag Ysbryd Duw 'r lluoedd, â'i ddawn gânt eu llenwi,  
 I draethu, heb arswyd, eu holl genadwri.  
 Heb gyfoeth na mawredd y teithiant y gwledydd,  
 Gan gario trwy 'r ddaear ryfeloedd yr Arglwydd ;  
 A chleddyf ei Ysbryd a'u dwyfol awdurdod,  
 Fydd arfau 'u milwriaeth wrth ymladd â phechod ;  
 A Christ croeshoeliedig fydd ar eu banerau,  
 Arwyddair ei filwyr, wrth ymladd ei frwydrau.  
 Doethineb y nefoedd rydd iddynt hyawdledd,  
 I draethu dyfnderoedd dybenion trugaredd ;  
 A du-nos paganiaeth o'u blaenau ddfiflana,  
 A gorsedd y diafol a'i deyrnas a sigla.  
 Trwy 'r byd, mewn byr amser, y treiddia 'u dylanwad,  
 A gwledydd pellenig dderbyniant y Ceidwad ;  
 O'r dwyrain flodeuog hyd eitha'r gorllewin,  
 Addefir Crist Iesu yn Arglwydd a Brenin ;  
 A dwyfol awelon a gludant ei eiriau,  
 A'i faner ddadblygir drwy ogledd a deau ;  
 Y newydd a gyrhaedd bellenig ynnysoedd,  
 A'r dwyfol gyhoeddiad bob gwlad dan y nefoedd.  
 Trwy offerynoliaeth gwehilion Judea,  
 Egwyddor ail fywyd trwy 'r byd gynniweiria,  
 A nerthol chwyldroad a ddilyn eu camrau—  
 Malurir eilunod, a chwympa eu temlau ;  
 Mor rymus y gweithia gair Duw trwy 'r holl wledydd,  
 A'r fflam ddwyfol gerdda yn oddaith na dderfydd.  
 Ond Satan gynhyrfa liosog elynion,  
 Trwy wledydd y ddaear, i eglwys Duw cyfion :  
 Dwy rymus egwyddor o hyd a weithredant,  
 A'u lluoedd banerawg drwy 'r oesoedd ymladdant,  
 Sef pechod yn erbyn sancteiddrwydd y nefoedd,  
 Gelyniaeth y diafol at Arglwydd y lluoedd.

Y marwol anghydfod ddechreuodd yn Eden,  
 A bery, heb orphwys, tra saif y ddaearen ;  
 A'r byd wna 'n gymysgfa o ddrwg a daioni,  
 Tyf llysiâu niweidiol yn ymyl y lili ;  
 A mel a ddirgela y colyn gwenwynig,  
 A llecha gofidiau yn llys y pendefig.  
 Terfyna pleserau mewn gofid a blinder,  
 A phryfed a ysant y blodau melysber ;  
 A grym temtasiynau a llygredd anianol,  
 I bechod a chamwedd a lithiant y duwiol,  
 A'r cyflawn ddiödir yn aml gyda wermod,  
 I dynu 'i serchiadau oddiar y byd isod ;  
 A gweision ffyddlonaf yr Ior änt i'r gwynfyd,  
 Drwy fyrdd o dreialon a' stormydd o adfyd.  
 Can's dwyfol ddoethineb a wna 'r ddynawl feroes  
 Yn gyflwr o brofiad ar gyfer ail einioes ;  
 A'r diafol gaiff genad i ddrygu y seintiau—  
 Mewn llid a chynddaredd daw arnynt ar brydiau ;  
 Ond gallu 'r Jehofa a'i ceidw i'w derfyn,  
 A deddf ei ddoethineb fesura ei gadwyn.  
 Cymylau a th'wllwch amgylchant y Duwdod,  
 A'i ffyrdd yn gweithredu nid ellir eu canfod.  
 Nid all llygaid dynol ddim dilyn ei gamrau  
 Yn ffyrdd ei ragluniaeth a'i ddirgel fwriadau,  
 Na gweled yr achos o'r cynhwrf gwastadol,  
 A'r cyfnewidiadau mewn pethau daearol,  
 Pan gwympa teyrnasoedd ac ymherodraethau  
 I'r llwch o'u gogoniant, gan anadl ei ffroenau,  
 A phau yr glefydau, haint farwol, a newyn,  
 Ac angel marwolaeth â phla dan ei edyn,  
 I deithio trwy 'r ddaear ar amser penodol,  
 Nes taro â dychryn holl lwythau 'r hil ddynol.  
 Ond gwelir doethineb yn treiddio trwy 'r cyfan,  
 A'r oll yn cyfateb rhyw ddyben ac amcan,  
 Yn mhen meithion oesoedd ar ol eu myn'd heibio,  
 A phob peth oedd dywyll a gaiff ei egluro.

Dan ddudew len, cuddir yr amser i ddyfod,  
 A'r hyn sydd i ddygwydd nid all dyn ei ganfod ;  
 Hyd ffyrdd nid adwaenant y rhodia plant dynion,  
 Tra gwelant Dduw 'n newid y byd a'i agweddiön :  
 Darostwng genedloedd fydd enwog, a gwledydd,  
 A'u mawredd wasgara fel niwl y boreuddydd ;  
 Ac eraill a gyfyd i uchder anrhydedd,  
 Er ateb dybenion o farn neu drugaredd.  
 Ac fel mae 'r afonydd i'r dyfnder yn treiglo,  
 Holl oesoedd y ddaear o'i flaen a änt heibio  
 Yn maith dragwyddoldeb o'r golwg diffanant,  
 A than dduon leni i'w ddyfnder y suddant.  
 Y plant a drasaeliant i lawr yr un llwybrau,  
 Y rhai a drasaeliwyd o'r blaen gan eu tadau ;

Rhyw nerthol ddylanwad o'r cefnfor tragwyddol  
 A sugna ddynoliaeth a grym anorchfygol!  
 Ond dygir o amgylch, gan Dduw, ei fwriadau,  
 Er lles a daioni i'w eglwys trwy 'r oesau;  
 A meini yr adail a gasgl o bob goror,  
 O wledydd pellenig, a thros donau 'r cefnfor;  
 A'r conglaen diweddaf, mewn melus orfoledd,  
 I'w le a gyfodir gan ddwyllaw trugaredd,  
 A thymmor prawf dynion yn awr a derfyna,  
 Gorphenir yn gyflawn ddybenion Jehofa;  
 A'r byd sydd yn barod yn gorwedd dan ddedfryd,  
 I'w ddinyst, heb oedi, raid bellach ddychwelyd.  
 Can's nid yw y ddaear i bara 'n dragwyddol,  
 Ond terfyn osodwyd i bob peth amserol;  
 Adeilad ysplenydd y nef oddiuchod,  
 A'r cyfan a weli o'th amgylch raid ddarfod;  
 Fe 'u llosgir yn lludw, a'u lle nid adwaenir,  
 Diflanant fel breuddwyd y nos a anghofir.  
 Yn annysgwyladwy daw dydd eu hymweliad—  
 Peiriannau 'r gre'digaeth attalia 'u gweithrediad,  
 A newid agweddau y ddaear a'r awyr,  
 Heb rybudd blaenorol, a'r byd oll yn brysur.  
 Yr haul yn y boreu o'r dwyrain a gyfyd,  
 Ond ar ei gychwyniad attelir ei gerbyd;  
 I ddudew dywyllwch y troir ei oleuni,  
 A'i danlyd wynebpryd a welir yn gwelwi!  
 Ymrua 'r dyfnderoedd, o'u dyfnion gilfachau  
 Y rhuthra byddinoedd cynhyrfus y tonau,  
 A'r lloer dry yn gochwaed, a ser y nef syrthiant,  
 Eu llwybrau arferol, a'u rhodau, adawant;  
 Anghofia 'r elfenau 'r ddeddf gawsant, a'r rheol,  
 A'r ddaear a sigla mewn arswyd dirdynol.  
 Pryd hyn, gwneir yn amlwg bob tywyll ddirgelion  
 Yn ffyrdd y Jehofa, wrth ymddwyn at ddynion;  
 A llwybrau rhagluniaeth yn oleu ganfyddir,  
 A'u rhyfedd ddoethineb i'r byd a amlygir.  
 Trallodion y cyfiawn, a gwaed y merthyron,  
 Gorthrymder saint Iesu, a dagrau ei weision,  
 Yn awr, a newidir i fythawl ogoniant,  
 A throir eu gruddfanau yn sain cân a moliant;  
 Ond llwyddiant gorthrymwyr, a gwynfyd daearol  
 Gweithredwyr anwiredd, a bri yr annuwiol,  
 Derfynant yn ngharchar tragwyddol farwolaeth,  
 Dan gwmwl digofaint, yn ngwlad damnedigaeth.  
 I'r golwg y dygir pob dirgel weithredoedd,  
 A wnaed o'r dechreuad, hyd derfyn yr oesoedd,  
 Crynõir holl faterion y ddaear i fyny,  
 A Duw ar ei orsedd a eistedd i'w barnu.  
 Mor gyflym a'r fellten, pan groesa y gorwel,  
 I lawr o'r uchelnef daw 'r penaf archangel,

Ac udgorn Duw seinia trwy ddaear a nefoedd,  
 A'i ddolef a dreiddia waelodion y moroedd.  
 Ei lef ddeffry 'r meirwon, a'r beddau agorant,  
 Cadwynau marwolaeth yn chwilfriw a ddrylliant.  
 Trwy deyrnas faith angeu, lle 'r estyn dystawrwydd,  
 Dadebra 'r llwch dynol i fywyd yn ebrwydd ;  
 A charchar marwolaeth yn ddrylliau a gwympa,  
 A'r ceidwad ei hunan gan henaint a drenga.  
 Y ddaear ail esgor ar bawb o'i thrigolion,  
 Ynghyd daw gronynau chwaledig gyrff dynion ;  
 A brysia pob llwchyn i'r lle bu 'n flaenorol,  
 A dychwel pob asgwrn i'w drigfa briodol.  
 Sylweddu plant dynion a chwalwyd trwy 'r ddaear,  
 O ddechreu 'r gre'digaeth, yn llwch mân ar wasgar,  
 Yn ol a ddychwelant, ac elfen ail fywyd  
 Trwy lonydd wlad angeu yn ysbryd byw symud.  
 Er uno cyrff dynion yn nhreigladd maith oesoedd,  
 A phob sylwedd arall a geir dan y nefoedd,  
 Yn awr cânt eu hysgar, ymsymud pob gronyn  
 O greigiau 'r mynyddoedd, a phridd oer y dyffryn ;  
 Can's llygaid doethineb, trwy bob cyfnewidiad,  
 A bery i'w gwylio, a nodi eu treigladd ;  
 A Duw wel sefyllfa pob asgwrn a llwchyn,  
 A'r cyrff o'r dechreuad oedd iddynt yn perthyn !  
 Bwystfïlod y goedwig, a physgod y moroedd,  
 Gronynau 'r awryrgylch, ac adar y nefoedd,  
 Yn awr a adferant eu cyfran o ddynion,  
 A llwch y dyffrnoedd, a thywod yr eigion.  
 Y miloedd a gleddir dan gribawg fynyddau,  
 A than oesol greigydd, mewn duon garcharau,  
 A'r lluoedd aneirif, uwch ben y rhai tramwy  
 Gwanegau cynhyrfus y moroedd rhuadwy,  
 Gyfodant yn fyddin aruthol o'u beddau,  
 Ac ni fydd bod dynol o honynt yn eisiau.  
 A'r corff ydoedd farwol yn anfarwol gyfyd,  
 Hen wisg llygredigaeth a edy 'n y gweryd ;  
 Yr adail faluriwyd gyfodir o'r newydd,  
 Mewn prydferth ogoniant, ar ddelw ei Harglwydd.  
 Yr hen, a fu 'n plygu i'r llawr gan ei wendid,  
 Drwy ddwyfol ddylanwad a gaiff ei gyfnewid ;  
 A hoenus ieuencid ei wedd adnewyddda,  
 Heb boen nac afiechyd yn iraidd cyfoda.  
 A Mab Duw ddaw eilwaith mewn dull tra gwahanol,  
 I'r hyn yr ymddengys trwy 'i fywyd daearol.  
 Ar orsedd barn eistedd fry ar y cymylau,  
 A'i ddwyfol ogoniant wna'r wybren yn olau.  
 Yr hwn a fu unwaith yn cael ei ddirmygu,  
 A ddaw y pryd hwnw yn mawredd ei allu ;  
 A gwisga goronau ysplenydd ei deyrnas,  
 Bydd rhif gwllith y boreu o engyl o'i gwmpas !

Allweddau marwolaeth ac uffern arswydus,  
 A fydd yn ei feddiant yn nghrog wrth ei wregys ;  
 A'i ben gydag enfys amryliw amgylchir,  
 A llen y ffurfafen yn wisg iddo blygir.  
 O'i orsedd ysplenydd bydd llewyrch tanbeidiol,  
 Yn seirian belydru trwy'r gwagle wybrenol ;  
 A holl genedlaethau y ddaear ymgasglant  
 I'w wyddfod, lle 'n dyrfa aneirif y safant.  
 A'r dirfawr fyrddiynau o'i flaen a ddidola,  
 Y llwythau a'r ieithoedd â'i air a wahana ;  
 Ac ar ei ddeheulaw y cyfiawn a esyd,  
 A'r rhai etifeddant ei deyrnas o wynfyd ;  
 Ac ar ei law aswy y sai'r annuwiolion,  
 A'r bobl fu 'n mathru ei ddwyfol orch'mynion.  
 Ni fydd ond dwy dyrfa, lle caiff pawb eu gosod—  
 Dau ddosbarth gwahanol wrth orsedd y Duwdod,  
 Sef deiliaid Jehofa, y rhai trwy eu bywyd,  
 Fu 'n dilyn y llwybrau arweiniant i'r gwynfyd ;  
 Gan dalu ufudd-dod i Dduw a'i orch'mynion,  
 A chanlyn Crist Iesu trwy warth a thrallodion ;  
 Y rhai a gefnasant ar fyd llawn pechodau,  
 Gan ddewis ffordd bywyd, er amled ei chroesau,  
 Dros dymmor byr einioes, a gwynfyd trag'wyddol  
 Tu hwnt i derfyngylch y bywyd presennol ;  
 A'r lleill a fu 'n dilyn ffyrdd pechod a Satan,  
 Gan wawdio cynnygion Duw 'r nefoedd ei hunan,  
 A gwrthod, mewn dirmyg, ddarpariaeth doethineb,  
 A'r drefn wnaed i'w hachub yn llys tragwyddoldeb.  
 Ac er i Dduw anfon ei Fab ei hun atynt,  
 Trwy 'i fywyd a'i angeu i fod yn 'siampl iddynt ;  
 Ac er cael eu gwahodd yn hwyr ac yn forau,  
 A'r noddfa rhag dystryw yn sefyll o'u blaenau,  
 Nid allai trugaredd na chariad eu denu,  
 Na llid na digofaint Duw 'r nef eu dychrynu ;  
 Ond rhuthrent, gan ddilyn eu nwydau anianol,  
 Nes gorphen eu gyrfa mewn angeu tragwyddol.  
 Y dorf fydd yn sefyll ar ddeheu y Barnwr,  
 Yn hwn a ganfyddant eu dwyfol Waredwr ;  
 Ei lais a adwaenant, a gwedd ei wynebpryd ;  
 A'u hundeb â'i berson fydd sylfaen eu gwynfyd.  
 I wydd yr orseddfaine nesânt yn hyderus,  
 Heb ofni tanbeidrwydd yr olwg arswydus ;  
 Er clywed taranau diglloedd y Duwdod,  
 Yn siglo 'r bydysawd a'r llynelyn diwaelod,  
 Pan gryna y ddaear o danynt fel deilen,  
 A'r ser yn troi 'n wreichion trwy wagle 'r ffurfafen.  
 O'r terfysg a'r dinystr daearol esgynant,  
 Ar alwad eu Brenin i nef y gogoniant,  
 Lle byth cânt breswyllo uwch marwol drallodion,  
 Mewn gwynfyd, yn nghwmni Duw lor a'i angylion.



Ond poenau arswydus, a gwaeau dirdynol,  
 Ddechreuant amgylchu y dyrfa annuwiol ;  
 A llefant ar greigiau y ddaear i'w claddu  
 O wyddfod y Barnwr, mewn nos fel y fagddu ;  
 Neu frenin marwolaeth i'w dwyn i'w gaeth rywmau,  
 I huno 'n oes oesoedd heb ddefiro o'u beddau.  
 Cynhyrfir cydwybod fel arthes gynndeiriog,  
 I rwygo mynwesau llosgedig yr euog ;  
 A ffamau brwmstanaidd, ac awel ddinystriol,  
 O'u hamgylch ymdaena o'r oror uffernol ;  
 Ac ymaith trwy 'r gwagle 'u hysgubir mewn mynydd,  
 O wyddfod y Barnwr, gan gorwynt dychrynyllyd,  
 Nes syrthio blith draphlith yn mysg damnedigion,  
 Yn nghwmni cythreuliaid, a'r diawl a'i angelion.  
 Ac yma eu ceuir, dan lid y Jehofa,  
 Mewn niwl a thywyllwch—heb obaith diangfa ;  
 Lle 'u hysir gan ffamau tân anniffoddadwy,  
 A phoesthwynt ystormus yn orwyllt ryferthwy !

Y ddaear adewir heb ynndi breswlydd,  
 A'i thynged dragwyddol ddaw arni yn ebrwydd ;  
 Taranau amgylhant bob cwr o'r ffurfafen,  
 A thanllyd golofnau ymsaethant o'r wybren.  
 Ymdd'rysa y bydoedd sy'n llwybro 'r ïangder,  
 A ffaglau brwmstanaidd a leibiant y dyfnder ;  
 A'r nefoedd dry'n oddaith, a thawdd y mynyddau,  
 Ac ysir y belen ddaearol gan ffamau.  
 Gan danllyd faith gefnfor amgylchir y nefoedd,  
 A chyrhaedd ei ddylif y ser a'u gorsafoedd,  
 A'r haul a ymdreigla yn ufel llosgedig,  
 Gan droi yn un oddaith y bydoedd pellenig ;  
 A'r adail ysplenydd—ol bysedd Jehofa,  
 Holl waith y chwe' diwrnod, yn llwyr a ddiiflana.  
 A hyn fydd canlyniad dy drosedd yn Eden,  
 A'r felldith a'i dilyn ddinystria 'r ddaearen ;  
 Yr orwych adeilad (halogwyd gan bechod),  
 A wnaed er amlygu gogoniant y Duwdod,  
 Daw tanllyd ddigofaint o'r nef i'w dinystrio,  
 Fel noddfa afindid nad ellir ei phuro.  
 Y dystryw attaliwyd y dydd y troseddaist,  
 Pan allan o lwybrau 'th Greawdwr y gwyrtaist,  
 A'r lliid a dawelwyd gan ddwyfol Gyfryngwr,  
 Sef Mab Duw Goruchaf, pan ddaeth yn Iachawdwr,  
 Dros amser yn unig a gawsant attalfa,  
 Nes dygir o amgylch amcanion Jehofa ;  
 A phan y cyflawna ei ddoethion fwriadau,  
 Caiff Satan ei rwymo mewn bythawl gadwynau,  
 A nefoedd a daear drachefn ymddangosant,  
 Ac ynddynt sancteiddrwydd a phurdeb a drigant."

Y nefawl genadydd ar hyn a derfynodd,  
 Ac ymaith i'r wybren o'r golwg diflanodd ;  
 Ac Adda 'n unigol, mewn dychryn a syndod,  
 Ddechreuai fyfyrio ar lwybrau y Duwdod ;  
 A gwelai ddyfnderoedd ei farnedigaethau,  
 Ei gynghor cuddiedig, a'i ddoethion fwriadau,  
 Mewn undeb á'u gilydd, yn ateb dybenion  
 Ei ddwyfol lywodraeth, wrth ymddwyn at ddynion.  
 A dirgel olwynion y nefawl freniniaeth  
 A welai 'n cydweithio trwy 'r oll o'r gyfundaeth,  
 Gan droi ac ysgogi, a sefyll a theithio,  
 Fel byddai dylanwad Duw Ior yn eu llywio ;  
 A dwyfol lywodraeth yr Arglwydd yn estyn  
 I bell dragwyddoldeb, heb ddechreu na therfyn ;  
 A dyn yn brif wrthddrych ei ddoethion gynlluniau,  
 A Duw er mwyn dynion yn dadgan ei wyrthiau,  
 Trwy ffurfio y ddaear yn lle eu preswylfod,  
 A rhoi i'w gwasanaeth holl fodau 'r nef uchod,  
 Pan lanwai 'r ïangder á myrddiwn o fydoedd,  
 Fel perlau 'n addurno 'r holl lasar amgylchoedd ;  
 Ond uwchlaw y cyfan, y gwelai 'r ddarpariaeth  
 I'w ddwyn o drueni tragwyddol farwolaeth,  
 A'i adfer i'r gwynfyd, trwy bechod a gollodd,  
 A'r nefawl dreftadaeth mewn dirmyg adawodd.

Mewn bythawl oleuni mae Duw yn preswyllo,  
 Gan weled terfyniad pob peth cyn dygwyddo ;  
 A'i lygaid gwmpasa 'r meithderau tragwyddol,  
 Y rhai ni chanfyddir gan fodau daearol ;  
 Ac felly rhan fechan o'i gynllun yn unig,  
 A ffyrdd ei ragluniaeth, i ddyn sy'n weledig.  
 Ni fetha gyflawni yr un o'i amcanion,  
 Er malais a dichell cythreuliaid a dynion ;  
 Ond try eu bwriadau yn groes i'w hëwyllys,  
 I wneyd ei ddoethineb a'i allu yn hysbys.  
 Cynllwynion a dyfais yr archelyn Satan,  
 A droant yn felldith i'w deyrnas ei hunan ;  
 A'r afluwydd a ddygodd ar natur dynoliaeth,  
 Yn gwymp ac yn ddinystr a fydd i'w lywodraeth.  
 Yr Hwn o'r tywyllwch a alwai 'r goleuni,  
 A fedr o'r drwg hefyd ddwyn allan ddaioni ;  
 A'r Gallu diderfyn wahanodd y tryblith,  
 Gan dynu o'r dinystr elfenau pob bendith,  
 O'r diwedd a bura y tryblith daearol,  
 A dyrus gymysgfa y bywyd presennol.  
 O dan ei awdurdod mae 'r byd anweledig,  
 A llengoedd cynhyrfus yr oror gythreulig ;  
 Attalia lid Satan, rhydd derfyn i'w allu,  
 Pan fel llew rhuadwy o'i ffau bydd yn cyrchu.  
 A'i rwyg ar y ddaear ni fydd ond byr amser  
 Cyn caiff ei gloi i fyny gan foltau cyfiawnder.

Prif ddyben ac amcan Duw Ior yn wastadol,  
 Yw dwyn i berffeithrwydd ei eglwys ysbrydol ;  
 I hyn y sefydlodd ei ddwyfol lywodraeth  
 O farn a thrugaredd, pan syrthiodd dynoliaeth.  
 Trwy 'r oesoedd boreuol, bu iddi 'n amddiffyn,  
 Ynganol gelynyon lliosog a chedyrn ;  
 Ac megys praidd bychan amgylchir gan fleiddiaid,  
 Fe'i gwyliai trwy 'r oesoedd, fel canwyll ei lygaid ;  
 Pan suddai teyrnasoedd yn nhraflwnc blynyddoedd,  
 Fu unwaith yn enwog, a'u nerthol weithredoedd ;  
 Pan ddarfu gogoniant yr Aipt ac Assyria,  
 A fuont mor greulon at eglwys Jehofa ;  
 Pan syrthiodd paganiaeth, a Rhufain i'w chanlyn,  
 Cryfhaodd yr eglwys yn nystruw pob gelyn.  
 Hyd heddyw mae 'r ymdrech yn para i fyn'd rhagddi,  
 Rhwng llu y tywyllwch a phlant y goleuni ;  
 Ond nesu mae 'r amser pan fydd goruchafiaeth  
 Yn rhan plant yr Arglwydd, a'u tymmor milwriaeth  
 A dderfydd, a hwythau a'u Brenin ddychwelant  
 O'r frwydr yn fuddugol trwy ddrysau gogoniant.  
 A'r saint y'nt yr awron yn canfod maith lwybrau,  
 A ffyrdd eu Penllywydd, trwy fydd oll yn olau ;  
 A'r cyfan sy'n dygwydd yn cael eu rheoli,  
 Gan ddwyfol ddoethineb, nad all gyfeiliorni.  
 Trwy 'r niwl a'r tywyllwch canfyddant wlad gwynfa,  
 Lle wedi 'r hir ymdrech cânt dawel orphwysfa ;  
 Ac yn y nos dduaf, tŷr arnynt i'w lloni,  
 Belydrau gordanbaid o nefol oleuni ;  
 A Haul y Cyfiawnder wasgara 'r tywyllwch,  
 A'r niwl a orphwysa ar lwybrau 'r anialwch.  
 Eu ffydd a dry 'n olwg, a'u gobaith yn fwyniant,  
 Wrth iddynt ddynesu at ddinas gogoniant,  
 A chyflym ddiflana gwrthddrychau daearol,  
 Nes iddynt lwyr golli, mewn mwyniant tragwyddol.  
 Os yw plant yr Arglwydd, er meddu gras dwyfol,  
 Mewn tralod a dirmyg trwy 'r fuchedd bresennol ;  
 A'u taith tua'r bywyd trwy brudd ddyffryn dagrau,  
 Yn byw ar ddwfr cystudd, a bara gofidiau ;  
 Mae gwell etifeddiaeth 'nol hyn yn eu haros,  
 A'r dydd y terfyna 'u caethiwed yn agos.  
 Am Lazarus, cofiant, a welwyd yn gorwedd  
 Wrth ddrws y cyfoethog, heb fydol anrhydedd,  
 A'r cwn a'i hamgylchent—ei unig gymdeithion,  
 Nes cludwyd ef adref ar edyn angelion.  
 Pregethwyr cyfiawnder yn fynych, fel Noa,  
 Y'nt dan erledigaeth, mewn byd yn llawn traha ;  
 A'r rhai fu 'n cyhoeddi i ddyn waredigaeth,  
 Fel gwobrwy yn fynych a welsant farwolaeth,  
 Ond egyr o'u blaenau olygfa wahanol,  
 Pan droediant esgynlawr yr oror dragwyddol ;

Eu clwyfau a'u briwiau, ôl fflangell coelgrefydd,  
 A brydferth ddysgleiriant yn ngwyddfod eu Harglwydd,  
 Eu croes a dry 'n goron, a'u cleddyf yn balmwydd,  
 A thymmor byr galar yn wynfyd tragwydd.

Ac yn mro'r goleuni, y saint yn oes oesoedd  
 Fyfyriant ar fawredd Duw Ior a'i weithredoedd;  
 Ac yn ei ddoethineb canfyddant feithderau,  
 Fel môr mawr diderfyn, yn agor o'u blaenau!  
 A phery 'n dragwyddol yn destun myfyrdod  
 Y dedwydd breswylwyr, fel dyfnder heb waelod.  
 A'r enaid ni rwystir gan lesgedd daearol  
 Yn hwy, ond fe'i llenwir âg yni ysbrydol;  
 A thrwy 'i wlad gynnwynol caiff ddechreu trafaelio  
 Ar edyn anfarwol, heb orphwys na blino;  
 A beunydd y cenfydd ryw newydd oleuni,  
 Dros fryniau bythol-wyrdd y nef yn ymdori,  
 Ac ennill gadernid a nerth adnewyddol,  
 Wrth esgyn yn ngraddau ei yrfa dragwyddol,  
 Tra arno 'r ymdora ryw newydd ryfeddod,  
 Heb orphwys, na chanfu yn llwybrau y Duwdod.  
 A gwel y flyddloniaid bob tywyll gymysgedd,  
 Yn ateb dybenion o ras neu drugaredd,  
 Pob cystudd a galar mewn newydd oleuni,  
 A welant yn gweithio i gyd er daioni.  
 Canfyddant ogoniant trefn fawr gwaredigaeth,  
 A wawriodd yn Eden, o ddedfryd marwolaeth;  
 A Noa a'i deulu yn d'od yn ddiangol,  
 O ddyfroedd arswydus y diluw dinystriol.  
 Ac Abraham fyddlawn a'i hil a ganfyddant,  
 Yn cael eu hamgylchu gan ddwyfol ogoniant,  
 Ac er eu mwyn, Pharaoh a'i fyddin yn soddi,  
 Fel careg i'r dyfnder, dan drochion yr heli!  
 Eu taith trwy 'r anialwch i'r tir addawedig,  
 A mynych wrthryfel y genedl wrthnysig,  
 Y gwyrthiau amlygwyd, a'r dwyfol gysgodau,  
 Y rhai trwy 'r diffeithwch amgylchent eu llwybrau,  
 Y modd y bu 'r genedl dan ofal Jehofa,  
 Hyd ddydd genedigaeth y dwyfol Fessia,  
 A bywyd, ac angeu, ac ing y Gwaredydd,  
 A helynt ei eglwys i'r olaf foreuddydd,  
 A lanwant feddyliau y dedwydd drigolion,  
 Wrth iddynt fawrygu ffyrdd Duw at ei weision.  
 Ac ni bydd nos yno, ond dysglaer oleuni  
 Belydra o amgylch y Dwyfol Fawrhydi;  
 Ffyrdd gras, a'u gogoniant trwy 'u rhyfedd ddrofegau,  
 Yn hwy ni amgylchir gan niwl a chymylau;  
 A llenwir meithderau y cyfwng annhreiddiol,  
 Gan ddylif gogoniant o'r orsedd dragwyddol,  
 A'r tanlyd Shecina uwch ben yn ymdori,  
 Gynnydda 'n fwy dysglaer, fel boreu oleuni;

A dyn iddo ei hunan a fydd yn rhyfeddod,  
 Uwch pob cyfnewidiad yn holl waith y Duwdod,  
 Tra yn ymgymysgu â dwyfol sylweddau,  
 Yn rhydd oddiwrth lygredd a chnawdol wendidau,  
 Ei enaid yn ddwyfol, a'i gorff yn angelaidd,  
 Pob cynneddf ddaearol yn burdeb seraphaidd,  
 A'i feddwl yn nofio mewn môr o dangnefedd,  
 A gwynfyd llawenydd, dan haulwen trugaredd.

### POBL Y DREF, A PHOBL Y WLAD.

Y MAE rhywbeth wedi bod yn goglais ein meddwl er ys amser bellach, am wneyd rhyw sylwadau, mewn ffordd o gymharu y ddau ddosbarth hyn o bobl â'u gilydd, gan dybied y gallai fod o ryw ddyddordeb ac addysg gyffredinol; ond nid oes genym yn y diwedd ond y byr nodiadau a ganlyn i'w cyflwyno i sylw yn bresennol. Cymerwn gipolwg ar rai o fanteision a pheryglon—rhinweddau a beiau—pobl y wlad a phobl y dref; a hyny mewn tair neu bedair o ystyriaethau. Wrth y dref y meddylwn, y trefydd mawrion yn benaf; ac wrth y wlad, y pentrefydd a'r ardaloedd yn gyffredinol.

Un fantais nodedig a berthyna i'r trefydd mawrion, ydyw yr hyn sydd yn eu gwneyd yn fawr—sef amllder y trigolion a ddygir ynghyd gan fasnach a chelfyddyd. “Haiarn a hoga haiarn, felly gwr wyneb ei gyfaill.” Yno y mae y cydymdrech mwyaf egniol a llym, yn mhob cangen o wybodaeth, celfyddyd, a masnach. Yno y mae pob cynnydd a gwareiddiad yn myned ymlaen gyda grym a chyflymdra angerddol. Gallwn olygu y trigolion fel peiriannau dynol (os goddefir yr ymadrodd) ar eu llawn waith yn wastadol. Pwy bynag fydd am gael ei berffeithio mewn unrhyw wybodaeth, rhaid iddo fyned i Lundain—yno y gwel y pethau goreu a fedd dynion i'w dangos i'r byd—yno y gall weled pa beth sydd iddo i ddysgu, yn gystal a gweled, mewn drych cywir, pa faint y mae ef yn ei wybod. Caiff eithaf croesaw i ddyfod yn ei flaen—eithaf chwareu teg a chymeradwyaeth i'w lafur, os bydd yn teilyngu. Ond rhaid iddo beidio segura dim. Rhaid iddo fod ar ei lawn waith, a chymhwyso ei hun yn gyflawn at ei amgylchiadau a'i ddyledswyddau, onidê gadewir ef ar ol. Rhaid iddo weithio ei ffordd ei hun yn ei flaen yn gwbl; oblegid pawb drosto ei hun ydyw hi yno.

Ond yno eilwaith y mae anfanteision a drygau enbyd ynglŷn â'r manteision uchod. Y mae amllder y trigolion, a maint y lle, yn ei gwneyd fel coedwig fawr, yn nythle i bob aderyn aflan a bwystfil rheibus. Ac yno y mae lliaws yn ymwerthu yn gwbl i helyntion y byd a llwyddiant tymmorol; a chyda'r fath ymroddiad, fel y nodasom, ag i anghoffio mai dynion ydynt, ac yn y diwedd i ymsoddi, mewn awydd at y byd a'i bleserau, i ddinystr a cholledigaeth.

Bu dda gan lawer un ystyriol ddianc, megys am eu heinioes, allan o ferw gwag a swm y dref, i awyr iach a thawelwch y wlad, er mwyn cael

hamdden i ddyfod atynt eu hunain—i oeri eu penau—adferu iechyd eu cyrff—a cheisio lles eu heneidiau. Hysbys yw mai dyma y diwedd a ddymuna y rhai mwyaf llafurus gyda helyntion y dref yn gyffredin; a da y gwnant: y mae hyn yn ddiwedd cysurus i'r rhai llwyddiannus yno. Ond beth am y rhai sydd yn afiwyddo? Caiff y rhai hyn fyw a marw yn dra daisylw a thruenus eu cyftwr. Ni bydd a ofalo am danynt, gorff nac enaid, oni bydd i rai o'r cymdeithasau elusengar, a sefydlwyd gan bobl ddyngarol, wneyd yr hyn nad oedd yr egwyddor gymydogol yn ei gyflawni; a diau mai prif bendeffigion y nefoedd, yn gystal a'r ddaear, yw y cyfryw ddynion elusengar. Os tlawd yn y dref, tlawd iawn fyddant. Yno y mae eithafion cymdeithas yn cydgyfarfod: ac oni b'ai fod y cyfoethog a'r tlawd weithiau yn cydgyfarfod â'u gilydd ar dir y byw, gyda y cymdeithasau a enwyd, diau y byddai i gŵr isaf cymdeithas wthio yn ol yn erbyn y rhai sy'n eu gwrthio hwy, ac y cydymdywalltent ar eu gilydd yn ddystryw gwladol yn fuan. Yr oedd yn hawdd canfod hyn, i'r neb a glustfeiniau ac a sylwai ar bethau yn y brifddinas ddau ddiwrnod yr ymgodiad Siartaidd, ychydig flyneddau yn ol. Yr oedd yno floedd o ffeiniaid anwar, yn barod i wneyd unrhyw ddrygau; ond nid hyn yn unig, yr oedd yno hefyd lawer o ddynion ieuainc, gonest, moesol, a diwyd, yn methu cael dim i wneyd, yr ennill eu bara yn onest, gan ormodedd o weithwyr yn marchnad gweithfaoedd. Dyma eiriau un o honynt—"Yr wyf wedi bod yn ddiwyd a llafurus; a thrwy fod yn gynnil, wedi cael dodrefn tŷ, ac ychydig gysuron teuluauidd—wedi priodi yn ddiweddar; ond dygwyddodd i mi fyned allan o waith, yn unig am nad oedd anghen am danaf mwy ar fy meist; ac yn fy myw nis gallaf gael gwaith drachefn. A raid i mi edrych ar y dodrefn hyn yn cael eu gwerthu eto, i brynu bara?—*i mi orfod gwneyd hyn—y fi!* Llyoyddiant i ryw Siartiaid neu gilydd i fynu chwaill-droad llwyr ar bethau can gynted ag sydd bosibl!" Yr oedd ein calon ar dori, a dyweyd y gwir, wrth ei glywed. Na, nid daioni i gyd sydd yn y dinasoedd mawrion. Yno y mae ogofâu lladron, a phyrth yn tywys i uffern. Nis gŵyr dyn pa hyd y bydd ei fywyd a'i feddiannau yn ddiogel; yn enwedig oni bydd ar ei wyladwriaeth, ac ar lwybr ei ddeledswydd yn barhaus. O ddinasoedd mawrion! pa un ai bendith ai melldith fuoch i'r byd? Llefared eich hanes, ac adseinied eich coffa, ryw addysg i'r ddynol-iaeth. Ond nid penderfynu hyn ydyw ein gwaith ni yn bresennol.

O'r tu arall: yn y wlad y mae y dynion yn anamlach, ac yn fwy cydraddol eu sefyllfa. Y mae y gwladwr yn gyffredin yn gysurus ei fywyd, ac yn fwy boddolawn i'w fyd. Ond yno y mae pob peth yn myned ymlhen yn arafach. Dysgwylia y naill wrth y llall—cyd-deithiant â'u gilydd—a chynnorthwyant eu gilydd yn fynych. Am gynnydd mewn gwybodaeth a diwylliant, drwgdybiant mai balchder a choegni ydyw. Nid oes ganddynt fodd i brynu llyfrau lawer; a gwastraff ar amser, heblaw blinder i'r cnawd, yw darllen llawer. Gochelant fyned y naill o flaen y llall ryw lawer, yn enwedig mewn rhyw fesurau newyddion; rhag iddynt fod yn hynod ymhlith eu brodyr, a myned yn destun gwawd iddynt. Yr hen ffasiwn iddynt hwy ar bob peth; a bod am y mwyaf gwreiddiol yw y gamp—nid y mwyaf diwygiadol. Hen ddyn gwastad, cadarn, a hwyr-drwm, yw y gwladwr, a gonest yn ei gymydogaeith, er mwyn ei gymeriad. Y mae yn dyweyd gair wrth bob graddau wrth basio, ac yn dysgwyl i bawb wneyd felly âg yntau. Nid oes dim yn ei chwerwi yn fwy na gweled

ysgoegyn balch o'r dref yn ei basio ar frys, a bron yn ddisylw, heb ddyweyd cymaint a mwm wrtho. Rhyw hen greadur afroego fel elephant yw ef; tra mae y trefwr yn chwimwth fel gwenol. Mae y gwladwr, fel hyn, yn araf deg iawn yn ei holl symudiadau, ond yn fwy sier o'i gamrau. Yr ydym yn teimlo ein meddwl yn arafu eisoes yn ei gymydogoeth, wrth ysgrifenu am dano. Wrth ymddyddan âg ef, rhaid peidio bod yn barod a chyfeiriol iawn, ond yn hytrach rhyw droi o amgylch. Ac nid yw ef byth yn dangos y pen goreu i ddim yn gyntaf. Tra mae y trefwr yn dyweyd y goreu am dano ei hun ar unwaith heb ddim cywilydd, ac yn barod i dybied y goreu am bawb arall ar unwaith, cyn gwybod pa beth ydynt, yn ol rheolau moesgarwch; nid felly y gwladwr—yn araf y myn ef eich adnabod, a hyny trwy adnabod rhywrai o'ch teulu gynt, a gwybod rhyw ddaioni am danynt, ac wedi hyny agorir y fywawes o'r ddeutu yn naturiol, a chewch ef yn gyfaill ffyddlawn.

Fel hyn, tybiwn mai anffafriol yn hytrach i gynnydd a diwylliant uchel yw y bywyd gwledig; ac mai ychydig yw y manteision yno i ddiwygio yn gyflym gydag unpeth. Y mae y plentyn bach yn y dref yn aml yn fwy parod ei ateb, ac yn fwy moesgar ei ymddygiadau, na'r henwr yn y wlad. Tra byddo y plant yn y dref yn nesu atoch i edrych pa wasanaeth a allant wneyd i chwi, ceir gweled y plant yn y wlad, fe allai, yn rhedeg i'r tŷ rhag eich ofn. Os ymddyddenir â'r gwladwr am helyntion teyrnasoesdd, nis gŵyr ail i ddim am danynt: rhaid iddo ef fyw yn llongydd a boddio ei feistr tir, tra mae y trefwr yn llawn annibyniaeth meddwl gyda y pethau hyn, ac yn gwybod y cwbl am danynt. Felly am bob cangen arall o wybodaeth, oddigerth crefydd—yn hyny mae llawer ardal yn y wlad, ysgatfydd, yn rhagori.

Gallwn gyfeirio at un peth eto, cyn gadael y darn yma—y perygl sydd i'r hwn a fu byw yn mysg meddyliau coethedig y dref, fyned i ddirmygu pobl y wlad, a'u cyfrif yn ysgubion y byd, ac yn hurtiaid disynwyr; pan, mewn gwirionedd, er yr holl anfanteision a enwyd, y gall llawer dyn o'r wlad fod yn tra rhagori mewn gwir wybodaeth a synwyr ar y trefedigion. Ac o'n rhan ni, nid oes arnom fawr ofn dyweyd mai pobl y wlad, ar y cyfan, yw y bobl ddoethaf; ac y mae yn llawn bryd i bawb ystyried mai nid gwybodaeth yn unig yw doethineb—nad yw gwybodaeth ond moddion doethineb. Y mae doethineb ei hun yn rhywbeth arall. Y mae y ffaith o'u bod yn byw yn y dref yn dyfetha llawer o ddyinion, ac yn eu gwneyd yn ffyliaid. Yr ydym yn traethu hyn yn hyf ar ol llawer o ystyriaeth. O! y balchder a'r coegni sydd yn meddiannu llawer o'r trefedigion, yn unig oblydd eu bod yn byw yn y dref! Mor ynyd y ceisiant ddynewared y rhai sydd uwchlaw iddynt, mewn pethau nad oes ganddynt ddirgedion o ddoethineb i'w hiawn ddefnyddio. A drwg genym orfod dyweyd fod llawer yn ein trefydd bychain yn Nghymru fel pe baent am ragori ar y trefydd mawrion, mewn mursendod. Ymegniant i siarad Seisneg yn foneddigeiddiach na'r Seison eu hunain; ac wrth geisio gwneyd hyny, dyna hwy, druain, yn camseinio geiriau yn echrydus. Clywsom, er anghraiff, rai yn dysgu eraill i seinio y gair *national* yn *national*, gan dybied ei fod yn fwy Seisnigaidd a chywir. Gwyn fyd pe gwelai ieuentyd ein trefydd mai mursendod ac ynydrwydd yw y naill hanner, os nid ychwaneg, o'u hymddygiadau, ac nid gwir foneddigeiddrwydd—yn eu geiriau, eu gwisgoedd, a'u gweithredoedd. Byddai felly ryw obaith am danynt.

Ond eto, rhaid darllen yr ochr arall i'r ddalen yma. Fe allai nad oes gymaint o berygl i bobl y wlad fyned yn falch a mursenaidd, a thybied eu hunain yn well nag ydynt; er hyny y mae yno eithafion eraill. Os yw pobl y dref yn dangos gofal gormodol gyda'u hymddygiadau, gall pobl y wlad ddangos rhy fychan o ofal am danynt eu hunain, a rhy fychan o barch i'w gilydd. Dirmygant hwy y rhai sydd yn dangos gormod o ofal am eu personau a'u hymddygiadau, heb ystyried y gallant hwythau fod weithiau yn myned i'r eithafion eraill. Ffeiddiant weddeidd-dra gormodol y trefedigion, gyda eu geiriau a'u gwisgoedd, tra heb feddwl eu bod hwy yn aml yn arfer iaith hollol anweddaiidd ac anmhur yn fynych yn eu tai a thuag at eu gilydd; a'u hymddangosiad yn aml yn fudr ac afterw i'r eithaf. Onid yw hyn yn eithaf gwir am lawer o bobl y wlad? Hawdd ganddynt ddirmygu gorfanylder y rhai a ddygwyd i fyny yn y *boarding schools*. Ond a ydyw hynny ddim yn llawer gwell na'r iaith a'r arferion isel sydd yn ffyni yn y wlad? Goddefer y gwir, a diwygier. Pa fath yw yr ymddygiadau a welir yn y ffeiriau a'r marchnadoedd gan bobl y wlad, a pha fodd y treuliant y nos yn eu cartrefleoedd? Y mae gofal am foesau yr ieuencyd yn yr ysgolion hyny: a dewisem eu haddysg a'u harferion balchaf o flaen afiendid. "Yn y trefydd y mae puteindra cyhoeddus." Iâ, ac yn y wlad yn fynych y ceir rhywbeth lled debyg iddo, ac heb fod yn y diwedd fawr llai cyhoeddus. Na fydded i neb uchelsynied.

Eto: sylwn ar un peth ymbellach am y dref a'r wlad—sef dull eu llywodraethiad. Y mae lliosogrwydd y trigolion yn y trefydd mawr yn gofyn gwasanaeth y *police*, i gadw trefn arnynt. Ond yn y wlad, y mae y naill yn attalfa ar y llall. Yn y dref, gan hyny, y perygl yw i'r naill deimlo rhy fychan o ofal am y llall, ac i bob person fyned i fwynhau annibyniaeth gormodol. Yn y wlad, eilwaith, y perygl yw i'r naill berson fyned i ymyraeth gormod âg achosion y llall, fel ag i niweidio cysur a llwyddiant eu gilydd. Y mae rhagluniaeth yn trefnu y naill beth ar gyfer y llall; ond y mae yn hawdd myned dros ei therfynau hi yn y pethau hyny, a throesdu. Yn y trefydd mawr, ni wŷr y naill ddyn ail i ddim oddiwrth y llall, yr hwn fyddo yn byw yn nesaf ato, ac o dan yr un tŷ ag ef. Felly y mae yno ryddid ofnadwy yn cael ei ganiatáu i bawb i fyw fel y mynont, heb odid attalfa arnynt, ond gallu y gyfraith a gofal ei gweinidogion. Mae yn wir fod yno gysylltiadau cymdeithasol a masnachol, yn dylanwadu yn nerthol ar foesau, ac yn ymddibynu am eu parhad a'u breintiau ar ymddygiad da a ffyddlondeb; ond y mae cylch dylanwad y rhei'ny, eilwaith, mor fychan yn aml fel y gall y dyn yn ddyn drwg iawn, mewn llawer ystyr, ond iddo ofalu bod yn gywir a rhinweddol yn ei gysylltiad neillduol. Nid yw y masnachwr yn gofyn iddo fod ond yn gywir yn ei gysylltiad âg ef yn unig, a bod yn gyfan ei gymeriad yno, pan y gall, ar yr un pryd, am dymmor maith o leiaf, fod yn ddyn drwg mewn llawer cysylltiad arall, heb i hyny niweidio dim ar ei sefyllfa dymmorol.

Yn y wlad, wed'yn, y mae yn anmhosibl i ddyn wneyd drwg na da, mewn unrhyw gysylltiad bron, heb fod dan arolygiaeth ei gymydogion. Gwyddant am dano o'i ddechreu i'w ddiwedd. Iâ, weithiau, gwybyddant, megys trwy brophwydoliaeth, am bethau cyn y cymeront le. A pha beth a ddywed y bobl am danaf? yw yr ymfyniad gyda phob ysgogiad. Ofn eu cymydogion sydd yn llywodraethu yno: a da iawn fod hyny yn bod. Ond y mae y *mutual supervision* yma yn ei eithafion drachefu yn flinder a



gormes ofnadwy. O! y fath lywodraeth drahaus sydd gan y *gossip* mewn llawer pentref ac ardal: nid yw trawslywodraeth Louis Napoleon yn ddim i'w chystadlu â hi. Mor ddiwyd a dirgelaidd y taenir chwedlau maleisus o dŷ i dŷ gan gymydogion, i ddyfetha enwau da a dylanwad eu gilydd. Nid oes dim yn rhy fychan a dibwys i gymeryd sylw o hono. Ac O! fel yr ymchwydda yr ystori wrth ei threiglo, fel caseg eira, o law i law, nes effeithio yn enbyd, fe allai, yn y diwedd, ar heddwch y gymydogiaeth, yn gystal a chymeriad da a dylanwad y neb fyddo yn destun iddi. Os ceir y sail leiaf i ddywedyd rhywbeth yn fychan am gymydog, fe'i helaethir yn fuan, er mwyn gwneyd ystori yn fwy effeithiol i ddifyru eu gilydd, ar draul gwneyd y niwed mwyaf i'w gilydd. Y fath lawenhau am anghyfiawnder fydd felly, a chwerwi meddyliau dynion at eu gilydd! Iâ, onid oes gormod o hyn ymblith brodyr a chwirydd crefyddol, y rhai a ddylent guddio gwaeleddau y naill y llall, yn lle cnoi a thrafiynu eu gilydd? Dyma yr egwyddor ddeddfol sydd yn llywodraethu yn y wlad. Maddeuer i ni am ei dynoethi, a derbynier yr addysg, a gocheler y perygl. Rhaid oedd trin y pwnc yn lled drwyadl, wedi dechreu arno, a chydabyddir ein hawdurdod i wneyd hyny, mae yn debyg. Ond rhaid ei roddi heibio yn bresennol, gyda dyweyd, nad ydym yn dyagwyl i'r ddau ddosbarth y buom yn son am danynt ddyfod yn debyg i'w gilydd yn mhob peth: byddai hyny yn annaturiol. Yr hyn sydd eisieu, dybygem, yw cael gan y naill a'r llall gyd-ddwyn a'u gilydd yn well, gochelyd eithafon, a diwygio yn eu cylchoedd priodol eu hunain.

---

## BARDDONIAETH GWILYM HIRAETHOG.

DYN rhyfedd yw Gwilym Hiraethog; a chan ei fod o'n cenedl ni ein hunain, nid allwn lai na sefyll ychydig i edrych arno, a nodi rhai o'r rhagoriaethau mwyaf tarawiadol a ganfyddir ynddo. Yn rhywfodd mae y meddylddrych hwnw wedi myned yn bur gyffredin yn ein plith; sef, os ymrodda unrhyw ddyn i ddilyn yr awen farddonol, yr arweinir ef ganddi yn fuan i fath o dir neillduaeth, lle na bydd yn ddefnyddiol nac yn wasanaethgar at ddim arall. Diammhau y gellid cyfeirio at lawer nodweddiad barddol fel anghraifft gadarnhaol o gywirdeb y sylw uchod; a bod y cyfryw anghreiffiau i daro wrthynt yn amlach yn rhestr beirdd rhai oesoedd diweddarol, blaenorol i ddechreuad yr oes hon; ac yn lleihau yn raddol, hyd nad oes ond ychydig, mewn cymhariaeth, o'r beirdd presennol heb fod yn ddynion rhagorol mewn *lancer* o bethau. Ceir hwynt yn dangos enaid mawr, iachus, ymëangol, ac ymarferol, yn yr *holl* gynneddfau, yn lle rhyw enaid crwca, nychlyd, crebachlyd, a dim ond *un gymmedd* yn ymëangu i ragoriaeth uwchraddol, a'r cwbl eraill gymaint yn llai na safon synwyr cyffredin, ag i beri i un ystyried y cyfryw fel dynion hanner call, mympwyol, yn sefyll ar eu penau eu hunain mewn cymdeithas, gan wenu ar rai, mingamu ar eraill, ac awgrymu yn eu hymddygiadau nad ydynt yn cyfranogi o gydymdeimlad cymdeithasol, nac yn dda at nemawr o ddybenion cyffredin bywyd. Nid un o'r dosbarth oedranus, darfodedigol, mympwyol, ac

undalentol hwn yw Gwilym Hiraethog, bydded sicr; oblegid yn y weinidogaeth eglwysig, pw ysydd uwchlaw iddo mewn defnyddioldeb, a dawn, a gras?—ar yr esgynlawr areithyddol, pw y ddengys fwy o amrywiaeth hyawdlaidd, mewn meddwl, llafar, ac ystum?—yn y pulpud, pw y draddoda bregeth gyda mwy o ffraethineb duwinyddol, a syml-fawredd Cristionogol?—tra yn y gader a'r orsedd farddol y dysgleiria ei ragoroldeb gymaint fel y "taw pawb pan lefaro ef," ac y temtir hwy braidd i ebychu allan fel y Lycaoniaid hyny gynt, "Y duwiau yn rhith dynion a ddisgynasant atom!"

Gallwn nodi, fel rhai o neillduolion ei athrylith, arucheledd, tyneredd, brwdfrydedd, mawredd, ac eglurdeb. Yn yr amlygiadau a gawn yn ei waith o'r cyntaf, sef arucheledd, dangosir ei fod yn meddu, yn y radd uchaf, lygad craff, eryraidd, yn gweled anian; yn y ddau ragoriaeth dilynol, sef tynerwch a brwdfrydedd, canfyddir fod ganddo "galon yn teimlo anian" hyd ymdoddiad; a cheir ynddo ddigon o fawredd i brofi ei fod yn meddu cyfran o'r fath helaethaf o'r "dewrder a faidd gydfyned âg anian."

Fel yr awgrymasom eisoes, nid dyn undalentog ydyw. Y mae wedi ysgrifenu amryw lyfrau mewn rhyddiaith, o deilyngdod uchel, o fedrusrwydd mawr, a defnyddioldeb helaeth; ond gan mai fel bardd yr ydym yn ymwneyd âg ef yn yr ethyl hon, ni chymerwn sylw o'i gynnyrchion awdurol mewn un dosbarth arall o lënyddiaeth. O herwydd ei fod yn ddyn o'r fath gyrhaeddiadau amrywiol, ac wedi ei gynnysgaethu â chynifer o ddoniau, y mae wedi treulio ei oes a'i llafur hyd yma mewn llawer o feusydd llënyddol a chrefyddol, fel y mae yn ddrwg genym sylwi nad yw maes barddoniaeth yn cynnwys ond cyfartaledd llai nag a ddymunasem o'i orchestgampau athrylithgar.

Yn nghofrestr gweithrediadau "Eisteddfod Freninawl Dinbych," yn 1828, cawn yr hysbysrwydd a ganlyn:—"The Royal Medal of the Metropolitan Cymmrodorion for the BEST POEM in Welsh on 'CANTREF Y GWAELOD' (the Lowland Hundred) was awarded to 'Elydr Lydamoyn' (William Rees, of Llansannan), who was invested with this honourable distinction by Lady Harriett Wynne." Gwelwn wrth hyn o awgrym swyddol fod ein bardd wedi "ennill eisteddfod," fel y dywedwn, yn lled gynnar ar ei fywyd. Y mae y cyfansoddiad hwn o'i eiddo yn cynnwys bywiogrwydd mawr, grym a gwres barddonol cyffrös, a'i ddychymygiad yn gryno a naturiol. Digon priodol, fe allai, fyddai rhoddi i'r darlennydd gip-olwg ar gyllun a sylwedd y cyfansoddiad drwy ddyfynu ei gynnwysiad:—

"Golwg ar y wlad o ran ei sefyllfa—cywreindeb y trigolion yn llunio *Sarn Badrig* i argŷu y môr—golwg ar y gwaith—dychymygu i'r trigolion heriau y môr wedi ei gorphen—golwg ar anawdd y wlad—*Seithionyn*, oeidwad y dyfrdorau, yn ei feddwod, yn eu gadael yn agored—y môr yn gorlifo i mewn—ei araeth yntau wrth y brodorion ar ei ddyfodiad—eu dychryn—eu ffoad—y môr yn eu goddiweddyd—llawer yn boddi—rhai yn dianc—un o'r rhai a ddiangasai yn sefyll ar fryn i olygu y dystryw—ei alarus gŷyn uwch ben ei wlad—adolwg ar y difrod—diweddglo."

Dyma anghraifft i ddangos fel yr oedd blodyn crebwyll yn dechreu ymagor yn syniadau toreithiog "*Awdur Awdl Heddwch*." Cawn ddesgrifiad tlws o dirwedd diofrydol y Cantre' yn y llinellau a ganlyn o'r cywydd:—

"Hyfryd wlad o *Leyn* fâd fŷyth,  
Wastad hyd *Aberystwyth*;  
Llain hir o amaethdir mād,  
A morfa eang mawrfad,

Y môr oedd fal mur iddi,  
Hallt wregys i'w hystlys hi;  
Iach afon Mawddach, hefyd  
A'i trwyddi, i'w gwini i gyd;  
Ei dwfr melus, iachus oedd,  
I'w diodi, da ydoedd,  
Dolenai trwy'r ardal lonwawr,  
Yna myn'd wnai i'r eigion mawr."

Mewn adran arall o'r cywydd ceir darluniad godidog, hyfrydnaws, a naturiol, o "ansawdd y wlad a'i thrigolion," nes y deuir at yr anffawd ddinystriol a gymerodd le drwy feddwod Seithionyn; yna, dyna'r môr yn rhuthro i mewn, a phob tŷn ddiog a chreulon yn meddu tafod "yn llefaru mawrhydri;" y mae y rhyferthwy fel sŵn dyfroedd lawer yn bwgwith ac yn cyflawni ar unwaith y gyflafan echryslawn; gyda hyn, mae yr holl Gantref mewn terfyr, "y dewr yn bloeddio yn chwerv," y fun wisgi yn cael ei goddiweddyd gan y dyfrgesig llofruddiog, a ohyn pen nemawr, cawn fod y

"Tywod yn llenwi'r teian,  
A'r pyag yn gymysg yn gwau,  
Morfeirch dihefeirch hyfion,  
Llymriaid, arw haid, yr awr hon,  
Sy'n heigian 'n amlhan ymhlith  
Y gweunydd lle bu gwenith!

A gwin melus i'w ganmoll  
Doraeth llawn a drwythai y lli,  
A gwridai y gwirodydd,  
Liwian'r dŷn dros lawer dydd!  
Mêdd pŷr yn meddwi y pyag,  
Gemau a llaid yn gymysg!"

Wedi claddu yr holl Gantref, a'r rhan fwyaf o'i drigolion, yn y bedd dyfrawl, neidia ei feddwl yn fywiog a thanbaid at y dydd y bywhëir llwch dynol holl gantrefydd y ddaear; a phan y cynhyrfir gweddillion halogedig y cynddylifiaid, y deffry anniweiriaid Sodom a Gomorrah, Adma a Seboim, a marwolion Herculaneum a Phompeii, ceir y bydd Cantref y Gwaelod yntau "yn bwrw i fyny ei feirw:"—

"Gwelir eto'i thrigolion,  
Bob cnawd fore brawd ger bron,  
E rwygir bol yr eigion,  
Chwelir croth dofngroth y don,  
Gwewyr esgor ar for fydd  
I fawr radd ar foreuddydd,  
Pob tŷn a'i dynion yn dod,  
Chwyda'r meirw o'i cheudod.

Yna fe dderfydd anian,  
Awr y thir, dŵr a thân."

Nid yw y cywydd hwn yn llawn tri chant o linellau o hyd. Pe buasai yn gyfansoddiad y cyfnod ymeangol a ddechreuodd er's tua phedair neu bum mlynedd yn ol, buasai ei hyd, mae'n debyg, o wyth gant i fil o linellau. Prin hefyd y mae cymaint o'r *powerau* awenyddol ac ieithyddol wedi eu cyfuno ynddo, ag a welir yn rhai o ganiadau diweddarach y bardd.

Un arall o'i orchestion awenyddol yw y cywydd buddygol ar "Frwydr Trafalgar." Canmolir y caniad hwn yn fawr gan brif feirniaid ein cenedl. Drwg genym nad yw yn ein hymyl yn awr, fel y gallasem ddadansoddi ychydig arno, ac arddangos bywioldeb barddonol yr elfenau a ymgyfunant ynddo, tuag at wneyd i fyny ei ragoroldeb, a sefydlu ei uchafiaeth addefedig.

Mae ei farwnad i'r diweddar Williams, o'r Wern, yn ddernyn godidog o farddoniaeth alarnadol, ac yn deilwng o'i restru gyda marwnad Rowlands, gan Williams, Pant-y-celyn, a marwnad yr Esgob Heber, gan Blackwell.

Modd bynag, mae rhywbeth chwithig yn yr amgylchiad, a thra anffodus i ni fel cenedl, nad ydym erioed wedi cael allan yn mha le y mae ei "fawr nerth," yn mha le y mae "cuddiad ei gryfder" gyda barddoniaeth; oblegid y mae ei ddwy brif awdl heb ymddangos eto trwy y wasg, yn mha rai y mae ei ddoniau ysplenydd yn dysgleirio yn eu gloewder mwyaf, a chynnyrchion toreithiog ei enaid awenyddol, grymus, ac ymëangol, yn beraidd a chyfoethog, fel addfed ffrwyth y cynauaf. Un o'r cyfansoddiadau gorgampus hyn a elwir ganddo yn "Awdl Job;" a chafodd ysgrifenydd yr erthygl hon y ffair o wrandaw ar y bardd yn darllen darnau o honi amryw fisoedd yn ol. Nid yw yn debyg ddarford i un o'n beirdd erioed allu cyfuno cynnifer o ragoriaethau llényddol mewn cyfansoddiad ar y mesurau caethion ag a geir yn yr awdl hon. Mae ehediadau eryraidd a dychymyg-fawr y meddwl, a'i gylch chwareuad pybyr a grymus yn ffurfafen darfelyddiaeth, yn taro y gwrandawydd â syndod, ac yn ennyn teimlad o wylder ac arswyd, oddiwrth wyddfodoldeb "enaid aruthrol" Hiraethog, gweithrediadau rhyfeddol yr hwn ydynt yn syfrdanu ein holl syniad wrth wrandaw y gân odidog a nodwyd.

Yr awdl ardderchog arall o'i eiddo yw "Awdl Heddwch," yr hon a ennillodd iddo y gader yn Eisteddfod Madog y flwyddyn ddiweddaf. Hyd yma, y mae y darn godidog hwn heb ei ddadguddio i'r wlad, ond mewn rhan fechan yn unig, trwy ddrych y feirniadaeth a gyhoeddwyd yn y newyddiaduron. Mae y fath wreiddioldeb naturiol, a mawredd syml, a thlynsi cyfansoddol, drwodd oll, yn yr awdl hon, fel y rhagdybiem ped ymddangosai ger bron y byd yn nillynder amwisg yr argraffwasg, y byddai genym y gorchwyl hyfryd o ddyrchafu y farddoniaeth Gymreig ddosbarth neu ddau yn uwch nag a benodasom iddi mewn rhifyn blaenorol. Yr ydym wedi cael y cyfleusdra o sylly ychydig ar yr awdl mewn llawysgrif, a detholasom o honi rai o'i meddylddrychau a'i chynghaneddion tra rhagorol. Ymhelaethir cryn lawer yn y rhan gyntaf ar heddwch cyntefig y greadigaeth; ac y mae y cyffrediad a'r darluniad o'r ysgogiadau Satanaidd tuag at ei dori, yn gystal campwri mewn meddyliaeth a desgrifiaeth farddonol ag a gyflawnodd un Homer, Milton, neu Shakspeare erioed. Dychymyga fod y ddau lais dynol yn ymgymysgu â'r cydgor angelaid, ac yn rhagori mewn perseinder cantorol. Mae Satan yn rhywle yn gwrando; a chan ei fod eisoes yn hollol hysbys o bob nodyn a allai yr angelion daro, ac o bob oslef nefolaidd a gynnyrchai côr y drydedd nef, buan y deallai fod yno leisiau dyeithr: dyfalai, clustfeiniau, a dyfalai drachefn, eiddo pwy allai y lleisiau hyn fod, ac o ba le y deuent. O'r diwedd, adgoffodd iddo glywed awgrym rywbrwyd fod byd newydd i gael ei greu; penderfynodd yn y fan mai o hwnw y deilliai y beroriaeth ddyeithr, ac ymrôdd i'w chwilio allan trwy holl daleithiau cread. Cychwyna ar ei daith drwy'r gwagle, gan basio

aneirif fydoedd, nes, ar ei ymdaith, y cyrhaedda y Llwybr Llaethog, ac oddiyno y mae yn darganfod y ddaear. Dealla yn fuan fod y lleuad yn orsaf mwy manteisiol i ddarsylwi y byd daearol o honi, a disgyna yno. O'r lle yma drachefn cyfeiria ei ehediad uffernol a maleisus tuag Eden, tra yr oedd Adda ac Efa mewn cwsg dedwydd dan bren y bywyd. Ni wyddai eto ddim byd am ammod bywyd, nes clywed o hono Adda ac Efa, ar ol deffro, yn ymddyddan am hyny; yna deallodd y dirgelwch yn fuan, ac ymbrysuodd i gynllunio a chyflawni eu brád. Mae arwredd diawledig i'w deimlo yn ei araeth wrth ei gynghreiriaid cythreulig, wrth eu harwain i frwydr y ddaear. Tynga yn ei lid mai

“Pren bai fydd pren y bywyd !”

A chyn pen nemawr, cawn ef wedi dinystrio hedd tawel anian, a throi y byd teyrngarol i wrthryfel—

“Dyna heddwch wedi ei anhuddo,  
Ow ! y dyn anwyl wedi 'i wenwyno ;  
Ael y nef uchel dawel yn duo  
A'r awelon yn tori i wylo.”

Gellid herio holl feirdd Cred, hen a diweddar, i ddangos llinell dlysach na'r olaf o'r pennill hwn, yn eu gweithiau. Mae yr awdl nodedig hon yn llawn o ragoriaethau mawreddus; eithr nid teg, fe allai, fyddai trin llawer yn ychwaneg arni nes ei chyhoeddi.

O'r briodoliaeth o deimlad a thynerwch, cawn lawnder o amlygiadau yn ei bennillion cyhoeddedig yn “Nhelyn Egryn.” Ond fe allai mai y darnau prydferthaf a gyfansoddwyd ganddo yw y pennillion ar “Weithredodd yr Arglwydd,” a ymddangosodd yn y casgliad buddiol hwnw a elwir “Bwrdd y Beirdd.” Yr ydym yn eu hargraffu yma fel y cawsom hwynt yn llawysgrifen yr awdur.

“‘TI YN Y DECHREUAD A SRELLAIST Y DDAEAR.’

Tr yn y dechreuad, Arglwydd,  
Grealist ddaear lawr a'r nen;  
Taenaist dros eu 'sgwyddan 'n brydferth,  
Awyr las yn dyner len :  
Rhyfedd iawn a gogoneddus,  
Yw'th weithredoedd bob yr un,  
Ond gogoniant mwy ofnadwy  
Sy 'n dy hanfod di dy hun.

‘AC YN OTYNNAL POB PETH TEWY AIB EI NERTH.’

Gair dy nerth yw 'r golofn gadarn,  
Dan y greadigaeth fawr ;  
Arno, megys ar obenydd,  
Anian ddodai 'i phen i lawr ;  
Bydoedd syrthient dros yr erchwyn,  
I ddyddymdra wrth ymdroi  
Yn eu gwely, oni byddai  
D' air i'w cadw rhag oegol.

‘GWAETHOST IDDYNT BARHAU BYTH AC YN DRAGYWYDD.’

Dy saerniseth a gysylltai  
'R nef fel pabell gled ddilyth ;  
Fel na all dylanwad oesau  
Syfyd un o'i hoelion byth :  
Gorchest ddwyfol ydoedd hoelio,  
Bydoedd dirifedi ynghyd,  
Gorchest fwy oedd rhoi dy hunan  
Yn hoeliedig dros y byd !

'A PHWY A GAUODD Y MOR A DORAU?'

Y rhuadwy fôr cynddeiriog,  
Druit megys baban gwan;  
Pan o'r groth y rhuthrodd allan,  
Gan ddyrchafu 'i donau i'r lân;  
Ar dy lin gorweddai 'n dawl,  
Rhoi't y cwmwl iddo 'n bala,  
A'r tew niwl yn rhwymyn tyner,  
Am ei wasg, heb unrhyw drais!

'A'R TYWOD MAN YN GADWYN IDDO.'

Gweuaist dywod mân yn gadwyn  
Am ei lwynau rhwth yn glyd,  
Hithau 'r llenau yn llawforwyn  
Ufudd iawn i siglo 'i gryd;  
D'wedit *Uet!* yn nghlust y dymhestl,  
Hi ddystawai, hunai ef  
Ar ei gefn, a'i wyneb llydan,  
Eamwyth, gwastad tua 'r nef.

'EFE A ORCHYMYN, A CHYFFYD TYMHESTLWYNT, YR HWN A DDYRCHAFU EI DONAU EF.'

Weithiau, gyri 'r gwynt i'w ddeffro,  
A deffroad ebrwydd bair,  
Egyr ei amrantau mawrion,  
Gan ystwyrian, wrth dy air,  
Rhytha 'i weflau fel mynyddau,  
Rhus megys taran fawr,  
Hyrdidia 'i freichiau preiff, ac egyr  
Anferth safn i lyncu 'r llawr.

'PAN EDRYCHWYF AR DY NEFODD, GWAITH DY FYSIEDD.'

Pan edrychwyf ar dy nefoedd  
Uchel, annherfynol draw,  
A'r aneirif ffurfafenau,  
Grogaiat yn eu bru uwchlaw;  
Heuliau fyrdd myrddiynau 'n ffamio,  
Ac yn tywallt gwres a dydd,  
Ar ryw fyrdd miliynau o fydoedd  
Yn grogedig ynddynt sydd.

'BETH YW DYN I TI I'W GOFIO?'

Beth yw dyn i ti i'w gofio?  
Beth yw dyn, Jehofa mawr,  
Pan feddylit ti am dano?  
Bryfyn isel ar y llawr;  
Beth yw 'r ddaear? Dim ond llwchyn,  
Llai na dim yw dyn a'i fri,  
Eto rywfodd, dyn a daear  
Demtia i lawr dy sylw di.

'AC YN LLAWENYCHU YN NGHYFANNEDDLE EI DDARAR EF.'

Pan y gelwid yn y boreu,  
Restr enwau ser y nen,  
Deuent oll tan ganu a dawniaio  
Heibio i'r orseddfainc wen;  
Yn ei thro, ymhlith y lliaws,  
Ymddangosai 'n daear ni,  
Cododd gwrid i wyneb cariad  
Dwyfol, pan y gwelodd hi!

Mae yn debyg nad oes ond ychydig a wrthwynebent roddi i Hiraethog y lle uchaf yn mysg y beirdd a'r beirniaid; y mae wedi profi ei hun yn bencampwr yn y ddau ddothbarth hwn o lényddiaeth. Nid yw wedi ei

feddiannu mor lwyr a rhai o'r beirdd gan y penboethni caethfesuroi; a phan y cyfansodda ar y mesurau caethion, nid yw yn petruso gollwng ambell gynghanedd o'i law heb ei phlethu yn y modd manylaf. Mae ei frwdfrydedd, a thanbeidrwydd ei deimlad, yn peri fod ei ieithwedd yn gref, angerddol, a gwresoglawn. A thrwy ei chwaeth diwylliedig, ac arddunedd ei syniadau, gorphenna ei gyfansoddiadau yn goethion, barddonol, a mawreddus: tra y mae eglurdeb a chyrhaeddiadau galluog ei amgyffredion a'i ddarfelydd yn cynnyrchu symledd a thlynsni, ac anian a dosbarth, ar bob dernyn llênnyddol o'i eiddo. Nid anghymhwys, dybiem ni, fyddai attodi rhai llinellau a ddyfynwyd o anerchiad un o'i gydfeirdd i Wilym Hiraethog, yn niwedd hyn o sylw. Nid argraffwyd hwynt erioed o'r blaen; a dyma nhw,—

“Dod, awen! wawd y duwian  
Yn fanwl i'r moddwl mau;  
Fel y canwyf fawf ceinwr,  
Sef Hiraethog, enwog \*r;—  
Bri gwythen y bregethiaeth  
Yw efe, yn benaf aeth;  
Hiraethog yw areithydd  
Yr oes hon, a'i eiriau sydd  
Fel allweddau cloiau 'r clyw,  
Hwy dreiglant yn dra hygryw,  
I'w teml o fewn ein teimlad,  
A nef fydd hyn o foddhad.

Hiraethog sy ber weithydd  
Ar gangen yr awen rydd;  
Gwyr farddas, e gur fyrddiwn  
A'i law chwith yn y cylch hwn.

Gwilym Hiraethog welir  
Lle del, yn sefyll ei dir;  
Ni ddaw'r brawf, e ddaw er bri,  
Yn dalach, ond ei holi;  
Chwilio ei fath, chwal ei fwg,

I gael ei fflam i'r golwg;  
I hyn etyb ei natur,  
Mwy amlwg y dwg ei dur;  
Pe rhifid ef i'r prawf dân,  
Di goll ddenai 'n deg allan.

Rees esyd ar dre 'r Seison,  
Oleu bryd hen Wallia bron;  
Lliw Cymru, ar ei lliw du dwl,  
Lliw Cymraeg ar larpæg Lerpwl;  
Geayd hithau goet aethus  
Ar gyflwr dewr \*r di rus,  
Hi dawchia 'i waed a'i ieched  
I'w hwybren gas, bron i gyd!  
Hwt! hen dref y tonau draw!  
Na ddal ef yn dy ddwyllaw,  
I nychu yn ei ieched,  
A dyheu o hyd o hyd:  
Doed i Gymru, gu ei gwedd,  
Dyner, o rhwng d' ewinedd,  
Caiff awdl deg am bob pregeth,  
A chaiff y parch, a phob peth.”

---

## SALMAU EDWARD KYFFIN.

Yn yr “Annerch at yr Hawddgar Ddarllenwydd Cristionogol,” yr hwn a ysgrifenydd “o dref Llundain, ym mis Hydref, 1594,” fel rhagymadrodd i “Ddifyniad Ffydd Eglwys Loegr,” “wedi ei gyfieithu o Ladin yn Gymraeg, drwy waith Morus Kyffin, o'r Glascoed, Llanislin,” yr ydym yn cael y geiriau a ganlyn:—“Gwaith rheidiol iawn fyddai troi 'r Psalmai i gynghanedd Gymreig: nid i gynghanedd Englyn nac Owld, na Chywydd, nac i fath yn y byd ar gerdd blethedig; herwydd felly ni ellir troi na'r Psalmai na dim arall yn gywir; eithr i'r fath fesur a thôn cynghanedd ag sydd gymeradwy ym mhob gwlad a ddiwygwyd drwy dderbyniad disgleirdeb yr Efyngyl; ac fel y gwelir yn y Saesonaeg, Scot-iaith, Ffrangaeg, iaith Germania, iaith Itali, a'r cyfryw; fel y gallo y bobl ganu i gyd ar unwaith yn yr Eglwys, yr hyn beth a fyddai ddiwyfyrwech a diddanwch nefol iddynt yn y Llan a chartref. Am Englyn, neu Owld, neu Gywydd, e wyr pawb nad cynnesin ond i un dyn ar unwaith ganu 'r un o'r rhai hynny.

Heblaw hynny, ni wasanaetha tŷn yr un o honynt i gerdd ysbrydol uchel-fraint; a phe gwasanaethai, etto, cabledd mawr yw cymmysgu cerdd yr Ysbryd Glan yn yr un dŷn ganiad â cherdd faswedd ofer. Rhaid i'r neb a gychwyno hyn o orchwyl cysegr, ddeall amryw ieithoedd dysgedig, megys na roddo ef un gair yn y gynghanedd ond a fo gwbl dydnyiol & meddwl yr Ysbryd Glan. Pettai gennyf y seibiant a'r hamdden sydd gan lawer, cyntaf peth a chwannoccaf poen a gymmerwn i arnaf, fyddai tueddu at hyn o waith, ar ol cyd-siarad & Dysgedigion Cymru ynghylch pa ddull a math ar gynghanedd a dybygid oreu a chymesuraf i hyn o dduwioldeb."

Nid ydym yn deall i Morus Kyffin gael yr hamdden a ddymunai: ond y mae yn ein meddiant hen llyfr, yn cynnwys amryw Salmau ar gân, o waith Edward Kyffin, yr hwn, fe allai, oedd frawd i Morus; ond am hyn nid oes genym ond tybiaeth. Ac yr ydym yn dyfalu mai Edward Kyffin fu yr offeryn i gynhyrfu yr Archddiacon Prys i gynghaneddu y Salmau; oblegid y mae, yn ei ragymadrodd i'r llyfr, yn galw yn daer am gymhorth, neu ar un galluocach nag ef, i ymafyd yn y gwaith: a chan fod yr archddiacon yn cydoesi âg ef, yr ydym yn cael ein tueddu i greu mai galwad taer Kyffin a gyrhaeddodd galon yr hen archddiacon, ac a ddeffrôdd ei awen i gyflawni gwell gwasanaeth i'w genedl na'r hyn a wnaeth o'r blaen—yr hwn wasanaeth a fu, ac y sydd, yn fendith fawr i ni fel cenedl, sef cael y Salmau ar gân. Dechreuodd Edward Kyffin gynghaneddu y Salmau o flaen yr archddiacon. Argraffwyd Salmau cân Edward Kyffin yn y flwyddyn 1603. Dodwn i lawr yma dafien cynnwysiad y llyfr:—

"Rhann o Psalmaa Dafydd Brophwyd i'w canu ar ôl y dŷn arferedig yn Eglwys Loeegr. Simon Stafford a'i Printiodd yn Llundain dros T. S. 1603."

Y T. S. yma oedd Thomas Salisbury, yr hwn a gyhoeddodd gynghaneddiad Thomas Middleton o'r Salmau.

Cyn rhoddi anghreiffiau o'r cynghaneddion hyn, yr ydys yn lled awyddus i'n cenedl gael darllen rhagymadrodd y gŵr i'r llyfr; ac yr ydym yn lled hyderus mai nid anhoff fydd gan y darllenwyr ei gael yn gyflawn, gan ei fod yn fyr a melus. Ac fel y canlyn y mae:—

*"At fy ngharedigion wlad-wyr y sawl a garant Ogoniant yr Arghwydd, ag ymgeledd eu gwlad-iaith.*

WRTH weled mor ofalus ydyw ieithyddion eraill am ei gwlad-iaith, a chynnydd yr Efengyl drwy oll grêd, a bod y Saeson mor gymwynascar i'w gelynyon y Spaeniaid ag iddynt brintio bagad o lyfre yn yr Yspañ-iaith a'u danfon ymysg y gelynyon ar feddwl eu hynill at Dduw; a'r rhai a aeth a'r llyfre rheini at y gelynyon, a fentriasant nid yn unig eu dâ a'u trafael ond eu hoedl hefyd ar fedr gwneuthur llês i Estron-genedl.

Pa faint mwy y dylem ni ymgeleddu ein hiaith ein hunain yr honn a ddeffynodd y Goruchaf Dduw yn yr unlle yn y deyrnas honn ers seithgnt ar hugain o flynyddoedd, ag ychwaneg ymysc cynnifer o amrafaelion Cenhedloedd, terfysc-oedd a dinystroedd a fu i'n mysg er yr amser hwnnw i geisio difa a dinystrio yr iaith ai phobl yn llwyr. Yr hynn beth ni all yn nasiwn nag iaith ar sydd dann Grêd a Bedydd heddyw ddoedydd y cyffelyb. Am yr hynn yr ydym ni yn fwy rhwymedig i'r Arglwydd nag oll Bobloedd y byd: ag nyni yn olaf ag yn ddiweddaraf am osod allan Ogoniant Duw yn ein hiaith ein hunain.

Ag wrth weled a chlywed mor brydferth ag mor hyfryd rydys yn moliannu Duw yn yr holl Eglwysi lle mae'r Efengyl yn cael rhyddid, ond Ynghymru yn unig, wrth ganu Psalmaa Dafydd, hynny a wnaeth i mi (Er Gogoniant i'r Arglwydd a Chariad i'm Gwlad) ddangos fy ewylls dâ yn cychwyn hynn o



waith ar ddechre cynganeddu hynn o Psalmaa yn nesa ag ellais at feddwl yr Yspryd Glân, fel y cefais hwynt yn scrifennedig yn y Scrythurau.

Mi a rois y Psalmaa prës ar gyfer y cynganedd, ag a adeweis lê rhwng pôb Vers ai gilydd o'r cynganedd fel i gallo rhai celfyddach gymhennu a pherfeithio hynn a wneuthym i ofrâs-naddiad, er prâw yn unig, ag er annog eraill (a fedrant yn well) ei hailddwygu hwynt. Gann ddymunio arnoch bawb yn ol ei allu hyfforddi fy wyllys dâ i a'ch cyngor a'ch cymorth, i amlygu i'r byd eych serch a'ch cariad i Dduw a'ch Gwlad. Yr hynn bêth os gwnewch, chwi a ogoneddwch yr Arglwydd, chwi a fawrhewch eych gwlad, ag a'm cyssurwch innau, nid yn unig i fynd trwodd a holl gorff y Psalmaa yn yr un rhyw gynganeddiad (yr hwnn fesur cynganedd sydd gymwysaf ei ganu gann yr oll Gynlleidfa ar un-waith) ond hefyd i lëshau fyngwlad ymhellach ar ôl hynn mewn pethau duwiol eraill o'r Scrythur lân Drwy obeithio gann gadw o Dduw nyri a'n hiaith mor gryno ag mor ddi-lwgr dros gyd o amser, fôd gann yr Arglwydd Dduw ryw orchestwaith a gorchafiaeth tu ag at amlhâd ei ogoniant ei hûn ym-mysc yr hên Frutaniaid a gadwodd ef mor wyrth-fawr mewn rhyddid a diogelwch hyd yn hynn.

A chann eyn bôd yn byw yn yr oes honn dann ardderchockaf Vrenhineso'n gwlad eyn hunain, yr honn sydd yn canhiadu i ni gael y Scrythur lan yn ein hiaith eyn hunain, ag oll gyfreidiau eraill ar a ddamunem er cael tu ag at amlhau Gogoniant Duw, a mawrhâd eyn hiaith: (yr hynn bêth ni a attolygwn i Dduw ei hîr-gynnal i ni rhag-llaw) O fy anwyl wladwr tra fo Duw yn canhiattau i ni y rhwydd-deb, yr heddwch, a'r rhyddid y rydym yr rowron yn ei gael, na chollwn yr amser presennol, ond yn hytrach gwaredwn yr hîr-amser a gollasom yn barod, a dangoswn i'r byd, eyn bod yn prisio mwy am ogoniant Duw, am orchafiaeth a derchafiad eyn Gwlad a'n hiaith ag am ddi-dranc lywenydd ag iechydriaeth eyn Eneidiau eyn hunain, nag yr ydym am ddarfodedig fwms y byd hwnn, yr hynn nid oes i ni ond byrr amser iw fwynhau.

Ag ar hynn mi a ddymunwn ar bôb gwir Gymro na rodde hun iw lygaid, na heppian iw amrantaau (fel y doeddod y prophwyd Dafydd) nês gwelod Gogoniant yr Arglwydd, drwy hy-hyfforddi gorffenniad y Gorchwyl duwiol yma yn ei wladiaith ei hunan.

Yr oll-alluawg Dduw yr hwn yn unig a roes y meddwl ynof i gychwyn hynn o waith a gynhyrfo ynoch chwithau wyllys i gymhorth yr unrhyw, tu ag att helaethiad Gogoniant Duw, mawrhâd eyn priod-iaith, a chyssur eyn Eneidiau erbyn y dydd a ddâw.

Yr eiddoch iw orchymyn yn-Christ Iesu :

EDWÁRD KYFFIN."

Wele ni wedi cael anerchiad tra gwresog gan y Cymro clodwiw; ac yr oedd ysbyrd prophwydoliaeth yn disgyn arno, neu, o'r hyn lleiaf, yr oedd yn gobeithio yr hyn a gymerodd le, sef, "Fod gan yr Arglwydd Dduw ryw orchestwaith a gorchafiaeth tu ag at amlhâd ei ogoniant ei hun ym-mysc yr hên Frutaniaid." Ac felly mae yr Arglwydd wedi ein dyrchafu ni fel cenedl uwchlaw un genedl arall mewn breintiau crefyddol, ac wedi llwyddo yr efengyl yn ein mysg mor fawr, mae 'n debyg, os nad yn fwy, nag un genedl ar wyneb daear. Rhoddwn bellach rai anghreiffiau o'r Salmau ar gân gan yr awdur :—

SALM I.

- 1 "Dyn ni rodia dedwydd yw  
Yn nghyngor annuw ddynton;  
Yn sffordd pechadwyr ni sai,  
Ni 'steddai 'n stol gwa'tworion.
- 3 Fel prenn glann-ddwr dwg sŵrwyth pryd,  
Ei ir-ddail ei'dd ni wywa :  
1852.]

Pa beth bynnag wnôl ei law  
Hyny drâw a lwydda.

- 5 Am hyn ni sai anwir lu,  
Wrth farnu 'r ddeu-lu 'n uniawn :  
Na'r pechadurwyr diriaid bla  
'Mysc y gynulleidfa gyflawn."

## SALM II.

- 1 Pam i codant derfysc floedd  
Cenhedloedd o gynddaredd :  
A'r luddewon bobl gan  
A'i bryd ar wau oferedd.
- 2 Brenhinoedd a phennaethiaid bŷd  
Maent yn cŷd-gynghori :  
Yn erbyn yr Arglwydd rhawg  
A'i Grist enciniawg Geli.
- 4 Ond preswlydd Néf a chwarrdd  
Am benn eu hanardd fwiardd :  
Duw a'u gwatwar am eu gwŷg  
A'u diffaith gilwg hyfrad.
- 8 Gofyn i mi rhôf ar goedd  
Genhedloedd i'th 'tiffeddiaeth :  
A therfynau daiar fŷd  
Cei hefyd i'th feddiannaeth.

## SALM III.

- 1 Arglwydd amled ydyw 'r gwŷr  
Y sydd drallodwŷr ini ;  
A llawer o gaseion tynn  
I'm herbyn sydd yn codi.
- 4 Gelwais ar yr Arglwydd Néf  
A'm llef o ddyfnder calon :  
Ag ef a glybu ' nghystudd  
O'i sanctaidd fynydd tirion.

## SALM IV.

- 3 Gwybyddwch i'r Arglwydd ethol  
Y duwiol iddo ei hunan :  
Pann alwŷr ar fy Nuw cŷd  
Efe a wrendu 'nghwynfan.

## SALM XIII.

- 5 "Fy ymddiried i'th drugaredd sydd,  
Fy llawenydd i'th iechyd :  
I Dduw am synnio arnaf  
Canaf, canaf dragywydd-fyd.

- 4 Gwir ofnwch ag na phechwch  
Meddyliwch yn eich calon :  
Ar eich gwely 'difarhewch  
Distewch (fel rhai ufuddion).

## SALM V.

- 3 Yn foreuol Arglwydd néf  
Clywi fy llef ddirifraf :  
Yn foreu cyfeiriaf attad  
Ac am dy rád disgwyliaf.
- 5 Ni safant ynyfdion drwg  
Yn dy olwg pur-wedd :  
Caeaiast oll annuwiol wŷr  
Gweithredwŷr pob anwiredd.
- 7 Minnau ddôf i'th dŷ fy Nér  
Yn amlder dy drugaredd :  
Ac addolaf yn dy ofn  
I'th deml ddofn sancteidd-wedd.

## SALM VI.

- 6 Diffygiais gan fy ochain fry  
Fy ngwely gwnaf yn foddfa :  
Fy heilltion ddagrau i bob nos  
Sŷ'n lli' dros fy ngorweddfa.

## SALM VII.

- 10 Fy amddiffyn oll y sydd  
Beunydd yn fy Nuw cyflawn :  
Canys ef yw iachawdr llonn  
Y rhai o galon uniawn.
- 15 Cloddiodd gorbwill, trychodd ffôs  
(I aros cael fy mhriddaw :)  
Syrthiodd ei hun (nid oedd waeth)  
I'r dystryw a wnaeth ei ddwylaw."

Fe allai bod hyn yn ddigon o anghreiffiau o gynghaneddiad y bardd  
er boddhad y darllenwyr—ond rhoddwn yr adnod olaf, ynghyd â therfyn  
y llyfr.

Terfyn ar hynn : hyd oni

Threfno Duw gymhorth y'mhellach."

Dymunem alw sylw y darlennydd at un peth, sef fod yr awdur yn crynô  
pob adnod, fel yr oedd yn y cyfieithiad rhydd, i bedair llinell ar gân, felly  
yr oedd yn ychwanegu ychydig o ymadroddion mewn adnod fer i wneuth-  
ur y pennill yn gyflawn; ond nid oedd yn gwneuthur cam â'r synwyr, a  
rhodda i y geiriau ychwanegol rhwng cromfachau. Ond wrth grynô am-  
bell i adnod hir i bedair llinell, y maent yn lled dywyll, fel y gwelir yn y  
pennill olaf; ond nid felly y gwnaeth yr Archddiacon Prys. Weithiau  
gwnai ef un pennill o ddwy adnod, a thro arall gwnai ddau bennill o un  
adnod.

## CYSONDEB YR YSGRYTHYRAU.

YMLITH yr amrywiol resymau anwrthbrofedig ac anwrthbrofadwy a ddygir ymlaen gan bleidwyr y Bibl wrth sefyll dros ei wirionedd, ac o ganlyniad dros ei ysbrydoliaeth dwyfol, nid un o'r rhai lleiaf yw y ddadl a seilir ar gysondeb yr Ysgrythyrau. Cyfansoddwyd y llyfrau ysgrythyrol, nid gan un ysgrifenydd, ond gan fwy na deg ar hugain o awduron gwahanol—nid mewn un oes, ond yn yr ystod maith o un cant ar bymtheg o flyneddau—nid gan ysgrifenywyr cyffelyb i'w gilydd o ran sefyllfa ac amgylchiad, ond yr oedd o honynt rai yn alluog yn y byd, a rhai yn isel-radd; rhai yn dywysogion ac yn freninoedd, a rhai yn fugeiliaid ac yn bysgodwyr; rhai yn ysgolëigion medrus, ac eraill heb eu dwyn i fyny mewn dysgeidiaeth ddynol—ac eto, yn eu hysgrifeniadau, “yn un y maent yn cytuno.” Er eu bod yn ysgrifenu ar y pwnc pwysig o grefydd a moesoldeb, am yr hyn y mae yn y byd filoedd o dybiau gwahanol, nid oes ganddynt hwy ond un gyfundrefn, un farn, ac un dystiolaeth. Yr un yw eu syniad am Dduw, am ddyn, ac am drefn iachawdwriaeth, ac felly am bob mater a ddygir ganddynt ger bron; yr hyn sydd yn profi eu bod oll o dan ddylanwad “yr un a'r unrhyw Ysbryd.”

Onid nid at gysondeb mawr athrawiaethau y Bibl yr oeddem ni am gyfeirio ein darllenwyr y tro hwn, ond at gysondeb dygwyddiadol ei ffeithiau—eu cydgyfarfyddiad â'u gilydd ar lwybr nad oedd amcan ato—adroddiad hanesiol mewn un lle yn perffaith gyfredeg âg adroddiad hanesiol arall mewn lle arall, er mai peth hollol ddifwriad gan yr ysgrifenywyr ar y pryd oedd eu gosod allan yn gyson â'u gilydd. Galwasom sylw at hyn, mewn rhan, yn y Llyfr Cyntaf o'r “Traethodydd, yn ein herthygl ar “*Horæ Pauline*” Paley, lle y dangosir cydgoridiad manwl y cyfeiriadau yn epistolau Paul at leoedd, personau, a dygwyddiadau, â'r hanes penodol a roddir gan Luc yn llyfr Actau yr Apostolion. Mae y Parch. Dr. Graves, a'r Parch. J. J. Blunt, wedi lloffa yn rhagorol i'r un perwyl ar feusydd yr Hen Destament; ac yr ydym yn cymeryd ein cenad i gyffeu ychydig o firwyth eu llafur o flaen ein cydgenedl, yn ein llwybr ein hunain, er mwyn arddangos geirwiredd yr ysgrifenywyr sanctaidd trwy y dull mwyaf dysyml a naturiol.

I. Yn y bedwaredd bennod ar hugain o lyfr *Genesis*, cawn yr hanes am Abraham yn anfon Eleazar, ei was ffyddlawn, i ymofyn gwraig i Isaac o frys perthynasau y patriarch, y rhai oedd yn para i fyw yn Haran. Syrthiodd y dewisiad ar Rebecah, “merch i Bethuel, fab Milcah, yr hwn a ymddôg hi i Nachor;” ac yr oedd Nachor yn frawd i Abraham. Fel hyn, ni a welwn mai wyres i frawd Abraham oedd i fod yn wraig i fab Abraham. Ceir fod un o'r drydedd genedlaeth o du Nachor o oedran cyfaddas i un o'r ail genedlaeth o du Abraham. Yn awr, y mae hyn yn hollol gyson â ffaith a gyfiwynir i ni mewn lle arall, er na chyffyrddir â hyn yn y bennod hon, sef, fod Sarah, gwraig Abraham, wedi bod am hir amser yn anmhlantadwy, ac na anwyd plentyn iddi nes gwedi ei heneiddio (*Gen.* xviii. 12). Yn y modd hyn, collwyd un genedlaeth o ochr Abraham, ac felly yr oedd wyrion ei frawd yn Haran yn gyfoeswyr neu gyfoedion i'w blentyn ef ei hun yn Nghanaan. Y mae y cysondeb manylaidd hwn yn yr hanes yn

cadarnhau geirwiredd yr hanesydd yn y modd cryfaf. Pe dywedasai fod mab Abraham wedi cymeryd merch Nachor, yn lle ei wyres, yn wraig iddo, pa ddarllenwydd a fuasai yn gweled dim yn annhebygol yn hyny? a phe buasai yr adroddiad yn cael ei ysgrifenu gan ddyfeisiwr dychymygod, buasai yn llawer tebycach mai felly yr adroddasai efe. Ond mae y cyddarawiad hwn mewn peth sydd yn ymddangos ar y cyntaf yn ddistadl, yn profi mai "nid gan ddilyn chwedlau cyfrwys" yr oedd yr ysgrifenydd yn myned ymlaen, ac yn peri i ni roddi pob hyder yn ei hysbysiadau.

Y mae peth arall yn yr un hanes patriarchaidd yn deilwng o sylw, fel y mae yn tystiolaethu, mewn modd dygwyddol, i'w gwirionedd, a hyny ydyw, y lle dibwys a roddir i Bethuel, neu y diffyg sylw o hono, yn yr holl amgylchiad. Fel tad Rebeccah, galesid dysgwyl y rhoddasid iddo y lle blaenaf gyda golwg ar gytundeb priodasol ei ferch; ac felly, dybygid, yr oedd arfer y wlad. Pan yr oedd Laban yn y cyffelyb amgylchiad, a chanddo ferch i'w rhoddi i briodas, a'r ferch hõno, fel Rebeccah, yn meddu brodyr (*Gen.* xxxi. 1), yr oedd y cytundeb yn cael ei wneuthur yno gan y tad yn unig; y mae efe yn ddiwyd yn yr holl achos, megys yr oedd yn rhesymol. Ond mae yn dra gwahanol gyda Bethuel o barth i briodas Rebeccah. Pa un a oedd ef yn analluog gan fethiantwch henaint, neu o herwydd gwendid deall, neu ryw anghymhwysder arall, i lywodraethu ei achosion ei hun, ni ddywedir i ni; ond y mae rhywbeth tebyg fel yn cael ei gynnwys yn yr holl adroddiad sydd yn dal perthynas âg ef. Wedi i was Abraham gyfarfod Rebeccah wrth y ffynnon, mae efe yn gofyn iddi, "Merch pwy ydwyt ti? mynega i mi, attolwg, a oes le i mi letya yn nhÿ dy dad?" Mae hithau yn ateb mai merch Bethuel ydoedd, a bod iddo le i letya; ac wedi iddo yntau wneyd yn hysbys pwy ydoedd, "y llances a redodd, ac a fynegodd yn nhÿ ei mam y pethau hyn;" nid yn nhÿ ei thad, sylwer, megys y gwnaeth Rahel pan gyfarfyddodd Jacob â hi (*Gen.* xxix. 12). Gwir y gallai Rebeccah wneyd hyn yn ddamweiniol; ond hysbysir ymhellach yn yr hanes, fod "i Rebeccah frawd, a'i enw Laban; a Laban a redodd at y gŵr allan i'r ffynnon," ac a'i gwahoddodd i mewn. Nid oes eto un crybwylliad am Bethuel. Mae gwas Abraham bellach yn traethu ei neges, ac wedi hyny dywedir, "Yna yr atebodd Laban a Bethuel." Mae Bethuel yn y fan hon yn cael ei gysylltu gyda ei fab fel siaradwr, ond y mab a enwir gyntaf; a dyna yr holl brawf a roddir i ni o fod Bethuel yn fyw y pryd hyn. Boddlonir i'r ferch fyned gyda y gwas, ac y mae efe yn awr yn dwyn allan ei anrhegion; ond i bwy y mae yn eu rhoddi? "Tynodd y gwas allan dlysau arian, a thlysau aur, a gwisgoedd, ac a'i rhoddodd i Rebeccah: rhoddodd hefyd bethau gwerthfawr i'w brawd hi ac i'w mam;" nid i'w thad, ni a welwn: efe yn unig a adewir allan yma. Rhoddir cynnygiad am i Rebeccah aros gyda ei theulu am ddeng niwrnod o leiaf cyn cychwyn ymaith. Ond pwy sydd yn gwneyd y cynnygiad? Nid ei thad, yr hwn y dysgwylasid yn naturiol iddo fod y gweithredydd penaf yn yr holl amgylchiad: ond "ei brawd a'i mam." Yn y genedlaeth nesaf, pan y mae Jacob, ffrwyth y briodas hon, yn ffoi at deulu ei fam i'w ddiogelu ei hun rhag digofaint Esau, ac i ymofyn gwraig, mae efe, wrth holi bugeiliaid Haran am ei berthynasau, yn dywedyd, "A adwaenoch chiwi Laban fab Nachor?" Mab i Bethuel, ni a welsom, oedd Laban, ac ŵyr i Nachor; ond y mae Jacob yn myned heibio i Bethuel, fel dynsawd dibwys yn y teulu, ac yn galw Laban, mab Bethuel, ar ol enw ei daid, ac nid ar ol ei dad.

Gwelir fod unfurfiaeth cyson yn yr holl adroddiad; ac y mae yn gysondeb sydd yn dangos fod yr ysgrifenydd yn gwybod mwy am Bethuel nag yr oedd yn dewis ei gofnodi. Dystawrwydd ydyw sydd yn llefaru rhywbeth, ac y mae yr holl hanes yn gydgordiol, ac felly yn gyfryw ag na ddaethai byth o law y dyfeisiwr mwyaf cyfrwys. Nid oes yma ond argraff gwirionedd drwodd draw.

II. Yn nechreu y seithfed bennod o *Numeri*, adroddir fod tywysogion Israel, ar y dydd y gorphenodd Moses godi y tabernacl, wedi offrymu "chwech o feni diiddos," neu wageni gorchuddiedig, "a deuddeg o ychain," ac i Moses eu cymeryd at wasanaeth cludiad pabell y cyfarfod, a'u rhoddi i ddau o deulu y Lefiaid, "i bob un yn ol ei wasanaeth;" canys yr oedd y trydydd teulu i gludo dodrefn y cysegr sancteiddiolaf ar eu hysgwyddau. I feibion Gerson, rhoes Moses ddwy fen a phedwar ŷch; ond i feibion Merari, pedair men ac wyth o ychain: *Num.* vii. 7, 8. Nid oes yno un rheswm yn cael ei roddi paham y rhoddir cymaint ddwywaith o feni ac ychain i feibion Merari ag i feibion Gerson. Ond trown yn ol i bennod flaenorol, sef y bedwaredd, *adn.* 24—33, rhwng yr hon a'r seithfed bennod, pa fodd bynag, y ceir lliaws o bethau hollol anghysylltiol a'r mater hwn, ac ni a gawn fod tylwyth y Gersoniaid wedi eu penu i gludo y rhanau ysgafnaf o'r babell, y lleni, caeadlen y drws, a'r rhaffau; tra yr oedd tylwyth meibion Merari i gludo ei phethau trymaf, sef ei hystyllod, ei bâuau, a'i cholofnau. Mae hyna ar unwaith yn rheswm digonol am yr anghyfartalwch yn nghyfraniad y meni a'r ychain; ac eto y mae hyn yn cael ei grybwyll mewn modd mor achlysurol, fel mae yn amlwg na buasai un fflug-hanesydd, pe y meddylasai am gofnodi y peth o gwbl, yn ei goffau yn y llwybr dygwyddol ac annibynol hwn.

III. Yn yr unfed bennod ar bymtheg o lyfr *Numeri*, mae genym hanes gwrthryfel Cora, Dathan, Abiram, ac On, yn erbyn awdurdod Moses ac Aaron. Yr oedd Cora o deulu Cohath, mab Lefi; a Dathan, Abiram, ac On, o deulu Reuben. Yn awr, mae yn deilwng o sylw ein bod yn cael yr hysbysiad canlynol yn y drydedd bennod o'r un llyfr, "Teuluoedd meibion Cohath a wersyllant ar ystlys y tabernacl tua'r deheu;" *pen.* iii. 29. A chyn hyny, yn yr ail bennod, dywedir, "Lluman gwersyll Reuben fydd tua'r deheu (sef tua'r deheu i'r tabernacl), yn ol eu lluoedd." Mae yr hanes am y gwersylliad hwn yn cael ei roddi yn hollol annibynol, ac ar wahan, oddiwrth yr hanes am y gwrthryfel; ond ni a welwn, yn y ffordd ddygwyddiadol hon, fod teulu Cohath, a theulu Reuben, yn gwersyllu ar yr un ochr i'r tabernacl; yr oeddynt yn gymydogion i'w gilydd; ac fel hyn yr oeddynt wedi eu sefydlu yn gyfleus i allu cydgyfrinachu a llunio mesurau dirgel ynghyd. Dyma gyd-darawiad nodedig yn yr hanes, sydd mewn dull difwriad gan yr ysgrifenydd, ar unwaith yn tystio i'w chywirdeb.

Nid yw yr hanes ysgrythyrol yn unman yn dywedyd pa beth yn neillduol oedd yn dylanwadu ar y cydfradwyr hyn i'w hannog i wrthryfela fel y gwnaethant; ond yr ydym yn canfod oddiwrth leoedd eraill yn llyfr *Numeri*, yn anghyfeiriol at y gwrthryfel, fod Ishar, tad Cora, yn frawd i Amram, tad Moses ac Aaron, ac mai ei dylwyth ef oedd y rhai nesaf o ran urddas swyddol i Aaron a'i feibion; ac fel hyn, nid yw yn annatoriol i ni feddwl fod Cora yn teimlo yn eiddigus am fod mawredd yr archoffeiriadaeth wedi ei gyfyngu iddynt hwy,—a bod Dathan, Abiram, ac On, yn benaethiaid o lwyth Reuben, y cyntafanedig o feibion Jacob, a chan hyny, eu

bod, yn ol pob tebygolrwydd, yn anfoddlawn am fod y flaenoriaeth wedi cael ei rhoddi i Moses fel llywodraethwr. Y mae hyn yn gorwedd yn deg wrth gymharu y gwahanol fanau, ac yn cadarnhau fod yr holl hanes yn wirionedd diboced, ac nid yn ddyfais lunniedig.

III. Yn mhennod y 32ain o *Numeri*, cawn y Reubenïaid a'r Gadïaid yn deisyf am gael eu hetifeddiath o'r ta dwyreiniol i'r Iorddonen, yn hytrach nag yn ngwlad Canaan. Y rheswm a roddir ganddynt am y dymuniad hwn, ydyw, "Tir i anifeiliaid yw efe, ac y mae i'th weision anifeiliaid." Ond y mae rheswm arall yn ymddangos paham yr oedd y ddau lwyth hyn yn awyddus am drigo ynghyd yn y diriogaeth hon; o herwydd yn yr hanes a roddir am drefn gwersylliad y llwythau yn yr anialwch, yr ydym yn cael fod llwyth Gad yn gwneyd i fyny ran o wersyll Reuben. *Num.* ii. 10—14. Yr oedd yn ddigon naturiol, gan hyny, i'r ddau lwyth hyn, wedi bod yn gymdeithion agos trwy holl deithiau blinion yr anialwch, ddymuno yn fawr am gael ymsefydlu fel cymydogion yn y wlad lle yr oeddylnt i drigiannu. Mae yn hawdd gweled na buasai yr un twyllwr yn meddwl am ddechymygu y fath amgylchiad fel cadarnhad i'r adroddiad am gyd-ddeisyfiad y ddau lwyth hyn.

IV. Gallwn gael esiampl arall o'r cysondeb anfwriadol sydd dan sylw, oddiwrth yr adroddiad am y farnedigaeth a syrthiodd ar yr Israelïaid o herwydd ymgyfeillachu â Baal-Peor. Ni ddywedir wrthym fod yr un lwyth yn fwy euog na'r lleill yn yr achos hwn; yn unig coffeir, "A bu feirw o'r pla bedair mil ar hugain;" *Num.* xxv. 9. Ond yr ydym yn darllen am gosbedigaeth neillduol a weinyddwyd ar un oedd yn brif dros-oddwr; a hwnw oedd "Zimri, mab Salu, penaeth tŷ ei dad, o lwyth Simeon." Rhoddodd Phinees, mab Eleazar yr offeiriad, y gŵr hwnw i farwolaeth; ac yr oedd y fath bwysigrwydd ynglŷn â gweithred Phinees, fel yr "attaliwyd y pla oddiwrth feibion Israel." Wrth gymharu y cyfrif a wnaed o'r Israelïaid yn fuan ar ol yr amgylchiad hwn â'r cyfrif a wnaed yn agos i ddeugain mlynedd yn flaenorol, yn anialwch Sinai, ymddengys, tra yr oedd y rhan fwyaf o'r llwythau wedi lliosogi yn y cyfamser, fod llwyth Simeon wedi lleihau o bedair ar bymtheg a deugain o filoedd a thri chant, i ddwy fil ar hugain a dau gant. *Num.* i. 23; a xxvi. 14. Nid oes un rheswm yn cael ei roddi am y fath leihâd dirfawr yn yr un lwyth hwn; ond onid ydyw yn bur debygol mai pobl y llwyth i ba un yr oedd Zimri yn perthynu oedd yn blaenori yn y trosedd yn Baal-Peor, ac, am hyny, mai hwynt-hwy a ddyoddefasant fwyaf oddiwrth y pla a anfonwyd yn gosb am y pechod? Mae y dyb hon yn cael ei chadarnhau gan amgylchiad arall. Un o'r gweithredoedd arbenig diweddaf yr awdurdodwyd Moses i'w gwblhau ydoedd, gweinyddu cosbedigaeth ar y Midianïaid am eu gyfran yn yr anwiredd hwn yn achos Peor. Yn fuan wedi cyflawni ei gomisiwn hwnw, mae y blaenor Hebraidd yn cyhoeddi y fendith ymadawol ar y bobl. *Deut.* xxxiii. Ar yr holl lwythau eraill, mae yn deisyfu neu yn addaw bendithion gwerthfawrocaf y dddear a'r nefoedd; ond mae yn myned heibio i lwyth Simeon mewn dystawrwydd; nid yw yn gwneyd cymaint a chrybyll am dano; yr hyn sydd yn amgylchiad na ellir rhoddi dim cyfrif am dano, oddigerth am gyfryw reswm a'r hwn yr ydym yn cyfeirio ato. Wrth gymharu y naill amgylchiad â'r llall, mae rhesymoldeb yr holl adroddiadau yn dyfod yn fwyfwy amlwg, a'r cyfan yn ein sicrhau mai "geiriau gwirionedd a sobrwydd" yw y rhai hyn sydd ger ein bron.

V. Wedi marwolaeth Moses, mae Josua, ar orchymyn Duw, yn cymeryd ei le fel blaenor lluoedd Israel, ac y mae yn eu harwain trwy yr Iorddonen i dir Canaan. Diwrnod i'w gofio am y wyrth nodedig a wnaed arno oedd y diwrnod hwnw. "Pan gychwynodd y bobl o'u peyll, i fyned dros yr Iorddonen, a'r offeiriad oedd yn dwyn arch y cyfammod o flaen y bobl; a phan ddaeth y rhai oedd yn dwyn yr arch hyd yr Iorddonen, a gwlychu o draed yr offeiriad, oedd yn dwyn yr arch, yn nghŵr y dyfroedd (a'r Iorddonen a lanwai dros ei glanau oll holl ddyddiau y cynauaf), yna y dyfroedd, y rhai oedd yn disgyn oddi uchod, a safasant; cyfodasant yn bentwr ymhell iawn oddiwrth y ddinas Adam, yr hon sydd o ystlys Saretan: a'r dyfroedd y rhai oedd yn disgyn i fôr y rhos, sef i'r môr heli, a ddarfuant ac a dorwyd ymaith. Felly y bobl a aethant drosodd ar gyfer Jericho. A'r offeiriad, y rhai oedd yn dwyn arch cyfammod yr Arglwydd, a safasant ar dir sych, yn nghanol yr Iorddonen yn daclus: a holl Israel oedd yn myned drosodd ar dir sych nes darfod i'r holl genedl fyned trwy yr Iorddonen;" *Josua* iii. 14—17.

Dyna yr hanes a roddir yn llyfr Josua am y mynediad rhyfeddol trwy yr Iorddonen. Yn nghanol yr adroddiad am y wyrth arbenig, mae un peth yn cael ei nodi, eto mewn dull tra achlysurol, sydd yn gosod allan ar ba dymmor o'r flwyddyn yr aed fel hyn trwy yr Iorddonen: "A gwlychu o draed yr offeiriad oedd yn dwyn arch yn nghŵr y dyfroedd;" ac i roddi cyfrif am hyny, dywedir ei bod yn adeg gorliffiad yr Iorddonen; canys hi "a lanwai dros ei glanau oll holl ddyddiau y cynauaf." Golygir yma gynauaf yr haidd; canys dywedir yn *pen.* iv. 19: "A'r bobl a ddaethant i fyny o'r Iorddonen y degfed dydd o'r mis cyntaf;" yr hyn sydd bedwar diwrnod cyn y pasg, yr hwn a gedwid yn nhyddor y cynauaf haidd; ni byddai y cynauaf gwenith yn dyfod i mewn hyd y pentecost, neu ddeng nydd a deugain yn ddiweddarach yn y flwyddyn, pan yr oedd y bobl i offrymu dwy dorth gyhwfan o flaenffwrth y gwenith. Felly, ni a welwn fod yr Israeliad wedi myned trwy yr Iorddonen yn amser y cynauaf haidd. Yn llyfr *Exodus*, yn yr hanes am bla y cenillysg, yr hwn nad ydoedd ond diwrnod neu ddau o flaen y pasg, dywedir, "A'r llin a'r haidd a gurwyd; canys yr haidd oedd wedi hedeg a'r llin wedi hadu: a'r gwenith a'r rhyg ni churwyd; o herwydd diweddar oeddynt hwy." *Exod.* ix. 31, 32. Dengys hyna fod y llin a'r haidd yn gynnyrchion oedd yn addedu tua'r un amser yn yr Aipht; a chan nad yw hinsawdd Canaan yn amrywio llawer oddiwrth eiddo yr Aipht, yr ydoedd felly yn ddiammhau am y llin a'r haidd yn Nghanaan. Gan fod plant Israel yn croesi yr Iorddonen yn adeg cynauaf, a hwnw yn gynauaf yr haidd, fel y gwelwom, mae yn rhaid eu bod yn dyfod hefyd i Ganaan yn adeg y cynauaf llin.

Yma, sylwer ar yr hanes a roddir am y modd y cuddiodd Rahab yr ysbiwyr Hebraidd, y rhai a anfonwyd gan Josua dri diwrnod cyn y mynediad trwy yr Iorddonen: "Hi a barasai iddynt esgyn i nen y tŷ, ac a'u cuddiasai hwynt mewn boldeidiau llin, y rhai oedd ganddi wedi eu hysgafnu ar nen y tŷ;" boldeidiau newydd eu tori i lawr, wedi eu taenu yno i sychu, cyn pilio y llin oddiarnynt. Yma ni a ganfyddwn fanyldra gwirionedd. Gallasem ni feddwl nad oedd o nemawr bwys mynegu o dan ba beth y cuddiwyd yr ysbiwyr; digon, dybygasm, a fuasai dywedyd i Rahab lwyddo i'w cuddio yn ddiogel, a thrwy hyny achub eu bywyd. Ond y fath gadarnhad i'r holl hanes o amgylch yw yr adroddiad dygwyyddiol am y

“bolldeidiau llin” ar nen tŷ Rahab! Cuddiwyd yr ysbiwyr â’r llin; yr oedd y llin yn addfed yr un amser a’r haidd; yr oedd yr haidd yn addfed, fe wyddis, yn adeg y pasg; a’r pasg oedd y tymmor pan ddaeth yr Israeliaid i mewn i Ganaan. Dyma y ffaith achlysurol am y llin oedd gan Rahab, yn ein harwain o gam i gam, nes i ni fyned, yn llaw y gwirionedd yn ddiau, at y mynediad gwyρθiol trwy yr Iorddonen.

VI. Yr oedd yr Arglwydd wedi gorchymyn i Israel, ar ol iddynt etifeddu tir Canaan, yru y Canaanaid allan o’u blaen, heb wneuthur ammod â hwynt, na gadael iddynt drigo yn y tir: *Exod.* xxiii. 31—33. Ond plant Israel, oddiar drachwant bydol, a foddlonasant i osod y Canaanaid dan dreth, yn lle eu gyru ymaith yn llwyr, yn ol y gorchymyn dwyfol. Goddefwyd iddynt, gan hyny, yn ol fel y bygythiwyd, i fod “yn gethri yn llygaid, ac yn ddrain yn ystlysau” yr Israeliaid: yr oeddynt yn wastad yn eu blino, yn fynych yn eu gwrthwynebu, ac weithiau yn llwyddo i’w gorthrymu am lawer o flyneddau yn olynol. Yn y cyfamser, yr oedd llwyth Dan wedi ymsefydlu gerllaw yr Amoriaid; a’r bobl ryfelgar hyny a lwyddasant i gyfyngu meibion Dan i’r mynydd-dir, ac ni adawsant iddynt gael lle yn y dyffryndir: *Barn.* i. 34. Gan eu bod felly yn cael gwasgu arnynt, “meibion Dan a anfonasant o’u tylwyth bump o wŷr o’u bro, gwŷr grymus i ysbio y wlad, ac i’w chwilio:” *Barn.* xviii. 2. Daeth y pumwr hyny “i Lais; ac a welsant y bobl oedd ynddi yn trigo mewn diogelwch, yn ol arfer y Sidoniaid, yn llonydd ac yn ddiotal; ac nid oedd swyddwr yn y wlad, yr hwn a allai eu gyru hwynt i gywilydd mewn dim; a phell oeddynt oddiwrth y Sidoniaid, ac heb negesau rhyngddynt â neb;” *adn.* 7. Yr oedd amgylchiadau y lle a’r bobl yn eu gwneyd fel hyn yn hawdd i’w gorchfygu; a meibion Dan a gymerasant Lais, ac a’i hailadeiladasant, gan newid ei henw i Dan. Yr ydym yn canfod, oddiwrth yr hanes, fod Lais, er ymhell oddiwrth Sidon, yn dref oedd yn perthynu i Sidon ar y cyntaf; ac yn cael ei chyfanneddu, mae yn debygol, gan Sidoniaid, o herwydd yn ol eu harfer hwy yr oedd pobl Lais yn byw.

Trown yn ol o’r 18fed bennod o’r *Barnocyf*, i’r drydedd bennod o lyfr *Deuteronomium*, lle y cawn Moses yn dyweyd, “Ni a gymerasom yr amser hwnw o law dau frenin yr Amoriaid, y wlad o’r tu yma i’r Iorddonen, o afon Arnon hyd fynydd Hermon (y Sidoniaid a alwant Hermon yn Sirion, a’r Amoriaid a’i galwant Senir).” Paham, gellir gofyn, y gwneir y crybwylliad hwn am yr enw Sidonaidd ar fynydd enwog Hermon? Nid oedd yn gyfagos i Sidon; ac ymddengys ei fod yn perthyn, nid i lywodraeth Sidon, ond i’r eiddo brenin Basan: *Barn.* xii. 4, 5. Er nad yw y rheswm yn amlwg ar y cyntaf, gallwn trwy ymchwiliad ei ddarganfod; ac y mae yn dwyn ger bron gysondeb tarawiadol mewn dearyddiaeth rhwng yr adnodau hyn yn y *Barnocyf* ac yn *Deuteronomium*.

Yr un oedd Lais, neu Dan, meddir wrthym gan Jerome ac eraill, a’r ddinas a elwid wedi hyny yn Paneas ac yn Cesarea Philippi, ac yr oedd y ddinas hōno yn agos i odre mynydd Hermon. Yn awr, yr oedd Lais ar y cyntaf, fel y gwelsom, yn ol pob tebygolrwydd yn orsaf neu drifan gan y Sidoniaid, yn ol arfer pa rai yr oedd pobl Lais yn ymagweddu. Ac felly mae yn ymddangos, er nad oedd Hermon yn agos i Sidon ei hun, fod tref-edigaeath o Sidoniaid wedi ymsefydlu wrth ei droed; ac nid oedd dim yn fwy naturiol nag i’r mynydd oedd yn crogi uwch ben y dref gael enw Sidonaidd arno, wrth yr hyn y gelwid ef yn gyffredin yn y parthau hyny,



ac i'r enw hwnw, yn gystal a'r enw Hebreaidl arno, ymgynnyg i feddwl Moses wrth grybwyll am dano. Mae yr adroddiadau hyn yn yr hanesiaeth sanctaidd ymhell oddiwrth eu gilydd, ac heb un cysylltiad rhwng y naill a'r llall; ond y maent er hyn, ni a welwn, yn hollol gydunol a chyson.

VII. Yn 1 *Bren.* xv. 17, yr ydym yn darllen, "A Baasa brenin Israel a aeth i fyny yn erbyn Juda, ac a adeiladodd Rama; fel na adawai efe i neb fyned allan na dyfod i mewn at Asa brenin Juda." Yr oedd Rama yn dref ar y terfyn rhwng teyrnasoedd Israel a Juda, ac yr oedd yn sefyll fel ag i fod yn agoriad i'r naill neu y llall. Yr oedd brenin Israel yn awyddus am ei chadarnhau, ond brenin Juda am ei dinstrio; canys wedi i Asa lwyddo i droi Baasa ymaith oddiwrth ei waith yn Rama, nid yw yn myned ymlaen i'w chwbleiddio yn ddinas gadarn iddo ei hun, ond mae yn cludo ymaith y coed a'r ceryg, ac yn eu defnyddio mewn lleoedd eraill: 2 *Cron.* xvi. 1—5. Paham yr oedd yn amcan gan freninoedd Israel gadarnhau Rama, a chan freninoedd Juda ei chwalo? Mae hyn yn ymddangos braidd yn hynod, gan fod Israel, ar ol yr ymranïad, yn gryfach o ran lliosogrwydd na Juda; canys yr oedd Jeroboam yn gallu dyfod âg wyth can' mil o wŷr etholedig yn erbyn y pedwar can' mil oedd gan Abia: 2 *Cron.* xiii. 3. Gallesid meddwl mai ar Juda, fel y deyrnas wanaf, yr oedd mwyaf o ofn ymgryoh ymosodol, ac y buasai, wedi cael mantais i gymeryd amddiffynfa oedd yn borth i'r deyrnas o dir Israel, yn cadw meddiant o honi, ac yn ei chryfhau er ei lesiant ei hun. Ond yn groes i hyn y cawn y ffaith. Pa fodd ei deoglwn? Trwy adroddiad a gyflwynir i ni mewn lle arall, heb ynddo y cyfeiriad lleiaf at amgylchiad neillduol Rama.

Wedi i Jeroboam gael ei sefydlu yn frenin ar Israel, efe "a feddylïodd yn ei galon, Yn awr y dychwel y freniniaeth at dŷ Ddafydd, os ä y bobl hyn i fyny i wneuthur aberthau yn nhŷ yr Arglwydd yn Jerusalem;" ac i rwystro hyny, efe a oesododd i fyny addoliad y lloi aur yn Bethel ac yn Dan: 1 *Bren.* xii. 26—29. Er mwyn gwneyd ei amcan yn hyn yn fwy sicr, efe a fwriodd ymaith y Lefiaid o'r offeiriadaeth, ac a osododd rai yn offeiriad wrth ei ewyllys ei hun. Mewn canlyniad i hyn, "yr offeiriad a'r Lefiaid, y rhai oedd yn holl Israel, a gyrchasant i Juda o'u holl derfynau;" ac nid hwy yn unig, eithr "ar eu hol hwynt, o holl lwythau Israel, y rhai oedd yn rhoddi eu calon i geisio Arglwydd Dduw Israel, a ddaethant i Jerusalem i aberthu i Arglwydd Dduw eu tadau." Yr oedd eu hymfudiad hwy yn gyfnerthiad mawr i Juda. "Felly hwy a gadarnhasant freniniaeth Juda, ac a gryphasant Rehoboam mab Solomon;" 2 *Chron.* xi. 13—17. Wrth weled y rhai goreu o'u deiliaid yn cilio ymaith i'r deyrnas wrthwynebol, yr oedd Jeroboam, a'i olynwyr annuwiol, yn bryderus am rwystro y cyfryw ymfudiad; ac oddiyma y dyfeisiwyd cadarnhau Rama, fel na adawid i neb fyned i mewn i Juda. Ac o herwydd hyny, nid rhyfedd fod breninoedd Juda mor awyddus am ddiffrodi amddiffynfa Rama, fel na byddai un rhwystr ar ffordd eu cyfeillion a'u pleidwyr i ddyfod o Israel i gadarnhau eu breniniaeth hwy. Nid yw perthynas y dygwyddiadau hyn â'u gilydd yn cael ei fynegu yn benodol yn yr hanes, ac nid yn yr un man y crybwyllir am danynt; ond mae y darlennydd craffus yn gwled yn rhwydd y cysondeb mwyaf boddlonol rhyngddynt.

Yr oeddem, wrth ddechreu ar hyn o ysgrif, yn bwriadu coffau amryw eraill o gyffelyb anghreiffiau; eithr ymattaliwn ar hyn yn awr, gan annog ein

cyfeillion i deithio ymhellach ar hyd y ffordd ddfifyr yr arweinasom hwy iddi. Gwna yr holl Ysgrythyrau ddyoddef yr ymchwiliad manylaf iddynt. Po fwyaf llym y llygadir arnynt, cryfaf yr ymddengys eu cadernid, a thlysaf eu prydferthwch. Wedi holl ymosodiadau anffyddwyr ffrostgar, mae y Bibl yn sefyll yn fuddygol ar y maes, ac yn ennill coronau newyddion yn was-tadol: ydyw! mae "yn byw ac yn parhau yn dragywydd."

## Y PUSIAID CYMREIG.

[*Dafl Bangor, yn cynnwys Sylwadau a draddodhoyd mewn Darlith gyhoeddus, ar Anghydfurfaeth; neu Eglwys Loegr ac Ymneillduaeth.* Gan y Parch. JOHN PHILLIPS.]

"Y MAE yn ddrwg genym bob amser pan y cymero y fath enciliadau le [sef at Babyddiaeth]; ond nid ydym yn gallu dychymygu paham y gwneir cymaint o drwr yn eu cylch ag a wneir yn gyffredin. Os a dynion at Ymneillduaeth, yr hyn yn ein barn ni sydd yn ddrwg mwy, canys yna ni all y gwrthgiliwr gael y sacramentau drwy weinyddiad awdurdodol, ni ddywedir dim yn eu cylch; ond, os dychwelant at Babyddiaeth, cynhyrfir yr holl fyd gan gamddarluniadau chwyddedig o'r hyn a osodir allan fel ysgelerder a ffeidd-dra." Y geiriau hyn sydd gyfieithiad llythyrenol o'r hyn a ymddangosodd yn y "*North Wales Chronicle*" am Fedi 7, 1850. Dywed rhai nad yw Cymru mewn perygl oddiw'rth Babyddiaeth yn y dyddiau hyn: ond dyma egwyddor sylfaenol Pabyddiaeth yn cael ei ham-ddiffyn gan newyddiadur yr Eglwyswyr yn Mangor; ac os yw y papyr hwnw yn meddu cynnalwyr a phleidiwyr yn Nghymru, ac os yw yr offeiriad a bregethant yr un cyfeiliornad Pabaidd yn cael gwrandawyr yn Nghymru, mae yn amlwg fod llawer yn ein plith yn eithaf parod i dderbyn holl athrawiaethau y Jesuitiaid. Os dilynant yn ddiwyll yr hyn a gredant, y maent yn rhwym o ddybenu mewn undeb ag Eglwys Rhufain. Y maent eisoes yn Rhufeinwyr o galon, a dylent fod felly mewn enw; ac nid yw eu hundeb ag Eglwys Loegr yn effeithio dim ond i'w gwneuthur yn fwy peryglus. Yn wyneb yr amgylchiadau hyn, y mae yn ymddangos i ni fod Mr. Phillips yn haeddu canmoliaeth gyffredinol am ddyfod allan i wrthladd y Pusiaid Cymreig. Yr haeriad Pusiaidd uchod yn mhapyr Bangor oedd yr achlysur iddo draddodi y ddarlith gyntaf, yr hon a barodd derfysg a chythrwf nid bychan; ac yn yr un sydd yn awr ger ein bron y mae yn amddiffyn ei hun yn effeithiol, ac mewn ysbryd boneddigaidd. Nid ydym yn dywedyd mai Pusiaid oedd pawb fu yn ysgrifenu yn erbyn y ddarlith gyntaf; oblegid gwyddom fod rhai o honynt mor bell oddiw'rth hyny ag yw y dwyrain oddiw'rth y gorllewin. Ac nid ydym yn beio arnynt am wrthwynebu y pethau hyny oedd yn groes i'w meddyliau: ond ni ddylent hwythau feio ar Mr. Phillips am beidio cyfyngu ei hun at y mater a achlysuodd y ddadl; oblegid, gan fod rhai o'r Eglwyswyr yn ymosod mor ffyrnig a didrugaredd ar yr Ymneilldŵwyr, pa ryfedd os cariodd ef y rhyfel i wersyll y blaid wrthwynebol, trwy ddangos fod gan yr Ymneilldŵwyr resymau cryfach yn erbyn yr Eglwys Sefydledig nag sydd gan yr Eglwyswyr yn erbyn Ymneillduaeth?

Er hyny, nid oes yn yr achos hwn ond dwy blaid yn anghymodlawn wrthwynebol i'w gilydd, sef y blaid Efengylaidd a'r blaid Babaidd : ac i'r blaid Babaidd y perthyn pawb sydd yn collfarnu yr holl eglwysi a fyddo yn ymneillduo oddiwrthynt fel eglwysi anghristionogol. Y mae hyn yn gymaint dirmyg ar y Bibl ag ydyw ar hawl dyn i farnu drosto ei hun. Gwreiddyn y drwg yw camolygiad ar yr hyn a elwir yn "olyniad apostolaidd." Y mae Esgobyddiaeth ynddo ei hun, o fewn terfynau cymedrol, yn ddigon diniwed : ond pan gysylltir ef âg athrawiaeth yr olynriad, y mae yn newid ei ansawdd ; ac wrth geisio diarddel pawb arall, y mae yn tori ei hun allan o gymundeb yr Eglwys Gristionogol. Nid ydym yn deall ychwaith fod *cymaint* perygl yn athrawiaeth yr "adenedigaeth ym Medydd," pe cymerid ef ar wahan oddiwrth bwnc yr olynriad. Y mae llawer o ysgrifenywyr gwir Brotestanaidd wedi dal fod genym le i ddysgwyl y gwna yr Arglywydd dderbyn y rhai a gyflwynir iddo mewn ffydd trwy fedydd. Yr hyn sydd yn arwain i ganlyniadau dinystriol yw tybied fod y weithred allanol bob amser yn effeithiol i wneyd cyfnewidiad yn nghyflwr y bedyddiedig, pan weinyddir y bedydd gan ryw bersonau awdurdodedig.

Dywedasom mai *camolygiad* ar yr olynriad apostolaidd yw gwreiddyn y drwg. Y mae pawb yn dal rhyw fath o olynriad. Yr ydym ein hunain yn dal dau fath, sef yr allanol a'r tufewnol ; ac yr ydym yn credu fod y ddau yma gan yr eglwysi Ymneillduol yn gyffredinol. Y cyntaf yw yr olynriad allanol. Nid ydym yn gosod llawer o bwys ar hwn ; oblegid dichon i amgylchiadau gyfodi, yn y rhai y dylid aberthu yr allanol er mwyn y tufewnol. Ond fel rheol gyffredin, mae yn amlwg na ddylai neb gymeryd arno swydd gweinidog yr efengyl heb ei osod ynddi gan ryw esgob neu esgobion. Y rhai sydd yn gydnabyddus â'r Testament Newydd neu â hanesiaeth eglwysig a ddeallant ein meddwl ar unwaith. Ond er mwyn yr anghyfarwydd, efallai y dylem ychwanegu ein bod yn ystyried pob gweinidog yr efengyl yn esgob, ac nad oes un gweinidog i fod yn uwch na'i frodyr, o *ran rnydd*, yn eglwys Crist. Y mae yr haneswyr mwyaf cyfrifol yn tystiolaethu mai fel hyn yr oedd yn yr oes gyntaf ar ol dyddiau yr apostolion : a dyma farn amryw o'r ysgrifenywyr mwyaf dysgedig yn Eglwys Loegr. Gall y Cymro uniaith gael profion digonol ar y mater yn narlithiau Mr. Phillips. Gwyddom fod llawer o Eglwyswyr yn barnu yn wahanol ; ac nid ydym am fynyd yn ammheu nad ydynt wedi ffurfio y farn hon yn gydwybodol. Ond gobeithiwn y credant hefyd ein bod ninnau wedi ystyried yr achos yn berffaith ddiuedd ; a'r casgliad y gorfodwyd ni i'w wneuthur er's llawer dydd ydyw, fod pob gweinidog yr efengyl, mewn undeb â'r eglwys, yn meddu hawl i neillduo y neb a farnont yn addas i waith y weinidogaeth. Afreidiol yw treulio amser i brofi hyn, gan ei fod wedi ei wneuthur eisoes gan Mr. Phillips, ac yn helaethach gan amryw awdwyr yn Lloegr ac ar y Cyfandir. Gwelir gan hyny fod gweinidogion yr Ymneilldŵyr yn meddu yr olynriad allanol yn gystal a gweinidogion yr Eglwys Sefydledig : ac, fe allai, pe olrheiniid y mater yn fanwl, y ceid allan mai *ordeiniad* yr Ymneilldŵyr, ar y cyfan, yw y mwyaf apostolaidd. Ond ar yr un pryd, pell oddiwrthym yw dwydedd fod ordeiniad esgobaethol yn anghristionogol, a bod yr Eglwys Esgobaethol yn eglwys anghristionogol.

Ond o gymaint ag y mae yr enaid yn rhagori ar y corff, felly y mae yr olynriad tufewnol yn rhagori ar yr un allanol. Yr hyn *yw* pob dyn, ac nid ei achau, sydd yn ei wneyd yn gymeradwy, neu yn anghymeradwy, ger

bron Duw; a'r hyn yw pob eglwys sydd yn profi pa un a yw yn eglwys i Grist. Yn lle ymdrafferthu yn ofer i ddilyn yr olyniad allanol trwy holl analwch aflachus y grefydd Babaid, cyngorem yr holl Eglwyswyr i edrych pa rai yw y nodau a roddodd Crist ei hun i adnabod ei wir ganlynywr. "Wrth eu firwythau yr adnabyddwch hwynt." "Wrth hyn y gwybydd pawb mai dysgyblion i mi ydych, os bydd genych gariad at eich gilydd." Y rhai hyn a'u cyffelyb yw y nodau wrth ba rai y mae Crist yn ein dysgu i adnabod y wir eglwys; a'r rhai hyn y mae Ysbryd Crist yn mhob oes yn eu harddelwi. Pe b'ai yr Eglwyswr mwyaf uchelfrydig yn canfod yr arwyddion hyn ar gynulleidfa o grefyddwyr yn nghanol crasdiroedd Affrica, beth bynag fyddo eu ffurfiwodraeth eglwysig, a'u dulliau allanol o addoli, a pha fodd bynag y casglwyd hwynt at eu gilydd, y mae yn rhwym o'u cydnabod fel eglwys i Grist; ac, os gwrthoda, y mae yn nodi ei hun fel un o ddysgyblion anghrist.

Canlyniad naturiol i bwnc yr olyniad yw yr helynt a wneir ynghylch y *sism*. Y mae Mr. Phillips yn dyfynu y geiriau a ganlyn o'r "Cymro," am Awst 20, 1851. "Nid oes ond un eglwys mewn gwlad. Yn nhir Groeg, nid oes ond Eglwys Groeg; yn Rhufain, nid oes ond Eglwys Rhufain; ac yn Lloegr, nid oes ond Eglwys Loegr. Rhwyg oddiwrth yr Eglwys yw sefydliad crefyddol arall." Y mae y dyn hwn yn haeddu parch am ddyweyd ei feddwl yn onest, pwy bynag ydyw. Ond goddefed i ni grybwyll fod amryw bethau yn ei ddywediad yn dywyll fel y fagddu. Nid oes yma un gair o son pa un yw y wir eglwys yn Prwsia, a Ffrainc, a Rwsia, a Sweden, ac America. Y mae hwn yn bwne dyddorol, a byddai yn dda genym gael rhyw gyfarwyddyd syml i adnabod yr eglwys yn *mhob* gwlad. Ai Esgobyddiaeth sydd yn cyfansoddi y wir eglwys? Os felly, y mae genym ddwy wir eglwys yn ymladd â'u gilydd yn Lloegr, ac America, ac yn bendifaddeu yn yr Iwerddon. Ai undeb â'r llywodraeth sydd yn cyfansoddi y wir eglwys? Os felly, y mae yr Eglwys Henaduriaethol yn wir Eglwys yn Scotland, a Prussia, a rhai gwledydd eraill; ac yn America nid oes yr un wir eglwys. Ai cymanfa o swyddogion yr eglwys mewn unrhyw wlad sydd yn meddu hawl i benderfynu pa un yw y wir eglwys? Os felly, yr ydym mewn mwy o anhawsder nag erioed; oblegid y mae Eglwys Scotland wedi troi ei hun yn Henaduriaethol, ac yr oedd wedi gwneuthur hyny pan oedd Scotland yn deyrnas annibynol: ac y mae hen Eglwys yr Iwerddon wedi gwrthod troi oddiwrth Babyddiaeth; ac yr ydym yn ofni hefyd, os cymanfa o swyddogion eglwysig sydd i benderfynu, mai gormod gwaith yw profi fod Eglwys Loegr yn wir eglwys o gwbl: oblegid, er fod Eglwys Loegr wedi cynnal cymanfaoedd ar ol y Diwygiad, nid trwy rinwedd nac awdurdod unrhyw gymanfa o'r fath hyny y trowyd hi o fod yn Eglwys Babaid i fod yn Eglwys Brotestanaidd.

Sonir weithiau mai yr un yw Eglwys Loegr yn mhob oes, ond yn unig ei bod wedi ymddwygio yn amser Harri yr Wythfed. Nid ydym yn dywedyd dim yn erbyn hyn, er nad ydym yn deall yn hollol pa beth sydd yn cyfansoddi yr undeb y sonir am dano. Ond os oes dim gwerth yn y rheswm hwn, y mae yn gystal rheswm o blaid yr Ymneilldwiwyr ag ydyw o blaid yr Eglwys Sefydledig. Yr oedd yr hen eglwys yn y wlad hon yn barnu fod y Pab yn rhan hanfodol o honi fel ei phen: ac os oedd ganddynt hwy hawl i dori ymaith y pen, gellid meddwl fod gan eraill yr un hawl i dori ymaith yr esgobion. Fe allai y dywedir na wnaethant hwy ddim ond

myned yn ol at yr hyn oedd yr eglwys ar y cyntaf. Da iawn oedd hyny : ond os oedd ganddynt hwy hawl i fyned yn ol at yr hyn a farnent hwy yn drefn apostolaidd, onid oedd gan yr Ymneilldwiyr hawl i fyned yn ol at yr hyn a farnent hwythau yn drefn apostolaidd ? Ac os yw Eglwys Loegr yn wir eglwys, er ymwrthod â'r pab, ac er cael ei diarddel gan Eglwys Rhufain, paham nas gall Eglwys Ymneillduol fod yn wir eglwys er ymwrthod â'r ddwy, ac er cael ei diarddel gan y ddwy ?

Nid ydym yn gwadu nad yw ymrwygiad, neu *sism*, fel y gelwir ef, yn ddrwg. Ond mewn cysylltiad â hyn y mae dau beth a grybwyllir gan Mr. Phillips yn dra theilwng o sylw. Yn gyntaf, dichon fod *sism* mewn eglwys, yn gystal ag *oddiwrth* eglwys. Felly, y mae y Pusiaid eu hunain yn sismaticiaid ; oblegid y maent yn creu plaid ac ymraniad yn yr Eglwys ; ac ni fu erioed ymddygiad mwy sismaticiaidd na'r eiddo Esgob Exeter, pan yr ysgrifennodd mor haerllug i wrthwynebu yr archesgob. Yn ail, os yw rhwygo *oddiwrth* yr Eglwys yn ddrwg, mae yn amlwg mai y rhai sydd yn achosi y rhwyg yw y rhai sydd yn euog o'r drwg. Gan hyny, yr esgobion oedd y sismaticiaid yn amser y Puritaniaid, a'r esgobion oedd y sismaticiaid yn amser y diwygiad Methodistiaid.

Wrth drafod y testun hwn, y mae rhai ysgrifenyddwyr eglwysig wedi rhoddi lle mawr i Cora, Dathan, ac Abiram. Pe craffent ychydig yn fanylach, deallent yn fuan mai dyben y gwŷr hyny oedd cynnal i fyny yr hen olyniaid yn nheulu Reuben y cyntafanedig, pan oedd yr Arglwydd yn codi teulu Aaron i'r offeiriadaeth. Felly, mae yn hawdd gweled mai gwŷr yr olyniaid oedd Cora, Dathan, ac Abiram. Hyderwn fod hyn yn ddigon am Cora, Dathan, ac Abiram ; ac yn ddigon hefyd am y Pusiaid Cymreig.

---

## NODIADAU AR LYFRAU.

*Prize Essay of the Rhuddlan Royal Eisteddfod. Welsh Highland Farming : or the system best adapted for the cultivation of the Uplands of Wales, with the best mode of selection and profitable management of Stock.* T. Gee, Denbigh.

*Traethawd Arobryn Eisteddfod Rhuddlan. Amaethyddiaeth Ucheldiroedd Cymru.* T. Gee, Dinbych.

"FEL hyn yr oedd fy nhad yn gwneuthur o fy mlaen." Dyma iaith llawer o hen amaethwyr parchus oddeutu can' mlynedd yn ol ; a charnoedd cyn hyny, pan oedd yr hen Gyrrus o Ial yn eu cynghori i ddiwygio : a dyma iaith ambell un yn ein dyddiau ninnau, er yr holl ymdrech i oleuo y wlad trwy yr argraffwasg. Y mae rhai wedi cadarnhau rhagfarn yr amaethwyr Cymreig, trwy ormod awydd i ddwyn i mewn drefniadau newyddion o Loegr neu yr Alban, heb ystyried y dynt yn gweddu i'r tir neu yr hinsawdd. Ond nid yw y bai hwn yn perthyn i'r traethawd sydd yn awr ger ein bron. Y mae yn llawn o sylwadau ymarferol, ac wedi ei gyfansoddi gyda golwg neillduol ar ucheldiroedd Cymru. Dywedai y Beirniaid yn Eisteddfod Rhuddlan am y traethawd hwn fel y canlyn :—

"'Hiraethog.' Ysgrifenydd hwn mewn Seisneg eglur iawn, gan un hollol gydnabyddus â rhandiroedd mynyddig Gogledd Cymru, fel y maent, ac fel y dyleni fod, calon yr hwn sydd yn llawn gwresogrydd tuag at ei wladwyr, heb ddirywio i dueddgarwch dallbleidiol. Y mae yn feddiannol ar wybodaeth drwyadl o holl fanylion amaethyddiaeth ar y mynyddoedd, gyda golwg ar y tir a'r anifeiliaid, ac yn nodi allan yn dra

medrus pa welliadau a ellir yn fanteisiol eu mabwysiadu yn mhob dobarth. Ei gynghor sydd werthfawr i'r tîrfeddianwyr yn gystal ag i'r deiliaid, y naill fel y llall.

Yr ydym yn ystyried y traethawd hwn yn dra theilwng o'r gwobr. I'r pwyllygor y perthyn penderfynu pa un a fydd i lyfryn mor werthfawr gael ei gyfieithu i iaith y mynyddoedd, er mwyn ei ddobarthu yn gyffredinol."

Yr ydym wedi galw sylw yn y "Traethodydd" at yr anghen am ysgol amaethyddol i'r Cymry; ac y mae yn gysur genym weled yr un amcan yn cael ei gefnogi gan awdur y traethawd hwn yn y dyfyniad a ganlyn:—

"Y mae un peth—un prif gynhyrfydd symudiad cyffredinol, yr hwn yr ydym ni yn Nghymru yn fyr o hono; ond yr hwn y mae ein cymydogion mwy llwyddiannus yn Lloegr ac Ysgotland yn ei fwynhau, ac yn derbyn lles oddiwrtho. Nid oes genym yn Coleg Amaethyddol Cymreig. Nid oes genym gynllun-dyddynod Cymreig.

Yn awr, nid yw gwelliadau o fawr neu ddim lles, os na ledanir hwy. Mewn gwirionedd, nid oes genym ysgolion amaethyddol yn Nghymru i hyfforddi y darpar-ffarmwyr mewn cyfundrefnau addefedig a rhagorol o adlyg amaethyddol! Y fath sefydliadau a'r rhai hyn, yn ein plith ein hunain, a gaent effaith lawer mwy lleol a chyffredinol nag a dderbynai y wlad byth drwy ddanfon ei meibion i Lloegr neu i Ysgotland i ddyagu amaethyddiaeth. Diau y gwnai tanygrifaid bychan iawn gynnal coleg amaethyddol, a dau gynllun-dyddyn, y naill i'r ucheldir a'r llall i'r iseldir, mewn cymydogoethau cyfaddas i'r ddwy drefn o drin tir. Ac yma eto rhaid i mi ddywedyd mai gwell yw defnyddio ein moddion cartrefol ein hunain yn hytrach na phwyso ar unrhyw gymhorth pellenig. Pa mor deilwng a chymhwys bynag y gall y sefydliadau fod yn Lloegr, y mae er hynny ragfarnau lleol a naturiol, a theimladau anghytunol i ymdrin â hwynt, y rhai y mae yn haws cael gafael ac ymosod arnynt gartref nag ymhell oddicartref. Bydd neillduollion yn wastad yn perthynu i bob gwlad gyda golwg ar y tir, yr hinsawdd, y bobl, a'r anifeiliaid; a diammhau y deallir y rhai hyn yn haws na y fan a'r lle, nag ymhell oddiyno. Effeithia yr hyn a welir yn llawer mwy ar feddwl y werin, ac yn wir ar ddydolryw yn gyffredinol, na'r hyn a ddarllenir neu a dderbynir trwy gyfrwng llyfrau, darlithiau, neu ymddyddau."

*Annbyniaeth a Wesleyaeth: y ddwy Gyfundrefn Eglwysig a Gweinidogaethol, wedi eu cyferbynu â'u gilydd, â rhestr ac Ysgrhythrau.* Gan W. ROWLANDS.

NID ydym yn teimlo fod galwad arnom i ymyryd yn y ddadl hon; gan hynny, ni chawn ond sylwi fod y Methodistiaid Wesleyaidd yn ymddangos i ni mor bell oddiwrth y safon ar un llaw, ag yw y Methodistiaid Calfinaidd ar y llaw arall. Yn mysg y Wesleyaidd, y mae yr awdurdod yn ormodol yn nwyllaw y gweinidogion; ond mae rhai o eglwysai y Methodistiaid Calfinaidd yn gweithredu weithiau heb un gweinidog. Gyda phob parch i Mr. Rowlands a'i frodyr, ac i ddaconiaid parchus y Methodistiaid Calfinaidd, yr ydym yn rhwym o ddyweyd y dylai fod mwy o gydweithrediad rhwng y gweinidogion a'r diaconiaid. Pa fodd bynag, y mae Mr. Rowlands yn ysgrifenu yn rymus; a byddai darllen ei lyfr yn lles mawr i lawer, yn enwedig i'r Methodistiaid Calfinaidd.

*Nineveh.* Gan LAYARD.

Y MAE traddodiad wedi bod mewn rhai gwledydd am ddyinion yn cysgu mewn ogof am oesoedd, ac yn talu ymweliad wedi hynny i'r manau lle yr oeddynt unwaith wedi bod yn adnabyddus. Er nad yw hyn ond dechymyg plentynnaidd, y mae ynddo ryw beth tarawiadol; ac y mae Washington Irving, ac eraill, wedi gwneyd defnydd da o hono. Ond dyma un o brif ddinasoedd y byd, wedi bod yn guddiedig mewn gwirionedd am gannoedd o oesoedd, ac yn dyfod i'r golwg yn y dyddiau hyn trwy lafur Mr. Layard. Er nad yw y dyinion eu hunain wedi eu dwyn yn ol i fywyd, mae genym ddarlun cywir o honnynt hwy a'u gweithred-iadau. Yn lle eu trosglwyddo hwynt i lawr atom ni, i roddi tystiolaeth mewn geiriau am eu hen arferion, yr ydym ni yn cael ein trosglwyddo yn ol atynt hwy, i weled â'n llygaid ein hunain pa fodd yr oeddynt yn byw yn yr oes hono, a pha fath rai oeddynt gartref. Y mae y darganfyddiad hwn yn ateb dyben buddiol,

pe na byddai yn gwneyd dim ond ein hargyhoeddi nad ydym yn rhagori cymaint mewn celfyddyd ag y mae llawer yn tybied. Ond yr effaith penaf o hono yw rhoddi prawf newydd o wirionedd y Bibl. Yr ydym yn ddiolchgar i Mr. Rees, o Lanymddyfri, am anrhegu y Cymry â'r llyfr gwerthfawr hwn. Rhoddwyd dwy ysgrif arno yn y "Traethodydd," pan ddaeth allan yn Seisneg; a chododd y rhai hyny awydd mewn llawer i wybod mwy am dano: ond yn awr, dyma y llyfr ei hun ger bron y Cymry.

*Yr Athraw Cerddorol.* Gan DAVID HUGHES.

*Blodau Cerdd* (Cyhoeddiad Misol).

DYMNEM unwaith eto ddwyn ar gof i holl swyddogion yr eglwysi y ddyledswydd o gefnogi a meithrin caniadaeth grefyddol. Yr ydym yn addef fod llawer o ganu anweddu wedi ei ddwyn i mewn y blyneddau diweddaf i rai capeli: ond dichon mai gormod pellder rhwng yr hen a'r ieuainc a fu yn achos o hyny, a bod cyfran o'r bai yn gorphwys ar yr hen bobl. Hyd y gwelsom ni, mae yn rhaid i ni dystiolaethu nad yw y bobl ieuainc yn anhawdd eu harwain, os arferir tiriondeb tuag atynt.

Y mae yr "Athraw Cerddorol" yn cynnwys llawer mewn ychydig. Deallwn fod yr awdur wedi ennill cymeradwyaeth uchel fel cyfansoddwr cerddorol. "Blodau Cerdd," sydd gyhoeddiad bychan tlws. Y mae dewisiad y tónau yn dangos chwaeth o'r fath oreu: a cheir ynddo hefyd wersi yn mhob rhifyn ar egwyddorion cerddoriaeth. Os bydd y misolyn hwn yn offerynol i daenu yr un canu trwy Gymru ag a glywir yn y dref lle cyhoeddwr ef, bydd yn wasanaethgar i'w genedlaeth.

*Methodistiaeth Cymru: sef hanes blaenorol a gwedd bresennol y Methodistiaid Calfinaidd yn Nghymru; o ddechreuad y Cyfundeb hyd y flwyddyn 1850.* Gan y Farch. JOHN HUGHES, Liverpool. Cyfrol I.

"DEUPARTE gwaith yw ei ddechreu." Llawer fu o siarad, mewn cynianfaoedd a lleoedd eraill, am faith flyneddau, ynghylch casglu a chyhoeddi hanes dechreuad a chynnydd cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd yn Nghymru; ond diflanu y byddai y siarad gyda yr anadl oedd yn ei swnio, heb fod dim yn dyfod i weithrediad. O'r diwedd, dyma Mr. Hughes yn dechreu o ddirif ar y gorchwyl; ac wele yn awr y gyfrol gyntaf o "Fethodistiaeth Cymru" yn llyfr hardd a sylweddol ar ein bwrdd. Yr oedd eisieu ymroad egniol ac ymchwiliad manwl at y fath waith; ac y mae yn hawdd canfod nad arbedwyd unrhyw lafur tuag at ei wneyd mor gryno a chyflawn ag yr oedd bosibl. Yr oedd raid casglu y defnyddiau o liaws o leoedd, ac oddiwrth nifer mawr o bersonau; ac yr oeddynt yn dyfod i law yn anghymalog, fel swp o esgyrn anghysylltiol; ond y maent yn dyfod oddiwrth yr awdur yn un cyfanwaith medrus, megys corff trefnus a rheolaidd.

Ni phetruswn ddywedyd mai dyma un o'r llyfrau mwyaf deniadol a gyhoeddwyd erioed yn y Gymraeg. Mae pawb, bydded y cynneddfau mor fawrion neu mor fychain ag y byddont, yn hoff o hanes; a cheir yma rai o'r hanesion rhyfeddaf a mwyaf dyddorol. Mae y tröedigaethau, yr erlidigaethau, y gwaredigaethau, a'r amrywiol bethau eraill a gofnodir am yr hen Fethodistiaid, ar gyfrif eu harbenigrwydd nodedig, yn cydio yn afaelgar yn y meddwl a'r holl anwydau. Mae yma fynegiadau gwirioneddol sydd yn hynotach na phob math o chwedlau dychymybol; ac y maent, o ran eu hansawdd a'u tuedd, yn haeddu darlenniad ac ystyriaeth y Cymry yn gyffredinol. Mae pob Cymro sydd yn caru y wlad a'i magodd, yn hoffi astudio ei hanes ar hyd yr oesoedd; ac nis gellir bod ond yn ddiwygiol mewn gwybodaeth am helynt Cymru er ys canrif a mwy o flyneddau, heb fod yn gyfarwydd yn y ffeithiau a gofnodir yn "Methodistiaeth Cymru." Ceiff y Cymro duwiolfrydig, o ba enwad bynag, wrth olrhain gwyर्थiau gras ei Dduw yn mysg ei genedl, ei foddhau a'i addysgu; tra i'r Methodist Cymreig, yn andan neb, y bydd dilyn cofodiadau y llyfr hwn yn ddywyenydd o'r mwyaf. Daw,

wrth ei ddarllen, yn hyddysg yn ei hen achau crefyddol; a cheiff y fraint a'r hyfyrdwch o gymdeithasu â'r tadau, y rhai y mae efe wedi myned i mewn i'w llafur.

O ran dullwedd iaith, mae Mr. Hughes yn ganmoladwy am symledd ac eglurdeb; mae yn ysgrifenu yn rhwydd a naturiol, heb arfer dim o'r chwyddiaith a'r coegddyddysg sydd yn dyfritho cyfansoddiadau rhai dynsodion a fyfent gael eu cyfrif ymhlith prif ysgrifenywyr Cymru. Yr ydym wedi sylwi mai un neillduol-rwydd ar ei holl ysgrifeniadau ef, yw ei ddefnyddiad medrus o'r droellymadrodd a elwir *antithesis*—cyferbyniaeth, neu wrthosodiad. Gwelsom rai awduron yn ceisio at hyn yn adwyddiannus, ac felly, wrth ymestyn at dlysi, yn syrthio i wrthuni; ond yn llaw Mr. Hughes, mae y fugyr hwn yn cael ei arfer yn briodol ac yn hardd. Gallasem roddi amryw o anghreiffitiau prydfferth allan o'r "Methodistiaeth;" ond y mae cyfyngder ein gofod yn ein gwahardd yn bresennol.

Mae pawb sydd yn gydnabyddus â'n cyfaill, Mr. Hughes, yn gwybod ei fod yn un nodedig am hynawaedd a sirioldeb tymher; ac nis gallwn lai na thybied ei fod yn ei fwynhau ei hun yn hyfryd wrth adysgrifio yr hanesynau am weddiâu "Robert Siôn, yr hen ddillad," a Robert Siôn Oliver—"y *cloesiau* wedi cario y dydd"—Siôn Moses y pregethwr yn gwahodd yr ymladdwr erlidgar i'r dafarn i gael peint o ddiôd gyda'u gilydd—ac eraill o gyffelyb fyrhaneion. Buasai rhai yn teimlo yn rhy sancteiddlan i goffâu nemor, os dim, am ddigrifwch diniwed yr hen dadau; eithr buasai yr hanes am danynt yn anghyflawn heb yr adroddiadau hyn, ac y mae eu darllen yn iechyd i'r ysbryd mwyaf pruddglwysus. Ond er ei holl serchogrwydd a'i sirioldeb, yr ydym yn cael hanesydd Methodistiaeth Gymreig ar amerau yn twymno yn ei ysbryd, yn gwneuthur cuchiau gerwin, ac yn dywedyd yn llym sm ac wrth rai personau. Wedi ei amgylchynu â'r fath amledd o brofion o seliau dwyfol ar lafurwaith y Methodistiaid, ac yn gweled ar yr un pryd offeiriad Pusiaidd yn estyn bys atynt, yn llaesu gweif, ac yn ysgrifed pen, gan waeddi, "Sism! sism! gweinidogaeth a sacramentau diawdurdo!" mae yn methu ymattal rhag eu dynoethi i bwrpas, a gweinyddu arnynt y fath gweillau ag nas gullant eu hanghofo y rhawg. Darllener yn neillduol y syrthiadau yn nhudalenu 240—243.

Sylwasom ar ychydig amryfuseddau wedi llithro i mewn o barth i enwau a dyddiadau, y rhai, yr ydym yn hyderu, a gânt eu diwygio yn yr Ail Gyfrol. Gan y bydd y gwaith hwn yn safon i'r oesau a ddel am ei hanesyddiaeth, nis gellir bod yn rhy fanwl gyda phethau o'r fath.

Y mae yn dda genym weled Mr. Hughes, yn nghanol ei holl drafferthion gweinidogaethol, yn ymröi ati i fod o wasanaeth i'w genedl trwy yr argraffwag. Nid ydyw ei feddwl na'i gorf yn gwybod beth ydyw eamwythder segur. Hir oes iddo i barhau ac i fyned rhagddo yn ei ddefnyddioldeb i wlad ei dadau! Byddwn weithiau yn ceisio dyfalu beth yw prif nodwedd y naill a'r llall o ddydion mawr Cymru. Am Mr. Hughes, fe dybygid fod ei ragoriaeth ef yn gynnwysedig, nid yn mawredd rhyw un ddawn benodol, ond mewn cydgysylltiad o wahanol ddoniau. Os na fernir ei fod yn gawr aruthrol o faint, fe wél pawb ei fod yn ddyd cyflawn, llunsiadd, a chymesur. Ceir ef yn hylaw a pharod at bob gorchwyl, ac yn weithiwr difeif yn mhob dim y gosodo ei law arno. Yn y pulpud, ar yr esgynlawr, yn y cyfarfod eglwysig, yn nghyfeisteddfod y gymdeithasfa, mewn ymddyddan cyffredin, ac felly wrth yr ysgrifenywedd,—mae efe yn llawn ei le yn y cyfan. Os nad yw yr afon yn ddofn iawn, hyny sydd am nad ydyw yn gul; gellir ei chroesi heb fodd, nid am fod ei dyfroedd yn ychydig, ond am ei bod wedi ymledu dros lawer o dir.



# Y TRAETHODYDD.

## LLYFR Y PROPHWYD HOSEA.

PROPHWYD i'r deg llwyth oedd Hosea; a thybygir iddo brophwyd ynghylch triugain mlynedd! Ei gyfoedion yn Iowdea oeddynt Isaia a Mica; ac ymhlith y deg llwyth, Amos. Nis gwyddir dim am dano, ond ei fod yn "fab Beeri:" tebyg yr hanai o un o'r deg llwyth.

Crynodeb yn ddiau o'i bregethau dros gymaint o amser yw yr hyn a gynnwysir yn ei lyfr, sylwedd o'r hyn a draddodasai. Gwelwn yma y pechodau o'r rhai yr oedd y deg llwyth yn euog; eilun-addoliaeth a rwysgai yn benaf, a'i chymdeithion gwastadol, gormes, meddwod, ac anlladrwydd.

Un tra geirfyr o ran y modd o lefaru oedd Hosea, a buan yn fynych yw ei drwydded o un peth i'r llall: arferfa hefyd eiriau ar eu penau eu hunain, fel testun i'r hyn a ganlyn, yr hyn a eilw Esgob Horsley yn enwai anym-ddibynol (*nominative case absolute*). Aml hefyd y cyfnewidia yr ansodion *ti* ac *efe*, *chwi* a *hwynt*; felly hefyd am y rhifau *ti* a *chwi*, *efe* a *hwynt*. Geilw Israel *ti*, gan olygu y genedl; a geilw Israel *chwi*, gan olygu y llwythau. Ond nid yw y pethau yn peri un dyryswech, pan ganfyddir rhaniadau yr araeth, yr hyn yw yr anhawsdra mwyaf.

Gwelwn yma ddau beth yn enwedig, sef tuedd ddiymdro y bobl at eilun-addoliaeth, a hirymaros Duw tuag atynt.

### PENNOD I.

- 1 Gair yr Arglwydd yr hwn a ddaeth at Hosea, mab Beeri, yn nyddiau Usia, Iotham, Achas, Hesechia, breninoedd Iowda, ac yn nyddiau Ieroboam, mab Ioas, brenin Israel.
- 2 Dechreu gair yr Arglwydd trwy Hosea *oedd*, pan ddywedodd yr Arglwydd wrth Hosea,—  
Dos, cymer iti wraig buteinllyd a phlant puteinllyd;<sup>1</sup>  
Canys gan buteinio puteinia y wlad,  
Yn hytrach na myned ar ol yr Arglwydd.<sup>2</sup>
- 3 Yna aeth a chymerodd Gomer, merch Diblaim;

<sup>1</sup> Yn llythyrenol, "wraig puteinderau a phlant puteinderau." Sylweddeiriau a arferir yn aml yn yr Hebraeg yn lle yr ansawddeiriau.

<sup>2</sup> Arwydda hyn yn eglur mai eilun-addoliaeth yw y puteindra yr oedd Israel yn euog o hono. "Yn hytrach,"—nid oeddynt yn dilyn yr Arglwydd, ond eilunod. O herwydd hyn, meddylia rhai mai wrth "wraig buteinllyd," &c., yr amcenir gwraig eilun-addolgar: ond ni fyddai hyn yn arwyddnodi pechod y bobl. O ran y wraig a'r plant, tuedd buteinllyd yn ei ystyr llythyrenol yn ddiau a feddylir. Tybia rhai i'r hyn a adroddir yma gymeryd lle yn wirioneddol, ond eraill a dybiant mai dychymyg yw, neu yr hyn a amlygwyd i'r prophwyd mewn gweledigaeth. Os cysylltwm yr hyn a ddywedir yma a'r hyn a gynnwys y drydedd bennod, yr ystyr olaf yw yr un mwyaf tebygol.

- 4 A beichiogodd hi a dygodd iddo fab : a dywedodd yr  
Arglwydd wrtho,—  
Galw ei enw Iesreel ;<sup>1</sup>  
Canys yn mhen ychydig ymwelaf  
Waed Israel ar dŷ Iehw,  
A therfynaf deyrnas tŷ Israel :
- 5 A bydd ar y dydd hwnw,  
Y toraf fwa Israel yn nyffryn Iesreel.<sup>2</sup>
- 6 A beichiogodd hi eilwaith a dygodd ferch ; ac efe a ddy-  
wedodd wrtho,—  
Galw ei henw, "Heb-drugaredd ;"  
Canys ni chwanegef eto drugarhau wrth dŷ Israel,  
Fel gan fadden y maddeuwyf iddynt :<sup>3</sup>
- 7 Ond wrth dŷ Iowda mi a drugarhaf ;  
Ië, achubaf hwynt trwy 'r Arglwydd eu Duw ;  
Ac ni wnaf eu hachub trwy fwa, neu gleddyf,  
Neu ryfel, neu feirch, neu farchogion.
- 8 Pan ddyddyfnodd hi "Heb-drugaredd," yna beichiogodd a  
9 dygodd fab : ac efe a ddywedodd,—  
Galw ei enw, "Nid fy mhobl ;"  
Canys chwi nid fy mhobl ydych ;  
Minnau ni fyddaf yn *Dduw* i chwi :
- 10 Eto bydd nifer plant Israel fel tywod y môr,  
Yr hwn nis mesurir ac nis cyfrifir ;  
A bydd yn y man lle y dywedir wrthynt,  
"Nid fy mhobl ydych,"  
Y gelwir hwynt yn blant y Duw byw :
- 11 A chesglir plant Iowda a phlant Israel ynghyd,  
A gosodant arnynt un Pen,  
Ac esgynant o'r wlad.<sup>4</sup>  
O herwydd mawr *fydd* dydd Iesreel.<sup>5</sup>

## PENNOD II.

- 1 Dywedwch wrth eich brodyr, "Fy mhobl ;"  
Ac wrth eich chwiorydd, "Trugaredd."  
2 Ymddadleuwch â'ch mam,<sup>6</sup> ymddadleuwch  
(Canys hi—nid fy ngwraig i yw ;  
Minnau—nid ei gŵr hi *ychoyf*) ;

<sup>1</sup> Dyma y lle y preswyliat Iehw a'i ganlynwyr yn fynych ynddo : yr oedd ganddynt balas yno. Wrth "waed Iesreel" y deallir y gwaed a dywalltwyd gan Iehw a'i had. Eridwyr creulawn pobl Dduw oeddent.

<sup>2</sup> Tori 'r "bwa" oedd dyddymu holl allu milwraidd Israel : cynnwysair yn y "bwa" holl offerynnau rhyfel.

<sup>3</sup> Felly yn ddian y dylai y geiriau fod. Gwel *Essay* ii. 9.

<sup>4</sup> Sef, gwlad eu caethiwed—Babilon.

<sup>5</sup> Nid y lle neu'r ddinas a feddylir yma, megys yn *ada.* 4, ond pobl Dduw, Israel, yn dychwelyd o'r caethiwed. Ystyr y gair yw, "haudad Duw." Gwel *pen.* ii. 23.

<sup>6</sup> Y "fam" oedd y genedl yn gyffredin ; a'r rhai a gynghorir i ymddadlau â hi oedd-  
ynt yr ychydig dduwiollon yn y wlad. Yr oeddylnt i gydnabod addolwyr Duw fel eu  
"brodyr" a'u "chwiorydd," fel pobl Dduw, ac yn wrthddrychau "trugaredd," ond y  
genedl eilun-addolgar fel gwraig odinebus.

- Fel y symudo ei phuteindra o'i gwyneb,  
A'i godineb oddi rhwng ei bronau;<sup>1</sup>
- 3 Rhag y diosgwyf hi yn noeth,  
Ac y gadawwyf hi fel yn nydd ei genedigaeth,<sup>2</sup>  
Ac y gwnelwyf hi fel y diffeithwch,  
Ac y gosodwyf hi fel tir sych,  
Ac y lladdwyf hi â syched,
- 4 Ac na thrugarhawyf wrth ei phlant,  
Am mai plant puteindra ydynt.
- 5 Gan y puteiniodd eu mam,  
Y parodd warth, yr hon a'u hymddygodd,—  
Gan y dywedodd, " Af ar ol fy nghariadau,<sup>3</sup>  
Sy'n rhoddi fy mara a'm dwfr,  
Fy ngwlan a'm llin,  
Fy olew a'm diodydd ;"<sup>4</sup>
- 6 O herwydd hyn, wele mi a gauaf dy ffordd â drain ;  
Iâ, muriaf fur, fel na chaffo ei llwybrau ;
- 7 A dilyn a wna ei chariadau, ond ni oddiwedda hwynt ;  
A chais hwynt, ond nis caiff :  
Yna dywed, " Af a dychwelaf at fy ngŵr cyntaf ;  
Canys gwell oedd arnaf y pryd hyny nag yn awr."
- 8 Ond hi ni wyddai mai myfi  
A roddasai iddi yr yd a'r gwin a'r olew,  
Ac a amlhasai iddi yr arian a'r aur,  
A gyftwynasant i Baal :
- 9 Am hyn dychwelaf a ohymeraf ymaith  
Fy yd yn ei amser, a'm gwin yn ei dymmor ;  
A dygaf ymaith fy ngwlan a'm llin,  
Oeddent er cuddio eu noethni.<sup>5</sup>
- 10 Y pryd hyn hefyd dadguddiaf ei ffolineb <sup>6</sup>  
O flaen llygaid ei chariadau ;  
Ac ni wared neb hi o'm llaw :
- 11 A dyddymaf ei holl orfoledd,—  
Ei chylch wyl, ei newydd loer,  
A'i Sabbath, a phob ymgynnull arbenig ;<sup>7</sup>
- 12 Difrodaf hefyd ei gwinwydden a'i ffigysbren,  
Y rhai y dywedodd am danynt,—<sup>8</sup>  
" Y rhai'n sydd genyf, canys rhoddodd fy nghariadau  
hwynt i mi ;"

<sup>1</sup> Dengys puteiniaid beth ydynt, yn enwedig yn eu "gwyneb" ac yn eu "bronau."

<sup>2</sup> Dydd "genedigaeth" y genedl oedd eu dyfodiad o'r Aipht.

<sup>3</sup> Y "cariadau" oeddynt eilunod, neu eilun-oddolwyr.

<sup>4</sup> "Diodydd" oeddynt win, diod gadarn, &c. ; pob peth a yfent, oddieithr dwfr.

<sup>5</sup> Sef y plant. Felly hefyd y plant a feddylir yn yr adnod flaenorol, "A gyftwynasant i Baal."

<sup>6</sup> Neu, gwaeledd, neu afendid ; ond ffolineb, neu ynfyrwydd, sydd fwyaf cymhwys.

<sup>7</sup> Felly y cawn y geiriau, yn y rhif unigol.

<sup>8</sup> Nid "gwobrau" a feddylir, ond dylid ei gyfieithu fel hyn, gan mai rhagenw ydyw a flaendoddir â rhagosodydd (*preposition*), ac eglurha "y rhai" o flaen y parwyddiad, "dywedodd." Dyma nodwedd y iaith, ac felly yn y Gymraeg. Gwel *Ier.* i. 2 ; "Yr hwn y daeth gair yr Arglwydd ato ?" "yr hwn" ac "ato," yr un ydynt. Gwel hefyd yr adnod nesaf.

- Am hyny troaf hwynt yn goedwig,  
Fel y bwytao hwynt fwystfl y maes :
- 13 Ymwelaf arni hefyd ddyddiau Baalim,  
Y rhai yr aroglarthodd iddynt,  
Pan y gwisgodd ei modrwy a'r thlws,  
Ac y rhodiodd ar ol ei chariadau,  
Ac yr anghofiodd fi, medd yr Arglwydd.
- 14 O herwydd hyn, wele myfi a'i denaf,<sup>1</sup>  
Ac a'i dygaf i'r anialwch ;  
Yna llefaraf yn garedig wrthi,
- 15 A rhoddaf iddi ei gwinllanoedd oddi yno,<sup>2</sup>  
A dyffryn Achor yn ddrws gobaith ;  
A chân yno<sup>3</sup> fel yn nyddiau ei hieuenctid,  
Ac fel yn nydd ei hesgyniad o wlad yr Aipht.
- 16 A bydd yn y dydd hwnw, medd yr Arglwydd,  
Y geilw fi, "Fy ngŵr ;"  
Ac ni eilw fi mwyach, "Fy Maal :"
- 17 Ië, tynaf enwau Baalim o'i genau,  
Fel nas coffeir hwynt mwyach wrth eu henwau :<sup>4</sup>
- 18 Gwnaf erddynt hefyd gyfammod, y dydd hwnw,  
A'r anifel y maes, ac â'r adar y nefoedd,  
Ac â'r ymlusgiad y ddacur ;  
A'r bwa, a'r cleddyf, a'r rhyfel  
A doraf ymaith o'r wlad ;  
A pharaf iddynt orwedd mewn diogelwch.
- 19 A dyweddiaf di i mi fy hun yn dragywydd,<sup>5</sup>  
Ië, dyweddiaf di i mi fy hun  
Mewn cyfiawnder ac mewn barn,  
Mewn trugaredd hefyd, ac mewn tosturiaethau ;
- 20 Ië, dyweddiaf di i mi fy hun mewn ffyddlondeb ;<sup>6</sup>  
Ac adnabyddi yr Arglwydd.

<sup>1</sup> Golyga y genedl fel benyw, a ddenir gan ei chariadau : am hyny arferir ymadrodd perthynol i'r fath amgylchiad. Ei dygiad i'r "anialwch" oedd ei dygiad i gaethiwed.

<sup>2</sup> Sef, o'r anialwch ; rhoddai iddi addewid yno o adferiad eu gwinllanoedd. Er fod "Achor" yn arwyddo "trallod," eto byddai yn "ddrws gobaith," yn agoriad gobeithiol o ddychweliad ; ac er i blant Israel gael "trallod" yno, eto cafodd Josua yno addewid o berchenogi gwlad Canaan ; *Ios. viii. 1.*

<sup>3</sup> Sef, yn nyffryn Achor, neu drallod.

<sup>4</sup> Ymddengys yr arferai Israel alw y gwir Dduw yn "Beal ;" ystyr y gair yw Arglwydd, neu berchenog. Ond gan y gelwid gau-dduwiau wrth yr enw, ni fynai Duw ei alw felly. Enwau a defodau, diniwed ynddynt eu hunain, dylid ymwrthod â hwynt, pan eu cysylltir âg eilun-addoliaeth. "Baalim" yw y rhif liosog o Beal, a gellir eu henwi Baalau yn ein hiaith ni. Yr oedd amryw gau-dduwiau dan yr enw hwn, megys Baalpeor, Baalsephon, Baalgad, Baalammon, &c.

<sup>5</sup> Deallir hyn yn ol yr ammod a wnaed âg Israel : yr oedd yr addewid o Ganaan (*Gen. xiii. 15*) wedi ei gwneyd yr un modd, a'r addewid o ran yr offeiriadaeth. Ar ammod o ufudd-dod y sefydlwyd yr oruchwyliaeth.

<sup>6</sup> Addawa Duw i ymddwyn tuag ati, fel gŵr, mewn "cyfiawnder a barn"—mewn ymddygiad cyfiawn a chywir tuag ati, a thrwy ei hamddiffyn rhag camwedd eraill, a choebi ei gelynon. Chwanega "drugaredd" a "thosturiaethau"—teimladau yn dynodi serch, cariad, a chydymdeimlad yn y radd uchaf. Diwedda gyda "ffyddlondeb," hyny yw, fel gŵr, neu yn ei addewidion iddi.

- 21 A bydd yn y dydd hwnw yr atebaf, medd yr Arglwydd—  
Yr atebaf y nefoedd,  
Hwythau a atebant y ddaear,  
22 A'r ddaear a ateb yr yd a'r gwin a'r olew,  
A hwythau a atebant Iesreel:<sup>1</sup>  
23 Canys hauaf hi i mi fy hun yn y tir,  
A thrugarhaf wrth "Heb-drugaredd,"  
A dywedaf wrth "Nid-fy-mhobl,"  
Fy mhobl ydych chwi,  
A hwy a ddywedant, "Ein Duw ni ydwyt ti."

PENNOD III.

- 1 A dywedodd yr Arglwydd wrthyf eilwaith,—  
Dos, câr wraig, cariad cyfaill, ac yn odinebus,  
Yn ol cariad yr Arglwydd tuag at blant Israel,  
Er eu bod yn troi at dduwiau estronol,  
Ac yn caru costrelau gwin.<sup>2</sup>  
2 A phrynais hi i mi fy hun am bymtheg o arian, a homer o  
3 Haidd, a latak o haidd;<sup>3</sup> a dywedais wrthi,—  
Dyddiau lawer yr arosi am danaf;  
Na phuteinia, na fydd yn eiddo neb,  
Ac felly mi a fyddaf yn eiddo i ti:  
4 Canys dyddiau lawer yr erys plant Israel  
Heb frenin ac heb dywysog,  
Ië, heb aberth, ac heb ddelw,  
Heb ephod chwaith, na Theraphim.<sup>4</sup>  
5 Wedi hyn, dychwel plant Israel,  
A cheisiant yr Arglwydd eu Duw,  
A Dafydd eu brenin;  
Ac ofnant,<sup>5</sup> o herwydd yr Arglwydd,  
Ac o herwydd ei ddaioni, yn y dyddiau diweddaf.

<sup>1</sup> Wrth "Iesreel" y meddylir pobl Dduw, wedi dychwelyd i'w gwlad ei hun. Hynod fel y gosodir yma yr ymddibyniad sydd rhwng amryw ranau o'r byd gweledig; a Duw yn rheolydd, a dyn yn darbyn y lleahâd. "Ateb," yn hytrach na "gwrando," yw ystyr y gair gwreiddiol, a mwy cymhwys yw.

<sup>2</sup> Mae yr ail orchymyn hwn yn cadarnhau y dyb, mai dychwel neu weledigaeth, neu ynte adroddiad dammegawl, yw yr hyn a gynnwysir yn nechreu y bennod gyntaf. Nid oes un sail i feddwl, fel y dywed rhai, mai "Gomer" yw y wraig yma. Nid yw y gair am "wraig" yn dynodi priod, ond benyw; er yr arferir ef weithiau am wraig briod, eto nid yw felly yma, gan y dywedir i'r prophwyd ei "phrynu;" yr hyn nis gwnael, pe buasai eisoes yn wraig iddo. "Costrelau gwin:" yfent win yn nhemlau eu heilunod; *Barn. ix. 27*; *Amos ii. 8*.

<sup>3</sup> Y "latak" oedd hanner homer; homer oedd ynghylch wyth *brushel*. "Pymtheg," sef, *shacel* fel y tybir. Yr oedd *shacel* ynghylch hanner coron. Felly nid oedd yr arian yn ddwy bunt; a'r haidd oedd yn ddeuddeg pecaid. Gwel *Gen. xxxiv. 12*.

<sup>4</sup> Dywedir yma am ddefodau Israel, fel yr oeddynt cyn y caethiwed. "Teraphim" oeddynt ddelwau teuluaid. Gwel *Gen. xxxii. 19, 20*.

<sup>5</sup> "Ofni" yma a ddynoda holl deimladau a gweithredion gwir grefydd—addoli, gweddfo, talu dloch, &c. Parchent ac anrhydeddent Dduw o herwydd ei fawrhydi, a diolchent iddo o herwydd ei haelionus ddaioni.

## PENNOD IV.

- 1 Gwrandewch air yr Arglwydd, blant Israel,  
Gan fod dadl gan yr Arglwydd â thrigolion y wlad ;  
Am nad oes gwirionedd, na thrugaredd,  
Na gwybodaeth o Dduw, yn y wlad :
- 2 Tyngu, a chelwydda, a llad,
  - Lladrata hefyd a godinebu, a dorasant allan,
  - A gwaed a gyffyrddodd â gwaed.<sup>1</sup>
- 3 O herwydd hyn y galara y wlad,  
A nycha pob trigiannydd ynddi,  
Ynghyd â bwystfil y maes ac adar y nefoedd ;  
A physg y môr hefyd a ddyfethir.
- 4 Eto dyn ni rybuddia ac ni cherydda ddyw ;  
A'th bobl *ydym* megys yn amddiffynwyr yr offeiriaid.
- 5 Ond syrthio a wnai y dydd,  
A syrthia hefyd y prophwyd gyda thi yn y nos,<sup>2</sup>  
A dyfethu a wnaf dy fam.<sup>4</sup>
- 6 Dyfethir fy mhobl o eisieu gwybodaeth ;  
Gan wrthod o honot wybodaeth,<sup>5</sup>  
Felly gwrthodaf di o fod yn offeiriad i mi ;  
Ac am i ti anghofio deddf dy Dduw,  
Anghofio dy blant di a wnaf finnau.<sup>6</sup>
- 7 Yn ol eu lliosogiad, felly y pechasant i'm herbyn ;  
Eu gogoniant a droaf i warth.<sup>6</sup>
- 8 Pech-aberth fy mhobl a fwytânt,  
Ac at eu hanwiredd y dyrchafant eu calon.<sup>7</sup>
- 9 A bydd megys y bobl, felly yr offeiriad ;  
Ië, ymwelaf arno ei ffyrdd,  
A'i weithredoedd a ddychwelaf iddo :
- 10 Canys bwyânt, ond nis digonir hwynt ;  
Puteiniant, ond ni chynnyddant,  
Oblegid wrth yr Arglwydd gommeddasant gadw.<sup>8</sup>

<sup>1</sup> Pa gofrestr o ddrwgau ! Yr oeddynt yn tori allan, fel yr arferir y gair weithian, fel llifeiriant, ac yn ymdaenu dros yr holl wlad ; a gwaed oedd yn dilyn gwaed fel ffwrdd ddlymdor ; lladdiad ar ol lladdiad yn barhaus. Mae geiriad yr Hebraeg a'r Gymraeg yn cydweddu yma yn hollol : y parwyddiadau, yn eu llun gwreiddiol, yn sefyll fel sylweddeiriau.

<sup>2</sup> Y gair am "amddiffynwyr" sydd a'r ystyr hyn iddo, ac nid "ymrysonwyr," oddi-eithr y canlynir ef â rhagosodydd. Gwel *Essay* i. 17. Y mae yno, fel yma, "dadlewch dros (neu, amddiffynwch) y weddw." Ni weinyddai yr offeiriaid, na neb arall, gerydd : a hyn a amddiffynid gan y bobl. Gwelwn y cyffelyb beth yn cael ei nodi gan *Ier.* v. 31.

<sup>3</sup> Pan ddelafl awfydd—"nos," syrthiai y gau-brophwyd a addawai heddwch, yn nghyd âg eraill, heb wahaniaeth : a syrthiant yn y "dydd," sef pan na byddant yn meddwl am awfydd.

<sup>4</sup> "Fam"—y genedl fel teyrnas, neu y famddinas, Samaria.

<sup>5</sup> Cyfeiria y ddwy linell hyn at y bobl, a'r ddwy flaenorol at yr offeiriad.

<sup>6</sup> Eu "gogoniant" oedd eu nifeiri ; ond fel yr oeddynt yn lliosogi, yr oeddynt yn lliosogi eu pechodau.

<sup>7</sup> Cefnogai yr offeiriaid y bobl i bechu, fel y byddent i ddwyn ychwanegol aberthau i Dyrchafu y galon yw dymuno.

<sup>8</sup> Yr oeddynt yn aberthu i Dduw ac yn aberthu i eilunod. Ymadael â Duw oedd hyn.

- 11 Puteindra, a gwin, a gwin newydd,  
Dygant ymaith y galon.<sup>1</sup>
- 12 Fy mhobl—gan eu pren<sup>2</sup> y gofynant,  
A'u ffon<sup>3</sup>—traetha iddynt;  
O herwydd ysbryd puteindra a'u gwyrdrôdd,  
A phuteiniasant, gan ymadael â'u Duw;
- 13 Ar benau mynyddoedd yr aberthant,  
Ac ar fryniau yr aroglarthant,  
O tan y dderwen a'r aethnen a'r llwyfen,  
Gan mai hyfryd eu cysgod:  
O herwydd hyn, puteinia eich merched,  
A'ch gwragedd—godinebant:
- 14 Nid ymwelaf â'ch merched pan buteiniont,  
Nac â'ch gwragedd pan odinebont;  
Oblegid hwy eu hunain—gyda phuteiniaid yr ymddidolant,  
A chyda hoedenod<sup>4</sup> yr aberthant;  
A'm pobl na ddeallant a ddadymchwelir.
- 15 Os puteiniaist ti, Israel,  
Na throstedded Iowda:  
Nac ewch i Gilgal,  
Nac esgynwch chwaith i Bethafan,  
Ac na thyngwch, "Byw yw'r Arglwydd."<sup>5</sup>
- 16 Fel anner wrthdyn-y gwrthdynodd Israel;  
Yn awr portha'r Arglwydd hwynt fel oen mewn tang le.<sup>6</sup>
- 17 Yn glynu wrth eilunod y *mae* Ephraim, gâd iddo:
- 18 Gwrthdrôdd hwynt eu diod gadarn;  
Gan buteinio y puteiniasant;  
Gan garu carodd ei hamddiffynwyr warth.<sup>7</sup>
- 19 Rhwymodd y gwynt hi yn ei adenydd;<sup>8</sup>  
A chywilyddiant o herwydd eu haberthau.

PENNOD V.

- 1 Clywch hyn, offeiriaid,  
A gwardewch, tŷ Israel,

<sup>1</sup> "Puteindra,"—eilun-addoliaeth, a gloddesta yn nhemlau eilunod, oeddynt yn dwyn ymaith y galon oddiwrth Dduw.

<sup>2</sup> Sef y ddelw a wnaed o bren.

<sup>3</sup> Arferid ffyn er dewinio: ysgrifenedig ar un, "gorchymyna Duw;" ac ar y llall, "gwarafuna Duw." Ac yn ol y ffon a ddygwyddai iddynt, y gweithredent.

<sup>4</sup> "Sancteiddessau" yw y gair; sef benywod a gysegrent neu a ymroddent i buteindra fel gweithred gryfyddol i ddawies anlladrwydd, a elwid *Astarte* yn y dwyrain, a *Venus* yn y gorllewin.

<sup>5</sup> Gwarafunir yma y pethau hyn ynghyd. Tyngu i'r Arglwydd, neu broffesu ei enw, oedd beth da ynddo ei hun, ond nid mewn cysylltiad âg eilun-addoliaeth.

<sup>6</sup> Bygythir eu danfon i gaethglud, megys oen a drôir allan i'r anialwch, lle nad oea fugal i ofalu am dano.

<sup>7</sup> Dyma yr ystyr oreu a rôir gan esbonwyr, a gwna lai o gyfnewid nag un arall ar getrian fel eu ceir yn bresennol. Y "gwarth" oedd ddelw-addoliaeth, a'r "amddiffynwyr," neu "tarianwyr," oedd y gwŷr mawr, y tywysogion.

<sup>8</sup> Y genedi a feddylir; a dywed am dani fel yn ngafael rhyferthwy o wynt, er chldo ymaith o'i gwlad ei hun; ac yna y byddai cywilydd ganddi o herwydd haberthau i eilunod. Dywed am dani fel yn bresennol yn rhwym gan y gwynt, am yr hyn a ddygwyddai y llefara.

002

- A thŷ y brenin, rhoddwch glust :—  
 Mae i chwi farnedigaeth !<sup>1</sup>  
 Am mai magl ydych yn Mispa,  
 A rhwyd wedi ei lledu dros Tabor.
- 2 A'r lladdfa, yr helwyr a ddyfnhasant,  
 Er i mi eu ceryddu hwynt oll.<sup>2</sup>
- 3 Myfi—adwaenaf Ephraim ;  
 Ac Israel—nid cuddiedig yw rhagof :  
 Diau yn awr puteiniaist di, Ephraim,  
 Halogwyd Israel :
- 4 Nid ymdrechant i ddychwelyd at eu Duw,  
 O herwydd ysbryd puteindra *sydd* o'u mewn,  
 A'r Arglwydd nid adwaenant.
- 5 Ond iselhêir balchder Israel *sydd* yn ei wyneb ;<sup>3</sup>  
 Iê, Israel ac Ephraim a syrthiant am eu trosedd ;  
 Syrthia hefyd Iowda gyda hwynt :
- 6 Gyda eu defaid a'u gwartheg,  
 Y deuant i geisio yr Arglwydd ;  
 Ond nis cânt—encilliodd oddiwrthynt :
- 7 I'r Arglwydd y buant yn anffyddlawn,  
 O herwydd plant estronol a genedlasant.<sup>4</sup>  
 Yn awr difa hwynt fis<sup>5</sup> ynghyd â'u rhanau.
- 8 Chwythwch y corn yn Gibeā,  
 Yr udgorn yn Rama,  
 Bloeddiwch yn Bethafen,—  
 Dy hiliogaeth di, Benjamin !<sup>6</sup>
- 9 Ephraim,—yn ddiffeithwch y bydd yn nydd y cerydd :  
 I lwythau Israel yr hysbysais yr hyn a fydd yn ddiammhau.
- 10 Bu tywysogion Iowda fel symudwyr terfyn ;  
 Arnynt y tywalltaf fel dwfr fy nigder.
- 11 Gorthrymedig *fydd* Ephraim,  
 Drylliedig gan farnedigaeth,

<sup>1</sup> Neu, *goebedigaeth*, yr hyn a arwydda y gair yn aml.

<sup>2</sup> Y "magl" a'r "rhwydo" oedd er mwyn gwneyd dynion yn eilun-addolgar : yr oedd eto amryw o'r llwythau yn myned i addoli yn Ierusalem. Yr "helwyr" oedd-ynt yn dala y rhai hyn, ac naill yn eu lladd trwy eu rhoi i farwolath, neu yn eu lladd o ran eu heneidiau, trwy eu gwneyd yn eilun-addolwyr. "Dyfnhan" r lladdfa oedd ei gwneyd yn fwy llwyr. Gwpaent hyn er i Dduw eu ceryddu trwy y prophwydi. Mae rhyw frydiaeth hynod mewn delw-addolwyr ! Ysbryd y pwll diwaelod sydd yn eu cynhyrfu.

<sup>3</sup> Mwy cydunol yma, ac yn *pen.* vii. 10, â'r geiriau a ganlynant, yw cyfieithu y gair "iselhêir," na "thystiolaetha;" ac felly ei ceir yn yr hen gyfieithiadau, oddieithr y *Vulgate*, ac yn y *Targum*, sef y cyfieithiad Caldeaid, a wnaed gan Iddew. Yn *pen.* vii. 10, lle cawn yr un geiriau; cyduna'r *Vulgate* â'r cyfieithiadau eraill. "Yn ei wyneb:" dangosir balchder yn neillduol yn y wyneb; gwel *Diar.* xxi. 4.

<sup>4</sup> Dygent i fyny eu plant yn eilun-addolwyr. Peth estronol oedd eilun-addoliaeth, wedi ei dderbyn oddiwrth y cenedloedd amgylchol.

<sup>5</sup> Nid mwy na mis o amser a fyddai yn ofynedig tuag at eu llwyr ddyfetha. Eu "rhanau," medd rhai, oedd eu hetifiediaethau a ranwyd iddynt ar y cyntaf trwy goel-bren; neu, medd eraill, eu delwau a'u heilunod, a ddewisent yn rhan iddynt yn lle Duw.

<sup>6</sup> Lle oedd oedd y rhai'n yn llwyth Benjamin. Rhybuddir Benjamin trwy gyhoeddi dedfryd Ephraim.



- Am rodio o'i fodd ar ol gwagedd.<sup>1</sup>
- 12 A myfi, fel gwyfyn y *bu'm* i Ephraim,<sup>2</sup>  
A fel pryf i dŷ Iowda :
- 13 Pan welodd Ephraim ei lesgedd  
A Iowda ei glwyf ;  
Yna aeth Ephraim at yr Assyriad,  
Ië, danfonodd at frenin cynhenus ;<sup>3</sup>  
Ond efe nid allai eich gwella chwi,  
Ac ni symudai oddiwrthych y clwyf.
- 14 Ond myfi—fel llew y *byddaf* i Ephraim,  
Ac fel cenaw llew i dŷ Iowda ;  
Myfi—myfi a larpiaf ac a ymadawaf,  
Dygap ymaith, ac ni bydd achubydd :
- 15 Ymadawaf, dychwelaf i'm lle fy hun,<sup>4</sup>  
Hyd oni addefont eu bai, ac y ceisiant fy ngwyneb ;  
Pan *ddel* cyfyngder arnynt, dwys geisiant fi,<sup>5</sup> *gan*  
*ddynoddyd*,—

## PENNOD VI.

- 1 “Deuwch, a dychwelwn at yr Arglwydd ;  
Canys efe a larpiodd, ac a'n iachâ ni ;  
Tarawodd, a rhwym ni i fyny.
- 2 Bywha ni wedi deuddydd<sup>6</sup>  
Y trydydd dydd y cyfyd ni,  
Fel y byddom byw ger ei fron :
- 3 Yna yr adwaenwn, y dilynwn i adwaen, yr Arglwydd :  
Fel y bore y sefydlwyd ei fynediad allan ;  
A daw fel y cynnar-wlaw arnom,  
Fel y diweddar-wlaw a ddyfrha'r ddaear.”<sup>7</sup>
- 4 Beth a wnaif i ti Ephraim ?<sup>8</sup>  
Beth a wnaif i ti Iowda ?

<sup>1</sup> Pechod Iowda oedd symud y terfyn rhwng gwir a gau grefydd, trwy agoryd y drws i ddelw-addoliaeth. Pechod Ephraim oedd rhodio o'i fodd ar ol eilun-addoliaeth a ddygid i mewn gan Ieroboam, sef addoliad y lloi. Cyfieitha rhai, “ar ol y gorchymyn,” sef eiddo y brenin hwnw. Ond “ar ol gwagedd,” neu frynti, sydd yn ol yr hen gyfieithiadau, a'r *Targum* hefyd.

<sup>2</sup> Am amser a aeth heibio yn ddiau y dywedir, fel y dengys yr adnod nesaf. Y “gwyfyn” yw dinystrydd dillad, a “pryf,” y coed. Yr hyn a ddynodir yw graddol adfeiliad y ddwy deyrnas trwy y barnau gwladol a ddygasai Duw arnynt.

<sup>3</sup> “Frenin yr ymddialydd,” yw y *Vulgate* a'r *Targum*. Brenin Assyria a feddylir.

<sup>4</sup> Ni wnaif Duw ar yr amser hyn amlygu ei hun iddynt : dengys yr ymadawaf oddi-wrthynt o ran ei ofal am danynt.

<sup>5</sup> Bore geisio a arwydda dyfal neu ddwys geisio, gau y gwneir yn gyffredin yn y bore unrhyw waith pwyafawr.

<sup>6</sup> “Deuddydd,” a'r “trydydd,” ydynt eiriau diarebol, yn dynodi amser byr. Gwel gyfelyb arferiad o'r gair “dau” yn 1 *Bren.* xvii. 12; *Esay* vii. 21. “Byw;” dengys hyn y byddai eu caethiwed megys yn farwolaeth.

<sup>7</sup> Cynnar-wlaw” oedd yn yr Hydref, er paratoi y tiri dderbyn yr hâd ; a'r “diweddar-wlaw” oedd yn y Gwanwyn, er addfedu ffrwyth y ddaear.

<sup>8</sup> Pregeth newydd yw hon ; neu os nad felly, y cysylltiad sydd â'r hyn a fygythir yn y bennod flaenorol, sef y caethiwed ; a rhoir yma yr achos pam yr oedd y farn hōno yn anghenrheidiol : yr oedd y cwbl a wnaethai Duw trwy ei brophwydi yn ddi-efeithiol.

- Mae eich daioni<sup>1</sup> fel cwmwl bore,  
 Neu fel gwlyth y wawr, yn myned heibio !
- 5 Am hyn cymynais hwynt trwy y prophwydi,  
 Lledtais hwynt â geiriau fy ngenau ;  
 A bu dy farnau yn oleuni yn myned allan.<sup>2</sup>
- 6 Diau daioni a ddymunais, ac nid aberth,  
 A gwybodaeth o Dduw yn fwy na phoeth-offrymau.<sup>3</sup>
- 7 Ond hwy, fel Adda, torasant gyfammod ;<sup>4</sup>  
 Yn hyn anffyddlaw'n a fuont i mi.
- 8 Gilead—dinas gweithredwyr anwiredd oedd,  
 Halogedig gan waed.
- 9 Ac fel y dysgwyl yspeiliaid ddy'n,  
 Felly tyrfa'r offeiriaid, ar y ffordd ;  
 Lladdant yn Sychem ;  
 O herwydd y ddyfais a gyflawnant.<sup>5</sup>
- 10 Yn nhŷ Israel y gwelais erchyllod ;  
 Yno y *mae* puteindra Ephraim ;  
 Halogwyd<sup>6</sup> Israel :
- 11 Hefyd Iowda—gosododd blinigyn i ti,<sup>7</sup>  
 Pan oeddwn yn dychwelyd gaethiwed fy mhobi!<sup>8</sup>

## PENNOD VII.

- 1 Pan yr oeddwn yn iachâu Israel,  
 Yna dadguddiwyd anwiredd Ephraim,  
 A drygioni Samaria ;<sup>9</sup>  
 Canys gweithredasant yn dwyllodrus ;  
 A'r lleidr, daw i mewn ;  
 Anrheithiodd yr yspeilydd oddiallan.
- 2 Ac ni ddywedant wrth eu calon,<sup>10</sup>

<sup>1</sup> Eu "daioni" oedd eu crefydd: diwygiant am ychydig amser, yna dychwelant i'w hen arferion.

<sup>2</sup> "Cymyno" a "lladd" oeddynt y bygythiadau a gyhoeddai y prophwydi. "Dy farnau," sef y rhai a fgythid ac a benodid i'r genedl: gwnaed hwynt mor eglur a golen y dydd.

<sup>3</sup> Parod oeddynt i aberthu ac i offrymu, ond nid i fyw yn dduwiol, ac i geisio gwybodaeth o Dduw, yr hyn oedd efe yn ei ofyn benaf. Gellir cyflawni defodau crefyddol heb wybod dim yn wirioneddol am Dduw.

<sup>4</sup> Nid oes modd arall i iawn gyfieithu y geiriau.

<sup>5</sup> "Gilead" oedd tuhwnt i'r Iorddonen, ond "Sychem" oedd o fewn gwlad Canaan, yn llwyth Ephraim. Y "gwaed" a'r "lladd" yma ydynt yr un ag yn *pen. v. 2*. Yr oedd yr offeiriaid, naill ai yn lladron pen ffordd, yn lladd y rhai a yspeilient, neu ynte yn maglu dynion i eilun-addoliaeth, ac felly yn lladd eu heneidiau. Yr ystyr ddiweddar yw'r mwyaf tebygol, gan eu cymharir i yspeiliaid neu ladron pen ffordd. Y "ddyfais" oedd y bwriad i rwydo.

<sup>6</sup> "Israel" yma oeddynt y naw llwyth, gan yr enwir Ephraim yn y linell flaenorol, ac yna Iowda yn yr un a ganlyn.

<sup>7</sup> Sef i Israel neu i Ephraim. Y "planigyn" oedd o ddelw-addoliaeth.

<sup>8</sup> Gaethiwd amryw o Iowda yn aml gan Israel,—Edom, Moab. Y cyfeiriad yma, fel y tybir, sydd at yr hyn a nodir yn 2 *Cron. xxvii. 8—12, 22—25*. Tan yr amgylchiad hwn, gwnai Iowda gefnogi eilun-addoliaeth.

<sup>9</sup> Israel yma, fel yn *pen. vi. 10*, oedd y naw llwyth, yn wahanol oddiwrth Ephraim. "Anwiredd" oedd eilun-addoliaeth, a "drygioni" oedd drwg weithredoedd yn gyffredin.

<sup>10</sup> Hyn yw, nid ystyriant, ni feddyliant.

- Y cofiaf eu holl ddrygioni :  
 Yn awr amgylcha hwynt eu gweithredoedd ;<sup>1</sup>  
 Ger bron fy wyneb y maent.
- 3 Yn eu drygioni y llawenha 'r breninoedd,<sup>2</sup>  
 Ac yn eu celwyddau, y tywysogion.
- 4 Hwynt oll ydynt odinebwyr !<sup>3</sup>  
*Maent* fel ffwrn a ennynir gan bobydd :  
 Gorphwysa rhag cynhyrfu,  
 Rhag tylino y toes hyd oni lefeinia.<sup>4</sup>
- 5 Dydd ein brenin ! dechreuodd y tywysogion boethi gan win ;  
 Estynodd efe ei law gyda gwatwarwyr !<sup>5</sup>
- 6 Pan nesasant, fel ffwrn *oedd* eu calon gan eu cynllwyn ;  
 Yr holl nos cysgodd eu poethder,  
 Y bore fe a gynneuodd fel tân ffamlyd.
- 7 Hwynt oll—ymboethant fel ffwrn ;  
 A difasant eu barnwyr ;  
 Eu holl freninoedd a syrthiasant :  
 Ac ni alwodd neb o'u herwydd arnaf fi.<sup>6</sup>
- 8 Ephraim—â'r cenedloedd yr ymgymysgodd efe ;<sup>7</sup>  
 Ephraim—daeth yn deisen heb ei throï :<sup>8</sup>
- 9 Difaodd estroniaid<sup>9</sup> ei gryfder,  
 Ond efe nid yw yn gwybod ;  
 Penwyni hefyd a ymdaenodd arno,  
 Ond efe nid yw yn gwybod ;
- 10 Ac iselhawyd balchder Israel *sydd* yn ei wyneb :<sup>10</sup>  
 Ond ni ddychwelasant at yr Arglwydd eu Duw,  
 Ac ni cheisiasant ef er hyn oll.
- 11 A bu Ephraim fel colomen wirion heb ddeall ;<sup>11</sup>  
 Ar yr Aipht y galwasant,  
 At yr Assyriad yr aethant.
- 12 Pan yr elont, taenaf drostynt fy rhwyd ;

<sup>1</sup> Yr oeddynt yn ngolwg Duw yn *nghanol* eu pechodau, yn cael eu hamgylchu ganddynt.

<sup>2</sup> "Breninoedd." felly yr hen gyfieithiadau, oddieithr y *Vulgate*. Gwel *adn.* 7. Cyd-ddrygioni eu breninoedd a'u tywysogion a ddynodir.

<sup>3</sup> Sef yn eilun-addolwyr. Mae pob drygioni yn cydfined âg eilun-addoliaeth. Celwyddai y tywysogion wrth Dduw ac wrth eu breninoedd : addawent ffyddlondeb, ond tröent oddiwrth Dduw at eilunod, a lladdent eu breninoedd.

<sup>4</sup> Rhydd y pobydd dân yn y ffwrn ; aros nes y twymno, ac nes y lefeinio y toes. Dynodai hyn ymddygiad y tywysogion ; yr oedd tân cynllwyn yn eu calonau hyd yn nod ar ddydd gwledd eu brenin, mewn cof am ei enedigaeth, neu am ddechreu ei deyrnasiad. Arosent, fel y pobydd, nes byddai pob peth yn barod, ac yna y tân oedd ynddynt a dorai allan yn ffiam ddinystriol.

<sup>5</sup> Unai y brenin & hwynt i watwar gwir grefydd.

<sup>6</sup> Er bod lladd eu breninoedd yn arwydd eglur o farn Duw, eto ni wnaï hyn beri iddynt alw ar Dduw ; anghofient yn hollol ei ragluniaeth.

<sup>7</sup> Trwy eilun-addoliaeth a chynghreiriau.

<sup>8</sup> Yn dda i ddim—wedi llosgi ar un ochr, ac yn does ar y llall.

<sup>9</sup> Y Syriaid, ac eraill.

<sup>10</sup> Gwel *pen.* v. 5.

<sup>11</sup> "Heb galon," yn llythyrenol ; ond calon, yn Hebraeg, a ddynoda yn fynych y meddwl, y deall, yr amgyffred.

- Ac fel adar y nefoedd, dygaf hwynt i lawr ;  
Cosba hwynt fel y mynegwyd i'w cynnulleidfa,<sup>1</sup>
- 13 Gwae hwynt! o herwydd ffoisant oddiwrthyf ;  
Dinystyr iddynt! o herwydd gwrthryfelasant i'm herbyn :  
A Myfi—gwaredais hwynt ;  
Ond hwy—dywedasant wrthyf gelwyddau ;<sup>2</sup>
- 14 Ac ni waeddant arnaf a'u calon,  
Pan udant ar eu gwelyau :  
Am yd a gwin newydd yr ymgasglant ;<sup>3</sup>  
Troant yn fy erbyn.
- 15 Wedi eu ceryddu, cryfheais eu breichiau ;  
Ond yn fy erbyn y dychymygant ddrwg ;<sup>4</sup>
- 16 Dychwelant—nid ataf fi ;  
Maent fel bwa twyllodrus :<sup>5</sup>  
Syrthia gan y cleddyf eu tywysogion,  
O herwydd rhyfyg eu tafod :<sup>6</sup>  
Hyn fydd yn wawd iddynt yn ngwlad yr Aipht.

## PENNOD VIII.

- 1 At dy enau yr udgorn!  
Fel eryr, yn erbyn tŷ yr Arglwydd :<sup>7</sup>  
O herwydd torasant fy nghyfammod,<sup>8</sup>  
Ac yn erbyn fy neddf y troseddasant.
- 2 Arnaf y gwaeddant, "Fy Nuw,  
Adwaenwn ni Israel dydi."
- 3 Bwrriodd Israel ymaith ddaioni ;<sup>9</sup>  
Y gelyn a'i hymlidia.
- 4 Hwy a deyrnasasant, ond nid trwof fi ;  
Llywodraethasant, ond nis gwyddwn :<sup>10</sup>  
Eu harian a'u haur a wnaethant iddynt eu hun yn  
ddelwau.  
Am hyny torir hwynt ymaith.
- 5 Bwria ymaith dy lo, Samaria :—  
Poethodd fy nigder i'w herbyn ;  
Pa hyd ni oddefant lanhád!

<sup>1</sup> Gwel *pen.* v. 9.<sup>2</sup> Trwy addaw ufudd-dod, a myned ar ol eilunod.<sup>3</sup> Sef yn nhemlau eu heilunod.<sup>4</sup> Ceryddu oedd trwy rybuddion a barnau. Cryfhau y fraich oedd chwaneu eu gallu a'u golud. Dychymygu "drwg" oedd trefnu ffordd i droi at eilun-addoliaeth, neu i gael help gan yr Aipht neu Assyria.<sup>5</sup> Addawent droi at Ddaw, yn lle hyny tröent at eilunod ;—y bwa a anelid at un nôd yn troi at nôd arall.<sup>6</sup> Eu "rhyfyg" oedd tori eu haddewidion : syrthiad eu tywysogion oedd yn farn am hyn : a byddai hyn yn warth iddynt gan yr Aiphtiaid, y rhai a ddangoseent fawr barch i'w tywysogion.<sup>7</sup> "Eryr," nôd o gyflymdra. "Tŷ," nid y deml, ond pobl Israel, a elwid yn dŷ neu denlu Duw. Dyma yr ystyr, fel y dengys y geiriau a ganlynant.<sup>8</sup> Gwel *pen.* vi. 7.<sup>9</sup> Sef gwir grefydd.<sup>10</sup> Felly yr hen gyfieithiadau oll ond y *Targum*. Nis "gŷyr" Duw y peth nad yw yn ol ei ewylls. Tan y fath lywodraeth y tröent eu harian a'u haur i wneuthur delwau.

- 6 Yn wir o Israel *ydyw*, ie efe;<sup>1</sup>  
 Y celfydd a'i gwnaeth ac nid Duw ydyw :  
 Diau yn ddarnau y bydd llo Samaria.
- 7 Yn ddiau gwynt a hauant,  
 Ond y corwynt a fedant :  
 Corsen ni bydd iddo;<sup>2</sup>  
 Gronyn ni ddwg y dywysen ;  
 Ac os dwg, estroniaid a'u llyncant.
- 8 Llyncir Israel;<sup>3</sup> yn awr byddant yn mysig y cenedloedd,  
 Fel llestr heb hoffder ynddo :
- 9 Canys hwy—esgynant i Assyria ;  
 Asyn gwyllt yn unig wrtho ei hun y *bu* Ephraim ;  
 Cyflogasant gariadau.
- 10 Ië, am y cyflogant yn mysig y cenedloedd,  
 Yn awr casglaf hwynt, fel eu poener,  
 Dros ychydig gan faich brenin y tywysogion.<sup>4</sup>
- 11 Am yr amlhaodd Ephraim allorau er pechu,  
 Buont iddo allorau fel y pechai.<sup>5</sup>
- 12 Ysgrifenis iddo fawrion bethau fy neddf ;  
 Megys peth estronol y cyfrifwyd hwynt.
- 13 Fy aberthau ! fy offrymau gwastadol !  
 Aberthant gig a bwytânt;<sup>6</sup>  
 Yr Arglwydd nis hoffodd hwynt.  
 Yn awr y cofia eu hanwiredd,  
 A gofwsa eu pechodau :  
 Hwy—i'r Aipht y dychwelant.<sup>7</sup>
- 14 Fel yr anghofiodd Israel ei Wneuthurwr,  
 Ac yr adeiladodd demlau ;  
 Felly Iowda a amlhaodd ddinasoedd caerog :  
 Ond danfonaf dân i'w ddinasoedd,  
 Fel y difao ei balasau.

## PENNOD IX.

- 1 Na lawenha Israel,<sup>8</sup> gan orfoledd, fel y cenedloedd ;  
 Canys puteiniaist, gan ymadael oddiwrth dy Dduw :

<sup>1</sup> Sef y llo a wnaethant i'w addoli. Nid o'r cenedloedd, ond o Israel yr oedd : ei ddechreu oedd yn yr anialwch ; *Ecoed.* xxxii.

<sup>2</sup> Sef i'r hyn a hauent.

<sup>3</sup> Hyny yw, y meddiannau a berthynent i Israel. "Yn awr," neu yn fuan : felly ei ystyr yn aml.

<sup>4</sup> Cyfeirir yma at eu caethglud : mae eu "casglu" yn dangos hyn. "Brenin y tywysogion" oedd Brenin Assyria.

<sup>5</sup> Caniatëid iddo y cyffe i bechu : felly y gwna Duw yn aml yn ei ragluniaeth. Pan byddo ewyllys i bechu, rhydd Duw, fel cosb, y rhwyddineb i gyflawni yr ewyllys.

<sup>6</sup> Cyflawnant eu dyledswydd o ran aberthu ac offrymu ; ond eu dyben oedd ymborthi ar y cig, a boddloni eu chwant.

<sup>7</sup> Dynoda yr ymadrodd *gaethiwed* ; nid am y byddai iddynt ddychwelyd yn wirioneddol i'r Aipht, gan y dynodir yn *pen.* xi. 7, na chaent ddychwelyd yno, ond myned i Assyria :—"Buoch mewn caethiwed yn yr Aipht, cewch fyned eto i gaethiwed tebyg i'r un y buoch gynt ynddo."

<sup>8</sup> Pan yn mwynhau llawndid ; canys yr oedd Israel, er cymaint y bendithion a gawsant, yn euog o ymadael oddiwrth Dduw, ac am hyny yn agored i'r barnau a gyhoeddasant.

- Ceraist wobrau ar bob llawr yd.<sup>1</sup>
- 2 Nid y llawr-dyrnu na'r gwinwryf a'u portha;  
A metha iddynt y gwin newydd.
- 3 Ni chânt drigo yn ngwlad yr Arglwydd;  
Ond dychwel Ephraim i'r Aipht,  
Ac yn Assyria yr hyn sydd aflan a fwyânt.
- 4 Ni thywalltant i'r Arglwydd win,  
Ac ni bydd cymeradwy ganddo eu haberthau;  
Fel bara galarwyr y byddant iddynt,  
Pawb a'i bwyânt a halogir;  
Diau eu bara a fydd iddynt eu hunain,  
Ni ddaw i dŷ yr Arglwydd.<sup>2</sup>
- 5 Beth a wnewch ar ddydd yr ymgynnull,  
Ac ar ddydd cylchwyl yr Arglwydd?
- 6 Canys, wele ânt ymaith rhag y dinystrydd;  
Yr Aipht a'u casgla, Memphis a'u cladd hwynt:<sup>3</sup>  
Trysorfanau eu harian, y danadl a'u hetifedda;  
Y drain a fydd yn eu pebyll.
- 7 Daeth dyddiau yr ymweliad!  
Daeth dyddiau talu'r pwyth!  
Adnebydd Israel ef yn ynfyd—y prophwyd,  
Yn wallgof, ddyn yr ysbryd:  
O herwydd amler dy anwiredd,  
Amlhaodd hefyd y dygasedd.<sup>4</sup>
- 8 Gwyliedydd Ephraim!  
Gyda 'm Duw yn brophwyd!<sup>5</sup>  
Magl yr adarwr yw ar ei holl ffyrdd.  
Yn ddygasedd yn nhŷ ei Dduw.<sup>6</sup>
- 9 Dwfu ymlygrasant fel yn nyddiau Gibeā:<sup>7</sup>  
Cofia eu hanwiredd,  
A gofuya eu pechodau.
- 10 Fel grawnwin yn yr anialwoh y cefais Israel,  
Fel blaenffrwyth ar y ffigysbren,  
Yn eu dechreu y gwelais eich tadau:  
Hwy—aethant at Baal-peor,  
Ac ymroddasant i warth,  
A daethant yn ffaidd fel eu cariad.<sup>8</sup>

<sup>1</sup> Cyfrifai Israel amledd ŷd fel gwobrau a roddid iddynt gan eu gau-dduwiau. Gwel *per.* ii. 5—9. Yna canlyn y barnau a ddenai arnynt.

<sup>2</sup> Yn eu halltudiaeth ni fyddai modd iddynt gyflawni defodau crefyddol fel yn ngwlad Canaan.

<sup>3</sup> Sef, byddant farw yn yr Aipht, a chleddir hwynt yn Memphis. Mae "casgla" yn aml yn dynodi marw; *Nwm.* xx. 26. Memphis oedd dref yn yr Aipht, yn nodedig fel claddfan.

<sup>4</sup> Y "dygasedd" oedd y gau-brophwyd, neu "ddyn yr ysbryd," yr hwn a hōnai fod ganddo ysbryd prophwydoliaeth. Yr "anwiredd" oedd eilun-addoliaeth.

<sup>5</sup> Sef, yn ol ei broffes, ond nid yn wirioneddol.

<sup>6</sup> "Dygasedd," neu yn beth dygas, ffaidd, adgas.

<sup>7</sup> Gwel *Barn.* xix. 22—30.

<sup>8</sup> Grawnwin a ffigys ydynt dra dymunol mewn lle anial. Felly y cyfrifai Duw Israel pan ddygodd hwynt o'r Aipht; ond troisant at Baal-peor.

<sup>9</sup> Sef yr eilun—Baal-peor; hwn a garent yn lle Duw.

- 11 Ephraim fel aderyn a eheda ymaith,  
Felly eu gogoniant oddiwrth enedigaeth,  
● Ac oddiwrth y bru, ac oddiwrth y beichiogi.<sup>1</sup>
- 12 Ond os dygant i fyny eu plant,  
Eto dygaf hwynt ymaith fel na *byddont* ddynion :  
Yn ddiau hefyd gwae hwynt !  
Pan ymadawyf oddiwrthynt.
- 13 Ephraim, yn ol yr hyn a welais yn Tyrus,  
*Sydd* blangyn mewn cyfanneddle :  
Eto *rhaid* i Ephraim ddwyn allan i'r lleiddiad ei blant !<sup>2</sup>
- 14 Rho iddynt, Arglwydd—beth a roddi ?  
Rho iddynt fru dieppil a bronau sychion.<sup>3</sup>
- 15 Eu holl ddrwgioni *sydd* yn Gilgal ;  
O herwydd yno y casais hwynt :  
Am ddrwg eu gweithredoedd, o'm tŷ y gyraf hwynt allan ;<sup>4</sup>  
Ni chwanegaf eu caru ;  
Eu holl dywysogion *ydyn* wrthgilwyr.
- 16 Tarewir Ephraim ; eu gwraidd a ywya ;  
Ffrwyth ni ddygant ; eto os cenedlant,  
Lladdaf anwyllion eu bru.<sup>5</sup>
- 17 Gwrthoda fy Nuw hwynt,  
Am na wrandawent arno :  
A byddant grwydraid yn mysgr y cenedloedd.

## PENNOD X.

- 1 Gwinwydden ordyfol<sup>6</sup> *yw* Israel ;  
Y ffrwyth a gyfateb iddi ei hun :  
Yn ol amlder ei ffrwyth, yr amlhaodd allorau ;  
Yn ol daioni ei dir, yr harddasant ddelwau.
- 2 Ymranodd eu calon,<sup>7</sup> yn awr berni hwynt yn euog ;  
Efe—tor i lawr eu hallorau, dystrywia eu delwau.
- 3 Ond yn awr dywedant, “Nid oes brenin genym,  
O herwydd nid ofnasom yr Arglwydd ;  
A brenin—beth a all wneyd i ni ?”
- 4 Llefarasant eiriau, llwon ofer,  
Wrth wneuthur cyfammod ;  
Felly egina farnedigaeth fel y wermod<sup>8</sup>  
Sydd ar hyd rhychau y maes.

<sup>1</sup> Eu “gogoniant” oedd eu llosgiad. Enwa yn gyntaf eni, yna y bru, ac yna beichiogi, gan fyned megys yn ei wrthol.

<sup>2</sup> Er mor dynyr a moethus y magent eu plant, eto magent hwynt i'r lladdfa.

<sup>3</sup> Gan feddwl am ddiwedd y plant, chwennychai y prophwyd na fyddai plant iddynt.

<sup>4</sup> “Ty” yma oedd gwlad Canaan. Geilw Duw Israel ei deulu ; a thra yr oeddynt yn Nghanaan, yr oeddynt megys yn ei dŷ.

<sup>5</sup> Felly y gelwir plant neu fabanod.

<sup>6</sup> Arwydda y gair *arloeis* : trwy arloeis y nodd y daw tyfiant. Dyma ystyr yr hen gyfieithiadau oddieithr y *Targum*, a'r unig ystyr sy'n cydweddu a'r lle. Yr oedd y ffrwyth yn cyfateb i'w thyfiant ; yn ol amlder y ffrwyth yr oedd amlder yr allorau i gan-dduwiau ; ac yn ol daioni neu ffrwythlondeb y tir, yr oedd addurniadau y delwau.

<sup>7</sup> Rhwng Duw ac eilunod.

<sup>8</sup> Amrywia deonglwyr o ran y gair hwn : tebyg yw mai y chwyn mwyaf naturiol i'r

- 5 Am lo mawr<sup>1</sup> Bethafen  
Y dychryna preswylwyr Samaria ;  
Canys galara drosto ei bobl,  
Ei offeiriaid hefyd (am dano a orfoleddent)  
O herwydd ei ogoniant, gan yr ymadawodd oddiwrtho ;
- 6 Efe hefyd i Assyria a ddygir  
Yn aarheg i'r brenin cynhenus :  
Gwarth a dderbyn Ephraim,  
Iâ, cywilyddia Israel am ei gynghor,<sup>2</sup>
- 7 Dinystrir Samaria ; ei brenin,  
*Bydd fel* ewyn ar wyneb y dwfr :
- 8 A dystrywir uchelfeydd Afen—pechod Israel ;  
Drain a mieri a dyfant dros eu hallorau,  
A dywedant wrth y mynyddoedd, “Cuddiwch ni,”  
Ac wrth y bryniau, “Syrthiwch arnom.”
- 9 Er dyddiau Gibeā pechaist di, Israel ;  
Yno y safasant :<sup>3</sup>  
Ni fena arnynt y rhyfel yn Gibeā yn erbyn plant trawsder :
- 10 Yn fy mwriad y *mae*, a cheryddaf hwynt ;  
A chasgla yn eu herbyn genedloedd,  
Pan y ceryddwyf hwynt am eu dau anwiredd.<sup>5</sup>
- 11 Ond Ephraim—anner a ddysgwyd *yo*, yn caru dyrnu ;<sup>6</sup>  
A myfi—aethum heibio *iddi* o herwydd harddwch ei gwddf :<sup>7</sup>  
“Gwnaf Ephraim i farchogaeth,  
Ardda lowda, llyfna iddo Iacob :
- 12 Heuwch i chwi yn ol cyflawnder,  
Medwch yn ol yr hyn a ofyn trugaredd ;  
Braenarwch i chwi fraenar ;  
Yna'r pryd a *fydd* i geisio yr Arglwydd,  
Hyd oni ddelo ac y gwlawio gyflawnder i chwi.”<sup>8</sup>
- 13 Ond arddasoch anghyflawnder,

tir a feddylir. Fel y tyf peth o'r fath hyn pan aradir y ddacar, felly barnau Duw a welid tros wyneb yr holl wlad.

<sup>1</sup> Felly yr *Egob* Horsley ; ac felly y dywedir am dano yn y geiriau a ganlynant—“drosto”—“ei bobl”—“ei ogoniant,” &c.

<sup>2</sup> Yn cefnogi delw-addoliaeth.

<sup>3</sup> Y maent yr un ag oeddynt y pryd hyny.

<sup>4</sup> Ni chymerant un rhybudd oddiwrth yr hyn a ddygwyddodd i lwyth Benjamin. Gwel *Barn*. xix. 22—30.

<sup>5</sup> Felly yn ol yr hen gyfieithiadau oll, oddieithr y *Targum*. Y “ddau anwiredd” oeddynt y llo a adolent, a'r Baalim a aberthent iddynt.

<sup>6</sup> Ni fynai aredig—y gwaith caletaf—ond gwell oedd ganddi ddyrau yr yd, ac ym-borthi arno.

<sup>7</sup> “Aethum heibio iddi,” heb osod arni yr iau. Yna y canlyn yr hyn a drefnodd Duw i Ephraim, i lowda, ac i Iacob, a arwydda yma y naw llwyth. Noda hefyd yr hyn a orchymynodd iddynt—hau yn gyflawn a medi yn drugarog. Nid oeddynt i hau heb fraenaru, na gwneyd un o'r pethau heb geisio gan Dduw roddi y gwlaw yn ei bryd. Ond yn lle trin y tir fel hyn, gwnaethant yn hollol i'r gwrthwyneb, fel y dangosir yn yr adnod ganlynol.

<sup>8</sup> Sef, cyflawn fesur o wlaw. Y gair am gyflawnder sydd yn arwyddo cyflawn fesur, neu gyflawn bwys ; *Lef*. xix. 36.



- Gormes a fedasooh :  
 Ymborthasoch ar ffirwyth twyll ;  
 ● Cans ymddiriedaist yn dy ffordd dy hun,  
 Yn amlder dy gedyrn.
- 14 Ond cyfyd terfysg yn mysg dy bobloedd,  
 A'th holl gaerfanau a ddinystrir,  
 Fel y dinystriodd Salman Beth-arbel ;<sup>1</sup>  
 Ar ddydd y rhyfel,  
 Y fam yn nghyd â'i phlant a ddrylliwyd.
- 15 Fel hyn y gwna Bethel i chwi,  
 O herwydd drygedd eich drygioni :  
 Yn fore<sup>2</sup> gan ddinystrio y dinystrir brenin Israel !

PENNOD XI.

- 1 Pan yn fachgen oedd Israel, caraswn ef ;  
 Ac o'r Aipht y gelwais fy mab.
- 2 Galwasant<sup>3</sup> arnynt yr un modd,  
 Aethant ymaith oddiwrthynt ;  
 I Baalim yr aberthant,  
 Ac i ddelwau yr aroglarthant.
- 3 Ond myfi—dysgais Ephraim i gerdded,  
 Gan eu cymeryd erbyn eu breichiau :<sup>4</sup>  
 Eto ni chydnabyddant ddarfod i mi eu hadferu :<sup>5</sup>
- 4 A rhwymynau dyn y tynais hwynt,  
 A llinynau cariad ;<sup>6</sup>  
 A buais iddynt fel y rhai  
 A godant yr iau ar eu bochgernau ;<sup>7</sup>  
 Ac estynais iddo fwyd.
- 5 Ni ddychwel i wlad yr Aipht ;<sup>8</sup>  
 Ond yr Assyriad—efe fydd ei frenin ;  
 O herwydd gwrthodasant ddychwelyd ;
- 6 Ac erys y cleddyf ar ei ddinasoedd,  
 A difroda ei ddiffynion,<sup>9</sup>  
 Iâ, difâaf hwynt, o herwydd eu cynghorion.
- 7 A'm pobl—penderfynant wrthgilio oddiwrthyf ;  
 Ond am y iau galwant arno ynghyd ;<sup>10</sup>  
 Ni symudir hi ymaith.

<sup>1</sup> Bernir mai Salman oedd Salmeneser. Nid oes hanes am y lladdfa hwn ; ond ddamhau mai adnabyddus oedd yn gyffredin yn nyddiau y prophwyd.

<sup>2</sup> Sef, yn fuan.

<sup>3</sup> Sef y prophwydi a ddanfonai Daw.

<sup>4</sup> Megys y gwneir i fabanod, pan ddechreuant gerdded.

<sup>5</sup> Sef, i nerth a chryfder.

<sup>6</sup> Cyfeirir at wendid plant : defnyddir llinynau i'w tywys, fel na byddai iddynt syrthio. " Rhwymynau dyn," neu ddynol, a " llinynau cariad," a arwyddant foddion mwyn, tirion, a serchlawm.

<sup>7</sup> Er rhoi esmwythder.

<sup>8</sup> Nid yr Aipht a fyddai gwlad y gaethglud. Gwel pen. viii. 13.

<sup>9</sup> Neu, amddiffynion, sef ei dywysogion. Gelwir hwynt yn daranau yn pen. iv. 18. Eu " cynghorion" oedd ceisio cymhorth estroniaid.

<sup>10</sup> Y " iau" oedd y caethiwed a fygythid : ond aymudid hon. Gyda golwg ar hyn, y dywed fel y canlyn, " P'odd y rhoddaf?" &c.

- 8 P' odd y rhoddaf di i fyny, Ephraim—  
Y bwriaf di ymaith, Israel ?  
P' odd y gallaf dy wneyd fel Adma—  
Y gallaf dy osod fel Seboim ?  
Dadymchwelir ynof fy nghalon,<sup>1</sup>  
Ynghyd y dirwynir fy edifariadau.<sup>2</sup>
- 9 Ni chyflawnaf angerdd fy nigder,  
Ni ddychwelaf i ddinstrio Ephraim ;<sup>3</sup>  
Canys Duw ydwyf, ac nid dyn,  
Yn dy ganol di, yn sanctaidd ;<sup>4</sup>  
Ac ni ddeuaf i mewn i'r ddinas.<sup>5</sup>
- 10 Ar ol yr Arglwydd yr änt ;  
Fel llew y rhua :  
O herwydd efe—rhua a wna,  
A dychryna meibion o'r gorllewin,—
- 11 Dychrynant, fel aderyn, yn yr Aipht,  
Ac fel colomen, yn nhir Assyria,  
A pharaf iddynt orphwys yn eu tai, medd yr Arglwydd.<sup>6</sup>
- 12 Amgylchai Ephraim fi â chelwydd,  
Ac â dichell, dÿ Israel ;  
Tra yr oedd Iowda eto yn llywodraethu gyda Duw,  
Ac yn nghyd â'r saint yn fyddlawn.<sup>7</sup>

## PENNOD XII.

- 1 Ephraim—porthodd ar wynt,  
A dilynodd y deheuwynt ;<sup>8</sup>  
Yr holl ddydd, celwydd a difrod a amlhâ ;  
Ac ammod â'r Assyriaid a wnant,  
Ac olew a ddygir i'r Aipht.
- 2 Mae gan yr Arglwydd ddadl hefyd yn erbyn Iowda :  
Ond wrth ymweled â Iacob yn ol ei ffyrdd,  
Yn ol ei weithredoedd y dychwel iddo.<sup>9</sup>
- 3 Yn y brw y gafaelodd yn sawdl ei frawd,<sup>10</sup>

<sup>1</sup> Neu, "Trës yn fy erbyn fy nghalon ;" hyny yw, pan benderfynodd gaethgludo Israel.

<sup>2</sup> Neu, "Crynëir ynghyd fy edifariadau." Yr oedd holl achosion edifeirwch yn dyfod ynghyd i'w feddwl. Llefariar yn ddiasu mewn modd dynol ; ond ymadroddion hynod ydynt.

<sup>3</sup> Sef, wedi ei gaethgludo.

<sup>4</sup> Ac felly, yn cadw ei gyfammod.

<sup>5</sup> Pan orchfygo un ddinas, & i mewn a dinstria hi ; ond pan wneir ammodau, ni äd i'w fyddin fyned i mewn i'w anrheithio hi. At hyn y cyfeirir yma. Dyma'r ystyr a rydd yr hen gyfeithiadau oll.

<sup>6</sup> Y "rhua" hwn oedd er dychryn i elynion Ephraim, fel y byddai iddo ddychwelyd yn ddirwysr i'w wlad ei hun.

<sup>7</sup> Perthyn yr adnod hon i'r bennod sy'n canlyn. "Llywodraethu gyda Duw," yw llywodraethu yn ol ei ewyllys. Parhau yn "fyddlawn" fel y "saint," neu yr hen dduwiolion. Bu Iowda gryn amser cyn dilyn llwybrau y deg llwyth.

<sup>8</sup> Hwn oedd wynt tra dinstriol.

<sup>9</sup> Wrth "Iacob" yma y meddylir holl lwythau Israel, a enwyd yn flaenorol—Ephraim, Israel a Iowda.

<sup>10</sup> Gwedi bwgwth holl had Iacob, cyfeiria at hanes Iacob ei hun ; a dengys ei

- Ac yn ei ymdrech gorchfygodd gyda Duw ;  
 4 Iâ, gorchfygodd ar yr angel, a llwyddodd ;  
 Wylodd ac ymbiliodd arno.  
 Yn Bethel y cafi ni,  
 Ac yno y llefarai wrthym ;  
 5 Iâ, yr Arglwydd, Duw y lluoedd,  
 Yr Arglwydd *yw* ei gofiaeth.<sup>1</sup>  
 6 Tithau—at dy Dduw dychwel ;  
 Trugaredd a barn cadw,  
 A dysgwyl wrth dy Dduw yn wastad.  
 7 Canaan<sup>2</sup>—yn ei law y *mae* clorianau twyll !  
 Gorthrymu a garodd :  
 8 A dywedodd Ephraim,—  
 “Diau ymgyfoethogais,  
 Cefais olud i mi fy hun ;  
 Yn fy holl lafur ni chânt ynof  
 Anghywirdeb ag *sydd* yn bechod.”  
 9 Ond myfi yr Arglwydd, dy Dduw o wlad yr Aipht,  
 A baraf i ti eto drigo mewn pebyll,  
 Fel yn nyddiau yr ymgynnull.<sup>3</sup>  
 10 A llefarai trwy'r prophwydi,  
 Iâ, myfi—gweledigaethau a amlheis,  
 A thrwy y prophwydi arferais gyffelybiaethau :  
 11 Os Gilead *oedd* yn Afen,<sup>4</sup>  
 Eto yn dwyllodrus y daethant yn Gilgal ;  
 Yohain a aberthasant ;  
 Eu hallorau hefyd *dynt*  
 Fel carneddau ar rychau y maes.<sup>5</sup>  
 12 Pan ffrôdd Jacob i wlad Aram,  
 Yna gwasanaethodd Israel am wraig,  
 Iâ, am wraig y bugeiliodd :  
 13 A thrwy brophwyd y dygodd yr Arglwydd  
 Israel i fyny o'r Aipht ;  
 A thrwy brophwyd y cadwyd ef :  
 14 Eto cyfrôdd Ephraim ddwys chwewderau ;<sup>6</sup>  
 Ond ei waed<sup>7</sup>—arno y gadawa,  
 A'i waradwydd a ddychwel ei Dduw iddo.

lwyddiant trwy erfyn ar Dduw. Gwna hyn er dangos yr hyn a ddylasai ei holl had wneuthur,—“Tithau,” &c.

<sup>1</sup> Neu, ei gofnodiad. Dyma yr enw, yr Arglwydd, sef Iehofa, a'i darnodai trwy bob cenedlaeth ; yr hwn a arwydda yn enwedig anghynewidoldeb. Yr un oedd y pryd hwn a phan y trugarhaodd wrth Iacob.

<sup>2</sup> Gelwir Ephraim yn Ganaan mewn dirmyg.

<sup>3</sup> Cyfeiria at yr ymgynnull yn yr anialwch ; a'r hyn a fygythir yw alltudiseth.

<sup>4</sup> Yr oedd “Gilead” wedi ei dinstrio y pryd hyn ; ond “Afen” oedd cyn i hyn ddygwydd. Eto parhaai yr un gau-addolaeth yn Gilgal, er cymaint a lefarasai Duw trwy ei brophwyd.

<sup>5</sup> Mor aml oeddylnt a chrugiau o geryg a grynŵir er digaregu y tir a arddir.

<sup>6</sup> Dangosir y cyflwr isel o ba un y dyrchefid Ephraim, er dangos ffeidd-dra ei ymddygiad.

<sup>7</sup> Sef ei goeb, yr hyn a haeddai.

## PENNOD XIII.

- 1 Pan lefarai Ephraim, yr oedd dychryn;<sup>1</sup>  
Dyrchafwyd ef yn Israel;  
Ond troseddodd trwy Baal, a bu farw.
- 2 Ac yn awr chwanegaat bechu,  
A gwnant iddynt dawdd-ddelw o'u harian,  
Trwy eu celfyddyd, eilunod—  
Gwaith y cywrain oll o hono:  
O'u herwydd hwy a ddywedant,  
"Aberthwch y dynion a gusanant y lloi."<sup>2</sup>
- 3 Am hyny y byddant fel cwmwl y boreu,  
Ac fel gwllith boreuol yn ymadael,  
Fel us a yrir o'r llawrdyrnu,  
Ac fel y mwg o'r ffumer.
- 4 Ond myfi yr Arglwydd—  
Dy Dduw a fu'm o wlad yr Aipht,  
A Duw hebof fi nid adwaenit,  
Neu Waredydd onid myfi.
- 5 Myfi—adwaenais di yn y diffeithwch,  
Yn nhir y sychder mawr;
- 6 Fel yn eu porfa,<sup>3</sup> pan eu digonwyd:  
Digonwyd hwynt, a dyrchafodd eu calon;  
O herwydd hyny anghofiasant fi.
- 7 Ond byddaf iddynt megys llew,  
Fel llewpard ar y ffordd y dysgwyliaf:
- 8 Cyfarfyddaf â hwynt fel arth a amddifadwyd,  
A rhwygaf orchudd eu calon,  
A difaaf hwynt yno fel llew;  
Bwystfil y maes—llarpia hwynt.
- 9 Dy ddinyst, Israel!<sup>4</sup>  
Pwy yn fy orbyn a fydd yn borth i ti?
- 10 P'le mae dy frenin yn awr,  
Fel yr achubo di yn dy holl ddinasoedd?  
Dy farnwyr hefyd? canys dywedaist,  
"Rho i mi frenin a thywysogion:"
- 11 Rhoddais i ti frenin yn fy nigder,  
A chymerais ef ymaith yn fy nigllonedd.

<sup>1</sup> Ofnid ei awdurdod; a'r mwyafr oedd yn mysg y deg llwyth.

<sup>2</sup> Felly yr hen gyfieithiadau oll o ran y gair "aberthwch." Y chwanegol "bechu" oedd gwneuthur "eilunod" o'u harian, ac *erid* y rhai a addolent ddim arall. O ran eu prydedd dros eu heilunod newyddion, gorchymynent aberthu neu ladd y dynion a gusanent neu a addolent y lloi. Er bod addoli y lloi yn bechadurus, eto gan eu cyfrifid hwynt yn cynddelwi y gwir Dduw, nid oedd eu haddoliaid mor ddrwg ag eilun-addoliaeth. Gwelwn yn *pen. v. 2*, y byddid yn lladd addolwyr Duw, cymaint oedd gelyniaeth eilun-addolwyr tuag atynt. Ond yn awr, dyma chwanegiad; gan y cydnabyddid y gwir Dduw gan addolwyr y lloi, cymaint oedd prydedd eilun-addolwyr fel y gorchymynent eu lladd hwythau hefyd.

<sup>3</sup> Sef, yn ngwlad Canaan, lle cawsent bob llawndid. Mae "adwaen" yn dynodi gofal a rhagluniaeth. Gofalaf Duw am danynt yn yr anialwch, ac felly hefyd wedi eu dwyn i Ganaan.

<sup>4</sup> Darlunir ei dinystr yn yr adnodau blaenorol.

- 12 Clymwyd ynghyd anwiredd Ephraim,  
Gosodwyd megys mewn dirgelfan ei bechod.<sup>1</sup>
- 13 Dirloesau un yn esgor a ddeuant arno :  
Efe—mab heb ddoethineb *yw*,  
Canys ni ddylai yn awr aros yn esgorfa'r plant.<sup>2</sup>
- 14 *Onide*, o law y bedd yr achubwn hwynt,  
Rhag angeu y gwaredwn hwynt ;  
Byddwn yn ddystryw i ti, angeu,  
Byddwn yn ddifrod i ti, fedd :  
*Onid* edifeirwch a guddir o'm golwg.<sup>3</sup>
- 15 Diau efe—yn mysg brodyr y mae'n ffrwythlawn ;<sup>4</sup>  
Daw dwyreinwynt, gwynt yr Arglwydd,<sup>5</sup>  
O'r anialwch y daw i fyny ;  
A sycha ei ffynnon, a diyspydda ei dardell :  
Hwn<sup>6</sup> a anrheithia drysorfan pob llestr dymunol.
- 16 Euogfernir Samaria ;  
Canys gwrthryfelodd yn erbyn ei Duw ;  
Trwy'r cledddy y syrthiodd ;  
Eu babanod a ddryllir,  
A rhwygir eu beichiogion.

PENNOD XIV.

- 1 Dychwel, Israel, at yr Arglwydd dy Dduw ;  
Canys syrthiaist trwy dy anwiredd :<sup>7</sup>
- 2 Cymerwch gyda chwi eiriau,  
A dychwelwch at yr Arglwydd ;  
Dywedwch wrtho,  
"Yn gwbl maddeu yr anwiredd, a dyró dda  
A thalwn i ti ffrwyth ein gwefusau :"<sup>8</sup>
- 3 Yr Assyriaid—ni wna ein gwaredu ;  
Ar farch ni farchogwn ;  
Ac ni ddywedwn mwy,  
'Ein Duw,' wrth waith ein dwylaw ;  
Oblegid genyt ti y *mas* tosturi i'r diymgeledd."
- 4 Iachaf eu gwrthgiliad,<sup>9</sup>

<sup>1</sup> Yn llythyrenol, "Dirgelwyd ei bechod," ond arwydda "dirgelu," yr hyn a wneir pan y gosodir peth mewn lle dirgel i'r dyben i'w gadw yn ddiogel: hyn a feddylir yma. "Clymu ynghyd" a arwydda yr un peth. Ni wna Duw anghofo anwiredd Ephraim na'i bechod, ei eilun-addoliaeth na'i ddrwg weithredoedd; ond cofiai hwynt er eu coabl.

<sup>2</sup> Poenau esgor oeddynt farnau Duw, a ddanfona i er eu diwygio. Ni ddaeth esgorfa, ni ddaeth diwygiad. Pe esgoraisid, pe diwygiasid, yna gwnaethai Duw trostynt yr hyn a ddywed yn yr adnod ganlynol: pe buasant yn ngafael "angeu" a'r "bedd," gwaredasai hwynt.

<sup>3</sup> Ni chafai le neu achos i edifarhau o ran y barnau a fgythiodd.

<sup>4</sup> Ystyr y gair Ephraim *yw* "ffrwythlawn:" ac felly yr oedd yn ol prophwydoliaeth Iacob. *Gen.* xlix. 22.

<sup>5</sup> Sef, a ddanfoned gan yr Arglwydd.

<sup>6</sup> Brenin Assyria, a ddynoda y gwynt.

<sup>7</sup> Yr "anwiredd," oedd eilun-addoliaeth.

<sup>8</sup> Felly yr hen gyfieithiadan oddieithr y *Vulgate*, lle y cawn "loi ein gwefusau."

<sup>9</sup> Neu, "Adferaf eu gwrthgiliad."

- Caraf hwynt yn wirfoddol ;  
Canys trôdd fy nigder oddiwrthyt.
- 5 Byddaf fel gwliith i Israel ;  
Blagura fel y lili,  
Ac estyna ei wreiddyn fel Libanon ;<sup>1</sup>
- 6 Ymlada ei gangenau,  
A bydd fel yr olewydden ei harddwch,  
Ac arogl fel Libanon a fydd iddo ;
- 7 Eistedd eisteddwyr dan ei gysgod ;  
Adfywiant fel yr yd,  
A blagurant fel y winwydden ;  
Ei arogledd a fydd fel gwin Libanon.
- 8 *Dywedodd* <sup>2</sup> Ephraim, "Beth a fynaf mwy âg eilunod ?"  
Myfi a atebais ac a edrychais arno,—  
"Myfi—byddaf i ti fel cedrwydden flagurol ;<sup>3</sup>  
Ac oddiwrthyf fi y ceir dy ffrwyth."<sup>4</sup>
- 9 Pwy sydd ddoeth, fel y deallo y pethau hyn ?  
Yn ddeallus, fel y gwybyddo hwynt ?<sup>5</sup>  
Canys uniawn ydynt ffyrdd yr Arglwydd :  
A'r rhai cyfiawn a rodiant ynddynt ;  
Ond troseddwy'r<sup>6</sup>—wrthyt y tramgwyddant.

## Y PETHAU DAEAROL A'R PETHAU NEFOL.

"Os dywedais i chwi bethau daearol, a chwitheu nid ydych yn credu ; pa fodd, os dywedaf i chwi bethau nefol, y credwch ?"—CAIST WAZH NICODEMUS.

MAE esbonwyr yn gyffredin yn barnu mai wrth "y pethau daearol," yn yr adnod hon, y meddylir gwaith a ffrwythau Ysbryd Duw yn yr ailenedig-aeth—pethau mwyaf ymarferol a phrofiadol y grefydd Cristionogol, am ba rai yr ymddyddanodd Crist & Nicodemus ; ac mai wrth y "pethau nefol" y meddylir, y gwirioneddau mwyaf gogoneddus a goruchel a berthynant iddi, y rhai oedd Crist ar fedr eu dadguddio i Nicodemus cyn diwedd yr ymddyddan, ac a ddygid i fwyaf o arbenigrwydd ganddo yn ei weinidogaeth gyhoeddus. Yn mysg y gwirioneddau hyn, gellid rhestru athrawiaeth y Drindod, Person Crist, a'r Prynedigaeth. Os gwir yr eglurhad hwn, fel y tybiwn ei fod, ymddengys y gellid cymhwyso yr ymadrodd, "pethau daearol" at ranau mwyaf ymarferol ac eglur Cristionogaeth ; a'r ymadrodd, "pethau nefol" at ei rhanau mwyaf damcanol (*theoretical*) ac anolrheiniadwy.

<sup>1</sup> Sef, fel coedydd Libanon.

<sup>2</sup> Yn hytrach na "dywed," o herwydd yr hyn a ganlyn, "Myfi a atebais."

<sup>3</sup> Er cysgod iddo rhag gwres ; amddiffyniad rhag niwed a feddylir.

<sup>4</sup> Y "ffrwyth," yn gystal a dtogelwch Ephraim, a ddenai oddiwrth Dduw. Rhoddai Duw iddo gysgod neu amddiffyn, a gwnai ef yn ffrwythlawn.

<sup>5</sup> Rhaid bod yn ddoeth er deall, a deallus er iawn wybod. Rhaid canfod ffyrdd Duw yn uniawn cyn y byddo i ni rodio ynddynt.

<sup>6</sup> Neu, gwrthryfelwyr, y rhai a wrthwynebant ewyllys Duw. Rhaid bod yn "gyfiawn" tuag at rodio mewn "ffyrdd uniawn."

Ond nid ydym yn gweled yr holl esbonwyr mor llwyddiannus mewn rhoddi rheswm tros yr ymadroddion hyn,—paham y gelwir rhai gwirioneddau yn “ddaearol” ac eraill yn “nefol.” Gelwir ailenedigaeth yn ddaearol, medd rhai, am mai ar y ddaear y mae yn cymeryd lle; dywedwn ninnau, y galleid, gyda chymaint o briodoldeb, alw y “pethau nefol” eu hunain yn ddaearol, o herwydd yr un rheswm; oblegid y ddaear ydyw y chwareule ar ba un y cymerasant hwythau le. Ar y ddaear y gwnaethpwyd y Gair yn gnawd, yr hysbyswyd Duw gan yr Uniganedig Fab, y dadguddiwyd ac y owblhawyd pethau mwyaf yr iachawdwriaeth. Daearol hefyd, meddir, am fod eu heffeithiau i'w canfod ar y ddaear. Wel, felly hefyd y mae effeithiau y “pethau nefol.” Fel hyn gellid, o herwydd yr un rheswm, eu hystyried hwythau yn perthynu i'r un dosbarthiad. Daearol, drachefn, meddir, mewn modd cymhariaethol,—mewn cyferbyniad i bethau uwch a mwy rhagorol mewn gogoniant. Cyfaddefwn ein bod yn hoffi y golygiad hwn mor bell ag y cyrhaedda; oblegid, er fod yr adgenedliad o darddiad nefol, ac nad yw ei nôd ddim is na dwyn pechadur yn ol ar ddelw Duw,—er ei fod yn ddolen anghenrheidiol yn nghanadwen yr iachawdwriaeth, heb yr hon na fyddai yr iachawdwriaeth yn gyfryw,—eto, os awn i son am fawredd ac arucheled, nid yw, wrth ei gyferbynu â mawrion weithredoedd Duw—rhyfeddodau Bethlehem a Chalfaria—ond peth israddol. Y mae y gwahaniaeth rhyngddynt yn fwy na'r gwahaniaeth rhwng pethau nefol a daearol. Ymhyfhawn, mewn gwylder, i ddyweyd, nad yw adgenedlu myrdd myrddiynau o bechaduriaid ond amgylchiad cyffredin *mewn cymhariaeth* i fawr ddirgelwch duwioldeb—ymddangosiad Duw yn y cnawd.

Fe allai y gallem gael eglurhad ychwanegol ar y geiriau hyn mewn cyfatebiaeth neu gydweddiad (*analogy*). Wrth y “pethau daearol” y meddylw'n, yr athrawiaethau hyny mewn Cristionogaeth ag y gallem gael pethau cyfatebol iddynt ar y ddaear—yn y byd naturiol a meddyliol; ac wrth y “pethau nefol” y golygw'n, y gwirioneddau hyny nad allwn gael dim yn gyfatebol iddynt, nac un egluriad i'w gosod allan—gwirioneddau nad ellir eu deongli trwy yr un o ddeddfau adnabyddus llywodraeth Duw: y cyntaf yn bethau cydfynedol â natur a rheswm, a'r diweddaf yn bethau uwchlaw iddynt;—ni ddywedwn yn *wrthwyneb* iddynt, er eu bod, o herwydd ein hanwybodaeth ni o drefniadau y Goruchaf, felly mewn ymddangosiad;—maent yn *ymddangosiadol* groes, am eu bod yn *wirioneddol* uwchlaw iddynt. Oblegid, pe byddent yn groes iddynt mewn gwirionedd, arwyddai hyny mai nid yr un yw Creawdwr natur ag Awdur dadguddiad.

Ymddengys fod athrawiaeth adenedigaeth yn berffaith gydweddol â deddfau adnabyddus y byd. Arwainiai rheswm ni i feddwl, a hyny cyn prawf, fod yn anghenrheidiol i greadur llygredig fyned o dan gyfnewidiad trwyadl cyn y gallai deimlo yn ddedwydd mewn gwlad a chyda phethau o ansawdd hollol wahanol. Gadawer i ni ddechymygu am ddydd hollol ddyeithr i ddadguddiad; bydded iddo fod yn rhydd oddiwrth bob rhagfarnau;—meddylier ei fod, trwy adfyfriaeth a sylwadaeth, wedi ffurfio syniadau cywir am lygredigaeth moesol dynolryw, a'r amhosiblirwydd iddynt fwynhau dedwyddwch tra ynglŷn â'r llygredigaeth hwnw. Wedi ei gael i'r tir yna, hysbyser ef fod y Crëwr Mawr, o'i haelfrydedd, wedi penderfynu dwyn tyrfâ annifeiriol o honynt i le a elwir y “drydedd nef”—fod yno un radd o greaduriaid eisoes, yn ymddigrifo yn y digonolrwydd

llawenydd sydd yno; myneger iddo hefyd natur y lle, a natur y mwynhad; mai un sanctaidd yw ei Duw, ac mai sancteiddrwydd yw ei chwbl,—oni fyddai i syniad cyffelyb i'r eiddo Crist, "Oddieithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw," ymgymhell yn ebrwydd i'w feddwl? Oni feddyliai fod yn rhaid i'r rhai a gânt ran yn yr etifeddiaeth, gael eu gwneyd yn gymhwys iddi? Mae yn ddiau mai dyna fyddai y casgliad naturiol.

Pe gofynid i ni roddi darnodiad o ailenedigaeth, nid allem wneyd yn well na hyn:—y cyfnewidiad hwnw ar y dyn sydd yn dwyn ei chwaeth i'r un elfen a phethau yr efengyl, ac i ffurfio ei syniadau yn eu hol; cymhwys y dyn oddifewn at y gwrthddrychau oddiallan; dwyn y dyn i safle briodol o'r hon y gall weled pethau crefydd fel y maent, ac nid fel y mae y byd yn edrych arnynt;—yn fyr, nid yw yn amgen na'r egwyddor o gyfaddasrwydd.

Mae y byd naturiol a meddyliol yn llawn o anghreiffiau o hyn. Cymerer yr arddunol a'r prydferth yn esiampl. Gwelwyd gwrthddrychau llawn o honynt gan filoedd; ond, mor ychydig y nifer a deimlodd erioed ddim o'u dylanwad? Y mae holl brydferthion y nef a'r ddaear wedi eu creu yn ofer o'u rhan hwy; nid oes dim mewn anian yn effeithio ar yr un teimlad o'r eiddynt—ei helpenau ofnadwy yn eithriad. Y mae y galon dan glo; ond dichon twrf y daran, a llewyrch y fellten, eu dychrynu trwy y twll. Tra y mae rhai yn cael eu swyno a'u dyrchafu gan olygfeydd prydferth ac aruchel, mae calonau eraill yn feirw o'u mewn fel calon Nabal. Pan ofynwyd unwaith i un o'r *Bushmen*, gan genadwr, beth oedd yr olygfa brydferthaf a welsai yn ei oes—gŵyr amryw o'n darllenwyr mai yr ateb gonest oedd, "Crochan mawr, llawn o gig!" Gwyddom y buasai llawer o'n cyd-genedl yn chwêrthin yn galonog pe clywsent yr ymddyddan; ond dichon, pe gofynasid yr un cwestiwn iddynt hwythau, na buasai eu hatebiad yn nemawr deilyngach o berchen ysbryd rhesymol ac anfarwol, er eu dwyn i ddyn mewn gwlad fwy goleuedig nag Affrica. Gwasanaetha hyn i ddangos fod rhywbeth mwy yn anghenrheidiol i fwynhau y prydferth nag i'r synwyrâu allanol gael eu dwyn i gyffyrddiad âg ef. Y mae yn rhaid wrth ryw synwyr mewnol i'w adnabod, a'i ryfeddu ar ol ei adnabod. Nid deall oeraidd sydd ddigon, ond calon dwym; calon yn teimlo ac yn cydymdeimlo;—yn ngeiriau un ysgrifenydd, "Calon gydnaws, chwaeth bur, a chydymdeimlad dwfn;" ac fel y dywed awdur "*Festus*"—

"The volume of the world  
Is legible alone to those who use  
The interlinear version of the light  
Which is the Spirit's, and given within  
Ourselves."

Ac, fe allai mai y berthynas rhwng y mewnol a'r allanol sydd yn cyfansoddi y prydferth, ac nid y naill neu y llall ar wahân; o'r hyn lleiaf, gwyddom fod y mewnol a'r allanol yn anhebgorol i'w fwynhau, os nad i'w gyfansoddi.

Yn awr, onid yw yr athrawiaeth a ddysga Crist i Nicodemus yn gyd-weddol â hyn? Yr oedd teyrnas Dduw wedi nesáu, a'i golygfeydd prydferth a gogoneddus ar ymagor yn ngŵydd yr Iuddewon,—golygfeydd yr oedd creaduriaid a feddent chwaeth bur, a chalon agored i dderbyn argraffiadau oddiwrth bethau mawrion, yn chwennyachu edrych arnynt, ac yn



cael eu dyrchafu a'u mawr foddhau yn yr olwg ar eu gogoniant; ond yr oedd dynion, i ba rai y perthynent fwyaf, yn gwbl ddiystyr yn eu cylch. Nid oedd y Blaguryn enwog namyn "gwreiddyn o dir sych" yn eu golwg, na'r Duw-ddyn ond y "diystyr af o'r gwŷr" ganddynt, a hyny tra yr oedd yr ychydig "a feddent galon hawddgar a da" yn ei weled "oll yn hawddgar," ac yn adnabod yr Uniganedig Fab yn y dyn Crist Iesu, ac yn teimlo yn ei athrawiaeth rywbeth oedd yn eu cylymu wrtho. Yr oedd ynddynt yr anian ddwyfol i adnabod y dwyfol yn ei Berson, a'r syniad ysbrydol i gydymdeimlo â'r ysbrydol yn ei athrawiaeth.

Gellir gwelod yr un egwyddor drachefn yn athroniaeth y meddwl. Mae yn wir nad yw y gangen hon o wybodaeth, er hyned yw, ac er ei phleidiol gan y meddyliau mwyaf yn mhob oes, wedi cyrhaedd eto i eglurder hanner dydd,—nad yw ei maes wedi ei ddiwyllio yn gymaint a'r eiddo athroniaeth naturiol; a hyny, yn un peth, am nad yw dyn yn ei ystad anianol mor alluog i ymdrafod âg ewyddorion a deddfau y byd ysbrydol a meddyliol ag ydyw â'r eiddo y byd naturiol a gweledig; eto, mae yn ymddangos y gellir teimlo yn benderfynol am rai pethau hyd yn nod yn yr athroniaeth hon: a dyna un peth,—fod gwir athroniaeth yn cynnwys y mewnlol a'r allanol. Byddai cau allan y naill neu y llall yn milwrio yn erbyn synwyr cyffredin; arweiniai yr ymchwilydd i feusydd pruddaidd ammhewaeth, ac effeithiai yn niweidiol ar sylfeini moesoldeb a chrefydd. Er ffurfio meddylddrych am unrhyw wrthddrych, rhaid wrth y ddwy egwyddor—yr allanol a'r mewnlol. Heb y cyntaf ni cheid gwrthddrychau i sylw y meddwl, ac heb yr olaf ni fyddai yr un gallu i ffurfio meddylddrych am danynt. Yn ol un o'r ysgrifenydd mwyaf galluog, y mae y synwraur yn cyfiwyno y defnydd—y gwrthddrychau ger bron y meddwl; mae y deall yn eu ffurfio; a'r rheswm—y gallu uchelaf—yn eu huno, eu rheoleiddio, a'u cyffredinol. A benthycy cymhariaeth o'r Ysgrythyr, mae y gwrthddrychau pan drosglwyddir hwy i sylw y meddwl trwy gyfrwng y synwraur yn "afuniaiidd a gwag," fel defnydd y greadigaeth ar y cyntaf; mae y deall "yn ymsymud" arnynt, ac yn eu dwyn i ffurf a threfn, ac mae y rheswm yn perffeithio y gwaith, yn cyfranu bywyd iddynt, yn eu huno a'u rhestru tan ddeddfau cyffredinol.

Gwelir yr un peth hefyd mewn achosiad. Mae profiad beunyddiol yn dangos i ni fod y fath beth yn bod ag achos ac effaith—fod y naill ddygwyddiad yn dilyn y llall bob amser yn yr un amgylchiadau. Ond ymddengys mai nid i brofiad yn unig yr ydym yn ddyledus am ein holl syniadau am achosiad, ond fod yn y meddwl syniadau gwreiddiol, cynreddfol, am y mater, annibynol ar brofiad. Dichon fod cyffyrddiad â'r byd naturiol trwy gyfrwng y synwraur yn anghenrheidiol i'w dwyn hwy allan, a dichon na ddeuai y meddwl byth yn ymwybodol o honnynt heb y synwraur; ond nid yw hyn yn gwanhau dim ar yr haerid eu bod yn y meddwl yn barod; yn lle hyny mae yn rhagdybied ei wirionedd. Os eu hegluro a'u dwyn allan yw gwaith profiad, arwyddai hyny eu bod yn y meddwl o'r blaen. Nid yw yr hyn sydd allanol mewn achosiad, os nad ydym yn camsynied, yn ein hysbysu o ddim mwy na dilynriad olynol—dim mwy na bod y naill ddygwyddiad, yr hyn a alwn *achos*, yn blaenu dygwyddiad arall, yr hyn a alwn *effaith*; ac os gwelsom y naill a'r llall amryw droiau gyda'u gilydd, y gallwn yn rhesymol ddysgwyl eu gweled felly rhaglau. Ond teimlir yn gyffredinol fod mwy na hyna mewn achosiad—fod y dygwyddiad cyntaf yn achos effeithiol, hyny yw, fod ynddo allu a rhinwedd, nid yn

unig i flaenu, ond i gynnyrchu ac i beri yr effaith; ac nid yw syniad Hume a'i addolwyr ond rhan fechan o'r gwirionedd. Nid yw y dilyniad olynol sydd yn ganfyddadwy i'r synwyrâu eu hunain ond effaith y gallu a'r rhinwedd am yr hwn yr ydym yn son. Yn awr, o ba le y cawsom y syniad hwn? Pa fodd y daethom i ddeall fod grym yn y dygwyddiad cyntaf i beri yr ail? Mae yn ymddangos i ni mai yr unig atebiad a allwn roddi i'r cwestiwn ydyw, mai o fysg egwyddorion cynreddfol y meddwl y cawsom y syniad—o'r ymsyniad a feddwn o'r anghenrheidrwydd i ewyllysiad gymeryd lle cyn y cymer gweithrediad le—o ffeithiau ein hymwybyddiaeth, ac nid o'r eiddo y byd oddiallan. Canfyddwn ein bod wedi bod yn faith gyda hyn, ond mae yr amcan yn amlwg. Mewn athroniaeth, gwelir y mewnl a'r allanol, a gwelir yr egwyddor o gyfaddasrwydd yn rhedeg rhyngddynt. Mae y byd oddifewn a'r byd oddiallan wedi eu cymhwyso y naill at y llall; y cyntaf yn gyfaddas i dderbyn argraffiadau oddiwrth y diweddfaf, a syniadau cynhenid y cyntaf yn cadarnhau ac yn egluro ffeithiau ac ymddangosiadau y diweddfaf.

Gallm gael esiamplau mwy agos i ddangos yr un gwirionedd. Yn hanes y gwŷr a aethant i chwilio ansawdd gwlad yr addewid, gwelir yr anghenrheidrwydd am i'r dyn oddifewn feddu syniadau ac ansawdd priodol mewn trefn i iawn farnu gwrthddrychau oddiallan. Wedi dychwelyd o'u taith, daeth y gwŷr ger bron cynulleidfa meibion Israel; adroddasant eu barnau am y wlad,—ei bod, yn ol yr hen ddarluniad o honi, yn "llifeirio o laeth a mel;" "ond," meddynt, wedi rhoddi hyna o ganmoliaeth iddi, "y mae y tir yn difa ei breswylwyr. Os ydyw yn fwy ffrwythlawn na gwledydd eraill, y mae yn fwy afiachus yn nghyfer hyny; hefyd, y mae y bobl yn gryfion gan mwyaf, a'r dinasoedd yn gaerog ac yn fawrion iawn; gwelsom yno hefyd dri o'r cawri, yr Anacim, ac yr oeddym yn eu golwg hwy, ac yn ein golwg ein hunain, fel ceiliogod rhedyn, a'n barn benderfynol ni ydyw, nad allwn fyned i fyny." Ond wele yn eu plith ddau ŵr—dau yn teimlo yn ddwfn dros eu cenedl, a thros lŵon eu Duw, a zel Duw yn ysu o'u mewn,—gwŷr o ysgol ac o gyffelyb feddwl a Moses a Dafydd, "y rhai trwy ffydd a oresgynasant deyrnasoedd, ac a yrasant fyddinoedd yr estroniaid i gilio." Yr oedd yn y ddau ŵr ieuanc hyn "ysbryd arall." Wele y ddau yn sefyll ger bron y gynnulleidfa, a chyferbyn â'r gwŷr a roisant anair i'r tir, ac yn dywedyd, "Gan fyned awn i fyny a pherchenogwn hi, canys gan orchfygu y gorchfygwn hi." Yr oeddynt hwy heb anghofio rhyfeddodau y Môr Coch, heb anghofio y cyfammod a'r llŵ, a braich a bwa eu Duw. Yr oedd ynddynt ffydd i bresennoli y gorphenol a'r dyfodol. Nid oedd gwrthddadleuon y deg llwyth yn llwfrhau dim ar wroldeb y ddau; parod oeddynt i ddywedyd, "Pa beth yw rhwystrau Canaan i'r Hwn a barthodd y môr, ac a ddrylliodd y graig? A ydyw dyfetha yr Anacim yn fwy na dryllio pen y lesiathan? Pa beth yw cryfder y dinasoedd i'r Arglwydd ein Duw? Os ydym yn ngolwg y cawri fel ceiliogod rhedyn, yn nerth yr Hollalluog fe all 'pryf Jacob' ddyrnu mynyddoedd." Dyma ddau "Israeliad yn wir;" meddent galon a gwaed Hebraid; teimlent yn ddwfn tros eu cenedl, ac yn ddyfnach tros eu Duw. Canaan oedd eu nôd, dyna oedd eu prif *idea*, Canaan fynent berchenogi—Canaan neu farw i Caleb a Josua. Ond ceiliogod rhedyn oedd y lleill; yr oeddynt felly am y *teimlent* felly. Ar debygolrwydd dynol y safai y deg; ar Hollalluogrwydd y safai y ddau! Y ddaear oedd y safle ar ba un yr edrychai y deg ar

oresgyniad Canaan, am hyny hwy a farnasant y peth yn anmhosiibl; ond aeth Caleb a Josua yn uwch; esgynasant hwy i'r uchelfanau, ac yno cawsant olwg ar drysorau Duw—trysorau y oenllyg a'r mellit; edrychasant ar yr anturiaeth o'r nefoedd, a barnasant y gwaith mawr yn bosibl.

Profa yr anghreifftau hyn y gosodiad a roddasom i lawr—y rhaid i'r meddwl fod yn gydnaws â'r pethau er mwyn eu deall, eu teimlo, a'u mwynhau;—yr ymddengys gwrthddrychau yn ol y safle oddiar ba un yr edrychom arnynt. Ac y maent yn gydwedol âg athrawiaeth adenedigaeth. Os rhaid wrth y deall a'r rheswm yn y dyn i roddi eglurder (*distinctness*) ar wrthddrychau y synwyrâu, onid yw y deall a'r syniad ysbrydol yn y dyn duwiol yn cyflawni swydd gyffelyb? Os oedd ysbryd llwfr y deg, ac "ysbryd arall" y ddau, yn dylanwadu ar eu barnau a'u penderfyniadau, oni welwn yr un peth yn oes Iesu Grist?—"ysbryd y byd," yr ysbryd rhagfarnllyd yn y Phariseaid yn eu dwyn i farnu mai cenad Beelzebub oedd Iesu o Nazareth, a'r "ysbryd sydd o Dduw," yn yr ychydig, yn eu dwyn hwythau i benderfynu mai efe oedd y Messia, anfonedig Duw. Mae yr esiamplau a gymerasom yr un mewn egwyddor a'r ymadroddion hyn:—"Dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw, canys ffolineb ydynt ganddo ef; ac nis gall eu gwybod, oblegid yn ysbrydol y bernir hwynt." "Gwyn fyd y rhai pur o galon: canys hwy a welant Dduw." "Heb sancteiddrwydd ni chaiff neb weled yr Arglwydd."

Ond mae y dosbarth arall o wirioneddau, y rhai a eilw Crist yn "bethau nefol," yn gyfryw nad ellir cael cyfatebiadau iddynt, nac egluriadau i'w harddangos yn y byd naturiol. Mae y gadwen yn ymestyn i dragywydd-oldeb, ymhell, bell, o'n golwg, fel nad allwn dynu llinell yn gyfochrog â hi.

Rhodder y ddyfnwers hon ger bron pob bod rhesymol:—byd euog, andwyol, i gael ei adferu, a hyny yn unol â chymeriad a deddf y Llywydd. Pwy a allasai ei deongl? Pa le mae y dyn neu yr angel a allasai ddyweyd, "Dyma y cynllun; gweithreder yn ol hwn, fe fydd dyn yn waredol, a'r llywodraeth yn fwy gogoneddus nag erioed; bydd Duw yn gyflawn ac yn cyflawnhau yr euog! Dacw y Person, a dyma yr ymrwymadau!" I ddychymyg pwy y daethai y syniad o'r posibilrwydd i Dduw ymgnewdoli, ac i gyflawnder y Duwdod breswyllo yn gorfforol yn y dyn? Yr oedd hon yn weithred o eiddo Duw nad oes yn ei holl weithredoedd, nid yn unig yr un gymaint â hi ond, yr un gyffelyb iddi. Mae yn wyrth yn mysg gwrthiaau Duw,—uwchlaw ei holl weithredoedd, nid yn unig mewn gradd, ond hefyd mewn natur. Creadigaeth oedd, ac nid dygwyddiad a gymerodd le yn ol deddfau adnabyddus o'r blaen. "Yr Arglwydd a grëa beth newydd ar y ddaear; benyw a amgylcha ŵr." "Creu," a chreu "peth newydd,"—peth heb gydweddiad âg ef yn ei holl lywodraeth.

Mae yn wir, fel y sylwa Butler, nad oes dim yn nghwrs natur yn milwrio yn erbyn athrawiaeth fawr yr efengyl, sef Cyfryngdod Mab Duw; oblegid yn amgylchiadau cyffredin plant dynion, canfyddwn yn fynych esiamplau o gyfryngiad Llywydd y byd. Defnyddia ddynion, fel cyfryngau ei drugaredd a'i farn. Mae canlyniadau naturiol gweithredoedd drygionus yn cael eu hysgoi, ar brydiau, o herwydd i rywun neu rywbeth gyfryngu. Noddir a maethir y baban gan ei rieni. Fel hyn, mae rhagluniaeth yn cael ei gweinyddu—y rhan liosocaf o'i gweithrediadau—trwy gyfryngiad: gan hyny, nid oes yn nghwrs natur yr un wrthddadl yn erbyn cyfryngdod yr efengyl. Wrth gymeryd golwg gyffredinol ar yr athrawiaeth,

ymddengys ei bod yn gyd-wedd â goruchwyliaeth rhagluniaeth. Ond os edrychwn yn fanylach, os chwiliwn y neillduolion, y mae y cyfatebiad yn pallu. Yn mha beth mewn rhagluniaeth y cawn gyfatebiad i'r ystyr a gynnwysa yr adnod hŏno o eiddo Paul, "Yr hwn nid adnabu bechod a wnaeth efe yn bechod trosom ni, fel ein gwnelid ni yn gyflawnder Duw ynddo Ef?" Mae yn wir fod yn y gair *cyflawnder* gyfeiriad at ryddhad y gwirion mewn llys gwladol, ond y mae un o'r priodoliaethau mwyaf ardderchog yn nghyflawnhad yr efengyl yn gyfryw nad oes dim yn holl ordeiniadau y nefoedd a'r ddaear yn gyd-weddol âg ef. Y mae pob cyd-weddiad yn syrthio yn anhraethol fyr i'w osod allan. Gellir trosglwyddo cosb gweithred ar un arall, a gall yr euog rodio mewn rhyddid; ond nis gellir trosglwyddo ei moesoldeb ar neb. Er i'w chosb gael ei dwyn gan un arall, mae ei heuogrwydd, a'r ymwybyddiaeth o'i heuogrwydd, fel elyll yn dilyn y drwgweithredwr yn mhob man;—euog ydyw er ei fod yn rhydd, ac isel yw ei gymeriad mewn cymdeithas. Ond yn nghyflawnhad yr efengyl, wele yr euog, nid yn unig yn rhydd, ond yn gyflawn. Mae ei ryddid yn rhyddid gogoneddus; mae ei gymeriad yn ddyrchafedig yn llywodraeth Duw; ni chofir ei anfyddlondeb a'i wrthryfel blaenorol; ni fydd adgofiad o'i fradwriaeth cynt yn peri iddo ostwng pen yn mhresenoldeb meibion Duw, y rhai a barasant yn ffyddlawn pan oedd eu brodyr yn gwrthryfela; mewn gair, "y mae yn gyflawnder Duw ynddo Ef."

Pe byddai yr oll o'r iachawdwriaeth yn gyd-weddol â deddfau a ffeithiau y byd naturiol, paham y gwawdiwyd hi yn gymaint gan athronwyr? Paham y cyfrifwyd hi yn ffolineb gan ddoethion y byd hwn? Byddai y gofyniad hwn yn anatebadwy pe dywedem fod cyfatebrwydd i'w holl wirioneddau yn y byd naturiol, a bod rheswm yn alluog i'w deongli. Y mae rheswm yn dyrsu wrth geisio esbonio ei ffeithiau mawrion:—Duw yn y cnaud, Tad tragywyddoldeb wedi ei eni mewn amser, yr Hen Ddi-henydd yn y preseb, Creawdwr y bydoedd yn blino, yn newynu, yn cysgu, yn wylu! Anmhosibl! Bywyd yn ei angeu, gogoniant yn ei waradwydd, coron yn ei groes, iachawdwriaeth yn ei glwyfau, Iesu o Nazareth yn fuddygwr ar ddiabol, pechod, ac angeu—conquerwyr pawb—wrth farw, trwy farw! Anmhosibl! Ynfydrwydd! Dyma ffeithiau y mae yn rhaid cael rhyw allu arall amgen na rheswm, ie, *rheswm*, meddwn, i ymdrafod â hwynt. Maent yn rhy fawrion i ddim ymafyd ynddynt ond ffydd.

O herwydd fod rhai o athrawiaethau yr efengyl yn "ddaearol"—yn gyfryw ag y gellir canfod pethau cyd-weddol â hwynt yn neddfau y byd naturiol, fe ddefnyddia yr ysgrifenyddys ysbrydoledig gymhariathau wedi eu cymeryd o natur ac amgylchiadau cyffredin dynolryw, i'w harddangos; ac o herwydd fod athrawiaethau eraill yn "nefol"—yn gyfryw nas gellir canfod cyfatebiad iddynt, ni arddangosir hwynt trwy un math o gymhariathau. Wrth ymdrin â hwynt, ni ddywedir ond y ffeithiau noethion, a hyny yn yr iaith fwyaf syml. Darlunir ailenedigaeth a sanoteiddiad—pethau mwyaf profiadol ac ymarferol crefydd, trwy lawer o ffugyrau; megys, enwaedu, taenellu dwfr, bedyddio, glanhau, golchi, a'r cyffelyb; ond nis gwyddom am un gyffelybiaeth i osod allan ddirgelwch y Drindod Fendigaid, ac undeb y Duwdod a'r dyndod yn Mherson Crist. Y mae y pethau hyn yn rhy fawr i ni i'w cyffelybu—yn gymaint uwchlaw natur fel nad ellir defnyddio dim mewn natur i'w deongli.

Fel hyn, y mae eglurder a dirgelwch—y ddaearol a'r nefol—yn cyd-

weithredu i roddi mwy o fawredd a dymunoldeb ar yr efengyl, nag a allasai y naill neu y llall ar wahân. O herwydd cyfarfyddiad y ddwy briodoledd ynddi, mae yn fwy cyfaddas i gyfarfod anghenion a theimladau meddwl dyn. Pe buasai yr oll o honi yn ddirgelwch pur, ni fuasai felly yn gyfaddas i berchen deall, a rheswm, a chydwybod. Fel nad oes yn y fagddu yr un hudoliaeth i swyno y meddwl—nid oes yn y dyn yr un chwilgarwch i dremio i'r tywyllwch dudew,—felly ni fyddai mewn cyfundraith fyddai drwyddi yn ddirgelwch, ddim i ddenu sylw y galluoedd deallawl; ac ni allai y teimlad moesol yn y meddwl gymeradwyo ei dyledswyddau, heb i'r deall eu gwled yn “rhesymol wasanaeth.” Mae yn rhaid i'r deall ganfod cyn y daw y galon a'r gydwybod i deimlo. Trachefn, pe na buasai dirgelwch yn yr efengyl, ni buasai mor gyfaddas i'w gobeithion a'i dysgwyliadau; ni buasai yn gymhwys i gyfarfod un o'r teimladau mwyaf urddasol yn y meddwl—ffydd, nac i ddwyn y deall a'r gydwybod dan warogaeth iddi. Os na fuasai yn caethiwo y deall, pe buasai oll yn ddirgelwch, ni fuasai chwaith yn gwneyd hyny, pe buasai ei phethau oll yn amlwg. Ni fyddai yn y gallu meddyliol awydd i ymfyn am ei llyn i'w phlymio, ond b'ai ei fod yn ymsynied fod ynddi ddyfnder mawr; ac y mae tuedd yn y syniad fod dyledswyddau a'u gorchymynion yn perthynu i gyfundrefn sydd yn cynnwys gwirioneddau uwchlaw dirnadaeth bod meidrol—y mae tuedd yn y syniad hwn i ddwyn y gydwybod i ufudd-dod. Y mae cydgyfarfyddiad y dirgeledigaethau a'r pethau amlwg mewn crefydd yn ei gwneyd yn fwy dyrchafedig—fel yr oedd y tywyllwch a'r dysgleirder ar fynydd Duw yn gwneyd yr olygfa yn fwy aruchel, ac fel y mae y cyfno—y “*twilight grey*” a ddarlunia Milton mor brydferth—yn taenu prydferthion ar wyneb natur, y rhai oeddynt o'r golwg pan oedd yr haul yn y linell ganolddydd.

Mae hyn, hefyd, yn amddiffyn dwyfoldeb Cristionogaeth. Pe buasai ei holl athrawiaethau uwchlaw rheswm, ac heb gyfatebiad iddynt yn holl gwrs natur, fe fuasai yn rhesymol i ddyn dynu casgliad fel hyn:—“Ni chredaf fi Gristionogaeth mwy na chwedlau Mahomet, oblegid mae y naill fel y llall yn milwrio yn erbyn rheswm a synwyr cyffredin. Yn nghredigaeth Duw, yr wyf yn canfod cysondeb, ac mae yn ei deddfau duedd ymarferol; maent yn cydweithio i gyflenwi fy rhaid,—mae genyf wybodaeth am bob peth cwbl anghenrheidiol i gynnal fy mod a fy nghysur; ond yn y gyfundrefn hon, nid allaf ganfod cysondeb; y mae yr oll o honi yn drysu fy rheswm; gan hyny, nid all mai yr Hwn a greodd natur ac a luniodd ysbryd dyn ynddo, ydyw awdur y gyfundrefn hon.” Trachefn, caniatâer fod crefydd yn amddifad o ddirgelwch, gallai yr un dyn, gyda phob cysondeb, dynu casgliad fel hyn:—“Dyma gyfundrefn ag y gallaf fi —bôd newidiol, creadur anwybodus—ei dirnad a'i hamgyffred oll; gall fy llaw fechan i ei rhychwantu; y mae llinyn fy synwyr i yn ddigon o hyd i blymio ei dyfnder;—nid allaf weled argraff o ddwyfoldeb arni, gan y gallaf ei hamgyffred. Onid yw yn rhesymol i mi feddwl mai rhywun heb fod nemawr uwch na minnau a'i cynlluniodd? O'm hamgylch yr wyf yn canfod llawer o bethau nad allaf wybod eu hachosion a'u deddfau,—y mae gwaith dwylaw Duw yn anfezuradwy. Ac oni ddylai cyfundrefn sydd yn profesu bod yn gynnyrch ei feddwl feddu yr un briodoliaeth?”

Ond mae cyfarfyddiad y dirgelaidd a'r eglur mewn crefydd yn cau allan lawer o wrthdadaileuon, ac yn un prawf o'i dwyfoldeb. Fel hyn, y mae yr iachawdwriaeth yn deilwng o'i Hawdur, ac yn gyfaddas i'w

gwrthddrych. Mae y gogoniant mwyaf i'r oll o'r Duwdod; mae ynddi y testunau mwyaf ardderchog i'r deall, y dymunoldeb puraf i'r galon, y cymhelliadau cryfaf i'r gydwybod, a ohoflaid anfeidrol i ffydd. Nid rhyfedd fod Duw yn ei rhyfeddu a'i chanmawl,—ei fod yn galw sylw y greadigaeth wrth greu y nefoedd newydd a'r ddaear newydd,—ac y dywed wedi ei pherffeithiad, gyda mwy o ymhyfrydiad nag ar ddiwedd y chwe' diwrnod, "Da iawn ydyw." Nid rhyfedd mai y drefn hon fydd canol-bwynt dyddordeb y tywysogaethau, y thronau, a'r arglwyddiaethau, yn y nefolion leoedd; ac y bydd i ambell un o fynyddau Cymru wrth ei hefyddu yn barod i ganu,

"O holl weithredoedd Duw ei hun,  
Y benaf oll oedd prynu dyn."

Y mae y "pethau daearol" a'r "pethau nefol" yn gwneyd i fyny un gyfun-drefn—fel ysgol Jacob—y "pethau daearol" fel y pen oedd ar y ddaear, yn ymyl y pererin, a'r "pethau nefol" fel y pen oedd yn y nefoedd, uwchlaw canfyddiad y llygaid mwyaf eryraidd, ac yn ymyl gorsedd Duw, ar yr hon yr eistedda yn y goleuni nas gellir dyfod ato. Ymgydnybudded ein darllenwyr â'r "pethau daearol" yn awr, hwy a gânt ryfeddu y "pethau nefol" yn eu gwlad eu hunain.

---

## HUGH OWEN, O FRON Y CLYDWR.

NID oes neb yn awr yn fyw a welodd wyneb, nac a glywodd lais y pregethwr nerthol a'r gwas ffyddlon hwn i Grist. Y mae ei gorff lluddedig wedi gorphwys yn dawel yn y bedd, er's mwy na chant a hanner o flyneddau, a'i enaid dros gynnifer o flyneddau wedi mwynhau llawenydd ei Arglwydd, yr hwn a wasanaethodd mor ffyddllan trwy groesau lawer yn y byd. Ond er ei fod wedi marw, y mae yn llefaru eto; ac y mae ei enw mor adnabyddus gan filoedd yn Nghymru a phe buasant wedi ei glywed, ei weled, a mwynhau ei gymdeithas yn y byd. Er mai tir anghof yw y bedd, nis gall y bedd bydru enwau a choffadwriaeth y rhai a wasanaethodd eu cenedlaeth yn efengyl Mab Duw. Y mae dylanwad bywyd pob dyn yn effeithio ar oesau dyfodol; ac er fod annuwiolion yn gyffredin yn anghofio hyn, ac er nad dynt yn cadw na chof na pharch i enwau nac ymddygiad y rhai a agorasant ac a gerddasant lwybrau pechod, y mae pawb a garant grefydd a rhinwedd yn cadw coffadwriaeth gysegredig, nid yn unig am enwau, ond hefyd am hen anneddau a beddau y rhai a fu yn offerynol yn llaw Duw i effeithio yr ysgogiad cyntaf o ddiwygiad mewn gwlad a chenedl. Un o'r dosbarth hwn oedd gwrthddrych ein hysgrif bresennol. Ymorchestodd traddodiad i gadw enw Hugh Owen, o Fron y Clydwr, yn newydd ar feddyliau y wlad, a gofalodd hanesyddiaeth argraffedig, er mor ddiffygiol y mae wedi bod mewn cymhariaeth i'r hyn ydyw yn awr, am drosglwyddo ei gymeriad, ei lafur, a'i orchest-gampau Cristionogol i'r oesoedd a ddeuent.

Yr ydym wedi bwriadu ac addunedu er's amser maith dalu teyrnged o barch i'w goffadwriaeth, trwy gasglu ei hanes a'i gofrestru gydag enwogion sydd eisoes wedi eu hanfarwoli ar ddalenau y "Traethodydd;" ond

pan ymafaelasom yn y gorchwyl, gwelsom, er ein siomedigaeth, nad ydyw yr hanes am dano ond byr iawn a gwasgaredig; eithr y mae yr amseroedd enbyd yn y rhai yr oedd efe yn byw ynddynt, cyflwr isel a thywyll preswylwyr Cymru yn yr amser hwnw, ynghyd â'i lafur diflin yntau dros gynnifer o flyneddau, yn profi yn eglur mai dyn Duw oedd Hugh Owen, a bod ei goffiadwriaeth yn teilyngu cof a pharch tra parhao effeithiau yr efengyl a bregethodd ar breswylwyr siroedd Gogledd Cymru.

Yr ydym ar goll i wybod ond ychydig am ddyddiau boreuol Hugh Owen. Ymddengys fod ei hynafiaid yn nosbarth cyfoethogion y byd hwn, ac yn berchenogion etifeddiaeth Bron y Clydwr, plwyf Llanegryn, sir Feirionydd, yr hon a ddisgynodd trwy dreftadaeth yn eiddo iddo yntau. Y mae yn wir mai nid llawer o gyfoethogion y byd hwn a alwyd; ond galwyd rhai o gyfoethogion y byd hwn i fod yn gyfoethogion mewn gras, ac i gyfoethogi eraill âg efengyl, pryd nad oedd dymuniad na chalon i gynnal ei phregethwyr gan y rhai y pregethid hi iddynt. Felly yr oedd Hugh Owen wedi ei godi gan Dduw i ateb i amgylchiadau yr oes yr oedd efe yn byw ynddi; pregethodd yr efengyl yn rhad: ond nid yw yr efengyl ond rhad i'r rhai sydd yn cynnal y rhai a'i pregethant. Y mae yr areithfa yn werth llawer mwy nag a delir am dano; nid ydyw y draul ond naturiol ac amserol, ond y mae yr elw yn ysbrydol a thragywyddol.

Mewn trefn i'n darllenwyr gael cyfeusdra i ffurfio barn gywir, a meddwl a chofio am y blaenor enwog hwn, dosbarthwn ein hysgrif yn rhanau.

*Yr amgylchiadau a'i dygodd at ei waith.*—Yn y flwyddyn bythgofiadwy 1662, yr oedd Hugh Owen yn athrofa Rhydychain, mewn bwriad i fod yn weinidog yn yr Eglwys Sefydledig. Yn y flwyddyn hon, Awst 24ain, y bu y diffyg mawr ar haul rhyddid crefyddol. Cofir am y dydd hwn hyd oesoedd olaf y ddaear. Dydd tywyll *St. Bartholomew*,—dydd y rhoddwyd Cyfraith yr Unffurfiad mewn grym, er rhwymo pawb i arferyd y Llyfr Gweddî Cysfiredin yn mhob lle o addoliad cyhoeddus trwy yr holl deyrnas, heb gymaint a'r goddefiad lleiaf yn cael ei ganiatáu i new i farnu drostynt eu hunain mewn dim, nac i gario ymlaen un rhan o addoliad dwyfol ond fel yr ysgrifenydd yn y llyfr. Deddf oedd hon yn rhwymo holl weinidogion yr efengyl i fod yn fath o *barrots* i adrodd *ready made prayers* yn nghlyw eu cynulleidfaoedd, heb gael barnu am amgylchiadau nac anghenion yr eneidiau tan eu gofal. Rhoddwyd y gyfraith Babaidd ac anghristiaidd hon mewn grym mor fuan, ar ol ei gwneuthuriad, fel nad allai un o bob deugain o weinidogion *welod* y llyfr, chwraithach ei ddarllen; er hyny yr oedd y gyfraith yn eu rhwymo *oll*, ar yr un dydd, i arwyddo eu cydsyniad *didwyl a chalonog â'r oll oedd ynddo*, neu gael eu bwrw allan o'u bywioliaethau a'u defnyddioldeb. Ond er anrhydedd oesol i'w coffadwriaeth, ac er mawl a gogoniant nerthoedd gras ar y galon, dyoddefodd dros *ddwy fl*, o leiaf, o weinidogion duwiol a ffyddlawn yr Eglwys Sefydledig gymeryd eu bwrw allan o'u plwyfau, i wynebu tlodi, anmharch, a charchar, yn hytrach na chydymffurfio â chyfraith dreisiol a defodau dynol o grefydd. Yr amser hwn, gadawodd Hugh Owen yr athrofa, ac aeth i Lundain, ac yn fuan wedi hyn sefydlodd yn ngwlad ei enedigaeth, a phenderfynodd fywioliaethu ar ei etifeddiaeth ei hun yn Mron y Clydwr, a threulio ei oes i bregethu efengyl Duw yn rhad i dlodion anwybodus yr ardaloedd cylchynol. Bu Deddf yr Unffurfiad, yr hon oedd yn amcanu caethiwo pawb, yn achlysur i ddwyn i mewn dragywyddol ryddhad; ac er mor dywyll oedd

dydd gŵyl Bartholomew, torodd goleuni mawr ar Gymru mewn canlyniad i'r diwrnod hwn. Gwelodd Hugh Owen gladdu Siarl yr Ail : ac yn ei ddyddiau ef bu gorfod i'r brenin Iago ffioi o'r deyrnas am ei fywyd. A bu cyhoeddiad Deddf y Goddefad, er mor ddiffygiol ydoedd, gan William y Trydydd, yn falm i'w galon dyner.

*Ei lafur gweinigogaethol.* Dywed y Dr. Calamy, mai canwyll yn lloegi ac yn goleuo mewn lle tywyll ydoedd, a'i fod yn seren ddysglaer mewn cylch ũang ; a bod ei weinigogaeth efengylaidd a serchiadol yn gwneuthur argraff ddwys iawn ar y lluoedd a fyddent yn gwrandaw arno. Yr oedd ganddo bump neu chwech o leoedd i bregethu ynddynt yn sir Feirionydd. Yr oedd Pantphylip, yr hwn sydd o fewn oddeutu pedair milltir o Lwyn-gwrl, yn un o honynt; ac y mae tŷ bychan yn Nolgellau, yn ymyl capel yr Annibynwyr, lle yr arferai bregethu, a bernir mai dyma yr achos ei fod yn cael ei enwi "tŷ cyfarfod" hyd y dydd heddyw. Yr oedd ganddo hefyd amryw o leoedd i bregethu yn sir Drefaldwyn, a bu yn ymweled yn rheolaidd bob tri mis, ac weithiau yn amlach, ũ Llanbrynmair, am ddeunaw mlynedd ar hugain. Byddai yn ymweled yn fynych hefyd ũ siroedd eraill y Gogledd. Yr oedd yn ymweled ũ'r lleoedd tan ei ofal yn rheolaidd bob tri mis; a phan elai dros ei gylchdaith *umwaith*, *ail-ddechreuai* drachefn. Yr oedd yn llafurio yn egniol a diorphwys. Teithiai yn fynych y nos, fel y dydd, a hyny dros fynyddoedd uchel, ar hyd ffyrdd dyrus a geirwon, ac ar dywydd gwlyb ac oer, heb ond ychydig iawn o ymgeledd, ac yn fynych heb gael digon o anghenrheidiau y bywyd hwn. Anaml y byddai yn cael pryd o gigfwyd, ac ni byddai byth yn profi diod gadarn. Ei ymborth penaf oedd llaeth, yr hwn oedd fwyaf cyffredin a hawddaf ei gael yn y tai tlodion, lle y byddai yn lletya. Yr oedd yr ymborth agosaf at law bob amser yn ei foddioni ef; byddai yn ddiolchgar am yr ymgeledd waelf, a chysgodd yn dawel lawer noswaith ar wely o wellt.

Nis gallasai dim ond cariad at eneidiau a gogoniant Duw beri iddo ymroddi ũ'i holl galon, a throes ei holl fywyd fel hyn. Nid anghen a'i gyrai oddi cartref, canys yr oedd yn perchen etifeddiaeth o'i eiddo ei hun. Gallasai fwynhau cysuron teuluaid, a gorwedd ar wely manblu yn ei balas, pe buasai yn dewis; ond dewisodd yn hytrach adfyd pobl Dduw, gan farnu yn fwy golud ddirmyg Crist na thrysorau'r byd; ac er fod effeithiau ei weinigogaeth bron wedi diflanu yn mhen blyneddau ar ol ei farwolaeth, cododd yr Arglwydd ei Harris, ei Rowlands, ac eraill, i ddyfrhau yr had, cyn iddo lwyr ddarfod yn y tir. Bu ef a'i gydlafurwyr yn planu, a daeth eraill i ddyfrhau, ond Duw a roddodd y cynnydd.

*Ei gymeriad Cristionogol.* Yr oedd yn nodedig am ei addfwynder a'i ostyngieiddrwydd. Ystyriai ei hun megys y llai na'r lleiaf o weinigogion Iesu Grist. Arferai ddywedyd nad oedd yn cenfigenu wrth ddoniau neb, ac nad oedd yn ymawyddu am ychwaneg o ddawn, ond mai ei brif ddymuniad ef ydoedd cael ei nerthu i iawn ddefnyddio y dalent fechan oedd ganddo yn ngwasanaeth ei Arglwydd.

Rhydd y Parch. Hugh Farmer, o Walthamstow, yr hwn oedd ũyr i Mr. Owen, y disgrifiad canlynol am ei hybarch daid:—"Gwroldeb, cydymdeimlad, ac elusengarwch, oeddynt rai o brif nodweddiadau ei gymeriad. Ymwelai ũ'r holl tlodion oeddynt yn ei gylchdaith weinigogaethol, a chyfranai at eu cynnalïaeth hyd eithaf ei allu. A mynych y darfu iddo, wrth weled tlodion mewn anwyd a noethni, ddyosg rhan o'i ddïllad ei hun i



ddiogelu y cyfryw rhag llymder yr oerfel. Ar un amser, pan ydoedd math o glefyd chwyslyd yn cymeryd lluoedd i dragwyddoldeb, yr oedd yn ymweled â'r oleifon gyda gofal a diwydrwydd nodedig; ac nid yn unig cyfranaï o'i eiddo er cynnorthwyo y rhai oeddynt mewn prinder, ond elai i mewn i'r ystafelloedd tlotaf, a chyflawnai bob gorchwyl anghenrheidiol â'i law ei hun.

Yr oedd hefyd yn dra nodedig o ran ei dawelwch meddwl mewn peryglon, a'i wresogrwydd mewn gweddi.

Yr oedd yn ofalus iawn rhag bod yn achos o flinder i neb; ac er ei fod yn ddiysgog o blaid ei egwyddorion ei hun, yr oedd yn addfwyn a char-edig wrth bawb o wahanol farn iddo. Yr oedd bob amser yn parchu dynion, nid yn ol eu *daliadau*, ond yn ol eu *duwioldeb*. Ymlynaï yn gariadlawn wrth bob dyn a fyddai yn dwyn nodau gras a delw Duw. Felly, trwy ei foesau hawddgar, ei ymarweddiad diargyhoedd, a'i lafur gwastadol yn ngwaith ei Arglwydd, ennillodd iddo ei hun barch cyffredinol. Yr oedd yn toddi ei elynion i fod yn heddychol âg ef. Daeth yn adnabyddus i amrai o foneddigion ei wlad, ac yr oedd yn barchus iawn gan lawer o honynt.

Yn ystod ei oes, cafodd lawer o amlygiadau o ofal yr Arglwydd am ei fywyd pan mewn cyfyngderau a pheryglon, a chafodd lawer o waredigaethau rhyfeddol mewn atebiad i weddi. Un tro yn neillduol, pan yn dychwelyd adref ar noswaith dywyll, collodd y ffordd, a deallodd ei fod mewn enbydrwydd am ei fywyd. Yn y cyfyngder hwn, disgynodd oddi ar ei gefyl, a thaer erfyniodd ar Dduw am gyfarwyddyd. Cyn iddo orphen gweddio, chwalodd y niwl a'r cymylau, a goleuodd yr awyr, yna canfu ei ffordd, a diangodd yn ddiberygl. Dro arall, pan yn myned i bregethu yn nyfnder y gauaf, goddiweddiwyd ef gan dywyllwch y nos ar ben mynydd; cododd tymhestl ddychrynllyd yn ddisymwth, ac yr oedd y corwynt yn chwythu yr eira gyda y fath erwindeb fel nad allai ei geffyl fyned yn ei flaen. Gollyngodd ei gefyl i fyned yn ol ei ewyllys, nes y deallodd ei fod yn nghanol cors a siglenydd peryglus. Yna disgynodd, a gadawodd ei anifel, a chyflwynodd ei hun i Dduw mewn gweddi, a cherddodd yn ei fotasau trwy eira dwfn hyd hanner nos. Erbyn hyn, yr oedd mor luddedig ac wedi ei guro gymaint gan yr oerfel, nes iddo orfod penderfynu y collai ei fywyd. Wedi cerdded oddiamgylch dros ychydig o amser, daeth at feudy bychan; ond er ei siomedigaeth, cafodd y drws wedi ei foltio oddi fewn, a diffoddwyd ar unwaith yr ychydig obaith oedd ganddo. Bu yn ymdroi oddiamgylch dros awr, mewn anobaith am ei fywyd; ond pan bron yn trengu, canfu dwll bychan yn nhalcen yr adeilad, a chydag anhawsder mawr, ymlusgodd i mewn, a gorweddodd rhwng y gwartheg hyd y boreu. Yna daeth allan, a chanfu dŷ yn lled agos, ac ymdrechodd fyned ato; curodd wrth y drws, ac yn uniongyrchol cododd y gŵr, ac mewn modd caredig, gwahoddodd ef i mewn. Yr oedd ei ddillad, ei wallt, a'i farf, wedi sythu gan eira rhewedig. Yr oedd ei ddwyllaw a'i draed wedi fferu a diffwrtho gan yr oerfel. Wrth ei weled yn y fath gyflwr gresynus, a bron yn methu siarad, llanwyd gŵr y tŷ â thosturi;—cynneuodd dân rhagorol gyda'r brys mwyaf; twynnodd iddo ychydig laeth, a gosododd ef mewn gwely cynhes. Yn mhen ychydig, adfywiodd yn rhyfeddol, ac wedi gorphwys ychydig oriau, cododd yn galonog, aeth i'r tŷ cyfarfod yn ol ei gyhoeddiad, a phregethodd fel arferol yn fywiog a nefolaidd.

*Yr erlidigaethau a gafodd.* Pan ystyriom yr amser erlidigaethus yr oedd efe yn byw ynddo, a'r cyfreithiau caethion a ffurfiwyd yn ei oes ef er attal rhyddid crefyddol, yr ydym yn rhyfeddu ei fod wedi cael can lleied o erlidigaethau, a chymaint o ryddid. Yn ei ddyddiau ef y ffurfiwyd Cyfraith y Pum Milltir. Cyfraith oedd hon yn gwahardd i bob pregethwr o blith yr Anghydfurfwyr ddyfod o fewn pum milltir i un ddinas na bwrdeistref, nac i'r lle y bu yn byw ynddo o'r blaen, na gweini mewn pethau crefyddol mewn un ystyr, dan y perygl o orfod talu deugain punt o ddirwy, neu gymeryd y llŵ canlynol:—"Yr wyf yn tyngu na bydd i mi, ar unrhyw achos, wrthsefyll na chymeryd arfau yn erbyn y brenin, a fy mod yn ffeiddio y fath ymddygiad bradus a gwrthsefyll ei awdardod a ddirprwyir ganddo i weini y cyfryw; ac na bydd i mi, ar unrhyw amser, wneuthur un ymdrechriad i ddiwygio, na gwneuthur un cyfnewidiad mewn gwlad nac eglwys." Galesid meddwl fod yn anhawdd i'r un Ymneilldŵr ddianc o afaelion y gyfraith uchod; ond yr oedd cyfraith gyfyngach drachefn yn nyddiau yr enwog Hugh Owen, sef Cyfraith y Pum Dyn. Cyfraith oedd hon yn gwahardd i fwy na phump o ddynion ymgynnul mewn tŷ, heblaw y teulu, er cyflawni unrhyw fath o wasanaeth crefyddol, dan y perygl o orfod talu am y tro cyntaf bob un bum punt, neu ddyoddef tri mis o garchar; am yr ail dro, ddeg punt, neu ddyoddef chwe' mis o garchar; a'r trydydd waith, eu halltudio dros y môr am saith mlynedd; ac os dychwelent oddiyno cyn yr amser, eu bod i'w gosod i farwolaeth yn ddirgaredd, fel drwgweithredwyr cyffredin. Mewn difrif, ddarllenodd! onid oedd yn anhawdd crefyddia y dyddiau hyn? Nid anghyflawn fyddai crybwyll hefyd mai nid Pabyddion, ond y rhai a enwant eu hunain yn Brotestaniaid, oedd llunwyr a gweinyddwyr y cyfreithiau hyn, a llawer eraill o rai cyffelyb. Ond er yr holl gaethiwed a gelyniaeth, nid ydym yn cael lle i ddeall fod gwrthddrych ein hysgrif wedi gorfod dyoddef ond ychydig o erlidigaeth, na chosbau gwladol. Yr ydym yn cael yr hanesion canlynol mewn perthynas iddo:—"Yn nheyrnasiad Iago yr Ail, daeth is-sirydd Meirionydd i'w ddal, a'i gymeryd yn garchar, a phau mewn dalfa yn ei dŷ ei hun, gofynodd genad y sirydd i weddio gyda'i deulu cyn eu gadael. Caniatâwyd ei ddymuniad, a chafodd y weddi y fath effaith ar y swyddog, fel yr ymadawodd yn synedig, gan adael ei garcharor yn rhydd."

Dro arall, carcharwyd ef gan Arglwydd Powys, yn y Castell Coch; ond darfu ei ymddygiad addfwyn a dengar ennill sylw a pharch y teulu, a dangoswyd tuag ato bob tiriondeb. Wrth ei glywed un tro yn gweddio, dywedodd y *Lord* wrth ei offeiriad, "Yn wir, y mae hwn yn ddyn da." Rhyddhaodd ef; ac wrth ei ryddhau, gwahoddodd ef yn y modd caredigaf i ddyfod i ymweled âg ef i'r Castell Coch, bob dydd Nadolig.

Nis gallwn lai na rhyfeddu eto, fod Mr. Owen wedi cael y fath lonyddwch am gynnifer o flyneddau i bregethu efengyl y deyrnas. Y mae genym hanes fod Mr. Henry Williams, o'r Ysgrafell, ger y Drefnewydd, yr hwn a fu yn cydlafurio â Mr. Owen dros flyneddau meithion, yn enwedig yn sir Drefaldwyn, yn gorfod dyoddef erlidigaethau lawer am ei fod yn Anghydfurfwyr. Treuliodd bron naw mlynedd o garchar i garchar, a darfu i'w erlidwyr creulawn, heblaw anrheithio ei dda a llosgi ei dŷ, lofruddio ei dad oedranus, ac amharchu ei wraig yn y modd barbareaiddiaf. Dichon fod y llongyddwch a gafodd Mr. Owen, i'w briodoli i'w amgylchiadau bydol, tiriondeb ei dymher, a'i fywyd sanctaidd, ond yn benaf

oll, dylem ei briodoli i amddiffyniad yr Hollalluog, yr hwn a'i defnyddiodd dros oesfaith i wneuthur daioni i lawer.

*Ei deulu.* Ymddengys wrth yr hanes sydd genym, fod i Hugh Owen bedwar o blant, sef tair merch ac un mab. Priododd un o'r merched weinidog yr efengyl, sef Mr. Edward Kenrick, Wrexham. Y mae amryw o'r teulu hwn yn awr yn fyw, ac nid ymadawodd crefydd byth o hono. Priododd yr ail, ŵr boneddig cyfoethog o sir Amwythig; ond bu y ferch arall farw yn ieuanc a dibriod. Y mae mewn hen lyfr a fu unwaith yn meddiant y Parch. John Kenrick, Wrexham, yr hwn oedd fab i Edward Kenrick, a briododd ferch Hugh Owen, y cofnodiad canlynol, "Y llinellau canlynol sydd ar fedd fy modryb Jane Owen:—

"JANE OWEN, 17 OED, FU FARW GORPHENAF 13, 1696.

ONGHOR I'R BYW.

Mewn daear oer dan draed fel finne,  
Pwy bynag wyt, y byddi dithe;  
Oh, cred yn Nghrist casâ bob pechod  
A dim dan haul na châr yn ormod,  
Y rhybudd yma os dystyri,  
Mewn byd arall ti roi gyfri."

Bu ei fab, John Owen, byw nes dwyn ffrwythau crefydd i addfedrwydd. Bu yn weinidog ffyddlawn i Grist; ond ynghanol ei ddyddiau a'i ddefnyddioldeb, syrthiodd i'r bedd, wedi cystudd trwm am yspaid naw diwrnod. Rhydd yr anfarwol Matthew Henry y cofnodiad canlynol am dano yn ei ddyddlyfr:—

"Yn y flwyddyn 1700, Mehefin 27, bu farw Mr. John Owen, mab i'r gwir dduwiol, gostyngedig, a'r llafurus weinidog, Mr. Hugh Owen, o sir Feirionydd, yr hwn oedd ganwyll yn llosgi ac yn goleuo mewn gwlad dywyll, oer, a llwm; un oedd yn rhagorol am ei hunanymwadiad a'i farweiddiad i bethau y byd hwn. Ei fab, John, oedd sobr a difrifol er yn blentyn. Bu yn fyfyrwr gyda Mr. Frankland, ac wedi rhai blyneddau o arosiad gydag ef fel dysgedydd, efe a neillduwyd yn gynnorthwywr iddo; a thra bu felly, bu ei ymarweddiad a'i esiamplau yn fendith fawr i lawer o wŷr ieuaine yn y teulu. Gwnaeth gynnydd mawr mewn crefydd a dysgeidiaeth cyn iddo ymadael â'r lle hwn, ac ymroddodd i'r weinidogaeth gyda difrifweh mawr a derbynriad da. Dewisodd dreulio ei amser a'i nerth yn yr un lle ag y bu ei dad fyw a marw; ac efe, yr wyf yn meddwl, oedd yr unig weinidog Ymneillduol yn sir Feirionydd. Arweiniodd rhyw achlysur ef i'r Amwythig; syrthiodd yn glaf yno yn nhŷ Mr. Orton, ac mewn naw diwrnod o amser bu farw, pan oddeutu deg ar hugain oed, er mawr alar i bawb oedd yn ei adnabod, a cholled annhraethol i eglwys Dduw." Galwyd Mr. Henry i'w gladdedigaeth, a phregethodd oddiwrth *Heb.* xiii. 17: "Oblegid y maent hwy yn gwylio dros eich eneidiau chwi, megys rhai a fydd raid iddynt roddi cyfrif." Y noswaith cyn ei farwolaeth, yr oedd Mr. James Owen gydag ef, ac yn dangos dymuniad ac awydd am i'r Arglwydd ei arbed i'w ddefnyddioldeb mawr yn Nghymru, a'r lle y byddai y fath golled ar ei ol. Atebodd yn addfwyn, "Byddai yn falchder meddwl i dybied fod ar Dduw anghen am neb o honom!" Bu galar mawr ar ei ol, ac nid heb achos, canys nid oedd ond ychydig o ddynion ieuaine o gyffelyb feddwl.

Wrth ddarllen y dyfyniad uchod, y mae yn anhawdd myned heibio heb

sylwi mor dywyll ac anolrheiniadwy yw goruchwyliaethau rhagluniaeth Duw. Dyma ŵr ieuanc duwiol a defnyddiol, yr hwn oedd wedi dyfod i lenwi lle ei dad llafurus, ac yn ddymuniant llygaid holl gymdeithasau crefyddol sir Feirionydd, yn cael ei gymeryd ymaith â dyrnod. Ond os cymerodd yr Arglwydd hwn ymaith, cododd eraill yn ei le. Ni bu diffyg erioed ar Dduw am offerynau i gario ei waith ymlaen, a da fyddai i'r mwyafrif defnyddiol a llwyddiannus gyda gwaith yr Arglwydd, gofio sylw y gweinidog ieuanc hwn,—“Byddai yn falchder meddwl i dybied fod ar Dduw anghen am neb o honom.”

*Ei llythyr cymun.* Ychydig cyn marw, ysgrifonodd llythyr difrifol iawn, yn cynnwys gair o gyngor i bobl ei ofal, yr hwn a alwai ei “lythyr cymun diweddfaf;” Y mae y llythyr cymun hwn yn werth sylw ac ystyr-iaeth proffeswyr crefydd yr oes hon, a'r holl oesau a ddaw. Yn y llythyr hwn, y mae yn dywedyd,—“Gochelwch *fydolrwydd*; canys y mae lle i ofni fod y byd fel canwr yn ysu pob da mewn llawer mynwe, nes gwneyd yr enaid mor wag a sych a'r gragen. Gwylwch yn erbyn *balchder* calon, ie, llawenychwch am bob cyfleusdra i ymddarostwng i'r llwch er mwyn Crist, gan fod yn awyddus i faddeu yn ol ei orchymyn ef i'r rhai a wnaethant niwed i chwi. Gochelwch y dymher falch a fyno uchel lefain yn mhob man—‘Hwy droseddodd, a hwy raid blygu.’ Dyfal wylwch hefyd yn erbyn *tymher ddadlugar*, oblegid gwyddom ei fod wedi mynych guddio wyneb Duw, ac attal llwyddiant goruchwyliaeth achub.” Y mae yn nodi un man a lwyr ddinystriwyd agos, trwy ymddadlau â'u gilydd am fedydd, a dywed, “Yr ydwyf yn gwasgu hyn atoch, oblegid prif nod ac ymdrech pob aelod a ddylai fod, helaethiad achos Crist, a chael delw Crist, ac nid eu golygiadau eu hunain, wedi ei argraffu ar eneidiau dynion. Os caf ddelw Crist ar fy enaid, byddaf yn sicr o fyned i'r nefoedd; ond gallaf fod yn gyfranog o bob *dull* o fedydd, a myned i uffern yn y diwedd.”

*Ei farwolaeth.* Gellir dywedyd yn ddibetrusder am dano, iddo wasanaethu ei genedlaeth ei hun trwy ewyllys Duw. Nid ydoedd yn gwneuthur cyfrif o ddim ond cyflawni y weinidogaeth a ymddiriedwyd iddo; ac wedi oes hir a llafur caled yn ngwinllan ei Arglwydd, ciliodd ei gryfder, gwanychodd ei iechyd, adfeiliodd ei babell briddlyd, bu farw, a hedodd ei enaid i mewn i lawenydd ei Arglwydd: “Ystyr y perffaith ac edrych ar yr uniawn, canys diwedd y gŵr hwnw fydd tangnefedd.”

*Ei fedd.* Claddwyd ef yn mynwent Llanegryn, sir Feirionydd. Y mae beddau y saint yn gysegredig, a diau nad oes neb o'n darllenwyr na charent weled bedd y gŵr enwog hwn; ond rhag ofn na wel y rhan fwyaf o ddarllenwyr y cofiant hwn byth mo Lanegryn, na'r bedd, rhoddwn yma yr argraff sydd ar y coffr careg, hen a llwyd, sydd yn cadw meddiant ar ei lwch, yr hwn a orphwys yno hyd ganiad udgorn barn. Y mae yn argraffedig arno y llinellau canlynol;—

“HUGH OWEN, O FRON CLYDWR.

PREGETHWB YR EFENGYL YN OL EI LAFUR SYDD YMA YN GORPHWYS; OED 80 A HANWER.

Bu FARW MAWRTH 15, 1699.

Y Cymro anwyl edrych yma  
Ar fy medd a dwys ystyria,  
Fel yr wyt ti y bum innau  
Fel yr wyf fi y byddi dithau;

Gan nad wyf mwy i bregethu,  
O'm bodd mynwn wneuthur hyn,  
O cred yn Nghrist a bydd grefyddol,  
Casâ bob drwg a bydd fyw 'n dduwiol."

Yr oedd yn ein bwriad wneuthur adolygiad byr a chymhwysiadol ar yr ysgrif flaenorol, ond tarawodd yn gryf ar ein meddwl nad allem gyfansoddi dim mwy priodol, na dim mor debyg o effeithio teimlad crefyddol yn mynwes ein darllenwyr, na'r alargan ardderchog a gyfansoddodd Elen Egryn, wrth fyfyrus ar ei gymeriad ac edrych ar ei fedd; a diau na ddigia yr awdures barchus wrthym am ddefnyddio ei phennillion fel diweddgio i'n hysgrif bresennol. Hi a ganodd fel hyn :—

"Och ! athraw parchedig, ai yma mae 'th drigfa !  
Rhyw syndod a'm llanwodd wrth wel'd dy orphwysfa !  
Rwy 'n syllu o'm hamgylch, mae 'r llyisiau bron cuddio  
Yr annedd ddiaddurn lle 'r wyt yn gorphwyso :  
Mudanaidd yw 'r tafod fu gynt yn cyhoeddi  
Y ffordd i bechadur ochelyd trueni.

Ai yma gorweddi dan draed yr ynfydion,  
Yr hwn mae dy gofio 'n ddiwyfwrch gan ddoethion !  
Ar lwybr dy fywyd blodeuodd rhinweddau,  
Pa rai sydd yr awrhon yn ber eu haroglau ;  
Er grym erlidigaeth a thwrw bygythion,  
Ni wyrwyd dy gamrau, ni lygrwyd dy goron.

Er amled dy wawdwyr, er cryfed eu byddin,  
Er carehar, ni sigiwyd dy zêl dros dy Frenin ;  
Gwroldeb goronodd dy holl ymdrechadau,  
Dy 'mynedd ni phallodd, er amled y croesau,  
A'th bwys ar dy Briod gwynebaist y tonau,  
Dyrchefaist ei faner yn nghanol y brwydrau.

Er maint anwadalwch fy meddwl crwydredig,  
Fe'i daliwyd wrth syllu ar annedd lygredig.  
Och ! Owain ardderchog paham ceir dy enw,  
Ar careg lwyd waeledd ymhlith y rhai meirw ?  
Oes modd dy ddihuno pe bloeddiwn yn uchel ?  
Tyr'd allan oddi yna, mae pob peth yn dawel.

Mae rhyddid trwy 'r gwledydd, mae mwynder pregethu,  
Mae mil o galonau a garant dy gwmi,  
Mae'r haul yn pelydru, e ffordd y cymylau,  
Teyrnfradwyr dy Frenin dafiasant eu harfau :  
Mae braidd yn rhyw syndod dy fod yn gorphwyso,  
A'r gwaith heb ei orphen ; mae 'n bryd i ti ddeffro,

Er dyweyd am felusder ein goruchel freintian,  
'Does ond swm yr awel yn ysgwyd y blodau ;  
Ni chlywaf i'm hateb un llais o'r daeardy,  
Rwy 'n ofni it' gyfarfod â pheth mwy na chygyro !  
A raid i mi adael dy wely mewn dagrau,  
Heb gael er taer ymbil un cynghor o'th enan !

Paham y dychymyga fy meddwl fath wagedd ?  
'Does yma ond manlwch ei gorfyn mewn llygredd.  
Ymdrechodd deg ymdrech, ehedodd i wynfyd,  
Gorphenodd ei yrfa, coronwyd ef hefyd,  
Ennilodd y rhyfel, ca'dd goncwest yn ddibrin,  
Boed dyfal fy ngweddi am gymhorth i'w ddilyn."

## LLYFRYDDIAETH Y CYMRY.

DIWEDASOM yn niwedd ein llith y chwarter diweddaf, mai ein rheswm tros ddiweddu y lle y darfu i ni oedd, am fod rhifres o'r llyfrau nesaf yn perthynu i'w gilydd, ac hefyd i'r oes neu y cyfnod hwnw. Y mae llyfrau pob oes yn adlewyrchiad o'r oes a'r cyfnod y cyhoeddwyd hwynt. Y mae ysbryd y naill oes yn wahanol i'r llall, i'w gweled ar ei llyfryddiaeth. Yr oedd y cyfnod sydd dan ein sylw yn bresennol yn un tra nodedig mewn masnach, gwladyddiaeth, a chrefydd. Mewn masnach ac anturiaethau mwngladdawl, yr oedd yr oes hõno mor hynod a'r oes hon. Y pryd hyny, mwneu sir Aberteifi oedd testun yr ymddyddan a'r ysgrifenu yn mhob dull; ac yr oedd dynion o Holland a Germani yn ymfudo i Gymru, i wneyd eu hunain i fyny am eu hoes, fel y mae Cymry, ac eraill, yn awr yn ymfudo i California ac Australia, &c. Yr oedd y rhyfel gwladol hefyd a dorodd allan yn anghydfod Siarl y Cyntaf a'r Senedd yn creu llednïad papyrâu ar wladyddiaeth na bu y fath erioed o'r blaen. Ac yr oedd Puritaniaeth ac Anghydfurfaeth yn gwneyd dadleuon eglwysig yn beth lled gyffredin trwy y wasg; ac hefyd anghydfydau yn cael eu hachlysuero gan wahanol dybiau ymlith y pleidiau anghydfurfiol eu hunain. Yr oedd y pethau hyn oll yn cael eu teimlo yn Nghymru, yr hyn a welir yn amlwg yn nghynnyrch y wasg yn yr oes hõno.

Diweddasom o'r blaen yn y flwyddyn 1639, ac yr ydys yn dechreu yn awr yn y flwyddyn nesaf ar ol hyny ag y ceir rhywbeth perthynol i Gymru, canys aeth dwy flynedd heibio heb i un sylw trwy y wasg gael ei wneyd o honom, a phryd hyny nid ydoedd ond mewn iaith estronol i ni, ac yr oedd wyth mlynedd er pan roes y wasg y peth diweddaf yn ein hiaith, ac ni chawsom ddim am ddwy flynedd neu dair dyfodol; ond gan fod amryw lyfrynach wedi eu cyhoeddi o berthynas i Gymru a Chymry, er nad yn Gymraeg, yr ydys yn eu cofnodi—megys,

1642.

"A just and true remonstrance of his Majesty's Mines of the Principality of Wales. By THOS. BUSHEL. London. 1642."

Mr. Bushel oedd ganlyniedydd Syr Hugh Middleton yn ymgymeriad gweithiau mwneu sir Aberteifi. Efe a sefydlodd fathdŷ arian yn Aberystwyth, trwy ganiatâd Siarl I., ac efe a gynnaliodd fyddin o filwyr ar ei draul ei hun, i amddiffyn y brenin yn erbyn y senedd, ac a roddodd tua deng mil o bunnau i'r brenin i'w gynnorthwyo i ddwyn ei achos ymlaen— a'r cwbl oddiwrth y mwngloddiau.

1643.

1. "August 22. Mercurius Britannicus. No. 1. By Marchmond Needham."
2. "Oct. 21—28. The Welch Mercury."
3. "Oct. 23—30. Mercurius Cambro-Britannicus; British Mercury, or Welch Diurnal."
4. "Britannicus Vapulans. No. 1."
5. "Nov. 2. Mercurius Vapulans; or, the Whipping of poor British Mercury. By Mercurius Urbanus; younger brother to Aulicus."

1644.

1. "Feb. 6. Mercurius not Veriducus, nor yet Mutus; but Cambro, or honest Britannus."
2. "March 4. Mercurius Vapulans: or Naworth Stript and Whipt."
3. "March 22—19. Britain's Remembrancer."

Y "*Mercuriuses*" hyn oedd ddechreuad papyrâu y newyddion. Cyhoeddwyd hwynt ar y cyntaf pan ymosododd llynges Yspæen ar longau Prydain, yn amser y frenines Elizabeth, i roddi hanes ein llongau y pryd hyny. Lleni o bapyrâu achlysurol oeddynt. Dilynwyd yr un drefn yn amser y rhyfel gwladol. Y pryd hyny, yr oedd pob byddin yn cludo argraffwasg ac argraffwyr gyda hwynt, yr hyn oedd yn gwneyd y rhyfel hwnw yn gymaint yn rhyfel bapyr ag oedd yn rhyfel dur; yn dywallt *inc* yn gystal a thywallt gwaed. Pan y byddai y rhyfel yn Scotland, gelwid y papyr yn "*English Mercurius Caledonius*;" pan yn Lloegr, yn "*London Mercury*;" a phan yn Nghymru, yn "*British*" neu "*Welsh Mercurie*." Yr oedd y pleidiau crefyddol, yn Buritaniaid anghydfurfiol ac Eglwyswyr, yn cyhoeddi eu "*Mercuries*," neu "*Diurnals*," yn erbyn eu gilydd yn fath o ddalenau hedegol (*fly sheets*), a'r argraffwyr fel yn ehedeg, â'u gwasg gyda hwy, o'r naill gŵr i'r llall o'r deyrnas. Yr oedd John Penry wedi rhoddi esiampl yn ei "*Martin-Marpulats*;" ond yr oedd ef wedi ei symud ymaith cyn hyn. Dichon fod gan John Salisbury, argraffydd cyntaf y "*Flying Post*," law ynddynt; am yr hwn y dywed Dutton—"Mr. John Salisbury, argraffydd, oedd yn Gymro gorwyllt ffyrnig. Efe a ymwisgai fel pe buasai mewn gwasg, yn unig fel y gallasai y boneddigesau ddyweyd, 'Gwelwch y fath ffurf a throed tlws sydd gan y gŵr boneddig yna!' Yr oedd yn genaw ffol, gwag, a delffaidd. Yr oedd cymaint o goegfalchder ynddo, a chan lleied o reswm drosto, ag un dyn a adwaenais i erioed. Efe oedd y cyntaf a argraffodd y '*Flying Post*;' ac er gofid i'r awdur, efe a'i llanwodd yn fynych â chopiau lladrad. Aeth i gyfraith â chwmpeni y *stationers* (i gadw ei hun o'r lifrau), ac efe a heriai y dyn goreu yn y gelfyddyd: ond y mae yn awr yn gorwedd mor ddystaw a llonydd ag y dymunai dyn ei fod ef, yn y gladdfa newydd."<sup>1</sup>

4. "A DECLARATION published by Sir Thomas Middleton, Knight, Seargeant-Major-General, and Vicar-Admirall for the six Counties of North-Wales. London, Printed for Io. Thomas, 1644."

1646.

"Canwyll y Cymru, &c. Gan Rhys Prichard, Ficar Llan Amddyfrwys. Llundain." 3plyg.

1647.

"Y Testament Newydd, Llundain." 12plyg.

Yr oedd yr argraffiad o'r Bibl bach y flwyddyn 1630 wedi creu mwy o syched yn y bobl am y didwyll laeth; ac i dori, i ryw fesur, y syched angerddol hwn y cyhoeddwyd hwnw. Nid ydys yn gallu mynegu pwy a fu y cymwynaswyr i'n cenedl y tro hwn. Rhyw lwmp ydoedd, &r llinellau ar draws yr holl ddalen.

1648.

1. "Y Salmau ar Gân."

<sup>1</sup> "*Timperley's Dictionary*."

Hwn, mae yn debyg, oedd yr argraffiad cyntaf o Salmau yr Archddiscon.

2. "News from Pembroke and Montgomery; or Oxford Manchester'd. Montgomery." 4to.

Diau mai dyma y peth cyntaf erioed a argraffwyd yn Nghymru; ac y mae yn dra thebyg mai un o bapyrâu gwasg symudol un o'r pleidiau gwladyddol y pryd hyn ydoedd, canys yr oedd hyn yn y gwres mwyaf—fwyddyn cyn dienyddio Siarl I.

1649.

1. "An Act for the better Probagation of the Gospel in Wales."
2. "The case of Thomas Bushel, of Enston, in the county of Oxon, Esquire, truly stated, together with his progresse in Minerals, and the desires of several Merchants and others, that are willing and ready to advance so good a worke for the benefit of the nation, humbly tendred to the serious consideration of the Honble. House of Commons, and all other persons in authority, wether civill or martiall, that are desirious of advance the trade of the nation, supply the necessities of the poor, by discovering the hidden treasures of the earth, preserve the lives of many poore creatures from untimely death (who now are destroyed in their prime for petty felonies) which might otherwise be made serviceable to the Commonwealth. London, 1649."

Gwel y fwyddyn 1642. Yr oedd Mr. Bushell wedi ei rwystro yn ei waith yn sir Aberteifi erbyn hyn, gan y senedd a'r rhyfel gwladol. Dywed fod llawer iawn o arian a phlwm yn mynyddoedd Brwmfflyd, Tal-y-bont, Coginen, Cwmerfin, a'r Daren—ei fod ef wedi prynu y mwneu hyn, y rhai a ganiatawyd i *Lady* Middleton gan y brenin Iago, am 400*p.* i lawr, a 400*p.* yn flyneddol, am yr amser y byddent yn ei gafael.

3. "The Liberties and Customs of the Myners, with extracts from the Bundles of the Exchequer and inquisitions, taken in the reigne of K. G. Edwd. 1st., and continued ever since, under the most favourable Kings and Queens of the Kingdom of England. Printed by E. G. 1649."

Yr oedd hwn yn fath o gadarnhad i'r rhif 2 uchod.

1650.

1. "Christ and Moses' Excellency; or Sion and Sinai's Glory: being a Tuplex Treatise, distinguishing and explaining the two Covenants, or the Gospel and Law, and directing to the right understanding, applying and finding of the informing and assuring PROMISES, that blong to both Covenants. By Vavasor Powell, Preacher of the Gospel in Wales. London, 1650."

1651.

- "Madrvddyn y Difynyddiaeth Diweddaraf; Neu, Llyfr Seisoneg, a elwir *The Marrow of Modern Divinity*. O waith E. F. yn y Saesoneg. O Cyfieithiad J. E. i'r Gymraeg. Printiedig yn Llundain gan T. Mabb, a A. Coles, dros William Ballard, ag i cael ar werth yn ei siop ef dan lun y Bibl' yn heol'r ŵd, yn Ninas Bristol, 1651."

Y mae yn ei flaenori anerchiad—

- "I'r ardderchocaf Herberdiaid, y mwaf Morganiaid, y bonheddicaf, Kemysiaid, y gwirlanaf Wiliemmaid, ac eraill Pendefigion o ty fewn i wlad Gwent, annerch yn yr Arglwydd Jesu Christ."

Wrth y pendefigion hyn a enwir, y gellir deall hynafiaid teuluoedd Tredegar (Syr Charles Morgan), hynafiaid teuluoedd Ragland (Iarl Penfro), hynafiaid teuluoedd Cefn Mably, a hynafiaid Aberpergwm. Y mae yn achwyn yn drwm, oblegid fod yr iaith Gymraeg yn cael ei hesgeuluso gan y Cymry yn sir Fynwy y pryd hyny.



"Eithr o holl wledydd y byd (hyd y gwn i) nid oes un cenedl mor ddicariad, a mor elyniathus iw iaith ei hunan, ac yw'r Cymro, er bod ein iaith ni yn haeddu cym-maint, o barch, o herwydd ei henaint a'i chyfoethogrwydd, ac yr heiddieit leithiodd eraill, canys fal y gwelwn ni beunydd, hwy nac yr elo Cymro na Chymraes i Lundain, neu i Caerlow neu i un fann arall o Loeger, a dyscu ryw ychydig o saesneg, hwy a wadant eu gwlad a'u iaith eu hunain. Ac o'r Cymru cartrefol, ie ym mhllith y Pendefigion ysgolheigaidd, ie ym mysc y Dyscawdwyr Eglwysig, braidd un o bwrtheg a fedr ddarllen, ac ysgrifenu Cymraeg. Ac o'r achos hyn y mae, fod llyfrau Cymraeg mor ymbell (canys ni welais i erioed uwch bump llyfr Cymraeg yn printiedig)."

Gwelir yn ebrwydd mai Cymro lled amherffaiith yw yntau hefyd, yr hyn y mae yn ei gydnabod, ac yn ei ymesgusodi fel hyn,—

"Ac yn awr, Pendefigion urddasol, maddeuwch attolwg, fyn cwynunion yn erbyn fynghyd wlad-wyr & ddibrisiant ein hên mamiaeth a dangoswch chwi adolwg, eich serch attl, trwy dderbyniad roesawgar o'm poen ewyllysgar i, yn gyfeithiad o'r llyfryn hwn—na ddeliwech ar fy aneirif camsyniadau a'm hawl feiau, canys nid wyf fi (& anwyd ar lan Hafren yn mro Gwent lle y mae'r saesoniaith yn drech na'r Brittan-aiith) yn cymmeryd arnaf, na medraeth, nac hyspysrwydd yn y Cymraeg, eithr nid bychan yw fy serch at yr iaith a daioni fyn' gwlad, ac er caud fyn' genau rhac ymarfer fyn' gweinidogaeth, i'm torcalon mwya, er nad wyf fi, onid y gaelaf o filioedd, ac yn an-adas o'r uchel-swydd weinidogaidd, etto) am fod yn anhawdd gennyf fi, ac yn tra enbeidus i mi, na llwyr ymadel o'm galwad, na bod ychwaith yn segur ynddi, y cymmerai, hyn o been ewyllysgar

*Eich wasanaethwr parodol ymhob gwaith yr Arglwydd.*  
SION TARRANT.

*Gorphenaf 20, 1650.*

Y mae hefyd yn ei "I'r Darllenydd," yn ymesgusodi am wallau Cym-reigawl y llyfr (yr hyn yn wir sy'n amlwg) trwy chwanegu ;

"Ac heblaw hyn rhag rhwystru neb trwy'r aml camsyniadau ym mhrintiad y Cymraeg, bydded hysbys gennit, y Cymro mwyn fod rhagor i cant o filltiroedd rhwng fy nhrigfa i a'r Print-dd, ac nad oedd fal y gwelw wrth lythyr y printiwr y ddaeth i'm llaw i, onid braidd un Cymro i'w cael trwy holl Lundain i ddiagwyl ar y printiad ac i cyfarwyddo'r gweithwyr Saesnyg ac i gyweirio'r aml ddyffygion a sy giw gennit, attolwg, o'rh fawr fwyneidd-dra fy nghymeryd i yn escusodol a than myned yn yscafu heibio'r camsyniadau llythrennol canys aml yn sicr yw'r camosodiadau a'r diffygion o llythrenna ac o'r accentau rhai'n (' ') anhepior yn y Cymraeg, cofia yn ddianwadal er dy well ystyriaeth cyweirio hyn o ddyffygion mwya sy yn canlyn, a thi a'm rhwym i fod

Yn wasanaethwr parodol i ti yn mhob gorchwyl Christnogaidd,

*Mai 10, 1651.*

SION TARRANT.

Y mae yn briodol sylwi yma mai yr un a elwir mewn argraffiadau dilyn-ol yn "Fêr duwinyddiaeth iachus, gan E. Fisher," yw y llyfr hwn. Bu y cyfeithydd agos flwyddyn ar ol ysgrifenu ei anerchiad at y "Pendefig-ion" cyn rhoddi yr eiddo "I'r Darllenydd"—o "Gorphenaf 20, 1650," i May 10, 1651." Y mae yn amlwg hefyd mai un o'r offeiriad a drowyd allan o'r Eglwys gan y prawfwyr, yn fuan ar ol dienyddiad Siarl I., oedd Sion—y rhai oeddnt oll oddeutu 120 o nifer—"oblegid eu bod naill ai yn anwybodus o egwyddorion y grefydd Gristionogol, neu yn esgeuluso preg-ethu, neu yn arwain bywyd anfoesol." Dyna fel y dywedir; ond yr ydym yn teimlo tuedd cryf i ammheu a oedd cyfeithydd "Madryddyn Difynydd-iaeth" y naill neu y llall: canys dywedir wrthym fod ymrysonau gwladol yn cael eu dwyn ymlaen yn fynych i'r fath bellder fel ag y torwyd allan lawer dyn da yn unig am ei fod yn wrthwynebydd y llywodraeth oedd mewn grym ar y pryd.

1652.

1. "A modest Answer, to a bold Challenge of an Itinerant Preacher, Vavasor Powell."

Yr awdur oedd Dr. Geo. Griffith, esgob Llanelwy.

2. "Dec. 27. A true and perfect Diurnal."

3. ¶ "An animadversion on an imperfect Relation in the 'Perfect Diurnal,' containing a Narrative of a Disputation between DR. GRIFFITH, and Vavasor POWELL, near New Chapel, Montgomery."
4. "A VOICE from Heaven to the Commonwealth of England. Printed in the year 1652."

Awdur y llyfryn hwn oedd un a'i galwai ei hun Arise Evan, a dywed ei fod yn enedigol o'r Abermaw, yn Meirion, ond yn anneddu yn *Blackfriars*, Llundain. Pleidiwr penboeth i'r brenin ydoedd yn amser y rhyfel gwladol, ac yn erbyn Cromwell.

5. "Mercurius Cambro-Britannicus, or News from Wales, touching the miraculous propagation of the Gospel in those part, London, 1652. 4to."

Yr awdur oedd y Parch. Alecsander Griffith, D. D., ficer Glazbury, yn sir Frycheiniog. Y mae yn anhawdd iawn cael copi o'r uchod yn awr.

6. "Stena Vavasoriensis, or a New year's gift for the Welsh Itinerants. Or an hue and cry after Vavasor Powell, Metropolitan of the Itinerants, and one of the Executioners of the Gospel, by colour of the late Act for the propagation thereof in Wales, &c. London. 4to."

Aeth un o'r uchod i llyp. mewn cyhoeddwerthiant tua hanner can' mlynedd yn ol. Yr un oedd awdur hwn hefyd.

1653.

1. "Canwyll Crist. Gan Vavasor Powell, Llundain." 12plyg.
2. "Cordiad yr Scrythrau."

Vavasor Powell, meddir, ydoedd awdur hwn hefyd. Math o fynegair Ysgrythyrol ydyw.

3. ¶ "Sail Crefydd Gristionogol." 8plyg.
4. "Y Salmau Cân. Gan Edmund Prys, Archdiacon Meirionydd. Llundain." 8pl. Dyma yr ailargraffiad. Gwel rhif. 1, 1648.
5. "Testament ein Harglwydd Iesu Grist, wedi ei gyfansoddi yn Benffilion Cymreig, trwy lafur Rice Jones, o Lanfair yn Nghaer Einion."
6. ¶ "Relation of a Conference and Dispute at Abergavenny."

Hanes Seisonig ydyw am ddadl a fu yn hen Eglwys y Fenni, yn sir Fynwy, ar y 5ed o Fedi, yn y flwyddyn hon, rhwng Mr. Tombs, Mr. Vaughan, a Mr. Cragg.<sup>1</sup> Dywed y Parch. J. Thomas, mewn lle arall, fel hyn am y ddadl hõno:—"Yr oedd eglwys newydd o Fedyddwyr wedi ei ffurfio yn y Fenni, yn 1652, ac oddeutu triugain wedi eu ohwanegu ati yn y flwyddyn gyntaf, neu yohydig gyda hyny. Yn ol eu hanes hwy, darfu i hyn roi yn hytrach anfodhad i fedyddwyr plant yn y parthau hyny. O'r diwedd, cytunodd y ddwyblaid i gael dadl gyhoeddus ar y pwnc yn yr Eglwys Fair, yn y dref hõno, oddeutu saith wythnos ar ol y gymanfa. Y dadleuwyr oeddnt John Tombs, B. D., ficer Llanllieni; Henry Vaughan, M.A.; a John Cragg, M.A. Y cyntaf tros fedydd y crediniol, a'r ddau olaf tros fedydd plant. Mr. T. a Mr. V. a ddadleuasant gyntaf, yna Mr. Cragg. Wedi hyny, iddynt oll argraffu ar y pwnc. Enw cyhoeddiad Mr. C. yw '*The Arrangement and Conviction of Anabaptism.*' Nid yw yr eiddo Mr. V. yn helaeth. Y mae llythyr cyflwyniadol yn ei ddechreu."<sup>2</sup>

<sup>1</sup> "Hanes y Bedyddwyr."

<sup>2</sup> "History of Welsh Association," &c.

## 7. "Examen Purgamen Vavasoris."

Amddiffyniad Mr. Vavasor Powell iddo ei hun yn erbyn llyfrau Eglwys-wyr erlidigaethus yr oes hòno yw hwn, yn enwedig "*Hue and Cry*"—llef wbw y wlad; lle yr achwynid arno yn dra chwerv, ei fod yn yspeilio y wlad; fe allai rhif. 6, 1652. Y mae yntau yn profi mor ddieuog oedd o'r anwireddau a daenid am dano.

8. "Dirgelwch i rai i'w ddeall, ac i eraill i'w watwor, neu Llyfr tri aderyn. Gan Morgan Llwyd o Wynedd.

1654.

1. "Bibl Cysagr-lan, sef yr Hen Destament a'r Newydd. Printiedig yn Llundain gan James Fleisher, ac a werthir gan Thomas Brewster, tan lun y tri Bibl yn ymmul Pauls, yn y flwyddyn 1654."

Yr oedd Biblau y flwyddyn 1630, a Thestamentau y flwyddyn 1647, wedi eu taenu pan y daeth galw mawr erbyn y flwyddyn gyntaf o amddiffyniad Oliver Cromwell am argraffiad arall o'r Bibl bychan. Yr oedd agwedd foesol y wlad wedi cyfnewid llawer erbyn hyn, trwy offerynoiaeth awdurdodol y weithred seneddol er lledaniad yr efengyl yn Nghymru. Yr oedd pregethwy'r zelog yn teithio ar hyd a thraws y wlad yn mhob lle, y rhai, oblegid eu brwdfrydedd, a elwid y "Tanwyr;" a thuedd y mawrion a chyffredin at grefydd. Yr oedd y pregethwy'r teithiol hyn yn cael achlysur i sylwi mor brin oedd Gair Duw, a chymaint oedd syched y werin am dano. Wrth ystyried hyn, nid yw ryfedd fod galwad uchel am argraffiad o'r holl Fibl at wasanaeth y cyffredin. Y rhai a fuont offerynol i gael yr argraffiad hwn oeddnt y ddau bregethwr teithiol hyn, Vavasor Powell, a Walter Cradoc; y cyntaf yn bleidiwr trochiad yr oedranus crediniol, a'r olaf tros daenelliad plant. Ar ei ol ef y galwyd yr holl bregethwy'r teithiol yn Nghymru yn "Gradoca," am lawer o flyneddau wed'yn. Bibl bychan mân, âg ynddogyfeiriadau ymyl-lenol ydyw. Argraffwyd chwe' mil ohonynt.

2. "A true and perfect relation of the whole transaction concerning the Petition of the six counties of South Wales, and the county of Monmouth, formerly presented to the Parliament of the Commonwealth of England, for a supply of Godly ministers, &c. London."

Awdur hwn hefyd oedd y Parch. A. Griffith, D.D.<sup>1</sup> Gwel rhif. 5 a 6 y flwyddyn 1652.

1655.

1. "*Gemma Cambricum, seu Mnemonica Bibliorum*—Perl y Cymro, neu Gofriadur y Beibl. Gan Richard Jones, M.A. Llundain." 12plyg.

Mab ydoedd Richard Jones i John Pugh, o Henllan, sir Ddinbych. Ganwyd ef yn 1603. Aeth i Rydychain yn 1621, a chymerodd y radd o M.A. yno. Y mae yn blaenori y llyfr uchod lythyr arganmolaidd bychan, gan James Howell. Bu R. Jones farw yn Iwerddon, ond yr amser nid yw hysbys.<sup>2</sup>

2. "Testun y Testament Newydd, &c. Llundain." 8plyg.

Yr ail ran o "Berl y Cymro" yw hwn.

3. "Defosiwnau Priod, &c. O gyfleithiad W. L., M.D. Llundain." 12plyg.

Y mae y "Rhagymadrodd at y Darllenydd" i'r ail argraffiad gan un

<sup>1</sup>"*Williams's Dictionary of Eminent Welshmen.*"

<sup>2</sup>"*Wood's Athen,*" Oxon.; a "*Williams's Dictionary,*" yr hwn a amsera y llyfr uchod Yr flwyddyn 1665.

John Owen, yn dyweyd mai Dr. Valantine oedd awdur y llyfr hwn. Un o sir Fon, meddir, oedd y John Owen hwn.

4 "Gair tros Dduw, neu dystiolaeth o blaid y gwirionedd, oddiwrth amryw eglwysai, a llawer cant o grist'nogion yng Nghymru (a rhyw ychydig oddiam-gylch), yn erbyn drygion mewn lleoedd uchel, gyda llythyr byrr at yr arglwydd Pendistein Cromwell."

Gwaith Vavasor Powell oedd y llyfr hwn; ac yn Seisneg yr ydoedd, y mae yn debygol. Cyfiwynwyd ef i ddwyllaw Cromwell, heblaw ei argraffu wrtho ei hun. Pwnc y papyryn hwn oedd yn erbyn gwaith Cromwell yn galw ei hun yn Arglwydd Bendistain, neu "*Lord Protector*." Mewn canlyniad, anfonwyd gwŷr i'w ddal, y rhai a'i cawsant yn cynnal cyfarfod yn Aberbechan, yn sir Drefaldwyn, y rhai a'i cymerasant o flaen *Major-general Berry*, i Worcester, lle y gwnaeth amddiffyniad o hono ei hun, fel na charcharwyd ef y pryd hwnw.

1656.

1. "Gair o'r Gair, neu Sôn am sŵn, y Lleferydd Anfarwol. Gan Morgan Llwyd, Gweinidog yr Efengyl yn Wrecsam, yn sir Ddinbych. Llundain." 24plyg.

2. Yr Ymarfer o Dduwioledeb. Printiedig gan Sarah Griffin, tros Philip Chetwind."

Hwn oedd yr ail argraffiad. Gwel rhif. 1, 1630. Ni ddywedir yn mha le yr argraffwyd yr argraffiad hwn. Rhoddwyd ef allan trwy ddylanwad y Parch. Stephen Hughes, o Feidrim, sir Gaerfyrddin. Am Row. Vaughan, neu Fychan, gwel y "*Gwyliedydd*," am Awst 1826; a'r "*Traethodydd*."

3. "An Antidote against the infection of the Times; or a faithful Watchword from Mount Zion to prevent the Ruin of Souls: whereby some special considerations are presented to Sinners, Admonitions to Saints, and Invitations to Backsliders. Published for the good of all, by the appointment of the Elders and Messengers of the several Churches of Ilston, Abergavenny, Tredynog, Caermarthen, Hereford, Bradwardine, Cludock, and Llangors, met at Brecknock, on the twenty-ninth and thirtieth of the fifth month, 1656. London: Printed for T. Brewster, at the three Bibles, at the West End of St. Paul's. 1656.

1657.

1. "Yr ymroddiad, neu Bapuryn a gyfieithwyd ddwywaith i helpu y Cymry unwaith allan o'r hunan a'r Drygioni." 12plyg.

Yr awdur ydoedd yr un a rhif. 1, 1657, sef Morgan Llwyd, o Wunedd.

2. "Y Dysgybl a'i athraw o newydd."

Tebygol mai ailargraffiad ydoedd o'r "*Crynhodeb o addysg Cristionogawl*" y "*Dr. Rosier Smith, o Lanelwy*," gan mai "*ymddyddan ne ddialogiaeth rhwng y discibil a'i Athraw*" ydoedd hwnw. Gwel rhif. y fl. 1609., a llyfr y fl. 1615, gan yr un.

3. "Cyfarwyddyd i'r Cymro. Llundain." 12plyg.

Gwaith Morgan Llwyd, o Wunedd, yw hwn.

4. ¶ "Cymun, &c. Attebion. Gan Fleetwood, a Tillotson, a W. V."

Dyna fel y mae gan Moses Williams.

5 "Cerbyd Iaohawdwriaeth, neu Prif byngciau crefydd Gristionogawl, wedi eu egluro a'u gosod allan, 1. yn gyntaf, mewn sententiau a rheolau awdurdodol: 2. yn nesaf cydymddyddan trwy Ymholion ac Atebion. Llundain." 12plyg.

Cyhoeddwyd yr un llyfr yn Saesoneg yr un pryd. Yr awdur oedd y Parch. Thomas Powell, gweinidog plwyf y Cantref, ger Aberhonddu, yr

hwn a anwyd yno yn 1627. Efe a gyhoeddodd weithiau dysgedig eraill, megys, "*Elementa Opticæ*," yn 1651; "*Quadruga Solutis*," neu bedwar pen Cyffredinol y Grefydd Gristionogol, yn 1667. Nis gwyddom yn mha iaith. "*Human Industry, or a History of most of the Manual Arts*;" "*The Life of Herod*;" "*A Translation from the Italian of Malvezzi, and the French of Balsac*." Gadawodd hefyd ar ei ol, mewn ysgrif, waith dyddorol (yr hwn, fel y bu waethaf yr anffawd, a gollwyd rywfodd), o'r enw, "*Fragmenta de rebus Britannicis*," neu, "*Short Account of Lives, Manners, and Religion of the British Druids*." Yr oedd ei fab, Thomas, hefyd, yn berson, ac yn ddyn o gryn dalent yn ei ddydd; yr hwn, pan gafodd ei ddirmygu unwaith gan un o'i gydwladwyr, ar gyfrif gwaeledd ei ddisgyniad teuluaid, er ei fod yn alluog i ymfrostio mewn llinach o deulu mor gyfrifol a neb yn y wlad, a'i hatebodd mewn natur dda, ar fath o farddoniaeth ddifyfyr, fel hyn:—

"A ydych chwi yn tebyg nad wyf fonheddig,  
Mi 'ch 'tebaf mewn 'chydig o eirie;  
O Nõe s'i dri feibion y daeth holl [blant] dynion,  
Ac o un daeth offeiriad y Cantre."

Y mae rhoddiad y fywioliaeth hõno yn llaw, ac yn cael ei gwasanaethu, gan y Powelliaid er's o leiaf tua thri chant o flyneddau.<sup>1</sup>

6 "Gwyddor uchod. O. G. M. Llundain." 12plyg.

7. "Y Cywir Ddychwelwr, yn Dadcuddio y Nifer bychan o'r rhai Gwir Gredadwy, a'r anhawdra mawr o droedigaeth cadwedigol. Yn mha un yr agorir yn rhagorol ac yn Eglur y dewisol a'r Duwiol wyddorion hyn, sef, yn 1. Fod Duw, a bod y Duw yma yn dra gogoneddus. 2. Wneuthur o Dduw ddyn mewn Cyflwr Bendigedig. Trueni dyn trwy ei gwmp. 4. Crist yn unig brynwr drwy werth. 5. Mae ychydig a fydd gadwedig, a hyny drwy lawer o anhawdra. 6. Mae colledigaeth dyn sydd o hono ei hun. Gan Tho. Shepheard, cyfaill gynt o Ysgoldy Emmanuel Ynghaer-garddu, ac yn ddiweddar Bugail o Gaer-garddu yn Lloegr newydd, o gyfieithiad R. E. yn y fl. 1555, ac a roed allan gan W. Greenhill yn y fl. 1657."

1658.

1. "Prif-fanau Crefydd Cristionogawl a Llwybraiddfodd Byrr o'r Athrawiaeth o honi. O Gyf. Row. Vaughan, Esqr., Llundain." 12plyg.
2. "Yr arfer o Weddi yr Arglwydd a amddiffynir yn erbyn Dadleuon y newyddiad o'r amseroedd yma. Gan Ioan Despagne."

Chwanega M. Williams fel hyn,— "Cyfieithiad R. V., Esqr. 12plyg. Iago ab Dewi, &c., Beveridge, &c., Fleetwood, &c., Nicholas, & Wells." Nid ydym yn gallu dyfalu beth a olygai Mr. Williams wrth yr enwau hyn, y rhai sydd ganddo ef yn fynych yn gysylltiedig â'r llyfrau a enwa, fel pe buasant oll â llaw yn nygiad y llyfrau allan, naill ai fel cyfieithwyr, cyhoeddwyr, argraffwyr, neu werthwyr; y rhai oeddynt yn byw ymhell ar wahan oddiwrth eu gilydd, o ran lle ac amser.

3. "Pregeth yn erbyn Schism: Neu, Wahaniadau yr Amseroedd hyn: A Bregethwyd yn Watlington yn eir Rydychen, mewn peth cythryfwl, Med. 11, 1662. Yn ol ymddadlau cyhoeddus a fu yno rhwng Jasper Mayne, D.D. Ac vn ——. Cyfieith. R. V. Mat. 13. 47: 'Cyfelyb yw Teirnas nefoedd i rwyd a fwrwyd yn y môr, ac a gasglodd o bob rhyw beth.' Caer-Luth: Argraphedig gan Jo. Stre—\* Phil. Chetwind. 1668."

<sup>1</sup> "Jones' History of Breconshire."

<sup>2</sup> Lle y mae y nod hwn \*, nis gallwyd gwneyd y gair neu y llythren yn llawn, oblegid toriad ymaith ymyl y ddalen.

Cynnwys y llyfr hwn ddeg tudalen ar hugain, 4plyg bychan, heblaw y gwynebddalen, allythyr cyflwyniadol Rowland Vaughan, yn bedwar tudalen arall, "Iw anwyl nai, Ev. Vaughan, a'i deulu cariadol ym Moel y Fron-llwyd y deisyf R. V. lawenydd tragwyddol." Gan ei fod yn arddangosiad egluraf a welsom o ysbryd yr hen *Esquire* o Gaergai, rhoddir ef yma yn llawn :—

"Fy anwyl nai, gan eich bod chwimor ofalus amrai om traferthion bydol, ac yn awedig am gadw y llyfran hwn om cyfieithiad : (gy \* aa cefail uwynaid Mr. Edward Parry, o lys y cydwybod.) Ni welaf neb iawnaeh o herwydd amryw rwymedigaethau i fod yn ymgeleddwr iannerch ac arwydd om gwaith i na chwyohwi, na lle gwell i minau iw yru nag at yn a dal y pwyth adref yn ei gelfyddyd yntau o \* bydd achos : mi welaf yr awrhon i mi achos dda i Ddioloh i Dduw ac i orfoleddu yn ol ein gwaith yn gwrthryfela (er na ymillodd yr vn o honom ni ond ychydig ar ein gwaith, eto rhaid oedd i ni fyned ar ol ein rhywogaeth) y naill tros y Brenin a gwir ragorfraint y Gymanfa, ar llall tros y brenin ar Gymanfa, ac i ddiweddu yn llawen melrus rapiat vtrumq; bell \* torom y trydydd aeth ar asgn, sir : i roi ar lawr yr achos o gyfieithiad y bregoth hon dyma yr Histori fer hono : ya y Sesiwn; pryd yr oedd Jo \* Lloid o Faes y pandy yn Siryf of am tadwyd ar y Cwest mawr, yr amser yr oedd rhyw affaith yn erbyn va o'r seinotiau newydd, fe ddaeth eu Harchesgob hwyt o flaen y Barr i achwyn fy mod i yn vn or troseddwr mwyaaf, &c. Gofyn o honof genad ir vadus iw ateb, ef am neccanodd yn lan, yn ol hyn yr agrifennais at yr Achwyawr ac mewn mis neu ddau mi gefais ateb yn ei feddwl ef. Yn ei lythyr y cymerai achos i ymfrostio a chablu yr anrhydeddusaf, Doctor G. Gr. o lan y myneich, i ddwyllaw yr hwn yr anfonais i ein llythrau gwrthwynebus, ac yno yn vn o'areithwiw lythrau, yr anfonai Dr. Gr. ei Gynor parabl-ddeoth, ar lyfr hwn yn Mith—\* ai frodyr fyddir iawn, neu gael gwelod eu gwaith yn gyrru Dr. Main, ar cyfrw ddysgawdwyr i'r to, Profesur enw Cristion yr wyf, a deisyf gwneuthur daioni im gwlad, heb na bueti na chweredod yn enw y Duw byw mi fedraf ddywedyd om calon maddeu i ni ein dyledion fel y maddeuwn, &c. Maddeued Duw i'r rhai fydd yn gwyrddroi y bobl o throed hwy oll ir iawn, yr vnig Dduw hwnw a rodde vnion Grefydd yn Ecolwys Brydain; hyn yw gwir ddymuniad Eich ewythr anwyl ich gwasanaeth. R. V."

Yn y flwyddyn 1644, yr oedd Rowland Vaughan wedi ei nodi yn sirydd; a pheth rhyfedd iddo gael ei ddewis ar y *ccost* yn amser Cromwell. Yr oedd Vaughan yn zelog iawn dros y brenin a'r Eglwys, a chymerodd arfau yn erbyn y Cromwelliaid; ac am hyny, y gelwir ef weithiau yn Cadben Vaughan, o Gaergai, i'w wahaniaethu oddiwrth eraill o'r un cyfenw oedd yn blaenori y naill du neu y llall yn y rhyfel hono. Wrth y "Seingctiau newydd," y deallir y crefyddwyr ag oedd o blaid y weriniaeth. "Eu Harchesgob hwy," oedd Vavasor Powell, a'r "Anrhydeddusaf Doctor G. Gr. o lan y myneich," ydoedd Dr. George Griffith, fu wedi hyny yn eaglob Llanelwy. Rhoddwyd ei bersondy ef, yn Llan-y-mynach, ar dangan blaid Cromwell; a chan ei fod mor zelog dros y brenin a'r Eglwys, efe a wobwywyd ag esgobaeth. Bu ef mewn dadl â Vavasor Powell, fel y gwelsom Rhif 1, 2, a 3, 1652. Y mae ar gael yr hysbysiad yn profi fod "R. V., wr bonheddig," yn mrwydr fawr Naseby. "HYSBYSIAD.—Ymforyner am un S. H—o L-n-ll-ch-d [Llanllechid], yn agos i Fangor: gwr du, byr, llydan ysgwydd, a chydnerth o wneuthuriad. Bu yn ymladd o dan y Cadben Rowland Vychan, yn ymladdfa Naseby, lle y cymerwyd yn garcharor. Anfonwyd ef â phenwaig, neu ysgadan cochion, i un Mr. Wyn, yn agos i Gaerwrangon, yr hwn a fuasai yn ddiweddar yn sir Gaernarfon yn prynu gwartheg, ac a gyflogasai y dywodedig S. H. i'r gorchwyl uchod. Gwelwyd ef ddiweddaf yn dychwelyd tuag adref, y pedwerydd dydd ar bymtheg o Ionawr diweddaf, ar Fwlch Oerddrws, lle y tagodd of ryw *bedlar*, gan yr hwn yr oedd cefyl yn llywythog o *tobacco*, triagl, brandi, a lliain, &c. &c., a chymerodd y cwbl ymaith."

4. "Prif-fanau Sactaidd, neu Law-lyfr o Weddiau, &c. Gan William Brough, D.D. O gyfieithiad Row. Vaughan. Llundain." 8plyg.

Y mae yn gysylltiedig âg anerchiad R. V. i'w "anwyl nai Ev. Vaughan," yn blaenu rhif 3, linellau Lladin canmoliaethol i R. Vaughan, W. Salisbury a W. Brough, D.D.

5. "Y Llwybreiddfodd byrr o Gristionogawl Grefydd. Gyd ac adroddiad hynodol o riw fannau o Athrawiaeth o'r hyn (er mwyn eglurwch) a grybwyllwyd yn y llyfrau o'r blaen. O gyfieithiad Row. Vaughan, Esqr. Llundain." 12plyg.
6. ¶ "Cywydd i'r Iesu, yn niwedd Blodeuog waith y Prydyddion Britanaidd y mae. Ed. Jo. Davies, S. T. P."

7. "Ymddiffyniad rhag pla a Schism. Cyfieithiad R. V."

Nid ydym erioed wedi cael golwg ar y pedwar diweddaf hyn; a chan hyny, dilynasom ddull Moses Williams yn ei restr ef. Ymddengys fod yr hen wr boneddig o Gaergai yn dra llafurus yn ei ddydd yn amddiffyn ei blaidd. Dyma bump o fân llyfrau mewn un fwyddyn; ac oll yn ffafr yr Eglwys. Wrth "Ed. Jo. Davies, S. T. P.," a gysylltir â'r rhif. 7, yr ydys yn deall, "*Edited by John Davies, Professor of Divinity*"—hyny yw, "Golygiedig gan John Davies, athraw Duwinyddiaeth," sef Dr. Davies o Fallwyd.

8. "Amddiffyniad y Bedyddwyr yn erbyn Ymosodiadau y bobl a elwir Quakers. Llundain argraffwyd, 1658."

Gwaith dau o'r Bedyddwyr o'r enwau John Price, a William Bound, oedd y llyfryn hwn. Yr oedd Price yn byw yn Maes-y-gelli, ger Nant-y-mel, sir Faesyfed, a bu farw yn 1673. Yr oedd Bound yn byw yn y Garth, sir Drefaldwyn. Enw yr ysgrifenydd Cwaceraidd oedd John Moon.

1659.

- 1 "Diarhebion Cymraeg wedi eu cyfieithu yn Saisneg. Gan James Howel. Llundain." Unplyg.
2. "Gair mewn pryd i gyfarwyddo i Cymru i adnabod y wir (hen) ffordd o Addoliad (Duw). Printiedig yn Llundain gan G. Dawson, ac a werthir yn ei shop ef dan lun y tri Bibl, yn ymul Pauls."
3. ¶ "Godidowgrwydd Crist a Moses, neu ogoniant Seion a Sinai, yn traethu am y ddau gyfammod."
4. ¶ "Ymddiddan rhwng Crist a'r Publican, a Crist a Christian amheus."
5. ¶ "Crist wedi ei dderchafu gan y Tad, Duw 'r Tad yn cael ei ogoneddu, a phrynedigaeth dyn yn cael ei berffeithio."
  6. ¶ "Yr aderyn yn y Cawell."
  7. ¶ "Nad yw Gweddî Gyffredin yn wasanaeth dwyfol"
  8. ¶ "Catechism Dioddefwyr."
  9. ¶ "Tynghu pechadurus a dibechod, &c."
  10. ¶ "Myngeir Ysgrhythrol, &c."

Awdur y traethodau uchod (rhif 3—10) oedd Vavasor Powell; ac yn Seisoneg y cyhoeddwyd y rhan fwyaf, os nad yr oll o honynt. Fe allai mai y rhif 2, 1653 oedd y rhif 10 hwn.

1660.

1. "Cowir a ffyddlawn ateb i Lyfr a enwir Ychydig Gyfarwyddiad i'r Cymru yn erbyn y Cyfeiliorni sydd yn mysg y bobl a elwir Cwacers, yn yr hon y mae yr awdwr di henw yn dangos i yspryd maleusus a chenfigenus yn erbyn pobl Dduw. Gida gwahoddiad i'r Cymru truan fel y byddo ydynt uno goleini Crist oddimewn addynt, a rhodio yntho. Oddiwrthim ni, y rhai mae y byd drygionus mewn gwawd yn i galw Cwacer. Chandler, & Crook, & Rondl Davies & Evans, Llundain." 12plyg.

Dyna fel y rhydd Mr. Williams ystyr y llyfr hwn. Ateb ydoedd i rhif 3, 1657. Dichon mai gwaith "Rondl Davies," person Meifod, oedd y llyfr hwn; am yr hwn y rhoddwn fwy o hanes eto.

## 2. "Mr. Bushel's Abridgement—Extract of."

Gwel rhif 1, 1650; rhif 1, 1642; a rhif 2 a 3, 1649.

1661.

1. "Ystiriaethau Drexelivs ar Dragywyddoldeb. Gwedi eu cyfieithu yn gyntaf yn Saesonaeg gan Dr. R. Winterton, ac yr awrhon yn Gymraeg gan Ellis Lewis, o'r Llwyn-gwern, yn sir Feirion, Wr-bonheddig. Printiedig yn Rhydychen gan Hen. Hall tros Rich. Davies, ac a werthir yn ei shop ef yn heol St. Mair, yn ymyl Oriol Col. 1661."

Lwmp o lyfr bychan, 32 plyg, a tua 404 o dudalenau. Mae yn ei ragflaenu, fel agos yr holl hen lyfrau, englynion o anerchiad i'r llyfr, y cyfieithydd a'r darlennydd, gan Ellis Anwyl, Griffith a William Phillip, ac Edward Morris.

- 2 ¶ "Drych Cydwybod, sef modd cymmwys a ffrwythlawn i ddwyn pob math ar ddyd i gael gwybodaeth o'i bechodau, a megis ei gweled ger bron ei lygaid, gan ddangos iddo pa fodd i gwneiff, ei Cyffes i'w Dad, enaid, a'r modd i gael meddyginaeth am danynt." 12plyg.

3. "Brief Narrative of V. Powell. By Himself."

"Hanes y Bedyddwyr" a'i henwa, ac a ddyfyna o hono.

1662.

1. "Trefn ymarweddiad Gwir Gristion, neu Lwybr hyffordd i'r Cymro i rodio arno beunydd gyda'i Dduw. Gan Edward Wynn, D.D. 8plyg."

Person Llangeinwen a Llangaffo, yn sir Fôn, ydoedd Dr. Wynn.

2. "British Antiquities reviv'd. Gan Rowland Vaughan, o Gaergai, yn sir Feirionydd, Wr boneddig. Oxon." 4plyg.

3. "A brief Narrative of the former Propagation, and late Restriction of the Gospel in Wales."

Fe allai mai ailargraffiad o rhif 3, 1661.

1668.

"A Discription of Wales, by Sir John Price, published by Thomas Ellis, with Mr. Robert Vaughan of Hengwrt's Notes. Oxford Printed, 1663."

Llyfr pedwarplyg ydyw. Ni argraffwyd ond 128 o dudalenau o hono. Dywed Mr. E. Jones, "Bardd y Tywysog," mai argraffiad newydd ydoedd o "*Powell's History of Wales*." Gwel y flwyddyn 1584. Yr oedd Robert Vaughan, o Hengwrt, wedi bwriadu cyhoeddi gwaith Powell, gyda gwelliadau a chwanegiadau, ond efe a attaliwyd gan amrywiol amgylchiadau, ac efe a roddodd ei bapyrâu i law Mr. Ellis, ei gymydog. Yr oedd Mr. Ellis yn fab i Griffith Ellis, Dolbenmaen, yn sir Gaernarfon, ac a anwyd yn 1625. Yr oedd y pryd hwn yn berson Dolgellau. Dywedir mai hwn yw yr hanes goreu am Gymru sy'n bod. Gwerthwyd yr holl lenau, oddi-eithr ychydig iawn, yn *waste*, fel y mae yn anhawdd iawn cael gafael ar un o honynt. Bu farw Mr. Ellis yn Dolbenmaen, yn 1673, yn 53 oed.<sup>1</sup>

1664.

1. "Llyfr Gweddi Gyffredin, &c., y Psalwyr, neu Psalmau Dafydd, ar ol cyfieithiad y Bibl mawr; wedi eu pwyntio fel y maent i'w canu neu i'w dywededy mewn Eglwysau. Argraffwyd yn Llundain tros Edward Fowk, M.D. CLXIV."

Llyfr gweddi mawr unplyg i'r "Eglwysau" ydoedd hwn.

2. "Articlau—Y Namun un deugain Articlau Grefydd. O gyfieithiad J. D., S.S.T.P." 4plyg.

Dr. Davies, o Fallwyd, ydoedd y cyfieithydd uchod.

3. ¶ "—ac anffurfiad Thomas Jones. 8plyg.

<sup>1</sup> "*Williams' Dictionary of Eminent Welshmen*."



Dyna fel y mynega M. Williams. Dichon mai nid y flwyddyn hon y cyhoeddwyd hwy yr ail waith, eithr rywbyrd o hyn i'r flwyddyn 1710, pryd y cyhoeddwyd hwy y drydedd waith. Cawn ddyweyd rhywfaint am Thomas Jones mewn lle arall.

4. "Egwyddorion y Grefydd Gristionogol yn gynnwysedig mewn Catechiam Bŷr."

Catecism y Gymanfa Bresbyteriaidd yw y llyfr uchod, yn gyfrol fechan 18plyg, yn cynnwys 74 tudalen. Yna y canlyn A. B. C., Credo St. Athanasius, a Chredo Nicea. Hefyd "Articlau neu Byngciau," sef erthyglau Eglwys Loegr, "wedi eu cyfieithu yn Gymraeg gan J. D., S.T.P." Gwel rhif 2 uchod. Ar ol y catecism, y mae yr hysbysiad canlynol, yn y ddwy iaith:—"The Impression of this Book was chiefly done at the charge of Mrs. M. Crowther, an English Gentlewoman; and not a little favoured by Mr. Caleb D'Avenant, a Wigornian." "Argraffiad y llyfr hwn a ddibenwyd yn bennaf ar Draul, neu Gôst, Mrs. M. Crowther, Saesnes Foneddig: Ac hefyd drwy helaeth Gy-droddiad Mr. Caleb D'Avenant o Gaerfrangon." Yna y canlyn pedair englyn o "Fawl i'r rhai uchod am eu haelioni," ac wrthynt—"John Rhydderch a'i cânt." Rhwng y "credoau" a'r "erthyglau" y mae tudalen yn cynnwys y geiriau hyn yn Lladin,—"*Hæc translatio Cambro-Britannica Articularum Fidei, &c. Religiosis in Ecclesia receptorum Concordat cum Editionibus Latina & Anglicana, facta fidei collationi, per Geo. Asaphen. Imprimatur. Exæd. Londines. Decem. 15, 1664. Joh. Hall. Rev. in Christo Pat. Dom. Humf. Episc. Lond. a Sac. Domest.*" Hyny yw—"Dyma gyfieithiad Cymreig o erthyglau ffydd a chrefydd a dderbyniwyd yn unfrydol yn Eglwys Loegr, ac wedi eu cymharu yn ofalus â'r argraffiadau Lladinaidd a Seisonig, gan Geo. Asaph." Y George hwn ydoedd George Griffith, esgob Llanelwy. Gwelir fod erthyglau y Presbyteriaid ac erthyglau Eglwys Loegr wedi eu cyhoeddi yn un llyfr, trwy awdurdod yr Eglwyswyr. Y mae yn briodol mynegu ymhellach fod y catecism wedi ei ddosbarthu yn 30 o ddosbarthiadau, yn ol dyddiau y mis, fel y Salmu yn Miblaw yr Eglwys. Dywed Mr. D. Peter, ar ol Mr. Palmer, mai Mr. W. Jones, o sir Feirionydd, a'i cyfieithiodd, ond nid ymdengys hyny oddiwrth y llyfr ei hunan. Bu efe am beth amser yn cadw yr ysgol yn Rhuthyn; wedi hyny symudodd i Ddinbych, lle y dewiswyd ef yn gapelwr i'r Llywodraethwr Twistleton; a thua y flwyddyn 1648, daeth yn weinidog y plwyf. Darfu i Weithred yr Unffurfiad ei wthio o'r Eglwys, a Gweithred y Pum Milltir ei yru o'r dref, a chafodd nawdd-dŷ gan y Treforiaid yn y Plas teg, sir Fflint. Symudodd i Hope, lle y bu farw, mewn oedran teg, yn 1676.

1668.

"Memoirs of the Lives, &c., of Personages that Suffered in the Late intestine Wars. By — Lloyd. London. 1668."

Y mae Theo. Jones, yn ei "*History of Breconshire*," yn dyweyd cryn lawer am yr awdur hwn.

1670.

1. "Allwydd neu Agoriad Paradwys i'r Cymru; hynny yw, Gweddiau, Devotionau, Cyngorion, ac Athrawiaethau tra duwiol ac angenrheidiol i bob Christian syn mynnu agoryd y Porth a myned i mewn i'r Nef: Wedi eu cynnull o amryw lyfrau duwiol, a'i cyfieithu yn Gymraeg: neu, wedi ei gyfansoddi gan I. H. yn Lvyck a'imprintwyd yn y Flwyddyn MDCLXX."

1852.]

w

Y mae y llyfr hwn yn cynnwys 478 o dudalennau 12plyg, ac wedi ei ysgrifenu mewn iaith oleu dda. Tebyg mai gŵr o'r Deheudir ydoedd yr awdur, canys efe a'i cyflwyna "At fy anwyl Frodyr a'm Chwiorydd, a'm Ceraint eraill ffyddlon, yn Gwent a Brycheinioc." Yr ydys wedi methu cael allan pa le yw y Lvyck a enwir yn fan yr argraffwyd ef; ac yr ydys yn tueddu i farnu nad oes le felly yn bod, ond mai cyfrwysdra Jesuitaidd ydoedd rhoddi enw Fflemmaeg, ystyr yr hwn yw *ufudd* neu *roymedig*.<sup>1</sup> Dylem sylwi hefyd mai *missal* neu *mass-book* Pabaidd ydyw, yn Gymraeg a Lladin yn gyfochrog. Yr uwchlinellau a'r prifeiriau mewn llythyrenau cochion.

2. "Y Drydedd Ran o waith Mr. Rees Prichard, Gynt Ficar Llanymddyfri yn sir Gaerfyrddin, gyda Llythyr at Plwyfolion Llanddyfri, Llanfair ar Brin, a Llanedi yn sir Gaerfyrddin, a Llythyr at y Cymru a ddarllenant y Llyfr hwn, ynghyd ag ymholiad beunyddiol o waith Usher, a'r lleill o waith S. Bernard. Llundain." 8plyg.

3. "Articles of Agreement and subscription betw<sup>m</sup> his Highness Prince Rupert and divers Noble and Honb<sup>le</sup> Persons and others, undertakers for working of Mines Royal in the Counties of Cardigan and Merioneth in the Principality of Wales."

Gwel rhif 1, 1642; rhif 2 a 3, 1649; rhif 1, 1650; a rhif 2, 1660.

4. "Dadseiniad Mab y Daran, sef ail Brintiad o Lyfr Esgob Juel, a elwir Diffyniad ffydd eglwys Loegr; ac o Epistol yr Esgob Davies at y Cymru. An Echo of the Sons of Thunder, being a Second impression of Bishop Juel's Apologie, and of Bishop Davies his Epistle, in the British Tongue. Rhydychen."

Ailargraffiad o rhif 1, 1587, a rhif 1, 1594. Dywedir mai Charles Edwards ydoedd y golygydd a'r cyhoeddydd.

1671.

1. "Y Ffydd Ddifuant, sef Hanes y Ffydd Gristionogol, a'i Rhinwedd, &c. Gan Charles Edwards. Llundain." 8plyg.

Awdur "Llythyr at y Darlennydd," o flaen "Trysor i'r Cymry" (gwel rhif 1, 1677), a ddywed—

"Y mae *Hanes y ffydd* wedi ei brintio yn y drydydd waith gydag anchwanegiad. Er fod pob rhan o'r llyfr hwnw yn haeddu ei ddarllen, etto mewn modd enwedigol, mi gynhorwn i chw'i ddarllen yn fynych Histori neu Hanes y Merthyrion ac y crybwyllir ynddo am danynt, (y rhai a ddiroddasant Angeu tros Grist a'i Efyngyl) ac hefyd y rheymmau pwysfawr sydd ynddo, i brwfo mai Gair Duw yw'r Scrythrau."

Am hanes Charles Edwards, gwel y "Traethodydd" am Ionawr, 1852.

2. "Y Bibl Cyssegr-lan; sef yr Hen Destament a'r Newydd. Llundain."

Bibl bychan wythplyg oedd hwn hefyd.

3. "Holl Ddyledswydd Dyn, &c."

4. "Duwiolder Neillduol ar Achosia, yn Gystal Cyffredinol ac Anghyffredinol. London, Printed for R. Royston, 1671."

Cyhoeddwyd y ddau uchod gyda'u gilydd, ond fod dau wyneb-ddalen iddynt. Thomas Gouge a fynodd eu cyhoeddi ar ei draul ei hun.

5. "Visitation of Pembrokeshire, with arms blazoned and pedigrees. London printed by John Winter, 1671."

Ni argraffwyd ond y gwyneb-ddalen, y rhagymadrodd, a'r arweiniad i mewn. Yr oedd corff y llyfr mewn llawysgrif yn ddiweddar yn llyfrfa Humphrey Cheetham, yn Manchester.

<sup>1</sup> "Gwladgarwr:" Medi, 1826; tudal. 279.

1672.

1 'Ymholiad beunyddiol. Llundain." 8plyg.

Ymddengys mai ailargraffiad ydoedd hwn o waith Esgeb Usher. Gwel rhif 2, 1670.

2. "Amdo i Babyddiaeth. Llundain." 8plyg.

3. "Llyfr y Psalmae [can a darllen] yn nghyd a'r Testament Newydd. Printiedig yn Llundain. 1672." 8plyg.

Dywed rhai, mai Stephen Hughes, Thomas Gouge, gyda chynnorthwy Dr. Thomas, deon Worcester, a rhai offeiriaid yn Neheudir Cymru, a fynodd hwn allan, os nad rhif 2, 1671—hefyd

4. "¶ A Sheet in Fo. containing some Omissions and Mistakes in the British Translation of the Bible, appointed to be had and read in the Churches in Wales, to be Supplied and Rectified."

5. "Diarhebiion Cymraeg a gasglwyd allan o Ddictionary Dr. Davies. Llundain." 8plyg.

6. "Canwyll y Cymru—yn bedair rhan. Llundain." 8plyg.

Ailargraffiad. Gwel y fwyddyn 1646.

1675.

1. "Hyfforddiadau Cristionogol. Yn dangos Pa fodd i rodio gyda Duw ar hyd y dydd. A oedwyd allan yn Saesonec. Gan Thos. Gouge, Gweinidog yr efengyl, ac yn Gamberaec gan Richard Jones, o Ddinbech. Printiedig yn Llundain gan A. Maxwell i'r Awdwr. 1675."

Am Richard Jones, gwel rhif 1, 1655. "Diwygiwr y print-wase" oedd Charles Edwards, awdur enwog "Hanes y Ffydd." Gwaith T. Gouge ydoedd, yr hwn a fynodd ei gyhoeddi ar ei draul ei hun, gan geisio Cymro cyfarwydd i droi ei waith Seisoneg i'r Gymraeg.

2. "Traethawd Byrr yn erbyn meddwdod, aflendid, ofer-dyngu, a chelwydd."

3. "Proffiad yr Ysbrydion, neu Ddatguddiad gau Athrawon, a Rhybydd i'w Gochelyd, neu draethawd byrr i Ioan i. 1. ym mha un y Dateuddir drwy oleuni Gair Duw, Eboniedig gan hynafiaeth, fod amryw athrawiaethau y Pabistiaid, y Presbeteriaid, yr Independentiaid, a'r Cwacceriaid, yn anghyson â'r Ysgrifur Llan, ac o herwydd hynny i'w Gochelyd yn ofalus gan bob dyn sydd yn caru Iechydwrtaeth ei Enaid. Gan Rondl Davies, A. M., Ficar Meifod. Llundain."

Y mae y llyfr hwn yn cynnwys 297 o dudalenau 12plyg, ynghyd â llythyr cyflwyniad o bum tudalen i Edward Vaughan, Ysw., o Lwydiarth. Rhoddwyd ficeriaeth Meifod i Rondl Davies gan yr Esgeb George Griffith, a phersoniaeth y Cwm, ger Llanelwy, yn y fwyddyn 1661, meddai Brown Willis, ond yn y fwyddyn 1651, meddai coflyfr Meifod. Y mae y coflyfr yn cynnwys bedyddiadau tri ar ddeg o blant Rondl Davies, y ficer, a Mary, ei wraig, o'r fwyddyn 1649 i'r fwyddyn 1666. Bu yn dal y fywioliaeth o leiaf saith a deugain o flyneddau; a bu farw yn 1695. Tra yr oedd ef yno, yr oedd y Crynwyr yn gwneyd cryn lawer o gynhwrf yn y gymydog-aeth, a llawer o'r plwyfolion wedi ymuno â hwy. Gyda golwg ar roddi attalfa arnynt hwy ac Ymneilldŵyr eraill yr oes hōno yr ysgrifennodd ac y cyhoeddodd y ficer y llyfr uchod. Tybir hefyd fod ganddo law yn nghyhoeddiad rhif 1, 1660, yr hwn sydd ar yr un ddadl. Yr oedd dau frawd o'r enwau Charles a Thomas Lloyd yn byw yn Dolobran, y rhai a goffeidiasant egwyddorion y Crynwyr; a chan eu bod yn feddiannol ar

dda y byd hwn, yr oedd eu dylanwad yn gryn fawr. Adeiladasant gapel ar eu tir, ger Coed Cowryd, yr hwn sydd i'w weled eto. Aeth Thomas Lloyd i'r America gyda William Penn. Dywedir fod egwyddorion y Crynwyr, nid yn unig yn mhlwyf y ficer, eithr hefyd yn ei deulu—fod chwaer i wraig y ficer yn byw yn Mhentre'r-go; ac iddynt, un boreu Sabbath, gyfarfod eu gilydd yn Mhentre Parog—un yn myned i'r Eglwys, a'r llall yn croesi ei llwybr tua chapel y Crynwyr, yn Coed Cowryd, ger Dolobran. Wedi ychydig eiriau o gyfarchiad, a phob un yn parotoi i fyned ymlaen, dywedai gwraig y ficer, "Pe caffech *chwi ras*, fy chwaer anwyl, chwi ddeuech gyda mi." Yr oedd ateb parod gan y llall—"Pe b'ai *genyt ti ras, tydi a ddeuit gyda mi.*" Felly yr ymadawsant, i fyned bob un i'w lle addoliad, a phob un yn uniawngred yn ei thyb ei hun.<sup>1</sup>

4. "Yr Ymarfer o Dduwioledeb yn Cyfarwyddo dŷn i rodio fâl y rhyngo ef fodd Duw. *Y trydydd Preintiad.* Printiedig yn Llundain gan *Tho. Dawks*; dros *Ph. Chitwin*, ac a werthir dan lun y tri Bibl gyferyn a'r Royal Exchange, 1766."

Gwel rhif 1, 1630; a rhif 2, 1656. Y mae yn ei ddiwedd anerchiad "Diwygiwr y preint-wasc at y darlleydd," yr hwn, tybygem, oedd Mr. Charles Edwards, canys nid yw yr un sydd o'n blaen yn diweddu yr anerchiad hwnw—yn yr hwn y dywed,—

"PAM i'm galwyd i ddiwygio 'r preintiad yma o'r llyfr hwn mi dybiais nad oedd raid imi ond edrych ar iddo gyfateb yn gywir i'r llyfrau o'r blaen. Ac felly y dechreuais wneuthur, nes imi wrth fyned ymlaen i holi 'r Copi, ddal sulw fod yn angenrheidiol gyfnewid ynddo lawer o bethau; gan fod y darlenniad a'r ystyr yn dywyll, ac yn anghysson mewn llawer o fannau, ac heb gyrhaeddyd ergyd yr Awdwr yn y dafodiath arall: Ac i'r cyfeithydd gamgymeryd bagad o eiriau Lladinaidd a Groegaidd yn y llyfr Saesonac, yfydd anhawdd eu dirnad, ac allent fagu amyfussedd; megys yn y ddalen 41 o'r preintiad cyntaf, lle y cymerth y gair *sate* yn lle *sight*, gan ei gyfeithu golwg, yn lle cyfead. Nid yw y fath gamgymeriad mewn rhai geiriau dieithriol achos i felo ar y cyfeithydd a gymerth boen mor llesol iw wlad yn y gorchwyl hwn, am nad oedd y pryd hynny hyfforddiadau i gyfeithu mor gyffredin ac ydynt yr awrhon. Y mae gennif barch iw enw ef am y llyfr hwn, ac yn gofus gennif er fy mebyd mor groesawys ydoedd i'r parth lle ganwyd fi. Ond y beiau mwyaf (tebyg cennifi), a ddigwyddasau oddiwrth anghyfarwyddyd y preintwyr Seisnig, y rhai yn gynnedfol a adawant amryw eiriau a liniau hefyd heb eu rhoi i mewn, onid edrychir arnynt atynt yn dra-manwl. O herwydd yr achosion rhagddywededig mi roddais gais ar gyffelybu y rhan fwyaf o'r llyfr Cymraeg a'r un Saesneg ynghyd, fal yr oedd yr achos yn gofyn."

Yr oedd yn ddiâu yn orchwyl gofalus—mwy na phe buasid yn ei gyfeithu o newydd yn hollol—i ddiwygio gwaith R. Vaughan, canys gwelsom mai cyfeithydd anystwyth iawn ydoedd; a ohan fod darllenwyr yr oes hŏno yn eithaf afrwydd hefyd ar y gwaith hwn, prin iawn y gallasant dderbyn unrhyw fudd oddiwrth y llyfrau a gyfeithwyd gan R. Vaughan. Dywedir nad oedd hyfforddiadau i gyfeithu mor gyffredin y pryd hynny ag ydynt yr awr hon: ond yr ydym yn methu cael fod ein cenedl wedi cael ond gweithiau Dr. Davies o Fallwyd yn unig, y rhai oeddynt yn fwy o gynnorthwy i gyfeithu o'r Lladin i'r Gymraeg nag o'r Seisoneg i'r Gymraeg.

1676.

1. "Hanes y Ffydd, gan Charles Edwards. Rhydychen."

Ailargraffiad. Gwel rhif 1, 1671. Dyma yr argraffiad na welodd Dr. Williams, Llanbedrog.

<sup>1</sup> "Cambrian Magazine:" cyf. i., tudal. 325, 326, 440.

2. "Gair i Bechaduriaid, a Gair i'r Sanct. O gyfleithiad William Jones, gweinidog yr Efengyl, Llundain." 8plyg.

Rhodddwyd ychydig o ddalenau fel parhad o hwn yn gysylltiedig â "Llyfr y Resolution" y flwyddyn 1684.

3. "Principlau, neu Bennau y Grefydd Gristionogawl, A agorir fel y gallo y gwannaf eu deall. Gan T. G. gweinidog yr Efengyl. Ac a gyfieithwyd gan W. J. Printiedig yn *Llundain* gan A. Maxwell i'r Awdwr yn y flwyddyn 1676."

Y "T. G." uchod oedd Thomas Gouge, a'r "W. J." oedd y William Jones am yr hwn y crybwyllir iddo gyfieithu rhif 4, 1664.

1677.

1. "Trysor i'r Cymru : Sef Llyfr yn Cynnwys; 1. Pregeth Mr. Arthyr Dent, ynghylch Edifeirwch, o gyfieithiad Mr. Robert Llwyd, gynt Ficer y Wayne yn Shir Ddinbych. 2. Drych i dri math o bobl, sef i'r Anghristion, Rhith-Gristion, a'r Gwir-gristion, o waith Mr. Oliver Thomas, Carwr y Cymru. 3. Bellach neu Byth o waith Mr. Richard Baxter, ym mha draethawd y cyfiawnheuir, y cyssaurir, y cynhyrfir, ac yr hyfforddir y Sanctaidd, Ddiwyd, Difrifol Gredadyn : A'r Gwrthwynebwyr a'r Eceuluswyr a argyhoeddir, drwy oleuni yr Scrythur a Rheswm. O gyfieithiad Mr. Richard Jones, o Ddinbych. A'i Brintio yn Llundain gan Thomas Dawks, Printiwr yng-hymraeg i ardderchocaf Fawrhydi y Brenin. 1677."

Y mae yn blaenori hwn "Lythyr at y Darllenydd" helaeth am y llyfrau hyn, bob un ar ei ben (y rhai ydynt rhif 4, 5, 8, y flwyddyn hon), o'r hwn y rhodddwn ddsoranau yn gydiol â hwynt, gan fod gwyneb-ddalen penodig i bob un o honynt.

2. "Cyfarwydd-deb i'r Anghyfarwydd, sef Llyfr yn cynnwys, 1. Agoriad byrr ar Weddi yr Arglwydd. 2. Ymddiddanion rhwng y Carwr a'r Cymro. 3. Ymddiddanion rhwng Crist a'r Publican, &c. 4. Amryw Reolau Duwiol, &c. Ai Brintio yn Llundain gan Thomas Dawkes, Printiwr yng-hymraeg i ardderchocaf Fawrhydi y Brenin, 1677."

Y mae y llyfrau sydd yn y llyfr hwn yn meddu gwyneb-ddalenau gwa-hanol, a chyfeirir atynt yn y rhagymadrodd neu y "Lythyr at y Darllenydd," yr hwn gyfeiriad a gysylltir genym â'r mân lyfrau hyny eto, sef rhif 3, 9, a 10, fel y delom atynt. Dywedir yn nechreu y "Lythyr at y Darllenydd—

"Darllenydd anwyl, Dyma llyfr i Hyfforddi ac i Gyfarwyddo y cyffredin Gymru, ym matterion eu iechydwrtaeth dragywyddol. Ac oblegit fod hynny yn beth mawr, (tu hwnt i'r hyn a ddichon calon feddwl, na thafod draethu) os ystyriwn ni y pethau y mae'r Enaid yn cael ymwared oddiwrthynt, a'r llawenydd a'r gogoniant y mae'n cael bod yn gyfranog o honynt, fe ddylit dderbyn yn resawgar y fath draethiadau, ac sy'n gwir gyfarwyddo pobl, mewn matterion mor bwys-fawr."

3. "Carwr y Cymru, Yn annog ei genedig anwyl, a'i gydwladwyr, er mwyn Crist a'u heneidiau, i chwilio yr Scrythyrau, yn ol gorchymyn Crist. Ioan 5. 39. Llundain, Printiedig drwy awdurdod yn y flwyddyn MDCLXXVII."

Dywedir yn y "Lythyr at y Darllenydd" am hwn—

"I gyfarwyddo pobl i chwilio'r Scrythyrau er iechydwrtaeth iw Heneidiau, dymma i ti Garwr y Cymru, yn awr wedi ei brintio drahefn. Pe darllenem ni y Scrythyrau fel ein cyfarwyddir yn y llyfr hwn, ni fyddem lawer gwell Cristionogion rhagllaw nag y buom hyd yn hyn."

Rhodddwyd argraffiad gwedi hyny o'r gwaith hwn yn y flwyddyn 1766, o dan yr enw "Drych y Cristion" (gwel yno); ond heb "Y rhagymadrodd at Eglwys-wyr Cymru," yr hwn sydd yn ddernyn o gyfansoddiad rhagorol, a'r hwn y rhaid i ni roddi ei gynnwysiad ger bron ein darllenydd :—

“Ha-wyr frodyr, a thadan Parchedig, ac anwyl yn yr Arglwydd, y mae yn weddas i mi gynnied hyn am danoch oll, nad yw yn anwybod i chwi, ond eich bod yn credu yn ddilya, mai ewyllys Crist yw, nid ar i chwi yn vnig, eithr i'r holl braidd y gwnaeth yr Yspryd glan chwi yn olygwyr arnynt, chwilio yr Scrythrau. Act. 20. 28.

Canyas mae y ddyled-awydd hon wedi ei yspysu yn amlwg, ac mor gyffredin mewn amryw fannau o Air Daw, ac o'r Tadau dysceddy gynt, ac na ddichon neb ond oddi-eithr Gwlieddion deillion fod yn anhysepys arni. Athro rhagorol yn nechreu yr oes hon, a gasiodd allan o'r hen Dadau athrawaidd gynt, mer daer, ac mor ddifrifol oeddnt, hawb yn eu hamser, yn cymmell y cyffredin i fod yn gydnabyddus â Gair Daw, ac i'w fynych chwilio, gan gyngkori hefyd y Periglorion o'r amseroedd hyany i gynhyrfu, ac i fod yn daer ar bawb tan eu gofal hwynt i ymarfer â'r ddyled-awydd grefyddol hon, yn eu tai eu hunain gartref, ym mysc eu teulu. A minne (frodyr) gan ganlyn ar ol y Seint Dwyfol hyn, a fyddaf (drwy eich cennad) cyn hyfed arnoch, ac attolwg i chwi, er mwyn Crist Iesu, er mwyn eneidiau eich praidd, ac er mwyn eich hun, fod yn eiriol ar eich plwyffion, ar iddynt brynu Biblau bychain, y rhai sydd yr awrhon drwy ras Daw a'i ragorol ymgeledd tu ag atom (y cyffelyb peth ni bu yn ein plith erioed o'r blaen) yn aml, yn dda'r newid arnynt, ac yn hawdd i'r tlawd eu cael, fel y gallo pob dyn annyscedig a dim athrylith dduwiol ynddo (o medr ddarllein ei iaith ei hun) (yr hyn a ddylei pawb ei fedru) fanwl chwilio Gair Daw, a bod yn hyspys ynddo.”

Yna y mae yr awdur, yr hwn, tybygem, oedd Eglwyswr Efynglaidd iawn, yn galw ar ei Gyd-eglwyswyr mwy diofal at eu dyledswyddau, mewn dull pwysig, manwl, ac eto yn dynner a pharchus, mewn lliaws o benau neu ystyriaethau, gan osod allan, er hyny, mewn iaith gref, eu hesgeulusdra.

“Tebygol yw y buasai yn ngwlad Cymru yn nyddiau ein Tadau, fwy o chwilio ar yr Scrythrau nag a fu hyd yn hyn o'n nhoes ni, pe buasai y Bugeiliaid ysprydol, neu y rhan fwyaf o honynt, mor graff, mor ddiwyd, ac mor daer ag y dylasant fod i annog, i gymhell, ac i gynhyrfu y cyffredin bobl yn y ddyledawydd anhepoc, ac angenrheidiol hon.

“Mynych dros ben y mae dolur yn taro yn fy nghalon wrth weled, ac ystyried y diffyg mawr a'r esceulusdra dybryd, sydd yn ein plith ni Eglwyswyr Cymru, o gymeryd poen i ddysgu ein praidd yn gydwybodus, eisiau ymosod a llwyr-fryd calon i ddarllein, cynghori, ac i athrawiaethu, i Tim. 4. 13. Yr ydym ni ein hunain, (lauer o honom) yn anghynefin a Gair cyfiawnder, ac am hyny yn anghyfarwydd, ac yn anghymer i gyfarwyddo eraill. Y mae yn aml gweled yn ein plith ni ynghymru Eglwys-wyr, o ran eu dys-ceidiaeth yn ganmoladwy, a'i ymadrodd yn barabl-ddoeth; ac eto yn an-aml gweled mewn llawer goror o'r wlad yr Scrifennydd wedi ei addyscu i deyrnas nef, yn dwyn allan o'i dryssor bethan newydd, a hen, Mat. 13. 52. Ie rhoddwch gennad i mi fy mrodyr anwyl, i ddywedyd wrthyfch (y peth sydd ddrwg gennaf orfod ei ddywedyd) y gellir cael yn mhob un o Eacobaethau Cymru ddengain, neu driugain o Eglwysai, heb un bregeth ynddynt ar y suliau hirddydd-haf, pan fo sychaf y ffyrdd a chlaisraf yr hin.”

Ac wedi myned ymlaen yn yr un dull, y mae yn terfynu—“Eich Brawd, a'ch Car-wr, a'ch car Di-enwog Di-Enw.”

Yna y “Llythyr at ei anwyl geraint a'i gydglwadwy'r y Cyffredin Cymru, Annerch,” i'w “cynhyrfu” i chwilio yr Ysgrthyrau, mewn deuddeg o ystyriaethau; ac yn diweddu, “Eich Car-wr i'w orchymryn yn yr Arglwydd Iesu.” Yna y mae dechreu corff y llyfr, yn “Ymddiddanion rhwng Carwr a'r Cymro ynghylch chwilio yr Scrythrau.” Y mae yr ymddyddanion yn neillduol o ddyddorol, ac yn pelydru cryn lawer o oleuni ar sefyllfa ac ansawdd dysgeidiaeth Gymreig yn yr oes hono. Ailargraffiad yw hwn, yn mhen chwech a deugain o flyneddau wedi yr argraffiad cyntaf y ffwyddyn 1631. Cyhoeddwyd yr ymddyddanion hyn unwaith ar ol hyn, os nad ychwaneg, o dan enwau eraill, ond wedi gadael allan y “Rhybudd i'r Darllenydd” o flaen yr ymddyddanion cyntaf a'r ail a'r trydydd, y rhai ydynt mewn llythrenau duon Brytanaidd.

4. "Drych i dri math o bobl, sef i'r Anghristion, Rhithgristion, a'r Gwirgristion. Llundain." 8plyg.

Dywedir yn y "Llythyr at y Darllenydd," fod y "Drychau" wedi eu "printio unwaith o'r blaen er ys deng-mhlynedd ar hugain a aethant heibio." Rhaid fod hyny tua'r flwyddyn 1648, yr hwn na welsom hanes am dano criced o'r blaen.

5. "Bellach neu Byth. O gyfeithiad Mr. Richard Jones, o Ddinbech. Llundain." 8plyg.

Am Richard Jones, gwel rhif 1, 1655. Am hwn dywed y "Llythyr at y Darllenydd,"—"Ac am y traethawd BELLACH NEU BYTH (*Now or Never* yn Saesoneg) yn gyntaf y mae'n dyfod allan yng Hymraeg."

6. "Galwad i'r Annyhweledig. Gan Richard Baxter. Llundain." 8plyg.

Dywedir mai Mr. Stephen Hughes a fynodd ei gael allan.

7. "Y Ffydd Ddiffuant, sef Hanes y ffydd Gristionogol. The Third Impression, with Augmentation. Printed yn Rhydychen, gan Hen-hall."

Hwn yw yr argraffiad diweddfaf yn oes yr awdur, a'r goreu. Gwel rhif 1, 1671, a rhif 1, 1676.

8. "Pregeth ynghylch Edifeirwch. Gan Arthyr Dent. O gyfeithiad Mr. Robert Llwyd, gynt Ficer y Waun, yn sir Ddinbych. Llundain."

Ailargraffiad. Gwel rhif 1, 1629. Y mae y bregeth hon yn gyflawn yma; eithr talfyriad byr iawn o honi sy'n gysylltiedig â'r "Llwybr Hyffordd i'r Nefoedd," 1682. Yn y "Llythyr at y Darllenydd," cyfeirir at yr argraffiad cyntaf o'r bregeth hon,—“Bydded hyspys i chwi, ddarfod printio y bregeth hon ynghylch *Edifeirwch* unwaith o'r blaen agos er ys hanner cant o flynyddoedd.” Gwel rhif 1, 1629.

9. "Agoriad byr ar Weddi'r Arglwydd. Gan William Perkins. O gyfeithiad R. Holland. Llundain." 12plyg.

Dywedir yn y "Llythyr at y Darllenydd":—

"I gyfarwyddo pobl i weddio yn ol Bwyllys Duw, fel y derbyniot iechydwrtaeth iw heneidiau—dyma i ti Agoriad byrr ar weddi'r Arglwydd, mewn rhan o waith Mr. Perkins, ac o gyfeithiad Mr. Robert Holant, gynt Person Llanddyfrwr yn shir Gaer-fyrddin; ac mewn rhan o waith a chyfeithiad vn arall—Y mae agos i bedwar ygain mhynedd oddiar pan Printiwyd llyfr Mr. Holant gyntaf, ac fel y mae'r Saesoneg, felly y mae'r Gymraeg wedi ei phuro yn fawr oddiar yr amser hynny, ac am hynny nid oedd afresymmol i ddiwygio y llyfr o ran y iaith; ac oblegit fod y matter yn dywyll mewn rhyw fannau, gweddus oedd iw egluro trwy chwaneu ato."

Yn yr argraffiad o'r blaen, dywedir mai "Person Llan Ddeferowg, yn sir Gaerfyrddin" oedd Robert Holland; ac yma dywedir mai "gynt Person Llanddyfrwr, yn shir Gaer-fyrddin" ydoedd; ond yr ydym yn methu a chael fod plwyf yn y sir hōno o'r enwau hyny; a bod yn rhaid mai naill ai Llanddowror neu Lanymddyfri (yr enw a roddir yn gyffredin i blwyf Llandingad) ydoedd.

Ailargraffiad ydoedd o lyfr y flwyddyn 1600 (gwel yno), gan na allasai Holland fod yn gyhoeddydd dau lyfr mor bell o amser oddiwrth eu gilydd. Y mae yn un o'r llyfrau goreu a gyhoeddwyd yn ein hiaith ar Weddi yr Arglwydd; yn cynnwys 161 o dudalenau, heblaw y gwynneb-ddalen, &c. Y mae yn ei ddiwedd bedair dalen o "Amryw reolau duwiol, perthynol i bob Cristion i'w harfer," a phum dalen yn cynnwys "Lythyr arrall at y Darllenydd."

10. "Y Bibl Cysegr-lan, Sef yr Hen Destament a'r Newydd. Printiedig yn Llundain gan John Bill, Christopher Barker, Tho. Newcomb, a Henry Hills, Printwyr i Ardderchoccaf fawrhydi y Brenin : ac a werthir gan John Hancock, tan lûn y tri Bibl yn Popes-Head Alley, yn Cornhill. 1677."

Yr oedd Biblau y flwyddyn 1671 wedi myned erbyn hyn yn brinion iawn. Pan wnaed ymofyniad gan S. Hughes, neu T. Gouge, drosto, ni allwyd cael uwchlaw ugain o Fiblau Cymreig ar werth yn Llundain, ac ni allwyd cael uwchlaw deg ar hugain ar werth trwy yr holl deyrnas. Achlysueroedd hyn i'r gwŷr uchod, S. Hughes a T. Gouge, wneyd ymdrech, yn cael eu cefnogi gan yr hyglod Archesgob Tillotson, a'r canlyniad fu cael yr argraffiad hwn o 8,000 o Fiblau wythplyg ; a bernir mai hwn oedd yr argraffiad helaethaf o lawer a fu eto yn yr iaith Gymraeg. Dosbarthwyd 1,000 o honynt yn ebrwydd i'r tlodion, a'r lleill a werthwyd am bedwar swllt yr un, wedi eu rhwymo ; yr hyn oedd yn bris bychan iawn am y fath lyfr trwchus a hardd, gan ei fod yn cynnwys "Llyfr y Weddi Gyffredin," yr "Apocrypha," a'r "Salmau Cân." Yr ydys wedi crybwyll aml waith am S. Hughes a T. Gouge. Un o'r gweinidogion a dröwyd allan o Eglwys Meidrim, yn sir Gaerfyrddin, ydoedd Hughes, pan ddaeth Gweithred yr Unffurfiad allan. Bu fyw ar ol hyny, hyd ddiwedd ei oes, yn Abertawy, ac oddiyno byddai yn teithio pob bryn a chwm o'r wlad i bregethu ; ac effeithiau ei lafur ef yw yr holl hen eglwysi Ymneillduol sydd yn y cylchoedd hyny am lawer iawn o filltiroedd i siroedd Morganwg a Chaerfyrddin. Yr oedd yn cydweithredu â phawb, pa un bynag ai Eglwyswyr neu Ymneilldŵyr a fyddent, i wneyd daioni cyffredinol i Gymru, yn enwedig trwy gyfieithu a chyhoeddi llyfrau buddiol, o ba rai bu yn foddion i gael allan tuag ugain o wahanol faintioli. Bu farw yn y flwyddyn 1678, yn mhen blwyddyn ar ol cael y Bibl hwn allan, yn oddeutu 66 oed, a chladdwyd ef yn mynwent Eglwys Ioan, Abertawe. Am ei gefnogydd a'i gynnorthwyr, T. Gouge, Sais oedd ef, o Lundain. Yr oedd yn ŵr haelionus iawn, a gwnaeth Gymru yn wrthddrych ei elusengarwch. Arferai deithio trwy y Dywysogaeth i edrych ansawdd crefydd a moesan, a chyfranu Biblau a llyfrau da eraill, ac ymweled â'r ysgolion dyddiol a sefydlai ac a gynnalai, a chyfranu yn mhob modd i anghenion y tlodion. Yr oedd yn gwneyd hyn wedi ei fyned yn 60 a 70 oed.

Dywedir ei fod yn cynnal rhwng tri a phedwar cant o ysgolion i ddysgu pobl i ddarllen, gan mwyaf yn Gymraeg. Pan welai lyfr buddiol, mynai ei gyfieithu a'i argraffu yn Gymraeg. Cant a hanner o bunnau yn unig oedd ei elw blyneddol, ac o hyny yr ydoedd yn cyfranu can' punt yn flyneddol. Yr oedd hefyd wŷr da eraill yn ei gynnorthwyo. Er mai gweinidog gyda'r Ymneilldŵyr ydoedd, yr oedd mewn cymaint parch gan Eglwyswyr, yr enwedig gan Archesgob Tillotson, fel y darfu i'r gŵr duwiol hwnw bregethu pregeth anghladdawl iddo. Dylasem ddywedyd, fod llawer iawn o wallau yn y Bibl bychan o'r blaen, yr hyn a wnaeth i Stephen Hughes gymeryd arno wella y camgymeriadau, ac adolygu y wasg yn ofalus ; a chan ei fod yn ŵr dysgedig, ac yn Gymro hyrwydd, y mae yr argraffiad yn dra chywir a hardd. Y mae "Llyfr y Weddi Gyffredin," a Salmau Edmwnd Prys, yn gysylltiedig â'r argraffiad hwn, a gwyneb-ddalen wahanol i bob un o honynt, a'r amseriad yn ol pa un yr oeddynt yn y wasg. Gan mai y Bibl a argraffwyd gyntaf, y mae wedi ei amseru yn 1677, am yr hwn y dywed awdur "Llythyr at y Darlennydd" o flaen y "Trysor i'r



Cymru" (Stephen Hughes, mae'n debyg), "Y mae y Bibl Cymraeg wedi brintio yn agos i ddiwedd y Barnwyr, ni bydd y cwbl yn barod tan flwyddyn gyfan eto ar y lleiaf: *ond nid hir aros da.*" Yr oedd hyny yn "Llundain, y drydydd dydd ar ddeg o fis Awst, 1677."

11. "Canwyll Crist, 1. I gyfarwyddo pechadur. 2. I ddatcuddio rhagrithiwr, 3. I gysuro y gwann, a'r gwir gristion. Printiedig yn Llundain, yn y flwyddyn MDCLXXVII."

Dywedir mai gwaith V. Powell yw hwn, er nad yw ei enw wrtho. Ei gymwysiad yw—

"Tri o ymddiddanion grasol. Y cyntaf rhwng Crist a Phublican pechadurns. Yn ail, rhwng Crist a Pharisead rhagrithiol. Y trydydd, rhwng Crist a Chredadyn ammhens. I gyfarwyddo pobl i ddyfod at Crist, trwy yr hwn yn vnig y mae iechyd-wriaeth i'w gael, *Act. 4. 12*, dyma i ti Ganwyll Crist wedi ei hail brintio, a pheth angwanegid mewn ambell man."

1677—78.

"Llyfr Gweddî Cyffredin, A Gweinidogaeth y Sacramentau : A Chynneddfau a Ceremonïau eraill yr Eglwys, yn ol arfer Eglwys Loegr."

Llyfr gweddî oedd hwn cysylltiedig â Bibl y flwyddyn ddiweddaf, ac wedi ei argraffu gan yr un rhai. Dyma y waith gyntaf y cyhoeddwyd y gwasanaethau am "Frad y Powdr gwn," "Merthyrolaeth y brenin Charles y Cyntaf," ac am "Adferiad Charles yr Ail," a elwir yma "Natalic Mawrhydi y Brenin," yn Gymraeg; canys yn niwedd y "Llyfr Gweddî," ac o flaen y Bibl, y mae y cyhoeddiad canlynol—

CHARLES R.

"Ein hefwylls a'n pleser yw, i'r Tair Trefn Gweddî a Gweinidogaeth hyn a wnaed i'r Pumbed o Dachwedd, y Ddegfed ar hugain o Ionawr, a'r Nawfed ar hugain o Fai, fod allan o law yn Breintiedig ac yn gyhoeddedic; ac o hyn allan i'w gyd-gynnwys gyda Llyfr y Weddî Gyffredin a Liturgi Eglwys Loegr, i'w harfer bob blwyddyn ar y dywedd ddyddian, mewn pob Cadeiriawl a Cholegawl Eglwys a Chapel ac Awl o fewn ein dwy Uniferstî, ac o'n Colegion o Eaton a Chaer-wynt, ac mewn pob Eglwys a Chapel Plwyfawl o fewn Ein teyrnas o Loegr, Arglwyddiaeth Gymry, a Thre Berwic ar Tweed.

"Rhoddwyd yn Ein Llŷs yn y Neuadd-wenn yr ail dydd o Fai yn y Bedwaredd Flwyddyn ar ddeg o'n Gwledychiad.

"Trwy orchymyn ei Fawrhydi

"EDW. NICHOLAS."

Cyn hyn hefyd yr oedd cryn wahaniaeth rhwng y cyfieithiad o'r rhanau o'r Ysgrhythrau ag sy'n argraffedig yn y "Llyfr Gweddî Cyffredin," i'w darllen yn y gwasanaeth dwyfol, a'r unrhyw ranau yn nghorff y Bibl ei hun; gan fod yr olaf wedi ei ddiwygio, a'r "Llyfr Gweddî" yn dilyn cyfieithiadau boreuach heb ei ddiwygio; ond y flwyddyn hon, gwnaed gweithred seneddol, y cyfeirir ati yn yr hysbysiad canlynol, er mwy o unfurfiad:—

"Yn gymaint â darfod trwy 14 *Carol II, Cap. iv. Sect 27.*—'I Esgobion Henffordd, Tŷ Ddewi, Llanelwy, Bangor a Llandaf, a'u dilynwy'r gael eu gorchymyn i gymeryd y fath gynllyn yn eu plith eu hunain, fod i Llyfr y Weddî Gyffredin gael ganddynt eu gyfieithu yn wirioneddol a chywir i'r dafodieith Frutanaid neu Gymraeg: a bod i'r cyfryw wedi ei gyfieithu felly, gael ganddynt hwy, neu o leiaf, ryw dri o honynt, eu olygu, ei ddarllen, a'i ganiatau i gael ei argraffu: a bod wedi i'r cyfryw Llyfr gael ei argraffu a'i gyhoeddi felly, i'r Holl Wasanaeth Dwyfol gael ei arferyd a'i ddywedyd gan y Gweinidogion a'r Curadiaid trwy holl Gymru, o fewn i'r parthau lle mae yr Iaith Gymraeg yn cael ei harfer yn gyffredin, yn y dafodiaith Gymreig neu Frutanaid, yn y cyfryw ddull a sturf ag a ofynir, yn ol Llyfr y Weddî Gyffredin sydd yn yr Iaith Saesonaeg, heb wahaniaethu dim mewn trefn oddiwrth y dyweddig Llyfr Saesonaeg.'

Ac yn gymaint a bod, nid yn unig yr *Menegylan* a'r *Epistola* a spwyatiwyd *Pw darllen*, ond hefyd fod *Tafien* y *Llithoedd* o'r *Hen Destament* a'r *Newydd*, a spwyatiwyd yn *Nghalender Llyfr y Weddi Gyffredin*, o angenrheidrwydd yn cyfeirio at gyfieithiad yr *hen Destament* a'r *Newydd*, oedd y pryd hyny mewn arferiad, sef yr un a gyhoeddwyd yn *mlwyddyn* ein *Harglwydd 1620*, a elwir yn *gyffredin Beibl yr Esgob Parry*. Yr ydym ni yr *Esgobion*, y rhai y mae ein henwau yn arwyddedig, wedi ei farnu yn beth perthynol i'n dyledswydd mewn ufudd-dod i'r gorchymyn dywededig trwy gynorthwy rhyw rai o'n *Hoffeiriad*, y rhai a berchir yn fawr oblegyd eu gwybod-aeth o'u *Hiaith frodorol* i beri fod i *Llyfr y Weddi Gyffredin* sydd mewn arferiad yn awr yn yr *Iaith Gymraeg*, gael ei gydmaru yn ofalus & hwnw a gyfieithwyd ac a ganiatawyd yn ebrwydd ar ol y gorchymyn hwnw, ac hefyd yr *hen Destament* a'r *Newydd* ag sydd yn awr yn cael ei ddarllen & r' cyfieithiad o'r *Hen Destament* ar *Newydd* i'r *Iaith Gymraeg* ag oedd mewn arferiad ac yn cael ei ganiatau y pryd hwnw : fel y gweler a wnaed rhyw gyfnewidiad neu gamgymeriad yn y naill neu y llall, yr hwn a ddystyrwial y perphaiht gydgordiad a'r unfurfiad hyn yn yr holl waenaeth yn yr *Ieithoedd Cymraeg* a *Saesonaeg*, yr hyn oedd dyben y gorchymyn hwnw yn *14 Cwrtii*, i'w wneyd.

"Wrth gyferbynu, cafwyd fod rhai gwellaau yn y *Llythyrensaeth* wedi ei wneyd yn *Argraphiad 1690*, a elwir yn *gyffredin Beibl yr Esgob Lloyd*, yr hyn a gymeradwywyd yn *gyffredin*, ac a *fwriadwyd* yn unig i adgyweirio rhyw gamgymeriadau, yn benaf gwallau y *Waag*, mewn coplau diweddarach o'r *Beibl*, ac ad-roddi *Llythyrensaeth* enwau priodol yn ol y *Testyn* a gyhoeddwyd yn *1620*."

Gwnaed yr *hysbysiad* uchod yn *1809*; lle y gwelwn, er i'r *Weithred* o *Unfurfiad* hon gael ei gwneyd yn *1677*, y bu yn ddi-effaith am gant a dwy ar hugain o flyneddau. Y mae hyn i'w ryfeddu yn fwy pan ystyriom fod tri o'r *esgobion Cymreig* yn *Gymry*. Y mae rhyw esgeulusdra mawr wedi cael ei oddef yn mhob oes pan y gofynid rhyw lesiant ysbrydol i *Gymra*.

1678.

"*Llyfr y Psalmau*, Wedi eu cyfieithu, A'i *Cyfansoddi* Ar *Fesur Cerdd*, yn *Gymraeg*. Drwy waith *Edmund Prys*, *Archidiacon Meirionydd*."

*Cysylltiedig* â'r *Bibl* a'r "*Llyfr Gweddi*" y *flwyddyn ddiweddaf* y mae y *Salmau* hyn, ac wedi eu hargraffu gan yr *argraffwyr*, a'u hamseru fel yr oeddynt yn dyfod allan, gyda *gwyneb-ddalen* i bob un wrtho ei hun, yr hyn a arferid ei wneyd yn *gyffredin gynt*.

1679.

1. "*Egwyddorion y Grefydd Gristionogawl*, &c. *Llundain*." 8plyg.

Tybiwn mai *ailargraffiad* yw hwn o rhif 4, *1664*; neu fe allai mai hwn *ddylassai* hwnw fod.

2 "*¶ Patrw* y *Gwir Gristion*, neu ddilyniad *Iesu Grist*. A '*Scrifenwyd* gynta' yn *Lladin*. Gan *Thomas a Kempis*. Gwedi ei gyfieithu 'n *Gymraeg* er ys talm o amser yn ol *Editiwn* yr *Awdwr*, gan *H. O. gweinidog ym Mon, Esq.* *Llundain* *Argraphwyd*, er budd i'r *Cymry*. [*Pris 9c. i'r tlodion, 1s. 6c. i eraill.*]

Y mae enw y *cyfieithydd* yn cael ei roddi yn "*H. O. Gwenydeg*," mewn rhai *argraffiadau*. Y mae y dull y gosodir yr enw yn *gyfryw* ag nad ellir gwybod a oedd yn y *weinidogaeth* ai ynte ei *gartrefie* a *enwir*, oni byddai i ni wybod am le yn *Mon* o'r enw *Gwenydeg*.

1680.

"*Unum necessarium sive practica Definitio Orationis*.—*Ymarferol Athrawiaeth* *Gweddi*, yn dangos beth (ac mor angenrheidiol) yw'r *Ddyledswydd Bwysafawr* honno mewn *Traethawd* byrr o waith *Ioan Thomas* y *Gwaelaf* a'r *Angheilyngaf* o *weision Grist*. A *brintwyd* yn *Llundain* i'r *awdwr*."

1681.

1. "*Ymddiddanion ynghylch* *Consurwyr*, &c., gan *Tudur a Gronw*, *Llundain*, 8plyg.

Arferid cyhoeddi yr ymddyddanion hyn gyda hen argraffiadau o "Llyfr Ficar."

2. "Canwyll y Cymru, &c. Gan Rhys Prichard, Llundain."

Trydydd argraffiad. Gwel 1641, a rhif 6, 1672. Dygwyd y ddau uchod, yn gystal a'r un sy'n canlyn, allan trwy ymdrech Mr. Stephen Hughes.

3. "Adroddiad cywir o'r pethau pennaf ac a wnaeth, ac a ddywedodd yspryd afan ym Mascon, yn Burgundy, &c. Gan Francis Peraud. Wedi ei gyfieithu yn Gymraeg gan Stephen Hughes, o Abertawe. Llundain." Splyg.

1682.

1. "Prif-fannau y Grefydd Gristionogol. Llundain." Splyg.

Tebygol mai trydydd argraffiad ydyw o'r "Crynhodeb o Addysg Gristionogol" y flwyddyn 1609, a rhif 2, 1657; neu ynte ail argraffiad o rhif 1, 1658; ac am yr hwn y dywedir, yn niwedd y "Llywyr Hyffordd" am 1682, "Y mae'r-awr hon Brif-lyfr Newydd wedi dyfod allan, yn cynnwys egwyddorion Ysrydol a Naturiol, gydag hysbysrwydd o'r amser, a Ffeiriau Cymru, fel yr oedd yn y llyfr plygain gynt, i'w dysgu i'r ieuainc, ac i'w hystyried gan bawb."

2. "Y Catechism a osodwyd allan yn Llyfr Gweddi Gyffredin, wedi ei egluro ar fyrr eiriau. Llundain." Splyg.

3. "Llywyr Hyffordd i'r Nefoedd, o Gyfieithiad Mr. Robert Llwyd."

Ail argraffiad. Gwel rhif 1, 1629. Llyfr lled drwchus, 12plyg, ydyw, yn cynnwys 490 o dudalenau, heb y gwyneb-ddalen, a'i "At y darlennudd o Gymro vniath; Annerch," yr hwn sydd yr un ag oedd yr argraffiad y flwyddyn 1629. Ymddyddanion ydyw rhwng

"Yr ym- ddiddan- wyr."	}	<i>Theologus</i> : Pregethwr,	
		<i>Philagathus</i> : <sup>1</sup> Gwr-da,	<sup>1</sup> Gwr-onest.
		<i>Asunetus</i> : Anghyfarwydd-ddyn,	
		<i>Antilegon</i> : <sup>2</sup> Ceocryn.	<sup>2</sup> Cynnenwr."

Yn ei ragflaenu y mae,—

"*Ystyriaeth, a chynnwysiad yr ymddyddanion hyn a ddengys i ni—*

1. Drueni dyn tan naturiaeth a'i ymadferth i ddianc rhagddo.
2. Anwiredd yr amser ymma, a chyffredin lygredigaeth y byd.
3. Nodau plant Duw, a nodau y rhai gwrthodedig; ac arwyddion hyspys o iachawd-wriaeth, a damnedigaeth.
4. Mor anhawdd yw myned i fywyd, a lleied yw nifer y rhai aânt yno.
5. Anwybodaeth y byd, a'i wrth-atebion yntaf.
6. Hyfryd addewidion yr Efigyl, ac aml drugareddan Duw i'r sawl oll & edifarhant ac & gredant, ac a wir ddychweiant atto ef."

Fel y rhan fwyaf o lyfrau yr oes hño, y mae nifer o ffurf o weddian yn ei ddiwedd; ac hefyd "Diwygiwr y Preintwasg at y darlennydd," yr hwn oedd C. E., sef Charles Edwards, a'i amseru "Llundain mis Mehefin, 1682." Golygiadau Calfnaidd yw athrawiaethau y llyfr; ac uwch felly na nemawr lyfrau Eglwysig yr oes flaenorol. Y mae yn gydiol fel o'r blaen,

3. "Pregeth am Edifeirweh." Gan Arthur Dent." Gwel rhif 2, 1629.

Talfyriad bychan iawn ydyw hon o'r bregeth ragorol hño. Gyda'r "Trysor i'r Cymry" y mae oll. Gwel rhif 7, 1677.

1683.

1. "Ystyriolaeth o Gariad ac Ewyllys da (a rhagymadrodd o waith Jo. Jones). Gan John Longhurst. Llundain." 12plyg.

2. "Gwr Cyffredin yn ei addoliad a'i Ymarfer, Neu, Hyfforddiadau, wrth ba rai yr annysgedig a allant wybod pa fodd i'w hymddwyn eu hunain, yn eu hamryw Ddyledswyddau tu ag at Dduw a Dyn. Wedi eu cymhwyso i'r dealldwriaethau Gwaelaf. *Preyethor* xii. 13. Rhydychen."

3 "¶ Dosparth Catholic ar holl bynciau'r ffydd, megis dialogaeth rhwng y Discebel a'i Athraw." 8plyg.

Fe allai mai y trydydd argraffiad. Gwel y flwyddyn 1609; a'r rhif 2, 1657. Rhoddir y llyfrau uchod yn hollol ar awdurdod Mr. Moses Williams, ac yn ei dull ef.

4. "Llyfr Gweddi Gyffredin."

Rhoddir hwn i mewn yma yn unig ar awdurdod Mr. Daniel Williams, Llundain.

5. "Yr Hen Lyfr Plygain a'r Gwir Gatecism, &c." Llundain.

Ail argraffiad. Gwel y flwyddyn 1633. Mr. Thomas Jones, awdur yr almanaciau, oedd ei gyhoeddydd y tro hwn, ac am yr hwn y dywed mewn hysbysiad cysylltiedig â'i "Almanac" y flwyddyn hon:—

"Yr hen lyfr plygain, a gwir gatecism yr Eglwys, yr hwn sydd anghenrheidiol i bawb ei ddyysgu cyn myned i'w conffirmio at yr Esgob, ie a chyn derbyn y Cymmun bendigedig. Yn y plygain hwn, cynhwyswyd hefyd, boreuol, a phrydnawnol weddian, a llawer o weddian eraill ar amryw achosion; A diolchgarwch i'w ddywedwyd o flaen ac ar ol bwyd. Ag yspyarwydd am holl hen feiriau Cymru. Oll fel ag y printiwyd gynt drwy orchymyn y Brenin, a thrwy Lafur boen (Doctor John Davies) yn y flwyddyn o oed Iesu 1633. Ag a ail breintiwyd yn y flwyddyn 1683. Ac atto hefyd y chwaneagwyd, athrawiaeth i ddyysgu ysgrifenu amriw fath ar ddwylo, wrth yr hyn y geill pawb ddyysgu ysgrifenu gartref crystal ag mewn ysgol."

6. "Y Gwir er gwaethed yw, ac amryw o hen gywyddau. Llundain. 12plyg."

Mr. Thomas Jones hefyd oedd cyhoeddwr ac awdur hwn. Yn ei "Almanac," efe a ddyry ei gynnwysiad yn llawn; sef,

"1. Yn gyntaf, Gyflawn yspyarwydd o felldigedig gydradwriaeth y pabystiaid i fradychu ein Brenin, ag i orchfygu gwir grefydd y deurnas hon.

"2. Yn ail, yn rhoddi hanes cydradwriaeth ddiweddar arall, o ddyfais rhyw rai a elwir whigs ond pa un ai pabystiaid, ai pa beth arall ydynt hwy, ni fedra i ddywedwyd,

"3. Y drydydd, yn dangos (gwallgwmp y bobl).

"4. Yn bedwared, yn rhaglynegu y Troadau anferthol a ddigwyddant yn y byd cyn dyfod y flwyddyn o oedran yr Iesu 1708."

Ymddengys mai math o gydymaith i'r "Almanac" oedd T. Jones yn ystyried y llyfr hwn. Gwelir mai at "Fradwriaeth y Powdr-gwn" y cyfeiria dan y pen cyntaf, yr hyn a gymerodd le bum mlynedd yn ol. Ac mai yn debyg mai at y "*Rye House Plot*" y cyfeiria dan yr ail ben; pryd y meddylwyd i'r Presbyteriaid ag oedd yn anfoddlawn i rai o ymddygiadau gorthrymus Siarl II., ymdrechu tafu yr iau ymaith. Ystyriwyd eu cynghrair yn deyrnfradwriaeth, a dienyddiwyd yr Arglywydd William Russell, &c. Y mae o'n blaen gân neu ddyrian, o eiddo Hugh Morris, yr hon hefyd sydd yn ei waith argraffedig, mewn hen ysgrifenlaw y mae genym ni—a ganodd "ynghylch Plott y Presbyterians yn y flwyddyn o oedran Crist 1682."

1684.

1 ¶ "W. L., M.A., &c. Valandine."

Gwel rhif 3, 1655.

2 "¶ Jo Longford, &c. Dyledswydd."

"Llyfr Holl Ddyledswydd," mae yn debyg, ydoedd yr argraffiad cyntaf.

3. "Ellis Lewis, &c. Drexelius."

Ail argraffiad, fe allai o "Ystyriaethau ar Dragywyddoldeb," gan Jer. Drexelius. Gwel rhif 1, 1661. Rhoddasom y llyfrau uchod oll yr un modd ag y rhoddwyd hwynt gan Mr. M. Williams, yn ei *list* ef.

4. "LLYFR Y RESOLUTION, yr hwn sydd yn dysgu i ni bawb i wneuthur ein goreu, a rhoi cwbl o'n bryd a'n meddwl ar fod yn wir Gristionogion, hyny ydyw, ar ymadael a'n drwg fuchedd, a throï at ddaioni a duwioldeb. Wedi ei gyfieithu yn Gymraeg gan y Dr. J. D. er lles i'w blwyfolion. Fe brintiwyd y Llyfr hwn, er ys mwy na hanner cant o flynyddoedd a aethant heibio, ac yn awr drachefn, nid yn unig er mwyn y Gymraeg bŵr sydd ynddo (yn amgenach nag mewn yn Llyfr ond y BIBL) eithr hefyd er mwyn y DEFNYDD DA ar a ellir ei wneuthur o hono. Yr ail Argraffiad yn Llundain, gan J. R. yn y flwyddyn 1684."

Y mae yn niwedd yr argraffiad hwn draethawd byr "Am orphwys ar Grist yn unig am fywyd ac iachawdwriaeth," gan T. Gouge, fel parhad o'r llyfr a elwir "Gair i Bechaduriaid." Gwel rhif 2, 1676. Golygydd yr argraffiad hwn oedd Mr. Charles Edwards. Yr argraffiad cyntaf oedd rhif 2, 1632.

Ymddengys fod parotoad yn cael ei wneyd i ddyfod â'r uchod, a'r "Llwybr Hyffordd," trwy y wasg er y flwyddyn 1677, ynghyd â bwriad cael rhyw lyfrau eraill ag y gwelid eu hangen ymhlith y Cymry; canys dywed awdur y "Llythyr at y Darllenydd," sydd o flaen y "Trysor i'r Cymru," yr hwn oedd yn ysgrifenu Awst 13, 1677,—

"Os Duw a rydd iechyd a bywyd, diagwylwch mewn amser, am ail brintio y *Llwybr Hyffordd i'r Nefoedd, a Llyfr y Resolusion*; y rhaï, nid yn vnig er mwyn y mater, ond hefyd er mwyn y iaith tra ragorol sydd ynddynt (ac yn enwedig y diwethaf o'r ddau, o ran iaith) wedi ei oed allan gan y cymreigiwr goreu yng-Hymru yn ei amser, sef y *Doctor Davies*) a haeddant ei printio drachefn."

6. "Dilyniad Iesu Grist," &c. Gan Thomas à Kempis. O Gyfieithiad Hugh Owen, Gwenynog, ym Môn, Esq." 12plyg.

Ail argraffiad. Gwel rhif 2, 1679. Yno dywedai, "H. O. Gweinidog ym Mon, Esq.,

Tybiasom y gallasem estyn yr erthygl hon i derfyn y ganrif, ond chwyddodd gymaint dan ein hysgrifell, fel y rhaid ei diweddu yma, a chymeryd erthygl arall i'r tir sydd eto heb ei chwilio. Y mae eto yn ol gryn driugain o lyfrau i ddyfod dan ein sylw cyn gwawriad y 1700. Gallasem helaethu llawer ar rai o'r llyfrau a enwasom; eraill a roddasom ar awdurdod ein rhagflaenyddion. Gwnaethom ymdrech anferth i gael golwg ar rai o honynt. Hyderwn y gwel rhywun yn briodol gasglu a sefydlu llyfrfa Gymreig yn rhyw le yn Nghymru i fod fel Amgueddfa Wladwriaethol Gymraidd; lle y gellir rhoddi i gadw bob llyfr Cymreig, ac o berthynas i Gymro, Cymry, a Chymraeg, a ellid ei gael, fel y byddont wrth law, i gyfeirio atynt, er adgyflenwi hanesiaeth grefyddol ein gwlad; yr hyn nad ellir ei wneyd yn deilwng heb y cyfryw gynnorthwy. A oes neb a glyw ar ei galon ddechreu tanysgrifiad i'r cyfryw ddyben? Pe cymerai hyny le, ymrwymem i anrhegu y cyfryw lyfrfa â *chopi* o bob llyfr Cymraeg sydd yn ein meddiant. Cymered llenorion y Dywysogaeth hyn i ystyriaeth.

## SABBOTH YN MEIFOD.

WEDI hir gynnefino â swm clychau y llanau yn nhrefydd Lloegr, ac arferion sychfoneddig y Seison ar Ddydd yr Arglwydd, cododd arnom hiraeth cryf am gael ail fwynhau Sabboth yn symlrwydd dull dyddiau boreuaf ein hoed. Pa faint bynag o ddyllanwad sydd gan chwech neu wyth o glychau soniarus mewn adail gribog ysgwâr, neu flaenfain; a pha faint bynag o swyn sy mewn offeryn celfydd a elwir *organ*, i ddenu yr enaid i foliannu; yr oeddym yn dechreu dyheu am gapel bychan yn rhai o gymoedd Cymru, lle nad oedd dim ond dystawrwydd oddiallan, a'r tŷneisiau gwladaidd oddifewn yn arweddu yr addoliad, ac yn cynnyrchu y meddyliau difrifolaf am Dduw ar ei ddydd. Nid condemnio clychau nac *organ* yr ydym. Os gellir profi fod y rhai blaenaf yn paratoi y meddwl i dymher addoliadol, lliosoger hwy; ac os yw yr olaf yn gwneyd mawl yr Arglwydd yn fwy derbynol yn y nef, amlhŷer hwy. "Canaf â'r ysbryd, a chanaf â'r deall hefyd," ebe Paul—yr ysbryd yn gyntaf, a'r deall i ddilyn; nid y naill heb y llall, ond y ddau gyda 'u gilydd—yr ysbryd i arwain, a'r deall i wasan-aethu.

Yn y teimlad hwn, penderfynasom ymweled â rhyw lanereh yn Ngwalia; a chan fod ad-dyniad lied gryf yn Meifod, yn Maldwyn, ni a gyfeiriasom tuag yno. Cyrhaeddasom yno yn lled gynnarol yn yr wythnos, ac nid yn hwyr nos Sadwrn, fel na byddai i foesgyfarchiadau cyfeillachol a gynnyrchid oddiar hir absennoldeb cyfeillion caruaid, a chwedlau amryfath gŵr newydd ddyfod o Loegr, ymsangu ar grefyddolrwydd y dydd dilynol. Yn wir, darfyddodd hynny oll ymhell cyn i'r forwyn olchi y llawr nos Sadwrn.

Ond ein taith i Feifod. Wedi gadael y gerbydres danllyd yn Nghroes-owsallt, cerddasom yn araf bwylllog, gan sylwi ar bob tŷ a thwmpath, rhag colli dim; ac aethom trwy ddolydd gwastad, ac heibio ardal dawchlyd yr odynau calch; yna ymagorai dyffrynoedd tlysiôn o'n blaenau yn nghanol bryniau coediog, meusydd a dolydd deiliog, gellydd gwylltion a chribog, lluniaidd gartref y llwynog, y mwyalch, y cyw gwalch a'r gog—gwelyau llysiâu lliosog, ar finion yr afonydd troellog; a'r llwybr hir lle bu 'r ôg heddyw dan fŷd gorweiddiog. Ddarlleneydd! a aeth yr ysgrifenydd yn fardd yn ddiarwybod iddo ei hun? Mae cynghanedd yn hyn yna, onid oes? "Na," medd rhyw fardd newydd ei ddêor, "nid y'nt yn ol y rheolau, heblaw eu bod yn cynnwys hen feddylddrychau a dim newydd yuddynt." Purion!

"Ffei o Dafydd brydydd brwt  
Wynb Haman ap Ewnt."

O'r diwedd, a ni yn dechreu blino, ac yn holi pob gŵr, gwraig, a phlentyn, "Sawl milltir sydd eto i Feifod?" dyna ni yn y fan yn ngolwg llawr y Main, &c., a (maddeuer i ni) daeth pennill i'n cof yn rymusol—maddeuer i ni, meddwn, os nad yw mor grefyddol ag y mynai rhai iddo fod:—

"Hardd yw Llundain, hardd yw Llywdlo,  
Hardd yw Caer, a hardd yw Bristo,  
Hardda man 'rwy' yn ei nabod  
Yw llawr y Main a dyffryn Meifod."

Hen bennill a glywsom ei ganu lawer tro, ond nid yn y dafarn gyda'r

delyn, nac yn y gwely brwd lle y cynnyrchir beirdd a chantorion o bob gradd ac urdd fel cucumerau bychain a mawrion.

Tranoeth yr oeddym yn rhy ffin i esgyn y bryniau gerllaw, ag oeddynt yn gwenu arnom mor ddeniadol dan wyneb haul a llygad goleuni; gan hyny, troisom ein cerddediad tua 'r fonwent a'r eglwys, y fan lle gorwedd

“Holl hen deidiau pobl y plwy.”

Monwent helaeth ac éang ydyw; ond nid ydym yn gwbl sicr a yw pob darn o honi yn gysegredig; oblegid y mae 'r beddau yn ddigon naturiol o amgylch ogyrch yr eglwys. Ni feddem foddion i roi arian mawr i arweinydd, os oes un i'w gael yn Meifod; ac am ein cyfaill caredig, ni fynem ei osod yntau ar ystôl yr ateb o hyd; yna ni a aethom i geisio tynu rhyw amcandyb am iechyd y lle oddiwrth y ceryg beddau, a chawsom (y pryd hyny) ein hymchwiliad yn debyg i hyn. Claddwyd yno—

O	1	fiwydd	i	10	mlwydd	. . . . .	6
”	10	”	20	”	”	”	4
”	20	”	30	”	”	”	9
”	30	”	40	”	”	”	8
”	40	”	50	”	”	”	4
”	50	”	60	”	”	”	11
”	60	”	70	”	”	”	15
”	70	”	80	”	”	”	14
”	80	”	90	”	”	”	8

Nid allasom gael hyd i hen feddau, na dim ôlion o hynafiaethau, ond y mae y marwolion uchod oll o flyneddau diweddar mewn cymhariaeth. Os galleu gasglu dim oddiwrth geryg beddau Meifod, ni a welwn nad yw y plwyf yn difa ei drigolion. Ar yr ochr ddê-ddwyreiniol i'r eglwys y mae beddrod yr enwog a'r duwiol Barch. Evan Griffiths. Yma ni a bwysom ar guddfaen ei lwch, a gollyngem ein dychymygion flyneddau yn eu hol i edrych ar ei wedd, i wrandaw ei lais, ac i sylwi ar ei ddywediadau. Ah! ni allem ddyweyd mwy na hyn,

Gwas Iesu yn y gwas isawd—roddwyd  
I orwedd hyd ddydd-brawd;  
Codir ef o y ceudawd,  
I hoewlwys fri lys ei frawd.

Daeth y Sabboth! Clywsom er ys dyddiau mai y Parch. Mr. Richards, gynt o Gaerwys, ydoedd ficer Meifod; ac o barch diledryw i'r gŵr da, ni a benderfynasom fod yn ei gynnulleidfa y boregwaith hwnw. Yr oedd yn ein calon ddyblygion lawer o barch i Mr. Richards. Bu gair o annogaeth a chanmoliaeth oddiwrtho yn nechreu ein bywyd llênnyddol o fawr help i ni; ac yr oeddym wedi bod yn llygad-dyst o'i zel diflin dros ysgolion i blant tlodion plwyfydd gwledig Cymru, a'i barodwydd i fod yn nghyfarfodydd y Fibl Gymdeithas, &c.

Aethom i'r Eglwys yn gynnarol—adeilad lanwedd ac éang ydyw—ac er nad oedd y gynnulleidfa mor liosog ag y dysgwyllem iddi fod yn gwrandaw ar ŵr mor ragorol, eto yr oedd pob peth o'u hamgylch yn lân a phrydferth. Yr oeddym yn llygadu o hyd am yr offeiriad parchus, yn awyddus am weled pa wedd yr ymddygodd amser tuag ato yn nghorff y blyneddau y collasom olwg arno. Yr oedd y gwallt yn wyn fel y llin, a'r wyneb wedi newid llawer; ond yr oedd y bywiogrwydd cynhenid i'w weled yn y llygad, a'r tebygrwydd cyntefig yn y llais, a'r sionerwydd arferol ar y troed, yn y gweinidog oedranus. Y mae efe a'i gurad yn pregethu bob

yn ail yn Gymraeg ac yn Seisoneg; a ffodus i ni a fu yr adeg, Mr. Richards a bregethai y pryd hwnw. Wedi iddo ddarllen y rhan fwyaf o'r gwasanaeth arferedig, esgynai i'r areithfa, a chymerai ei destun yn *Salm* cxvi. 12, "Beth a dalaf i'r Arglwydd am ei holl ddoniau i mi?" Cynghor yn ei bryd oedd pregeth Mr. Richards. Yr oedd y meusydd dan gnydau addfedlawn o yd a gwair, a'r plwyfolion yn nghanol prysurdeb y cynauaf. Ni phallai y gweinidog oedranus yn ei gais i arwain ein meddyliau at Dduw fel ffynnonell yr holl "ddoniau" a fwynhäem, megys iechyd, synwrau, a chyfoeth, a meddiannau; a chyfeiriai ein sylw at y llanerchau cnydfawr ag oedd ar bob llaw i ni, a'r hin dymherus oedd i gasglu y ffrwythau ynghyd. Yna, gwasgai ar ei wrandawyr eu dyledswydd hwythau tuag at Dduw—"Beth a dalaf?" Yna rhoes lawer o gynghorion effrôs i fuchedd ac ymarweddïad sanctaidd. Tua'r diwedd troisom ein llygaid yn llechŵraidd ar y gynnulleidfa; a drwg genym orfod fuffio barn am danynt, nad oeddynt, ar y cyfan, yn debyg o feddwl am gynghorion eu bugail parchus nemor wedi eu myned allan o glyw ei leferydd. Yr oeddynt, mae yn debyg iawn, yn credu yn yr "Eglwys Lân Gatholig," ond a oeddynt yn "nghymundeb y saint," pwy a'i prawf? Buasem ddiolchgar hefyd ar y pryd, pe cawsom wybod y rheswm fod cynnifer o'r plwyfolion yn absennol y Sabboth hafaidd a thesog hwnw, canys yr oedd yno liaws mawr o gorau gweigion.

Am ddau o'r gloch aethom i un o gapeli y pentref. Adeilad fechan ddiadurn hollol, nas gellir dywedyd i ogoniant Gallt y Main ddyfod ato, na'r ffawydd na'r derw ynghyd i harddu lle y cysegr; ac nid mynych ychwaith yr ymwelir â'r adeilad gan y paentiwr a'r gwyngalchwr yn ol defod eu swydd. Fe allai y cymera pobl dda Meifod yr awgrymiad yn garedig. Yr oeddym yno yn *brydlawn*, ac er ein dirfawr foddineb Ysgol Sabbothol oedd y moddion a gynnelid. Yna sylwem ar yr hen a'r canol oed, y gwŷr ieuaine a'r gwryfon, o ugain mlwydd hyd y plantos dwy a thair, yn ymrestru yn fân ddosbarthiadau, o dan arweiniad gwahanol ac amrywiol athrawon. Ni ohawsom y fantais i ysbïo i ansawdd yr ysgol mor fanwl ag y dymunasem; ond cawsom dderbyniad croesawus i ddsbarth o wŷr â golwg "gyfrifol" arnynt. Yr oedd pump o honom yn y dosbarth, ond o herwydd rhyw anghen anocheladwy, äed äg un ymaith i le arall; felly dechreuasom ill pedwar ar lafur yr adeg, a darlennasom ymlaen ac ymlaen o hyd, heb na nôd na sylw, na chasgliad na gofyniad, hyd yn agos i ddiwedd yr ysgol, pryd yr attaliwyd ni gan yr arolygwr, er cael clywed adroddiad o destunau a phregethau y Sabboth o'r blaen. Ah! meddem, dyma gam ar yr uniawn lwybr; a dilynodd yno adroddiad byr a blasus. Ond, ai gwaeth y gwir o'i adrodd?—o honom ni ein pedwar, yr oedd dau yn cysgu! a bu cryn waith deffro ar un i afael yn ei swydd eilwaith. Hawddammor yr hen Ysgol Sabbothol Gymreig—hen faethle ein duwinyddion gynt—prif gastell cadarn ceidwadaeth yr iaith Gymraeg (caniatäer i ni ein barn)—a raid i ti o hyd fod yn rhwym mewin dulliau marwaidd ac unfurfol? A oes dim modd dy godi i fod yn rymusach gwasanaethferch i'r efengyl? A oes dim posibl, drwy dy offeryndeb di, ddysgu egwyddorion crefyddol a duwinyddol yn fwy effeithiol i'r genedl ieuanc? Deffröed ein cyfeillion yn Nghymru; a bydded athrawon yr Ysgol Sabbothol yn parotoi dynion i *ddeall* yr hyn a bregethir i'w clywedigaeth o Sabboth i Sabboth. Mawr lwydd, a Duw yn rhywydd i'n cyfeillion yn Meifod; "yn ei iawn bryd y medant oni ddifffygiant."



O groesaw i ni, denwyd ni i'r capel gryn amser cyn yr adeg benodedig i ddechreu yr addoliad dwyfol, o bwrpas i glywed "y canu." Wedi cyrhaeddyd yno, pa fodd bynag, siomwyd ni, nid er gwell, ond er gwaeth. Yn lle yr hen dônau a'r newydd-dônau addoliadol oedd yn swyno ein tadau a'n mamau gynt, ac yn sugno y nef i'r ddaear, yr oedd gormod o sŵn cornant wedi gwlaw ynddo genym ni o lawer. Yr oedd y canu yn lled gelfyddgar a soniarus; ond nid y Sabboth oedd ei ddydd, na'r capel ei le. Y canu cynulleidfaol sydd i gael ei adeiladu yn benaf ac yn flaenaf oll.

Yn lled fuan, daeth amser y bregeth, a daeth y pregethwr i mewn—gŵr dirifrol a pharchus yr olwg arno. Wedi dechreu fel arferol, pregethodd yn rymusol ac yn synwrol oddiar Ddammege y Mab Afradlawn. Er na ddilynywyd y traddodiad â'r cyfryw arddelwad ag a welson yn rhai o barthau Cymru gynt, ac nad oedd y bywiogrwydd a ddymunem yn y gynulleidfa wrth wrandaw, aeth y cyfan heibio yn ddibrofedigaeth.

Erbyn hyn yr oedd yn hwyrhau; ac wedi i'r rhan fwyaf o'r gynulleidfa ymadael, gweinyddid yno y sacrament o Swper yr Arglwydd. Cyd-deimler â ni eto am dafu gair o anghymeradwyaeth, o leiaf yn ein barn ni—nid bai pobl Meifod yw, ond bai ein cenedl yw hyn. Paham y gweggir gweinyddiad y sacrament pwysig hwn i drymder hwyr, ac i'r adeg y bydd y gweinidog yn flin ei wala? Onid mwy effeithiol o lawer fuasai cynnull yr eglwys ynghyd at hyn ar nawn y dydd, ac i *hym yn unig*, gan adaw cyflawn ryddid i eraill dd'od ymlaen fel edrychwyr? Yna cawsai y gweinidog lonyddwch a seibiant i weinyddu yr ordinhad gyda gwell hwyl corff a meddwl o lawer iawn. Cam dirfawr yn ddiau yw pentyru gormod o foddion crefyddol nes yw y naill yn cymylu y llall. Y sawl sydd yn tu-eddu o'r un feddwl â ni yn hyn, bydded iddynt weithredu yn gall; a'r sawl sydd yn gwahaniaethu, rhydd iddynt eu barn.

Darfu y dydd, a mantellau y ddunos a'n gorchuddiodd. Os dywedasom ddim i archolli teimlad ein cyfeillion yn Meifod, pell oeddym oddiwrth amcanu hyny. Eisteddasom yn feirniaid arnynt y mae'n wir; ond yr oeddym yn eithaf diduedd; ac os bydd iddynt hwythau ymryddhau o bob drwgdyb a chamdyb naturiol iddynt, hwy a welant fod genym fwy o rinweddau o'u plaid nag o ffaeleddau yn eu herbyn.

Yn gynnar yr wythnos hòno, ni a adawsom Feifod, â'i golygfeydd siriol a'i thrigolion gwledig, i ddychwelyd yn ol i blith y Seison prysur, gyda monwes ddiolchgar am gael unwaith eto yn ein hoed dreulio *Sabboth yn Nghymru*.

---

## ATHRYLITH A GWEITHIAU MR. ROBERT WILLIAMS (ROBERT AB GWILYM DDU, O EIFION).

Er mor hoff ydym o farddoniaeth, ac er ein bod yn barod i'w gosod, mewn ystyr naturiol, "goruwch ein llawenydd penaf;" ac y golygw'n bob un sydd heb duedd at gân yn ei enaid yn amddifad o'r teimladau tyneraf a fedd ein natur, eto, nid ydym mor benboeth, drôs bob peth a ystyrir yn farddoniaeth, nes yr ofnwn fynegu ein meddwl yn rhydd, er bod drwy hyny yn

agored i dynu tywalltiad ffolau digofaint rhai, sydd wedi eu dallu gyda golwg ar farddoniaeth, am ein penau. Nid oes genym ni ddim help ein bod yn gorfod mynegu na welem ni yn ein byw yr ardderchawgrwydd anghymharol a briodolir gan rai i'r hen farddoniaeth Gymreig a ganmolir ac a addolir. Yr hyn a ganfyddwn ni yn marddoniaeth orchestol y nifer fwyaf o'r hen bobl yw cynghanedd dlws, ac yehydig o bertrwydd yma ac acw yn nghanol caddug a niwl yr oesau tywyll. Y mae llawer o ymadroddion gwael yn cael eu harfer ganddynt hefyd, a ffugyrau yn cael eu cymygu yn ddychrynllyd. Sonia un yn ei ddarluniad o'r march am ei gael â

"Llygaid fel dwy erlygen  
Llymion byw yn llamu 'n ei ben."

Difynir y llinellau uchod gan rai er dangos rhagoroldeb y march, a rhagoroldeb ein barddoniaeth. Pa reswm sydd mewn cymharu "llygad" i "arlegan," a garllegan yn "llamu?" Onid mwy priodol fuasai son am lygad yn debyg i rywbeth byw, gloew, tanllyd, nag i *arleg*? Hoffem ni pe byddai i rywrai o fawrygwyr y llinellau uchod ddangos yn mha le y mae y rhagoroldeb.

Un arall a ddywed am ei gariad—

"Cnwd wiwras, cain ei dwyrudd  
Cwarel o ras, cwrel rodd."

Pa beth ydyw "cwarel o ras?" Gwyddom mai peth pedwarochrog yw cwar, ond pa ddewin a all ddangos i ni briodoldeb arferiad y gair "cwarel" yn y linell a nodwyd, a hwnw yn "gwarel o ras?"

Ëto :—

"Canaid grysawr, cnwd grisial  
Calch a thw aur, cylch ei thal."

Pe caniatuem fod "canaid grysawr" yn briodol, a oes rheswm mewn son am "galch a thw aur" o amgylch talcen menyw? Onid yw "calch" ac "aur" yn ddau gydymaith rhyfedd iawn i'w doddi dan yr un iau? Os ydoedd talcen y ferch fel calch, yr oedd hi yn debycach i un yn ei harch a'i hamdo nag i un oedd yn meddu

"Coron o'r haul cŵyr yn rhydd."

Y mae lluoedd o bethau rhyfedd o'r fath wedi eu harfer gan yr hen feirdd, yr hyn sydd yn hagrau wyneb barddoniaeth yn ddirfawr.

Pa ddyn, tu yma i wlad y tylwyth teg, a all wneyd synwyr o'r dernyn gorchestol a chlymedig a ganlyn?

"Gwas gwyn goes gawdd, gais gain gwys gwan,  
Gwawr gyd gaer gan, gwar ged gar gair,  
Glas glyn gloes glawdd, glais glin, glwys glan,  
Gawr gryd gwaer gran, gar gred grair;  
Gyr gwen gwyr gau,  
Gardd gled gwrdd glau,  
Gwyll gwydd gwell gwau,  
Goll gerdd gwall gair:  
Gwawr grym ei gyr grau.  
Garw gur gwir gau,  
Geiŵ gnawd gwyl gnau,  
Gloew gnawd, glew gwnair."

Yr oedd y bobl, y mae yn debygol, mewn syndod mawr pan oedd y bardd yn adrodd y llinellau hyn; ac ystyrient ei fod ef yn ddyfn iawn os oedd ganddynt olwg barchus ar yr awdur; neu, yr oeddynt wedi llwyr ddiflasu

arno, os oedd dynion yn eu synwyrâu y pryd hwnaw, fel yr oeddid ar yr areithydd oedd yn

"Too deep for his hearers, he went on refining,  
And thought of convincing while they thought of dining."

Y gwirionedd yw, yr oedd barddoniaeth ymhell iawn yn ol yn nyddiau Dafydd Nanmawr, William Cynwal, a Thudur Aled. Nid ydyw gwir farddoniaeth, sef, barddoniaeth y rhai sy ganddynt "lygad i weled anian, calon i deimlo anian, a glewder a faidd gydfyned âg anian," ond megys newydd agor ei hamrantau. Llafuriodd yr hen bobl am oesau am yr hyn nid ydoedd fara, a chymerasant drafferth ryfeddol gyda yr hyn nad ydoedd yn digoni. Ni wiu i addolwyr y mesurau geisio ein dallu ni, a'n dwyn i feddwl fod rhyw gampusrwydd mawr tudraw i'r geiriau a arferir; canys yr ydym ni yn honi ein bod yn deall Cymraeg; a'r geiriau na ddeallom, y mae yn hawdd cael eglurhad arnynt, gan hyny nid ydym yn rhagfarnllyd yn ein hanwybodaeth.

Ond y mae cyfnewidiad mawr wedi cymeryd lle yn chwaeth y genedl gyda golwg ar beth yw awen, a pha beth yw barddoniaeth o'r iawn ryw, er ys talm bellach; ni adwaenom ni

"Prin ddau, lle 'r oedd gynau gant,"

o rai sydd wedi tyngu llŵ o ffyddlondeb i Lewis Glyn Cothi, Dafydd ab Gwilym, ac Iolo Goch. Y mae yr ychydig sydd yn meddwl yn fawr o ffolineb yr hen bobl, fel dylluan y diffeithwch, neu belican yr anialwch, ar eu penau eu hunain, a llinell derfyn yn amlwg rhyngddynt a beirdd goleuedig yr oes hon. Yr ydym ni yn ffeiddio o'n calonau bob arferiad a wneir o gynghanedd, a phedwar mesur ar hugain cerdd dafod, i guddio noethni a thrueni meddylddrychau, gan, drwy eu cefnogi, roddi mantais i ddyinion na wyddant mewn pa beth y mae barddoniaeth yn gynnwysedig, i ymwthio i sylw, ac i gael gan y wlad eu hystyried yn feirdd. Gwell fyddai genym weled y gynghanedd yn trengu yfory nag i arferiad mor annheilwng gael ei wneyd o honi; ond lle y byddo celfyddydwr medrus, yr hwn sydd yn gofalu am feddyliau priodol, ac am osod y rhai hyny yn y ffordd mwyaf destlus ac effeithiol, yr ydym yn caru gweled cynghanedd yn fawr, ac yn ei hystyried yn rhagori yn anfeidrol ar linellau llymrig a ollyngir mewn prydestau yn ddigerydd. Y mae darllen llinell gynghaneddol wedi dyfod o law campwr fel Robert ab Gwilym Ddu yn ammheuthyn i bob dyn o chwaeth.

Tua phum mlynedd ar hugain i'r dyddiau hyn y dygwyddodd i ni gael golwg ar Robert ab Gwilym Ddu, o Eifion, gyntaf erioed, yn ei gartref, yn y tyddyn a elwir y Bettws Fawr, Eifionydd. Nid ydym wedi anghosio yr awydd oedd yn y meddwl am gael ychydig o'i gyfeillach. Fel yr oedid yn nesu at ei drigle, yr oedd y galon yn dychlamu, ac yn cynhyrfu; edrychem ar bob ochr i'r ffordd, gan ddysgwyl ei weled yn ymrithio o un o'i rodfaoedd meudwyaid. Meddyliem fod yr holl lanerchi oddeutu ei breswylfod dan wllth *parnassus*—y cwbl yn gysegredig i'r awen. Edrychem ar yr holl lwyni coed fel temlau dail y dduwies hoff, a dysgwyl- iem yn ddyfal ganfod y patriarch yn gweini wrth un o'i hallorau. Prin y credem nad dan rhyw bren deiliog, yn sŵn Dwyfach, yr oedd y bardd yn byw, gan mor brydferth y mae efe wedi gosod allan ei thlysmi, glowder ei dwfr, a sŵn ei rhu. Yr oeddym bron a dysgwyl gweled barf wen laes yn hongian ar ei ddwyfron, a'i wallt yn gudynau arianliw crogedig dros ei

ysgwyddau. Ni thybiem nad ar ganiad yr oedd pob gair yn dyfod allan o'i enau; a dysgwyliem ei glywed yn dyferu englynon tlysiön ar bob achlysur. Pa fodd bynag, nesu yr oeddym at ei drigle, yr hwn sydd yn amaethdŷ amrosgo, o'r hen ffurf, heb ddim yn swynol yn ei agwedd allanol na mewnoi; ond buom mewn cannoedd o dai gwychach heb fod ynddynt ddim o'r hyn a ystyriwn ni yn brydferthwch gwirioneddol. Yr oedd pob peth yn wladaidd yn ymddangosiad y tŷ a'r celfi, ac yn ymddangosiad ein bardd hefyd. Ni welem yn ei berson ef, ond horyn o ddyn trwm, musgrell, ac arafaidd, o ran ei dymher; ond yr oedd rhywbeth tua'i lygad yn mynegu ein bod yn mhresennoldeb dyn mwy na'r cyffredin. Deallasom yn fuan ei fod ef yn dysgwyl am danom; ac yr oedd efe yn groesawus dros ben; nid oedd dim modd i'w briod gael lle digon esmawyth i ni eistedd; mynid gosod bwyd ger ein bron: a meddyliem yn ol pob ymddangosiad, y cawsem gan' croesaw ar aelwyd y bardd hyd wyliau'r Nadolig. Ond yr oedd ein hamser ni yn rhy derfynol i allu cael mynediad i fewn ond i ychydig iawn o bethau; rhaid oedd ymadael yn fuan iawn.

Ni fwyd yn hir heb dalu ail a thrydydd ymweliad i'r bardd. Yr ydys yn cofio yn burion yr adolygiad oedd yn y meddwl ar ol ysgwyd llaw âg ef, yn ymyl y porth, y tro cyntaf. Gorfyddid credu yn gadarnach nag erioed yn ngwirionedd y ddiareb mai "nid wrth ei phig y mae prynu cyfflyog;" oblegid pe buasem yn barnu Mr. Robert ab Gwilym Ddu wrth yr hyn a welem ar gip, wrth basiaw, ni fuasai genym fawr fwy i'w fynegu na'n bod wedi dyfod o hyd i hen amaethwr gwladaidd, o synwyr naturiol cryf, wedi treulio ei einioes ar lan Dwyfach, ond heb brisio fawr mewn dim oedd yn myned ymlaen yn y byd o'i gwmpas. Ond nid felly yr oedd efe mewn gwirionedd; canys nid oedd dim yn dygwydd yn un cŵr o'r byd, os byddai wedi ei gofnodi yn un o'r newyddiaduron wythnosol, neu fisol, na wyddid am dano yn y Bettws Fawr. Ond yr oedd y bardd yn wladaidd yn nghanol y cwbl. Nid mewn diystyrwch yr ydym yn dyweyd fel hyn: yr ydym yn dra phell oddiwrth feddwl dim amharch; ein dyben yn son am y ffaith yw fel y canfydder nad oes dim llawer o bwys i'w roi ar ymddangosiad allanol dynion. Gall y mwyaf siolwag yn y byd fod wedi ei wisgo yn wychach nag iarll; ei wallt yn ffurfiol; ei gernau a'i wddf yn flewog; ei grys main yn wŷn, a'i goler yn rhwbiau ei glustiau, ac yn sythedig; a'i gotwm yn llyfn, yn debyg i'r dyn pinc a welodd Coleridge, y bardd, ar giniaw gydag ef. Yr oedd hwnw wedi ymwisgo mor wych, ac yn ymddangos mor foneddig, nes yr oedd ar y bardd braidd fflws gofyn i'r gweinydd yn ddystaw, pwy oedd efe; ond cafodd Coleridge berffaith foddlonrwydd ynghylch ei foneddig ar ymddangosiad yr *apple dumplings*.

"Hysbys y dengys y dyn  
O ba radd y bo 'i wreiddyn."

Cawsai dyn dyeithr lawn cymaint o siom yn yr ochr arall yn y Bardd Du. Nid tuallan iddo ef yr oedd ei ragoriaethau, na dim o honynt, nac yn wir yn ei ymddyddanion ychwaith, ar bob prydiau; canys byddai yn siarad yn ddigon aml bethau a ystyriasad yn ffolineb plentynaid mewn dynion eraill; yn enwedig pan fyddai yn cwyno iddo ei hun, ac yn canmawl ei hun a'i waith. Ni ddygwyddodd i ni erioed gyfarfod âg un awdur a ganmolai ei waith ei hun mor ddifloesgni ag ef; ac eto edrychai pawb heibio i'r peth fel peth oedd i fod ynndo ef; ni feddyliai neb yn ddim gwaeth o hono, nac o'i waith, ar ol ei glywed yn son am ei ragoriaethau

gyda 'r fath hyder. Rhyfeddai ei alluoedd ei hun a'r cyrhaeddiadau oedd yn ei feddiant yn wirioneddol, a'r cyfryw oedd efe, drwy ei symledd, yn briodoli iddo ei hun. Heb wneyd unrhyw ymfrost orchwyddawg, soniai am ei ragoroldeb ei hun yn siriol, ac mor ddifeddwl, o ran ymddangosiad, a phe na buasai y pethau y soniai am danynt yn perthyn iddo ef, ond yn unig ei fod ef yn dewis i eraill wybod am bethau a ddylasant ryfeddu a gwerthfawrogi. Yr oedd efe hefyd yn gryf iawn dros ei dybiau, a byddai yn eu mynegu bob amser, nid er edrych a gaent eu cymeradwyo, ond i'w derbyn, fel pethau anffaeledig. Nid oedd wiw dadleu âg ef; canys yr oedd yn orael; er hyny, yr oedd efe yn fwyn dros ben. Byddid braidd yn ofnai fod ei fwynder yn terfynu ar fursendod. Yr ydym yn cofio ei fod ef yn ddirgrif iawn pan gynnyddysg daearddysg (*geology*) i sylw gyntaf yn Nghymru. Mynai nad oedd dim yn y peth, oblegid nad oedd Moses wedi son am dano. Ni fynai efe i'r greadigaeth ddechreu ond yn y fan yr oedd efe yn dyweyd, sef, "Yn y dechreuad." Yr oedd ganddo ddaliadau gwahanol i laweroedd ar Melchisedec; ac yr oedd efe yn gryf iawn dros fedydd drwy drochiad i bobl mewn oed. Credai yn ddiysgog mai dyna y ffordd i fod yn gadwedig, ac eto ni ufuddhaodd efe ei hun erioed i gymeryd ei drochi! Bu yn gyfaill mawr i Mr. J. R. Jones, Ramoth, ar hyd ei oes; ac y mae yn dra thebyg fod ychydig o lefain y gŵr hwnw wedi glynu yn ei dwrnel hyd ei ddiwedd, er na weithiai hyny allan ar bob adeg, ac er ei fod ef yn gefnogol iawn i'r Bedyddwyr Neillduol fel corff. Wrth ei weled mor zelog dros "fedydd y crediniol," buom mor hyf a gwasgu ar ei feddwl yr anghenrheidrwydd iddo gymeryd ei fedyddio ei hun drwy drochiad, cyn cymhell neb arall i "ufuddhau." Ni cheid dim llawer o reswm ganddo pan sonid wrtho am grefydd bersonol; ac eto ynghylch crefydd a phethau crefyddol yr oedd ei ystŵr penaf bob amser, gyda beirdd a phregethwyr, pan roddid barddoniaeth o'r neilldu. Byddai pregethwyr o bob enwadau yn galw heibio iddo, a chaent groesaw mawr ganddo; ond anfynych yr elai i wrandaw ei gyfeillion penaf, os na fyddent yn Fedyddwyr; a phan elai i wrandaw, byddai yn gwneyd hyny yn fwy o gymwynas i'r llefarwr, ac yn fwy fel beirniad, nag fel pechadur âg arno eisieu y pethau a gynnygid iddo ei hunan. Helpu y pregethwr i drwsio y bregeth ar ol darfod oedd oreu ganddo, na derbyn ac ymborthi ar y pethau a glywai ei hunan. Goludog oedd, ac nid oedd arno eisieu dim, yn yr ystyr yma. O'r hyn lleiaf, dyna yr argraff a adewid ar ein meddwl ni bob amser, ar ol bod yn ymddyddan âg ef. Yr oedd efe yn hynod fucheddol er ys blyneddau, ac yn barchus gan ei gymydogion. Edrychid arno fel darn o brophwyd gan y werinos; a rhyfeddid ei alluoedd gan fawrion ac eraill; ac, yn enwedig, gan y beirdd. Ond gan mai â'i athrylith a'i waith y mae a wnelom ni yn fwyaf, y mae yn rhaid i ni roi heibio rhag dilyn y llwybr yma fawr ymhellaoh. Y mae dau neu dri o bethau, pa fodd bynag, a ddylent gael ein sylw cyn diagyn ar y prif bwnc mewn golwg; oblegid yr oedd yn Mr. Robert Williams rai teithi nad ydynt yn gryfion iawn yn nemawr o'n beirdd. Yr oedd efe yn hynafiaethydd da. Yr oedd efe, nid yn unig wedi darllen llawer ar y mater yma, ond yr oedd efe wedi gwneyd y peth yn destun ei efrydiaeth i raddau mwy na'r cyffredin. Ac yr ydoedd yn beroriaethydd rhagorol. Talodd lawer o sylw i hyn yn moreu ei oes, a daliodd am flyneddau i gael hyfrydwch oddiwrth y wyddoniaeth yma, sy mor gyd-weddol â'r ddawn farddonawl. Y mae yn gryn golled i'r bardd fod heb

y ddwy gangen hyn o wybodaeth gyda'u gilydd. Ond y mae ffrwd go gref yn ofynol i droi melin a phandy; a chan fod y fath gywreinrwydd yn perthyn i'r ddwy gelfyddyd, sef, peroriaeth a barddoniaeth, y mae yn anhawdd i fechgyn wrth eu diwrnod gwaith, yn eu cychwyniad cyntaf allan i feusydd llénoriaeth, gael amser digonol i ddyfod i ben â'r ddau orchwyl; ond yr oedd Rhagluniaeth wedi gosod y Bardd Du mewn sefyllfa y gallai hebgor aml awr at ddiwyllio ei feddwl, a chymeryd i fewn egwyddorion barddoniaeth a pheroriaeth yn moreu ei oes. Dyma fel y dywed efe yn "Awdl Marwnad Mr. J. R. Jones, Ramoth:"—

"Mor dawel oedd ein helynt,  
Wrth ddysgu cydganu gynt;  
Pybyr, a difyr ein dau,  
Llïosem braidd bob lleisiau;  
Trin egwyddor peroriaeth  
Ar oleu gerdd reol gaeth;  
Hwyr aros lawer noson,  
I gyrhaedd dull gwraidd y dôn;  
Ond er ffraeth wybodaethau  
Ber yw hynt dyn i barhau."

Yr oedd ein bardd yn bur gyfa ei air i'w hen gyfeillion. Fel y brenin Iago, yr oedd yn hoffi hen esgidiau yn fwy nag esgidiau newyddion, bob amser. Eto yr oedd efe yn rhagori ar lawer hen ŵr yn y mater yma; nid ydoedd efe yn rhy eiddig i ollwng beirdd ieuaine i'w gyfeillach, nac yn wrthwynebus i roddi iddynt bob math o hyfforddiad yn ei gyrhaedd. Y mae rhai beirdd a llénorion yn rhedeg i eithafion poenus yn hyn. Y maent yn genfigenus wrth bob un a fyddont yn debyg o ddyfod yn gydymgeisyddion â hwynt; gwnant bob peth a allont i dafu rhwystrau ar ffordd y cyfryw, a'u digaloni. Byddai yn hawdd i ni nodi rhai bawlyd o'r ysbryd yma, pe dymunem, na fuont ddim o lawer o anrhydedd iddynt eu hunain, i'w cenedl, na'u hiaith; ond eto a wnaethant eu hegni i geisio dyrysu rhai a gyrhaeddasant anrhydedd, nad oeddynt hwy, o ran eu galluoedd meddyliol, o'r gradd, neu y dosbarth, y gallasant ei gyrhaedd byth drwy unrhyw ymdrech o'r eiddynt. Yr oedd R. ab Gwilym Ddu yn wahanol iawn o ran ei ysbryd i ddyinionach o'r fath yma; yr oedd efe yn ei henaint a'i benllwydni fel llencyn ugain oed gyda dynion ieuaino y cai efe le i feddwl fyddent yn perohen athrylith. Ychydig a ganmolai efe hefyd ar waith neb byw heblaw ar ei waith ei hun, a gwaith Dewi; son am Goronwy y byddai agos bob amser; a Dafydd ab Gwilym a gai gryn le yn ei seroh. Yr oedd efe wedi darllen llawer yn ddiau ar "Orchestion Beirdd Cymru," ac wedi yfed cryn lawer o ysbryd yr hen bobl yn eu gwaith; ac efelychai lawer ar eu pertrwydd a'u tlyani yn ei ganiadau ei hunan. Yr oedd efe yn hoff iawn o linell dlws. Clywsom ef yn adrodd y ddau fraich canlynol gyda chynhesrwydd mawr:—

"Ai plig y gneuen wisgi,  
Ai dellt aur yw dy wallt di?"

Ac yna yn ychwanegu, "Onid ydynt yn dlws iawn?" Yr un peth a ofynai wrth adrodd ei englynion ei hun hefyd. Chwarddai yn iachus am ben y bardd a aeth i gyffelybu gwallt ei gariad

"———i wiail *caite*,"

a'i fod

"Fel aur neu afal *orait*,"

Gan feddwl yn y gyntaf am wiail *cage*; ac yn yr ail am afal *orange*! Yr oedd chwaeth ein bardd yn rhy goethedig i gymeryd ei ddallu gan gleciadau cydseiniad, er mor hoff ydoedd o gynghanedd gref, blethedig, a gwreiddiol.

Yr oedd efe mor gampus a neb yn ei oes am gynghanedd gywrain, ac yr ydoedd ei iaith yn dda ac yn bur. Ychydig iawn o wallau mewn geiriau a ganfyddasom erioed yn ngwaith R. ab Gwilym Ddu; yr oeddynt yn gryfion ac yn ddiroddres, yn farddonol ac yn syml.

Efe ydoedd cynathraw Dewi Wyn; a thrwy fod y ddau yn gymydogion mor agos, yr oedd cryn undeb yn eu golygiadau ac yn eu gweithrediadau. Digiodd y ddau tua'r un amser wrth yr eisteddfodau, fel na cheid dim o'u gwaith na'u presenoldeb ychwaith i un o honynt. Taffwyd Robert Williams oddiar ei echel o herwydd rhoddi y wobr am englyn y "Delyn" i Walter Mechain, yn Nghaerfyrddin, yn 1819; a chanodd Dewi Wyn yn iach iddynt am byth ar ol i'r "Dryw" gael y wobr yn Eisteddfod Dinbych, oddeutu yr un amser, am ei "Awdl ar Elusengarwch."

Bu cryn gynhwrf drwy y Dywysogaeth oll y pryd hwnw wrth weled gwŷr Eglwysig yn ennill yn y ddau le, sef yn Nghaerfyrddin a Dinbych; a dau fardd mor enwog a Dewi Wyn a Robert ab Gwilym Ddu wedi colli. Yr oedd y gwahaniaeth yn Ninbych yn ddigon hawdd ei weled, pa fodd bynag, fel y mae y wlad er ys llawer dydd wedi rhoddi y flaenoriaeth i awdl Dewi Wyn, er mai y "Dryw" a gafodd y tlws! Nid oedd pawb mor benderfynol gyda golwg ar y ddau englyn, ag oeddid gyda'r ddwy awdl; ond os darluniad elfenol o'r delyn oedd yn cael ei ofyn, nid oes un gymhariaeth rhwng yr englyn a gafodd y tlws ag englyn Robert Williams. Pa fodd bynag, meddyliai y Bardd Du iddo gael cymaint o gam a Dewi Wyn; a meddyliai llawer o'i gyfeillion yr un peth; ac yn eu plith yr oedd Pedr Fardd, yr hwn a ddywed:—

"Henffych i'r gorwych gawri,  
A gara neb ein gwŷr ai!  
Bwrn ydynt i'r beirniadon;  
Cofus, arswydus yw'r son.  
Onid enbyd yn Dinbych  
Godi'r gwael i gadair gwych.  
Rhoen' dlws yr hen Daliesin,<sup>1</sup>  
I'r Dryw bach<sup>2</sup> drwy bleidiach blin!  
Annhegwoch yn eu hagwedd  
Oedd hyn at y Gwyn teg wedd.  
Ni ddora awen ddewrwyth  
Un addurn gwael neu ddarn gwych.  
Os ca'dd Dryw unrhyw aarheg,  
Mae'r enw i ti, Dewi deg.  
Dy awdyl, dŵau ydoedd  
Uwch ei bri, iach hoewber oedd.

Sain gwir Elusengarwch  
I ddiolion llymion y llwch,  
Ceir yn hon, cywrain ei hiath,  
Mwyn eiliad a manylwaith.  
A geir un o Goronwy,  
Gloewach, grymusach, a mwy?  
Englyn i'r Delyn wnal'r Du,  
A gorcheist oedd ei gyrcu.  
Eu rhwb arno rhoi beirniad,  
Yn Nghaerfyrddin blin fu'r blaid.  
O annoeth fodd yn "wyth fawd"  
Wrth ethol yr aeth "wythawd."  
Gwyltio ar barch Gwallter bert,  
A throi heibio waith Robert."

Anffawd cas oedd i'r siomedigaethau hyn gyfarfod â dau fardd mor enwog; ond dichon iddynt hwythau ddigio gormod wrth yr amgylchiad; nid oedd eisieu "digio hyd farw" wrth ddygwysdiadau, er mor boenus oeddynt ar y pryd, a throi cefn ar faes barddoniaeth yn llwyr. Costiodd i lawer un ddyfod drwy fwy na hyn filwaith, cyn cyrhaedd pinael enwog-rwydd. Ond nid oedd unrhyw allu dan y ffurfafen yn ddigonol i'w

<sup>1</sup> Enw benthyciol Dewi wrth ei Awdl ar Elusengarwch.

<sup>2</sup> Enw benthyciol E. Hughes, Bodfari.

darbwyllo hwy i ymgeisio eilwaith am dlysau eisteddfodau. Y mae yma wers i feirniaid diegwyddor a digydwylbod. Bydd enwau y gwŷr a gymerasant y gorchwyl o roi tlws Dewi i'r "Dryw" yn felldith ac yn rheg tra fyddo yr iaith Gymraeg wrth ei gilydd; ac ni fydd tynged llawer rhai ar ol eisteddfod Dinbych fawr well. Y mae cryn gamwri wedi cael ei wneyd yn Ngogledd a Deheudir Cymru ar ol hyny; ac onidê buasai gan amryw lai o ariandlysau nag sy ganddynt. Y mae ariandlysau wedi myned yn nwyddau mor gyffredin, ac yn cael eu gwiago am yddfau dynion mor gyffredin ac isel o ran eu galluoedd, nes y mae ar ddynion anghyffredin radd o ofn rhag cael eu galw mewn eisteddfodau i wisgo eu tlysau. Ni wyddom faint o golled a gafodd y wlad am gyfansoddiadau ysplenydd drwy amryfusedd beirniaid prynadwy a wthient eu cyfeillion i sylw nad ydoedd natur wedi ei fwriadu iddynt erioed. Nid ydyw tlws fawr o werth os bydd llawer o drafferth yn ofynol i esbonio am ba beth y cafwyd ef. Y mae yn debyg i Robert ab Gwilym Ddu farw heb gael cymaint ag un ariandlws; y mae efe "yn llefaru eto" er hyny: ac ni phaid a llefaru pan fyddo llawer o dlysan a wisgir am fynyglau annheilwng wedi eu gwerthu fel hen arian! Yr oedd efe yn berchenog ar wir athrylith, megys y dengys pob llinell a ddaeth o'i law. Yr oedd mwy o nerth cynwynol yn ei waith nag o rym celfyddyd. Nid oedd celfyddyd i'w awen ef ond llawforwyn yn ei chynnorthwyo i ymddangos yn lled drwsiadus ger bron y lliaws; tra y mae yn feistres ar awen llaweroedd, fel na feiddia ddangos ei gwyneb heb *goeg*-ddysgleirdeb celfyddyd i'w chymeradwyo i sylw. Y mae efe fel pe byddai yn ysgrifenu â phelydr y goleuni, ac yn ngwres yr haul, â'i feddwl yn llawn o'i destun.

Anfynych yr elai ef i godi hen eiriau ac ymadroddion tywyll o'r beddau lle dylent gael aros hyd ddiwrnod marwnad anian; ac nid elai allan byth mewn cerbyd o niwl. Byddai efe yn y golwg bob amser, ac yn nghyrhaedd galw; ac eto dilynai effeithiau swynol ambell ddarn a wnaeth. Nid cymaint o ddychan sydd yn ei gyfansoddiadau, er y gallai fod yn gellwair-gnoawl i'w ryfeddu pan ddewisai. Nid ydyw byth yn codi ysform, nac yn gosod carnau ei feirch ar balmant marmor; ac nid yw yn peri i'w olwynion gynddeiriogi yn y prif-fyrdd, gan wasgar mellt drwy y wybren. Ni siglai efe y mynydd âg ysgydwad un o flew ei arleisiau. Ni welwn ganddo ef ddarlun ar len èang, a gymerasai amser maith i'w dynu; ni fedd rhyw sylwadau coethedig ar bethau cyffredin o'i gwmpas; ond golygiadau cryno, a tharawiadau dysglær, a neidient o angerddoldeb meddyliau y bardd; ymddengys efe ynddynt yn ddigon o feistr ar yr iaith, a'i farn yn gywir, yn feunyddiol. Ni chawn ei awen ef yn ymhyfrydu mewn daeargrynfâau, neu ynysocedd o ia tragywyddol. Ni lenwid ei ddychymyg ef â chopôd mynyddau uchel, ac âg ogofâocedd clogwynog. Hoffder ei galon ef oedd ymrodio ar fin afon; tynu darlun o'r niwl a orchuddiai greigiau'r Eryri, ac eistedd dan yr ywen werdd er dal cydnabyddiaeth â gweddiillion marwol preswylwyr y llwch, gan edrych drwy gadduglen glyn marwolaeth tua'r bore y

"Bydd dorau beddau y byd  
Ar un gair yn agoryd."

Ni chipiai ni i uchelderau dychymyg, nac ar hyd llwybrau ffurfiol manylu ar bethau fel pe byddid yn swyddfa cyfreithiwr; ond fe'n gollyngir i ymrodio ar hyd dolydd balmaidd; neu, i'r goedwig neillduedig; neu, i'r ardd flodeuog lle mae rhosynau gwridog a destlus fil, yn agor eu mynwesau



i lochi gwllith y nen. Y mae ambell englyn o waith y Bardd Du, fel y blodeuyn prydfertaf. Nid ydyw efe byth yn ymgais am gyfansoddiad hir-anadlog, cwmpasog, nac äang, ond y mae pob peth yn dlws, yn gryno, ac yn fyr. Y mae efe yn gallu rhoi llawer mewn ychydig o le; a phob peth a ddaeth o'i law yn gelfyddgar dros ben. Y mae teimlad, yr hyn yw enaid barddoniaeth, yn mhob llinell. Y mae ei ddelweddu af yn dilyn eu gilydd yn weddus. Ac y mae ganddo ambell darawiad digon nerthol i siglo creigiau; yn enwedig, yn ei feddergryff. Braidd na ddychymygem glywed hen gloion rhydlyd bro dystawrwydd yn neidio yn eu holau, a'r meirw yn dyfod i fyny mewn anllygredigaeth, wrth ddarllen ambell englyn o'i waith. Gwasanaethed y rhai canlynol er eglurhau hyn :—

“Yr Ion, pan ddelo'r enyd—ar ddiwedd  
O'r ddaear a'n cyfyd;  
Bydd dorsau beddau y byd  
Ar un gair yn agoryd.”

“Drwy'r llawr, pan darawo'r llaf—a gwys gerdd  
Gogorddau'r oleunef,  
Duw a'i hedryd i'w hadref,  
Mewn dim ar ei amnaid ef.”

Y mae y cyntaf yn ardderchog, lle y sonir am i'r “beddau agoryd ar un gair;” ond y mae y diweddaf yn gryfach, lle y dywedir y cyfodir y saint “ar amnaid” Ior; y mae amnaid yn llai peth na gair. Yn mha le y crynōwyd syniadau mwy ardderchog, mewn iaith gryfach, a mwy priodol, nag a wnaed yn Englyn yr Iawn?

“Paham y gwneir cam a'r cymmod—neu'r Iawn,  
A'i rinwedd dros bechod!  
Dyweder maint y Duwdod—  
Yr un faint yw'r Iawn i fod.”

Nid llawer o gyfansoddiadau sydd i'w cael ar ol ein bardd, ond y mae pob un sy genym äg ol llaw crefftwr arno.

Y mae y ddau ddarlun canlynol yn benigamp :—

“CRIST GER BRON PILAT.

“Dros fai nas haeddai mae'n syn—ei weled  
Yn nwylaw Rhufeinddyn;  
A'i brofi gan wael bryfyn,  
A barnu Duw, ger bron dyn.”

“PILAT YN Y FARN.

“Yn y dorf, mewn ofn dirfawr—pwy welir,  
Ow ai Pilat rwygfwfwr  
Is, 'r trwm fradwr tramawr,  
Fory'n fud, yn y farn fawr.”

“ABERTH CRIST YN ENGLYNION SWYDD Y LEFLAID.

“Yn lle eidionau'n llu dinerth—ac \*yn  
Yn gannoedd anghydwerth,  
Dyma ben ar bob aberth,  
A dyma waed mwy ei werth.”

Gwelir drwy y nifer fwyaf o'i englynion ar bob achlysur, feddyliu dyrchafedig, iaith ddewisedig, a medrusrwydd cynghaneddol. Y mae gweithion Mr. Robert Williams yn rhai anhawdd iawn gwneyd detholion o honynt; ni wyddis yn iawn pa englynion neu bennillion i'w dewis; ac ni wyddis pa ddarnau o'i gywyddau yw y rhai a ddylid fawrhau yn benaf. Y mae efe yn dra gwastad drwy ei holl gyfansoddiadau. Pan

yr ystyriom ei fod yn ŵr o feddwl cryf wrth natur, wedi cael manteision dysgeidiaeth gyffredin, yn more ei oes, a chanddo ddigon o amser, nid ydyw hyny i'w ryfeddu. Nid ydoedd dwyn llyfr fel "Gardd Eifion" i ddolaeth, mewn oes mor hir, yn llawer o orchest, gan nad oes nemawr ddim arall wedi ei adael ar ei ol. Dylasai y caniadau fod yn da, gan fod ganddo ddigon o amser i'w gwella; ond eto ni cheir pethau cystal gan laweroedd sydd mewn amgylchiadau cysurus ag a geir yn fynych gan ddyinion & llon'd y tŷ o blant ganddynt. "Anhawsderau," medd un, "sydd yn rhoi bodolaeth i wyrthiau. Nid ydyw pob gwasgfa yn feildith, ond y mae cyfyngderau boreuol yn fynych yn fendith factr." Pan gymharwn weithion ein beirdd, o ran eu swm, & gweithion Doctor Owen, Gill, a Matthew Henry, y maent yn myned yn fach dros ben. Yr oedd y rhai hyny yn gawri mewn meddwl, gair, a gweithred. Buasai yn dda genym gael cyfilyr o waith Robert ab Gwilym Ddu cymaint ag un gyfrol o waith Henry; ond y mae rhaid i ni foddloni ar hyny a gawsom.

Gofynid i gristion o fasnachwr, yn ddiweddar, pa fodd yr oedd efe mor fanwl gyda'i bwysau a'i fesur; gyda'i nwyddau a'i fargeinion; sef, am gael pob peth yn ei le. "O," ebai yntau, "yr wyf ar fy nhaith i fydd arall, ac yr wyf am wneyd pob peth yn ei le fel yr elwyf yn fy mlaen, oblegid ni chaf ddyfod yn fy ol i godi y bylchau os bydd rhai wedi eu gadael." Byddai yn dda i bob dyn o dalent ystyried mai ar ei daith y mae yntau, ac y dylai ofalu am adael cyflawnder o firwyth ei lafur, cyfatebol i feithder ei oes, ar ei ol, a'r cyflawnder hwnw y cyfryw na fyddo raid iddo wlyo deigrin o'i herwydd ar wely angyu, nac ofni, yn y byd arall, ei fod ef wedi gadael pethau ar ei ol ar y ddaear fydd yn foddion i wenwyno ei thrigolion hyd ddiwedd amser. Nid ydym yn meddwl y cafodd Robert ab Gwilym Ddu achos i edifarhau erioed o herwydd anfoesoldeb unrhyw gyfansoddiad a gyhoeddodd; ond yr ydym ni yn methu gweld ein hunain wedi cael digon o firwyth athrylith mor gref yn y llyfr a wnaeth. Nid oedd ganddo ormod o drafferthion amaethyddol gartref, na gwaith trafaclu oddicartref, na dyledswyddau perthynol i'r wasg, na dyledswyddau perthynol i addysg, na dyledswyddau perthynol i weinidogaeth yr esengyl, i rwystro ei feddwl i fod gyda'i waith hoff. Yr oedd efe yn arglwydd arno ei hun, a chanddo briod ddoeth a gofalus ac ymgeleddgar o hono, i dynu llawer o feichiau oddiar ei feddwl; ond eto ychydig a wnaeth, megys y sylwyd, o gyfansoddiadau i'w gadael i'r oesau dyfodol. Y mae yn drueni i gynnifer o flyneddau gael eu treulio, gan mai unwaith am byth yr oedd efe yn cael eu mwynhau, i wneyd can lleied o orchwyl. Nid peth i gael ei threulio allan mewn un oes yw athrylith; dylai fod gan ei firwyth rywbeth i'w wneyd a'r byd pan fyddo ei pherchenog, o ran ei gorff, yn gorphwys oddiwrth ei lafur. Pa beth a ddaethai o dduwinyddion, athronwyr, a beirdd, oni bai eu bod yn cael cyfeillachu âg ysbrydoedd yr enwogion a hunasant, pan fyddont yn eu hunigedd o dwrf y byd, a rhan fawr o'r byd anifeilaidd yn breuddwydio am fwyta ac yfed, a chribinio pentyrau o bethau y ddaear hon at eu gilydd?

Torwyd cryn lawer ar ysbryd Robert Williams, a'i awydd at farddoni, pan fu farw ei feroh, yr hon oedd yn feroh ieuanc brydferth, synwrol, a dysgedig; ac hefyd yn blentyn ei henaint; canys bu ef yn hir iawn yn dwyn y teitl "Hen lanc y Bettws Fawr," ymhlith ei gydnabyddiaeth; a pharodd son am ei briodas gryn syndod drwy yr ardalocedd. Pa fodd

bynag, yr oedd efe wedi rhoddi ei serch yn fawr ar Jane Elizabeth : y hi oedd hyfrydwch ei lygad, ac yr oedd hi yn ddigon call i allu ei ddirwyn ef am ei bys fel y mynai ; yr oedd hi yn eithaf cydnabyddus â holl ystafelloedd dirgelaf ei galon, er nad ydoedd ond dwy flwydd ar bymtheg oedd pan yr hunodd. Yr oedd ei marwolaeth yn ergyd trwm iddo. Nid allai byth oddef ei henwi heb fod ei lygaid yn ffynnonau o ddaugrau. Anfynych y gwelir mwy o arwydd teimlad dwys wedi ei ddodi mewn unrhyw farwnad nag sydd yn ei "Gofiant byr am Jane Elizabeth Williams," megys y gwelir wrth y dyfyniadau canlynol :—

"Och ! gur, pwy fesur, pa faint  
Yw ngwyn mewn ing a henaint !  
At bwy trof yn fy ngofid,  
A chael lle i ochel lliid !  
Angeu arfog, minlog, mawr,  
Ar ei gadfarch ergydfawr,  
Wels, yma carlymodd,  
A'i rym ar egni a r'odd,  
Torodd i lawr trwy fawr feth,  
Ein diddig unig eneth.

Y fi, lwydfardd, wyf ledfyw,  
Mawr ei boen rhwng marw a byw,  
Dirdynwyd ni 'r dra dinam,  
Oerodd gwres mynwes ei mam :

Wylu yr y'm lawer awr,  
Diau wylwn hyd elawr.  
Ow ! Sian fach, mae yn syn fod,  
Ein twysen mewn ty isod !  
Dwfn guddiwyd, ataliwyd hi,  
Y man na welwyf mo'ni ;  
Lluch y llawr, yn awr, er neb,  
Sy heno dros ei hwyneb,  
Nid oes wên i'w rhieni  
Ar ei hol, er nas gŵyr hi ;  
Ni ddodir gair toddadwy  
Byth o'r Berch<sup>1</sup> i'm anerch mwy.  
Och olwg wel'd ei chelain,  
Erechwyn oer wrth arch ei nain.

Ymholais, crwydrais, mewn cri—Och alar !  
Hir chwiliais am dani ;  
Chwilio 'r celloedd oedd iddi,  
A chwilio heb ei chael hi.

Gwywais o gendeub wel'd ei gwisgiadau,  
Llanwai y meddwl o'i llun a'i moddau,  
Dych'mygion gweigion yn gwau—a'm twyllodd :  
Hynod a'mharodd, fy ngwan dymherau.

Ei llyfrau, wedi ei llafur odiaeth,  
I'm pan eu gwelwyf mae poen ag alaeth ;  
Llawn oedd mewn darlennyddiaeth—a hyddyg,  
Cref iawn o addysg mewn 'agrifenyddiaeth.

Och ! arw son ni cheir seinio—un mesur  
Na musig plano :  
Mae 'r gerdd anwyl yn wylu,  
A'r llaw wen dan grawn gro.

Ochenaid uwch ei hannedd—a roisom  
Mae 'n resyn ei gorwedd ;  
Lloer iefanc mewn lle rhyfedd,  
Gwely di barch—gwaelod bedd.

Y peswch marwol pwyais,  
Fu 'n erlyn i'w derfyn dig ;  
Poethi ac oeri i gyd,  
A'i blinodd bob all enyd ;  
Chwys afiach a chas ofid,  
A'i grudd fach dan gryfach gwrid ;  
Pob arwyddion, coelion caeth,  
A welid o'i marwolaeth.  
Llawer dengwaith, drymfaith dro,  
Tra sylwn—trois i wylu.  
Byr oedd hyd ei bywyd bach,  
Oes fer—Ow ! beth sy fyrrach ?"

<sup>1</sup>Abererch.

Onid oes teimlad a nerth yn y pethau yma? Os na ystyrir y rhai hyn yn brydyddiaeth, beth sydd yn addas i'w alw felly?

Nid ydym yn hoffi cymaint ar yr awdl "Coffiadwriaeth am Mr. J. R. Jones, gweinidog y Bedyddwyr yn Ramoth." Y mae gormod o sarugrwydd yn ysbryd hōno, er maint o gywreindeb barddonol a ystyrir ynddi. Y mae hi yn rhy debyg i'r bobl gul, a drwg yr olwg arnynt, a elwir yn Sandemaniaid, y rhai sydd yn ddigon o asynod i feddwl nad oes neb ar y ffordd i'r nefoedd ond hwyntwy a'u plaid fach, anffaeledig, ac oerllyd, a phob un sydd wedi ei lefeinio yn yr un twrnel a hwythau.

Y mae y darnau canlynol yn deilwng o'i hawdur, y mae yn wir; ac, am a wyddom ni, yn deilwng o'r gŵr y galerid ar ei ol:—

"Y wir ddawn a urddunwyd;—Ow! 'rem aur,  
O Ramoth a gollwyd!  
Fyth Meirion, fe'th a'mharwyd,  
Coeliaf y son—clwyfus wyd."

Y mae yn debyg mai ar gyfrif gwerth y mae yr awdur yn son am "em aur," ac nid ar gyfrif natur gem.

"Pwy i'n bro, pan y bai raid,  
Uwch Siôn mewn achos enaid!  
Pen ei oes, Ow! pwy na ŵyr!  
Braw son yn briwo synwyr:  
Prudd yw gwedd y praidd, a gwael  
Gwedi iddo eu gadael;  
Diennill i fydd annuw;  
A gloes ddofn i eglwys Dduw.

Och! drom, ni chair ymgomiaw,  
Na difyr lythyr o'i law;  
O! daliodd angau, dilyth,  
Yn y bedd ei enau byth.

Pwy yma 'n meddu pumiaith—cywirach  
Yn caru 'r Omeriaith?  
Duwiol awdwr dilediaith  
Goreu rym fu 'n geirio 'r iaith.

Agor enaid y gwirionedd,  
I'w wrandawyr o iawn duedd,  
A'i Dduw 'n arwain ei ddawn eurwedd,  
A gair miniog yr amynedd.

Ennillai aur gnewyllyn—nef fwnai,  
O fynwes pob testun:  
Arddelwai 'r gair a'i ddilyn;  
Bugail da heb goelio dyn."

Y mae y pethau hyn, yn ddiau, yn dyweyd yn gryf o blaid Mr. J. R. Jones a'i iachuarwydd yn y ffydd ar bob pŵnc; ond eto er maint o barch oedd gan y bardd iddo, dywed mewn dwy linell arall,—

"Gair Duw oedd ei greddo ef,  
Hyd a wyddai, rhaid addef."

"*Hyd y gwyddai*" yr oedd Mr. J. R. Jones yn gallu penderfynu wedi y cwbl. Nid oedd unrhyw lais o'r nef wedi llefaru wrtho ef, mwy nag wrth rywun arall, ynghylch ffordd iachawdwriaeth. Diolch i'r bardd am yr addefiad ewyllysgar hwn; yr oeddym ni yn tybiaw, linell neu ddwy yn ol, fod Mr. J. R. Jones, a'i ganlynwyr, wedi cael rhyw ddadguddiad mwy na phobl eraill mai eu ffordd hwy yw y ffordd iawn; ond erbyn edrych nid oes ganddynt hwy, mwy na ninnau, ond penderfynu *hyd y gwyddant!*

Y mae yn rhyfedd meddwl y dylanwad mawr a gafodd yr ysbryd a lywodraethai Mr. J. R. Jones, a'i blaid, ar y werinos yn y parthau a'r conglau anghysbell lle y cawsent amser i wreiddio. Beth bynag yw natur eu crefydd bersonol hwy eu hunain, ychydig iawn o'r hyn a ystyrir yn grefydd y Testament Newydd, gan yr eglwysi unionged, sydd yn ffynu yn yr un fan a hi. Y mae y ddaear a'r awyr fel pe byddent wedi eu gwenwyno, megys y mae y cymydogaeithau lle byddo gweithfaoedd copr ynddynt. Y mae y bobl gyffredin yn baganllyd, ac yn elynol i'r hyn a ystyriwn ni yn wirionedd, ac yn eglwys y Duw byw. Os ydynt hwy (y Sandemaniaid) yn nes

i'r Ysgrythyrau na neb arall, pahan na chyhoeddent eu hegwyddorion i'r byd? Y mae yn resyn i'r *vir* athrawiaeth fod fel canwyll dan lestr, mewn ardaloedd dinod yn nghilfachau y creigydd. Ac os hwyntwy yw yr unig bobl sydd yn deilwng o gael eu galw yn ddsygyblion i Grist, pa fodd y mae plaid mor dda, ac mor anghenrheidiol i gadw y *vir* athrawiaeth yn fyw, mor agos i ddifianu mewn cymydogoethau lle y bu gynt yn enwog ac yn rhwysgfawr? "Budr elwa" y golygai dysgyblion Mr. J. R. Jones dderbyn cadwraeth gweinidogaethol; gwrandawer ar y bardd,—

"Abwydau gwaelion byd a ogelodd:  
Mamon annichon, hwn ni chwennychodd!

A didawl fwriad y da lafuriodd  
Ef drwy ei alwad, ac ni fudr elwodd;  
O wyddorion y byd ymddiheurodd,  
A'u gau ofergoelion rhwysgfawr gwlliodd;  
Gwobrau na meflau'r un modd—o'i orchwyl  
Yn ei law anwyl yma ni lynodd."

Yr oeddynt yn llyfu eu bysedd yn rhyfeddol pan ddaeth yr awdl allan gyntaf, wrth glywed dyn o enwogrwydd R. ab Gwilym Ddu yn ymosod mor ddiarbed ar "Babilon" (sef pob enwad, ond enwad Mr. J. R. Jones). Mor wirion y mae truth o'r fath yn ymddangos heddyw, pan y mae dynion wedi dyfod i ddeall egwyddorion y Testament Newydd yn well nag oeddynt y pryd hwnw; ac i wybod mai dyledswydd y "rhai sydd yn pregethu yr efengyl yw byw wrth yr efengyl."

Yr oedd y bardd, yn gystal a dysgyblion Mr. J. R. Jones, yn camgymeryd yn hollol gyda golwg ar ystyr y gair "budr elw." Nid ydyw yn briodol, mewn un modd, am gynnorthwy a dderbynir ar yr egwyddor wirfoddol. "Canys y mae yr Ysgrythyr yn dywedyd, Na chau safn yr ych sydd yn dyrnu yr yd: ac Y mae'r gweithiwr yn haeddu ei gyflog;" i *Tim.* v. 18. Ystyr "budr elw" yw elw annheilwng a gair drwy dwyll a hocoed, ac nid drwy roi gwerth am werth. Llauer a darawyd ar y tant hwn erioed, hyd yn nod gan bleidwyr sefydliadau gwladol o grefydd; "rhy ddiog i weithio," yn eu barn hwy, oedd pob un a gynnygiai ei hun yn bregethwr gyda'r Ymneilldŵwyr. Ond ni fynegent byth "rhy" beth oedd y rhai a ymwthient i'r offeiriadaeth heb ynddynt unrhyw gymhwysder at y swydd; gallem ni feddwl fod y rhai hyn, nid yn unig yn "rhy ddiog" i ennill eu bara mewn ffordd onest, ond yn rhy ddisynwyr i wybod nad oedd Duw erioed wedi galw eu bathau hwy i waith mor fawr. Yr oedd Mr. Robert Williams wedi ei drochi yn lled ddwys yn y dyb na ddylai pregethwyr gael eu cadw i bregethu, ac i bregethu yn unig. Clywsom ef yn tafu rhywbeth cyffelyb, gyda golwg ar rai a adwaenom, oeddynt wedi codi o sefyll-faoedd go isel, ac wedi dyfod i berchen cefyl, mantell, *umbrella*, a botasau. Yr oedd efe yn ddirg iawn wrth bethau fel hyn. Y mae yn rhaid mai effeithiau unrhydd hen lefain Ramoth a gynnyrchai y fath deimlad mewn meddwl mor oleuedig a meddwl gŵr y Bettws Fawr. Y mae yn debyg nad oedd y cenadau a ddirmygid ganddo wedi costio ffyring iddo ef erioed.

Yr oedd peth pwysig arall yn mywyd Mr. J. R. Jones, a goffair gan y bardd yn fanwl, sef ei waith yn myned ar ei draed i bregethu yr efengyl:—

"Hir drafaeliodd, o'i fodd, faith  
Ddaiar Gwynedd oer ganwaith;

Wr enwog, ni farhogai;  
Eithr ar droed erioed yr ai,  
Ei fynych daith gyfannedd  
Ar bob hin hyd fin ei fedd."

Yr oedd "cerdded" yn lle "marchogaeth" yn beth pur ddirifol a phwysig yn ddiau, gwerth i'w osod mewn awdl farwnadol! Digon tebyg mai ar ei draed y buasai Mr. J. R. Jones yn dewis myned tua California, pe teimlasai awydd i fyned yno; canys fe ddichon y buasai ganddo ef ddigon o ffydd i rodio y môr!

Galleu feddwl ar y farwnad fod traddodiadau (sef, bedydd babanod, &c.) wedi bod yn boen fawr i enaid Mr. J. R. Jones:—

"Anheggor egwyddorion  
Ei lafur ef, o lyfr Ion,  
Didol bob traddodiadau—anianol  
Yn wyneb erlidiau;  
Byw ar y gwir—beio'r gau,  
Ydoedd ei ymroadau."

Yr ydym yn tybiaw fod y bardd yn gwneyd camgymeriad mawr gyda golwg ar yr "erlidiau;" yr oedd mwy o hyny ar du Mr. J. R. Jones ei hun nag ar du neb arall. Yr oedd dyweyd yn erbyn "pregethwyr pobl-ogaidd yr oes," ac yn erbyn pob peth "*poblogaidd*" yn mhawb oedd yn gwahaniaethu oddiwrth Sandemaniaid yn brif erthygl yn nghredo y blaidd. Gan hyny, gallasai y bardd hebgor y llinellau hyn yn ddirifon hawdd. Er fod yn yr awdl ger ein bron rai llinellau teilwng o'r Bardd Du, nid allwn ei chymeradwyo drwyddi, o herwydd ei hysbryd pigog, a'r awydd pleidid pethau nad oedd y bardd yn gwneyd proffes gyhoeddus o honynt a welir ynddi. Y mae efe yn yr awdl hon yn sawyro o Sandemaniaeth; ond ar ei siarad, yr oedd efe yn rhyddfrydig, ac yn dymuno llwydd pob enwad. Ein barn ddiysgog ni ydyw, pe buasai Ramoth yn nghymydogoeth y Bettws Fawr, y buasai Mr. Robert Williams yn un o ddisgyblion ffyddlonaf Mr. J. R. Jones. Yr oedd Dewi Wyn yn arwach ei groen na Robert ab Gwilym Ddu; ond yr oedd yn fwy cydliw, ac yr oedd ei air garwaf ef ymlaen; yr oedd natur ohware y *camelion* yn y Bardd Du, ar rai achlysuron. Cawn ef yn cymeradwyo Mr. J. R. Jones fel Ymneilldŵr a "phen diwygiwr" yn ei farwnad iddo, megys,

"Ow! poenwyd eigion ein pen diwygiwr,  
O! gau oes wyrwg—heb neb yn gysurwr;  
Ei enw a gwaradwydd fel pob iawn gredwr,  
A fwrwyd allan, fel ofer dwyllwr."

Pan yn canu marwnad i Mr. John Jones arall, gweinidog y Bedyddwyr yn Nefyn, dywed,

"Wrth addysg areithyddion—wrth eglur  
Erthyglau'r gwir dystion,  
Wrth eiriau—yn nerth Aaron,  
A llyfr saint llefarai Siôn."

Pan yn marwnadu i'r Parch. Simon Llwyd, o'r Bala, dywed,

"Fel arwydd o'i filwriaeth—ddiwyrni,  
Addurnodd Grist'nogaeth;  
A gwawl nef, goleuo wnaeth,  
Ein byd o'i anwybodaeth."

Yr oedd y tri gweinidog a enwyd yn gwahaniaethu yn ddirifawr oddiwrth eu gilydd; ac eto yr oedd y cyntaf yn "iawn gredwr;" yr ail yn

lefaru "wrth eglur erthyglau y gwir dystion;" a'r trydydd yn goleuo y byd â "gwawl nef."

Pe yr ymdrechem basiaw heibio y pethau uchod, gan ddywedyd, mai tynerwch meddwl ein bardd a barai iddo lefaru mor ryddfrydig am weinidogion yr efengyl, pa fodd y maddeuir iddo, ac ef yn Ymneilldŵr mor gadarn, am y llinellau canlynol yn yr anerchiad i Sior iv. :—

"Drwy'n hoes, boed ei deyrnasiad,  
Yn nwyllaw Duw 'a ail i'w dad;  
Mynu 'n gryf, mewn iawn grefydd,  
Mynu amddiffynu 'r ffydd.

Pa le y mae y "pen diwygiwr," a'r "iawn gredwr," yn bresennol, os Sior iv. sydd i

"Fynu yn gryf, mewn iawn grefydd!"

Ow, ow! Robert bach!—Ond y mae ei gŵyn ar ol ymadawiad offeiriad Caernarfon, yn llawn mor anmhrifodol iddo ef a'r diweddfaf; lle y dywed,

"Yn ngoleu efengylaidd—treiddiadawl,  
Traddodai 'n fanylaidd,  
Ddanteithion breision i'w braidd,  
Gwin enaid yn ganonaidd.

Ac, yn enwedig, ei anerchiad i Beriglor Llanystumdwy, pan oedd y gŵr hwnw ar gymeryd meddiant o dri phlwyf; megys,

"Llwyddiant a'i feddiant yn fwy—a gaffer,  
I John Kyffin fwyfwy;  
Dodwyd y gwr clodadwy  
Yn dwr a phlaid ar dri phlwy'."

Ac i goroni y cwbl, ar ol canu mawl Sandeman, Bedyddiwr, Trefnydd, ac Offeiriad, y mae yn dyweyd,—

"Nid gwir grefydd sydd ond awn,—yn Mrydain,  
Amrywiadau filiwn;  
Taeru cas a natur cwn,  
Pa wyneb heb opiniwn?"

"Dan rhod nid oes ond un rhyw—yn gryfaf,  
Un grefydd, nid amryw,  
Nod o barch ar enaid byw  
Credadyn, cariad ydyw."

Oni buasai fod genym rywbeth amgen na'r sylwadau diweddfaf hyn i'w fynegu am waith Robert ab Gwilym Ddu, troisem oddiwrtho gyda dirmyg. Rhaid i ni ddodi y pethau uchod ymhlith ei ffaeleddau; sef, yn ffrwyth y plentynrwydd hwnw y soniwyd am dano yn y dechreu. Yr oeddyd yn ystyried yn deg i ni osod dau du y ddalen ger bron y darlennydd, gan nad oes un darlun heb lanerchi goleu a thywyll arno. Yr oedd rhywbeth yn wanlyd iawn yn ein bardd; yr oedd yn anhawdd iddo sefyll yn wyneb profedigaeth danlyd, yn enwedig os gofynid iddo am englyn neu gywydd gan ryw un mawr. Gallai, pe deallem ni pwy a pha beth oedd yn symud wrth flaenau y gwyfrenau o'r golwg, yn yr amgylchiadau a grybwyllasom, y byddai yn haws genym faddeu iddo, nag ydyw: ond ni ddylai gwendidau mewn dynion mawr gael eu pasiaw yn ddigerydd, ac onidé ni ddysga dynion bach eu gochelyd. Yr ydym yn barnu fod ein bardd yn cyfansoddi llawer iawn o englynion o ryw ysfa yn fwy nag o fwiad yn fynych; ac wedi eu gwneyd, yn eu gollwng o'i law yn ddfeddwl; ond ni ddylai unrhyw fardd wneuthur felly, ond yn hytrach dylai gadw amser

dyfodol o flaen ei lygad; a chofo y bernir ef, wedi ei farw, yn ol yr hyn fyddo wedi adael o'i ol. Nid oes genym ni unrhyw ffordd i wybod am awdur, ond yn ol yr hyn a wnaeth tra yn y fuchedd bresennol.

Gwell genym waith Robert Williams yn canu i natur nag yn canu i ddynion: dyma lle y mae mwyaf o brawf o'i athrylith; ac, yn enwedig, pan yr esgyna oddiwrth bethau naturiol at bethau iachawdwriaeth. Y mae efe yn ei elfen gyda'r pethau hyny. Y mae ei gyfansoddiadau yn "Ngardd Eifion" wedi eu dosbarthu i bedair rhan. Y mae ei emynau a'i englynion duwinyddol yn y rhan gyntaf. Carolau ac odlau moesol yn yr ail. Awdlau, cywyddau, ac englynion coffadwriaethol yn y drydedd. Anerchiadau ac amrywiaethau yn y bedwaredd. Y mae ganddo nifer dda o emynau ac englynion ar destunau cyhoeddus; nid yw ei awdlau a'i gywyddau ond ar destunau neillduol gan mwyaf; ac y mae ganddo lawer o englynion o'r natur hyn hefyd. Yr ydys eisoes wedi gosod anghreiffiau o'i englynion a'i awdlau; wele yn canlyn anghraifft o'i "Gywydd ar lan Dwyfach," yr hwn sydd yn cynnwys barddoniaeth o'r iawn ryw:—

"Mor fwyn fy llawforwyn fach  
Yw dyfod at fin Dwyfach;  
I'th gwrdd unwaith, gerdd enawg,  
Myfyrio, a rhodio rhawg;  
Mynu eistedd—mwyn oesteg,  
Ar fin dwr tir Eifion deg;  
Uwch Hengwm a'i gychwyngell,  
Treiddio mae, trwedd y'mhell;  
Lli' ei don sy 'n lledanu,  
Islaw i'r ddofn Seler Ddu;  
Dylli' braisag ar dal y bryn,  
Yw'r mur dewr am wâr Derwyn.  
Cyrhaedd y mae cainc arall  
Oddi draw ei llaw i'r llall;  
O dir Nant cyll derwyllt don,  
Hoff enwog ddyglaer ffynnon,  
I'r hon fyth mae rhyw hen fawl,  
Ymddug in' ddw'r meddygawl,  
Y drydedd gainc droadwy,  
Eto i ddod at y ddwy,  
Am ddirwyn mewn modd araf  
Yma rhed o Gwm yr Haf.  
Dyferant wi! hyd forhallt,  
Yn oer do, ar ro, o'r allt;  
Ewyngroch gwrf o'r wengraig,  
Yfwn fir o afon faig;  
Dwyfach hygroch ei defod,  
Mwyn i fardd ar ei min fod;  
Gwrando si ei phrif lifiant,  
Diwael nerth, rhwng dwy sel nant,  
Yn dirwyn i'r meithlyn mawr,  
Yn araf o'i mwyn orawr;  
Dymmod myn ei damwain,  
Berwag hynt i Abercain:  
Ohwera droi ymlithro i lawr,  
Difeth law Cain a Dwyfawr;

Mirain yw 'r ddwy gydmarc,  
Er wnai grym oerni a gwrea.

Cefais awr o ddystawrwydd,  
Uwch ei phen, i'r awen rwydd;  
Awr fach yn mhlith oriau f' oes  
Fwynaf o oriau f' einioes;  
Eilio, man byncio, mwyn bill  
Dan lawen wybren Ebrill;  
Egor llais, wrth gwr y llyn,  
Digymell ar deg emyn,  
Tan gygawdwydd, irwydd, iach,  
Mwyn dyfiant yn min Dwyfach;  
Ac ednaint gwâr, lafar lu,  
Uwch ben oedd yn chwibanu;  
Dolef ar gangau deiliog,  
Oruwch dwr glân lle can cōg.  
Difyr cael dan dewfrig gwjdd,  
Rhoi anadl i'r awenydd,  
A gwel'd islaw dystaw don,  
Araf deg rifedigion:  
Amryw o bysg mawr a bach  
Heigiant, nofiant yn Nwyfach;  
Cu amledd yn mhob cemlyn,  
Ehyrth y deifr—ymborth dyn;  
Rhof fynych henffych i hon,  
O'i chroewddw'r chwarsyddion!  
Dirioned ei raieny  
Yw'r dwr' glas ar dir y Glyn.

O! yr afon ddofn ryfedd  
I mi sy'n dangos fy medd  
O hyd y modd y rhedi,  
Y rhed f' amser ofer i  
I foroedd byd anfarwol."

Ni ysgrifonodd Robert ab Gwilym Ddu ond ychydig o garolau; y mae y rhai sydd ar gael o'i waith yn dda yn y rhediad cyffredin a berthynai i garolau yn ei ddyddiau ef. Dodwn anghraifft neu ddwy ger bron:—



## MESUR—"CWFYFAN PRYDAIN."

"Cyfododd haul cyflawnder gan dyner ddysglaer d'w'nu,  
 O'i lonwych nefol annedd, ei geinwedd aydd yn gwenu;  
 E daenodd i blith dynion, ei dirion belyderan,  
 Hoff, weithian, yw 'r diffeithwch, anlalwch aeth yn olau;  
 Y ganaf trwm aeth heibio, cysgodau 'r hwyr yn cilio,  
 Mae 'r ddalar wedi 'mwisgo 'n werdd;  
 A'r durtar addfwyn nefol yn seinio, yn bresannol,  
 O! mor ragorol ydyw 'r gerdd;  
 Dyrchafwn ein golygon, cawn weled gwinwydd gwynion,  
 A'u ffrwythau trymion arnynt draw,  
 Y gerddi yn frig wyrddion, a'r dolydd oll yn feillion  
 A'r meusydd llawnion sy gerllaw."

## ARALL AB "HYFRYDWCH Y BRENNIN SIOR."

"Mae cofiadwriaeth o'i farwolaeth yn helaeth i'w fwynhau,  
 Tra byddo oesau'r byd pur hyfryd yn parhau;  
 Ei angen marwol oedd ddigonol, Oen nefol drosom ni;  
 Yr aberth mwya' erioed a roed ar Galfari.  
 Y goron annhrugarog oedd bigog ar ei ben;  
 Fe wnaed i'n pechod gydgysarfod â'n Priod ar y pren,  
 Yr Iesu pur ddyoddefodd gur a llafur yn ein lle;  
 Drwy anarferol fodd fe grynodd ddaear gre',  
 Y ser i gyd ddiffanodd a'r wawr a dreiddiodd draw;  
 Pob golwg ffydd a edwyn ddydd y Llywydd sy gerllaw;  
 Mae gwir lachad i'r enaid da drwy rinwedd had y wraig,  
 Ar groeshoeliedig bren, fe ddrylliwyd pan y ddraig."

## ARALL AB "DDIFYRWCH GWYB Y COGLEDD."

"Aed mollant Iesu mawr ar led y ddaear lawr,  
 Terfynau 'r byd a welo 'r hyfryd wawr;  
 Trigolion daear dewch, i'w lysaedd nefol ewch,  
 Wel dyma 'r pryd, yn hyfryd llawenhewch;  
 Fe anwyd Ceidwad dynolryw;  
 Yn waelaf ddyn anwylaf Dduw,  
 O'r wryf hawddgar forwyn,  
 Oen addfwyn addfwyn yw;  
 Yr hwn a welwyd gyda'r wawr,  
 Y mae ei bresenoldeb mawr,  
 Daw unig pob daioni  
 Yn llenwi nef a llawr."

Nid ydym yn ei weled gymaint yn ei elfen yn ei garolau ag ydyw mewn rhanau eraill o'i waith.

Nid llawer o gerddi a wnaeth efe; math o anerchiadau yw y rhai a gyfansoddwyd ganddo. Yn ei emynau a'i englynion duwinyddol, a'i feddergryff, y mae cuddiad ei gryfder, yn ol ein barn ni. Yr oedd efe yn ei emynau yn hoff o dramwy oddeutu y groes a'r bedd newydd, ac esgyniad ac eiriolaeth Crist, adgyfodiad y saint, a'u dedwyddwch yn y nef. Goddefir i ni yma ddyfynu yn lled helaeth, feallai. Mewn "Emyn ar fawrhydi a darostyngiad Crist," fe ddywed:—

"Rhyfeddod oedd, rhyfeddod yw,—  
 Ai 'r unig ddyrchafedig Dduw,  
 Gwir wrthddrych mawr seraffiaid gwych  
 A wela draw yn waelaf drych?  
 Rhyfeddod iawn i'r nefol lu  
 Oedd gwelod eu Creawdwr eu,  
 Yn gwisgo natur wan ei rhyw  
 Yn waelaf ddyn—anwylaf Dduw."

Os rhyfedd gan angelion nef  
 Oedd gwel'd ei bur ddynoldeb ef,  
 Mae myrdd o ryfeddodau mwy,  
 Yn rhinwedd glân ei farwol glwy'!  
 Ni all angelion nefoedd lon,  
 Cerubiad a seraffiaid hon,  
 Ac eppil Adda oll yn un,  
 Fynegu doniau Mab y Dyn."

## "DYODDEFAIHT CRIST.

"Er tywallt môr o waed,  
Trwy hwn ni chaed maddenant,  
Aneirif ebyrth, lleag eu rhyw,  
Rhy eiddil yw eu haeddiant.

Nid allai angel pur,  
Nac un creadur nefol,  
Nac aur na pherlau gwerthfawr drud,  
Trysorau byd amserol,

Ddilëu mawreddol rym,  
Effeithian awchlyma pechod;  
Na rhoddi iawn dros gamwedd dyn,  
A'i ddwyn yn un a'r Duwdod.

Mewn ing a gwaedlyd chwya,  
Bu 'n gogoneddus Geidwad,  
Ond ni ddifoddodd angen llym,  
Dragwyddol rym ei gariad.

Mewn dirfawr gur a gwawd,  
Pob rhan o'i gnawd oedd giwyfus;  
A'i enaid hefyd, anwyl Grist,  
Yn wir oedd drist a phoenus."

## "GWAITH GORPHENOL CRIST.

"Tan boenau trymion angen trist,  
Ar bren y groes bu 'r anwyl Grist,  
Gorphenodd ei ryfeddol waith:  
Pan y gogwyddodd ef ei ben,  
Fe dduodd gwawr y nefoedd wem,  
Cydgrymmodd seiliau 'r ddaiar faith.  
Gorphenodd datu gerffaiith iawn,  
Ennilodd fuddgyoliaeth iawn;  
Ac nid oes anghenrheidrwydd mwy  
Am waed nac aberth o un rhyw,  
Dros fyth i'n dwyn i heddwch Duw,  
Ond rhinwedd glân ei farwol giwy'."

## "ANGYLOHIADAU MARWOLAETH CRIST.

"Pwy lefodd dan locs y groes farwol gref?  
Ai f' Argiwydd fy hun, Duw ddyn ydoedd ef!  
Ai awdwr y bywyd yn waedlyd ei wedd,  
A waagwyd dan bwysau ein beiau i'r bedd!

Tri hoelliwyd ar grog, dau 'n euog a gaed,  
Un cyflon o'r tri a welli 'n rhoi waed;  
Ac hwn yn y canol, mae 'n wyrthiol i ni,  
Yn fwyaf dirmygus, truenus, o'r tri!

Pa grynu mae 'r llawr, arswydfawr mor syn,  
Pam greigiau 'r y'ch chwi yn hollti fel hyn?  
Ganwriad, pam, meddi, y curl dy fron,  
Os twyllwr a gafwyd i'r rhwyd yr awr hon?

Pa rwygaw o'r nen mae 'r llen hyd y llawr?  
Haul pam yr wyt brudd, dan orchudd yn awr?  
Chwi, seintiau, gorphwyswch, y llwch yw eich lle,  
Nid hwn yw 'r dydd cyfiri, i godi, nagê!

Och! angen di hedd, mor ryfedd dy rym,  
Dy allu sy fawr drwy 'r llawr yn dra llym—  
O fedd! ymegnia, dal yna 'n dy law,  
Bob graddau dan gloion o ddyinion a ddaw.

Cei filwyr o'th blaidd yn geidwald heb gel;  
A'r maen trwm, yn wir, osodir dan sêl;  
Myn gadw terfynau bro angen mewn bri,  
Rhag dygwydd bradwriaeth i'th deyrnas gaeth di.

Paham daeth gerbron genadon y nef,  
I edrych lle bu ei oer wely ef,  
Na thraethu 'r fath fawrion newyddion o hedd,  
Os dyn i'n sfugdwyllo fa yno 'n ei fedd?

Na! na! dyma 'r gŵr, Gwardwr gwir yw,  
Un dwyfol yn d'od o'i feddrod yn fyw;  
Y maes pan wynebodd, o'i wirfodd ei hun,  
Drwy wersyll marwolaeth y daeth Mab y Dyn.

Yn ngafael y bedd, er gorwedd yn gaeth,  
O'r frwydr yn rhydd, a'i dywydd, y daeth;  
Pob gelyn orchfygwyd, symudwyd y maen,  
Pyrth uffern yspelliodd, faluriodd o'i flaen.

Nid twyllwr, ond Duw pur ydyw 'r Mab rhad,  
Oen hyfryd un hawl, lor dwyfawl a'i Dad;  
Addoed cenedloedd a'r nefoedd yn un,  
Gan berffaiith gydnabod y Duwdod mewn dyn."

“ADGYFODIAD CRIST.

“Cyfododd brenin hedd,  
Iachawdwr dynolryw;  
Mewn gogoneddus wedd,  
O'r marwol fedd yn fyw;  
Ein bywiol Ben, esgynodd fry  
Goruwch pob llu, tudraw i'r llen.

O rwyman 'r anguen caeth  
Yn rhydd y daeth Mab Duw;  
Gorchfygu 'r bedd a wnaeth  
Mewn buddygoliaeth wiw;  
Derbyniodd ef bob gallu mawr,  
Trwy 'r ddaier lawr yn awr a'r nef.

Er bod ei gorff yn aghudd,  
Gan orehudd anguen 'n gaeth,  
I'r lan yn gwbl rydd,  
Y trydydd dydd y daeth  
Er bod tan glwy', ni allai 'r bedd  
Trancoedig wedd mo'i attal mwy.

Datglodd y barau dur,  
Dirymodd Iesu 'r sêl,  
Fe seih er gwastha'r gwyr,  
A'r frwydr faith heb gel;  
Ein Blaenor gwiw, er myn'd tan glo,  
Yr anguen dro, maef f'eto 'n fyw.”

“GORPHWYTHIAD.

“Mae achos llawenhan,  
Wrth gofio 'r boreu eu,  
Ennillodd Iesu 'n glau,  
Allweddau 'r dyfnder du:  
Fe dreiglwyd draw y pwysig faen,  
Yn rhydd o'i fiasen gan nefol law.

Er rhoi ar bren y groes  
Ei anwyl oes tan glwy',  
Gan anguen byth nid oes  
Awdurdod arno mwy;  
Agorodd ddêr y dyffryn du,  
O fiasen ei lu anwylaf Ior!

Daw 'r saint o lwch y bedd  
Ar wedd eu Priod eu;  
I lawn dragwyddol wledd,  
Mewn gwir orfoledd fry;  
Dyrcasiant draw o'r dyfnder cudd;  
Cânt dd'od yn rhydd mae'r dydd gerllaw.

Pan logo 'r ddaear lawr,  
A'i mawredd o bob rhyw,  
Fe genir am yr awr  
Daeth ef o'i fedd yn fyw;  
Bydd cof am hon gan ddysglaer lu,  
Ancirif fry, byth ger ei fron.”

“HMYN NIBIOLAETH CRIST.

“Ein hyder rho'wn yn Had y wraig,  
Anwylaf Crist ein nefol graig,  
Yr hwn dros weinion Sion sy  
Dynerol frawd, yn cirrif fry;  
Hoff red yr hedd yn frydian rhad,  
I ni o'i loes mewn anial wlad.

Hwn sydd yn awr ar orsedd nef,  
O draw a glyw ein dirgel lef;  
Mae 'n dadleu gwerth ei aberth rhad,  
Gwir Brynwr dyn, ger bron ei Dad,  
Pob cysur pur i lasu 'n poen  
A gaed o rinwedd gwaed yr Oen.”

“DAB. v. 9; A. xiv. 3.

“Mae 'r gwaed a roddodd ar y groes,  
O oes i oes i'w gofio,  
Rhy fyr yw tragwyddoldeb llawn  
I dd'weyd yn iawn am danu.

Prif destan holl canladau 'r nef,  
Yw, 'iddo ef, a'i haeddiant;  
A dyna sain telynu glân,  
Ar uwchaf gân gogoniant.

Mae hynod rinwedd gwaed yr Oen,  
A'i boen wrth achub enaid,  
Yn seinio 'n uwch ar dânu 'r nef,  
Na hyfyd lef seraffiad.

'Mhen oesoedd rif y tywod mân,  
Ni bydd y gân ond dechreu;  
Rhyw newydd wyrth o'i anguen drud,  
A ddaw o hyd i'r golen.

Nid yw canladau 'r nef yn awr  
Ond megys gwawr yn tori,  
A'r hon, fel amnaid fechan iawn  
Arddengys lawn oleuni.

Pan ddelo torf y cystudd mawr  
O'r anial dirfawr yno,  
Dylenwir croth pob dwyfol dant  
Ag uwch gogoniant iddo.

Er adrodd sain bob dobarth glân  
Ar ddirfawr gân ddi-ddarfod,  
Ni fydd eu dawn ond isel fri,  
Am waed i olchi pechod.”

“GAN FUDDYGOL Y SAINT WEDI YR  
ADGYFODIAD.

“Gogoniant byth i'r anwyl Un,  
A dynodd gelyn angau;  
Yspeilliodd uffern fawr ei grym,  
A rhyddion ydym ninnau.

Gorchfygodd Iesu ar brydnawn,  
Y ddraig a'i llawn gynllwynion;  
A'i waed a roddodd i'n giannau,  
A'n cânu ninnau 'n wynion.

Ohwi sereiff a cherubiad glân,  
Eich dawn rho'wch allan iddo,  
Y ddwyfol law a'n cododd ni,  
A'oh cadwedd chwi rhag syrthio.

O dewch, angelion, pa'm na ddewch,  
A chyd chwarewch eich tannau,  
A boed i sain Calfaria fryn,  
All ennyn eich telynu.

Os chwi a ganwch am eich dal,  
A'ch cynnal trwy ei allu,  
Ein dyled ni 'n fyrrd mwy a gaed,  
Am roi ei waed i'n prynu.

Ni ydym hil y codwm mawr,  
Aeth gynt i lawr yn Adda;  
Caed modd i'n gwneyd yn gwbl iach,  
Ar fynydd bach Calafia.

Hosanna, cawsom feddu 'r wlad,  
Yr hon a rad addawyd,  
Lle gwelir mawredd gwir Fab Mair,  
A gwerth y gair 'Gorphenwyd'

Chwi, batrieirch, deuwch, t'rewch y dda,  
Ac apostolion befyd;

A'r hen fertlyron ya mhob oes  
Dros Griat a roes eu bywyd.

Dadseiniad grymus anthem gref,  
Organau 'r nef ogoned,  
I enw 'r Dugdod yn y dyn,  
Pob dawn ya un emynned.

Ag aur delynau 'n gor dilyth,  
Heb orfod byth ymado;  
Cawn gydfwynhau tragwyddol hedd,  
A'n gwedd yn debyg iddo."

Y mae yr holl bennillion a ddifynwyd yn rhai gwir ardderchog; oer ynddynt iaith dda, acenion cywir, a syniadau uchel ac efengylaidd. Nid oes dim modd eu darllen heb deimlo yn ddwys. Trueni na fuasai yr holl emynau a feddwn yn yr iaith yn fwy tebyg iddynt o ran celfyddgarwch, a natur. Y mae yn drueni fod mwy o afierwch mewn iaith a syniadau yn nghyasegr Duw nag yn un man cyhoeddus.

Bu Mr. Robert Williams yn lled gynnil gyda'i farn neillduol yn ei emynau; ond y mae wedi dangos mewn un neu ddwy o honynt beth oedd yn feddwl; megys yn ei "Emyn ar Olygiad Crist ar Blant bychain."

"Bendithiodd ef y rhai'n yn rhwydd,  
Mewn dull yn arwyddedig,  
O'r fendith nefol, bur heb os,  
Fydd i'r rhai gostyngedig.  
Ond ni feddyddiodd mo'nynt chwath,  
Fe wnaeth ei waith yn addas;  
O ran fod eisien cyffes fydd,  
Yn neillaid rhydd ei deyrnas."

Y mae yr emyn uchod yn un o'r rhai sychaf a gyfansoddwyd ganddo. Cawn mewn un neu ddwy o'i emynau gyfeiriad at y milffwyddiant; megys,

"Pan fo moliant Iesu mawr,  
Dros daleithiau daear lawr,  
Mor werthfawr fydd y frainit;  
Eu hlsenor bywiol,  
Mewn natur ddynol,  
Fydd yn bresennol gyda 'r saint.

Bwrir pob traddodiad cas,  
Sy 'n gorchuddio Crist a'i ras,  
O'i sanctaidd deyrnas ef;  
Daw 'r byd presennol,  
Yn lle trigiannol,  
I'w ffoli 'n unol fel y nef."

Ac mewn emyn arall fe ddywed,—

"Mae 'r Sabboth mawr ar fyr i fod,  
Pan ei chwe' diwrnod heibio;  
A dyna 'r pryd caiff pawb o'r saint  
Mewn uchel frainit orphwyo:  
Bydd i'r ffyddlon, gywir dystion,  
O dir a moroedd ado 'r meirwon,  
Ar un cyfnod i gyfarfod,  
A'u gwobrywawl gywir Briod,  
Pan fwrio ef y ddraig i lawr,  
I'r dilyn mawr diwaelod:  
Yna union Frenin Sion,  
Fydd a'i babell gyda dynion,  
Ar falnc Dafydd, cyfiawn lywydd,  
Y dirion nef a daear newydd,  
A'i fawr lywodraeth tra fo chwyth,  
Ddiordfod byth ni dderfydd."

Rhywbeth tebyg i freuddwydion y Mormoniaid, yw son am deyrnasiad

personol Crist ar y ddaear; gwell genym glywed y bardd yn gollwng ffrwd ei awen ar beth mwy sicr, na'i wrandaw yn baldar-dd am filfwyddiant fel yr un sydd yn y pennillion a ddifynwyd. Y mae rhyw hyfrydwch meddwl i'w gael mewn darnau fel y rhai canlynol:—

“Gwir wylaf dda-grau helli—o lwyr och,  
I lawr af dan waeddi,  
At ei orsedd, mewn gweddi,  
A gwaed y Mab gyda mi.

“Drwy'r hoellion, a'r coronï—draw, a'i gur,  
Drwy y gwawd a'r poeri,  
Drwy y gwinegr, dir gyni,  
Drwy ei boen fawr, derbyn fi.”

“HEFYNIAD AM WLAW, YN 1826.

“Dad, eiddym duedd addas—gawodydd  
Gwywedig yw'n teyrnas;  
A mwyda di'r crindir cras,  
A da wlaw Duw Elias.”

Y mae ei englynion iddo ei hun, a'i gyfarchiadau i'w gyfeillion ac eraill, yn dra dyddorawl, fel na wyddis yn iawn yn mha le i ddechreu dethol. Rhoes atbiad rhagorol i Ddewi Wyn, pan oedd efe yn min anobaith, fel y canlyn,

“Er cwyno lawer canwaith— a gweled,  
Twyll y galon ddiffiath,  
Ni fyn Duw o fewn y daith,  
Droi neb i dir anobaith.”

Ychydig o englynion yn cyffinio ar ysmaldod a wnaeth efe erioed; canys yr oedd o dueddiadau gwahanol, yn enwedig tua'i ddyddiau diweddaf.

Cafodd fyw yn hir, a chafodd fwynhad o'i alluoedd yn bur agos i'r diwedd. Yr oedd yn 83 mlwydd oed pan fu farw, yr hyn a gymerodd le yn y Mynachdy bach, Gorphenaf ll, 1850. Yr englynion diweddaf a wnaeth oedd ar y testun “Adda cyn pechu,” y rhai sy fel y canlyn:—

“Addaf yn benaf fu'n bod—mwyn gynfab  
Mewn gwynfyd dibechod,  
Wr glân i eirio ei glod,  
Dewisodd Duw ei osod.

Y dyn newydd diniwald—urddolwyd  
Ar ddelw fendigaid;  
Pridd Eden, yn llen o'r llaid,  
Wnaeth Ion yn nyth i'w enaid.

Ei foreuol fawr awen—draw seiniodd  
Dros wyneb daearen;

Ag iaith bur yn goeth o'i ben,  
Bardd ydoedd uwch beirdd Eden.

Da lanwodd Duw ei lonaid—o anian  
Unol &r cerubiad;  
Fel hyn yn cychwyn y caid,  
Peiriannau pur ei enaid.

Pa uchod oedd cyn pechu—a'r dewrion  
Gre'duriaid i'w barchu;  
Fel cysgod rhyfeddod fu,  
Cywir ras o'n car Iesu.”

Y mae yr englynion blaenorol yn gystal a dim a wnaeth y bardd yn nghorff yr ugain mlynedd diweddaf, o ran newydd-deb cynganedd, purdeb iaith, a gwreiddiolder meddwl. Daliodd yr hen wr yn hir i brydyddu wedi i arwyddion dadfeiliad ymafnyd yn ei babell. Yr oedd ei law yn crynu er ys blyneddau, fel nad allai ysgrifenu ond gydag anhawswer, ond yr oedd ei feddwl yn gryf, a'i awen yn barod, hyd yn bur agos i amser ei ymddattodiad.

Fêi claddwyd yn Mynwent Abererch, ger Pwllheli. Gresyn na chyhoeddasiid rhyw gofiant iddo cyn hyn. Yr oedd ei farwolaeth yn un o destunau eisteddfod Madog, a derbyniodd Ioan Madog y wobr am y cywydd

goreu ar y testun. A chywydd gwych ydyw. Nid ydym yn ammheu, pe buasai fodd i'r bardd ei weled, na fuasai wrth ei fodd yn hollol, er mor anhawdd ei foddhau ydoedd â gwaith rhai eraill.

Wrth ystyried mor gymeradwy oedd Robert ab Gwilym Ddu, a'i waith, ni fuasai yn syndod pe gwerthasid deng mil o gopïau o hono; ond drwg genym orfod mynegu mai yn araf iawn y bu y gwerthiant, ac mai llai o lawer a werthwyd nag a ddysgwylid; yr hyn sydd yn mynegu yn gryf fod y Cymry ymhell yn ol eto mewn gwybodaeth a chwaeth ragor cenedl y Seison; ac fod ein hysbryd sectol yn ein canlyn i farchnad y llyfrau ac i bob marchnad arall. Ychydig iawn eto o'r bobl gyffredin sydd yn meddu ar ddigon o annibyniaeth meddwl i brynu llyfr, nac i wrandaw pregeth, o herwydd gwir werth y naill neu y llall; ond eir gormod wrth gymeradwyaethau rhai eraill. Rhaid ein cael o'r dulliau hyn, cyn y gellir ein cyfrif yn genedl annibynol, ddeallus, a goleuedig.

O. Y.—Y mae ychydig o gamgymeriad wedi dygwydd yn nechreu y traethawd ar Athrylith a Gweithion Thomas Edwards, o'r Nant, yr hwn a ellir ei wella drwy i'r darllenwyd dynu ei bin ar draws y geiriau "oedd yn byw yn Mhentrefoelas," y rhai a geir wedi darllen tua phedair ar ddeg o linellau. Wrth gopïo y dygwyddodd y camgymeriad.

## ADDYSG AT Y WEINIDOGAETH.

Y MAE ei phregethwyr wedi bod o fendith fawr i Gymru yn y can' mlynedd a aethant heibio, ac yn rhwym o fod naill ai y fendith neu y felldith fwyaf rhagllaw i ni yn gystal ag i bob cenedl arall; ac, o ganlyniad, y mae o'r pwys mwyaf pa fath fyddont, nid yn unig o ran eu duwioldeb, ond hefyd o ran eu gwybodaeth a'u dysg. Nid ydym ni o'r dosbarth a honant fod cymhwysderau y weinidogaeth yn gynnwysedig mewn unrhyw amaethiad a gosodiad dynol yn unig. Y mae yn ddichonadwy cyrhaedd y pethau hyn i'r graddau perffeithiaf y gall dyn eu meddu, ac yn y modd mwyaf rheolaidd (yn ol yr hyn a gyfrifir gan rai yn rheolaidd), ac eto fod Duw yn dywedyd wrth y cyfryw, "Beth sydd i ti a fynegech ar fy neddfau, neu a gymerech ar fy nghyfammod yn dy enau?" Ar yr un pryd, un o'r arwyddion mwyaf amlwg o iselder a dirywiad mewn crefydd ysbrydol yw, fod unrhyw gangen o'r eglwys yn boddloni ar weinidogion, nid yn unig o wehilion y bobl, ond heb eu bod, a'u cymeryd oll gyda'u gilydd, yn ddosbarth o'r dynion goreu yn y wlad, o ran eu duwioldeb, eu synwyr, eu doniau, eu gwybodaeth, ie, a'u dysg. Yr ydym ni fel cenedl wedi mwynhau y fendith hon i fesur lled helaeth, o ddechreuad y Diwygiad Methodistiaidd, fel ei gelwir, hyd yma; a'r hyn yr ydym yn pryderu yn ei gylch, ac y mynem alw sylw ato yn arbenigol yw, na byddo i ni golli golwg ar y peth hwn yn ei berthynas â'r amser dyfodol yn wyneb y cynhwrf ynghylch addysg cyffredinol, a'r cynnydd sydd mewn manteision yn ein mysg. Y mae swydd a sefyllfa gweinidog yr efengyl y fath ag y cymerir yn ganiataol ei fod i flaenori yn mhob peth, gan hyny dylid gwneuthur pob ymdrech

ar iddo fod yn feddiannol ar yr hyn sydd yn anghenrheidiol i gyrhaedd a chadw y tir hwnw, fel na ddarostynger urddas y weinidogaeth. Os oes pwys i'r dynion sydd yn trin amgylchiadau teyrnasoedd y byd hwn fod wedi cael manteision helaeth, pa faint mwy gweinidogion teyrnas nefoedd — y rhai sydd yn "oruchwylwyr ar ddirgeledigaethau Duw?"

Wrth i ni edrych i hanes yr eglwys yn mhob oes, yr ydym yn canfod mai un o'r pethau cyntaf mewn cysylltiad â gwybodaeth fyddai darpar gogyfer â rhoddi dysg i'r neb a ymgynnygient am swydd y weinidogaeth; ac o'r ochr arall, fod llacio mewn ymholi ynghylch eu gwybodaeth a'u dysg, yn gystal a'u crefydd hwy, yn un o'r pethau mwyaf amlwg mewn cysylltiad â gwybodaeth. Yn y canol oesoedd, neu yr oesoedd tywyll, fel eu dynodir, nid oedd yr offeiriad, fel corff, ond "ffyliaid a deillion," yn gwneuthur pob afdendid yn un chwant; ac er hyn oll, mynent i bawb feddwl eu bod yn dra chrefyddol. "A chanddynt rith duwioldeb, eithr wedi gwadu ei grym hi." Iê, yr oeddynt yn hōni eu bod mor dduwiol ag i gyflawni "gweithredoedd da uwchlaw yr hyn a orchymynwyd." A pha bryd y bu gan neb fwy o ddylanwad ar eu dysgyblion, ac y dangoswyd mwy o ryw fath o aidd dros yr hyn a ystyrient hwy yn wir grefydd, na'r pryd hwn? Yn yr amseroedd hyn, a chan y bobl yma, y dygwyd ymlaen yr hyn a alwent yn "Rhyfeloedd Sanctaidd," neu "Ryfeloedd y Groes," o dan lywodraeth rhyw fath o ŵyn grefyddol. Nid ydym yn haeru mai anwybodaeth yn unig oedd gwreiddyn yr holl ddrygau oedd yn ffynu y pryd hyny, ac mai y meddiant o honi hi a fu, ac sydd, yn feddyginiaeth rhagddynt; er hyny, y mae yn eithaf amlwg fod y tywyllwch dudew ag oedd yn gorchuddio y bobloedd yn y cyfnod hwnw, yn gyfleusdra i bob bwystfil aflan ddyfod allan o'i loches. Pwy hefyd, a pha fath rai, oedd yr Arglwydd yn eu codi fel offerynau diwygiad yn mhob oes? Onid rhai ag yr oedd yn ei ragluniaeth wedi trefnu iddynt gael manteision dysg a gwybodaeth? Onid rhai felly a fu yn brif offerynau y diwygiad yn Nghymru? Ac onid y cyfryw a hyny oedd Calfin a Luther, a'u cydlafurwyr, ar y Cyfandir? "Gwawr adfywiad dysgeidiaeth," meddai Dr. Pye Smith "oedd rhagredegydd y diwygiad; ac yr oedd y naill yn cydfyned â'r llall ac yn gynnorthwyol i'w gilydd. Llafuriodd y dynion enwog ag oeddynt yn olygwyr ac offerynau dysgeidiaeth a chrefydd er rhoddi nerth adnewyddol i addysg elfenol ac uchraddol. Adfywiwyd a gwllawwyd yr athrofaâu, a sylfaenwyd rhai newyddion. Yr oedd Calfin, Luther, Melancthon, Peter Martyr, Bucer, a lliaws o'u cyfeillion a'u holynwyr, yn athrawon colegau. Arferai y diwygwyr ddywedyd, ac nid heb reswm, '*Ni a gollon yr efengyl, os collon ni ddysgeidiaeth.*'" Gellir dywedyd yr un peth hefyd am y Puritaniaid yn Lloegr, yn gystal ag am y rhai a fuont yn brif foddion a chyfnerthiad pob diwygiad, cynt a chwedi, yn mhob gwlad ac oes. Y mae Ymneilldŵwyr Cymru yn eithriad i holl enwadau crefyddol y byd yn eu hwyrffrydigrwydd i roddi dysg i'r rhai a fwriedir yn weinidogion yr efengyl. Ar ryw gyfrifon, y mae yn syndod na buasai tadau y Diwygiad Methodistiaidd yn trefnu moddion addysg i'w pregethwyr ieuaine, fel rhan o'u cyfundrefn, gan eu bod hwy eu hunain wedi cael manteision helaeth; a'r rheswm am y diffyg hwn, dybygid, yn gystal a chynnaliaeth y weinidogaeth, yw, nad oedd ganddynt y bwriad lleiaf i ffurfio plaid ar wahân oddiwrth yr Eglwys Wladol, a chan hyny, nad oedd anghen am unrhyw ddarpariaeth gogyfer y naill na'r llall, heblaw yr hyn oedd eisoes yn

hanfodi. Pa beth yw yr achos o'r annybendod o hyny hyd yn awr yn mysg eu holynwyr, nid awn i geisio dyfalu; ond dymunem i gyfeillion crefydd ystyried nad yw ei effeithiau yn gwbl anamlwg yn bresennol, a diau y deuant yn fwy i'r golwg eto oddieithr i'r pwnc gael lle mwy difrifol yn meddyliau ac ymdrechïadau y neb y perthyn iddynt.

Y mae yn ddiammhau fod y colegau—neu pa beth bynag y gelwir hwynt—sydd eisoes yn Nghymru, wedi ateb dybenion daionus iawn yn barod, yn y wedd sydd arnynt; ond yr ydym yn hyderu nad ydynt ond rhagarweiniad i bethau mwy. Wrth ystyried yr amddifadrwydd o efanteision oedd yn ein maysg, nis gallasai fod dim yn well na bod y naill enwad yn codi ysgol yn y parth hwn, a'r llall yn y parth arall o'r Dywysogaeth; ond y mae hyn drachefn, a dim ond hyn, yn gadael dysgeidiaeth heb ei chodi i'w safon briodol ei hun, ar gyfrif yr anfanteision sydd ynglŷn â sefydliadau ar gylch mor fychan. Byddai un coleg cyffredinol ar egwyddorion rhyddion yn fwy effeithiol na'r cyfan tuag at ddyrchafu gwir ddsgeidiaeth; ac nis medrwn ni ganfod paham nad allem gael un felly. Dylai sefydliad o'r natur yma fod yn berffaith rydd oddiwrth bob peth enwadol. Byddai coleg o'r fath yma yn debyg o roddi nerth a bywiogrwydd adnewyddol yn yr ysgolion presennol, a galw i fod lawer o rai cyffelyb, i'r dyben o barotai gwyr ieuainc i gyrrhaedd graddau uwch, fel y gellid hyderu y byddai yn ddechreuad cyfnod newydd ar addysg yn ein maysg. Cyn y gellir dysgwyl, yn rhesymol, weled y rhai a fyddout yn ymgeiswyr am y weinidogaeth, yn gyffredinol, wedi cyrrhaedd graddau lled helaeth mewn dysg, y mae ya rhaid i rywbeth tebyg i hyn gymeryd lle, fel y byddont wedi cyrrhaedd y tir hwnw cyn ymgynnyg yn benderfynol am weinidogaeth yr efengyl. Cychwyn yn y llwybr hwn a fyddai yn gychwyn yn yr iawn gyfeiriad. Gwyddom fod yr amcan ar feddyliau amryw o wŷr galluog a dysgedig yn ein gwlad, a gobeithiwn y bydd rhyw gyffro yn cael ei wneyd, a threfniadau yn cael eu llunio, tuag at ei ddwyn yn fwy i sylw. Nid oes ynom y petrusder lleiaf na ddeuai llawer o foneddigion cyfoethog a haelfrydig allan yn galonog i weithredu yn yr achos wedi y rhodder unwaith ysgogiad iddo.

Ond wedi cael hyn oll, byddai diffyg mawr yn aros drachefn, nad yw yn cael ei wneyd i fyny ond i fesur tra anmherffaith, o anghenheidrwydd, yn y sefydliadau presennol, am nad yw yr efrydwyr, yn y cyffredin, wedi myned drwy y rhagarotoadau anghenrheidiol; oddieithr troi y rhai hyny yn hollol i weinyddu yr addysg a fyddo yn dwyn perthynas neillduol ac uniongyrchol â'r weinidogaeth, ac ymdrech yn cael ei wneyd tuag at eu bod mor effeithiol ag y byddo modd i ateb y dyben hwnw, drwy roddi rhyw ychydig o help i'r myfyrwyr i ymgynnal i ddilyn eu hefyrdion, a threfnu myfyrgylch iddynt fyned drwyddo fel y gallent gyfarfod âg arholiad lled fanwl yn y canlyniad. Dichon fod rhai o'n darllenwyr yn barod i ddychrynu rhag y syniad hwn, ac i ystyried y byddai unrhyw gynnyg am gylch o addysg i ddyn gyda bwriad uniongyrchol iddo fod yn weinidog yr efengyl yn terfynu ar ryfyg, os nad ar rywbeth gwaeth; a bod y neb a wnelai hyny yn rhwym o wadu yr anghenheidrwydd am gymhwysderau wedi eu derbyn trwy yr Ysbryd Glan, gan arosod amaethiad a dysgeidiaeth ddynol yn eu lle. Ni fynem ar un cyfrif archolli teimlad neb ag sydd mewn pryder difrifol rhag i gymhwysderau ysbrydol y weinidogaeth gael eu hiselu; ond ar yr un pryd, y mae yn rhaid i ni gydnabod nad ydym



wedi ein cynnysgaethu â'r wreichionen leiaf o gydymdeimlad âg ambell un a fynai ddwyn hyn ymlaen fel rheswm yn erbyn manteision gwybodaeth. Y mae ymddygiadau y cyfryw yn dangos yn eglur mai gwir ewyllys eu calon fyddai dwyn y byd yn ol i'r llecyn tywyllaf yn y canol oesoedd. Ond er ein bod i weddio ar "Arglwydd y cynauaf i anfon gweithwyr i'r cynauaf," a bod y rhai y mae efe yn eu hanfon i "ddadguddio ei Fab ynddynt fel y pregethont ef" i fod yn ddynion wedi eu "neillduo o groth eu mam, a'u galw trwy ras Duw," ac mai iddo ef y perthyn "gosod ynddynt air y cymmod;" er hyny, rhyfyg ynom fyddai dysgwyl iddo ef gyflawni y diffygion ag y mae yr eglwys mewn gallu a chyffesuadra i'w gwneyd i fyny. Cymetid ymaith drwy hyny un o'i dyledswyddau mwyaf pwysig, ac, o ganlyniad, amddifadid hi o fraint gyfatebol. Ein doethineb ninnau fyddai adnabod ein gwaith, a deffro i godi y bylchau ag y mae amgylchiadau ac arwyddion yr amseroedd yn eu gosod yn amlwg o'n blaenau. Gellid tybied ein bod wedi canmawl digon arnom ein hunain bellach, ac nad ydym allan o berygl drwy hyny o golli yr olwg ar ein diffygion a'r gwaith sydd eto i'w gyflawni, nes o'r diwedd myned mor bell a dywedyd mewn ymddygiad, "Goludog wyf, mi a gyfoethogais, ac nid oes arnaf eisieu dim." Gwelwyd ambell un wedi cael ei demtio i siarad yn lled hyf am dano ei hun, o anghenrheidrwydd, hwyrach, ar y cyntaf mewn ffordd o hunan-amddiffyniad, neu, fe allai, mai oddiar ryw ddigrifwch diniwed y dechreuodd; ond wedi unwaith gael blas ar hyny, aeth i feddwl o'r diwedd nad rhyw lawer oedd o'i gyffelyb, ac i deimlo cysur yn y dyb hunanol nad ydoedd yn llawn diffygion fel dynion eraill. Y mae yn ddichonadwy i genedl, ac yn wir i enwad crefyddol, fyned yn rhy bell i'r tir yma, ac i hyny fod yn ddinystri i bob cymhelliad i lafur ac ymdrech. Os yw Ymneilldŵyr Cymru i wneuthur mwy o ddaioni nag a wnaethant, ac i ddal gafael yn meddyliau y genedl, yn ol pob tebygolrwydd y mae yn rhaid i'r diffyg mewn manteision addysg at y weinidogaeth gael ystyriaeth fwy difrifol, ac i'r symudiad yn y cyfeiriad hwn fod yn gyflymach. Gan y dysgwylir i'r pregethwr, nid yn unig fod yn esiampl mewn ymarweddiad duwiol, ond hefyd bod yn alluog i arwain y neb y mae yn troi yn eu mysg mewn gwybodaeth, oni ddylid bod yn fwy manwl mewn ymchwiliad pa mor bell y mae yr ymgeisydd wedi bod yn llwyddiannus i ddodrefnu ei feddwl â'r defnyddiau anghenrheidiol tuag at fod yn ddefnyddiol yn yr alwedigaeth y mae ei wyneb arni? Dylid cael gwybod nid yn unig pa beth yw cymhwysderau y gŵr ieuanc i siarad, ond hefyd pa fath yw ei alluoedd i gyrhaedd gwybodaeth; nid pa beth y mae yn ei gredu yn unig, ond hefyd pa faint y mae yn ei wybod: ac os na wneir hyn gan y rhai a'i derbyniant, nid yw yn annhebyg o gael ei ofyn, mewn effaith, gan ei wrandawyr.

Yn awr, gan fod ysgol o'r fath a nodwyd yn beth lled ddyeithr, fe ddichon, i rai o'n darlennyddion, y mae yn deg i ni egluro ychwaneg yn ei chylch, a'r ffordd rwyddaf yw cyfeirio at rai sydd eisoes wedi eu sefydlu. Ni ddygwyddodd i ni wybod am neb wedi ymgymeryd â'r gorchwyl hwn gyda mwy o aidd a difrifwch, a chychwyn ar gynllun sydd yn debyg o fod yn fwy effeithiol, na'r Eglwys Rydd, yn yr Alban. Un o'r pethau cyntaf wedi i'r ymadawiad gymeryd lle ydoedd darparu gogyfer âg addysg dduwinyddol y rhai hyny o'r efrydwyr ag oedd yn ymddarparu i'r weinidogaeth y pryd hwnw a fwrient eu coelbren yn mysg yr Ymneilldŵyr, a'r rhai hefyd a gyfodai yn eu plith hwy eu hunain mewn amser dyfodol. Agorwyd

dwy ysgol y pryd hyny allan o law, un yn Edinburgh a'r llall yn Aberdeon; ac erbyn hyn, y mae adeilad ïang a hardd wedi ei chodi yn y lle blaenaf. Yr oedd y draul o godi yr adeilad hon, ynghyd â chapel perthynol iddi, uwchlaw tair mil ar ddeg ar hugain o bunnau.<sup>1</sup> Cymerwyd y pwnc i fyny gan rai o'u dynion blaenaf fel gorchwyl pwysig i'w gyflawni, a hyny mewn adeg ag yr oeddynt yn brysur yn adeiladu canoedd o gapeli, a golwg ar gael y cyfan yn ddiddyled yn ddioced. Y mae yn y colegau hyn naw o athrawon (*professors*), a dau neu dri o is-athrawon, ac y mae eu cyflogau ynghyd yn cyrhaedd dros bedair mil o bunnau yn y flwyddyn.<sup>2</sup> Y mae y cyflogau hyn yn cael eu gwneyd i fyny mewn rhan drwy daliadau yr efrydwyr, ac mewn rhan drwy gasgliadau cynulleidfao, a rhoddion personol; ac nid yw yn ymddangos y bydd eu hymdrechion ar ben nes cael cronfa helaeth er cynnal i fyny safon yr addysg a gyfrenir, a sicrhau gwasanaeth y dynion goreu fel athrawon. Ond na ddychryned y darllen-ydd: nid ydym yn dwyn hyn ger bron gan feddwl y gallir cael y Cymry, yn yr oes yma beth bynag, i ymosod ar orchwyl â'i gyloch mor ïang, a'i gostau mor fawrion, ond yn unig er dangos pa bethau eu maint y mae eraill yn eu gwneuthur oddiar eu cariad at y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu, a'u gofal am ei lwyddiant yn y byd. Er hyny, y mae yr hyn a wneir yn effeithiol ganddynt hwy yn amcan a ddylai fod mewn golwg genym ninnau.

Y tymmor gofynedig i fod o dan addysg yn eu mysg hwy yw pedair blynedd; a chofier mai rhai wedi myned drwy yr ysgolion eraill, a threulio tair neu bedair blynedd yn un o'r prif athrofydd, a dderbynir ganddynt—rhai wedi cyrhaedd gwybodaeth helaeth yn yr ieithoedd dysgedig, gwyddor-egau, athroniaeth, a llên-yddiaeth; a dywed Dr. Cunningham yn ei araeth ar agoriad y coleg newydd “y dylid sefydlu bwrrd o arholwyr, yn meddu cyflawn awdurdod i anfon y cyfryw na byddont wedi gwneuthur cynnydd boddlonol yn y rhagddarpariadau gofynedig, yn ol at eu hefrydion.” A ganlyn sydd fraulun o'r modd y treulir y tymmor hwn:—

“Treulir y flwyddyn gyntaf,” medd Dr. Cunningham, “gyda duwinyddiaeth naturiol, profion Cristionogaeth, awdurdod, ysbrydoliaeth, a tharddiad dwyfol yr Ysgrhythrau. Yn yr ail a'r drydedd flwyddyn, eir ymlaen gyda'r athrawiaethau pwysig a gynnwys yr Ysgrhythrau, sydd yn dwyn perthynas fwy uniongyrchol â chwmp ac adferiad pechaduriaid, cyflwr a sefyllfa dynion yn unigol, neu yr hyn a gynnwysir yn fwyaf cyffredin yn y gair athrawiaeth, pan ei defnyddir yn ei ystyr gyfyngaf, i'w wahaniaethu oddiwrth addoliad, llywodraeth, a dysgyblaeth eglwysig. Ac yn y bedwaredd flwyddyn, sef yr olaf, cyfeirir i'w hefrydiant at yr hyn a ddygir yn yr Ysgrhythrau ynghylch eglwys neu deyrnas Crist, ei natur, ei hansawdd, ei llywodraeth, a'i threfn, gan gynnwys, wrth reawm, y weinidogaeth a'r sacramentau.”

Gwelir yn eithaf eglur oddiwrth hyn nad yw yr Eglwys Rydd yn anfon ei gwŷr ieuainc, a fyddo yn ymbarotol at y weinidogaeth, i'r ysgol i *ddyysgu ddiogi*; ond ei bod yn darparu digon o waith iddynt, ac yn mynu cael gwybod ar ddiwedd y tymmor hwn pa fodd y treuliasant eu hamser, ac yr aethant drwy y gorchwyl a osodwyd o'u blaenau; ac nid ystyrir hyn ychwaith yn amgen na'u cychwyn ar ben y ffordd, a chenedlu chwaeth a

<sup>1</sup> Cymerwyd y cyfrif uchod o draul codi yr adeilad, ynghyd â'r dyfynion a wneir o araeth Dr. Cunningham, allan o hanes agoriad y Coleg Newydd, fel yr ymddangosodd yn y “*Witness*” (newyddiadur wythnosol a gyhoeddir dan nawdd yr Eglwys Rydd), am Tachwedd 9, 1850.

<sup>2</sup> “*Proceedings of the General Assembly*,” Mai, 1850: tudal. 155—157.

fyddo yn cynnyddu yn eu meddyliau mewn awyddfryd i barhau ar hyd eu hoes i "chwilio yr Ysgrhythrau." Wrth son mewn cysylltiad â hyn am yr anghenrheidrwydd i arwain meddyliau y myfyrwyr i efrydiaeth feirniadol o'r Ysgrhythrau yn yr ieithoedd gwreiddiol, a bod hyny wedi cael ei esgeuluso yn ormodol yn y cant a hanner o flyneddau a aethant heibio, dywed ymhellach :—

“ Nis gallaf fi, er yr holl gynllun sydd wedi ei oed o'ch blaenau, ddyweyd fod yr Eglwys Rydd wedi gwneuthur darpariaeth gyfatebol i'w werth a'i bwysigrwydd, ar gyfer y rhan yma o efrydiaeth dduwinyddol. Y mae yn wir fod mewn eglurhad rheolaidd o'r gyfundrefn o dduwinyddiaeth Gristionogol, os dygir ef ymlaen yn briodol, gyfeiriad mynych i'r Ysgrhythrau, ac ymchwiliad manwl i'w hystyr; oblegid ei ddyben yw dwyn allan yr athrawiaeth hono sydd yn gorwedd ar awdurdod gair Duw; ac y mae yn hysbys i amryw o honoch fod fy nghyd-athraw, Dr. Buchanan, yn y rhan a berthyn iddo ef, yn cymeryd i mewn i efrydwyr yr ail a'r drydedd fiwyddyn, eglurhad gyflawn ar y rhan athrawiaethol o Epistol Paul at y Rhufeiniaid; ond nid yw yn ddichonadwy caniatáu i'r pwnc o eglurhadaeth feirniadol yr Hen Destament a'r Newydd yr amser a'r sylw sydd yn anghenrheidol. Y mae llawer o bethau yn gysylltiedig â hanes a llenyddiaeth yr Ysgrhythrau na ddylai gweinidogion yr efengyl fod yn anwybodus ynddynt, a dylid edrych a ydynt yn ymofyn am danynt yn eu myfyrgelech duwinyddol. Dylid rhoddi eglurhad manwl a helaeth ar reolau beirniadaeth, ynghyd â chymhwysiad ymarferol o honnynt. Mewn cylch rheolaidd o'r addysg dduwinyddol, y mae yn gweddu yn ddlammhau rhoddi yr amser a thalu y sylw hwn i lyfrau yr Ysgrhythrau; ac yn wir diffyg mawr yn eglwysi Crist yn amseroedd a aethant heibio, oedd, fod can lleied o ofal yn cael ei gymeryd ynghylch y rhai a anfonid ganddynt yn ddysgawdwyr i eraill mewn duwinyddiaeth Gristionogol, eu bod yn meddu gwybodaeth mor amherffaith ac arwynebol o air Duw.—fod mor ychydig o nifer yn alluog i egluro meddwl yr Ysgrhythrau mewn modd deheuig a dealladwy, hyny yw, mewn llawn feddiant o'r defnyddiau anghenrheidol, ynghyd â pharodrwydd i'w defnyddio a'u cymhwys;—yn fyr, gyda chydabyddiaeth gymhwys â'r gangen o esboniadaeth ysgrhythrol. Dylai fod yn amcan o'r pws mwyaf, bob amser, ac o dan bob amgylchiadau, mewn unrhyw gynllun o addysg dduwinyddol, i sicrhau fod i weinidog yr efengyl feddu gwybodaeth feirniadol äng a manwl o'r Ysgrhythrau yn yr ieithoedd gwreiddiol.”

Dichon fod y darlennydd yn barod i ofyn, Pa anghenrheidrwydd sydd am hyn oll i'r Cymry? Ai nid oes yn ein mysg weinidogion a fyddai yn aurrhydedd i unrhyw genedl, mewn doniau, gwybodaeth, a defnyddioldeb, na chawsant fanteision fel hyn yn eu hieuenctid? Cydnabyddwn hyn oll gyda'r rhwyddineb mwyaf; ond attolwg, ai nid y rhai sydd wedi llafurio helaethaf sydd yn cwyno fwyaf na buasant wedi cael gwell manteision yn eu dyddiau boreuaf, ac sydd fwyaf awyddus i gyflenwi y diffyg gyda golwg ar y rhai sydd yn dyfod ar eu holau? Nid ydym yn ammheu na bu rhai, ac nad all fod eto rai, yn ddefnyddiol, na fedrent un iaith ond iaith eu mam, ac heb ond ychydig o lyfrau heblaw y Bibl; ond eithriad pur anghyffredin ydyw. Pa fath ddynion a fu yn brif offerynau i ddwyn achos crefydd i'r hyn ydyw yn bresennol yn Nghymru? Onid rhai wedi cael graddau o fanteision yn moreu eu dyddiau, neu wedi gwneuthur y diffyg hwnw i fyny i fesur, drwy lafur a dyfalwch anarferol, ag yr oedd ei effeithiau i'w weled ar eu cyrff yn gystal ag ar eu heneidiau. Ond yn y lle hwn ni a adäwn i Dr. Cunningham lefaru unwaith eto :—

“Y mae yn annichonadwy sylwi ar agwedd bresennol llenyddiaeth dduwinyddol heb fod yn hollol argyhoeddedig ei fod yn wirionedd eithaf amlwg yn y dyddiau yr ydym ni yn byw ynddynt, y rhaid i'r ymofynion pwysig, 'Pa beth yw yr

Ysgrythyrau—i wasanaethu pa ddybenion y maent wedi eu bwriadu a'u cyfaddasu, a pha bethau a ofynant i ni gredu,—gael eu hamddiffyn ar faes yr Ysgrythyr ei hun,—y rhaid eu penderfynu drwy ymchwiliad i'r testunau gwreiddiol yn yr Hebraeg a'r Groeg; ac wrth wneuthur ymchwiliad i'r ymofynion hyn, dylai amddiffynwyr y gwirionedd fod wedi eu harfogi i wrthwynebu dynion a fyddo yn gwyrddroi yr Ysgrythyrau, neu hyd yn nod yn gwadu yn hollol eu tarddiad a'u hawurdod dwyfol, ac eto yn dra chydabyddus â llythren y Bibl yn yr ieithoedd gwreiddiol, ac yn berffaith hysbys o'r holl ddefnyddiau beirniadol."

Pwy sydd yn barod i ammheu gwirionedd hyn, ac i haeru fod Cymru yn ddiogel rhag y perygl? Onid yw yn hysbys fod "dirgelwch yr anwiredd yn gweithio eisoes," a bod "yr anwir hwnw" wedi gosod ei babel ar dir ein gwlad? Ac os oes rhyw un yn tybied nad oes dim a fyno y rhai sydd yn dwyn nôd y bwystfil â'r Bibl, wrth ddadleu o blaid eu crefydd, y mae yn twyllo ei hun. Y maent yn fwy parod o lawer nag Esgob Exeter i ddangos fod sail eu cred yn yr Ysgrythyrau, a hyny i amddiffyn yr anferthwch mwyaf gwrthun a berthyn i'r grefydd Babaidd. Nid ydym yn ammheu ychwaith nad oes sail i ofnau llawer o ddynion difrifol a gwylieyddion effro yn ein mysg, fod elfenau anffyddiaeth yn ei ffurf waethaf yn lefinio meddwl llawer bachgen o Gymro yn y dyddiau hyn, ac y gall hyny, wedi hir groni ac ymweithio a thori allan, wneuthur galanadra mawr yn ngwersylloedd Sion. Yn awr, os hyn yw sefyllfa pethau yn ein gwlad, yr ymofyniad difrifol sydd yn canlyn yw, A ydym ni yn barod i wynebu gelynon ein crefydd, pe byddai achos am hyny, nid yn unig o ran tymher ac ansawdd ein hysbrydoedd, ond hefyd o ran gallu a chymhwysder gwybodaeth a dysg, i drin arfau ein milwriaeth yn y fath fodd ag y mae genym sail i ddysgwyl y gorchfygem wrthwynebwyr yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb? Y mae profiad erbyn hyn yn dangos fod llawer un ag yr oedd digon o broffion o'u duwioldeb a'u cariad at y gwirionedd wedi gwneyd llawn cymaint o niwed, os nad mwy, nag o les wrth geisio ei amddiffyn, am nad oeddynt yn meddu y cymhwysderau anghenrheidiol i'r dyben hwnw. Pe byddai rhywrai yn y meddiant o ddysg a gwybodaeth helaeth yn "gŵyrdroi yr Ysgrythyrau i'w dinystr eu hunain" a'r rhai a wrandawent arnynt, ai ni byddai yn dra galarus oni allai y nifer liosocaf, beth bynag, o weinidogion yr efengyl sefyll ar yr un tir a hwythau, a chyd-dystio eu "bod yn cyfeiliorni, am na byddent yn deall yr Ysgrythyrau?" Yr ydym yn berffaith barod i fyned mor bell ag y dymunai calon y darllenydd i gydnabod nad oes dim o fwy o bwys na bod y neb a fyddo yn cyhoeddi mai "gwir yw y gair—ddyfod Crist Iesu i'r byd i gadw pechaduriaid," yn gallu tystio hyny oddiar brofiad ei fod ef ei hun wedi "cael trugaredd;" ond pwy sydd barod i sicrhau nad all fod amseroedd mor enbyd heb fod ymhell iawn oddiwrthym ag y bydd yn anghenrheidiol i weinidogion yr efengyl roddi rheswm am y gobaith sydd ynddynt, drwy alw yn gymhorth iddynt ddysg a gwybodaeth i egluro, a phrofi, yn yr iaith Gymraeg, nad pentwr o chwedlau paganaidd yw sail eu crefydd? Ac oni ddylai yr eglwys ymysgwyd ac ymarfogi, fel y gallo sefyll yn y dydd drwg, gan ei bod i sefyll neu syrthio, yn y peth hwn, yn benaf yn ei gweinidogion? Dywedir nad oes eisieu dim ond y Bibl i wynebu ar holl ddrygioni y byd, o dan ba ffurf bynag y byddo. Yr ydym yn addef mai y cyhoeddiad noeth o'r efengyl yn ei aymrlwydd naturiol yw y moddion arbenig a ordeiniodd Duw i ddarostwng annuwioldeb, ac i achub pechaduriaid; ond y mae yr un mor amlwg ei fod wedi bwriadu i'w air ddwyn allan

farn i fuddygoliaeth ar bob ystryw a fedd y gelyn i'w wrthwynebu, ac i ymddangos yn y diwedd yn fwy na ohonwerwr, fel dadguddiad o drefn Duw i achub pechaduriaid yn wyneb pob gwrthwynebiad a ddygir i'w erbyn gan ei elynion o dan yr enw o wybodaeth. Y mae yn ymddangos fod y tymmor i'r un drwg wrthwynebu llwyddiant yr efengyl trwy ddylanwadu ar baganiaeth y wlad i gynnyrchu erlidigaeth, wedi myned drosodd; ond gwrthwynebwyr yw ef er hyny; ac nid yw yn llai peryglus i iachawdwr-iaeth eneidiau, pa un bynag ai yn "rhith angel y goleuni," mewn ffurf o grefydd, yr ymddengys, ai mewn gwrthwynebiad noeth a chyhoeddus i awdurdod a dwyfoldeb gair yr Arglwydd y byddo. Ië, y mae hanesiaeth yn dwyn i'r goleu y ffethiau galarus fod cyfeiliornadau ac anffyddiaeth wedi attal mwy ar lwyddiant yr efengyl nag unrhyw erlidigaeth a gyfodwyd erioed yn ei herbyn.

Dichon nad yw yn ystyriaeth annheilwng o sylw, y gall ein difaterwch ni i fagu a meithrin y rhai y mae genym le i hyderu fod Pen yr eglwys wedi eu cynnysgaethu âg ysbryd a doniau y weinidogaeth, drwy roddi pob annogaeth a help iddynt ymofyn am wybodaeth a dysg, beri i'w Ysbryd ein gadael, ac mai pan y bydd y gelyn yn "dechreu ein cystuddio" y byddwn ni yn "deffro o'n cwsg," ac yn dywedyd, "Af allan y waith hon fel cynt ac ymysgydwaf," a ninnau "heb wybod fod ein nerth wedi cilio." Ni fynem ar un cyfrif wrthod neb y byddai arwyddion fod "llaw yr Arglwydd arno," er na byddai wedi cael manteision helaeth, ac anhawd-derau anorfof iddo i'w mwynhau wedi iddo ddyfod i sylw, mwy na derbyn pob un a fyddai wedi treulio nifer o flyneddau gyda golwg ar hyny, heb fod ynddo arwyddion boddlonol, mor bell ag y gall dyn farnu, ei fod yn meddu elfenau hanfodol y weinidogaeth; eto ystyrir mai eithriad a ddylai y cyntaf fod yn y fath amser a hwn. Gallai fod yn lles mawr i ddyd, os byddai o ran ei oedran a'i amgylchiadau yn gyfryw ag na byddai yn ddoeth ei annog i ymgyrhaedd am wybodaeth ieithyddol, iddo dreulio rhyw gymaint o amser gyda duwinyddiaeth a hanesiaeth eglwysig, a'r hyn a eilw Dr. Cunningham yn "llênnyddiaeth yr Ysgrhythrau," drwy gyfrwng yr iaith y mae yn ei ddeall. Dichon y gellid rhagflaenu y gwall hwn i fesur mawr pe byddai yr eglwysai yn effro a llygadog i ymofyn ymhlith eu hieuenctyd am rai ag ynddynt arwyddion duwioldeb diffuant, ac ymroddiad i wasanaeth ein Harglwydd Iesu Grist—y rhai a fyddent yn debyg o fod yn "ddynion ffyddlawn a chymhwys i ddsygu eraill hefyd"—eu cyflwyno i sylw, a'u hannog i ymofyn am addysg gyda golwg ar hyny. "Y mae camgymeriad mawr," meddai Mr. James, o Birmingham, "wedi bod yn ein mysg, drwy dybied fod yn anghenrheidiol, yn mhob amgylchiad, i'r dymuniad am y swydd gysegredig gyfodi yn gyntaf oll yn mynwes yr ymgeisydd ei hun. Mewn canlyniad i hyn y mae llawer wedi ymruthro i'r swydd ag oeddynt yn hollol anaddas at y gwaith; tra y mae eraill wedi eu cadw yn ol drwy eu gwyleidd-dra. \* \* Nis gall fod dim yn fwy cyfeillornus na'r dybiaeth fod yr alwad yma o eiddo yr eglwys yn ymyraeth ry-brysur â gwaith yr Ysbryd Glân o alw i'r weinidogaeth; oblegid, yn sicr, y mae yn llawn mor resymol tybied fod yr Ysbryd Glân yn galw dyn trwy gyfrwng ei eglwys a'i gweinidog, ag ydyw dychymygu fod yr alwad yn dyfod yn uniongyrchol oddiuchod i galon y dyn ei hun. \* \* Yn mhob neillduad a gofnodir yn y Testament Newydd, o'r apostol i lawr i'r diacon, gofynid i'r bobl *odrych am ddynion cymhwys*, ac nid aros iddynt hwy

gynnyg eu hunain.<sup>1</sup> Tra ar y naill law y dylid bod yn dra gwyliadwrus rhag bod yn rhy fyrbwyll, y mae yn ddichonadwy, ar y llaw arall, “difwyno yr hyn y mae bendith ynddo,” drwy ddfaterwch a marweiddra. Os yw yn ddyledswydd ar yr eglwys ystyried achos y neb fyddo yn cynnyg ei hun, a’i dderbyn neu ei wrthod yn ol fel y byddo yn barnu am ei gymhwysderau, onid yw yn ddyledswydd arni hefyd, am yr un rheswm, ystyried achos gwŷr ieuanc gobeithiol na byddont yn cynnyg eu hunain i sylw, a bod yn annogaethol iddynt yn ol y graddau o barodrwydd a fyddai yn eu meddyliau i gydsynio â’u galwad, ac i ymgyflwyno i’r gwaith?

Y mae perygl myned i eithafion y naill ochr yn gystal a’r llall, ac nid anfynych y gwelwyd dynion, wrth geisio gochel y graig ar un llaw, yn syrthio i’r llyn tro ar y llaw arall; pob un o’r ddau mor niweidiol a’u gilydd. Wrth geisio gochel yr eithafion o dybied nad oes eisieu ond myned trwy ryw gylch penodol o ddysgaiddiaeth, a derbyn arddodiad dwylaw rhyw fath o ddynion, mewn trefn i fod yn “weinidog awdurdodedig,” gall y syniad nad oes eisieu dim o’r pethau a nodwyd, a bod hōni hyny yn ddirmyg ar yr Ysbryd Glân, gan mai iddo ef y perthyn donio a chymhwysio y neb y mae Crist yn eu hanfon i bregethu yr efengyl, fod yn eithafion o’r ochr arall ag sydd yn arwain yn y diwedd yn hollol i’r un canlyniadau. Y mae cysegredigrwydd yn perthyn i’r swydd, wedi y cyfan, ac hwyrach nad ydym allan o berygl ei darostwng o ddiffyg gofal pa ryw fath ddynion, o ran eu cymhwysderau mewn gwybodaeth, yn gystal ag o ran eu profiad o ymgeledd yr efengyl, a dderbyniir iddi. Y mae anrhydedd y weinidogaeth yn ngolwg y byd, i fesur mawr, ynglŷn wrth gymhwysderau y dyn; ac er y diehon i grefydd y cyfryw fod mor amlwg nas gellir lai na’i barchu ar y cyfrif hwnw, eto, pan ei dyrcheifur yn bregethwr, yr ydys yn rhwym o edrych am ryw gymhwysderau eraill gyda duwioldeb, ac y mae yr amddifadrwydd o honynt yn tueddu i ddarostwng ei swydd. Y mae yr apostol Paul yn gorchymyn i’r Corinthiaid barchu Timotheus ar y cyfrif ei fod yn bregethwr, “Edrychwch ar ei fod yn ddiogfn gyda chwi, canys gwaith yr Arglwydd y mae yn ei weithio fel finnau; am hyny na ddiystyred neb ef.” Ac wrth ysgrifenu at Timothëus ei hun, y mae yn dwyn yr un pwnc i’w sylw yntau, ar iddo edrych ei fod yn deilwng o barch. “Na ddiystyred neb dy ieuencid di:” hyny yw, na fydded unrhyw ddiffyg ynot ti a rydd achlysur i neb dy ddiystyru. Ac yn mysg y pethau pwysig iddo ymarfer â hwynt fel moddion tuag at gyrhaedd y tir hwnw y mae yn nodi darllen a myfyrio—“Hyd oni ddelywif glŷn wrth ddarllen,—myfyria yn y pethau hyn, ac yn y pethau hyn aros, fel y byddo dy gynnydd yn eglur i bawb.” Y mae yn ei gynghori i barhau i ddarllen yr hyn oedd wedi ei osod o’i flaen, a myfyrio yn yr addysg a gawsai ganddo, hyd oni ddela i gyfranu iddo ychwaneg o wybodaeth yn y pethau ag oedd yn anghenrheidiol eu gwybod mewn trefn i wneuthur gwaith efengylwr, ac i gadw i fyny urddas y weinidogaeth oedd wedi ei hymddiried iddo. Yr oedd mor ofalus i’w gynghori na roddai un achlysur i neb ei ddiystyru ag oedd i rybuddio eraill na wnelet hyny. Yr ydym yn fawr ein pryder am gael athrawon cymhwys i’r ysgolion dyddiol, ac os gwelir graddau o alluoedd i ddysgu mewn gŵr ieuanc, a thueddiad yn ei feddwl am y swydd, ond odid na cheir rhywrai i’w annog, ac i roddi help iddo i gyrhaedd ei amcan. Nid ydym yn grwg-

<sup>1</sup> Gwel “*Earnest Ministry* :” tudal. 313—315.

nach rhag hyn, ond dymunem iddo fod yn fwy cyffredinol; ond ai nid yw crefydd, a phwysigrwydd gweinidogaeth yr efengyl, yn galw am fwy o ymdrech ar ran y neb a fwriedir i weini mewn pethau ysbrydol? ac a ydyw yn ddiberygl na bydd y rhai sydd yn ieuainc o dan addysg yn bresennol yn edrych ar eu hathraw yn deilwng o fwy o barch o ymddiried fel arweinydd nag ar eu gweinidog, ac nad all hyny fod o ganlyniadau tra difrifol mewn llawer amgylchiad? ie, ac i edrych ar y swydd o fod yn athraw ysgol yn fwy anrhydeddus na bod yn weinidog yr efengyl? Yn ddiâu ni byddai gwedd fel hyn ar bethau o un fantais i wir grefydd.

Ond y mae genym un dyfyniad byr eto o araeth Dr. Cunningham ag y dymunem alw sylw ato. Yn ychwanegol at arfogi meddyliau yr efrydwy'r & defnyddiau tuag at fod yn llwyddiannus fel gweinidogion yr efengyl, ac i fod yn alluog i wynebu, ar dir cadarn, yr hyn a fyddo yn wrthwynebol i'r gwirionedd, heb yr hyn, yn ol barn y gŵr enwog a dysgedig hwn, "nid yw yn gweddu nac yn ddiogel cefnogi dyn ieuanc i ymgymeryd & gwaith y weinidogaeth," y mae yn nodi tri pheth arall ag y gellir eu hystyried fel manteision cydfynedol â'r prif amcan.

"Y peth cyntaf, a mwyaf pwysig o'r manteision cydfynedol, yw cynnyrohu a maethu duwioldeb personol yn meddyliau yr efrydwy'r. \* \* \* Drachefn, gellid trefnu a dwyn ymlaen fyfyrlych dduwinyddol, fel, yn ychwanegol at gyrhaedd ei amcan priodol ei hun, y galluogai y rhai hyny a feddent alluoedd cymhwys, ac a gyfarfyddent âg amgylchiadau manteisiol, i gyrhaedd enwogrwydd, ac i wneuthur ychwanegiadau gwerthfawr at lënyddiaeth. Ac yn olaf, gellid ei ddwyn ymlaen yn y fath fodd ag i feithrin yn meddyliau yr efrydwy'r syniadau a theimladau gwrol, dyrchafedig, ac anrhydeddus, a rhyddfrydig, a chydymdeimlad âng, â'r hyn sydd ragorol a charuaid, ag y mae y diffyg o honynt weithiau yn anurddo yr hyn nas gellir lai na'i ystyried yn dduwioldeb diragrith."

Yn awr, gyda golwg ar y peth cyntaf a nodi Dr. Cunningham, y mae yn ystyried, cofser, mai mantais a gyrhaeddir mewn cysylltiad â'r prif amcan, yw meithrin crefydd bersonol, ac o ganlyniad, nas gellir edrych ar yr ysgol yn gyfrifol am dano, oblegid dysgwylir i'r ymgeiswyr fod wedi rhoddi arwyddion boddlonol o'u duwioldeb cyn cael cefnogaeth i ymofyn am dderbyniad i mewn. Prif amcanion ysgol a myfyrlych dduwinyddol, ydynt, sicrhau fod y neb a fwynhaont ei manteision yn meddu graddau lled helaeth o'r cymhwysderau meddyliol a ystyriw yn anghurheidiol i'r weinidogaeth, ynghyd â rhoddi help i'r cyfryw i ddodrefnu eu meddyliau â'r defnyddiau ag y mae yr amddifadrwydd o honynt yn tueddu i ddarostwng y weinidogaeth. "Yn gyntaf," meddai yr areithydd "eu cynnysgaethu â'r graddau ag sydd yn anheborol iddynt wrth ymgymeryd & swydd y weinidogaeth; ac yn fwy neillduol, yn yr ail lle, cychwyn yr efrydwy'r mewn ymchwilid beirniadol a manwl o feddwl yr Ysgrythyrau Sanctaidd, yn yr ieithoedd gwreiddiol, a'u harwain ar egwyddorion oedryn dros ranau lled helaeth o'r gyfrol ysbrydoledig. Ac yn drydydd, eu haddysgu yn mhrif bynciau y gwirionedd dadguddiedig, yn gytunol, wrth reawm, âg egwyddorion yr eglwys neillduol y byddo yr ysgol yn dwyn cysylltiad â hi." A rhag i neb dybied ei fod yn barod i dderbyn gwŷr ieuainc i'w haddysgu at waith y weinidogaeth, heb fod ynddynt arwyddion duwioldeb yn flaenorol, dywed ei fod wedi dangos mor eglur a difrifol ag y gallai, lawer gwaith, "y pechadurusrwydd i ddynion ymgymeryd â'r weinidogaeth heb eu bod yn meddu duwioldeb diffuant, ac yn cael eu cymhell gan gariad Crist, a dymuniad i achub eneidiau; a'r pechadurusrwydd i'r

eglwys gyflwyno i weinidogaeth y cymmmod neb ond y cyfryw a fyddo yn credu, ac yn gymhwys i ddysgu eraill, o leiaf mor bell ag y gall dynion farnu." Pwy a ddichon fyned ymbellach na hyn? Nid ydym yn eithaf dibetrus na bu ambell un yn barod i ofni y byddai mynediad gŵr ieuanc i'r ysgol yn ddinystri i bob teimlad crefyddol yn ei fynwes. Yn wir, y mae yn an-nichonadwy i ni ddirnad pa fodd y gall fod tuedd fwy uniongyrchol, hyd yn nod yn y cangenau a gyfrifir gan lawer yn *sychlyd*, i ddeieithro y meddwl oddiwrth grefydd, nag sydd mewn ymdrafod â'r byd; ac y mae rhai yn barnu mai peth buddiol iawn yw i bregethwr ieuanc fod mewn tipyn o benbleth gyda'i amgylchiadau bydol. O ran unrhyw duedd naturiol yn y naill mwy na'r llall, y mae y pryder ynghylch "pa beth a fwytâwn, a pha beth a yfwn, ac â pha beth yr ymddilladwn," a'r pryder am wybodaeth a dysg, yn sefyll yn hollol ar yr un tir, ac nid anfynych y mae y ddau yn dygwydd cydgyfarfod yn yr efrdydd, druan; ac onid oes cymaint o berygl i "dwyll cyfoeth" effeithio ar feddwl dyn ieuanc, ag sydd i raddau o lwyddiant ac awydd i ddilyn ei efrydion? Nid ydym yn gwadu, sylwer, nad oes perygl yn y naill fel y llall, ac nad all dyn a fyddo yn llafurio am wybodaeth, i.e. gwybodaeth o egwyddorion crefydd, anghofio ei hun, ac esgeuluso y galon, ac na byddo y wybodaeth hono yn effeithiol i feithrim serchiadau crefyddol ac i sancteiddio ei ysbryd: ar yr un pryd, gwyddom fod y tymmor a dreuliodd llawer un yn yr athrofa yn Nghymru, wedi bod o fendith fawr iddynt, drwy fod yn foddion i ddwyn eu meddyliau yn fwy ystyriol mewn hunan-ymholiad, ac i feithrin syniadau mwy difrifol o'u cyfrifoldeb, a phwysigrwydd y weinidogaeth, ynghyd â dymuniad i ym-gyflwyno yn fwy llwyr i wasanaeth yr Arglwydd Iesu Grist. Ac yn wir, pa foddion a allai fod yn fwy tebyg o genedlu a chynnyddu y teimladau hyn, na chael bod yn nghymdeithas athrawon y byddai llehad ysbrydol y rhai a fyddai dan eu gofal, a phwysigrwydd y swydd y byddont yn ymddarparu iddi, yn cael lle difrifol ar eu meddyliau,—bod o dan eu cyfarwyddyd a'u dysgeidiaeth am dair neu bedair blynedd, a hyny gyda'r pethau mwyaf difrifol, ac yn yr adeg fwyaf manteisiol i gael argraff ar eu meddyliau?

Drachefn, yr ail ystyriaeth a gyflwynir i'n sylw yw y fantais a roddai cylch o addysg o'r fath a nodwyd i lënyddiaeth. Y mae y wasg erbyn hyn wedi dyfod i feddu dylanwad lled rymus ar feddyliau y Cymry, a phwy na chydnebydd fod pwys annhraethol pa ran a gymer gweinidogion yr efengyl yn lënyddiaeth y genedl? Y mae y diffyg darpariaeth ar gyfer y dosbarth darllengar o'r oes sydd yn codi yn dyfod yn fwy i'r amlwg o hyd, ac y mae o ganlyniadau tra difrifol pwy fydd yn debyg o gyflawni y diffyg hwnw. Nid ydym ni yn gallu mwynhau yr un graddau o gysur ag yr ymddengys fod rhai yn ei gael wrth son ac ysgrifenu am "Lënyddiaeth y Cymry." Gellid meddwl na bu, ac nad oes un genedl mor gyfoethog o lënyddiaeth ar wyneb yr holl ddaear. Ond attolwg, yn mha le y mae ein lënyddiaeth? Addefwn fod cryn lawer o ddarllen yn ein mysg, ond ni byddai yn anhawdd casglu yr hyn a ellir yn briodol ei alw yn lënyddiaeth Gymreig i gylch lled fychan, ac wedi cael y pentwr llyfrau fel hyn at eu gilydd, pe rhoddid hwynt drwy wyntyll bur gymedrol, ceid gweled mai ychydig a ddeuai i'r llawr dynu. A phwy eto yw ein llënorion? Pell oddiwrthym fyddo difrio neb o'r lliaws sydd yn ohebwy'r i'n cyhoeddiadau cyfnodol. Y mae eu cynnyrchion yn anrhydedd iddynt; ond a dynt yn



anhrydedd i'n llênoriaeth? Gadäwn i'r darllynydd farnu. Yr ydym yn llawenhau wrth ganfod y derbynriad y mae llawer o'r llyfrau a gyfieithir yn ei gael; ond o'r ochr arall, nis gallwn lai na gofidio fod can lleied o lyfrau yn cael eu cyfansoddi gan y Cymry eu hunain. Dywedir yn fynych mai oddiwrth genadau brodorol yr ydym i ddysgwyl y llwyddiant mwyaf ar yr efengyl mewn gwledydd tramor, yn hytrach nag oddiwrth genadau estronol. Y mae y sylw yr un mor gywir a chymhwysiadol at lênyddiaeth; oblegid y mae rhyw neillduolrwydd yn amgylchiadau, arferion, a chyflwr cymdeithasol pob cenedl, ac yn ystâd y meddwl, a'r dull o feddwl, ag sydd yn peri ei bod braidd yn annichonadwy i neb weinyddu addysg mor effeithiol i'r genedl hönö a rhai o honi ei hunan, yn gystal trwy y wasg a thrwy bregethu. Nid ydym yn priodoli yr hwyrfrydigrwydd i ymaith yn hyn yn *usig* i'r diffyg yr ydym yn son am dano; y ond pa fodd bynag, y mae yn ffaith a ddylai, yn ein bryd ni, gael ystyriaeth ddirifrol y neb y mae llwyddiant ein cenedl mewn crefydd yn yr amser dyfodol yn agos at eu meddyliau.

Y mae yn rhaid cydnabod hefyd fod y diffyg o deimlad boneddigaidd, iaith ddiwair, a chwaeth gywir, yn tueddu i ddiraddio y dyn, a thrwy hyn y ddarostwng y weinidogaeth. "Gwibed meirw a wnant i enaint yr apothecari ddrewi."

Yn awr, y ddadl gyffredin gan lawer a gydnabyddant yr anghenrheidrwydd am ryw symudiad yn y cyfeiriad yr ydym yn galw sylw ato yw, ein bod yn rhy ddiolien, ac nas gallwn wneuthur nemawr ychwaneg nag sydd yn cael ei wneyd. O'n rhan ein hunain, nid ydym yn gallu canfod fod yr anhawser mewn diffyg moddion yn gymaint ag ydyw mewn diffyg adnabyddiaeth o deilyngdod yr achos, a chalon i deimlo yn briodol tuag ato. Nid ydym yn meddwl ychwaith nad yw yr annybendod i annog, ac i osod achosion teilwng at ystyriaethau y rhai a allent wasanaethu crefydd yn y pethau hyn, yn tarddu oddiar ryw fath o wyleidd-dra, ag y dylid ymdrechu i ymysgwyl oddiwrtho. Os yw yn ddyledswydd ar y rhai sydd yn gwrandaw yr efengyl gyfranau at ei llwyddiant, y mae yn fraint iddynt gael gwneyd hyn, ac y mae attal y gwirionedd hwn oddiwrthynt yn anghyiawnder â hwynt ac âg achos crefydd. Pa fodd bynag, y mae yn eithaf amlwg nad yw y weinidogaeth yn ein mysg, ac yn enwedig y lleoedd y meithrinir, neu o leiaf y dylai pob gŵr ieuanc a fyddo yn ymgynnyg am y weinidogaeth fod wedi treulio tair neu bedair blynedd mewn ymddarpariaeth, wedi cael yr ystyriaeth ag y mae ei bwysigrwydd yn ei deilyngu. "Yn awr," meddai Dr. Candlish, wrth siarad o blaid addysg dduwinyddol yn nghymanfa yr Eglwys Rydd—"Yn awr, tra yr oeddynt yn gweithredu ar yr egwyddor o ymgadw rhag treulio un fyrting yn ychwaneg na'u moddion i'w darparu, nid oedd hyn yn wrthwynebol i'w dyledswydd o osod o flaen eu pobl Gristionogol amcanion teilwng o'u haelfrydedd i gyfeirio atynt. Nid mesur eu dysgwyliaidau a ddylent ofyn oddiwrth yr eglwys, ond mesur eu dyledswydd; oblegid mor fuan ag y deuai yr eglwys i lawr mor isel ag i osod rhyw gynlluniau bychain, neu i leihau pwysigrwydd yr hyn yr oeddynt wedi ymgymeryd â hwynt, gwnai hyn i'w holl gasgliadau at bob achos ddihoeni ymaith yn llwyr bob yn ychydig. Tra yr oeddynt yn benderfynol o ymgadw o fewn terfynau eu gallu, bydded iddynt weithredu oddiar yr egwyddor o osod o flaen eu pobl yr hyn oedd yn ddyledswydd arnynt eu wneuthur, a'r hyn, trwy gymhorth Duw, yr 1852.]

oeddynt mewn cyfleusdra i'w roddi yn ngallu yr eglwys i'w gyflawni.<sup>1</sup> Oni fyddai yn dra dymunol fod yr un egwyddor yn cael ei dal allan yn fwy amlwg yn Nghymru? Yn lle hyny, pan y gosodir unrhyw achos ger bron ar gynllun lled äang, eir i gwyno yn y fan ein bod yn rhy dlodion. Y mae y rhan liosocaf o lawer yn ein mysg yn dlodion, mae yn wir; ond nis gellir ammheu pe ceid pawb mor fyddlawn ac agos at y rheol, yn ol "fel y llwyddodd Duw" hwynt, na byddai llai o gwyno o herwydd tlodi, ac na byddai y casgliadau at bob achos yn helaethach. Nid oes ond ychydig ymhlith yr Ymneilldŵyr yn ein gwlad wedi gwneyd nemawr o ymdrech o blaid un rhan o achos crefydd yn annibynol ar gysylltiad â chymdeithas; ond y mae llawer o esiamplau yn Lloegr a'r Alban o rai wedi gwneyd cryn ymdrech er mwyn gallu cyfranu symiau mawrion o arian yn eu bywyd, ac wedi gadael gwaddolion helaeth ar eu holau at amcanion daionus ag y byddai eu meddyliau yn bryderus ynghylch eu llwyddiant. Amryw fis-oedd yn ol, gwelsom hanes am y diweddar R. Haldane, Ysw., awdur esboniad rhagorol ar yr epistol at y Rhufeiniaid, yn dyweyd ddarford iddo "gyfranu llawer o arian at addysgu dynion ieuainc ag oedd yn ymddarparu i fod yn weinidogion yr efengyl yn Lloegr, yr Alban, ac ar y Cyfandir. Nid oedd y nifer," medd yr hanes ymhellach, "nemawr lai na phedwar cant, ymhlith y rhai yr oedd dynion o gryn enwogrwydd, megys Dr. Russell, Dundee; y Prif athraw Dewar, Aberdeen; Mr. James, Birmingham; Mr. Orme, Camberwell; Mr. Maclay, Caerefrog Newydd; Dr. Paterson; Dr. Henderson, ac amryw eraill." Dyma gogolofnau o fwy o anrhydedd i'r gŵr da a haelionus hwn nag a allasai aur ac arian godi mewn unrhyw ffordd arall. Y mae yn ddiammhau fod llawer yn Nghymru a allai wneuthur lles mawr yn y llwybr hwn, ond iddynt gael hyny ar eu meddyliau. Nid oes un achos yn meddu hawl mwy diymwad ar ymdrechadau personol, ac a ddylai gael ei deimlo felly yn bresennol, ac yn ddiau y bydd mwy o ddysgwylad rhagllaw, nag ydyw y sefydliadau lle y meithrinir dynion ieuainc yn weinidogion yr efengyl; a byddai yn drugaredd i rai gael tu-eddu eu meddyliau i gyfranu o'u llawnder, yn lle pentyru arian i fod yn felldith i'w plant ar eu holau. Yr ydym yn addef nad yw y sefydliadau hyn, ymhlith rhai enwadau, o leiaf, yn ein gwlad wedi cyrhaedd y cyhoeddusrwydd hwnw ag i roddi mantais i gyfraniadau lled helaeth gael eu gwneuthur atynt, a hyny i fesur am nad ydynt wedi cael y lle arbenig a ddylent gael yn ein trefniaint crefyddol fel rhan o deyrnas y Cyfryngwr. Y mae gweled ein cenedl yn ymysgwyd o'i chysgadwrwydd gyda golwg ar addysg gyffredinol yn arwyddo yn dda; ond dymunem ofyn yn ostyngedig, ai nid yw y parodrwydd a ddangosir weithiau i ymgymeryd äg unrhyw gasgliad a osodir ger bron er mwyn cynnorthwyo yr ysgolfeistr i'w gymhwyso ei hun i'w swydd, tra y teimlir yn lled oeraidd pan y sonir am addysg fel cymhwysder i'r weinidogaeth, ac yn hwyrfrydig i roddi unrhyw help na chefnogaeth i'r neb a fwriedir yn ddysgawdwr crefyddol, yn argoel drom?

Yr ydym yn cyflwyno yr ystyriaethau hyn i sylw difrifol pob un o'n darlennyddion sydd "yn caru ein cenedl ni," ac yn enwedigol pob un o honynt sydd yn profesu ei fod yn "caru ein Harglwydd Iesu Grist."

<sup>1</sup> "Proceedings of the General Assembly," Mai, 1850: tudal. 164.

## GWEITHIAU RHYDDIEITHOL MILTON.

[*The Prose Works of John Milton.* 3 vols. Bohn's Standard Library.]

Y MAE HWN yn argraffiad hardd o'i weithiau rhyddieithol. Teimlwn yn rhwymedig i Mr. Bohn am eu cymeryd i fewn i'w gyfres, yr hon sydd wedi ennill cymeriad mor uchel am ei theilyngdod a'i rhadlonrwydd, a thrwy hyny eu gosod yn gythaeddadwy i'r cyffredin o'r dosbarth meddylgar yn y wlad. Yr ydym yn hyderu y bydd cannoedd o'n cyfeillion ieuainc yn methu ymfoddloni heb gael y gwaith hwn i'w meddiant, ac heb ei ddarllen drosodd a throsodd, a meddwl yn ei gylch, nes y byddo ysbryd uchel ac annibynol John Milton wedi argraffu ei ddelw ar eu cymeriad. Mae yn debyg nad oes un awdur yn ein gwlad wedi cael mwy o gam nag ef mewn un ystyr gyda golwg ar boblogrwydd. Nid am nad ydyw yn boblogaidd yn y deyrnas yr ydym yn cwyno; na, mae yn llawen genym feddwl fod "Coll Gwynfa" yn cael ei chydabod yn gyffredin fel un (os nad y *froyaf*) o'r ychydig gyfansoddiadau hyny y mae y beirniaid penaf yn teimlo yn wylaidd pan yn siarad yn eu cylch, fel pethau wedi eu hysgrifenu pan oedd eu hawdwyr wedi eu codi i ryw sefyllfan uwch o lawer na'r eiddo eu cydfarwoliaeth yn gyffredin, i gymdeithasu â gwirionedd ac â natur wyneb yn wyneb, ac i dderbyn yr ysbrydoliaeth oedd yn eu cyfaddasu i drosglwyddo eu syniadau i anfarwoldeb mewn geiriau byw. O herwydd hyny, anaml y ceir neb yn honi rhywfaint o chwaeth nad yw y llyfr "Coll Gwynfa" yn ei feddiant, ac nad ydyw, o leiaf, yn gwneyd cydwybod o'i ganmawl. Ond er nad yw yn bosibl, yr ydym yn meddwl, i neb fod yn fwy eiddigus na ni dros ogoniant "Coll Gwynfa," eto yr ydym yn anfoddlawn iawn i goroni Milton "Coll Gwynfa" ar draul tafu Milton "Adfeddiant Gwynfa," "Comus," "Samson," a'r "Sonnets," y tu ol i'r cysgodion. Yn "Ngholl Gwynfa," mae yn wir, y mae yn fwyaf o lawer; ond y mae yn ddigon o Filton yn y pethau eraill hefyd i fod yn dywysog yn mysg beirdd y byd. Yr ydym yn llawn mor anfoddlawn i'n parch ni iddo fel bardd gymylu ein sylw o hono fel rhyddieithwr, ag ydym i ddysgleirdeb "Coll Gwynfa" ddallu ein llygaid rhag gweled rhagoriaethau ei gyfansoddiadau barddonol eraill.

Gwelsom fod un gŵr, a "dybiai ei fod ef yn rhyw un," yn cwyno ddarfod i Milton erioed rwystro ei gymundeb â'r awen trwy ymyraeth â gwledychiaeth. Yr ydym ni yn gorfod teimlo yn wahanol: mae yn dda genym fod Milton wedi cael ei ddwyn o'i ystafell i ganol yr ymdrechfa yn y dyddiau cynhyrfus hyny, nid yn unig am ein bod yn credu fod y ddysgybilaeth yma yn anghenrheidiol i fardd "Coll Gwynfa," ond am ein bod trwy hyny wedi cael syniadau ei feddwl äang, teg, a meistrolgar, ar lawer o bethau y mae o bwys i ddynolryw gael syniadau cywir yn eu cylch. Mae yn wir mai ebargfiant fu tynged miloedd o ysgrifenywyr ar faterion llëawl — ar ddadleuon ynghylch pwne y dydd; ac, fe allai, fod hyn yn un achos pahan y bu Milton y rhyddieithwr mor ddisylw yn ein teyrnas; ond mae mor wir a hyny, mai ar faterion llëawl, ac ar ymyronau ynghylch pwne yr adeg, yr ysgrifenywyd llawer o'r gweithiau y mae y byd fwyaf anewillysgar i adael iddynt farw. Nid oedd rhyfel Peloponesus ynddo ei hun o bwys mawr ond i fân-lywodraethau Groeg; ond yn llyfr Thucydides y mae wedi

bod o bwys gwirioneddol yn nysgyblaeth meddwl, ac yn ffurfiad cymeriad, miloedd lawer. Mae yr un peth yn wir am helyntion Rhufain yn nwyllaw Tacitus a Livy. Nid oedd fod Philip o Macedonia yn gorthrymu y Groegiaid ond peth bychan iawn yn hanes y byd, ond pwy a fynai i hyny fod heb ddygwydd, gan iddo fod yn achlysur i ddwyn allan "*Philippics*" arswydolawn Demosthenes, y rhai ydynt hyd y dydd hwn yn siarad â chryfder taran yn erbyn pob un sydd yn meiddiaw gorthrymu? Pwnc y dydd—pethau dibwys i ni—fu yn achlysur i ddwyn allan areithiau cryfion a gorphenedig Cicero. A phethau o'r un natur sydd wedi galw Milton allan yn ei weithiau rhyddieithol; ond y mae ei ysgrifeniadau fel mynegai cywir o helynt ein gwlad yn y cyfnod pwysicaf, fe allai, yn ei hanes, fel profion o éangder, tegwch, ac anhyblygrwydd ei feddwl, o'i wybodaeth fawr, ei zel dros y gwirionedd, a'i adgasrwydd anghymmodlawn at bob peth isel ac annheilwng,—y fath ag sydd yn eu nodi allan yn deilwng o sylw gwastadol.

Peidied ein darllenwyr a meddwl fod y ffaith o'u bod wedi bod hyd yma yn llai poblogaidd yn Lloegr nag y dylasant fod, yn cyffwrdd â chwestiwn eu teilyngdod; na, nid yw yn anhawdd rhoddi cyfrif am hyny: yr ydym yn tybied y gellir ei olrhain i'r un achos ag y gellir olrhain amhoblogrwydd Oliver Cromwell. Cafodd Charles I. ei ddiorseddu a'i ddienyddio gan y senedd oblegid ei orthrwm a'i ddrygioni; yna sefydlwyd gwerin-lywodraeth yn y deyrnas, a gosodwyd Cromwell yn arglwydd ddiffynydd arni. Nid oes fwy o wahaniaeth rhwng y dydd a'r nos, nag oedd rhwng amser Charles, oedd lawn o orthrwm a phob annuwioldeb, ag amser y werin-lywodraeth, pan oedd cyflawnder a heddwch yn teyrnasu, dysgeidiaeth yn myned ymlaen gyda chamrau breision, a chrefydd, yn ol barn llawer o ddynion da, yn y sefyllfa fwyaf blodeuog fu arni erioed yn Mrydain. Ond pan fu farw Cromwell, trwy fod ei fab, Richard Cromwell, a osodwyd yn y swydd ar ei ol, yn ddynyn gwlanenaidd, heb feddu Gronyn, gellid meddwl, o wroldeb llewaidd ei dad, wedi rhoddi ei swydd i fyny, a diane i neillduaeth, ac fod y fyddin ar y pryd yn llaw Mone, y cadlywydd, trwy ddyllanwad ei bleidwyr, a dichellion y dyn cyfrwysddrwg hwnw, dygwyd Charles II. adref o'i alltudiaeth, a choronwyd ef, ar bwys addewidion teg na freuddwydiodd erioed am eu cyflawni, yn frenin yn lle ei dad. Dygodd hwn osgordd o annuwiolion gydag ef o Ffrainc, a daeth llŷs y brenin yn un o'r lleoedd aflanaf mewn bod. Ar agoriad y llifddorau yn y fan yma, yr ydym yn fuan yn cael y wlad i gyd wedi ei gorchuddio â drygioni. Yr oedd y gweinidogion, a'r dynion goreu, yn cael eu sathru dan draed erlidigaeth, a phob dyn yn dyfod yn gymeradwy yn ol fel y byddai yn tebygoli, mewn bod yn ddiogwyddor ac erlidgar, i'r brenin a'i greaduriaid. Yr oedd rhinwedd a duwioldeb uchel pobl y werin-lywodraeth yn cael ei watwar fel rhagrith, a'r arwr bellach oedd y mwyaf rhyfygus mewn annuwioldeb. Nid oedd yr un gwarth yn ddigon gwarthus, yr un dŵch yn ddigon du, i'w osod ar enw Cromwell a'i gydlafurwyr. Yr oedd yr enw "*Puritan*" yn ddigon i beri iddynt ei hwtio mewn diystyrwch, neu ysgyrnygu eu dannedd mewn cynddaredd, er na welodd yr haul ddoesbarth o ddynion mwy ufudd i'r awdurdodau, mwy ymroddgar i ofn Duw, a mwy gwrol ar faes y gwaed. Eu hunig bechod ydoedd eu bod yn ymdeimlo â'u hiawnderau, yn lle cusanu gwialen Charles, ac yn coledd gormod o an-nibyniaeth meddwl, yn anwylo gormod ar y peth ystyfnig hwnw a elwir "*cyflawnder*" i gymeryd eu sathru yn y dom dan draed y gorthrymwr.

Darfu i'r un haint o ragfarn a gelyniaeth ymafyd yn llényddion yr oes; yr oedd eu meddyliau gwasaidd yn cofseidid y syniad mai y ffordd i esmwythyd ac enwogrwydd oedd trwy weneithiau i'r brenin, ac amddiffyn ei olygiadau. Y Puritaniaid oedd gwawd y chwareudŷ. Puritan a ddewisodd awdur yr "*Hudibras*" yn arwr i'w gân, yr hon a fwriadai i ennyn chwerrhiniad y deyrnas, a'r hon a ddarllenid ac a ddysgid gyda y fath awyddfryd hyd yn nod yn y cylchoedd uchaf, ond a ddygodd i Butler, druan, mor ychydig o'r nawdd breninol y pryderai gymaint yn ei gylch. Ac yr oedd yr haneswyr yn ysgrifenu dan ddylanwad yr un teimlad. Rhwng pob peth yr oedd Cromwell a'i bobl yn cael eu trosglwyddo i'r oesau a ddeuai yn hollol wahanol i'r peth oeddynt mewn gwirionedd,— yn rhagrithwyr a gwrthryfelwyr. Ond yn lled ddiweddar, cymerodd Thomas Carlyle y mater mewn llaw; gyda beiddgarwech annibynol ar ei ael, edrychodd ragfarn yr oes i ddyddymdra, a chyda ffon fawr ei awdurdod gyrodd y minteioedd o fân-haneswyr oddiar y ffordd. Aeth at y gist ei hunan, agorodd y clo, darllenodd lythyrau Cromwell, chwiliodd am bob hen bapyr—au a allent roddi ryw help iddo ddeall yr oes, a chyhoeddodd ei lyfr, yn bedair cyfrol, yn gosod Cromwell o'r diwedd yn ei le ei hun, yn mysg prif arwyr y byd, a phobl y werin-lywodraeth yn mysg y bobl hyny y mae yn werth am fynyd i ddynolryw fod yn falch o'u plegid. Dygodd ef Cromwell ei hunan ymlaen, i siarad drosto ei hun, ac fe wnaeth yntau hyny gyda'r fath awdurdod nes yr oedd "anwiredd yn cau ei safn." Nid oes ond ychydig amser felly er pan mae y dyn mawr yma yn derbyn cyfiawnder oddiar law ei genedl.

Yn awr, un o gewri y werin-lywodraeth oedd Milton. Yr ydoedd yn ysgrifenydd tramor i Cromwell, ac yn ei ystyried ei hun o galon yn gydlafurwr âg ef; a chan fod y rhan fwyaf o'i ysgrifeniadau rhyddieithol yn dynoethi drygioni y gorthrymwyr, ac yn amddiffyn y senedd, a hyny ar bwys egwyddorion sydd yn fwy ansigledig na cholofnau y ddaear, yr oedd yn naturiol iddynt, ar ol yr Adferiad, geisio ei wneyd yn adgas ar yr un tir a Chromwell. Ar y 15fed o Awst, 1660, ar ol methu cael gafael arno i'w ladd, "am ei fod yn rhy ddistadl," medd ef, er, mae yn debyg, na wnaed ymchwiliad dyfal ar ei ol, yr hyn a ellid ei briodoli i lawer o bethau heblaw i garedigrwydd naturiol y brenin, fel y dywed ei amddiffynwyr, yr ydym yn cael Charles II. yn cyhoeddi gorchymyn breninol ar i bawb ddwyn ynghyd gynnifer a allent gael o gopiau o ddau o lyfrau Milton, oeddynt wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar, sef "Diffyniad Pobl Lloegr," a'r "*Eikonoklastes*," ynghyd âg un arall o waith Goodwin, a elwid "Rhwystrwyr Cyfiawnder," fel y byddai iddynt gael eu llosgi trwy law y dienyddwr cyffredin. Llosgwyd llawer iawn. Y mae genym ar gael sylw o waith un Richard Baron, a ddygodd allan argraffiad o'r "*Eikonoklastes*," yn 1756, yn cyfeirio yn ei ragymadrodd at y llosgiad yma:—"Yr oedd hyn yn cael ei ddwyn ymlaen gyda'r fath zel gan liaus o'r llwyth melleddig yna (*high church priests and doctors*), fel y mae yn rhyfedd fod un copi wedi ei adael. Dywedodd John Swale, llyfrwerthwr, o Leeds, sir Gaerefrog, dyn gonest, er ei fod yn Uchel-eglwyswr, wrthyf, y gallai ef gael mwy o arian am losgi 'Diffyniad' Milton nag a allai wrth ei werthu i mi. Byddai rhai offeiriad o'r gymydogeaeth hŏno yn arfer cyfarfod unwaith yn y flwyddyn, ac wedi eu twymno yn dda â chwrw cryf, byddent yn aberthu i'r fflamau 'Ddiffyniad' yr awdur, a'i draethawd yn erbyn yr *Εκκλ.*" Dyna dystiolaeth Richard Baron, a gellid

ei chadarnhau â llaweroedd o rai cyffelyb. Yr oedd yn hawdd i'r dynion bychain yna losgi ei lyfrau, ond nid mor hawdd fuasai gwrthbrofi eu hegwyddorion. Buasai yn gofyn ysgwyddau mwy Ercwlffiaidd nag a feddai yr oes hño, oa, yn wir, unrhyw oes, i allu symud modfedd ar eu cryfer mawr. Mae yn anhawdd genym feddwl na fyddant hyd ddiwedd amser, yn ol ei iaith ef ei hun ar fater arall, "mor sefydlog a'r canolbwynt." Ond ni fuasai yn bosibl i lywodraeth Charles fod yn boblogaidd yn mysg pobl wedi eu trwytho â'r syniadau dyrchafedig a amddiffynir yn llyfrau Milton. Yr oedd efe a'i greaduriaid yn canfod fod eu diogelwch yn gynnwysedig mewn cael y wlad wedi ei llenwi â rhagfarn yn eu herbyn. Yr oedd hyn yn cael ei gadw yn fyw yn barhaus gan y rhai a gymerent arnynt fod yn gyfeillion i'r goron, yr un fath ag yr oedd yr elyniaeth at Cromwell yn cael ei dal i fyny. Nid ydyw Dr. Johnson yn ymddangos i ni mor ddirmygus yn un man ag yn ei ymdrechion llechŵraidd, anghyflawn, i fychanu Milton. Yr oedd Johnson yn ddyn da ar lawer cyfrif, ond pe buasai yn gan' gwell, y mae ei waith yn ceisio tafu llwch i'n llygaid rhag i ni weled un oedd yn anfesurod fwy nag ef, yn peri i ni ei ddiystyru â'n holl galon. Ond erbyn hyn, mae yn dda genym feddwl fod cyfnod newydd wedi gwawrio ar lënyddiaeth ein teyrnas. Gellid gweled ei ddarlun yn ngwaith Carlyle yn chwilio i fewn i hanes Cromwell. Y mae yn cael ei ddwyn ymlaen gan ysbryd na fyu ufuddhau, gan grynu, i waharddiad gorthrymwr, pa un bynag a fyddo yn eistedd ar orsedd wladol, ynte, fel Dr. Johnson, yn dal awdurdod mewn ystyr lënyddol yn ei law. Ysbryd ydyw sydd yn ddigon gwrol i ofyn am y *paham* a'r *pa fodd*. Y mae wedi gofyn dros y deyrnas, "*Paham* yr ydych yn galw Cromwell yn rhagrithiwr a gwrthryfelwr? *Pa fodd* yr ydoedd felly?" A'r adsain a atebodd, "*Pa fodd* yr ydoedd felly?" Ni chafodd yr un *paham*; ie, yn hytrach, cafodd fod Cromwell yn arwr. Y mae yn gofyn eto, "*Paham* nad ydyw ysgrifeniadau rhyddieithol Milton yn werth eu darllen? *Pa fodd* yr ydoedd yn ddyn penboeth ac ynyfyd?" Yn lle atebiad, mae y bobl yn dyfod i'w darllen, yn gweled mai awdur "*Coll Gwynfa*" ydyw yn y rhai hyn hefyd; ei fod yn siarad â *dyn*, am egwyddorion cyflawnder, ac yn siarad yn y cywair a *fyn* wrandawriad. Bydded i fechgyn Cymru ymuno yn y gâd. Yfych yn helaeth o'r ysbryd ymchwilgar sydd yn cynhyrfu y ddaear: ond beth bynag a fyddo, bydded genych ddigon o fawrfrydigrwydd i *ymgrymu pan ddeloch i gyfarfod dirgelwch*. Un o gampau yr athronydd yw gwybod pa bryd i dewi.

Bellach, ni a awn ymlaen i wneyd rhai sylwadau cyffredinol ar y gweithiau hyn; bydd hyny yn fantais i'n darllenwyr i gael rhyw syniad yn eu cylch, ac yn gynnorthwy, fe allai, i'n cyfeillion ymchwilgar a fo yn penderfynu mynu eu hastudio.

Y gwaith cyntaf yn yr argraffiad yma yw, "Diffyniad Pobl Lloegr, mewn atebiad i Ddiffyniad y brenin gan Salmasius." Ysgolâig ydoedd y gŵr hwn o Holland. Yr ydoedd yn un o athrawon prif athrofa Leyden. Yr oedd wedi bod yn ysgrifenu o'r blaen yn erbyn uchafiaeth y pab, ac yn erbyn yr eegobion, ac ar amryw bethau eraill, ac ystyrid ef yn gryn gawr yn y byd llënyddol. Pan oedd Charles a'i gyfeillion ar y Cyfandir, yn alltudion, cyflogasant Salmasius am gan' darn o aur,<sup>1</sup> i ysgrifenu diffyniad i'r brenin yn erbyn y

<sup>1</sup> *Jacobuses.*

senedd. Adroddasant eu fleithiau iddo, a dangosasant sut y mynent iddo ysgrifenu. Ymgwymerodd yntau â'r gwaith, ac ysgrifennodd lyfr go fawr, yn Lladin, i brofi fod y diweddar "Rasusaf Frenin, Charles I., o goffadwriaeth fendigedig," wedi cael cam dirfawr oddiar law y senedd, gan amcanu yn y pen draw i gynhyrfu teyrnasodd Ewrop i ddial ei gam ar y werinlywodraeth. Mae yn debyg na feddyliodd Charles na Salmasius y buasai neb yn Lloegr yn meiddio eu galw i gyfrif am y fath lyfr; ond pa fodd bynag, felly y bu. Cafodd meddwl uniawn Milton ei gynhyrfu yn gymaint wrth weled dyn yn cymeryd ei lwgr-wobrwyo i amddiffyn athrawiaeth a gondemniad pan yn ysgrifenu "fel dyn gonest," chwedl yntau; ei gariad at y gwirionedd ei gyffrôl yn gymaint wrth weled dyn yn ddigon haerllug i ddyweyd celwydd yn "wyneb haul a llygad goleuni" er mwyn cant o *jacobuses*; a'i wladgarwch ei danio yn gymaint gan gamddarluniadau gelynyion ei wlad, fel yr ymgwymerodd â'r gwaith o ysgrifenu "Diffyniad i bobl Lloegr." Gwae i Salmasius y canlyniad!

Mae yn debyg na fu yr un ymladdfa lênyddol erioed a "barn yn cael ei dwyn i fuddygoliaeth" yn fwy trwyadl nag y dygir hi yma gan Milton. Yr ydym yn cofio fod Dewi Wyn yn dywedyd ar ryw fater wrth y diweddar P. A. Môn,

"Ceir gwybod, Cawr Caergybi,  
Mai blewyn wyt o'm blaen i."

Nid yw Salmasius, druan, yn llaw y creadur mawr yma ond blewyn o'r maintioli lleiaf. Mae yn dinystrio ei gyfundraeth mor hollol ag y dinystria Jonathan Edwards eiddo ei wrthwynebwyr yntau yn ei draethawd gorchestol ar yr "Ewyllys;" ond heblaw hyn, y mae yn gollwng arno y fath nerth mawr o ysgrifenu grymus nes y mae fel pe byddai yn ei gladdu yntau hefyd yn adfeilion ei gyfundraeth, ac yn cynhyrfu pob mynws i fwrw arno, heb arbed, nes chwyddo y golofn, a pheri ei bod yn arswyd trwy oesoedd y ddaear, rhag i neb garu gwobr anghyfiawnder, ac amddiffyn gorthrwm. Braidd na fuasem yn dewis iddo fod yn fwy tyner, oni b'ai ein bod yn teimlo mai dyn gonest ydyw, o ddifrif, ac yn ymladd dros ei wlad. Nid rhyfedd fod lledaniad y gwaith ar y pryd yn Ewrop fel tân gwyllt, a'i fod wedi effeithio yn farwolaeth i Salmasius. Nid oes ond un peth yn y gwaith yr ydym yn gorfod anghymeradwyo, sef ei fod yn ymostwng i siarad geiriau mor isel weithiau, pan y mae ei amynedd wedi myned ar goll gan hurtrwydd neu ddigywilydd-dra ei wrthwynebydd. Y mae y rhai hyn yn frychau ar wyneb yr haul. Dywedir ei fod ef ei hun, tua diwedd ei oes, yn cwyno ddarfed iddo, yn mhoethder y frwydr, arfer geiriau rhy lymion. Ond y mae yn ddiaul fod llawer o bethau yn ei esgusodi. Yr ydoedd yn teimlo dros ei fater yn fwy na channoedd o ddadleuwyr; dyna arferiad dadleuwyr yn gyffredin; yr oedd yn ysgrifenu yn Lladin,<sup>1</sup> ac yr oedd dysgedigion yn teimlo fod ganddynt hawl i chwyrru yn fwy mileinig yn yr iaith hòno nag yn eu hiaith eu hunain; yr oedd hyn yn rhoddi nerth yn ei reymau i lawer o bobl, ac, yn wir, yn ymladd y frwydr drosoedd i feddyliau lliaws mawr o'i gydoeswyr; ac yr oedd yr amserau yn naturiol yn gosod eu hargraff ar ei ysbryd. Ac yr ydym yn cyfaddef yn rhwydd, er ein bod yn eu hanghymeradwyo, fod yn well genym glywed Milton yn siarad iaith natur ddrwg na neb arall. Achilles ydoedd Achilles pan yn tafu ei deyrn-

<sup>1</sup> Mae y gwaith yn y llyfr yna wedi ei gyfieithu gan un Mr. Washington, un o wŷr y gyfraith.

wialen ar lawr yn y cynghor, ac yn tyngu wrthi mewn ymadroddion yr oedd ei ddigofaint yn ei dagu cyn iddo eu gorphen na chynorthwyaï wedi hyny yn y rhyfel, yn gystal a phan yn rhoddi yr archoll farwol i Hector. Y mae yn ddigrif i ni weled ein hawdur, pan wedi ei weithio i ymdeimlad byw o ffolineb neu ddrygioni ei wrthwynebydd, yn gorfod gwasgu y fath nerth o ddifffyg amynedd, i rai o eiriau bychain iaith natur ddrwg. Os yn unman, yn y fan yma y mae iaith yn ymollwng dano. Pan y mae yn ei bwyll y mae yn cael iaith i drosglwyddo ei syniadau, pa mor fanwl neu arddunawl bynag fyddont, gyda mwy o ufudd-dod na nemor neb o'i gydfarwoliion; ond ambell dro, pan mae ei amynedd yn brin, yr ydym yn gorfod tafu ein hunain tudraw i iaith i wrandaw ar yr ysbryd hyawdl yn traethu ei syniadau cynhyrfiol yn ei iaith ei hun. Gyda golwg ar iaith, weithiau, nid yw efe yn annhebyg i'r un a ddarlunia ef ei hunan gyda golwg ar yr awyr—

“ He steers his flight

Aloft, incumbent on the dusky air,  
That felt unusual weight.”

Yr oedd arddull Salmasius yn rhygnu ar ei glust goethedig. Dywed am rai o'i ymadroddion “nad ydynt na synwyr na Lladin.” Y mae yn fynych yn gosod arno y gosbedigaeth drom o gymeryd Salmasius ar “Uchafiaeth y Pab” yn un llaw, a Salmasius “Diffynydd y Brenin” yn y llaw arall, a'u curo yn ddirugaredd yn erbyn eu gilydd; pan fflina ar hyny, gallwn ddysgwyl i'r lliith hōno ddiweddu mewn rhyw air grymus ar “wobr anghyfiawnder.”

Gyda golwg ar resymau Salmasius, y maent, mae yn debyg, gystal a dim allasem ddysgwyl ar achos mor ddrwg. Un peth mawr y mae yn ei ddwyn yn erbyn y senedd yw, ei bod wedi condemnio a dienyddio y brenin fel pe buasai yn llofrudd neu leidr. Dengys Milton fod ei alw i brawf, a'i gondemnio yn rheolaidd, yn fwy cyfiawn o lawer nag a fuasai ei dori ymaith trwy un ffordd arall. Yr ydoedd wedi troseddau yn erbyn y gyfraith, ac am hyny buasai yn annheg iddynt rwystro y gyfraith i'w gondemnio. Os ydyw yn chwisth gweld y brenin wrth y bar yn gofyn am ei fywyd, mae yn fwy chwisth i'r brenin, sydd wedi ei osod yn amddiffynwr y gyfraith, fynu gorthrymu y bobl, er gorfod gwneyd y gyfraith yn sarn. Ond cyfraith Charles ydoedd ei uchelfrydedd. Ac un o elfenau mwyaf pwysig cryfder y Puritaniaid, fel pob pobl yn wir sydd yn werth eu henwi, ydoedd eu hymdeimlad uchel a mawrhydi deddf, ac anhyblygrwydd cyfiawnder. Nid ydyw yn bosibl i *sefyllfa* dyn, yn ngolwg y bobl yma, fod yn ddim mwy effeithiol i rwystro y pethau mawrion hyn yn eu rhedfa, nag y gallai fod i gyfnewid deddfau y dydd a'r nos. Yr ydym yn parchu o'n calon ymddygiad Arglywydd Brif Farnwr y *King's Bench* yn “Shakspeare,” am iddo fynu ei ffordd i'r gyfraith i gosbi Harri v., pan yn Dywysog Cymru, am ei afreoleidd-dra; yr ydym hefyd yn canmawl ei dad, Harri iv., am oddef iddo; ond yn fwy na'r ewbl, yr ydym yn parchu Harri v. ei hun, am y paroh a dalodd i'r barnwr wedi ei goroniad, a hyny yn ngŵydd ei dywysogion. Nid oedd y barnwr yn dysgwyl ond ei ŵg; ond er hyny yr oedd yn ymgysuro yn yr ystyriaeth ei fod wedi gwneyd ei ddyledswydd. A phan oedd Harri yn chwareu Salmasius, trwy ofyn iddo sut y gallai ddysgwyl maddeuant ar ol tafu y fath sarhad ar etifedd y goron, yr ydym yn ei gael, yn ysbryd Milton, yn siarad y geiriau ardderchog hyn:—“Yr oeddw



i y pryd hyny yn lle eich tad—yr oedd delw ei allu y pryd hyny wedi ei osod ynof; ac yn ngweinyddiad ei gyfraith ef, pan oeddwn i yn brysur dros y wladwriaeth, fe fu yn wiw gan eich uchelder anghofio fy lle, mawrhydi a gallu cyfraith a chyfiawnder, delw y brenin, yr hwn oeddwn yn gynnrychioli, a tharawsoch fi hyd yn nod ar faine y farn; am hyny, fel troseddwr yn erbyn eich tad, rhoddais fordd hyf i fy awdurdod, a thradodais chwi. Os oedd y weithred yn ddrwg, byddwch chwi yn foddolawn, yn awr yn gwisgo y goron, i gael mab a gyfrifai eich deddfau yn ddim, i dynu cyfiawnder i lawr oddiar eich mainc fawreddig, i ddisodli rhedfa y gyfraith, a phylu y cleddyf sydd yn gwarchod heddwch a diogelwch eich person: ie, mwy, i ddirmygu eich delw freninol, a gwatwar eich gweithrediadau yn eich cynrychiolwr. Holwch eich meddyliau breninol; gwnewch yr achos yn eiddo eich hun, byddwch yn awr y tad, a thybiwch am fab;—clywch eich urddas eich hun yn cael ei ddarostwng gymaint, edrychwch ar eich cyfreithiau mwyaf pwysig yn cael eu heegeuluso mor ddigyfrif, edrychwch arnoch eich hun yn cael eich ddiystyru yn y fath fodd gan fab; ac yna meddyliwch am danaf fi yn cymeryd eich plaid, ac, yn eich awdurdod, yn dystewi yn dawel eich mab. Ar ol yr ystyried pwylog yma, dedfrydwoch fi; ac, fel yr ydych yn frenin, dywedwch yn eich sefyllfa beth a wneuthum i oedd yn anghymhwys i fy lle, fy mherson, ac awdurdod fy arglwydd.” Mae yn anhawdd genym feiddwl y buasai yn bosibl cael neb y tu yma i ysbryd bawaid gorthrymwr a allasai godi ei law i daraw y fath gymeriad. Pe buasai yn gwybod, nid oedd anghen am ei araeth i ddarbwyllo Harri; na, yr oedd ef yn arwr, a gallai ei galon anrhydeddus ymdeimlo â chyfiawnder. Gwyddai mai egwyddor fawr ydyw sydd yn llywodraethu y bydysawd, yn darostwng *perffeithroydd* o dan ei hawdurdod, ac nid opiniwn ansicr y gellir ei phlygu a'i hystumio i gydymffurfiaid â phob dymuniad gormesol a allo godi yn nghalon gorthrymwr. Dyma ei atebiad—iaith arwr i'r pen draw:—“Yr ydych yn iawn, farnwr, ac yn pwyso hyn yn gywir; am hyny dygwch eto y glorian a'r cleddyf, ac yr wyf yn gobeithio y bydd i'ch anrhydedd gynnyddu, nes y byddo i chwi fyw i weled mab i mi yn troseddu i'ch erbyn, ac yn ufuddhau i chwi fel y gwneuthum i. Felly caf fyw i ddywedyd geiriau fy nhad, 'Yr wyf yn ddedwydd fod genyf ddyn mor hyf a faidd wneyd cyfiawnder ar fy mab fy hun; ac nid llai dedwydd fod genyf y fath fab, a roddai ei fawredd i fyny yn y fath fodd i law cyfiawnder.' Traddodasoch fi, am yr hyn yr wyf yn traddodi i'ch llaw y cleddyf anrhydeddus a arferech ddwyn, gyda chofio hyn, fod i chwi ei ddefnyddio gyda'r un ysbryd hyf, cyfiawn, ac anmhleidgar, ag y gwnaethoch tuag ataf fi. Dyma fy llaw; cewch fod fel tad i fy ieuencid; fe gaiff fy llais lefaru yn ol eich cyfarwyddyd, a gwnaf finnau blygu a darostwng fy mwriadau i'ch cyfarwyddiadau profiadol a doeth.” Y fath bellder mawr sydd rhwng y syniadau gwir dywysogaidd yna a'r hyn a ddefnyddir i gondemnio y senedd am eu gwaith yn meiddio galw gŵr mor urddasol a'r brenin i gymeryd ei farnu gan gyfiawnder, am eu gwaith, yn ol geiriau Milton yn rhywle, yn “caru brenines gwirionedd yn fwy na'r brenin Charles.” Dylem gofio nad oedd y frwydr rhwng y brenin a'r senedd ond arwyddlun o frwydr mwy pwysig o lawer oedd yn cael ei dwyn ymlaen y dyddiau hyny rhwng trais ac uniondeb. Egwyddorion yn curo yn erbyn eu gilydd oedd yn gwneyd y dyddiau hyny yn bwysig. Yr oedd y “cadryfelwyr” hyn yn cario yr ymdrechfa ymlaen

gyda chymaint o "drwst, a dillad wedi eu trybaeddu mewn gwaed," nes yr oedd y gwahaniaeth rhwng dyn a dyn yn oolli; a phan oedd uniondeb wedi cyrhaedd y llawryf, yn gorchymyn Charles oddiar y ffordd, nid oedd yn bosibl ei arbed. Brenin neu beidio, yr oedd troseddau y pechadur yn gwaeddi am ddial â llais rhy groch i beidio cael gwrandawriad.

Rheswm arall y mae Salmasius yn ddwyn i'w herbyn, gyda rhywfaint mwy o debygolrwydd priodoldeb, yw, fod y brenin yn berson yn mha un y gorphwysa y gallu uchaf yn y deyrnas, yr hwn sydd gyfrifol i Dduw yn unig, yr hwn a all wneyd yr hyn a fyddo, yr hwn nad yw yn rhwym wrth yr un gyfraith. Felly, pa mor orthrymus bynag fyddo brenin, nid oes gan neb yr un hawl i'w alw i gyfrif. Ac er fod Milton yn cyfaddef nad oes ond ychydig, a'r rhai hyny yn ddynion o ddoethineb mawr a gwroldeb, ydynt yn awyddus am ryddid, neu yn gymhwys i'w ddefnyddio, ac fod y lliaws yn dewis byw dan feistriaid, eto dywed eu bod hwythau yn dewis eu cael yn rhai cyfiawn: ac am rai anghyfiawn a gorthrymus, na fu Duw erioed yn gymaint o elyn i ddynolryw ag i osod anghenheidrwydd i ymostwng iddynt; ac na fu pobl erioed mor amddifad o bob synwyr, nac wedi suddo i'r fath ddyfnder o anobaith, ag y gosodent y fath ddeddf greulawn arnynt eu hunain a'u plant. Ond os ydyw awdurdod brenin yn unbenaethol, gan fod breninoedd mor aml a phobl eraill, os nad yn amlach, yn ol fel y mae eu hawdurdod yn fwy, yn ddynion drygionus, nid oes genym yn fynych gymaint a chysgod cawnen rhyngom â'r gorthrymder mwyaf annyoddefol. Ymdrecha Salmasius i ddwyn rhesymau i brofi yr athrawiaeth yma o'r Bibl, o hanes y byd, ac o gyfansoddiad teyrnas Prydain. Ond y mae Milton yn anfon ei ffured ar ei ol i bob twll, ac erbyn cael ystyr briodol pob un braidd o'i ddyfyniadau, y maent yn ymladd yn erbyn Salmasius, ac yn dinystrio ei gyfundraeth. Y mae Milton yn gosod i lawr oddiwrth y gair yn *Deut.* xviii. 14, "Os dywedi, gosodaf arnaf frenin, megys yr holl genedloedd sydd o'm hamgylch," &c., yn gyntaf, Fod gan bob cenedl hawl i osod i fyny y ffurfiwodraeth a fyddo yn y wlad, ac i'w newid pan, ac fel y fyddo; ac yn ail, Mai gwerin-lywodraeth yw y ffurf oreu, oblegid mai yn groes i ewyllys Duw y ceisiasant ei newid, i fod "fel y cenedloedd o'u hamgylch." Dywed fod Josephus yn ei sylw ar y gair yma yn ffafriol i'w olygiad. "Pendefigaeth," medd ef, "yw y ffurfiwodraeth oreu; am hyny, peidiwch a meddwl am sefydlu yr un arall; y mae yn ddigon i chwi fod Duw yn llywodraethu drosoch; ac os mynwch gael brenin, bydded iddo ymddwyn yn ol cyfraith Duw, ac nid yn ol ei ddoethineb ei hun; a gosodwch waharddiad arno os amcana at fwy o awdurdod nag a ganiatâ ansawdd eich sefyllfa." A Philo:—"Nid yw y rhai sydd yn cymeryd iddynt eu hunain allu mawr er niwed a dnystr y bobl, yn deilwng o'r enw breninoedd, ond gelynyon; oblegid y mae eu gweithredoedd yr un â'r eiddo gelyn anghymmodlawn, i.e., y mae y rhai sydd yn niweidio, dan esgus llywodraethu, yn waeth na gelynyon cyhoeddus. Gallwn amddiffyn ein hunain rhag yr olaf; ond y mae malais y cyntaf o gymaint a hyny yn fwy niweidiol, oblegid nad yw mor hawdd bob amser ei adnabod." Drachefn: "Y mae brenin a gorthrymwr yn wrthgyferbyniol." Eto: "Dylai brenin, nid yn unig orchymyn, ond hefyd ufuddhau." Ac os na wnaiff ufuddhau, nid yw Milton yn gweled paham na ddylid ei gosbi ef, yn gystal a'r offeiriad, a phob swyddwyr eraill, fel pechaduriaid yn gyffredin. Ar ol gosod hyn i lawr fel ystyr y Bibl, a ymlaen at awdurdodau Salmasius. Un ydyw *Preg.* viii. 2—4; "Yr ydwyf

yn dy rybuddio i gadw gorchymyn y brenin, a hyny o herwydd llŵ Duw. Na ddos ar frys allan o'i olwg ef; na saf mewn peth drwg: canys efe a wna a fyno ei hun. Lle y byddo gair y brenin y mae gallu: a phwy a ddywed wrtho, Beth yr wyt ti yn ei wneuthur?" Yr ateb ydyw, fod y pregethwr yn rhoddi y cynghor i bersonau unigol, ac nid i'r sanhedrim; ac "o herwydd llŵ Duw" y cynghora hwythau i ymostwng. Os oeddynt hwy wedi tyngu ffyddlondeb i'r brenin, fod y brenin hefyd wedi tyngu ffyddlondeb iddeddfau Duw, ac i ddeddfau ei wlad, a'i fod, wrth bob rheswm, i ystyried ei ffyddlondeb ei hun fel ammod o ffyddlondeb y bobl. Fod y Reubeniaid a'r Gadiaid (*Jos. i. 17*) yn gwneyd ammod pendant â Josua y byddai iddynt wrandaw arno yn mhob peth fel y gwnaethant ar Moses, os byddai yr Arglwydd gydag ef "megys y bu gyda Moses." Mai ystyr y gair, "Na saf mewn peth drwg, canys efe a wna a fyno ei hun," yw, y gwna yr hyn a fŷn fel gweinidog y gyfraith ar ddrwgweithredwyr, y rhai y mae ganddo awdurdod i'w cosbi, ac yn erbyn y rhai y gall ymddwyn gyda llymder neu drugaredd fel y gwelo achos. Dim tebyg i orthrwm; dim a ddychryna y dyn da. Ac mai ystyr y geiriau, "Lle y byddo gair y brenin y mae gallu," yw, fod yn beryglus i ddyn cyffredin ymryson â brenin neu ŵr mawr; ond eto nad yw teyrnas o bobl i fod fel wedi eu taraw â mudandod pan y mae brenin drygionus yn *ravio* fel gwallgofddyn, ac yn dinystrio ei ddeiliaid. Os ydyw yn llywydd, llywydd ydyw fel gweinidog y gyfraith, ac nid fel arglwydd y gyfraith. Dywed Salmasius, gan fod Israel yn gofyn am frenin fel breninoedd y cenedloedd, ac fod breninoedd y Dwyrain yn unbenaethol, fod hyny yn brawf mai unbenaethol ddylai breninoedd fod. Ond ni chaniatâir fod pwys yn y byd yn neisylfad pobl Israel, gan fod Duw yn ddig wrthynt, nid yn unig am ofyn brenin fel eiddo y cenedloedd eraill, ond am ofyn brenin o gwbl. A pha fath bynag oedd breninoedd y cenedloedd, nad allwn feddwl am fynyd eu bod yn deisyfu llywodraeth a fuasai yn orthrymus arnynt, gan eu bod yn gofyn am dani o *heroydd* gorthrwm meibion Samuel. Ac heblaw hyny, fod y sylfaen ar ba un y sicrha fod gan freninoedd y Dwyrain awdurdod nad ellid ei galw i gyfrif, yn dywodlyd. Dyna ydyw tystiolaeth Virgil am y gwenyn, "Nad oedd yr Aipht, Lydia, a Pharthia, &c., yn parchu eu brenin yn gymaint." Ond fe ddywed Virgil am y gwenyn eu hunain eu bod yn byw "*sub magnis legibus*"—dan *gyfreithiau sylfaenol*; ac os oeddynt hwy, oeddynt yn parchu y gallu llywodraethol yn fwy nag yr oedd teyrnasoedd y Dwyrain yn parchu eu breninoedd. Yn mynu cael byw wrth gyfreithiau manwl, pa faint mwy yr oedd y teyrnasoedd felly, a pha mor bell ynte oedd y brenin o fod yn unbenaethol, ac heb fod dan lywodraeth yr un ddeddf? Gyda golwg ar bwnc y gwenyn, yr un atebiad ag a roddes ef ei hun i rai o dduwinyddion Cymanfa Trent, a geisient brofi uchafiaeth y pab oddiwrth uchafiaeth y llywodraethydd yn mysg y gwenyn, "pan yn ddyn gonest," yn awr, pan y mae "yn gnaf," a ddyru Milton iddo yntau. "Y mae y gwenyn yn wladwriaeth, ac felly y geilw athronwyr naturiol hwynt; y mae ganddynt frenin, ond un diniwed; y mae yn arweinydd, neu yn gadben, yn hytrach na brenin: nid ydyw byth yn curo, yn llusgo, nac yn lladd y gwenyn, ei ddeiliaid." Nid rhyfedd eu bod yn ei barchu ynte. Ni all fod yr holl bethau annymunol y mae Samuel (*2 Sam. viii. 11—18*) yn dywedyd a wnai y brenin i feibion Israel yn profi y byddai ganddo *haul* i wneyd hyny, ond y byddai ei ddrygioni y fath fel na fynai beidio a'u darostwg dan ei draed.

Hyn oedd i fod yn gosbedigaeth arnynt am eu gwrthnysigrwydd yn parhau i ofyn am frenin yn groes i ewyllys Duw; ac eto, nid ydynt yma yn cael eu gwahardd i weddio yn ei erbyn, neu i ymdrechgu i'w daflu ymaith. "Nid ydyw brenin yn rhwym wrth yr un ddeddf," ac eto yr ydym yn cael Saul wedi ei rwymo wrth ei ddeddf ei hun, ac yn bwrw coelbren i edrych pa un ai efe ai Jonathan fyddai raid farw, ac yr ydym yn cael Uziah yn ymostwng yn dawel pan yrwyd ef allan o'r deml gan yr offeiriaid am ei fod yn wahan-glwyfus, fel y dylasai pob dyn cyffredin wneyd; a phe buasai yn myned i ystyfnigo, i son am ei hawliau, ac i ddyweyd nad oedd gan neb awdurdod i'w orchymyn ef, nid yw yn debyg y buasai yr offeiriaid a phobl yr Iuddewon yn gadael i'r deml gael ei halogi, y cyfreithiau eu tori, a'u personau eu hunain mewn perygl o gael yr haint. Ac a ydyw yn debyg fod deddf yr erbyn brenin gwahanglwyfus, a dim deddf yr erbyn brenin gorthrymus?

Ond dywed Salmasius fod "y brenin yn derbyn ei awdurdod oddiwrth Dduw yn unig," ei fod "yn eneinio yr Arglwydd." Dywed Milton na fu y fath freninoedd erioed yn y byd yma, ag oeddynt yn derbyn eu hawdurdod oddiwrth Dduw yn unig. Ni fuasai Saul byth yn teyrnasu oni buasai i Israel ddeisyfu cael brenin, a hyny hyd yn nod yn groes i ewyllys yr Arglwydd; ac er iddo gael ei gyhoeddi yn frenin yn Mizpah, yr oedd yn byw gartref wedi hyny, ac yn gofalu am anifeiliaid ei dad, nes iddo gael ei wneyd yn frenin eilwaith gan y bobl yn Gilgal. Er i Dafydd gael ei eneinio unwaith wrth orchymyn Duw, nid oedd yn frenin nes cael ei eneinio wedi hyny yn Hebron, gan wŷr Juda, nac yn frenin ar y genedl i gyd nes i holl Israel ei eneinio yn Hebron, a hyny ar ol sicrhau cyfammod rhyngddo â hwynt. Fe wnaeth Jehoiada Joas yn frenin, ond cyn hyny fe wnaeth i'r bobl ac yntau fyned i gyfammod a'u gilydd. Addefa fod y rhai hyn, a'r breninoedd i gyd o hiliogaeth Dafydd, yn cael eu hapwytio gan Dduw a'r bobl, ond fod pob breninoedd eraill, o ba genedl bynag, yn cael eu hapwytio gan y bobl yn unig, ac na ellir dangos eu bod yn cael eu hapwytio gan Dduw yn amgen nag fel y mae pob peth yn cael ei ddwyn oddiamgylch dan lywodraeth ei ragluniaeth. "Trwyddo ef," mae'n wir, "y teyrnas breninoedd," a thrwyddo ef hefyd y mŷn y bobl eu hiawanderau. Mae hawl y bobl yn gymaint o Dduw ag ydyw hawl y brenin: os eneiniant un yn frenin heddyw, heb arwydd uniongyrchol oddiwrth Dduw, y mae ganddynt hawl i'w ddiorseddu yfory, os na cheidw ei gyfammod; ac nid oes un dyn a ammheua fod diorseddu gorthrymwr yn weithred fwy teilwng o lawer na'i osod i fyny. Cymerir *Salm* xvii. 2, "Deued fy marn oddi ger dy fron," i brofi mai Duw yn unig sydd i farnu brenin, ac eto, medd Milton, y mae yn dra thebyg i'r salm gael ei chyfansoddi pan oedd Dafydd ar ffwrdd o flaen Saul, pan, er ei fod ei hun yn eneiniedig, nad oedd yn ormod ganddo gymeryd ei farnu gan Jonathan; "Ac od oes anwiredd ynof fi, lladd di fi" (1 *Sam.* xx. 8). Ni wna yn y gair yna ond yr un peth ag a fuasai pob dyn da yn ei wneyd mewn amgylchiad o'r fath,—apelio at farn Duw pan oedd barn dyn yn gwneyd cam âg ef. Yna cymerir yr adnod yn *Salm* xli, "Yna dy erbyn di, tydi dy hunan y pechais," &c., i brofi yr un peth; "fel pe buasai gan Dafydd (chwedl Milton), pan wedi ei lethu gan dristwch, a braidd ei foddi gan ddagrau, yr ydoedd yn crefu yn ostyngedig am dregaredd Duw, ryw feddwl am ei hawl fel brenin, pan ydoedd ei galon mor isel fel yr ystyriai nad oedd yn haeddu hawl caethwas. Y mae yn eghur mai "yn dy erbyn di" yn *benaf* a feddylia. Heblaw hyny, ystyria fed

geiriau salm fel hon yn rhy lawn o farddoniaeth a theimlad i ddwyn un gair o honi ar fater o'r fath. Dywed Salmasius, *tudal.* 29 o'i lyfr, "Yn ol cyfansoddiad pob teyrnas nad ydyw breninoedd yn cael eu rhwymo wrth yr un ddeddf; mai dyma farn y rhan ddwyreiniol a'r rhan orllewinol o'r byd." Dyma y pwnc y ceisia ei brofi. Ond, *tudal.* 43, dywed, "Fod holl freninoedd y dwyrain yn llywodraethu *kara vojnov*—yn ol deddf; ie, fod breninoedd yr Aipht yn mhob achosion, mawrion, a bychain, yn cael eu rhwymo wrth deddf." A phwnc y bennod hñno yw profi, "Nad yw breninoedd yn cael eu rhwymo wrth ddeddfau;—eu bod yn rhoddi deddfau i eraill, ond na osodwyd yr un iddynt hwy eu hunain." Dywed ein hawdur nad oes ganddo achos i fod yn ddig wrtho, oblegid fod yn rhaid ei fod naill ai o'i gof neu o'i blaidd. Y mae weithiau yn llacáu cyhyrau ei wynebpryd difrifol, ac yn rhoddi caniatâd iddo ei hun a'i ddarllenydd chwerrhin tipyn ar ganol y gwaith. Gwelsom rai o'i fychanwyr yn galw ei arabedd yn "*grim*," ac yn chwerrhin eu dygasedd ato trwy ei ddangos fel peth amrosgo. Ydyw, y mae felly. Ni allai dyn o ddiifrifwch Milton ymddifyru mewn tincian arabedd fuasant yn gogleisio llawer ar feddwl gwag; na, gesyd hyd yn nod ei chwerrhin yn haint i ddeifio ysbryd ei elynion—gelynon y gwirionedd.

Ar ol gwneyd amryw sylwadau ar ranau o'r Hen Destament a ddygasai Salmasius ymlaen, a methu eu cael yn amddiffyn ei athrawiaeth am hawl brenin, a ymlaen at ei awdurdodau o'r Testament Newydd. Un a nodir ydyw yr helynt ynghylch y dreth, y cawn ei hanes yn *Mat.* xvii. Gofyna Crist i Pedr, "Beth yr wyt ti yn ei dybied, Simon? gan bwy y cymer breninoedd y ddaear deyrnged neu dreth? gan eu plant eu hun, ynte gan estroniaid? Pedr a ddywedodd wrtho, Gan estroniaid. Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Gan hyny, y mae y plant yn rhyddion. Er hyny, rhag i ni eu rhwystro hwy, dos i'r môr," &c. Barna Milton, mai treth y cysegr ydoedd hon, ond yn cael ei thalu i Herod, yr hwn oedd yn ei chymeryd iddo ei hun. Dywed fod Josephus yn son am amryw drethi yr oedd efe a'i feibion yn godi, y darfu i Agrippa eu symud. Fod y dreth yma mewn cysylltiad â llawer o drethi yn dyfod yn orthrymus. Fod Crist yn cymeryd mantais i sylwi ar orthrym Herod (o fewn llywodraeth yr hwn yr ydoedd ar y pryd) yn hyn, Nad yw breninoedd y byd yma yn gosod trethi ar eu deiliaid genedigol, ond ar ddyeithriaid a gelynon gorchfygedig, ond ei fod ef yn gorthrymu, nid yn unig ddyeithriaid, ond hefyd "ei blant ei hun." Ond pa un bynag a olygir wrth "eu plant eu hun" yn y fan yma, ei ddeiliaid genedigol, ynte plant Duw a'r etholedigion yn unig, ynte Cristionogion yn gyffredinol, fel y barna Awstin, os oedd Pedr "yn blentyn," ac o ganlyniad, "yn rhydd," fod yn eglur eu bod hwythau yn Lloegr, yn ol tystiolaeth Crist ei hun, naill ai fel Seison, neu fel Cristionogion, yn rhyddion," ac nad oedd hawl gan freninoedd i'w gorthrymu. Fe dalodd Crist y deyrnged, nid am fod gan Herod *hawl* i'w gofyn, ond rhag achlysuru cynhwrf. Fe ddangosodd *nad oedd y peth yn deg*, a phe na buasai ei neges yn y byd yma yn wahanol i osod eu helyntion gwladychol mewn trefn, *buasai yn gwneyd mwy*. Ac os dywedai, nad oedd yn deg i freninoedd osod trethi trymion ar eu deiliaid, pa faint mwy y buasai yn dywedyd nad yw yn deg iddynt yspeilio, poenydio, a lladd eu cydgladwyr, a'r rhai hyny yn Gristionogion hefyd? Yr oedd y Phariseaid yn gwybod beth oeddynt yn wneyd pan yn gofyn, "gan ei demtio ef, Ai cyfreithlawn rhoddi teyrnged i Cesar, ai nid yw?" Yr oedd arnynt eisieu ei "rwydo yn ei

ymadrodd," ac yr oedd yntau yn ddig wrthynt am hyny. Gwyddent fod syniadau gŵr o'i uniondeb ef am lywodraeth yn hollol wahanol i'r hyn y mynai gorthrymwyr iddynt fod. Yr ydym yn meddwl fod yr hyn a ddywed Milton ar y mater yma yn gynllun o wir hyawdledd:—"Y mae ei atebiad hefyd yn cynnwys hyny, trwy yr hwn y darfu iddo yn hytrach eu troi draw na'u haddysgu. Gofynnodd am arian y deyrnged. 'Eiddo pwy yw y ddelw hon a'r argraff?' medd efe. Y maent hwythau yn ateb, 'Eiddo Cesar.' 'Telwch chwithau,' meddai yntau, 'yr eiddo Cesar i Cesar, a'r eiddo Duw i Dduw.' A phaham na thalai y bobl iddynt yr hyn oedd eiddynt? 'Telwch i bawb eu dyledion,' medd St. Paul, *Rhef.* xiii. 1. Felly rhaid i Cesar beidio crafangu am y cwbl iddo ei hun. Nid eiddo Cesar yw ein rhyddid; bendith ydyw a dderbyniasom oddiwrth Dduw ei hun, yr hyn yr ydym wedi ein geni iddo ydyw; fe fyddai gosod hyn i lawr wrth draed Cesar, na dderbyniwn oddiwrtho, nad ydym yn rhwymedig iddo am dano, yn weithred annheilwng, ac yn ddarostyngiad ar ein natur ei hunan. Pe byddai i rywun edrych yn fanol ar wynebpryd dyn, a gofyn ar ddelw pwy y ffurfiwyd creadur mor ardderchog, ai ni fyddai i pwy bynag ai clywai, ateb yn y fan, ei fod wedi ei wneyd ar ddelw Duw ei hun? Gan ein bod ynte mewn ystyr neillduol yn eiddo Duw, ac o ganlyniad, yn bethau i'w rhoddi iddo ef, yr ydym ni yn hollol rydd wrth natur, ac ni allwn, heb y cysegr-ladrad mwya'f ellir ddychymygu am dano, gael ein darostwng i sefyllfa o gaethiwed i'r un dyn, yn enwedig i orthrymwr drygionus, anghyfiawn, a chreulawn." Mewn man arall dywed, "Pan ddywedasant wrtho fod Herod yn cynllwyn i'w ladd, a roddodd efe ateb gwylaidd a gostyngedig? 'Ewch, dywedwch wrth y cadnew hwnw,' &c., meddai, yn awgrymu nad oes gan freninoedd fwy o hawl i ddinystrio eu deiliaid, nag sydd gan y cadnew i ddirodi y pethau y mae yn ysglyfaethu." Athrawiaeth Crist ydyw, fod yr hwn a ewyllysio fod yn fwyaf, i fod yn was i bawb; ac nid i ddarostwng ei bobl i fod yn genedl o gaethweision. Y gorchymyn a roddai Duw i Moses am y bobl dan ei ofal, ydyw, "Dwg hwynt yn dy fynwes, megys y dwg tad-maeth y plentyn sugno." Ni fyddai hyny yn debyg i ymddygiad arglwydd ffroenuchel a balch, na fyddai yn wiw ganddo ond ymddyfyrn mewn cael ei bobl "yn lludw dan wadnau ei draed." Y maent i fod "yn weinidogion Duw" i amddiffyn iawnderau y bobl. Gair arall a ddygir ymlaen ydyw, l *Pebr* ii. 13, "Ymddarostyngwch oblegid hyn i bob dynol ordinhad, o herwydd yr Arglwydd," &c. Y rheswm penaf a ddygir yn erbyn cymeryd yr adnod yma i gondemnio y senedd yw, fod helynt y "dyeithriaid ar wasgar" yn

<sup>1</sup> "Nid eiddo Cesar yw ein rhyddid." Gair sydd yn cadwyno ein hoffder. Y mae yn cael ei droglwyddo mewn iaith ddiroddres, ac yn ymddangos yn gyffredin; ond tal i edrych arno—y mae ei ystyr yn ymëangu dan eich llygaid, ac y mae cynhenwydd ei frwdfrydedd yn twymno eich calon. Cawsom gyfleusdra yn lled ddiweddar i glywed gŵr a gredafod y mawreddig mewn areithyddiaeth yn gynnwysedig mewn cynhwrf geiriau, yn ymestyn gydag egni aruthrol at y *sublime*; a fynai y darlennydd weled y "*ridiculus mus*?" Wel, dyma hi:—"Yr oedd Corah, Dathan, ac Abiram yn diogys fel cawod fawr o genllyg yn fyw i fynwes Gehenna!" Byddai yn dda i'n cyfeilliaid o'r dosbarth yma gofio mai peth mewn meddwl ydyw mawredd. Dyma iddynt ddara o feirniadaeth o'r fath oreu, o waith yr hen Longinus (*Περί Υψους*, sec. ix):—"Felly hefyd y deddf-roddwr Iuddegwig (nid dyn cyffredin), wedi cael syniad teilwng am y gallu dwyfol, efe a'i dywedodd mewn modd urddasol; oblegid yn nechreu ei gyfeithian, dywed fel hyn:—Duw a ddywedodd, Beth? Rydded Goleuni, a bu. *Bydded Dabar*, a bu."

hollol wahanol i eiddo deiliaid rhyddion, pendefigion a seneddau, ac nad yw yr hyn sydd bob amser yn ddyledswydd i'r naill, yn wyneb amgylchiadau a allant ddygwydd, mewn un modd yn ddyledswydd i'r llall. Pe buasai yr apostol yn ysgrifenu cyfarwyddiadau i gorff o seneddswyr ar wledychiaeth, buasai yn dangos sut yr oeddynt i ofalu uwchlaw pob peth am ohwreuw teg i egwyddorion sylfaenol llywodraeth. Drachefn, dygir geiriau Paul, yn *Rhuf.* xiii., ymlaen—"Ymddarostynged pob enaid i'r awdurdodau goruchel," &c. Addefir fod y geiriau yna yn cael eu hyagrifenu at bobl Rhufain, ac nid fel rhai Pedr at y "dyeithriaid ar wasgar;" ond er hyny, at personau anghyhoedd, ac o'r dosbarth cyffredin, rhai nad oedd a fynont mewn un modd â helynt y llywodraeth. Y mae, fel Pedr, yn eu cynghori hwynt gyda golwg ar y llywodraeth *fel yr oedd*, oblegid pa mor anmherffraith bynag y gallasai fod, *nad hwy oeddynt y bobl i ymyraeth a'i chyfansoddiad*. Y mae y rheswm yma yn ymddangos i ni yn derfynawl (*decisive*) dros nad oes a fydd yr adnodau hyn, mewn un modd, â hawl neu awdurdod brenin *fel y cyfryw*, yn ei berthynas â'i ddeiliaid, ac yn pylu am byth eu cymhwysiad at rai yn amgylchiad senedd Prydain yn nyddiau Charles. Pe cyfarfyddem â dyn drwg ar y ffordd, a'i weled yn amcanu o ddifrif am ein bywyd, pa ddeddf mewn bod a'n beiai am ymdrechu cael byw, i.e., os gallwn, am *fyndu* cael byw, er methu heb orfod lladd yr ymosodwr, bydded ef frenin neu archesgob? Y mae wedi tafu pob cymeriad arall ymaith ar y pryd, ac, wrth gyfeirio ffroen y gŵn at ein calon, yn ymwisgo â chymeriad llofrudd; *fel llofrudd ynto y dylem ei drin*. Ac os dyma ddyledswydd personau unigol, pa faint mwy y mae yn ddyledswydd y senedd, pan y mae y llywydd, fel y dywed Philo, wedi peidio bod yn frenin, ac wedi dyfod yn orthrymwr, a'u diogelwch hwy, a diogelwch y deyrnas, mewn perygl oddiwrtho bob awr? Cofier nad ydyw *enw* brenin, mwy nac *enw* rhywbeth arall, o ddim gwerth wedi colli y *peth*; a phan y mae pob peth annheblwg wedi cyfarfod mewn dyn, y mae hawlio gwarogaeth iddo trwy awdurdod Pedr a Phaul, am fod yr *enw brenin* arno, yn gabledd na allasem ei oddef, heb gynhyrfu, ar gymeriadau Aristotle a Plato, pa faint llai ar gymeriadau apostolion yr Arglwydd! Na, rhaid i ni gael awdurdod uwch na brenin; awdurdod a fo yn ymglymu am y brenin ei hunan hefyd,—awdurdod deddf, yr hon, yn ngeiriau Pindar, sydd i fod yn *παντων βασιλευς*—yn frenin ar bob peth; neu, yn ngeiriau Plato, a ddyfynir gan ein hawdur, *το κρατουν εν τη πολει*—y gallu trechaf yn y wladwriaeth. Os myn y brenin fyned ar ei draws, nid oes iddo ond ffawd wael am ei fywyd—fe fyn ei ffordd pe byddai yn rhaid iddo falurio y gorthrymwr dan nerth ei olwynion.

Ar ol dangos na fynai y Bibl arddel athrawiaeth Salmasius, ac nad oes mwy o bwys yn nhystiolaeth "y tadau," pan yn groes i'r gwirionedd, nag yn ei eiddo yntau, y mae, er ei fod yn ystyried bob amser fod deddf Duw a deddf natur yn siarad yr un fath, a'i fod wedi dangos eisioes fod pob rheswm yn galw am gosbi gorthrymwr; eto, gan fod Salmasius yn siarad mor ymhongar am ei waith yn eu gorchfygu mor drwyadl trwy ei apeliadau at ddeddf natur,—yn myned ar ei ol, yn ddinstrio ei resymau, ac yn rhoddi cyfleusdra i ni ymwranddo â thystiolaethau natur ei hunan—y natur yma sydd o'n mewn, ac nid y natur ddychymyglol y mae twyll-resymwr yn godi i fyny i lefaru "iaith na ddeallwn." Hefyd, gan ddangos ychydig pa mor eang a dofn oedd ei wybodaeth, y mae yn chwilio allan ei

awdurdodau yn ngweithiau lliaws o'r awduron paganaid, ac yn cael fod syniadau uchel yr hen gewri hyny am ryddid ac uniondeb, erbyn eu deall yn iawn, yn gwrthwynebu Salmasius; i.e., fod y rhanau y mae ef ei hun yn ddyfynu yn ei ladd. Tro anffortunus iawn ydoedd iddo feddwl am fytuniaeth i'w egwyddorion oddiwrth yr ysgrifenywyr clasurol; nid yw yn bosibl i fawredd ddygymmod â gorthrwm; iselder a bychandra y bobl ydyw yr unig fan y mae yn werth i'r gorthrwmwr ymddiried ynddo am ddiogelwch; ac yr oedd yr hen baganiaid a wnaethant rhyw bethau y mae yn werth gan y byd eu cofio, fel Milton, o feddwl rhy benedfigaidd (*μεγαθυμοι*, chwedl Homer) i fod eu hunain, neu oddef i'w cenedl fod, yn sathra i'r gorthrwmwr; i.e., pan oedd eu hysbryd wedi eu danio mewn gelyniaeth at orthrwm yr oeddynt yn traethu ac yn ysgrifenu llawer o'r pethau sydd wedi codi eu hoes i'r fath ddysgleirdeb yn mysg oesau y byd. Y mae tynerwch ein hawdur yn peri iddo addaw wrth Salmasius os nad ydyw hanes a barn yr oesoedd yn dangos fod yn deg cosbi gorthrwmwr, y cydfarna âg ef fod y Bibl hefyd yn eu rhyddhau. Dywed Salmasius am yr Aipht, nad oes hanes fod un o'i breninoedd wedi ei ladd gan y bobl mewn terfysg, ac na chodwyd rhyfel gan ei deiliaid yn erbyn un o'i breninoedd, ac na amcanwyd diorseddu yr un o honynt. Ond erbyn edrych, ceir fod Osiris, eu brenin cyntaf, fe allai, wedi ei ladd gan ei frawd Typhon, gyda phump ar hugain o gydfradwyr eraill, ac fod lliaws mawr o'r bobl wedi ymuno â hwynt, ac ymladd brwydr âg Isis ac Orus, gwraig a mab y diweddar frenin: yn erbyn Chemes a Ciphrenes, breninoedd eraill, yr oedd y bobl yn gyflawn wedi ymgreuloni, a chan na allent ddial arnynt yn eu bywyd, bygythient eu rhwygo yn ddarnau pan fyddent feirw. O flaen Ciphrenes yr oedd yno un Ammosis yn frenin, yn gymaint gorthrwmwr a neb, ac yr oedd y bobl yn cyd-ddwyn âg ef am enyd, ond *am enyd*, ac o *herwydd ei fod yn rhy gryf*; pan ddaeth Actisanes, brenin Ethiopia, i ryfela i'w erbyn, cipiasant y cyfle, a gadawsant y brenin, troisant i'w erbyn, a gwnaed yr Aipht yn rhan o deyrnas Ethiopia. Yr oedd yn well ganddynt fyw dan dywysog estronol o gymeriad Actisanes, na than frenin o'u cenedl eu hun oedd yn orthrwmwr. Fe ddarfu i'r un bobl yn unfrydol ruthro i arfau yn erbyn Apries, gorthrwmwr arall, yr hwn a ymddibynai ar gynnorthwy estronol a gyflogasai i'w helpu; dan lywodraethiad Amasis, eu cadlywydd, darfu iddynt ei orchfygu a'i lindagu, ac wedi hyny gosodasant Amasis ar yr orsedd yn ei le. Yr un bobl oeddynt dan lywodraeth y Persiaid a'r Macedoniaid; dangosasant trwy eu gweithredoedd y dylid gosod attaliad ar orthrwmwr. Byddai pobl Ethiopia yn ystyried y breninoedd y tybient fod Duw wedi osod arnynt, fel math o dduwiau braidd; ond pan fyddai yr offeiriaid yn eu condemnio, lladdent eu hunain; felly, medd Diodorus, y byddent yn cosbi eu drwgweithredwyr, nid eu lladd, ond gyru swyddog cyflawnder atynt i orchymyn iddynt eu dinystrio eu hunain. Am Nebuchodonosor, ymhlith y Caldeaid, pan aeth ei falchder yn annyoddefol, gwyddis iddo gael ei "*gyru* oddiwrth ddyinion, i bori gwellt fel eidionau." Gyda golwg ar Media a Phersia, nid oedd eu breninoedd ond ail bethau; pan sonir am yr awdurdod uchaf, sonir am "*gyfraith y Mediaid a'r Persiaid*, yr hon ni newidir;" yr oedd y gyfraith hon mor amhlygadwy fel yr oedd ewyllys Darius, y brenin, yn rhy wan i fyned ar ei thraws i achub Daniel. Cafodd Sardanapalus ei amddifadu o'i goron gan Belesis, offeiriad o Babilon, ac Arbaces, llywydd Media, y bobl a'r offeiriaid yn eu cynnorthwyo:



a hyny nid am ei fod yn eu gorthrymu trwy greulondeb, ond am ei fod yn eu cywilyddio trwy ei anghymedroldeb a'i rysedd. Yr oedd y teyrnasoedd hyn yn cael eu darostwng, nid gan alluoedd estronol, ond gan eu galluoedd eu hunain. Darostyngwyd yr Assyriaid gan y Mediaid, y pryd hyny yn ddeiliaid iddynt; darostyngwyd y Mediaid gan y Persiaid, y rhai oeddynt hefyd ar y pryd yn ddeiliaid iddynt hwythau.

Cadarnha Salmasius ei bwnc â thystiolaeth Artabanus, un o'r Persiaid, wrth Themistocles, y Groegwr enwog, "nad oedd gwell deddf yn Persia na'r hon a orchymynai i'r breninoedd gael eu hanrhydeddu a'u haddoli;" ac erbyn edrych, dyma y gŵr, yn mhen ychydig amser, a laddodd y brenin Xerxes â'i law ei hun. Ni chaniatëir fod amddiffyniad hawl brenin o enau Phillip o Macedonia yn meddu mwy o bwysau nag fuasai o enau Charles ei hun. Dywed Ephantes, awdur y mae Salmasius yn ddyfynu, "Efe a alwn yn frenin sydd yn llywodraethu yn dda; efe yn unig sydd yn briodol felly." A Plato, "Bydded breninoedd yn ddarostynedig i gael eu galw i gyfrif am yr hyn a wnant; bydded i'r deddfau lywodraethu, nid yn unig y bobl, ond y breninoedd eu hunain, os gwnant rywbeth anghyfreithlawn." Aristotle eto, "Nid yw y brenin hwnw y mae y bobl yn gwrthod cymeryd eu llywodraethu ganddo, mwyach yn frenin, ond yn orthrymwr." A Xenophon, "Y mae y bobl mor bell oddiwrth ddial marwolaeth gorthrymwy, fel y maent yn gosod anrhydedd mawr ar y neb a laddo un, ac yn codi cerfluniau yn eu tamlau i anrhydedd lleiddiaid gorthrymwr." A dywed Polybius, hanesydd Groegaidd o awdurdod mawr, "Pan ddechreuodd y tywysogion foddhau eu trachwant eu hunain, yr oedd y teyrnasoedd yn cael eu troi yn gynnifer o ormes-lywodraethau, a'r deiliaid yn dechreu cydfwriadu marwolaeth eu llywodraethwyr; ac nid y dosbarth gwaethaf oedd felly, ond y rhai goreu a mwyaf mawrfrydig." Ceir y beirdd yn dwyn tystiolaeth i'r un gwirionedd. Y mae yn wir fod Salmasius wedi pigo aml i air o honynt yn ymddangos yn ffafriol iddo ef, ond yn hyny y mae wedi dangos anwybodaeth neu anonestrwydd mawr; dyfyna o'u gweithiau chwaraëddol, a gesyd y dyfyniad yn enw y bardd, fel pe byddai ef yn rhwymedig am bob opiniwn a draethir gan y gwahanol gymeriadau a ddug i sylw: nid oes dim yn fwy annhêg. Y mae llawer yn ein gwlad ni ein hunain, ac yn yr Almaen, wedi bod yn llafurio gyda thraul fawr ar eu cywreinrwydd i ddwyn ynghyd gyfundraeth o opiniynau Shakspeare, allan o'i weithiau chwaraëddol, ond nid oes yr un ymchwiliad yn fwy ansicr; yr ydym yn cael ein gadael

"Fel llong ar gefnfor,  
Heb raff, heb hwyl, heb angor;"

os na chawn rhyw well mantais na hyn i ddeall dyn. Pwy byth, yn meddu rhywfaint o gydwybod, ac yn preswyllo y tuallan i furiau y gwallgofdy, a feddyliai am briodoli y syniadau cableddus a draethir gan Satan ac eraill o'r "ysbrydion damnedig" i Milton, er mai efe a'u gwnaeth? Gorchest dyn mewn cyfansoddiadau a fo yn cynnwys cyd-ymddyddan, ydyw ei guddio ei hun, os nad ei hun fydd yn amcanu ddangos, a gadael chwareu teg i'w gymeriadau i ddadblygu eu hunain. Y mae yn wir fod rhai, megys Arglywydd Byron, yn wahanol yn hyn; yn ei ymgeisiadau ef yn y llinell yma nid oes ond un cymeriad yn rhedeg trwyddynt oll, sef efe ei hun; yr un ysbrydiaeth ffyrnig, yr un wên ddirmygus, a'r un wêg ddyngasol ydynt i'w canfod yn "*Childe Harold*," "*Cain*," y "*Corsair*" "*Don Juan*," a'r cyfan;

1852.]

ac heblaw fod tebygohrwydd mawr felly rhwng prif arwyr y gwahanol gyfansoddiadau, y mae y Hinnell yn dra aneglur yn fynych sydd yn gwahaniaethu y gwahanol gymeriadau yn yr un cyfansoddiad. Ond ei wendid yw yr achos o hyny. Yr oedd ynddo ef anghyfadrasrwydd gwreiddiol at y *drama*, oblegid ei fod wedi ei lyncu i fyny yn ormodol iddo ei hun. Ond yn llaw beirdd mwy galluog, y mae pob cymeriad yn berson; ac ni fyddai yn bosibl i'r naill siarad pwnc y llall, heb i ni deimlo fod y byd yn myned o chwith. Y mae y bardd wedi gorphen ei orohwyl mewn cyfansoddiadau o'r natur yma, pan y mae wedi dangos pobl eraill. Nid oes a fynom ni â Shakspeare pan yn nghyfeillach y bobl y mae ef trwy ei swynyddiaeth wedi eu codi atom i'n hystafell, ond â Hamlet, Cesar, Macbeth, Lear, a Falstaff; nac â Goethe, ond â Faust, Mephistophiles, Tasso, a Goetz; nac â Schiller, ond â Wallenstein, a Wilhelm Tell. Caiff y bardd ei hun fod y peth y byddo, yn unig gwnaed chwareu teg â'i gymeriadau. Ond y mae un rheol, a dim ond un, trwy yr hon, can belled ag y mae yn myned, y gallwn gael rhyw fantais i ddeall syniadau y bardd, sef sylwi pa syniadau a esyd yn ngenueau y cymeriadau penaf yn y gwaith,—y cymeriadau yr ymdrecha i'n hennill i'w parchu. Y mae y rheol yma yn ansicr, oblegid pwy all beidio parohu Cesar a Brutus yn "*Julius Caesar*," er eu bod yn hollol groes i'w gilydd? Pwy wŷr, ynte, pa un o'r ddau sydd yn cynrychioli y bardd? Ond can belled ag y mae yn myned, nid oes ei gwell. Ond y mae dyfyniadau Salmasius, wedi eu cymeryd o eneau y personau ag yr oedd lleiaf o bwysau yn eu cymeriadau; caeth-forwynion, carcharorion, a gwenieithwyr; tra y mae y personau mwyaf enwog yn y gweithiau yn amddiffyn egwyddorion uchel rhyddid ac uniondeb. Y mae Milton yn dangos hyn yn helaeth ac yn fanwi, a buasai yn ddifyr genym pe buasai genym le i adysgrifio ei sylwadau. Y mae ar ol ymchwiliad maith a dyg-edig, yn cael enwogion Groeg a Rhufain—yn athronwyr, haneswyr, a beirdd—yn cyduno mai yn y bobl y mae y gallu uchaf, y dylai brenin fel dyn arall gymeryd ei lywodraethu gan ddeddfau, ie, yn iaith rymus Hercules, yn Seneca, "Na ellir offrymu i Iau<sup>1</sup> aberth mwy cymeradwy, na brenin drygionus." Byddai un tywysog, o gymeriad rhagorol, sef yr ymherawdwr Trojan, yn amddiffyn yr athrawiaeth yma ei hunan; pan yn rhoddi ei ddagr i ynad Rhufeinig fel arwyddlun o'i alwad, byddai yn fynych yn dywedyd wrtho, "Cymer y cleddyf yma, a defnyddia fe drosof fi, os gwnaf fel y dylwn; os amgen, yn fy erbyn, oblegid y mae camymddygiadau yn y prif ynad yn llai esgusodol."

Y mae Salmasius yn lawn mor aifwyddiannus pan geisia amddiffyn hawl brenin, yn ol ei athrawiaeth ef, oddiwrth gyfansoddiad y deyrnas yma. Dywed fod y "tadleiddiaid Seisnig" yn dywedyd, nad yw llywodraeth Lloegr yn unig yn freninol, ond yn gymysg; ond ceir fod Syr Thomas Smith, cyfreithiwr a gwladychwr enwog yn amser Edward VI., yn dywedyd yr un peth, a hyny nid yn unig am Loegr, ond am braidd bob teyrnas arall yn y byd; ac nad yw yn bosibl i lywodraeth sefyll ond felly. Myn Salmasius fod y gair *brenin* yn arwyddo y gallu uchaf, sydd gyfrifol i Dduw yn unig; ond boed rhyngddo ef i eiriadur, nid oes a fyno Milton â'r *gair* ond â'r *peth*, y peth fel y dylai fod; a chan fod cyfansoddiad ein teyrnas yn ystyried ei brenin fel un sydd yn rhwym mewn cyfammod a llw i ofalu am ei deddfau, y mae felly yn gymaint, os nad yn fwy, dan

<sup>1</sup> *Jupiter—Zeus* y Groegiaid—y prif dduw paganaidd.

arglwyddiaeth deddf a neb yn y deyrnas; fod yn eglur oddiwrth nifer y brenin-  
oedd, a'r dull o'u gwneyd, nad oedd y goron yn dreftadol (*hereditary*),  
oblegid gofynir cydsyniad y bobl mewn geiriau pendant. Wedi i'r brenin  
gymeryd y llw arferol, y mae yr archeagob yn myned i bob ochr i'r esgyn-  
lawr, ac yn gofyn i'r bobl bedair gwaith, "A ydyh chiwi yn cydsynio i  
gael y dyn yma yn frenin i chiwi?" Buasai hyn yn afreidiol pe buasai y  
Hywodraeth yn dreftadol i'r brenin. Er i Gwilym y Gorchfygwr ei hennill  
mewn ystyr, eto dywed ef ei hun, mewn ysgrif Ffrengig a ysgrifenwyd cyn  
ei farwolath, yn Caen, "Nid wyf yn penodi yr un dyn i etifeddu teyrnas  
Lloegr." Nid yw y brenin yn galw y senedd ynghyd, am ei fod, fel y galla  
uchaf, yn meddu hawl i hyny, ond am ei fod wedi ei osod yn y swydd  
hono,—wedi ei awdurdodi gan y bobl i'w galw ynghyd i gydymgyngori  
â hwy ar achosion pwysig y wladwriaeth. Os byddai rhywbeth yn perthyn  
i'r brenin ei hun eisieu ei drafod, gadewid hyny bob amser hyd y peth  
olaf, ac ymddibynai ar ewyllys y senedd pa un a drinid ef ai peidio, ac nid  
ar ewyllys y brenin. Addefa Salmasius "fod y senedd yn cyfarfod i wneyd  
cyfreithiau;" y mae hyny yn dinystrio ei gyfundraeth am awdurdod un-  
benaethol y brenin. Dywed y brenin Ethelstane, yn y rhagymadrodd i'w  
gyfreithiau, "Mi a ganiatâis i chiwi bob peth yn ol eich cyfraith eich hun."  
Yn ffurf y llw a arferai breninoedd Lloegr gymeryd, gofyna y bobl, "A  
wnech chiwi ganiatâi y deddfau cyflawn hyny y bydd i'r bobl eu dewis?"  
Ateba y brenin, "Gwnaf." Dywedai Salmasius fod gan y brenin awdurdod  
unbenaeth yn absenoldeb y senedd; ond dangosir ei fod yn llafurio dan  
gangymariad; na allai wneyd dim o bwys gyda golwg ar ryfel neu heddwch,  
na rhwystro gweithrediadau llysoedd barn; fod y barnwyr yn cael eu  
tyngu na wnaent ddim ond yn ol y gyfraith, hyd yn nod pe byddai i'r  
brenin ei hun anfon gorchymyn dan ei sel iddynt ymddwyn yn wahanol.  
"Gan y brenin," medd Salmasius, "y mae yr awdurdod i greu yr ieirll a'r  
barwniaid:" addefir fod hyny yn wir, ac yn dangos priodoldeb eu gwaith  
hwy yn Lloegr y dyddiau hyny yn dyddymu Tŷ yr Arglwyddi, gan eu bod o  
wneuthuriad, ac o ganlyniad, at ewyllys, y gorthrymwr; mai Tŷ y Cyffredin  
sydd yn cynnrychioli y bobl; ac fod hen lyfr o'r enw "*Modus habendi Parli-  
amenta*" ("Y dull o gynnal Seneddau"), yn dywedyd y gall y brenin a'r Cy-  
ffredin gynnal senedd a ffurfio deddfau, er i'r Arglwyddi a'r esgobion fod yn  
absennol, ond na ellir cynnal senedd gyda'r Arglwyddi a'r esgobion pan  
mae y Cyffredin yn absennol. Y rhesymau a roddir am hyny ydynt, Fod  
breninoedd yn cynnal seneddau a chynghorau gyda'u pobl, cyn i un esgob  
nac arglwydd gael ei wneyd; ac, Fod yr arglwyddi yn gwasanaethu drost-  
ynt eu hunain yn unig, ond y cyffredin dros y wlad, y ddinas, neu y  
fwrdeisdref, a gynnrychiolant. Dywedir fod hanes ein gwlad yn dangos fod  
yr awdurdod yma yn uwch na'r brenin. Ar ol ymadawiad y Rhufeiniaid,  
fod y Brythoniaid wedi bod am ddeugain mlynedd heb frenin; fod rhai o'r  
breninoedd cyntaf wedi cael eu lladd ganddynt, ac nad ydyw Gildas, yr  
hen hanesydd, yn eu beio am eu lladd, ond am eu lladd heb eu condempio.  
Y mae hyn yn awgrymu eu bod yn haeddu eu lladd, ac mai y ffordd an-  
rhydeddus mewn amgylchiad o'r fath ydyw diffodd tanbeidrwydd nwyd,  
dwyn y pechadur o flaen mainc y farn, a gadael i gyflawnder ei ffordd, fel  
y gwnaeth senedd Prydain â Charles. Dywed fod Vortigern, am ei  
briodas anghyfreithlawn â'i ferch, wedi ei gondempio gan St. Garmon, "a  
chynghor cyffredinol o'r Brythoniaid," a gosodwyd Vortimer, ei fab, yn

frenin yn ei le. Tua'r flwyddyn 600, fod Morcantius, yr hwn oedd yn teyrnas yn Nghymru, wedi cael ei gondemnio i alltudiaeth gan Oudeceus, esgob Llandaf, am ladd ei ewythr, er iddo, trwy waddoli tiroedd i'r eglwys, gael galw y ddeddfryd yn ol. Yn anser y Sacsoniaid hefyd, fod yr awdurdod uchaf yn y senedd, yr hon a alwent, "Cynghor y gwŷr doethion." Dywedir mewn llyfr tra hen, a elwir "*Mirror of Justice*," pan wedi gorchfygu y Brythoniaid, y dewisent freninoedd iddynt eu hunain; eu bod yn gofyn llw ganddynt yr ymostyngent i farn y gyfraith yn gymaint a neb o'u deiliaid. Yr oedd yn rhaid i'r brenin fod yn bresennol yn y senedd, os na fyddai yn analluog; ac hyd yn nod felly, byddai raid i ddeuddeg o seneddwyr fyned i'w weled, a dwyn eu tystiolaeth i'r senedd ei fod yn analluog. A mwy na'r cwbl, yn mysg cyfreithiau Edward y Cyffeswr, y mae un ddeddf yn dywedyd, os na fydd i'r brenin gyflawni ei ddyledswyddau fel y dylai, na chaiff ddal hyd yn nod yr *enw brenin*. Cadarnhaodd Gwilym y Gorchfygwr y ddeddf yma mewn cynghor llawn a gynnaliwyd yn Verulam, yn y bedwaredd flwyddyn o'i deyrnasiad, gyda'r llw mwyaf difrifol, a thrwy hyny yr oedd yn troi pob hawliau eraill o'r neilldu, ac yn dal ei deyrnwialen trwy ei hawdurdod. Ar ei waith yn tyngu y cadwai ddeddfau Edward, a hon yn eu plith, y cafodd Harri, ei fab, ei ddewis yn frenin, tra yr oedd ei frawd Robert, hŷn nag ef, yn fyw. Yr oedd yr holl freninoedd canlynol yn cymeryd yr un llŵ cyn eu coroniad. Ac os oes gan bob dyn, os tybia ei fod yn cael cam, hawl yn nawdd y gyfraith, hyd yn nod yn erbyn y brenin, pa faint mwy y mae gan y wladwriaeth i gyd hawl yn ei erbyn pan y mae yn gorthrymu y cyfan? Ymdraffertha Salmasius gryn lawer i chwilio pwy sydd yn addas i farnu ei uchelder breninol; ond nid yw hyny ond cwestiwn dibwys: y mae y gyfraith yn ei gondemnio pan y mae yn bechadur, ac y mae yr urddas y mae cyflawnder yn ei osod ar ei swyddogion yn ddigon ar bob adeg i yru i ddiflaniant yr urddas gau sydd ar y tuallan i ddyn, pan y mae y *peth byw* wedi ei gollu o'r tufewn. Y mae, trwy ymddwyn yn anghyfreithlawn, wedi ei amddifadu ei hunan yn llygad y gyfraith "o'r enw brenin;" nid ydyw i'w drin mwyach, ynte, wrth bob reswm, ond fel pob pechadur arall. Ystyria Milton felly, fod y Bibl, argyhoeddiad rheswm, barn y byd, a chyfansoddiad ein teyrnas, yn amddiffyn, yn y modd mwyaf pendant, eu gwaith yn diorseddu ac yn cosbi dyn oedd trwy weithredu mor ddigywilydd am gynifer o flyneddau yn nghymeriad gorthrymwr, wedi tynu arno ei hun y fath bwysau o euogrwydd fel na allasai y ddaear ei oddef. Ac ni all, yn y fan yma, lai na llawenyachu fod ganddo y fath hynafiaid, a sefydlasant eu llywodraeth gyda chymaint o ddoethineb, ac mewn cymaint o ryddid, ag y darfu i'r rhai mwyaf teilwng o'r Groegiaid a'r Rhufeiniaid sefydlu yr eiddynt hwy; a thybia fod yn rhaid eu bod, os oeddynt yn gwybod rhywbeth y pryd hyny am eu helyntion, yn llawenyachu wrth weled eu plant, oeddynt wedi cael eu darostwng braidd yn gaethweision, gyda chymaint o ddoethineb a gwroldeb yn achuby llywodraeth a sefydlasant mor deilwng, odditan deyrnasiad aflywodraethus brenin.

Dyna amlinelliad o'r traethawd. Yr ydym wedi bod yn fwy manwl efo hwn, er mwyn i'n darllenwyr gael mantais i weled pa fodd y mae yr awdur yn trin ei fater. Y mae Johnson yn dyfynu, gyda *chuckle* o gymeradwy-aeth, ddywediad o eiddo Hobbes gyda golwg ar y dadleuwyr yma, "na wyddai efe iaith pa un oedd oreu, na rhesymau pa un oedd waelaf."

Arferiad gyffredin dynion, pan mae eu rhagfarn yn eu rhwystru i gydnabod cryfer rhesymau eu gwrthwynebwyr, ydyw taflu allan, gyda mawrhydi arglwyddaidd, ryw air o arabedd neu *antithesis*, fel pe byddai hyny yn ddigon i chwalu yr ymresymiad cadarnaf—ie, o'u genau *hwy*, i gau safn y gwirionedd! Yr oll sydd genym ni i'w ddyweyd ydyw y buasai yn dda genym weled sut y buasai aelodau elephantaidd Johnson, neu awdur y "*Leviathan*," yn ymgynnal dan y baich o *wrthbrofi* rhesymau y "Diffyniad." Na, y mae yr ïangder meddwl, y wybodaeth fawr, y cryfder barn, yr uniondeb calon, y gwladgarwch, ac weithiau y brwdfrydedd hyawdl a thanbaid, a ddangosir yn y gwaith hwn, yn ddigon i beri i Salmasius, oedd eisoes yn ddyd bychan a diegwyddor, ac yn gorfod gwingo oblegied ei wendid dan faich oedd yn rhy drwm iddo, ie, yn ddigon i beri i ddyd o faintioli a gonestrwydd llawer mwy nag ef, ymddangos yn fychan a distadl iawn.

Ond na feddylied ein darllenwyr fod Milton, na ninnau wrth ei ganmawl, yn darostwng breninoedd; nid oedd a fyno efe â bychan nac â mawr, ond â'r *gormesor* yn unig. Cafodd ei wneyd yn werin-lywodraethwr gan orthrwam Charles. Ni chanfyddai un modd i achub ei genedl megys o safn y llew, ond trwy ei ddinystrio; ac yr oedd efe a'r wladwriaeth wedi cael y fath brofiad chwerrw mor annheilwng ydyw dyn o'r fath ymddiried, fel yr ofnent o'r diwedd wneyd prawf o hono, ac y credent y gellid cael gwell nawdd i iawnderau y bobl mewn ffurflywodraeth wahanol. Pe buasai y goron yn cydweithio â'r senedd oddiar awydd gonest i fod yn achles i'r bobl, y mae yn debyg na fuasai sylw y bardd wedi ei dynu yn gymaint ar wledychiaeth; ond gan mai fel arall y bu, y mae yn dda genym fod ei syniadau ar gael, a chredwn fod diogelwch y byd, pa ffurflywodraeth bynag a ddewisir, yn ymddibynu ar lwyddiant yr egwyddorion a amddiffyna. Yr ydym yn anffoddlawn i adael "Diffyniad Pobl Lloegr" heb osod ger bron ei anerchiad at ei gydwladwyr yn ei ddiwedd. Y mae yn esboniad o'r fath oreu ar gymeriad ei awdur.

"Y mae un peth eto i'w wneyd, sydd, fe allai yn fwy pwsaig na'r cyfan, sef fod i chwi, fy nghydwladwyr, wrthbrofi eich gwrthwynebwyr yma eich hunain, yr hyn nid wyf yn gweled un ffordd i'w wneyd, ond trwy ymdrech yn wastadol i wrthweithio geiriau drygionus pob dyn a'ch gweithredoedd daionus chwi eich hunain. Pan yn llafurio dan fwy nac un math o orthrymder, troisoch at Dduw am noddfa; a rhyngodd bodd iddo yn raelawn wrando eich gweddian a'ch deisyfiadau taerion. Efe a'ch gwaredodd yn ogoneddus, y flaenaf o'r cenedloedd, oddiwrth ddaou ddrygau penaf y bywyd hwn, a mwyaf niweddiol i rinwedd; gorthrwam a choelgrefydd: efe a'ch cynnygaeddodd â mawredd meddwl i fod yn flaenaf o ddynolryw, y rhai wedi gorchfygu eu brenin eu hunain, a'i gael wedi ei draddodi i'w dwylaw, na ddarfu iddynt betruso ei gollfarnu yn ol y gyfraith, ac yn ol y ddeddfryd yna o gollfarniad, ei roddi i farwolaeth. Ar ol cyflwyni y fath weithred ardderchog a hon, ni ddylech wneyd dim sydd yn wael a bychan,—dim cymaint a meddwl am wneyd, llawer llai gwneyd, unrhyw beth ond sydd fawr ac anrhydeddus. I gyrhaedd hyn, dyma yr unig ffordd i chwi, fel y gorchfygasoch eich gelynnion yn y maes, felly i ddangos mai chwi, heb fod mewn arfau, ac yn yr heddwch a'r tawelwch allanol perffeithiaf, o holl ddynolryw ydych fwyaf galluog i ddarostwng uchelfrydedd, cybydd-dod, a chariad at gyfoeth, ac i oehel y llygredigaethau y mae llwyddiant yn duoddol i'w dwyn i fewn (y rhai ydynt yn gyffredin yn darostwng ac yn gorchfygu cenedloedd eraill); i ddangos cymaint o gyflawnder, cymedroldeb, a thegwch, wrth ddal eich rhyddid, ag a ddangoesoch o wroldeb wrth ymyrddhau o'r caethwasanaeth. Dyma yr unig brofion trwy y rhai y gellwch ddangos nad ydych y fath bobl ag y mae y creadur yma yn eich darlunio—bradwyr, yspeilwyr, llofruddion, tadleiddiaid, gwallgofiaid; na roddasoch eich brenin i farwolaeth oddiar yr un amcan uchelfrydig neu ddymuniaid i fyned ar draws hawliau eraill; nad oddiar egwyddorion teryaglyd neu ddybenion gau; nad ydoedd yn weithred

o gynddaredd, neu wallgofrwydd; ond mai yn hollol o gariad at eich rhyddid, eich crefydd, at gyfiawnder, rhinwedd, ac at eich gwlad, y cobasoch y gorthrymwr. Ond pe byddai iddi ddygwydd yn wahanol (yr hyn gwahardded Duw), os, fel y buoch wrol mewn rhyfel, y byddwch lygredig mewn heddwch, chwi, y rhai a gawsoch y fath amlygiadau eglur o ddaioni Duw tuag atoch eich hunain, ac o'i ddigofaint yn erbyn eich gelynyon; os na fydd i chwi, oddiwrth y fath caimpl enwog a hynod o flaen eich llygaid, ddyagu ofni Duw a gweithredu cyfiawnder,—o'm rhan i, caniatâf a chyfaddefaf yn rhydd (oblegid ni allaf ei wadu), fod pa beth bynag a ddyweda neu a feddylia dynion am danoch, yn bur wir. A chwi a ganfyddwch, mewn ychydig amser, y bydd anfoddlonrwydd Duw tuag atoch yn fwy nag y bu tuag at eich gwrthwynebwyr; yn fwy nag y bu ei ras a'i ffafr tuag atoch chwi eich hunain, o ba rai y cawsoch chwi broffad helaethach nag un genedl arall dan y nef."

Yr ydym yn cael fod ymddangosiad y llyfr yma wedi ennill sylw mawr, nid yn unig yn Lloegr, ond hefyd yn holl deyrnasoedd y Cyfandir. Yr oedd cryfder ei egwyddorion, a champusrwydd ei gyfansoddiad, yn gwneyd y bobl oreu yn yr oes yn gyfeillion iddo yn y fan. Yr oedd cynnrychiolwyr y gwahanol deyrnasoedd, yn Llundain, a'r bobl fwyaf anrhydeddus, yn ei hystyried yn fraint i gael rhan yn nghyfeillach dyn mor dda ac mor fawr ag yr oedd yr awdur wedi ei brofi ei hun. Yr oedd rhai o'r bobl "ffyddlonaf" yn ceisio ei hwtio fel amddiffynwr terfysg, ac fel un fuasai yn y fan, gyda llaw hyf a chydwybod ddirwysr, yn amddifadu breninoedd y byd o'u penau; ond yr oedd y rhai mwyaf golouedig, rhai penau coronog, yn enwedig brenines Sweden, yn ei gymeradwyo yn fawr. Gwelent na chyfeirid arf yr ymladdwr enwog yma ond at ben y gormeswr yn unig: yr oedd pob dyn gonest yn cael ei argyhoeddi yn y fan na fuasai yn bosibl i neb ragori ar Milton mewn parch i frenin a fuasai yn "dad ei bobl,"<sup>1</sup> tra yr oedd ei olygiadau agored ac annibynol yn dangos na fuasai yn petruso am amrantiad i osod ei enw wrth dystiolaeth a ysgrifennodd rhyw Americaniad, o flaen rhyfel yr annibyniaeth, mewn beddagraff i Bradshaw, fod "*rhyfela yn erbyn gorthrymwr yn ufudd-dod i Dduw.*" Fel yr oedd clod Milton yn cynnyddu, felly yr oedd Salmasius a'i noddwyr yn myned yn fwy isel a dirnygedig. Yr oedd yn llawn bryd gwneyd rhyw ymdrech i'w wrthbrofi; ond y mae ymdrechion Charles a'i gyfeillion i gael rhyw un digon beiddgar i sefyll yn wyneb ein Achilles yn afwyddiannus. Y mae Salmasius wedi cilio o'r maes, ac yn cwynfan mewn gwendid, tra y mae ei fywyd yn rhedeg allan trwy yr archoll farwol; y mae ein harwr yn ysgwyd ei waewffon, yn hoewder ei nerth, nes y mae ei chysgod yn tafu arswyd dros Ewrop; edrycha o'i amgylch, oes yna neb a faidd ymladd? tra, mewn ysbrydiaeth uchel, ac ymddiried gonest yn ei fater ac yn ei gryfder, y mae yn sibrwdd—

"Trechwn o'u math tri chan mil!"

Y mae y byd yn gorfod teimlo fod y "Diffyniad" yn anatebadwy, ac fod ei awdur yn ddyd yn ddylid cellwair âg ef. "*Foenum in cornu.*"

Ond er na fuasai neb yn ei gof yn rhyfygu ei wrthwynebu yn agored ac anrhydeddus, yr oedd amryw o fân-ysgrifenywyr, wedi ceisio gwneyd hyn a hyn o eiddgarwch dros yr achos da, am hyn a hyn o arian Charles Stuart, yn ymosod arno dan nawdd ffugenwau; ond yr oedd eu hymosodiadau yn disgyn ar ei darian yn fwy dieffaith o lawer nag yr oedd saethau y gwroniaid hyny, er's llawer dydd, ar yspectol Cadben Gulliver. Nid oeddynt yn werth ei sylw. O'r diwedd, dyma lyfr o dipyn mwy o

<sup>1</sup> Gwel, er anghraifft, ei anerchiad i frenines Sweden, yn yr ail "Ddiffyniad."

ymhoniad yn cael ei gyhoeddi o'r enw, "Y Gwaed Breninol yn gwaeddi i'r nef am ddial ar y tad-leiddiaid Seisnig." Tybia y byddai yn well ei ateb, rhag i bobl eraill gael eu camarwain, a rhag i'w awdur "fod yn ddoeth yn ei olwg ei hun." Dywedir mai awdur y llyfr yma oedd un Peter du Moulin, ac iddo, ar ol yr Adferiad, gael ei wneyd, am ei wasanaeth, yn *prebendary* Caergrawnt, ond ei fod yn cael ei gynnorthwyo i'w dwyn allan gan un Alecsander More, gŵr o'r Alban, a chyfaill i Salmasius. Ond y mae Milton, trwy yr atebiad, yn priodoli y gwaith i gyd i More. Ymddangys nad oedd yn cynnwys dim ond yr un rhesymau ag oedd Salmasius wedi ddefnyddio o'i flaen, ac oeddynt wedi eu gwneyd yn ddim yn "Niffyniad" Milton: ond pentyrai gamddarluniadau, a chymaint a fedrai ddyfeisio o dafod drwg, i dduo cymeriad Milton a gwroniaid y werin-lywodraeth, a thrwy hyny, ymdrechai i berswadio teyrnasoedd y Cyfandir i estyn eu ffafr i Charles. Ni fu tro erioed mwy ynfyd; gallasai feddwl, pe buasai yn meddwl rhywbeth, na fuasai ei waith ef yn ceisio dyrchafu Salmasius yn uwch na phawb, neu yn chwyddo ei fochau i ohwythu ei ddigofaint ar Milton, yn gwneyd Charles yn sant, ac yn taeru ei fod wedi marw fel Iesu Grist, neu yn tywallt cableiriau ar y senedd, fel y dosbarth gwaethaf o ddynion mewn bod, ond hollol ofer,—fel ymdrechion Sisyphus yn uffern i dreiglo y maen mawr i ben y bryn, yr hwn ydoedd yn ddiidiwedd yn ymdreiglo yn ol. Yr oedd y byd wedi cael cyfeusdra i eistedd ar fainc y farn, ac wedi cael fod Charles yn haeddu marw, ac fod "cyflawnder" y senedd "yn myned allan fel dysgleirdeb;" fod Salmasius yn ddyn bychan a diegwyddor, ac fod Milton mewn uniondeb a mawredd yn un o gewri y byd: a gallasai feddwl hefyd, pe na buasai dan yr hurtrwydd hwnw y dywedir fod y duwiau yn osod ar y dyn y maent yn fwriadu ddinystrio, ei fod wrth ysgrifenu yn erbyn y fath wa, mewn effaith yn llaw-arwyddo dedfryd ei ddinystr ei hunan: er y cyfan, ysgrifenu a wnaeth, a bu yn wiw gan ein hawdur odrych arno; ac er mwyn pobl eraill, y rhai, o eisieu gwybod yn well, a allasant dderbyn argraff niweidiol oddiwrth ei gamddarluniadau, ac nid o achos yr ymosodwr, cymerodd drachefn ei ysgrifell, ac ysgrifennodd (yn Lladin fel o'r blaen) "Ail-Ddiffyniad Pobl Lloegr, yn erbyn cabldraeth ddienw, a elwir 'Y Gwaed Breninol yn gwaeddi i'r nef am ddial ar y tad-leiddiaid Seisnig.'" Buasai yn well genym o lawer fod yn esgidiau Salmasius, er mor lem oedd ei gosb yn y "Diffyniad" blaenorol, nag yn eiddo More, sydd yn gorfod dyoddef un lawer llemach yn hwn. Er nad oedd Salmasius o faintioli mawr, nid ydyw yn ymddangos, gyda'r eithriad idde y tro hwnw gymeryd ei lwgr-wobrwyo i amddiffyn peth croes i'w gydwybod, ei fod yn ddyn y gellid dyweyd fawr yn ddrwg am dano. Y peth mwyaf a welwn ni sydd gan ei wrthwynebydd i'w edliw iddo yw, ei fod ef ei hun yn dyoddef cryn orthrwm gartref, dan lywodraeth ei wraig. Gallasai Salmasius ddyweyd y bu Zeus ei hun mewn helbul efffelyb oblegid trahausder Here, er mor uchel oedd eu hurdd, ac mor ardderchog eu preswylfod; ond y mae More yn dyfod i'r ymdrechfa gyda llai o fedrusrwydd, a chydychymeriad, erbyn ei chwilio, sydd yn ddu iawn. Gŵyr ein darllenwyr y byddai dadleuwyr, yn enwedig y dyddiau hyny, yn ymwneyd llawer â phersonau eu gilydd; yr oedd medrusrwydd i dduo y cymeriad mor anghenrheidiol braidd er cario y dydd a medrusrwydd i drin y pwnc. Dywedai Margaret Fuller Ossoli, awdures o'r

America, "ei bod hi yn caru y nos; fod y nos yn dwyn y ser allan, fel y mae gofidiau yn dwyn allan wirionedd." Buasai yn llawn mor briodol dyweyd, gyda golwg ar un cyfnod o'n llênnyddiaeth yn enwedig, "fel y mae *dadleuon* yn dwyn allan wirionedd," sef am gymeriadau yr ymrysonwyr. Y mae yn debyg fod rhywboth yn naturiol yn hyn. Pan y mae dynion wedi cymeryd rhywbeth mewn llaw i'w brofi, y maent, fel y mae y gwrthwynebiad yn cryfâu, yn dyfod i deimlo drosto fel trostynt eu hunain—y maent hwy a'r pwnc o'r diwedd wedi dyfod yn *un*; a mynant sefydlu y pwnc, a'u hamddiffyn eu hunain, er methu dinystrio mater y gwrthwynebydd heb ei ddinystrio yntau i'w ganlyn. Y mae yr ymrysonfa yn cael ei throsglwyddo oddiwrth y ddwy ddadl at y ddau ddadleuwr. Ac yn y trosglwyddiad yma, yn y *cymeriad* y mae yn naturiol yn ymaflyd gyntaf; gwyddis fod y trosglwyddiad nesaf yn cymeryd y ddyrnod i'w wasanaeth. Pan y mae rhai o'r dosbarth isaf yn eu moesgarwch yn anghytuno ar ryw fater, gellir dysgwyl cyn pen nemawr o fynyddau ddarlith rymus i brofi "pwy ydyw teulu," a "beth ydyw hanes," y pleidian; ac yn y diwedd penderfynir y ddadl drwy apelio at y gallu anianyddol.

Yr oedd Milton yn deall natur, ac yn deall ei oes, yn y mater yma. Yr oedd arno eisieu cydymdeimlad Ewrop; yr ydoedd yn ysgrifenu, nid ar ryw wahaniaeth cywrain mewn arddansoddiaeth, i ysgol o athronwyr, ond ar fater cyhoeddus,—ar weithredoedd o'r fath fwyaf beiddgar, oeddynt wedi eu cyflawni ger bron yr haul, ac yr ydoedd yn anerch Ewrop fel y barnwr oedd i'w cyflawnhau. Y mae rhywbeth yn arddunol yn y safle y mae yn gymeryd iddo ei hun. Nid oedd Demosthenes a Cicero yn llefaru ond wrth bobl Athen a Rhufain, ond y mae ei esgynlawr ef y fath fel y mae oddiarni yn siarad wrth Ewrop, ac y mae dystawrwydd dŵfn, a gwrandawriad astud y gynnulleidfa fawr, ynghyd â phwysigrwydd ei fater, yn effeithio yn ol arno yntau, ac yn cynhyrfu ei ysbryd i drosglwyddo ei syniadau dyrchafedig a thanllyd mewn geiriau o hyawdledd treiddiol. A phwy a all ddyweyd faint o wasanaeth i'r areithiwr ydyw y cyfeiriadau medrus a wna at egwyddorion gwaelion, a buchedd aflan ei wrthwynebydd (a feiddiai â'i ddwylyw budron gyffwrdd â gwisgoedd gwynion rhinwedd a chyfiawnder, a dyweyd ei fod yn amddiffyn eu purdeb), pan y mae nid yn unig yn gofyn am farn, ond hefyd am *galon* y gynnulleidfa fawr, gymysglyd, gynhyrfus yna, i danio o blaid ei egwyddorion?

Y mae y traethawd yma drwyddo yn fwy areithyddol na'r llall. Wedi dangos mor ddiegwyddor a drygionus oedd ei wrthwynebydd, ei brif waith ydyw gwrthbrofi ei gamddarluniadau o Charles, Milton ei hun, Cromwell, Bradshaw, Fleetwood, ac eraill oeddynt yn dwyn perthynas â'r werinlywodraeth. Gan fod ei wrthwynebydd yn dyweyd rhyw bethau amharchus am dano, y mae hyn yn ei osod dan anghenheidrwydd i ddyweyd ychydig o'i hanes, fel Paul efo'r Corinthiaid, ac i ddangos mor bell ydoedd o haeddu y gwaradwydd a osodai ei elynion arno. Cyfeiria at fanylrwydd ei ymarwedd, at ei ddysgeidiaeth, ac at y parch uchel a delid iddo gan ddynion mwyaf y byd. Dymunem gyfeirio y darlennydd hefyd at ei arweiniad i mewn i'w ail lyfr o'r "*Reasons of Church Government urged against Prelaty*," fel cyffesiad helaeth a manwl o'i syniadau am dano ei hun. Gallai rhai feddwl ei fod yn hunanol yn y darluniadau yma; ond hunanol neu beidio, y mae yn ein boddhau ni yn fawr. Yr oedd Milton yn ymwybodol o'i fawredd; yr oedd yn preswyllo o ran ei feddwl



yn mysg yr ysbrydion o'r maintioli mwyaf, ac yn gwybod y byddai i'r byd yn y man ei restru yn eu plith; ac ar yr adegau yma yr oedd yn cael ei gynhyrfu i ddyweyd ychydig o'i hanes: ac wrth i ni astudio cymeriad sydd wedi codi i'r fath uchder—uchder y mae yn dra anhawdd cael neb a all ddringo yn ddigon uchel i'w weled, y mae o werth i ni gael ryw help i farnu am dano oddiwrth yr awgrymiad a wna wrth fyned heibio am dano ei hun. Nid oes dim yn fwy diflas na chlywed dynion nad ydynt yn ddim, yn ddi-ddiwedd yn eu canmawl eu hunain—y mae y prifyn mor *fychan* ac mor *falch*! Ond y mae rhai, oddiar ymwybyddiaeth o ragoriaeth, yn gallu eu canmawl eu hunain heb ein digio, ie, y maent weithiau yn ein dwyn yn nes atynt—Cicero, er esiampl; ond pan y mae Milton, sydd yn ddigon mawr i amgyffred ei waeledd, yn ddigon uchel i edrych ar, ac i ymhyrfydu mewn pethau sydd yn anfeidrol fwy, ac yn ddigon da i “ymestyn at berffeithrwydd,”—pan y mae efe yn cael ei gynhyrfu i edrych yn ol ar ddynolryw, ac i ddyweyd yn wylaidd a charedig am y fan y mae yn sefyll arno, y mae yn gweddu i ni dewi. Oni buasai Milton mor fawr, ni fuasai mor wylaidd wrth ysgrifenu am dano ei hun.

Ond pan yn amddiffyn cymeriadau ei gydlafurwyr, y mae yn fwy rhydd; ac wrth deimlo mor wirioneddol oedd eu teilyngdod, y mae yn berffaith ddi-floesgni yn ei siarad allan i'w gynnulleidfa fawr, nes y mae pawb, hyd yn nod yn y cyrau eithaf, yn talu gwarogaeth i'w wroniaid. Dywed Johnson “na ysgrifennodd neb erioed gymaint yn canmawl mor ychydig a Milton;” awgryma ei fod am reibio clod iddo ei hun o bob man, ond nad oedd yn foddlawn i eraill gael rhan o hono. Y mae hyn eto, fel llawer o'i sylwadau, yn annheg. Os nad oedd wedi darllen ei weithiau, ni ddylasai siarad yn eu cylech, yn enwedig mor ymhongar; ond os ydoedd wedi eu darllen, ni allasai lai na chanfod yn y fan nad oedd yn bosibl i neb fod yn fwy eiddgar nag ef yn ei ganmoliaeth i rai ag oeddynt yn werth eu canmawl, er fod yn “ysgrifenedig ar ei ael” fod ei enaid yn casâu yr annheilwng a'r drygionus. Yr oedd yn parchu pawb gonest; ond pan fyddai gonestrwydd, galluoedd, a gwroldeb, yn cydgyfarfod mewn rhyw gymeriad yr oedd ei frwdfrydedd wrth ganmawl hwnw yn ymylu braidd ar eithafion. Ond geilw Johnson hyn yn *wonieithio*. Mor debyg ydyw y buasai dyn ag yr oedd ei fawredd yn rhy amhlygadwy i ymostwng i ganmawl teilyngdod, yn ei lythyrau, yn ei draethodau, ac yn ei farddoniaeth, yn ymostwng i yru gweniaith, fel yn gyfanwerth, i ddynion nad oedd yn ymddibynawl arnynt! Oni buasai ei feddwl mor bendefigaidd, ac mor afaelgar wrth y gwirionedd, braidd na fuasem yn ofni weithiau ei fod yn gwenieithio; ond erbyn ystyried cymeriadau y rhai oeddynt yn ddigon ffodus i haeddu ei ganmoliaeth, yr ydym yn cael ei fod yn ysgrifenu dan gyfarwyddyd ysbryd doethineb. Da y dywed un gŵr fod Milton yn cymeryd gofal pa fodd, a phwy, a gymeradwyai, gan fod gair o'i gymeradwyaeth ef i unrhyw ddyw yn daith-drwydded i anfarwoldeb. Y mae ei anerchiadau i Cromwell a'i gydlafurwyr yn y llyfr yma, pan yn eu cynghori i ymdeimlo â'u rhwymedigaeth ac â'u braint i berffeithio y llywodraeth, ac yn eu calonogi oddiwrth y pethau mawrion a wnaed i ddysgwyl ac i ymestyn am bethau llawer mwy, a'i gynghor i bobl y deyrnas, fel yn niwedd y traethawd blaenorol, i ymddwyn yn deilwng o'u breintiau, i gofio fod pob gwir ryddid, wedi y cyfan, yn beth sydd o'r tufewn, sef ymwared i'r galon oddiwrth ormes drygioni, ac i gydymegnio fel un gŵr i arwain y byd yn ei

ysgogiad at wir ragoriaeth, yn dda mewn gwirionedd. Y mae ei syniadau yn fawrion, ac yn cael eu trosglwyddo yn yr arddull fwyaf meistrolgar. Y mae pob gewyn trwy bob cymal o'i ymadroddion, mewn rhai manau, hyd yn nod i ben y bys bach, yn *stiff* gan yni. Os dewias ein darllenwyr gael anghraifft o hyawdledd, gallant ei gael yn ei nerth yn y traethawd yma. Ni allwn ochei y brofedigaeth o gyfieithu darn o'r wahanran olaf, er mwyn y rhai nad ydynt yn deall Seisneg, ac er calondid i'n cyfeillion ieusainc ydynt yn yr ymdrechfa i fyned ymlaen.

"Os bydd i chwi, ar ol dangos y fath wroldeb ac egni, adael, yn annheilwag, lwybr rhinwedd, os gwnewch rywbeth islaw i chwi eich hunain, fe fydd i'ch hiliogaeth eistedd mewn barn ar eich ymddygiad. Hwy a welant fod y sylfeini wedi eu gosod yn dda, fod y dechrenad (na, yr oedd yn fwy na dechrenad) yn ogoneddus; ond gyda theimladau dyfnion o dristwch yr ymofidiant, fod y rhai hyn ar ol a allasant ddwyn yr adeiladaeth i ben. Galarant am na fuasai dyfal-barhad wedi ei gysylltu â'r fath ymdrechladan, ac â'r fath rinweddau. Gwelant fod yna gynauaf cyfoethog o ogoniant, a chyfeusdra yn cael ei roddi i gyrhaedd y pethau mwyaf, ond yn unig fod dynion yn eisiau i ymgymeryd â'r gwaith, tra nad oedd y rhai hyn yn eisiau a allent yn briodol gyfarwyddo, cynghori, cefnogi, a rhwymo pleth-goron annifanedig o ganmoliaeth o amgylch arleisiau y gweithredyddion enwog mewn golygfa mor fawreddig."

Y gwaith nesaf yw yr "*Eikonoklastes*." Ar ol ddiwyddiad Charles I., cyhoeddwyd llyfr gan ei gyfeillion, wedi ei ysgrifenu, meddynt, gan y brenin ei hunan, o'r enw "*Eikon Basilike* (Y ddelw freninol), darluniad o'i fawrhydi yn ei unigedd a'i ddyoddefnadau." Ni chredir idde erioed ysgrifenu y llyfr ei hun; credir braidd yn ddiagramheuol mai un Dr. Gauden, oegob Exeter, ydoedd ei awdur. Ei amean oedd dangos mor fawr ydoedd y cam a dderbyniasai y brenin oddiar law y senedd, a thanio y bobl drachefu i ymgymeryd â'i achos, a dadsylfaenu y werin-lywodraeth. Nid yw y rhesymau a ddefnyddia ond o'r un natur a'r rhai a wyntylliwyd mor effeithiol gan ein hawdur yn ei ateb i Salmasius; nid oes ynddynt ddim cyfaddasrwydd i argyhoeddi barn neb a fo i ryw radd yn oleuedig. Ond os teimlai yr awdur ei fod yn wan yn hyny, yr oedd yn ceisio gwneyd i fyny am y golled trwy ddangos ei fawrhydi yn maddeu i'w elynion, ac yn gweddio drostynt, fel ein laohawdwr ar y groes; yn tystio mai lles y wladwriaeth yn unig oedd ganddo yn ei olwg, ac mai am ei ddiwyagogrwydd yn dal at y moddion a gredai yn fwyaf cyfaddas i leshau ei ddeiliaid yr ydoedd wedi cael ei ddwyn i'r rhwymau hyny. Trwy y pethau hyn, a'u cyffelyb, ymdrechai â'i holl egni i ennill *teimlad* y bobl o'i blaidd—yn ddigon cyfrwys i ddeall fod y creadur rhyfedd, y *bobl*, yn cael ei gynhyrfu i weithgarwch gan ysgogiad y teimlad yn gynt o lawer na chan argyhoeddiad y rheswm. Yr oedd y llyfr yn dra chyfaddas i effeithio ar gydymdeimlad pobl anwybodus. Y mae y genedl bob amser yn bleidiol iawn i'r un a fo yn gwiago ei choron. Yr oedd Charles, fel y gŵyr ein darllenwyr, yn hynod am ei ragrith, a gellir ystyried y llyfr yma, a thybied mai efe a'i gwnaeth, yn gamp o ragrith, ac felly yn gymhwys iawn i dwyllo y bobl. Y mae yn naturiol i genedl, ar ol bod am amser yn cael ei chadw mewn cyffro berweddig, ofyn, ar ol iddo ymdawelu, A ddarfu i ni wneyd yn iawn? Ac ar y rhai a allent fod yn sigledig yr oedd apeliadau ymhongar yr "*Eikon*" yn debyg o ddylahwadu yn rymus. Yr oedd natur dynyr a charedig yn cydymdeimlo yn fuan â mawrhydi mewn cyfyngder, tra yr oedd natur falch a chwyddedig yn cael hunan-fodddhad nid bychan yn *maddeu* i bechadur o urdd mor ddyrchafedig. Y mae pobl yn gyffredin o flaen chwildroad yn

dysgwyl myrddiwn o bethau yn y ffurf newydd, na wyddant eu hunain pa bethau, ond coledant ryw ddychymyg hoff am ryw gydgysfarfyddiad o bob peth; ond erbyn gweled yr un ddaear wedi hyny, a'r un haul, a'r un natur; y cyfnewidiad heb allu eu tafu i berlewyg wrth weled cyflawniad eu breuddwyd amhosibl, y maent dan ddylanwad y siomedigaeth yn digio, ac yn dyweyd mai gwell iddynt hwy yr hen drefn. Heblaw hyny, y mae dosbarth helaeth o bobl yn y wlad bob amser ydynt yn wastad yn dadymchwelyd, yn dadymchwelyd, yn dadymchwelyd—yn ystyried pob trefn yn well na'r drefn bresennol. Erbyn y cysylltw'n ni at y pethau yna ddiolfach y bobl am lywodraeth egwyddorion, nid oedd yn rhyfedd fod y llyfr yn cael sylw mawr. Nid oeddynt yn amhheu ei awdur, nac yn ystyried gwendid ei reymau. Gofynai am eu *cydymdeimlad*, ac yr oeddynt hwythau yn rhy wan i'w wrthod. Oblegid pleidgarwch rhai i achos y brenin, a chwilfrydedd y lleill i wybod beth fuasai yn dewis ddyweyd, a beth oedd ei fyfyrddau yn ei ddyddiau olaf, lledanwyd saith a deugain o argraffiadau, yn cynnwys wyth mil a deugain a phum cant o gopiau o'r llyfr mewn ychydig amser yn Lloegr yn unig. Pan ganfu y senedd hyn—yn ofni y gallai y peth effeithio yn ddrwg ar dawelwch y deyrnas—gofynasant i Milton wneyd atebiad iddo, rhag i neb feddwl, oddiwrth eu dystawrwydd, na allent wrthbrofi haeriadau hyflon a disail y brenin, neu yn hytrach ei gynnychiolydd.

Dyma achlysur cyfansoddiad yr "*Eikonoklastes*" (Y Delw-ddryllydd). Digon yw dyweyd ei fod yn ateb i'w enw. Y mae yr awdur yn dra gofalus i'n darbwyllo nad un math o ddrwg-deimlad at berson yr awdur breninol a'i cymbellodd i ysgrifenu, ac na fynai ar un cyfrif ymorfoleddu yn ei gwmp; dywed yr un peth gyda golwg ar farwolaeth Salmasius, er fod Johnson yn y fan yma eto yn taeru yn ei wyneb mai dyweyd anwiredd y mae—ei fod yn ymfrostio yn marwolaeth y naill a'r llall. Nid yw ei hyfdra yn hyn yn annhebyg i eiddo y dyn a daerai fod ei gymydog a godasid o'r gamlas wedi marw, er fod y truan yn parhau i ddyweyd ac yn defnyddio pob egni i brofi ei fod yn fyw. Na, dyma y dirgelwch i gyd, "caru brenines gwirionedd" yr oedd Milton "yn fwy na'r brenin Charles;" tra, er na fynai brofi teilyngdod yr achos wrth y canlyniad, ond y canlyniad wrth deilyngdod yr achos, eto gan fod Duw wedi gweled yn dda goroni eu hachos teilwng â llwyddiant, yr oedd hefyd yn teimlo calondid mawr wrth ymladd ei brwydrau. Credai mai "cadarn yw gwirionedd, a hi a orchfyga." Nid oedd ond ysmaldod ganddo "ddryllio y ddelw." Y mae yn gwneyd pob peth, braidd, gyda rhwyddineb meistrolgar; ond nid dim yn fwy felly na hyn. Nid oes ganddo ond gosod ffeithiau yn erbyn eu gilydd—gosod geiriau ac ymddygiadau y brenin y naill i ymguro yn erbyn y llall, er mwyn dangos anghysondeb ei gymeriad a'i annheilyngdod hollol o'u hymddiried. Amddiffyna y senedd yn wyneb ei gamddarluniadau, a thyna ymaith y *mask* o ymholiad crefyddol â pha un y mynai, fel gorthrymwyr yn gyffredin, guddio ei drais a'i ddyrgioni, oddiar ei wyneb ef ei hun. Y mae gwirionedd yn dyoethi y *monster*, ac yr ydym ninnau o ganlyniad yn dianc oddiar ei ffordd. Y mae yn debyg fod ganddo ddyben yn y *tawelwch* â pha un y gweithia yn yr "*Eikonoklastes*;" fe allai yr ystyriai fod yn gweddud i feddwl anrhydeddus fod mor dyner ag y goddefai gwirionedd at elyn gorchfygedig, ac wedi ei wneyd yn aberth i gyflawnder trwy ddienyddiad cyhoeddus. Y mae rhai yn barnu felly; ond mwy dewisol genym ni

feddwl ei fod yn gwneyd fel hyn am nad oedd yn *werth* ganddo ddangos un egni gyda thasg mor fechan—buasai hyny yn gosod gormod o urddas ar ddadl wael ei wrthwynebwy. Ond er nad yw mor danllyd yn hwn ag yn y traethodau eraill, eto y mae y cryfder mawr sydd yn gorwedd o dan y tawelwch yn ei wneyd yn deilwng iawn o sylw. Nid tawelwch dyn yn gweithio mewn syrthni ydyw, sydd bob amser mor llwyddiannus i beri i'r myfyriwr, wrth ddarllen ei waith, ddylyfu gen, neu bendwmpian; ond tawelwch cawr, yn gwneud rhyw orchwyl bychan â blaenau ei fysedd; ond fe wŷr y rhan fwyaf o ddarllenwyr y "Traethodydd" fod "bys bach" dyn fel Milton, yn "freisgach na llwynau" y *fantasi* o ysgrifenywyr. Ac er nad ydyw, yn gyffredin, ond fel yn chwaraeu â'i orchwyl, eto y mae weithiau, pan yn cyffwrdd â rhywbeth cyffrûs, yn twymno, ac yn dangos cyrau ei nerth. Nid ydym yn ei ystyried ond fel yn ymddiddan â ni yn ein hystafell am gamddarluniadau yr "*Eikon Basilike*;" ond chwai! mor ddifyr ydyw edrych arno,—dyma ei galon fawr yn dechreu cyneu, ac yntau yn llefaru mewn cywair sydd yn peri i ni feddwl am yr hyn a ddywedid am Pericles, y Groegwr, "ei fod fel lau yn taranu pan lefarai!" Nodwn yn anghraifft. Pan y mae y brenin yn dyweyd fod Duw yn tywallt ei farnau arnynt am eu hymddygiadau annheilwng tuag ato ef, yr ydym yn cael y geiriau hyn:—

"Y mae yn awr, pan nad ydyw mwyach yn ei allu i ddal ar ei wrthwynebwy, yn ceisio boddhu ei fympwy â'r dychymyg am ryw ddial arnynt oddi uchod; ac, fel dyn ar sychder sydd yn syllu ar y ffurfafen, y mae yn eistedd ac yn gwylled pa bryd y disgyna rhywbeth a allai ei gysuro, a'r tebygolrwydd o gosbedigaeth arnom o'r nef; yr hyn a esbonia yn y fan fel y dewisa. Nid oes un drwg yn disgyn ar y senedd, nac ar y ddinas, nad ydyw, heb un petrusder, yn ei ddeongli yn farn arnynt o'i achos ef; fel pe buasai hyd yn nod ysgrif-lyfr barnedigaethau Duw wedi ei draddodi iddo i'w gadw a'i esbonio. Ond y mae ei ddarlleniad yn profi yn eglur mai copi gan a ddefnyddia, gan ei fod yn fynych yn priodoli i'w weithredoedd drwg a'i lwyddiant ei hun, dystiolaeth o fafr Duw; ac i weithredoedd da a llwyddiant dynion eraill, lid a digofaint Duw.

Ond dynwared llaw Duw ydyw y ffugiad hyfaf mewn bod. Ac y mae yr hwn, heb yr un awdurdod ond ei dyb ddychymygol ei hun, sydd yn wastad yn cymeryd arno ddadblwygu dirgeledigaethau cuddiedig ac anchwiliadwy rhagluniaeth, yn debyg fynychaf o'u camddeall a'u diraddio; ac y mae yn dynesu at wallgofrwydd y meddyliau gwrthodedig hyny a fynent gipio cleddyf cyfiawnder o law Duw, a'i ddefnyddio yn fwy cyfiawn, yn ol eu mympwy eu hun. Nid oedd ymyrson â'r senedd yn nghylch yr unig awdurdod ar y *militia*, ond peth bychan, pan yr ydym yn ei weled yn gwneyd fawr lai na gosod ei ddwyllaw ar arfau Duw ei hun—ei farnedigaethau—i'w llywio a'u trafod yn ol awdurdod a dewisiad ei feddyliau gwaelion ei hunan."

Y mae rhai yn anghymeradwyo ei arddull yn y llyfr yma. Dichon nad ydyw mor orphenedig ag yn rhai o'i ysgrifeniadau. Yn wir, y mae ef ei hun yn cwyno mewn un man ei fod yn gorfod ysgrifenu cymaint ar faterion o'r natur yma, lle yr oedd yn gorfod gweithio â'i "law aswy," medd efe, ac heb gael amser i orphen, a pherffeithio, tra y teimlai ei natur wedi ei chyfaddasu i breswyllo yn mynydd yr awenau, ac i adael ar ei ol gyfansoddiadau na fyddai y byd yn "foddlawn i adael iddynt farw." Ond wedi y cyfan, nid mor fawr yw y golled, hyd yn nod gyda golwg ar arddull, ei fod yn gorfod ysgrifenu megys ar faes yr ymladdfa. Gwneir i fyny mewn grym fwy o lawer yn fynych nag a allesid ennill mewn gorpheniad. Iê, na syned y darlennydd, os cyfarfydda mewn lleoedd y dysgwyliaid leiaf am danynt, â llawer o frawddegau o dlynsni anghymharol,

"Like orient pearls at random strung."

Yr ydym yn tybied fod yn anhosibl i ddyn mawr gollu ei bersonoliaeth, a'i "wadu ei hun," yn un man—y mae rhywbeth o'i amgylch bob amser sydd yn bradychu ei fawredd; ac os felly bob amser, llawer mwy yn yr ystâd o ymgeiniad a difrifwch yr oedd Milton a'i oes yn cael eu cadw ynddi. Yr ydym yn hoffi ei arddull, oblegid ei bod fel gwydr clir yn rhoi mantais i ni weled, ar bob adeg, sefyllfa ei feddwl. Ond i glust na b'o yn gynnefin ond â llényddiaeth Seisnig y dyddiau hyn, y mae mewn aml i fan yn debyg i swnio yn ddeythr. Nid oedd yr iaith y pryd hyny wedi cyrhaedd y sefydlogrwydd uchel y mae ynddo yn awr; yn llaw Shakspeare, a Milton, Hooker, a Taylor, a chewri eraill yr amseroedd hyny, yr ydoedd yn cael ei dyrchafu iddo. Y mae cryn lawer o ôl astudiaeth helaeth ar awduron clasurol Groeg a Rhufain i'w weled arni; gallai hyn daro ambell i glust, fel peth anseisnigaidd. Ond heblaw hyny, yr oedd y bobl enwog a enwyd, a'u cyffelyb, o feddyliau uchel ac annibynol, ac felly mewn modd arbenig yn ffurfio eu harddull "ar eu llun a'u delw eu hun;" ac i ddyn na fo yn gydnabyddus ond â llényddiaeth boblogaidd, y mae eu harddull yn rhwym, yn fynych, o ymddangos yn anystwyth a chlogyrnaidd. Fe fu adeg pan oedd llényddion y deyrnas yn ei hystyried yn ddyledsawydd arnynt gyfrif arddull yr awdwyr yma yn farbaraidd, ac yr oedd y darllenwyr bychain a byr-anadlog yn cael mwy o fwyniant o lawer yn iaith soniarus a hawdd eu hysgrifenydd sidanaidd eu hunain, nag yn ymdrechgu âg ymadroddion hirion a chymhlethedig hen awdwyr cryfion amser Elizabeth a'r werin-lywodraeth. Erbyn hyn y maent hwy yn colli eu safie, a'r bobl fwyaf meddylgar, ac o'r chwaeth oreu, yn dyfod i werthfawrogi gwrthddrychau eu diystyrwch. Po gryfaf a mwyaf cyffredinol fydd meddwl dyn, gan fod pob dyn yn gosod ei ddelw ar ei arddull, cryfaf yn y byd, a mwyaf cymhlethedig, fynychaf, fydd ei ymadroddion; ac os ydym ninnau am gymeryd ein dysgu gan yr athraw mawr, rhaid i ni fyned ato fel gweithwyr, ac astudio ei ddull o feddwl; ac ar ol cyrhaedd hyny, byddwn wedi cael agoriad ei arddull, ac yna fe fydd ei ddoethineb mawr yn wledd i'n heneidiau, a'i ymadroddion, er iddynt ymddangos yn farbaraidd i eraill, yn fwisig i'n clust. "Y mae efe wedi ennill yn dda mewn areithyddiaeth," medd Quintillian, "yr hwn y mae Cicero yn foddhau." Pwy bynag a ymaflo yn llyfrau dynion fel Thucydides, a Milton, Coleridge, a Foster, gan ddysgwyl am ddifyrwrch, ni chaiff ond ei ddychryn ymaith gan eu tywyllwch. Gweithwyr o ddifrif oeddynt hwy yn myd y meddwl, ac fe fuasai yn ysmala ganddynt feddwl am i ddyn penchwiban, fuasai yn rhedeg ar ol difyrwrch, gael gafael arno yn eu tudalennau cryfion hwynt! Y mae yn rhaid i ni ymaflyd yn ngwaith y tywysogion yma â braich fwy egniol; ond peidied ein cyfeillion a digaloni—nid oes eisieu ond tipyn o ymdrech, a dyna y gwaith ar ben, a'r cyfoeth yn eu meddiant.

Y gwaith nesaf yw, "*The Tenure of Kings and Magistrates.*"

'Dyma i ti fantais, ddarllenlydd, i weled barn Milton ei hun ar arddull:—"But when I saw his weak arguments, headed with sharp taunts, and that his design was, if he could not refute them, yet, at least with quips and snapping adages, to vapour them out, which they, bent only upon the business, were minded to let pass; by how much I saw them, taking little thought for their own injuries; I must confess, I took it as my part the less to endure that my respected friends, through their own unnecessary patience, should thus lie at the mercy of a coy flirting style; to be girded with frumps and curtal gibes, by one who makes sentences by the statute, as if all above three inches long were confiscate."—"Apol. for Smec." cyf. iii., tudal. 99.

Ymddengys fod y Presbyteriaid, ar ol sefydliad y werin-lywodraeth yn teimlo yn siomedig na chawsant hwy rhyw arbenigrwydd ynddi; ac, yn eu siomedigaeth, y maent yn cymeryd arnynt edifarhau yn fawr am ryfela yn erbyn "eneiniog yr Arglwydd," ac yn awr yn pregethu i'r bobl beohaduruswydd y weithred o'i ddiorseddu gyda ohymaint o danbeidrwydd ag y pregethent o'r blaen yr anghenrheidrwydd am ddinystrio y gorthrymwr. Yn ateb iddynt ysgrifenyddyd y llyfr yma, yn profi "fod yn gyfreithlawn, ac yr ystyrid felly yn mhob oes, i umrhyw un, sydd yn meddu yr awdurdod, i alw gorthrymwr, neu frenin drygionus, i gyfrif; ac, ar ol ymchwiliaeth deilwng, ei ddiorseddu a'i ddienyddio, os bydd yr ynad cyffredin yn esgeuloso neu yn gwrthod gwneyd. Ac mai y dynion hyny ydynt yn ddiweddar yn beio yn gymaint y diorseddiad, a'u gwnaethant eu hunain." Profia gyfreithlondeb y weithred nid yn unig oddiwrth air Duw, rheswm, a thystiolaethau y paganiaid, fel yn ei atebiad i Salmaius, ond hefyd oddiwrth dystiolaethau y Presbyteriaid eu hunain, ac o weithiau yr awdwyr a ystyriant hwy fwyaf cyfrifol, megys Knox, Calvin, Luther, Zuingle, Bucer, &c. Y mae wedi ei ysgrifenu yn rymus. Y mae ei resymau a'i ddynnoethiad o egwyddorion gwaelion ei wrthwynebwyr, yn eu gwneyd yn ddim. Nid ydym yn ystyried fod a fyfno y traethodau yma â helynt ein dyddiau ni mewn un modd (y mae yn ddiau y buasai yn llawen gan galon Milton gael byw i weled cyfansoddiad presennol ein teyrnas, sydd yn rhoddi y fath ddiogelwch i'r deiliaid rhag gormes y gorthrymwr, oedd yn poeni cymaint ar ei enaid gonest ef, ac ar yr un pryd yn amddiffyn gyda llaw gref urddas ac iawnderau y goron. Buasai yn dda genym glywed gyda y fath frwdfrydedd y buasai yn ei ganmawl, ac yn cynghori ein llywodraeth i wneyd cydwybod o drosglwyddo breintiau cyfoethog y *theory* i gartrefydd, i aelwydd, ac i galonau y deiliaid); ond eto y mae ei athrylith ef wedi gosod y fath werth arnynt, fel y maent yn deilwng o gael eu hastudio, ac yn debyg o gael eu hastudio, tra byddo ohwaeth lënyddol mewn bod. Y mae darllenwyr ieuaine yn dra thmeddol i ofyn yn ddiddiwedd yr hen gwestiwn, "*aut bono?*"—pa les, pa ddyben yw i un ddarllen y peth hyn a'r peth arall? Ond os bydd yn rhaid iddynt gael amgyffred y *pa ddyben* am bob gorchwyl a gymhellir iddynt, nid ydynt byth yn debyg o dd'ed yn llënyddion. Y mae yn rhaid iddynt gredu pobl eraill am bethau sydd uwchlaw eu hamgyffred; ac os änt ymlaen i weithio yn egniol ar nerth y ffydd yna, fe ddywed yr *argraff fydd wedi ei gadael ar y meddal*, cyn pen nemawr o smser, beth fydd y dyben. Fe allai fod rhai yn barod i wenu wrth ein gweled yn cymhell mor ddifrifol draethodau ar faterion mor sychlyd i'w sylw; ond pa fodd bynag, ni phetruswn ddyweyd eu bod y fath fel na all un dyn eu darllen, eu hastudio, ac ymawthio i'w hysbryd, heb deimlo ei hunan yn y diwedd yn llawer cryfach a mwy coethedig.

Ond yr ydym yn gweled nas gallwn wneuthur cyflawnder äg ysgrifeniadau rhyddieithol Milton mewn un erthygl; ac am hyny gadäwn ei draethodau ar Ryddid y Wasg, ar y Diwygiad yn Lloegr, ac ar Gysylltiad yr Eglwys ä'r Wladwriaeth, hyd y rhifyn nesaf.

## NODIADAU AR YR AMSERAU.

Yn lle "Nodiadau ar Lyfrau" y tro hwn, cymerwn ein rhyddid i lanw yr ychydig le a ganiatëir i ni yn niwedd ein rhifyn presennol, a byr-nodiadau ar rai o hynodion a helyntion yr amserau.

Mae yn ddiareb am Frydeiniaid mai testun cyntaf eu hymddyddan yn mhob cyfeillach sydd am ansawdd yr hin. Pa un bynag ai dau Sais ai dau Gymro fydd yn cyfarfod â'u gilydd, odid nad adroddant, fel newydd y naill i'r llall, ei bod hi yn sych neu yn wlyb, yn oer neu yn gynhes. Nid rhyfedd fod yr hin eleni yn peri sylw a siarad; canys cawsom auaf anarferol dyner, a gwanwyn anarferol sych. Y gwlawogydd trymion yn niwedd Ionawr a dechreu Chwefror, a ddilynwyd gan hir sychder, yr hwn a barhaodd o ddiwedd Chwefror hyd ddiwedd Ebrill, dan deyrnasiad caled gwynt y gogledd, fel y dywed y morwyr. Ond yn Mai a Mehefin, wele y gwlaw maethlawn yn ymweled â'r tir sychedig oedd yn hiraethu am dano; ac erbyn hyn, mae llawer Cymro diamynedd yn dechreu grwgnach o herwydd hir wlybanaeth. "Mae yr Hollalluog," meddai hen bregethwr, "wedi medru llywodraethu y byd a'i bobl er ys chwe" mil o flyneddau heb fethu mewn dim; gan hyny hawdd y gallwn ymddiried ynddo am reolaeth yr hin ac am bobpeth rhaglawn."

Mae enwau tra adnabyddus yn Nghymru wedi cael eu cymeryd ymaith gan "frenin braw" yn y misoedd a'r wythnosau diweddf. Pregethwr hynod yn ei oes oedd Daniel Jones, Caernarfon, gynt o Landegai, er nad oedd yn dduwinydd mawr, nac yn areithiwr campus. Mynych y bu raid i'r rhai mwyaif anystyriol ddelwi a chrynu gan daranau a meltt ei weinidogaeth; a dywedir fod cannoedd o seliau byw ei awdurdod weinidogaethol yn eglwysi Cymru. Prudd yw cofio ei fod heddyw yn ddystaw yn mudandod y bedd. Yr oedd Morgan Howells yn un o dywysogion y pulpud, ac yn ddyn rhyfedd yn mhob ystyr. Yr oedd ganddo adenydd eryr a chalon oen; neu fel y dywedodd ef ei hun am y Parch. John Evans, New Inn, "Yr oedd yn angel ac yn faban dan yr un tô." Ei athrylith ydoedd ddi'ammheuol, a'i ysbryd yn ddihoed. Yr oedd yn èang ei wybodaeth, yn wreiddiol ei feddwl, ac yn dwym ei deimlad. Os nad oedd bob amser yn defnyddio y ffordd oreu i gyrhaedd ei nôd, yr oedd yn hawdd i baw weled ei fod ef o ddifrif yn amcanu ato. Ond efe a fu farw! ac nid oes genym ond coleddu adgofion hiraethus ar ei ol. Mae llênysddiaeth Cymru wedi cael colledion dirfawr yn marwolaethau Ieuan Gwynedd, Dafydd Rhys Stephen, a Ioan Tegid. Cyflawnodd Evan Jones waith mawr mewn oes fer. Yr oedd yn ysgrifenydd parod, eglur, a grymus—yn brydydd rhwydd, melus, a phrydferth—yn wladwr dileddyw—ac yn Gristion efengylaidd. Yr oedd yn rhaid i'r rhai nas gallent gydfarnu âg ef yn yr oll o'i syniadau, addef ei fod yn onest i argyhoeddai ei gydwybod, ac iddo hyd y diwedd weithredu yn gyson â'i egwyddorion. Dysgwyllem lawer oddiwrtho mewn amser i ddyfod; ond torwyd ef ymaith yn mlodau ei ddyddiau. Yr oedd D. Rhys Stephen yn perchen deall cryf, chwaeth coethedig, a doniau helaeth; parablai yn dda, ac ysgrifennai yn wych. Ond mae ei bin ysgrifenu wedi syrthio, a'i dafod wedi tewi. "Dyn a drenga; a pha le y mae?" Tegid, megys hwythau, a gyfododd o ganol y werin, ac a gyrhaeddodd fri a chyhoedduswydd. Yr oedd yn ieithydd medrus, ac yn awdur amryw gyfansoddiadau tlysiion mewn barddoniaeth; ac adnabyddem ef fel cyfall mwyn, a gwr eglwysig o egwyddorion rhydd a diragfarn. Mae yntau wedi myned at genedlaeth ei dadau, heb iddo gyfran byth mwy o ddim oll a wneir dan haul. Ddarllenwydd, pwylla ac ymholo: pa beth ydwyt ti yn awr i eraill, a pha beth a fyddi byth i ti dy hun?

Yn y dyddiau hyn, mae yr holl deyrnas yn fyw mewn darpariadau at, a dysgwiliadau am, yr etholiadau seneddol sydd i gymeryd lle yn fuan bellach drwy

yr holl siroedd a'r bwrdeisdrefi. Mae canlyniadau pwysig yn debyg o fod i'r etholiad cyffredinol presennol; a dylai pob etholwr, wrth roddi ei bleidlais, weithredu yn fyddlawn i'w wlad, i'w gydwybod, ac i'w Dduw. Mae yn weddus iddo gosio fod yr hawlfraint etholiadol wedi ei gosod yn ei law gan gyfansoddiad y wlad, a chan ragluniaeth y nefoedd, nid fel gwerth i fasnachu am fantais amserol iddo ei hun, ond fel ymddiried i'w ymarfer er daioni yr holl genedl. Da genym weled y bobl mewn manau yn galw rhai o honynt eu hunain i'w cynrychioli yn y senedd. Mae hyn yn beth newydd yn Nghymru, ac yn haeddu pob cefnogaeth. Pwy yn well i gynnrychioli y Cymry na rhai sydd eu hunain yn Gymry o wlad, o genedl, ac o iaith—wedi dyfod allan o frys y cyffredin—a chanddynt wybodaeth brofiadol am ein harferion, am ein hanghenrheidiau, am ein rhagoriaethau, ac am ein crefydd? Mae yn wir nas gellir dysgwyl oael hyn oddiamgylch heb wrthwynebiadau ffyrnig. Ond mae yn werth sylwi pwy ydynt hwy sydd yn gwrthwynebu rhyddid etholiad yn ein gwlad. Nid yr uchelwyr trwyadl—nid y gwir foneddwyr,—mae y rhai hyn yn y Dywysogaeth yn gadael i'w tenantiaid bleidleisio dros y rhai a farnont yn fwyaf cymhwys; ond crach-foneddwyr a goruchwylwyr chwyddedig a thrahaus—rhai oedd eu hunain yn ddiweddar yn gwneyd i fyny nifer y werin—dyma y rhai a fynent sathru ar hawliau y bobl er mwyn ceisio ymddyrchafu i sylw a ffafr y dosbarth galluog a phendefigaidd. Etholwyr Cymru! yn yr ymdrech sydd wrth y drws, dangoswch fod genych farn drosoc'h eich hunain, ac y mynwch weithredu yn ol y farn hŏno. Na adewch i nod du caethwasaeth gael ei osod ar eich talcenau. Na chynffonwch fel cŵn o flaen undyn, bydded lŏn neu lŏyg; ond defnyddiwch eich breiniau fel dynion ac fel Prydeiniaid, ac ni a'ch sicrhawn na chewch niwed yn y pen draw. Y rhai ansafadwy fel dwfr, ni ragorant hwy; mae pawb yn ffeiddio y dynion sydd yn gwerthu egwyddor am damaid o fara; tra y mae y rhai sydd yn gweithredu yn gyson â hwy eu hunain, ac â'r hyn a gredant sydd wirionedd, yn ennill parch hyd yn nod oddiar law eu gelynon.



# Y TRAETHODYDD.

## LLYFRYDDIAETH Y CYMRY.

FEL yr ydys yn myned ymlaen, ar ol y cyfnodau blaenorol y rhoisom eu hanes, y mae ein llyfrau yn amlhau. Nid oes un flwyddyn yn myned heibio heb fod cynnyrchion y wasg yn ymdywaltt ar ein gwlad; a'r rhai hyny, gan mwyaf, yn llyfrau gwerthfawr, gwir anghenrheidiol i'n cenedl. Yr ydym wedi dyfod tros gyfnod y Weriniaeth—y cyfnod mwyaf crefyddol yr ydym yn tybied a fu ar ein cenedl erioed, a'r hwn nad yw ein haneswyr crefyddol wedi gwneyd cyflawnder âg ef; a dyma Siarl II. yn eistedd ar yr orsedd o'r hon yr hyrddiwyd ei dad. Am gryn amser, yr oedd sawyr yr oes a aeth heibio ar ein llenoriaeth, ond yn cael ei gymysgu â gweithiau nad oeddynt yn hollol efengylaidd. Gyda hyn o eiriau ni a awn rhagom.

1685.

1. "Gweddî yr Arglwydd wedi ei hegluro mewn amryw ymadroddion, neu Bregethau byrion. Gan G. Griffith, D.D. Esgob Llan-Elwy. Gan Gronw & Tudur, Rhydychen." Splyg.

Dywedir uchod "Gan Gronw a Tudur," yn ol Mr. Moses Williams; ond "At y Darlennydd," a arwyddir gan "William Foulkes, Llanfylling, Mawrth 2, 1684," flwyddyn cyn ei argraffu.

Yr ydys wedi crybwyll rai gweithiau o'r blaen yn y chwarter diweddaf, am yr Esgob Griffith. Fe allai y byddai yn briodol chwaneagu yma dal-fyriad o'r hyn a ddywedir am dano yn "*Willis' Survey of St. Asaph*," ac "*Wood Oxonian Athenæ*," ynghyd â pheth chwaneagiad gan y cyhoeddwr, "William Foulkes, Llanfylling." George Griffith, S. T. P., a anwyd yn Penrhyn, sir Gaernarfon, Medi 30ain, 1610. Derbyniodd ei addysg yn ysgoldy *Westminster*. Etholwyd ef yn fyfyrwr o Eglwys Crist, yn 1619. Yr Esgob John Owen a'i cynnysgaethodd â phersoniaeth Llanfechain, yr hon a gyfnewidiodd wedi hyny am Lanymynech. Yr oedd hefyd yn berson Llandrinio, sir Drefaldwyn. Yn 1635, efe a raddiwyd yn D.D., a gwnaed ef yn un o ganoniaid Eglwys Llanelwy. Yr oedd yn wrthwynebwr mawr i'r Weriniaeth, a bu ef a Vavasor Powell yn ysgrifenu cryn lawer yn erbyn eu gilydd; sef rhif 1, 2, 3, 1652.

Yr oedd ganddo law yn nghyhoeddiad yr un ar ddeg ar hugain o bregethau y Parch. William Strong, (gynt darlithiwr yn *Westminster*), yn gysylltiedig â'r Parch. John Rowe, a Thomas Manton. Cymerodd arno gyfieithu "Llyfr y Weddi Gyffredin" o'r newydd i'r Gymraeg; ond nid yw yn wybodus pa un a orphenodd ef ai peidio. Efe a gynnygiodd yn nghymanfa yr offeiriaid, yn 1640, am argraffiad newydd o'r Beibl Cymraeg; ond darfu i derfysgiadau y cyfnod hwnw roi attalfa ar allu yr offeiriaid i wneyd nemawr, ac yr oeddynt hwythau yn rhy ymllynol wrth eu plaid i

HYDREF, 1852.] 2 B

gydymdrech gyda'r blaidd wrthwynebol, hyd yn nod mewn pethau cyffredin Cristionogaeth. Gan ei fod y fath bleidiwr gwresog i'r brenin a'r Eglwys, efe a wobrwyyd wedi yr adferiad âg Esgobaeth Llanelwy, Hydref 28ain, 1660. Yr oedd yn yr esgob hwn lawer o bethau da. Efe a sefydlodd bregethu Cymraeg yn Eglwys Llanelwy. Gwnaeth hefyd ryw gyfnewid- iad yn "Llyfr y Weddi Gyffredin;" a meddylir mai ei gyfansoddiad ef yw "Ffurf bedydd rhai mewn oedran addfetach;" yr hon yr oedd sefyllfa pethau yn ei alw am dani yn y dyddiau hyny, gan fod lliaws mawr heb fedydd o unrhyw fath; canys yr oedd llawer wedi eu magu yn Grynwy'r a Gwrth-fedyddwyr babanod yn ystod y Weriniaeth—yn awr, rhai o fodd, a rhai o anfodd, yn dychwelyd yn ol i'r Eglwys, gwelwyd yn anghen- rheidiol gyfansoddi gwasanaeth i'r perwyl, yr hwn na bu nemawr o arferyd arno byth er y pryd hwnw. Yr oedd y Cymro hwn hefyd yr un mwyaf selog dros "Weithred yr Unffurfiad." Y mae ei haneswyr eglwysig ei hun yn ei feio yn drwm ddarfod iddo—wedi cael ei wneyd yn esgob—ddal yn ei feddiant y bersoniaeth oedd yn ei feddu o'r blaen, a pherigloraeth Llanrhaiadr yn Mochnant. Nid ydys yn gwybod fod dim o'i waith yn Gym- raeg, ond y pregethau uchod ar Weddi yr Arglwydd yn unig, y rhai a gy- hoeddwyd hefyd yn Nghaernarfon yn 1804, gan "Gymdeithas Traethodau Esgobaeth Bangor." Bu farw yn ddedwydd iawn Tachwedd, 28ain, 1666, a chladdwyd ef yn nghôr Eglwys Gadeiriol Llanelwy; yr hon yr oedd ef wedi ei hadgyweirio gryn lawer. Bu iddo chwech o blant. Ei unig fab a briododd ferch ac etifeddes y Parch. Griffith Pearce, periglor Nannerch. Un o'i ferched a briodwyd â John Middleton, Ysw., o Waenynog. Un arall a briodwyd a'r Parch. John Edwards, LL.D., periglor Llanymynach, a ohanghellwr Llanelwy. Un arall a briodwyd â — Griffith, Ysw., o Brongarth. Un arall â Mr. Foster, llyfrwerthydd yn Nghaerlleon. Mr. Price, o'r Glyn, a Mr. Davies, o Drewylan, a briodasant ei wyresau o Waenynog.

2 ¶ "Ymarfer o Dduwioledeb, &c. Y Pedwerydd Argraphiad yn Gymraeg, wedi gwellhau llawer o gam yspeiliadau oedd yn yr Argraphiadau eraill. Argraph- wyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan Thomas Jones."

Gwel rhif 1, 1630; rhif 2, 1656; a rhif 4, 1675. Dichon mai ychydig fyneddau ymlaen y dylai yr argraffiad hwn fod; nis gallwn benderfynu, oblegid nid oes amseriad wrtho.

1686.

1. "Teg Resymau Offeiriad Pabaidd, wedi eu hatteb gan Brotestant o Eglwys Loegr. Llundain." Splyg.
2. "Caniadau Edmund Prys."
3. "Llyfr Carolau a Duriau duwiol, &c. A roddwyd allan gan Ffowc Owen, ac a argraphwyd yn Rhydychen yn y fiwyddyn 1686."

Yr oedd yr argraffiad, meddai Thomas Jones o'r Amwythig, yn ei ail- argraffiad, yn llawn beiau anafus a chywilyddus.

4. "Fatherly Instructions: being Select Pieces of the WRITINGS of the Primitive Teachers. Translated into *English*. With an *Appendix*. Entituled *Gildas Minemcis*. LONDON, Printed in the year 1686."

Cynnwys y llyfr hwn lawer iawn o wybodaeth am y Cymry.

1687.

1. "Trugaredd a Barn, &c. Gan J. O. Gweinidog yr Efengyl. Argraphwyd yn

y Mwythig gan R. Lathorp, lle y gellir cael Printio pob math o gopiau am bris gweddaidd, a chael ar werth amryw Lyfrau Cymraeg a Saesonaeg."

Gan fod y llyfr hwn, a hanes yr awdur, y Parch. James Owen, mor adnabyddus, afreidiol yw helaethu yma.

## 2. "*Ecclesiarum Britannicarum Antiquitatis.*"

Ailgraffiad yw hwn o rhif 1, 1639; sef "Hynafiaeth yr Eglwys Frytan-aid," gan Archesgob Usher. Crybwyllasom o'r blaen am yr archesgob, ac am y nodded a gafodd yn Nghymru, pan y bu orfod arno ffoi o'i wlad ei hun oblegid terfysgoedd ei amser.

"Y mae yr hanesion canlynol am Dr. Usher yn rhoddi cryn sarhydedd ar y boneddigion Cymreig, yn yr amseroedd terfysgld hyny. Yr oedd merch i'r archesgob wedi ymbriodi â Syr Timothy Tyrrel, yr hwn oedd dan y brenin yn llywodraethu Castell Caerdydd; a chan na oddefid iddo ddychwelyd i'r Iwerddon, efe a dderbyniodd wahoddiad ei fab-yn-nghyfraith a'i ferch i dalu ymweliad & hwynt; a gwnaeth en tŷ hwynt yn gartref am oddeutu blwyddyn, yn yr hwn ystod yr ymweloddy y brenin & Chaerdydd, wedi ei orchfygu yn mrwydr Naseby. Gan fod Syr T. Tyrrel yn gorfod rhoddi ei le i fyddu, gwahoddwyd yr archesgob gan Lady Stradling, gwedd Syr Edward Stradling o Gastell St. Donats, i wneyd ei gartref yn ei tŷ hi. Yr oedd hyn yn y flwyddyn 1646, pan oedd y wlad mewn cythrwfi drwyddi, a'r Weriniaeth yn cario pob peth o'i blaen yn sir Forganwg. Aeth Lady Tyrrel gyda'i thad; ond er iddynt gael eu harwain ar hyd y ffordd cwmpasog, rhag cael ymosod arnynt gan y gwerinwyr Cymreig, y rhai oeddnynt mewn arfau wrth y miloedd, deuwyd ar eu traws gan ychydig o honnynt. Bu ymddygiad y dynion hyn yn nodedig o arw ac anfoesgar—hwy a olrhainasant gistiau yr archesgob, ac a'u tynasant ef a'r boneddigesaau oddiar eu ceffylau; ond daeth rhai o'r swyddogion i fyny, a chan gywilyddio oblegid ymddygiad anweddu eu cydwladwyr, hwy a'u harweinasant i dŷ Syr John Aubrey, ychydig oddi yno, lle y dangoswyd pob tirondeb i'r hybarch archesgob a'i gyfeillion. Yr oedd colli ei lyfrau—er iddo gael ymddwyn tuag ato mor dirion—yn gofidio meddwl y dyn da hwn yn fawr—yn fwy o lawer na cholli ei holl gyfoeth yn Iwerddon. Pan oedd ei ferch yn ceisio ei gysuro, efe a ddywedodd, 'Yr wyf wedi cael fy nghyffwrdd mewn lle tynar iawn, ond llaw Duw ydyw, a gwelodd ef yn dda gymeryd oddiarnaf, ar unwaith, y cwbl a fum yn ei gaaglu dros fwy nag ugain mlynedd, a'r hyn a fwriadaawn ei gyhoeddi, er cynnydd dygeidiaeth, a lles yr eglwys.'

Dranoeth, daeth llawer o'r offeiriad cymydogaelhol i ymweled âg ef, ac i gyd-gwyno âg ef yn ei golled, yr hyn yr oedd ef y pryd hyny yn ei ystyried yn anadferadwy; ond hwy a addawsant wrtho y gwnaent bob ymdrech i ad-ddychwelyd ei lyfrau a'i bapyrâu; ac a hwy yna gydymdeithiasant âg ef i Gastell St. Donats. 'Fel y gweloch,' meddai yr hanesydd parchedig, 'ddarfod i'r boneddigion a'r gweinidogion hyn, nid yn unig addaw, ond fod yn alluog i gyflawni, hwy a arferasant eu dylanwad gyda'r bobl, a chyhoeddwyd yn yr eglwys trwy yr wlad, ar fod i hawb ag oedd ganddynt gyfryw lyfrau neu bapyrâu eu dychwelyd i'w gweinidogion neu eu meistri tiroedd; yr hyn yn ganlynol a wnaed; canys yn mhen dau neu dri mis, yr oedd ei holl lyfrau a'i bapyrâu wedi eu dychwelyd iddo yn fwndelan—mor llawn, fel pan gafwyd hwy at eu gilydd nad oedd nemawr yn eisiau.' Ymhlith y rhai a gollwyd, yr oedd dwy yagrif o berthynas i'r *Waldensiaid*, y rhai yr oedd yr archesgob wedi eu cael tuag at gwblhau gwaith a alwai ef 'Olyniaeth yr Eglwys Cristionogol,' yr hwn a stddodwyd gyda'r Argraphiad diweddaf hwn o'i 'Hynafiaethau yr Eglwys Brutanaidd.' Collwyd hefyd Gofrestr o'r Breninoedd Persiaidd, a *Varia Lectiones* ar y Testament Newydd.

Tra yr oedd ei arglwyddiaeth yn St. Donats, efe a dreuliodd beth amser i edrych dros ran o'r lyfrau a'r ysgrifeniadau a gaaglywyd gan Syr Edward Stradling, yr hynafiaethydd mawr, a chyfaill i Mr. Camden. 'O rai o'r yagrifau hyn,' meddai Dr. Parr, 'y darfu i'r arglwydd archesgob ddewis llawer o gaagliadau o hynafiaeth Brutanaidd neu Gymreig, y rhai sydd yn fy meddiant i.'

Arosodd y dyn mawr hwn ar enill yn Mro Morganwg am yn agos i ddenddeng mis, ac ymddygydd tuag ato gyda'r parch mwyaf, nid yn unig gan deulu St. Donats, ond hefyd gan offeiriad a boneddigion y wlad. Dyoddefodd waeledd corfforol mawr tra yr oedd gyda Lady Stradling; ac wedi colli ei holl elw oddiwrth ei archesgobaeth,

yr oedd ei amgylchiadau tymmorol yn isel iawn; lle y gwelwn y duwinydd enwocaf trwy holl Gred yn ymwingo ag adfyd; ond darfu i foddwl santsaidd ac anorchfygol Usher ei ddal i fynu, ac ni ddarfu i'r Ragluniaeth Ddwylf hono, ar yr hon y rhoddai ei hyder diysagog, ei adael yn amddifad mewn gwlad ddyeithr. Ond nid oedd gwlad na phobl yn ddyeithr i'w glod, a chafodd hanesydd yr Eglwysy Brutanaidd, iddo ei hunan, adfywiad o letygarwch yr hen oesoedd. Darfu i foneddigion Morganwg, gan fod yn deimladwy o'r anrhydedd a roddwyd arnynt gan bresenoldeb y fath ymwelydd enwog, ddangos eu parch, trwy anfon iddo yn anwybodus i'w gilydd gryn swm o arian. Yr oedd bellach yn dymuno—gan mor anobeithiol oedd sefyllfa achos y brenin—cael noddod tu draw i'r môr; ond gan fod glanau y moroedd yn cael eu gwylio, nis gallasai gael cyfleusdra i ddianc i'r Cyfandir, ac efe a rwystwyd i gwlblhan ei ddymuniaidau. Yn y cyfamser gwahoddwyd ef gan Iarlls Peterborough i ddyfod a gwneyd ei arsofa gyda hi; derbyniodd ei argwyddiaeth y gwahoddiad; ac wedi cael awdurdod briodol, efe a symudodd o Gymru i Lundain, yn mis Mehefin, 1646.” J. H.<sup>1</sup>

1688.

1. “Esboniad ar GATECHISM yr Eglwys, Neu Ymarfer o Gariad Ddwylf. *A gymmonwyd er Ueshad* ESGOBAETH BADDON. Gan Thomas, Esgob Baddon. Ac a gyfieithwyd o'r Saesonaeg (yn ol ei gyntaf osodiad allan). Gan WILLIAM FOULKES, Athro yn y Celfyddydau, a Gweinidog Anwif Gair Duw yn Llanfylling. Printiedig yn Rhydychen yn y flwyddyn 1688.”
2. “Taith y Pererin. Gan John Bunyan. O gyfieithiad Cymmysg Ddwylaw. Llundain.” Splyg.

3 “Y Gymraeg yn ei Dysgleirdeb, Neu helaeth EIR-LYFR Cymraeg a Saesnaeg, yn Cynwys mwy o eiriau Cymraeg, nag sydd yng Eirlyfr y Disgawdr Siôn Dafis o Gymraeg a Lading. Yn gyntaf, yn hyspysu meddwl y Gymraeg ddieithr, drwy gymraeg mwy Cynnefinol: yr hyn sy gyfleus, a deunyddiol iawn i bawb a Ewyllysiont ddeall a ddarlennont yn gymraeg. Yn Ail, yn dangos y gwir Saesnaeg i bob gair Cymraeg. Ag yn ddylynol, y môdd i gysylltu, sef i (yspeliu) pob gair yn gywir yn y gymraeg, a'r Saesnaeg. Ac a helaethwyd Ag Argraffyddol henwau Gwledydd, Gosgorddau, Dinasoedd, Trefydd, a manau (ymmyrdain fawr, a Rhai dros y môr:) yn yr hên gymraeg, a'r bresennol Saesnaeg. At yr hyn a chwangegyd Eglur, a hylaw athrawiaeth, (i'r Cymry) am gywir Adroddiad y Saesnaeg; drwy fyr hyfforddiad yn yr Iaith gymraeg. Gyda phriodol ddeunyd neu Arwyddocad yr holl ordiganau, a'r Attalion, sy'r Awron yn Arferedig yn y gymraeg a'r Saesnaeg; Ag yn Angenrheidiol eu deall gan bob darlennnydd. A gasglwyd drwy ddirfawr boen, a diwydrwyd *Tho. Jones*. Argraffwyd 1688, ac ar werth yng Haerlydd gan Mr. Lawrence Baskerville, tan Lun y Llew Coch yn yr henadur-Rewl, a chan Mr. March tan Lân y Llew Coch yn rhewl Cath-fwytaad.”

The British Language in its Lustre, Or a Copious DICTIONARY of Welsh and English: Containing many more British words than are in Dr. *Davies's Antiquæ Linguae Britannicæ Dictionarium duplex*. FIRST, Explaining the hard British words, by more familiar words in the same Tongue: very useful for all such as desire to understand what they Read in that Language. SECONDLY, Shewing the Proper English to every British word: And consequently, The true way of Spelling all words in both Languages. Amplified With the Geographical names of Countreys, Counties, Cities, Towns, and places in Great Britain (and some beyond seas) in the Antient British, and present English. Whereunto are added Plain and easie Directions to Welshmen for the true pronouncing of the English Tongue by a short Introduction in the British Language. With the proper use or signification of all accents, point or stops, as now used in the British and English. being necessary to be understood by every Reader. Compiled by the great Pains and Industry of *Tho. Jones*. Printed 1688. and sold in London by Mr. *Lawrence Baskerville* at the Red Lion in Aldermanbury, and Mr. *John Marsh* at the Red Lion in *Cateaton-street*.”

<sup>1</sup> Y Parch. John Hughes, mae'n debyg, awdur" yr "*Horæ Britannicæ*, yn y "*Cambrian Magazine*." cyf. 1, tudal. 406.

Y rhagymadrodd a derfyna yn gyfochrog fel hyn :—

“O'm Tŷ wrth lun y Carfil, yn maes      “From my house near the sign of the  
isa'r fawnog, Caerlŷdd, Medi 12, 1687.”      Elephant in Lower Moorfields, London,  
“Tho. Jones.”      September 12, 1687.”      “Tho. Jones.”

Ar waelod y ddalen ddiweddfaf o gorff y llyfr y mae “*July 30, 1686, Imprimatur, Hen. Maurice,*” yr hyn oedd ddull cyffredin o gefnogi neu arganmawl llyfrau gynt. Y mae y llyfr yn arbenigol wallus, trwy anwybodaeth yr awdur, a gwallau yr argraffwyr Seisnig. Am anwybodaeth yr awdur, cymerer a ganlyn yn esiampl, lle y dywed mewn math o ol-ymadrodd, “Yr argraphyddion (gan eu bod yn anghynefinol ar Gymraeg) a wnaethant rai beiau ynddo (ar ôl i mi ei guryddu) drwŷ dynnu allan lythyrennau, a rhai geiriau a'u pellenau heb eu rhoddi yn eu llê drachefn fel y dylent: Llê yr ysgrifennais, ac y ceryddais yn ddfai [Athraviaeth i ddyysgu ddarllen Saesneg] yr Argraphyddion wedi hynŷ a'u gwnaethant [Athraviaeth i ddarllen ddyysgu saesneg.]” Nid allem ddyfalu beth oedd y ceryddu hwn gan yr awdur, nes i ni edrych i'r Saesneg cyfochrog, a gwled mai “*after my Correcting of it,*” a “*Where I had Writ and truly Corrected,*” ydoedd ei feddwl. Camgymerodd, yn ei anwybodaeth, mai “di-wygio y print-was,” y dywedid wedi hyn, ydoedd y “*correcting*” hwn, ac nid CERYDDU—*punish!* Y mae yn rhoddi yn wir *gerydd i borpas* i'r argraffyddion, mewn nodyn bychan tua'r diwedd :—

“Y Mae yn ddrwg iawn genif fôd rhai mannau o'r llyfr hwn, ac o'm halmenac am y fwyddyn 1688, gwedi eu hargraphu cyn ddrwyed; mi a delais gymmaint am y mannau gwaethaf ag am y mannau goreu: Ac yn wir nid arna i y mae'r bai, ond ar y digydwŷbod argraphyddion. Os arhoeswn am lyfrau difai, hŷd oni bô'r Argraphyddion yn ddâ eu cydwŷbod, gallwn fôd fŷth heb eu cael. Os byddaf fi bŷw i roddi'r Argraphyddion ar waith ymhbellach, byddaf tebyg iawn iw rhwŷmo (i gymmerŷd eu bŷdr waith am eu poen, ac) oddiwrth fy nghogio i, a thwyllor wlad.

Nid oes myn f'einioes—Argraffŷdd,  
Od dwŷn nad ydŷw  
Drwy ddiogi a meddwi meddaw,  
Yn cogio'r Bŷd, goegun baw.”

A galleu ninnau ychwanegu, can belled ag y mae cymeriad argraffyddion i'w gwled yn gyffredin, *h. y.*, gweision argraffwyr, mai “megys yr oedd yn y dechreu y mae yr awr hon.” Y mae llawer un hynach yn y gelfyddyd na'r egwyddorwas bychan yn deilwng o gael ei alw, “trwy ddiogi a meddwi,” yn “*printer's devil*”—diawl yr argraffwyr; canys yr ydys yn meddwl yn sicr fod mwy o feddwon ac annuwiad ymhlith argraffyddion nag un dosbarth arall o'r boblogaeth llaw-weithyddol.

Y Thomas Jones uchod a anwyd yn Nhref'r Ddôl, ger Corwen, yn Edeyrnion, Sir Feirionydd, yn 1647. Aeth i Lundain fel teiliwr yn ddeunaw oed; ac aeth hefyd yn fasnachydd o gryn fri. Arferai deithio trwy yr holl wlad, gan gadw ffeiriau mawrion Caerlleon, Mwythig, Gwrecsam, a Bristol. Yn y fwyddyn 1680, dechreuodd gyfansoddi a chyhoeddi almanaciau, y rhai a alwai yn “Newyddion mawr oddiwrth y Ser.” Efe oedd y cyntaf i gyhoeddi almanaciau Cymreig. Dilynwyd ef yn fuan gan eraill; megys John Jones, yr hwn y dywedai T. Jones oedd yn lladrata o'i almanaciau ef; Siôn Cain Jones, o ger Corwen, John Prys, o Landegla yn Iâl, a fuont hefyd yn chyhoeddi almanaciau; ac hefyd W. Howell o Lanidloes, yr hwn

oedd yn is-oruchwylydd ar etifeddiaeth Llwydiaid y Berthlwyd—Arglwydd Mostyn, yn awr. Yn y Deheudir hefyd, yr oedd Matthew Williams, daear-fesurwr ac ysgolfeistr yn sir Gaerfyrddin. O'r diwedd, cododd yn y Gogledd, dywysog yr almanacwyr, sef Shôn Rhobert Lewis, o Gaergybi, yr hwn a fu yn cyfansoddi almanaciau am bedair a deugain o flyneddau, ac am yr hwn y mae genym lawer i'w ddywedyd yn ei le priodol. Wedi i T. Jones roddi ei fasnach heibio, efe a sefydlodd argraffwasg yn y Mwythig oddeutu y flwyddyn 1696, i gyhoeddi gweithiau Cymreig—y rhan fwyaf o'i gyfansoddiad ei hun. Bu yn dwyn ymlaen y gwaith o argraffu yno hyd 1713. Y mae ei almanaciau ef yn rhai tra gwerthfawr, gan eu bod yn cynnwys llawer iawn o bethau buddiol am yr oes hño, am ddynion a phethau nas ceir yn un lle arall. Yn wir, byddai cronfa o'r hen almanaciau yn hollol anghenrheidiol i unrhyw un a gymero arno ysgrifenu hanesiaeth yr oesoedd a aethant heibio. Y mae ymdrech gan ddau, o leiaf, i gael cronfa gyfan o'r cyfryw ddefnyddiau dyddorol—gan yr ysgrifenydd, a chan y Parch. W. Roberts, gweinidog y Bedyddwyr yn y Blaenau, Sir Fynwy.

- 4 "Cyfoeth i'r Cymru, neu Drysor y Ffyddloniaid, wedi ei agoryd mewn amryw Bregethau, er mwyn gwneuthur gwerthfawrowgrwydd, hawddgarwch, a godidowgrwydd Christ yn fwy adnabyddus, Ddymunol, a chymradwy &c. Gan William Dyer. Wedi ei Gymreigio gan un a chwenychai les i lawer. Llundain, 12plyg."

1689.

1. "Y Rhybuddiwr Cristionogawl &c. Rhydychen." 8 plyg.

Cyfleithwyd y llyfr hwn gan Edward Morris, y bardd, o'r Perthi-llwydion, Llansilin, ar gais Mrs. Margaret Fychan, o Lwydiarth; ac a argraffwyd ar draul y foneddiges hño. Yr oedd E. Morris yn gydoeswr a chymydog i Hugh Morris.<sup>1</sup>

2. "The case of their Majestie's in the principality of Wales, in respect of the Court held there before the present Council in the Marches of Wales, with other grievances, and reasons for taking away the said Court. London, 1689."
3. "An answer to a paper entituled 'The Grievances of his Majestie's subjects residing within the principality of Wales, in respect of the Court of the Council of the Marches of Wales,' with the particular conveniences of that Court." London, 1689. unplyg.

1689—90.

- "Y Bibl Cyssegr-lan sef yr Hen Destament a'r Newydd. Llundain." 8plyg.

Yr oedd Mr. S. Hughes wedi rhagddarparu gogyfer a'r argraffiad hwn; ond bu farw cyn ei orphen. Yr hwn a gymerodd y gwaith mewn llaw wedi marwolaeth S. Hughes, oedd Mr. David Jones, yr hwn a dröwyd o Eglwys Llandysilio, yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd yr argraffiad hwn yn lliosocach na'i flaenoriaid. Nid ydym sicr pa nifer oedd yr holl argraffiad; ond dywedir i ddeng mil (10,000) gael eu dosbarthu yn Nghymru gan y golygydd, Mr. D. Jones. Ymddengys mai prif gefnogydd a chynnorthwydd Jones oedd Thomas, Barwn Wharton (wedi hyny, Is-iarll Winchenden), a Iarll ac Ardalydd Wharton. Yr oedd y pendefig hwn yn Brotestant zelog, ac yn un o weinidogion y frenines Ann am gryn amser. Yr oedd boneddigion eraill yn cynnorthwyo Jones, heblaw rhai gweinidogion a

<sup>1</sup> "Eos Ceiriog:" llyfr II., tudal. 360.

dinasyddion Llundain.<sup>1</sup> Nid yw y papyr na'r argraffwaith yn gystal yn hwn a'r un y flwyddyn 1678.

1690.

1. ¶ "Ymddiffyniad rhag y pla o Shism." Cyfseithiad R. V. Llundain." Ailargraffiad, mae'n debyg. Gwel rhif. 7, 1658.
2. "Y Bibl Cyssegr-lan, Sef, yr Hen Destament a'r Newydd. Rhydychen, Printiedig yn y Theatr yn y flwyddyn MDCXC." Unplyg.

Yr oedd Beiblau mawr yr eglwysi wedi treulio erbyn hyn. Prif gyn-northwydd yn yr argraffiad hwn oedd y Dr. William Lloyd, esgob Llanelwly; ac am hyny gelwid hwn yn "Feibl yr Esgob." Un o deulu yr Henblas, yn Mon, oedd y gwr da hwn. Yr oedd ei dad yn weinidog eglwysaig yn Lloegr, lle y ganwyd y mab. Dewiswyd ef (y mab) yn un o gapelwyr y brenin, yn 1666. Cymerodd y gradd o D.D. yn 1667. Gwnaed ef yn ddeon Bangor yn 1672, ac yn Esgob Llanelwly yn 1680. Yr oedd yn ŵr mwy haelfrydig na'r rhan fwyaf o Eglwyswyr ei oes. Bu mewn dadl gyhoeddus ar Eglwysyddiaeth â'r Crynwyr, ac hefyd â'r Parch-edigion James Owen, Philip Henry, a Jonathan Roberts, Anghydfurfwyr, yn Nghroesoswallt; a chyda'r esgob yr oedd yr enwog Mr. Henry Dodwell; ond er y dadleuon hyn, byddai mor barchus o'i wrthwynebwy'r fel yr ymwelai â hwynt pan ddelai i'r cyfneusdra. Cafodd ei garcharu am beth amser, gyda chwech o esgobion eraill, am anfon erfyniad at y brenin Iago II. yn erbyn Pabyddiaeth. Symudwyd ef, yn 1690, i esgobaeth Lichfield a Coventry; ac yn 1699, i Gaerwrangon, lle y bu farw yn 1717, yn 90 oed. Ysgrifennodd gryn lawer o fân lyfrau gwerthfawr, ac yn eu plith "*Chronology of the Bible*," yr hwn a gyfieithwyd i'r Cymraeg o dan yr enw "*Mynegai y Beibl*," a'r hwn a argraffwyd yn gydiol âg amryw o'r argraffiadau o'r Beibl a ddaeth allan nesaf. Yr oedd yn un hyddysg iawn yn yr hen hanesion Brytanaidd, ac yr oedd yn cynnorthwyo T. Jones yn nygiad allan ei "Eirlyfr Seisoneg a Chymraeg." Gwel rhif 3, 1688. Golygwyd yr argraffiad hwn o'r Beibl gan Pierce Lewis o Sir Fon, yr hwn oedd y pryd hyny yn Rhydychain.

1691.

"Ymadroddion Bucheddol ynghylch marwolaeth. O waith Dr. Sherlock, D.D. A gyfieithwyd yn Gymraeg gan Thomas Williams, A.M. Printiedig yn Rhydychain gan Leon Lichfield, i John Marsh yn Cat-goten street, ac ar werth gan Charles Walley tan y llew coch yn Aldermanbury. Llundain 1691." Splyg.

1692.

1. ¶ "Gwyddor y Grefydd Gristionogawl." Trydydd argraffiad o bosibl; gwel rhif 4, 1664; a rhif 1, 1679.
2. ¶ "Myfyrdodau Comfforddus i Gristionogion. Llundain." Splyg.
3. ¶ "Ymadroddion hen Mr. Dod."

1693.

1. "Hyfforddwr Cyfarwydd i'r Nefoedd, neu wahawdd difrifol i Bechaduriaid i droi at Dduw er iachawdwriaeth, gan ddangos i Bechadur ystyriol beth sydd raid iddo wneuthur i fod yn gadwedig. Gan Joseph Alleine, Gweinidog yr efengyl gynt yn Taunton, yn ngwlad yr hâf. Printiedig yn Llundain gan Tho. Whitledge a W. Everingham. 1693."

<sup>1</sup> "*Llewelyn's British Versions.*"

Yr oedd Whitlege ac Everingham yn bartneriaid yn y gwaith o argraffu. Dau ddyn sengl oeddynt. Argraffasant dair mil o Feiblau, a mil o Destamentau Gwyddelig a Gaelig mewn llythyrenau Brytanaidd. Methasant yn fuan yn eu masnach, a gorfu iddynt droi i weithio am gyflog.<sup>1</sup> Cyhoeddwyd y llyfr uchod ddwywaith ar ol hyn, unwaith o dan ei enw priodol, "Yr Alarwm," canys cyfieithiad ydwy o "*Alleine's Alarm to the Unconverted,*" neu "Ddychryn i'r annychweledig;" a'r drydedd waith yn y Bala, o dan olygiad y diweddar Barch. John Roberts, Tremeirchion, ac yr ydym yn tybied hefyd fod gan Mr. Charles hefyd law yn y gwaith. Y tro hwnw dan yr enw uchod, "Hyfforddwr," &c., a thrwy haelioni rhyw wraig foneddig yn Lloegr, yr hon a wnaeth y gallesid lledanu dwy fil o honynt am ddim, er na farnwyd yn briodol gwneyd felly, eithr "eu gwerthu am bris cymedrol, a gwneuthur defnydd o'r arian a ddel oddiwrthynt i gyhoeddi ychwaneg o lyfrau buddiol eraill." Dyna fel y dywedir mewn rhagymadrodd i argraffiad y Bala.

2. "Dattodiad y Cwestiwn mawr. Llundain." 12plyg.

3. "Catecism byr. Llundain." 12plyg.

Yr ydys yn tybied mai "Catecism y Gymanfa," o gyfieithiad Mr. James Owen, yw hwn, neu hwnw yw rhif 1, 1692, canys darfu i Mr. Owen wneyd hyny.

4. "Traethawd ynghylch gweithredoedd da ac Elusenau. O waith Mr. Thomas Gouge, yr hwn yn ddiweddar a gymerth boen yn gariadus i Lesau Cymru. Printiedig yn Llundain gan Tho. Whitlege a W. Everingham, 1693."

5. "Rheswmau Ysgrifurawl yn profi mae Dyledawydd pob math o Wrاندawyr (oddieithr y rhai sydd yn byw ar Elusenau) yw Cyfranau yn ol eu gallu o bethau da y byd hwn tuag at Gynnaliaeth Cysurus eu Gweinidogion a'u Athrawion. O waith Mr. Thomas Gouge, yr hwn yn ddiweddar a gymerth boen yn Gariadus i Lesau Cymru. Printiedig yn Llundain gan Tho. Whitlege a W. Everingham, 1693."

Cydwneid y ddau hyn gyda'u gilydd fel un llyfryn, ond fod dau wyneb-dalen iddynt. Y maent yn draethodau byrion, ac o gyfansoddiad campus. Gan nad yw yr olaf ond wyth tudalen 24plyg, a chan ei fod mor anghenrheidiol i ystyriaeth Cristionogion yr oes hon, ni a'i rhoddw'n oll yma:—

"*Rheswmau Ysgrifurawl,*" &c.

"Y cyntaf sydd yn 1 Cor. ix. 14. Ym mhale y mae'r Apostol yn dangos yn eglur *Mae ordinhad Crist yw, i'r rhai sy'n pregethu yr Efyngyl, fyw wrth yr efyngyl*, hyny yw, trwy feddiannu cyfran o bethau da eu gwrandawyr, yr hyn a ddylei y cyfriw i roddi i'r rhai sydd yn pregethu'r Efyngyl iddynt.

Oe Gofynir pa le y traethodd, Ac yr arlywodd Crist y cyfriw ordeinhad!

Yr wyf yn Atteb: yn *Math.* x. 9, 10. Ymmhale, Crist wrth ddanfon allan ei ddeuddeg Apostolion i bregethu yr Efyngyl, y ddywedodd wrthynt, *Na feddwoch aur, nac arian, nac efydd i'ch pyrtau: Nac yscripan i'r daith, neu dwy bas, nac escidiau, na sŏn, canys teulung i'r gweithiwr ei fwyd.* Ymmhale wrth arian, aur, ac efydd, y waherddwyd iddynt baratoi i'w taith, mae i ni ddeall pob maeth a'r aur, arian, neu efydd, cymeradwy ymblith Marchnad-wŷr, ac wrth yr yscripan, mae i ni ddeall, pob maeth ar luniaeth yr hyn oeddyd arferol o'i ddwyn mewn yagrippannau, neu Gôdau ymdeithuddion ar eu Taith. Er y dylaeu dynion yn ymdaith ar eu hachosion eu hunain, baratoi pethau anghenrhaid i'w Taith; etto yr Apostolion yn myned ar Negeus, neu waith Crist e'r lleshad ysprydol eraill, a waherddir i baratoi y faeth bethau trostynt eu hunain, o herwydd y rheswm y mae ein iachawdwr yn y roddi, gan ddywedyd,

<sup>1</sup> "*Timperley's Dictionary.*"



*canys teilwng i'r gweithiur ei fwyd*, hyny yw, cynnalieath ddiagonol : Bywd y cymeryr ymma am bob peth anghenrheidiol i'r bywyd presennol, fel y mae y gair bara, yn y pedwerydd arch o weddi yr Arglwydd i'w ddeall, am bob peth sydd yn anghenrhaidd tuag at gynhalieath bywyd.

"Yr ail Rheeswm a ellir y gymeryd *Oddiworth y rheol gyffredinol O uniondeb*, oblegid beth all fod yn uniawnach, neu gyfiawnach, nac i'r rhai sydd yn derbyn pethau ysprydol, (er lleihad i'w heneidiau anfarwol, oddiworth eu gweinidogion) gyfrannu iddynt bethau anghenrheidiol er eu cynhalieath corphorawl yma. Y Rheeswm hyn y mae yr Apostol yn ei arfer yn 1 Cor. ix. 11. *Oe nyini (medd ef) a hasuom i chwi bethau ysprydol, ai mawr yw os nyini a fedwom eich pethau cnawdol?* Megis pe dywedasai, os nyini draeliasom ein hamser, a'n grym, yn egiuro, a chyfrannu dirgelwch yr Efyngyl i chwi, er mwyn eich daloni ysprydol, onid ydyw yn beth uniawnaf, a chyfiawnhaf a all fod, y chwithau ymadel a chyfran o'ch pethau daiarol, er ein cysur, a'n cynhalieath corphorawl ninneu? Ar yr un rhyw achos y dywed yr un Apostol yn y Gal. vi. 6. *A chyfranned yr hwn a ddygwyd yn y gair, a'r hwn sydd yn ei ddyegu yn mhob peth da*, hyny yw, yn ei holl feddiannau bydol, fel y mae y gair yn y Groeg yn arwyddoca'u; yr hwn sydd yn derbyn lleiad o addysc ysprydol oddiworth arall, a ddylai gyfrannu i anghenion, ac eisieu y cyfriw un o'r hyn oll a feddo.

Gan fod y ddyledswydd hon, o gyfrannu ein pethau daiarol i'r rheini sydd yn gweini i ni bethau ysprydol, mo'r eglur wedi ei orchymyn yn yr ysacrythur sanctaidd, fel gan Grist ei hun, felly hefyd gan ei Apostolion ef, nid allwn ni gyfrif y peth hyn, megis gwedi ei adel i'n ewyllys, neu'n meddwl ein hunain, i roddi, neu ballu fal y gwelom yn dda; ond ei fod yn rhwym ddyled, yr hwn ni ellir ei esculuso gan neb o un gradd ond y rhai sydd yn byw ar Elusenau, heb fod yn euog o bechod ffaidd yn erbyn Duw.

"*Yn drydydd*, At y Rheeswmmau Ysacrythrawl hyn, misf a roddaf un a ellir y gymeryd oddiworth ddiodefiadau gweinidogion er eich mwyn chwi, onid yn erbyn discawdwyr pobl Dduw y mae lliid, a digloneidd dynion drwg ifywaf? onid ydynt arferol o ddywedyd? *Taro y bugail, a'r praid a waecerir* pa sawl un o'r cyfriw, a espeiliwyd o'i pethau? Ac a friwyd i garchar er eich mwyn chwi, eneidiau pa rai oedd anwyllach iddynt, na'u pethau, neu eu Rhyddid eu hunain? Y ddywedyd y gwir, (ar y cyfriw hyn) gweithred o gyfiawnder, cystal a *gorchwoil o drugaredd* yw eu cy-northwyo, a'u helpu hwy, y rhai amriw ffyrdd, sydd yn dioddef er eich mwyn chwi.

Yn gymaint a bod llawer o wrthwediadau yngeneusau amriw bobl, y rhai sydd yn eu Rhwystro i gyflawni yn gydwybol y ddyledswydd hon, mi a ymdrecha y ateb y rhai pennaf a honynt.

1. Rhai a ddywedant fod eu Cariad yn fawr; gwaig, a llawer o blant, i ofalu drost-ynt, a pharatoi iddynt.

*Atteb 1.* Mae'n rhaid cydnabod y dylasai rhieni barotol tros eu plant, cyn belled ag y gallant gyda chydwybod dda; Ond gwybydded y cyfriw fod yr un Apostol ac sydd yn Gorchymyn iddynt ofalu a pharatoi tros eu teulu, yn erchi hefyd iddynt roddi cyfran o'u pethau daiarol i'r rhai sydd yn gweini iddynt hwythau mewn pethau ysprydol.

2. Nid oes gwell ffordd i dynnu, a rhwymo bendith Duw ar eich plant, na thrwy roddi cyfran o'ch eiddo i'r saint a gweinidogion Duw; oblegid fel y mae y Psalmwydd yn dywedyd yn y *Psalm 37. 26. Hâd y rhai trugarog a fendithir*; wrth yr hyn y mae i ni ddeall y bydd y drugaredd, a haelioni tuag at eraill, (yn enwedigol gweinidogion Duw) rwyfmo bendith yr Hollalluog at eu hâd hwynt.

*Yn Ail*, Y mae rhai yn dadleu eu tlodi, gan ddywedyd nad oes ganthynt fodd y gyfrannu tuag ddiifligion eraill.

*Atteb 1.* Y rheeswm hyn o'th tlodi, yr wyf yn ofni nad yw ond lliw. O herwydd nad ydwyf heb fodd i dreulio ar dy felus-chwantau, gyda'th gyfeillion, a'th Gymydogion mewn Tafarndai, ac ar achosion gwael eraill, ac etto nid ymadewi & dim tuag at gynhalieath dy weinidog, gymaint ac yr ydwyf yn i dreulio i gyflawni dy drachwant, ni roddit iddo achos y achwyn o herwydd dy galedwch; ond oh mor ofydus y fydd dy gyfrif yn nydd y farn pan dygir ar gof itti gymaint a dreuliaist mewn Tafarndai, ac i gyflawni dy drachwantau, a'th bleserau cnawdol, ac mor lleied y roddaist i'th ddyse-awdwr.

*Atteb 2.* Beth os yw dy gyfiwr mor isel yn y byd, fel ac yr ydwyf yn cael dy gyfrif ymmyc y rhai iselaf o ddyinion; eto gwybydd fod yr Apostol yn gorchymyn i'r fath rhai tlodion hyny ac sydd yn byw wrth eu poen au llafur, weithio fellu fel y bo ganthynt fodd i'w gyfrannu, i ateb anghenrheidiau gweision Duw, *Eph. 4. 28.*

*Cymered boen* (medd yr apostol) *gan weithio d'i ddwylo yr hyn sydd dda, fel y byddo ganddo beth i'w gyfrannu i'r hon y mae angen arno*, 2 Cor. 8. 2, 3. Pwy a allei ddadl-  
eu mwy tros ei thlodi na'r weddw dlawd hono yn Mar. 12. 43. *Yr hon a furiodd y  
mewn yr hyn oll a foddai*, pan nad oedd hyn ond dwy haeling, yr hyn yw ffyrting,  
haellioni yr hon y mae Crist yn ei ganmol cymaint; y mae'r yspryd Glân hefyd yn  
crybwyll yn 1 Bren. 17. 12, &c. am y weddw dlawd o Sarepta, yr hon mewn amser  
prinder a newyn, a borthodd y prophwyd *Elias*: oaredigrwydd yr hon a Obrwydd  
yr Argiwydd yn ddifrawr, trwy y rhyfeddol gynnydd a roddes ef ar ei ychydig flawd,  
ai olew hi, yr hyn a barhaodd iw chynhalieth hi, au thylwyth dros holl amser y newyn.

*Yn drydydd*, Rhai a ddywed os rhoddant mor rhwydd, a mynych, ac y gofym achos-  
ion y cyfryw, eu gallant fod mewn dyffig eu hunain cyn marw.

*Atteb*. Y gwrthwediad hyn, pryder diwraidd yw, yn tarddu o galon ambheus ac  
anghrediniol, yngwyrthynneb i amriw addewidion yngair Duw, megis y lle hynny yn  
y *Dihar*. 11. 24, 'Rhyw un a wascar ei dda ac fe a chwanager iddo, a rhyw un arall  
a arbed mwy nac a woddai, ac a syrth i dlodi,' wrth *wascaru* mae i ni ddeall *rhoddi*  
rhan o'n pethau Da i'r tlodion, yr hon yw 'r ffordd Siwraf, a diogelaf i lwyddo, ac arbed  
mwy nac a woddai iw'r ffordd fawr i dlodi. Adnod y 25. Yr enaid hael a frasheir:  
A'r neb a ddwfrhâo a ddwfrheir yntan hefyd.' Wrth yr enaid hael mae i ni ddeall 'y  
gêr trugarog, yr hwn a frasheir' hynny yw a lwydda yn y byd, neu a gynnydda mewn  
gould. Ac medd ein iachawdwr yn *Math*. 10. 42. 'A phwy bynnag a roddo iw yfed  
i un o'r rhai bychain hyn, phioleld o ddwfr oeryn unig, yn wir meddaf i chwi, ni chyll  
efe moi wobr.' Megis pe dywedaasai, fe obrwyr yn ddifrawr y weithred leiaf o drugar-  
edd a wnellir i weinidog Crist, yn cystal yn y byd hwn, ac yn byd addaw. Ac yn *Luc*  
6. 38. Medd efe, 'Rhoddwch, a rhoddir i chwi: Messur da, dywysedig ac wedi ei ceo-  
wyd, ac yn myned trossodd, a rhoddant yn eich monwes: Canys a'r un messur ac y  
mesuroch, y mesurir i chwi drachefn.' Ymma y mae Crist yn rhoi megis bil o' law,  
neu yn entro mewn Bond, na fydd dynion ar golled am yr hyn a roddont er ei fwynaf,  
ond y caent yw Talu gyda llawer o ragoriaeth, gan dderbyn mwy i mewn o fandiithion  
wedi eu oeswyd, ac yn myned trossodd; Ar ba achos y mae'r Apostol (yn 2 Cor. 9. 6.)  
yn dywedyd, 'yr hwn sydd yn hau yn brin a fêd yn brin, (a'r hwn sydd yn hau yn  
helaeth a fêd yn helaeth.' Felly ynteu pa fwyaf a roddir, mwyaf a dderbyniar gan  
Dduw; pa le mae'r dyn y sydd dlotach o herwydd yr hyn a roddodd i'r seinctiaid  
tlodion, a gweinidogion Duw? Ond megis Ffynhonau o ddyfroedd byw, pa fwyaf a  
dynnir o honnynt, rhwyddach y rhedaant; felly gould y Trugarogion; yn arferol, (neu  
o'r lleiaf yn fynych) a gynnydda trwy ei ddoeparthiad; fel y pŵmp torth haidd, a'r  
ychydig bysod wrth eu torri, au rhannu, neu Olew y wraig weddw yn y stên, wrth ei  
dywallt allan.

I ddiweddu hyn trwy air o gyngor, i'th baratol, a'th gymhwysu i gyflawni y ddyled-  
swydd angenrheidiol hon, gyda llawenydd calon, ac yspryd rhwydd, gossod o'r nailltu  
ryw ran o'th olud bob dydd yr Argiwydd, o'r hyn a enillaiat yn yr wythnos o'r blaen,  
yn ol y modd y llwyddwyd ti gan Duw: hyn yw 'r gorchymyn mai 'r Apostol Paul  
trwy gyfarwydd-deb yr yspryd Glân yn ei roddi yn 1 Cor. 16. 1, 2. *Hefyd em y  
gaogl i'r Sainct megys yr ordeiniais i Eglwys Galatia felly gwneuech chwitau*. Y  
*dydd cyntaf o'r wythnos, pob un o honoch rhodded haibio yn ei mysl gan drasori fel  
y llwyddodd Duw ef*. Hynny yw, yn ol y modd neu'r messur y bendithiodd Duw ef.  
Gossododd o'r nailltu gyfran, tuag at anghenrheidiau y seinctiaid tlodion, a gweinid-  
ogion Duw.

Y rheol hon a fynwn i'r rhai sydd yn byw wrth eu llafur, neu gwaith bounyddiol  
edrych atll, yn enwedigol, ped fâe y cyfryw ond goesod yn eu hymyl, un geiniog yn yr  
wythnos hwy a allent mewn quarter blwyddyn roddi Swllt i'w Gweinidog.

Eithr llafurwyr a chrefftwyr eraill y rhai sydd yn gwerthu ar oed, a tryst y rhai  
ni allant wybod cystal beth yw eu hennill yn yr wythnos, mi ai cynghorwn wrth fwrw  
eu cyfrif, yn niwedd y fwyddyn, i oesod yn eu hymyl gyfran tuag at weithredodd o  
drugaredd, yn ol y modd y Llwyddodd Duw hwy yn y fwyddyn honno, fel y maent  
yn disgwyl Bendith Duw ar eu poen y fwyddyn y Ddyfod.

Fe all llawer y rhai sydd yn dyâl ddilyn gweinidogaeth yr Efangyl, am hynny eu gwe-  
heithio eu hunain â thyb âda o gyflwrau eu heneidiau, a Simlirwydd eu crefydd, eu  
Proffes; eto gwybydded y cyfryw yn sicr, os nid ydynt yn rhwydd gyfrannu (yn ol  
eu gallu) tuag ag at gynhalieth eu gweinidogion, nad ydyw eu crefydd, a'u proffes  
ond ffurfiol, a rhagrithiol; o herwydd gwir grefydd, yn ddiâu a wna ddynton yn Elus-  
engar, yr hyn beth sydd gynhwysedig yn *Iag*. 1. 27: *Lle y mae 'r Apostol yn traethu  
fod crefydd bur, a dhalogedig yn cynnwysu yn fawr mewn gweithredodd o drugaredd*.

Ac y mae'r apostol Paul yn dywedyd yn eglur yn *Col. 3. 12, Fod Eiholedigion Dese i wisco am danynt ymyscaroedd trugaroeddau*, oddiwrth yr hyn y gallwn gasclu, mae priodolaeth sydd yn wastadol yn perthyn i wir Gristion, yw bod yn Elusengar yn ol eu allu; os edrychwech i'r yscrythur, ni ddarllenwech am neb gwir dduwiol, heb fod mewn rhyw fessur yn Elusengar; canys pry bynnag sydd trwy wir, a bywiol fydd, wedi eu plannu yn Grist, ni allant lai na dwyn, a dangos allan ffurwythau o Drugaredd, a Thosturi, ie o Gariad a haelioni.

## TERFYN."

Gallwn weled yn y traethodyn bychan hwn, oddiar ba egwyddor a rheol yr oedd Tho. Gouge yn haelionus ei hun; a'r addysg dda oedd yn ei roi i eraill, er eu cymhell i fod hefyd yr un modd. Y mae llawer o draethodau bychain fel hyn—neillduol o dda, ymhlith y pethau a daenid gan bobl dda y canrifoedd a aethant heibio, y rhai y byddai yn gystal, os nad gwell, eu hail gyhoeddi, na chyhoeddi rhai newyddion yn wastadol. Tybiwn mai hwn a eilw Mr. David Peter yn ddyledswydd gweinidogion a phobl; ac a gyfieithwyd, meddai ef, gan Mr. James Owen.

- 6 "Hyabys Rwydd a Di Honglad am y blynyddodd tros byth wrth yppine arwydd y bo y Flwiddyn yn Dechre. Gan Einion Morgan, Llundain." 12plyg.
- 7 "Bedydd Plant or Nefoedd, Neu Draethawd am Natur a Diben Bedydd. Yn profi, Trwy ddeuddeg o Reassymau Scrythuraidd y dylid bedyddio plant y ffyddloniaid. O waith James Owen, Gweinidog yr Efengyl. Printiedig yn Llundain gan F. Collins. 1693."
- 8 "Y Llyfr Gweddi Cyffredin y Cydymmaith Gorau, &c. O gyfieithiad E. E. Llundain, 8plyg."
- 9 "Pregeth ynghylch Godidawgrwydd a Defnyddiaeth neu Lesioldeb Llyfer y Gweddiau Cyffredin. Gan William Beveridge, D.D. Esgob Llanelwy. Llundain." 12 plyg.
- 10 "Llyfr yn erbyn Sociniaeth, gan Dr. Jonathan Edwards o Wrexham."

Yr unig hysbysiad a gafwyd am y llyfr hwn, a'r un y flwyddyn 1694, yw yr hyn a ddywedir gan Mr. D. Peter, gan gyfeirio at "*Thomas' Eccles. Hist.*" tudal. 466. Yr ydym wedi methu cael unrhyw grybwylliad arall am y duwinydd uchod, er chwilio pob peth o fewn ein cyrhaedd yn bresennol.

11. "An Essay on the value of the mines, late of Sir Carbery Price, writ for the satisfaction of all parties, by William Waller, steward of these mines."

Gwel rhif 1, 1642; rhif 2 a 3, 1649; rhif 2, 1660, a rhif 3, 1670. Ond y mae yn anmhosibl deall sefyllfa pethau o berthynas i'r mwngloddiau gwerthfawr hyn yr amser hwnw, heb roddi hanes tra helaeth, yr hwn, er hyn, hyderir, a fydd gymeradwy gan ein darllenwyr fel deryn o fynegiad difyrol:—

Wedi yr ad-ddychweliad, sef y brenin Siarl II. i'r orsedd, daeth y mwngloddiau drachefn i ddwyllaw y Gymdeithas o Anturiaethwyr mewn Mwnau, y rhai fel yr ymddengys oeddynt yn anghytuno cymaint ymhlith eu gilydd, nes nad oedd nemawr o ysbryd gweithio y mwngloddiau, hyd oni ddarfu i Mr. A. Shephard gymeryd arno drefnu amgylchiadau y rhai cyntaf a gawsant yr hawfraint, a thafu o'r neilldu hawl pawb eraill. Yn y flwyddyn 1690, darganfyddwyd mwngloddiau eraill ar etfeddiaeth Syr Carbery Pryse, Gogerddan, dim llai gwerthfawr na'r rhai hyn ag oedd yn dechreu gwaelu. Yr oedd y mwn gerllaw wyneb y tir, heb nemawr ond y mwsogl a'r gwellt yn ei orchuddio. Nid oedd gwell mwngloddiau na'r

rhai hyn, yn eu hamser, am gyfoethogrwydd, yn un parth o'r deyrnas; a chawsant yr enw o "Potosi Gymreig."

Trwy rinwedd gweithred seneddol, a gymerodd le yn y flwyddyn gynaf o deyrnasiad William a Mari, darfu i Syr Carbery, yn y flwyddyn 1690, gominydd llawer i fod yn gydygyfranogion âg ef, a rhanu ei gloddffeydd a'i gominoedd yn bedair mil o ranau, a chael Mr. Waller, mwnwr o ogledd Lloegr, i fod yn oruchwylydd iddo, am gyflog o 400*p.* yn y flwyddyn, yr hyn oedd yn anferth o gyflog y pryd hyny, a dechreu gweithio y mwngloddian ar ei dir ei hun. Deallodd Cymdeithas y Mwnwyr Breninol, sef y rhai ag oedd yn hōni pob mŵn a gynnwysai arian ac aur, fel yn perthyn i'r brenin neu i'r llywodraeth, eu bod yn gyfoethog, ac a roisant eu hawl i mewn ar sail eu hawlfraint, gan nad oedd gweithred y senedd yn foddhaol ddealladwy. Ar hyn æd i gyfraith rhwng Syr Carbery a Mr. Sheppard dros y cwmpeini. Cymerodd Syr Carbery a'i *partners*, ymhlith y rhai yr ydoedd llawer o uchelwyr, megys Duc o Leeds, Ardalydd Caerfyrddin, &c., fantais ar yr amseroedd, i gael yn y flwyddyn 1693, y bummed o deyrnasiad William a Mari, weithred enwog, yr hon oedd yn awdurdodi holl ddeiliaid coron Lloegr i fwynhau a gweithio eu holl fwngloddiau eu hunain yn Lloegr a Chymru, er iddynt gynnwys aur neu arian; ond fod i'r brenin, neu y rhai hyny a hōnent feddiant drosto, gael y mŵn ar yr ammod o dalu i'r perchenogion am dano ar ben y tir, cyn ei symud oddiyno, o fewn i ddeng niwrnod ar hugain wedi ei godi, a chyn ei symud i'w wneyd yn blwm. Plwm naw punt y dunell; *copper*, deg punt, &c. Dywedir i Syr Carbery, pan lwyddodd, trwy ennill y gyfraith hon, farchogaeth (trwy gael ceffylau yn barod ar hyd y ffordd) o Lundain i'r Escair-hir mewn wyth awr a deugain, fel y taenwyd y newydd mewn can lleied o amser ymhlith holl drigolion y rhan hyny o sir Aberteifi.

Gweithiwyd y mwngloddiau gan berchenog etifeddiaeth Gogerddan, yn ystod ei fywyd ef; ond bu farw yn ddiblant, a daeth y mwngloddiau i law Syr Humphrey Mackworth, yr hwn a brynodd hawl a rhan Mr. Edward Pryse am bymtheng mil o bunnau; er hyny y mae etifeddiaeth Gogerddan yn parhau yn meddiant cangen o'r Prysiad. Y mae llyfryn Mr. Waller yn dangos fod y gweithiau mŵn wedi bywhau a llwyddo yn fawr tra y buont hwy yn eu gweithio. Y mae yn dyweyd, yn ei draethawd, ei fod wedi ei ysgrifenu gyda golwg ar heddychu y cydfeddiannwyr—lawer o honynt oedd mewn cyfraith â'u gilydd, ac hefyd i osod allan fantais y mwngloddiau hyn, fel y gwerthid y rhanau yn llwyddiannus. Y mae yn dyweyd hefyd, fod ei gyfrifiaeth bob amser yn gadael fod y mwngloddiau yn rhydd oddiwrth daliadau i berchenog y tir; a bod i gronfa o ugain mil o bunnau gael ei godi, i wneyd pyllau, tawdd-dŷ, &c. Y mae yn chwaneu hefyd, ddarfod i Syr Carbery, yn y flwyddyn 1693, cyn i'r mwnau efydd gael eu darganfod—wedi adfeddiannu ei hawl oddiar gynddalwyr y mwngloddiau breninol—ranu ei hawl i bedair mil ac wyth o ranau; a phrisiwyd a gwerthwyd pob rhan yn ddwy bunt ar bymtheg y rhan, a chynnygiwyd iddo wedi hyny ddeugain mil o bunnau am y gweddill gan farsianwr enwog yn Llundain, i'w talu i lawr yn ebrwydd, yr hyn a wrthododd am y rheawm hwn, sef iddo ef (Mr. Waller) ymresymu â Syr Carbery a'i gydberchenogion, y gellid â *stock* ddigonol, fod yn alluog mewn ychydig o flyneddau, gyda chwe' chant o bobl, i wneyd elw oddiwrth un wythien o ddeng mil a thri ugain a phum cant yn flyneddol, yn ol fel y gwelir oddi-

wrth bapyr a argraffwyd yn y flwyddyn 1693, yr hwn sydd yn cyfrif fel hyn:—

“Chwe’ chant o ddynion, yn gweithio y gwaith mawr, pan byddo y <i>lefelydd</i> i fyny, yn 8s. 6c. y dunell, am godi, golchi, a gwneyd yn farchnadol, fel y mae yn cael ei wneyd yn awr, rhaid i bob dyn godi uwchlaw tunell wrth yr wythnos i wneyd iddynt gyffog; ond yn ol un dunell yr wythnos, cyfyd y chwe’ chant o ddynion dri chant o dunelli yr wythnos, ac yn ol deng wythnos a deugain, bymtheng mil o dunelli yn y flwyddyn—y gost o godi hyn yw	6375	0	0
Cludiad i lan afon Dyfi yn ol 5s. y dunell,	3750	0	0
12c. y dunell ar ddwfr, ac am ei ddadlwytho i'r ystordý yn mhorthfa Aberdyfi,	750	0	0
Pymtheng mil o dunelli o fwn, a wneiff ddeng mil o dunelli o blwm, toddi hwn pan fyddo ein melinau i fyny yn ol 15s. y dunell.	7500	0	0
Costau	18,375	0	0
Deng mil o dunelli o blwm, yn ol 9p. y dunell,	90,000	0	0
Cost am ei godi, golchi, toddi,	18,375	0	0
Sincio pyllau, a chostau damweiniol,	1,125	0	0
Elw clir,	70,5002	0	0

1694.

Llyfr arall ar Sosiniaeth, gan Dr. Jonathan Edwards o Wrexham. Gwel rhif 10, 1693.

1695.

1. “Bara i Blant, neu Wyddorion cyntaf y Grefydd Gristionogol. O gyfieithiad P. P. Pregethwr yr efengyl, Llundain.” 12plyg.
2. “The History of Britain, that part especially now call'd England. From the first Traditional Beginning. Continued to the Norman conquest. London, Printed for R. Cheswell, &c. MDCXCV.”

Cynnwys y gwaith hwn lawer o wybodaeth am ein gwlad a'n cenedl ni, ar na chanfyddir yn gyffredin.

3. “The history of the principality of Wales in three parts: 1. A brief account of the ancient Kings and Princes of Britain and Wales, till the final extinguishing of the Royal British line. 2. Remarks upon the lives of all the princes of Wales of the Royal families of England, from king Edward I. to Charles II. 3. Remarkable observations on the most memorable persons and places in Wales, and of many considerable transactions and passages that have happened therein for many hundred years, &c. by R. B.”

Enw yr awdur yn llawn oedd Robert Burton.

1696.

1. “Carolau a Dyriau Duwiol” 8plyg.

Ailargraffiad (gwel rhif 3, 1686), “yn gyflawnach o lawer nag o'r blaen, gan Thomas Jones; yr hwn a ddiwygiodd amryw o feiau yr argraffiadau cyntaf, ac a ddywedodd iddo ef wellhau llawer ar gynneddion y Carolau a'r Cerddi trwy gorff y Llyfr; ac iddo ef 'mgleddu a'i drefnu yn y cyfryw Wisg drwsiadus, hyd oni farnodd ef, yn ol debygoliaeth, ei fod mor ddifeius ag odid o Lyfr Cymraeg yn yr amser hwnw.”—“Rhagymad- rodd” y trydydd a'r pedwerydd argraffiad.

2. “Goleuni wedi tori allan yn Nghymru, Gan ymlid ymaith dywyllwch; Neu Gariad y Saia tuac at yr Hen Gymry: Gynnwys ateb i Lyfr, yr hwn a elwir, Bedydd Plant o'r nefoedd; yr hwn a osodwyd allan yn y jaith Gymraeg, gan

”*Meyrick's History of Cardiganhire.*”

Mr. James Owen. Ymha le yr ydys yn ymholi ac yn diddadlu ei ddeuddeg Rheswm ef, am fedyddio plant y ffyddloniaid, ac yn dinystrio bedydd baban-aid. Ac yn profi hefyd mae bedydd yw soddiad yr holl gorph mewn dwfr, yn enw'r Tad, &c. ac nad yw neb yn ddeiliaid bedydd ond y Credadwy yn unig. Ymha le y mae'r Bedyddwyr yn cael eu hamddiffyn oddiwrth yr holl waradwydd a chamgyhudded hynny, ac y mae Mr. Owen yn datfu arnynt. Gan Benjamin Keach. Printiedig yn Llundain, ac ydynt ar werth gan William Marshall, wrth lun y Bibl yn *Newgate street*. 1696."

Mae y llyfr hwn o eiddo Mr. Keach yn cynnwys 379 o dudalenau 12plyg o gorff y gwaith, heblaw 38 o dudalenau yn yr arweiniad, yn gwneyd felly lyfr trwchus o 417 o dudalenau. Y mae felly yn llawn gymaint a phedwar o lyfr Mr. James Owen.

Am y ddadl hon, dywed awdur "Hanes y Bedyddwyr" yn ei "*History of the Welsh Association*," fel hyn:—

"Wedi hyn (1689), gan fod rhyddid wedi ei sefydlu, lledanodd yr enwad yn fwy eto. Cododd hyn wrthwynebiad oddiwrth y Gwrthfedyddwyr, yn neillduol yr Annibynwyr. Wedi llawer o ddadleuon, cytunodd y ddwy blaid i bregethu ar fedydd yn Mhen-y-lan, yn sir Benfro. Mr. John Thomas, y gweinidog Annibynol a bregethodd gyntaf ar fedydd babanod. Pregethodd Mr. John Jenkins, bugail yr egiwys yn Bushacre, y dydd canlynol ar fedydd y crediniol. Yn y flwyddyn 1692 y bu hyn. Cyfrôdd hyn y Gwrthfedyddwyr gymaint fel y ceisiasant gan Mr. Samuel Jones, o sir Forganwg, i amddiffyn y pwnc; ond efo a nacodd, a'i hen ysgolor, Mr. James Owen, yr hwn oedd y pryd hyn yn Nghroeso-wallt, yn sir Mwythig, a'i cymerodd mewn llaw. Yn 1693 y daeth ei lyfr ef allan, o dan yr enw *Bedydd plant o'r Nefoedd*, yn argraffedig yn iaith y wlad. Hwn, tebygid oedd y traethawd cyntaf ar fedydd babanod a ymdangosodd yn Gymraeg. Trowyd ef hefyd i'r Saesoneg. Cyhoeddodd B. Keach atebiad iddo, yr hwn a gyfeithwyd i'r Cymraeg; ac hefyd Llyfr Narcott ar y pwnc, felly ni cholodd y Bedyddwyr ddim tir."

3. "Caniadau Edmund Prys." Gwel rhif 2, 1686.

4. "Blodeugerdd—Llyfr Carolau, &c. Gan Thos. Jones. Mwythig, 1696."

Nid ydym yn sicr nad yr un yw hwn a rhif 1 uchod, ac nad yr un yw rhif 3 a rhif 2, 1686. Nid ydys wedi eu gweled, eithr yn eu rhestru ar awdurdod ein rhagflaenyddion; a hawdd iawn y galleid camroddi llythyren rifyddol, yr hyn a wna ddeng mlynedd o wahaniaeth ebrwydd.

5. "Britannia. By W. Camden. Edited by Bishop Gibson. London 1696."

1697.

1. "The History of Wales, comprehending the Lives and Succession of the Princes of Wales, from Cadwalader the last king, to Llewelyn the last Prince of British blood. With a short Account of the Affairs of Wales, under the Kings of England. Written originally in British, by Caradoc of Llancarvan; and formerly published in English by Dr. Powell. Now newly augmented and improved by W. Wynne, A.M., and fellow of Jesus Colledg, Oxon. London: Printed by M. Clark, for the Author, and are to be sold by R. Clavell, at the West end of St. Pauls. 1697."

Gwel 1584,<sup>1</sup> a 1663. Dywed y "*Gentleman's Magazine*," 1791, rhan 2, *Supplement page*, 1175, mai un o feibion ieuangaf Wynne o Garthwyn oedd W. Wynne, a brawd i Wynne, y canghellwr.

<sup>1</sup> Gan nad oeddem wedi gweled yn bersonol yr argraffiad cyntaf o'r hen lyfr uchod, pan ygrifenasom am dano dan y flwyddyn hono, nid oeddem yn sicr o gywirdeb y darluniau a roddwyd o hono y pryd hynny. Gwelsom wedi hynny gopi cyflawn, ac mewn cywair berffaith, a chadwraeth dda. Y mae gwyneb-ddalen yr argraffiad cyntaf hwnw yn gywir a chyflawn fel y canlyn:—

"The History of Combra, now called Wales: *A part of the most famous Yland of Brytane, written in the Brytish language alone two hundredth years past; translated into English by H. Lhoyd Gentleman*: Corrected, augmented, and continued out of Records and best approved Authors, by David Powel Doctor in Divinitie. CVM PRIVILEGO."

Nid oes amersiad ar y gwyneb-ddalen; ond yn niwedd y Rhagymadrodd y mae "London the 26 of March, 1584;" ac yn niwedd y llyfr y mae "1584. Imprinted at London by Rafe Newberie and Henrie Denham—Cum Privilegio Regia Maiestatis."

2. A Walk through Wales in August 1797, By the Rev. Richard Warner, of Bath." 1

1698.

1. "Artemidorus—Gwir ddeongliad Breuddwydion. O gyfieithiad Thomas Jones: Mwythig." Splyg.
- 2 ¶ "A B C—yr A B C, neu Lyfr i ddyegu darllain Cymraeg, at yr hwn y chwanegwyd Catecism yr Eglwys. Mwythig." Splyg.
3. "Attebion—Attebion i'r holl wag Esgusodion a wnae llawer o bobl yn erbyn dyfod i dderbyn y Cymun Bendigedig; a cholledig gyfwr y rhai a esgeulusant ddyfod i Swper yr Arglwydd. O gyfieithiad Mr. Michael Jones, Deacon, Mab Michael Jones, Ficar o Estyn, yn sir Fflint." Splyg.

4. "Duwiolder am Ddydd yr Arglwydd."

5. "Lythophilacium Britannicum. By Edward Lloyd."

Cant ac ugain o lyfrau a argraffwyd o hono, ar draul amryw foneddigion. Awdur yr "*Archæologia Britannica*" ydoedd yr E. Ll. hwn.

6. "The Mine Adventurer, or an expedient first for composing all difference between the partners of the minestate of Sir Carbery Pryse, &c. Proposed by Sir Humphrey Mackworth. London, 1698." Unplyg.

1699.

1. Taith neu Siwrnai y Pererin, Tan Rith neu gyffelybiaeth Breuddwyd. Argraphwyd yn y Mwythig gan Thos. Durston." 12plyg.

Yr oedd hwn yn ailargraffiad ac yn ailgyfieithiad. Gwel rhif 2, 1688.

2. "Eglurhad byrr ar Catechism yr Eglwys, ynghyd a thystiolaethau o'r Scrythyr lân. O gyfieithiad John Morgan. Llundain." Splyg.

Rhoddasom rhif 1 a 3, 1696; rhif 1, 2, 3, a 4, 1698; a rhif 1 a 2 y fwyddyn hon, fel y maent gan Mr. Moses Williams.

3. "An Account of the Cardiganshire mines, by William Waller."

Gwel rhif 1, 1642; rhif 2 a 3, 1649; rhif 2, 1660; rhif 3, 1670; rhif 16, 1693, a rhif 6, 1698. Y mae yn yr uchod fap o'r rhan hono o sir Aberteifi lle yr oedd y mwngloddiau perthynol i lywodraethwr cwmpeini anturiaethwyr mwnai Lloegr. Y mae ynddo gynllun o Fwlch-yr-Escair-hir, Bwlch Caninog, Cwm-symlog, Coganin, Brynpica, Cwmerfin, Pencraig-ddu, Ystumtunen, a "mwnglawdd plwm newydd Cwmystwyth."

4. ¶ "Cydymaith yr Eglwyswr yn ymweled â'r Claf, &c. A gyfieithwyd allan o'r chweched argraffiad yn Saesonaeg, gan E. Jones, o Lanafrewig. Argraphwyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan Richard Lathorp, gwerthwr llyfrau."

Nis gallwn ddyfalu pa le ydyw y "*Llanafrewig*" uchod. Methasom gael fod un plwyf yn Nghymru o'r enw.

1700.

1. "Trefn a defosiwn beunyddiol. O gyfieithiad N. R. A. M. Llundain." 24plyg.
2. Cynghor y Bugail i'w Braidd, &c. Llundain." Splyg.
3. "Arweiniwr Cartrefol i'r iawn a'r buddiol Dderbyniad o Swper yr Arglwydd, ym mha un hefyd y mae'r ffordd a'r modd o iechydwrtaeth wedi eu gosod allan yn fyrr, ac fel y bo hawdd eu deall. Gan Theophilus Dorrington. O gyfieithiad David Maurice, D.D. Llundain." Splyg.
4. ¶ "Sail Crefydd Gristionogol." Splyg.

Fe allai mai yr un a rhif 3, 1653.

5. Testament y deuddeg Patriarch, sef meibion Jacob. A gyfieithwyd allan o'r

Groeg gan Robert Grosthead, Esgob Lincoln; ac allan o'i Gopi ef a Gyfieithiwyd yn Ffrangeg ac yn Dwits gan eraill, ac yn awr yn Gamberaeg. Er Parch i ba un, i mae yn 'Serifenedig yn y Brif Ysgol yn Cambridge ar Barsamant Coppi o hwn yn y Groeg. At yr hwn y chwanegwyd Epistol Paul yr apostol at y Laodiceaid. Hefyd ychydig yn mherthynas Marwolaeth Paul yn Rhufaen dan Nero Caesar. Dufiun Argraphwyd ac ar werth gan Cadwalader Ellis, yn y Bala, yn sir Meirionidd. 1700." 12plyg.

6. "Llyfr y Weddi Gyffredin a'r Salmau Cân. Mwythig Argraphwyd gan Thomas Jones."

7. ¶ "Cynghorion Tad i'w Fab."

8. ¶ "Cydymaeth yr Eglwyswr yn ymweled a'r claf, yn cynnwys yn i. Y modd neu wedd o ymweliad a'r claf. ii. Y drefn am ymweled a'r claf, allan o Lyfr Gweddi Gyffredin. iii. Cymmun y Glaf. iv. Rhai Gweddiâu a ffurfiau eraill. Gan mwyaf allan o agrifeniadau defosionawl rhai o'r Difeinyddion enwoaf o Eglwys Loegr, ynghyd a Bedydd Public a Phrifat. O gyfieithiad Edward Jones, Llanafrewig. Mwythig, Argraphwyd, ac ar werth yno gan Thos. Durston."

Ailargraffiad: gwel rhif 4, 1699. Nid ydys yn sicr o iawn amseriad yr un o honynt. Gall y dylasai hwn fod rai blyneddau yn ddiweddarach.

9. "Canwyll y Cymry, sef gwaith Mr. Rees Prichard, gynt Ficer Llanym-ddyfri. Y degfed argraffiad gyda ymchwanegiad helaeth. Argraffwyd yn y Mwythig, gan Thos. Durston, lle y gellir cael Brintio pob math ar Gopiau am bris gweddaidd, a chael ar werth amryw Lyfrau Cymraeg a Saesnaeg.

Ofnwn hefyd y dylasai hwn fod ychydig flyneddau ymlaen; canys prin y gellir tybio i ddeg argraffiad o "Lyfr y Ficer" ddyfod allan mor gynared. O'r deg ni chawsom eto onid pedwar. Gwel rhif 1, 1646; rhif 9, 1672; a rhif 2, 1687. Dywedir mai arwyddocâd a threiglidd y gair Llanym-ddyfri, yw Llan-ym ddyfroedd:"—tybir, oddiar sefyllfa eglwys plwyf Llanddingad, ar wastadedd trwyn rhwng cydiad afonydd Bran, Gwyddegr, ac afon Tywi.<sup>1</sup>

10. ¶ "Cyfarwyddiadau i fesurwyr. Mwythig, Argraphwyd gan Thomas Durston."

11. ¶ "Yr ymarfer o Dduwioledeb, yn cyfarwyddo dyn i rodio fel y rhyngo ef Fodd Duw. Yr hwn lyfr a osodwyd allan yn Saesnaeg o waith y gwir barchedig Dad yn Nuw Lewis Escob Bangor, ac a gyfieithwyd yn gymraeg o waith Row. Vaughan o Gaergai yn sir Feirionydd, wr bonheddig, yn y flwyddyn o oed Iesu 1620. Y pummed argraffiad yn Gymraeg, wedi gwella llawer o gamyspelliadau oedd yn yr Argraffiadau eraill. Argraffwyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan Thos. Durston."

Gwel rhif 1, 1630; rhif 2, 1656; rhif 4, 1675; a rhif 2, 1685.

12. "A familiar discourse, or dialogue, concerning the mine Adventurer. London, 1700." 8plyg. To which is prefixed "An abstract of the present state of Mines of Bwlch yr Yskair hir," &c.

13. "A list of Names of Mine Adventurers, printed by Freeman Collins, 1700."

Gwel rhif 1, 1642; rhif 2 a 3, 1649; rhif 1, 1660; rhif 3, 1680; rhif 16, 1693; rhif 4, 1698, a rhif 3, 1699. Dyma yr oll a ddeallasom a gyhoeddwyd yn y ganrif hon ar ddadl y mwngloddiau yn sir Aberteifi, yna dau cant o flyneddau yn ol. Y maent yn brinion iawn; ond y maent yn werth eu cael i'r neb a deimlo chwaeth yn y cyfryw ymchwiliaeth.

<sup>1</sup>"Rees' Biographical and Historical Description of South Wales:" tadal. 283.



ATTODIAD I'R DDWY GANRIF GYNTAF.

Wedi i ni fedi a chynnull meusydd llyfryddol ein cenedl am y ddwy ganrif a aethant gyntaf, neu o'r flwyddyn 1546 i'r 1700, yn cynnwys y ddwy, yr ydys yn gweled yn briodol yma, cyn yr elom ymhellach, daflu adolwg ar y meusydd hyn, a lloffa ambell i dwysen a all fod wedi ei gadael ar y maes, ynghyd â gwella rhai camgymeriadau.

Dywed cyfaill i ni, hyrwydd iawn yn y cyfryw hynafiaethau, mai y flwyddyn 1573 y dylasai "*Breviary of Britain*," yr hwn a roddasom ar awdurdod arall, yn y flwyddyn 1568, yn yr hon chwanager,—

1568.

2. "Descriptio Britannæ, ex libro Pauli Jovii. 1568." Unplyg.

Dywedir hefyd y dylesid chwaneu at wyneb-ddalen y "*Prisci Historie*" y flwyddyn 1573, fel hyn—"Englished by Thomas Twyne, 1737." 16plyg, llythrenau duon, a 116 o dudalenu.

1578.

"A Book of Glamorganshire Antiquities. By Rys Mireke. 1578."

Ysgrifenydd yr Heddwch dros sir Forganwg oedd Rhys Meyrick. Yr oedd yn byw yn Cottrell, yn mhlwyf St. Nicholas, yn y sir hño. Syr Thomas Phillips, Barwnig, a fynodd argraffu y llyfr allan o'r M.S. gwreiddiol, yn llyfrfa Coleg y Frenines, Rhydychain. Yr oedd hefyd yn awdur llyfr bychan, a elwir "*Cottrell's Book*." Yr oedd y M.S. hwnw yn meddiant y diweddar Arglwydd John C. Iarll Clarendon. Cymerasom yr hysbysiad uchod allan o "*Trakern's Straddling Correspondence*." Gadawsom ef allan o'r blaen, am nad oeddym yn sicr a argraffwyd ef yn y flwyddyn hon; ac yr ydym yn ei gyfleu yma ar yr un deall ammhës, o ddiffyg gwybodaeth well.

1579.

"A General Map of Wales and Denbigh, by Caxton, 1579."

1585.

"Giraldus Cambrensis Itinerarium Cambriæ, et Cambriæ descriptio. 1585." 12plyg.

1587.

Gwyneb-ddalen rhif 2 y flwyddyn uchod sydd fel hyn:—

"The Worthynes of Wales, wherein are more than 1000 things rehearsed, set out in Prose and Verse, and enterlarded with many wonders, &c. by Thomas Churchyard. 1587." 4plyg.

Ganwyd Churchyard yn y Mwythig, o deulu da, meddai ef ei hun; ac yr oedd yn ei fri yn nheyrnasiad Harri VIII, Edward VI, Mari ac Elizabeth. Bu farw yn 1570.

Gan nad oedd y wyneb-ddalen i Eirlyfr Sion Dafydd Rhys yn gysylltiedig â'r un oedd genym, nis gallasem ei ddodi yn gyflawn a chywir. Wedi hyny, gwelsom ef yn llawn. Y mae fel hyn:—

"Cambrobrytan-nicæ Cymraecæve Lingvæ Institutviones et rvdimenta accurata, & (quantum fieri popuit) succindé & compendiosé conscripta à Joanne Dauide Rhæso Monensi, Lanuathlæo Cam-brobryttano, Medico Senensi Ad Illiret virum Edouardum Stradlingum Equistris ordinis Cambrobrytannum. Ad intelligend, Biblia Sacra nusser in Cambrobrytannicum sermonen & casté &c. eliganter versa, non minus necessaria quâm vetitia cum exacta carmini Cynvraeca condendi Ratione, & Cambrobrytannicorum Prematum generibus, 1852.]

aliqui rebus nonnullis eodem spectantibus, ipsamque pariter non munis necessarijs quam vilius. Londini. Excudebat Thomas Orwinus, 1592."

1593.

Dan rhif 2, y flwyddyn hon, crybwyllasom am Cadben Thomas Price, o Plas Iolyn. Gall yr ymofynydd pellach gael crybwylliad arall am yr un gŵr yn y "Gwyllydydd," am Mai, 1833, tudal. 153.

1602.

"Giraldus Cambrensis Itinerarium Cambriae, et Cambriae descriptio. By W. Camden, 1602." Unplyg. Ailargraffiad.

Gwel uchod. Cafodd yr unrhyw ei argraffu o newydd, gyda llawer o chwaneigiadau yn 1806, o dan olygiad Sir Richard Cold Hoare, Barwnig, F.R.S., F.S.A.

1603.

3. "Itinerarium Cambriae, apud Anglia, Normannica, Hebernica, Cambrica, a veteribus Scripta. Gul. Camdeno. Gir. Cambrensis. Frankfort, 1603." Unplyg.

4. "Anglica, Normannica, Hibernica, Cambrica, a veteribus Scripta, Gul. Camdeno, Asserus Menivensis, de Ælfridi rebus; Thomæ Walsingham, Hist. Ang.; Ypodigmæ Neusbræ, per Tho. de Walsingham; Itinerarium Cambriae Auctore Sylv. Giraldo Cambrense, cum annotationibus D. Povelii. Frankford 1603." Unplyg.

1607.

3. "God's Warning to his people of England, by the great overflowings of the waters or floudes, lately happened in South Wales, and many other places: wherein is described the great losses and wonderful damages that happened thereby; by the drowning of many townes and villages, to the utter undoing of many thousandes of people. London 1607." 4plyg.

1610.

1. "Glamorganshire, with the situations of the chief towne of Cardyff and ancient Llandaffe described, by John Speed. 1610."
2. "Pembrokeshire described, and the situations both of Pembroke and St. David's shewed in due form as they were taken by John Speed. 1610."
3. "The Countie of Radnor described, and the shyre townes situation. By John Speed. 1610."

1620.

Wedi ysgrifenu y sylwadau ar ddiwygiad yr Esgob Parry yn nghyfieithiad ein Beiblau, daethom ar draws sylwadau cyffelyb o eiddo y diweddar hyglood Tegid—y Parch. John Jones—yn y "Gwyllydydd," am Mehefin, 1833, tudal. 165; a rhoddodd i'r ysgrifenydd hyfrydwch mawr gael fod ei dyb am Feiblau yr esgobion Morgan a Parry mor gyd-fynedol âg ysgolâig mor enwog a Thegid.

1632.

"Yr Hen Lyfr Plygain."—Dylasai fod 1633. Gwall y waag ydyw.

Gwyneb-ddalen "Geirlyfr Lladin a Chymraeg Dr. John Davies," yn gyflawn a chywir, sydd fel hyn:—

"Antiquae Linguae Britannicae, Nunc vulgo dictae Cambro-Britannicae vel Cambraicae, Ab alijs Wallicae, Et Linguae Latinae, Dictionarium Duplex, Prius, Britannico—Latinum, Plurimus, venerendae atiquitatis Britannicae monumentis respersum. Bosterius Latino-Britanni cum Accessarent Adagia Britannica, & plura & emendatiora quam antehac edita. Londini Impress, in aedibus R. Young, Imprensis Joan Davies, S. S. Th. An. Dom. 1632."

1641.

"Mercurii Britanici, pars Altera, sive plantarum gratia suscepti itineris in Cambriam, sive Walliam descriptio, &c. London. 1641." 8plyg.

1642.

2. "Two Petitions presented to the King's most excellent Majesty at York, the first of August, 1646: the first from the Gentry, Ministers, &c. of the Counties, Denbeigh, Anglesey, Glamorgan, and the whole principality of Wales, &c. Lond. 1642." 4plyg.

1643.

5. "A true relation of the discomfitting and routing the Earl of Carbery and his forces out of the County of Pembroke, manned and performed under God by the valiant and courageous gentlemen, Col. Rowland Laugharne, John Poyer, Mayor of Pembroke, Mayor Thomas Laugharne, Simon Thelwall and Arthur Owen, Esq., Capt. Powel and Capt. Cuney, and other well affected Commanders and Gentlemen, &c. Lond. 1643."

1645.

- "A letter from Capt. Richard Swanley to the Right Honourable the Earl of Warwick, being a full relation of the taking of the town and castle of Cardigan, in Wales, by Major General Langhorn, with above 100 commanders and common soldiers, and all the arms and ammunition therein, &c. Published by authority. London, printed for John Thomas, 1645."

1646.

2. "Contemplations upon these Times, or the Parliament explained to Wales. London 1646." 4plyg.

1647.

2. "A full relation of the whole proceedings of the late rising and commotion in Wales, under pretence for the King and Sir Thomas Fairfax. London 1647." 4plyg.

Yr ysgrifeniadau swyddogol a gynnwysir, yr hyn ydynt yn perthynu yn hollol i ryw ymdrafodaeth yn sir Forganwg.

1648.

3. "The Declaration and Resolution of Col. John Poyer, concerning Lieut. Gen. Cromwell, and the particular relation of another Great Fight in Wales. London 1648." 4plyg.

Y mae hwn yn dwyn perthynas â rhyw ymdrafodaeth rhwng Col. Horton a Col. Poyer yn sir Gaerfyrddin a sir Aberteifi.

4. "The declaration of Lieut. Gen. Cromwell concerning his present design and engagement against Col. Poyer, and his adherents in South Wales. London 1648." 4plyg.

1648.

5. "A true and particular Relation of the late Victory obtained by Colonel Horton and Colonel Oakey against the Welsh forces under Major General Laugharne, expressed in a letter from Colonel Okey to a friend of his in London. London." 4plyg.

6. "Col. Poyer's Forces in Wales totally routed by the Parliaments forces commanded by Col. Horton. Lond. 1648." 4plyg.

Y mae hwn yn perthynu i Ymladdfa Fagan.

7. "A declaration of divers Gentlemen of Wales, with their proposition to his highnesse Prince Charles. London, 1638." 4plyg.
- 8 "A List of the Persons taken and those that were slain by Colonell Horton in South Wales," &c. London. 8plyg.

1650.

2. "The humble acknowledgment of the inhabitants of South Wales, and the county of Monmouth, presented to the subreme authority of this nation the Parliament of the Commonwealth of England. London, 1650." 4plyg.

3. ¶ "The distressed oppressed condition of the inhabitants of South Wales for many years last past briefly and impartially stated. 1. In reference to their spiritual concerns. 2. In relation to their civil rights and freedoms, With several proposals tending to the discovery of above 15,000p unaccounted for to the commonwealth." 4plyg.

4. "A declaration and Remonstrance of the inhabitants of South Wales &c. London, 1650." 4plyg.

4. "The humble representations and address to his highness (Oliver Cromwell) of several Churches and Christians in South Wales, &c. London 1656." 4plyg.

5. "A Sermon Preached at Caermarthen Assizes. By William Thomas, D.D.

Yr oedd Dr. W. Thomas yn ŵyr i W. Thomas, *Recorder*, Caerfyrddin ; ac wedi llawer o gyfnewidiadau oblegid yr amseroedd, efe a wnaed yn esgob Ty Ddewi. Bu farw 1639.

4. "Cambria Triumphans; or Britain in its perfect lustre, showing the origin and antiquity of that illustrious Nation, the succession of their Kings and Princes from the first to K. Charles of happy memory, &c. By Percy Enderbic, Gent. London 1661." Unplyg.

Rhodddwyd ailargraffiad o hono yn 1812.

1662.

Dylasai rhif 2, 1662, fod yn llawn fel y canlyn :—

"British antiquities viewed; or a friendly contest touching y<sup>e</sup> sovereignty of the three Princes of Wales in ancient times, managed with certain arguments, whereunto answers are applied by Robert Vaughan, Esq. To which is added the pedigree of the Right Hon. the Earl of Carberry, Lord President of Wales, with a short account of the Five Royal Tribes of Cambria, by the same Author. Oxford 1662." 4plyg.

1672.

6. "The Life and Death of Mr. Vavasor Powell."

7 "Practica Walliæ, or the proceedings of the great Sessions of Wales, concerning the method and practice of an Attorney there, from an original to the execution. Whereunto is added the old Statute of Wales at large; and an abridgment of all the Statutes uniting Wales to England, with tables of the fees, and the matters therein contained. By Rice Vaughan, late of Grey's Inn, Esq. London 1672." 12plyg.

Gyda'r flwyddyn hon, ni a roddwn seibiant ar hyn. Bwriadwn, trwy ragluniaeth Ior, barhau ein holrheiniad y flwyddyn nesaf ar ei hyd—oddeutu pump neu ddeg ar hugain o flyneddau yn mhob chwarter, fel y cynnwysir holl lyfrau y ganrif nesaf, y ddeunawfed, yn nghorff y flwyddyn nesaf, gyda'u gilydd. Buasai yn ddifyrus iawn genym allu rhoddi darnodiadau lled helaeth o ambell un, gan fod llawer o lyfrynau bychain, naill ai o herwydd eu buddioldeb neu eu hynodrwydd, yn teilyngu mwy o sylw na'u henwi, heblaw eu bod yn taflu cryn oleuni ar hanesiaeth yr amseroedd, a'u bod yn awr mor brined, fel nas gellir, ond o ryw ddamwain, gael gafael ar un o honynt. Yn wir y mae eu cael yn hollol anghenrheidiol—pa mor fychain a disylw bynag—er gwybod yn drwyadl hanes ein gwlad a'n cenedl. Y mae ambell i hen gerdd, marwnad, neu almanac, yn taflu goleu ar hanes personau ac amgylchiadau ein gwlad, nas ceir yn un man arall, ac yn rhoddi goleu gwahanol ar lawer o amgylchiadau y ffurfiwyd tyb gyfeiliornus am danynt. Chwanegwyd amryw lyfrau yma nad ydynt Gymraeg, er dangos eu bod i'w cael, ac y dylai pob hanesydd am Gymru, yn enwedig yn ei chrefydd, fynu cael gafael arnynt, pa mor fychain a disylw bynag y gallant fod.

## YR AIPHT.

EI HYNAFIAETHAU A'I CHYWREINION.

GELLIR yn briodol iawn alw y cyfnod hwn o oes y byd yn gyfnod y rhyfeddodau. Mae dwylaw cywraint celfyddyd yn awr bob dydd yn cyflawni gweithredoedd ag y buasai ein cyndadau yn ei ystyried yn sarhad ar eu synwryau i roddi clust am foment i unrhyw "wr cyfarwydd" a fuasai yn cynnyg prophwydo iddynt am y cyfryw bethau: ac y mae gwyddiant, gyda'i gwedd sobr a'i llygaid treiddgar, yn gosod yn agored o'n blaen y fath bethau rhyfedd yn "y nefoedd uchod," ac yn "y ddaear isod," ag na welsant hwy erioed yn mreuddwydion mwyaf ffrwythlawn hirnos gauaf eu hefelydd. Mae hyn, i raddau, yn ein tueddu i feddwl gormod o honom ein hunain, ac i edrych ar y cenedlaethau o'r blaen fel rhyw bethau hanner barbaraid mewn cymhariaeth i ni, yr un modd ag y mae yr hogyn yn distyru y plentyn, y llanc yr hogyn, a'r canol oed y llanc. Yr ydym yn fynych, wrth ganfod rhyw amlygiad o gywreinrwydd hynafol o waith y celfyddyd, yn barod i ofyn, Sut y gwnaethpwyd y fath gywreinwaith a hwn gan y fath greaduriaid diddysg ag oedd yn bodoli yr amser boreu hwn? A chyda golwg ar y dolennau agosaf atom ni yn nghadwenn oes y byd, y mae sail gadarn i'r teimlad yma: ond pan y crwydrom yn ol i amserau boreuach, ni a welwn nad oes gan yr oes hon ddim hawl gyflawn i orfoleddu, nac i ddysgwyl i'r oesau mynedol oll dalu gwarogaeth iddi. Nid ydym yn meddwl wrth hyn am gynnyg gwneyd y peth na all neb ei wneyd, sef yspeilio y cyfnod presennol o'i hawliau i syndod a mawrygdedd. Y mae y cynnydd mewn gwyddiant a'r celfyddydau defnyddiol yn annhraethol bell o flaen unrhyw oes arall. Ond, attolwg, yn mha le y mae yr awenydd presennol ag y mae ei urddas yn enhuddo gogoniant yr hen fardd pagan-aid Homer? Pa le yn awr y mae yr areithydd a faidd ymgystadlu â Demosthenes a Cicero? Ië, myneger i ni, ar ba lecyn o'r ddaear heddyw y mae yr arluniwr a all yspeilio Apelles a Raffael o'u llawryf buddygol? A phe cawsai Phidias ganiatâd i ddwyn ei weithydd cywraint o ddwy ganrif ar hugain oed i Arddangosfa Fawr y Byd, yn 1851, pa gerfluniwr a feiddiasai osod ei gynnyrchion yn ei ymyl? Ac oni raid hyd yn nod i brif adeiladwyr presennol Ewrop dalu teyrnged o ymostyngiad i hen adeiladwyr Athen? Ai "parchu henaint" yw dyben wrth roddi lle mor uchel i "Euclid" a'r uchawduron yn mhrif lysoedd dysg y gwledydd? Y mae pob llenor a hynafiaethydd yn gwybod pa fodd i ateb y cwestiynau hyn. Ac yn mhresennoldeb y fath ffeithiau, mae ein balchder yn cywilyddio, ac yn ymfyn am fan i ymguddio, a hoff-ryfeddod yn cymeryd ei le.

Ond pan y llwybrwn yn ol i amser boreuach fyth,

"Cyn tori o'r wawrddydd ar Rufain a'i brynian,  
Cyn seilio sedd Athen ar ddannedd ei chreigiau,"

ac yr awn bron i gyrhaedd swm enciliad tonau "dyfroedd Noa" ei hun, a chael yno geneidl o bobl waraidd a dilynfoes, cyfarwydd a medrus yn y celfau breiniol a defnyddiol, ac yn hysbys mewn llawer o'r gwyddiannau, ac mewn rhai ystyron yn rhagori arnom ni yn yr "oes euraidd" hon, nid

oes braidd ysbryd ynom. Ond y cyfryw ydoedd yr hen Aiphtiaid, fel y mae y gweithredoedd a gyflawnodd eu dwylaw eu hunain yn profi yn eglur. "Y mae cipelwg frysiog," medd Wylie, "ar y cofadeiliau sydd eto yn aros yn y wlad hon, yn ddiagonol i'n hargyhoeddi nad ydyw deagrifiadau bywiog yr hen haneswyr o allu, mawrwychedd, a choethder yr hen Aiphtiaid mewn un modd yn ormodol. Os nad hon yw y wlad yn yr hon y cafodd y celfyddydau a'r gwyddiannau eu dyfeisio, nid oes dim dadl mai ynddi hi y cawsant eu perfeithio, ac y darfu iddynt flodeuo gyntaf." Iê, i "dir Ham" yn arbenigol y perthyna yr anrhydedd o fod yn ffynnonell o ba un y lifodd gwareiddiad a hyfoesedd lliaws o genedloedd hen a diweddar. A phe buasai ein gofod yn caniatâu, buasem yn olrhain ychydig ar y ddyled sydd ar lwythau llednais Prydain Fawr, ac Ewrop oll, i wlad yr Aipht. Barbariaid aflywodraethus oedd y Groegiaid cyn iddi hi anfon trefedigaeth i'w glanau.

"See Europe, once a mighty wild, science and art unknown;  
No father trained a legal child, led by caprice alone:  
Till *Cecrops* came, the friend of man, and on *Livadia's* shore  
First harmonized the useful plan he from *Egyptia* bore."

Ac oddiwrthynt hwy, yn ddios, y cafodd yr Hebreaid eu gwybodaeth am lawer o'r celfyddydau cywraïn a fodolai yn eu plith hwythau. Ond rhaid i ni frysiio ymlaen at ein testun.

Cymerasom olwg yn y rhifyn diweddar ar brydweddau naturiol a gwleidyddol y wlad, gan aros yn benaf ar y pethau hynny a eglurent, ac a ddalient gysylltiad â phrophwydoliaethau yr Ysgrhythrau sanctaidd. Aethom heibio yn fwrriadol i'w holl *hynafiaethau* a'i *chyvorenion*, ac wele ni yn awr ar warthaf ein haddewid o ddwyn y rhai hynny ger bron y darlennydd. Ni wyddid ond ychydig am y pethau hynny cyn dyddiau Napoleon Buonaparte. Ond rhwygodd ef â'i gleddyd y llen dywell a orweddaï drosynt, ac â

"Rhuog anadl trwr y gynau—mawr,  
Fel myrdd o daranau,"

efe a chwythodd ymaith farau a phyrth y wlad, fel na chauwyd hwy byth ar ol hynny. Wedi yr amser hwnw, y mae yndrechiadau diffin Belzoni, Champollion, Rosellini, Wilkinson, y Milwriad Vyse, ac eraill, wedi casglu i mewn gynauaf toreithiog o ffeithiau o'i beddrodau a'i themlau, nes synu Ewrop a'r byd. Y mae y rhan fwyaf o'r cyfryw yn awr wedi eu cario ymaith, a'u gosod yn nghasgliadau hynafiaethol Prydain, a gwledydd y Cyfandir. Y mae pob peth symudadwy braidd wedi ei gludo ymaith oddiyno; ac oni buasai fod y pyramidiau eu hunain yn ormod o faich, buasent yn sicr o fod yn awr yn dyrchafu eu penau hybarch yn nghanol Llundain neu Paris.

Yr hyn a ddaw tan sylw gyntaf yw yr *ARWYDDLUNIAU* (*hieroglyphics*). Trwy gyfrwng y rhai hyn y trosglwyddai yr Aiphtiaid eu meddyliau i olaf-iaid. Y mae y dull hynod hwn yn gynnwysedig mewn rhoddi planigion, adar, ac anifeiliaid, a gwrthdrysiau eraill natur, i sefyll am eiriau a llythrenau. Yr oedd ganddynt wahanol ddulliau o'u gwneuthur. Ond nid oes yn ein bryd yn bresennol i fyned i un math o ymchwil manwl yn eu cylch, ond yr hyn a fydd o ddyddordeb cyffredinol. Un dull ydoedd trwy *ddymocarediad*, sef trwy wneyd arlun o'r gwrthdrysych y dymunid ei

<sup>1</sup> "Journey over the Region of Fulfilled Prophecy."

osod allan. Er anghraifft: darlun o ddyn a ddynodai y cyfryw; a march ac ych yr eiddynt hwythau. Er mwyn byrdra, dodid rhan i sefyll am y cyfan;—dwy fraich, un yn dal tarian, a'r llall fwyell rhyfel, a ddynodai ymladdfa; llaw yn dal ffirwyll, gerbydwr. Weithiau hefyd rhoddent yr achos i osod allan yr effaith, a'r offeryn am y gwaith a gynnyrchid trwyddo. Felly, hannergylich y lleuad a ddynodai fis; darlun o'r haul a osodai allan ddydd; a mwg yn esgyn o dân-lestr a arwyddai dân. Rhyw debygrwydd gwirioneddol neu ddychymycol rhwng y gwrthddrych a'r meddylddrych a fwriedid ei gyflwyno drwyddo a barai yn fynych i'r trososodiad yma gymeryd lle. Er anghraifft: arystyriaeth neu dremiad a osodid allan drwy lygad yr hebog, am y bernid fod gan yr aderyn hwnw allu i dremio ar yr haul; hollwybodaeth, trwy lygad wedi ei osod mewn lle dyrchafedig; panwr, trwy ddau droed yn sefyll mewn dwfr; a sarff mewn cylch a arwyddai y byd; a'r ysmotiau yn nghroen y creadur adgas hwnw, y ser. Yr ydys wedi cael allan hefyd fod enwau yn cael eu hysgrifenu trwy osod darluniau i sefyll am seiniau, y rhai y byddo rhyw debygrwydd rhwng gwahanol seiniau i eiddo y gwrthddrych a ddefnyddid; megys, llun llew i sefyll am L, &c. Y rhai cyntaf a ddarganfuwyd o'r natur yma oedd enwau Ptolemy a Cleopatra ar golofn Rosetta, gan Champollion. Y mae genym o'n blaen yn "*Osburn's Antiquities of Egypt*," adysgrifau cerfedig o lawer o'r ysgrifuniau hyn, a'u dëongliadau yn eu canlyn. Dodwn ger bron dëongliad un o honynt, yr hon sydd gân o eiddo yr hen Aiphtiad wrth yr yohain pan yn dyrnu. Cynnwysa oddeutu deugain o'r ffigyrau arwyddluniol, ystyr y rhai sydd fel y canlyn:—

"Ho, ho, troediwch yr yd yn gyflwmach, O ychain,  
 i Y grawn i'ch meistrïaid i gyd, a'r gwellt i chwi 'ch hunain."

Y mae y gân hynafol hon yn gerfedig mewn beddrod yn Elethya, uwch ben darlun o ddyn yn gyru ychain i ddyrnu. Hwyrach y cofia y darlennydd fod gan Moses orchymyn i'r ystyr hwn, "Na chau safn yr ych tra fyddo yn dyrnu;" *Deut.* xxii. 4. Ac ymddengys oddiwrth y gân fod arferiad yr Aiphtiaid yn groes i'r gorchymyn trugarog hwn, yr hyn, mae yn debyg, a barodd i Jehofa ei arosod ar yr Israeliaid. Yr ydym yn cyfarfod âg enwau ysgrhythrol adnabyddus wedi eu cerfio ar y cofadeilion yn yr iaith arwyddluniol hon; megys, Bethhoron, Megido, Mahanaim, ac eraill; yr achos o ysgrifenu y rhai ydoedd er cof am fynediad Sisac drwyddynt yn ei ymgyrch yn erbyn Jerusalem; 1 *Bren.* xiv. 25, 26.

Yr oedd y dull hwn o ysgrifenu mewn arferiad helaeth yn eu plith, cyn ac wedi i lythyrenau ddyfod i arferiad. Y mae pob colofn, mur, teml, a llestr, sydd i'w cael o weddill eu cywreinrwydd, wedi eu gorchuddio âg arwyddluniau. Yr oedd pob dygwyddiad o bwys yn y wlad, ynghyd â'u hymdrafodaeth â gwledydd eraill hefyd, yn cael ei gerfio fel yma, megys "â phin o haiarn ac â phlwm, yn y graig dros byth." Pob beth perthynol i grefydd ac addoliad a gerfid ar furiau ac offer y temlau; gwrhydri ac ymdrafod breninoedd ar y colofnau cyhoeddus; a helyntion bywyd personau neillduol a gerfid ar eu heirch ac yn eu beddrodau. Geilw Clement o Alecsandria, deml Aiphtiaid yn "llyfr ysgrifenedig:" ac felly yr ydoedd mewn ffaith. I'r genedl hynafol hon y perthyna yn arbenigol yr anrhydedd o gyfansoddi yn gyntaf erioed y pethau ag y gellir eu galw yn briodol yn *weithiau llenyddol*. Yr oeddynt hwy wedi cerfio hanes eu gwlad ar wynebpryd y graig oesol gannoedd o flyneddau cyn i Herodotus gasglu

defnyddiau ei hanesyddiaeth ; ie, cyn i dad hanesiaeth gysegredig ei hun ddysgu un wers yn "holl ddoethineb yr Aiphtiaid."

Yr oedd y wybodaeth pa fodd i ddarllen yr arwyddluniau hyn yn andnabyddus hyd ddechreu y ganrif bresennol. Nid oedd neb, er marwol-aeth yr hen Aiphtiaid eu hunain oddeutu ugain canrif yn ol, yn gwybod yn y byd pa beth i wneyd o honynt. "Y mae hen awduron Rhufeinig a Groegaidd wedi ysgrifenu cryn dwysged o berthynas iddynt, heb wybod ond ychydig yn eu cylch : ac ar eu hawdurdod hwy, credid yn gyffredin fod hysbysiadau pwysig yn gorwedd o dan yr arwyddnodau dyeithr a thrwsgrl hyn, ac y gwnai darganfyddiad yr allwedd iddynt agor o flaen y byd drysordŷ o wirioneddau cuddiedig ac anghofiedig, naturiol ac arddansoddol."<sup>1</sup> Ond er holl ymchwil manwl dysgedigion am hir amser, methwyd yn deg a chael gafael yn yr "allwedd hon" hyd y flwyddyn 1819, pryd y cafwyd trywydd arni gan foneddwr Seisnig, o'r enw Dr. Thomas Young ;<sup>2</sup> a pherffeithiwyd y darganfyddiad yn fuan gan eraill, yn neillduol gan Champollion, y Ffrancwr y crybwyllasom am dano o'r blaen. Ac y mae yn hysbys yn awr eu bod oll yn cynnwys cofnodion hanesyddol, &c. fel y crybwyllwyd uchod ; a phan y deuir i allu eu deall i gyd, y mae yn bur debyg y cyflwynant lawer o eglurhadau pwysig o'r testun sanctaidd. Pan dorwyd rhwymau tafod yr hen Aiphtiaid yn rhydd, aeth yr anfyddiwr, druan, ato gyda brys, ond yn crynu gan bryder, i wrando a oedd gan ei lais hynafiaethol ddim cysur yn y byd iddo ef—a oedd ef yn dyweyd dim yn y byd yn erbyn ei hen elyn ef, y Beibl, neu rywbeth.

"Ond Ow siom ! nid oes yma"

ddim o'r fath beth ; a gorfuwyd troi ymaith mewn gofid y tro hwn eto. Credwn nad oes ond ychydig o'r dosbarth hwn yn Nghymru ; ond os oes, y mae yn bur dost arnynt, druan, oblegid fel y mae llif cynnyddol gwybodaeth yn ymchwyddo, y mae "y dyfroedd yn boddi" pob "lloches" o'u heiddo o hyd rhag blaen !

Y peth nesaf a grybwyllwn ydyw y CYRFF PERAROGLEDIG (*mummies*). Y mae ymgais lwyddiannus y bobl hyn i ymdafu tuhwnt i derfynau culion eu hoes eu hunain, yn ein taraw â syndod. Nid yn unig y maent wedi anfon cofion diddarfod o weithredoedd celfyddydol, i hysbysu am danynt i'r oesau a ddalent ar ol, ond y maent hwy eu hunain, mewn ystyr, wedi dyfod i'w canlyn ! Gâd i ni, ddarllenwyd, roddi tro trwy yr Amgueddfa Frytanaidd yn y brifddinas. Dyma ni i mewn. Mae yma filoedd o bethau i ddenu dy sylw : ond gâd i ni droi i'r ystafell hon, sydd o'r neilldu i ni. A weli di y coffr yna sydd o'rh flaen ? O ran ei ffurf, y mae yn debyg i gryd, ac wedi ei orchuddio â'r arwyddluniau y buom yn son am danynt. Arch Aiphtiaidd ydyw ; a dyna hefyd beth yw yr holl rai eraill sydd o amgylch yr ystafell. Cludwyd hwy yma yn ddiweddar o'r ogof-ÿydd beddrodawl (*catacombs*) helaeth sydd yn nghymydogoeth Thebes, a phrif ddinasoedd eraill y wlad. Tyred yn nes, ni a symudwn y caud ; a hwyrach y cei edrych yn wirioneddol ar wyneb marwol un o "feistriaid gwaith" yr Israeliaid, druan ; pa fodd bynag, y mae yn ffaith ei fod yn un o fywiolion yr amser hwnw, oblegid hysbysair hyny gan y lluniau cerfedig sydd ar gauad ei arch. Ac eto, yr wyt yn gwled nad yw y "pryf" erioed

<sup>1</sup> "Osburn's Antiquities" tudal. 69.

<sup>2</sup> Mae ffurth ymchwil yr awdur hwn idd ei weled mewn erthygl ddyddorol, o'r enw "Egypt," yn yr attodiad i'r "Encyclopaedia Britannica."



wedi ei gyffwrdd. Dyro dy law ar ei wyneb, a gwel mor deg yw y croen; ac er ei fod wedi marw er ys tair mil o flyneddau, ti a weli fod hyd yn nod ei wallt, a blew ei aelïau, yn parhau yn ddilwgr! Pa fodd y mae hyn? meddi. Dywed Job am blant dynion, "Hwy a orweddant ynghyd yn y pridd, a'r pryfed a'u gorchuddia hwynt." Wel, yr oedd dyfais a medr yr hen Aiphtiad yn gyfryw ag i siomi "priddellau y dyffryn," a meistrolï llygr-edigaeth ei hun! Y mae cenedlaethau cyfain wedi cael eu cadw fel hyn rhag darfodedigaeth yn meddgelloedd tanddaearol y wlad. "Yr oedd y gelfyddyd y berarogli yn cael ei harfer gyda mwy o fedr gan drigolïon yr hen Aipht, nag a gyrhaeddwyd byth wedi hyny." Dywed Herodotus, yr hwn a ymwelodd â'u gwlad oddeutu 450 cyn Crist, fod ganddynt dair ffordd o fyned trwy y gorchwyl hwn. Y flaenaf, sef y fwyaf costus, oedd fel y canlyn:—Yn gyntaf, hwy a dynent yr ymenydd allan trwy y ffiroenau â math o haiarn cam at y pwrpas; a llanwent ei le â sylweddau peraroglaidd; yna, gyda chareg Ethiopaidd lêm, hwy a wnaent agoriad yn yr ochr aswy, a thynent yr ymysgaroedd allan drwyddo; ac wedi hyny golchent y corff oddi allan â dwfr, ac oddimewn â gwin y balmwydden. Yn ganlynol, llenwid lle yr ymysgaroedd â phowdr myrr, cassia, a pheraroglau eraill, ac yna gwnïent i fyny y toriad. Y gorchwyl nesaf fyddai ei orchuddio â *natrum*—cymysgedd o *carbonate*, *sulphate*, a *muriate of soda*—a gadewid ef tros ei ben yn yr unrhyw am ddeng niwrnod a thriugain. Pan fyddai y dyddiau hyn drosodd, golchid y corff, ac yna amddid ef i fyny â rhwymynau o liain main; a rhwymid pob aelod hefyd ar ei ben ei hun â darnau o'r un defnydd. Yn ganlynol, dodid ef mewn arch wedi ei gwneyd ar lun dyn, a chymerid ef gan y perthynasau i'r beddrod gorwch a barotoisid iddo. Tebyg i hyn y gwnaed â Jacob a Joseph; "Gorchymynodd Joseph i'w weisïon, y meddygon, berarogli ei dad ef: felly y meddygon a beraroglasant Israel;" *Gen.* 1. 2. "A Joseph a fu farw...a hwy a'i peraroglasant ef; ac efe a osodwyd mewn arch yn yr Aipht;" *adm.* 26. Byddai rhai hefyd yn cadw yr arch a'r corff perarogledig yn y tŷ fel dodrefnyn parch: ac yr oedd yn gyfraith yn eu plith nad oedd neb i fenthyca arian heb wystlo i'r benthyciwr gorff ei dad; ac os byddai farw heb ryddhau y gwystl, amddifedid ef o'r anrhydedd o gladdedigaeth.

Deilliodd yr arferiad o berarogli y cyrff yn mysy y genedl hon oddiwrth y grediniaeth a fodolai yn eu plith o fod hapusrwydd yr enaid mewn byd arall yn dibynu ar gadwedigaeth y corff yn ddilwgr. Yr oedd unwaith ammheuaeth ymhlith dosbarth o dduwinyddïon pa un a oedd yr athrawiaeth o anfarwoldeb yr enaid yn adnabyddus i'r patriarchiaid ai nad oedd, neu a oedd hi wedi ei dadguddio o gwbl dan yr hen oruchwyliaeth. I'r Testament Newydd, yn ol eu hathrawiaeth hwy, yr oedd yr holl eglurhad ar y pwnc pwysig hwn i'w briodoli. Fe allai fod hyn yn dal gyda golwg ar adgyfodiad y corff o'r bedd; ond y mae genym ammheuaeth am hyn hefyd, oblegid beth a feddyliai y Salmydd pan y dywedai, "Digonir fi, *pan ddihumwys*, â'th ddelw di?" Ond am anfarwoldeb yr enaid, a gwobr a choeb mewn byd arall, y mae genym sicrwydd ei fod yn hysbys, nid yn unig i'r patriarchiaid, ond hefyd i'r Aiphtiaid; ac yr oedd hyn yn ffurfio rhan benodol o'u cyfundrefn grefyddol cyn amser Abraham. Mae hyn wedi ei brofi yn llawn. Wrth ddattod y rhwymynau o gwmpas rhai o'r

<sup>1</sup> "Penny Cyclopædia."

*mummies*, deuwyd o hyd i liaws o ysgrifeniadau ar ddail y *papyrus*, yn cynnwys cyfarwyddiadau i'r enaid ar ei ffordd i'r byd arall, a pha fodd i ymddwyn ar ol cyrhaedd llys barn ofnadwy Osiris, y prif dduw, a barnwr eneidiau, fel y galwent ef. Y mae lluniau o'r llys hwn yn dygwydd yn fynych ar gauadau yr eirch, a phethau eraill. Gosodir y barnwr allan yn eistedd ar orsedd orwech ar un tu i'r llŷs, a deugain o anghenfil-dduwiau yn sefyll yn ddwy res yn y fan arall, yn barod i weinyddu y gosb ddeddfrydol ar y troseddwr, yr hwn a ddarlunir fel yn sefyll oddi draw mewn ystum erfyniol. Y fath esboniad ydyw hyn ar eiriau yr apostol, "Y rhai hyn heb fod y ddeddf ganddynt, ydynt ddeddf iddynt eu hunain!" Dengys hyn yn eglur fod y creadur dynol yr un yn mhob oes; a'u bod yr amser hwnw, megys yn bresennol, "yn dangos gweithred y ddeddf yn ysgrifenedig yn eu calonau, a'u cydwybod yn cyd-dystiolaethu, a'u meddyliau yn cyhuddo eu gilydd neu yn esgusodi;" *Rhuf.* ii. 15.

Ni a symudwn ymlaen eto at yr hyn sydd yn creu y dyddordeb mwyaf a berthyn i'r wlad hon, sef ei chynnydd boreuol yn y gwahanol gelfyddydau, &c. Y mae y gelfyddyd o wneyd gwydr wedi ei dwyn y dyddiau hyn i radd uchel o berffeithrwydd. O berthynas i ddechreuad y gelfyddyd hon, y mae gan Pliny<sup>1</sup> hanesyn, yr hwn, heb lawer o ymchwil i'w wirionedd, a gymerwyd yn ganiataol, ac a adysgrifwyd i'r holl eirlyfrau a'r traethodau a ysgrifenydd ar wydr am oesoedd. Yn ol hwn, oddeutu dechreu y cyfnod Cristionogol y cafwyd allan gyntaf pa fodd i wneyd gwydr. Ond y mae ymchwiliadau diweddar Syr Gardener Wilkinson yn meddrodau Thebes, wedi dwyn i'r goleu brawf penderfynol fod yr Aiphtiaid mewn llawn feddiant o'r gwahanol ddulliau o'i wneuthur er's dros dair mil a hanner o flyneddau yn ol. Y mae y weithred o chwythu gwydr yn cael ei arddangos mewn paentwaith yn rhai o feddrodau teyrnasiad Osirtasen I. a'i olynwyr, ac hefyd i'w weled mewn beddrodau o amseriad arall, yn ngwahanol barthau y wlad. "Ond," medd Wilkinson,<sup>1</sup> "os teimla yr anghredwr duedd i attal ei grediniaeth ar awdurdod paentwaith arddangosedig, a gwadu nas gellir dangos oddiwrth y cyfryw brawf fod gwydr yn cael ei arfer, byddai yn burion ei adgoffio fod delwau o bridd-wydr yn bethau cyffredin yn y cyfamser, a bod y sylwedd gwydraidd â'r hwn y maent wedi eu gorchuddio o'r un ansawdd a gwydr; gan hynny fod y dull o doddi, a chymhwyso y maint priodol o'r sylweddau at wneuthur gwydr, yn wybyddus iddynt yn flaenorol; a gallwn ddyweyd yn benderfynol eu bod yn gwneyd tlysau o wydr ddau canrif yn diweddarach, neu bymtheg can' mlynedd cyn dyfodiad y Ceidwad; o herwydd cafodd fy nghyfaill, y Cadben Henvey, R. N., afael mewn gleindorch (*bead*) yn Thebes, ac arni enw y brenin oedd yn teyrnasu y pryd hwnw." Cyfarfuwyd â llawer o boteli gwydr, a gwrthddrychau eraill o'r un defnydd, yn y beddrodau yn yr Aipht Uchaf ac Isaf, a rhai o honynt yn ddiammheuol o hynafiaeth mawr. Ac y mae y paentiadau yn Thebes yn dangos fod llestri gwydr yn cael eu defnyddio i ddal gwin, o'r hyn lleiaf, mor foreu a mynediad Israel o'r Aipht. A'r cyfryw hefyd oedd medrusrwydd yr Aiphtiaid yn ngweithiad y sylwedd hwn, fel y llwyddasant i wneyd dynwarediad cywir o'r amethyst, a meini gwerthfawr eraill; ac hyd yn nod cyrhaeddasant y fath ragoriaeth yn y gelfyddyd ag y methodd eu hollynwyr ei ddal i fyny;

<sup>1</sup> Llyfr xxxvi, pen. 26.

<sup>2</sup> "Manners and Customs of the ancient Egyptians."

ac yn ofer yr ymdrecha gweithwyr Ewrop ac America, er maint eu dyfais a'u medr, i ymgystadlu â hwynt: o herwydd nid yn unig y mae lliwiau rhai tywyllwyrâu Aiphtaidd yn cyflwyno y dyfeisiau mwyaf lliosog ar y tu allan, a'r rhai hyny wedi eu dosbarthu gyda rheolaidd-dra arluniaeth ragfyrriol, ond y mae yr unrhyw liwiau, a'r unrhyw ddyfeislun, yn myned trwy y sylwedd, fel yn mha le bynag y cai ei dori, yr oedd yr un ymddangosiad, yr un lliwiau, a'r un dyfeislun, i'w canfod yn rhedeg yn syth trwyddo, o'r gwyneb hyd y canol.

Yr ydym yn cael hefyd fod y celfyddydau darluniadol (*arts of design*), wedi eu dysgu yn foreu yn eu plith. Nid ydym, mae yn wir, yn cael y rhai hyn yn y perffeithrwydd a gyrhaeddasant wedi hyny yn mysg y Groegiaid, y Rhufeiniaid, a chenedloedd diweddar: ond nid yn gwbl i anfedrusrwydd yr hen *artists* Aiphtaidd yr ydym i briodoli hyny; canys nid er addurn, fel y gwneir yn awr, y defnyddient hwy eu medr darluniadol, er eu bod hwy yn iswasanaethu y dyben hwnw yn rhagorol. Na, ni roddent hwy y cŷn ar y maen, heb fod ganddynt ryw ddygyddiad i'w gofnodi, neu ryw wers i'w dysgu. Gwneyd y meddylddrych yn eglur, ac nid cynnyrehu prydfferthwech darluniadol, oedd eu prif wrthddrych. Yr oeddynt yn gwneyd eu dynwarediad o natur yn ddigon agos, fel ag i gyflwyno drwyddynt y meddwl a fwriedid gydag eglurder a manylrwydd; a phan gyrhaeddid hyny, nid oedd ganddynt un dymuniad i fyned ymhlach. Mae yn ddiammheuol mai i'r gwahanol raddau o gywirdeb sydd yn ofynol mewn trefn i gyflwyno meddylddrych clir a diammwys am wrthddrychau gwahanol, y mae i ni briodoli yr anwastadrwydd sydd yn nodweddu y celfyddydau hyn. Er anghraifft: ychydig o boen a gymerid yn gyffredin gyda y ffurf ddynol: y mae ei manylion (*details*) yn cael eu rhoi yn amherffaith ac anghywir. Ac y mae y rheswm yn eglur: digona braslun trwsgl i gyflwyno y meddwl, fel y mae camgymeriad yn anmhosibl; a dyma y cwbl, yn gyffredin, oedd ar y celfyddwr ei eisieu. Ond yn yr un darlun a'r ffugyrau trwsgl hyn, y mae yr adar wedi eu tynu mor gywir a ffyddlawn, nad yw celfyddwyr diweddar ond prin yn eu curo; ac y mae y rheswm yn gyfartal eglur—yr oedd yn rhaid bod yn fanwl gyda'r rhai hyn er mwyn gosod allan yr aderyn a feddylid. Ond er hyny, y mae anghreiffiau o saf-ddelwau Aiphtaidd i'w cael, yn mha rai y mae rhaledau neu fanlyion y ffurf ddynol yn cael eu gweithio i'r pen. Yr oeddynt hefyd yn rhagori mewn tynu delweddau priodol y personau y dymument eu harddangos. Y mae gwynebpryd rhai o'r Pharaoid yn hawdd iawn i'w hadnabod yn mhob man y dygwyddant. Felly, nid o herwydd diffyg yn y gallu neu y chwaeth cenedlaethol, y mae cynnyrchion yr Aiphtiaid yn y celfyddydau hyn yn waelach nag eiddo y Groegiaid. O fewn eu beddrodau<sup>1</sup> yr oedd

<sup>1</sup> Yn yr Aipht Uchaf yr oedd y meirw yn cael eu rhoddi mewn ogofsydd mawrion, wedi eu tori yn nghrombil y mynyddoedd sydd yn ffurfio ystlys orllewinol y *Nile*. Yn yr Aipht Isaf, lle mae y mynyddoedd yn darfod, torid lleoedd dyfnion yn y ddaear, a gweithid hwy â phriddfeini, neu neddid hwy yn y graig. Beddrodau cyffredin, o faint anferthol, yw rhai o'r rhai hyn, lle mae *mummies* yn nifer anghredadwy wedi eu pentyru yn rheolaidd ar eu gilydd: a'r lleill ynt eiddo y dosbarth uchradol, yn cynnwys rhifedi mawr o ystafelloedd ac orielau yn arwain o'r naill i'r llall. Dywed Diodorus Siculus eu bod yn poeni ac yn costio mwy efo eu beddau na'u tai; ac y mae darganfyddiadau Belzoni, Wilkinson, ac eraill, yn manwl brofi hyn. Mae braidd bob math o lestri, arfau, a dodrefn, wedi eu cael ynddynt, o'r defnyddiau a'r gwneuthuriad rhagorol.

yr Aiphtiaid yn gwneyd gwastraff o'u medrusrwydd yn y celfyddydau hyn. Gosodir y marw allan yn cael ei gylchynu gan ei deulu, yn gwledda, yn gwrandaw peroriaeth, neu yn edrych ar ddawnsiau gwryrfon. Darlunir ef hefyd yn y maes yn hela, yn adara, neu yn pysgota. Mewn lle arall, yr ydym yn ei gael yn cyfrif ei ddefaid, neu yn arolygu gwahanol weithred- iadau amaethyddiaeth. Mae beddau eraill yn gosod allan wahanol gylchweithrediadau (*processes*) y celfyddydau peiriannol. Y mae gwau, gwneyd gwin, cyffeithio, a chelfyddydau cyffelyb, yn cael eu harddangos ynddynt, oll mewn cyflawniad gweithredol. Priddfeinwyr, adeiladwyr, seiri, gofaint, &c., sydd oll wrthi yn galed. Y mae gwneyd arfau, adeiladu llongau, a gwneyd cerbydau, yn cael eu gosod allan mewn eraill. Nid oes braidd un weithred na dygwyddiad yn amgylchiadau cyffredin bywyd, nad ydyw yn cael ei osod allan gyda ffyddlondeb gan wrychell y darluniedydd. Ymddengys fel yn egnio i alltudio pob drychfeddwl am farwolaeth o'r beddrod:<sup>1</sup> y mae pob peth sydd ynddo, ond y corff, yn arwyddo bywyd.

Gan fod yr Aiphtiaid, fel hyn, yn arfer cofnodi holl helyntion bywyd mewn darluniadau; a'r celfyddydau hyn yn blodeuo yn amser yr ymdra- fodaeth rhyngddynt a'r Israeliiaid, mae yn naturiol i'r darlennydd ymholi, A oes dim darlun na cherfwaith ar gael, yn gosod allan rai o'r dygwydd- iadau cysylltiedig â hwy? Gallwn ateb yn gadarnhaol. Y mae genym adysgrifau o ddarluniau o'r natur yma ger ein bron. Ni a gymerwn bwyll i sylwi yn fanwl ar un o honynt fel anghraifft. Ni raid ond adgofio y darlennydd o'r gwneuthur priddfeini, yr hel gwellt, a'r gofid tost y bu plant Israel ynddo, na chynhyrfa ei enaid. Wel, y mae darlun o'n blaen yn ddesgrifiad ac yn goffadwriaeth o'r helynt rhyfedd hwnw. Copiwyd ef o baentwaith, yn meddrod un o'r enw Rek-share, prifadeiladydd temlau a phalasaau Thebes, o dan Pharao Moeris. Y mae gwyneb-ddulliau y gweithwyr yn ddigon hawdd i'w hadnabod mai Iuddewon ydynt. Ymaent yn noeth, oddigerth llain o amgylch y lwynau. Ymddangosant mewn brys ac egni anarferol; rhai yn helpu y lleill i godi y llestri clai ar eu hysgwyddau; eraill yn arllwys clai wrth ochr yr hwn sydd yn ei ffurfio yn briddfeini; ac eraill â rhyw beth tebyg i glorian ar draws eu hys- gwyddau yn cario y priddfeini yn mhob pen iddo, i'w taenu yn yr haul llosgedig i sychu. Ac yn nghanol yr olygfa, y mae un dyn, gwahanol o ran ei ymddangosiad i'r gweithwyr, yn eistedd i lawr, â'i bastwn trwm yn ei law. Nis gall hwn fod yn neb ond un o'r "meistriaid gwaith" creulawn hyny. Y mae yr ymdrech dost yr ymddengys fod y gweithwyr, druan, ynddo, a'r dull budr sydd ar eu cyrff, ac yn neillduol, fod hwn yn dal ei bastwn yn eu hymyl, yn ddarluniad bywiog a tharawgar o fanyl- rwydd yr ymadrodd ysgrythyrol, "A'u holl wasanaeth y gwnaent iddynt wasanaethu ynddo oedd galed." Y mae tri o ddynion yn sefyll ar du deheu y darlun, ac ymddengys oddiwrth eu diwyg nad ydynt yn arfer gweithio; ond y maent yn awr yn gorfod cydio yn y gwaith; ac wele un eisoes â baich o glai ar ei gefn, ac ar yr un pryd yn cael ei bastynu gan berson mileinig yr olwg arno, tebyg i'r un sydd yn eistedd yn y fan draw. Beth ydyw hyn ond esboniad llythyrenol ar y geiriau yma, "A'r meistriaid gwaith oedd yn eu prysuro, gan ddywedyd, Gorphenwech eich gwaith. A

<sup>1</sup> Gwel "*Oseburn's Antiquities.*"

*churydd* swyddogion meibion Israel, y rhai a osodasai meistriaid gwaith Pharao arnynt, a dywedwyd, Pahan na orphenasoch eich tasg ar wneuthur priddfeini, ddoe a heddyw, megys cyn hyny?" Ac ymddengys oddiwrth y darlun, fod y swyddogion yn gorfod gwneyd y gwaith eu hunain, pan y methent gael gan y gweithwyr truaïn gyflawni eu tasg; ac ar yr un pryd yn gorfod dyoddef dyrnodiau didrugaredd y "meistriaid gwaith." "Pe tawai y rhai hyn," meddai Iesu Grist, ar un achlysur, "llefai y ceryg yn y fan." Felly, pe buasai pob llais arall o blaid cywirdeb yr hanesyddiaeth gysegredig yn cael ei ddystewi, dyma un yn dyrchafu i fyny o ogofeydd beddrodawl tir yr Aipht, nas gellid mewn modd yn y byd roddi taw arlo.

Ond rhaid brysio heibio, a gadael ar ol lawer o bethau y bwriadem sylwi arnynt, megys eu gwybodaeth mewn daearfesuriaeth, seryddiaeth, a fferylliaeth, &c.; a dwyn ger bron y colofnau mwyaf mawreddig o wychder hynafol y wlad, sef cynnyrchion dyfais a medr yr *adoladydd*. Gall yr hynafiaethydd gael gafael o'r bron yn y cyfan a sylwasom arnynt hyd yn hyn yn y *British* neu y *Paris Museums*; ond er cael golwg ar y rhai hyn, rhaid iddo fyned i waered i'r Aipht ei hun. Yno y maent, yn ymddyrchu mewn mawrhydi mud "goruwch adfeilion llawer oes," a'u gogoniant hynafiaethol yn cuddio â'i wawl bob peth diweddar a berthyn i'r wlad, pa mor ardderchog bynag y dichon i'r cyfryw fod. Rhaid i ninnau drefnu rhyw ffordd i gael trem arnynt. Tyred, cymerwn wibdaith yno. Tro dy wyneb tua y de-ddwyrain: yn union yn y eyfeiriad yn y gorwedd tir Ffrainc, ar lan ddeheuol yr hwn y mae porthladd o'r enw Marseilles. Dyma ni yno; ac wele Fôr y Canoldir yn agor ei fynwes chwyddedig i'n derbyn. Gâd i ni lynu wrth yr agerlong yna, a byddwn mewn ychydig ddyddiau yn mhorthladd Alecsandria. Rhyfedd! dyma ryw dir eisoes yn y golwg, a meddyliwn yn sicr wrth y golofn acw, a weli yn y pellder, ein bod mewn gwirionedd yn ymyl "tir yr Aipht." Iâ, *Pompey's Pillar* ydyw hon acw; a dyma ninnau, o'r diwedd, yn sangu ar derfyn "tir Ham;" ond nid oes yma fawr o wrthddrychau ein hymofyniad. Ond bydded i ni, am fynyd, roddi tro i edrych ar hen ddinas Alecsander. Yr oedd y golofn a welsom o'r môr yn sefyll yn ei chanol; ac wele y mae hi yn awr o'r tuallan i furiau y ddinas bresennol. Dyma ni wedi cyrhaedd at ei hymyl. Ac oddiwrth ei godreu, nid oes dim i'w ganfod, o lan y Canolfôr hyd Mareotis, ond noethlymder tywodog; ac ambell ddarn anferth o fynorfaen, malurion muriau a cholofnau, yn gwthio eu penau allan o'u beddau, fel yn ymeginio am adgyfodiad. Yr oedd yr holl ddiffeithle hwn sydd o'n cwmpas yn cael ei lenwi gynt âg un o'r dinasoedd mwyaf blodeuog a fu erioed. Boed i ni symud ein safle—gad i ni weled beth yw y golofn fawreddig acw sydd yn y fan draw. Yr ydym yn ei hadwaen yn awr, oddiwrth y desgrifiadau a gawsom, mai yr *obelisk* prydferth a elwir, "Nodwydd Cleopatra" ydyw; a dyma un arall, ar hanner ei dadgladdu o'r tywod, yn gorwedd yn ei hymyl. Dygwyd y ddwy yma, o rywle o'r wlad uchaf, i harddu prifddinas y Ptolemaid, wedi bod am ganrifoedd yn cyflawni gwasanaeth cyffelyb mewn lle arall. Yr oedd llawer iawn o honynt yn cael eu gwneyd yn yr amseroedd gynt. Neddid hwy allan o un darn o ithfaen (*granite*), yn y cloddfeydd yn Syene. Ac er fod yr un sydd ger bron yn drugain troedfedd o uchder, heblaw y rhan a guddir gan y tywod, nid yw ond un gareg. Colofn onglog ydyw, ac yn meinhaus rhyngddi ag i fyny. Dos o'i hamgylch, a gwel. Y mae wedi ei gorchuddio o'i godreu hyd ei phen uchaf â nodau

dyeithr yr arwyddluniau; ac, oddieithr y tu gorllewinol yna iddi, yr hwn sydd wedi ei ddihatru, trwy guriad didor poethwyntoedd tywodog yr anialwch, am yn agos i ugain canrif, y mae ol cûn y cerfiwr mor *fresh* arni, a phe buasai wedi cael ei gwneyd ddoe neu echdoe. Yr ydym yn meddwl fod Dr. Jahn yn dyweyd, fod y math yma o golofnau yn cael eu cysegru i'r haul; a bod yr Iuddewon wedi dysgu yr arferiad (*Exec. iv. 4, 6; 2 Cron. xxxiv. 4—7*). Er fod y ddinas hon, sydd yn gorwedd yn adfail o'n hamgylch yn gallu hōni hynafiaeth o ddwy fil o flyneddau, yr oedd gogoniant yr Aipht wedi ymado; a Pharaoh â'i holl liaws wedi diagyn i'r "tir isaf gyda lladdedigion y cleddyf," cyn i'w sylfeini gael eu gosod i lawr. Ond ymaith â ni, fel y caffom gyfle i gael cipdrem ar y pyramidiau, a thafu golwg dros demlau a chawrgolofnau Thebes.

Mae ein llwybr yn awr yn cyfeirio tua'r de-ddwyrain, ac am driugain milltir ar hyd camlas mawr Mehemet Ali; yna yr ydym yn cyfarfod â'r Nile fawreddog ar du gorllewinol y Delta. Yna mae ein llwybr yn troi i'r deheu, ac yn cyfeirio tua Chairō. Yn y fan draw, o du y dwyrain, y mae sefyllfa yr hen ddinas enwog Soan. Y mae yn gorwedd mewn llwch a lludw, ac ynddi ychydig o gofgolofnau o'i mawredd gynt; ond y mae arwyddion amlwg ar y cwbl sydd yn aros, medd Dr. Keith, o'r farn brophwydoliaethol—"Rhoddaf dân yn Soan." Ychydig ymlaen, yn yr un cyfeiriad, dacw bentyrau o adfeilion i'w gweled, ac *obelisk* unigol yn dyrchu ei ben yn eu canol. Ah! dyna sydd yn aros o'r dref orwych Heliopolis. "Balchder ei chryfder a dderfydd ynddi!" Yr ydym yn ymwithio yn llyyddiannus yn erbyn ffrwd gref yr afon, ac wele ni o fewn oddeutu ugain milltir i Cairo, y brifddinas bresennol. Tro dy olwg yn awr yn union i'r deheu, a gwel y gwrthddrychau acw sydd yn ymddyrchafu i'n golwg, ac yn tywyllu y gorwel pellenig ar fynwes anialdir Libya. Dacw y pyramidiau y clywaist gymaint o son am danynt, a'r rhai acw hefyd ydyw y rhyfeddodau y mae y byd synedig yn mhob oes er's mwy na thair mil o flyneddau yn caru troi ei olwg atynt. Y maent i'w gweled â'r llygad noeth o bellder o ddeng milldir ar hugain; y mae bron gymaint a hyny o'r fan y safwn yn awr. Ni a fyddwn gerllaw iddynt cyn hir. Dyma bigdyrau temlau Mahometanaidd Cairo o'r diwedd yn ymsaethu i'r awyr las o'n blaen; ond nid oes a fynom â'r rhai hyn. Ti a weli fod ein llwybr ni yn union-syth at y pyramidiau, yn gorwedd o du y gorllewin i'r ddinas. Awn heibio, ynte; ac yn awr wele aruthredd gwrthddrychau ein sylw yn dechreu ymgodi yn gyflym o'n blaen. Edrych yn awr, dyma ni o fewn milltir iddynt. Y mae y rhesi meini mawrion o ba ba rai y maent wedi eu had-eiladu, i'w canfod yn eglur oddiyma. Dyma fel y dywed Mr. Stephens<sup>1</sup> am ei ddynesiad atynt:—

"Pan yn dynesu at y tri pyramid mwyaf, ac un bychan yn y golwg, ymddyrechent yn uwch, uwch, oddiar y gwastadedd. Meddylwn fy mod bron yn eu hymyl, fel y gallwn o'r braidd eu cyffwrdd; eto, yr oeddwn fwy na milltir oddiwrthynt. Pa agosaf y dyneswn, mwyaf yr oedd eu maintioli cawraidd yn cynnyddu, hyd nes eu cyrhaeddais hwy yn weithredol, ac yr edrychais i fyny ar hyd eu hochrau llechweddol, hyd eu huchel gopâu, ac yna ymddangosent wedi cynnyddu i faintioli mynyddoedd."

Wele ninnau o'r diwedd yn sefyll wrth eu godre, ac yn profi yr un teimladau a Mr. Stephens, yn enwedig gyda golwg ar yr un mwyaf, yr

<sup>1</sup> "Incidents of Travel:" cyf. i, tudal. 54.

hwn, o herwydd aruthredd ei faintioli rhagor y lleill, a elwir yn arbenigol, "Y Pyramid Mawr." A hwn, gan hyny, a gaiff fod yn destun ein sylwadau yr ychydig fynyddau y byddwn yma. Dewisodd yr hen adeiladwyr sail dda iddo, sef craig gadarn, yr hon sydd ym ymddyrcafu ychydig goruwch y gwastadedd cylchynol. Y mae ei ffurf yn bedair ongl, a phob un o'r rhai hyn yn cyfeirio yn unionsyth at bedwar pwynt y compawd—prawf o'u gwybodaeth seryddol. Mae ei waelod, yn ol rhai o'r mesuriadau diweddaraf, yn gorchuddio un erw ar ddeg. Ei uchder unionsyth, yn ol mesuriad Mr. Lane, ydyw pedwar cant ac un ar bymtheg a deugain o droedfeddi. Y mae wedi ei adeiladu, ti a weli, â rhesi o geryg mawrion, y naill res yn tynu i mewn yn rheolaidd o'r gwaelod nes terfynu mewn pwynt yn y pen. Ond y mae cryn lawer o resi wedi eu tafu i lawr o'i ben yn bresennol, fel ag i ffurfio safawr ddeg troedfedd ar hugain ysgwâr. Ond y mae ei uchder mawr yn peri iddo ymddangos oddi yma fel yn bigfain yn awr. A'r ceryg a ddimchwelwyd o'i ben ydyw yr holl ysbwrial yma sydd yn cuddio rhan fawr o'i waelod. Nid oedd un fynedfa i'w du mewn cyn i Belzoni dori un yn agored ar y tu gogleddol iddo. Meddylid cyn hyny ei fod yn cynnwys rhifedi aneirif o ystafelloedd; ond oddigerth dwy neu dair, yn nghyd â'r mynedfeydd cyfyng sydd yn arwain iddynt, nid ydyw, am a wyddis eto, ond crug anferth o geryg, na bu, ac nad oes ei fath ar wyneb daear. Cyfrifir trwy fesuriad allanol fod ynddo ddigon o le, a chaniatáu digon at furiau, lloriau, a nènau, i 3,700 o ystafelloedd tebyg oran maint i'r ystafell fwyaf sydd ynddo, sef "Ystafell y Brenin," yr hon sydd yn ddwy droedfedd ar bymtheg ar hugain o hyd, dwy ar bymtheg o led, ac ugain o uchder. Cafwyd arch gareg yn yr ystafell a nodwyd, ond yn wag o'i chynwysiad dechreuol, oddiwrth yr hyn y bernir nad ydyw yr anferth dŵr yn ddim, wedi yr holl ddfrod o nerth dynol, ond *bedd-adaid* i un o'r teyrnbenau Pharaoidd! Y mae, er y cyfan, yn gofgolofn fythol o allu a medr yr hen adeiladwyr hyny.

Pa ddull oedd ganddynt, tybed, i godi y meini mawrion hyn i'r fath uchder anhygoel? Y mae yr ystafelloedd mewnol yn amlygu y wybodaeth fwyaf perffaith o adeilyddiaeth.

"Ar ol cryn drafferth," medd y teithydd Americanaidd, Morris, "ni a gyrhaeddasom i ystafell fawr y pyramid. Yr oedd yr arweinyddion wedi dwyn gyda hwynt gyfran helaeth o ganwyllau, ond ni roddodd eu hunol lewyrch ond drychfeddwl egwan i ni am faint ac ymddangosiad yr ystafell hon. Gallem weled, pa fodd bynag, fod y nen a'r ochrau, fel y mynedfeydd yr oeddym wedi dyfod trwyddynt, wedi eu cyfansoddi o lechau mawrion o ronnyben Syene, ac wedi eu llyfnhau i'r fath raddau, nes y gwreichionant gan ddysgleirdeb."

Y mae hyd yr ystafell, fel y nodwyd, oddeutu deuddeg llath, ac eto, y mae y llechau sydd yn ffurfio ei nen, yn cyrhaedd o'r naill ochr i'r llall, ac y maent wedi eu huno yn y fath fodd fel y mae yn anhawdd dirnad pa le y mae y cyswllt. Gad i ni droi heibio y gongl hon, a chawn weled rhyfeddod arall. Dyma ef; a welaist ti erioed y fath ben? Y mae ei wyneb yn lled hagr yn awr o herwydd ei henaint mawr; ond fel y dyneswn ato, y mae yn ymddangos yn brydferthach. Y mae y rhai hyn yn ddelwau anferth o anghenfilod—cyrrif anifeiliaid, a phenau dynol weithiau. Mae rhifedi mawr o honynt yn Thebes yn bresennol. Yr ydym yn gwelod fod y corff hwn i gyd wedi ei guddio gan ysbwrial a thywod; ond y mae y pen yn unig yn ugain troedfedd o uchder. Yr enw a roddir arno ydyw *Sphinx*.

Yn awr esgynwn i ben y pyramid. Nid ydyw yr esgynfa yn hawdd, gan fod y grisiau mor uchel y naill oddiar y llall. Ond ar ol ugain mynydd o lafur, dyma ein traed yn sangu ar ei gopa. Ac yn awr yr ydym yn dechreu dirnad ychydig am ei uchder anferthol. Edrych i lawr. Nid ydyw y ddau Arab acw sydd yn sefyll gyda y mulod yn ymddangos yn ddim mwy na thrychfilod. Dyna lawer o byramidiau eraill yn sefyll y naill goris y llall ar hyd ymyl y diffeithwch draw. A dacw feddrodau, feddyliem, yn goredwedd yn yr un cyfeiriad, yn rhifedi aneirif. Y mae diffeithwch mawr Lybia yn tafu ei donau chwyddedig o dywod bron at droed y pyramid. Ond yn mha le mae y ddinas sydd wedi talu teyrnged mor drom i frenin braw ag i ofyn y fath nifer anferth o feddau? Nis gwelwn yn yr holl gylchoedd hyn yn bresennol ond rhyw ddyrnaid o Arabiaid truenus, a'r rhai hyny yn byw yn y bythynod gwael acw. Ond cymerwn bwyll, ac atebwn i ni ein hunain. Yn union islaw i ni y mae y lle y safai Memphis arno. Yma yr oedd trigfanau, palasau, a themlau Noph yn daenedig. Yma yr oedd gorsedd Pharaoh, a'r carchar yn yr hwn y bu Joseph yn dihoeni, a'r llys yn yr hwn y bu yn deongli breuddwyd y brenin. Ac o'r man y safwn yr oedd rhywun yn ddiammheuol yn edrych ar Nebuchodonosor yn dwyn ei luoedd i fyny, ac yn eu trefnu o amgylch y ddinas. Ac nid oes yma yn awr i'w weled ond y tywod noeth. "Noph a fydd anghyfannedd, ac a ddyfethir heb breswylydd," medd y prophwyd Hebræaidd, pan oedd y fangre o danom yn cael ei gorchuddio gan un o'r dinasoedd cadarnaf a mwyaf blodeuog a fu erioed. "Yr Arglywydd sydd yn teyrnasu; cryned y bobloedd."

Y mae yn hen bryd i ni fyned i'n taith bellach, onidê ni chawn ddim amser yn Thebes; ond yr ydym eisoes yn teimlo yn flinedig; wedi dyfod o Alecsandria i fyny yma; ac y mae yr afon yna mor anhawdd i'w hesgyn yn erbyn y llif. Gan hyny, ni a eisteddwn ar y maen hwn, ar ben y pyramid, ac ymdrechwn roddi darluniad o'r hyn y bwriadem dy arwain i'w olwg. Dyma ni â'n gwynebaw tua'r dwyrain, a'r Nilus yn lifo yn ein golwg. Y gwrthdrys cyntaf o bwys, o weddill cywreinerwydd yr hen gelfyddydwy'r Aiphtaid, ydyw teml Dendera, yr hon a dery sylw y teithydd, ar ol llawer o ddiwrnodiau o fôrdeithio o fewn oddeutu milltir i lán yr afon, mewn lle hollol anial. Dyma ddarluniad o honi gan deithydd diweddar:—

"Pan yn dynesu at y deml orwych, y peth cyntaf a dynodd ein sylw, oedd *propylon* tŷs, yr hwn, er wedi anffurfio llawer, sydd eto yn gwasanaethu yn addurn priodol i'r deml brydferth hon. Ar ol pasio dan y *propylon*, ni a groessom y *dromos*, neu y ffordd sydd yn cysylltu y *propylon* â'r deml. Dyagwyliem weled adfail, ond beth oedd ein syndod, i weled teml berffaith yn mhob rhan; a'r addurniadau lleiaf mor *ffres* a phenewydd ddyfod o law y cerfedydd! Sylwasom mewn syndod mud a pherlewylgol, wrth ganfod prydfferthwch, gorpheniad, a thlysn gorchestol pob rhan o'r deml. Nid ydyw o faintioli anferth temlau Thebes; ond y mae yn rhagori ar bob un yn yr Aipht, yn lliceogrwydd a chyfoeth ei haddurniadau. Lled y deml ydyw cant a deugain o droedfeddi, a dau cant a thri gain a phump o hyd. Y mae y cyntedd yn cynnwys chwech o golofnau, penclymau ysgwar, y rhai, ynghyd â'u pedair ochr, sydd yn arddangos pen Isis wedi ei gerio yn brydferth. Y mae pen y dduwies wedi ei gwisgo & gwddfen (*shawl*), yr hon sydd yn croesi coryn y pen, ac yn diagyn yn blygiom tlysiion dros y clustiau. Y mae y colofnau yn bedwarochrog, a phob ochr yn orchuddiedig & cherfiadu o orpheniad gorchestol, o'r rhai y mae yn amhosibl rhoi drychfeddi. Yn uniawn uwch ben y fynedfa, y mae y gronell adeiniog (*winged globe*), arwyddtun tragwyddoldeb, ar bob tu i'r hon y mae yr hebogau cysegredig, yr eryrod, a'r fwluriaid gydag adenydd ar led. Y mae y pilladdurn (*frize*) wedi ei lenwi â rhifedi dirfawr o ffigyrau, yn arddangos Isis ac Osiris yn eistedd ar orseddau yn der-



byn parch ac addoliad gan orymdaith hir o ddarluniau, o fwy na deg ar hugain mewn rhifedi. Yn eu plith y mae offeiriad gyda choron-gapiau mawreddus, ac erfynwyr gyda dwylaw estynedig; eraill yn dwyn offrymau o'r *lotus*<sup>1</sup> cysegredig, &c. Y mae helaethrwydd yr arwyddiadau a'r ffugyrau, y rhai sydd yn wa-gareddig ar hyd wyneb y cyntedd, yn ddigon o syndod. Ar ol myned drwy y cyntedd, cawsom ein hunain mewn rhagystafell. Y mae hon yn cael ei harddu â phedair ar hugain o golofnau pedwarochrog. Y mae y nen, yr hon sydd yn cael ei rhanu gan dylathau mawrin o feini i saith o ddoesbarthiadau, wedi ei lliwio yn las; ac y mae wedi ei gorchuddio â g arwyddnodau seryddol a chyfriniol; hefyd â ser goreuredig, a nifer digyfrif o addurniadau, y rhai ydynt hefyd yn gorchuddio pob rhan o'r muriau, fel nad oes o'r braidd fodfedd o le gwag yn yr holl adeilad. Y mae muriau allanol y deml yn orchuddiedig â g arddangosiadau o ryfelgyrchoedd y duwiau, yn y rhai y dangosir Osiris yn fuddugoliaethwr ar eilynion gwrthryfelgar.

Treuliasom ddiwrnod yn chwilio y deml brydfeth yma, a gadawsom hi gyda gofid am nad allem hebgor chwaneu o amser. Cyfoethogrwydd a gorphenol addurniant, tlymi a pherffeithrwydd gwneuthuriad, yn y rhai y mae yr arlunydd, y cerfwr, a'r adeiladydd wedi gwneyd a dangos eithafon eu gallu, ydyw yr hyn sydd yn hawlio mawrygiad yr odrychudd yn Denderah."

Dyna i ti, ddarlleneydd, y fath lith y mae y deml hon yn ei roddi ar allu a medr y celfyddydwyr a'i gweithiasant, y rhai y mae angeu "wedi newidio eu gwyneb a'u danfon i ffordd" er's cynnifer o filoedd o fiwyddi. Tua deng milltir ar hugain yn uwch ar yr afon y mae brigau uchel colofnau teml fawreddog Luxor yn dyfod i'r golwg, ac y mae dyffryn yr anfarwol Thebes, y "boblog No," yn ymagor yn raddol o flaen llygaid yr odrychudd. Dyma brifddinas yr Aipht yn ei dyddiau boreuaf. Yr oedd yr hen ddinas yn dair milltir ar hugain o amgylchedd. Nid oedd dyffryn y Nilus yn ddigon äng i'w chynnwys, a gorphwysai ei minion ar odre mynyddoedd Arabia ac Affrica. Y mae yr holl ängle hwn gan mwyaf yn cael ei orchuddio â g adfeiliau; tra, goruwch y cyfan, mewn mawrhydi ac ardderchogrwydd ag sydd yn gwawdio pob ymdrech i'w darlunio, y mae gweddillion pedair o demlau yn sefyll; un o'r rhai hyn, sef teml Carnac, a ragora ar bob un o'r lleill mewn pwynt o faintioli a gwychder; a chytunir yn gyffredinol mai dyma y gorchestwaith adeilyddol penaf a wnaed erioed gan ddwyllaw dynol. Dywed Denon, yn ei hanes o'r ymgyroh Ffrancaidd i'r Aipht, i'r milwyr, pan ddaethant i olwg yr adfeilion hyn, yn ddisymwth dafu eu harfau i lawr, a sefyll mewn synfawrygiad. Y mae cyfrolau wedi eu hysgrifenu i ddarlunio yr adfeilion hyn; ond o blith y lliaws, nyini a osodwn o'th flaen ddarluniad Mr. Stephens o deml Carnac:—

"Ond mor fawr ac ardderchog ag oedd teml Luxor, ni waanaethai ond fel rhagborth i Carnac. Y mae yr holl ffordd iddi o Luxor, sef yn agos i ddwy filltir, yr gorwedd rhwng dwy res o *sphinxes*, pob un o un darn sylweddol o ithfaen. Yn y pen yma (sef yn ymyl Luxor), y maent wedi eu tori, a rhanau o honnynt wedi eu claddu o dan y tywod a'r ysbwrial. Ond pan yn nesáu at Carnac, y maent yn sefyll yn gyfan, llonydd, a difrifol, fel yr oeddynt pan y pasiai yr Aiphtiaid hynafol drwyddynt i addoli i deml fawr Ammon. Y mae y fynedfa hon o auflod yn cael ei therfynu gan bedwar *propylon* gorwyeh; ac ar ol myned trwy yr olaf, y mae yr olygfa a ymddengys yn gwatwar desgrifiad. Dywed Belzoni am adfeilion Thebes yn gyffredinol, ei fod ef yn teimlo fel pe buasai mewn dinas o gewri; ac nis gall un dyn edrych ar adfeilion ysplynydd Thebes heb deimlo ei hun yn cael ei ddarostwng gan fawrhydi pobl sydd wedi myned ymaith am byth. Y mae maes yr adfail yn filltir o dryfesu; a'r deml ei hun yn ddeuddeg can' troedfedd o hyd, a phedwar cant o led. Y mae iddi ddeuddeg o brif fynedfeydd, pob un o'r rhai sydd yn cael eu gwarchod gan ddwy res o gauflod, fel yr un a ddesgrifwyd uchod; a phyrth, *propylons*, ac adeiladau eraill, yn perthyn i bob un, y rhai ydynt eu hunain yn fwy na llawer o demlau eraill. Y mae y *propylon* sydd yn perthyn i'r fynedfa orllewinol yn bedwar can' troedfedd o hyd, a deugain troedfedd o drwch. Y mae ochrau rhai o honnynt yn gyfartal mewn maint i odrëon rhai o'r pyra-

<sup>1</sup> Lili y dwfr.

midiau, ac ar bob ochr i lawer y mae delwau anferthol, rhai yn eistedd, eraill yn syth, o ugain i ddeg troedfedd ar hugain o uchder. O flaen gwyneb y deml y mae nouadd ōng, gyda cholofnau ddirfawr o heb tu, o ddeg ar hugain o golofnau o hyd, a dwyres o golofnau deg troedfedd a dengain o uchder trwy y canol; yna yr ydym yn myned i mewn i gyntedd dirfawr, nen yr hwn sydd yn cael ei chynnal gan gant a phedair ar ddeg ar hugain o golofnau, o chwech ar hugain i bedair ar ddeg ar hugain o droedfeddi o amgylchedd.<sup>1</sup>

Yn y canol y mae y cysegr. Llys dirfawr ydyw, o gant a deg a thri-ugain wrth dri chant a naw ar hugain o droedfeddi. Y mae mwd yr ystafell hon yn gyfansoddedig o lechi dirfawr o ithfaen, wedi eu goeod ar draws, ac y mae fel teml Denderah wedi ei lliwio yn las, a'i phrydferthu â phentyrau o ser o liw yr aur. Y mae y muriau wedi eu gorchuddio â cherfwaith paentiedig priodol i'r bwriadau dirgelaidd i ba rai yr oedd yr ystafell wedi ei ohysegru. Y mae y muriau allanol wedi eu gorchuddio â cherfiadau arwyddluniol, fel nad oes dim un llecyn gwag. Minteioedd o ryfelwyr, brwydrau, dinasoedd yn cael eu gwarchae, cerbydau, gorymdeithiau crefyddol, &c., ydynt oll yn cael eu tyru ynghyd yn mhob dull. Y mae y tair teml arall o faint anferthol; ond y mae dirfawredd hon yn eu tafu i'r cysgod. Y mae pentref Arabaidd wedi cael ei adeiladu ar ben un o honynt, sef teml Edfon. Yr oeddynt yn cael eu cysylltu wrth eu gilydd gan rodfeydd mawrion, a llinellau o'r anghenflod (*sphinxes*) a chwaddelwau ar bob tu iddynt fel yn gwarchod yr addolwyr difrifol yn eu taith o'r naill i'r llall.

Onid y mae y cwbl yma yn awr yn ddystaw a llonydd er ys miloedd o flyneddau. Y mae pob aberth ac offrwm wedi peidio, a phob duw wedi ei newynu. Y mae yr holl gysegroedd yn agored, a'r eilun heb neb i'w warchod; y delwau cerfedig yn gorwedd yn y llwch—eu hunain fel yn crymu mewn addoliad o flaen y teithydd mwyaf gwammal! "Wele yr Arglwydd yn marchogaeth ar gwmwl ysgafn, ac efe a ddaw i'r Aipht; ac eilunod yr Aipht a gynhyrfant rhagddo ef. Pa fodd y dywedwch wrth Pharaon, Mab y doethion ydwyf fi? Mae hwynt? mae dy ddoethion? a mynegant i ti yr awr hon pa gynghor a gymerodd Arglwydd y lluoedd yn erbyn yr Aipht. Arglwydd y lluoedd, Duw Israel sydd yn dywedyd, Wele mi a ymwelaf â lliaws No; a gwnaf farnedigaethau yn No."

Onid braidd nad anghofiasom ein neges yn "nhir Ham," yn ein brwdfrydedd i erlyn y cysylltiadau sydd rhwng y gyfrol sanctaid a'r wlad. Ond at ein pwnc. Un peth arall ymhlith yr adfeilion hyn ag sydd yn arddangos medrusrwydd anhygoel yr Aiphtiaid hynafol yn y gwahanol gelfau, ydyw palas Sesostris. Mae y pyrth yn sefyll yn llydain agored; mae y gwarch-lu breninol wedi myned, a gall y teithydd fyned i mewn yn ddirwysr i ystafell y brenin. Ond er nad oes yno warchawdlu byw, y mae llinellau o bob tu i'r fynedfa o safddelwau cawraidd, gyda breichiau ymhleth, yn edrych yn dawel a digyffro arno wrth basio. Y mae prydfwrthwch a chyweinrwydd yn pelydru o nen a mur. Arwyddion y sidydd, cronellau a ser, ac arwyddluniau o frwydrau Sesostris, a gyferfydd â'r sylw o bob cyfeiriad. Ar y mur gogleddol y mae llun Sesostris ei hun. Y mae ef yn cael ei gysgodi gan gangau pren y bywyd, a gwelir y duwiau yn ysgrifenu ei enw ar ei ddail.<sup>2</sup> Nyni a ddyfynwn y darn canlynol eto o waith awdur campus, ac yna ni a rown ffarwel i ti ac i'r Aipht:—

<sup>1</sup> "Incidents of Travel:" oyf i., tudal. 163—165.

<sup>2</sup> Gwel "Wylie's Journey:" tudal. 76.

“Yr oedd Thebes yn cael ei dyfthau gan y Nilus rywbeth yn debyg i Babilon gan yr Euphrates; gan hyny, y mae adfeillion y ddinas i'w gwelod ar du y gorllewin i'r afon, yn gystal ag yma o du y dwyrain. Boed i ni fyned dros y ffrwd, a threulio yehydig fynydau yn eu harolygu. Wele yma hefyd adfeillion temlau. Yma y mae delw hyglod Memnon, yr hon y dywedid ei bod yn yngan seiniau pererol ar godiad yr haul, y rhai a gynyddent yn raddol o swm isel, aneglur, hyd nes y deuent yn swm uchel a soniarus udgorn. Yma mae delwau cawraidd, a geuflod yn ddirif, ac yn hannergladdedig yn y tywod ag y mae oesoedd wedi ei gasglu o'u cwmpas. Y maent wedi gwelod canedlsethau yn codi ac yn gwywo ar wastadeddau yr Aipht; gwelsant deyrnachau (*dymas-ties*) yn soddi wrth eu traed; bu dydd gogoniant yn llewyrchu arnynt, ond yn awr y mae nos adfeiliaeth yn tywyllu o'u hamgylch: eto hwy a arosant yma i gyfarch, gyda'r unrhyw edrychiad o fawredd sarug, y taithydd a ddaw o wlad bell i dremio arnynt; ac yma yr arosant yn ddiammheuol hyd ddiwedd amser, gan wasgar gogoniant tywyll dros y dyffrynoedd hyn—nid yw gwawr ysplender y dydd gogoneddus a aeth heibio byth i ddychwel mwy.”

Rhodddwn yn anghraifft eto o'r anferthwch a hynoda feddyddrychau yr hen Aiphtiaid. O du y gorllewin i'r afon, mewn teml adfeilledig, y mae delw ar ei gorwedd ar y llawr, wedi ei gwneuthur o un darn cyfan o gareg. Y mae bys bach y troed yn dair troedfedd o hyd, a'r troed ei hun yn ddwy droedfedd ar bymtheg ar ei draws: y mae y lled rhwng yr ysgwyddau yn chwe' troedfedd ar hugain; yr hyd, o'r ysgwydd i'r penelin, yn dair ar ddeg o droedfeddi a chwe' modfedd: ac y mae y cylchfesur o gwmpas y ddwyfron oddeutu triugain troedfedd. Y mae ei chymyredd, a chŷn-weithiad rhagorol ei haelodau, yn crëu syndod fel cynnyrech celfyddyd; ond y rhyfeddod fwyaf ydyw, pa fodd yn y byd y trosglwyddwyd y fath swm dirfawr o gareg i'r gwastadedd hwn o'i lle dechreuol yn nghloddfeydd disgyniadau y Nilus. Ni a ddywedwn eto, fel yr awgrymasom o'r blaen, fod y grym a gasglodd ac a gododd feini mawrion y pyramidiau yma—hwn sydd dan ein traed, a'r rhai yma sydd yn estyn draw yn llinell—ac a orchuddiodd yr Aipht ag *obelisks* wedi eu tori o gloddfeydd Syena, ac hefyd a ddyrchafodd i fyny adeiliau anferthol Carnac—y mae y gallu hwn, meddwn, yn rhywbeth pur rhyfedd, ac yn rhagori ar rym peiriannau yr oesau diweddar. Dywed Herodotus, mai eu cludo ar gludeiriau yn amser gorllifad yr afon y byddid: ond nid oes arnom hwyl yn y byd i gymeryd hyn yn eglurhad ar y dirgelwch; canys pa fodd y dygid y dwfr i fyny i'r cloddfeydd i ddechreu? Yn bendifaddeu, oni buasai fod y Beibl ar un llaw, a'u cyrff cyfieithiedig hwythau ar y llaw arall, buasai gweithredoedd y bobl hyn yn ein rhwymo i greu eu bod yn perthynu i hil o gewri mewn corff a meddwl hollol annhebyg i ni, ddyniadon yr oesau yma.

Mae y darluniadau a roddasom o'th flaen eisoes o fawredd a doethineb y genedl hynafol hon yn ddiagonol i roddi i ti ddrychfeddwl egwan ac “holl ddoethineb yr Aiphtiaid.” Mae yma wers yn cael ei dysgu, a buasem yn rhoddi lliith hir i ti rywdro ar y pen, oni bai yr ofn clywed y floedd, “Gormod o Aiphtyddiaeth” yn cael ei dadgan genyt; hyny yw, mor wahanol oeddynt mewn crefydd i'r hyn oeddynt mewn celfyddyd. Tra yr oedd hi yn ddydd goleu ar gelfyddyd, yr oedd yn nos dywell ar grefydd! “Y mae y galon yn fwy ei thwyll na dim.” Ond dyma ni yn cymeryd ein cenad. Gofala rhag penyagafnder wrth ddyfod i lawr o'r pyramid.

## TAITH I'R GOGLEDD.

Er ys pymtheg ac ugain mlynedd yn ol, yr oedd y *North* yn air cysegredig i'n meddwl plentynnaidd. Yr oedd y meddwl oedd genym am y lle yn debyg i'r meddwl oedd genym am y nefoedd,—fod pobpeth a ddeuai oddiyno yn bur ac yn berffaith. Llyfr o'r *North*—dyn o'r *North*—ac yn enwedig pregethwr o'r *North*; ystyriem ef fel oracl anffaeledig, neu angel o'r nefoedd. Wedi i ni dyfu i fyny ychydig, a dechreu holi, cawsom ar ddeall mai daearolion yw preswylwyr y *North*, a'u bod yn byw yn myd yr amherffeithderau, ac yn meddu ar ffaeiddau, fel ninnau yn y *Dé*. Ond er y cwbl, rywfodd, teimlem yn anhawdd o hyd i ddarostwng y *North* yn ein meddwl yn gydradd â lleoedd eraill. Rhyw bethau dwfn iawn yw yr argraffiadau cyntaf ar feddwl tyner plentyn.

Er ys ychydig fisoedd yn ol, yn un peth er mwyn lles ein hiechyd, *aethom* (rhaid i'r *myfi* ymgolli yn ngogoniant y *nymi* yn ffurfafen y "Traethodydd;" a digon da yw cael lle i gollu y myfiaeth weithiau) gyda chyfaill gweddol gyfarwydd â'r lle ar daith trwy ranau o'r wlad y clywsom ac y meddylasom gymaint am dani; ac ni chawsom achos i edifarhau oblegid yr anturiaeth. Cawsom les corff a meddwl. Dygwyd ni i gydnabyddiaeth â chyfeillion hoff; a chawsom olygfeydd ar ryfeddodau a phrydfertwch natur, oeddynt yn fwy gwerthfawr na miloedd o aur ac arian.

Yn awr, ddarllenwyd hoff, os cyduni â ni, eistedd i lawr, dod un glun dros y llall, a rho bwys dy benelin ar fraich y gader, a gollwng dy feddwl yn rhydd i ddyfod gyda ni trwy rai o'r prif leoedd y buom ynddynt, a chymerwn ninnau ein bys a'n tafod i gyfeirio at, ac i adrodd, y pethau rhyfeddaf a welsom, ac a glywsom. Gan fod genym lawn bedwar cant o filltiroedd i'w teithio, yr ydym yn addaw myned fwy na chàn' milltir yr awr yn gyflymach na'r *express*; ac yna ni byddwn yn hir cyn dychwelyd.

Cymerasom ein taith trwy gŵr uchaf sir Gaerfyrddin. Lletyasom noson yn Llanymddyfri. Y prif bethau a dynasant ein sylw yno oedd tŷ yr hen Ficer, yr ysgoldy newydd dan arolygiad yr Archddiacon Williams, a mynwent Llanfair-ar-y-bryn, sydd yn yr ymyl. Buom yno am awr yn pwysu ar geryg beddau yr enwogion o Bant-y-celyn, yn darllen yr ysgrifen oedd arnynt, ac yn canu beddargraff "Theo." iddo ei hun,—

"Heb saeth, heb fraw, heb ofn, heb ofid, a heb boen,  
Mae'n canu o flaen yr orsedd, ogoniant Duw a'r Oen,  
Y'nghanol myrdd myrddiynau, yn canu oll heb drai,  
Yr anthem ydyw cariad, a chariad i barhau"—

ac yn gollwng ein dagrau uwch ben eu llwch cysegredig. Y mae Llanymddyfri yn gorwedd mewn lle hyfryd, a golygfeydd prydfertth o'i chwmpas.

Dranoeth gadawsom y sir hon, croesasom afon Teifi, a daethom i Llanbedr. Nid oedd ynom yr un blys, wrth ymadael â'r lle hwn, i amhheu yr hyn a ddywedodd un o ysgrifenywyr darluniol y "Traethodydd" am dani; sef, mai "dau beth a enwogant y dreflan fudr a elwir ar yr enw hir Llanbedr-pont-Stephan—ei choleg a'i cheisbwliaid." Cymerasom ein llwybr trwy Landdewibrefi, Tregaron, a Llangeitho. Yn y lle olaf, gorphwyaasom nos Sadwrn. A chawsom yr hyfrydwech, ar foreu Sabboth heulog, i weled

yr holl gannoedd pobl yn dylifo tua hen gapel mawr Llangeitho, o bob cyfeiriad. Nid rhaid dyweyd fod yr olygfa yn galw lliaws o adgofion i'r wyneb yn y meddwl am yr hen amser gynt,

“Pan chwythai Daniel yn yr udgorn,  
Gloew udgorn Sinai fryn,  
Nes i'r creigydd cedyrn grynu  
Wrth yr adsain nerthol hyn.”

Wedi myned i mewn, a gweled y lle wedi ei orlenwi, dychymygem

“Weled Daniel yn pregethu  
Yn y tarth, y mwg, a'r tân;  
Mil ar unwaith yn molianu  
Haleliwia yn y gân.”

Wrth fyned heibio i gapel bychan adfeiliedig Llwynpiod, tarawodd ar y meddwl yn ffres brofiad yr hen “genius” Theo. Jones, pan ofynai un o'i frodyr iddo mewn cymdeithasfa am ddyweyd gair o'i brofiad yn ei gysylltiad â'r weinidogaeth, “Oh, oh, ie, druan,” meddai yntau, yn ei ddull swta, cwynfanus—“ie 'mbrofiad—rwy'n 'studio ac yn 'studio, yn 'studio ac yn 'studio, nes wy' bron moidro 'menydd yn 'y 'mhen, i geisio cael tipyn o bregeth; ac wedi ei chael, mi af i Lwynpiod i'w phregethu, ac mi gaf *stollt* am hyny.”

Aethom rhagom trwy Ledrod, Llanilar, ac i Aberystwyth. Yma cyfarfuasom â chyfeillion hynaws a charedig. Cofiw'n dro hir am yr ystoriau digrif a diniwed a adroddai un o honynt i godi ysbrydoedd llwfr y teithwyr druan, oedd â'u oefnau ar eu cartref anwyl a hoff. Cawsom yr hyfrydwch o dreulio Sabboth gyda hwy wrth ddychwelyd, ac adrodd tipyn o hanes ein taith. Mewn lle a elwir y Borth, wyth milltir i'r gogledd o Aberystwyth, cloffodd ein cefyl, a gorfu i ni ei adael ar ol, a rhoddodd Mr. L. E—— o L——r fenthyg un i ni, a chadwodd *Jack* nes i ni ddychwelyd, pryd y cawsom ef yn gwbl iach, ac yn prancio mewn bywiogrwydd. Derbyniad Mr. E—— fil o ddiolohiadau yn ychwaneg am ei garedigrwydd.

Wrth ddilyn y brif-ffordd o Aberystwyth i Fachynlleth, aethom trwy Daliesyn, pentref bychan ar gŵr uchaf sir Aberteifi; gelwid ef felly oddiwrth enw yr hen fardd fu yn byw yno er's mwy na deuddeg cant o flyneddau yn ol, “meddai nhw.” Pan yn gyru ymlaen ar hyd ffordd gysgodol, trwy odrau coedwig o hen dderw Cymreig, ar hyd lan afon Dyfi, a hen dwmpathau duon danneddog sir Feirionydd y tudraw i'r afon ar ein haswy, dywedodd ein cyfaill, “A weloch chwi y bont yna o'n blaen, sydd yn croesi'r nant? Pan elom dros hona, byddwn yn y Gogledd.” Gyda y gair, teimlai yr ysgrifenydd ei ysbryd yn ymfywiogi—ei waed yn cyflymu—a'i galon yn curo—diagynodd o'r *gig*—cymerodd ei het yn ei law—a rhoddodd ei draed ar dir y Gogledd, yn wylaidd a gostyngedig. Yn mhen awr, yr oeddym wedi cyrhaedd Machynlleth. Y mae y dref hon yn gorwedd ar gŵr isaf sir Drefaldwyn. Dygwyddodd i'n coelbren syrthio mewn llety tra chysurus yno, gyda Mr. J——, yr hyn beth sydd yn dra melus i deithwyr. Gan fod yno gyfarfod pregethu blyneddol yn dygwydd bod ar y pryd, cawsom yr hyfrydwch o gyfarfod â lliaws o gyfeillion yno, a sirioldeb mawr yn eu mysg. Adroddwn i chwi un dygwyddiad a barodd i ni gryn gymhorth i chwerthin, er nad oedd ond distadl iawn. Yr oedd cryn wyth neu ddeg o bregethwyr parchus yn dygwydd bod yn y tŷ gyda ni: pan ddaeth un arall i fewn, yr hwn oedd adnabyddus â morwyn y tŷ

—“Sut rydach chi, Mari?” gofynai gyda llais uchel, gan ymaflyd yn ei llaw. “*Right sharp,*” oedd ei hateb, gan ofyn yn ol—“Ytach chi *right sharp,* J. W.?” “Ydw i cyn sharped a gallwy, Mari,” meddai yntau, gyda'r fath don Ogleddol. Teinllasso y cyfarchiad mor ddyeithr a hynod, nes iddo roddi gwefriad dychrynllyd i'n peiriannau chwerrthin, ac nid ydym eto wedi llwyr gollu ei ddylanwad.

Ymadawsom oddiyma am Ddolgellau, taith o bedair milltir ar ddeg. Yr oedd ein ffordd ar y cyntaf trwy gwm go ddwfn, ar hyd gwaelod yr hwn, o dan ein deheulaw, yr oedd afon loew yn rhedeg yn drystiog, gan deithio yn wrthwyneb i ni. Yma cawsom olygfeydd prydfferth dros ben. Byddai llethrau sythion y glyn ar bob llaw i ni, weithiau yn foel a llyfn, bryd arall yn arw a cherygog; ond y rhan fwyaf, wedi eu gwisgo yn brydfferth a derw mân. Yr oeddwn yn aml yn ofni cael ein ffordd wedi ei chaw i fyny rhwng y bryniau. Byddai ambell i dalp o fryn wedi eistedd i lawr yn sopyn mewn lle cul, ac yn ein bwgwth, “Hyd yma yr ewch, ac nid ymhellach.” Ond erbyn myned hyd ato, gwasgai dipyn ar ei glun, megys, a gollyngai ni yn ddystaw i fyned heibio. Cyrhaeddasom cyn hir weithfa llechau; Corris y galwodd fy nghyfaill enw y lle. Yma, codasom i fyny ar ein haswy, a gadawsom y glyn hwn; ac wedi croesi ychydig o wastadedd corsog a diffwrth, gollyngai y ffordd ni i waered dros riw serth i gwm dyfnach o lawer nag o'r blaen. Yn fuan daethom at dafarn, yn ymyl y ffordd, ac yr oedd yn baentiedig ar y sign—“*A safe guide to the sublime mountain, Cader Idris.*” Yma galwasom am ddogu o geirch i'r oeffyl. Ac am nad yw dirwestwyr yn hoff iawn o fyned i dafarn dai, dringasom i ben twmpath oedd yn yr ymyl, i gael trem ar y rhyfeddodau a'n cylohynent. Gofynai fy nghyfaill i mi—“A welwch chi y tŷ acw sydd yn nghysgod troed y Gader, ac ambell goeden frigog o'i amgylch? Dacw y fan lle y bu farw y Dr. W. O. Pugh (*Idrison*).” Nid oedd amser i fyned hyd ato, er nad oedd nebrell oddiwrthym.

Dyma ni eto yn cychwyn: y mae ein hwynebau tua'r gogledd, neu dipyn yn uwch. Yr oedd ein ffordd wedi ei thori trwy ddannedd craig, yr hon oedd yn ymgodi ar ein deheulaw i uchder dychrynllyd; byddai ambell ddarn anferthol yn hongian uwch ein penau, a'r olwg ar y cyfryw yn arswydol. Ar ein haswy, yn ein hymyl, yr oedd Cader Idris, fel pe buasai yn edrych mewn syndod ar glogwyni hongiedig y graig arddunol yr oeddem ni yn teithio yn araf dros ei chesail. Ni chafodd yr olygfa erioed y fath ddylanwad arnom. Methem yn lân aros yn y cerbyd; ond cerddem yn araf deg, a'n hetiau yn ein dwylaw, a'n calon yn berwi gan gynnysgdeimladau o arswyd, syndod, a llawenydd. Yr oedd ein henidiau yn orohfygedig. Yr oeddem mewn syndod at fawredd Duw, ac yn teimlo yn hawdd iawn ei addoli. Clywem lais yn dyfod o ben y clogwyni, ac o geudod yr agenau, ac yn sibrwd yn ein clustiau.—“Pwy a greodd y rhai hyn?”—

“Rocks are the alphabet,  
Mountains the syllables,  
Storms, floods, and thunders, the words of thy book;  
Thy page is before us,  
Thy Spirit is o'er us;  
We read *Thee, Almighty*, wherever we look.

Spirit of Mightiness!  
Mountains can speak of Thee,

Show Thee in love and in power still our God,  
 For, in the wide wilderness,  
 The mountains gushed tenderness,  
 And the water rush'd forth at the *Lawgiver's* rod."

Yn mhen awr, yr oeddym wedi cyrhaedd Dolgellau, yr ochr arall i Gader Idris. Hir y cofiwn garedigrwydd Mr. W. a'i briod dyner, a Ffani, eu morwyn ffyddlawn; bendith a'u dilyno. Pe buasai genym amser, ddarllenwydd, buasai yn hyfryd i ni eistedd hanner awr yn eu cyfeillach; a chael awr arall i ddeagrifo y golygfeydd hynod, y twmpathau anwastad, y creigiau hyll, y moelydd prydfferth, y mynyddoedd uchel, yr afonydd trystiog, a'r nentydd grisialaidd, a welsom wrth goeadi dros Drawsfyonydd, Maentwrog, ac yn enwedig drwy y Beddgelert *Pass*, pan oeddym yn gadael Meirionydd, ac yn myned i sir Gaernarfon. Pan oeddym yn nesu at y *Pass* yma, tybiem ni ein bod yn myned yn erbyn y pared yn lân; ac awgrymem wrth ein cyfaill fod yn well troi i geisio rhyw ffordd arall. Arweiniodd y ffordd ni i'r coed oedd yn ngwaelod y creigiau uchel—clywem drwst dyfroedd—a gwelwm dollborth wrth droed y graig; ac yn wir, yr oeddym yn foddolawn iawn i dalu, ond cael ffordd. Yr oedd yno ar y pryd amryw ymwelwyr dyeithr. Safasom i edrych o'n cwmpas; nis gallem weled fawr o ffordd yn ol nac ymlaen. Nid oedd y *Pass* ond cul iawn; yr oedd y ddwy graig uchel, sythion, a phrydfferth, yn ymgodi ar bob llaw—y geifr amryliw i'w gweled rhwng eu dannedd rhyngom a'r wybren—ambell i ffynnidwydden brydfferth yn ymsaethu yn falch oddi rhwng y ceryg—a'r afon drystiog yn murmur wrth ein traed, yn ddigon i beri i enaid anghofio ei hunan. Tybiem ni, pe gallesid gwthio y ddwy graig ychydig latheni at eu gilydd, y buasent yn myned i mewn, y naill i'r llall, fel nad allai neb ddeall fod yno raniad yn bod. Gelwir y lle hwnw yn dra phriodol, "Cymwynnau."

Cawsom dreulio y Sabboth yn ymyl Bedd Gelert; a gwelsom fedd yr hen gi druan, a laddwyd mewn amryfusedd am ei ffyddlondeb, yr "hen amser gynt." Y mae caud o'i amgylch, a miloedd yn ymweled âg ef bob blwyddyn. Yn y lle hwn, cawsom gyfeillach ddifyr â'r hen batriarch a aeth at Arglwydd John Russell, ychydig o ddyddiau wed'yn, i ofyn ei ewylllys da at yr ysgoldy Brytanaidd yn y gymydogoeth; ac wedi derbyn pum punt, a roddodd iddo bâr o hosanau du y ddafad i'w gwiago yn y "*palmets*," gan ddyweyd yn ei Seisneg Crymroaidd a gwladaidd, "*It will be very warm in the winter, my Lord.*"

Ond dere, ddarllenwydd anwyl, rhaid i ni ei adael. Y mae yn awr yn foreu ddydd Llun; ac os wyt am ein dilyn, rhaid i ti dasfu dy *gôt*, a chymeryd dy ffon yn dy law, waith yr ydym yn myned i ben yr Wyddfa. Pallodd ein cyfaill a dyfod; yr oedd ei ffydd yn rhy wan; ond cawsom ni arweinydd cyfarwydd a ffyddlawn; a bu yn dda i ni fod ynddo ef dipyn o nerth. Aethom i fyny o'r tu gorllewin iddi; a buom agos dair awr yn ymgorio ar hyd lwybr cul, serth, a cherygog iawn, cyn cyrhaedd y pen. Pan yn agoshau at ei phen uchaf—yn myned dros ei hysgwydd at ei gwddf, megys, yr oedd genym drum cul i fyned ar hyd-ddo am ychydig o gannoedd o latheni. Yn y lleoedd culaf, nid oedd fawr gyda llathen o led; ac yr oedd y dyfnder ar bob llaw yn arswydus. Safai fy arweinydd ar y canol, â chareg yn mhob llaw; gollyngai hwynt, a dywedai, eu bod yn

myned ddwy filltir oddiwrth eu gilydd cyn sefyll. Dyma fy mhrofiad wrth fyned drosto :—

“ Cal yw'r llwybr i mi gerdded,  
Is fy llaw mae dyfnder mawr ;  
Arnaf ofon yn fy nghalon  
Rhag i'm troed i lithro i lawr.”

Ond o'r diwedd, cyrhaeddasom ei phen. Yr oedd yno ychydig o le gwastad, a dau gaban cryno ; a dyn yn gofalu am danynt, â phob cyfleusrâ ganddo i ymgeleddu teithwyr. Yr oedd yno oddeutu dwsin o ddyeithriad ar y pryd. Wedi i ni eistedd i lawr a chwythu ychydig, ac yfed cwpanaid o goffi, safasom ar ben y pinael uchaf, ac edrychasom o'n cwmpas—ac O ! olygfeydd i'w cofio byth. Nis gallwn lai na meddwl am Moses ar ben Pisga, a'r holl wlad eang yn ymagor o'i flaen. Yr oedd y fath amrywiaeth aneirif yn y golygfeydd ! Gwelem dalpiau mawrion o fynyddoedd moelion, creigiau a phob twmpathau, fel pe buasant wedi eu tafu yno o bwmpas i fod yn annyben.

“ Uwch y gwaelodion iach a goludawg,  
Wela'r bryniau a'r creigiau cerygawg,  
Echrys ac uthrol ochrau yagythrawg,  
A manau crebach a meini cribawg,  
Gar parthoedd ardaloedd deiliawg—cymoedd,  
Mawrion fynyddoedd galltoedd gwelltawg.”

Gwelem ddyffrynoedd bychain, breision, a theg, ac arnynt y

“ Gweithwyr, pladurwyr dewrion—'n y meusydd,  
Yn ymosod weithion ;  
Bagad ynt mewn bywiog dôn  
Acw 'n tori cawd tirion.

O'u hol rhês o lancesau—tra heinif  
Yn trin y gwanafau,

•

Gwyneb y wlad gan y blodau—yn gwenu  
Mewn gogonawli llwiau.”

Yr oedd y llynau aml a llawn, o bob maintioli—rhai yn uwch a rhai yn is na'u gilydd—yn dysgleirio dan belydr yr haul, ac yn ymddangos fel pe buasant balmant o wydr gloew. Canfyddem afonydd bychain yn mainymddolenu yn y dyfnder odditanom ; a'r mêr mawr llydan gerllaw yn dygyfor, a'r

“ Cwmwl 'amgylch iddo 'n bais :  
A'r tew niwl yn rhwymyn tyner  
Am ei wasg, heb unrhyw drais.”

Buan yr anghofiasom ein lludded, ac y meddiannwyd ni gan syndod a llawenydd. Safem â'n hwynebau tua'r gogledd, ac yr oedd mynyddoedd yr Alban yn ymddangos yn “dir pell” o'n blaen. Ychydig ar ein haswy, yn ysmotyn mawr du, yn nghanol y môr, gwelem yr Iwerddon—rhyngom a hi yr oedd sir Fôn yn gorwedd ; a rhyngom a sir Fôn yr oedd Caernarfon, â'i chastell mawr, yn aros. Ychydig yn uwch i fyny yr oedd Bangor. Ar ein deheulaw, yr oedd Llanllechid, Bethesda, Dinorwig, a Llanberis, â'u chwarelau clodfawr. “A welwch chwi y tŷ acw,” meddai fy arweinydd, “ar gyfer eich aswy law, dros y fan y mae eich cyfaill yn eich aros? Dacw dŷ y Paroh. John Jones, Talsarnu ; ac ychydig yn is, y mae y Bardd Eben yn byw.” Yr oedd Tre a Phorth Madoc y tu cefn i ni. Y fath foddhad i



feddwl yw cael un drem oddiar ben yr Wyddfa! Wrth edrych o amgylch, yr oedd yn taro i'n cof, pan yn blentyn, y byddai ein tad yn ein codi ar ei ysgwydd, i ddangos i ni ryfeddodau. Yr oeddem ni mor fychain, a phenau pawb ar y ffordd i ni weled; ond ar ysgwydd ein tad, yr oeddem yn uwch na'r uchaf ei ben. Ond yn wir, y mae yr Wyddfa yn uwch nag yntau. Pan gododd hi ni ar ei hysgwydd, aeth gwadn ein troed yn uwch na phenau y mynyddoedd oll. Ddarllenwydd! y mae yn werth i ti fyned o'r man yr wyt ti, tuag yno bob cam, yn llythyrenol, er mwyn cael yr un gymwynas ganddi. Cyn disgyn, cydunodd ein arweinydd â ni, i ganu y "Cyfammod Disigl," a chawsom hwyl arno—gorfu i ni ddyblu y pennill hwnw:—

"Ti 'r Aran a'r Wyddfa gyrrhaeddafwr,  
Chwi neidiwch yn awr hyd y ne'," &c.

Yr oeddem wedi syllu ar ei rhyfeddodau, nes oedd llinellau Coleridge yn deimlad byw yn ein calon:—

"O dread and silent mount! I gazed upon thee  
Till thou, still present to the bodily sense,  
Didst vanish from my thought: entranced in prayer—  
I worshipped the Invisible alone."

Disgynasom oddiyno wedi ein llwyr foddhau, â'r gair hwnw yn sibrdw yn ein meddwl, "Y ddaear yw troedfaen fy nhraed." Er ei holl fawredd, ei gogoniant, a'i golygfeydd ysplenydd—dim ond *footstool* i wadnau ei draed Ef! Rhaid ei fod Ef yn un mawr, a rhaid fod prydferthwch golygfeydd y nefoedd tuhwnt i bob amgylfred.

Wedi dychwelyd at ein cyfaill, a chael cwpanaid o dê, cychwynasom i'n taith; a dranoeth, cyrrhaeddasom dref Caernarfon. Dygwyddodd yn ffodus fod yno gymdeithasfa ar y pryd; a chymanfa ryfeddol o liosog ydoedd. Bernid fod yno bum mil ar hugain o dyrfa. Teimlid mwy nag arfer o ddyddordeb ynddi, am fod Dr. Duff, cenadwr o'r India, yno. Clywsom ef yn pregethu ac yn areithio, a chawsom ein boddhau yn fawr. Dyn main teneu, cyffredin o dal ydyw—ei wallt yr un lliw a blew llygoden, ac yn sefyll yn syth, fel gwisg draenog—ei wynebpryd wedi ei felynu gan wres yr haul am ugain mlynedd yn yr India—pen go fychan, talcen isel, llawn—llygaid bychain, llwydlas, craff, a difrifol—ei wyneb yn deneu, esgyrn ei ruddiau yn uchel—ei drwyn yn Gymröaidd, a'i enau yn daclus. Yr oedd yn gwisgo fel rhyw bregethwr cyffredin, ei *umbrella* bob amser yn ei law, ac yn cerdded yn gyflym. Y mae yn Galfinaidd ei farn, yn danllyd ei ysbryd, yn gweled cenadiaeth yn mhob adnod o'r Beibl, ac yn credu y cwbl y mae yn ei ddyweyd. Ymadawsom â'r dref hon mewn teimladau cysurus; a'n heneidiau wedi cael gwledd ar ddanteithion yr efengyl.

Wedi i ni deithio ymlaen chwe' milltir gyda glan Menai, daethom at y bont uchel, gywrain, a phrydferth hono sydd yn cydio Môn a Chaernarfon â'u gilydd.

"Oesol adail seiliedig—ar waelod  
Yr heli chwyddedig;  
Niweidio ei mur unedig  
Nid all y don a'i dull dig.

Er dull dig rhaidr hallt eigion—ni syff  
Nes syffo ERYNION!  
Ac o'i ffurfio caiff ARFON  
Bont tra mŷg i BEN TŷA MON."

Ond er cywrsinied a phrydferthed yw y bont hon, y mae y bont newydd sydd wedi ei chodi dri chwarter milltir yn nes i Gaernarfon, wedi ei thafu i'r cysgod—y *Britannia Bridge* ydym yn ei feddwl, yr hon sydd yn un o brif ryfeddodau y byd. A welaist ti hi, ddarllenlydd? Os naddo, cymer y deagrifiad yma o honi, hyd nes y gwelot hi. Dau *dube*, neu ddau gafn oeuol mawr, ysgwâr ydyw, yn gorwedd ochr yn ochr ar draws Menai. Yr oedd pob *tube* yn bedwar darn pan godwyd i'w lle; ond yn awr wedi eu hasio yn un. Cynnelir hwy gan golofnau mawrion, wedi eu gweithio o geryg anferth eu maintioli, un yn mhob pen, a thair yn yr afon: y mae un o'r tair yn sefyll ar ganol yr afon, ac felly gall llongau fyned o bob tu iddi. Yr oedd pob un o'r pedwar *tube* canol, y rhai sydd yn sefyll rhwng y tair colofn yma, yn mesur pedwar cant a deuddeg a thriugain (472) o droedfeddi o hyd; a phob un yn pwyso deunaw cant (1800) o dunelli. Y mae y ddau *dube* sydd yn mhob pen yn fyrach na'r rhai canol: mesur un o'r rhai hyny oedd dau gant a deg ar hugain (230) o droedfeddi, a'i bwysau yn saith gant (700) o dunelli. Pwysa yr wyth *tube*, sef y bont oll ddeng mil (10,000), o, dunelli. Uehder y bont oddiwrth y dwfr, ar drai, yw cant ag un ar hugain a hanner (121½) o droedfeddi—ar lanw, cant (100). Y mae oddeutu lathen rhwng y ddau *dube* a'u gilydd. Cofia di, mai ffordd i'r gerbydres yn unig yw'r bont hon: y mae y gledrffordd yn rhedeg trwy y *tubes*; a'r gerbydres yn myned i fyny o Gaergybi i Loegr, trwy y naill, ac yn dychwelyd trwy y llall. Cawsom ganiatâd yr heddegeidwad i fyned ar ein traed trwyddi; ac y mae rhyddid i'r neb a fyno i ddringo i gefn y *tubes*. Buom yno am hanner awr; ac er i ni neidio yn drwsli arnynt, nid oeddent yn plygu dim! Cerddasom drosti o ben bwy gilydd, a mwynhaem

“Y dyner awel denau—â'i iach sawr,  
Goruwch seirian lwybrau.”

Y mae llun dau lew yn mhob pen i'r bont, yn sefyll bob ochr i'r ffordd, wedi eu naddu o geryg mawrion. Mesura pob un o honynt bum troedfedd ar hugain a phum modfedd o hyd; a deuddeg troedfedd ac wyth modfedd o uchder; a phwysa bob un o honynt bedwar ugain tunell. Y mae golwg fawreddig dros ben arnynt. Y mae golwg arnynt o bell yn dychrynu y fynwes; ac ni fedr neb ond y “gwystwil gwyllt” fyned heibio iddynt yn ddiöfn.

Am sir Fon, y mae hi yn wlad go wastad, ac amaethyddol; ei thir, gan mwyaf, yn wrteithiedig: rhywbeth yn debyg ydyw i sir Benfro. Ni welsom ond dau fynydd ynddi, a'r rhei'ny yn bethau go fychain. Tybiem ni fod Ymaëllduazeth ar dir uchel yn y sir hon—y ferech wedi curo yr “hen fam” o ddigon. Gwelem yno gapelau gwychion, lluniaidd, a llawnion; a gerllaw iddynt rhyw dyleiau bychain o Eglwysi, yn crynu dan bwys henaint, a'r hirwellt bras a'r daanadl yn eu hanner guddio; a rhyw lwybr cul ac an-sathredig yn arwain i mewn. Ac er lleied oeddent, dywedid wrthym ni eu bod yn ormod i ateb y gwrandawyr yn mhob cymydogaeath. Yr oedd yn hawdd deall fod gan yr efengyl gryn ddylanwad ar y sir. Y mae y wlad yn gryno yn dyfod i wrandaw; ac y maent yn haeddu canmoliaeth am eu prydlondeb yn moddion gras. Cawsom y cyfeillion yma yn garedig tuhwnt i ddeagrifiad. Hir y siaradwn am y Borth, y Fron goch, Amiwch, y Fron, a Llys y llew, &c. Wedi dychwelyd o honom dros Bont Menai, yr oeddem yn gorfod troi ein hwynebau yn ol; a themlem hiraeth yn ein calon i ymadael â chynnyfer o gyfeillion.

Rhaid i ni adael ar ol y pethau a welson yn Mangor, yr hyfrydwch a gawsom gyda 'r plant yn y *British School, &c.*, rhyfeddodau Llanllechid, Bethesda, a Dinorwig, â'u chwarelau mawrion. Wyddost ti, ddarllenydd, pa fodd y maent yn gwneyd *slates*? Y maent yn dyfod â'r lympiâu ceryg allan o'r chwarel, ryw ffordd a allont, yn bob hyd, lled, a thrweh. Y mae ganddynt res o gabanau, a dau ddyn yn mhob caban; un yn hollti y ceryg â morthwyl a chŷn (y maent yn hollti mor deneu a bara ceirch y Deheudir), a'r llall â phren yn eu mesur; a rhyw hen *gleifer* yn eu hysgwario a'u llunio yn briodol; a thafiant hwy heibio agos mor gynted ag y medri di eu rhifo. Gwelsom y "Gweithiwr Caniadgar." Dernyn o ddyn glân, serchog, a gwisg yw Hugh; derbynied ein diolch am ei rodd. Y mae ei awen yn teilyngu oefnogrwydd mawr.

Ond yn awr, wele ni yn prysuro i waered, â'n hwynebau i'r deheu, ar hyd y brif-ffordd sydd yn gorwedd rhwng Caernarfon a Phwllheli. Y mae y môr â'i ferw ar ein deheulaw—yr ydym yn nesáu at Glynog Fawr, cartref Eben. Nis gallwn byth ddesgrifio ein teimladau ar y pryd: teimlem ein bod yn nhiriogaeth awen gysegredig y bardd. Fel yr oeddem yn nesu at ei breswyl, gallwm feddwl fod y golygfeydd yn myned yn brydferthach, y coedydd a'r meusydd yn fwy mawreddog a hardd, y perthi a'r cloddiau yn dlysaoh, y ffordd fawr yn ymdecau, trwst rhugliad yr olwynion yn esmwythach, tonau y môr yn ymdafu yn fwy araf a dystaw, yr awyr yn myned yn fwy clir, a'r awel yn fwy balmaidd; ac yn fuan, gwelem glochdŷ uchel yr hen *gathedral* yn sefyll yn syth a mawreddog o'n blaen. Yr oedd holl fawredd hwn, i'n bryd ni, yn dyfod o'i agosrwydd i gartref y bardd. Yr oedd ef i ni fel cenad, yn codi ei law arnom, ac yn dyweyd, "Yn araf deg, bobl; y mae yma un mawr yn eistedd wrth fy nhroed i." Cyrhaeddasom y pentref bychan, ac aethom i'n llety; a thrwy fod Eben a ninnau yn gwybod am ein gilydd, nid hir y bu cyn dyfod atom. Pan ddaeth i mewn, iawn yw dyweyd i ni fethu meddianau ein hunain. Ond yn mhen ychydig, yr oedd y llewyg drosodd, a ninnau yn dechreu elebran. Dyn canolig o daldra yw, oddeutu pump a naw o hyd, dybygem. Y mae yn ddeg a deugain oed—ei wallt yn llwydwyn a theneu—pen cyffredin 'o faintioli, cryno iawn, ac mor llawn a phladren wedi ei chwythu—ei dalcen yn llydan a llawn—ei aeliau yn gyflawn—llygaid bychain, llwyd-dduon, craff, a thryloewon, yn nofio mewn hynawsedd—trwyn lluniaidd, hapus iddo ei hun, ac i eraill—esgyrn ei ruddiau yn go uchel—ychydig flewach duon ar ei gernau—ei enau yn dlws—ei wefusau heb fod yn dewion na llymion—ei wyneb yn go deneu a fflat, o liw goleu a phrydweddol iawn—ei wddf yn fyr—ei ysgwyddau yn llydain, ac yn crymu ychydig. Y mae yn daclus bob amser yn ei wisgiad, ac yn ymddangos yn debyg i ysgolfeistr parchus a chymeradwy. Cerdde yn weddol gyflym, â'i sffon fechan yn ei law, heb sylwi nemawr ar ddim yma nac acw. Ymddengys yn fyfyrion, hapus, a chrefyddol. Ni feddyliodd neb erioed ei fod yn falch—ymddyga yn barchus tuag at bawb, a chenfydd ryw ragoriaeth yn mhob dyn.

Y mae ei ddarlun wedi ei wneyd yn dra rhagorol. Y mae ynddo yn ei gyflawn faintioli, yn eistedd yn ei gader farddol, a bathodyn arian yn hongian wrth linyon o sidan glas am ei wddf, a llun y gader arno. Y mae y darlun yn glod i'r neb a'i gwnaeth; a'r neb a'i gwelo a wel

"Eben a'i bwyll heb un bai."

Wrth ymadael âg Eben, yr oeddem dan deimlad o siomedigaeth;—dychym-

ygem ni yn amgen am dano i'r peth ydyw. Tybiem mai prin yr ymstyngasai i ymddyddan â ni; ac os gwnai, y byddai ei holl ymddyddan am farddoniaeth, ac yn farddoniaeth. Ond er ein syndod, gallasem ni dreulio diwrnod yn ei gyfeillach heb wybod ei fod yn fardd, o ran hyny. Ni chymerai ddim arno;—ymddyddanai mor iselfrydig a siriol ar bob peth ddygwyddai ddyfod i'r bwrdd, ac ni fuasai yn siarad dim am farddoniaeth â ni o gwbl oni buasai i ni ddechreu. Yr oedd wrth fodd ei galon yn ymddyddan am wirioneddau mawrion crefydd. A diangai ambell ddrychfeddwl allan, fel o'i anfodd; byddai yn tywynu fel llewyrchiad y fellten trwy y dyn oddimewn. Bydd argraff rhai o'i frawddegau yn deimlad byw yn ein calon dros ein hoes. Pan yn ysgwyd dwylaw i ffarwelio, gadawodd bapyryn yn nghil dwrn un o honom; a pheth oedd arno ond hanner dwsin o englynion teilwng o'i awen er coffadwriaeth am y gyfeillach.

Cawsom olygfeydd rhyfeddol ac adfywiol. Cyfarfuasom â llawer cyfaill difyr; clywsom aml ystori ddigrif ar ein taith trwy Nefyn, Pwllheli, Tremadog, a Phorthmadog; a thrwy gwr isaf sir Feirionydd, gyda glân y môr, trwy Lwyngwrl, Llanegryn, Bryn-crug, a Thowyn. Byddem mewn profedigaeth weithiau i ofyn y ffordd, pryd na fyddai anghen am hyny, oblegid dycethrwoch yr atebion a gaem. Wele un o honynt;—pan ofynodd fy nghyfaill pa fodd yr âem i R—, “Ewch rhag blaen, ar eich union ar hyd y lôn bost, a throwch i'r lôn ddegwm ar y'ch asw, ac yna, i'r wtra gynta ar eich llaw ddechra.”

Tarawsom wrth un o'r cymeriadau rhyfeddaf eto yn Llanegryn. Er lleied yw ein medr i ysgrifenu, ni theimlem yn anhawdd lenwi hanner dwsin o dudalenau wythplyg o'r pethau a welsom ac a glywsom dan gronglwyd ein gwsteiwr parchus yno; a'r pethau hyny yn bethau nas cyfarfyddir â'u bath bob blwyddyn. Pe buasai genym bump neu ddeg punt wrth law, buasem yn eu rhoddi yn ewyllysgar i awdur “Pythefnos yn Llanwrtyd” am fyned i dreulio pythefnos yn Llanegryn, iddo gael rhoddi darluniad o'r hen *garacter* teilwng hwnw.

Wedi mwynhau “Siaswn fach” yn Nhowyn, croesasom afon Dyfi, a chanasom yn iach i dir y Gogledd. Pan ddaethom i sir Aberteifi, ac fel yr oeddyd yn nesu at ein cartref, yr oedd cysgu y nos yn myned yn anhawddach—rhoddem “fesur hir” yn ein teithiau bob dydd. Ac nid hir y buom cyn cyrhaedd pen y Mynydd Du; ac at droed hwnw yr oedd cwr gwlad Forgan yn estyn ei llaw am danom, a ninnau yn disgyn dros ei lethr dan sisial canu,

“Home, sweet home.”

Ac yn mhen ychydig oriau yr oeddem yn mwynhau melusder cartref, wedi dychwelyd o'n taith feithaf erioed, heb gael un siomedigaeth yn y Gogledd nac yn y Gogleddwyr.

Y mae difyrwoch mawr i'r meddwl myfyrgar i'w gael wrth sylwi ar weithredoedd yr Arglwydd yn yr amrywiaeth diddiwedd a berthyn i gyfansoddiad cyrff a meddyliau meibion dynion. Gwelsom filoedd o wynebau na welsom o'r blaen, ac oll yn newydd ac yn wahanol. Clywsom gannoedd o leisiau; ond ni chlywsom eu bath o'r blaen. Buom yn cymdeithasu â gweiniau o feddyliau, a deallam fod pob un o'r rhai hyny yn nodweddiad gwahanol ar ei ben ei hun. Dywedir mai “efelychiad” yw holl waith dynion, “nad oes dim newydd yn dygwydd dan haul.” Ond, beth bynag a wna Duw, gellir dyweyd am hwnw, “Dyma beth newydd.” Pan gyfar-

fyddom â dyn na welsom o'r blaen, neu anifel—pan welom wibedyn bach yn cerdded ein dillad, neu flodeuyn distadl yn môn y clawdd, y maent yn werth ein sylw—pethau newydd Duw ydynt.

Ddarllenydd! a ydyw anian yn llythyren farw i ti? Blin yw tynged y dyn y mae llyfr mawr natur yn llyfr seliedig iddo, a'i ymadroddion yn anghyflaith. Y mae natur i lawer fel llyfr Groeg neu Ladin i'r Cymro uniaith. Gall hwnw edrych ar rai o linellau tlysaf Homer neu Virgil heb weled na theimlo mwy na phe edrychai ar y ceryg sydd wedi eu tori ar y ffordd fawr. Ond y mae un arall â'i galon yn dychlamu mewn syndod a mwynhâd wrth edrych ar yr un linellau. Tra y mae y naill yn myned trwy ganol rhyfeddodau y greadigaeth fel dall, yn damsang ei dillynion dan ei draed, holl natur fel corff marw iddo, a'i thlysi yn amdo am dani, y mae gan y llall feddwl sydd yn rhoddi bywyd yn mhob golygfa, yn abl dal cymundeb â natur. Y mae ganddo lygad i weled anian, a chalon i deimlo anian; medr ddyweyd gair wrthi, a phair iddi ateb yn ol wrth ei galon yntau. I'r meddwl effro a gweithgar, ac i'r ysbryd duwiolfrydig, y mae natur fel priodferch â'i gwisgoedd priodasol am dani. Medrant gyd-gordio â'u gilydd—crechwenant y naill ar y llall—aml y gwelir hwynt

“Ar eu gilydd, yn chwethin bob yn ail.”

I'r cyntaf, ni byddai teithio y wlad lawnaf ei rhyfeddodau yn fwy o ddif-yrwch na buddioldeb iddo nag i'r anifel fyddai yn ei gario. Ond i'r llall y mae yn wledd ddigymhar—y mae fel teithio paradwys iddo ef. Gwel ei mawredd a'i phrydferthwch, a gwel y Duw a'i gwnaeth ynddi. Un felly ydoedd Dafydd. Byddai yn treulio llawer diwrnod i syllu ar ryfeddodau natur, a chymdeithasu â Duw ynddynt. Byddai ei enaid yn cael ei orlenwi a'i orchfygu ganddynt weithiau, nes gorfod tori allan i foliannu, “Mor lliosog yw dy weithredoedd, O Arglwydd, gwnaethost hwynt oll mewn doethineb, llawn yw y ddaear o'th gyfoeth. Arglwydd ein Ior, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear!” Byddai Iesu Grist yn aml yn galw sylw ei ddysgyblion i fyfyrio natur, a byddai ei feddwl ei hun yn derbyn argraff ryfeddol oddiwrth flodau y maes. “Ystyriwch y lili,” meddai. Daeth brenines y deheu o eithafoedd y ddaear i weled Solomon yn ei ogoniant, ond aethai Crist ymhellach i weled y lili yn tyfu; canys, meddai, “ni wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant fel un o'r rhai hyn.” Yn fwy tebyg iddo, ddarllenydd, a bydd wych!

---

## YR EWYLLYS.

Mewn cyfrol flaenorol o'r “Traethodydd,” cyfarfyddir âg erthygl ar nod-weddion yr athroniaeth Blatonaid. Os ymgymera y darllenydd â'r drafferth o droi yno, caiff esboniad eglur a chyflawn ar yr hyn a olygai Plato wrth gyfryw ymadroddion a “dirgelwch hanfodiad”—“chwilio am yr un ymhlith y lliaws”—“drychfeddyliau,” &c. Myntumiai yr athronydd hwn, fod y drychfeddyliau neu ddelweddau cyffredinol hyn yn cael eu geni gyda dyn i'r byd—eu bod yn hanfodi yn y meddwl yn ei sefyllfa

<sup>1</sup> Cyf. ii, erthygl ar *Plato*: tudal. 433—441.

ddirywiadig bresennol, fel olion bychain, ac adlewyrchiadau gwanaidd, o'r hyn a gynnwysai yn ei sefyllfa gyntefig o berffeithrwydd. Golyga rai beirniaid ei fod yn credu bod y delweddau (*ideas*) hyn (neu yn hytrach *images*—canys dyna yr ystyr a roddid i'r gair *drychfeddol* yn amser Plato, a hyd amser Descartes, am y credid y pryd hwnw nad oedd darganfodion (*perceptions*) ein synwrau yn ddigyfrwng, ond yn gyfryngol: delwedd o'r gwir wrthddrych a ganfyddid, ac nid y peth ei hun<sup>1</sup>)—yn gysylltiedig yn rhywfodd â'r meddwl dwyfol; ond baraa eraill yn wahanol. Fodd bynag, eglur ydyw y golygai yr athronydd bod Daw wedi creu y byd, a'r oll a gynnwysa, mewn cydffurfiad â, neu yn ol, y delweddau meddyliol hyn. Efelly, yr oedd dan yr anghenheidrwydd o ddal nad ydyw y synwriaethau corfforol (*sensations*) yn cyflwyno i'r meddwl ddim oll ar na fodolai ynddo o'r blaen; eu hunig wasanaeth hwy i'r meddwl, a ymddangosiad, teimlad, aroglriad, archwaethiad, neu glywiad gwrthddrych, oedd cyfröi y drychfeddwl neu ddelwedd gwreiddiol i'r ymwybyddiaeth (*consciousness*). Ymddangosai yr athroniaeth hon yn ddwfn-dreiddiol a chywraim yn adeg ei chyhoeddiad cyntaf, ac fe'i llyncid gydag archwaeth a blas neillduol. Ond fe'i gwrthwynebwyd gan Aristotle, yr hwn ydoedd brif ddysgybl Plato. Dalai y doethawr hwn fod yr enaid dynol yn cynnwys, yn annibynol ar brofiad (*experience*), egwyddorion cynenid, pa rai, fel y cyfryw, ydynt ammodau hanfodol profiad; ac eto, dywedai fod gan brofiad ran arbenig yn nghyfansoddiad drychfeddyliau. Dengys fod gwyddiant i gael ei hadeiladu ar egwyddorion hanfodol ein cynneddf reasymol, pa rai, er yn "*elements of demonstration, are themselves indemonstrable*." Craffer yma, fod y naill a'r llall o'r athronwyr hyn yn priodoli i'r meddwl dynol egwyddorion neu ddrychfeddyliau cynenid, y rhai nes gallasai eu cyrhaedd drwy y synwrau corfforol. Nid ydynt yn ei oed allan fel *tabula rasa*, neu len o bapwr gwyn, yn meddu yn unig gynneddf neu allu (*goddefol*, cofler,—os oes y fath beth a gallu goddefol) i dderbyn argraffiadau oddiwrth wrthddrychau allanol; eithr gosodir ef allan, yn hytrach, fel hanfod yn gwreiddiol gynnwys egwyddorion neillduol, y rhai aydd, fel y cyfryw, yn anhebgorol i weithrediad priodol ein synwrau corfforol. Amgyffrediad rhy isel am feddwl ydyw dyweyd ei fod yn hollol ddibynol ar wrthddrychau oddiallan iddo ei hun. Y mae yn ddiau ei fod yn fod perffaith annibynol ar ei holl amgylchiadau, ac mai ffaith arbenicaf ei gyfansoddiad ydyw gweithrediad. Y mae wedi ei ffurfio gan Dduw yn y fath fodd ag y gellir dywedyd ei fod yn hunan-ysgogol a hunan-lywodraethol. Lle bynag y bo meddyliaeth (*thought*), y mae yn canlyn fod yno weithrediad; ac amhosibl ydyw i ni synied am feddyliaeth ond yn ei gysylltiad â meddwl fel achos; ac y mae yr un mor amhosibl i ni gael amgyffrediad priodol am feddwl, ond fel yn meddwl (*thinking*) ac yn gweithredu. Y mae mor wrthun ac annichonadwy tybied fod meddwl yn hanfodi ar wahan oddiwrth weithrediad, ag a fyddai dyweyd fod goleuni yn hanfodi ar wahan oddiwrth wres. Nis gallai fod goleuni heb wres; ac nis gall fod meddwl diweithrediad.

Y cyfryw oedd y golygiadau mwyaf derbyniol ar y meddwl hyd amser yr athronydd nodedig hwnw, Arglwydd Bacon, "tad athroniaeth brofiadol," a'r dull cyfisol (*inductive*) o ymresymu. Tuedd arbenicaf y dull hwn

<sup>1</sup> "Edinburgh Review," erthygl ar "Reid a Brown :—" rhif. 108, tudal. 182.

oedd dyrchafu synwriaeth fel y brif gynneddf eneidïol, a gwneuthur y meddwl ei hun yn wrthddrych hollol oddefol. Nid oedd Bacon ei hun yn talu nemawr sylw i'r wyddiant feddyliol, ac felly ni chymhwysodd efe yn bersonol ei ddull (*method*) at ei hefrydiad. Y cyntaf, dybygid, a wnaeth hyn oedd Thomas Hobbes, enw tra adnabyddus fel meddyliwr dwfn a gwreiddiol, ac fel awdur lliaws o ysgrifeniadau tra pheryglus. Y gŵr hwn a ganfyddai fod y dull Baconaidd wedi cyfoethogi athroniaeth naturiol mewn modd dihafal; cymhwysodd ef, gan hyny, at athroniaeth feddyliol. Yn y modd yma yr olrhainiodd bob ffaith o'r ymwybyddiaeth i'r synwryau corfforol; ni chredai yn nelweddau Plato, nac yn egwyddorion hanfodol Aristotle; gwadodd, mewn gair, ysbrydolrwydd ac anfarwoldeb yr enaid—dywedai fod y meddwl, fel pob peth a'i amgylch, yn gyfuniad anianyddol. Yn yr adeg hon ymron y cyhoeddwyd yr "*Essay on the Human Understanding*," gan Looke, yr hwn a ystyrir y prif athronydd a gynnyrhodd Lloegr erioed. Myn rhai o'i feirniaid nad ydyw ei waith rhagorol namyn golygiadau ei ragflaenor Hobbes, wedi eu gosod allan ar wedd fwy poblogaidd; ond, er y caniatêir fod cyfeiliornadau pwysig wedi ymlusgo i'w draethawd, eto y mae gwahaniaeth dirfawr rhyngddo fel dyn a Hobbes. Tueddai egwyddorion yr olaf yn anocheladwy i ddyddymu moesoldeb; ni olygai da a drwg ond yn unig fel enwau ar bleser neu boen, sef synwriaethau hyfryd neu anhwyfryd. Y mae y gyfryw grediniaeth yn serio y gydwybod, ac yn haiarneiddio y galon; a pharotoa ddyinion i gyflawni pob pechod yn un chwant. Y mae ei wersi mewn llywod-ddysg yn gyffelyb hefyd, fel y gellid dysgwyl oddiwrth ei olygiadau ar foesoldeb. Yn ol y rhai hyn, y mae gallu ac uniondeb (*right and might*) yn eiriau cyfystyr; y mae yn iawn i ddyd ymgyrhaedd at ei ddaioni ei hun, pe dinystriai gysur pawb arall drwy hyny. Efelly yr yspeilir y doeth a'r da (fel y sylwa Hallam) o'u prif gysuron yn eu holl orthrymderau. Mae y ddynoliaeth ddiniwed a dyoddefus wedi cyfarfod â balm iachael i'w briwiau tanllyd yn y drychfeddwl o gyflawnder Duw—bod Duw a gosba bechod; ond os ydyw yr awdur yma yn gywir, y mae y cyfryw apeliadau at gyflawnder yn hollol ofer a diles. Eithr nid felly Locke. Efe a barchai grefydd, credai yn Nuw, a gosodai bwys mawr ar y gwirioneddau gwerthfawr o ysbrydolrwydd ac anfarwoldeb yr enaid; ac eto, y mae ei athroniaeth wedi bod yn offerynol i arwain rhai dnyion i'r cyfeiliornadau echrystlonaf. Prif amcan ei draethawd oedd, profi na chynnwysai y meddwl, yn rhagflaenol i synwriaeth, ddim oll—ei fod fel llên o bapyr gwyn. Yr ysgrifenyddion, meddai, ydyw y synwryau. Ar ol cael drychfeddyliau fel hyn i'r meddwl, gosodai ef allan fel yn meddu amryw gynneddfau, drwy ba rai yr adfyfyrïai ar yr hyn a gyflwynasid iddo gan y synwyr. Ond ni ychwanegid dim at y drychfeddwl gwreiddiol. Yr hyn ydoedd y drychfeddwl yn y synwyr, ydyw yn y deall, o ran y swm gwirioneddol o hono. Mae y gynneddf adfyfyriadol yn ei ddullweddu mewn gwahanol foddau, ond ni ychwanega ddim ato, am na fedd ddim i ychwanegu. Tybygid, gan hyny, bod Condillac yn gywir wrth gyhuddo Locke o ddiffyg craffder pan yn priodoli *dan* wreiddyn i ddrychfeddyliau, sef *synwriaeth* ac *adfyfyriad*; tra yr oedd wedi dyweyd mor bendant na chynnwysai y meddwl ddim ond a gawsai o'r synwyr. Y mae grym yr wrthdriadl yn fenthycol oddiwrth yr egwyddor hono mewn fferylliaeth, nad ydyw cyfuniad sylweddu—megys cyfuniad y ddau nwy, *hydrogen* ac *oxygen*, i gyfanseddi dwfr—yn

ychwanegu dim at swm y sylweddau yn eu sefyllfa unigol. Haera Dr. Brown nad teg a phriodol gwneyd y cyfryw gyfatebiadau mewn pynciau arddansoddol. Gwir iawn nad diogel eu dilyn yn rhy bell, na'u gwneuthur yn rhy fynych; ond y mae yn bosibl cael allan ambell egwydder werthfawr yn y modd yma. Os priodol dyweyd mai *hydrogen* ac *oxygen* ydyw dwfr, am y gellir ei ddadansoddi i'r elfenau hyn, onid priodol dywedyd mai y synwyr coorfforol ydyw gwreiddyn ein drychfeddyliau, tra y credom nad oes dim yn y meddwl ond a gyfarwyddwyd iddo gan y synwyr? Yr un ydyw elfenau dwfr pan yn y ffynnon fechan greigiog, a phan yn fynyddoedd o iâ; pan yn disgyn i'r ddaear yn ffurf y oenllyg trystfawr, a phan yn cael ei dawel sugno o'r ddaear gan wres yr haul. Felly, tybir mai yr un, yn ol golygiadau Locke (os ydyw am fod yn gyswng âg ef ei hun), ydyw y drychfeddyliau cyfunol a ffurfir gan y deall, a'r rhai a gyflwynwyd i'r meddwl ar y cyntaf gan y synwyr; ac, o ganlyniad, mai y synwyr ydyw eu gwreiddyn.

Mae yn eglur nad amcan Locke oedd dilyn ei egwyddorion i'w heithaëon. Cafodd ddysgyblion a wnaethant hyny yn ei le. Yr ydym yn cael fod Hartley, Priestley, a Darwin, yn Lloegr, wedi cael eu harwain ganddynt i ffosydd materolaeth. Benthycwyd hwy gan Collins i sefydlu yr athrawiaeth o reidrwydd; a thrwy eu cynnorthwy, yndrecha Mandeville at ddyddymu pob math o wahaniaethau moesol. Ond yn Ffrainc y tyfodd y fesen fechan a hauodd Locke yn dderwen dewfrigog, yn nghanau pa us y nythodd rhai o'r cyfeiliornadau mwyaf niweidiol a gyhoeddwyd erioed. Cymerodd Condillac afael ynddynt, ac fel y sylwyd eisoes, dywedai fod Locke yn anghyson âg ef ei hun, ac yn anghywir, wrth briodoli dau wreiddyn i ddrychfeddyliau. Dywedodd nad ydyw meddylddrychau ond mathau o synwryaethau (*transformed sensations*); fod meddyliaeth yn briodoledd yr ymenydd; fod natur anianyddol a moesol dyn yr un peth yn hollol; mai ffregod oedd son am ysbrydolrwydd ac anfarwoldeb meddwl; ac nad oedd enw Duw ond gair cyfystyr â natur. Dengys holl hanes athroniaeth fod golygiadau duwinyddol unrhyw oes yn dibynu i raddau anhygoel ar ei golygiadau arddansoddol. Beth bynag fo y gyfundraeth o feddylwydd a dderbynir yn fwyaf cyffredinol ymlith dosbarth o ddynion, bydd eu syniadau mewn moeswydd a duwinyddiaeth yn rhwym o gael eu ffurfio yn ei hol. Felly y bu yn Ffrainc. Os oedd yr arddansoddwyr Ffrengig yn gywir pan yu myntumio na feddai y meddwl ddim ond a gawsai o'r synwyr; os nad ydyw yn ddim amgen na chyfuniad anifeilaidd, ychydig yn wahanol mewn graddau, ond nid mewn rhyw, i'r greadigaeth afresymol; os cynnyrch yr ymenydd ydyw meddyliaeth, fel y mae y caul (*chyle*) yn gynnyrch y cylla; y mae yn naturiol ganlyn, "fod y bydysawd yn beiriant anferth, yn cael ei roddi mewn gweithrediad yn barhaus gan dyngedfeniaeth amhlygadwy, a dyn ynddolen yn y gadwen fawr ac annherfynol hōno o chwildroadau," yn rhwym o fudo ymlaen gyda grym y cefallif, heb allu na rhyddid i wrthwynebu ei weithrediaidau gorfodol. Os gellir dyweyd fod Condillac wedi ymddwyn yn deg a chyflawn tuag at egwyddorion Locke, wrth eu gwthio i'r eithaëon ag y darfu, y mae yn ffaith alarus fod y duwiolfrydig John Locke yn dad i'r athrawiaethau anffydddaidd a gyhoeddwyd yn Ffrainc yn y ddeunawfed ganrif: ei feibion ef ydyw y Barwn D'Holbach, Voltaire, Volney, a'u cydanffyddwyr, athrawiaethau y rhai a fuont yn foddion uniongyrchol i gynnyrchu yn y wlad



annedwydd hono yr echryslonderau mwyaf truenus a goffêir ar holl dudal- enau hanesyddiaeth. Y cyfnod ag y bu yr awdwyr hyn yn ddysgawdwyr Ffrainc ydyw y cyfnod a ennillodd iddo ei hun, a hyny yn berffaith gyf- iawn, yr enw gwarthus o "Deyrnasiad Dychryn;" pan dywelltid gwaed yn afonydd, ac y medid bywydau dynol i dragwyddoldeb fel y medir fyd yn amser cynauaf. Yn yr adeg hon yr adeiladwyd teml i reswm yno, y dyddymwyd y Sabboth Cristionogol, ac y sefydlwyd yn ei le wyl neill- duol bob deng niwrnod. Gallai y Ffrancod y pryd hyn ymfrostio mai hwyntwy oedd y genedl fwyaf diwylliedig ac addysgiedig ar gyfandir Ewrop. Er hyny, yr oedd gwenwyn wedi ei arllwys i'r ffynnon. Yr oedd eu hathronwyr wedi mabwysiadu egwyddorion a fyddent sicr o lygru moes- ddyg a llywod-ddysg y genedl; ac felly yr arweinai y naill gyfeiliornad i'r llall, nes y tywalltwyd am eu pen, o'r diwedd, phiolaid lawn o fellidith- ion, ac y digonwyd hwy â firwyth eu cyfeiliornadau eu hunain. Ni fynem ddyweyd bod anfyddiaeth Ffrainc, a'i effeithiau dinystriol, i'w priodoli yn uniongyrchol i egwyddorion Locke; ond mewn modd anuniongyrchol, y mae yn ymddangos yn fwy na thebyg y gellir eu holrhain. Tra y caniatawn nad oes randir yn ei draethawd ar y "Deall," ar ba un y dichon Volney a Voltaire osod sylfaen eu hanfyddiaeth, dywedwn, yr un pryd,—gadawer i Hartley, Priestley, Darwin, a Condillac, osod sail eu hegwyddorion hwy yno, a'u dilyn ymlaen ychydig, a cheir gweled yr ymluga yr anfyddwyr i mewn yn hawdd. Rhyfedd meddwl fod David Hume, yr ammeuwr, wedi seilio ei ammeuath ar y traethawd hwn; ond felly y dengys y ffaith. Y mae ffeithiau fel hyn yn dangos fod yr edaf sidanaidd o gysylltiad sydd yn uno egwyddorion, yn fynych fel gwê y pryf-copyn, yn anhawdd ei ganfod, ac eto yn eu cysylltu yn berffaith.

Onid beth, medd y darlennydd, sydd a fyno y llith hirfaith hon â'r Ewyllys? Hyn: Os ydyw y meddwl yn feddiannol ar egwyddorion cynenid, y rhai nis gellir eu holrhain i synwriaeth fel gwreiddyn; os ei ffaith arbenicaf ydyw gweithrediad, fel y credai yr hen athronwyr Groeg- aidd; yna yr ydym yn cael ynddo yr elfen o hunan-ysgogiad ac ewyllys, canys anmhiodol synied am ddyw yn meddu gallu hunan-ysgogol yn an- nibynol ar ewyllys, yr hon sydd, fel y sylwa Coleridge, "y goruchnaturiol mewn dyn, ac egwyddor ein personoliaeth—y peth hwnw trwy yr hwn yr ydym yn weithredwyr cyfrifol; yn bersonau, ac nid yn unig yn bethau byw." Pwnc arall ydyw, beth yw natur a phriodoleddau yr ewyllys. Ar hyn o bryd, dywedwn yn unig, ei bod yn gynnwysedig yn yr egwyddor o allu hunan-ysgogol y meddwl. Eithr os yn y gwrthwyneb y mae; os nad ydyw y meddwl yn fod gwahanol i'r corff mewn dim ond ei gyfluniad; os na pherthyna iddo weithrediad anghenrheidiol; os o'r synwyr corfforol y derbynai ei holl gynnwysion; yna, y mae yn canlyn, ei fod yn hollol dan ddylanwad y gwrthddrychau hyn—hwy sydd yn ei ysgogi a'i lywodr- aethu. Y mae yr athrawiaeth sydd yn dyrchafu synwriaeth fel prif, ac unig, gynnoddff y meddwl, yn arwain i ganlyniadau gwir beryglus i foes- oldeb a chrefydd, fel y dangoswyd eisoes. Os credwn hi, yr ydym yn rhwym o greu hefyd mai cangoswyd ydyw dyn, ac na fedd y fath beth ag ewyllys na rhyddid. "Dengys cipolygiad ar hanes arddansodd- iaeth, fod y synwryoludd (*sensationalist*) a'r tyngedfenydd (*fatalist*), mewn naw anghraifft o bob deg, wedi cytuno â'u gilydd."<sup>1</sup>

<sup>1</sup> "Speculative Philosophy," gan J. D. Morell: cyf. i, tudal. 470.

Y mae dosbarth o athronwyr, tra y priodolant ryddid i ddyn, a haer nad yw yr ewyllys yn gynnwedd wreiddiol yn y meddwl. Ymhlith y rhai hyn y ceir Dr. Thomas Brown a Mr. James Mill; y blaenaf yn Albanwr, a'r llall yn Sais—a'r ddau, o bosibl, yn sefyll yn y rhestr flaenaf fel dadansoddiwyr. Dymuniad o fath neillduol, medd y ddau, ydyw ewyllys. Nid ydyw dymuniad, drachefn, amgen un o'n huch-deimladau (*emotions*); ac o ganlyniad, teimlad bywiog ydyw ewyllys. Mae peth neu weithrediad yn cael ei ewyllysio, medd Mill, pan y dymunir ef fel moddion i gyrrhaedd amcan neillduol, neu pan y cysylltir ef fel achos â phleeser fel effaith. Cyn y gallwn ddymuno unrhyw beth, medd Brown, y mae yn anghenrheidiol iddo ymddangos yn dda: dichon i rai o symudiadau ein haelodau corfford ymddangos yn dda, a dyfod, felly, yn ddymuniadau; "ond gan fod y gweithrediadau gwirioneddol, yn ol trefniad dwyfol, yn ebrwydd ddilya ein dymuniadau i'w cyflawni, y mae y dymuniadau hyn yn gwywo, wrth gwrs, yn eiliad eu genedigaeath." Dymuniadau o'r natur yma a eilw Dr. Brown yn ewyllysiadau. Y gwahaniaeth rhwng y ddau ddoesbarth o ffeithiau ydyw, yn ol ei farn ef, bod y rhai a eilw yn ddymuniadau yn arosol a pharhaol, tra y mae yr ewyllysiadau yn cael eu dilyn yn uniongyrchol gan weithrediad. Yr unig wahaniaeth, eb efe ymhellach, rhwng dymuno golud, ac ewyllysio symudiad ein llaw, ydyw bod yr olaf yn cael ei ddilyn gan y symudiad, tra nad ydyw y blaenaf ond yn y meddwl yn unig. Ymddengys tybiau yr athronwyr hyn i ni yn hannerog ac amherffraith iawn. Cymysgir ynddynt ffaith, sef dymuniad, & i gwreiddyn, sef ewyllys. Y mae ein holl uch-deimladau yn ymgfyodi yn fwy oddiar ein deall nag oddiar ein synwrau corfforol; ac y maent felly yn cael eu dwyn i weithrediad drwy yr ewyllys, gan nad ydyw yn ddichonadwy, fel y sylwa Syr W. Hamilton, i "feddyliaeth ac ewyllysiad gael eu gweithredu ar wahan, yn fwy nag y mae yn bosibl i ochrau ac onglau pedrongl haefodi ar wahan oddiwrth eu gilydd." Y mae yn ymddangos llawn mor anmhosibl i ddyn allu ffurfio dymuniad o fath yn y byd, ond fel y mae yn greadur meddiannol ar ewyllys; ac ymddengys i ni y gellir yn hawdd ewyllysio gweithrediadau amryfath, y rhai nas gellir, ac na ddylid, eu galw yn ddymuniadau. Fel y dywed Brown, rhaid cael *da* gwirioneddol (neu, o'r hyn lleiaf, yr hyn a olygir felly gan y meddwl) mewn gwrthddrych cyn y dymunir ef; ond yr ydym yn ffynych yn ewyllysio gweithrediadau nad ydym yn eu golygu yn dda a dymunol ynddynt eu hunain, ac nad ydynt, o ganlyniad, yn ddymuniadau. Y ffaith a ddylid ei chofio bob amser ydyw, bod yr ewyllys yn gweithredu lle bynag y bo y meddwl yn gweithredu, a bod y meddwl yn gweithredu fel achlysurydd holl weithrediadau y corff. Os aiff dyn i chwilio am achos ei weithrediadau ei hun, rhaid iddo fyned heibio i holl ddyllanwadau natur allanol, er fod y rhai hyn yn achlysuron gweithrediad, a syrthio yn ol ar ei ewyllys ei hun. Yn y gynnwedd hon, fel y sylwa Locke gyda phriodoldeb, y cawn y drychfeddwl blaenaf ac egluraf am achos (nis dywedwn gydag ef ymhellach mai yn ei ewyllys ei hun y caiff pob dyn afael yn y drychfeddwl anghenrheidiol a chyffredinol o achosiant (*causality*), am y credir fod y drychfeddwl neu y syniad hwn yn gymhlethedig & chyfansoddiad y meddwl ei hun). Yr ydym yn cael Dr. Thomas Reid yn gwahaniaethu y ffeithiau o ewyllysiad a dymuniad yn dra priodol; yr hyn a wneir hefyd gan Drd. Chalmers a Payne, a'r President Edwards o'r America. Eithr gostyngedig dybir fod

y tri olaf yn cyfeillorni wrth briodoli dymuniad i bob ewyllysiad, sef fel ei ragflaenor; o herwydd y mae yn ymddangos i'r ysgrifenydd, os ydyw yn iawn ddeall ystyr y geiriau hyn, fod ewyllysiadau—bod y meddwl yn rhoi allan yni neu weithrediad—mewn amgylchiadau na byddo un math o ddy-muniad. Caniatêir fod y llinell terfyn yn bur fain, ond credir ei bod yn hanfodi. Nad beth am hyny hefyd, canys nid ydyw o ryw bwys mawr iawn; ond y mae o'r pwys mwyaf gwahaniaethu rhwng y ddwy ffaith o ewyllys a dymuniad. Y mae y canlyniadau gwrthun i ba rai ein harweinir gan olygiadau Mill a Brown yn ddigonol er eu gwrthbrofi. Yspeiliant ddyn o'r hyn ydyw "egwyddor ei bersonoliaeth," a dyddymant ryddid, cyfrifoldeb, a gwahaniaethau mossol. Gosodant ef allan fel caethyn tynged-feiniaeth anorfod—fel dolen fechan mewn cadwen hirfaith o amgylchiadau, y rhai ydynt rwym i gael eu cyflawni, a hyny yn hollol annibynol arno ef. Y mae amgylchiadau fel y llifeiriant gorwylt, weithiau yn ymruthro dros y clogwyni creigiog, a phryd arall yn tawel ymlithro dros y doldir gwastad; a dyn fel deilen ar ei wyneb, yn cael ei ddylanwadu bob amser gan symudiadau y llifeiriant! Afreidiol namyn enwi y canlyniadau hyn, na ddych-rynir darllenwyr goleuedig y "Traethodydd" rhag yr athroniaeth a arweinia i'r fath ffos erchyll.

Sylwyd eisoes, fod athroniaeth Locké yn gosod gormod o bwys ar natur allanol, neu synwriaeth, yn nghyfansoddiad ein gwybodseth; ac mai ei thuedd oedd gosod dyn allan fel peiriant, yn dibynu am ei holl symudiadau ar amgylchiadau oddiallan iddo ei hun, ac nid ar un gallu hunan-ysgogol. Ond gwawriodd dydd pethau gwall pan gyhoeddwyd golygiadau Dr. Reid, yn yr Alban, ac eiddo Immanuel Kant, yn yr Almaen. Yn yr awduron hyn fe geir egwyddorion yr athroniaeth ysbrydol, yr hon a wedda i'r ysbryd sydd mewn dyn. Y mae Reid yn dal, mewn modd cadarn, bod y meddwl yn hunan-ysgogydd; a chan nad ydyw ysgogiad ond gweithred neu briodoledd, rhaid fod cynneddf neu allu yn wreiddyn iddo; a'r gallu hwnw ydyw yr ewyllys. Nid oes un sail i dybied, medd efe, fod gwrthddrychau heb ewyllys na deall yn feddiannol ar allu hunan-ysgogol yn yr ystyr ag y mae y meddwl. Dengys Kant, drachefn, fod i'r meddwl gyfryw ran yn ffurfiad ein drychfeddyliau, ag sydd gan *oxygen* neu *hydrogen* yn nghyfansoddiad dwfr: y "synwyr" oorfiorol sydd yn darganfod pethau a gwrthddrychau allanol, ond y "deall" sydd yn ffurfio yr ymddangosiadau hyn yn ddrychfeddyliau. Yn y synwyr, nid ydynt ond tryblith afuniiaidd o ymddangosiadau (*phenomena*); ond y mae y deall yn eu trefnu a'u dosbarthu yn gydffurfiol â'i ddeddfau hanfodol ei hun. Y mae yr ymddangosiadau hyn yn hanfodi yn annibynol hollol ar yr enaid, ac y mae yr enaid o ran ei hanfod yr un mor annibynol arnynt hwythau. Nid y meddwl ydyw gwreiddyn neu reol yr ymddangosiadau, canys y mae iddynt eu deddfau gosodedig eu hunain; nid hwyntwy a'u deddfau, ychwaith, ydyw gwreiddyn gweithrediadau y meddwl, canys y mae ef ei hun yn achosydd o honynt oll, ac wedi cael ei gynnysgaethu gan Dduw â chynneddf felly. Gallai y bydysawd hanfodi yn annibynol ar feddwl dyn; a gallai y meddwl hanfodi yn feddwl pur, annibynol ar ei holl amgylchiadau a'i achlysuron gweithrediadol presennol. Yn awr, golygir mai yr ewyllys ydyw gwreiddyn neu achosydd yr holl weithgarwch a berthyn i'r enaid. Y gynneddf hon ydyw "egwyddor ei bersonoliaeth." Mewn creadur direswm, nid oes allu hunan-ysgogol; deddfau annibynol arno ef ei hun sydd yn ei lywodraethu

bob amser; ac nid yw yn feddiannol, gan hyny, ar ewyllys. Y mae yn wahanol iawn gyda golwg ar ddyd. Ceir achos ei weithrediadau ef yndd ei hun, fel y mae yn fod meddiannol ar ewyllys. Annichonadwy ydyw i ni feddwl am un symudiad na gweithrediad o'n heiddo a'r nas gallem ei olrhain yn ol i'r ewyllys fel achos neu wreiddyn. Cofier fod gwahaniaeth dirfawr rhwng achosion a'u gilydd; neu, mewn geiriau eraill, rhwng achosion ac achlysuron gweithrediad. *Achlysuron* yn unig i weithrediadau y meddwl ydyw ymddangosiadau allanol: yr *achos* o'r gweithrediadau ydyw yr ewyllys. Nid ydym yn dywedyd fod hyd yn nod yr ewyllys yn achos hollol neu hanfodol (*absolute cause*); canys y mae yn ddiammheuol nad ydyw yr ewyllys ddynol ond effaith creadigol yr ewyllys ddwyfol. Wrth alw yr ewyllys ddynol yn achosydd, ni feddylir mwy nag mai hyhi ydyw achosydd ein gweithredoedd ein hunain. Achosydd ydyw yn ei chysylltiad â gweithredoedd ei meddiannydd; ond ynddi ei hun, nid yw ond effaith yr Achos mawr tragywyddol.

Yr ydym yn cael Mr. Locke yn golygu yr ewyllys fel achosydd yn yr ystyr a nodwyd. Ei eiriau ydynt:—"Yr ydym yn cael ynom ein hunain allu i ddechreu neu i ymatal, parhau neu derfynu, amryw o weithrediadau ein meddyliau, ac ysgogiadau ein cyrff, yn unig drwy feddyliaeth neu ddewisiad y meddwl, yn gorchymyn y cyflawniad o, neu yr ymattaliad oddi-wrth gyflawni, y gyfryw a'r gyfryw weithred neillduol. Y gallu hwn ag a fedd yr enaid felly i orchymyn yr ystyriaeth o unrhyw ddrychfeddwl, neu y peidiad o'i ystyried, neu i ddewis symudiad un rhan o'r corff yn hytrach na'i orphwysiad, a *vice versa*, mewn unrhyw amgylchiadau neillduol, ydyw yr hyn a alwn yn ewyllys. Y gweithrediad o'r gallu hwn, mewn gorchymyn unrhyw weithred neillduol, neu ei gwahardd, ydyw yr hyn a alwn yn ewyllysiad. Mewn canlyniad i'r cyfryw orchymyniad o eiddo y meddwl, gelwir y peidio cyflawni y weithred hono yn wirfoddol. A pha weithred bynag a gyflawnir heb y cyfryw orchymyniad meddyliol, a elwir yn anwirfoddol." Y mae yr holl ddyd, yn mhob ystyr, mewn modd uniongyrchol neu anuniongyrchol, dan ddylanwad a llywyddiaeth yr ewyllys. Hyd yn nod yn yr ymarferiad o'n synwrau corfforol, cawn fod ewyllysiad yn anghenrheidiol cyn y dichon iddynt hwy gyflëu unrhyw wybodaeth i'r meddwl. Gwyddom fod gwrthddrychau allanol yn parhaus ymrithio ger bron ein golygon, bod sŵn yn cyfarfod â'n clybod, ac arogledd yn cael ei dafu allan o wrthddrychau neillduol. Canfyddwn â'n llygaid y meusydd gwyrddion a'r gwigoedd cysgodfawr; clywn â'n clustiau ruad y daran, a "mil o leisiau melusion" y delyn; ac aroglwn bereidd-dra adlonol y rhosyn, neu ffeidd-dra annymunol y drowsug. Yr ydym yn ymwybodol o'r teimladau hyn a gynnyrchir ynom. Ond nid ydym felly o *anghenrheidrowydd*. Oni fuom mewn ystafell lle yr oedd awrlais yn taraw, ac eto heb ei glywed—o'r hyn lleiaf heb fod yn ymwybodol o hyny? Onid aethom heibio i'r gwelyau pereiddiaf o lysiau heb arogl cymaint ag un sawrhedyn? Oni chwareuwyd swynol dannau y delyn yn ein hymyl, tra yr oeddym yn hollol anwybodus o hyny? Yr oedd y llygaid, y clustiau, a'r arogliau, yr un fath yn hollol a phan oedd y synwryaethau yn effeithiol. Beth, gan hyny, ydyw yr achos? Wel, hyn—Yr oedd holl weithrediad y meddwl yn cael ei gyfeirio mewn ffordd arall. Yr oedd yr ewyllys yn ei gadw gyda gwrthddrychau eraill. Ymddengys yn debyg nas gall y meddwl gymdeithasu ond âg un gwrthddrych ar unwaith. Geilw Mr. Dugald Stewart y

ffaith hon yn sylwadaeth (*attention*), a dywed ei bod yn gynnwedd wreiddiol ac annibynol yn y meddwl. Ymddengys i ni nad ydyw hyn amgen na rhoddi enw ar nacâd o beth; canys onid yr *ewyllys mewn gweithrediad* ydyw sylwadaeth? Y mae dyn yn talu sylw i bethau, am fod ganddo ewyllys trwy ba un y gall wneyd hyny; ond y mae yn talu sylw i un peth ar unwaith, nid am ei fod yn feddiannol ar gynnwedd i *gyfyngu* ei sylw yn y modd hyny, ond am nas gall dalu sylw i fwy na hyny ar unwaith; ac felly, y mae cynwedd Mr. Stewart yn enw ar nacâd hollol. Fe allai yr ymddengys yn rhyfedd i rai fod yr ewyllys yn cael ei gweithredu mewn synwriaeth corfforol. Y mae yn rhyfedd hefyd—eithr onid “ofnadwy a rhyfedd ein gwnaed?” Addefir gan athronwyr yn gyffredinol mai rhyw allu meddyliol cyffredinol, ag a alwant yn ymwybyddiaeth, sydd yn brif ammod (*condition*) ein holl ddarganfodion (*perceptions*) o'r byd allanol. Os gofynwn, pa fodd y mae hyn yn bod, yr ydym yn sefyll ar ymyl dyfnder ag y mae holl ddoethion y byd wedi methu ei blymio. “Gwybodaeth ry ryfedd i ni” ydyw esbonio pa fodd y mae meddwl yn dyfod yn ymwybodol o fydd allanol, pan y mae eu natur a'u cyfansoddiad mor wahanol. Digon genym gredu y ffaith mai felly y mae. Nid oes dim yn dyfod yn wybodaeth i ddyn ond sydd yn dyfod i'w ymwybyddiaeth. Mae yr ymwybyddiaeth o bob gwrthddrych yn cynnwys ynddi farn: yr wyf yn barnu wrth glywed sŵn, mai sŵn a glywaf. Nid barn gymhlyg a chyfunol ydyw hon ychwaith; ond y mae yn un syml ac anghurheidiol, yn anwahanol gysylltiedig â'r ymwybyddiaeth. Eglur ydyw fod gweithrediad lle bynag y byddo barnu. Achos gweithrediad y meddwl, fel y sylwyd eisoes, ydyw yr ewyllys. Dyna yr ewyllys, gan hyny, yn dyfod i mewn i ffaith flaenaf a mwyaf cyffredinol ein cyfansoddiad, yr hon, fel y cyfryw, sydd yn ammod hanfodol ein holl ddrychfeddyliau. Nid ydym yma yn cymysgu y galluoedd hyn â'u gilydd: eu harddangos yr ydym yn eu perthynas weithredol yn unig. Anathronyddol iawn fyddai cymysgu synwriaeth a barn, am nas gallwn fod yn ymwybodol o synwriaeth heb farnu ein bod felly; a gwrthun fyddai cymysgu y ddwy ffaith âg ymwybyddiaeth, am mai dyna eu hammod. Awgrymwn eto, fod gwahaniaeth rhwng achlysuron neu ammodau gweithred a'i hachosydd gwirioneddol. Yr ydym yn ymwybodol o synwriaethau corfforol, oblegid ein bod wedi ein cynnysgaethu â gallu i fod felly; dyna yr *achos*. Nid ydyw yr achos hwn un amser yn ein gwneyd yn ymwybodol o ddim ond ar yr ammod ein bod yn talu *sylw* i'r gwrthddrych. Nis gallwn dalu sylw i ddim ond fel yr ydym yn greaduriaid yn meddu ewyllys. Credwn, o ganlyniad, beth bynag ydyw dyn fel gweithredydd, mai yr achos o hyny ydyw ei ewyllys.

Yn y sylwadau blaenorol, canfyddir bod yr ysgrifenydd wedi golygu yr ewyllys fel gallu *gweithredol*, a hyny yn unig. Dadansodder ffaith neu weithred, a gwahaniaeth ei holl amryfal briodoleddau, a phriodoler i'r cynneddfau rhesymol yr hyn a berthyn iddynt hwy, a cheir fod yn aros i'r gynnwedd o ewyllys, y gweithrediad pur (*pure action*). Mae Dr. M'Cosh, yn ei waith gorchestol ar y “*Method of the Divine Government*,” yn barnu ychydig yn wahanol. “Myntumiwn fod yr ewyllys (medd efe) yn briodolodd gyffredinol o eiddo y meddwl, a'i gweithrediadau yn cael eu harddangos mewn gwahanol foddau. Dywed am wrthddrych, y mae yn dda—yr wyf yn ei ddymuno; y mae yn ddrwg—yr wyf yn ei wrthod.” Ac ymhellach, “Ond myntumiwn mai yr un briodolodd fedd-

yliol ag a ddywed, Y mae y gwrthddrych hwn yn dda, yr wyf yn ei chwennych ac yn ei ddymuno, sydd yn dywedyd hefyd, pan ma fo dim daioni cystadleuol, neu ddim daioni yn cael ei olygu yn gyfartal âg ef, Yr wyf yn ei ddewis." Gan nad ydyw yr enaid yn sylwedd gweladwy, nis gellir dywedyd gyda phriodoldeb ei fod yn rhanedig i gynneddfau; ond er mwyn cyfleu syniadau, yr ydym dan yr anghenrheidrwydd o lefaru felly. Sonir am ewyllys, cof, a rheswm, &c., nid am eu bod yn hanfodion gwahaniaethol ac annibynol, ond am fod i'r naill a'r llall o honynt law mwy arbenig yn nghyfansoddiad gweithredoedd neillduol. "Dylid cofio yn wastadol (medd Syr W. Hamilton) fod y gwahanol weithrediadau meddyliol yn ddichonadwy yn unig yn a throy eu gilydd; ac nad ydyw ein gwahaniaethau eneidol yn dynodi unrhyw wahaniaeth gwirioneddol yn y gweithrediadau a ddynodir genym â gwahanol enwau." Y mae y naill gynneddf, yn y modd yma, yn fynych yn ammod gweithrediad y llall; ac y mae iddi hefyd, dybygem, fel y mae yn egwyddor bur, hanfodiad annibynol ar y llall. Yn awr, os ydyw olrhain ffeithiau y meddwl yn ol i'w hegwyddorion neu gynneddfau mwyaf syml ac unplyg, yn deillwng o'r meddwl, y mae yr un mor deillwng o'r wyddiant a yna hyn i ni ymgadw at y gyfryw drefn. Mae Dr. M'Cosh wedi bod ychydig yn esgeulus yn hyn o beth, ac wedi arddangos yr ewyllys (yr hon a esyd allan fel priodolodd feddyliol) fel yn meddu barn fechan o'i heiddo ei hun; tra y mae yn caniatáu mewn cyfran arall o'i draethawd fod genym gynneddf o *reswm*, swydd pa un ydyw "darganfod perthynas pethau, a phenderfynu y gwir a'r gau;" a bod genym *gynneddf foesol*, swydd pa un ydyw penderfynu "yr hyn sydd foesol dda neu ddrwg." Beth ychwaneg a geisiai i benderfynu pethau, sydd ddirgelwch. Ac yn wir, y mae ei olygiadau ar hyn yn ymddangos i ni ychydig yn gymysglyd. Dichon mai nid ei fai ef ydyw hyn, ond mai ein pylni meddyliol ein hunain. "Yr ewyllys (eb efe) sydd yn penderfynu pa beth a ddewisir neu a wrthodir—pa beth sydd dda, a pha beth nid yw dda. Y mae yn ddiammheuel y rhaid i alluoedd eraill yr enaid gynyrrchu y gwrthddrychau. Rhaid i'r teimlad corfforol neu feddyliol hysbysu pa beth sydd boenus, a pha beth sydd hyfryd; y gydwytbod a ddengys pa beth sydd foesol dda, a pha beth sydd foesol ddrwg; dichon i'r rheswm gyhoeddi pa beth sydd dda, a pha beth sydd au; ond nid swydd yr un o'r rhai hyn ydyw gwneyd y dewisiad." Yr ewyllys sydd yn meddu yr hawlfraint hōno. Meddyliem fod y frawddeg olaf yn y dyfyniad yn ddynodiad eglur iawn nad ydyw yr ewyllys yn gwneyd dim ond dewis y gwrthddrych ar ol i'r cynneddfau eraill ei arddangos yn ei nodweddion priodol. Dengys fod yr ewyllys yn dewis ei gweithrediadau mewn cydffurfiad a'r cynneddfau eraill. Eithr ymron yn ymyl, ni a'i cawn ni dyweyd, "Y mae yr ewyllys, yn ddiâu, yn dewis y pleserus ynddo ei hun yn hytrach na'r poenus, ond *gwna hyny o herwydd yr ewyllysia wneyd felly.*" Mae yn wir, ni a ganiatawn, fod yr ewyllys yn dewis y da a'r pleserus o flaen y drwg a'r poenus; ond ai nid y rheswm am hyny ydyw y ffaith, fod y cynneddfau eraill yn dangos beth sydd yn boenus neu yn bleserus? Profiad ein synwyrâu sydd yn ein dysgu am wrthddrychau neillduol, eu bod yn abl i gynyrrchu teimladau hyfryd neu anhyfryd. Nid priodol dywedyd mai yr achos fod dyn yn ymgadw oddiwrth y tân, ydyw, ei fod yn ewyllysio gwneyd felly, canys ewyllysia hyny am fod profiad personol, neu hanes, wedi ei rybuddio o'r perygl. Pe byddai bosibl i ni daraw ar ddyn na

wyddai ddim am ystyrion y geiriau *pleser* a *phoen*; a phe gofynem iddo, pa un a ddewisai am awr, fe allai yr arweinid ef yn ei auwybodaeth i ddyweyd mai poen; ond gofynfer iddo yr ail waith, a cheir gweled i'r gwrthwyneb. Y mae pob creadur rhesymol yn cofieidio pleser *am mai pleser ydyw*, ac yn ysgöi poen *am mai poen ydyw*. Mae yn wir yr ymddengys rhai ffeithiau ar y tarawiad cyntaf fel yn milwrio yn erbyn y sylwadau blaenorol. Darllenwn a chlywn am hunan-laddiadau eohryslawn. Mae dynion yn ymorwedd yn dawel dan olwynion yr eilun-dduw Juggernaut. Teifi dyn ei hun i fynydd tanllyd, er mwyn anfarwoli ei euw neu ryw-beth cyffelyb. Cymer Zaleucus, y Locriad, ei amddifadu o un o'i lygaid, o gariad at ei fab. Diffydd yr hen athronydd Democritus ei ddau lygad, fel y gallo gymdeithasu â'i feddwl yn well. Treulia yr athronydd Diogenes y rhan fwyaf o'i oes mewn twb, a diystyra yr anrhydedd o siarad âg hyd yn nod Alexander. Nid ydyw y ffeithiau hyn, mewn gwirionedd, yn gwrthddyweyd yr hyn a ddywedasom eisoes, sef mai dewis neu ewyllysio pleser y mae dyn o herwydd mai pleser ydyw. Yr ewyllys ydyw achos y gweithrediad pur; ond ai hyhi ydyw yr achos fod y gweithrediad yr hyn ydyw?

Yr ydym yn ymwybodol, erbyn hyn, ein bod wedi ymdirio, ymron yn ddiarwybod i ni ein hunain, ar gyffiniau y pwnc mawr, a'r ddaol anorphen o *ryddid neu gaethiweid yr ewyllys*. Teimlwn hefyd fod hwn yn bwnc mor ddyrus, fel nad ydyw yn ngallu yr enaid dynol ei amgyfffer yn briodol, nac, o ganlyniad, ei oesod allan yn ei oleuni ei hun. Mae athrylith a thalentau cewri meddyliol wedi cael eu trethu a'u dyhysbyddu yma. Mae y naill ddsbarth wedi gyru y llall i eithafion tyngedfeniaeth neu ddamwain. Mae y naill gyfeiliornad mor wrthwynebol i grefydd ag ydyw y llall.

Wrth ymdrin â'r pwnc hwn, y mae o bwys i ni wybod beth a olygir wrth ryddid yn ei gysylltiad â'r ewyllys. Golygiad Jonathan Edwards, o'r America, ydyw, fod rhyddid yr ewyllys yn gynnwysedig yn y "*gallu, cyfluedra, neu fantasia, a fodd unrhyw un i wneyd fel y gwelo yn dda*—neu fel yr ewyllysio." Dr. Thomas Reid a sylwa fel y canlyn, a dywed:— "*Wrth ryddid gweithredydd moesol y golygaf, gallu dros benderfyniadau ei ewyllys ei hun;*" neu, fel y sylwa ei olygydd dysgedig mewn nodyn ar waelod y ddalen, "*Hyny ydyw, nid ydyw rhyddid moesol yn gynnwysedig yn unig yn y gallu o wneyd yr hyn a ewyllysion, ond yn y gallu o ewyllysio yr hyn a ewyllysion.*" Medd Dr. M'Coah ar hyn, "*Y mae rhyddid y meddwl yn gynnwysedig, nid mewn bod yr effaith yn dilyn yr ewyllysiad, megys, er anghraiff, bod symudiad y fraich yn dilyn yr ewyllysiad i'w symud, ond yn ngallu y meddwl i ffurfio yr ewyllysiad yn y gweithrediad o'i gynneddfau gwirfoddol (voluntary faculties).*" Golygiad Dr Samuel Clarke ydyw hyn,— "*Y gallu o hunan-ysgogiad neu weithrediad, pa un yn mhob gwrthddrych bywydolsydd wirfoddolrwydd (spontaneity), ydyw yr hyn a alwn mewn creaduriaid rhesymol neu foesol yn rhyddid.*" Cenfydd y darlennydd bod y golygiadau blaenorol yn alluog o gael eu dosbarthu i ddau ddsbarth; y dosbarth blaenaf yn cynnwys Edwards, Reid, Hamilton, a M'Coah, y rhai a soniant am ryddid mewn gwrthgyferbyniad i reidrwydd; a'r ail ddsbarth yn cynnwys Dr. S. Clarke, gyda pha un y gellid enwi yr athronydd Ffrengig Cousin, y rhai a ddaliant dros yr hyn a elwir yn rhyddid o wirfoddolrwydd.

Cyfaddefa pawb fod y fath beth a rhyddid o wirfoddolrwydd (*spontaneity*), sef y cyfryw ryddid ag a deimlir gan ddyn wrth fyw, anadlu, bwyta pan yn newynog, &c. Ond ai priodol galw hwn yn rhyddid creadur moesol? Mae yn wir ei fod yn perthyn i'r ewyllys; ond nid ydyw ond yr hyn a berthyn i greaduriaid afresymol a diewyllys yn ogystal. "Y gwirfoddolrwydd mwyaf, mewn gwirionedd, ydyw yr anghenrheidrwydd mwyaf. Yn ol y darnodiad hwn o ryddid, gellir dywedyd bod ceffyl newynog, pan yn anghenrheidiol droi at ymborth, yn gwneyd hyn yn rhydd, o herwydd ei fod yn gwneyd yn wirfoddol; ac, yn gyffredinol, yn ol y cymhwysiad hwa o'r gair—y dymuniad am ddedwyddwch, yr hwn ydyw y tueddiad mwyaf anghenrheidiol, a fydd y mwyaf rhydd." Dywed Cousin, fod "rhyddid yn cael ei gynnwys yn y gallu pur o ewyllysio, yr hyn a ganlymir bob amser gan yr ymwybyddiaeth o allu i ewyllysio (nid wyf yn dywedyd gallu i feddwl, neu allu i weithredu, ond gallu i ewyllysio) yn y *gwrthwysob* i'r hyn a ewyllysia." Yn awr, gan mai â chreadur rhesymol a moesol y mae a wnelom yma, ai priodol dywedyd fod "rhyddid y gweithrediad pur," neu y "gwirfoddolrwydd" hwn, yn ddarnodiad cywir o ryddid rhesymol a moesol? Nid yn eu hachosion, ond yn eu natur, y cynnwysir moesoldeb neu anfoesoldeb gweithredoedd. Fel egwyddor ein personoliaeth, yr un ydyw yr ewyllys yn mhob dyn, a'r un ydyw yn yr un dyn pan yn cyflawni gweithrediad moesol neu anfoesol. O ganlyniad, nis gall rhyddid "gweithredoedd pur" fod yn briodol am ryddid moesol, canys nid oes dim moesol ynddo. Dengys Cousin fod cynneddf resymol dyn, a'i ddarganfyddion synwrol, yn gaeth i ddeddfau, ond bod yr ewyllys, fel y mae yn achosydd, yn rhydd. Pe caniatuem fod y ddeddf yn gadarn can belled a hyna, gellid gofyn wed'yn, a ydyw yr ewyllys, fel y mae yn achosydd, yn achos hollol (*absolute cause*)? Os nad ydyw, yna nid ydyw ei weithrediau yn rhydd, canys y darnodiad cywir o weithred rydd ydyw, "un a fyddo yn achos heb fod ei hun yn *effaith*." Drachefn, pe caniatuem fod yr ewyllys ei hun yn achos hollol ac annehreul, gellid gofyn, a all yr achos yma amgen nag achosi? Os nad all, yna y mae yn *rhwym* o achosi. A pha le y mae rhyddid? Atebwn yn ngeiriau yr apostol, "Efe a gauwyd allan."

Dywed Edwards, mai nid priodol son am ryddid fel priodoledd berthynol i'r ewyllys;—priodoledd y dyn, meddiannydd yr ewyllys, ydyw rhyddid. Ond nis canfyddwn pa fodd y mae hyn yn anmbriodol, tra y siaradwn am yr enaid fel yn ddsbarthedig i gynneddfau. Y mae gwirioneddau anghenrheidiol yn hanfodi, y rhai ydynt briodoleddau ein cynneddf resymol; a phagam nas gellir dywedyd gyda yr un priodoldeb fod rhyddid yn briodoledd yr ewyllys? Nid oes wrthuni yn y byd mewn priodoli priodoleddau i briodoleddau. Cofier nad ydym yn dadlu fod rhyddid yn perthyn i'r ewyllys fel cynneddf eneidol: amheu dadl Mr. E. yn unig yr ydym. Dywed Locke hefyd, na ddylid priodoli rhyddid i'r ewyllys, ond i'r dyn. Felly hefyd Mr. Morell. Ond a geir rhyddid yn y fan yna? A ydyw y meddwl, medd yr awdur olaf a enwyd, wrth roddi allan ewyllysiadau, yn penderfynu ei hunan, neu a ydyw yn cael ei benderfynu gan annogaethau? Etyb yn eglur a dihoced, "fod pob ewyllysiad yn cael ei benderfynu gan annogaeth." Dealler fed pob annogaeth yn y meddwl, a'i fod fel y cyfryw yn un o'n teimladau meddyliol (*emotions*). "Nid ydyw ewyllysiadau," ynte, "yn rhydd, ond y mae dyn; fe'u pender-



fynir hwy yn mhob amgylchiad, ond *dyn* sydd yn eu penderfynu." Nid ydyw hyn ond symud y pwnc yn ol i'r un man a Cousin, sef i'r egwyddor o bersonoliaeth. A pha beth ydyw y personoliaeth hwn ond y gallu gwirfoddol o hunan-ysgogiad? Cyfeiria Morell at hyn yn barhaus fel ffaith arbenicaf y meddwl, a dywed nas gellir synied am feddwl oddieithr mewn ysgogiad—*yn meddhol*. Eglur ydyw, o ganlyniad, nad ydyw yn rhydd i feddwl neu beidio. Y mae yn anghenrheidiol weithredol; ac ar ol hyny, mae ei weithrediadau yn cael eu dwyn ymlaen mewn cydffurfiad âg annogaethau, y rhai sydd, er yn cael eu ffurfio gan y meddwl ei hun, yn bethau hollol anghenrheidiol, yn tarddu oddiar ddeddfau caeth ac anghynewidiol y meddwl.

Ond beth ydyw yr annogaethau hyn? a pha beth ydyw eu dylanwad ar y penderfyniad? Y mae y canlynol, dybygid, yn ddarnodiad cywir iawn:—“Cynnwysa yr annogaethau yr holl dueddiadau a fedd y meddwl i weithredu yn wirfoddol; canys cynnwysant nid yn unig y rhesymau, ond yr holl dueddiadau a ymgfyodant oddiwrt h y nwydau, neu argraffiadau blaenorol eraill.” Y meddwl, gan hyny, sydd yn cyfansoddi yr annogaethau, ac yn y meddwl yn unig yr hanfodant. Rhai o'r caeth-ewyllysyr a soniant am danynt fel pe baent wrthddrychau oddiallan i'r meddwl; ond pan lefarant yn bendant, nid ydynt yn golygu hyn. Yn awr, y mae y rhydd-ewyllysyr, yn ogystal a'r dosbarth gwrthwynebol, yn cytuno can belled a hyn—bod annogaethau yn rhagflaenu gweithredoedd yn ddiwahaniaeth. Myn pleidwyr caethiwed yr ewyllys, mai y cymhelliaid neu annogaeth cryfaf, pa un a ymddengys i'r meddwl fel y daioni penaf, ydyw yr un yn ol pa un y penderfyna yr ewyllys. Nagé, medd rhai o'r rhydd-ewyllysyr; y mae gan y meddwl—yr ewyllys—ddylanwad ar y cymhellion. Ni fyddai gwneyd y meddwl yn rhwym i gydymffurfio yn y modd yma â'r annogaeth, medd ysgrifenydd yr erthygl “Ewyllys,” yn y “*Penny Cyclopædia*,” amgen na “gwneyd meddwl dyn yn dderbynydd ymddangosiadau synwryol, heb unrhyw allu i ymweithredu arnynt. Gall y cyfundraethau ag a olygant y meddwl yn gyfryw dderbynydd, fod yn gyson wrth wneyd iddo gydffurfio â'r annogaeth rymusaf heb un math o ymdrech o'i eiddo ei hun. Y cyfundraethau hyny ag a briodolant i'r meddwl allu i weithredu ar argraffiadau, a allant addef, gyda chysondeb, fod gan y meddwl allu i benderfynu pa un o honynt a ddewisa.” Yr ydym yn cael M'Cosh yn sylwi ryw-beth yn gyffelyb, “Wrth wneuthur y dewisiad (medd efe), diammheuol ydyw ein bod yn cael ein dylanwadu gan ystyriaethau; ond y mae grym yr ystyriaethau (neu annogaethau) hyn yn cael ei roddi iddynt gan yr ewyllys ei hun, yr hon a ddichon osod pwys mawr arnynt, ond yr hon a ddichon hefyd, os myn, eu gosod ar eu gwaethaf (*defiance*).” Os wrth wrthwynebu yr annogaeth lywodraethol, y golyga ysgrifenydd y “*Penny*,” ac os wrth osod yr annogaethau ar eu *defiance* y golyga M'Cosh, fod yn ddichonadwy i'r ewyllys beidio gweithredu yn ol y cryfaf o honynt, y maent yn sicr o fod yn cyfeillorni; canys os credant fod annogaethau yn blaenori pob penderfyniad—os credant mai tueddiad meddyliol ydyw pob annogaeth, dylent gyfaddef hefyd mai y prif dueddiad, yr hyn a ymddengys i'r meddwl fel y “daioni mywaf,” a gaiff y flaenoriaeth. “Y mae gwadu hyn (medd Leibnitz) yn gwahanu y meddwl oddiwrt yr annogaethau, fel pe baent oddiallan i'r meddwl, fel y mae y pwysau yn wahaniaethol oddiwrt y fantol, ac megys pe byddai gan y meddwl, heblaw annogaethau, duedd-

iadau eraill i weithredu, drwy rinwedd pa rai y gallai ddewis neu wrthi yr annogaethau. Gan hyny, fe ddewisai y meddwl dueddiad gwaa a hyrach nag un grymus; efe a weithredai yn ei erbyn ei hun, ac yn wahau i'r hyn y'i tueddir i weithredu." Y mae Mr. Morell hefyd yn goeod pwr mawr ar y ffaith mai y meddwl ei hun sydd yn cyfansoddi yr annogaethau; ond tra y caniatawn hyny yn rhwydd, nis canfyddwn fod yma un sail i: gyfundaeth a fyntumia ryddid annibynol yr ewyllys. Awgrymasom eise fod ein holl deimladau a'n synwriaethau dan ddylanwad ein bewyls mewn modd mwy neu lai uniongyrehol, yn ogystal a'n gweithredoedd. Ond y mae deddfau yn perthyn i'n teimlad a'n rheswm, fel y mae yn sic pe gosodid dau ddyn o'r un cyfansoddiad meddyliol yn hollol yn agored i ddylanwad yr un amgylchiadau allanol, mai yr un annogaethau a ffurfir gan y meddwl, ac mai yr un, o ganlyniad, fyddai penderfyniad yr ewyllys. Nid ydyw hyn yn wadiad o allu hunan-ysgogol y meddwl, fel y tybia yr ysgrifenydd uchod; ond y mae yn ddynodiad fod yr hunan-ysgogiad hwn yn cael ei lywodraethu gan rywbeth oddiallan iddo ei hun, a'r rhywbeth hwnw yn cael ei gyfansoddi mewn cydffurfiad â deddfau anghyfnawidol. I fenthyca ymadroddion o'r hen oesoedd, "Y mae yr un rheidrwydd yn rhwymo duwiau a dynion yn ogystal a'u gilydd—y mae amgylchiadau dwyfol yn ogystal a dynol yn teithio ymlaen mewn linell anattaliadwy; un achos a ddibyna ar y llall; cynnyrchir effeithiau yn gyfresau diderfys; nid oes dim yn gynnrych damwain."

"Eithr," medd y rhydd-ewyllys-wyr, "er y credwn bod annogaethau yn rhagflaenu y gweithrediad, nid hwy ydyw achos y gweithrediad—*achlysur* yn unig ydynt." Pe byddai y ddatl yn gywir ar bob tir arall, gellid dywedyd, nad ydyw yr ewyllys, o'i golygu fel achos anhenderfynol, na ewyddor o weithrediad, yn meddu nodweddion moesol. Ond gwrthwynebir hi yma ar dir arall. Beth ydyw achos? A ydyw pob peth sydd yn anghenrheidiol i gyfansoddiad y weithred yn achos? neu a rhyw un dylanwad mawr, pell bell yn oll, tuhwnt i'r hwn nis gall y meddwl dreiddio, ydyw ei hachos? A oes mwy nag un achos i'r un weithred, neu a ydyw yn gynnrych un gwreiddyn? Caiff yr awdurdod feirniadol uchaf a fedd y deyrnas gyfunol, os nad Ewrop hefyd, yn yr oes bresennol, ateb; a chaiff darllenwyr y "Traethodydd" yr hawlfraint o farnu drostynt eu hunain. Y beirniad ydyw Syr William Hamilton, yr hwn a gyfaddefir yn Titan ymhlith y beirniad, ac yn Magliabechi o ran eangder ei wybodaeth ddarllenyddol. "Nid oes un rheswm," medd efe, "paham nas gellir galw pa beth bynag a amgyffredir fel yn anghenrheidiol fyned i gyfansoddiad yr hyn a elwir yn *effaith*—mewn geiriau eraill, paham nad ydyw y naill a'r oll o'i *gydeffeithwyr*—paham nas gellir eu galw yn briodol yn *achosion* neu yn *gydachosion*; canys rhaid bob amser fod mwy nag un achos i weithred. Byddai hyn yn fwy cywir na rhoddi yr enw *achos* yn unig i unrhyw ran cyfansoddiol neu gydeffeithiol, er yn agosaf a phrifyddol (*primal and principal*). Yn y golygiad hwn, y mae athrawiaeth Aristotle, ac eraill o'r hynafiaid, yn fwy rhesymol nag eiddo ein hathronwyr diweddar." Yn yr ystyr hwn yr arferir y gair *achos* gan ymherawdwr yr ysgrifenydd ar yr "Ewyllys," Jonathan Edwards, o'r America. Y mae y darnodiad hwn yn hollol ddim-yetriol i olygiad y rhydd-ewyllys-wyr, a chan hyny nis derbyniant ef. Cydwelant (o'r hyn lleiaf, cydwela y mwyafrif o honynt, canys yr ydym yn cael Dr. Thomas Reid yn *ceisio* profi bod ewyllysiadau neillduol, nad oes annog-

i'w caeth o fath yn y byd mewn cysylltiad â hwy; ond wrth ymgeisio at hyn, y  
 caemae yn profi pwnc ei wrthwynebwyr, ac yn dinystrio ei gyfundraeth ei hun),  
 a phleidiwyr caethiwed yr ewyllys mewn perthynas i'r anghenrheidrwydd  
 am annogaethau; ond *achlysuron* ydynt. Yr ydym yn cofio ein bod wedi  
 gwahaniaethu rhwng *achosion* ac *achlysuron* mewn rhan flaenorol o'r ysgrif;  
 ond nid ydym yn ystyried y gwahaniaethiad hwnw ond un geiriol yn unig,  
 ac un sydd, er hyny, yn dra gwasanaethol mewn athroniaeth. Nis gwydd-  
 om, mewn ffaith, am un achos a'r nas gellir ei alw yn achlysur o ran hyny.  
 Y mae achos hollol (*absolute cause*) yn beth nas gallwn ei amgyffred: nid  
 ydym yn dyweyd, cofier, nad ydyw yn hanfodi. Y mae dirgeledigaethau  
 yma nas gallwn eu treiddio, ac na fwriadwyd i ddynion eu treiddio. Pe  
 gallem amgyffred y cyfryw beth, gallem amgyffred y Duw anfeidrol ei hun;  
 a phe gallem amgyffred Duw, byddai hyny yn ddinistr union-  
 gyrchol i grefydd. Fe allai y gofyna rhywun, Onid yw y ffaith  
 o allu hunan-ysgogol y meddwl yn ddigon i ateb am yr effaith rhy-  
 feddol a elwir yn ewyllysiad? I'r hyn y gellir ateb, fod gwahan-  
 iaeth rhwng egwyddor neu allu o weithrediad a *gweithred*. Mae  
 gweithgarwech hanfodol y meddwl yn ddigonol i ateb am y gweithrediad  
 sydd yn y meddwl; ond nid ydyw yn ddigonol i ateb am y weithred  
 neillduol a gyflawnir. Gweithredoedd, meddwn eto, sydd yn teylngu yr  
 ansoddair moesol neu anfoesol, ac nid gallu neu egwyddor o weithrediad.  
 Priodoledd person ydyw gweithrediad; ond priodoledd gweithred ydyw  
 moesoldeb. O ganlyniad, os caniatëir fod y gweithredoedd neillduol  
 yn cael eu cyflawni mewn cydffurfiad ag annogaethau; os ydyw  
 annogaethau yn dylanwadu yn rhyw fodd ar y weithred; rhaid  
 caniatäu hefyd, os mynir bod yn gyson, eu bod yn achosion paham  
 y mae y weithred yr hyn ydyw. Os myn y rhydd-ewyllyswyr ddal allan,  
 er pob peth, nad oes ond un achos i weithred, sef y gallu hunan-ysgogol o  
 ewyllys; ac os mynant roddi y golygiad bod annogaethau yn achosion, i  
 lawr fel ffrogodd disylwedd ac anathronyddol; byddai yn burion iddynt  
 brofi fod yr ewyllys y cyfryw achos ag y mynant i ni gredu ei bod. Hyd  
 oni wnant hyn, ofer iddynt son am ewyllys rydd.

Canfyddir bod tuedd y sylwadau blaenorol yn wrthawynebol i ewyllys  
 rydd, ar y tir o ryddid oddiwrth anghenrheidrwydd. A ydyw dyn yn  
 gaethyn tyngedfeniaeth, ynte? neu, a ydyw y darnodiad a roddir o  
 weithred rydd yn gywir? Credwn nad ydyw dyn yn gaethyn tynged-  
 feniaeth anorfod; ac wrth wrthwynebu rhyddid yr ewyllys ar y tir y  
 gwnaethom, gallem fabwysiadu iaith un o brif ddadleuwyr ei chaethiwed, a  
 dywedyd, "Yr ydwyf yn credu bod genyf deimlad o ryddid, hyd yn nod  
 yn yr un eiliad ag yr wyf yn ysgrifenu yn erbyn rhyddid, ar dir a dybir  
 genyf fi yn anwrthwynebol." Y mae dyn yn rhydd. Ammheurn, yr un  
 pryd, ai yn ein bod yn meddu gallu dros benderfyniadau ein hewyllys ein  
 hunain; neu, mewn geiriau eraill, yn ein bod yn alluog i ewyllysio pethau  
 yn hollol annibynol ar bob annogaethau, y mae rhyddid moesol yn gyn-  
 nwysedig. "Y mae y darnodiad yma o ryddid yn gywir," ebe Hamilton;  
 ond dywed yn ymyl hyny, mai anmhosibl ydyw i ni gael un math o amgyffred-  
 iad o hono—nis gallwn amgyffred am eiliad y cyfryw beth ag achos an-  
 mhenderfynol. Gallwn ofyn yn bresennol, Os ydyw yn anmhosibl i ni  
 amgyffred y fath beth a rhyddid hollol ddiachos a dianghenrheidiol, pa  
 fodd y gwyddom ei fod yn hanfodi? Os ydyw ystyrion enwau i gael eu

penderfynu gan eu gwrthddrychau, oni ddylai ystyr yr enw *rhyddid* gael ei gyfyngu i ïangder yr amgyffrediad a feddwn am dano? Nis gwyddom am ryddid diachos. Mae hyd yn nod yr Anfeidrol ei hun yn ddarostyngedig i ddeddfau. "Ydwyf lanach dy lygaid *nag y gelli* edrych ar ddrwg."

Fodd bynag am hyny, credwn fod dyn yn rhydd-ewyllysydd. Nid oes dim gorfodaeth yn cael ei osod arno. Y mae rhyddid yn ffaith arbenig o'n cyfansoddiad. Onid ydyw dynion yn ddiethriad yn teimlo eu bod yn berffaith rydd yn y cyflawniad o'u gweithredoedd? Ac yn wir, onid ydym ymwybodol hefyd o'r ffaith, mai po rymusaf fo yr annogaethau, yn fynych, mai cryfaf oll fydd y teimlad o ryddid? Nid ydym yn derbyn y ffaith hon o'n synwriaethau (*sensations*), ond y mae yn un o feithiau "*common sense*," ys dywed Reid. Mae *parab* yn teimlo yn gyffelyb ar hyn—dyna *gyffredinolrwydd*; a phe ceisient feddwl yn amgen, sef eu bod yn gaeth wrth benderfynu ar weithrediadau, nis gallent—dyna *anghenrheidrwydd*. Pa egwyddor neu ffaith bynag sydd yn meddu y ddwy briodoledd yna, y mae yn sicr o fod yn un o ddeddfau y meddwl ei hun. Nis gall fod yn dwyllodrus, oddieithr y tybiwn fod y Creawdwr daionus wedi ein cynnysgaethu â chynneddfau twyllodrus. Hyn nis gallai efe ei wneuthur. "Duw cariad yw," ac Efe "*nis gall* ei wadu ei hun." Yn obeithiol nad ydym wedi "tywyllu cynghor âg ymadroddion heb wybodaeth," nis gwyddom y gallem derfynu yn well *nag* yn ngeiriau yr un y cyfeiriwyd ato drosodd a throsgodd yn yr ysgrif, Syr W. Hamilton: "Nis gall yr athrawiaeth o ryddid moesol gael ei gwneyd yn amgyffredadwy, canys nis gallwn amgyffred ond y penderfynol a'r perthynasol. Fel y sylwyd eisoes, yr oll a ellir ei wneuthur ydyw dangos, iaf, Fod genym, am y ffaith o ryddid, dystiolaeth fwy neu lai uniongyrchol ein hymwybyddiaeth; ac yn 2il, Fod ymhlith yr ymddangosiadau meddyliol liaws o ffeithiau ag y rhaid i ni ganiatáu eu bod yn hanfodi, ond o bosibl rwydd pa rai yr ydym yn hollol analluog i ffurfio un math o syniad. Sylwaf yn unig, y gellir dangos y ffaith o fudiad (*motion*) i fod yn anmhosibl, ar dir nid llai cadarn na'r hwn ar ba un y ceisair gwrthbrofi y ffaith o ryddid." Ac ymhellach, hyd yn nod pe na bai genym y ffaith bendant hon o ymwybyddiaeth, ac os nad ydyw ein cydwybod a'n hymwybyddiaeth yn ein twyllo, yr ydym yn cael ynom ein hunain rywbeth ag y gallwn ei alw yn ddeddf hanfodol dyledswydd (*absolute law of duty*); os felly, yr "ydym yn rhydd fel yr ydym yn weithredyddion moesol; canys y mae moesoldeb yn cynnwys rhyddid fel ei ammod hanfodol."

---

## HECTOR AC ANDROMACHE.

CYFIRITHLIAD O "ILIAD HOMER," VL 369—502

NOL dywedyd hyn o eiriau, helm-arfog Hector gun  
 Oddiyno aeth yn ebrwydd i'w annedd lawm ei hun.  
 Andromache fraich-wendeg ni chafodd yn y ty;  
 Can's hi, ynghyd â'i phlentyn, a'i morwyn daclus gu,  
 Ar ben y tŵr eisteddai, gan ocheneidio'n ddwys:  
 A Hector, pan na chafodd yn tŷ ei briod lwys,

Ar drothwy'r neuadd d'wedai wrth y llancesau oll,  
 Lancesau, dowch, mynegwch i mi y gwir digoll;  
 Andromache fraich-wendeg, i ba le'r aeth o'r ty?  
 Ai at rai o'i chwirydd-yn-nghyfraith hardd-deg cu?  
 Ai ynte i deml Athene, lle mae Tröesau coeth,  
 Gwallt-brydferth, yn cymmodi y ddigllawn dduwies ddoeth?  
 Y benaf o'r morwynion ddywedai wrtho 'n glir;  
 O Hector, gan it erchu i ni fynegu'r gwir,  
 Nid aeth at ei chwirydd-yn-nghyfraith hardd-deg cu,  
 Na chwaith i deml Athene, lle mae Tröesau'n llu  
 Gwallt-brydferth, yn cymmodi y ddigllawn dduwies gref;  
 Ond esgyn wnaeth i gopa tŵr uchel lliion dref:  
 Can's clywodd fod y Troiaid yn cael eu gwasgu 'n llym  
 Gan ymgyrch yr Achaiaid, rai creulawn mawr eu grym.  
 At gaer y dref hi redodd, o'i chof gan faint ei chŵyn;  
 A'r plentyn hefyd ddygid yn mreichiau'r fammaeth fwyn.  
 Fel hyn dywedai'r llances: yn union Hector aeth,  
 Ar hyd heolydd llydain, drachefn y ffordd y daeth,  
 Nes cyrhaedd at byrth Scaia, 'n ol tramwy'r ddinas faith;  
 Can's yno'r oedd mynedfa o'r dref i maes i'r paith.  
 Ac yno i'w gyfarfod ei wraig a ddaeth mewn pryd,  
 Andromache, ferch hawddgar Eetion hael ei fryd;  
 Eetion 'r hwn breswyliai Hypoplac goediog glyd,  
 Yn Thebes lle rheolai'r Ciliciaid dewr i gyd.  
 I Hector fawr bres-helmog rhoddasai ef ei ferch,  
 Yr hon ddaeth i'w gyfarfod yn awr yn llawn o serch:  
 A gyda hi y forwyn yn cario ar ei bron  
 Y plentyn hoff, mab Hector, fel seren loew lon.  
 Scamandrios oedd yr enw gan Hector gafodd ef,  
 Astyanacs gan eraill, can's Hector gadwai'r dref.  
 Ei dad yn ddystaw wenai wrth wel'd ei blentyn glwys,  
 A'r fam gerllaw a safai gan dywallt dagrau dwys.  
 Wrth law ei gŵr y glynai, a dwedai wrtho 'n rhydd—  
 Anwylyd, gan dy ddewrder dyfethir di ryw ddydd.  
 Ac at dy blentyn tyner dideimlad wyt yn wir,  
 A minnau'r hon a fyddaf yn unig yn y tir.  
 'R Achaiaid toc a'th laddant, pan ddeuant oll yn llu:  
 Ond gwell i mi na'th gollu, fyn'd lawr i'r ddaear ddu.  
 Dim cysur ni fydd imi pan gwympi yn y gad;  
 Can's genyf nid oes mwyach na hybarch fam na thad.  
 Fy anwyl dad a laddwyd gan gledd Achilles fawr,  
 A phoblog dre'r Ciliciaid ddinystriwyd hyd y llawr,  
 Sef Thebes fawr uchelborth—Eetion laddodd ef,  
 Er hynyd nid yspeillodd, can's ofnodd farn y nef.  
 Ond ef â'i arfau cywraïn a losgodd yn y tân,  
 Ac uwch y llwch yn arwydd fe gododd grugyn glân:  
 A llwyfydd prydferth hefyd a blannwyd i'w amgau,  
 Gan gain dduwiesau'r mynydd, plant y tarianawg Iau.  
 'R oedd genyf saith o frodyr yn nhŷ fy nhad yn byw;  
 Ond oll un dydd hwy aethant i fro'r uffernol Dduw,

Achilles ddewr fuan-droed a'u lladdodd fawr a mân,  
 Plith ychain gwar traed-drymion, a defaid gwynion glân.  
 Fy mam, yr hon a lywiai Hypoplac goediog glyd,  
 A ddygwyd ganddo ymaith, a'r eiddo oll i gyd.  
 Ond am ddiderfyn bridwerth gollyngodd hi ar frya,  
 Ac Artemia, saethyddes, a'i lladdodd yn y llys.  
 Ond ti i mi, fy Hector, wyt dad a mam dy hun,  
 Brawd hefyd yr un ffunud, a thi yw'm priod cun.  
 O tyr'd yn awr, tosturia, ac aros ar y tŵr,  
 Amddifad na wna'th blentyn, na'th wraig i golli ei gŵr.  
 Gerllaw y ffigyswydden sefydla di dy wŷr,  
 Lle mae y dref yn hygyrch, a gwanaf yw y mur.  
 Tair gwaith y dynion blaenaf a wnaethant yungais hyf ;  
 Y ddau ddychrynlyd Aiace, Idomeneus gryf,  
 A meibion Atreus hefyd, a gwrol fab Tydeus ;  
 Pa beth at hyn a'u denodd sydd imi yn ammhêus ;  
 Pa un ai rhyw un hysbys mewn dyfnion goelion cudd,  
 Ai hunan-farn a'u gweithiodd i lawn gynhyrriad rhydd.  
 I hon ar hyn atebai helm-arfog Hector fawr :  
 Y pethau hyn a enwaist i gyd, fy ngwraig, a'm dawr ;  
 Ond Troiaid, a Throesau, sy 'n gwisgo dillad laes,  
 Beth ddwedant os fi welant yn cilio 'n llwfr o'r maes ?  
 Nid hyny chwaith yw'm tuedd, can's dewr y dyagais fod ;  
 Yn mysg y Troiaid goreu mewn brwydrau bu fy nod,  
 I gynnal mawr ogoniant fy nhad a minnau 'nghyd.  
 Ond hyn a wn yn ddiaid mewn meddwl ac mewn bryd ;  
 Y daw y dydd ryw amser pan syrthio Iliion lân,  
 A Phriam arfog hefyd, a'i bobl yn ddiwahan.  
 Ond am ofidiau 'r Troiaid nid cymaint yw fy nghwyn,  
 Na Hecabe a'm magodd, na'r brenin Priam fwyn,  
 Na'm brodyr er mor anwyl, y rhai yn aml a ffwch  
 Dan ddwyllaw dynion creulawn a syrthiant yn y llwch,  
 A'r eiddot ti, fy mhriod, yn gaeth pan ddygir di,  
 Gan ryw Achaiad arfog, a'th ddaagrau 'n ffrydio 'n lli.  
 Dy waith fydd gwau yn Argos mewn rhyw estronol gell,  
 A chario dwr Meseis, neu Hypereia bell,  
 Yn erbyn dy ewyllys, dan bwysau creulawn raid :  
 A dwedant pan y'th welant yn wylo yn ddibaid ;  
 Hon oedd gwaig Hector unwaith, yr hwn flaenorai 'r gâd,  
 Yn mysg marchogion Troia o amgylch Iliion fad.  
 I ti, pan ddwedant felly, dwfn drallod newydd ddaw,  
 O ddifyg gŵr mor nerthol i gadw 'r afwydd draw.  
 Ond dan y pridd yn bentwr, yn farw cuddier fi,  
 Cyn clywyf am dy drallod, a'th drist gaethiwed di.  
 Ar hyn estynai Hector i'w blentyn hoff ei law ;  
 A'r plentyn yn ddiattreg a gilgai 'n ol mewn braw,  
 I fynwes fwyn ei fammaeth, gan waeddi a llechu 'n nes,  
 Rhag gwedd ei dad serchoglawn, ac ofn y dysglær bres,  
 A'r anferth grib farchrawnog, a wisgid yn y gâd,  
 Yr hon ysgydwai 'n wgu ar gopa helm ei dad.

Y tad yn siriol wenodd, a'r fam, edmygawl fun ;  
 A'i benwisg hardd yn ebrwydd dyosgodd Hector gun ;  
 Ac ar y llawr fe'i dododd yn ddysglaer o bob tu :  
 Ac 'n ol cusanu ei blentyn, a'i lon gofleidio 'n hy,  
 At Iau cyfeiriodd weddi, a'r duwiau eraill oll ;  
 O Iau, a'r duwiau eraill, cenadwch yn ddigoll,  
 I'm plentyn hwn, fel finnau, fod yma 'n barchus iawn,  
 A chyrrhaedd nerth, a llywio yn gadarn lliion lawn ;  
 Fel dwedo rhyw un eto, fod hwn yn well na'i dad,  
 O ryfel pan ddychwelo, a chario yspail mad,  
 'N ol lladd rhyw gawr gelynol, nes lloni bryd ei fam.  
 Hyn ddwedai, a gosodai ei blentyn yn ddinam,  
 Yn nwyllaw ei anwyl briod, yr hon mewn siriol swyn,  
 I'w mynwes beraroglaidd a'i cym'rodd ef yn fwyn,  
 Gan wenu trwy ei dagrau. A'i gŵr pan welodd hyn,  
 Dosturiodd, ac a sychodd ei grudd, gan ddweyd yn llyn ;  
 Anwylyd, na ofidia 'n ormodol yn dy fryd ;  
 Nid oes yn groes i dynged a'm gyr i maes o'r byd :  
 Ond tynged, gwn nas gallodd un dyn erioed osgoi ;  
 Na'r llwfr na'r mwyaf cadarn, nis gallant rhagddi ffoi.  
 Yn awr, dos dithau adref at dy orchwyllion maith,  
 Y cogel, a llywodraeth y merched glân a'u gwaith :  
 Ond gofal dwys y rhyfel, y gwŷr a gaiff ei ddwyn,  
 Myfi, ac nid fi 'n unig, ond pawb yn lliion fwyn.  
 'Nol dwedyd hyn o eiriau, yr enwog Hector fawr  
 Gymerai 'r helm farchrawnog orweddai ar y llawr :  
 A'r wraig hawddgaraf hithau aeth tua 'i chartref coeth,  
 Gan edrych 'n ol yn fynych, a thywallt dagrau poeth.  
 Yn fuan hi gyrhaeddodd i mewn i boblog dŷ  
 Y dewr ddynladdwr Hector, a chafodd yno lu  
 O ferched oedd yn gweini ; a llefain wnaeth pob un  
 Am Hector, er mwyn bywyd, o fewn ei dŷ ei hun.  
 Ef, meddynt, ni ddychwelai 'n ddiangol mwy o'r gâd,  
 O ganol grymus ddwylaw 'r Achaiaid mawr eu brâd.

## NODIADAU.

Nid oes yn Homer ond ychydig o'r hyn a gyfrifir yn brydferthwch gan lawer yn Nghymru ; ac eto, tyrwfodd, mae y dynion callaf yn mhob oes wedi talu gwarogaeth iddo fel tywysog y beirdd. Mae yn debyg mai yr achos o'r naill a'r llall ydyw, nad oedd efe yn ceisio gwella anian ; ond yn ymfoddloni i'w chymeryd fel yr ydoedd.

Ni fuasai cyfieithiad Pope mor boblogaidd oni buasai iddo ychwanegu llawer o addurniadau o'i waith ei hun at Homer : ond y mae pob dyn o feddwl coethedig yn rhoddi y blaen i Cowper, o gymaint ag y mae yn fwy llythyrenol.

Yn y cyfieithiad uchod, yr amcan oedd ei wneuthur mor llythyrenol ag y gellid. Y gamp wrth gyfieithu yw rhoddi yr ystyr, yr holl ystyr, a dim ond yr ystyr. Ni ddylid ychwanegu at feddyliau y bardd, mwy nag y dylai y bardd ychwanegu at brydferthwch anian.

Y mae meddwl i bob gair yn Homer. Y mae pob ansoddair yn dangos

rhyw briodoledd arbenig, yr hon a ddylid ei chadw wrth gyfieithu. Ond y mae ystyr rhai o honynt yn aminhëus. Er anghraifft, nid yw yn holl eglur pa fodd y dylid cyfieithu y gair *ελευθερος*. Cyfieithasom ef "traed-drymion," gan amcanu at uno y golygiadau a roddir gan Buttman a Passow.

Yn y darn uchod y mae dwy linell y rhai a gyfrifir yn mysg y rhai anhawddaf i'w cyfieithu yn yr holl "Iliad." Ar ol son ei bod wedi colli ei thad, a'i mam, a'i brodyr, y mae Andromache yn dyweyd wrth Hector fod yr holl berthynasau hyn yn cydgyfarfod ynddo ef.

Ond ti i mi, fy Hector, wyt dad a mam dy hun,  
Brawd hefyd yr un ffannud, a thi yw'm priod cun.

Yr anhawder yw dwyn i mewn yr holl enwau hoff, tad, mam, brawd, a phriod, a rhoddi neillduolrwydd hefyd i'r olaf, mewn dwy linell, fel y maent gan Homer. Yr oedd hyd y geiriau yn rhoddi i ni un fantais nad oedd gan y cyfieithwr Seisnig, y rhai ydynt oll wedi bod i ryw raddau yn afluwyddiannus. Dyma y cyfieithiadau Seisnig yn canlyn, fel y gallu y darlennydd eu cymharu :—

Yet all these gone from me,  
Thou amply render'st all, thy life makes still my father's be,  
My mother, brothers, and besides thou art my husband too,  
Most loved, most worthy. Pity then, dear love, and do not go.

CHAPMAN.

But thou, my Hector, art thyself alone,  
My parents, brothers, and my lord, in one.

DRYDEN.

Yet while my Hector still survives, I see  
My father, mother, brethren, all in thee.  
Alas! my parents, brothers, kindred all  
Once more will perish, if my Hector fall.

POPE.

All these are lost, but in thy wedded love,  
My faithful Hector, I regain them all.

COWPER.

Yet thou, my Hector! thou art all, alone,  
Sire, mother, brethren, husband, all in one.

SOTHEBY.

Y gwaelaf o honynt oll yn ddiambhau yw Pope, yr hwn sydd yn gadael allan y gair "priod" yn hollol: ac yr oedd yn rhaid iddo ychwanegu dwy linell at Homer, yr hwn oedd eisoes wedi dyweyd y cwbl oedd yn angher-rheidiol, a'r cwbl a allesid ei ddyweyd heb anafu y meddylddrych. Y mae Dryden yn dda fel arferol; ond y mae yn colli trwy uno tad a mam yn y gair "*parents*," yn lle eu cadw ar wahan, fel y maent yn Homer. Nid yw Cowper ychwaith yn y lle hwn yn ddigon manwl. Y mae wedi crynodi tad, mam, a brawd, yn y gair "*all*," yn lle eu henwi; ond y mae wedi cadw y berthynas briodasol. Fe allai mai yr hen Chapman yw y goreu o honynt oll, er ei fod yntau yn methu trwy adael allan y gair Hector, a thrwy beidio cynnwys yr holl feddwl mewn dwy linell. Y mae *Professor Wilson* yn rhoddi y flaenoriaeth i Sotheby; ond y mae yn ei gyfieithiad ef, fel yr eiddo Dryden, un bai, yr hwn sydd yn andwyo y cwbl. Y mae Homer yn rhoddi arbenigrwydd i'r berthynas briodasol, yr hwn sydd wedi ei gollu yn Sotheby. Gellid cyfieithu y llinellau gwreiddiol, air am air, fel y canlyn :—

Ond, Hector, ti i mi wyt dad a pharchus fam,  
Ac hefyd brawd, a thi i mi wyt briod cun.



## TAFLENI ACHAU IESU GRIST GAN YR EFENGYLWYR.

Y MAE perygl bob amser, yn ngwyneb cynnydd cryf llygredigaeth, mewn rhyw ffurf neillduol, mewn gwlad, neu ruthr arbenig rhyw gyfeiliornad dinystriol arni, i bleidwyr moesoldeb a charedigion y gwirionedd, o'i mewn, anghofio llygredigaethau a chyfeiliornadau eraill, llawn mor niweidiol, a allant fod, ar y pryd, mor wirioneddol, er nad yn hollol mor amlwg, yn ymosod arni. Nid ydym heb feddwl nas gallai ein bod ni yn Nghymru mewn graddau o berygl, y dyddiau hyn, i syrthio i'r amryfusedd hwn. Y mae yr ymdrechïadau a wnaed, yn y blyneddau diweddaf, tuag at ddarostwng un gelyn mawr i foesoldeb a chrefydd yn ein plith, yn deilwng o bob canmoliaeth. Pell oddiwrthym ni fyddo amddiffyn pob dywedïad, na cheisio cyfiawnhau yr holl eithafion, y mae rhai wedi myned iddynt, pan yn dadleu dros yr *achos dirvestol*, ac yn enwedig y chwareu sydd wedi ymgysylltu âg ef mewn rhai cymydogaethau, nas gall dueddu i ddim, yn ol ein meddwl ni, ond i bellhau rhai tyner eu cydwybodau oddiwrtho; ond am yr achos, *ymddo ei hunan*, yr ydym yn hollol benderfynol ei fod yn teilyngu sylw mwyaf difrifol, a chefnogaeth mwyaf gwresog, pob un a garo ei wlad a'i genedl, ac yn addaw i ni, fel y cyrhaedder yr amcan mewn golwg ganddo, les annhraethol. Ni fynem, er dim, awgrymu unrhyw beth a allai dueddu i wanhau breichiau y rhai sydd yn llafurio gydag ef. Ein dymuniad o'n calon yw, ar iddynt fyned rhagddynt a ffynu. Yr un pryd, nid ydym heb ofni, weithiau, rhag i ni, yn ein pryder dros yr achos hwn, fyned yn ddiöfâl yngylch llygredigaethau eraill, mor rymus, os nad llawn mor gyhoeddus, sydd yn ffynu yn ein plith;—llygredigaethau sydd yn gwreiddio mewn tueddiadau dyfnach yn ein natur, yn fwy neillduol yn perthynu i ni fel cenedl, ac yn anurddo mwy ar ein cymeriad yn ngolwg cenedloedd eraill y byd. Y mae eisieu i ni fod hefyd ar ein gwyliadwriaeth rhag syrthio i'r un perygl gyda golwg ar ymosodiadau yn erbyn y gwirionedd yn ein gwlad. Y mae y dull llechwraidd ac ystrywgar a arferwyd am flyneddau gan rai yn dwyn enw gweinidogion eglwys Brotestanaidd, i daenu prif egwyddorion Pabyddiaeth yn ein plith, a'r rhuthr haerllug a wnaed gan y pab ei hunan, yn ddiweddar, er ceisio ein dwyn fel teyrnas dan ei iau orthrymus, o'r diwedd, dybygem, yn dechreu cael eu teimlo yn lled gyffredinol. Y mae Pabyddiaeth wedi dyfod, i raddau mawr, yn wrthddrych dial y lliaws. Y mae teimlad Protestanaidd y deyrnas wedi ei gynhyrfu i'r byw. Cynnellir cyfarfodydd, taenir traethodau, traddodir darlithiau, arferir pob ymdrech, er egluro natur a thwyll y grefydd Babaid, ac er arfogi meddwl y wlad yn ei herbyn. Y mae pob graddau fel yn cyduno i edrych â llygad gwngus arni. Y mae hyd yn nod y seneddwy'r hyny, oeddent yn dychymygu y gall-sid ei denu trwy wob'r i newid ei natur, ac i ddyfod yn ddarostyngedig i'w hamcanion hwy, yn dechreu gweled, o leiaf yn profesu hyny, eu bod wedi eu siomi yn eu dysgwylïadau ynddi, ac yn addaw na roddant un cymhorth iddi rhagllaw. Y mae cyffro mawr hefyd yn meddylïau lliaws o aelodau yr Eglwys Wladol yn erbyn y gweinidogion hyny o'i mewn sydd yn pleidio ac yn taenu egwyddorion anghrist; ac ymddengys llawer o honynt yn awyddus ac yn

benderfynol am gael rhyw ddiwygiad ynnddi a attalio, o hyn allan, i'r cryw rai gael derbyniad i mewn iddi, os nad i fwrw ymaith yr holl rai sydd ynnddi eisoes, y caffer seiliau digonol i ammheu eu cywirdeb Protestanaidd. Yn awr y mae hyn oll yn dra dymunol. Nis gall neb a'r sydd yn caru y gwirionedd lai na llawenhau yn ngwyneb teimlad fel hyn. Y mae yn arwyddo gobaith na bydd i ni, ar frys, syrthio yn ysglyfaeth i'r bwystfil. Yr ydym yn hyderu na chollir mo hono. Gwnaethom ein hunain ein rhan tuag at ei gynnyrchu, ac ni fynem, er dim, dynu ein llaw yn ol. Ein penderfyniad ydyw na wrawn heddwech byth â Rhufain;—fod Pabyddiaeth i'w dinystrio, ac nid yw diwygio;—a bod yn ddyledswydd ar bawb sydd yn caru yr efengyl wneyd a allont tuag at hyny. Yr un pryd, nid ydym heb ofni, rhag i ni, yn ngwyneb y teimlad hwn, fyned i ddychymygu nad ydym yn agored i unrhyw berygl arall. Y mae gelynyion eraill i'r gwirionedd heblaw Pabyddiaeth,—gelynyion ag y mae Cymru yn enwedig, oblegid yr addysg grefyddol y mae wedi bod dani, a'r wybodaeth ysgrythryol sydd mor gyffredinol ynnddi, mewn llawer iawn mwy o berygl oddiwrthynt. O'n rhan ein hunain, nid ydym mewn cymaint arswyd am gynnydd Pabyddiaeth yn Nghymru. Nis gallem lai na gwenu, wrth ddarllen cynnygiad, yohydig fisoedd yn ol, yn un o'r newyddiaduron Seisnig, oddiwrth wr haelionus, o bosibl, ond truenus o anwybodus am ansawdd Cymru, am gael rhyw nifer o bersonau i fyned oddiamgylch o dref i dref, trwy y wlad, i ddarllen yr Ysgrythyrau i'r bobl, er ymdrechu gwneyd rhywbeth tuag at attal cynnydd Pabyddiaeth yn ein plith. Fel pe na buasai Cymru yn llawn o Fiblau! ac fel pe na buasai agos ei holl boblogaeth yn alluog i'w darllen! Na, nid dyma berygl mawr Cymru. Y mae yn llawer nes atom. Yn ein cynnefindra â'r Ysgrythyrau, a'n dyeithrwech i'w hawdurdod, ein cydnabyddiaeth â'u honiadau heb brofiad o'u grym, yr hyn sydd yn ymddangos i ni fel ein perygl mwyaf fel cenedl y dyddiau hyn, ydyw, myned i ammheu fod unrhyw ddwyfoldeb yn perthynu iddynt, yn raddol i wrthod eu hawdurdod, a syrthio, yn y diwedd, i anffyddiaeth hollol. Yr ydym yn ofni fod elfenau grymus ar waith yn awr yn ein plith ag sydd yn ein gosod mewn modd arbenig yn agored i ymosodiadau yr ysbryd hwn, a'n bod, ar yr un pryd, hyd yn hyn, yn dra diamddiffyn yn ei erbyn. Mewn graddau o deimlad o'n perygl yn hyn, a chan amcanu gwneuthur rhywbeth er paratoi ein cenedl i'w gyfarfod, yr ymafflasom yn ein testun presennol.

Nid oes braidd ddim yn dwyn prawf cryfach o lygredigaeth dynion na'r tuedd sydd ynddynt i chwilio am ddadleuon yn erbyn gwirionedd ac awdurdod yr Ysgrythyrau sanctaidd. Galleisid meddwl, wrth ystyried cyflwr y byd yn yr amddifadrwydd o ddadguddiad dwyfol, y buasent mor barod i'w dderbyn, fel mai y perygl mwyaf fuasai iddynt foddloni ar braw annigonol, a chofseidio, fel dadguddiad oddiwrth Dduw, yr hyn na buasai ganddo unrhyw hawl i gael ei gydnabod felly, yn hytrach na gwrthod un yn dwyn gydag ef y profion egluraf a mwyaf penderfynol o'i darddiad dwyfol. Ond i'r gwrthwyneb yn hollol y mae. Nid oes un ystryw yn cael ei esgeuluso gan ddynion er ceisio gwanhau awdurdod y Bibl. Y mae yn wir na ddylai dyn "gredu pob ysbryd;" y dylai "brofi yr ysbrydion, ai o Dduw y maent;" fod yn ddyledswydd arno edrych pa beth i'w gredu, yn gystal a "pha beth i'w wrando;"—arfer y rheswm a'r gydwydd a roddwyd iddo gan Dduw er penderfynu pa beth sydd ddadguddiad oddi-

wrtho; eto, â'i galon yn uniawn tuag at Dduw, pan yn dyfod i'r ymofyniad hwn, y mae yn amlwg y byddai yn llawn awydd am gael clywed oddiwrtho; y byddai tuedd ynddo i esbonio agos bob swm a glywai fel lleferydd iddo; y byddai agwedd ei feddwl yn cyfateb i'r eiddo Samuel gynt, pan y gwaeddai, "Llefara Arglwydd, chys y mae dy was yn clywed." Elai yr ymofynydd hwn rhagddo gyda meddwl hollol agored i dderbyn argyhoeddiad; chwiliat gyda difrifwch, a phwyll, a gweddi, y profion a gyflwynid ger ei fron o awdurdod ddwyfol; a than gyfarwyddyd amlwg rheswm a chrefydd, yn ngwyneb cael y dadleuon egluraf a mwyaf penderfynol a ganiatâ yr amgylchiad o ddadguddiad dwyfol, ymostyngai ar unwaith i'w awdurdod; derbynid ei dystiolaethau ganddo, ar bob pwnc, fel yn anffaeledig, pa mor anghyd-weddol bynag y gallent fod â'i olygiadau blaenorol, a pha mor analluog bynag y gallai fod i ddirnad eu holl ystyr, ac i ateb pob gwrthddad a allai ymgodi yn ei feddwl. Dyma fel y buasai cyfaill i Dduw yn ymofyn am ei feddwl; ac fel hyn, ar ryw ystyr, y galleid dysgwyl y buasai dynion yn ymddwyn tuag at yr Ysgrythyrau sanctaidd. Ond fel y buasai ymddygiad fel hyn yn brawf o ffyddlondeb calon i'r Goruchaf, felly y mae y rhagfarn sydd mewn dynion yn erbyn y gwirionedd; eu hanmharod-rwydd i'w gymeryd i mewn i'w meddyliau i roddi prawf teg iddo; eu parodrwydd i gydio yn mhob dadl yn ei erbyn; eu tuedd i ymsefydlu ar yr anhawsderau a berthyn iddo, gan fyned heibio i'r holl ddadleuon eglur, grymus, ac anwrthwynebol, a ddwg gydag ef o'i darddiad dwyfol;—yn anolrheinadwy i unrhyw achos ond i lygredigaeth y galon, ac yn un o'r profion cryfaf o'r llygredigaeth hwnw. Hyn, mewn gwirionedd, ydyw gwreiddyn anffyddiaeth. Y mae bob amser, braidd, yn ffirwyrl y galon yn hytrach na'r pen; yn cyfodi oddiar wrthdarawiad y meddwl i ewyllys Duw yn hytrach nag i ddiffyg prawf yn yr ewyllys ei hunan mai eiddo Duw ydyw.

Un o'r dadleuon mwyaf cyffredin gan anffyddiaid yn erbyn dwyfoldeb yr Ysgrythyrau, ydyw, yr hyn a olygir ganddynt hwy yn anghysonderau ynddynt. Y mae unoliaeth yn hanfodol i'r gwirionedd. Nis gall gwirionedd lai na bod yn gyson âg ef ei hun. Byddai anghysondeb gwirioneddol, gan hyny, yn yr Ysgrythyrau, yn anghyd-weddol â'u dwyfoldeb. Pe gellid profi hyny ynddynt, nid yn unig fe gollid un o'r dadleuon cryfaf sy genym dros eu tarddiad dwyfol, ond cyfodid gwrthddadl yn eu herbyn fyddai yn anatebadwy byth. Yn ganlynol, y mae gelynyon yr Ysgrythyrau wedi bod yn ddiwyd iawn yn gosod y naill ran o honnynt gyferbyn a'r lleill, er eu cael i'w gwrthddywedyd eu hunain, ac felly eu profi eu hunain yn an-nheilwng o dderbyniad. Y maent yn ymddwyn tuag at yr Ysgrythyrau yn dra thebyg i'r fel y gwelsom ambell i ddadleuwr, weithiau, yn y Mys gwladol, yn ymwybodol o wendid ei achos, yn ymddwyn at y tyst ger ei fron. Gŵr syml, diaddurn, deallus, pwylllog, penderfynol, ydyw y tyst. Y mae yn ateb yr holiadau a roddir iddo â llais eglur, cryf, ac mewn dull hollol argyhoeddiadol. Y mae yn hawdd gweled ar wedd y rheithwyr eu bod yn ei gredu, ac y mae arwyddion ar lygaid y barnwr ei hunan ei fod yntau yn ei ystyried yn dyst ffyddlawn. Y mae y dadleuwr ar yr ochr wrthwynebol yn canfod ar unwaith y bydd y ddeddfryd yn erbyn ei blaidd ef, oddieithr gallu o hono ryw fodd wanhu ymddiried y rheithwyr yn y gwr sydd o'i flaen. Heb un gobaith ei gyfarfod yn ei dystiolaeth union-gyrcchol, y mae yn cyfodi ar ei draed—yn ysgwyd ei ben—yn siarad yn

uchel a rhodresgar—yn holi lliaws mawr o gwestiynau hollol anmberthyn-asol—yn cymeryd arno wybod llawn cymaint, a mwy, am yr holl amgylchiadau na'r tyst ger ei fron—yn arfer ei holl ystryw er cael ganddo ei wrthdwydedd ei hun, ar unrhyw beth, ac felly dirymu dylanwad ei dystiolaeth ar feddyliau y barnwr a'r rheithwyr. Fel hyn yn hollol y mae anffyddiaid yn ymddwyn tuag at y Beibl. Y mae y prawf uniongyrchol a ddygir ganddo dros ei darddiad dwyfol mor eglur, a grymus, a phenderfynol, ac yn cael ei lefaru ganddo mor groew, fel nad ydynt yn beiddio ymosod yn erbyn hwnw, ac nid oes ganddynt un gobaith troi ei dystiolaeth yn ol, oddieithr iddynt allu ei ddyrysu, i beri iddo wadu ei hun, ac felly gwneyd ei dystiolaeth yn annheilwng o dderbyniad.

Nid oes, fe allai, yr un gyfran o'r Ysgrythrau ag y mae anffyddiaid yn ymgoneddu cymaint ynddi, ac yn fwy penderfynol o'i anghysondeb hollol, na'r rhanau hyny o honynt ag sydd yn cynnwys *tafleni achau Iesu Grist gan yr efengylwyr Matthew a Luc*. Profir hwynt yma yn amlwg, meddant, o'u geneuau eu hunain, yn anghyson â hwynt eu hunain, ac i'u gilydd, ac am hyny nid oes dim ymddiried i'w roddi ynddynt mewn pethau eraill. Dyma iaith anffyddiaeth. Y mae lliaws eraill, nas gallant mewn un modd ymollwng i'r cyfryw syniadau, eto yn teimlo yma y fath anhawderau ag sydd yn eu siglo yn eu meddyliau ynghylch dwyfoldeb y rhanau hyn, ac i beri iddynt, weithiau, oddiwrth yr anghysondeb hwn, ambeu gwirionedd y cyfan.

Yn awr, yr ydym yn addef yn rhwydd fod yma anhawderau mawrio; a gallwn addef hefyd nad ydym yn gwybod am un gyfran o'r dadguddiad dwyfol ag sydd, ar ryw olygiad, mor agored i'r wrthddadl o anghysondeb ag ydyw y rhanau hyn. Ni fynem wneyd un annhegwch hyd yn nod i'g ysbryd ammeuaeth, ac am hyny nid ydym am wadu, na chelu, na lleihau, yr anhawderau. Dymunem yn hytrach i'n darllenwyr eu gweled yn eu holl helaethrwydd, am ein bod ein hunain, wedi y cwbl, yn hollol hyderus nad ydynt yn gyfryw ag i siglo, yn y radd leiaf, ein ffydd yn ngwirionedd hanesiol yr efengylau, ac yn awdurdod ddwyfol y Beibl, fel rheol ffydd ac ymarweddiad. Ac er gwnethur cyflawnder â'r wrthddadl, ni a ddoewn i lawr yn gyntaf grynodeb o'r anhawderau sydd yn ein cyfarfod yn y rhanau hyn, ac yna ni a ddeuwn rhagom i geisio dangos nad ydynt yn gyfryw ag y dylid gwrthod yr efengylau o'u plegid.

Fe ellir dosbarthu yr anhawderau sydd yn ein cyfarfod yn y rhanau hyn i dri math:—yr anghysonderau sydd yn Matthew rhyngddo âg ef ei hun; anghysonderau Matthew a Luc â'r Hen Destament; ac anghysonderau yr efengylwyr â'u gilydd.

I. Y mae Matthew yn anghyson âg ef ei hun. Y mae yn profess dosbarthu y cenedlaethau o Abraham hyd Iesu Grist i dri dosbarth o bedair cenedlaeth ar ddeg: ond, erbyn cymharu y rhanau a'r cyfanswa â'u gilydd, nid oes yn y trydydd dosbarth ond tair cenedlaeth ar ddeg. Y mae o Abraham hyd Dafydd yn cael ei henwi ganddo bedair cenedlaeth ar ddeg; felly y mae o Solomon hyd Jechonias, tuag amser y symudiad i Babilon, bedair cenedlaeth ar ddeg; ond o Jechonias hyd Grist, oddieithr cyfrif Jechonias yma eilwaith, nid oes ond tair cenedlaeth ar ddeg. Dyma anghysondeb Matthew âg ef ei hunan, ac y mae yn amlwg, medd anffyddiaeth, fod y sawl a allai wneyd gwall mor fawr, mewn cynnodi pedwar ar ddeg, yn hollol annheilwng o gael ei gydnabod yn un o synwyr cryf, heb son am un dan arweiniad dwyfol.

II. Y mae anghysonderau lawer hefyd rhwng Matthew a Luc â'r Hen Destament.

1. Y mae Matthew yn ei ail ddosbarth o bedair cenedlaeth ar ddeg yn gadael allan dair cenedlaeth yn olynol a gofnodir yn yr Hen Destament. Dywed, yn *pen.* i. 8, fod Joram wedi cenedlu Osias, pryd, yn ol yr Hen Destament, yr oedd Ahazia, Joas, ac Amazia rhyngddynt, ac nad oedd Ozias, mewn gwirionedd, yn fab, ond yn esgynydd, i Joram. Yn awr, y mae yn amlwg, medd yr wrthddadl, fod Matthew, yma, nid yn unig yn anghyson, ond yn hollol yn gwrthddywedyd yr Hen Destament.

2. Y mae anghysondeb arall yn Matthew, pan y dywed (*pen.* i. 11) fod Josia wedi cenedlu Jechonia, pryd, y mae yn amlwg wrth yr Hen Destament, nad ydoedd yn fab iddo, ond yn ŵyr, ac mai Jehoiacim oedd ei dad. Ymddengys yr anghysondeb yma yn fwy fyth, pan y dywed iddo genedlu Jechonias a'i frodyr; pryd nad ymddengys, wrth yr Hen Destament, fod i Jechonias frodyr oll, o leiaf ni wneir un crybwylliad yno am danynt.

3. Ymddengys anghysondeb arall rhwng yr hyn a ddywed Matthew (i. 12), ddarfod i Jechonias genedlu Salathiel, â'r hyn a gawn yn *Jeremia* xxii. 30; "Fel hyn y dywed yr Arglwydd, ysgrifenwch y gwr hwn yn ddblant; gwr ni fyfya yn ei ddyddiau," &c. Rhaid, gan hyny, na chyflawnwyd y bygythiad yn *Jeremia*, neu fod Matthew wedi camgymeryd.

4. Dywed Matthew, hefyd, ddarfod i Salathiel genedlu Zorobabel: pryd yr ymddengys, wrth yr Hen Destament (1 *Cron.* iii. 19), mai Pedaia oedd ei dad ef, am yr hwn nid yw Matthew yn son dim.

5. Eto. Dywed Matthew fod Zorobabel wedi cenedlu Abiud; ond erbyn i ni droi at y rhestr o enwau meibion Zorobabel yn yr Hen Destament (1 *Cron.* iii. 19, 20) nid oes un crybwylliad am un o'r enw Abiud yn eu mysg: ac ymddengys yn dra annhebyg y buasai awdur y *Croniol* yn gadael allan yr un, dybygid, wrth Matthew, ddylasai gael y lle blaenaf. Rhaid, gan hyny, fod Matthew wedi camgymeryd!

Wrth gymharu Luc âg ef ei hunan, nid yw wedi rhoddi un fantais i ni, fel y gwnaeth Matthew, i'w brofi, fel ag i ganfod anghysondeb ynddo âg ef ei hun, ac nid yw yn dilyn ychwaith achau yr Hen Destament yn is na Dafydd, fel ag i'n galluogi i dynu cymhariaeth rhyngddo â'r rhai hyny. Y mae, pa fodd bynag, yn enwi Salathiel a Zorobabel; ac er nad yw yn crybwyll ond y ddau hyn, eto y mae anghysondeb rhyngddo, gyda golwg arnynt hwy, â'r hyn a ddywedir yn yr Hen Destament (1 *Cron.* iii. 17). Dywed Luc mai Neri oedd tad Salathiel, ac mai Salathiel oedd tad Zorobabel; tra y mae yn amlwg, wrth y *Croniol*, mai Assir oedd tad Salathiel, ac mai Pedaia oedd tad Zorobabel. Y mae Luc drachefn yn crybwyll am Rhesa fel mab i Zorobabel—enw nad oes un crybwylliad am dano yn y rhestr o feibion Zorobabel, a geir yn 1 *Cron.* iii. 19, 20. Y mae yn amlwg, gan hyny, fod Luc yn ysgrifenu ar antur, ac nad oes dim ymddiried i'w roddi ynddo!

Y mae eto anghysondeb mwy rhwng Luc â'r Hen Destament. Yn y rhestr o enwau cyn Abraham y mae Luc (iii. 36) yn doddi Cainan i mewn fel mab i Arphaxad, ac fel tad i Sala, tra nad oes un crybwylliad am dano yn *Gen.* x. 24, a xi. 12; nac yn 1 *Cron.* i. 18. Cainan oedd tad Sala, meddai Luc; nagê, meddai Moses, Arphaxad oedd tad Sala. Y mae y ddau, y mae yn amlwg yn gwrthddywedyd eu gilydd, ac y mae un o honynt, os nad y ddau, yn sicr o fod yn camgymeryd.

III. Dyma anghysondeb Matthew âg ef ei hun, ac anghysonderna Matthew a Luc â'r Hen Destament; ond erbyn cymharu y naill â'r llall, y mae eu hanghysonderau â'u gilydd yn ymddangos yn fwy fyth. Y mae y ddau yn cytuno i olrhain achau Iesu Grist o Abraham trwy Dafydd, ac nid oes gwahaniaeth rhyngddynt nes y cyrhaeddont Dafydd; ond, wedi hyny, y maent yn hollol wahanol. Y mae Matthew yn cyfyngu y cenedlaethau o Abraham hyd Grist i ddwy a deugain, o'r rhai ni nodir ganddo ond un a deugain, tra yr ydym yn cael yn Luc, am yr un yspaid, un genedlaeth ar bymtheg a deugain. Y mae hynafiaid Iesu Grist yn y naill braidd yn hollol wahanol, o Dafydd i waered, i'r rhai ydynt yn y llall. Tad Joseph, yn Matthew, ydyw Jacob; yn Luc, Eli ydyw. Y mae Joseph yn diagyn, yn ol Matthew, o Dafydd, trwy Solomon; ond, yn ol Luc, y mae yn diagyn o Dafydd, trwy Nathan. Y mae Matthew yn dwyn yr achau i lawr yn y llinell freninol gydag enwau adnabyddus i ni trwy yr Hen Destament, ond yn Luc y mae yr achau yn cael eu holrhain ar hyd llinell arall, yn rhedeg yn gyfochrog, ac heb gytuno unwaith, oddieithr yn Salathiel a Zorobabel, ac hyd yn nod yn y rhai hyny yn gwahaniaethu yn hollol ynghylch tad Salathiel a mab Zorobabel, ac eto y mae y ddau yn profesu rhoddi achau Iesu Grist. Y mae yn amlwg, os cymerwn dafien Matthew, y rhaid i ni wrthod un Luc; ac os derbyniwn un Luc, y rhaid i ni wrthod un Matthew;—eu bod yn hollol anghyson â'u gilydd—nas gall y ddwy fod yn gywir—a bod yn sicr, gan hyny, nad oes yr un o honynt felly.

Heblaw hyn oll, y mae yr achau, wedi y cwbl, yn hollol anghyson â thystiolaeth y ddau efengylwr am genediad goruwchnaturiol Iesu Grist. Achau Joseph a olrheinir ganddynt hwy, ac yn ol eu tystiolaeth hwy os hunain nid oedd Joseph yn dad iddo, nac yn dal un berthynas âg ef, ond yn unig oblegid ei berthynas â Mair ei fam ef. Gan hyny, os derbyniwn yr achau, rhaid i ni wrthod hanes ei ymgnawdoliad; ac os derbyniwn yr hanes hwnw, y mae yr achau yn hollol anmherthynasol. Nid ydoedd Iesu yn fab Joseph, ac nid yw olrhain achau Joseph gan hyny i Dafydd, pa un bynag ai trwy Solomon, gan Matthew, ai trwy Nathan, gan Luc, yn gwasanaethu mewn un modd er prawf ei fod ef wedi diagyn oddiwrth Dafydd, ac felly yn meddu y nodwedd hwnw sydd yn anheggorol anghenrheidiol er profi ei hawl i gael ei ystyried yn Grist.

Dyma yr anhawdserau sydd yn ein cyfarfod yn y tafleni hyn. Yr ydym wedi eu gosod ger bron heb un ymgais i'w dangos yn llai nag ydynt. Nid ydym yn gwybod i ni fnyed hebio i gymaint ag un a berthyn i'r efengylwyr, fel y cyfryw. Haerir gan anffyddiaid eu bod yn hollol anghymmodadwy; ac nad ydyw yr holl lafar a gymerwyd gan ysgrifenywyr Cristionogol o bryd i bryd, er ceisio eu cysoni, wedi llwyddo dim er eu dwyn, i'r redd leiaf, yn nes at eu gilydd. Yn awr, fel yr ydym wedi adddef eisoes, ni a adddefwn eto, fod yma anhawdserau mawrion. Y maent yn ddiarnhes yn haeddu y sylw mwyaf manwl. Y maent yn dal perthynas âg un o bynciau sylfaenol ein crefydd. Os nad ydoedd Iesu o dŷ a thylwyth Dafydd, nis gall fod y Crist a addawyd trwy y prophwydi. Ac od oes gwir anghysondeb rhwng yr efengylwyr â'u gilydd yn y tafleni hyn, gwanhâir ein ffydd yn eu gwirionedd hanesiol, a chollant y dylanwad ar ein meddyliau a berthyn yn naturiol ac yn anghenrheidiol i ysgrifenywyr ysbrydaledig. Pa fodd, gan hyny, y mae i ni gyfrif am hyn oll?

Y mae yn deg i ni gydnabod fod rhai ysgrifenywyr Cristionogol, â syn-

iadau isel am ysbrydoliaeth yr efengylwyr, yn addef fod yma wir anghyson-derau, ac nas gellir cyfrif am danynt ond trwy eu camgymeriadau hwynt. Nid yw y rhai hyn yn golygu fod ysbrydoliaeth yr ysgrifenywyr sanctaidd yn cyrhaedd yn ddim pellach na'r athrawiaethau a ddyysgir ganddynt, a'r rhai y mae ffydd yn eu gwirionedd yn anhebgorol er iachawdwriaeth. Gyda golwg ar y rhai hyny, y maent yn addef eu bod dan arweiniad dwyfol; ond am liaws o amgylchiadau cysylltiedig â hwynt, ac eto dibwys ynddynt eu hunain, eu bod, fel ysgrifenywyr eraill, yn agored i gyfeiliorni; nad oedd yr ysbrydoliaeth yr oeddent dano wedi ei amcanu ond yn unig i'w gwneyd yn anffaeledig yn y pethau anghenrheidiol eu credu er cadwedigaeth dynion. Dyma ydyw athrawiaeth y nifer fwyaf o'r rhai a olygir yn dduwin-yddion iachus yn Germani, ac fel hyn y mae llawer o honynt yn rhoddi cyfrif am yr anhawsderau hyn, ac anhawsderau eraill, sydd yn ein cyfarfod yn yr Ysgrhythrau sanctaidd. Nid oes genym hamdden yn bresennol i draethu yr oll a ewyllysiem ar y golygiad hwn. Digon i ni ar hyn o bryd ydyw dywedyd, fod athrawiaethau yr Ysgrhythrau, yn ein meddwl ni, mor gysylltiedig â'u ffeithiau, fel y mae braidd yn anmhosibl cael y naill ond yn y lleill; a bod pa olygiad bynag a berydd wirionedd hanesiol yr amgylchiadau i'r un graddau yn peryglu gwirionedd yr athrawiaethau cysylltiedig â hwynt. Y mae ein golygiad ni, gan hyny, ar natur ysbrydoliaeth yr efengylwyr, yn ein rhwymo i wrthod yr ymwared hwn oddiwrth eu hanghysonderau ymddangosiadol.

Y mae eraill yn cyfarfod yr anhawsderau hyn *trwy wrthod, fel rhan o'r efengyl gan Matthew, y ddwy gyntaf o'r pennodau sydd ymddi*. Can belled ag y mae dim anghysondeb ymddangosiadol rhwng Matthew a Luc, fe fyddai hyny yn ddigon er rhoddi cyfrif am dano. Ond erbyn dyfod at y prawf nad ydyw y pennodau hyn, fel y gweddill o'r llyfr, yn perthynu i'r awdur, yr ydym yn cael ei fod yn methu yn hollol. Yr unig ddadl, annibynol ar y pennodau eu hunain, yn erbyn eu dilysedd yw, fod Epiphanius, ysgrifenydd o'r bedwaredd ganrif, yn dywedyd fod yr efengyl yn ol yr Hebraeid, yr hon oedd gan yr Ebioniaid, yn dechreu â hanes bedydd Ioan. "Dechreuad eu hefengyl," meddai, "sydd fel y canlyn:—'Ac yn nyddiau Herod, brenin Judea, daeth Ioan gan weinyddu bedydd edifeirwch yn afon yr Iorddonen, yr hwn y dywedid ei fod o linach Aaron yr offeiriad, mab Zacharias ac Elizabeth; ac aeth pawb allan ato ef.'"<sup>1</sup> Yn awr, y mae yn syn genym fod neb yn ceisio seilio ar dystiolaeth fel hyn ddadl yn erbyn dilysedd y ddwy bennod gyntaf yn Matthew. Oblegid pa berthynas a all fod rhwng pa fodd yr oedd rhyw beth, a elwid gan y bobl hyn yn efengyl yn ol yr Hebraeid, yn dechreu, â'r pwnc pa un a yw y ddwy bennod gyntaf yn Matthew yn eiddo i'r apostol ei hunan, neu ynte yn ychwanegiadau at ei efengyl ef gan ryw un anadnabyddus diweddarach? Y mae yn amlwg, hyd yn nod wrth y rhan o'r efengyl hon a roddir i ni gan Epiphanius, nad ydoedd yn teilyngu dim ymddiried; oblegid, yn ol hon, yr oedd Ioan yn bedyddio yn nyddiau Herod, brenin Judea, yr hwn oedd wedi ymadael â'r byd agos i ddeng mlynedd ar hugain cyn hyny. Nid ydyw y ddadl, gan hyny, yn erbyn dilysedd y pennodau hyn yn efengyl Matthew, oddiwrth y crybwylliad a wneir gan Epiphanius ynghylch dechreuad efengyl yr Ebioniaid, yn meddu unrhyw rym, nac yn teilyngu y sylw lleiaf. Ond ar

<sup>1</sup> "Epiphanius de Haeresibus:" H. xxx., dosran xix. Dyfynedig gan Porter. "Principles of Textual Criticism:" tudal. 445.

gymeriad y pennodau eu hunain y seilir y dadleuon cryfaf yn erbyn eu ddilyedd; ac un o'r rhai hyny ydyw yr un sydd yn cyfodi oddiwrth anghysondeb Matthew â Luc gyda golwg ar achau Iesu Grist. Dyma un o bri ddadleuon Norton<sup>1</sup> yn eu herbyn. Ond y mae dadleuon o'r fath yn hollt anathronaidd. Un peth ydyw cynnwysiad llyfr, peth arall hollol ydyw a ddilyseidd. Os oes genym brofion digonol fod unrhyw ysgrifen wedi dyfod oddiwrth yr awdur y mae ar ei enw, ni pherthyn i ni ddwyn ymlaen unrhyw ddadl oddiwrth gynnwysiad yr ysgrifen hono i wadu mai efe a'i ysgrifennodd. Yn awr, y mae y prawf mai Matthew a ysgrifennodd y pennodau hyn, dybygem ni, yn hollol benderfynol. Nid oes cymaint ag un copi Groeg adnabyddus i ni, hyd yn hyn, hebddynt. Y maent yn yr holl hysgrifeniadau. Cyfeirir atynt, a gwneir defnydd o honynt, gan Justin Ferthyr ac Irenæus, ysgrifenywyr o'r ail ganrif. Yr oeddynt yn adnabyddus i Celsus, anffyddiwr yn yr ail ganrif, oblegid y mae yn cyfeirio atynt yn ei ysgrifeniadau, gan ddadleu oddiwrthynt yn erbyn Cristionogaeth. Dywed fod dau fath o achau yn cael eu rhoddi i Grist gan yr efengylwyr, a chyfeiria at ymddangosiad y seren yn y dwyrain, yr hyn ni nodir mewn unrhyw ran o'r Ysgrifthyrau heblaw yn y pennodau hyn; ac nid yw Origen, yn ei atebiad iddo, yn ceisio gwadu dilyseidd y rhanau o'r efengyl y seiliai ei ddadleuon arnynt. Y mae Affricanus hefyd, ysgrifenydd yn nechreu y drydedd ganrif, yn cyfeirio yn neillduol, fel y cawn weled yn fuan, at anghysonderau ymddangosiadol yr efengylwyr gyda golwg ar yr achau, gan grybwyll fod llawer o'i flaen ef wedi bod yn ceisio eu cysoni; ond oll, yn ol ei feddwl ef, yn afwyddiannus; ond nid yw yn awgrymu dim fod neb yn amnheu dilyseidd y naill na'r llall o'r tafeni. Rhwng pob peth, y mae y prawf, dybygid, mor gadarn fod y pennodau hyn yn rhan hanfodol o efengyl Matthew fel ag y daeth odditan ei law ef, ag ydyw y prawf sydd genym fod unrhyw ran o'r efengyl felly, neu ag a ellir gael dros ddilyseidd unrhyw ysgrifen. Yn wir, y mae yr anghysondeb ymddangosiadol sy rhwng yr achau gan y ddau efengylwr, ynghyd âg anghysonderau ymddangosiadol eraill sy rhyngddynt gyda golwg ar yr ymgnawdoliad â'i gysylltiadau, yn lle bod yn ddadl yn erbyn dilyseidd y naill na'r llall, yn hytrach yn ddadl o'i blaid. Pe buasai yr adysgrifenywyr yn gallu gadael allan y naill neu y llall o'r adroddiadau, y mae yn ddiagrammbeu y gwnaethent. Y mae yn amlwg, wrth Affricanus, fod yr anhawdsder yn cael ei deimlo yn foreu. Y mae yr hwn a ysgrifennodd un o'r copïau Groeg sydd yn nghadw yn Nghaergrawnt, a elwir yn gyffredin y "*Codex Bezae*," yn ei awydd i gysoni y ddau efengylwr, wedi doddi i mewn yn *Luc* iii. 23—38, yn lle yr hyn a berthynai i Luc ei hun, dafien yr achau fel y maent gan Matthew. Y mae hyny yn profi mor barod oedd y cyfryw, pe gallasant, i symud ymaith anghysonderau ymddangosiadol. Ond nid oes neb wedi gwneyd dim felly tuag at dafu unrhyw amnheuaeth ar y pennodau cyntaf yn Matthew.<sup>2</sup> Y mae yn rhaid i ni, gan hyny, dderbyn y rhanau hyn, fel y rhanau eraill o'r llyfr, fel eiddo i'r efengylwr, a chael rhyw lwybr arall mwy boddlonol er rhoddi cyfrif am yr anhawdsderau sydd yn ein cyfarfod ynddynt.

Cyn myned rhagom ymhellach â'n hymdriniaeth, ni a ddymunem alw sylw ein darllenwyr at rai gosodiadau anghenrheidiol eu cymeryd i ystyr-

<sup>1</sup> "*Genuineness of the Gospels*:" cyf. 1, tudal. 204—206. Argraffiad Llundain.

<sup>2</sup> Gwel "*Porter's Textual Criticism*:" tudal. 448, 449.



iaeth, a chyfaddas, yn ol ein meddwl ni, er eu cynorthwyo i ffurfio barn gywir ar yr achos ger ein bron.

I. Y sylw cyntaf y dymunem gyfeirio eu meddyliau ato ydyw, *Fod yn dra annhebyg, wrth i ni ystyried y gofal oedd gan yr Iuddewon am eu hachau, a'u cydnabyddiaeth famol â hwynt, y buasai i'r efengylwyr, yn emwedig pan gofion yr amcan oedd mewn golwg ganddynt, ar y dybiaeth nad oeddent ond haneswyr cyffredin anysbyrdoledig, fod mor ddiöfial a syrthio i gamgymeriad mor fawr, ar ddechreu eu hefengylau, ag a fuasai ar unwaith yn attal eu derbyniad gan y rhai yr oeddent yn ysgrifenu er eu mwyn, ac yn dyddymu yn hollol yr amcan y cyfeirient ato.* Y mae y sylw hwn yn enwedig yn haeddu ystyriaeth yn ei gysylltiad â Matthew. Y mae yn amlwg mai yr amcan uniongyrchol ganddo ef mewn golwg oedd, profi i'r Iuddewon mai yr Iesu oedd y Messia. Y mae trwy yr holl efengyl fel yn cymeryd yn ganiataol, mai Iuddewon fyddai ei ddarllenwyr. Pan y mae yr efengylwyr eraill yn gofalu am roddi gair o eglurhad, yn achlysurol, ar ddaearyddiaeth Palestina, arferion, defodau, a syniadau yr Iuddewon, y mae Matthew yn cyfeirio atynt oll fel pethau hollol adnabyddus i'r rhai yr ysgrifennai iddynt. Y mae Marc (vii. 1—5), wrth roddi hanes y Phariseaid, yn beio y dysgyblion am fwyta â *dwylaw cyffredin*, yn gofalu am eglurhau hyny, trwy ddywedyd, â dwylaw heb olchi; a rhag na byddai hyny yn ddigon er rhoddi ei ddarllenwyr mewn mantais i ddeall ystyr yr adroddiad, y mae yn manylu ar arferion y Phariseaid gyda golwg ar olchiadau. Ond pan y mae Matthew yn rhoddi yr un hanes, er ei fod yn defnyddio agos yr un ymadroddion, y mae yn myned heibio i'r arferiad heb roddi un eglurhad arni. A dyna ei dduill cyffredin. Y mae yn amlwg yn ysgrifenu i'r Iuddewon. Y mae ei holl sylwadau hefyd yn ei hanes, yn dangos, mai ei amcan mawr oedd profi iddynt mai Iesu o Nazareth oedd y Messia a addawsid iddynt trwy y prophwydi. Y mae yn dangos fod pob peth a ddywedid gan yr Iesu, yn briodol iddo fel y cyfryw. Ei sylw cyffredin ar ei weithredoedd, a'i eiriau, ac ar ymddygiadau dynion tuag ato, yw, "fel y cyflawnid yr hyn a ddywedwyd trwy y prophwyd;" "a hyn oll a wnaethpwyd, fel y cyflawnid ysgrhythrau y prophwydi." Dyma, y mae yn eithaf eglur, y dyben uniongyrchol y cyfeiria ato; yn awr, cadwer hyn mewn golwg yn ei berthynas â'r achau hyn. Y mae yn hysbys fod yr Iuddewon yn cymeryd gofal neillduol am eu hachau. Nid oes dim amlycach na hyny yn yr Hen Destament; ac y mae lliaws o awgrymiadau i'r un perwyl yn y Testament Newydd. Gyda golwg ar yr offeiriad, nid oedd neb o honynt i gael gweinyddu yn ei swydd, oni allai ddangos ysgrifen ei achau yn nheulu Aaron. Ac er nad oedd y gofal, fe allai, mor fanwl am y llwythau eraill, eto, y mae yn eglur fod achau llwyth Judah, yn enwedig teulu Dafydd, yn gymaint ag y dysgwylid y Messia o hono, yn cael eu cadw gyda y gwyliaidwriaeth mwyaf. Dywed Jerome i ni, fod yr Iuddewon yn ei ddyddiau ef, mor hysbys yn eu hachau, "fel y gallent o'u mebyd redeg trwy yr holl genedlaethau o Adda hyd y Zorobabel diweddaf, mor hygofus a rhwydd, fel y galleid braidd dybied nad oeddent ond yn adrodd eu henwau eu hunain."<sup>1</sup> Yn awr, y mae yn amlwg, nad oedd ond ychydig iawn o synwyr yn anghenrheidiol er canfod y buasai y cyfryw bobl, ar unwaith, yn cael allan unrhyw wall o bwys yn nhafeni yr achau a gyflwynid iddynt gan yr efengylwyr; ac y mae yn dybiaeth hollol groes i bob tebygolrwydd, y buasai

<sup>1</sup> *Esboniad ar Titus* iii. 9. *Hieron. Opera*: cyf. iv., col. 437, *Editio Martinay*, 1706.

yr efengylwyr, a'u golygu yn unig fel haneswyr cyffredin, mor ddiöfal a syrthio i'r fath amryfusedd ag a roddir yn eu herbyn gan y gwrthddadleuon hyn. Gwyddent fod dysgwyliad cyffredin yr Iuddewon am y Messia o had Dafydd; gwyddent fod pob mantais a allesid ddymuno ganddynt i brofi hawl Iesu o Nazareth i gael ei gydnabod felly; gwyddent fod y gwrthwynebiad mwyaf yn ffynnu yn meddyliau y nifer fwyaf o honynt i'w "addef ef yn Grist;" gwyddent y buasai yr anghymaliad lleiaf yn ei achau ar unwaith yn tori ei hawl i'r anrhydedd;—ac eto, yn ngwyneb hyn oll, y maent yn y modd mwyaf dibetrus, heb un ymgais at geisio dangos eu cysondeb, heb gymeryd arnynt fod ynddynt unrhyw anhawader, yn cyhoeddi yr achau amrywiol hyn i'r byd, fel achau Iesu, gan hërio pawb i brofi unrhyw gamgymeriad ynddynt. Nid oes eisieu prawf mwy penderfynol, dybygem ni, heb ganiatäu dim mwy ar hyn o bryd na synwyr cyffredin, i'r haneswyr hyn, pa anhawserau bynag sydd yn ymddangos i ni yn eu tafeni, na bod rhyw egwyddor adnabyddus iddynt hwy ac i'r rhai yr oeddent yn ysgrifenu yn uniongyrehol iddynt, oedd yn eu gwneuthur yn hollol ddealladwy. Yn ganlynol, nid ydym yn cael fod unrhyw wrthwynebiad yn cael ei wneyd i'r achau hyn yn y ganrif gyntaf, tra yr oedd cofrestrau achau yr Iuddewon yn nghadw. Ymhlith yr holl ddadleuon a ddygid yn erbyn ei Fessiaeth, nid ydym yn cael fod neb yn ammheu fod Iesu o dŷ a thylwyth Dafydd; adnabyddid ef gan y lliaws fel "Iesu mab Dafydd;" ac yr oedd yn hollol "hysbys" yn mysg y prif Gristionogion, "mai o Juda y cyfododd ein Harglwydd ni."

II. Peth arall y dymunem i'n darllenwyr sylwi arno, yw, *Nad ydyw amrywiaeth yn anghydweddol a chysondeb*. Nid oes yr un gwirionedd y mae gwrthwynebwyr awdurdod yr Ysgrhythrau yn fwy tueddol i'w anghofo na'r un a gynnwysir yn y gosodiad hwn. Y fynydd y cyfarfyddant â'r amrywiaeth lleiaf rhwng dau hanes, gwnant i fyny eu meddyliau ar unwaith eu bod yn anghyson â'u gilydd. Os bydd un efengylwr yn dywedyd "ac ar ol ohwe' diwrnod," a'r llall, "a bu ynghyloch wyth niwrnod wedi," &c; un yn dywedyd "y drydedd awr," a'r llall y "chweched awr;" cymerant yn ganiataol eu bod yn cyfrif yr un sfordd, ac y rhaid eu bod yn gwrthddywedyd eu gilydd. A'r un modd gyda'r holl amrywiaethau eraill. Ond y mae hyn yn dra anathronaidd, yn gystal ag yn dra annhëg. Nid oes dim amlycach nag y gallai amrywiaeth hanfodi heb ddim anghysondeb, a bod amrywiaeth yn wir yn anghenrheidiol er grymuso y cysondeb. Y mae digon o wahaniaeth rhwng y darlun a dynwyd yn gyfochrol a'r darlun a dynwyd yn gyferbyniol; ond nid yw hyn yn un prawf nad ydyw y naill yn ddarlun mor gywir a'r llall o'r un gwr. Yn awr, y mae yn eithaf amlwg y gallasai fod yr ysgrifenywyr sanctaidd yn edrych ar yr un gwrthddrych oddi ar wahanol fanau, ac mewn gwahanol oleuni, fel yr oedd dan anghenrheidrwydd o *ymddangos* yn wahanol iddynt hwy, a chael ei ddarlunio ganddynt yn wahanol i ninnau. Yn awr, ni a wyddom fod yr hyn a oedasom i lawr yma, yn dybiaethol, yn wirionedd gyda golwg ar yr efengylwyr sydd dan ein sylw yn bresennol. Yr oeddent yn edrych ar Iesu Grist oddiar safleoedd gwahanol, ac yn ganlynol, yn rhwym o'i ddarlunio yn wahanol. Yr oedd Matthew yn edrych arno o ochr yr Iuddew, ac yn tynu darlun o hono i'r Iuddewon. Yr oedd Luc yn edrych arno o ochr y cenedl-ddyn, ac yn tynu darlun o hono i'r cenedloedd. Y mae digon o amrywiaeth rhyngddynt i brofi eu bod wedi bod yn ffyddlawn i'r goleuni y safent

ynddo, a digon o unoliaeth i brofi eu bod yn ffyddlawn i'r gwrth-ddrych yr edrychent arno. Pe buasai mwy o debygolrwydd rhyngddynt, galledid dadleu nad oeddent ond wedi *copio* eu gilydd, a phe buasai mwy o wahaniaeth nid adnabyddasid drwyddynt yr un a'r unrhyw wrthddrych. Unoliaeth mewn amrywiaeth ydyw deddf gyffredinol y greadigaeth, ac y mae yr un briodoledd yn eiddo amlwg i'r efengylau, ac yn brawf diymwad o'u gwirionedd. Nid oes ynddynt ddigon o unfurfaeth i beri i neb am-mheu cydfwriad i dwyllo; na digon o wahaniaeth i alluogi neb i brofi eu bod yn anghyson â'u gilydd.

III. Y mae o bwys hefyd i ni sylwi, *Nad ydyr ymddangosiad o anghysondeb yn un prawf o anghysondeb gwirioneddol.* Un o hen ystrywiau anffyddiaeth ydyw haeru fod anghysondeb bob amser yn bod lle nas gellir dangos cysondeb. Ond ni bu un dyohymyg erioed mwy afresymol; y mae yn cymeryd yn ganiataol fod gwybodaeth dyn yn berffaith, ac nas gall fod un dirgelwch yn guddiedig rhagddo. I'r Bod tragwyddol, yr hwn y mae ei wybodaeth yn anfeidrol, y mae ymddangosiad o anghysondeb yn brawf o hono. Ond i greadur sydd yn bod yn nghanol dirgeledigaethau, y fath ag ydyw dyn, fe ellid meddwl nas gallai dim fod yn amlycach na bod yn eithaf posibl i ddau beth fod yn hollol gyson â'u gilydd, er iddo ef fod yn gwbl analluog i ddangos nac i ddirnad pa fodd y maent felly. Yr ymfyniad gan yr athronydd iawn yw, nid beth sydd gyson, neu beth sydd bosibl, ond beth ydyw y ffaith. Nid yw byth yn gwrthod hðno, os profwyd hi iddo yn deg, am ei bod yn anghyson â'r trefniant a goffeidiwyd ganddo; yn hytrach, os na all wneyd lle priodol iddi yn y trefniant, fe ddinystria hwnw ar unwaith, ac a chwilia am un newydd yn ei le. Os, wedi adeiladu ei gyfundrefn hyd y nen, y caiff ei fod wedi gadael allan gymaint ag un o'r meini a ddylasai fod ynddi, fe'i chwala i lawr bob maen oddiwrth eu gilydd os bydd raid, er mwyn cael doddi hwnw i mewn. Nid ydyw anhawser, neu anghysondeb, yn un rheswm, yn meddwl dysgybl ffyddlawn Bacon, dros wrthod yr hyn sydd brofedig. Y mae yn gwybod, gan eu bod yn bod, y rhaid eu bod ryw ffordd yn gyson â'u gilydd, er nas gall efe ddirnad y modd. Nis gall ddwyn y ddau, fe allai, at eu gilydd, er eu cymharu a gweled eu cysondeb; ond y mae yn gallu dwyn trydydd at y ddau, ac yn eu cysondeb â hwnw, y mae yn canfod eu cysondeb â'u gilydd. Yn awr, cymhwyser ymddygiad yr athronydd hwn at yr hyn sy genym yn bresennol dan ein sylw. Od oes genym brofion annibynol fod yr efengylwyr yn ysgrifenyddwr awdurdodedig, ni a allwn fod yn hollol hyderus nad yw yr anghysondeb ymddangosiadol i ni sydd ynddynt yn un prawf o wir anghysondeb;—fod rhyw egwyddor i'w cysoni â'u gilydd, pa mor guddiedig bynag y gallai hðno fod oddiwrthym ni. Sylwer, nad ydym mewn un modd, yn awr, yn dwyn ysbrydoliaeth yr efengylwyr i mewn yn ddadl dros fod y tafleni yn gyson â'u gilydd; ond yn hollol ar y dybiaeth, ar hyn o bryd, fod genym brofion eraill oedyrn ac eglur dros wirionedd eu hysgrifeniadau, nad ydyw anghysondeb ymddangosiadol rhyngddynt mewn un modd yn brawf eu bod yn anghyson.

IV. Peth arall sydd yn deilwng iawn o'n sylw ydyw, *Nad ydym yn rhwymedig yn yr eithaf, pan yn ateb gwrthdadaid yn erbyn gwirionedd unrhyw hanes oddiwrth anghysonderau ymddangosiadol ynddo, i wneyd dim mwy er dinystrio yn hollol rym yr wrthdadaid, na dangos y gall fod yn gyson.* Dymunem i'r darlennydd sylwi ar yr amcan i'r hwn yr ydym yn haeru fod hyn yn ddigon.

Fe eill ymfynydd am y gwirionedd, yn hollol ddiniwed ac yn ganmotsadwy, chwilio am eglurhad mwy boddlonol ar unrhyw anhawsder; ond er ateb gwrthddadl, digon iddo ydyw cael eglurhad posibl. Un peth ydyw dangos pa fodd y mae dau adroddiad yn gyson; peth arall, llawer haws ydyw dangos y *gallant* fod felly. Nid oes ond un eglurhad gwirioneddol ar y cysondeb, pryd y dichon tri, neu bedwar, neu gant, fod yn alluadwy. Gallai yr amgylehiad fod yn gyfryw ag y byddai yn hawdd i ni ddangos posiblwrwydd y cysondeb, pryd nad anturïem benderfynu pa fodd y byddai felly. Yn awr, y mae anffyddiaid, pan yn dadleu anghysonderau yr Ysgrhythrau, bron bob amser yn esgeuloso y gwahaniaeth hwn. Nid digon ganddynt hwy yw i ni ddangos posiblwrwydd eu cysondeb, myniant i ni brofi hefyd pa fodd y maent felly. Yn enwedig, os bydd pleidwyr yr Ysgrhythrau yn cynnyg amrywiol atebion i wrthddadl, y maent yn ymhyffus yn eu hanghrediniaeth, ac yn galw arnynt i gytuno â'u gilydd ynghylch yr atebiad priodol, cyn galw arnynt hwy i'w credu, heb ystyried fod pob eglurhad y gellir meddwl am dano yn ddigon i'w cyfarfod hwy, a bod yr amrywiol atebion a gynnygir, nid yn arwyddo gwendid y gwirionedd, ond yn hytrach yn profi ei gadernid; yn gymaint ag y rhaid dangos fod yr oll o honynt yn analluadwy, cyn y byddo dim grym yn yr wrthddadl. Y mae yn rhaid, yn fyr, i'r wrthddadl yn erbyn y gwirionedd oddiwrth anghysonedd y naill ran o hono â'r llall, cyn y byddo dim grym ynddi, allu sefyll yn ffordd pob eglurhad y gellir dychymygu am dano, a phrofi eu bod oll yn anmriodol. Y mae yn cymeryd arni wybod am yr holl ffyrdd galluadwy i geisio cyfrif am ei gysondeb, ac yn cynnwys penderfyniad anffaeledigaeth ei hunan ar eu hannigonolrwydd oll i ateb i'r amgylehiad.

V. Unwaith eto, ni a fynem i'r darlennydd sylwi, *Nad ydym dan angherheidrwydd, er amddiffyn gwirionedd ac ysbrydoliaeth yr Ysgrhythrau, i hodi perffeithrwydd diluogr pob llythyren a gair yn y copïau sy genym ni yn awr o honynt.* Yr ydym yn rhywydd yn cydnabod fod lliaws o Gristionogion wedi bod yn dra anochelgar yn eu haeriadau gyda golwg ar hyn. Yn eu heiddigedd dros y gwirionedd, edrychant ar y Beibl fel pe byddai, yn mhob cyfargraff o hono, wedi disgyn yn ddigyfrwng o'r nefoedd, a bod unrhyw wall ynddo yn beth hollol anmhosibl. Braidd na syrthiodd yr enwog *Ddoctor Owen* i'r camgymeriad hwn, gyda golwg ar yr Ysgrhythrau, yn eu hieithoedd gwreiddiol; ac y mae lliaws o Gristionogion da, yn yr un camgymeriad gyda golwg arnynt yn eu gwahanol gyfieithiadau. Yr ydym o'n calonau yn parchu y teimlad y mae y golygiad yma yn cyfodi oddiarno, a pha mor ddisail bynag y rhaid i ni ei ystyried, ni fynem ddywedyd dim a dueddai i archolli yr un meddwl tyner, ymhlith ein darlennwyr, a allai fod wedi bod hyd yn hyn yn ei gofeidio. Yr un pryd, y mae yn rhaid i ni ddywedyd fod y syniad yn gyfryw ag nas gellir ei goleddu, yn enwedig yn yr oes hon, ond mewn anwybodaeth dirfawr. Nid oes dim yn fwy hysbys i'r rhai sydd wedi astudio ychydig ar hanes trosglwyddiad yr Ysgrhythrau o'r oesoedd boreuaf i'n dwylaw ni, a sefyllfa bresennol y gwahanol gopïau o honynt yn yr ieithoedd gwreiddiol, sydd yn awr ar gael, na bod ynddynt floedd lawer o amrywiol ddarlenniadau. Y mae tua deng mil ar hugain o honynt yn argraffiad *Mill* o'r Testament Newydd; a hwyrach, erbyn cymeryd i mewn y rhai a gasglwyd gan awduron diweddarach, nad ydynt erbyn hyn, ar y Testament Newydd yn unig, yn ddim llawer llai na chan' mil. Yn wir, nid ydym yn gweled pa fodd, heb gyfryngiad gwrth-

iol gwastadol ar feddyliau y rhai oeddent yn copio yr Ysgrhythrau, y gallasant ochel y gwallau damweiniol i ysgrifenyddwr yn gyffredin. Buasai cyfryw ddylanwad yn anghydweiddol âg ymddygiad cyffredin y Goruchaf tuag at ei greaduriaid, yn gystal ag yn afreidiol er mwyn *syhwedd* yr amcan a ddiogelasad trwyddo. Yr oedd lliosogiad copiau, tra yn ychwanegu, fe allai, at nifer mân wallau, er hyny yn effeithio er attal llygriadau bwriadol, ac yn amlhau y manteision i brofi eu cywirdeb. Yn ganlynol, yr ydym yn gweled, yn nghanol y miloedd lawer o wahanol ddarlleniadau a gasglwyd gan feirniaid, nad oes ond ychydig iawn o honynt yn gwneyd un cyfnewidiad o bwys ar yr ystyr, ac nad ydynt, gyda'u gilydd, yn effeithio er gwanhau dim ar ein ffydd yn un o wirioneddau mawr ein crefydd. Y mae y gwahaniaeth, yn wir, a gyflwynir ganddynt, y rhan fynychaf, yn gyfryw ag y mae braidd yn anhosibl ei ddangos mewn un cyfieithiad, ac nid pob darlennydd ar y testun gwreiddiol a all, yn gyffredin, ei ganfod. Yr un pryd, y mae yn amlwg y trefnodd y Goruchaf i'w air ddyfod i'n dwylaw ni trwy ddynion ffaeledig fel ni ein hunain, agored, wrth ei gopio, i ddefnyddio y naill lythren yn lle y llall; y naill air yn lle y llall; i adael yr enw hwn allan yma, ac i ddodi yr enw arall i mewn acw: a bod yn hollol gyfreithlawn i ni gymharu y gwahanol gopiau hyn â'u gilydd, ac arfer y rheswm a'r farn a roddwyd i ni er penderfynu, trwy hyny, pa un ydyw y gwir ddarlleniad. Yr un modd nid ydym yn rhwymedig i gydnabod anffaeledigaeth unrhyw gyfieithiad: ond os, wedi i ni gael allan y gwir ddarlleniad, y cawn na bydd ei ystyr yn cael ei drosglwyddo yn briodol trwy y cyfieithiad yn ein dwylaw, neu trwy y cyfieithiadau cyffredin, yr ydym yn hollol at ein rhyddid i gynnyg unrhyw gyfieithiad arall a ddangosa feddwl yr ysgrifenydd yn well. Er fod y rhai hyn ymhlith egwyddorion cyntaf deonglyddiaeth ysgrhythrol, eto y maent yn cael, yn gyffredin, eu diystyru yn hollol gan anffyddiaid. Mynent, pe gallent, ein rhwymo yn mhob amgylchiad wrth ein testun a'n cyfieithiad presennol, fel pe byddai yn hawdd iddynt felly ennill y fuddygoliaeth arnom. Ond er na byddai dim perygl ar Gristionogaeth, yn ei brwydr âg anffyddiaeth, â'r testun mwyaf llygredig, ac â'r cyfieithiad mwyaf amherffaieth sydd mewn bod, eto byddai ei rhwymo i hyny yn annhegwch mawr â hi, ac yn radd o anfantais iddi. Os rhaid iddi ymladd, nid yw ond cyfiawnder hollol iddi gael dadgan yr hawliau y mae yn ymladd drostynt, ac ymddyosg oddiwrth bob peth a olygo yn anfantais iddi yn y frwydr. Ac y mae yn anhawdd dyfalu am unrhyw reswm a allai fod gan y blaid wrthwynebol yn erbyn hyny, heblaw rhyw ymdeimlad dirgel o'u gwendid i'w chyfarfod, a'u hofnau, ond iddi gael pob tegwch, i'r fuddygoliaeth droi o'i thu. Pa fodd bynag, ni a deimlem ein hunain yn ymddwyn yn anffyddlawn i'r efengyl, pe gwrthodem unrhyw fantais i'w hamddiffyn, a osoder o fewn ein cyrhaedd, mewn darlleniad amrywiol, neu gyfieithiad gwahanol, gan ein bod yn ystyried y gallwn wneyd hyny, mewn perffaieth gydweddiad â'n ffydd yn nharddiad dwyfol yr Ysgrhythrau, ac yn hollol unol â'r modd yr amcanodd eu Hawdwr mawr i ni ddyfod i gydnabyddiaeth â'u cynnwysiad.

Y mae y sylwadau blaenorol wedi myned yn lled faith genym, ac yr ydym yn fwriadol wedi caniatâu iddynt fyned felly, am ein bod yn eu hamcanu, nid yn unig fel rhagarweiniad i'n nodiadau ar destun ein hysgrif bresennol, ond hefyd i destunau eraill yr ydym yn golygu, mewn rhifynau

dyfodol, gyfeirio meddyliau ein darllenwyr atynt. Heb ymhelaethu yn yohwaneg yn y dull hwn, ni a ddymunem i'n darllenwyr, gan gadw eu golwg ar yr egwyddorion yr ydym wedi bod gyda hwynt, ddyfod rhagdynt i sylwi ar yr anghysonderau a roddir yn erbyn yr efengylwyr yn nhableni achau ein Gtwardwr.

Y peth cyntaf y cyfeiriasom ato yw yr hyn sydd yn ymddangos yn anghysondeb rhwng Matthew ág ef ei hunan, pan y profesa ranu y cenedlaethau, o Abraham hyd Grist, i dri dosbarth o bedair cenedlaeth ar ddeg yr un; ond erbyn cymharu y rhanau a'r cyfanswm á'u gilydd, ni cheir i un o'r dosbeirth ond tair cenedlaeth a'r ddeg. Y mae y cenedlaethau o Abraham hyd Dafydd yn bedair ar ddeg, a'u cymeryd hwy ill dau i mewn i'r rhifedi; yr un modd y mae pedair cenedlaeth ar ddeg o Dafydd hyd y symudiad i Babilon, gan adael Dafydd allan, yr hwn a gyfrifasid yn y dosbarth blaenorol, a chymeryd i mewn Jechonias fel un cyfoesol á'r symudiad i Babilon; ond o'r symudiad i Babilon hyd Grist, nid oes ond tair cenedlaeth ar ddeg, oddieithr i Jechonias gael ei gyfrif yma eilwaith. Yn awr y mae yn rhaid addef fod y daflen, ar yr olwg gyntaf, yn ymddangos yn anghyson á hi ei hunan. Yr un pryd, fe allesid meddwl y buasai y manylder a ddangosir gan yr efengylwr yn yr adroddiad a wneir ganddo o nifer y cenedlaethau, yn y gwahanol amserau y cyfeiria atynt, yn ddigon, yn annibynol ar bob prawf arall, i ddwyn sierwydd hollol i'n meddyliau, pa anghydweddiad bynag a allai ymddangos ynddo i ni, fod ganddo ef ryw ffordd i'w cyfrif yn gwbl gyson ág ef ei hunan. Prin y credwn fod yn alluadwy i neb ammheu hyny, ond a fyddo dan lywodraeth y fath deimladau tuag ato ag a'i anghymhwyso yn hollol i roddi barn deg ar yr achos. Dybygem ni, pe buasai awdurdod yr efengylwr yn gwbl ammhëus genym, nas gallasem byth ymostwng i ddadleu oddiar hyn yn ei erbyn, ond y buasem yn barod i roddi unrhyw eglurhad ar yr anhawsder, yn hytrach nag awgrymu ei fod, mewn peth mor amlwg, yn ei wrthddywedyd ei hun. Y mae yn hyfryd genym ganfod y tegwech hwn yn un o'r ysgrifenyddwyr diweddaraf yn erbyn gwirionedd ac ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau,<sup>1</sup> yr hwn, yn nghanol ei holl drahausder yn erbyn yr efengylwyr, sydd yn llefaru am feirniadaeth Strauss ar hyn fel yn orfanwl ac anghymedrol. Ond nid ydym am adael i'r efengylwr syrthio ar drugaredd anffyddiaid. Y mae, nid ydym yn ammheu, lwybr anrhydeddus iddo ef, a boddlonol i ninnau, er rhoddi cyfrif am yr anghysondeb ymddangosiadol ynddo.

Fe allai mai yr eglurhad cyntaf a roddid gan ddarllenwydd cyffredin deallus o'r Ysgrythyrau arno, fyddai, ei fod wedi cyfodi oddiar ddiolfalwch rhyw adysgrifenydd, yn gadael allan un genedlaeth, ac i'r cyfysgrif gwallus hwnw fyned yn gynllun rhai eraill, nes o'r diwedd i'r amryfusedd fyned yn gyffredinol. Dyma y golygiad a roddir gan Calvin. Y mae yn rhaid addef ei fod yn un hollol naturiol; ac, ynddo ei hunan, yn gymaint ag nad ydym yn hōni perffeithrwydd dilwgr y testun presennol, yn gyfryw ag y gellid gorphwys ynddo fel atebiad i'r wrthddadl. Yr hyn sydd yn peri i ni, yr un pryd, feddwl fod eglurhad gwell i'w gael ydyw, fod y testun yn foreu iawn yn y wedd bresennol; oblegid yr ydym yn deall, trwy Jerome, fod Porphyry, yn y drydedd ganrif, yn dwyn yr anghysondeb hwn yn erbyn yr efengylwr. Y mae yn wir y gallasai ei fod wedi ei lygru cyn

<sup>1</sup> "Greg's Creed of Christendom." tudal. 96.

*hyny*, er y rhaid i ni gydnabod fod hyny, yn ol ein meddwl ni, braidd yn annhebygol. Nid ydym yn anghofio fod rhai copiau ac argraffiadau Groeg yn cynnwys darlenniad gwahanol ar yr unfed adnod ar ddeg, fel ag yr ydym yn gweled ar ymyl y ddalen mewn rhai Beiblau; yn y rhai, yn lle "A Josia a genedlodd Jechonia a'i frodyr," y darllenir, "A Josia a genedlodd Joacim, a Joacim a genedlodd Jechonia a'i frodyr," &c. Y mae llawer yn cymeryd hyn fel eglurhad digonol ar y dyryswch, ac fel cadarnhad i'r golygiad fod yr holl anghysondeb ymddangosiadol wedi cael ei achosi trwy ddiofalwch rhyw adysgrifenydd. Y mae yn amlwg fod nifer y cenedlaethau anghenrheidiol fel hyn yn cael ei wneyd i fyny, a bod yr wrthdadaid yn erbyn yr efengylwr oddiwirth y diffyg hwnw yn cael felly ei chyfarfod. Ond nid ydym yn golygu fod genym ddigon o awdurdod dros y darlenniad hwn. Nid ydyw i'w gael ond mewn ychydig nifer o gopiau, a'r rhai hyny, mewn cymhariaeth, yn rhai diweddar. Heblaw hyny, nid yw yn cyfarfod yr anhawsder yn hollol. Y mae yn rhoddi i ni nifer digonol o genedlaethau, ond y mae yn gwneyd yr ail ddosbarth—o Dafydd hyd y symudiad i Babilon—yn bymtheg cenedlaeth, tra y mae yn gadael y trydydd dosbarth yn ddiffygiol o un i wneyd i fyny y rhifedi a nodir fel yn perthynu iddo. Ar y cyfan, y mae y darlenniad hwn yn ymddangos yn debycach i amcan trwsogl rhyw adysgrifenydd i ddiwygio y testun, er cyfarfod yr anhawsder, nag i adferiad cywir ar ddarlenniad yr efengylwr.

Y mae eraill yn egluro y dyryswch trwy ddodi cenedlaeth newydd i mewn ar ol Eliacim, a darllen y drydedd adnod ar ddeg fel hyn,—“Ac Eliacim a genedlodd Abner; ac Abner a genedlodd Azor,” &c. Felly, yn ol Hammond,<sup>1</sup> y mae adysgrif o'r hen efengyl Hebrëig gan Matthew yn darllen. Atebai y darlenniad hwn y dyben yn hollol er cysoni yr efengylwr pe byddai awdurdod digonol iddo. Ond nid ydyw i'w gael mewn un cyfysgrif adnabyddus o'r testun gwreiddiol, nac mewn un cyfieithiad, hen na diweddar. Nis gellir, gan hyny, roddi dim ymddiried ynddo.

Y mae eraill yn dwyn Mair i fewn fel cenedlaeth wahanol, gan ei chyfrif rhwng Joseph a Christ. Oblegid y neillduolrwydd a berthynai i genedliad Iesu Grist, hönir gan bleidwyr y golygiad hwn fod lle naturiol i Mair yn ei achau. Dadleuir yn wresog dros yr eglurhad hwn gan un o'r beirniaid yn "*Synopsis*" Pool, ac y mae yn cael ei gymeradwyo gan Ebrard, ysgrifenydd galluog sydd yn awr yn fyw yn Germani.<sup>2</sup> Y mae yn hawdd gweled y rheswm paham y mae yr efengylwr yn crybwyll am Mair yn *adn.* 16, am nas gallasai, gan yr hanes oedd ganddo i'w hadrodd, fyned rhagddo fel y gwnelsai o'r dechreu, ac ychwanegu, "A Joseph a genedlodd Iesu." Ond y mae yn anhawdd dirnadu pa fodd y gallasai priodas Joseph â'i fam ef fod yn rheswm dros ychwanegu cenedlaeth arall at ei achau.

Oddiar deimlad fod eisieu rhywbeth mwy penderfynol i gyfarfod yr anhawsder nag a gynnwysir yn y naill na'r llall o'r dëongliadau a gynnygiwyd, y mae y nifer fwyaf o esbonwyr yn ymgais at wneyd rhyw gyfrif gwahanol ar y cenedlaethau, fel y maent ar lawr, gan feddwl mai felly y ceir gafael ar y gwir eglurhad. Y mae rhai yn cyfrif Dafydd ddwywaith:—yn niwedd y dosbarth cyntaf, ac yn nechreu yr ail ddosbarth, ac yna fe derfyna yr ail ddosbarth gyda Josia; a thrwy ddechreu y trydydd gyda Jechonia

<sup>1</sup> "*Poli Synopsis Criticorum, in loco.*"

<sup>2</sup> "*Kitto's Journal,*" Ebrill, 1849: tudal. 206.

bydd y nifer anghenrheidiol wedi eu gadael i wneyd i fyny y pedair cenedlaeth ar ddeg. Dyma olygiad Dr. Robinson, New York,<sup>1</sup> a'r golygiad mwyaf cyffredin, fe allai, ymhlith y beirniaid diweddaraf. Y mae genym y fath ymddiried yn ngwybodaeth a barn Dr. Robinson fel mai nid peth dibwys yn ein meddwl yw gwahaniaethu oddiwrtho ar unrhyw achos fyddo yn dal cysylltiad â beirniadaeth ysgrythyrol. Eto, ar ei egwyddorion ef ei hunan, yr ydym yn methu gweled pa fodd y mae yn gallu dyfod i'r casgliad a wneir ganddo ar y testun hwn. "Y mae yn amlwg," medd efe, "fod y dosbarth cyntaf yn dechreu gydag Abraham ac yn diweddu gyda Dafydd. Ond a yw yr ail yn dechreu gyda Dafydd, ynte gyda Solomon? Gyda y blaenaf, yn ddiâu; canys megys y mae y cyntaf yn dechreu ἀπὸ Ἀβραάμ, (o Abraham) felly dywedir fod yr ail yn dechreu ἀπὸ Δαυὶδ, (o Dafydd). Y mae y cyntaf yn cyrhaedd ἕως Δαυὶδ (hyd Dafydd), ac yn ei gynnwys ef; y mae yr ail yn cyrhaedd ἕως τῆς μετουκείας (hyd y symudiad), hyny yw, at gyfnod ac nid at berson; a chan hyny nid yw y personau y crybwyllir am danynt fel yn gyfoesol â'r cyfnod (ἐκ τῆς μετουκείας, tua'r symudiad; adn. 11), yn cael eu cyfrif o'i flaen. Wedi y cyfnod y mae y rhedriad yn dechreu drachefn gyda Jechonia, ac yn diweddu gyda'r Iesu." Ond y mae yn amlwg, od oes grym yn y ddadl, oddiwrth ἀπὸ dros ddechreu yr ail ddosparth gyda Dafydd, am y dechreuir y dosbarth cyntaf gydag Abraham, fod yr un grym yn y ddadl oddiwrth ἕως dros ei derfynu gyda "y symudiad i Babilon," oblegid fe ddywedir mor bendant, "hyd y symudiad i Babilon," yn yr ail ddosbarth, ac y dywedir "hyd Dafydd" yn y dosbarth cyntaf. Ar ymresymiad Robinson ei hunan ynte, fe ddyllasai y personau cyfoesol a'r symudiad gael eu cymeryd i mewn i'r cyfrif yn yr ail ddosbarth; ond y mae efe yn terfynu hwnw gyda Josia, yr hwn ydoedd wedi marw rai blynyddoedd cyn hyny. Nid ydym yn gweled fod terfyniad y dosbarth mewn cyfnod ac nid mewn person, yn un rheswm dros eigaun allan, hyny ydyw, dros gau allan y genedlaeth gyfoesol âg ef, o'r dosbarth a derfynir ganddo. Y mae yn eglur i ni, fod y ddadl oddiwrth yr anghenrheidrwydd am gymeryd yr un ystyr i'r geiriau yn yr ail ddosbarth ag a roddir iddynt yn yr ail ddosbarth cyntaf, yn myned yn hollol yn erbyn Dr. Robinson. Y mae yn ymddangos i ni hefyd fod yr efengylwr fel pe buasai yn cymeryd gofâl arbenig i ddangos fod Jechonia yn perthynu i'r dosbarth a derfynai gyda y symudiad i Babilon:—"A Josia a genedlodd Jechonia a'i frodyr ynghylch amser y symudiad i Babilon"—ἐκ τῆς μετουκείας—tua, ar, yn agos at, neu, yn ol y Syriaeg, yn y symudiad. Y mae y geiriau yn amlwg yn cysylltu Jechonia a'i frodyr, ac nid Josia, â'r symudiad i Babilon; ac nid hawdd fuasai gosod allan yn well ar fyr eiriau berthynas y genedlaeth a gynnrychioliod gan Jechonia â'r cyfnod hwnw. Ar y cyfan, er ein holl barch i bleidwyr y golygiad hwn, yr ydym yn gorfod ei wrthod fel un anghyson âg ef ei hun, ac anghydweddol âg ystyr naturiol geiriau yr efengylwr. Y mae eraill yn cyfrif Dafydd a Josia ddwy waith, gan adael yr Iesu allan yn hollol, fel ag y gadewir y gwr ei hunan allan o'r rhestr, pan y cyfrifir ei hynafiaid. Dyma fel y gwneir gan Olshausen.<sup>3</sup> Ond heblaw fod y golygiad hwn yn agored i holl rym yr wrthddadl yn erbyn cymeryd Josia yn lle Jechonia yn derfyn yr ail

<sup>1</sup> "Harmony of the Four Gospels, in Greek:" tudal. 183, 184. Boston, 1845.

<sup>2</sup> "Murdoch's Syriac New Testament."

<sup>3</sup> "Commentary on the Gospels:" cyf. i, tudal. 44. Edinburgh, 1847.



ldosbarth, y mae, gyda hyny, yn ychwanegu anhawder arall, trwy ei wneyd yn ddechreu y trydydd dosbarth, tra y dywedir yn benderfynol od hwnw "o'r symudiad i Babilon." Heblaw hyny, yn ol y golygiad hwn, mae i'r gair *ēac* (*hyd*) yn y geiriau "hyd Grist," ystyr hollol wahanol i'r ystyr a roddid iddo yn y cysylltiadau eraill. Yn ei berthynas â "Dafydd," ac â'r "symudiad i Babilon," y mae yn amlwg yn ei w cynnwys hwynt *tu* *o'm* i'r dosbeirith blaenorol iddynt; ond yn ei gysylltiad â Christ, yn ol y golygiad hwn, y mae iddo ystyr newydd, fel ag i'w gau ef allan o'r losbarth blaenorol iddo, ac y dywedir ei fod *hyd* iddo.

Y mae eraill yn cyfrif Jechonia ddwy waith; yn niwedd yr ail ddosbarth fel ynnrychiolydd y symudiad i Babilon, a thrachefn yn nechreu y trydydd dosbarth. Dyma olygiad Dr. Wieseler, Göttingen, un o'r ysgrifenyddwyr diweddaraf a galluocaf ar yr achau hyn.<sup>1</sup> Ond pa reswm, heblaw mympwy, a ellir roddi iros gyfrif Jechonia ddwy waith, mwy na chyfrif Dafydd ddwy waith? ac y mae yn amlwg, pe cyfrifid Dafydd ddwy waith, y byddai yr ail ddosbarth yn terfynu cyn cyfrif Jechonia un waith. Nid oes anghenrheidrwydd, lybygum ni, am unrhyw ddadl arall er peri i ni wrthod yr eglurhad hwn o fel un annigonol er dangos cysondeb yr efengylwr âg ef ei hun.

Y mae yr holl olygiadau y cyfeiriwyd atynt, oddieithry cyntaf, yn cymeryd yn ganiataol mai yr un gwr a gyflwynir ger ein bron dan yr enw Jechonia, yn y ddeuddegfed adnod, ag a elwir felly yn yr unfed adnod ar ddeg. Ond y mae yn ymddangos i ni fod genym seiliau digonol i amheu hyny; a bod y gwir eglurhad ar yr anghydweddiad ymddangosiadol yn Matthew, yr hyn, i'w gael yn y golygiad eu bod yn ddau wahanol—yn dad ac yn 'ab. Yr ydym yn cael ddarfod i bobl y wlad wedi marw Josia gymeryd Joahaz ei fab, a'i eneinio a'i urddo yn frenin yn lle ei dad. Y mae yn amlwg nad efe oedd etifedd cyfreithlawn yr orsedd, ond iddo gael ei ddewis gan y bobl o flaen ei frawd Eliacim, yr hwn oedd hyn nag ef, oblegid rhyw gymhwysderau a olygent hwy ynddo, cyfaddas i'w hamgylchiadau ar y pryd, ag yr oedd ei frawd yn ddiffygiol ynddynt. Gellid casglu hyn y ddiwrth y crybwylliad a wneir am ei eneiniaid ef, yr hyn a fuasai yn ffreidiol, ac nad oedd arferol i'w wneyd i etifedd cyfreithlawn y goron; ac y mae genym brawf penderfynol o'r un peth yn yr adroddiad a gawn o rædran y naill a'r llall ar ddechreuad eu teyrnasiad. Nid oedd Joahaz ond 'air blwydd ar hugain pan ddechreuodd deyrnasu, a thri mis y teyrnasodd efe. Yr oedd Pharao-Necho, brenin yr Aipht, wedi gorchfygu Juda yn y rwydr y lladdesid Josia, yn ei ystyried ei hunan yn arglwydd ar y wlad; ac yn gymaint a bod y bobl wedi dyrchafu Joahaz i'r freniniaeth heb ymgyngori âg ef, ac yn groes i hawl flaenorol ei frawd, efe a'i diorseddodd ef, ac a osododd Eliacim yn frenin yn lle Josia ei dad, ac a ddug Joahaz yn gaeth i'r Aipht, lle y bu efe farw. Yr oedd Eliacim yn bum mlwydd ar hugain oed pan ddechreuodd efe deyrnasu; ac yn arwydd o'i ddarostyngiad i frenin yr Aipht trôwyd ei enw ganddo i Joacim. Yn y bedwaredd flwyddyn y'i deyrnasiad ef daeth brenin Babilon ac a ymosododd yn erbyn Jerusalem. Wedi ychydig warchae, fe'i cymerwyd gan Nebuchodonosor, ac fe rwymwyd Joacim ganddo mewn cadwynau pres, gyda bwriad i'w ddwyn i fynd i Babilon. Ond ar ei ymostyngiad, a'i addewid o ffyddlondeb iddo, fe'i gosodwyd drachefn ganddo ar yr orsedd. Pa fodd bynag, fe gymerodd gydag ef i Babilon ran o lestri y deml, fel anrhaith, ac amryw o wŷr ieuainc

<sup>1</sup> "Kittó's Journal:" Ebrill, 1849, tudal. 207.

o'r had breninol, ac o'r tywysogion, i wasanaethau yn ei lys, ac yn wytia ffyddlondeb iddo oddiwrth frenin Juda. Ymhlith y rhai hyn yr oeddi Daniel a'i gyfeillion. Dyma ddechreuad "y symudiad i Babilon." Yn mhen tair blynedd, gan awydd ennill ei annibyniaeth, a thrwy gynnorthwyl brenin yr Aipht, fe allai hefyd, fe wrthryfelodd Joacim yn erbyn brenin Babilon. Y mae yn debygol, er y torfeydd o'r Caldeaid, ac o'r Syriaid, ac o'r Moabiaid, ac o feibion Ammon, a ddaethent i fyny yn erbyn Jerusalem, i Joacim allu eu gwrthsefyll hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le yr unfed ffwyddyn ar ddeg o'i deyrnasiad. Lladdwyd ef, fe allai, yn rhyfel, a llusgwyd ei gorff gan y Babiloniaid o amgylch y ddinas, a gadwyd ei gelain, yn ol rhagddywediadau Jeremia, "i wres y dydd, ac i rew y nos." Wedi ei farw ef daeth ei fab Joachin i'r freniniaeth, ac a deyrnasodd dri mis yn Jerusalem. Y mae yn debyg i'r frwydr, yn yr hon y lladdwyd Joacim, fod mor golledus i'r lluoedd gwrthwynebol i frenin Babilon, fel y gwelant yn ofer barhau i ymladd yn hwy yn ei erbyn. Gwelai brenin yr Aipht fod ganddo ddigon, erbyn hyn, i'w wneyd yn ei wlad ei hun, ac felly na allasai wneyd un cynnorthwymwy i Juda. Dywedir i ni (2 *Bren.* xxiv. 1) "na ddaeth brenin yr Aipht mwyach o'i wlad; canys brenin Babilon a ddygasai yr hyn oll a oedd eiddo brenin yr Aipht, o afon yr Aipht hyd atfa Euphrates." Wedi ei adael fel hyn yn ddigynorthwy, fe roddes Joacim ei hunan i fyny i frenin Babilon, efe, a'i fam, a'i weision, a'i dywysogion, a'i ystafellyddion, ac fe'i dygwyd oll, ynghyd â lliaws mawr eraill o'r trigolion, yn gaeth i Babilon. Gosodwyd Mattania, brawd i dad Joachin, mab i Josia, yn frenin yn ei le, a newidiwyd ei enw gan frenin Babilon yn Sedecia. Yn mhen un mlynedd ar ddeg fe wrthryfelodd Sedecia drachefn yn erbyn brenin Babilon, yr hyn a derfynodd yn nadymchweliad hollol teyrnas Juda. Cymerwyd Jerusalem, chwalwyd ei muriau, llogwyd y deml a'r prif adeiladau o'i mewn, a dygwyd y brenin a'r holl boblogaeth, oddigerth ychydig o dlodion y wlad, yn gaethion i Babilon. Dyma "y symudiad" wedi ei orphen. Ond gyda golwg ar y pwero sydd genym yn awr dan sylw, y mae yn ymddangos i ni, *fod Matthew yn cystwyo Joacim mab Josia, a Joachin ei fab yntau, i ni dan yr enw Jechonia*; a bod eglurhad boddlonol i'w gael ar yr anhawsder, trwy gymeryd Jechonia yr unfed adnod ar ddeg am y naill, a Jechonia y ddeuddegfed am y llall. Rhoddir i ni felly bedair cenedlaeth ar ddeg yn mhob dosbarth, heb gyfrif yr un genedlaeth ddwy waith; a therfynir pob dosbarth yn y lle y dysgwyliassem yn naturiol iddo wneyd, pe na chyfarfuasem âg unrhyw ddyrswch yn yr adroddiad. Ac y mae y prawf drosto yn gymaint ag a allasem dan yr amgylchiadau ddyagwyl. Y mae yn amlwg fod Joachin yn yr Hen Destament yn cael ei alw Jechonia. Buasai yn naturiol i ni felly gymhwyso ato ef yr hyn a ddywedir gan yr efengylwr am Jechonia. Ond byddai hyn yn anghyson â'r hanes a gaws yn yr Hen Destament; heblaw y parai hefyd i'r efengylwr ymddangos yn anghyson âg ef hun. Y mae yr enwau Joacim a Joachin yn debyg iawn i'w gilydd, ac agos yn gyfystyr. Y maent, fel y gwelir, yn hollol yr un, ond yn unig yn eu terfyniadau, ac nid ydyw y gwahaniaeth yno ond bychan iawn—un yn *cim* a'r llall yn *chin*. Y mae y gwahaniaeth mor fychan fel yr ydym yn cael y Deg a thriugain yn arfer y naill am y llall. Yn *Jer.* lii. 31, gelwir Joachin ganddynt hwy yn Joacim. Y mae y ddau hefyd yn cael eu galw Joacim yn l *Esdras* i. 37, 43. Y mae yn amlwg, felly, fod yr enwau yn cael eu harfer braidd yn ddiwahaniaeth, o leiaf fod y

naill fel y llall yn oael ei adnabod wrth yr enw Joacim. A ohan yr adnabyddid y ddau wrth yr enw Joacim, onid ydyw yn naturiol i ni gasglu yr adnabyddid y ddau wrth yr enw Jechonia? Y mae y tebygolrwydd hwn, dybygem ni, yn cyrhaedd i sicrwydd, pan yn gysylltiedig â'r fath amgylchiadau a'r rhai sydd yn ein cyfarfod yn yr adroddiad hwn. Y mae yr efengylwr yn y crybwylliad am y Jechonia cyntaf, yn dywedyd, "A Josia a genedlodd Jechonia a'i frodyr." Yn awr, nid oes genym un prawf fod i Joachin frodyr oll. Y mae yn dra thebygol nad oedd ganddo rai, onid ni gawsem ryw gyfeiriad atynt ymblith y rhai a aethant allan gydag ef at frenin Babilon o Jerusalem, pan y rhoddes efe ei hunan i fynd iddo. Sonir, fel y gwelsom, am ei fam, a'i weision, a'i dywysogion, a'i ystafell-yddion, ond ni chrybwyllir dim am ei frodyr. Y mae agos yn benderfynol, felly, nad oedd brodyr iddo; a phe buasai ganddo rai, dysgwyliasem am ryw hynodrwydd yn perthynu iddynt, yn rheswm dros y cyfeiriad atynt yn yr achau hyn. Ni wneir cyfeiriad felly at frodyr neb arall ond brodyr Juda, ac yr oedd digon o hynodrwydd ynddynt hwy, fel tadau y llwythau eraill yn Israel, i wneyd y cofia hwn am danynt. Ond am frodyr Joachin, od oedd ganddo rai, yr oeddent mor anhynod fel nas gallwn ni weled un rheswm paham y gwnelsid unrhyw grybwylliad am danynt. Ond os wrth Jechonia yma y deallwn Joacim, ni a ganfyddwn y priodoldeb mwyaf yn y cyfeiriad a wneir at ei frodyr ef, nid yn unig am fod brodyr iddo, ond hefyd am iddynt fod yn eistedd ar orsedd Juda, a bod un o honnynt y brenin diweddfaf a fu ar y wlad. Peth arall sydd yn ymddangos i ni fel prawf fod yr efengylwr yn eu golygu yn ddau wahanol yw, ei fod yn amlwg yn eu doddi mewn dosbeirth gwahanol. Y mae Jechonia yr unfed adnod ar ddeg, a chymeryd ystyr naturiol y geiriau, yn eglur yn perthynu i'r dosbarth sydd yn terfynu gyda "y symudiad i Babilon;" tra y mae mor eglur fod Jechonia, y ddeuddegfed, yn perthynu i'r dosbarth wedi y symudiad. Dyna y golygiad a ofynir, dybygem ni, gan ystyr naturiol y geiriau; a dyma yr unig olygiad sydd yn rhoddi i ni y nifer anghenrheidiol o genedlaethau i wneyd i fynd y tri dosbarth, yn ol rhifedi yr efengylwr. Rhaid, gan hyny, yn ol ein meddwl ni, mai dau wahanol ydyw Jechonia y ddwy adnod.

Nis gallwn feddwl ond am un wrthddadl o bwys yn erbyn y golygiad hwn, a hyny ydyw, nad oes un crybwylliad gan Matthew am genedliad yr ail Jechonia, ond ei fod yn son am dano fel un y cyfeiriad ganddo eisoes ato. Rhaid addef fod hyn, ar y cyntaf, yn ymddangos braidd yn gryf yn ei erbyn; ond y rheswm paham y mae yn ymddangos felly ydyw, fod y ddau o'r un enw. Gwneled y darllynydd brawf arno ei hun, trwy ddarllen Joacim yn lle y Jechonia cyntaf, ac fe wel, os nad ydym yn camgymeryd, ar unwaith, nad ydyw bod yr efengylwr wedi gadael allan y cyfeiriad at genedliad Jechonia yn ddigon o reswm dros haeru mai at yr un gŵr y cyfeirir dan yr un enw yn y ddwy adnod. Y rheswm, fe allai, paham na chrybwylliasid cenedliad Jechonia, fel y lleill ydyw, fod yr efengylwr yn cymeryd cyfnod, ac nid person, yn derfyn yr ail ddsbarth. Yr oedd felly dan fath o anghenrheidrwydd i gyfeirio at "y symudiad i Babilon" ar derfyn y naill a dechreu y llall. Yr oedd Jechonia, y tad, yn perthyn i'r dosbarth cyn y symudiad, a Jechonia, y mab, i'r dosbarth wedi y symudiad. Buasai cyfeirio, gan hyny, at genedliad y mab yn ei dafu yn ol, i enwi eilwaith fel tad iddo un a enwasid ganddo o'r

blaen, ac a berthynai i'r ail ddosbarth. Er gochel afreoleidd-dra felly, a allai y gadawodd allan yn hollol bob crybwylliad am ei genedliad ef.

Ar y cyfan, y mae y golygiad hwn yn ymddangos i ni yn agoriad hollt foddlonol ar y dyryswech, ac yn ei gyfarfod heb wneyd dim cam âg egwyddorion cyntaf deonglyddiaeth ysgrythyrol. Nid ydym yn ei gynnwys i'w peth newydd; i'r gwrthwyneb, y mae yn olygiad ag sydd wedi cael cymeradwyaeth lliaws o feirniaid o'r oesoedd boreuaf, megys Jerome yn ei Esboniad ar *Daniel* ac ar *Matthew*, yr Esgob Kidder,<sup>1</sup> Dr. Doran, awdur yr erthygl ar yr achau yn "*Kitto's Cyclopaedia*," Dr. Burton, ac amryw eraill.

Ond y mae *Matthew*, meddir i ni, nid yn unig yn anghyson âg ef ei hen, ond hefyd â'r Hen Destament; ac os yw cysondeb yn hanfodol i'r gwirionedd, rhaid i ni wrthod y naill neu y llall, am eu bod yn amlwg y gwrthddywedyd eu gilydd! Felly y dywed anffyddiaeth. Ni a wne rhagom, gan hyny, i sylwi ar yr anghysonderau a roddir yn ei erbyn, ac i chwilio pa seiliau sydd i'r cyhuddiad.

Y mae y golygiad a roddasom eisoes ar y modd y mae i ni gysoni *Matthew* âg ef ei hunan, yn cynnwys eglurhad digonol ar un o'r rhai hyn, fel nad ydym yn teimlo fod anghenrheidrwydd am i ni ychwanegu dim ar hyny. Oblegid os Joacim a olygir ganddo wrth Jechonia yn yr unfel adnod ar ddeg, nis gellir ei gyhuddo yn hyny o fod yn anghyson â'r Hen Destament. Y mae yn ddiau fod rhyw lwybr mor gyfreithlawn ac mor ddiogel i gyfarfod yr holl anghysonderau eraill, pa un bynag a fydd i ni fod mor ffodus a tharo arno ai peidio.

Y mae *Matthew* yn yr ail ddosbarth wedi gadael allan dair cenedlaeth olynol. Dywed fod Joram wedi cenedlu Ozias, pryd y gwelwn wrth yr Hen Destament fod Ahazia, Joas, ac Amasia rhyngddynt. Mae yn eglur fod yma wahaniaeth mawr, a bod yma hefyd anghysondeb ymddangosiadol. Yr un pryd, y mae yn hawdd gweled nad oedd yr efengylwr mor anwybodus yn yr Hen Destament ag i gamgymeryd am beth ag sydd mor amlwg yno, ac a berthynai mor gyhoeddus i'w genedl. Rhaid felly fod y cyfnewidiad wedi ei wneyd yn fwriadol, pa un bynag ai *Matthew* ai rhyw un arall a'i gwnaeth; a bod rhyw egwyddor, gan hyny, er ei gysoni â'r Hen Destament. Meddyliem y gallai y sylwadau canlynol fod yn wasanaethgar a rhoddi gradd o eglurhad ar y dyryswech hwn.

1. Y mae yn rhaid, dybygem ni, fod y crynodd a wneir gan yr efengylwr (*adn.* 17) ar y cenedlaethau o Abraham hyd Grist i dri dosbarth o bedair cenedlaeth ar ddeg yr un, i'w ddeall yn unig gyda golwg ar y rhestr roddasid ganddo o honynt yn yr adnodau blaenorol. Nid oes yn y testun gwreiddiol yr un prifair yn yr adnod oll; ac y mae yn amlwg fod y darlennydd i gyflenwi rhyw eiriau er cwbleiddio y synwyr. "Felly yr holl genedlaethau, *rhystredig* neu *gyfrifedig*, o Abraham hyd Dafydd, ydym bedair cenedlaeth ar ddeg," &c. Y mae yn amlwg nad yw yr efengylwr yn amcanu i ni ddeall mai dyma yr holl genedlaethau a hanfodasant o fewn yr yspediau hyn. Yn ddilys nid yw ei eiriau yn ein rhwymo i roddi yr ystyr hwnw ar ei feddwl. Ac yn gymaint a'n bod yn cael ein rhwymo gan yr amgylchiad i'w ddeall yn wahanol, y mae yn iawn i ni synio, gan y goddef ei eiriau hyny, mai yr ystyr a fwriedid ganddo oedd, yr hyn sydd

<sup>1</sup> "*Demonstration of the Messiah*:" rhan. ii, tudal. 112—120. Ailargraffid Llundain, 1726.

yn ateb i'r amgylchiad. Yr oedd cydysgolâig i ni, tra bywiog ei dymher, a lled ffraeth ei atebion : gofynai yr athraw iddo unwaith, "*Well, James, are you prepared with your lesson to day?*" Atebai yntau, gydag aceniad trwm sir—" *Well, sir, I cannot make out the sense from the words, but I think I can make out the words from the sense.*" Yr oedd mwy yn atebiad ein hen gyfaill nag oedd, fe allai, yn feddwl, a mwy nag a fŷn anffyddiaeth yn fynych gydnabod. Pan na byddo yr iaith yn ein rhwymo i un golygiad ragor y llall, cyfarwyddyd amlwg rheswm ydyw, y dylem gymeryd yr ystyr mwyaf cydweddol â'r amgylchiad. Ac am y rhaniad hwn i dri dosbarth, y mae yn ymddangos yn amlwg i ni nad oedd yr efengylwr yn ei amcanu ond fel crynodd neu gyfanswm y cenedlaethau a nodasid ganddo yn flaenorol, pa un bynag a wnaeth ai eu talfyru ei hunan, er mwyn rhyw amcan a allai fod mewn golwg ganddo, ai ynte, fel y mae yn debycach, eu cymeryd o'r croniclau cyhoeddus a berthynent i'r genedl.

2. Peth arall tra theilwng o'n sylw mewn cysylltiad â hyn ydyw, y *syniad Iuddewig* gyda golwg ar y berthynas a hanfodai rhwng gŵr a'i hiliogaeth, yn gystal a rhwng ceraint cyffredin a'u gilydd. Cyfeiriasom eisoes at y safle a gymerir gan Matthew fel hanesydd. Y mae yn ysgrifennu oddiar du yr Iuddew, ac yn amcanu ei efengyl, yn y lle cyntaf, yn benaf i'r Iuddewon. Yn awr, yr oedd y syniad Iuddewig ar hyn yn un tra neillduol. Yn ein plith ni y mae i'r geiriau tad, brawd, chwaer, ystyr bendant, fel nad ydym byth yn agored i gamgymeryd, nac i gael ein camdeall am natur y berthynas rhwng y personau y defnyddiom y naill neu y llall o'r geiriau hyn er ei gosod allan. Ond nid felly yr Iuddewon. Yr oedd yn beth hollol gyffredin yn eu plith hwynt alw perthynasau agos yn frodyr, yn gystal a'u brodyr llythyrenol; ac yr oedd plant eu plant, a phlant eu plant hwythau, ac ymbellach na hyny, yn cael eu hystyried a'u galw ganddynt yn feibion a merched iddynt. Yr oedd cenedl, a llwyth, a thŷ, a theulu, yn bwysig iawn yn eu plith, ac yn cael dylanwad mawr arnynt. Nid oedd ond yehydig iawn o gyfrif ganddynt yn y dyn arno ei hunan. Yr oedd yn bod er mwyn y teulu, y tŷ, a'r llwyth. Felly yr oedd bod yn ddiblant, yn eu plith hwy, yn dra amharchus, a'r sawl a fyddai marw yn gyfryw yn cael ei ystyried fel pe na buasai wedi byw i un amcan. Yr anrhydedd mwyaf yn eu golwg oedd bod i ŵr hiliogaeth lawer. Edrychid ganddynt ar ei holl hiliogaeth megys ynddo ef. Yr oedd efe a hwythau megys un, fel y priodolid ganddynt i'r naill y pethau oeddent mewn gwirionedd yn perthynu i'r lleill. Felly yr ymresyma yr apostol fod Lefi, hyny ydyw, yr holl offeiriadaeth Iuddewig, yn talu yn Abraham ddegwm i Melchisedec, am y rheswm ei fod yn lwynau ei dad ar y pryd. Felly y dywedir fod "ymdaith meibion Israel, y rhai a drigasant yn yr Aipht, yn bedwar cant a deng mlynedd ar hugain." Y mae ein cyfieithiad ni yn *Ecsod. xii. 40* yn amlwg yn wallus. Dylid darllen fel y gwnaethom ni yn awr. Erbyn i ni gymharu yr hanes â'r hyn a gawn gan Paul yn yr epistol at y *Galatiaid*, am yr yspaid rhwng yr addewid a dodiad y ddeddf, gyda'r hyn a ddywedwyd gan yr Arglwydd wrth Abraham tuag amser genedigaeth Isaac, yn mhen deng mlynedd ar hugain wedi ei ddyfod o Ur y Caldeaid, y byddai ei hâd yn ddeyithr ac yn gystuddiol am bedwar can' mlynedd, y mae yn eglur fod y pedwar cant a deng mlynedd ar hugain yn dechreu gydag ymdaith Abraham ei hunan o Ur y Caldeaid. Ymddengys felly fod y rhai a ddaethant allan o'r Aipht, y noswaith hōno, yn cael eu darlunio

fel yn cyfranogi o ymdaith a chystudd Abraham gannoedd o fymeddu cyn hyny. Yr un modd y dywedir yn *Gen.* xlv. 26, fod "yr holl ceneidiau a ddaethant gyda Jacob i'r Aipht, yn dyfod allan o'i lwynau ef, yn chweth enaid a thriugain;" ac mewn lle arall (*Ecsod.* i. 5), fod yr "holl ceneidiau a ddaethant allan o'i gorff ef yn ddeg enaid a thriugain," er nad oedd iddo, mewn gwirionedd, ond deuddeg mab, ac un ferch. Yn hanes breninoedi Juda, yr un modd, yr ydym yn cael y sawl a fyddai da o honynt "yn gwneuthur yn ol yr hyn a wnaethai Dafydd ei dad ef," neu "yn rhodio yn fwydd Dafydd ei dad;" a'r sawl o honynt oedd ddrwg, i'r gwrthwylch, "ni wnaeth efe yr hyn oedd uniawn yn ngolwg yr Arglwydd ei Dduw, fel Dafydd ei dad," &c. Felly y mae i ni ddeall yr hyn a ddywedwyd wrth Hezecia, trwy Esaia y prophwyd, wedi iddo ddangos trysorau ei dŷ i geadau brenin Babilon,— "Wele y dyddiau yn dyfod, pan ddygir i Babilon yr hyn oll sydd yn dy dŷ di, a'r hyn a gynnilodd dy ddau di hyd y dydd hwn: ni adewir dim, medd yr Arglwydd. Cymerant hefyd o'th feibion di, y rhai a ddaw o honot, sef y rhai a genedli, fel y byddont yn ystafellyddion yn llys brenin Babilon;" *Essay* xxxix. 6, 7. Cyflawnwyd hyn yn nyddiau Joachin: ac er fod felly oesoedd rhwng Hezecia a'r personau y cyflawnwyd y brophwydoliaeth ynddynt, eto gosodir hwynt allan ynddi, nid yn unig fel hiliogaeth iddo, ond fel rhai wedi eu cenedlu ganddo. Ar yr un egwyddor y mae i ni ddeall y prophwydoliaethau am y Messia yn llyfr y *Salmon*, fel ag y dysgir ni gan Pedr yn *Actau* ii. 30. Yn gymaint ag nad oedd yr hyn a leferid gan Dafydd, megys yn ei berson ei hun, yn briodol iddo ei hun, neu o'i gymhwyso ato ef yn bersonol, y mae yn rhaid fod rhyw lwybr i'w ddeall yn gydweiddol a'r ysbrydoliaeth yr oedd tano: "Am hyny, ac efe yn brophwyd, yn gwybod dyngu o Dduw iddo trwy lw, mai o frwyth ei lwynau ef o ran y cnawd, y cyfodai efe Grist i eistedd ar ei orseddfa ef: ac efe, yn rhagweled, a lefarodd am adgyfodiad Crist," &c. Yr oedd Dafydd yn synio, gan ei fod yn rhagweled y byddai i Grist ddyfod o'i lwynau ef, bod y fath unoliaeth rhyngddynt a'u gilydd, fel yr ydoedd yn edrych ar y pethau priodol i Grist yn eiddo iddo ei hunan, ac felly yn llefaru am dano yn ei berson ei hun. Dyma, y mae yn amlwg, oedd y syniad cyffredin Iuddewig ar y pwnc. Y mae yn eglur felly y gallai Matthew, yn hollol gydweiddol a'r syniad hwn, ddywedyd fod Joram wedi cenedlu Ozias, er fod tair cenedlaeth rhyngddynt, ac nad ydoedd, mewn gwirionedd, ond gorphendaid iddo.

3. Y mae yn ymddangos fod y syniad hwn yn effeithio ar y dull cyffredin ymhlith yr Iuddewon o gadw cofiadwriaeth o'u hachau, fel ag y gallwn gael dadl eto er amddiffyniad i'r efengylwr yn arferiad yr Iuddewon eu hunain. Y peth mawr ganddynt hwy yn eu cofrestrau oedd, cysylltu y person y rhoddid ei achau â rhyw lwyth arbenig, neu ryw dŷ neillduol perthynol i ryw lwyth, neu wrth ryw benoenedl, y teimlent barch iddo, fel un wedi dwyn anrhydedd arnynt hwy. Nid oedd o gymaint pwys ganddynt felly nodi allan bob dolen yn y gadwen, ond yn unig y prif ddolenau, y rhai a ystyridd yn ddigonol er dangos y cysylltiad hwn yn amlwg. Felly mae yn eglur i ni y rhoddir achau Dafydd, yn yr Hen Destament, yn gystal a chan Matthew a Luc yn y Testament Newydd. Nid oes yn y rhestr o'i achau ef ond pedair o genedlaethau yn cael eu cyfrif o Salmon, yr hwn oedd yn fyw pan aeth Israel i Ganaan, ac a briododd Rahab, hyd ato ef ei hunan, yspaid o amser, o leiaf, o bedwar cant

a hanner o flyneddau (*Actau* xiii. 20). Byddai hyny dros gan' mlynedd i bob cenedlaeth, yr hyn, ag ystyried oedran dyn y pryd hyny, sydd yn hollol anhygoel, ac yn ein harwain yn naturiol i'r casgliad na ddodwyd i mewn yn yr achau ond y prif wŷr perthynol i'r teulu, y rhai, trwy ryw foddion neu gilydd a'i hynodasent. Y mae achau amryw yn yr Hen Destament wedi eu rhoddi i ni yn yr un modd. Ni a gawn anghraifft nodedig o hyn yn achau Ezra. Y mae genym ddwy restr o honynt: un yn 1 *Cron.* vi. 3—15, a'r llall ganddo ef ei hunan, yn *Ezra* vii. 1—5. Y mae y ddwy restr yn terfynu yr achau yn Aaron "yr offeiriad penaf." Y maent hefyd yn olrhain yr achau ato yn yr un linell. Ond erbyn eu cymharu, ni a welwn fod amrywiaeth dirfawr rhyngddynt. Y maent yn cytuno â'u gilydd o Aaron hyd un Meraioth; yno y maent yn gwahaniaethu, neu yn hytrach, y mae Ezra yn gadael allan chwech o genedlaethau yn olynol a nodir yn y *Cronicl*, ac y maent yn cyd-daro drachefn yn Azaria, yr hwn, fe allai, oedd yr offeiriad cyntaf yn nheml Solomon. Nid ymddengys fod Ezra yn ei ystyried ei hunan yn amrywio dim oddiwrth yr arferiad cyffredin ymblith ei genedl trwy y talfyriad hwn ar ei achau. Heb deimlo anghenrheidrwydd myned trwy yr holl restr, y mae yn ymfodloni ar y prif ddolenau a ystyriai yn ddigonol er profi ei gysylltiad âg "Aaron yr offeiriad penaf," ac felly ei hawl ei hunan i'r offeiriadaeth. Yr un modd yn gwbl y gwnaeth Matthew, neu y gwnaeth awdur y daflen a ddodir i mewn ganddo ef yn ei efengyl. Nid oes dim mwy o anghysondeb rhyngddo ef a'r Hen Destament, nag sydd rhwng yr Hen Destament yn fynych âg ef ei hunan; hyny yw, y mae yn cymeryd yn hollol yr un drefn gyda'r achau ag a ddefnyddir yn fynych yno. Gadewir allan yn aml ryw rai anenwog, neu ryw rai a'u hynodasent eu hunain mewn drygioni, ymhlith hynafiaid un, ac olrheinir ei achau trwy y rhai enwocaf ac anrhydeddusaf rhyngddo a'r person y disgynodd o hono. Ac y mae hyn, dybygem ni, yn llawn ddigon o amddiffyniad i Matthew yn ngwyneb y cyhuaddiad o anghysondeb â'r Hen Destament, yn ei waith yn gadael allan y cenedlaethau hyn. Paham y gadawyd y rhai hyn allan, nid oes genym unrhyw fantais i ddyfod i benderfyniad hollol. Hwyrach fod rhyw gysylltiad rhwng hyn a phriodas Joram âg Athalia, merch Ahab, brenin Israel, ac yn enwedig âg eilun-addoliaeth a drygioni Joram ei hunan. Yr oedd y gwŷr hyn wedi disgyn, o du eu mam, oddiwrth Ahab, brenin Israel; ac yr oedd Joram wedi ymroddi i holl ffeidd-dra tŷ Ahab; a dichon fod anffodlonrwydd yr Arglwydd yn erbyn y naill a'r llall, hyd y drydedd a'r bedwaredd genedlaeth, yn cael ei ddangos, trwy yr holl oesoedd, trwy eu gadael allan o restr achau y Messia. Ond ni pherthyn i ni ymfyn llawer am y peth hwn.

Gyda golwg ar yr anghysonderau cysylltiedig â Jechonia rhwng Matthew a'r Hen Destament, y maent yn cyfodi yn hollol, dybygem ni, oddiwrth ein cyfieithiad ni. Yn mygythiad yr Arglwydd, trwy y prophwyd Jeremia (xxii. 30), yn erbyn Jechonia, "Ysgrifenwch y gŵr hwn yn ddiblant, gŵr ni ffyna yn ei ddyddiau: canys ni ffyna o'i had ef un a eisteddo ar orseddfa Dafydd, nac a lywodraetha mwyach yn Juda,"—y mae yn amlwg oddiwrth ddiwedd yr adnod nad ydyw y gair diblant i'w ddeall yn ei ystyr gyffredin. Ystyr gyntaf y gair ydyw *anhenog, tlawd, noeth, truenus*; ac yn gymaint ag mai y tlodi mwyaf, braidd, yn eu golygiad hwy, oedd bod yn ddiieppiled, daeth i arwyddo *diblant*. Dyma yr ystyr sydd iddo yn

*Gen. xv. 2; Lef. xx. 20, 21.* Ond y mae diwedd yr adnod yn ein rhwyw i ddeall y gair yn y lle hwn yn ei brif ystyr,—yn arwyddo y darostyngiad mwyaf; y byddai iddo ef a'i deulu gael eu caethgludo i Babilon, y dyogel ef o'r llywodraeth, ac na chai yr un o'i hiliogaeth eistedd ar orsedd Dafydd, a theyrnasu ar Juda. Nid oes dim anghydwedol yn hyny i'r hyn a ddywedir gan Matthew, ddarfod iddo genedlu Salathiel. Ond ym draehafn yr ydym yn cyfarfod âg anghysondeb ymddangosiadol arall rhwng ein hefyngylwr â l *Cron. iii. 17*, lle y dywedir mai mab Assir oedd Salathiel, ac Assir yn fab i Jechonia. Gellir egluro hyn, naill ai trwy dybied fod Matthew yn myned heibio i Assir yn hollol, ar yr egwyddor a nodwyd genym eisoes mewn cysylltiad âg Ahazia, Joas, ac Amasia; neu ynte trwy gymeryd y gair *Assir* yn ddarluniadol o Jechonia, ac nid yn enw priodol. Y golygiad olaf sydd yn ymddangos i ni debycaf. Ystyr y gair *Assir* ydyw *rhoym, caeth, darostyngedig, &c.* A deall y gair felly yma, y cyfeithiad goreu ar l *Cron. iii. 17*, fyddai, "A mab Jechonia, y *caeth*, ydoedd Salathiel," &c. Yr ydym yn cael yn fynych yn y rhestrau hyn ryw air yn cael ei ddefnyddio er dynodi person y byddo rhyw neillduolrwydd yn ei hanes. Y mae y gair hwn yn dra darluniadol o Jechonia. Bu o'r trydydd mis o'i deyrnasiad, pan ydoedd yn ddeunaw mlwydd oed, am ddwy flynedd ar bymtheg ar hugain yn y carchar gan frenin Babilon; ac er iddo y pryd hyny gael ei gyfodi o'r carchar, a dangos caredigrwydd mawr tuag at uwchlaw i'r holl freninoedd eraill oeddynt gaethion yno gydag ef, eto ni bu amgen na chaeth ac alltud ei holl ddyddiau. Yn briodol iawn felly; *gelwir ef Assir.*

Y mae gwahaniaeth hefyd rhwng Matthew a'r *Cronicle* ynghylch tad Zorobabel. Yn ol Matthew, Salathiel oedd ei dad ef, ond yn ol y *Cronicle*, Pedaia ydoedd, a Salathiel yn dad iddo yntau. Ond y mae yn eglur fod yr Hen Destament yn fynych yn galw Zorobabel yn fab Salathiel (*Haggai i. 1, 12, 14; ii. 23; Ezra iii. 2, 8; v. 2*). Y mae hyny yn llawn ddisgrifio er amddiffyn Matthew. Pe byddem yn sicrhod testun y *Cronicle* wedi ei gadw yn ddilwgr yn y lle hwn, ni a amcanem gysoni Matthew âg ef trwy olygu ei fod yn myned heibio i Pedaia heb wneyd dim crybwylliad am dano, gan nodi yn unig y rhai hynotaf perthynol i'r teulu. Ond y mae yn rhaid i ni gyfaddef fod testun l *Cron. iii. 17—24* yn dra amherffwrth. Y mae y fath gymysgedd wedi dyfod i mewn iddo, ryw fodd, trwy ddiolbach wrth yr adysgrifenydd, fel y mae yn analluadwy gwneyd synwyr llawn o hono. Y mae y gair *meibion* yn cael ei arfer am fab. Enwir saith o feibion i Zorobabel gyda'u chwaer, a dywedir mai pump ydynt. Ni chrybwyllir ond pump o feibion i Semai, ac eto dywedir eu bod yn chwech. Y mae yn amlwg iawn fod y testun rywfodd wedi cael cam dirfawr. Nid yw yr amrywiol ddarlenniadau a geir mewn gwahanol gopiau yn cynnorthwyo ond ychydig iawn arnom. Y mae wedi ei lygru yn wir, yn ol ein meddwl ni, yn yr adnodau hyn, i'r fath raddau, fel y byddai yn ofer i ni, ac yn annoeth ynom, geisio cysoni rhanau eraill sydd wedi eu cadw yn ddilwgr âg ef. Yr ydym wedi gweled amryw yn ceisio gwneyd cyfnewidiadau arno, er peri iddo ymddangos yn gyson âg ef ei hunan, ond ni chyfarfuasom âg un a lwyddodd yn ei ymdrech. A phan fyddo y testun yn amlwg yn dwpn profion o amherffeithrwydd, dybygem ni, mai mwy duwiol, ac yr ydym yn sicrhod mai mwy beirniadol, ydyw cyfaddef ei fod felly, a gadael iddo aros yn anhawsder, na cheisio ei ystumio i bob llun, er cyfarfod ein golygiadau ni. Ond yn yr amgylchiad presennol nid oes dim anghysondeb rhwng Matthew



a'r Hen Destament; oblegid y mae yn gosod Zorobabel allan yn fab Salathiel yn gwbl gyson â'r rhanau hyny o hono nad oes un ammheuaeth ynghylch purdeb y testun.

Am y gwahaniaeth ynghylch Abiud, mab Zorobabel, nid ydym yn gweled fod yr wrthddadl yn erbyn Matthew braidd yn teilyngu unrhyw sylw. Y mae yn wir nad ydyw y *Cronicl*, er enwi saith o feibion i Zorobabel, yn enwi Abiud yn eu plith. Pe buasai testun y *Cronicl* yma yn ddilwgr, nis gallasem ystyried hyn ond hollol ddibwys yn erbyn yr efengylwr. Nid oedd dim mwy cyffredin ymhlith yr Iuddewon na dau enw ar yr un gŵr. Gallasai fod felly gyda Hanania, neu un o'r meibion eraill i Zorobabel, a nodir yn y *Cronicl*, a bod awdur y *Cronicl* yn ei alw wrth y naill enw, a Matthew wrth y llall. Ond fel y sylwasom eisoes, y mae testun y *Cronicl* yn yr adnodau hyn mor amherffaith, fel nad ydym yn ystyried y byddai yn un anrhydedd i grefydd, nac i feirniadaeth deg, i ni geisio cysoni yr efengylwyr âg o.

Wedi y cwbl, y mae yn ymddangos i ni, a hyderu yr ydym yr ymddengys i'n darllenwyr hefyd, nad oes un prawf o anghysondeb gwirioneddol rhwng Matthew a'r Hen Destament. Y mae yma amrywiaethau; y mae yma dalfyriadau; y mae yma anhawserau. Ond ar dir teg, nid oes rhyngddynt ddim anghysondeb. Erbyn i ni ystyried amcan Matthew yn yr olrheiniad hwn; y bobl yr amcanai ei efengyl yn gyntaf, yn benaf iddynt; y safle a gymerid ganddo fel hanesydd; y wedd dalfyredig sydd ar yr holl adroddiad oddi tan ei law; y syniad cyffredin ymhlith yr Iuddewon ar gysylltiad perthynasau yn ol y cnawd; a'u dull cyffredin o gadw cofadwriaeth o'u hachau—erbyn ystyried hyn oll, y mae yr anghysonderau ymddangosiadol rhyngddynt yn difannu: ac nid ydym yn cael ynddynt fwy o anhawserau nag a allasem, ar ryw ystyr, ddysgwyl, wrth gymharu tafleni mor hen, ac wedi eu cyfansoddi mewn amgylchiadau mor ddyeithr i ni, a than ddylanwad syniadau tra gwahanol i'r rhai, yn y cyffredin, a goleddir genym.

Nid yw yr wrthddadl yn erbyn Luc o anghysondeb rhyngddo a'r Hen Destament gyda golwg ar dad Salathiel, a thad Zorobabel, ac ynghylch Rhesa, mab Zorobabel, prin yn teilyngu unrhyw sylw. Heb gyfeirio dim yn awr at gyflwr amherffaith y testun yn 1 *Cron.* iii. 17—24, y mae yn amlwg fod Luc yn olrhain yr achau i Dafydd ar hyd llinell wahanol i'r hon y rhoddir y rhestr i ni o'i genedlaethau ef yn y *Cronicl*. Hiliogaeth Dafydd trwy Solomon, y llinell freninol, a roddir yno; ond trwy Nathan, mab arall iddo, yr olrheinir ei achau yn Luc. Yn ganlynol, nis gall unrhyw anghydweddiad rhyngddynt a'u gilydd fod yn un ddadl yn erbyn y naill na'r llall.

Ond y mae yr anghysondeb rhyngddo a'r Hen Destament gyda golwg ar Cainan yn fwy pwysig ac yn teilyngu mwy o'n sylw. Yn *Gen.* xi. 12, dywedir i ni mai Arphaxad oedd tad Sela, tra y mae Luc yn ei osod ef allan yn fab Cainan, a Cainan yn fab Arphaxad. Dyma un Cainan felly i mewn, yn yr achau gan Luc, nad ydyw Moses yn crybwyll dim am dano. Yr ydym yn cyfaddef yn rhwydd fod yma ymddangosiad cryf o anghysondeb. Y mae mor amlwg hefyd nas gellir cyfarfod hyn â'r golygiad a gyflwynwyd genym eisoes am syniad yr Iuddewon gyda golwg ar berthynasau, nac âg unrhyw neillduolrwydd oedd yn eu dull yn cofrestru eu hachau. Yr oedd safle Luc fel hanesydd yn wahanol i'r eiddo Matthew; fel nas gellir defnyddio yr un ddadl, er amddiffyniad iddo ef, ag a allwn ddefnyddio yn effeithiol

er amddiffyniad i Matthew; ac heblaw hyny, un peth ydyw gadael allan heb eu henwi rai cenedlaethau a hanfodent, peth arall, hollol wahanol, a hollol annheg, fuasai dodi cenedlaeth i mewn, heb un prawf o'i bod erioed wedi hanfodi. Gallai arferiad cenedl wneyd y naill yn hollol gyfreithlawn, ond nis gallai dim beri i'r llall fod yn amgen na thwyll. Gallai nodi pob dolen fod yn afreidiol er cyrhaedd yr amcan mewn golwg yn olrheiniad yr achau: ond byddai dodi un i mewn yn y gadwen na pherthynai iddi, yn gam â'r gwirionedd. Felly y mae gyda golwg ar y Cainan hwn. Nid yw Moses yn crybwyll dim am dano; ac nid yn unig nid yw yn crybwyll dim am dano, ond y mae yn adrodd hanes y cenedlaethau yn y fath fodd ag i'n gadael yn benderfynol, od yw ei eiriau ef ei hunan genym yn *Genesis*, nad oedd yn gwybod dim yn ei gylch. Y mae y testun Hebrëig yn cytuno yn hollol â'n cyfieithiad ni, fel ag nas gellir gwadu fod yma ymddangosiad cryf o anghysondeb rhwng Luc a'r Hen Destament. Ond erbyn i ni droi at gyfieithiad y Deg a Thriugain, yr ydym yn cael goleuni gwahanol. Yn hwnw y mae y Cainan hwn i mewn. Mae y cyfieithiad hwnw yn darllen *Gen.* xi. 12, 13, fel y canlyn:—"Ac Arphaxad a fu byw gant a phymtheg ar hugain o flyneddau ac a genedlodd Cainan. Ac Arphaxad a fu byw wedi iddo genedlu Cainan bedwar can' mlynedd ac a genedlodd feibion a merched, ac a fu farw. A Cainan a fu byw gant a deg ar hugain o flynyddoedd, ac a genedlodd Sela. A Cainan a fu byw wedi iddo genedlu Sela dri chant a deg ar hugain o flyneddau, ac a genedlodd feibion a merched, ac a fu farw." Dyma y Cainan y cyhuddir yr efengylwr o'i oblegid. Y mae, fel y gwelwn, i mewn yn y cyfieithiad o'r Ysgrhythrau a arferid braidd yn gyffredinol gan yr Iuddewon eu hunain yn nyddiau Iesu Grist a'i apostolion; y cyfieithiad, fel y mae yn hawdd i ni weled, ond cymharu y dyfynodiadau o'r Hen Destament yn y Newydd a arferid yn gyffredin gan yr apostolion eu hunain; cyfieithiad a ddilynnir ganddynt hwy yn fynych hyd yn nod pan y mae yn amlwg yn amrywio oddiwrth yr Hebraeg, fel ag y mae yn y copïau sydd yn awr yn ein dwylaw ni; y cyfieithiad a wasanaethai i'r prif Gristionogion yn gyffredin, yn gystal ag i lawer o'r Iuddewon hefyd, y pryd hyny, fel unig gyfrwng cydnabyddiaeth â meddwl Duw, fel yr oedd wedi ei egluro yn yr Hen Destament; y cyfieithiad, yn wir, y cyfeirid ato yn arbenig iddynt hwy, fel yr Ysgrhythrau sanctaidd. Yn awr, heb i ni fyned oll i'r ddadl, pa un ai yn y cyfieithiad hwn ai yn y Beibl Hebrëig, fel y mae yn ein dwylaw ni, y ceir y cyfargraff goreu o'r darlleniad cyntaf, y mae, dybygem ni, yn y darlleniad ei hunan, fel y mae yn y Deg a Thriugain, amddiffyniad digonol i'r efengylwr yn wyneb y cyhuddiad o fod yn anghyson â'r Hen Destament. Nid oes genym un prawf fod Luc ei hunan yn gydnabyddus â'r Hebraeg. Dichon ei fod, ond nid oes genym ni brawf o hyny. O ran dim sydd yn ymddangos i ni, y mae yn ysgrifenu felly yn hollol gyson â'r Hen Destament, yn ol yr unig fantais oedd ganddo ef i ddyfod i gydnabyddiaeth â'i gynnwysiad. Yn wir, pe gadawsai y Cainan hwn allan, buasai yn ei oed ei hunan yn agored yn meddyliau y nifer fwyaf o'r rhai yr oedd yn ysgrifenu iddynt, ac yn ddidadl felly yn meddwl Theophilus, i'r cyhuddiad a roddir yn awr yn ei erbyn. Nid oedd ganddynt hwy, yn y cyffredin, yr un Hen Destament ond yn y cyfieithiad hwn; ac yn hwn yr oeddynt yn cael Arphaxad yn dad Cainan, a Cainan yn dad Sela, a phed ysgrifenasai Luc yn wahanol buasai yn eu dyrysu. Dyma y cyfieithiad a arferid gan yr Iudd-

ewon yn gyffredin. Darllenid ef ganddynt yn eu synagogau, yn mhob man lle yr oeddent ar wasgar, ac y mae yn dra thebygol yn Palestina ei hunan.<sup>1</sup> Ystyrid ef ganddynt, yn gyffredin, yn gyfuch mewn awdurdod a'r testun Hebrëig ei hunan. Oddiar hyny y cyfododd y chwedlau ymfyd oedd mor gyffredin yn eu plith am y modd y cynnyrchasid ef. Tua'r ail ganrif, yn eu dadleuon â'r Cristionogion, ac oblegid y dadleuon hyny, y dechreuodd yr Iuddewon ei gondemnio. Cawsant ef, meddant hwy, wrth ei gymharu â'r testun gwreiddiol, mor wallus fel na theilyngai ond ychydig neu ddim ymddiried. Ond fel arall yn hollol yr oedd cyn hyny. Y mae Josephus a Philo yn cyfeirio ato fel pe byddai yn ysbrydoledig. Y mae yn amlwg fod ysgrifenyddyr y Testament Newydd hefyd yn ei ddefnyddio yn llawer amlach nag y defnyddient yr Hebraeg gwreiddiol. Felly yn enwedig y gwna Luc. Y mae pob dyfyniad a roddir o'r Hen Destament, yn Actau yr Apostolion, wedi ei gymeryd o hono.<sup>2</sup> Nid oedd dim mwy naturiol felly nag i Luc ddodi Cainan i mewn yn yr achau hyn, yn gymaint a'i fod i mewn yn y cyfieithiad o'r Hen Destament a arferid ganddo, ac oedd gyffredin ymhlith y rhai yr ysgrifennai iddynt, ac nid oes eisieu amddiffyniad arall iddo. Y mae y darlennydd yn gweled ein bod yn dywedyd fel hyn ar y dybiaeth fod y testun Hebrëig, y pryd hyny, yr hyn ydyw yn awr; a bod darlenniad y Deg a Thriugain o *Gen xi. 12, 13*, y pryd hyny, fel y mae genym ni yn bresennol; a bod Luc ei hunan wedi doddi y Cainan hwn i mewn yn ei efengyl. Ond beth ydyw y gwirionedd gyda golwg ar y naill a'r llall o'r tybiau hyn sydd dra ansicr. Ar un llaw, y mae yn ymddangos yn dra annhebyg y buasai y Deg a Thriugain yn doddi i mewn, gyda y fath fanylrydd, yr adroddiad am y Cainan hwn, pe na buasai y testun Hebrëig, y cyfieithient hwy o hono, yn rhoddi sail iddynt i hyny; ac y mae yn anhawdd i ni ddychymygu am reswm digonol er cymbell neb i wneyd cyfnewidiad mor fawr ynddo ar ol hyny; tra, ar y llaw arall, y mae y gofal a ddangosir gan yr Iuddewon am eu hysgrythrau, yn gwneuthur yn dra annhebyg eu bod hwythau wedi gwneyd unrhyw gyfnewidiad ar y testun Hebrëig. Cyhuddid yr Iuddewon, gan rai o'r tadau, o fod yn euog o lygru y testun gwreiddiol; ac y mae yn rhaid cyfaddef fod y tuedd oedd ynddynt i ddwyn pob peth, hyd yn nod yn ngoruchwyliaethau rhagluniaeth, dan lywodraeth rhyw uffurfaeth oedd hoff ganddynt hwy, yn rhoddi lle braidd i un feddwl y gallasant adael allan un genedlaeth o'r achau rhwng Noa ac Abraham, er mwyn eu gwneuthur yn union ddeg cenedlaeth, er ateb i'r deg rhwng Adda a Noa. Ond, o'r tu arall, y mae absenoldeb y Cainan hwn o'r hen gyfieithiadau Caldäeg, Samariaeg, y *Vulgate* Lladin, a'r holl hen gyfieithiadau ond y Deg a Thriugain; —dystawrwydd hollol Josephus a Philo yn ei gylch, er eu bod yn gyffredin yn defnyddio y Deg a Thriugain; dystawrwydd hollol yr hen dadau Cristionogol cyntaf am dano, er eu bod yn cyfeirio at yr amgylchiadau hyn, megys, Theophilus o Antioch, Africanus, Irenæus, Epiphanius, Eusebius, a Jerome;<sup>3</sup> a bod y cyfysgrif Rhufeinig (*Vatican*) o'r Deg a Thriugain ei hunan yn ei adael allan o'r achau yn *1 Cron. i. 24*; y mae y pethau hyn

<sup>1</sup> "*De Wette's Introduction to the Old Testament.*" adran 43 a 88, cyf. i, tudal. 149—388. Ail argraffiad. Boston, 1850.

<sup>2</sup> "*Davidson's Introduction to the New Testament.*" cyf. ii, tudal. 64.

<sup>3</sup> "*Bochart's Geographia Sacra.*" llyfr iii, pen. 12, cyf. iii, col. 91. *Editio Lugd. Batav.* 1692.

yn rhoddille i ni ammheu a ydoedd yn wreiddiol yn perthynu i destun y Deg a Thriugain, ac ai nid yw yn peidio a bod yn ychwanegiad rhyw adysgrifenydd neu adysgrifenydd diweddarach, er mwyn rhyw amcan nas gallwn ni yn awr roddi dim cyfrif am dano; a bod testun yr efengylwr wedi cael ei gyfnewid, yn y canlyniad, er mwyn ei gydweddu âg ef. Yr ydym ni yn gadael y pwnc i'n darllenwyr, fel y mae yn ein meddwl ein hunain, yn hollol anhenderfynol. Ond pa olygiad bynag a gymerer arno y mae ein hefengylwr yn hollol rydd yn ngwyneb y cyhuddiad o fod yn anghyson â'r Hen Destament. Os ydyw testun y Deg a Thriugain yn ei burdeb genym, rhaid i ni ei olygu fel yn cynnwys yr hyn a ystyrir yn nyddiau Luc, gan Luddewon a Christionogion, yn gyfargraff cywir o'r testun gwreiddiol, ac a dderbynid gyda'r un awdurdod ag yntau. Ond os ydyw wedi ei newid er y pryd hwnw, fel ag i fod, megys ag y mae yn ein dwylaw ni, mewn cyflwr dirywiedig ac anmhur, y mae yn amlwg y *gallasai* y rhai euog o newid y naill newid y llall hefyd, er ei ddwyn i gyfateb iddo. A dyna ddigon er amddiffyn yr efengylwr. Pa du bynag i'r dybiaeth a gymerer, y mae y cyhuddiad i'w erbyn yn syrthio i'r llawr.

Fel hyn yr ydym, dybygem ni, wedi profi, ar dir teg, nad oes dim grym yn yr wrthddadl a ddygir yn erbyn yr efengylwyr, eu bod, yn yr olrheiniad a wneir ganddynt ar achau Iesu Grist, yn anghyson â'r Hen Destament, ac y gallwn fod yn hollol hyderus, o ran dim sydd yma i'r gwrthwyneb, mai yr un a'r unrhyw Ysbryd oedd yn eu cynhyrfu ac yn eu cyfarwyddo hwynt, ag a gyfarwyddai "ddynion sanctaidd Duw" trwy y rhai y rhoddasid y gyfran flaenorol o'r dadguddiad dwyfol.

Ond yr hyn sydd bob amser wedi cael ei ystyried yn cyfansoddi y prif anhawser yn yr achau hyn, ac yr ymorfoleddir ynddo, fel y cyfryw, gan anffyddiaid, ydyw yr hyn a haerir ganddynt hwy, yn anghysondeb hollol rhwng yr efengylwr a'u gilydd ynddynt. Y mae y ddau yn rhoddi i ni achau Joseph, ond yn eu rhoddi yn gwbl wahanol. Ei dad, yn ol Matthew, ydoedd Jacob; ond, yn ol Luc, mab Eli ydoedd. Felly y maent yn amrywio hyd Dafydd, i'r hwn y mae y ddau yn olrhain ei achau, un trwy Solomon a'r llall trwy Nathan.

Yn awr, y mae yn rhaid i ni gyfaddef fod y gwahaniaeth yma yn fawr ac yn amlwg. Ar yr olwg gyntaf, yn wir, y mae yn ymddangos yn gyfryw ag i beri i ni braidd ammheu fod modd i'w cysoni. Yr un pryd, y mae hyd yn nod maint ac amlygrwydd y gwahaniaeth, pan ystyrir cymeriad yr ysgrifenydd, yn annibynol ar eu hysbrydoliaeth ddwyfol, yn rhoddi rhyw sail i ni ragdybied fod rhyw egwyddor yn bod, ond i ni allu cael gafael arni, hollol foddlonol er egluro eu cysondeb. Yn ganlynol, yr ydym yn cael fod ysgrifenydd Cristionogol, er yr oesoedd boreuaf, mewn ffydd hollol yn eu cysondeb er yr holl anghydweddiad ymddangosiadol, wedi bod yn ddyfal yn yr ymchwil am yr egwyddor a wnelai, o'i chymhwyso, y cysondeb yn gwbl amlwg. Ac, yn ol ein meddwl ni, y mae hõno wedi ei chael. Ond cyn i ni gyflwyno hõno i'n darllenwyr, hwyrach y dylem gyfeirio at rai golygiadau eraill sydd yn ymddangos i rai yn cyfarfod yr wrthddadl yn well na'r un a gymeradwyir genym ni.

Y cyntaf sydd yn ein cyfarfod yn hanes yr ymohwil hwn ydyw yr eiddo Africanus, yr hwn a roddir i ni gan Eusebius, yn ei "Hanesiaeth Eglwysig." Yn ol hwn, y mae y ddau efengylwr yn rhoddi i ni achau Joseph, ond bod

<sup>1</sup> Llyfr i, pen. vii, tudal. 53—57. Llundain, 1842.

Matthew yn rhoddi i ni ei achau naturiol, a Luc yn rhoddi i ni ei achau cyfreithiol. Yr oedd deddf yn Israel yn rhwymo y brawd i briodi gweddw ei frawd a fuasai farw yn ddiblant, er cyfodi had iddo. Yr oedd hon yn hen ddeddf, cyn dyddiau Moses, fel y mae yn eglur wrth hanes meibion Juda. Yn wir, y mae yn ymddangos i Moses larieiddio llawer arni, fel ag i wneyd yn bosibl i'r sawl a ewyllysiai, ei hysgŷi, ond iddo ymostwng i'r gwarth a ddilynai hyny. Ac y mae yn hawdd gweled, wrth hanes cyfathrachwr nesaf Ruth, nad oedd y gwarth hwnw bob amser yn cael ei deimlo yn gyfryw ag nad anturiai dynion fyned tano, yn hytrach na chydffurfio â'r gyfraith. Pa fodd bynag dyna y ddeddf. Yn awr, yn ol y ddeddf hon yr eglurir cysondeb yr efengylwyr, yn ol y golygiad sydd dan ein sylw yn bresennol. Y dybiaeth ydyw fod Jacob ac Eli yn frodyr; i Eli farw yn ddiblant; i Jacob briodi ei weddw ef, er cyfodi had i'w frawd; ac i Joseph gael ei eni yn ffrwyth y briodas hon; fel ag yr ydoedd i Joseph, ar ryw ystyr, yn ol y ddeddf Iuddewig, ddau dad; yr ydoedd yn fab naturiol Jacob, ond yn fab cyfreithiol Eli. Yn awr, y mae Matthew yn olrhain ei achau yn y llinell naturiol, a Luc yn y llinell gyfreithiol, a dyna y rheswm am y gwahaniaeth rhyngddynt. Ond fe welir ar unwaith, nad ydyw hyn yn ddigon i gyfarfod yr anhawsderau. Oblegid, er y gallasai fod, fel hyn, i Joseph ddau dad, eto, yn gymaint a bod y tadau hyn yn frodyr, nas gallasai fod iddo ond un taid, ar eu tu hwy, ac felly y buasai raid i'r tafeni gytuno oddi yno i fyny. Rhaid cael rhywbeth arall ynte, er rhoddi cyfrif am y ddwy linell. Y mae y golygiad y mae a wnelom yn awr âg ef yn gwneyd hyny trwy dybied ymhellach, nad oedd Jacob ac Eli ond hanner brodyr, plant yr un fam, ond nid plant yr un tad. Darfu i Matthan a Melchi,<sup>1</sup> medd Africanus, briodi yr un wraig. Enw y wraig hon, yn ol y traddodiad a ddaethai i lawr i ddyddiau Africanus, oedd Estha. Ganwyd i Matthan, yr hwn oedd o linell Solomon, o'r wraig hon fab, sef Jacob. Wedi marw Matthan, priodwyd ei weddw ef, Estha, gan Melchi, un o'r un llwyth a Matthan, ac o deulu Dafydd fel yntau, ond yn perthyn i gangen arall o hono, sef i Nathan. Ganwyd iddo yntau, eto, fab o Estha, sef Eli. Yr oedd Jacob ac Eli felly yn frodyr o du eu mam, ac ill dau yn disgyn o Dafydd, ond trwy linellau gwahanol; Jacob trwy Solomon, ac Eli trwy Nathan. Ac y mae y ddau hyn eto, fel y gwelsom, yn priodi yn olynol yr un wraig, ffrwyth priodas yr hon â Jacob oedd Joseph, "gwr Mair, o'r hon y ganed Iesu, yr hwn a elwir Crist." Y mae Africanus yn cyflwyno yr eglurhad hwn i ni, fel un a ddaethai iddo ef oddiwrth berthynasau ein Harglwydd.

Y mae y golygiad hwn yn haeddu parch oblegid ei henaint. Heb roddi dim coel i Africanus ei fod wedi ei gael oddiwrth berthynasau ein Hiachawdwr, yr oedd efe ei hunan yn ysgrifenu yn foreu yn y drydedd ganrif, pryd nad oedd yspaid mawr wedi myned heibio er pan oedd rhai yn fyw, oeddent wedi gweled a chymdeithasu â rhai a welsent yr apostolion. Dyma yr eglurhad a dderbyniwyd am oesoedd gan Gristionogion ar y gwahaniaeth hwn. Y mae lliaws mawr yn gorphwys ynddo eto fel yr atebiad goreu i'r wrthddadl yn erbyn yr efengylwyr. Y mae agweddiad arall ar y golygiad, sydd yn terfynu braidd yn yr un peth; fod Luc yn rhoddi yr aohau naturiol, a Matthew y rhai cyfreithiol, ond fod y ddau yn rhoddi

<sup>1</sup> Y mae Melchi, fe wel y darlennydd, yn hen daid i Eli, yn ol ein testun presennol ni yn Luc; ond fel yr oedd Africanus yn darllen, gan adael allan Matthat a Lefi, tad ydoedd iddo.

achau Joseph. Dyna olygiad Grotius, a Hammond, ac eraill; ac yn eu plith, Dr. Isaac Da Costa, Iuddew Cristionogol, o Amsterdam, awdur un o'r llyfrau galluocaf a ddaeth i'n dwylaw ni, yn ddiweddar, ar wirionedd a chysondeb yr efengylau. Y mae yn dadleu yn egniol drosto fel yr unig eglurhad boddlonol ar y gwahaniaeth hwn rhwng yr efengylwyr.<sup>1</sup>

Ond er fod y golygiad hwn yn cyfarfod yr wrthddadl yn hollol ar y dybiaeth fod y ddau efengylwr yn rhoddi i ni achau Joseph, ac yn hyny yr haerir eu bod yn gwrthddywedyd eu gilydd, ac felly yn ddigon i ateb anffyddiaid, eto y mae yn ymddangos i ni yn agored i rai gwrthddadleuon pwysig fel eglurhad boddlonol ar yr anhawsder. Yn un peth, nid oes genym sicrwydd digonol am rwymau hanner brodyr, o du y fam, i briodi gweddw y brawd, er cyfodi hâd iddo. Yn ol llythren y ddeddf, nid oedd rhwymau ond ar y brawd a gyd-drigai â'i frawd a fuasai farw i briodi ei weddw ef; ac er fod yn gyfreithlawn, a bod yn debygol, oddiwrth hanes Ruth, fod rhyw fath o rwymau ar berthynas pellach i wneuthur rhan cyf-athrachwr â'r marw, eto nid oes genym sicrwydd hollol am hyny. Y mae posiblwrwydd a chyfreithlondeb y peth, pa fodd bynag, cofer, yn ddigon i ateb yr wrthddadl yn erbyn yr efengylwyr. Ond y mae yn ammhêus drachefn a fuasai unrhyw grybwylliad am achau naturiol Joseph oll pe buasai yn blentyn a gyfodasid gan ei dad i'w frawd. Y mae yn ymddangos i ni yn dra thebyg y buasai yr achau naturiol yn cael eu colli yn hollol yn y rhai cyfreithiol. Yn ol yr hen ddeddf, yn nyddiau y patriarchiaid, y mae yn eglur mai felly y buasai. Y mae yn wir fod Obed, yn yr achau, yn cael ei alw yn fab Boaz, ac nid yn fab Mahlon. Ond yr oedd neillduolrwydd yn amgylchiad priodas Boaz a Ruth nas gellir dadleu oddiwrtho mewn amgylchiadau cyffredin. Neu, os dadleuir, y mae yn myned yn llawn cymaint yn erbyn y golygiad hwn; oblegid nid oes yno un crybwylliad am yr achau cyfreithiol. Dybygid fod Schleiermacher yn canfod yr wrthddadl hon yn erbyn y golygiad hwn; canys, er sefyll drosto, fel yr eglurhad goreu ar gysondeb y ddau efengylwr, y mae yn golygu, ymbellach, mai achau brawd ieuangach i Joseph a roddir gan Luc, wedi dyfod i'w law o ryw le neu gilydd, ac wedi ei ddodi i mewn ganddo mewn camgymeriad am achau Joseph ei hunan!<sup>2</sup> Cymerer y dybiaeth fod Matthew yn rhoddi i ni yr achau cyfreithiol, a Luc yr achau naturiol, ac y mae y syniad hwn o eiddo Schleiermacher i ryw raddau yn atebiad i'n gwrthddadl bresennol yn erbyn y golygiad sydd yn awr dan ein sylw, er fod yn resynus genym weled un y mae genym y fath barch iddo, ar lawer o gyfrifon, mor barod i briodoli y fath ddyluni i'r efengylwr.

Ond yr hyn sydd yn ymddangos i ni bwysicaf yn erbyn y golygiad hwn, ydyw, ei fod yn arddangos y ddau efengylwr yn rhoddi i ni achau Joseph, ac felly yn ein gadael heb un prawf fod Iesu Grist mewn gwirionedd o hâd Dafydd o ran y cnawd. Y mae yn amlwg fod y prophwydoliaethau yn cyfeirio y bendant at y Messia fel y cyfryw:—"O firwyth dy gorff y gosodaf ar dy orseddfainc;" "gwialen o gyff Jesse, blaguryn o'i wraidd ef;" "cyfodaf i Dafydd flaguryn cyfiawn," &c. Y mae mor amlwg fod Crist yn cael ei osod allan felly yn mhob man yn y Testament Newydd; "Iesu mab Dafydd," "Cofia gyfodi Iesu Grist o hâd Dafydd," &c. Ond y mae yn eglur nad oedd un berthynas naturiol rhwng Joseph a Christ;

<sup>1</sup> "The Four Witnesses." tudal. 471—480. Llundain, 1851.

<sup>2</sup> "A Critical Essay on the Gospel of St. Luke:" tudal. 57. Llundain, 1825.

fe'i oenedlwyd ef o'r Ysbyrd Glân. Os achau Joseph, gan hyny, a roddir i ni gan y ddau efengylwr, y mae achau Iesu Grist heb eu holrhain oll, ac nid oes genym un prawf uniongyrchol yn yr efengylau ei fod wedi disgyn oddiwrth Dafydd. Y mae rhai yn cyfarfod yr wrthddadl hon, trwy ddywedyd fod yr Israellaïd yn rhwym o briodi yn eu llwythau a'u teuluoedd eu hunain, ac felly bod achau Joseph yn dangos achau Mair. Ond y mae y dyb yna yn gyfeiliornus hollol. Nid oes dim amlycach na bod y llwythau yn ymgymysgu yn eu priodasau, megys y cawn Dafydd ei hunan yn priodi Michal, merch Saul, o lwyth Benjamin. Gyda golwg ar etifeddesau, yr oedd deddf i'w gwahardd hwy i briodi o'u llwyth eu hunain, rhag ymado o'r etifeddiaeth â'r llwyth. Ond nid oes genym un sicrwydd fod Mair yn etifeddes, er nas gallwn brofi nad ydoedd; ac er, yn wir, fod ei thaith i Bethlehem i'w threthu braidd yn arwyddo ei bod. Mae Dr. Da Costa yn caniatâu nad oes un prawf fod Mair o dylwyth Dafydd; yn dadleu yn wir, nad ydoedd; ac nad oedd anghenrheidrwydd am iddi fod, er cyflawni yn hollol addewid Duw am gyfodi y Messia o lwynau Dafydd. Y mae yn seilio ei ddatl ar y syniad Iuddewig, fod y wraig yn hollol yn eiddo i'r gwr, a'r plentyn a enid o honi, yn yspaid eu cyfammod â'u gilydd, yn wirioneddol yn eiddo iddo ef, a thrywyddo ef, o'r llwyth a'r teulu y perthynai efe iddo. Iuddew ydyw Da Costa, a hwyrach ei fod yn teimlo mwy o rym yn y ddatl oblegid hyny, nag a allwn ni deimlo. Ond er ein bod yn ei gwel-ed yn ddigon i gyfarfod gwrthddadl yr Iuddewon yn erbyn yr efengylwyr, ac yn dra phrydfferth a grymus fel amddiffyniad i Matthew, yr hwn ydoedd Iuddew, ac yn ysgrifenu ar y cyntaf yn benaf er mwyn yr Iuddewon, yn ei olrheiniad o achau Iesu Grist trwy Joseph, er nad oedd un wir berthynas naturiol rhyngddo ag ef; eto, y mae yn amlwg i ni, fod prophwydoliaethau yr Hen Destament, a thystiolaethau y Testament Newydd, yn cyfeirio at rywbeth mwy cydweddol â syniadau cyffredinol dynolryw gyda golwg ar berthynasau, ac yn galw, gan hyny, am ystyr arall. Ar y cyfan, er ein bod yn ystyried y golygiad hwn yn bosibl, ac felly yn ddigon i gyfarfod gwrthddadl anfyddiaeth, eto, y mae yr anhawsderau a berthynant iddo yn gyfryw ag i beri i ni ddymuno eglurhad mwy boddlonol.

Oddiar yr un teimlad y mae eraill yn golygu Joseph yn fab naturiol Jacob, ac wedi cael ei fabwysiadu gan Eli, a bod Matthew yn rhoddi i ni ei achau naturiol fel mab Jacob, a Luc ei achau cyfreithiol fel mab Eli. Mae yn amlwg wrth y cyfeiriad ato yn y Testament Newydd, fod mabwysiad yn adnabyddus ac yn arferedig ymhlith yr Iuddewon, ac y gallai Joseph felly fod wedi ei fabwysiadu gan Eli. Mae y golygiad hwn eto, gan hyny, yn bosibl, ac felly yn ddigon cryf i gyfarfod yr wrthddadl. Y mae hefyd yn llawer llai troellog a dyrus na'r golygiad blaenorol. Ond y mae, fel hwnnw, yn cymeryd yn ganiataol mai achau Joseph a roddir i ni gan y ddau efengylwr, ac felly yn ein gadael heb achau naturiol gwirioneddol Iesu Grist, ac yn ganlynol, heb prawf uniongyrchol o'i fod o dŷ a thylwyth Dafydd, nac o lwyth Juda. Heblaw hyny, pe buasai wedi ei fabwysiadu gan Eli, prin y gallasem ddysgwyl un cyfeiriad at ei achau naturiol. Yr oedd y mabwysiedig, yn ol y gyfraith, yn colli pob perthynas gyfreithiol â'i rieni naturiol, ac yn dyfod yn hollol yn eiddo y sawl a'i mabwysiadai. Ac eto, yma, yr ydym yn cael yr efengylwr y dysgwylasid iddo, oddiwrth y safle a gymerai fel hanesydd, fod yn fwyaf manwl ynghylch yr hyn oedd gyfreithiol, yn hollol ddystaw yn eu cylch ac yn rhoddi i ni, y mae yn amlwg, ei achau naturiol.

Ond y golygiad sydd yn ymddangos i ni fel y mwyaŷ tebygol ydyw, fod y naill efengylwr yn rhoddi i ni achau Joseph a'r llall yn rhoddi i ni achau Mair. Y mae y golygiad hwn yn un tra naturiol, ac yn cyfarfod yr anhawser yn hollol. Nis gall fod un amheuaeth nad achau Joseph a roddir i ni gan Matthew. Y mae ei eiriau mor bendant ag y gallent fod i'r perwyl hwnw; "A Jacob a genedlodd Joseph, gŵr Mair, o'r hon y ganed Iesu, yr hwn a elwir Crist" (*Mat. i. 16*). Y mae y ddadl, gan hyny, yn troi yn hollol ar achau pwy a roddir i ni gan Luc; hyny ydyw, pa fodd y mae yn olrhain achau Crist. Cyn i ni ddyfod at y prawf uniongyrchol, oddiwrth y geiriau eu hunain, mai achau Mair a roddir i ni ganddo, ni a ddy-munem i'r darlennydd sylwi ar yr ystyriaethau canlynol.

1. Y mae yn ymddangos, ymlaen llaw, yn dra annhebyg, ar y dybiaeth fod yr hanes a roddir i ni am genedliad goruwchnaturiol Iesu Grist yn wirionedd, ac yn ngwyneb y pwys a roddir yn yr Ysgrhythrau ar ei ddisgyniad o Dafydd, fod yr hyn sydd yn llai pwysig, disgyniad Joseph o Dafydd, yn cael ei *ddyblu*, a'r hyn sydd mewn rhyw ystyr yn hanfodol i'r prawf o'i Fessiaeth ef, ei ddisgyniad ef ei hunan o Dafydd, yn cael ei *ceguluso yn hollol*. Nid oedd un berthynas naturiol uniongyrchol rhyng-ddo a Joseph. Yn gymaint a'i fod wedi ei genedlu a'i eni o fewn cylch y cyfammod priodasol, er nad trwy rinwedd cymundeb ystlennaidd, ac iddo gael ei gydnabod gan wr ei fam fel mab iddo ei hunan, yr oedd yn gyfreithlawn yn meddiannu hawl y cyntafanedig o'r oll a berthynai i'w dad cyfrifol, ac felly i orsedd ddaearol Dafydd ei dad, pe buasai y freniniaeth eto yn Israel. Ond nid oedd hyny yn newid dim ar hanfod yr hyn oedd lythyrenol, a gwirioneddol, a naturiol. Plentyn Mair yn unig ydoedd o ran ei ddynoliaeth, er ei fod yn gyfreithiol yn blentyn Joseph: ac onid oedd Mair, yn bersonol, o dŷ a thylwyth Dafydd, dybygem ni ein bod yn colli un prawf hanfodol mai efe ydyw y Messia. Yn awr, buasai peidio olrhain ei hachau hi unwaith, er prawf ei bod wedi disgyn oddiwrth Dafydd, ac olrhain achau Joseph ddwy waith, er profi ei fod ef, yn ymddangos i ni yn gwbl anghydweddol âg amcan olrheinad yr achau oll.

2. Y mae y safle a gymerir gan Luc fel hanesydd, a chymeriad cyffredin ei efengyl, yn ein harwain yn naturiol i gasglu, os olrheinid achau Crist ganddo ef oll, y gwneid hyny yn y drefn naturiol, yn gwbl annibynol ar bob syniad Iuddewig, ac yn gydweddol â'r adroddiad a roddir i ni ganddo am ffurfiad ei ddynoliaeth ef. Yr oedd Iesu Grist yn fab cyfreithiol i Joseph, ac yn fab naturiol i Mair. Yn awr, ar y dybiaeth fod Mair o dŷ a thylwyth Dafydd, yr oedd Iesu Grist nid yn unig yn ol y gyfraith trwy Joseph, ond hefyd, yn naturiol, trwy ei fam, o had Dafydd. Yr oedd dau lwybr felly i olrhain ei achau ef at Dafydd y gallasai yr efengylwr gymeryd eu dewis o honynt. A'n gosodiad ni ydyw, fod cymeriad cyffredin Luc fel hanesydd, a nodwedd ei holl efengyl, yn ein harwain i ragdybied y cymerai efe y drefn naturiol i'w holrhain. Y mae yn hawdd i bob darlennydd a graffo ond ychydig ar ei efengyl weled mai fel cenedl-ddyn yr ysgrifennai, ac er mwyn y cenedloedd. Y mae yn cyflwyno ei efengyl, dybygid, i un o'r cenedloedd. Y mae ei nodiadau, gan mwyaŷ, yn gyfryw ag a fuasant yn hollol afreidiol i Iuddewon. Felly y mae ei nodiadau daearyddol; megys, "dinas yn Galilea a'i henw Nazareth" (i. 26); "Capernaum, dinas yn Galilea" (iv. 31); "gwlad y Gadareniaid, yr hon sydd o'r tu arall ar gyfer Galilea" (viii. 26); "Arimathea, dinas yr Iuddewon" (xxii. 51);



“tref a'i henw Emmäus, yr hon oedd ynghylch triugain ystâd oddiwrth Jerusalem” (xxiv. 13). Y mae y cenedl-ddyn yn dyfod i'r golwg yn amlwg yn y gofala gymerir ganddo i ddodi i mewn yn yr hanes pa beth bynag a ddywedasiad am Grist neu ganddo oedd bleidiol i'r cenedloedd; megys tystiolaeth Simeon am dano fel “goleuni i oleuo y cenedloedd” (ii. 32); cyfeiriad Crist at wraig weddw Sarepta yn Sidon, ac at Naaman y Syriaid (iv. 25, 27), ac at y Samariad trugarog (x. 30—37), a'r Samariad diolchgar (xvii. 16). Efe hefyd sydd yn rhoddi i ni hanes y cerydd a roddodd Crist i'w ddysgybllion, Iago ac Ioan, oblegid eu hysbryd dialgar ar y Samariaid (ix. 52—55). Am yr un rheswm y mae yn gadael allan bob peth a ddywedasiad gan Grist y galleid ei esbonio yn dramgwyddus i'r cenedloedd: megys y gwaharddiad a goffëir gan Matthew (x. 5), “Nac ewch i ffordd y cenedloedd, ac i ddinas y Samariaid nac ewch i mewn.” Y mae yn cyfamseru y dygwyddiadau a goffëir ganddo âg amgylchiadau cenedlig: megys, genedigaeth Crist â'r gorchymyn oddiwrth Augustus Cesar, &c. Y mae holl wedd ei efengyl yn dangos yn amlwg ei bod wedi ei briaru yn benaf i'r cenedloedd. Hyd yn nod yn y dasfen hon, sydd yn awr dan ein sylw, y mae yn olrhain achau Crist, nid fel Matthew hyd at Abraham, tad yr Iuddewon fel cenedl, ond at Adda, tad holl ddynolryw. Nid oedd dim Iuddewig yn ei efengyl. Y mae yn amlwg wedi ei chyfansoddi oddiar safle gwahanol, ac wedi ei hamcanu, nid i genedl unigol, ond i'r byd yn gyffredinol. Yn awr y mae yn ymddangos i ni braidd yn benderfynol, yn annibynol ar bob prawf, na buasai i hanesydd o'r nodwedd hwn, pan yn olrhain achau y Gwardedwr, byth eu holrhain, yn ol unrhyw syniad Iuddewig, trwy Joseph, rhwng yr hwn, yn ol ei adroddiad ef ei hunan, nid oedd un berthynas âg ef, amgen nag a gyfodai oddiwrth ei briodas â'i fam ef, gan esgeuluso achau y fam ei hunan, trwy yr hon, yn unig, yr oedd yn dal perthynas oll â dynolryw.

Y mae yr ystyriaethau hyn yn parotâi ein meddyliau ni yn hollol i ymrithod â'r golygiad fod y ddau efengylwr yn rhoddi i ni achau Joseph, ac i gofleidio y dyb, os goddef y geiriau hyny, mai achau Mair a roddir i ni gan Luc. Ac erbyn i ni ddyfod at y geiriau eu hunain, y mae yn ymddangos i ni eu bod, nid yn unig yn caniatâu y golygiad hwn, ond nad oes yr un arall yn ateb yn gyflawn i'w hystyr.

Gadewch i ni yn gyntaf gymeryd y geiriau yn Luc fel y maent yn y testun cyffredin ac yn ein cyfieithiad ni: “A'r Iesu ei hun oedd ynghylch dechreu ei ddeng mlwydd ar hugain oed, mab (fel y tybid) i Joseph, fab Eli, &c. (iii. 2, 3). Y mae yn amlwg nad oes dim yn y geiriau, a'u cymeryd yn ol y gwahannodiad hwn, i dafu ammheuaeth ar yr adroddiad blaenorol, gan yr un efengylwr, am genedliad goruwchnaturiol ein Gwardedwr. Y mae y geiriau sydd rhwng cromfachau yn cau pob tybiaeth felly allan. Y mae yr efengylwr am i ni ddeall nad ydoedd yn fab Joseph mewn gwirionedd. Mab, fel y tybid, fel y golygid, yn ol siarad a barn y cymydogion yn gyffredin, i Joseph. Yn awr, a ydyw yn ymddangos yn debyg y buasai yr efengylwr, wedi cymeryd gofala i ddangos fel hyn nad oedd y golygiad am dano fel mab Joseph ond tyb anghywir, yn cymeryd y drafferth i olrhain achau y tad tybiedig hwn, er mwyn rhoddi i ni achau Iesu Grist? Y mae y syniad, dybygem ni, braidd yn ymylu ar sarhad arno fel hanesydd. A phe byddai raid i ni ganiatâu yr hyn, fel y cawn brofi rhagllaw, nad rhaid i ni, ac sydd syniad cyfeiliornus, fod y gair

*mab* fel y mae yn cael ei ddefnyddio yma o Joseph i fyny yn cysylltu y personau agosaf at eu gilydd megys Joseph ac Eli, Eli a Matthat, &c., nid ydym o anghenrheidrwydd yn cael ein rhwymo i'w ddeall, yn ei berthynas â Joseph, yn ei ystyr lythyrenol, am fab naturiol; ond *gall* ei fod, yn ei gysylltiad âg ef, yn arwyddo mab yn nghyfraith, mab trwy briodas. Y mae hyny, yr ydym yn addef, yn ymadawiad âg ystyr gyffredin y gair yn y dafsen; ond rhaid addef, o'r tu arall, ei fod (ar y dybiaeth a wnaethom yn awr, cofser) yn cael ei ddefnyddio, unwaith, hyd yn nod yn y rhestr hon allan o'i ystyr gyffredin. Y mae yn amlwg nad oedd Adda yn fab Duw yn yr un ystyr ag yr oedd Seth yn fab iddo ef; ac eto y mae yr un gair yn cael ei arfer er dynodi y berthynas a hanfodai rhyngddynt. Y mae yn wir fod natur yr amgylchiad yn penderfynu nad ydyw i'w ddeall yn ei gysylltiad âg Adda yn ei ystyr gyffredin: ond y mae defnyddiad y gair, er yr amgylchiad, yn ddigon i brofi nad ydyw y gair, ynddo ei hunan, yn ein rhwymo, o anghenrheidrwydd, i'w ddeall, yn ei gysylltiad â Joseph, am fab naturiol. Ac nid ydym heb rai esiamplau ysgrythyrol o'r mab yn nghyfraith yn syrthio i deulu ei wraig, ac yn cael ei gyfrif yn ei achau ymhlith ei theulu hi. Ni gawn ddwy anghraifft felly yn yr un bennod: 1 *Cron.* ii. 21—24, 34—36. Yma ni a gawn hanes Hesron, o lwyth Juda, yn priodi Abia, merch Machir, o lwyth Manasse. O honi fe anwyd iddo fab a elwid Segub. I'r Segub hwn, drachefn, fe anwyd mab a elwid Jair. Yn awr, y mae y *Jair* hwn, er ei fod o lwyth Juda o du ei dad, eto yn cael ei gyfrif yn *Nwm.* xxii. 41, ac yn 1 *Bren.* iv. 13, yn fab i Manasse; hyny ydyw, y mae yn cael cyfrif ei achau o du ei fam, ac nid o du ei dad. Ni a gawn yn y bennod hon eto hanes un Sesan, yr hwn nid oedd iddo feibion, ond merched. Rhoddodd un o'i ferched yn wraig i Aiphtwr, o'r enw Jarha, oedd yn was iddo. O hon fe anwyd iddo fab o'r enw Attai. Ac iddo yntau fe anwyd mab o'r enw Nathan, &c., ac y mae yr holl hiliogaeth yn cael eu cyfrif, y mae yn amlwg, yn llin Sesan, hyny ydyw, trwy y fam; neu, mewn geiriau eraill, y mae y gwr yn colli ei achau ei hunan yn achau y wraig. Yn awr, a bwrw fod Joseph yn cael ei olygu yma yn fab Eli, fe allasai yn hawdd gael ei gyfrif yr un modd. Wedi priodi o hono â Mair, merch Eli, gallai fod ei achau ef ei hunan yn cael eu doddi o'r neilldu, neu eu hesgeuluso, a'i fod yn cael ei gyfrif, oblegid yr arbenigrwydd a roddasid ar ei wraig fel mam i'r Messia, fel yn perthynu i'w theulu hi. Nid oes dim felly yn y geiriau, hyd yn nod fel y maent yn ymddangos yn ein testun a'n cyfleithiad presennol, yn anghydweddol â'r dyb mai tad Mair, mewn gwirionedd, oedd Eli, ac nid tad Joseph.

Ond nid ar hyn yn unig, nac ar hyn yn benaf, nac, yn wir, ar hyn oll, yr ydym ni yn gorphwys yn y penderfyniad hwn. Fe wel y darllenydd Cymreig fod y gair *mab* yn yr holl adnodau yn *Lue* iii, ar ol y tro cyntaf, yn *adn.* 23, mewn llythyrenau Italaidd, i arwyddo ei fod wedi cael ei ddodi i mewn gan y cyfleithwyr er cwbleiddio yr ystyr. Yn y testun gwreiddiol nid ydyw y gair *mab* i mewn. Nid oes ond yr enwau, a'r fannod yn eu blaenori, a'r cyfan mewn ffurf sydd yn dangos, ar unwaith, eu bod yn dibynu ar ryw air neu eiriau blaenorol. Nid ydym yn gallu cofio, yn bresennol, am ddim hollol debyg i hyn yn ein iaith ni. Ond hwyrach y gallai y Cymro uniaith weled rhywbeth o hono yn ei iaith ei hunan, yn yr anghenrheidrwydd sydd arno, os llefara yn briodol, pan yn cysylltu lliaws o ansoddeiriau â'r un sylweddair, er dynodi ystlen ieithyddol y sylweddair, i

gyfnewid cydsain wreiddiol yr ansoddeiriau, os byddant yn dechreu âg un o'r cydseiniaid cyfnewidiol, i'r sain ysgafn; megys, careg galed, drom, lefn, *addu*, *dlws*, &c. Yma fe welir fod *ffurf* y geiriau *caled*, &c., yn dibynu ar y gair *careg*. Felly, yn yr iaith Roeg, er gosod allan berthynas y naill wrthddrych â'r llall, fe wneir ychydig gyfnewidiad ar derfyn y gair fyddo yn dynodi enw y tad, yn gystal ag ar y fannod gysylltiedig âg ef. Yn awr, y mae yn rhaid fod yr holl enwau hyn yn y cyflwr y cyfeiriwn ato, neu yn cymeryd y ffurf neillduol sydd arnynt yma, oblegid eu dibyniad ar ryw air—a'r gair hwnw, y mae yn amlwg, ydyw y gair *mab* yn y drydedd adnod ar hugain, a'r gair hwnw, neu y gwrthddrych a ddynodir trwyddo, sydd i'w ystyried yn y berthynas â'r personau, y mae eu henwau yn y cyflwr a lywodraethir ganddo, hyd ddiwedd y rhestr. Felly, nid Joseph sydd yma yn fab Eli; ac Eli yn fab Matthat; a Matthat yn fab Lefi; &c., ond Iesu yn fab (fel y tybid i Joseph) [gan roddi cymaint a hyna rhwng cromfachau], Iesu, mab Eli; Iesu, mab Matthat; Iesu, mab Dafydd; Iesu, mab Abraham; Iesu, mab Adda; Iesu, mab Duw. Iesu ydyw y rhagflaenor i'r diwedd. Yr un modd ag y cawn olrheiniad achau Aholibama, un o wragedd Esau, mab hynaf Isaac. Esau a gymerth ei wragedd o ferched Canaan; Ada, merch Elam yr Hethiad: ac Aholibama, merch Ana, merch Sibeon yr Hefiad." (*Gen. xxxvi. 2.*) Yn awr, fe allasid meddwl ar yr olwg gyntaf, mai benyw oedd Ana, mam Aholibama, a merch i Sibeon yr Hefiad. Ond erbyn i ni edrych i *adn. 24, 25*, ni a welwn mai tad Aholibama ydoedd; "A dyma feibion Sibeon; Aia, ac Ana: hwn yw Ana a gafodd y mulod yn yr anialwch wrth borthi asynod Sibeon ei dad. A dyma feibion Ana; Dison, ac Aholibama merch Ana." Ac felly, dybygem ni, y mae i ni ddeall yr holl achau a olrheindir tua'u gwreiddyn yn yr Hen Destament. Y mae y gair *mab*, os bydd yn cael ei ddodi i mewn, i'w ddeall mewn cysylltiad â'r cyntaf, ac yn arddangos perthynas, nid y rhai agosaf at eu gilydd yn y daflen, ond y person yr olrheindir ei achau, â'r holl rai a nodir o'i mewn. Felly yr ydym ni yn deall y daflen o'i achau a roddir i ni gan Ezra, (*vii. 1—5*). Ei amcan ef yn y daflen hon ydyw, nid cysylltu y personau agosaf at eu gilydd ynddi, fel mab a thad, ond ei gysylltu ei hunan â hwynt oll, fel mab iddynt, nes, o'r diwedd, y mae yn "fab Aaron yr offeiriad penaf." Ac felly, y mae yn eglur i ni, y gwneir gan Luc yn y daflen hon o achau ein Gwardwr. Fe ymddengys hyn yn hollol benderfynol yn ngwyneb darlenniad gwahanol pwysig, ar y drydedd adnod ar hugain, a geir mewn amryw gopiau o'r Efengyl, ac ymhlith eraill, yn y cyfysgrif a elwir y *Vatican*, yn llyfrgell Eglwys y *Vatican*, yn Rhufain, un o'r rhai hynaf yn yr holl fyd. Yn y testun cyffredin, ac yn un Griesbach, darllenir, *ὁν, ὡς ενομιζέτο, υἱὸς Ἰωσήφ, τοῦ Ἰσραήλ, &c.*, ond yn nhestun y *Codex Vaticanus*, darllenir, *ὁν υἱὸς, ὡς ενομιζέτο, τοῦ Ἰωσήφ, τοῦ Ἰσραήλ, &c.* Cymeradwyr y darlenniad hwn fel yr un cywir, gan rai o'r beirniaid galluocaf, yn ngwyneb y profion allanol sydd drosto, trwy gymhariaeth gwahanol gopiau; ac y mae profion tumewnol wedi eu dwyn ymlaen, gan Wieseler,<sup>1</sup> sydd yn benderfynol, dybygem ni, ar y ddadl ynghylch y gwir ddarlenniad. Mae y darlenniad hwn yn bendant dros y golygiad fod y gair *mab* i'w gysylltu â'r oll o'r enwau sydd yn canlyn yn yr achau, ac nad oedd Iesu Grist ond yn y tyb cyffredin yn fab i Joseph. Ac y mae hyny, yn ol ein meddwl

<sup>1</sup> "Kitto's Journal." Ebrill, 1849: tudal. 210, 211.

ni, yn llawn ddigon er profi ein golygiad mai achau Iesu Grist trwy ei fam a roddir i ni gan Luc.

Nid yw y dadleuon a ddygir yn erbyn y golygiad hwn yn gyfryw ag i siglo yn y radd leiaf ein ffydd yn ei gywirdeb.

Haerir fod y Testament Newydd yn milwrio yn erbyn y dyb fod Mair o deulu Dafydd. Ond erbyn i ni chwilio i mewn i'r ysgrythyrau sydd yn ymddangos felly, nid ydynt, dybygem ni, yn rhoddi un sail i'r cyfryw haerriad. Gelwir Elizabeth yn gares iddi; ac y mae Luc yn dywedyd yn bendant am dani hi ei bod o ferched Aaron; yn ganlynol, fe ddadleuir, od oedd Elizabeth o ferched Aaron, a Mair yn gares iddi, y rhaid ei bod hithau hefyd o ferched Aaron. Ond y mae yr wrthddadl hon yn gorwedd ar syniad hollol gyfeiliornus ynghylch cysylltiadau priodasol llwythau Israel â'u gilydd. Yr oedd rhyddid, fel y sylwasom eisoes, i'r meibion briodi o unrhyw lwyth yn ddiwahaniaeth; ac i'r merched, yr un modd, oddieithr etifeddesau, y rhai yn unig a rwymid i briodi yn eu llwyth eu hunain. Yn awr, y mae yn eithaf posibl y gallasai Elizabeth, felly, fod yn gares i Mair, er eu bod o lwythau gwahanol. Gallasai mam Elizabeth a mam Mair fod yn ddwy chwaer, neu gallasai ei mam hi fod yn chwaer i dad Mair. Y mae yn amlwg y gallasai Elizabeth, mewn amrywiol ffyrdd, fod o deulu Aaron o ran ei thad, ac o deulu Dafydd o ran ei mam; fel ag y gallasai Mair fod o deulu Aaron o ran ei mam, ac o deulu Dafydd o ran ei thad; ac eto i'r ddwy fod yn garesau i'w gilydd.

Y mae *Luc* i. 27, yn amlwg, meddir, yn erbyn y dyb fod Mair o deulu Dafydd, lle y dywedir fod yr angel Gabriel wedi ei anfon "at forwyn wedi ei dyweddio i wr a'i enw Joseph, o dŷ Dafydd; ac enw'r forwyn oedd Mair." Yma fe haerir fod penodiad tylwyth Joseph yn cynnwys, neu yn awgrymu, nad oedd Mair yn perthynu i'r un tylwyth. Pe byddem yn gwbl benderfynol fod y geiriau "o dŷ Dafydd" i'w cysylltu â Joseph, nid ydym ni yn gweled eu bod yn rhoddi un sail i'r wrthddadl: oblegid, paham y rhaid i ni dybied fod hōni unrhyw beth ynghylch un, yn cynnwys gwadiad o hono ynghylch un arall? Ond y mae yn ammhëus iawn genym ai felly y mae deall y geiriau. Yn ol y gwahannodiad, yn ein Beiblau ni, yr ydym yn cyfaddef mai â Joseph y cysylltir y geiriau. Ond nid oes dim yn y testun gwreiddiol, o anghenrheidrwydd, yn ein rhwymo i hyny. Mae eu deall yn gysylltiedig â Mair yn llawer mwy naturiol a pherthynasol i'r amgylchiad. Y mae felly ddesgrifiad manwl yn cael ei roddi i ni o honi, o ran ei phreswylfod, ei chyflwr, ei thylwyth, a'i henw. Ac y mae hyn oll yn gwbl unol â'r lle mawr y mae Mair yn gymeryd yn hanes yr efengylwr hwn. Ac y mae yn hollol anhygoel y buasai i'r hwn a fu mor fanwl a rhoddi i ni hanes am deulu Elizabeth esgeuluso rhoddi i ni deulu Mair.

Ond yr hyn sydd yn benderfynol, meddir, er prawf nad ydoedd Mair o deulu Dafydd, ydyw yr hyn a gawn yn *Luc* ii. 4, "A Joseph hefyd a aeth i fyny o Galilea, o ddinas Nazareth, i Judea, i ddinas Dafydd, yr hon a elwir Bethlehem (am ei fod o dŷ a thylwyth Dafydd) i'w drethu gyda Mair, yr hon a ddyweddiasid yn wraig iddo, yr hon oedd yn feichiog." Yma fe ddywedir, yn bendant, fod Joseph o dŷ a thylwyth Dafydd, ac fe haerir fod hyny yn penderfynu nad ydoedd Mair o'r un teulu, ac onidê, y cymerasid hithau i mewn. Ond i ni y mae y geiriau yn dwyn golygiad arall hollol. Y mae yn ymddangos, yn hytrach, y crybwyllir hyn am Joseph yma, er cyflenwi yr hyn a ddywedasid ganddo o'r blaen (i. 27) am Mair.

Ystyriai yr hanesydd fod yn gwbl afreidiol iddo ddywedyd drachefn fod Mair o dŷ a thylwyth Dafydd, yn gymaint a bod hyny wedi cael ei ddywedyd ganddo o'r blaen mewn geiriau pendant, ac wedi cael cyfeirio ato fwy nag unwaith. Ac er na ddywedir yn yr adnod hon, yn benderfynol, fod Mair o dŷ Dafydd, eto y mae ynddynt, dybygem, yr un pryd, brawf digonol o'r peth. Cansys paham, onid ydoedd, yr oedd raid iddi, yn y fath amgylchiad arni, fyned y fath bellder i Bethlehem i'w threthu? Yr oedd trethiad, neu gofrestriad y wraig, yn ol arfer y Rhufeiniaid, yn annibynol ar y gwr, ac i'w wneyd gan bob un yn ei ddinas ei hun. Yn awr, y mae bod Mair, dan y fath amgylchiadau, yn cymeryd ei thraith i Bethlehem i'r perwyl, yn profi, dybygem ni, tuhwnt i ddadl, ei bod hithau o dŷ a thylwyth Dafydd.

Ond fe ddadleuir, ymhellach, nad oedd yr Iuddewon yn arfer cadw coffadwriaeth o'u hachau trwy y fam. Y mae yn ddyweddiad, yn eu plith hwy, nad ydyw tylwyth y fam yn dylwyth oll. Yn ganlynol, fe haerir, nas gall Luc fod yn rhoddi i ni achau Iesu Grist trwy Mair.

I hyn ni a allwn ateb, yn un peth, nad oedd esgeuluso achau y fam ddim yn beth mor hollol ymhlith yr Iuddewon, fel nad oes genym rai esiamplau i'r gwrthwyneb, amlwg a phendant, yn yr Ysgrythyrau. Yr ydym wedi cyfeirio at y cyfryw eisoes. Y mae Flavius Josephus hefyd, yr hanesydd Iuddewig, yn dywedyd i ni, yn nechreuad hanes ei fywyd ei hunan, ei fod ef, o du ei fam, wedi disgyn o'r teulu breninol. Yr ydym hefyd, yn yr Apocrypha (*Judith* viii. 1), yn cael achau Judith yn fanwl iawn. Mae yn amlwg, gan hyny, fod yr wrthdadl hon yn cymeryd yn ganiataol, fel sail iddi, yr hyn sydd gyfeiliornus.

Heblaw hyn, pa beth bynag a allai arferiad cyffredin yr Iuddewon fod, nis gellir golygu fod Luc i'w farnu wrth hyny. Fel ag yr ydym wedi dangos eisoes, y mae holl ysbryd a nodwedd ei efengyl ef yn hollol wahanol i'r syniad Iuddewig. Priodol i Matthew, yn ysgrifenu oddiar ochr yr Iuddew, ac yn amcanu ei efengyl yn uniongyrchol iddynt hwy, ydoedd, yn ol y syniad mwyaf cyffredin yn eu plith, olrhain achau Iesu Grist trwy ei dad cyfrifol. Ond y mae Luc, gan gymeryd safle arall, yn ysgrifenu yn ol syniadau mwy eang a chyffredinol, ac felly nid ydyw unrhyw arferiad ymhlith yr Iuddewon yn un ddadl yn erbyn iddo ef olrhain ei achau trwy ei fam.

Ac heblaw hyny hefyd, y mae yr amgylchiad hwn yn gyfryw ag i gau allan y posibilrwydd, od olrheinir yr achau naturiol oll, i'w olrhain, trwy yr un ffordd arall, heblaw trwy y fam. Nid oedd tad naturiol i Iesu Grist. Yr oedd yn sefyll yn wahanol yn ei berthynas â'r ddynoliaeth i bob un arall a anwyd erioed i'r byd. Felly nid ydyw yr hyn a allai fod yn briodol ac arferedig gyda golwg ar achau rhai eraill, mewn un modd yn rheol i'w chymhwyso ato ef.

Ar y cyfan, nid ydym yn gweled fod yr un llwybr mwy naturiol, ac, yn ddilys nid oes anghenrheidrwydd am yr un mwy boddlonol, er cysoni yr efengylwyr â'u gilydd, na thrwy olygu y naill yn rhoddi i ni achau Crist trwy Joseph, a'r llall trwy Mair. Y mae yr holl wrthddadl am anghysondeb felly ar unwaith yn diflanu. Y maent, yn wir, yn cyflenwi eu gilydd. Y mae Matthew yn ei osod allan fel un â hawl gyfreithiol ganddo i orseddfaine Dafydd ac i lywodraethu ar ei bobl Israel; a Luc, yn ei osod allan fel had y wraig ac Iachawdwr y byd.

Y mae pleidwyr y golygiad yr ydym wedi bod yn dadleu drosto yn amrywio ynghylch y Salathiel a'r Zorobabel, y cawn eu henwau yn y ddwy

daflen. Y mae rhai yn tybied mai yr un personau oeddent ;—fod teuluoedd Solomon a Nathan wedi ymuno ynddynt hwy, ac iddynt wedi hyn ymwahanu, hyd nes yr unwyd hwy eilwaith yn mhriodas Joseph a Mair. Ein golygiad ni ydyw, fod y ddwy linell, o Joseph i Solomon, ac o Mair i Nathan, yn rhai cwbl wahanol. Nid ydym yn gweled fod bod y gwyr hyn yn dygwyddo bod o'r un enwau, hyd yn nod pe buasai genym bob prawf o'u bod yn gyfoeswyr, yn un ddadl dros hõni mai yr un rhai oeddent. Nid oes dim hynod mewn bod i ddau dad o'r un enw, a fyddont byw yr un amser, gyntafanedigion hefyd o'r un enw. Y mae yn amlwg fod hynafiaid ac olafiaid uniongyrchol Salathiel a Zorobabel, Matthew, yn rhai hollol wahanol i'r eiddo y rhai o'r un enwau yn Luc. Y mae yn amlwg hefyd, dybygem ni, fod Matthew yn rhoddi i ni achau naturiol Salathiel. Nid ydym yn gweled y goddef ei eiriau un ystyr arall. Rhaid, gan hyny, os oedd Salathiel mab Jechonia yn fab Neri hefyd, ei fod felly trwy fabwysiad neu briodas, &c. Yn awr, y mae yn gwbl annirnadwy i ni, pe buasai Luc yn golygu yr un gwr wrth Salathiel ag a olygai Matthew, y buasai yn gadael o'r neilldu ei achau naturiol ef ei hunan, y rhai oeddent yn y llinell freninol, ac felly y fwyaf urddasol a berthynai i'r genedl, ac yn eu holrhain mewn llinell arall, llawer mwy anhysbys, a llawer llai anrhydeddus. Nid oes eisieu yr un ddadl arall, y mae yn ymddangos i ni, er profi mai personau hollol wahanol a gyflwynir i ni gan yr efengylwyr, dan yr un enwau.

Rhaid i ni bellach brysuro i ddwyn y sylwadau hyn i derfyniad. Yr ydym yn ofni fod rhai o'n darllenwyr wedi llwyr ffino arnynt. Yr un pryd, nid ydym heb radd o hyder ein bod wedi profi i foddlonrwydd y sawl o honynt a'n dilynasant hyd yma fod yr wrthddadl yn erbyn yr efengylwyr, oddiwrth yr anghysonderau ymddangosiadol yn yr achau hyn, yn hollol ddirym, ac na ddylai wanbau, yn y radd leiaf, ein ffydd yn eu gwirionedd hanesiol, nac anesmwytho dim ar ein hyder yn nghadernid eu tystiolaeth am y Gwardwr. Y mae yn wir fod mantais fawr gan y gwrthddadleuwr. Nid oes eisieu ond ychydig eiriau i gyflwyno gwrthddadl y byddo eisieu traethawd maith er rhoddi atebiad manwl a chyflawn iddi. Y mae hyny yn fynych yn llwyddo gyda'r anochelgar a'r dioglyd er eu rhwydo i ysbryd ammheuaeth, ac i syrthio yn raddol yn ysglyfaethion hollol i anffyddiaeth. Cyfryw, nis gall neb wadu, ydyw nodwedd y nifer fwyaf o lawer o anffyddiaid ein teyrnas ni y dyddiau hyn ; ac felly, i fesur mwy neu lai, y maent oll. Y mae eu meddyliau, ryw ffordd, wedi dyfod i gyfarfyddiad â'r wrthddadl—cipiwyd hono i fyny ganddynt ; ond ni chymerasant erioed y drafferth i chwilio i mewn i'w seiliau, nac i feddlwl yn ddirifol pa ateb a roddwyd neu a ellir roddi iddi. Yn ganlynol, y mae eu hanffyddiaeth, nid yn gasgliad teg o eiddo eu meddyliau ar ol chwilio i mewn i, a phwyso y dadleuon o'r ddau tu, ond yn sympwy, wedi ei gymeryd i fyny ganddynt yn annibynol ar bob prawf, ac nas goddef unrhyw ymchwil i gadernid y sylfaen y gorphwys arno. Nid barn ydyw, ond rhagfarn ; nid ffirwyth llafur, ond cynnyrch diogi ydyw. Yn ganlynol, y mae yn llawn honiadau, ac yn hollol anffaeledig. Dyma, meddwn eto, ydyw nodwedd arbenig anffyddiaeth yr oes hon. Gyda chydabyddiaeth led helaeth o honi yn ysgrifeniadau ei choleddwyr, nid ydym yn petruso dywedyd nad ydynt mor hynod am ddim ag am eu hanffaeledigaeth. Nid ydyw Rhufain ei hunan prin i'w chystadlu â hwy yn hyn. Y mae yn *rhaid* fod Cristion-

ogaeth yn dwyll, ac am hyny twyll ydyw. Dyma hyd a lled, uchder a dyfnder, eu holl ymresymu. Dygir ymlaen o'r newydd ganddynt y gwrthddadleuon sydd wedi eu hateb ganwaith a chanwaith drachefn, gyda'r fath hyder ac ymfrost a phe na chynnygiasid un atebiad iddynt erioed. Ac iddynt hwy, lawer o honynt, druain, fe allai na wnaed. Nid ydyw eu meddyliau erioed wedi ymddyrochafu uwchlaw yr wrthddadl, a phrin y gellir cyhuddo neb o honynt o ammheuaeth fod unrhyw esboniad yn alluadwy i neb arall ar yr hyn fyddo yn ddyrus iddynt hwy. Cawsant afael ar bob perffeithrwydd heb ei chwilio allan; a chan faint eu grym, gallant yn hollol ddidrafferth osod sêl y sicrwydd cadarnaf ar yr ammheuaeth mwyaf. Yn ddiddadl, y maent yn gredinwyr heb eu cyffelyb. Gallant weithredu ffydd heb un sail iddi, a ffurfio penderfyniad heb un prawf drosto. Y mae y llwybr hwn yn llawer unionach a rhwyddach i anffaeledigaeth nag eiddo y gwir athronydd sydd yn ymboeni i gasglu profion, chwilio eu seiliau, olrhain eu natur, cymharu eu pwys, gwrandaw ar y gwrthddadleuon i'w herbyn, barnu yn arafaidd a phwyllog, a thynu casgliad teg oddiwrth yr holl achos fel yr ymddangoso ger ei fron; ac nid y fantais leiaf arno ydyw, nad oes ynddo ddim tra anghydweddol âg ymadferthoedd y meddwl mwyaf dioglyd, ac â thueddiadau y galon fwyaf lygredig. Ond wedi y cwbl, i'r sawl a gymero y drafferth i chwilio i mewn i'r gwrthddadleuon yr haerir gan anffyddiaid eu bod mor ddinystriol i'r efengyl, gwasanaethant yn hytrach er cadarnhau eu ffydd nag i'w gwanhau. Felly y mae gyda golwg ar yr anghysonderau a fu dan ein sylw ynghylch achau y Gwaredwr. Yn lle bod yn ddadl yn erbyn yr efengylau, y maent yn cyfansoddi prawf ychwanegol o'u gwirionedd. Erbyn craffu arnynt, ni a welwn nad ydynt, i raddau mawr, ond ffurwyth naturiol yr amgylchiadau yr oedd yr ysgrifenywyr ynddynt, yr amcanion gwahanol oedd ganddynt mewn golwg, a'r llwybr neillduol a gymerid ganddynt i gyrhaedd yr amcanion hyny. Nid oes dim yn Matthew anghydnaws âg amgylchiad Iuddew yn ysgrifenu i Iuddewon. Y mae Luc yn hollol fel cenedl-ddyn yn ysgrifenu i'r cenedloedd. Pe cyfarfuasem âg anhawserau Matthew yn Luc, buasem braidd yn ddyrsu; a phe gwelsem amcan yn Matthew i olrhain achau Iesu Grist trwy ei fam, ymddangosasai yn dra chwithig. Ond megys ag y maent, nid rhaid i ni bryderu. Y mae pob peth ynddynt yn hollol naturiol i'r ysgrifenywyr a'r rhai yr ysgrifent iddynt; ac y mae hyd yn nod y gwahaniaeth sy rhyngddynt â'u gilydd yn dyfod i mewn yn un o elfenau hanfodol y prawf o wirionedd y ddau. A'r un modd, ni a allwn fod yn hollol hyderus, y mae gyda golwg ar yr holl ddadleuon yn erbyn Cristionogaeth. Chwilier hwynt, a cheir gweled, nid yn unig nad oes dim grym ynddynt i'w phrofi yn annheilwng o dderbyniad, ond eu bod yn sail dadl newydd dros ein ffydd ynddi. Nac anobeithiwn, gan hyny, ynghylch yr efengyl. Er holl sŵn trystfawr ei gelynyon, ni a allwn ymgysuro mai ei heiddo hi fydd y fuddygoliaeth. Gair y gwirionedd ydyw, a rhaid iddi orchfygu. Gallu Daw ydyw, ac ni lwydda un offeryn a lunier i'w herbyn. Yr un pryd, rhaid i ni wneyd ein meddyliau i fyny i ryfel. Y mae ymgyrch ofnadwy yn erbyn ein ffydd eisoes wedi dechreu yn ein gwlad. Ymddengys yn awr y rhaid ymladd brwydr Cristionogaeth drosodd drachefn. Y mae y gâd elynol, yn wir, ar y maes; y mae y frwydr yn debyg o fod yn un boeth iawn; geill barhau yn hwy nag y dymunem; geill ymddangos, hwyrach, fel yr el rhagddi, yn achlysurol, i'r rhai llwfr dan faner yr efengyl,

fel pe byddai ar droi yn ei herbyn hi. Ond y diwedd, yn ddiammhan, fydd bwrw dychymygion i lawr, darostwng pob uchder gwrthwynebol iddi, a chaethiwo pob meddwl i ufudd-dod Crist. Gan hyny, na therfysged rhai gweiniaid Sion; nid yn unig ni lwydda holl ruthriadau uffern ar eu dinas, i ddadymchwel ei seiliau, ond arddangosant fwyfwy o'u cadernid. Yn lle gwanhau wrth ymladd, ni wna y gwirionedd ond ymgryfhau. Ac os, yn ystod y frwydr, yr ymddengys weithiau fel yn cwympo yn yr heol, cofier nad yw yn gwneyd hyny ond i'w arbed ei hunan: cyfyd eilwaith fel cadarn wedi adnewyddu ei nerth; â rhagddo gan ymdaith yn amllder ei rym, ac ni orphwys nes ymorseddu yn frenin cyfreithlawn yr holl ddaear,—coron budd-ygoliaeth yn blodeuo yn ogoneddus ar ei ben, a'i holl elynion wedi eu tŷi & gwaradwydd tragwyddol.

---

## GWEITHIAU RHYDDIEITHOL MILTON.

[*The Prose Works of John Milton.* 3 vols. Bohn's Standard Library.]

### AIL BETHYGL

Yr "*Areopagitica*," gan Milton, sydd draethawd gorchestol ar Byddid y Wasg, y goreu fe allai o'i ysgrifeniadau rhyddieithol. Ysgrifenydd ef yn y flwyddyn 1644, pan oedd y Presbyteriaid mewn awdurdod, ac er mwyn gochel y perygl o'i gollu, wedi gwneyd deddf, na chai neb gyhoeddi llyfr, ar unrhyw fater, heb yn gyntaf gael trwydded i hyny gan ddyinion oeddynt hwy wedi benodi i edrych drosto. Mae ymddiried Milton yn y gwirionedd, a'i barch uchel i ryddid, yn peri iddo ffeiddio y mesur fel mesurau gorthrymus yr esgobion cyn hyny. Yr oedd iawnderau dyn, yn ei galon ef, yn annhraethol fwy pwysig na mantais plaid, pa un bynag ai ei blaid ei hun ai plaid ei wrthwynebwyr. Ac fel yr oedd pobl Sicily, medd efe, y rhai oeddynt wedi cael prawf o onestrwydd a gwerth Cicero pan yn llywydd arnynt, mor daer arno am iddo gymeryd eu diffyniad yn y senedd, yn eu cŵyn yn erbyn Verres, felly yr oedd amryw yr oedd ganddynt ymddiried uchel yn ei gariad yntau at ryddid, a'i sêl dros y gwirionedd, yn casâu gorthrwm fel yntau, yn daer arno am iddo ysgrifenu anerchiad i'r senedd yn erbyn y ddeddf: ac felly y bu; cyflawnodd y gwaith yn deilwng o hono ei hun. Dengys na ffurfiwyd y fath fesur erioed ond gan lywodraethau gorthrymus; fod y llywodraethau paganaidd, o ddim bri, yn goddef i ddynd ddywedyd ac ysgrifenu y peth a fynai, yn unig na chai gablu y duwiau na niweidio cymeriadau ei gyd-ddynion:—y dylai dynion gael rhyddid i ddarllen y peth a ddewisont; fod y da a'r drwg mewn llyfrau fel pethau eraill yn ein byd ni yn gymysg â'u gilydd, na ellir cael gafael ar y naill yn fynych heb fyned ato trwy y llall, "gwybod da trwy wybod drwg;" y gall dyn da dynu mantais iddo ei hun o lyfrau na byddont o ran eu purdeb moesol mor uchel, fel yr oedd Moses, a Daniel, a Phaul, o ysgrifeniadau yr Aiphthiaid, y Caldeaid, a'r Groegiaid, Chrysostôm o Aristophanes, yr hwn oedd mor hoff ganddo, a Jerome o Plautus, a'r dynion enwocaf i gyd braidd o weithiau yr hen baganiaid; ond o'r ochr arall y tynai y dyn drwg wenwyn o'r Beibl ei hun:—fod attal rhyddid i ddyinion



feddwl a throsglwyddo eu meddyliau fel y dewisont yn tueddu yn gryf i grebachu y meddwl, tra nad ydoedd o gwbl yn attalfa ar gyfeiliornadau, y rhai oeddynt bob amser yn cael eu taenu trwy draddodiad yn gyflym, na thrwy lyfr, ac y gellid eu cadw yn fyw am oesoedd, a chadw cenedl dan eu dylanwad, heb ddim o gynnorthwy yr argraffwasg:—ac heblaw hyny fod yn amhosibl iddynt osod y ddeddf mewn gweithrediad heb fyned i eithafion, na allai meddwl annibynol Prydain, oedd yn ddiweddar yn enwedig wedi cael prawf o'i nerth, ac wedi hyny wedi cael crystal blas ar ryddid, ei oddef; fod y trwyddedwyr eu hunain yn dyweyd fod ugeiniau o lyfrau yn cael eu cyhoeddi yn feunyddiol yn y ddinas, â'u henwau hwy wrthynt yn eu trwyddedu, nad oeddynt erioed wedi eu gweled;—ac os teimlai dyn ar ei galon fod yn ysmala, fod eu mesur mor debyg o ateb y dyben ag oedd eiddo y gwron penderfynol hwnw a fynai gadw ymaith y brain trwy gau lliadiart ei barc! Dengys fod yr helbul a'r drafferth siin o gadw deddf fel yna yn faich na ellid ei oddef ar oes o bobl a allent adlewyrchu gogoniant ar eu gwlad. Wrth brofi yr holl bethau yna, ac hefyd mor hanfodol ydyw rhyddid i ddaioni a mawredd cenedl, y mae yn dangos ymchwiliad helaeth, barn gref, a chalon dda,—calon sydd yn gallu curo mewn cyd-deimlad byw âg anrhydedd uchaf y ddynoliaeth. Tybygem y gwnai ei ddarllen les i benaduriaid y Cyfandir yn y dyddiau hyn, os nad hefyd i aelodau cyfrin-gynghor ein teyrnas ni ein hunain. Dylent gofio fod yr enaid wedi ei eni yn freiniol, ac nad oes ganddynt yr un hawl i'w lusgo yn eu cadwynau; ie, fod yn perthyn iddo guddiad cryfder, yr hwn, er iddo yn hir gael ei wasgu i lawr, a ymruthra cyn pen ychydig amser trwy yr holl attalfeydd, a saif i fyny mewn hoewder anorchfygol, ac a *fyn* ei iawnderau, er gorfod cynhyrfu y nefoedd a'r ddaear: a dylent gofio mai cenedl mewn rhyddid a all ymddyrchafu i'r mawredd hwnw a fedr addurno arleisiau ei phenaduriaid â garlantau annifanedig.

Teimlwn na wnaem ddim tebyg i gyflawnder â'n hawdur heb osod rhai o'i frawddegau mwyaf ysplenydd ger bron ein cydwladwyr. Mae yn ddrwg genym orfod eu cyfieithu, oblegid fod braidd yn amhosibl gwneyd hyny heb golli llawer o'u gogoniant; mae ei arddull, yn enwedig yn ei ymadroddion godidocaf mor fynegiadol, yn gymaint yn un â'i feddyliau, fel yr ydych wrth gyffwrdd â hi mewn perygl mawr o wneyd niwed,—yr ydych yn trin llestri y bywyd. Pa fodd bynag, Gymro anwyl, er dy fwyn di, gwnawn gais at gyfieithu rhai darnau; ond cofia nad ydym yn hōni ei fod yn gymaint Milton yn ein cyfieithiad ni, er i ni wneyd ein goreu, ag y cai di ef wedi i ti feistrolï ei syniadau yn ei iaith ei hun. Os meddylia rhai o'n darllenwyr nad ydyw y dyfyniadau bob amser yn ddigon ymresymiadol, bydded iddynt ddeall cyn dechreu nad ydym yn profesu dangos corff ei ymresymiad ar unrhyw fater braidd; gyrai hyny ni i ormod meithder; dyfynwn gan mwyaf o'r ymadroddion a ysgrifennodd yn nghyflawnder y nerth a'r brwdfrydedd oedd ganddo yn *ngweddill*, ar ol profi ei fater. Dywed Mr. Mitford, un o'i fywgraffwyr, nad oedd gan Milton ddim ond ei hyawdledd i'w ddwyn i gynnorthwyo y Puritaniaid. Ni fu yr un camgymeriad mwy. Yn hytrach, y mae yn dwyn ei broffion yn gryffon fel creigiau, ac yn eu gosod fel hwrdd-beiriannau i falurio holl amddiffynfeydd ei wrthwynebwyr. Yr oedd ei resymeg yn ofnadwy—“Dyrnod” meddai ysgrifenydd galluog yn y “*Critical Review*,” “oddi-

wrth haiarnddwrn Entellus<sup>1</sup> y Puritaniaid!—angeu sicr i unrhyw ddad-euydd eiddil a ddel hyd yn nod o fewn ei gwynt.” Mae ei gryfder yn ũang a chyffredinol, fel cryfder yr elfenau; ac y mae ei hyawdledd yn fynych yn arddunawl fel anthem y môr mawr.

Dyma ei syniad ar y pwnc mewn dadl yn yr “*Areopagitica* :”—

“Nid wyt yn gwadu nad ydyw o'r pwys mwyaf yn yr egiwys a'r wladwriaeth i sylwi yn faawl pa fodd y mae llyfrau yn ymddwyn yn gystal a dynion; ac yna i gyfyngu, caroharu, a gwneyd y cyflawnder llymaf arnynt fel drwgweithredwyr; oblegid nid ydyw llyfrau yn bethau hollol feirw, ond cynnwysant nerth bywyd ynddynt i fod mor weithgar ag oedd yr enaid hwnw hiliogaeth pa un ydynt; fe, y maent yn cadw fel mewn phiol effeithioldeb a sylwedd puraf y deall bywiol hwnw a'u dygodd i fod. Gwa eu bod mor fyw ac mor nerthol o gynyrcchiol a'r dannedd hyny o eiddo y ddraig yn y chwedl: ac wedi eu hau i fyny ac i lawr, y gallant neidio i fyny yn wfr arfog. Ac sto, o'r ochr arall, os na chymerir gofal, byddai yn gymaint braidd lladd dyn a lladd llyfr da: mae yr hwn sydd yn lladd dyn yn lladd creadur rhesymol—delw Duw; ond y mae yr hwn sydd yn dnystrio llyfr da, yn lladd rheswm ei hun, yn lladd delw Duw, megys yn y llygad. Mae llawer dyn yn byw yn faich i'r ddacar; ond mae llyfr da yn waed-bywyd gwerthfawr ysbryd meistrolgar, wedi ei berarogli a'i roddi yn nghadw yn benodol i fywyd y tudraw i fywyd. Mae yn wir na all, un oes adferu bywyd, am be un, fe allai, nid oes golled fawr; ac nid yn fynych y mae cylchdroadau oesoedd yn gwneyd i fyny y golled am wirionedd wedi ei wrthod, o eisien pa un y mae cenedloedd cyfain ar eu gwaeth. Dylem wyllo, gan hyny, pa erlidigaeth a godwn yn erbyn ymdrechidau bywiol dynion cyhoeddus, pa fodd y collwn y bywyd tymheredig yna o eiddo dyn sydd wedi ei gadw a'i roddi ynghyd mewn llyfrau; gan y gwelwn y gellid fel hyn gyfain math o ddynladdiad, weithiau ferthrydod; ac os cyrhaeddai at argraffiad cyfan, fath o gyflafan, o ba un nid yw y cyflawniad yn terfynu yn lladdiad bywyd elfenol, ond yn taro ar yr hanfod nefol a'r pummed, anadl rheswm ei hun; yn lladd anafwoldeb yn hytrach na bywyd.”

Wrth ddangos y sarhad a dafiai trefn y trwyddedu ar awduron o ddoethineb a gonestrwydd, dywed :—

“Pan mae dyn yn ysgrifenu i'r byd, mae yn galw i fyny ei holl reswm a'i hybwyllodd i'w gynnorthwyo; chwilia, myfyria, mae yn ddiwyd, a chydymgynghora ac ymddyddana, mae'n debyg, a'i gyfeillion synwrol; wedi gwneyd hyn oll a'i w oleuo ei hun yn y peth yr ysgrifena arno, yn gystal a neb a ysgrifenoedd o'i flaen; os yn hyn, y weithred berffeithiaf o eiddo ei fyddlondeb a'i addfedrwydd, na all na blyneddau, na diwydrwydd, na phrawf blaenorol o'i alluoedd, ei ddwyn i'r sefyllfa hŏno o sefydlogrwydd, fel ag i beidio bod yn wastad mewn anymddiried a drwgdybiaeth, heb iddo ddwyn ei holl ddyfalwch pryderus, ei holl wyllo ganol nos, a thraul olew myfyriaeth, i olwg fryslog trwyddedwr dihamdden, ei ieuangach fe allai o lawer, fe allai lawer yn islaw iddo mewn barn, un fe allai na wybu erioed y llafur o ysgrifenu llyfr; ac os na chaiff ei wrthod, neu ei droi o'r neilldu, y bydd yn rhaid iddo ymddangos mewn argraff fel cŏryn gyda'i warcheidwad, & llaw ei feirniaid ar ei wynebdaalen i fod yn atebydd ac yn feichial iddo nad ydyw yn hurtyn neu yn dwyllwr; ni all fod ond dianrhydedd a sarhad ar yr awdur, ar y llyfr, ar ragorfraint ac urddas dyageidiaeth.”<sup>2</sup>

<sup>1</sup> Dynnymladdwr enwog o Sicily oedd Entellus.

<sup>2</sup> Braidd nad ydyw y darluniau yn brophwydoliaeth o'r helynt fu ar “Goll Gwynfa” fynyddau wedi hyn pan yn oesio mynedfa trwy borth yr *Imprimatur*. Mae ein mynws yn ddarwybod i ni ein hunain yn ymchwyddo mewn digofaint pan feddylom mor agos fu y byrddest yma, gorchestwaith uchaf y meddwl dynol fe allai, i gael ei thafu i ebergofiant cyn gwled y dydd, a hyny yn unig oblegid hurtrwydd a dyluni y trwyddedwr! Yr oedd y swyddog craff yn canfod *gorthryfel* yn y degriffiad arddunawl o Satan yn y llyfr cyntaf:—

“He, above the rest  
In shape and gesture proudly eminent,  
Stood like a tower: his form had not yet lost  
All her original brightness; nor appeared  
Less than Arch-angel ruined, and the excess  
Of glory obscured: as when the sun, new risen,  
Looks through the horizontal misty air,  
Shorn of his beams, or, from behind the moon,  
In dim eclipse, disastrous twilight sheds  
On half the nations, and with fear of charge  
Perplexes monarchs.”

Pan yn cyfeirio at y mesur fel attalfa ar eu ffordd yn eu hymchwiliad am wirionedd, ysgrifena:—

“Fe ddaeth gwirionedd yn wir unwaith i'r byd yma gyda'i Harglwydd dwyfol, ac yr oedd o lun perffaith, yn ogoneddus i'r eithaf i edrych arni: ond pan eagynodd efe, a phan fu i'w apostolfon ar ei ol gael eu rhoddi i huno, yna yn y fan cododd cenedl ddrygionus o dwyllwyr, y rhai, fel mae y chwedl yn rhedeg am y Typhon Aiphataidd gyda'i gydfradwyr, sut yr ymddygasant at Osiris, a gymerasant y forwyn Gwirionedd, torasant ei chorff hawddgar yn fil o ddarnau, a gwasgarasant hwynt i'r pedwar gwynt. Byth wedi hyny yr oedd cyfeillion galarus Gwirionedd, y rhai a feiddient ymddangos, gan efelychu yr ymchwiliad galarus a wnaeth Isis am gorff drylliedig Osiris, yn myned i fyny ac i lawr, gan gasglu ynghyd selod ar ol aelod yn wastad fel y canfyddent hwynt. Nid ydym eto wedi eu canfol oll, arglwyddi a chyffredin, ac ni chawn, hyd ailddyfodiad ei Harglwydd; fe ddwg ef ynghyd bob cymal ac aelod, ac fe'u llunia i ffurf anfarwol o anwydeba pherffeithrwydd. Na oddefwch i'r gwaharddiadau trwyddedawl yma sefyll yn mhob lle cyflësus i wahardd ac i aflonyddu ar y rhai ydynt yn parhau i chwilio, yn parhau i ddangos ein parch i gorff rhwygiedig ein sant wedi ei merthyru.”

Y mae Milton mor bell o ofni oddiwrth ysbryd ymchwilgar y genedl, a'i hymgangheniad i wahanol ymraniadau gyda golwg ar grefydd, gan eu bod oll yn meddu yr un gwreiddyn, fel y mae yn ei gymeryd yn arwydd er daioni. Yn gyntaf, oblegid fod yr egni mawr â pha un yr oedd y bobl yn astudio egwyddorion phwsig yn dangos yr ymddiried uchel oedd ganddynt yn narbodaeth a doethineb y llywodraethwyr, gan eu bod yn gallu gwneyd hyny pan oedd y ddinas mewn perygl megys bob awr. Yn ail, oblegid ei fod yn rhagarwydd o'u llwyddiant a'u buddygoliaeth yn y pen draw. Ar hyn, dywed:—

“Oblegid fel mewn corff pan mae y gwaed yn fywiog, yr ysbrydoedd yn bur ac egniol, nid yn unig i'r galluoedd bywydol, ond i'r rhai meddyliol, a'r rhai hyny yn y gweithrediadau mwyaf treiddiol a bywiog o ddealltwriaeth a manylrydd, y mae yn profi yn mha ansawdd a chyfansoddiad da y mae y corff; felly pan mae arioldeb y bobl mor uchel, fel y mae ganddynt ddigon nid yn unig i wyllo yn dda eu rhyddid a'u dlogelwch eu hunain, ond i'w hebgor, ac i'w osod ar y pynciau mwyaf sylweddol ac ardderchog mewn dadleueth a dyfeisiau newyddion, y mae yn profi nad ydym yn ddirywedig, nac yn syrthio i ddarfodedigaeith marwcl, trwy fwrw ymaith groen hen a chrychedig llygredigaeth i orfwr y gwasgfeunon hyn, a dyfod yn ieuainc drachefn, gan fyned i fewn i ffyrdd ardderchog gwirionedd a rhinwedd, wedi ein hordeinio i ddyfod yn fawr ac anrhydeddus yn yr oesoedd diweddar hyn. Tybiwyf fy mod yn gweled yn fy meddwl genedl ardderchog a chref yn ei chynhyrfu ei hunan fel cadarn wedi cwsig, ac yn ysgwyd ei chudynau anorchfygol: tybiwyf fy mod yn ei gweled fel eryr yn adnewyddu ei hieuencid galluog, ac yn goleuo ei llygaid cryfion wrth belydr llawn y canolddydd; yn glanhau ac yn bwrw ymaith y cên oddiar ei golwg ydoedd wedi cael hir gam, wrth y ffynnon ei hunan o lachar nefol; tra mae yr holl swm o adar ofnus a heidiog, gyda'r rhai hyny hefyd a garant y cyfnos, yn ymehedfan o amgylch, yn synu at beth mae yn feddwl, ac yn eu clebar cefnigenus a fyntent ddarogan blaiddyn o bleidiau ac ymraniadau.

Beth ddylech wneyd ynte, a ddylech wasgu i lawr y cnwd blodeuog yma o wybod-aeth a goleuni newydd sydd wedi codi ac yn codi eto bob dydd yn y ddinas yma! A ddylech osod pendodaeth o ugain o ragfaelwyr arni, i ddwyn newyn ar ein meddyliau ni eto, pan na chawn wybod dim ond a fesurir ini â'u pwysel hwynt!” &c.

Un dyfyniad eto o'r “*Areopagitica*.” Y rheswm â barai i lawer o ddynion cydwytodol bleidlo ymyriad y llywodraeth â rhyddid y wasg ydoedd, y dylid attal lledaniad cyfeiliornadau. Ond y mae Milton, er ei fod yn ystyried y dylid cosbi dyn am wneyd *cam* â'i gydgreadur mewn llyfr yn gystal a rhyw ffordd arall, eto mewn materion o ddamcaniad, ystyria y dylid gadael eu rhyddid i bawb; nid oes dim perygl—y mae *gwirionedd* yn y maes, ac y mae yn *rhaid* iddo orchfygu. Wrth gyfeirio at hyn, ysgrifena fel yma:—

"Ac er i holl wyntoedd athrawiaeth gael eu gollwng yn rhydd i chwaraeu ar y ddau os bydd gwirionedd yn y maes, yr ydym yn gwneyd cam â hi trwy drwyddeda gwahardd i ammheu ei nerth. Gadewch iddi hi a chelwydd gydymdrechu; pwy eriodd a wybu i'r gwirionedd gael ei gorchfygu mewn ymrysonfa rydd ac agored? Ei gwrthbrofi hi yw yr attaliad goreu a mwyaf sicr. . . . Pan mac dyn wedi bod yn llafurio yn y modd caletaf yn mwngloddiau dyfnion gwybodaeth, wedi trefnu ei gaffaeliad yn eu holl barotodau, wedi dwyn allan ei resymau fel pe byddent wedi eu paratoi i'r frwydr, wedi chwatu a dyddymu pob gwrthddadleuon yn ei ffordd, yn galw allan ei wrthwynebydd i'r maes, yn cynnyg iddo y fantais o wynt a haul, os dewisa, yn unig fod iddo gael profi y pwnc trwy rym ymreymiad; fod i'w wrthwynebydd y pryd hyn ymlechu, gosod cynllwynion, cadw pont gul o drwyddedu lle y dylai yr herwr fyned heibio, er iddo fod yn ddigon o ddewrder mewn milwriaeth, nid yw ond gwendid a llwfrdra yn rhyfeloedd y gwirionedd. Oblegid pwy na y'r fod gwirionedd yn gref, yn nesaf at yr Hollalluog; ni raid iddi wrth gyfrwysdra, nac ystrywiau, na thrwyddedau i'w gwneyd yn suddygoliaethus, y rhai yna ydynt y dichellion a'r amddiffyniad a ddefnyddia cyfeillionad yn erbyn ei gallu: yn unig rhoddwch iddi le, a pheidwch a'i rhwymo pan yn nghwag, oblegid nid yw y pryd hyn yn dyweyd y gwir, fel yr oedd yr hen Proteus, yr hwn a lefarai oraclau yn unig pan wedi ei ddal a'i rhwymo, ond y pryd hyn yn bytrach y mae hi yn troi ei hunan i bob ffurf ond yr eiddo ei hun, ac fe allai yn cyweirio ei llais yn ol yr amserau, fel y gwnaeth Micaia o faen Ahab, nes iddi gael ei thyngedu i'w hymddangosiad ei hun."

Mae yn gywilydd genym feddwl fod y traethawd godidog yma wedi methu ateb y dyben gyda y Presbyteriaid; yr oedd y mwynhad o ychydig o awdurdod wedi peri iddynt ymchwyddo ac anghofio yn llwyr y gor-thrwm a ddyoddefent eu hunain ychydig cyn hyny.

"Gwas pan deyrnaso,  
Mae llaw barn yn drom lle bo."

Y gwaith nesaf a ddaw o dan ein sylw yw y traethawd ar "Y Diwygiad yn Lloegr, a'r achosion hyd yma a'i hattaliasant." Ar ol gweled y Diwygiad Protestanaidd wedi codi ar y byd gyda'r fath nerth mawr, fel pe buasai ar unwaith, braidd, â'i oleuni cryf am chwatu yr holl dywyllwch o'i flaen, a llenwi y ddaear â gwybodaeth yr Arglwydd; a gweled Lloegr yn ei ddyddiau ef, gymaint o amser ar ol dechreuad y Diwygiad, mor bell o'r hyn y gallasid dyagwyl iddi fod, ymhola beth a allasai achosi hyny ynddynt hwy, heb son am ewyllys Duw, a dichellion eu gelynyon. Yr achos a noda ydyw, ymlyniad gwastadol yr esgobion wrth ysbryd y Babaeth, er iddynt fod wedi gwrthod y pab, ynghyd â'u rheibusrydd diwala am gyfoeth ac awdurdod. Mae yn cael eu bod trwy yr amseroedd yn fwy aiddgar dros ffurfiau dibwys, ac ymddangosiadau allanol crefydd, ac yn enwedig eu *honor* eu hunain, na thros yr ysbryd bywyd sydd ynddi—y peth sydd wedi ei osod ynddi gan Dduw yn nerth i ddadwreiddio llygredigaeth o'r byd, ac i gyfaddasu calonau pechaduriaid i fod yn demlau i'r Brenin Mawr; a chai fod pob symudiad ymlaen o'r eiddynt yn gwreiddio, nid mewn awydd i éangu teyrnas ysbrydol Mab Duw, ond i ychwanegu eu hawdurdod fydol eu hunain, yr hyn oedd o anghenrheidrwydd yn blwm wrth odrau y Diwygiad; "Canys pawb sydd yn ceisio yr eiddynt eu hunain, ac nid yr eiddo Crist Iesu." Ac felly fod crefydd yr eglwys yn darfod yn ol fel yr oedd ei chyfoeth yn cynnyddu, yn ol yr hen ddywediad, "Crefydd a ymddug

<sup>1</sup> Pan oedd llywodraeth Prwsia yn ymgynghori â Dr. Augustus Neander, gyda golwg ar ei bwriad o roddi attaliad cyfreithiol ar ledaniad "Bywyd Crist," gan Strauss, yr ydym yn ei gael yntau yn yr ysbryd a Milton, yn cynghori ar iddo gael chwaraeu teg, a chan gredu mai "gwrthbrofiad gwirionedd yw yr attaliad goreu a mwyaf sicr" ar gyfeillionadau, ysgrifionedd "Fywyd Crist" ei hunan, a gwnaed cestyll Strauss yn gydwastad â'r llawr Gormod o gefnogaeth i gyfeillionwyr yw rhoddi attaliad cyfreithiol ar ledaniad eu gwaith.

gyfoeth, a'r ferch a ddifaodd y fam."— Profa ei osodiadau yn erbyn ymresymiaid hynafiaethwyr, dynion penrydd, a gwledychwyr.

Dyma ddwy frawddeg o odidogrwydd mawr â pha rai yr agora y traethawd hwn;—un yn dangos teilyngdod helynt yr eglwys o'n sylw, a'r llall yn dangos ei gydymdeimlad uchel âg ysbrydolrwydd ei gwasanaeth. Cymer dy anadl, ddarllenrydd, os wyt am eu darllen yn uchel.

"Yn mysg y meddyliau dyfniaid a neillduedig hyny, y rhai gyda phob dyn wedi ei addysgu yn Gristionogol, a ddylent fod fynychaf am Dduw, ac am ei ffyrdd a'i weithredoedd gwrthiol yn mysg dynion, ac am ein crefydd a'n gweithredoedd, i'w cyflawni iddo ef; ar ol yr hanes am ein Hiachawdwr Crist, yn dyoddef hyd bosibl rwydd eithaf gwendid yn y cnawd, ac yn huan yn buddygoliaethu hyd uchder eithaf gogoniant yn yr Ysbryd, yr hwn a gododd i fyny ei gorff hefyd; nes y bydd i ni yn y naill a'r llall gael ein huno âg ef yn nadguddiad ei deyrnas,—nid wyf yn gwybod am ddim mwy teiling i gysteryd i fyny yr holl deimlad o reayndod ar un ochr, a llawenydd ar y llall, nag ystyried yn gyntaf y llygredigaeth aflan a phrysur, ac yna ar ol llawer oes faith, y diwygiad, wedi ei hir oedi, ond llawer mwy rhyfedd a hapus, fu ar yr eglwys yn y dyddiau diweddaf hyn. Trist ydyw meddwl pa fodd y bu i athrawiaeth yr efengyl, wedi ei phlanu gan ddyagawdwr o ddwyfol ysbrydoliaeth, a chanddynt hwy wedi ei nithio a'i glanhau oddiwrth yr ũs o seremoniau anamserol, ac wedi ei choethi i'r fath uchder ysbrydol ac ansawdd bur, â gwybodaeth o'r Creawdwr, fel yr oedd y corff, gyda'i holl amgylchiadau o amser a lle, wedi ei buro gan serchiau yr enaid allanedig, a dim wedi ei adael yn anmhur ond pechod; ffydd heb fod arni eisieu swydd wan ac amherffraith y synwrau, naill ai i ddwyn i fewn ai i ddŵngli y dirgeledigaethau nefol, ond lle yr ordeiniodd ein Harglwydd ei hunan, yn y sacramentau; fod i'r fath athrawiaeth, trwy anmhuredd a dallineb ei phroffeswyr, a hocoed traddodiadau twyllodrus, dynu yn gymaint i lawr, fel ag i wrthgilio un ffordd i'r gardoteiaeth Iuddegig o egwyddorion wedi eu bwrw heibio, a thrwsgl gamu ymlaen ffordd arall at baganiaeth wrthodedig cnawdol eiton-addoliaeth, gan briodoli purdeb neu anmhuber i bethau heb fod y naill na'r llall, fel y gallont ddwyn gweithrediadau tufewnol yr ysbryd i lygad-wasanaeth allanol ac arferol y corff, fel pe gallent wneyd Duw yn ddaerol a chnawdol, am na allant eu gwneyd eu hunain yn nefol ac ysbrydol; dechreuasant dynu i lawr yr holl ymraffod a'r enaid; Ie, hyd yn nod ffurf Duw ei hun, i wedd allanol a chorfforol, gan hŵni yn benderfynol yr anghenrheidrwydd a'r rhwymedigaeth o uno y corff mewn addoliad ffurfiol â gwasanaeth gosodedig; yr oeddnt yn ei sancteiddio, yn ei fygdarthu, yn ei daenellu, yn ei addurno, nid mewn gwisgoedd o ddi-niweidrwydd pur, ond o llain pur, gyda dilladau anmhryderth a choegaidd eraill, mewn urddwisgoedd a meitrau, aur, a choegaddurniadau wedi eu dwyn o hen dkilladgell Aaron, neu wisgfa yr offeiriaid paganauidd: yna yr oedd yr offeiriad yn cael ei osod i astudio ei symudiadau a'i agweddion, ei ffurffweddiau a'i baderau, nes yr oedd yr enaid trwy y dull yma o orgorffoli ei hunan, wedi ei rhoddi i fyny yn gyflawn i bleserau cnawdol, yn gostwng ei haden ar frys tuag i lawr: ac yn canfod yr esmwythyd sgai oddiwrth ei chydymaith gweledig ac anianol, y corff, yn nghyflawniad dyledwyddau crefyddol, ei hadenydd yn awr wedi eu tori, ac yn llipian, ygydwai oddiwrthi y llafur o ymgodi yn uchel byth mwy, anghofiodd ei hedfa nefol, a gadawodd i'r hen gorff hurtaidd a swrth i ymfwdanu ymlaen yn yr hen ffordd, ac yn yr alwad drybestaidd o gydymffurfiaid allanol."

Am y Diwygiad Protestanaidd yn cynnyrchu chwildroad yn helynt y byd crefyddol, dywed:—

"Ond i beidio aros yn hwy i ddynodi llygredigaethau yr eglwys, a pha fodd yr oeddnt yn codi, ac yn myned ar gynnydd; pan adgofwyf o'r diwedd, ar ol cynnifer o oesoedd tywyll, pryd yr oedd cynffon anferth amgysgodol cyfeilliornad braidd wedi ysgubo ymaith yr holl ser o ffurfafen yr eglwys; pa fodd yr ymdorodd y Diwygiad dysglauer a gwynfydlawn (trwy allu dwyfol) trwy nos dywell a sefydlog anwybodaeth a gorthrwm anghristionogol, tybiwyf fod yn rhaid fod llawenydd ardderchog ac adfywiol yn rhuthro i fynwes yr hwn sydd yn darllen neu yn gwrandaw; ac arogl peraidd yr efengyl yn dychwelyd, yn amdrochi ei enaid â pherarogledd y nof. Y pryd hyny yr oedd y Beibl sanctaidd yn cael chwilio am dano allan o'r congiau llychlyd lle yr oedd geudeb halogedig ac esgeulusdra wedi ei dafu, yr ysgolion yn cael eu hagar,

dyguddiaeth ddwyfol a dynol yn cael eu chwala allan o farwydos ieithoedd wedi eu hanghollu, y tywysogion a'r ieithoedd yn ymdyru ar frys at faner ischawdwriaeth oedd newydd ei chodi; y merthyrion gyda nerth anwrthwynebol gwendid, yn ysgwyd gallu oedd y tywyllwch, ac yn dlystyru cynddaredd tanlyd yr hen ddraig goch."

Wrth son am "noddiaid" yr eglwys gan y wladwriaeth yn amser Cystenyn, cawn ei farn yn y geiriau hyn ar ei hanymddibyniad ar y byd hwn :—

"Nid ydwyf o'r farn mai gwinwydden yw yr eglwys yn yr ystyr yma, oblegid, fel y maent hwy [ei wrthwynebwyr] yn cymeryd y peth, na all ymgynnal heb ymglymu o gyloch y llwyfen o allu a llwyddiant bydol, fel pe na allasai y ddinas nefol ei chynnal ei hun heb yr ategion a'r cynnalfuriau o awdurdod wladol. Maent hwy yn mawrhau Cystenyn am ei fod ef wedi eu mawrhau hwynt, fel y mae ein mynachod cyffredin yn darfoli yn eu hanesion y breninoedd eu noddwyr, ac yn gwarthruddo y rhai a kent o amgylch i'w dwyn i drefn."

Fel hyn yr oedd yr esgobion a ganlynent yn blino ar y "symlwydd sydd yn Nghrist," ac yn ysfa eu bychander plentynaidd yn chwilio yn nhir y cnawd am ysplander i grefydd Duw :—

"Felly yn y modd yma yr oedd yr esgobion, y pryd hyn y byth wedi hyn, yn codi mewn sydynrwydd o fywyd isel a chyffredin i fod yn arglwyddi palasau uchelwch, dodrefn gwerthfawr, ymborth danteithiol, a gweinyddiad tywysogaidd, yn ystyried gwirionedd syml a chyffredin crefydd Crist yn anghymhwys byth mwy i ddal cydnabod a'u harglwyddiaethau, os na roddir y wyrff dlawd a llo mewn gwell dillad : ei gorchuddlen ddiwair a gwylaidd, wedi ei chylchynu â phelyderau o'r nef, a orchuddiasant â thrythyll bleth-gudynau, ac mewn penwisg serenog brithasant hi â holl hudoliaethau coegwychion puten."

Pan gynnygiodd rhyw lyfrwerthwr o Lundain gan' punt i Robert Hall am ysgrifenu rhagymadrodd o gymeradwyaeth i argraffiad ydoedd ar ddwyn allan o Feibl Matthew Henry, parodd y peth anesmwythder mawr iddo. "Y fi," meddai, "ysgrifenu canmoliaeth i Matthew Henry! Na wnaif byth! Pam na chynnygiai i mi gan' punt am baentio y diemwnt, neu fawrhau perarogledd y *violet*?" Os oedd hyna yn ymddangos mor anhyfryd i'w feddwl anrhydeddus ef, pa mor adgas raid fod gwaith dynion yn ceisio addurno yn ddiiddiwedd âg afleiddid bydol y grefydd sydd wedi dyfod allan mewn pryderfwrthwch dwyfol o ddeheulaw Duw, yn ymddangos i bob dyn y mae ganddo lygaid i weled, a chalon i deimlo, gogoniant y gwirionedd noeth? Gallasem ddysgwyl ymlaen llaw na fuasai Milton byth yn fodd-lawn heb ddangos ei ddygasedd at hyn mewn ymadroddion na ellid eu camddeall. Gwyddai fod crefydd, fel ei Efa ef, "yn decach yn ei thegwch noeth ei hun," nag y mae yn bosibl iddi fod mewn un modd arall. Fel "hawddgarwch," gan Thomson,

"Needs not the foreign aid of ornament,  
But is, when unadorned, adorned the most."

"Pan yn ddiaddurn y mae hi yn fwyaf addurnedig." Yr holl obaith sydd genym y dyddiau hyn am ddiogelwch a gogoniant ein cenedl ydyw, fod iddi gael ei dyrchafu i ymdeimlo â mawrhydi *symlwydd* y gwirionedd. Os bydd hyn ar ol, fe gedwir y meddwl Cymreig byth yn y pwll; a gwaeth, fe syrthia yn ysglyfaeth i'r bwystfilod rheibus ydynt yn awr yn ymbarotōi i agor eu safn am dano—y *Jesuitaid*!

Ar ol dangos mor anffariol i'r esgobion oedd y tadau eglwysig, ac hyd yn nod pe buasant yn ffariol iddynt, mor ddibwys yw eu tystiolaeth, gan nad ydyw yn gorphwys ond ar yr un awdurdod a'n barnau ninnau—y gwir-

ionedd dadguddiedig—ac yn enwedig gan eu bod yn eu profi eu hunain ymhell iawn ar ol i ni mewn deall yr Ysgrythyrau, cawn y sylw rhagorol a ganlyn ganddo ar y defnydd a wneid o'r "tadau." Y mae yn dymoraidd yn ein dyddiau ninnau. Yn wir nid dyma yr unig bwynt o debygolrwydd rhwng ein dyddiau ni a dyddiau bythgofiadwy y Puritaniaid! Ond y dyfyniad :—

"Ond yr wyf yn hyderu y bydd iddynt hwy, i ba rai y mae Duw wedi cadw yr anrhydedd o ddiwygio ei eglwys, ganfod yn hawdd amcan eu gwrthwynebwyr yn galw fel hyn am benafiaeth : y maent yn ofni maes agored yr Ysgrythyrau; mae yr erlyniad yn rhy boeth ; chwiliant am y goedwig dywell, lawn llwyni, ddyrys, mynent ymlechu, teimlant eu hunain yn cael eu taro yn ffrydiau tryloewon y gwirionedd dwyfol; mynent ymsuddo, ac ymdreiglo, a meddwl am orwedd yn guddiedig yn y brysglwyni budron a'r dyfroedd lleidiog. lle nad all yr un blymen gyrhaedd y gwaelod. Ond gadewch iddynt ymguro fel y morfilod, a cholli eu holecw nes iddynt gael eu llusgo i'r lan; er hyny pabam y gadawai y gweinidogion iddynt gymaint o llyny i ddyfeisio ac oedi? pabam na fyddai iddynt argymbell yr efengyl yn unig, a'i dal yn wastadol yn eu hwynebau fel drych o ddilemwn, nes y sereno ar, ac y treiddio i fewn, i'w llygaid dylion? gan amddiffyn iddi yr anrhydedd o'i hollol ddigonolrwydd a'i huchafiaeth yn ddihalog: oblegid os ydyw yr Ysgrythyr am ddiwygiad, a hynafiaeth o'i phlaid, nid yw ond mantais a dwsin, nid yw yn ennill: ac er i hynafiaeth fod yn ei erbyn, tra bo'r Ysgrythyr drosto, mae yr achos gystal ag y dylid ddymuno, hynafiaeth ei hun yn eistedd i farnu."

Pan yn profi yn erbyn y gwledychwyr fod esgobyddiaeth yn niweidiol i'r goron, yn gyntaf, trwy ei hymddifadu o serchiadau y bobl; yn ail, trwy beri i'r bobl fiino ar ei thraha, a diane i wledydd eraill; ac yn drydydd, trwy hysbyddu y goron o'i thrysorau. Wrth drin yr ail fater, ysgrifena fel hyn :—

"Yn nesaf, pa niferoedd o gydwladyr rhyddion a ffyddlawn, a Christianogion da, a orfuwyd i adael eu cartref anwylaf, eu cyfeillion a'u perthynasau, y rhai nad oedd dim ond y cefnfor llydan, a diffeithleoedd gwylltion America, a allai eu cuddio a'u lochesu rhag cyuddaredd yr esgobion? O, Syr, pe gallem ond gwelod gwedd ein hanwyl fam Lloegr, fel y mae beirdd yn arfer rhoi ffurf beronol i'r peth a ddewisont, pa fodd yr ymddangosai, dybiech chiwi, ond yn ngwisgoedd galar, a lludw ar ei phen, a dagrau yn lifo yn ffrydiau o'i llygaid, wrth weled cynnifer o'i phlant wedi ei gadael ar unwaith, a'u gyru oddiwrth bethau o anghenrheidrwydd anwylaf, am na allai eu cywbybod gydsynio a phethau a ystyriai yr esgobion yn ddibwys? Beth sydd fwy rhwymiadol na chydwybod? Beth mwy rhydd na difaterwch? Creulawn gan hyny raid fod y difaterwch hwnw a dreisia anghenrheidrwydd manwl cydwybod; creulawn ac annynol y rhydd-ddewisriad a'r rhyddid a ddryllia rwymau crefydd! Dychryned y ser ddewin gan lachar argoelus y gwib-ser, ac arwyddion yn yr awyr, fel yn rhagfynegu tralodau a chymewidiadau i wledydd: credaf fi na all fod yr un arwydd mwy bygythiol i genedl (trued Duw y coel oddiwrthym!) na phan mae y preswylwyr, i yagŷi blinderau annyoddefol gartref, yn cael eu gorfodi yn bentyrau i adael eu gwlad denedigol, &c."

Ar ol dangos ymhellach ymdrechion maleisus yr esgobion i gladdu Lloegr a'r Alban mewn rhyfel cartrefol, er mwyn rhyw fympwy wag o'r eiddynt eu hunain; a chydabod, mewn tŷon deilwng o rai o'r Salmuau, ddaioni y Llywodraethwr nefol, yr hwn, "oddiair ei wylfa uchel yn y nef," yn canfod bwriadau trawision dynion drygionus, a droes eu cynghor yn ffolineb, ac yn lle anfon i'r wlad ysbryd ymrafael, a fuasai yn "gwneyd eu eladdedigaethau, a phentyrau eu lladdedigion, yn fwy lliosog na gweddill truenus y rhai a adawsid, a anfonodd, pan oeddynt hwy leiaf yn haeddu hyny, a wel esmwyth, a chenadwri heddwch oddiair adenydd y rhai hyny, ei gerubiaid, ydynt yn gwyntyllo ei drugareddfa;" ac hefyd arganmawl

doethineb, cymmesuredd, a duwioledeb y ddwy genedl—cyfarcha hwynt fel hyn :—

“Ewch ymlaen eich dwy, law yn llaw, O genedloedd, nad ydych byth i'w gwahanu : byddwch yn fawl ac yn gân arwraidd yr holl genedlaethau ; haeddwch hyn, ond ceis-iwch rinwedd yn unig, i beidio estyn eich terfynau ; (oblegid pa raid yw ennill llawryf wywedig buddygoliaeth allan o ddagrau dynion truenus!) ond i sefydlu gwasanaeth pur Duw yn ei eglwys, a chyflawnder yn y wladwriaeth : yna fe fydd i'r anhawserau caletaf ymwastatâu o'ch blaen ; cenfigen a sudda i uffern, dichell a malais a ddyrswir, pa un bynag a fyddo ai drygioni cartrefol ai cyfrwysder tramor ; Ie, fe fydd cenedloedd eraill y pryd hyny yn chwennych eich gwasanaethu, oblegid nid yw arglwyddiaeth a buddygoliaeth ond gwesynau cyflawnder a rhinwedd. Ymddiriedwch yn dawel i wir ddoethineb, orchfygiad a dynoethiad dichell a chyfrwysder, y rhai nid ydynt ond ei dau ffôdar ; arwch eich nerth anorchfygol i gyflawni gweithredoedd teilwng ac ardderchog ; ac yna efe yr hwn a geisio dori eich undeb, bydded mellidith ymlwynol yn etifeddiaeth iddo trwy holl genedlaethau.”

Y feddyginiaeth oedd ganddo ef i'w chynnyg i welláu ansawdd pethau oedd, talu ymaith yr esgobion, a gadael i'r eglwys yn Lloegr fyned ymlaen mewn aiddgarwch duwiol, yr un fath a chwaer-eglwysi y diwygiad ar y Cyfandir, y rhai yr oedd Duw mewn modd mor arbennig yn dangos ei foddolrwydd iddynt. Sicrha y byddai fod y gweinidogion yn ddirifrol, ac yn awyddus am wneyd lles, yn dwyn iddynt yr anrhydedd gwerthfawrocaf gan ddyn doeth, sef o gael eu cyfrif gyda pharch mabaidd gan bobl eu gofal yn dadau ysbrydol ; ac y byddai serch y bobl atynt, ar ol eu dewis, yn ddigon i beri iddynt ofalu am eu cyflenwi yn anrhydeddus, heb nag offrwm, degwm, na threth, âg anghenrheidiau y bywyd hwn.

Mae y ddau draethawd nesaf ar Esgobyddiaeth. Yn fuan wedi dychwelyd o'r Cyfandir, canfyddodd fod y wlad drwyddi mewn anfoddlonrwydd mawr yn erbyn yr esgobion. Yr oeddynt ar lawer cyfrif, trwy eu hannuwioldeb, eu rheibusrwydd, a'u trahausder, wedi eu gwneyd eu hunain yn dra amhoblogaidd yn y deyrnas—yr oedd llais y bobl yn gryf a chyffredinol i'w herbyn, ac yr oedd y senedd, medd ein hawdur, yn “dechreu darostwng eu balchder.” Yr oedd rhai yn dyweyd yn erbyn eu camymddygiadau yn eu swydd, a rhai yn myned ymhellach, ac yn dyweyd fod y gyfundraeth yn ddrwg drwyddi, ac fod y *swydd*, fel yr oedd ganddynt hwy, y breladaeth, yn anysgrythyrol, yn afreidiol, i.e. o duedd dra drygionus. Ymdafodd Milton i'r ymdrechfa, ac fel diwygiwr trwyadl aeth at wraid y drwg. Yr oedd amryw o'r esgobion wedi bod yn ysgrifenu o blaid eu hurdd, i geisio lleddfu cynddaredd y teimlad poblogaidd i'w herbyn, gan geisio profi fod Esgobyddiaeth breladaidd yn ysgrhythrol a chymhwys ; ond y mae Milton yn ysgrifenu y llyfrau yma i ddangos eu camgymeriad. Profa ynddynt mai sefydliad dynol yn unig yw Preladaeth, a chan ei fod trwy yr oesoedd yn ei brofi ei hunan mor ddibwrpas a gorthrymus, fod ganddynt hwy hawl, i.e. fod yn ddyledswydd arnynt, ei ygythru ymaith. Dywed Dr. Symmons, un o olygwyr ei weithiau, mai y pwnc mewn dadl oedd, pa un a oedd y Beibl yn gosod yr esgob yn olygwr mewn awdurdod ar yr henuriad, ynte a oeddynt i'w ystyried yn gyfartal, y ddau air yn golygu yr un peth ; ac fod yn annheg i'r Puritaniaid godi rhagfarn yr oes yn erbyn yr esgobion yn fwy, trwy gymysgu y ddadl âg ymosodiadau ar awdurdod wladol yr esgobion, yr hyn nad ydoedd yn hanfodol iddynt *fel esgobion*, ond ydoedd i'w farnu yn unig fel cwestiwn o gymhwysder. Pob parch i Dr. Symmons, yr ydym ni yn methu gweled nad oeddynt yn gwneyd yn eithaf teg. Yr oedd yr “olygiaeth” hono



erbyn hyn wedi dyfod yn *breladaeth*; ac wedi i'r Puritaniaid ddangos anysgrythroldeb ac annhegwch y gwahaniaeth a wneid rhwng esgob a henuriad, nid oedd ond hanner eu gwaith, neu lai na hyn, wedi ei orphen; yr oedd ysgwyddau y wlad wedi hyn yn gwaedu dan y breladaeth. Yr oedd-ynt yn sefyll digon ar yr egwyddor i ddadymchwelyd cyfundraeth yr esgobion, ac i brofi nad oes ond dwy urdd yn perthyn i eglwys y Testament Newydd, sef yr esgob, neu yr henuriad, a'r diacon; ac wedi iddynt ddangos hyn, yr oedd yn eithaf priodol iddynt ddangos esgobyddiaeth *fel yr oedd wedi bod, ac fel yr oedd* y pryd hyn, nes cynhyrfu y wlad i ymysgwyd oddiwrth y baich gorthrymus. Ar ol chwalu eu dadl fel yr oedd-ynt yn ei hamddiffyn o'r Beibl, yr oedd eisieu trafod y pwnc fel "owestiwn o gymhwysder," a dangos fod profiad oesoedd bellach yn galw ar yr eglwys i ymwrthod â'r breladaeth, fel attalfa ar ei chynnydd ysbrydol, ac yn galw ar y wladwriaeth i ddiarddel ei pherthynas â'r gallu eglwysyddol yma oedd yn ymestyn yn wastadol am holl fawredd ac awdurdod y deyrnas, a hyn dan rith gofalu am ddiogelwch a llwyddiant crefydd yr efengyl. Dyma amcan y traethodau yma gan Milton. Galwa y cyntaf "Esgobyddiaeth Breladaidd;" profa ynddo nad oedd yr amseroedd apostolaidd mewn un modd yn cydnabod y fath beth, nad oedd-ynt hyd yn nod yn gwybod am dano, ac nad ydynt byth yn awdurdodi y gwahaniaethiad a wneir rhwng esgob a henuriad, fod y ddau air yn cael eu defnyddio ynddynt yn gyfystyr. Ystyria fod Timotheus a Titus yn bersonau anghyffredinol, ac yn cael eu hawdurdodi fel y cyfryw i weithredu fel cynrychiolwyr yr apostolion; ond nad oedd hyn yn cael ei drosglwyddo i'w holynwyr; fod holl weinidogion yr efengyl bellach, o ran dim arglwyddiaethu ar eu gilydd, i fod yn "*gyd-henuriad*." Nid ydyw yn rhoddi cred i'r hen ysgrifenywyr eglwysig ond fel y profant eu hunain yn deilwng o hono; mae eu hygoel-odd mewn cannoedd o bethau nad ydyw yn bosibl eu bod yn wir, yn peri iddo wrthod eu tystiolaethau, os na chaiff foddloni ei chwilfydodd gyda golwg ar ddilysrwydd eu hawdurdodau. Mae yn ddiwyrs gweled mor ddi-seremoni y gyra o'r neilldu silod cyfain o'r "tadau," pan y ca hwy yn anadlas i ddwyn eu tystiolaeth i derfynu dadl ar fater mor bwysig; er fod llawer o'i gydoeswyr, ac o'n cydoeswyr ninnau, ysywaeth, yn cyfrif eu mynegiadau ffugiol, cymysglyd, a chroesion, mor anffaeledig a llafar yr oracl. Ond nid oedd efe yn ddyn a yswiliai o flaen un awdurdod, ond awdurdod y gwirionedd dwyfol, os na chai foddlonrwydd i'w reswm ymchwilgar a chraff fod yr awdurdod ei hun yn gorphwys yn ansigledig ar graig y gwirionedd. Dywed yn rhywle, wrth son am awdurdod y tadau, "Ni fydd pa beth bynag a ddywedant, na chadarnhaer âg awdurdod yr ysgrythyrau, neu â rheswm da, o fwy pwys genyf fi na phe buasai rhyw ddyn cyffredin arall yn ei ddyweyd." Teimla efe fod yr ysgrythyr yn bendant ar bwnc yr esgob a'r henuriad, a cha fod oesau puraf yr eglwys yn eu cydnabod yr un. Diweddi glöa ei ymresymiad yn y traethawd yma fel hyn:—

"Yn olaf, nid wyf yn gwybod, gan fod yn ddihammheol nad oedd ond dwy urdd eglwysyddol, esgobion a diaconiaid, yn cael son am danynt yn yr efengyl, sut y gall fod yn llai nag annuwoldeb i betruso wrth yr hyn sydd yno mor eglur, gwrthwynebu a chyferbynu gwirionedd ysbrydoledig St. Paul âg ysgarthion ac ysgubion hynafiaeth, a gyfarfusaant mor ddygywyddiadol ac afreolaidd â gronyrnau Epicurus, i glytio i fyny rhyw Ignatius, yn tueddu yn hytrach at wneyd y lledrith hwn yn esboniwr, neu yn wir yn ddiwfnwr St. Paul, na St. Paul yn chwiliedydd ac yn ddadguddiwr y twyll yma; ac ni ofalant pa mor ddibris y troant ymaith farn y gair sanctaidd, sydd yn

dywedyd yn egiur nad oes ond dwy urdd, os gallant amddiffyn enw eu dygwawder dychymyngol a gyhoedda dair. Yn sicr, os na osododd apostolion Crist ond dwy i lawr, yna, yn ol ei eiriau ef ei hun, pe byddai iddo ef ei hunan ei ddad-ddyweyd, ac nidya unig angel Smyrna, ond angel o'r nef, ein taeru allan fod tair, mae St. Paul wedi ei ddeddfydu ddwywaith: "Bydded feiddigedig;" oblegid mae Crist wedi dyweyd na fydd i'r un tipyn o'i air syrhio i'r ddaear; ac os ydyw un iot o hono yn gyfnawidiawd, y mae mor bosibl iddo i gyd ddarfod; a hyn gaiff fod ein cyfnawder, ein hawdurdod dilyn, a'n sicrwydd cryf, yn awr ac yn y dydd diweddf, nad ydym byth i gywilyddio o'i blegid, yn erbyn holl enwan pentyredig angelion a merthyron, cynghoran a thedas, a gymhellir arnom, os ydym wedi ein rhoddi ein hunain i'n dygu gan gyfarwyddyd pur a bywiol gair Duw yn unig; yr hwn, heb fwy o ychwanegiadau, fe gyda gwabardiad o honynt, sydd ganddo ynddo ei hun addewid bywyd tragywyddol, diwedd ein holl drafferthion blin, a'n gobethion cynnallaethol. Ond os ymdrecha rhywun oesod i fyny ei ephod a'i deraphim o hynafiaeth yn erbyn dysgleirdeb a pharffeithrwydd yr efengyl, dychryned rhag iddo ef a'i Faal gael eu troi yn Foseoth. A gall hyn fod yn ddigon i ddangos na all yr esgobyddiaeth a hönir ddim cael ei dwyn i lawr o'r amserau apostolaidd."

Enw y traethawd arall ydyw "Y rheswm o lywodraeth eglwysig yn cael ei argymhell yn erbyn Preladaeth." Ei rediad sydd debyg i hyn:— Yn gyntaf, profa fod llywodraeth eglwysig yn cael ei gosod i lawr yn yr ysgrythyrau; yna ymchwilia pa un ai preladaeth ai henaduriaeth ydyw y flurlywodraeth eglwysig a osodir i lawr yno, gan gymeryd hyny yn ganiataol fod *us o'r ddwy* ffurf yna yn cael ei hawdurdodi ganddynt, mae efe yn cael ei foddloni mai henaduriaeth yw y ffurf hono; yna profa yn erbyn rhyw esgobion oedd wedi dyweyd hyny, nad ydym i ffurfio ein llywodraeth eglwysig dan y Testament Newydd yn ol y ddeddf, ac fod yn amhosibl gwaelodi preladaeth ar awdurdod offeiriadaeth Aaron, gan fod hono a'i holl ddefodau wedi ei llyncu i fyny yn offeiriadaeth Crist: yna gyda thipyn o ysmaldod annhrugarog ateba wrthddadl un o'r esgobion, yr hwn, er iddo ddyweyd mewn tudalen o'i lyfr na chymerai brawf i'w fater oddiwrth Aaron, am ei fod yn gysgod o Grist, a fÿn mewn un arall, gan fod Crist yn frenin yn gystal ag offeiriad, os oedd ei farwolaeth yn dyddymu urdd yr offeiriadaeth, ei bod hefyd yr un modd yn dinystrio yr urdd freninol; a chan *nad* ydoedd yn dinystrio yr olaf, fod yr offeiriadaeth "yn ol urdd Aaron" eto yn ei grym: a chyda golwg ar y traddodiad fod preladaeth wedi ei sefydlu ar y cyntaf er gochel ymraniadau, profa ei hollol anghyfaddeusrwydd i'r dyben hyny, ie, ei bod yn eu meithrin: ac yn ei ail lyfr o'r traethawd yma, dengys fod preladaeth yn groes i ysbryd yr efengyl mewn tair ystyriaeth: yn ei ffurf allanol, yn ei seremoniau, ac yn ei hawdurdod wladol. Terfyna y traethawd grymus hwn â sylwadau ar ddylanwad niweidiol y breladaeth ar y wladwriaeth.

Fel hyn yr oedd y preladaid yn cadw ymaith ymraniadau:—

"A ydynt yn cadw draw ymraniadau? Os dwyn hurtirwyddenaid, marwaidd, a fferllyd, dallineb meddwl, ar y bobl trwy eu hathrawiaeth blymaidd, neu eu hollol amddifadrwydd o athrawiaeth; os erlid yr holl Gristionogion gwybodus ac siddgar trwy drais eu llysoedd, ydyw cadw ymraniad, y maent yn cadw draw ymraniad yn wir; a thrwy ddysgyblaeth o'r fath yma y mae yr Eidal i gyd, ac Ysopaen yn cael eu cadw mor bur a thrwyadl oddiwrth ymraniad ag yr oedd Lloegr ganddynt hwythau. Gyda chystal hawi y gallai y parlys ymfrostio wrth ddyn, 'Myf' sydd yn eich rhyddhad oddiwrth waew a phoenau, a'r teimlad blinderog o oerni a gwres, o archollion a dynnodiau: pe byddwn i wedi myned, byddai y rhai hyn i gyd yn eich blino.' Gallai y ganaf yn gystal ymfawrhau yn erbyn y gwanwyn, 'Yr ydwyf fi yn dinystrio bob rhyw niweidiol a thrwm-aroglaidd, yr ydwyf fi yn cadw i lawr bob torth heintus; wyt, a phob llysiaw iachus, a'r holl wllith boreuol, gan dy rew gorthrechus a chaethiwus; ond pan fydd yr awelon tyner o'r gorllewin yn agor mynweo ffrwythlawna y ddaear, fel hyn

wedi ei hamgylch-wregysu gan dy garchariad, yna mae y blodau yn tarddu allan ac yn blaguro, a'r pryd hyn y fe fydd yr haul yn gwasgar y niwl, ac fe fydd llaw achlesol y llafurwr yn dadwreiddio yr hyn oll sydd yn faich i'r tir heb gynnorthwy dy gaethiwd. Ond gwaeth o lawer nag unrhyw gaethiwd rhewog ydyw caethiwd y preladaid; oblegid am y llall, os cadwa i lawr unrhyw beth sydd yn dda o fewn y ddaear, felly hefyd y gwna yr hyn sydd ddrwg; ond mae y rhai hyn yn rhydd yn gollwng allan y drwg, ac yn cadw i lawr y da, neu yn cadw i lawr y drwg llai, ac yn gollwng allan y mwyafr."

Nid ydyw y breladaeth yn llywodraeth, ond yn orthrwm eglwysig, ac yn ei ffurf arglwyddaidd, yn hollol groes i symlwydd yr efengyl :—

"Er hyn rhaid i mi addef fy mod yn hanner ammhëus pa un a ddylwn ddwyn yn mlaen ai peidio, gan ei fod yn groes i lygad y byd, a'r byd mor gryf yn nghalonau y rhan fwyaf o ddynion, fel y byddaf mewn perygl naill ai o beidio cael fy ystyried, neu o beidio cael fy neall; oblegid pwy sydd, braidd, a feura ddoethineb & symlwydd, nerth & dyoddeaint, urddas & gostyngeiddrwydd? Pwy sydd a'i cyfrifa yn gynaf i fod yn olaf, yn rhywbeth i fod yn ddim, ac a'i cyfrifa ei hun o awdurdod mawr yn ei fod yn was? Eto Duw, pan fwriadai ddarostwng y byd ac uffern ar unwaith, rhan o'r naill i iachawdriaeth, a'r llall oll i golledigaeth, ni ddewisodd arfaen na chynorthwyon amgen na'r rhai hyn, pa un bynag ai i achub ai i ddinystrio. Buasai yn beth bychan iddo ef ddwyn allan ei lengau i ymfyddiniad, a'u hystlysu â'i daran; am hyn y fe anfonodd ffolineb i ddymchwelyd doethineb, gwendid i rwyng cryfder, diyttyrwech i orchfygu balchder; a dyma ddirgelwch mawr yr efengyl i ddangosir yn Nghrist ei hun, yr hwn, fel y tystiolaetha, ni ddath i'w wasanaethu ond i wasanaethu; ac y mae yn rhaid iddo gael ei gyflawni yn ei holl weinidogion hyd ei ail ddyfodiad. Yr oedd St. Paul yn ofni yn gymaint myned yn erbyn yr egwyddorion hyn, fel os buasai hyd yn nod yn ymestyn at ddoethineb geiriau yn ei bregethu, yr ydoedd yn meddwl y buasai yn cael ei osod yn ei erbyn ei fod un gwneyd croes Crist yn ofer.

"Os bu i Grist ein Harglwydd, i gyflawni gwaith yr efengyl, gymeryd arno agwedd gwaa, pa fodd y gall ei was yn y weinidogaeth hon gymeryd arno agwedd arglwydd? \* \* \* Yn awr, pa un a ydyw gwisgoedd rhwysgwawr, bywyd arglwyddaidd, cyfoeth, a phellder trahaus y breladaeth, y pethau distadl hyn o eiddo y byd, trwy ba rai y myn Duw drin dirgelwech ei efengyl, bydded i reswm cyffredin benderfynu. Canys fe ddywed Crist yn St. Ioan, 'Nid yw y gwas yn fwy na'i arglwydd; na'r hwn a ddanfonwyd yn fwy na'r hwn a'i danfonodd; ac ychwanega, 'Os gwyddoch y pethau hyn, gwyn eich byd os gwnech hwynt.' Gan hyn, ystyried y preladaid yn dda, os nad ydynt yn gwybod, nac yn gwneyd y pethau hyn, neu os ydynt yn gwybod, ac eto heb eu gwneyd, yn mha beth y mae eu dedwyddwch yn gynnwysedig. Ac fel hyn mae yr efengyl yn cael ei dirymu gan ffurf arglwyddaidd y breladaeth.

Ni fyddai ond sarhad ar y darlennydd i ni ddyweyd fod y darn yna yn fawreddig; yr ydym yn ei anrhydeddu yn gymaint a hyny o leiaf, ar antur megys, gan ei fod yn darllen y "Traethodydd," fel ag i gredu ei fod yn alluog i ymdeimlo â'i ardderchogrwydd: ond y mae genym sylw bychan i'w wneyd ar un gair ynddo a allai fod yn fanteisiol, fel allai, i rai o'n darllenwyr i'w ddeall yn well. Dyna y gair, "Buasai yn beth bychan iddo ef ddwyn allan ei lengau i ymfyddiniad, a'u hystlysu â'i daran; am hyn y fe anfonodd ffolineb i ddymchwelyd doethineb," &c. Yr anhawser a deimlir gan lawer mae'n debyg ydyw deal at beth y cyfeiria yr "am hyn" yn yr ail adran o'r frawddeg. Wedi iddo ddyweyd y buasai yn "beth bychan" i'r Anfeidrol ddwyn allan ei lengau i ymfyddiniad, eu gosod mewn trefn i ymladd, ac "ystlysu" y gwerysll ofnadwy â mawredd dychrynllyd ei daran, yr ydym yn dysgwyl ei gael yn ymgodi i ryw uchder mawr iawn i chwilio am beth *swy* na hyn, peth buasai yn gyfaddas at yr amcan uchel yr oedd peth mor fawr a llengau Duw, mewn ymfyddiniad, wedi eu hystlysu â'i daran, yn analluog i'w gyrhaedd,—yn "beth bychan" ar ei gyfer; ond yn lle ymgodi yn *uwch*, y mae yn disgyn, dybygem yn llawer *ie*, ac yn dyweyd fod yr Arglwydd, gan y buasai ei lengau mewn ymfyddiniad yn beth bychan,

*am hyn* yn anfon “ffolineb i ddymchwelyd doethineb, gwendid i rwymo cryfder,” &c. Mae “ffolineb,” “gwendid,” a “diystyrwch,” yn ymddangos yn gôriaid distadl iawn i feddwl iddynt fod yn fwy na llengau Duw wedi eu hystlysu â’i daran. Ond yr hyn sydd yn *ymddangos* yn suddiaith (*bathos*) yn y peth, mewn gwirionedd, ydyw ei arucheledd; y *mae* ffolineb, gwendid, a diystyrwch, wedi eu hanfon oddiwrth Dduw, yn fwy na dim galluoedd eraill yn ei ymherodraeth i gyd; a chan na fuasai anfon unrhyw lengau eraill ond “peth bychan,” fe wnaeth Duw *beth mawr*—gyrodd ei lu neill-duol, ffolineb, gwendid, a diystyrwch, gosododd ei nerth ei hun ynddynt, fel y maent yn gryfion fel Duw i ddymchwelyd doethineb, i rwymo cryfder, a gorchfygu balchder. “Canys y mae ffolineb Duw yn ddoethach na dynion; a gwendid Duw yn gryfach na dynion.”

Ond awn ymlaen. Dyfyniad eto,—Addurniadau a seremoniau y breladaeth yn groes i symlrydd yr efengyl:—

“Yr hyn yn nesaf a arddengys allu nefol ac a ddadguddia ddirgelwch dwfn yr efengyl, ydyw symlrydd pur yr athrawiseth a gyfrifir yn ffolineb yn y byd hwn, eto yn myned ar draws ac yn drysu balchder a doethineb y cnawd. Ac yn mha beth y mae y doethineb cnawdol a’r balchder yma yn gynnwysedig? Mewn bod yn hollol anwybodus o Dduw a’i addoliad? Nage, yn sicr; oblegid mae ar ddynion yn naturiol gywilydd o hyn. Yn mha le ynte? Y mae yn gynnwysedig yn y beiddgarwch hyf o drefnu addoliad a gwasanaeth Duw yn ol ewyllys dyn mewn traddodiadau a seremoniau. Yn awr, os ydoedd balchder a doethineb y cnawd i gael eu darostwng a’u dirymu, yr oeddynt felly yn ddtammheuol yn y fan hono lle yr ydoedd falchaf, ac yn ei dybied ei hun ddoethaf, fel y byddai buddygoliaeth yr efengyl yn fwy ardderech. Ond y mae ein preladiad, yn lle dangos gallu ysbrydol eu gweitidogaeth, trwy ryfela yn erbyn y prif wrthglawdd a’r amddiffynfa yma o eiddo y cnawd, wedi myned i gyngrair sicr a’r prif elyn yn erbyn pa un y’u danfonwyd, a throi nerth balchder a doethineb cnawdol yn erbyn symlrydd pur y gwirionedd achubol. Yn gyntaf, yn anobeithio canfod awdurdod eu hurdd yn sefydliad uniongyrchol Crist, neu ei apostolion, trwy dystiolaeth eglur yr efengyl, y maent yn dlanc at gynnorthwy cnawdol traddodiad; pan appeliwn ni at y Beibl, hwyntwy at gyfrolau amrosgo traddodiad; ac ni chywilyddiant wrthod ei ordeiniad ef, yr hwn sydd dragywyddol, am anwiredd gwyrdraws un cant ar bymtheg o flyneddau; yn dewis yn hytrach ystyried gwirionedd ei hunan yn gelwyddog, nag fod un oes ar bymtheg yn cael eu cyhuddo o gyfeillionrad, heb ystyried y gwrthgiliad cyffredinol a ragfynegasid, a ffoedigaeth yr eglwys i’r anialwch. Ac nid ydyw hyn yn ddigon; yn lle dangos y rheswm am eu sefyllfa isel oddiwrth esiampl a gorchymyn dwyfol, ceisiant brofi eu huchafiaeth uchel oddiwrth gyd-syniad ac awdurdod ddynol. Ond gadewch iddynt gôrganu hyd y dewisant am eu hawlfreintian, dywedwn ni wrthyt am ysgrythyr; am arferiad, ni am ysgrythyr; am actau a deddfau, o hyd am ysgrythyr; nes y bydd y gair bywiol a threiddiol yn myned i fewn at wahaniad eu henaid, a gwendid galluog yr efengyl yn tafu i lawr alluogrwydd egwan rhesymiad dyn. Yn awr am eu hymddygiad o fewn yr eglwys, pa fodd y darfu iddynt anffurfio a hacru y dysgleirdeb mwy nag angolaidd yma, tegwch digwmwl y grefydd Gristionogol, a gorthio tywyll o dorynau coelgrefyddol a gwiagiadau seremoniol? \* \* \* Dywedwch wrthyf, chwi offeiriad, paham yr awr yma, paham yr urdddillad a’r gwên-wisgoedd yma dros yr efengyl? Ydyw ein crefydd yn euog o’r troedd cyntaf, ac arni eisieu dillad i guddio ei noethni? Beth wna hyn yn angen na thafu gwaradwydd ar berffeithrwydd gweinidogaeth Crist, trwy geisio ei haddurno a’r hyn ydoedd feddyginiaeth dlawd ein cywilydd? Credwch, ddyngawdwyr mawreddog, mae pob cyffelybrwydd corfforol o sancteiddrwydd a phrydferthwch tufewnol yn awr wedi myned heibio; mae yr hwn a ddillada yr efengyl yn awr, yn arwyddo yn eglur fod yr efengyl yn noeth, yn anmhrydweddol, ac i mi beidio dyweyd yn waradwyddus. Peidiwch, chwi y gweithwyr eglwysig, pan y mae Crist yn cuddio ein noethder a’i wisg gyfiawn i’n gwneyd yn gymeradwy yn ngolwg ei Dad; peidiwch, fel yr ydywch yn gwneyd, a gordoi a chuddio ei wirionedd cyfiawn a dilladaeth halogedig eich seremoniau, i’w wneyd i ymddangos yn fwy gweddidaidd yn eich golwg eich hun,” &c.

Wedi dangos, mewn modd hyf a difloesgni, ddylanwad niweidiol y breladaeth ar y bobl, cawn ei sylw yn y geiriau hyn ar ei dylanwad peryglus

ar y gallu llywodraethol. Mae Mr. J. A., St. John, golygydd yr argraffiad hwn, yn dyweyd, yn un o'i nodiadau, ei fod yn anghytuno â Milton yn ei olygiadau ar y breladaeth fel yn beryglus i'r goron; fod y ddau allu yn cyd-dynu yn dda iawn: ond mae yn gweddu i ni gofio nad ydyw preladaeth y dyddiau hyn yn hollol yr un a phreladaeth dyddiau Milton, a'r amseroedd eraill hefyd, o hanes pa rai y dyga liaws o ffeithiau cryfion yn ei draethawd ar y "Diwygiad yn Lloegr," ac mewn manau eraill o'i weithiau, sydd yn dangos fod ysbyrd y breladaeth bob amser yn ymestyn am y pinael, eled y brenin a phawb eraill i'r lle yr elont. Y mae yn ein dyddiau ni yn cael ei gwyllo yn fwy manwl, a'i dal yn fwy danodd, ac am hyny fe'i gorfodir i *feiddio* llai: er ei bod eto weithiau, yn ddiarwybod megys iddi ei hun, yn dangos y "troed fforchog." Os ydyw ei dannedd wedi eu tori, mae ei hysbryd yn fyw yn ffyrnigrwydd y dyddiau gynt. Dywed awdur "Taith y Pererin," un arall, fel Milton, "o'r cedyrn a fu wŷr enwog gynt," am ryw "gawr" y sonia am dano,— "Er ei fod eto yn fyw, y mae, er hyny, oblegid henaint, a'r amryw ymosodiadau cyfrwys fu arno yn ei ieuencid, mor ysig ac anystwyth yn ei gymalau, fel na all yn awr wneuthur nemawr heblaw eistedd yn ngenau ei ogof, a chwyrnu ar y pererinion a fyddo yn myned heibio, a chnoi ei ewinedd am nad yw efe yn gallu dyfod atynt." Ond dyma y dyfyniad:—

"Dangosaf yn fyr, cyn terfynu, fod y preladiaid, fel y maent yn adwyth i'r deiliad, felly y maent y cilelynion a'r bradychwyr penaf a fodd y brenin, i'r hwn y maent yn ymddangos yn gyfeillgar iawn. Nis gallaf yn well gyfelybu sefyllfa a pherson brenin nag i'r Nazaread galluog hwnw, Samson; yr hwn, wedi ei ddysgyblu o'i enedigath yn rheolau ac yn yr ymarferiad o gymedroldeb a sobrwydd, heb y ddiod gadarn o ddyuniadau niweidiol ac anghymesur, a dyfa i fyny i nerth a pherffeithrwydd ardrchog gyda'i gudynau godidog ac araul, y cyfreithiau, yn chwifio ac yn ymfodrwyo o amgylch ei ysgwyddau mawreddus. A thra y cadwa hwynt o'i amgylch yn gyfa ac yn anghneifedig, gall â gen asyn, sef â gair ei swyddog distadlaf, ddarostwng a dwyn i ddinysr filoedd o'r rhai hyny a godant yn erbyn ei allu cyfiawn. Ond pan rydd ei ben i lawr yn nghanol gweniaith aflan y preladiaid, tra y cyasa, ac heb feddwl dim drwg, hwyntwry, yn ddygonus, yn eillio ymaith holl gudynau dysglar a phwysig ei gyfraith, a'i hawlfreintiau cyfiawn, y rhai oeddynt ei addurn a'i gryfder, a'i traddodant ef drosodd i gynghorion gwyrngam a thraws, y rhai, fel y Philistiaid hyny, a dynant ymaith lygaid teg a phellganfyddol ei graffder naturiol, ac a'i gwnant i falu yn ngharchardy eu dybenion anonest a'u dichellion yn ei gylch, nes y mae efe, yn gwybod fod yr ellyn breladaidd yma wedi ei amddifadu o'i nerth arferol, yn maethu eilwaith ei wallt grymus—pelydron euraidd cyfraith ac uniondeb, ac y maent hwythau wedi eu hysgwyd yn llym, yn taranu gyda dinystr ar benau y rhai hyny, ei ddrwg-gynghorwyr, ond nid heb hebl mawr iddo ei hun. Dyma swm eu gwasanaeth fyddlawn i freninoedd; eto dyma y dynion a waeddent yn wastadol, Y brenin, y brenin, eneinog yr Arglwydd! Caniatâwn ef, ac yr ydym yn rhyfeddu sut y dygwyddasant ddiagyn ar beth mor wir ac yn rhyfeddu mwy os ydyw breninoedd wedi eu heneinio gan yr Arglwydd, sut y meiddiant fel hyn iro drosodd a diwyno eneiniaid mor sanctaidd âg enaint llygredig a braenllyd eu budr weniath, yr hwn, tra y llyfnha y croen, a dery i fewn, ac a wenywyna waed y bywyd. Pa fyddlondeb a all breninoedd ddysgwyl oddiw'r y preladiaid? Gall anghreiffitiau yr amser a aeth heibio, a'n profiad ninnau o'u gweithrediaid y dydd hwn, lle mae yr oll a ddywedwyd wedi ei sylfaenu, fod yn ddigon i'n hysbysu. Ac os ydynt y fath gwtogwyr ar y gallu breninol, a chneifwyr y cyfreithiau, pa fodd y maent yn sefyll at y senedd sydd yn deddfroddi, chwychwi eich hunain, deilwng arglwyddi a chyffredin, a ellweh ddywedyd oreu; y rhai yr attaliwyd rhedfa eu gweithredoedd gogoneddus ac anfarwol yn unig gan amcanion isel a niweidiol y preladiaid, neu y torodd eu trabausder allan i'r fath sarhad hyf ag a gaethiwodd yn gyfiawn eu golygon ysgornllyd o fewn muriau cedyrn. Ac ni waethant ddim yn ddiweddar gyda mwy o ddiwydrwydd na cheisio rhwystre neu chwslu ymgynnulliad deddydd seneddau, pa mor anghenrheidiol bynag i adnewyddu cwfansoddiad drylliog a dadgymaledig y wladwriaeth; neu os methant wneyd hyn, i groesi, dinerthu, a goganu

pob gweithrediadau seneddol. Ac y mae hyn, pe heb ddim arall, yn profi yn eglur nad ydynt yn seolodau cyfreithlawn o'r tŷ, gan eu bod fel hyn yn wastadol yn ymderfygu yn erbyn eu corff eu hun. Ac er ein bod yn hōni, fel puten Solomon, fod ganddynt hawi i hyny, trwy y farn a roddodd Solomon, ni all berthynu iddynt, oblegid y maent, nid yn unig yn cydawnio, ond yn ymdrechu yn barhaus i ddybarthu seneddau yn eu hanner; ac nid yn unig trwy ddybarthu, ond trwy bob moddion arall, i ddirymu a dinystrio y rhydd-dddefnydd o honynt i'n holl olafaid. Oblegid yr hyn, a'u holl gamymddygiadau blaenorol, o ba rai ni all y llyfr yma, a llawer o gyfrolau yn yohwaneg, ddim cynnwys yr hanner, yr wyf yn eich cynhell, arglwyddi, ar ran, gallaf ddywedyd, llawer mair o Gristionogion da, i adael i'ch cyflawnder a'ch barn gyflwm fyned yn erbyn y drwgweithredwr mawr yma, preladaeth. Ac eto, yn nghanol llymder, atolygwn arnoch feddwl am drugaredd; a'r fath drugaredd (mae arnaf ofn gor-orydio gyda'r dymuniad o achub y breladaeth yma sydd ar syrthio).—y fath drugaredd (os gallaf feiddio ei ddywedyd) ag a ragorai ar hōno a fusaai am ddim ond am ddeg o rai cyflawn yn arbed Sodom. Nid am fy mod yn meiddio eich cynghori i ymryson â Duw, pa un ai efe ai chwi fydd fwyaf trugarog, ond eich ystyriaeth ddoeth i gymharu troeddau a dinasoedd pechadurus hyny a'r tarfysgoedd anferth yma o anhrefn annuwiol, a weithiodd preladaeth yn eglwys Crist ac yn halynt y deyrnas hon. Ac os ydych yn meddwl y gallwch gyda hyfder duwiol ymdrechu i fyned ymhellaach na Duw mewn trugaredd, ni fyddaf fi yn awr yn un a fynai eich gwrthannog. Er na fynai Duw arbed Sodom am lai na deg o rai cyflawn, eto os gallwch chwi ganfod, ar ol ymchwiliad teilwng, ddim ond un peth da mewn preladaeth, naill ai i grefydd neu lywodraeth wiadol, i frenin neu senedd, i dywysog neu bobl, i gyfraith, rhyddid, cyfoeth, neu ddysgidiaeth, arbedwch hi. Gadewch iddi fyw, gadewch iddi ymlledau yn eich plith, nes y byddo ei chyngod yn tywyllu ac yn gyru o'r golwg eich holl urddas a'ch anrhydedd, a holl ogoniant y tir. Ond o'r ochr arall, os canfyddir ei bod yn falcisus, yn eilynol, yn ddinystriol i'r rhai hyny oll, fel nad oes dim sicrach, yna bydded i'ch barn fanol ac amhleidgar efelychu y dialedd dwyfol; gwiawiwch i lawr eich gallu cosbawi ar y llywodraeth diddau a gorthrymus hon, a dygwch y fath Fôr Marw o ddadymchwiliad drosti, fel nad allo byth, yn y wlad hon, godi i fyny mwy i ffino yr eglwys ddiwygiedig ac etholedigion Duw.

Fel yr oedd areithydd mawr Rhufain, er's llawer dydd, yn son am i holl dalaeth Sicily lefaru ei theimlad allan mewn un llais yn gyhuddiad taranllyd yn erbyn Verres, felly, ysbryd galluog! y mae gwlad dy enedigwaeth, yn ein dyddiau ni, yn rhifo ei miloedd lawer, a hyny o'i meibion mwyaf goleuedig, ydynt yn barod i ategu dy weddi gyflawn ac ardderchog a'u hamen; ac nid ydyw yn debyg y bydd iddynt beidio llenwi y ffurfafen a llais eu gweddi—llais sydd i gryfhau fwyfwy; sydd i "fod yn fawr fel sŵn dyfroedd lawer," ac yn gryf fel rhuthr y llifeiriant, nes y gwrandu y senedd, ac y tafia y gorthrwm o breladaeth oddiar ysgwyddau y deyrnas fel maen melin i ddyfnder y môr. Mae yr ymgyrch yn gryf, ac i *gryfhau*. Mae yn groes i natur pethau i ni feddwl fod yn bosibl i'r breladaeth sefyll yn hir. "Mae yn rhaid i hōno," ebe John Foster, "fod yn adeilad dra chadarn; rhaid iddi fod o faint anferth, neu o sylfaen a chyfuniad o'r fath ardderchocaf, yn erbyn pa un y bydd y weilgi heb baid yn ymguro ac yn ewynu yn ofer."

Y gwaith nesaf ydyw ei draethodyn ar "Wir Grefydd, Heresi, Ymran- iad, Goddefiad; a pha foddion goreu ellir ddefnyddio yn erbyn cynnydd Pabyddiaeth." Cyhoeddwyd hwn yn y flwyddyn 1673, pan oedd ei awdur yn 65 oed, tua blwyddyn cyn ei farwolaeth. Dywedir mai dyma yr olaf a gyhoeddodd. Ei amcan ydyw dwyn yr holl enwadur i ryw rwymyn cyffredin o undeb a brawdgarwch, fel y gallent oll gydymdrechu yn effeithiol yn erbyn yr hyn a ystyriai efe yn "eilun-addoliaeth;" y "waethaf o'r holl goelgrefyddau, a'r drymaf o holl farnedigaethau Duw—Pabyddiaeth." Mae hwn yn bwysig, oblegid fod llawer wedi cymeryd mantais oddiwrtho i ddrwgdybio iachuswydd ei olygiadau ar athrawiaeth yr efengyl. Mae y llawer hyn yn cyfrif yn eu plith rai llênnyddion o gryn

enwogrwydd. Ond ni allwn ni deimlo yn sicraoch ar unrhyw fater o'r fath, na'u bod yn ei gamddeall yn hollol; ond yr ydym yn canfod nad oes genym le i fyned i mewn i'r mater, a dwyn ein rhesymau. Y mae, wrth geisio darbwyllo crefyddwyr i oddef eu gilydd mewn cariad, ac i gydweithredu fel brodyr yn erbyn yr archelyn, yn ceisio dangos iddynt eu bod oll yn cydgyfarfod ar wirioneddau bywydol yr efengyl, os oeddynt yn gwahaniaethu ar bethau llai; ac, mae'n debyg, mai y bai mwyaf yn y gwaith yw, ei fod (oddiar yr amcan goreu yn ddiammheu) yn chwilio yn rhy bryderus am undeb yn mysg elfenau oeddynt, fe allai, yn rhy wrthgyferbyniol i gymeryd eu rhwymo dan yr un gwregys. Gwyddys fod yr hyn y mae dyn yn syllu arno yn hir yn chwyddo dan ei lygaid, nes yr ymddengys iddo yn fwy o lawer nag y dylai, gan ei fod i'w farnu yn ei gysylltiad â phethau eraill. Yr oedd Horne Tooke yn syllu cymaint ar darddiad geiriau, nes methu gweled dim ond geiriau yn holl ddrychfeddyliau y ddynoliaeth. Gwelsom am un athronydd, yr hwn oedd dra hoff o wneyd oriorau, ei fod yn myned o'r diwedd i drin y meddwl dynol fel priawr; a'r modd yr ydoedd yn rhoddi cyfrif am beirianwaith y cof, ydoedd, trwy feddwl "fod *cadwren o ddrychfeddyliau wedi ei chylochddyrwyn i fyny yn y meddwl*; ac fod yr enaid yn cael allan yr *amser* sydd wedi myned heibio yn ol nifer y drychfeddyliau ydynt wedi eu gosod rhwng yr un yn y pen a'r un yn y canolbwyt." Mae athronwyr o nerth mawr wedi edrych cymaint ar *fater*, nes methu gweled dim arall; ac y mae llawer eraill o nerth mwy wedi edrych yn gymaint ar *feddwl*, nes colli eu golwg braidd ar yr holl fyd gweledig. Yn debyg efo'r mater dan sylw hefyd yr oedd Bardd Nantglyn, a lliaws gydag ef, yn edrych cymaint ar y *gwahaniaeth* oedd rhwng y pleidiau, nes dyweyd ei fod yn ddigon i beri i ni

"Ammheu dan y rhod

Oes uffern yn bod ai peidio;"

ond yr oedd Milton, oedd o feddwl anafesuroi uwch, yn edrych yn gymaint ar eu *tebygolrwydd* yn y traethawd yma, eu cyfarfyddiad, fel y tybiai ef, ar wirioneddau bywydol yr efengyl, nes eu cymhell oll i ddod at eu gilydd, yn undeb ffydd a chariad, i ymladd byddinoedd eu Harglwydd. Ond buasem ni yn gwaelodi ein hamddiffyniad iddo yn y gwaith yma ar y gwahaniaeth pendant a esyd yn y pumed adran o hono rhwng heresi a chyfeiliornad. Mae yn anhawdd genym feddwl na fyddai sylwi yn fanwl ar hyny, gyda chymorth meddwl rhydd a diragfarn, yn ddigon o agoriad i'r darllenydd i amgyffred y dyn mawr. Yr oedd ganddo, mae'n wir, rai syniadau lled ryfedd; ond y mae yn ddigon sicr i chwi fod gorfanylrwydd ei feirniaid wedi priodoli iddo, yn ei weithiau barddonol a rhyddieithol, lawer o farnau y buasai ei enaid ef yn neidio oddiwrth ynt fel oddiwrth wenwyn sarff. Maent yn gwahaniaethu yn ddirfawr yn mysg eu gilydd: sut y mae yn bosibl eu bod yn deall Milton ynte? Na, y mae yn rhaid iddynt ddringo i safle uwch, a'i astudio yn fanylach. Yr oedd Milton yn fwy na'i feirniaid;—yr oedd ei feddwl eryraidd ef yn cartrefu yn uwch o lawer na llwch y ddaear—nythai fry, fry, "ar ysgythredd y graig a'r lle cadarn;" ymgodai yn synych ar ei adenydd cryfion i'r uchelder, allan o olwg myrddiynau o'i gydfarwllion, esgynai, a syllai yn wyneb yr haul! Na ryfyger, ynte, i geisio deall y dyn yma yn ol rheolau celfyddyd rhif a mesur.

Y mae o bwys i ni fel cenedl gofio mai y cynghor oedd ganddo ef i'w roddi i'w gydwladwyr fel yr attalfa fwyaf effeithiol ar Babyddiaeth oedd, fod

iddynt, heblaw fel crefyddwyr, ymuno mewn brawdgarwch, fod yn ymdrechgar iawn i chwilio yr ysgrythyrau, nes dyfod yn gedyrn ynddynt, ac ymdrechu i ddwyn eu calon a'u bywyd dan lywodraeth eu purdeb.

"Y moddion olaf," meddai, "i ochelyd Pabyddiaeth ydyw, gwellhan ein bucheddan. Y mae yn gwyn cyffredin fod y geneud hon, yn ddiweddar, wedi myned yn fwy aml a rhyeddod mewn drygion nag mewn amser a fu; balchder, gloddest, meddwod, puteindra, rhegu, tyngu, anffyddiaeth hyf ac agored, yn amlhau yn mhob masu. Lle tyfa y pethau hyn, nid rhyfedd os ydyw Pabyddiaeth hefyd yn tyfu ar frya. Nid oes un dyn mor ddrygionus na fydd ei gydwylbod ar brydiau yn ei wasgu â meddyliau am fyd arall, a pherygl ei enaid; nid yw yn goddef yr tralloed a'r prudd-der a briodola i wir edifeirwch a diwygiad, ond tuedda yn hytrach at ryw goel-grefydd onawdol, a paro sio a thawelu ei gydwylbod â rhyw athrawiaeth fwy dymunol. Nid oes yr un yn fwy parod a swyddgar i'w chynnyg ei hunan na'r Rufeinig, ac egyr yn llydan ei swyddfa, gyda'i holl ryddfrentiau, i'w dderbyn; cyffesiad hawdd, rhyddhad hawdd, maddeuant, goddefiadau, offerenau drosto yn fwy ac yn fawr, *Agnus Dei*, creiriau, a chyffelyb: ac yntau, yn lle "gweithio allan ei ischawdwr-iaeth ei hunan trwy ofn a dyohryn," a feddylia yn y fan yn ei galon (fel ynydd gwahanol iddo ef yn y *Salmau*) am lwgr-wobrwyo Duw fel barnwr llygredig; a thrwy ei eglwysbrwy, rhyw offeiriad neu fynach, i brynu ei heddwch ag arian, yr hyn ni all â'i edifeirwch. Oblegid y mae Duw, pan y mae dynion yn pechu yn yageler, ac heb fynu eu rhybuddio, yn rhoddi heibio eu ceryddu, fe allai trwy haint, tân, cleddyf, neu newyn, y rhai a allent oll droi er eu lles, ac yn cymeryd i fyny ei gosbau trymaf, caledwch, syfrdandod calon, ac eilun-addoliaeth, i'w colledigaeth dragywyddol," &c.

Dyrnod eto oddiar haiarnddwrn Entellus! y "Traethawd ar allu gwladol mewn achosion eglwysig; yn dangos nad ydyw yn gyfreithlawn i unrhyw allu ar y ddaear i orfodi mewn achosion o grefydd." Y mae yn canfod, medd efe, fod dau beth, y rhai ydynt erioed yn peri llawer o niwed i eglwys Dduw a chynnydd y gwirionedd;—gallu ar un ochr yn attal, a chyfflog ar y llaw arall yn llygru ei dysgawdwyr. Gyda golwg ar y cyntaf, cymera y gorchwyl mewn llaw yn y traethawd hwn i ddangos nad oes gan un gallu yr un hawl i ymyrdd â chrefydd o gwbl, ond y dylai gael chwareu teg i sefyll yn ei nerth ysbrydol ei hun, heb ei llesteirio â'r un baich o sefydliad gwladol. Profa y mater yn benaf o'r ysgrythyrau. Ymddengys fod cnewyllyn y ddaedl yn erbyn ymyriad y wladwriaeth â'r eglwys yn cael ei gynnwys yn y geiriau hyn. Wedi dangos fod crefydd yn fater cydwylbod, ac fod cydwylbod yn gyfrifol i Dduw yn unig,

"Af ymlaen," meddai, "eto at reswm arall paham y mae yn anghyfreithlawn i'r swyddog gwladol ddefnyddio trais mewn achosion o grefydd; yr hyn ydyw, oblegid i farnu yn y pethau hyn, er i ni ganiatáu ei fod yn alluog, yr hyn a brofwyd nad ydyw, eto fel swyddog gwladol nid oes ganddo yr un hawl. Mae gan Grist lywodraeth o'r eiddo ei hun, yn ddigonol o honi ei hunan i'w holl amcanion a'i fwriadau yn llywodraethiad ei eglwys, ond yn dra gwahanol oddiwrth un y swyddog gwladol, ac mae y gwahaniaeth yn gynnwysedig yn benaf yn y peth yma, nad ydyw yn llywodraeth trwy alluallanol; a hyny oblegid dau reswm. Yn gyntaf, Am ei bod yn ymwneyd yn unig â'r dyn oddifewn a'i weithredoedd, y rhai ydynt oll yn ysbrydol, ac heb fod yn ddarostyngedig i allu allanol. Yn ail, i ddangos i ni ardderchogrwydd dwyfol ei deyrnas ysbrydol, yn alluog, heb nerth y byd, i ddarostyng holl alluoedd a theyrnasoedd y byd hwn, y rhai a gyntneir i fyny gan allu allanol yn unig. \* \* Gyda golwg ar yr ofn hwnw, rhag fod dynion halogedig a phenrydd yn cael eu calonogi i esgeuluso y cyflawniad o ddyledswyddau crefyddol a sanctaidd, sut y gall y gofal yna berthynau i'r swyddog gwladol, yn enwedig i'w drais? Oblegid os rhaid i bersonau halogedig a phenrydd beidio esgeuluso y cyflawniad o ddyledswyddau crefyddol a sanctaidd, mae hyny yn cynnwys y gallant gyflawni y fath ddyledswyddau, yr hyn ni haera yr un protestant. Gall y rhai a olygant y cyflawniad allanol ei esbonio felly; ac yna fe ymddengys eto yn fwy eglur, fod y fath gyflawniad o ddyledswyddau crefyddol a sanctaidd, yn enwedig gan bersonau halogedig a phenrydd, yn ddianrhydeddu yn hytrach nag yn gwasanaethu Duw, ac nid yn unig heb ei ofyn ganddo ond yn cael ei gasáu y *Diar*. xxi. 27. 'Aberth y rhai annuwiol sydd fisaidd; pa faint mwy pan offrymant mewn meddwl drwg? Gan hyny, y mae gorfodi yr halogedig at bethau sanctaidd yn ei halogedigaeth, yr un dan yr efengyl, ag fusasai gorfodi yr adan i aberthu yn ei afendid, dan y gyfraith. Ac ychwanega hefyd, fod gorfodi y penrhydd, yn ei benrhyddid, a'r cydwylbodol yn erbyn ei gydwylbod yn dyfod i'r un peth; yn tueddu nid at anrhydeddu Duw, ond at liosogi a thrwymau pechod i'r naill a'r llall. Nid ydym yn darllen fod Crist wedi defnyddio trais ond unwaith,



a hyny i yru rhai halogedig allan o'i dsmll, nid i'w gorfodi i fewn; ac os oedd eu bod yno yn drosedd, yr ydym yn canfod trwy liaws o Ysgrhythyrau eraill, fod eu gweddio yno yn ffeidd-dra: ac eto i'r gyfraith Iuddewig yr oedd y genedl yma fel gwas yn rhwym; ond i'r efengyl, y mae pob dyn wedi ei adael yn rhydd, yn cael ei alw yn unig, fel mab, trwy brogethiad y gair; ac nid i gael ei yru i fewn trwy gyfreithiau a grym arfau."

Ar ol dangos yn y traethawd yma anghyfreithlondeb ymyriad gallu gwladol & chrefydd, yr hyn ydoedd y cyntaf o'r ddau beth a nodasai oedd- ynt erioed yn gwneyd niwed mawr i eglwys Dduw, a chynnydd y gwirionedd, y mae yn y nesaf yn dyfod at yr ail beth, sef yr effaith oedd cyflog yn gael o fewn yr eglwys i lygru ei dysgawdwyr. Enwa y traethawd yma, "Ystyriaethau ynghylch y moddion tebycaf i symud cyflog-ddynion<sup>1</sup> allan o'r eglwys." Buasai yn ddfyfr i sylbi yn fanylach ar y traethawd dysgedig ac ymresymiadol hwn. Moddion y feddyginiaeth ganddo ydyw tynu ymaith o'r eglwys bob cynnorthwy gwladol, mewn degymau, trethi, a'r cyffelyb, a gadael i'r gweinidogion gael eu cynnal yn ol y gair, trwy gyfraniadau gwirfoddol y rhai a ddysgir ganddynt. Y mae yn hwn, fel yn ei holl draethodau, yn dangos calon sydd yn casáu y dyn a faidd, er mwyn budr-elw, ymgymeryd & chyfrifoldeb ofnadwy y weinidogaeth, ac hefyd yn ymawyddu gyda difrifwch prophwyd am gael y wlad i ymdeimlo âg ysbrydoirwydd gogoneddus crefydd yr efengyl.

Ni allwn ochel y brofedigaeth o godi un dernyn bychan eto, ond dim yehwaneg, o'r "Esgusawd dros Smectymnuus." Doniau gweinidogion y gair yn dwyn delw eu cyfansoddiad naturiol. Mae y rhan gyntaf o'r dyfyniad yn athronyddol i'r eithaf, tra mae y darluniad o zel yn y rhan olaf o hono yn arddunawl fel "Coll Gwynfa"—ie y chewched llyfr!

"Yr hyn ydoedd oll ynddo ef [Crist] a ranwyd yn mysg lliaws o rai eraill, dysgawdwyr ei eglwys; rhai i fod yn llym ar bob amser o bwysigrwydd difrifol, fel y gallont ennill y cyfryw, a ohadw i lawr yn achlysurol y rhai ydynt o natur hyderus a llawen; eraill a anfonwyd yn fwy siriol, rhydd, ac yn wastad megys at eu hewylls, yn nghanol gonest- rwydd anhroseddol; fel y byddo iddynt hwy ydynt o'r fath dymher gael trwy be rai y gallont gael eu dwyn i ischawdwriaeth, ac fel y gallont hwy y rhai ydynt rŷ betrusgar, ac isel o ysbryd, gael yn fynych eu cadarnhau & dyddanwch ac adnewyddiad; heb un dyn yn cael ei orfodi i ddinystrio yn hollol y seilwaith hōno o eiddo natur a grëodd Duw ynddo ef, y gwroesog i ymwaghaus o'i holl fywiogrwydd cymdeithasgar, y nwydyllt i yru ymaith yn llwyr gryfder dibechod ei ddigofaint; ond fod pob tuedd a nwyd wreiddiol, wedi effeithio arni a'i chyweirio fel y dylai, i gael ei gwneyd yn ffurf a seiliad priodol doniau a rhinweddau neillduol pob dyn. Rhai hefyd a gynnysgaethwyd & chymesuredd arafaidd a grymusder ymresymiad, i ddysgu ac argyhoeddi yr hybwyll a'r ystiriol; eto am hyny nid yw hon i'w hystyried yr unig ffordd anghenrheidiol o ddysgu, oblegid mewn amseroedd o wrthwynebrwydd, pan naill ai yn erbyn heresiau newyddion y cyfodi, neu hen lygredigaethau i'w diwygio, nad ydyw addfwynder llariaidd a digyffro doethineb yn ddigon i ddiffodd a brawychu gwrthwynebiad balch dysgawdwyr cnawdol a gau—y pryd hyny (ac i mi gael cenad i ymgodi am ychydig fel y gwna y beirdd) zel, sylwedd yr hwn sydd nwyf- riawl, yn ymarfogi mewn adamant cyflawn, a esgyna ei gerbyd tanllyd, yn cael ei dynu gan ddau o aruchion ffamiliol, o ymddangosiad fel anifeiliaid, ond o rywiogaeth uwch nag un o'r rhai sydd yn yr awyrgloch, yn debyg i ddau o'r pedwar hyny a welodd Ezeziel a St. Ioan; yn & i'w wyneb fel llew, i ddangos gallu, awdurdod uchel, a digloneidd; y llall o wynebrwyd fel dyn, i dafu gwaredwydd a dirmyg ar hudwyr gwrthynysig a thwyllodrus: gyda y rhai hyn y rhyfelwyr anorchfygol, zel, gan ysgrwyd yn rhydd yr awenau lleision, a yr dros benau prelaidiaid ysgarladliw, gyda y rhai ydynt ystyfnig am ddael traddodiadau, gan falurio eu gyddfau anhyblyg dan ei ffamillyd olwynion."

Bellach rhaid i ni adael y gweithiau hyn, er fod amryw o draethodau, &c., o rym cawraidd, ac yn cynnwys lliaws mawr o frawddegau o brydferthwch anghymharol—

"Woven close, both matter, form, and style,"

fel y dywed ef ei hun yn un o'i sonnets, am un o honynt, sef y "Tetrachordon," heb hyd yn nod eu henwi genym. Ysgrifennodd Macaulay am ei

<sup>1</sup> *Hirelings*—y rhai a arosant yno yn unig er mwyn y cyflog.

weithiau rhyddieithol, eu bod yn "faes perffaith o frethyn aur." Hyderwn ein bod wedi gwneyd digon i alluogi ein cydwladwyr i ymdeimlo i raddau yn briodol âg uchder eu teilyngdod, ac i weled mor haeddiannol ydyw eu hawdur galluog o'n hedmygedd a'n cariad. Yr ydym wedi dysgu ym-grymu ger ei fron fel *dyn mawr*; ond y mae yna beth arall sydd yn an-nhraethol fwy mewn pwysigrwydd a dyddordeb—mae eisieu i ni ddisgu ei garu fel *dyn da*. Yr ydym yn teimlo ar ol darllen ei weithiau ei fod ("fallen on evil days"), mewn ystyr uchel a chyffredinol, yn apostol diwyg-iad. Yr oedd ei feddwl yn ddigon annibynol i edrych heibio i ffurfiau ac opiniynau oeddynt wedi eu sefydlu er's oesoedd, ac yr oedd eu hynafiaeth a'u hawdurdod yn dattod gwroldeb y dyn a feiddai eu hystyried yn llai nag anfaeledig, ar wyneb y gwirionedd ei hunan; ac yr oedd ei ddewrder ac onplygrwydd ei ysbryd yn ei alluogi i lefaru syniadau y gwirionedd pe buasai y byd yn ei wrthwynebu. Canfyddai fod y byd o'i le, ac amcanai yn onest, gydag ymdrechion diorphwys, ac aiddgarwoh fel aiddgarwoh apostol, i wneyd ei ran at ei ddwyn yn ol. Yr oedd sylfeini ei ddiwyg-iadau ar bob peth yn myned yn ddigon *dyfnion*. Ac er fod ei syniadau weithiau fel pe byddent yn rhy bell, ac weithiau braidd yn rhy *ideal*, eto yr ydym yn gallu teimlo yn dyner tuag ato, a meddwl i ba le nid âi y rhan fwyaf pe byddent yn meddwl gyda gradd o ymroddiad Milton? a beth fyddai yn anmhosibl i genedl o Filtoniaid? Yr oedd ei olygiadau ar beth oedd dyn i fod, yn cael eu mesur allan oddiar y safle uchel yr oedd efe ei hun yn sefyll arni, nid oddiar safle y byd; yr ydoedd yn eu cael o'r fan yma yn ymestyn i bellter mawr mewn doethineb, ac elfenau gogoneddus delw Duw, mawredd a daioni. Ac erbyn edrych ar bethau fel yr oeddynt—mor bell oddiwrth yr hyn y dylasant fod—nid rhyfedd ei fod yn mhob man, ac ar bob adeg, yn ymladd yn erbyn gorthrwm a rhagrith, ac yn gwneyd ei oreu i ddwyn cyfiawnder i'r orsedd, a rhyddid i'r galon. *Methodd*: do!—ond dyna y prawf goreu, fe allai, o fawredd a didwylledd ei ymdrechladau. Bu i'r gronyn gwenith, wedi ei fwrw i'r ddaear, farw; ond *bu farw* mewn trefn i ddwyn ffirwyth lawer. Nid ydyw yn debyg y bydd i'r argraff ddaionus a adawodd Milton ar ei ol, ie, yn y pethau yr ymddang-osai fwyaf afiwyddiannus, beidio effeithio yn fendithiol ar y byd ymhell wedi y diwrnod, pan, yn ol prophwydoliaeth farddonol Macaulay, "y bydd yr ymdeithydd o New Zealand yn cymeryd ei safle ar bont Llundain, mewn unigrwydd äang, i dynu darlun o adfeilion St. Paul:" nid ydyw yn debyg y bydd iddo beidio effeithio yn fendithiol ar y byd hyd ddydd mawr toddiad yr elfenau.

## NODIADAU AR LYFRAU.

*Yr Amserau Presennol.* Gan JOSHUA LEWIS, Henllan.

Y MAE Mr. Lewis yn un o'r gweinidogion parchusaf yn ysg yr Annibynwyr; yn un sydd yn meddu ar feddwl o'i eiddo ei hun, heb gymeryd ei ddenu o ffordd gwirionedd gan bob huddlewyn, na'i gylch-arwain gan bob awel dysgeidiaeth. Yn y traethawd hwn, yr hwn sydd yn cynnwys ei olygiadau ar beryglon ac an-sawdd yr "Amserau Presennol," y mae yn dangos sylw treiddgar, teimlad cref-yddol, a chwaeth coethedig. Yr ydym yn cydweled âg ef yn hollol, ei bod "o bwys neillduol i ni ddeall yr amserau presennol; amserau neillduol ydynt.

Egwyddorion newydd a nerthol ydynt yn ymweithio ac yn ymgynhyrfu yn ngwaelodion cymdeithas. Canfyddir arwyddion eglur ei bod mewn sefyllfa o ymgynfnewidiad. Bydd yr amserau dyfodol o gymeriad tra gwahanol i'r rhai presennol. Ein diogelwch a'n llwyddiant sy mewn gwyliadwriaeth, gwaith, a gweddi."

Dechreuas Mr. Lewis ei bennod gyntaf gyda Gwladymddiaeth; ac anghymeradwya "y cynfnewidiad sydd wedi cymeryd lle yn meddyliau llywodraethwyr y deyrnas mewn perthynas i ddyledswydd y llywodraeth tuag at addysg a moesau y werin." Y mae ei sylwadau ar hyn yn deilwng o ystyriaeth. Nis gellir amheue nad yw ein seneddwyr yn efelychu llywodraethau y Cyfandir i raddau gormodol, yn eu hymgais i gymeryd holl achosion y bobl i'w dwylaw eu hunain. Mae yn gofyn hunan-ymwadiad mawr cyn y gall dyn weithio yn ddystaw yn ei gylch ei hun; ond trwy ddwyn ei bwnc ymlaen yn y senedd, mae yn codi ei hun i enwogrwydd, ac ar yr un pryd yn arbed ei logell. Pe bai ein llywodraethwyr yn rhoddi cynllun i'r wlad trwy weithio eu hunain yn fwy egniol ar egwyddorion anhleiddgar, gwnaent y gwaith yn gynt ac yn well. Ond *pe bai* ydyw hyn; fel arall y mae. Ac yn awr, y gofyniad yw, Gan fod y llywodraeth yn mynu cyfranu arian at gynnal addysg, a yw yn ddyledswydd ar Ymneilldŵyr eu gwrthod? Yr ydym ni yn barnu nad ydyw. Buasem yn caru gweld ysbiadau Mr. Lewis ar y pwnc hwn. Y mae yma wahaniaeth hanfodol; ac nis gall un o'i gynneddfau ef lai na'i ganfod.

Yn y lle nesaf, y mae Mr. Lewis yn sylwi ar Athroniaeth yr oes yn ei pherthynas & chrefydd. Nid yw ysgrifenyddwyr Cymru ond dechreu agor eu llygaid ar athroniaeth y meddwl. Mawr oedd ein syndod yn ddiweddar wrth weled Dr. Brown yn cael ei enwi a'i ddilyn mewn cylchgrawn Cymreig fel tywysog yr athronwyr. Ond y mae Mr. Lewis yn dangos ei fod yn gydnabyddus âg awdwr penaf y Cyfandir; ac y mae yn rhaid addef mai yno y cododd y meddyliau mwyaf grymus a gwreiddiol. Yr ydym yn foddolawn iddo dynu Cousin i lawr; oblegid nid ydyw ond dynwaredwr digrefydd; ond prin y gallwn feddwl ei fod wedi gwneyd cyflawnder & Kant, yr hwn a wnaeth fwy na neb i droi yn ol anffyddiaeth y ganrif ddiweddar, ac i roddi cychwyn newydd mewn cyfeiriad mwy ysbyrdol i'r meddwl dynol. Y mae cymaint o wahaniaeth rhyngddo ef a'i olynwyr yn Germani ag oedd rhwng Locke a'i olynwyr yn Lloegr.

Y perygl mwyaf sydd yn ein bwgwth o Germani yw dduwinyddiaeth a'r feirniadaeth ysgrhythol sydd yn deilliaw oddiyno trwy gyfrwng y waag Seisnig. Heb son dim am ysgrifenyddau anffyddwyr Germani, y rhai sydd yn oael eu cyfieithu a'u cyhoeddi yn Llundain, nid yw y rhai goreu yn ddberygl i ieuentyd Cymru. Cymerwn Neander, fel anghraifft. Dyn mawr a dyn da oedd Neander. Er hyny, y mae achos i ofni ei fod wedi effeithio yn ddrwg ar lawer yn Lloegr, ac y gwna felly ar rai ieuentyd meddylgar yn ein plith ninnau. Dylid cofio ei fod ef unwaith yn anffyddiwr trwyadl, a'i fod yn dyfod yn raddol yn fwy efengylaidd hyd y diwedd. Yr oedd efe wedi cefnu ar ei henegwyddorion, ac yn cadw ei wyneb yn sefydlog ar ryddid y gwirionedd: ond y mae y rhai a elont i'w gyfarfod o Gymru yn cefnu ar y gwirionedd, ac yn gwynebu ar dywyllwch anffyddiaeth.

Yn yr adran nesaf, yr ydym yn cael sylwadau addysgiadol ar Babyddiaeth; ac nid ymddangosant yn anamserol i'r rhai sydd yn gwybod ond ychydig am ystrywiau y Jesuitiaid. Ond i'n tyb ni, nid yw y Pusiaid un mymryn gwell, ac nid yw eu hystrywiau yn llai dichellgar. A'r hyn sydd yn eu gwneuthur yn fwy peryglus ydyw eu hundeb a'r Eglwys Sefydledig, yr hyn sydd yn rhoddi mantais iddynt ddylanwadu, nid yn unig ar foneddigion, ond hefyd ar y cyffredin a'r tlodion. Y mae cyfoeth y wlad yn eu dwylaw; ac y mae lliaws i'w cael eto, y rhai a werthent Grist ei hun am lai na deg ar hugain arian. Ac heblaw hyny, y mae toraeth o bobl anwybodus yn tybied, os gwelant weinidog yr Eglwys Sefydledig yn lled weithgar, fod yn rhaid iddo fod yn ddyn da; heb ystyried nad oes neb yn fwy gweithgar na'r Jesuitiaid. "Amgylchu y maent y môr a'r tir i wneuthur un proelyt; ac wedi y gwneuler, y maent yn ei wneuthur ef yn fab uffern, yn ddau mwy na hwy eu hunain."

Rhwng y peryglon hyn oddiwrth Anffyddiaeth ar un llaw, ac oddiwrth Bab-

yddiaeth yr Eglwys Sefydledig ar y llaw arall, onid yw yn bryd i Brotestaniaid efengylaidd Cymru ddyfod yn fwy agos at eu gilydd? Oni fyddai yn hawdd iddynt gynnal un cyfarfod blyneddol i gydweddio, a chydymgyngori mewn perthynas i waith ac achos yr un Meistr? Gallent wneuthur lles dirfawr trwy gyhoeddi traethodau a lyfrau buddiol, a thrwy sefydlu un ysgol gyffredinol i'r Cymry. Nid ydym yn myned i ddysgu ein brodyr. Yr oll a amcenir yw cynnyg y mater i'w hystyriaeth, gan adael iddynt hwy furfio cynlluniau a rheolau fel y gwelont yn addas. Ond cofier mai nid undeb er mwyn ymddangosiad sydd yn eisieu, ac nid undeb ychwaith er mwyn siarad, ond *undeb i weithio*.

Nis gallwn gymaint a chrybwyll yr holl faterion yr ymdrinir â hwynt gan Mr. Lewis; ond dymunem gyfeirio yn benodol at ei sylwadau ar ddysgyblaeth. Nid oes dim yn fwy pwysig na phurdeb mewn dysgyblaeth eglwysig; a dylid dechreu yn ddioced gyda'r pregethwyr. Credwn fod pregethwyr yr Ymneillduwyr, at eu gilydd, yn deilwng o bob parch: ond y mae ychydig eithriadau; ac y mae yr ychydig hyn fel gwibed meirw yn gwneyd y weinidogaeth yn ffiائد a dirmygus. Y mae yn *rhy ddrwg* fod gweinidog, pan yn rhy anfoesol i'w oddef mewn un eglwys, yn cael derbynriad yn ebrwydd mewn rhan arall o'r Dywysogaeth. Y mae galwad uchel am i ryw rai sefyll rhwng y byw a'r meirw, fel y byddo i'r pla hwn gael ei attal. Ymddangosodd anerchiad grymus i'r perwyl hwn yn ddiweddar mewn rhai o gyhoeddiadau y Bedyddwyr, o waith Mr. W. Jones, Pwllheli, a byddai yn dda i bob Ymneillduwr ei ddarllen. Gelynon gwaethaf Cristionogaeth yw pregethwyr anfucheddol. Pa gymhwysderau bynag a fyddo ar ol mewn esgob, y mae yn *rhaidd iddo fod yn ddiarogyhoedd*.

Derbynied Mr. Lewis ein diolchgarwch am ei draethawd. Gobeithiwn yr â ymlaen yn ei ymdrechion clodwiw i godi a choethi meddyliau ei gydwladwyr.

#### *Gramadeg Cymreig.* Gan W. WILLIAMS (*Caledfryn*).

NID oes achos dywedyd pwy ydyw Caledfryn. Nid ydym yn sicr na ddeuai llythyr i'w law yn ddiogel, o'r India neu Awstralia, heb un cyfeiriad na chyfarwyddyd mwy na'r ddaur air, *Caledfryn, Europe*. Nid yw hyn mor anhygoel ag y gallai ymddangos ar yr olwg gyntaf; oblegid anfonid ef yn naturiol i Lundain i ddechreu; ac yno ni byddai yn hir heb gyfarfod â rhyw Gymro i'w gyfeirio i Lanrwst. Cymereh y cych a fynoch o fewn y byd Cymreig, pa un bynag ai gwladyddiaeth, ai barddoniaeth, ai ieithyddiaeth, ai beirniadaeth, ai misolion, ai newyddiaduron, ai cymdeithas dirwest, ai cymdeithas heddwch, y mae Caledfryn yn adnabyddus yn mhob un. Aneirif yw y brwydrau a ymladdodd, weithiau o blaid, ac weithiau yn erbyn; weithiau i fyny, ac weithiau i lawr; weithiau yn ennill, ac weithiau yn colli. Ond pa un bynag ai ennill ai colli, ni chlywodd neb erioed son ei fod yn ildio. Arabiad yr anialwch ydyw, heb fod dan deyrnged i neb, ac heb fedru cyfyngu ei hun i un lle nac at un gorchwyl. Bydd yn sicr o feirniadu ar y frawddeg olaf hon, am nad yw ei hystyr yn ddigon amlwg; ond nid oes genym amser i'w diwygio. Hyderwn na ddigia wrthym os dywedwn fod ynddo lawer o debygolrwydd i'r hen Cobbett. Nid rhaid iddo deimlo yr anffodlonrwydd lleiaf i gael ei gyffelybui i hen wron y "*Register*;" oblegid yr oedd Cobbett yn un o'r ysgrifenywyr galluocaf yn ei oes. Y mae tebygolrwydd mawr yn eu dull o feirniadu. Mae y ddau yn dra hoff o'r ymarferol. Yr oedd Cobbett hefyd a'i law yn erbyn pawb, a llaw pawb yn ei erbyn yntau; ac yn hyn dra-cheffn, os nad ydym yn cymysnied, y mae gradd bychan o gyffelybrwydd rhyngddo ef a Chaledfryn.

Ond "Gramadeg Caledfryn" sydd yn awr dan ein sylw. Mae yn hawdd i ni ddyweyd ein barn am dano mewn ychydig eiriau. Fel esboniad ar athroniaeth yr iaith *nid* yw yn rhagori. Ond dylid barnu pob llyfr wrth amcan yr ysgrifenydd; ac y mae yn amlwg mai amcan Caledfryn oedd rhoddi cyfarwyddyd ymarferol i gyfansoddi a darllen Cymraeg. I'r dyben hwn, ni phetruswn ddywedyd mai dyma y Gramadeg goreu tuhwnt i bob cymhariaeth.

DIWEDD LLYFR VIII.

Amos 5: 1-17

4. Principios de la Ley

1. Amos 5: 1-17

